



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>

Call 142.50



Harvard College Library




FROM THE BEQUEST OF

THOMAS WREN WARD

**TREASURER OF HARVARD COLLEGE
1830-1842**









2

Y TRAE THODYDD

AM Y FLWYDDYN 1895.

LLYFR L.

TREFFYNNON: P. M. EVANS AND SON.

MDCCCXCV.

Oct 14 2.50



Ward fund

36-14

CYNHWYSIAD.

IONAWB.

	Tu dal.
Esgobyddiaeth. Gan y Paroh. Daniel Rowlands, M.A.	1
Addysgiaeth Amaethyddol yng Ngogledd Cymru. Gan Douglas A. Gilchrist, B.Sc.	30
Ymson yr Afradlon. Gan Dyfed	36
Duwinyddiaeth yr Hen Destament yng Ngoleuni Beirniadaeth Ddiweddar. Gan y Paroh. Griffith Ellis, M.A.	37
Pregethu Crist. Gan y Paroh. James Charles	48
Duwinyddiaeth Athrawiaethol Dr. Shedd. Gan y Prifathraw T. C. Edwards, M.A., D.D.	56
Y Ddwy Ochr i'r Ddalen, gan Ddau Eglwyswr	62
Torri Tywarohen Rheilfordd y Wyddfa. Gan Obadeia Dafydd ...	78
Nodiadau Llenyddol	77

MAWRTH.

Yr Iesu yn Offeiriad drosto ei Hun. Gan y Paroh. William Glynn, B.A.	81
Beth yw Bywyd? Gan y Paroh. H. Cernyw Williams	91
Charles o'r Bala fel Cymreigydd. Gan yr Athraw J. Young Evans, M.A., o Athrofa Treseoca	93
Y Waen Fawr, ddeugain mlynedd yn ol. Gan Richard Jones	102
I'r Erwydr. Gan Obadeia Dafydd	116
Eglwys Loegr a Phobl Cymru. Gan y Gwir Anrhydeddus G. Osborne Morgan, A.S.	118
Cyfundrefn Grefyddol China a Japan. Gan y Paroh. D. Lloyd Jones, M.A.	131
Cymdeithas Ymdrech Gristionogol y Bobl Ieuainc. Gan y Paroh. J. Mostyn Jones	137
Cyfieithiad Dr. Briscoe o'r Testament Newydd	148
Nodiadau Llenyddol	155

MAI.

Llythyrau Ignatius. Gan y Profleswr Anwyl, M.A.	161
Ymohwil Enaid am Dduw. Gan y Paroh. John Owen, B.A.	173
Trysorau Cuddiedig. Gan H. R. Jones	180
Y Ddadi ar y Gydwybod: A ellir ei dysgu? Gan y Paroh. W. Ryle Davies	184
Dr. Arnold. Gan Anna Rowlands, B.A.	191
Duw yn yr Hen Destament. Gan y Paroh. E. O. Davies, B.Sc. ...	210
Yr Ail Ddarlleniad. Gan y Paroh. Daniel Rowlands, M.A.	224
Nodiadau Llenyddol	239

GORFFENNAF.

	Tu dal.
Cyfundrefn Grefyddol China a Japan. Gan y Parch. D. Lloyd Jones, M.A.	241
Milton a'i Gynllun Addysg. Gan David Samuel, M.A.	251
Offeiriadaeth a Chyfyryngdod. Gan y Parch. William Glynnne, B.A.	261
Profiad Prentis o Siopwr Ddeugain Mlynedd yn ol	269
Traethodau Llenyddol Dr. Edwards. Gan y Parch. John Prichard	276
Rhesymoldeb Addoliad. Gan y Parch. J. J. Roberts	281
Charles o'r Bala fel Cymreigydd. Gan yr Athraw Young Evans, M.A.	290
Syr Lewis Morus.	296
Y Ddau Ddadsefydlu. Gan y Parch. Daniel Rowlands, M.A.	297
Canghellydd Prifysgol Cymru.	314
Nodiadau Llenyddol	316

MEDI.

Yr Addysgiaeth Uwch a Bywyd Cenedlaethol Cymru. Gan y Proffeswr Henry Jones, M.A.	321
Dr. John Cairns. Gan y Parch. William Evans, M.A.	335
Mae Gwynnach Dydd. Gan Glan Alaw	345
China a Japan. Gan y Parch. H. Ivor Jones	346
Y Syched am Dduw. Gan y Parch. W. O. Jones, B.A.	360
Gweddî yr Arglwydd a'r Deg Gorchymyn. Gan y Parch. Robert Williams, M.A.	378
Llanwrtyd. Gan y Parch. John Myfenydd Morgan	380
Y diweddard Barchedig Rees Jones, Felinheli. Gan y Parch. G. Tecwyn Parry.	381
Nodiadau Llenyddol	392


TACHWEDD.

Dr. R. W. Dale. Gan y Parch. John Prichard, Birmingham	401
Cyfundrefn Grefyddol China a Japan. Gan y Parch. D. Lloyd Jones, M.A.	412
Bedd a Barn. Beddargraff ym Mynwent Rwlchgwyn	421
Y "Fasnach," ac Iawn i Dafarnwyr. Gan Eleazar Roberts, Hoylake	422
John Penry, y Merthyr Cymreig. Gan y Parch. John Davies, Bontddu	439
Y Dymchweliad. Gan y Parch. Daniel Rowlands, M.A.	451
Nodiadau Llenyddol	473

8
1895

Celt 142.50

LLYFR LŶ



RHIFYN CXXII.

Y TRAETHODYDD.

IONAWR, 1895.

CYNHWYSIAD.

Esgobyddiaeth. Gan y Parch. DANIEL ROWLANDS, M.A. /	1
Addysgiaeth Amaethyddol yng Ngogledd Cymru. Gan DOUGLAS A. GILCHRIST, B.Sc.	30
Ymson yr Afradlon Gan DYFED... ..	36
Duwinyddiaeth yr Hen Destament yng Ngoleuni Beirniadaeth Ddiweddar. Gan y Parch. GRIFFITH ELLIS, M.A.	87
Pregethu Crist. Gan y Parch. JAMES CHARLES... ..	48
Duwinyddiaeth Athrawiaethol Dr. Shedd. Gan y Prifathraw T. C. EDWARDS, M.A., D.D.	56
Y Ddwy Ochr i'r Ddalen, gan Ddau Eglwyswr	62
Torri Tywarchen Rheilffordd y Wyddfa. Gan OBAERIA DAFYDD	73
Nodiadau Llennyddol... ..	77

CYHOEDDIR Y RHIFYN NESAF MAWRTH 1, 1895.

PRIS SWLLT.

TREFFYNNON:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDwyd GAN P. M. EVANS & SON.



Y TRAETHODYDD.

ESGOBYDDIAETH.

Yr oedd ein cydwladwr parchus, Esgob Bangor, dro yn ol, wrth annerch cyfarfod clerigol yng Nghroesoswallt, yn traethu am y dymunoldeb o gael Aduniad ar bobl grefyddol y wlad hon, ac felly gyflawni y dymuniad dyrchafedig yng ngweddi yr Iachawdwr, "Fel y byddont oll yn un," a dywedai, Nad oedd dim yn eisieu tuag at ddwyn hyny oddiamgylch yng Nghymru, ond cael Methodistiaid y dyddiau hyn i goledd at yr Eglwys yr un teimladau caredig ag a goleddai eu tadau, y rhai a ddymunent fyw mewn cysylltiad â hi, a marw o fewn ei chymundeb. Ychwanegai hefyd, y gallent gario y gwaith ymlaen yn y Capelau fel cynt, ond dyfod i'r Eglwys i gymuno. Deallwn hefyd ei fod yn dweyd peth tebyg ar o leiaf un achlysur arall, er nad ydyw eto wedi ei dybied yn addas i yngan gair am y fath beth mewn modd ffurfiol wrth y Methodistiaid eu hunain. Amlygai y diweddar Ddeon Edwards hefyd wrth weinidog Methodistiaidd sydd eto yn fyw, ddymuniad cryf am gael y bobl hynny i'r Eglwys i gymuno,—"pe na byddai," meddai, "ond unwaith yn y flwyddyn." Atebai y gweinidog na theimlai efe, o'i ran ei hun, nemawr wrthwynebiad i hyny, a chan feddwl mai yr hyn a olygai y Deon oedd meithrin brawdgarwch efengylaidd, fe ofynnodd, "A fuasech chwi weithiau yn dyfod i gymuno gyda ni, dywedwch mewn manau fel Moriah, Caernarfon, neu Dabernacl Bangor, lle y gallai llawer yn gyfeus gyd-eistedd." "O na," ebai yntau ar drawiad, "fe fyddai hyny yn beth arall." Nid ydym yn deall a ofynnwyd cwestiwn cyffelyb i'r Esgob; pe gwnelsid, mae'n debyg mai cyffelyb fuasai ei ateb. Y mae un arall, sydd yntau yn awr yn Esgob Cymreig, a fu am gryn amser, pan mewn sefyllfa is, yn amlygu dymuniad cryf am gael Cristionogion y wlad hon i undeb agosach â'u gilydd, yn enwedig yn y pethau mawrion sydd yn gyffredin iddynt oll; ac ar un adeg fe dueddid rhai gwyr rhagorol i obeithio y gallai fod daioni yn y fath amcan, er eu bod bellach wedi eu hen argyhoeddi nad oedd dim allasai fod ymbellach oddiwrth ei feddwl ef na'r hyder y tueddid hwy yn eu diniweidrwydd i'w goleddu. Ac yr ydym yn gweled yn barhaus mai baich pryder ein cyfeillion o'r Eglwys Sefydledig ydyw, Pa fodd y gellid cael yr Ymneillduwyr yn ol—fel y carant hwy ddweyd—"i fynwes eu mam." Y mae o'u hamgylch

anialwch eisieu ei arloesi, ond nid oes werth yn hynny; yr unig beth sydd yn mynd a'u bryd ydyw, Sut y gellid meddiannu y meusydd eang a'r gwinllanoedd ffurthlawn sydd wedi eu hennill oddiar yr anialwch mawr gan yr Ymneillduwyr: neu, a defnyddio cymhariaeth y diweddar Ddoctor Saunders yng Nghymanfa Gyffredinol Treforia, yn lle troi i'r goedwig a thorri prennau iddynt eu hunain, nid ydyw yn ormod ganddynt fyned i yerdydd yr Ymneillduwyr, a lladrata eu planciau hwy. Ac y mae y proselytiaeth truenus yma—bondigrybwyll!—yn beth yr ymfrostrir ynddo mewn uchel leoedd fel prawf arbennig o'r bywyd newydd—y diwygiad digyffelyb!—sydd yn awr yn ymweithio trwy yr Eglwys yng Nghymru.

I'r mwyafrif anferth o drigolion y wlad hon, y rhai sydd ers oesoedd a chenedlaethau y tu allan i Eglwys y Llywodraeth, y mae siarad o'r fath yn ddiethir iawn, i.e. i lawer yn anamgyffredadwy. Pam y sonir felly am y Methodistiaid? Nid ydynt hwy ond un o lwythau Israel, ac ni allant lai na theimlo fod y fath siarad yn ddirmyg ar eu brodyr o gyfundebau crefyddol ereill, fel y mae hefyd yn gellwair ffol & hwythau. Ac y mae yn dra hynod fod neb sydd wedi byw yng Nghymru, ac yn ceall Cymraeg, yn gallu sôn am i'r Methodistiaid gefnu ar eu cysegroedd a myned i'r llannau i gymuno, ac felly wadu eu bodolaeth eu hunain, taflu sarhad ar ddwfn grefyddolder a doethineb eu tadau, a dirmygu y selian y mae yr Ysbryd Glân am dros gant a hanner o flynyddoedd wedi eu rhoddi ar eu llafur. Nid ydym yn credu fod cymaint ag un, allan o'r tua thri chant o filoedd sydd yn ymgynnull i Addoldai y Methodistiaid Calfnaid, a feddyliai am y fath beth am drawiad amrant. Ac y mae'n amlwg mai nid aduniad ydyw y peth y teimlir y fath awydd i'w sicrhau, ond rhywbeth tra gwahanol. Pe aduniai, paham nad allai Eglwyswyr gydgymuno âg Ymneillduwyr, fel Ymneillduwyr gydag Eglwyswyr? Ac y mae'n sicr na fyddai cael y Methodistiaid neu ryw enwad arall i wneyd hyny, ond unwaith yn y flwyddyn,—a thybied fod y fath beth o fewn terfynau posibilrwydd,—ond peth yr edrychid arno fel cam, a cham lled sicr, tuag at eu cael i'r Eglwys yn gwbl oll.

There was a young lady of Niger,
Who smiled as she rode on a tiger;
They returned from their ride, with the lady insi e,
And the smile on the face of the tiger.

Ond y mae peth felly mor anobeithiol ag a fyddai meddwl am adfer yr oesoedd cyn y diluw, neu ddwyn yn ol un o'r hen gyfnodau daearegol.

Ac a ydym trwy hynny yn barod i addef nad ydym yn gofalu am y peth mawr y gweddiai yr Eiriolwr am dano, a'n bod, fel yr haerir, yn elynion i Eglwys Loegr? Nac ydym, yn sicr! Nid ydym yn meddwl fod un adeg wedi bod ar ein gwlad pan yr oedd gwir frawdgarwch yn fwy byw ymysg ei Christionogion na'r dyddiau hyn. Ni raid i ni fod yn hên i gofio amser yng Nghymru pan y teimlai dynion da fod anallu yn neb o'u cydwladdwyr i swnio eu shibolet hach hwy, a hynny ar bynciau y cydnabyddwn oll bellach nad ydynt o'r pwysigrwydd mwyafr, yn argoel o ddirfawr berygl, i.e. am eu cyflwr tragwyddol. Yr ydym

oll, erbyn hyn, yn ol geiriau ardderchog y Deon Stanley, wedi dyfod i ddeall fod y pethau am ba rai yr ydym oll yn cytuno, yn llawer mwy lliosog, ac yn anfeidrol fwy eu pwys, na'r pethau yr ydym yn anghytuno yn eu cych. Nid ydym er hynny yn son am un math o ymuniad ffurfiol, trwy i'r naill lwyth gymeryd ei le dan luman y llall; ond gan sefyll dan y lllumanau a ddisgynnodd i'n rhan, nid ydym yn cael un anhawster i ddymuno i'n gilydd Dduw yn rhwydd, a chalonogi y naill y llall, ymhob modd, i fyned allan mewn llawn rymuster ac ymladd rhyfeloedd ein Harglwydd. Bid sicr, nid ydyw pawb mor bell ymlaen, mwy nag y câi Elihu fod "gŵyr mawrion yn ddoeth bob amser;" ac ni fyddai yn anhawdd i un ag y mae ganddo ffroen at furgynod, gael hyd i bethau yn ein plith nad allwn lai na gofidio a chywilyddio o'u plegid. Er y cwbl, yr ydym yn credu fod ymysg Cristionogion Cymru y dyddiau hyn, ymdrech na fu erioed ei dyfalach tuag at "gadw undeb yr Ysbryd yng nghwlwm tangnefedd," a dyfod er "ar wahan fel y tonnan, yn un fel y môr." A chredwn fod hynny yn anfeidrol fwy ei werth na'r unfurfiaeth allanol, celfyddydol, yr ymddengys fod rhai o'n cydwladwyr mor analluog i roi gwerth ar ddim os na chant yr hyfryd-wch o'i weled. Ac am fod yn elynion i Eglwys Loegr, fel y cyhuddir Ymneillduwyr Cymru o fod, ni all dim fod yn fwy disail. Feallai, ac ystyried popeth,—yr erlid, a'r camwri, a'r anwireddau, a'r anfesurold ddirmyg y maent bellach ers oesoedd wedi bod yn ddioddef oddiar law Eglwyswyr,—na fuasai mor ryfedd pe dyna fuasai y ffaith; ond y mae yn bob clod iddynt, ac yn brawf neillduol o ddwyfol werth y ddyseidiaeth a gawsant y tu allan i fagwrydd yr Eglwys, eu bod wedi gallu ymddyrchafu uwchlaw unrhyw demtasiwn o'r fath, a'u bod yn dymuno i Eglwys Loegr yn ein gwlad, fel cangen o Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist, bob gras a phob llwyddiant. Am ei chysylltiad fel Eglwys Sefydledig â Llywodraeth y wlad, *y mae yn rhaid* i hwnnw derfynu, a hynny yn fuan. Y mae y Cymry wedi hen wneyd eu meddwl i fyny ar y mater hwn, fel pwnc o degwech a chyfiawnder; ac y mae yn ffaith o ddirfawr arwyddocâd nad oes gymaint ag un o'i chynrychiolwyr a all agor ei enau yn Senedd y deyrnas, mwy nag y maidd mwy na rhyw ddau neu dri o honynt roddi ei fôt, yn erbyn dwyn hynny oddiamgylch. Ond ar wahân i hyn, ac i'r graddau yr ymdrecha yr Eglwys i wasan-aethu Crist, gan ymgodi uwchlaw y pethau gwael y mae hyd yma wedi bod yn dibynnu yn gymaint arnynt, trwy orfodi dynion i ddyfod iddi dan boen colli eu bywoliaeth, neu eu prynu trwy broselytiaeth annheilwng,—i'r graddau y ceir hi felly yn "ymdrechu ymdrech deg" er iachawdwriaeth eu cydwladwyr, fe ddywed Ymneillduwyr Cymru o galon wrth yr Eglwys hon, neu yn hytrach y gangen hon o Eglwys yr Arglwydd Crist, "Bendithied yr Arglwydd di, a chadwed di: a llewyrched yr Arglwydd ei wyneb arnat, a thrugarhaed wrthyt: dyrchafed yr Arglwydd ei wyneb arnat, a rhodded i ti dangnefedd."

Ond y mae y cwestiwn yn aros, Beth allai fod yn cymell ein cyfeillion i ddymuno mor gryf am weled Ymneillduwyr Cymru yn ymuno â'r Eglwys? Ac y mae'n sicr fod y cwestiwn i lawer yn un tywyll iawn. Fe allai rhai feddwl mai o herwydd ei chysylltiad â'r Wladwriaeth, er mwyn osgoi dydd drwg ei dadgysylltiad. Ond prin y gallid meddwl fod neb yn ddigon ffol i ddisgwyl i'r genedl Gymreig

gredu ynddi ar y tir yma, pan y mae y cysylltiad hwnnw ar fin myned heibio am byth. Y mae un o wŷr mawr ein gwlad yn dal yn gryf, am ei bod yn Eglwys y Llywodraeth, y dylai holl bobl y wlad fod ynddi. Ond y mae ei pherthynas â'r Llywodraeth yn fater sydd wedi ei gollfarnu gan lys uwch, a rhaid iddo beidio a bod. Gallai llawer feddwl mai awydd gwirioneddol am undeb y saint sydd wedi medd-iannu ysbryd ein cyfeillion, ac mai am hynny y mae eu hawyddfryd mor angherddol am gael yr Ymneillduwyr oll i'r Eglwys. Ond a ydyw y defaid yn y ddiadell hon eu hunain yn un? Y mae yn hynod, er eu holl sêl mewn condemnio sism ac anghydfod y tuallan i'r Eglwys, nad oes yn unlle gymaint o sism ac anghydfod ag o'i mewn hi ei hunan. A oes yn unlle y fath groesdynnu a'r fath hwtiadau gan bleidiau gwrthwynebol ag a geir yng Nghongress yr Eglwys? Pan ddigwyddodd Llywydd Congress 1893, Esgob rhagorol Worcester, gydnabod fod y sacramentau yn cael eu gweinyddu gan Ymneillduwyr, er bod rhai yn cymeradwyo, eto yr oedd yr hysladau a'r udiadau a'r criau "cywilydd," &c., yn y neuadd eang yn llawer iawn cryfach. Fe wŷr pawb nad oes gan yr Eglwys amddiffynnydd mwy pybyr na'r *Times*. Efe ydyw ei Goliath o Gath, sydd yn dyfod i ymladd drosti â chleddyf, â gwaywffon, ac â tharian; ac eto wrth fwrw golwg ar weithrediadau Congress Birmingham, ni allai y *Times* lai na dweyd: "Beth bynnag allai fod y gwahaniaeth rhwng Eglwys Loegr a'r gwahanol gyfundebau Ymneillduol y tu allan iddi, nid ydyw ond fel dim o'i gymharu â'r gegendor sydd rhwng y gwahanol bleidiau o fewn yr Eglwys ei hun." Ac eto fe ddyhêir am gael Ymneillduwyr crefyddol Cymru i ddyfod i'r Eglwys er mwyn undeb Cristionogol, "fel y byddont oll yn un!" Nid ydyw yn wîw gan Eglwyswyr ein gwlad gydweithredu â'r Ymneillduwyr mewn dim. Mae y Feibl Gymdeithas yn hanfodi i ddiwallu y byd â Gair Duw, ac urddasolion Eglwys Loegr ydynt bron yr oll o'r rhai a anrhydeddir ganddi fel llywyddion, islywyddion, &c.; ac at y Gymdeithas hon y rhaid i'r Eglwys ei hun droi am bron yr holl gopïau o'r Ysgrhythrau a ddefnyddir yn y gwahanol ieithoedd ar ei meusydd cenhadol; ond er hyn holl gallwn gyfrif ar ein bysedd nifer y clerigwyr Cymreig a ddeuant i gyfarfodydd y Feibl Gymdeithas; a byddai yn ddydorol gwybod a oes yn wir gymaint ag un a ymostyngai i ddyfod, yn neillduol yng Ngogledd Cymru, oddieithr ei fod yn cael ei wahodd i gymeryd y gadair. Etholwyd diweddar Esgob Bangor yn llywydd y gangen o Gymdeithas y Beiblau yn y lle, ac fel cyfaill i'r Beibl deuai efe i'r cyfarfodydd bob tro y gallai, a mawr a chariadus oedd y gwerth a osodai ei gymdogion ar ei bresennoledb a'i wasanaeth. Fel yr arddanghosiad uchaf o barch ag oedd o fewn eu cyrraedd hwy, cynyngiasant yr un anrhydedd i'w olynnydd, ac ymddanghosai yntau fel yn derbyn hynny yn garedig; ond y mae y pedwerydd cyfarfod blynyddol wedi myned heibio heb i'r llywydd fod yn bresennol, ac ni ellir troi draw y cwestiwn sydd yn ymgodi ym meddyliau ei gyd-ddinasyddion, A fusasai y gŵr da yn gadael i unrhyw rwystrau, o'r fath ag a'i cadwent o gyfarfod y Feibl Gymdeithas, ei gadw rhag apwyntiadau perthynol i'r Eglwys? Ac ni welir un amser yr un o'i glerigwyr yn y gymdogaeth, er eu bod yn llawer, yn dyfod i gyfarfod y Feibl Gymdeithas, er ei fod bob amser

yn cael ei gynnal yn y neuadd gyhoeddus. Ers llawer o flynyddoedd y mae Ymneillduwyr Cymru, gyda Christionogion Crêd, yn neillduo yr wythnos gyntaf o'r flwyddyn, ar wahoddiad y Cyngrair Efengylaidd, i ymostwng ger bron y Arglwydd mewn gweddi; a glybuwyd o gwbl fod neb o glerigwyr Cymru yn ymuno â hwynt, fel y gwna eu brodyr mewn rhannau ereill o'r deyrnas? A bellach, ers yn agos i drigain mlynedd, y mae Ymneillduwyr Cymru wedi bod yn ymdrechgu i ddarostwng meddwdod ac anghymedroldeb yn ein gwlad, ac y mae eu llwyddiant, dan fendith yr Arglwydd, wedi bod yn fawr iawn; ond pa nifer o glerigwyr yr Eglwys a roddasant unrhyw help yn yr ymgyrch fendigaidd hon? Gwelsom fod un o'i hesgobion yn dweyd mewn cyfarfod Dirwestol yn Liverpool, gan ei fod yn dyfod o Gymru, y gallasant ddiagwyl ei gael ef yn ffafriol i Ddirwest, oblegid fod Cymru yn hynod am ei Dirwest, ac fod Cymdeithas Ddirwestol yr Eglwys wedi bod yn gweithio yn egnïol iawn yng Nghymru. Yr oedd hynny yn burion i'w ddewyd yn Lloegr; ond sawl un o esgobion neu offeiriaid yr Eglwys a wnaethant rywbeth tuag at ddwyn oddiamgylch y teimlad cryf o blaid Dirwest sydd bellach wedi ffynnu yn gymaint yn ein gwlad? A ymddanghosodd mwy na thri o honynt—a dim un esgob—o flaen y Ddirprwyaeth a ymchwiliat i weithrediad ein Deddf i Gau Tafarnau ar y Saboth, er rhoddi eu llais o blaid yr amcan yr oedd Cymru wedi gosod ei bryd yn gymaint arno, o gael y Sabothau yn rhydd oddiwrth demtasiynau andwyol y tafarnau? A yganodd cymaint ag un o honynt air er meithrin y teimlad byw a nerthol sydd yn awr wedi anfon i'r Senedd 31 allan o 34 o aelodau dros Gymru, i ddweyd fod yn rhaid rhoddi gallu i'r bobl eu hunain i benderfynu, trwy Ddewisiad Lleol, pa un a oes tafarnau i fod yn eu hardaloedd ai peidio? Ac yn yr ymdrech eang a chref a wneir yn awr mewn cynifer o fannau er cael yr ynadon i ymarfer y gallu a ymddiriedwyd iddynt gan y gyfraith i wrthod trwyddedau newyddion lle y mae pobl yr ardaloedd yn protestio yn erbyn eu rhoddi, a gwrthod adnewyddu trwyddedau lle y mae tafarnau yn cael eu cario ymlaen fel llochfeydd i feddwdod,—ymdrech ag y mae cydwybod yr holl genedl o'i phlaid, a neb mor ddiolchgar am dani â'r truseiniaid oedd wedi myned yn gymaint o safiaid i'w chwant fel nad allent basio y tai peryglus hynny heb droi i mewn iddynt, ac mewn canlyniad andwyo eu hunain a'u teuluoedd,—pa bryd yn holl hanes yr ymdrech hon y clywyd fod gŵr eglwysig yn dyfod ymlaen, ac yn "agor ei enau dros y mud, yn achos holl blant dinystr?" Ysywaeth, nid yw yn beth anghyffredin eu gweled yn cymeryd eu safte ar yr ochr arall. Mae y fasnach feddwol, fel y dywedai Arglwydd Randolph Churchill,—ei hunan yn Dori ac yn Eglwyswr,—yn un "ddiefflig a dinystriol." Ac y mae Cymru wedi ei dysgu mai ei hunig ddiogelwch ydyw llwrymwrthod â diodydd sydd mor ryfeddol o beryglus, a chael gallu i'w hardaloedd i roddi terfyn, os byddant yn barnu hynny yn oreu, ar fasnach ag y mae profiad oesoedd wedi dangos nad all lwyddo ond ar draul darostyngiad a dinystr y rhai y mae a fyynnant â hi. Ac eto, gan faint eu caredigrwydd at y ddioid, neu y pryder a deimlant wrth edrych ymlaen at yr etholiadau, ni fyn ein cyfeillion o Eglwys Loegr na rhan na chyfran yn yr ymdrech hon. Y maent, bid siwr, am Aduniad, a chydymdrech yn y pethau sydd

gyffredin i ni oll, a chael yr Ymneillduwyr i fod yn Eglwyswyr : ond "nid ydyw yr Iuddewon yn ymgyfeillach â'r Samariaid ;" y maent yn cadw mor bell ag y gallant oddiwrthynt, os nad hefyd yn barod i ddweyd, "Saf ar dy ben dy hun ; na neshâ ataf fi ; canys sancteidd-iach ydyw na thydi." Ac er popeth y maent yn coledd y gobaith o weled y "gwenyn" oll, ryw ddiwrnod, "yn dychwelyd i'r cwch" !

A pheth sydd ganddynt yn sail i obaith sydd, o bob cyfeiriad, yn ymddangos mor annhebyg o gael byth ei sylweddoli ? Wel, hyd y gallwn weled, y sail honno ydyw y gred a goleddant mewn Esgobydd-iaeth, yr hyn, fel y maent hwy yn meddwl, sydd yn eu gwneyd yn wir Eglwys i Grist, a hynny yn y fath fodd fel ag i ddi-eglwysau pob cymun-deb arall allo fod yn yr un wlad â hwynt. Ni allent yn y Gynhadledd yn y Grindelwald, ddim meddwl am y fath beth ag Aduniad, er mor ddymunol a fuasai, ac er maint eu hawyddfryd am ei fwynhau, ond ar sail yr "Historical Episcopacy." Rhaid i'r Ymneillduwyr ddyfod i gael eu confirmio, a'u gweinidogion i gael eu hordeinio gan yr Esgobion, cyn y gellir symud cam ! Am yr "un Eglwys" a sefydlwyd gan Grist, dywed y Dr. Linklater y gellir "ei hadnabod wrth ei nodweddion gwahaniaethol," a dyma hwynt :

Y mae yn cael ei llywodraethu gan Esgobion, y rhai ydynt olynwyr union-gyrchol yr Apostolion. Derbyniodd yr Apostolion eu gallu ar Ddydd y Pentecost yn syth oddiwrth Dduw. Trosglwyddasant ef i ereill, yn ol angenrheidiâu eu gwaith, trwy arddodiad dwylaw. Y mae gweinidog a all ddangos ei fod wedi cael ei anfon yn ol yr olyniad Apostolaidd hwn, mewn gwirionedd wedi ei anfon gan Dduw. Gweinidog na all ei ddangos, nid yw ond wedi ei anfon ei hun. Gwna hyn yr holl wahaniaeth. Fel y gwnai yr holl wahaniaeth yn eich tai pe na wnaeoh ond prynu y pibellau gas gan yr ironmonger, ac heb ofalu am eu gosod mewn cysylltiad uniongyrchol â phrif bibell cwmni y gas. I olwg allanol gallent ymddangos yr un—feallai yn fwy gwych—ond ni ohaech oleuni. Felly gyda'oh cyflenwad c ddwfr. Felly y mae gyda gras Duw yr Ysbyrd Glân, yr hwn a oeddir mewn llestri pridd, a thryw drefniad angenrheidiol Corff Crist a drosglwyddir ymlaen trwy bibellau wedi eu cyfansoddi yn rheolaidd—yn union fel y mae y gwaed yn cael ei drosglwyddo i'r rhedwellau.

Os ydyw yr Esgobion ynte yn bibellau grâs sydd yn dyfod trwy yr Apostolion oddiwrth Dduw, ac os ydynt yn cysylltu â hwy eu hunain yr oll a ordeiniant, nid ydyw yn rhyfedd fod ein cyfeillion yn credu fod yn hanfodol i ni fod oll mewn cysylltiad uniongyrchol â hwynt. Ac yn unol â hyn, gwelsom fod un gŵr urddasol yn dweyd yn y Congress ddiweddfaf yn Exeter, Pe na buasai Esgobyddiaeth yn bwnc hanfodol, y galleid cyfarfod â'r Ymneillduwyr er ystyried y mater o aduniad,—gan adael i'r byd ddeall, dan y fath amgylchiad, fod y fath beth, wrth reswm, allan o'r cwestiwn. Yr ydym yn meddwl fod yr Ymneillduwyr, er hynny, yn gallu anadlu yn debyg fel y gwnaent o'r blaen ; oblegid nid ydym yn deall fod neb o honynt hwy, yn enwedig yn yr ystâd sydd ar bethau yn bresennol, yn cael eu blino gan unrhyw awyddfryd neillduol am yr aduniad y mae yr Eglwyswyr yn barhaus yn trafferthu yn gymaint yn ei gylch, ac yn dragwyddol yn siarad am dano.

A dyma lyfryn Cymraeg ar y mater ; ac y mae yn dipyn o amheuthyn gwled ychydig o rywbeth ar ffurf llenyddiaeth, pa mor syml bynnag, oddiwrth offeiriad Cymreig. Fe ymddanghosodd yn NHRAETHODYDD

Ionawr, 1894, Nodiad ar "Yr Eglwys Foreuol," gan yr Aroddiacon Pryce. Ymhen yohydig amser wedi ymddanghosiad y Rhifyn, caed llythyr oddiwrth Ficer Dolwyddelen yn gofyn a gyhoeddiad atebiad i'r Nodiad hwnnw. Atebwyd ef ar unwaith y gwneid gyda phleser. Buwyd lawer o fisoedd heb glywed dim yn ychwaneg ar y mater, a thybid fod yr helynt wedi ei anghofio; ond o'r diwedd daeth i law y llyfryn: *Esgobyddiaeth, gydag Atodiad ar Wrthddadlewon y "Traethodydd,"* gan y Parch. Robert Williams, B.A., Ficer Dolwyddelen. Pris ceiniog. Caerfyrddin: Spurrell a'i Fab. Rhoddir ar ddeall yn y Rhagymadrodd fod yr ysgrif ar Esgobyddiaeth yn cael ei chyhoeddi fel yma ar gais Pwyllgor Cymdeithas Traethodau Esgobaeth Bangor, "fel yr ydoedd wedi ymddangos yn yr *Haul* (Chwefror, 1894); ond ar gais y Pwyllgor ychwanegwyd ychydig nodiadau mewn atebiad i sylwadau wnaed ar Esgobyddiaeth yn *Nhraethodydd* Ionawr, 1894" Nid ydym yn gweled fod eisieu gwneyd nemawr sylw o waith yr awdwr hwn yn mingamu, ac yn ceisio bwrw ei dipyn gwawd ar Ymneillduwyr, ac yn enwedig ar Fethodistiaid Cymru. Fe ellid meddwl fod dynion fel yma yn ystyried hynny yn rhan o'r dreth a ddylent dalu mewn ffordd o argyhoeddi eu cyfeillion newyddion o wirionedd eu dychwiliad, fel y mae hefyd yn amlwg, yn ol tystiolaeth eu brawd, Syr G. O. Morgan, ei fod yn talu yn rhagorol mewn ffordd o sicrhau eu dyrchafiad. Y mae llwyddiant mawr ymhob ffordd wedi bod ar y Cymry er y deffroad a gafwyd trwy lafur y diwygwyr Ymneillduol, ac y mae yn bob clod iddynt mai gwaith Crist fel y mae yn eu dwylaw sydd yn barhaus yn cael y blaenffrwyth ganddynt o'r llwyddiant hwnnw. Ond fe all Mr. Williams deimlo yn gwbl dawel nad ydyw eu haddoldai ardderchog, na dillad duon a cholera wen eu gweinidogion, na hyd yn oed fod ganddynt organau a chorau yn chantio *Fy enaid a Favorh*, a bod un gangen o Ymneillduwyr Cymru yn ei galw ei hun weithiau yn *Eglwys Fethodistaidd Galfinaidd Cymru*,—fe all, meddwn, deimlo yn berffaith dawel nad ydyw hyn oll yn golygu eu bod yn dyfod yn Eglwyswyr yn yr ystyr fach gyfyng a ddyry efe i'r gair. Y maent, yn sicr, yn teimlo y "rhaid perthyn i'r Eglwys:" ond y mae honno, trwy rād Duw, yn llawer iawn ehangach nag y mae y cyfeillion yma yn ddychmygu. Ac y mae ceisio dangos fod bywyd crefyddol Ymneillduwyr Cymru yn benthycu oddiar Eglwys Loegr bethau sydd yn gyffredin i Cristionogion Cred, tra y mae bron ei phopeth hi, trwy ba rai y mae yn ceisio cael gafael ar y bobl, wedi eu benthycu yn slafaid oddiar yr Ymneillduwyr, er iddi fod am oesoedd rai yn eu gwatwar ac yn eu dirmygu,—y mae hyn, gallew feddwl, braidd yn ormod o ffolineb. Ond yr ydym yn cyfeirio at y llyfr hwn "a gyhoeddwyd ar anogaeth Pwyllgor Cymdeithas Traethodau Esgobaeth Bangor," er gweled y tir uchel y mae yr awdwr wedi ei gyrraedd ym mhwc yr Esgobyddiaeth yma. Ac yn sicr y mae wedi myned yn uchel iawn. Yr oedd Luther un adeg, ar ol bod yn petruso am athrawiaeth y Drindod, wedi ei ddal gan artaith gorfforol lem, a thra yn ymgreinio dan honno, fe deimlai nid yn unig yn barod i greu yr athrawiaeth anhawdd, ond gofidiai braidd na fuasai yn fwy anhawdd, a'i fod yn cael ei alw i greu mewn pedwar o bersonau. Y mae ffydd ein cydwladwr parchus hwn yn y pwnc o Esgobyddiaeth, yr un modd,

yn fawr a chref; yn gymaint felly, yn wir, fel y byddai yn rhyfedd gennym ddeall fod dim yn anhawdd iddi. "Rhaid i'r Eglwys," medd efe, "wrth swyddogion, ac nid rhai hunanosodedig. Ac am eu gweinyddiad hwy yn unig y gallwn fod yn sicr ei fod yn effeithiol. Yn y weinidogaeth hon y mae tair gradd—esgobion, offeiriaid, a diaconiaid—gyda'u priod orchwylion. I'r esgob yn unig y perthyn ordeinio neu wneyd esgobion ereill, offeiriaid a diaconiaid, a chonfirmio. I'r offeiriaid a'r esgobion y rhoddwyd 'gweinidogaeth y cymod,' gollwng a rhwymo (Matt. xviii. 18), dadgan y gollyngdod a'r fendith, a gweinyddu y Cymmun Bendigaid. Cynorthwyo yr offeiriad a phregethu ydyw gwaith y diacon. Cymmun diacon ac ordeiniad offeiriad, dirym ydynt." Ac fe ellid meddwl fod yr awdwr yn golygu fod pethau wedi eu hordeinio felly trwy drefniad Dwyfol. Nid "buddioldeb," ond "ysgrythyroldeb" ydyw y safon. "Eithr y pwnc yw, pa un sydd o darddiad Dwyfol? Ni pherthyn i ddyw, yr hwn na wél ond y presennol, farnu buddioldeb cynlluniau Duw, yr hwn a genfydd y diwedd o'r dechreu. Ac os y dechreuid derbyn neu wrthod trefniadau Duw yn ol synied dynol am eu buddioldeb, pa le y diweddir? Dyma y *points*, y groesfordd, lle y cychwyna y gerbydres grefyddol ar reiliau anfyddiaeth. A dyma'r gorsafoedd: amheu buddioldeb neu angenrheidrwydd trefniad Dwyfol—Esgobyddiaeth—Sacramentau—yr lawn—yr ymgawdoliaeth—undodiaeth—anfyddiaeth!" Os ydym, i ddechreu, yn meiddio ameu Dwyfoldeb Esgobyddiaeth, y peth naturiol, yn ol y gŵr hwn, ydyw i ni derfynu ein siwrnai mewn anfyddiaeth. "Nid a ydyw Esgobyddiaeth yn fwy neu lai buddiol na chyfundrefnau ereill, gan hynny yw'r pwnc i dduwiol ddilnydd Iesu Grist, ond a ydyw Esgobyddiaeth yn drefniad Dwyfol? 'Digon yw i mi.'" Dyfynna yn hyderus o Hooker: "Nac ofnwn gan hynny fod yn eofn a phendant yn hyn—os oedd unpeth yn llywodraeth yr Eglwys o'r nefoedd ac o Dduw, diau fod sefydliad cyntaf yr esgobion felly: ei awdwr ydoedd yr Ysbryd Glân." A ywedd yr awdwr ei hun: "Dyma drefn Duw—y drefn sefydlodd yr apostolion sanctaidd yn ol cyfarwyddyd ein Gwaredwr, ac o dan arweiniad yr Ysbryd Glân. Ymadael â hon nis gallwn. Nid i ni y perthyn mesur a phwysio buddioldeb trefniad yr Oll-ddaeth." Yn yr "Attodiad ar Wrthddadleuon y 'Traethodydd,'" fe deimla yr awdwr ei fod yn gwneyd byr waith ar y Nodiad ar lyfr yr Archddiacon Pryce, ac mewn ffordd o symio i fyny, dywed: "Ynddynt eu hunain ni theilyngai sylwadau y *Traethodydd* gyhyd sylw. Fel yr arddangosiad cryfaf o'r ochr allasai y golygydd (a phwy cymhwysach?) roddi, y maent yn addysgiadol. Dysgant fod y dydd wrth y drws y gorfodir pob dyn i gredau, gan nad beth yw cymhwysder y cyfundrefnau Ymneillduol, mai Esgobyddiaeth yw'r hanesyddol, yr Ysgrythyrol, a'r Ddwyfol."

Mae'n debyg y dylai y TRÆTHODYDD fod yn ddiolchgar i Mr. Williams am "gyhyd sylw" ar ei ddylni, ac am ei ymdrech garedig i ddangos iddo ei ddygn gamgymeriadau. Feallai hefyd y bydd efe mor hynaws a maddeu iddo pan ddywed, fod tipyn rhwng y dylni hwnnw eto â chael ei chwalu ymaith; a chan fod yn dra thebyg fod nifer mawr o'i ddarllenwyr yn yr un sefyllfa, mae'n debyg mai addas fyddai aros ychydig eto uwch ben yr anhawster. Nid ydym yn

gweled fod dim yn y Nodiad ag y gelwir arnom i'w dynnu yn ol; a buasai yn hawdd dangos, pe yn werth y drafferth, er holl bwysigrwydd y cais a wnaed ar Mr. Williams i'w ateb gan Bwyllgor Cymdeithas y Traethodau yn Esgobaeth Bangor, ei fod wedi ei ddarllen lawer yn rhy ddiogel. Y mae *eto*, sut bynnag, *heb ei ateb*. Nid ydym ni yn gallu teimlo fod cymaint o bwys yn y mater ag a fyn ein cyfeillion Eglwysig roddi. Ac am y cyhuddiadau ofnadwy y maent trwy y blynyddoedd wedi bod yn fwrw arnom fel Ymneillduwyr, trwy daeru ein bod yn euog o wrthryfel Corah, a synnu na fuasai y ddaear wedi agor ei safn i'n llyncu i ddistryw; dangos ein bod fel Israel yn nyddiau Jeroboam mab Nebat, yn gadael gwasanaeth Duw—

Dewis rhai Bethel yn lle 'r Llan,
A rhai i Dan a dynnant;

ein galw yn hereticiaid a sismaticiaid, a chyhoeddi ein bod yn rhwygo corff Crist, &c., &c., nid ydym yn credu fod yr un Cymro na Chymraes wedi eu blino ganddynt am drawiad amrant. Ac y mae y gwaith da a ddechreuwyd gan y Tadau Ymneillduol, ac a gerrir ymlaen o oes i oes gyda chymaint o hunanymwadiad a ffyddlondeb gan eu plant, yn llawer rhy fawr i dderbyn unrhyw niwed oddiwrth ymosodiadau o'r fath yma! "Gwân dy bawl yn Hafren, a Hafren fydd hi wedyn." Dywedai y Prebendari Meyrick, yng Nghongress Exeter, "ei fod yn wrthwynebol i'r gair sismaticiaid pa un bynnag ai fel y cymhwysid ef at Babyddion ai at Ymneillduwyr. Ni enillwn ond ychydig," ychwanegai, "wrth ddwyn yn eu herbyn y cyhuddiad o sism wrth yr hwn y chwarddant, a'r hwn nad yw yn ddigon o werth i gau y ffordd rhag unrhyw ysbrydoedd anfoddlawn yn ein plith ni ein hunain ag y mae eu hwynebau yn cael eu troi tuag atynt." Ond nid ydyw Ymneillduwyr Cymru erioed wedi meddwl hyd yn oed am "chwerthin" am ben y geiriau mawrion a luchid yn y fath helaethrwydd tuag atynt, a hynny am y rheswm da nad oedd yn werth ganddynt gymaint a meddwl am danynt. Ac wrth reswm ni feddylent am eu hateb. Yr oedd ganddynt gymaint i'w wneyd oedd gymaint yn fwy pwysig, a chymaint yn rheitiach. "Gwaith mawr yr ydwyf fi yn ei wneuthur; o herwydd hynny ni allaf ddyfod i waered; paham y safai y gwaith, pan ymadawn âg ef, a dyfod i waered atoch chwi?" Ac wedi llafurio gyda'r gwaith hwnnw fel ag i gadw Cymru, ie, yn ol tystiolaeth Eglwyswyr parchus eu hunain, rhag y baganiaeth, a fuasai, am ddim a wnelai yr Eglwys, yn anocheladwy, yr oedd yn lled annioddefol iddynt weled offeiriaid yr Eglwys, pan newydd ymgodi o'r budreddi y buasant dros gymaint o amser yn ymdroi ynddo, yn codi eu llef ac yn condemnio fel hereticiaid a sismaticiaid, ddynion ag yr oedd eu "tyst yn y nefoedd, a'u tystiolaeth yn yr uchelder," a'u llythyrau canmoliaeth yn llanw y wlad, mewn tywyllwch wedi ei chwalu, llygredigaethau wedi eu darostwng, ac eneidiau filoedd wedi eu hachub i fywyd tragwyddol.

Pa fodd bynnag, gan fod yr athrawiaeth y golygir ei bod wrth wraidd hyn oll yn awr wedi dyfod o'n blaen—Dwyfoldeb Esgobyddiaeth,—nid anaddas, feallai, fyddai i ni am unwaith gymeryd hamdden i ddangos ymha ffordd y mae y profion a honnir o'i phlaid yn ymddangos i ni yn annigonol.

I.

Y mae yr Archddiacon Pryce a'r Parch. Robert Williams yn dyfynnu o'r Llyfr Gweddï y geiriau, "Hysbys i bawb yn dyfal ddarlain yr Ysgrhythyr Lân a hen Awdwyr, fod y Graddau hyn o Weinidogion yn Eglwys Crist er amser yr Apostolion; sef Esqobion, Offeiriad, a Diaconiaid." I ddechreu gyda'r Ysgrhythyr Lân, yr hon y mae llawer o honom bellach ers llawer o flynyddoedd yn ddarlain yn bar "ddyfal;" yr ydym ni yn metbu gweled ei bod yn cyfeirio o gwbl at y swyddau hyn, o leiaf yn yr ystyr a olygir yn y Llyfr Gweddï, ac a ddeil ysgrifenwyr Eglwysig. Yn y chweched o'r Actau yr ydym yn cael fod seithwyr da eu gair, wrth archiad yr Apostolion, yn cael eu dewis, a hynny gan y disgyblion, i wasanaethu "yn y weinidogaeth feunyddiol," mewn gofal am y gwragedd gweddwon, ynghyda dyledswyddau ereill, mae'n debyg, o gyffelyb natur; ac fe sonir am y gwaith a ymddiriedid yn neillduol iddynt—o ba un trwy hynny y rhyddheid yr Apostolion—fel "gwasanaethu [*diakonein*] byrddau." Mae yn debyg mai dyma ddechreuad y Diaconiaid y cyfeirir atynt yn y Llythrau Bugeiliol. Ni ddefnyddir y gair *diaconiaid* yn Act. vi., ond fe'i cair yn ei ffurf ferfol, *diakonein*, ynglŷn â'u gwaith. Cyfeiria Ireneus yn yr ail ganrif at y *saith* fel diaconiaid. "Y Nicolaiad ydynt ddilynwyr Nicolas, yr hwn oedd un o'r saith a ordeiniwyd gyntaf i'r ddiaconiaeth gan yr apostolion." "Ac ymhellach eto, Stephan, yr hwn a ddewiswyd y diacon cyntaf gan yr apostolion," &c. Fe ddaeth rhai o'r saith hynny—yn enwedig Stephan a Philip—i wasanaethu mewn cylch uwch, mae'n wir; ond fel *diaconiaid*, y gwaith neillduol a ymddiriedid iddynt oedd "gwasanaethu byrddau." Mae Eglwys Loegr yn rhoddi yr enw ar offeiriad heb ei gwbl urddo, "offeiriad hanner pan," fel ar lafar gwlad; ond nid ydyw hwnnw o gwbl yn cyfateb i *ddiacon* y Testament Newydd. Noda Dr. Lightfoot fod "eu gwaith yn sylweddol yr hyn a ddisgynnai ar ddiaconiaid yr oesoedd cyntaf, a'r hyn sydd eto mewn egwyddor, os nad yn gwbl mewn ymarferiad, yn cynnwys prif ddyledswyddau y swydd." Os cymerir yr enw o'r Testament Newydd, ac ym enwedig os honnir fod y swydd o'r Testament Newydd, pa reswm sydd dros beidio ei chadw "yn ymarferol," fel hefyd "mewn egwyddor," yr un ag ydyw yno? Fel y mae yn Eglwys Loegr, mae'n amlwg, er fod yr enw, nad ydyw y *swydd* y mae yr enw yn arddangos o'r Testament Newydd.

Am Offeiriad, nid ydyw y Testament Newydd yn eu cydnabod o gwbl. Nid oes offeiriadaeth ymysg dynion mwyach, ond sydd yn gyffredin i'r holl saint. "A chwithau, megis meini bywiol, ydych wedi eich adeiladu yn dŷ ysbrydol, yn offeiriadaeth sanctaidd." "Eithr chwychwi ydych rywogaeth etholedig, brenhinol offeiriadaeth," 1 Pet. ii. 5, 9. "Ac a'n gwnaeth ni yn frenhinoedd ac yn offeiriad i Dduw a'i Dad ef." "Ac a'n gwnaethost ni i'n Dduw ni yn frenhinoedd ac yn offeiriad," Dat i. 6, v. 9. Yn wir y mae yr arbenig-rwydd a roddir ar Berson a Gwaith yr unig "Offeiriad mawr ar dŷ Dduw," "Archoffeiriad ein cyffes ni, Crist Iesu"—yr Hwn âg un aberth sydd wedi llanw drychfeddwl mawr pob offeiriadaeth trwy yr

oesoedd—y fath fel nad *all* fod bellach offeiriad arall; ond y mae yr holl saint, ynddo Ef, yn dyfod “yn offeiriadaeth sanctaidd, i offrymu aberthau ysbyrdol, cymeradwy gan Dduw trwy Iesu Grist.” Y mae “pob archoffeiriad wedi ei gymeryd o blith dynion,” ac fe’i “gosodir dros ddyinion yn y pethau sydd tuag at Dduw, fel yr offrymo roddion ac aberthau dros bechodau.” Dan yr hen oruchwyliaeth, yr oedd iddo ei le yn ol trefniad Jehofah, ac yr oedd ei wasanaeth yn werthfawr iawn. ‘Ond wedi dyfod o’r Archoffeiriad mawr, ac iddo Ef “ei offrymu ei hun unwaith”—unwaith am byth,—ac iddo a’r un offrwm hwnnw “berffeithio yn dragwyddol y rhai sydd wedi eu sancteiddio,” pa le all fod mwyach i offeiriadaeth? Ac nid ydyw y Testament Newydd yn ei chydabod o gwbl. Mae yr Un Bendigedig a “gaethiwodd gaethiwed, ac a roddes roddion i ddyinion,” wedi “rhoddi rhai yn apostolion, a rhai yn broffwydi, a rhai yn efengylwyr, a rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon;” ond ni chrybwyllir o gwbl ei fod wedi gosod neb yn offeiriad. Ie, y mae yr holl Lyfr yn brotest o’r fath gryfaf yn erbyn y drychfeddwl, fel sarhad ar yr un Offeiriadaeth fawr ar ba un y dibynna ein hiachawdwriaeth. Ond ymysg camgymeriadau dybryd ereill y syrthiodd yr Eglwys iddynt, fe ddaethpwyd i ffansio, gan fod gweinidogion y crefyddau paganaidd yn cael eu galw yn offeiriad, y dylid galw gweinidogion yr Efengyl felly; ac fe olygid fod hynny yn fwy goddefol am mai offeiriad y gelwid gweinidogion y cysegr dan yr Hen Destament. Ond wedi cymeryd yr enw fel yna, fe gymerwyd hefyd y drychfeddwl arbennig a ddynota, ac y mae Eglwys Rhufain, a bellach y mwyafrif dirfawr yn Eglwys Loegr, yn dal fod yr offeiriad yn y Cymun yn aberthu aberth mawr Calfaria yn barhaus i Dduw, a thrwy hynny yn gwneyd cymod dros bechodau. Dywed yr Esgob Lightfoot, yn ei draethawd ar *The Christian Ministry*, “Fod ysgrifennydd Apostolaidd y llythyr at yr Hebraeid yn dysgu fod pob aberthau wedi eu cwblhau yn yr un Aberth, pob offeiriadaeth wedi ei llyncu i fyny yn yr un Offeiriad. Yr oedd yr offrymiad wedi ei wneyd unwaith am byth; a chan nad oedd mwyach aberthau, nad allai fod mwyach offeiriad. Yr oedd pob offeiriadaethau blaenorol wedi dwyn tystiolaeth i’r angenrheidrwydd am gyfryngwr dynol, ac yr oedd y teimlad yma yn cael ei foddhad ym Mheron ac yn Swydd Mab y Dyn. Yr oedd pob aberthau blaenorol wedi cyhoeddi yr angen am farwol-aeth iawnol, a chawsant eu gwrthgysgod, eu cyflawniad, eu diddymiad, yng Nghroes Crist. Mae y datganiad clir yma yn cyflenwi ac yn dehongli y distawrwydd a geir mewn manau ereill o’r ysgrifeniadau Apostolaidd. Ac mewn cydgord hollol a rhediad yr ymresymiad hwn y mae yr iaith a ddefnyddir yn barhaus gan ysgrifennydd yr epistol yma. Llefara am aberthau Cristionogol, allor Cristionogol; ond yr aberthau ydynt foliant, a rhoddi diolch, a gweithredoedd da; yr allor fel yr ymddengys ydyw Croes Crist. Pe buasai y weinidogaeth Cristionogol yn swydd offeiriadol, pe buasai y Cymun sanctaidd yn weithred offeiriadol, yn yr un ystyr ag yr oedd yr offeiriadaeth Iuddewig a’r aberth Iuddewig yn offeiriadol, yna y mae ei ymresymiad yn wallus a’i iaith yn gamarweiniol. Er yna aros yn helaeth ar y cyferbynlion Cristionogol i’r offeiriad Iuddewig, yr allor Iuddewig, yr aberth Iuddewig, nid yw yn crybwyll yr un swydd, yr un lle, yr un weithred,

y rhai o'u dangos a fuasent eu cyferbynolion mwyaf gwir a mwyaf byw yng ngwasanaeth dyddiol Eglwys Crist. Y mae wedi gwrthod y rhai hyn, a dewis yn eu lle gyferbynolion moesol ac ysbrydol i'r holl gysgodion cysegredig hyn. Fel yma yn yr hyn a ddywedodd, a'r un modd yn yr hyn na ddywedodd, cyfeiria ei iaith at yr un a'r unrhyw ddiben" (tud. 265, 6). Mae'n wir y dengys yr Esgob dysgedig fod y gair "offeiriad" yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr lacach, ac fel yn gyfystyr â henuriad: ond pam yr oedd oisieu defnyddio y fath air o gwbl am weinidog yr Efengyl, pan y mae yr holl Destament Newydd, yn gystal â'r epistol at yr Hebraeid, a hynny hefyd "yn yr oll a ddywedodd ac yn yr oll na ddywedodd," mor hollol wrthwynebol iddo? A pham yn enwedig, pan y gwelir fod dynion, gyda gair sydd mor gamarweiniol, wedi rhedeg i'r fath gyfeiliornad andwyol? Da gennym weled Mr. Williams yn condemnio rhywrai y dychymygai eu bod yn dweyd, "Nid ysgrythyroldeb mwyach, ond buddioldeb, yw'r safon er cyfiawnhau neu gondemnio y cyfundrefnau," ac yn dal yn gryf mai "y pwnc ydyw pa un sydd o darddiad Dwyfol." Gwir iawn! Deliwch eich gafael hyd byth, anwyl syr, yn y canon ardderchog yna. Ond sut ddrwg y darfu i'r Eglwys, y credwch mor ddiysgog yn ei hanffaeledigrwydd, freuddwydio bod gweinidogion yr Efengyl yn Offeiriad, pan y mae yr holl Ysgrythyr Lân yn anfesuriol bell o roddi rhith o sail i hynny; i.e., pan y mae ei holl rediad yn dangos fod pob offeiriadaeth, ond sydd yng Nghrist yn gyffredin i'r holl saint, bellach yn gwbl amhosibl? Fel y cawsom o'r blaen gyda phwnc y Ddiagoniaeth, fod Eglwys i oegr wedi dal *enw* y Testament Newydd, ond i amcan hollol wahanol, sef i ddynodi ymgeiswyr am y weinidogaeth, ac nid am rai yn gwasanaethu byrddau,—felly yr ydym yn ei chael gyda'r Offeiriadaeth yn defnyddio *enw* ar weinidogion yr Efengyl yr hwn y mae yr holl Destament Newydd yn *gondemnio*, a hynny am ei fod yn cynnwys drychfeddwl sydd yn wadiad ar y gwirionedd mawr sydd yn fywyd i'r oll o hono.

A beth am yr Esgobion, y Radd arall o Weinidogion ag y mae mor "hysbys i bawb yn dyfal ddarllain yr Ysgrythyr Lân," ei bod "yn Eglwys Crist er amser yr Apostolion?" Yma eto addefwn yn rhwydd fod yr *enw* "esgob" yn yr Ysgrythyr Lân; ond am y *peth*, fel y mae i'w gael yn Eglwys Loegr—ac am hwnnw y mae yn awr a fynnom—nid ydyw i'w gael; y mae yn berffaith sicr hefyd na feddylodd yr un o'r Apostolion erioed am dano, a phe buasai neb o honynt wedi gwneyd ni allasai lai na'i ddwfn gondemnio. Fe gredir yn fawr gan ein cyfeillion o Eglwys Loegr yn yr Esgob Lightfoot; ac y mae efe yn ei Nodiad ar "Y cyfystyron 'esgob' a 'henuriad,'" yn dangos eu bod yn y Testament Newydd yn cael eu defnyddio fel yn gwbl o'r un arwyddocâd. Yn nechreu y llythyr at y Philipiaid, sonir am yr "esgobion a'r diaconiaid," ond heb grybwyll yr "henuriaid," yr hyn sydd yn dangos y rhaid eu bod hwy yn cael eu golygu wrth y gair "esgobion." Yn Actau xx. 17, y mae Paul wedi galw ato "henuriaid yr eglwys" oedd yn Ephesus, yn dweyd (28) fod yr Ysbryd Glân wedi eu gosod yn "esgobion"—dyna air y Dr. Briscoe yn ei gyfieithiad o'r Testament Newydd am *episcopous*, ac gyfieithir ymhob man arall "esgobion"—ar yr holl braidd. Mae Pedr (1 v. 1, 2) wrth annerch yr "henuriaid" oedd

ymhlith y brodyr, yn dweyd eu bod "i fwrw golwg arnynt," i'w hesgobaethu, *episcopountes*. Yr oedd yr henuriaid yn gwneyd gwaith esgobion. Yn yr Epistol Cyntaf at Timotheus, wedi dynodi cynheddfau "esgobion" (iii. 1—7), & yr Apostol rhagddo ar unwaith i ddangos beth a ofynnid mewn "diaconiaid" (8—13), heb son am "henuriaid;" eto mewn lle arall yn yr un Epistol (v. 17—19), pan yn son am weinidogion yr Efenzyl, y mae yn eu galw, nid yn "esgobion," ond yn "henuriaid." Yr un modd yn Titus (i. 5—7), y mae y ddau air yn dynodi yr un peth: "Fel yr iawn drefnit y pethau sydd yn ol, ac y gosodit *henuriaid* ymhob dinas, megis yr ordeiniais i ti. Os yw neb yn ddiargyhoedd, yn ŵr un wraig, a chanddo blant ffyddlaw, heb gael y gair o fod yn afradlawn neu yn anufudd; canys rhaid i *esgob* fod yn ddiargyhoedd," &c. A sylwa Lightfoot ymhellach, fod Clement o Rufain, oedd yn ysgrifennu mae'n debyg o fewn y deng mlynedd olaf o'r ganrif gyntaf, yn defnyddio y ddau air yn gyfystyr. Wrth son am yr Apostolion, dywed eu bod, "gan bregethu ymhob gwlad a thref, yn apwyntio eu blaenffrwythau, wedi eu profi trwy yr Ysbryd, i fod yn *esgobion* a *diaconiaid* y rhai a gredent." Ac ymhellach, gan gyfeirio at ystâd anhrefnys eglwys Corinth, dywed: "Fe wyddai ein Hapostolion trwy ein Harglwydd Iesu Grist, y byddai ymryson ynghylch awdurdod yr *esgobaeth* . . . Nid i euogrwydd ysgafn y syrthiwn os trown allan o'r *esgobaeth* y rhai ydynt wedi cyflwyno y rhoddion yn ddifetus ac yn sanctaidd. Gwyn fyd yr *henuriaid* a aethant o'r blaen, ymadawiad y rhai oedd wedi ei goroni â ffirwyth ac yn addfed." Dengys hyn fod Clement hefyd, fel yr Apostolion, yn ystyried yr esgobion yn gwbl yr un â'r henuriad. Ac wrth reswm yr oeddynt a lled y ddaear o bellder rhyngddynt a phreladiaid y dyddiau hyn.

Ond beth am Iago, yr "esgob cyntaf ar eglwys Jerusalem?" Mae y gair yna yn barhaus yn cael ei swnio yn ein clustiau, ac mor lithrig a hyderus â phe yn adnod o'r Beibl. Ond yn sicr nid ydyw yn y Beibl, ac nid yw yn ymddangos i ni fod y Beibl yn gwybod dim am y peth a ddynoda. Cydnebydd Lightfoot "fod esgob ar y dechreu yn cael ei ddefnyddio yn gyfystyr â henuriad, ond wedyn ei fod wedi dyfod i gael ei ddefnyddio am y swyddog uwch dan ba un y gwasanaethai yr henuriaid, ac felly fod yr esgobaeth wedi ei dabblygu o'r henuriaeth; nid wedi ei ffurfio o'r urdd Apostolaidd trwy lêoliad, ond o'r henuriaeth trwy ddyrchafiad, a daeth y teitl oedd ar y dechreu yn gyffredin i'r oll, i gael ei ddefnyddio am y pennaf o honynt." Yn naturiol disgwyliai weled hyn yn cymeryd lle yn y fam-eglwys yn Jerusalem, a châ nad ydyw y disgwyliad hwnnw yn cael ei siomi. "Iago brawd yr Arglwydd yn unig, o fewn y cyfnod a gymerir i mewn gan yr ysgrifeniadau Apostolaidd, a all hawlio cael ei ystyried yn esgob yn ystyr ddiweddarach a mwy arbennig y gair." A phaham y gall efe hawlio hynny? Wel, dyma y rhesymau: Y mae Paul yn ei euwi o flaen Pedr ac Ioan pan y mae achos yr Eglwys Iuddewig dan ystyriaeth; mae Luc yn ei ddynodi fel cynrychiolydd lleol y frawdoliaeth yn Jerusalem; fel yn llywyddu yn y gynhadledd (Act. xv.), dyfarniad yr hon a awgrymir ganddo ac yr ymddengys ei fod hefyd wedi ei ysgrifennu; fel un sydd yn derbyn y pregethwyr cenhadol pan yn ymweled â'r fam-eglwys; ac yn gyffredinol fel yr un y cyfeirir ato mewn ymwneyd âg eglwysi gwledydd ereill.

Ond er hyn oll, cydnebydd mai mewn undeb a'r brodyr a'r henuriaid yr ydoedd efe yn gweithredu.

Mae yn amlwg fod "brawd yr Arglwydd" yn **tr** tra hynod. Tra yr oedd Iesu yn fyw, "nid oedd ei frodyr yn credu ynddo," ac felly nid ydym i feddwl fod Iago ymysg ei ddiagyblion. Ond fe ellid meddwl mai ato ef y cyfeirir yn 1 Cor. xv. 7, pan ddywedir y gwelwyd Crist wedi ei adgyfodiad "gan Iago." Ar ol hynny (Act. i. 14), yr ydym yn ei gael ef a'i frodyr gyda'r Apostolion a'r gwragedd, a Mair eu mam, pan etholwyd Apostol yn lle Judas. Yr ydoedd o gymeriad uchel ac yn dra chrefyddol, yn cael ei alw yn wir gan yr Iuddewon yn "Iago gyfiawn;" ac os araf a fu ei ddyfodiad i greu yn Iesu Grist, fe ddaeth o'r diwedd yn gwbl oill, a phan yn ysgrifennu at "ddieithriaid y gwaargariad," profesai ei hun yn "wasanaethwr Iesu Grist" yr un modd ag yr ydoedd yn "wasanaethwr Duw." Fe ddaeth yn fuan mor adnabyddus ac mor barchedig ymysg y brodyr, fel yr oedd ei frawd Judas yn ei gyflwyno ei hun i'r rhai yr ysgrifennai atynt fel "gwasanaethwr Iesu Grist, a brawd Iago." Efe oedd yr hynaf o'r pedwar brawd (Matt. xiii. 55), a Judas oedd yr ieuengaf. Mae'n ddiau fod yr Apostolion yn ei dderbyn yn dra charedig am ei fod yn frawd naturiol i'r Iesu; ond y mae yr un mor sier mai y rheswm neillduol am y lle mawr a roddwyd iddo, oedd y dylanwad a enillasai ar y brodyr trwy ei synwyr sanctaidd, ei farn addfed a chref, a llwyrdwr ei ymroddiad fel "gwasanaethwr Duw a'r Arglwydd Iesu Grist." Y mae yn rhyfedd iawn ei fod mor fuan yn cael lle ymysg "y rhai a dybid eu bod yn golofnau," a bod Paul yn ei Epistol at y Galatiaid (ii. 9) yn ei enwi hyd yn oed o flaen Pedr ac Ioan. Ond am fod mewn ystyr awyddol yn "esgob yr eglwys yn Jerusalem," rhaid i ni ddweyd "not proven." Nid ydym yn gweled y gallai unrhyw "ddarlain," pa mor "ddyfal" bynnag, ar yr Ysgrhythyr Lân, arwain unrhyw ddyw, heb ei fod eisoes dan ddylanwad rhagdybiaeth, i greu dim o'r fath beth. Pan ryddhawyd Pedr o'r carchar fe ddywedodd wrth y cyfeillion yn nhŷ Mair, mam Ioan Marc (Act. xii. 17), "Mynegwch y pethau hyn i Iago, ac i'r brodyr." Am hynny, fe ddywedir, rhaid fod Iago mor fore & hynny yn esgob Jerusalem. Os felly, onid ydyw yn brawf llawer cryfach fod Pedr yn esgob Jerusalem, pan y cawn, cyn hynny, fod Paul yn dweyd (Gal. i. 18), "Yna ar ol tair blynedd y daethum yn fy ol i Jerusalem i ymweled & Phetr, ac a rhosais gydag ef bymtheng niwrnod." Ond nid oes dim lle i feddwl fod y naill na'r llall wedi eu gwneyd yn esgobion, ond bod y frawdoliaeth oll yn berffaith foddlon ar drefniad eu Brenin: Eithr na'ch galwer chwi Rabbi: canys un yw eich Athraw chwi, Crist; a chwithau oll brodyr ydych." Nid oedd Iago ar y pryd yn digwydd bod yn nhŷ Mair, "lle yr oedd llawer wedi ymgasglu ac yn gweddio" (12); a chan fod yn bur sier mai efe oedd yr amlycaf o'r brodyr oedd yn Jerusalem oedd yn absennol,—er ei fod yntau mae'n debyg ar ei liniau yn yr un achos,—nid oedd dim yn fwy naturiol nag i Pedr, a chofio yn neillduol y dwfn barch a'r cariad a goleddai tuag ato, deimlo yn awyddus am iddo gael clywed ar unwaith fel yr oedd yr Arglwydd wedi ateb gweddiau y brodyr yn ei ryddhâd. Fe'n cyfeirir wrth reswm at Gyngor Jerusalem, y cawn ei hanes yn Act. xv., a'r hwn, mae'n debyg, ydoedd yr un amgylchiad ag

y cyfeiria Paul ato yn yr ail o'r Galatiaid. Fe ddealla ein cyfeillion fod Iago yn llywyddu fel esgob yn y cyngor hwnnw. Mae'n ddiaw mai y farn ddoeth a roddodd efe ar y cwestiwn anhawdd oedd o'u blaen, a ymddanghosai i'r brodyr fel y peth goreu y gellid meddwl am dano; a chan eu bod yn dibynnu mor lwyr ar yr arweiniad Dwyfol, ni phetrusent ei dderbyn fel yr hyn a "welwyd yn dda gan yr Ysbryd Glân" yn gystal â chauddynt hwythau. Pa un ai efe a ysgrifennodd y llythyr ai peidio, sydd fater bychan, pan nad oes unrhyw ddatl nad ei farn neu ei olygiad ef oedd ei gynnwys. Ond fe ddywedir mai efe a siaradodd *olaf*, a'i fod fel cadeirydd neu lywydd, yn casglu ei farn oddiwrth yr holl drafodaeth. Mae y Pabyddion yn cael ei fod yn amlwg iawn mai Pedr oedd y llywydd, o herwydd mai ei araeth ef a geir yn *gynaf*. Nis gwyddom pwy a allai fantoli yn iawn rhwng y ddau olygiad cywraïn; ond gwyddom fod "dyfal ddarllain" yr hanes yn dangos fod y ddau yr un mor ddi sail. Cyn i Pedr agor ei enau yr oedd "ymddadleu mawr" wedi cymeryd lle, yr hyn a olyga y rhaid bod llawer wedi siarad hyd yn oed o'i flaen ef, a siarad llawer. Ac wedi i Iago lefaru, yr oedd yr ymgynghoriad yn parhau. "Yna y gwelwyd yn dda gan yr apostolion a'r henuriaid, ynghyda'r holl eglwys, anfon gwŷr etholedig o honynt eu hunain," &c. Ond fe osodir pwys mawr ar y ffurf a ddyryr efe ar ei olygiad: "O herwydd paham fy marn i yw;" neu yn ol y Saes., "Wherefore my sentence is." "My sentence:" pa ddatl all fod mwy? Mae y barnwr yn cyhoeddi ei ddedfryd, a phwy ond esgob all wneyd hynny mewn llys eglwysig? Erbyn edrych, fodd bynnag, nid oes yn y peth ddim o naw's dedfryd. Y gair yn y Cyf. Diwyg. yw "judgment," fel y Cymraeg rhagorol, "barn"—"fy marn i;" a'r cwbl a olygir ydyw fod y brawd yn dweyd pa fodd yr oedd y peth yn ymddangos iddo ef. Mae y geiriau a ddefnyddia efe, yn Luc vii. 43, yn cael eu defnyddio gan Pedr, pan yn ateb y cwestiwn a roddwyd iddo, Pa un o'r ddau ddyledwr, y naill yn fychan a'r llall yn fawr, a garai fwyaf yr echwynwr oedd mor garedig, pan nad oedd ganddynt ddim i dalu, wedi maddeu iddynt ill dau. "A Simon a atebodd ac a ddywedodd, Yr wyf fi yn tybied mai yr hwn y maddeuodd efe fwyaf iddo." "I suppose;" "Yr wyf fi yn tybied," a dyna'r cwbl. Nid oedd dim swyddogol yn y naill amgylchiad mwy na'r llall, ond y ddau frawd yn dweyd eu golygiad, fel yr oedd y peth yn ymddangos iddynt hwy. Ond y mae un prawf arall o esgobaeth Iago yn Jerusalem ag y teimla ein cyfeillion fod ynddo ddirfawr nerth. Fe ddywedir yn Act. xxi., wedi i Paul, ar ei ddychweliad o'i drydedd daith genhadol, ddyfod i Jerusalem, ac iddo ef a'i gymdeithion gael eu derbyn yn llawen gan y brodyr, "A'r dydd nesaf yr aeth Paul gyda ni i mewn at Iago; a'r holl henuriaid a ddaethant yno." Pam at Iago, a'r holl henuriaid wedi dyfod ynghyd i'w dŷ, os nad i'w hysbysu fel esgob o'i ddychweliad, ac i roi adroddiad iddo o'i weithrediadau? Yn siwr, fe allasai fod llawer o barnau. Fe allasai fod Iago ei hun newydd ddychwelyd o daith genhadol, ac fod yr henuriaid, gyda Phaul a'i gymdeithion, yn awyddus am ei weled i glywed yr hanes; neu gallasant fod yn awyddus i ymgynghori â brawd o'r fath ddoethineb ar ryw fater a ystyriant yn bwysig; neu gallasai fod ganddo ystafell gyfneus yn ei dŷ lle y cyfarfyddai y brodyr i addoli; a pham nad allasant oll deimlo yn awyddus i

fod gyda Phaul a'i frodyr pan y galwent gyda Iago, er cael mwynhau drachefn, a chydfwynhau â'u brawd oedd mor barchedig ac anwyl ganddynt, y newyddion da am lwyddiant y gwaith mawr! Y mae cipio blewyn o'r fath eiddilwch a bod Paul a'i frodyr, ar eu dychweliad o'u cenhadaeth bwysig, yn galw i weled Iago, i grogi arno bwysau mor fawr â sefydliad Esgobyddiaeth fel trefn o lywodraeth eglwysig, yn sicr yn beth rhyfedd iawn, ac yn beth na allesid mewn unrhyw achos arall edrych arno ond fel yn bradychu dirfawr wendid.

A pheth am leferydd y *distawrwydd* mewn achos fel yma? Wedi marw Iago y cwblhawyd canon y Testament Newydd, ac nid oes gan ddim un o'r ysgrifenyddyr sanctaidd gymaint a gair i'w ddweyd am dano ef fel esgob Jerusalem. Rhoddir siars yn yr Epistol at yr Hebreaid i'r brodyr "ufuddhau i'w blaenoriaid"—nid i'w hesgob—"ac ymddarostwng;" ac "i feddwl" am eu blaenoriaid ymadawedig, a "dilyn eu ffyrdd, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad lwynt." Os oedd Iago ar y pryd yn esgob arnynt, neu os ydoedd wedi bod, ac yn ddiweddar wedi myned i orffwys, a ellid meddwl am funud am lythyr o'r fath yn cael ei anfon atynt heb ynddo gymaint â gair o grybwylliad am ei enw, neu o gyfeiriad ato? Yr un modd y mae yn ddyrysbwnc anesboniadwy, os ydyw ein cyfeillion yn gywir, fod y canon yn cael ei gau heb air o gyfeiriad mewn un modd at Iago fel esgob, nac yn wir at esgobyddiaeth mewn un modd. Am bopeth arall perthynol i Eglwys Crist, y mae gwybod-aeth gyflawn wedi ei gadael. Nid oes ddael am y mater y cyfeiria Hooker mor ddi-achos ato, am gydgyngnulliad y saint: yr oedd Crist ei Hun yn dilyn y gwasanaeth Dwyfol, a'i ddisgybillion yr un modd; ac y mae wedi eu sicrhau, wrth iddynt wneyd hynny, y bydd Efe gyda hwynt bob amser hyd ddiwedd y byd; ac fe erchir arnom yn bendant i beidio "esgeuluso ein cydgyngnullfad ein hunain." Nid oes ddael i fod am y sacramentau o Fedydd a Swper yr Arglwydd: y mae Crist ei Hun wedi eu hordeinio, ac y maent i'w gweinyddu lle bynag y pregethir yr Efengyl, ac i barhau "oni ddelo." Nid oes le i betruster ychwaith am y diaconiaid a'r henuriaid: y maent i'w hethol gan y frawdoliaeth sanctaidd, ac i'w neillduo yn ddifrifol i'w gwaith gan yr henuriaeth. Y mae hyd yn oed cynhaliad gweinidogaeth yr Efengyl wedi cael gofalu am dano: "felly hefyd yr ordeiniodd yr Arglwydd, i'r rhai sydd yn pregethu yr efengyl, fyw wrth yr efengyl." Ac yn debyg am lawer o bethau ereill. Ond dyma swydd ag sydd, fel y dywedir, yn drosglwyddiad gras y weinidogaeth,—yn rhoddi i ddyinion allu i aileni wrth fedyddio, maddeu pechodau, offrymu aberth Crist yn barhaus yn y Cymun, ac eneinio yn angyu i deyrnas nef,—ond nad oes yn yr Ysgrythyr Lân gymaint a gair o sôn am dani, nac unrhyw awgrym o gwbl yn ei chylch! Ac eto fe ddywedir fod y swydd hon yn "hysbys i bawb" sydd "yn ddyfal ddarlain yr Ysgrythyr Lân." Yr ydym yn ofni nad oes eglurhad yn bosibl ar anhawster mor fawr, oddieithr yr un y gwelwn tra yn ysgrifennu yr erthygl hon fod y Barnwr Charles yn cyfeirio ato wrth roddi barn ar achos yr *Empire* yn Llundain,—“y rhwyddineb â pha un y mae dynion yn gweled yr hyn a ddymunant weled.” Ond yn wahanol iawn y mae y Cymry wedi “dysgu Crist; a chan ddyfal lynu wrth y canon mawr o “ysgrythyrroldeb” y mae Ficer

Dolwyddalen yn dal ei afael mor bybyr ynddo, y mae yn berffaith sicr na ellir byth eu hargyhoeddi y dylent dderbyn breuddwydion o'r fath yma fel gwirioneddau Duw.

II.

Ond beth am yr "Hen Awdwyr!" "Yr Ysgrhythyr Lân a hen Awdwyr" a ddywedir.

Y mae gennym ni, yn sicr, lawer o barch i'r hen ysgrifenydd, trwy lafur pa rai yr ydym yn cael mwynhau cymundeb y saint o'r oesoedd boreuaf, ac yn neillduol fel y galluogant ni i weled fel yr oedd y deyrnas "nad ydyw o'r byd hwn" yn gorchfygu y nerthoedd a osodid yn ei ffordd, ac yn cymeryd ei lle ar y ddaear fel "teyrnas nefoedd." Ond fel y mae y TRAETHODYDD, lawer gwaith bellach wedi cael achos i sylwi, ni all dim fod yn fwy tarawiadol na'r dirfawr *ddisgyniad* a gawn yn ysgrifeniadau y Tadau, pan ddeuwn atynt oddiwrth yr ysgrifeniadau ysbrydoledig. Yr "ysgrythroldeb," syr, y dadleuwch chwi mor briodol drosto, dyna y safon. "A phan ddywedant wrthyh, Ymofynwch â'r swynyddion, ac â'r dewiniaid, y rhai sydd yn hustyng ac yn sibrdw: onid â'u Duw yr ymofyn pobl? Dros y byw at y meirw? At y gyfraith, ac at y dystiolaeth: oni ddywedant yn ol y gair hwn, hynny sydd am nad oes oleuni ynddynt." Y mae ein cyfaill teilwng, yr Archddiacon Pryce,—nid ydym yn meddwl y teimla efe ein bod yn cymeryd gormod o hydtra wrth ddweyd felly, er yr holl urddiad esgobol ar ei du ef a'r holl "sism" ar ein tu ninnau,—y mae efe, yn ei "Eglwys Foreuol," yn gwled rheswm da am ddiweddarwch y dealltwriaeth y daeth yr Eglwys iddo ar *athrawiaeth* yr Efengyl, wrth ystyried sylledd ac anallu y disgyblion cyntefig; ond am y *drefn eglwysig* a geid tua diwedd yr ail ganrif, y mae yn cael rheswm rhagorol yn agosrwydd y cyfnod hwnnw at ddyddiau yr Apostolion. Ond rhaid i ni ofyn i'n brawd ein hesgusodi am gymeryd i ystyriaeth "sylledd ac anallu" y disgyblion cyntefig yn y mater o lywodraeth eglwysig hefyd, yn enwedig pan y cawn eu bod yn gwyro oddiwrth y trefniadau Apostolaidd, ac yn myned ymlaen dan lywodraeth egwyddorion na fyn y Gair eu cydnabod. Tra yn "proffwydo yn ol cysondeb y ffydd," yn cadw ychydig wastrodedd ar eu dychmygion, ac yn ymgodi uwchlaw y dylanwadau bydol a'u hamgylchent, ni a wrandawn arnynt gyda dwfn barch; ond os cawn eu bod yn methu yn y pethau hyn, rhaid i ni gymeryd a ddywedant, chwedl Horas, gyda gronyn o halen, ie yn wir, weithiau, gyda chryd ddyrnaid. Ond gadewch i ni weled beth ddywed yr Hen Awdwyr.

Mae y cyfnod o ddinystr Jerusalem, o.c. 70, hyd farwolaeth Justin Ferthyr, o.c. 120, dan gryn lawer o dywyllwch. Mae'n debyg mai y gwaith a elwir Athrawiaeth y Deuddeg Apostol, a ddarganfyddwyd yn ddiweddar yn Llyfrgell y Bedd Sanctaidd yng Nghaerystenyn, dan Bryennios, Archesgob Nicomedia, ac a gyhoeddwyd yn 1883, ydyw yr ysgrif gyntaf y gellir dibynnu arni am wybodaeth am y cyfnod hwn. Fe'i cyhoeddwyd yn Gymraeg yn y TRAETHODYDD am 1884, a chaed orthyl arni—"Didache, a Swyddau Eglwysig"—yn ein Rhif. am Ionawr, 1893. Priodola Bryennios ei hysgrifeniad i'r adeg rhwng o.c.

120 a 160; ond barna Wordsworth nad allai fod lawer yn ddiweddarach na'r flwyddyn 100. Cyhoeddiasom yn NHERAETHODYDD 1892, "Ddiffyniad Aristides," oedd newydd ei ddarganfod yn Llyfrgell St. Catharine ar Fynydd Sinai, gan y Proffeswr Rendel Harris. Cyflwynid y Diffyniad i'r Ymerawdwr Hadrian, yn y fl. o.c. 125. Y mae yn dra dyddorol am y goleuni a deifl ar yr amseroedd hynny; ond ni chyfeiria o gwbl at fater y Swyddau. Ond mae y *Didache* yn gwneyd, fel y gwelir yn ein Nodiad ar yr "Eglwys Foreuol." Wedi erchi ar i'r saint ddyfod ynghyd ar "arglwydd-ddydd yr Arglwydd" i dorri bara a rhoddi diolech, wedi cyffesu eu pechodau, gan ofalu am gynghori na fo i neb y bo iddo ymrafael a'i gmyddog wneyd hynny, "rhag halogi eu haberth," ychwanega (pen. xv.): "Ordeiniwch gan hynny i chwi eich hunain esgobion a diaconiaid teilwng o'r Arglwydd, gwŷr addfwyn a di-ariangar, a chywir a phroffedig, canys y maent hwythau yn gweini i chwi weinidogaeth y proffwydi a'r athrawon. Am hynny na ddiystyrwch hwynt, canys y maent i'w hanrhydeddu yn eich plith gyda'r proffwydi a'r athrawon." —Wrth nodi "camsyniadau, a chamsyniadau amlwg," nodiad y TRAETHODYDD, ysgrifenna ein beirniad aiddgar o Ddolwyddelen:

8. *Camddarlleniaid y llyfr "Didache," neu Ddysgeidiaeth yr Apostolion.* Hen lyfr yw hwn ddarganfyddwyd yn y Dwyrain yn y flwyddyn 1883. Oynwysa gyfarwyddiadau ac addysgiadau pur elfenol ac anghyflawn, a ysgrifenasid ryw dro cyn y flwyddyn 110 o.c. at Gristionogion Iuddewaidd anwybodus. Am hwn dywed y *Traethodydd*, "Nid oes ynddo air a awgrymai y weinidogaeth dri-phlyg," tra mewn gwirionedd y cyfetyb yr hyn a ddywedir yno am y weinidogaeth yn gymhwys i'r sefyllfa ddysgrifir uchod (tudalen 14) fel ail gyfnod oes yr Apostolion. Sonia y *Didache* am weinidogaeth leol, sefydlog o egobion a diaconiaid; ac yn weinidogion teithiol uwch ben y rhai lleol, gyda hawl i ymsefydlu mewn Eglwys fel eu harchoffeiriaid. Gelwir y diweddar yn apostolion (nid y deuddeg, ond gwŷr megys St. Timotheus a St. Titus), prophwydi ac athrawon. A phwy a pha beth oeddynt? Nid henuriaid, nid diaconiaid, canys pan sefydlent meddant awdurdod ar y rhai hynny cyfelyb i eiddo yr archoffeiriaid ar yr offeiriaid Iuddewig. Canfyddir ar unwaith mai y drydedd radd yn ei ohysfwr cyntaf oeddynt—gwŷr wedi eu gosod megys St. Timotheus a St. Titus. Mewn gair, ni rydd y *Didache* unrhyw sail i gasglu i'r henuriaid a'r diaconiaid etioed faddu y brif awdurdod yn yr Eglwys.

Nid oes neb a feddyliai am ddadleu teilyngdod llenyddol uchel i'r *Didache*, ar yr un pryd nid yw yn anhawdd gwneyd allan ei ystyr, a'r holl werth sydd ynddo ydyw y goleuni a deifl ar feddwl a hanes yr Eglwys yn y cyfnod boreu hwnnw. Y geiriau o'i eiddo y cyfeiriwn atynt uchod ydynt (pen. xi.): "Pwy bynnag gan hynny a ddaw ac a ddysg i chwi yr holl bethau rhag-grybwylledig, derbyniwch ef. Ond os ydyw yr athraw ei hun wedi ei wŷrdroi, yn dysgu athrawiaeth arall i ddyinion, na wrandewch arno; ond os i chwaneu cyfiawnder a gwybodaeth yr Arglwydd, derbyniwch ef megis yr Arglwydd. Ond am apostolion a proffwydi, yn ol athrawiaeth yr efengyl felly gwnewch. Derbynier pob apostol a ddelo atoch megis yr Arglwydd. Ac ni erys ond un dydd; eithr os bydd eisieu, yr ail ddydd hefyd; os erys dri diwrnod gau broffwyd ydyw. Pan ymadawa yr apostol, na chymered ddim ond digon i gyrraedd ei lety y noswaith. Os gofynna am arian, gau broffwyd ydyw. Unrhyw broffwyd sydd yn lifaru yn yr Ysbyrd, na chwiliwch ac na phrofwch; canys pob

pechod a faddeuir, ond y pechod hwn ni faddeuir." Drachefn (pen.‡ xiii): "Y mae pob gwir broffwyd a ddymuna ymsefydlu yn eich plith yn deilwng o gynhaliath. Felly hefyd gwir athraw sydd ei hunain hefyd, fel gweithiwr, yn deilwng o gynhaliath. Cymer gan hynny a dyro i'r proffwydi holl flaenfrwythau cynhyrohion y gwinnwryf a'r llawr-dyrnu, yr ychain a'r defaid; canys eich archoffeiriad ydynt. Ymaent hwy i chwi yn sefyll yn yr un berthynas ag y gwnelai y prif offeiriad i'r Iuddewon." Mae yr ysgrifennydd yn y geiriau uchod yn llac yn ei ddefnyddiad o'r termau athraw, apostol, proffwyd, archoffeiriad; ond mae ein cydwladwr yn gwneyd dirfawr drais âg ef pan dybia ei fod trwy eiriau o'r fath yn golygu prelad, neu esgob yn yr ystyr ddiweddar. Nid oedd yr efengylwyr teithiol mewn un modd i fod "uwch ben" yr henuriaid a'r diaconiaid lleol. Nid oedd ganddynt "hawl i ymsefydlu mewn eglwysi fel eu harchoffeiriad;" os arhosit iwy na dwy noswaith yr oeddid i'w cyfrif yn "gau broffwydi;" er "os dymunai" un "ymsefydlu," fe ddywedir ei fod "yn deilwng o gynhaliath." Ac nid oeddynt i feddu awdurdod ar yr henuriaid a'r diaconiaid lleol, "cyffelyb i eiddo yr archoffeiriad ar yr offeiriad Iuddewig." Yr oll a olygir yw, fod y gwir broffwyd i gael edrych arno gyda pharch fel yr edrychid ar archoffeiriad, a'i fod yn sefyll yn yr un berthynas â hwynt "ag y gwnelai y prif offeiriad a'r Iuddewon."—nid yn sicr a'r offeiriad. Nid oes yr un cwestiwn i fod am "y brif awdurdod yn yr eglwysi;" gan henuriaid a'r diaconiaid yr oedd pob awdurdod, oblegid arnynt hwy yr oedd yr holl ofal, ac nid oedd ymweliadau y brodyr dieithr ond achlysurol, heb fod a fynnent mewn un modd â llywodraethiad yr eglwysi, ond âg adeiladaeth y saint. Mae yn digwydd mai y frawddeg nesaf i'r un y cyfeirir ati fel engraifft o "gamsyniadau amlwg y *Traethodydd*," ydyw hon: "Fel yr ysgrifennai yr Esgob Lightfoot am y *Didache*, pen. xv.: 'Mae gennym yma weinidogaeth deithiol a lleol; y gyntaf yn gynwysedig yn bennaf o apostolion a phroffwydi, a gwaith y naill a'r llall yn ymdoddi i'w gilydd, fel nad yw yn hawdd tynnu y llinell rhyngddynt.' Dyna y cwbl, a dim byd tebyg i'r "hawl," a'r "awdurdod," a'r "drydydd radd," i.e. "yn ei chyflwr cyntaf," ag y mae ein hadolygydd yn gael mor amlwg yn y rhannau hyn o'r *Didache*. Yr oedd Lightfoot yn delio a'r llyfr fel ysgolhaig a gŵr pwylllog, ac ni fynnai ddarllen iddo ond a gai ynddo; ond y mae gan y Methodist-Eglwyswr ffydd all lyncu camelod, ac os na all eu cael yn y diriogaeth a dramwya, fe'u llusg ydad ef. Yn debyg am Esgobyddiaeth y Beibl. Yn ol Lightfoot, "Iago, brawd yr Arglwydd yn unig, o fewn y cyfnod a gymerir i mewn gan yr ysgrifeniadau Apostolaidd, a all hawlio cael ei ystyried yn esgob yn ystyr ddiweddarach, a mwy arbennig y gair;" a phan y mae ganddo achos i son am Timotheus a Thitus, y mae yn eu galw yn sylml wrth eu henwau: eithr nid yw hynny yn agos i ddigon gan Ficar Dolwyddelen; ni all efe grybwyll y gwŵr hynny heb eu galw yn "St. Timotheus" a "St. Titus," a myn fod Paul wedi gadael y naill yn Ephesus a'r llall yn Creta fel esgobion. "Ceir St. Iago yn esgob Jerusalem, a St. Timotheus a St. Titus yn esgobion, ond heb fod yn arosol, yn Ephesus a Creta." Gofynna hefyd, ac yn hyderus iawn, "A pha le y mae'r

swyddog cyfatebol i St. Timotheus a St. Titus ym mhlith yr Ymneill-duwyr?" Mae yr ateb yn bur agos: *ar eu holl orsafoedd cenhadol*. Ond heb gymeryd ein tentio i fyned ar ol hudlewynnau, y mae, debygem, mor glir ag y gall dim fod, nad yw y Didache, a briodola Mr. Williams i'r fl. o.c. 110, yn gwybod dim am Esgobyddiaeth. Pe buasai y fath beth mewn bod, fe ddylasai, yn sicr, wybod rhywbeth yn ei gylch; ac mor sicr a hynny, fe ddylasai ei grybwyll pan yn rhoddi y fath gyfarwyddiadau da i'r disgyblion yn ei ddydd. Ond fel y *ceir pethau*, o leiaf cyn belled ag y mae a fynno y Didache a'r peth, ni allir ond casglu nad ydoedd mewn bod o gwbl.

Am ddychymyg Theodoret—a fenthyciasai gan Theodore o Mopsuestia, ac a dderbynnid yr un modd gan Hilary—fod y swyddogion yn yr eglwys a elwid ar y dechreu yn "apostolion," wedi dyfod ar ol hynny i gael eu dynodi yn "esgobion," y mae yn cael ei rhoddi i fyny fel yn gwbl ddi-sail; ac fe ddeallir, fel y crybwyllwyd o'r blaen, mai nid disgyn o'r apostoliaeth, ond dadblygu o'r henuriaeth a wnaeth y swydd esgobol. Ond fe ddelir yn dŷn at y dŷb bod Iago yn Esgob. Yr ydym wedi gweled y seiliau dros hynny y golygir eu bod i'w cael yn yr Ysgrythyr Lân; ac nid ydym yn gweled eu bod nemawr well erbyn dyfod at Hen Awdwyr. Dywed Hegesippus, yr hwn a ysgrifennai tua chan mlynedd wedi marwolaeth Iago: "Iago, brawd ein Harglwydd, yr hwn, gan fod llawer o'r enw hwn, a gyfenwid o ddyddiau ein Harglwydd gan bawb y Cyfiawn, a dderbyniodd lywodraeth yr eglwys gyda'r Apostolion" (Euseb ii. 23). Ond y mae efe mewn mannau ereill yn ei alw yn esgob. Felly hefyd yr Homilian Clementaidd: "Gan hynny, uwchlaw'r cwbl, cofiwch osgoi apostol, neu athraw, neu broffwyd, nad yw yn gyntaf yn cywir gymharu ei bregethau âg Iago, a elwid yn frawd fy Arglwydd, ac i'r hwn yr ymddiriedwyd llywodraeth eglwys yr Hebraid yn Jerusalem." Yn y *Recognitions* Clementaidd, mewn trŷth a osodir gan yr ysgrifennydd (anaduabyddus) yng ngenau Pedr, y mae Iago yn cael ei alw "y pennaf o'r esgobion." Eto: "A phan ddywedais wrtho ei fod eto yn gloff o un troed, wedi iddo ar unwaith ofyn yr achos o hyn, mi ddywedais wrtho yr oll a adroddais yn awr i chwi, fel y galwesid ni gan yr offeiriaid a Chaiaphas yr archoffeiriad i'r deml, ac fel yr oedd Iago yr archesgob, gan sefyll ar ben y grisiau, wedi dangos i'r holl bobl o Ysgrythyrau yr Arglwydd, dros saith niwrnod yn olynol mai yr Iesu yw y Crist, &c." "Iago yr esgob a anfonodd am danaf fi" "Gan hynny, byddwch yn dra gwyliadwus na chredoeh un athraw oddieithr ei fod yn dwyn o Jerusalem dystlythyr Iago, brawd yr Arglwydd, neu bwy bynnag a all ddyfod ar ei ol." Yn Epistol Pedr at Iago, cawn: "Pedr at Iago, arglwydd ac esgob yr eglwys sanctaidd, dan Dad pawb, trwy Iesu Grist." Yn Epistol Clement at Iago: "Clement at Iago, arglwydd, ac esgob esgobion, yr hwn sydd yn llywodraethu Jerusalem, eglwys sanctaidd yr Hebraid, a'r eglwysi ymhob man a sylfaenwyd yn rhagorol trwy ragluniaeth Duw, gyda'r henuriaid a'r diaconiaid, a'r gweddill o'r brodyr." Ac yn y Gosodiadau neu y *Constitutions*, Apostolaidd: "Yn awr am ferthyron, yr ydym yn dywedyd i chwi eu bod i'w dal gennyh mewn pob anrhydedd, fel yr anrhydeddwn y bendigaid Iago, yr esgob." "A Iago, brawd yr Arglwydd, ac esgob Jerusalem." "Myfi, Iago, brawd Crist

yn ol cnawd, ond ei wasanaethwr fel y Duw uniganedig, ac un a a apwyntiwyd yn esgob Jerusalem gan yr Arglwydd ei hun a'r apostolion, ydwyf yn ordeinio fel hyn." "Gan ein Hiachawdwr yr ordeiniwyd ni, apostolion, dri ar ddeg mewn nifer, a chan yr apostolion myfi, Iago, myfi, Clement, a ordeiniwyd, ac ereill gyda ni, heb i ni wneyd rhestr o'r holl esgobion drosodd drachefn." Yn yr *Hypotyposes*, neu y *Brasluniau*, a briodola Eusebius i Clement o Alexandria, cawn: "Pedr ac Iago ac Ioan, wedi esgyniad ein Hiachawdwr, er eu bod wedi eu gosod ar y blaen gan ein Harglwydd, ni ymrysonasant am yr anrhydedd, ond dewisasant Iago y Cyfiawn, yn esgob Jerusalem." Fe olygir mai dyma y cyfeiriad cyntaf at Iago fel esgob Jerusalem, gan awdwr nad ydoedd yn ysgrifennu chwedl; hynny yw, a thybied—yr hyn ar air Eusebius sydd bell o fod yn sicr—mai Clement a ysgrifennodd y Brasluniau. Ac y mae hyn oll yn ymddangos yn bur ddiieithr. Yr oedd yr holl frawdoliaeth yn Jerusalem yn cymeryd rhan yn etholiad olynnydd Judas, ac felly yn newisiad y saith diacon; a dywed Jerom yn y bedwaredd ganrif, "Cyn i ymrysonau gael eu dwyn i grefydd trwy gynhyrfiad y diafol, ac y dywedid ymysg y bobl, Myfi wyf eiddo Paul, ac myfi wyf eiddo Cephas, yr oedd eglwysi yn cael eu llywodraethu gan gyngor o henuriaid." Ond er y cwbl nid oedd neb, yn ol yr *Hypotyposes*, yn cymeryd rhan yn apwyntiad Iago yn esgob Jerusalem ond Pedr ac Iago ac Ioan; ac yr oedd hynny yn cael ei wneyd pan nad oedd unrhyw "ymrysonau" ymysg y disgyblion. Fe welir yn amlwg foð yr ymdrech annaturiol a wneir yn yr ymadroddion uchod i osod mawredd ar Iago fel esgob, y pennaf o'r esgobion, archesgob, &c., yn dangos fod y dŷ ei fod felly, neu y dylasai fod felly, wedi meddiannu meddyliau yr ysgrifenywyr i'r fath raddau fel y teimlent nad oedd modd iddynt osod gormod o arbenigrwydd arni. A phan gofir fod hyn oll yn cael ei ddangos ar fater nad ydyw y Beibl yn ei gydnabod o gwbl, ac mewn dull sydd yn hollol anheilwng o'r urddas a'r ysbrydolrwydd a ddanghosir yn holl gyfeiriadau y Gair at achosion Teyrnas Crist, ni theimlwn anhawster i ollwng ein gafael o'r cyfan fel baldorrd dynion o "symledd ac anallu," chwedl yr Archddiacon Pryce, ond oeddynt, yn eu ffolineb, wedi llyncu mympwy y teimlent fod yn rhaid ei "phregethu ar bennau y tai." Mae Lightfoot yn teimlo nad ydyw y ffolinebau a grybwyllwyd i'w cymeryd ond am eu gwerth; yr unig beth y dadleua efe drosto ydyw y rhaid fod esgobyddiaeth yn ffaith amlwg yn yr eglwys cyn y buasai dynion yn siarad cymaint yn ei chylch. At ŵr o'i ddyg, a'i bwyll, a'i dŵn uchel ef,—nad ydyw y dewrion sydd yn cymeryd y pastynau i amddiffyn yr Eglwys yng Nghymru i'w cymharu âg ef "more than the manners of a clown," chwedl Robert Hall, "are to be compared with those of a prince,"—ni allwn lai na theimlo edmygedd a dŵfn barch; eto y mae gennym hawl i alw sylw at y ffaith mai y rhai sydd yn pregethu y ffaith ffolinebau ydyw y *tystion* a elwir ymlaen i brofi fod Iago yn esgob; a chan fod gwerth pob *tystiolaeth* yn dibynnu yn neillduol ar gymeriad y *tyst*, y mae yn iawn i ni farnu y *tystion*, nid wrth a ddywedant am yr hyn yr ydym ni yn eu galw i'w brofi, ond wrth yr *oll* a ddywedant. Ac y mae cnwd ffolinebau y bobl hyn, sydd mor hynod am eu "symledd a'u hanallu," yn dra chyfoethog. Heblaw a grybwyllwyd, dywed Hegešippus am Iago:

"Fe'i cysegrwyd o groth ei fam. Nid yfai win, na diod gref, ac ni fwyta'i gig. Ni ddaeth ellyn erioed ar ei ben, ni ymenseiniodd erioed ag olew, ac ni ddarfuo iddo erioed gymeryd bath. Efe yn unig a oddeſid i fyndd i'r cysegr. Ni wisgai wlanan, ond llian main. Arterai fyned i mewn i'r deml ei hunan, ac fe'i ceid yn fynych ar ei liniau, ac yn eiriol am faddenant i'r bobl, fel y daeth ei liniau cyn galeded â'r eiddo camel, wrth ei fod bob amser arnynt yn gwasanaethu Duw, ac yn gofyn maddeuant i'r bobl." "Mae llawer yn yr hanes yma," ebe Lightfoot, "na all fod yn wir : y mae priodoli iddo fraint a gyfyngid i'r arch-offeiriad yn unig, tra y saif ynglŷn â'r gweddill o'r hanes, yn amlwg yn ddi sail, ac ni ellid ei gychwyn ond pan oedd oes newydd wedi codi na wyddai ddim am wasanaeth y deml." Iâ, ac oes na wyddai ond ychydig iawn am ddim arall ychwaith, ond yr oedd ei hygoledd yn anfesuriol. Am yr Hypotyposes, y cyfeiriasom ato fel yn dweyd mewn dull mor awdurdodol fod "Pedr ac Iago ac Ioan wedi dewis Iago y Cyfiawn, yn esgob Jerusalem," ni a gawn Photius yn y nawfed ganrif, yr hwn oedd wedi gweled y gwaith ag mae yr hyn sydd ar gael o hono yn awr yn Eusebius,—yn dweyd : "Mae yr Hypotyposes wedi eu hysgrifennu ar rannau o'r Hen Destament a'r Newydd, y rhai y mae efe [Clement, a ystyrriid fel eu hawdwr] yn esbonio ac yn ddehongli yn fyr ; ond er bod ganddo mewn amryw fannau syniadau tra uniongred a gwir, eto mewn mannau ereill y mae ganddo rai sydd yn dra chyfeil-iornus a di sail ; canys fe ddywed bod mater yn dragwyddol. . . Dychmyga fod Efa wedi ei chynhyrchu o Adda mewn dull anfad, a gwahanol i'r hyn a ddywedir yn yr Ysgrythrau. . . Tybia nad oedd y Gair mewn gwirionedd yn gnawdoledig, ond yn unig mewn ymddangosiad ; dychmyga ddau Air Duw—y naill yn uwch a'r llall yn is—a'r olaf oedd y Gair a ymddanghosodd i ddyn ; ychwanega nad yw y gair hwn o'r un natur â Gair Duw—nad Gair y Tad a ymgnawdol-odd, ond rhinwedd a gallu neillduol o eiddo Duw yn deilliaw o'r Gair, yr hwn, gan ei fod yn ysbryd, a elai i mewn i eneidiau dynion. . . Mewn gair." ychwanega Photius, "y mae yr wyth llyfr hyn yn llawn o'r fath gamgymeriadau a chabreddau." A dyma un o'r tystion sy'n dweyd fod Iago yn esgob ! Ond y mae y rhyfeddoliau—a defnyddio gair gwych Mabinogi Cilhwch ac Olwen—ymhell o fod wedi eu dyhybyddu. Crybwyllwn un eto, yn yr hon y llawenychid yn gymaint gan yr Archesgob Potter, gwŕ a eisteddai yn ei ddydd yng "nghadair Augustin," oddiwrth "risiau" pa un y daeth ei meddiannydd presennol dro yn ol i'r Rhyl i felddigo Ymneillduwyr Cymru. Wel, fe gafodd y gwŕ urddasol, yr Archesgob Potter allan, ac fe ddyledus gofnododd y ffaith er budd yr oesoedd yn ei "Discourse of Church Government," fod y *gadair* wedi ei darganfod, ymha un yr eisteddai Iago fel esgob Jerusalem ! Pa amheuaeth sydd mwy yn bosibl ? Gwyddys fod cyflawnder o greiriau i'w cael pan ddaeth Helena, mam Cystenyn, yn y bedwaredd ganrif i ymweled â Jerusalem, a chyda hi arian yn ddiamdlawd i dalu am bopeth a foddhâi ei ffansi ; ac mewn marchnad mor ragorol, nid rhyfedd i gadair esgob cyntaf Jerusalem ddyfod i'r golwg. Fe allai mai gwell i ti, ddarlennydd mwyn, beiddio gofyn pa brawf sydd fod gwŕ fel efe, yn y ganrif gyntaf, yn eistedd ar gadeiriau gwahanol i bobl ereill ; neu pa fodd y cadwyd y gadair hon, pan

drowyd popeth yn lludw, yn y dinystr digyffelyb a fu ar Jerusalem, a phan oedd pob disgybl i Grist wrth ffoi, yn ol ei gyfarwyddyd graslawn Ef, am ei einioes, dan waharddiad i "gymeryd dim gydag ef o'i dŷ;" neu pa fodd y caed boddlonrwydd ymhen rhyw dri chant o flynyddoedd mai honno ydoedd cadair Iago. Mae lle i ofni, os amheuir ffaith mor bwysig ynglŷn âg "esgobyddiaeth," na ellir aros yn un man ar y lliθrigfa nes diagyn i "anffyddiaeth." Fel yma y cwblheir y prawf—*quod erat demonstrandum*—fod Iago yn esgob, ac felly fod esgobion yn hanfodol i Eglwys Crist hyd byth! *Nulla ecclesia sine episcopo*: Nid eglwys heb esgob. Mae yr hen gadair yn faen clo ardderchog i'r holl ymresymiad. O leiaf fe ellid cymhwyso ati ddadl anwrthwynebol Robert Hughes, Uwchlaw'r ffynnon, pan oedd Griffith Hughes wedi dyfod arno ef a'r Dr. Edwards, y ddau yn smocio'n ddiddan o bobtu'r tân yn Uwchlaw'r ffynnon, a'r gŵr o Edeyrn yn eu trin. "Chlywsoch chi ddim, Griffith, eu bod wedi dyfod o hyd yn ddiweddar. wrth wneyd cloddiadau yn Athen, i getyn yr Apostol Paul?" Pan wftiai y gŵr o Edeyrn y syniad, ebe Robert Hughes, ac er dirfawr ddigrifwch i'r Athraw, "Wel, rwan, Griffith, camp i chwi brofi mai nid cety'n yr Apostol Paul oedd yr hen getyn hwnnw a gafodd yr archwilwyr ymhlith y malurion hynny yn Athen."

Dyfynnir o Eusebius: "Wedi merthyrdod Iago a dinystr Jerusalem, darfu i'r Apostolion oeddent yn aros, ynghyda disgyblion ereill ein Harglwydd, a'i berthynasau oedd eto yn fyw, wedi cyfarfod, ac ar ol ymgynghoriad, ethol yn unfrydol Symeon, mab Clopas, i'r esgobaeth wâg;" a honnir y ceir oddiwrtho ef yn ddi-dor,—er nad oes neb all ddangos hynny,—linell yr olyniad yn Jerusalem. Yn ol yr hanes a roddir, disgwylir i ni gredu, wedi marw Symon, o.c. 108, ac o hynny hyd o.c. 136, ysbaid o wyth ar hugain o flynyddoedd, fod tri ar ddeg o esgobion wedi bod yno; a rhwng o.c. 136 ac o.c. 190, ysbaid o 54 o flynyddoedd, fod eu nifer yn *bymtheg*. A thwydd fod y cyfrif yn agos i gywir, mae'n amlwg nad allai y rhai hynny fod yn esgobion yn ystyr ddiweddar y gair, ac am hynny nid ydynt i'r ddadl yn werth dim.

Fe deimlir fod dyddordeb neillduol ynglŷn â'r mater hwn yn hanes Antiochia. Dywed y Gosodiadau Apostolaidd mai yr esgob cyntaf yno oedd Euodias, ac mai yr ail oedd Ignatius. "I Antiochia, Euodias, a ordeiniwyd gennyf fi Pedr; ac Ignatius gan Paul." Ni ellir honni yr un sail i'r chwedl yma. Am Ignatius, y mae ei enw ef yn llanw lle pwysig. Fe'i gelwir yn esgob gan ysgrifenyddyr bore, ac fe'i geilw ei hun felly. Cafodd ei ferthyrn yn Rhufain o.c. 107, neu o.c. 116. Y mae pymtheg o lythyrnau yn cael eu priodoli iddo, o ba rai y mae deg ar gael; ond pa nifer o'r deg sydd yn ddilys, ni ellir gwybod, os yn wir y gellir dweyd fod yr un o honynt felly. Y mae Dr. Killen, heblaw ei drafodaeth ar y mater yn ei *Ancient Church*, wedi cyhoeddi llyfr sydd yn dra anhawdd ei ateb, *The Ignatian Epistles entirely Spurious*. Ond fe olygir Ignatius yn amddiffynnydd tra glew i esgobyddiaeth, ac am hynny y mae dysgeidiaeth a gallu mawr wedi bod ar waith i brofi dilysrwydd ei Epistolau. Daethant i'r golwg yn nechreu y drydedd ganrif, pan oedd cnwd mawr o ysgrifeniadau ffugiol yn cael eu gynhyrchu. Mae tri o honynt yn y Syriaeg, a saith mewn dwy ffurf, y ferraif a'r hwyaf, yn Groeg. Ni ddadleuau Lightfoot, yn y diwedd,

ond dros ddilysrwydd y ffurf Roeg ferraf o'r saith. Ond, a chymeryd yr Epistolau hyn yn y ffurf a gymeradwya efe, y mae eu hamddiffyniad di-reswm i esgobyddiaeth, i ni, y gwrthbrawf cryfaf sy'n bosibl yn erbyn yr honiadau a wneir ar ei rhan. Rhoddwn ychydig engreiffiau a nodasom mewn darlenniad diweddgar o'r Epistolau hyn:—Dymuna i'r Ephesiaid, “gan fod yn ddarostyngedig i'r esgob a'r henuriaeth, fod ymhob ffordd wedi eu sancteiddio; canys hyd yn oed Iesu Grist, ein bywyd anwahanadwy, ydyw ewyllys y Tad, felly esgobion, a sefydlwyd ymhob man hyd y terfynau eithaf, y maent felly trwy ewyllys Iesu Grist;” “yn awr po fwyaf a wél un esgob yn ddistaw, mwyaf y dylai ei barchu; canys dylem dderbyn pob un a anfona Meistr y tŷ i fod ar ei dylwyth, fel y gwnaem â'r hwn a'i hanfonodd. Mae'n eglur gan hynny y dylem edrych ar yr esgob hyd yn oed fel yr edrychem at y Arglwydd ei hun.” Sonia wrth y Magnesiaid am “Damas, eu teilyngaf esgob;” “yn awr mae yn weddus i chwi oll beidio delio a'ch esgob gyda gormod o ryddid ar gyfrif ei ieuencid;” ac am yr hwn nad yw yn ufuddhau iddo, “nid yw yn twyllo yr esgob sydd weledig, ond ceisia watwar yr hwn sydd anweledig.” Cwyna fod “rhai yn wir yn rhoddi i un y teitl o esgob, ond yn gwneyd pob peth hebdo.” Wedi son am “eu hesgob tra rhagorol,” dywed “byddwch ddarostyngedig i'r esgob, ac i'r naill y llall, fel y mae Iesu Grist i'r Tad.” Wrth y Traliaid: “Fel y danghosodd Polybius eich esgob i mi;” “canys yr ydych yn ddarostyngedig i'r esgob fel i Iesu Grist;” “felly heb yr esgob ni ddylech wneuthur dim;” “os ydych yn parhau mewn undeb agos â Iesu Grist ein Duw, a'r esgob, a threfniadau yr Apostolion;” “yr hwn a wnél ddim ar wahan i'r esgob, a'r henuriaeth, a'r diaconiaid, y cyfryw ddyn nid yw o gydwybod bur;” “byddwch wych yn Iesu Grist, tra parhaoch yn ddarostyngedig i'r esgob.” Mae am annerch y Philadelph-iaid, “yn enwedig os mewn undeb â'r esgob, a'r henuriaeth, a'r diaconiaid, y rhai a apwyntiwyd yn ol meddwl Iesu Grist, . . . yr hwn esgob, mi wn, a dderbyniodd y weinidogaeth,” &c.; “fel y mae un esgob, gyda'r henuriaeth a'r diaconiaid;” “fel yr anfonodd yr eglwysi agosaf, mewn rhai achosion, esgobion, ac mewn rhai ereill henuriaid a diaconiaid.” Wrth y Smyrniaid: “Edrychwch ar eich bod oll yn dilyn yr esgob, fel y mae Iesu Grist yn dilyn y Tad;” “lle bynaag yr ymddanghoso yr esgob, yno bydded y lliaws hefyd. . . . Nid yw gyfreithlawn heb yr esgob i fedyddio neu gadw cariad-wledd, ond beth bynnag a gymeradwya efe, mae hynny hefyd yn gymeradwy gan Dduw;” “da yw parchu Duw a'r esgob; yr hwn a anrhydedda yr esgob a anrhydeddwyd gan Dduw, yr hwn a wna ddim heb wybod i'r esgob sydd yn gwasanaethu y diafol;” “yr wyf yn annerch eich teilwng esgob, a'ch hybarch henuriaeth, a'ch diaconiaid;” “perchweh yr esgob, fel y parcho Duw chwithau . . . bydded fy enaid dros y rhai a ymostyngant i'r esgob, i'r henuriaid, ac i'r diaconiaid.” Ac wrth yr Ephesiaid: “Gan ein bod, ynte, wedi adnabod eich lliaws yn enw Duw, trwy Onesimus, yr hwn yw eich esgob . . . Canys bendi-gedig yw efe a roddes i chwi y fath esgob.”—

The lady doth protest too much, methinks.

“Y ffwl,” meddai Hesiod, am ei frawd, oedd am grafangu iddo ei hun

yr oll a adawsai eu tad ar ei ol,—“Y ffwl, heb wybod gymaint fwy ydyw yr hanner na'r cyfan!” “Pe buasai wedi dweyd llawer iawn llai,” meddai Neander am rywun, “fe fuasai wedi dweyd llawer iawn mwy.” Ac yn sicr pe buasai Ignatius, neu y neb a yagrifennai yn ei enw, wedi boddioni, nid yn wir ar yr hanner, ond ar tua'r ddegfed ran o'r siaradach ffol am yr esgob, &c., a geir hyd yn oed yn y ffurf Roeg ferraf o'i Epistolau, fe allesid teimlo ei fod wedi dweyd rhywbeth oedd yn galw am ein sylw; ond pan y ceisia, mewn ffordd mor anghelydd, yn nechreu yr ail ganrif,—yn union wedi marwolaeth yr Apostol Ioan, y parched-icaf o'r holl frawdoliaeth, a'r hwn na sonia am esgob o gwbl, ac na chyfeiria hyd yn oed at gyfodiad y syniad yn yr eglwys, oddieithr ei fod yn gwneyd felly yn ei gondemniad ar Diotrophes,—pan y ceisia yr awdwr felly amddiffyn y syniadau ffol oedd wedi dyfod mor ffasiynol yn y drydedd ganrif am esgobyddiaeth a'r “radd driphlyg,” y mae yn ei wneyd ei hun yn ddirmygedig. Ac eto fe ddelir fod Epistolau Ignatius yn amddiffyn cadarn i esgobyddiaeth!

Tua diwedd yr ail ganrif yr ydym yn cael Ireneus. Erbyn ei ddyddiau ef yr oedd pethau wedi gogwyddo yn lled bell yng nghyfeiriad y drefn “apostolaidd” o esgobyddiaeth. Ar y dechreu, wrth reswm, nid oedd henuriad ac esgob ond dan enw perffaith gyfystyr ar un a neillduid gan y brodyr i “lywodraethu” yn yr eglwys, “ac yn enwedig” ar yr hwn oedd “yn poeni yn y gair a'r athrawiaeth.” Yr oedd y naill yn cyfeirio at ei oedran a'i gymeriad, a'r llall at ei waith fel “golygwr” (Act. xx. 28) ar braidd Duw. Yr oedd i'r gair *henuriad* hanes hybarch ymblith yr Iuddewon, ac yr oedd yn naturiol iddynt hwy lynu wrtho; ond fe ddeallid y gair *esgob* yn well gan y Groegiaid, ac fe ddaethpwyd i'w ddefnyddio yn fwy cyffredin am weinidog yr Efengyl. Am lawer o amser nid oedd yr esgob ond gweinidog ar un eglwys. Pan gyfarfyddai nifer o'r cyfryw frodyr mewn rhanbarth neu wlad yn y “cyngor o henuriad,”—yn yr hwn, chwedl Jerom, y llywodraethid yr eglwysi,—yr oedd yn naturiol dewis un o'r esgobion yn llywydd; ac nid oedd ond digon naturiol i frawd oedd yn hynod am ei dduwioldeb a'i synwyr, gael ei ethol yn fynych, neu am ei oes, ac felly ddyfod i gael edrych arno fel yr *esgob* yn arbennig yn y cyngor y perthynai iddo. Yr oedd Diotrophes “yn chwennych y blaen.” Dywedai un hen Gymro craff ei fod yn gweled “llawer Deio arall yn lled debyg iddo!” Wedi i lywyddiaeth y cyngor ddyfod yn safle o anrhydedd, yr oedd yn bur naturiol i ddynion felly, ac yn enwedig o'r eglwysi mawrion ac o'r prif ddinasoedd, ddyfod i deimlo mai *hwy* oedd y gwŷr i'w llanw; ac nid oedd ond digon naturiol i'w brodyr o'r eglwysi gwledig, oeldynt yn syml ac yswil ym mhresenoldeb y bobl fawr o'r prif eglwysi, ildio iddynt; ac felly, o radd i radd, fe ddaethpwyd i ddefnyddio y gair esgob yn ei “ail” ystyr,—ystyr na wyddai yr Apostolion na phobl yr amseroedd apostolaidd ddim yn ei gylch,—nid yn unig fel llywydd cyngor o henuriad, ond yn unbennaeth, a'i air yn ddeddf. A phan oedd crefydd yn isel a chyfeiliornadau yn ffynnu, yr oedd y bobl yn dyfod i deimlo awydd am gael rhywun i gyfeirio ato y buasai ei air yn derfyn ar ymrysonau, a chytunasant i gymeryd yr esgob felly. Yn unol â hyn y cawn eiriau Jerom yn ei esboniad ar Titus i. 5: “Mae esgob yr un & henuriad.

A chyn i ymrysohan gael eu dwyn i grefydd trwy gynhyrriad y diafol, ac y dywedid ymysg y bobl, Myfi wyf eiddo Paul, a Myfi wyf eiddo Cephas, llywodraethid yr eglwysi gan gyngor cyffredin o henuriaid. Wedyn, fel y gellid diwreiddio hadau ymrysonau, fe drosglwyddwyd yr holl ofal ar un. Gan hynny, fel y gwyr henuriaid, yn ol defod yr eglwys, eu bod yn ddarostyngedig i'r hwn sydd yn llywyddu, felly gwybydded esgobion eu bod uwchlaw henuriaid yn fwy yn ol defod nag yn ol apwyntiad ein Harglwydd, ac y dylent lywodraethu yr eglwys er y daioni cyffredin." Mae y geiriau hyn yn dangos fel y dygwyd y cyfnewidiad oddiamgylch, y rheswm am dano, a'r pwys o fod esgobion ei ddyddiau ef, yn y bedwaredd ganrif,—i ba rai yn ddiameu yr oedd "gair y cyngor" yn dra chymwys,—yn gweinyddu y swydd o dan deimlad o'u cyfrifoldeb, ac "er mwyn y daioni cyffredin." Ac mewn cyfeiriad at y drefn yma ar bethau yr ysgrifennwyd geiriau Ireneus, y rhoddir cymaint o bwys arnynt: "Os dymunwch gael allan athrawiaeth yr Apostolion, ymofynnwch âg eglwys yr apostolion. Yn yr olynid o esgobion aydd yn olrhain eu tarddiad o'r oes gyntaf, ac wedi eu penodi gan yr apostolion eu hunain, y mae gennyhau awdurdod am drosglwyddiad y fydd bur, nad all yr un athraw neillduol, newydd, a hunan-wneuthuredig, ei ddangos. Dyna eglwys Rhufain, er engraifft, yr hon y mae ei hâch ysbrydol yn berffaith yn ei holl ddolennau, ac esgobion cyntaf pa un, Linus a Chlement, a gymdeithasent â'r Apostolion eu hunain: dyna eglwys Smyrna eto, esgob yr hon, Polycarp, disgybl Ioan, na fu farw ond y dydd o'r blaen." Dyna olygiad Ireneus, ac y mae i'w gymeryd am a dâl. Tuag at gael hynny allan, mae yn iawn cofio fod ei wybodaeth ef mor ddiffygiol a'i farn mor anaddfed, fel y dywed fod Eglwys Rhufain wedi ei sefydlu a'i threfnu gan Pedr a Phaul, ac fod ein Harglwydd wedi byw hyd hennaint, ac nad allai tymor ei weinidogaeth gyhoeddus fod yn llai na hanner can mlynedd. Heblaw hynny yr oedd yn byw mewn adeg pan oedd y trawsfurfiad yn cymeryd lle, ac yn dra amlwg yn Rhufain,—âg esgob yr hon yr oedd yn naturiol iddo ddymuno bod ar delerau da. Heblaw hynny yr oedd yn ysgrifennu yn erbyn *Heresiau*, a diau, fel y sylwa Jerom, ei fod yntau, fel Hegeppus, Tertullian, ac ereill, yn credu mai y drefn newydd roddai fwyaf o amddiffyn rhag cyfeiliornadau. Ond y mae hanes yr oesoedd wedi dangos mor gwbl aflwyddiannus ydyw esgobyddiaeth er atal ymrysonau a sismau; ac y mae Eglwys Esgobyddol Lloegr yn awr yn y wlad hon, fel y dywed y *Times*, yn cario llawer mwy o'r pethau hynny o'i mewn hi ei hun nag a all fod y tu allan iddi. Erbyn dyddiau Cyprian, tua chanol y drydedd ganrif, yr oedd pethau wedi myned ymlaen mor ogoneddus yn y cyfeiriad yma, fel yr oedd yr esgob, fel y sylwa Lightfoot oedd, "gan Ignatius yn ganolbwynt undeb Cristionogol, a chan Ireneus yn geidwad y traddodiad Apostolaidd, gan Cyprian yn *is-frenin diamadol Crist—the absolute vice-regent of Christ*—mewn pethau ysbrydol." Fe ddygodd ef i'r golwg hefyd y drychfeddwl mawr o Offeiriadaeth yn yr Eglwys. Beth mwy oedd yn eisieu? Yr oedd y ffordd yn rhwydd bellach at gadair Esgob, ac Archesgob, a Phatriarch, a Phâb!

Yr ydym yn cael fod Ireneus yn enwi Polycarp, "esgob Smyrna, disgybl Ioan, na fu farw ond y dydd o'r blaen." Os coeliwn Clement

o Alexandria, yr oedd Ioan,—er nad oedd ganddo air i'w ddweyd am y fath beth ei hunan, ac yntau yn ysgrifennu ym mhrydnawn ei ddydd,—"yn myned o amgylch o ddinas i ddinas, mewn rhai manau i sefydlu esgobion, mewn manau ereill i gadarnhau eglwys, mewn manau ereill i apwyntio i'r swydd glerigol un o'r rhai a nodasid gan yr Ysbryd. . . . Fe geir fod olyniad esgobion, o'i olrhain i'w darddiad, yn gorffwys ar awdurdod Ioan." Dywed Ignatius hefyd fod Ioan wedi apwyntio Polycarp yn esgob. Ac yn ei Epistol at y Philipiaid y mae Polycarp ei hun yn ei wahaniaethu ei hun oddiwrth ei henuriaid: "Polycarp, a'r henuriaid gydag ef," &c. ; a cheir fod yn y rhan fwyaf o'r copïau y teitl, "Epistol St. Polycarp, Esgob Smyrna, a merthyr sanctaidd, at y Philipiaid." Yr oedd Ireneus yn ddisgybl iddo, fel yr oedd yntau i Ioan, a dywed ei fod "nid yn unig wedi ei addysgu gan apostolion, ac ymddiddan â llawer a welent Grist, ond ei fod hefyd wedi ei sefydlu gan apostolion yn Asia yn esgob yr eglwys yn Smyrna." Fe'i gelwir hefyd yn *Encyclical*, neu Gylchlythyr Eglwys Smyrna, sydd yn rhoi hanes ei ferthyrddod, yn "esgob yr eglwys gatholig yr hon sydd yn Smyrna." A chan na chafodd ei ferthyrhau hyd o.c. 155 neu o.c. 165, pan ydoedd mewn henaint teg, fe ddalia Lightfoot "yr ymddengys fod posibilrwydd camgymeriad ar y pwnt yma wedi ei gau allan, ac yn wir y rhaid i bob prawf hanesyddol gael ei dafu o'r neilldu fel yn ddiwerth, os gellir troi o'r neilldu dystiolaeth mor gref." Nid oes neb a amheuai ddim "ar y pwnt yma"; yr unig gwestiwn yw, Pa un ai fel henuriad ai fel prelad yr oedd Polycarp yn esgob Smyrna? Mae lle cryf i gasglu nad oedd efe yn edrych yn foddhaol ar y "system newydd" oedd mor brysur yn codi ei phen yn ei ddydd, mwy nag y gallai ei athraw ardderchog edrych gydag unrhyw hoffder ar Diotrefhes oedd mor egr "yn chwennych y blaen." Er pwysau ei flynyddoedd, fe deithiodd yr holl ffordd o Smyrna i Rufain i ymlw i'r esgob neu y pab Anicetus. Y mae Ireneus, yr hwn oedd yn ffafriol i'r drefu newydd, yn bur ddistaw am ei brif neges; dywed "iddynt gytuno ar unwaith heb ddadl" ar gwestiwn y Passg. ond cydnebydd, "ar faterion neillduol ereill, eu bod wedi cael ychydig ddadl." Ond nid yw yn anhawdd dyfalu. Ceisiodd Anicetus dawelu ei feddwl trwy ei wahodd i weinyddu Swper yr Arglwydd yn ei eglwys, ac felly, er ei holl urddas, ceisiai ddangos ei fod yn ei gyd-nabod fel ei gyfartal mewn ystyr eglwysig; ond dychwelodd Polycarp adref dan ei faich. Ac y mae yn ffaith dra arwyddocaol fod llywodraeth eglwysig henaduriaethol wedi para yn Smyrna am bum mlynedd ar hugain wedi marwolaeth y gŵr y teimlent tuag ato y fath ddirfawr barch. Pan oedd Noetus, tua diwedd yr ail ganrif, yn lledaenu ei gyfeiliornadau am y Drindod, fe'i gwrthwynebwyd, nid gan esgob, ond gan henuriaid Smyrna. Dyma yr hanes gan Hyppolytus: "Pan glywodd yr henuriaid bendigaid [yn Smyrna] y pethau hyn [am gyfeiliornadau Noetus], gwyssasant, a holasant ef o flaen yr eglwys. . . . Ond efe a wadodd, gan ddweyd ar y dechreu nad dyna oedd ei olygiadau. Wedyn, fodd bynnag, wedi iddo gynllwyn gyda rhai, a chael rhai i ymuno âg ef yn ei gyfeiliornad, fe gymerodd galon, ac o'r diwedd penderfynodd sefyll wrth ei olygiad. Yr henuriaid bendigaid eto a'i gwyssasant, a rhoisant gerydd iddo. Ond efe a'u gwrthwynebodd. . . ."

Yna hwy a'i ceryddasant, ac a'i bwriasant allan o'r eglwys." Mae yn lled sicr nad oedd esgobyddiaeth Polycarp ond peth pur ddiniwed, ac na olygai fwy wrth annerch y Philipiaid a dweyd, "Polycarp a'r henuriaid gydag ef," &c, nag a olygai Pedr pan ddywedai, "Yr henuriaid sydd yn eich plih, atolwg iddynt yr ydwyf fi, yr hwn wyf gyd-henuriaid," &c.

Fel hyn fe welir ein bod yn cael fod y seiliau ar ba rai yr adeiledir y gyfundrefn esgobyddol,—yr honnir pethau mor fawrion ar ei rhan fel trefniad Apostolaidd, Dwyfol, &c,—*yn hynod o weiniaid*. Ac er y mynnir i ni gredu fod esgobion ein gwlad ni yn awr yn gallu dangos eu hâch esgobyddol yn ddidor oddiwrth yr Apostolion, y mae yn amlwg fod hynny, er nad allwn ni fyned i'r mater yn awr, *yn amhosibl*,—pe buasai ddichonadwy iddo, wedi ei gael, fod o unrhyw werth. Gwych oedd gennym weled Eusebius, wedi yr holl genfaint o chwedlau hygoel y bu a wnelai A hwynt wrth ysgrifennu ei Hanes Eglwysig, yn ysgrifennu yn ei drydydd llyfr: "Ond pa nifer, a phwy, gan gael eu cynhyrfu gan sêl bur, a farnwyd yn gymwys i borthi yr eglwysi a sefydlwyd gan yr Apostolion, nid ydyw yn hawdd dweyd, *yn ddim pellach nag y gellir casglu oddiwrth ysgrifeniadau Paul*." Wel, y mae y rheiny, trwy râd Duw, yn ein dwylaw ninnau; ond nid ydym yn cael eu bod yn gwybod dim oll am esgobyddiaeth. Y mae yr Esgob Lightfoot, yr awdurdod uchaf y tu hwnt i bob dadl ar y mater, yn teimlo fod y corff o brawf y mae wedi cymeryd y fath drafferth i'w chwilio,—ac i fesur yn ddiameu, er feallai yn ddiarwybod iddo ei hun, dan ddylanwad yr "eilunod" y dergys Bacon fod mor anhawdd i ddynion ymryddhau oddiwrth eu dylanwad,—yn ei arwain i ddal ei afael yn gryfach yn ei ffydd esgobyddol. Pell iawn ydym oddiwrth feddwl am ei farnu, na barnu neb o'i frodyr sydd yn golygu yn gyffelyb. Ond i ni, y mae yr holl brawf yn troi allan yn ddirfawr fethiant, ac yr ydym wedi cymeryd pwyll yn yr erthygl hon,—sydd wedi myned yn feithach nag y dymunasem,—i ddangos hynny. A hyd oni all ein cyfeillion ddwyn ymlaen rhyw brofion llawer cryfach na dim a gawsom ganddynt eto i ddangos ein bod yn camgymeryd, yr ydym yn protestio yn erbyn eu traha yn galw Ymneillduwyr Cymru yn hereticiaid a sismaticiaid am nad ydynt yn derbyn eu dehongliad bach *hwy* fel meddwl Duw yn ei Air, neu yn cofleidio y gwrachiaidd chwedlau o'r hen Awdwyr,—na feddylid am bwysu ar eu bath mewn ymchwiliadau hanesyddol eraill,—fel gwirioneddau tragwyddol.

I ddyfod at amseroedd diweddarach, dywed Ficer Dolwyddelen fod Calvin yn dweyd, "Esgobyddiaeth o Dduw y mae." Es y cawn y manylion am hynny, ni a gymerwn ein rhyddid i ameu fod yn bosibl i Calvin erioed fod yn ddigon ehud i ddweyd peth mor ffol. Y mae Calvin yn sicr i'w gael yn ei *Institutes*, ac yno deil yn gryf fod yr esgob a'r henuriaid yn y Testament Newydd yn golygu yr un peth; fod y dewisiad i'r henuriaeth a'r ddiaconiaeth yn cael ei wneyd gan y disgyblion yn yr eglwysi, ac fel y gellid meddwl oddiwrth y gair a ddefnyddir, trwy godi dwylaw; nad oedd ordeiniad ond trwy arddodiaid dwylaw yr henuriaeth; ac am y swyddau a'r graddiadau, a derfynent yn anffaeledigrwydd y Pab, daliai efe nad oedd y Gair yn eu cydnabod o gwbl, ac ni feddylodd am gymeryd dim o honyant i mewn

i'r drefn eglwysig y bu iddo gymaint i'w wneyd wrth ei sefydlu yn Geneva. Am yr ystori ffol ynghylch John Wesley, da gennym gyfeirio at erthygl gref y Parch. W. H. Evans, yn NHRÆTHODYDD 1892, tud. 231, &c., "Pa fath Eglwyswr oedd John Wesley?" Yn yr un gyfrol hefyd, tud. 280, &c., y mae y Parch. John Evans, Abermeurig, yn dalio yn derynol â'r chwedlau o gyffelyb natur y gwneir cymaint o honynt ynglyn â Daniel Rowland, Liangeitho. Sonia y Ficer hefyd, gan ddyfod i lawr i'n dyddiau ni, am y Parch. Hugh Price Hughes, M.A., "y galluocaf o'r Ymneillduwyr," wedi ei ddwyn "i gydnabod i'r holl Eglwys Gristionogol fod am bymtheg canrif yn esgobyddol." Nid ydym ni, i ddechreu, yn deall teitl ein cydwladwr i fod y "galluocaf o'r Ymneillduwyr." Y mae yn selog a gweithgar, a llawenhawn yn fawr yn llwyddiant ei ymdrech i achub yr ysgubion. Ond fe fyddai yn ysmala, i'e gan ei gyfeillion, glywed ei enwi ef fel gŵr o farw. Yr oedd ei gynhygiad ef a Dr. Rigg, am gael sefydlu math o esgobyddiaeth ymysg y Wesleyaid ychydig amser yn ol yn cael ei dderbyn gan ei frodyr fel peth a aned yn farw. Ac er addef y "pymtheg can mlynedd," ni all fod dim gwerth yn hynny, heb i chwi allu ychwanegu ato o leiaf dri chan mlynedd yn rhagor, a dangos yn glir fod esgobyddiaeth wedi ei sefydlu yn nyddiau yr Apostolion. Ac ni fyddai hynny yn bopeth. Y mae Esgob Lightfoot yn dal ei afael yn gryf yn y rhyddid a roddes Crist i'w eglwys, gan adael cymaint i'w barn a'i theimlad crefyddol hi ei hun, yn wyneb yr amgylchiadau y bo ynddynt, gyda golwg ar gario ymlaen ei waith Ef ar y ddaear. Wel, yn yr ymarfer o'r rhyddid ardderchog hwnnw, er cael fod esgobyddiaeth yn gallu gwneyd ei theitl yn dda i'r *deunaw* can mlynedd, eto wrth ystyried ei *hanes*, yr ydym yn dal fod yn llawn bryd i'r eglwys ystyried yn ddyfal a difrifol. *Ai ni ellid ei newid am ryw drefn arall a fyddai yn fwy cyfaddas i ddynolryw, ac yn fwy ffwythlon mewn gwasanaeth i Grist?* Feallai y bydd rhai o'n cyfeillion—pe yn wiw ganddynt ddarllen llith o'r fath yma!—yn barod i daeru y rhaid ein bod ninnau wedi llithro ymhell iawn—os nad i'r pen pellaf—yng nghyfeiriad yr "anffyddiaeth" y golygir fod gwadu esgobyddiaeth yn arwain yn anocheladwy iddo. Gallwn ddal hynny hefyd yn bur dawl! Ychwanegwn yn unig, na allwn ni feddwl am ddim a dueddai yn fwy at yrru pobl ar gyfeiliorn y ffordd yna, na'r holl bwys a roddir byth a hefyd ar fympwy mewn perthynas i drefn llywodraeth eglwysig, *fel pe byddai yn brnc iachawdoriaeth*,—gan adael mor ddisylw y gwirioneddau mawrion, am y Cyfryngwr rhwng Duw a dynion; y marw sydd wedi dwyn bywyd i'r byd, ac "agor teyrnes nef i bawb a gredant;" a'r rhinweddau gogoneddus y mae saint Duw i ymberffethio ynddynt, "hyd oni ymgyfarfyddom oll, yn undeb ffydd a gwybodaeth Mab Duw, yn ŵr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist."

DANIEL ROWLANDS.

ADDYSGIAETH AMAETHYDDOL YNG NGOGLEDD CYMRU.

Gŵn DOUGLAS A. GILCHRIST, B.Sc.

UNIVERSITY COLLEGE EXTENSION, READING, HYD YN DDIWEDDAR DARLITHYDD MEWR
AMAETHYDDIARTH YNG NGOLEG PRIFYSGOL GOGLEDD CYMRU.

YR ydys wedi hen gydnabod fod pobl y trefydd wedi cael eu haddysgu yn well na phobl y wlad, ac am hynny fe dybir nad ydyw y gwladwr mor ddeallus â'i frawd o'r dref. Mae ymhell o fod yn sicr mai felly y mae, ond y mae manteision y trefwr yn tra rhagori. Mae yn llawer haws gosod cyfleusterau addysgol ynghyraedd pobl y dref na'r rhai sydd yn byw mewn ardal wledig deneu ei phoblogaeth; ac mewn canlyniad y mae llawer wedi ei wneyd er mwyn y trefwyr, ac ychydig mewn cymhariaeth er mwyn pobl yr ardaloedd gwledig, er y gallai yr ychydig fod wedi ei ddwyn oddiamgylch trwy draul fwy. Y mae amryw geisiadau wedi eu gwneyd i drefnu cynlluniau poblogaidd o addysg amaethyddol; ond hyd y blynyddoedd i diweddaf, gyda mor ychydig o lwyddiant fel y mae ein hamaethwyr profiadol hyd yma wedi bod yn edrych ar addysgiaeth amaethyddol fel mympwy ychydig frwdfrydwyr, oddiwrth ba un nad allant hwy na'u teuluoedd mewn un modd dderbyn unrhyw fudd. Yn wir y maent wedi edrych arno fel yn debyg o effeithio yn hytrach fel arall, fel yn dueddol i greu math o amaethwr bonheddig, yr hwn a dreuliai y rhan fwyaf o'i amser mewn astudio llyfrau ar ffarmio, yn lle ymroddi i waith ymarferol. Ni all fod amheuaeth nad yw y rhagfarn yma yn erbyn yr hyn a elwid ffarmio gwyddonol, wedi codi o ddiffyg, ar ran addysgwyr gwyddonol yr amaethwyr, o'r wybodaeth ymarferol honno a fuasai yn cyfnewid yn fawr holl gyfeiriad eu cyngor.

Y mae y gwaith a wnaed gan y *Royal Agricultural College*, Circenester, ac Adran Amaethyddol Prifysgol Edinburgh, a sefydliadau cyffelyb ereill, tra yn rhagorol a thrwyadl, wedi bod yn gyfyngedig i'r dosbarth uwch o amaethwyr. Y mae y rhan a gymerodd y *Science and Art Department* mewn dwyn ymlaen addysgiaeth amaethyddol, wedi bod o nodwedd ehangach; ond tra y mae llawer iawn o wybodaeth fuddiol wedi ei lledaenu trwy ddosbarthiadau lleol mewn amaethyddiaeth a ddygwyd ymlaen o dan ei olygiaeth, eto nid ydyw y wybodaeth honno wedi treiddio mor drwyadl i holl ddosbarthiadau y boblogaeth wledig ag a ellid ddymuno, er mwyn daioni pennaf amaethyddiaeth.

Y mae *Royal Agricultural Society* Lloegr, gan ddilyn esiampl yr *Highland and Agricultural Society* yn Scotland, wedi gwneyd gwaith tra buddiol trwy arholi efrydwyr amaethyddol; a'r blynyddoedd diweddaf y mae y *Bath and West and Southern Counties Society*, a'r *British Dairy Farmers' Association*, trwy gychwyn a chario allan gynlluniau er lledaenu addysg yng ngwaith llaethdai, wedi gwneyd gwasanaeth pwysig i amaethyddiaeth.

Fe fu y newydd fod y Trysorlys yn 1888, wedi gwneyd y grant blynyddol gyntaf o £5000 er cynorthwyo addysgiaeth mewn amaethyddiaeth a gwaith llaethdai yn y wlad hon, yn gyfnod newydd yn nadblygiad addysgyddiaeth amaethyddol. Mae y grant blynyddol hwn, nid yn unig wedi ei barhau, ond wedi ei gynhyddu, ac y mae yn awr dan lywodraeth Bwrdd Amaethyddiaeth. Fe gymerwyd i fyny yr hyn a ellid alw yn waith Cenhadaeth Prifysgol, *University Extension*, ar unwaith gan amryw sefydliadau addysgol, yn neillduol gan Goleg Prifysgol Gogledd Cymru ym Mangor, a Prifysgol Edinburgh. Cyfeirid egnion yr olaf, yn bennaf, at ddarpar dosbarthiadau mewn addysgiaeth amaethyddol i ysgolfeistri, y rhai wedyn a sefydlent ac a ddygent ymlaen ddosbarthiadau lleol mewn amaethyddiaeth yn eu gwahanol ardaloedd. Darfu i Goleg Prifysgol Bangor, nid yn unig ddechreu gwaith o'r fath yma, ond mabwysiadodd gynllun cyflawn o addysgiaeth amaethyddol i siroedd gogleddol Cymru, a gymerai i fewn sefydlu tair o ysgolion llaethdy, darlithiau ar faterion amaethyddol yn yr ardaloedd, dwyn ymlaen arbrofion yn y maes, a sefydlu yn y Coleg gwrs cyflawn o addysgiaeth i efrydwyr amaethyddol. Fod y gwaith yma wedi bod yn llwyddiannus a ddanghosir trwy y dyfyniad a ganlyn o Adroddiad Seneddol y Bwrdd Amaethyddiaeth wrth rannu y *Grants to Agricultural and Dairy Schools* yn y deyrnas am 1890—91 :—

Fe ddanghoswyd y gellir trefnu cynllun o'r fath fwyaf cyflawn o addysgiaeth amaethyddol gan y Coleg hwn; un nid yn unig a gyflawna ei ddyledswyddau priodol ei hun yn chwera ogleddol Cymru, ond sydd hefyd yn gynllun o'r llinellau ar ba rai y gellid trefnu addysgiaeth amaethyddol gyflawn trwy yr holl deyrnas.

Wedi cyhoeddi yr adroddiad yna, y mae canolbwyntiau colegol er addysgiaeth amaethyddol wedi eu trefnu yn y *Yorkshire College*, Leeds, i swyddi York; y *Durham College of Science*, Newcastle-on-Tyne, i swyddi Darham a Northumberland; yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, i ganolbarth Cymru; ym Mhrifysgol Caergrawnt, i swyddi deddwyrain Lloegr; yn yr *University Extension College*, Reading, sydd mewn cysylltiad â Phrifysgol Rhydychen; ac yn yr *University College*, Nottingham. Y llynedd fe wnaed grants o £800 i lawr, gan y Bwrdd Amaethyddiaeth i ganolbwyntiau o'r fath. Mae y grants hyn wedi eu chwyddo yn fawr trwy y cyllid sydd yn awr wedi ei osod yn llaw y Cynghorau Sirol trwy Ddeddf Llywodraeth Leol 1890, a thrwy y *Technical Instruction Acts*, tra mewn rhai achosion y mae tansgrifiadau lleol hefyd wedi eu cael.

Y mae rhan fawr o waith addysgiaeth amaethyddol a ddygir ymlaen yn awr trwy y wlad yn cael ei drefnu a'i gario allan gan Gynghorau Sirol. Mae y gwaith hwn yn cymeryd i mewn sefydlu ysgolion arhosol a chylchynol at drin llaeth a menyn, gwneyd arbrofion yn y maes, cael darlithiau ar faterion amaethyddol i amaethwyr, a threfnu dosbarthiadau i ysgolfeistriaid. Y mae grants hefyd yn cael eu rhoi gan Gynghorau Sirol i Ysgolion Eilraddol sydd wedi ychwanegu atynt ochr amaethyddol, megis Ysgol Ramedegol Ashburton. Hefyd y mae ysgoloriaethau amaethyddol wedi eu sefydlu. Mae y canolbwyntiau colegol a gynorthwyir gan Fwrdd Amaethyddiaeth, trwy eu hathrawon

a'u cyfleusterau, yn gallu cario allan drefniadau o addysgiaeth amaethyddol yn eu dosbarthiadau, ac felly yn gwneyd gwasanaeth gwerthfawr iawn i'r cyrff hynny.

Ymddengys fod Bwrdd Amaethyddiaeth, wrth estyn cynorthwyo i sefydliadau canolog, neu mewn *centres*, yn cadw mewn golwg yr amcanion canlynol :—

1. Galluogi y sefydliadau hynny i wneyd darpariaeth er rhoddi mewn gwahanol ganghennau hyfforddiant cyflawn i efrydwy'r amaethyddol.

2. Darpar er traddodi cyfresau o ddarlithiau ar faterian amaethyddol trwy y dosbarthiadau a gynrychiolir.

3. Cario allan arbrofion amaethyddol yn y maes, ac o fathau ereill, o fewn y dosbarthiadau.

4. Cynorthwyo er trefnu ysgolion llaethdy, yn arhosol a symudol, a dosbarthiadau lleol mewn amaethyddiaeth, a dwyn ymlaen arholiadau mewn cysylltiad â hwynt.

Y mae amryw ddosbarthiadau o'r oes sydd yn codi ag y mae'n angenrheidiol darparu ar eu cyfer addysgiaeth briodol mewn amaethyddiaeth. Dyna blant y gweithiwr a'r tyddynnwr. Pan y mae bechgyn fel yma wedi myned trwy eu haddysg elfennol,—a gadewch i ni obeithio, wedi pasio y chweched safon cyn gadael yr ysgol wledig,—y mae yn ddymunol eu bod yn cael eu calonogi i ddilyn Ysgol Parhâd, *Continuation School*, yn y prydawn, ymha un y dysgir amaethyddiaeth gan athraw cymwys yn ol y crynhodeb, y *syllabus*, a geir yn y *Code of Regulations for Evening Continuation Schools*, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Cyngor Addysg. Nid oes ddadl na fydd i fachgen sydd wedi derbyn hyfforddiant priodol mewn gweithrediadau amaethyddol am fwyddyn cyn gadael ysgol wledig, gymeryd wedyn ddyddordeb mwy deallus yng ngwaith ffarm. Fod y crynhodeb a gyhoeddwyd gan y Cyngor Addysg yn un ymarferol a defnyddiol a welir oddiwrt h y dyfyniad canlynol :—

3. Y CNYDAU.—Y gwahanol gnydau a dyfir ar ffarm :—(a) Cnydau yd (gwenith, haidd, ceirch, ffa a phys) ; (b) Gwreidd-gnydau (maip, rwdins, mangolds, tatws, a carrots) ; (c) Porthiant a chnydan gleision (meillion a glaswellt, sfrâu, ydau a dyfir yn borthiant, cabbages, ydfaip neu rape). Sut i adwaen y gwahanol gnydau. Dulliau o amaethu, hau a medi. Sut i adwaen chwyn cyffredin tir â'r a thir glâs.

TIR PORI.—Sut i'w gadw mewn cywair da. Symud ymaith dafol, ysgall, a obwyn ereill. Teilo. Cael dwr. Rhannu da byw ar borfa haf.

DOLYDD.—Triniaeth gyffredin. Cyweirio gwair. Gweithio *silage*. Pryd a sut y dylai dolydd gael eu pori.

PRYFAID A FFYNGON.—Sut i adwaen y rhai mwyaf niweidiol i'r cnydau. Dulliau o'u hatal.

Er nad yw gwaith prydawnnau parhad yn dyfod yn uniongyrchol o fewn cylch canolbwynt colegol, gall awdurdodau canolbwynt wneyd llawer i helpu ffurfio dosbarthiadau at waith o'r fath trwy roi benthyg darluniau ac offer, trwy ddwyn ymlaen arbrofion yn y maes er mwyn egluro, neu trwy ddarpar darlithoedd mewn cysylltiad â'r dosbarthiadau. Gallant ymhellach gynorthwyo trwy gynhyrfu ymdrech leol, a chael athraw o fewn y dosbarth, hyfforddiant yr hwn a'i galluogai i ddyagu

y cyfryw ddosbarthiadau yn llwyddiannus. Fe gynorthwyd gwaith o'r fath yma yn fawr pe'r ymgymerau prif amaethwyr y dosbarth â chyfflogi bechgyn a ddelent i'w ffermydd o'r ysgol ar yr amod eu bod i ddilyn dosbarth parhad. Fe roddai ysgoloriaeth o'r gymdogaeth neu o'r Cyngor Sirol, fo yn agored i aelodau y dosbarth hwnnw, i'r bachgen a'i henillai gyfleustra i ddilyn cwrs cyflawn o addysgiaeth mewn canol-bwynt colegol. Mae y telerau ar ba rai y gwneir grant gan y Cyngor Addysg i ddosbarth o'r fath i'w gweled yn y *Code of Regulations for Evening Continuation Schools*, 1893.

Mae darpariaeth yn cael ei gwneyd hefyd yn y Côd yma er addysgiaeth mewn coginiaeth a gwaith llaethdy. Yn awr, y mae merched gweithwyr a ffermwyr bychain yn gyffredin yn dewis cymeryd lleoedd yn y trefydd fel morwynion neu mewn siopau, yn hytrach na bod yn forwynion llaethdai, ac mewn canlyniad y mae prinder o rai at y gwaith yma. Mae yr *Education Department* wedi cydnabod pwsig-rwydd gwaith llaethdy trwy ei roddi ymysg y pethau y gellir ennill grants arno mewn ysgol ddyddiol, neu mewn ysgol brydnawnol parhad. Mae cydnabod y fath waith yn rhoddi mwy o bwysigrwydd arno yngolwg y plant, a thrwy eu cael i gymeryd dyddordeb ynddo cyn gadael yr ysgol, byddent yn fwy tebyg o droi eu sylw eto pan yn edrych am le.

Fe surfiwyd dosbarth cychwyn o'r natur yma yn ystod haf 1892, pan drefnodd Mr. Marshall Dugdale, o Lanfyllin, Sir Drefaldwyn, gydag Ysgol Llaethdy Trallwm, fod cwrs o addysgiaeth mewn gwneyd ymenyn ar y ffarm ynglyn â'i balas, i ddosbarth o enethod o fwrdd-ysgol Llanfyllin. Yr oedd yr arbrawf yn dra llwyddiannus, fel yr oedd yn amlwg wrth y dyddordeb a gymerai y genethod yn y gwaith, a'r medr a ddanghosid ganddynt wedi ychydig ddyddiau o addysgiaeth.

Yr wyf yn awr yn dyfod at addysgiaeth y rhai sydd yn meddwl ffarmio, a thadau y rhai sydd yn ffarmio mewn ffordd ehangach na'r rhai y cyfeiriasom atynt. Y mae perygl yn bresennol i fechgyn o'r dosbarth yma droi yn rhy fuan at waith neillduol ynglyn âg amaethyddiaeth. Nes y bont o leiaf yn dair ar ddeg oed, dylai eu hamser, gael ei gymeryd i fyny mewn cyrraedd hyfforddiant elfennol dda; ac am ddwy flynedd neu dair wedyn, ni ddylent ymroddi yn unig at faterion amaethyddol. Y mae ysgol fel Ysgol Ramadegol Ashburton, yn cynnyg manteision arbennig i fechgyn yn ystod y tymor olaf yma Y mae cwrs cyflawn o addysgiaeth amaethyddol yn ochr amaethyddol yr ysgol hon yn cyrraedd dros ddwy flynedd, ond argymhellir fod ysgolorion yn aros am drydedd flwyddyn os gellir. Mae y cwrs o addysg wedi ei drefnu yn y fath fodd fel ag i gyfuno addysgiaeth gyffredinol drwyadl gyda gwaith gwyddonol ac ymarferol fo yn dwyn perthynas âg amaethyddiaeth. Fe wylir yr arbrawf a wneir yn awr gyda'r ysgol hon gyda dyddordeb. Fe wneir ymgais gyffelyb gan Ysgol Dauntsey a agorir yn fuan gan Gyngor Sirol Wilts. Wedi gadael y fath ysgol, y mae'n ddymunol, am amryw reymau, fod yr efrdydd, os bwriada yn y diwedd gymeryd cwrs o addysg amaethyddol mewn coleg, yn treulio y flwyddyn nesaf, neu, gwell fyth, y ddwy flynedd nesaf, ar ffarm, a'i fod yn cymeryd rhan yn

ei holl waith. Wrth wneyd felly, fe'i galluogir, pan ddechreu a ei gwrs yn y coleg ar ol hynny, i gymeryd dyddordeb llawer mwy deallus yn y gwahanol ddsobarthiadau, ac i ennill llawer mwy o wybodaeth o'r darlithiau. Gallai gymeryd rhan fawr o waith coleg mewn dau dymor gauaf, yn cyrraedd dros chwe mis bob un, a threulio y chwe mis arall o'r ddwy flynedd ar y ffarm, pan fyddai ei wasanaeth arni o fwyaf gwerth. Yr wyf yn credu y rhoddid cefnogaeth fawr iawn i achos addysgiaeth amaethyddol pe cynhygid rhai ysgoloriaethau Cyngor Sirol er cydymgais gan efrydwyr amaethyddol, y rhai, wedi gadael y fath ysgol ag a gyfeiriwyd ati, ac wedyn dreulio dwy-flynedd ar ffarm, a fwriadant gymeryd cwrs coleg o addysgiaeth mewn amaethyddiaeth. Am bawb sydd yn gwylled cynnydd addysgiaeth amaethyddol yn yr amser presennol, rhaid iddynt sylwi nael yw y mwyafrif mawr o efrydwyr amaethyddol yn y wlad hon yn dyfod yn y pen draw yn amaethwyr, er mai dyna fwriad nifer mawr o honynt cyn iddynt ddechreu ar eu cwrs o addysgiaeth. Y mae hyn yn codi o'r ffaith fod sefyllfaoedd da yn y broffeswriaeth addysgol, ac mewn canghennau ereill cysylltiedig âg amaethyddiaeth yn y wlad hon ac yn y Taleithiau, yn atynnu yr efrydydd amaethyddol sydd wedi cael hyfforddiant gwyddonol da. Gan hynny mewn trefn i addysgiaeth amaethyddol gyrraedd ei hamcan priodol, rhaid i ni drefnu cwrs o hyfforddiant mewn amaethyddiaeth o'r fath ag y tueddid meibion amaethwyr i wneyd defnydd o hono, a rhaid iddo ymyrraeth mor ychydig ag y byddo modd gyda'u bywyd cartrefol ar y ffarm.

Y mae eto ddsobarth arall o efrydwyr amaethyddol, yn cynnwys meibion tinfeddianwyr, rhai yn bwriadu bod yn dir-oruchwylwyr a phriawyr, ac athrawon gwyddoniaeth amaethyddol, ar gyfer pa rai y rhaid gwneyd darpariaeth. I'r rhai hyn, y mae yn ofynnol cael cwrs o addysg mwy cyflawn na'r un a nodasom, er y byddai cwrs felly yn ddechreuad o'r fath oreu. Gosododd Prifysgol Edinburgh esiampl ragorol pan benderfynodd, ychydig flynyddoedd yn ol, roddi y radd o B.Sc. mewn amaethyddiaeth i efrydwyr cymeradwy o'r Brifysgol honno. Yr oedd yn gymwys i'r Brifysgol ag yr oedd ei Chadair Amaethyddiaeth wedi ei sefydlu fwy na chan mlynedd yn ol, fod y gyntaf i gymeryd y cam pwysig hwn. Y mae esiampl Prifysgol Edinburgh wedi ei dilyn gan un Durham, yr hon a wna amaethyddiaeth yn fater gradd, ac fe obeithir y bydd Prifysgolion ereill yn fuan yn symud yn yr un cyfeiriad. Mae gan y Brifysgol newydd i Gymru yn awr gyfleustra ardderchog i wneuthur felly.

Y mae y rhan a gymerodd Cymru eisoes yn y mater yma yn bob clod iddi, ac y mae y manteision a enillodd trwy hynny yn werthfawr iawn. Ymysg pethau ereill, gallwn nodi fod amaethwyr yn awr yn talu llawer mwy o sylw i wrtaith eu bueir, ac yn dangos mwy o farn wrth brynu gwrtaith celfyddydol. Mewn trefn i gael sicrwydd am ansawdd gwrteithiau, y mae yn angenrheidiol adnabod y gwahanol dermau masnachol a ddefnyddir am danynt, ynghyd a'u harwyddocâd. Y mae hyn yn awr yn cael ei gyrhaeddyd gan nifer go fawr o amaethwyr Gogledd Cymru. Feallai fod y rhan bwysicaf o'r gwaith a wnaed, mewn cyfeiriad at wellhad porffau trwy wrteithiad, a ffyrdd ereill. Y mae hyn, ar gyfrif y gwahaniaeth yn sefyllfa

amaethyddiaeth, yn dra phwysig. Mae yr arbrofion a gariwyd ymlaen yn Aber gan Mr. Thomas Roberts mewn cysylltiad â Choleg Bangor, a chan ereill, ar hadau glaswellt a meillion cyfaddas i Ogledd Cymru, wedi tynnu cryn lawer o sylw i'r mater hwn, ac wedi arwain i welliant amlwg yn newisiad y fath hadau.

Am waith Llaethdy, y mae yr hyn a wnaed yn y tair Ysgol, ym Mangor, yn Ninbych ac yn y Trallwm, wedi arwain i welliant yn y llaethdai mewn llawer o achosion, i fwy o lanweithdra yn y gwaith, ac i ddefnyddiad gwell offer gyda'r gwahanol orchwylion. I fesur hefyd y mae gwneuthur caws wedi ei adnewyddu yng Ngogledd Cymru. Y mae rhai fu yn cael eu hyfforddi yn yr ysgolion hyn, yn awr yn gwneyd gwaith da yn eu llaethdai gartref, tra y mae ereill mewn sefyllfaeodda da yn cymeryd gofal llaethdai, ac ereill ar waith, nid yn unig yng Ngogledd Cymru, ond yn holl rannau y wlad, yn rhoi hyfforddiant mewn dulliau gwell o gario ymlaen waith llaethdai. Fe gymerodd Coleg Gogledd Cymru gam tra phwysig trwy drefnu y cwrs cyntaf i Athrawon ar waith Llaethdai ddwy flynedd yn ol. Arweiniodd hyn i sefydliad dosbarthiadau cyffelyb mewn rhanau ereill o'r wlad, ac y mae wedi cael dylanwad tra phwysig mewn dyrchafu safon addysgiaeth athrawon yn y gwaith hwn.

Yr wyf yn credu fod lle i obeithio y bydd amaethwyr Gogledd Cymru yn fuan yn gwneyd defnydd helaethach o'r manteision addysgwyl a gynhygir iddynt yng Ngholeg Bangor. Nid ydyw holl Gynghorau Sirol y Gogledd eto wedi cynnyg ysgoloriaethau amaethyddol, ond hyderir y byddant oll, cyn hir, yn gweithredu yn y cyfeiriad hwn, ac felly yn cadw i fyny â'r ihan fwyaf o'r Cyaghorau Sirol Seisonig.

Y mae hefyd yn bwysig fod cadw Dofednod a Garddwriaeth yn cael sylw dyladwy gan y sefydliadau hyn.

Mae Adran Amaethyddol Coleg Gogledd Cymru mewn cyffyrddiad agos âg amaethwyr Gogledd Cymru, ac y mae yr ymwneyd parhaus sydd rhwng y darlithwyr a'r amaethwyr, mewn llawer ffordd, yn cael ei droi i ddiben da. Mae y ffarmwr felly yn cael y wybodaeth oreu gyda golwg ar wahanol fethau o wrteithiau ac ymborth anifeiliaid, ac ar faterion gwyddonol ereill y mae a fynnant a chario ymlaen waith ei ffarm. Fe wyl y rhai sydd wedi bod yn darlithio ar faterion amaethyddol fod gwybodaeth o'r fath yma yn cael ei gwerthfawrogi yn fawr gan amaethwyr, pan y teimlant yn sicr nad ydyw yn dyfod oddiar amcanion amhens. Ond pan y mae athraw neu ddarlithydd, hefyd yn oruchwyliwr mewn offer a nwyddau amaethyddol, y mae ei gyngor, a dweyd y lleiaf, yn agored i ddrwgdybiaeth. Nid oes eisieu ond cydnabod anfanteision a pheryglon hyn mewn trefn i'w aymud ymaith.

Gallwn nodi, fodd bynnag, nad oes un ysgol yng Ngogledd Cymru gyffelyb i Ysgol Ramadegol Ashburton y cyfeiriais ati. Byddai sefydlu ysgol felly, neu yn hytrach ddadblygu un o'r Ysgolion Canol-raddol sydd newydd eu sefydlu yn y cyfeiriad hwn, yn gyflenwad pwysig ar ddiffyg sydd yn awr ym manteision addysgiaeth amaethyddol yng Ngogledd Cymru.

YMSON YR AFRADLON.

Er dioddef gwaradwyddol—dlodi byd,
Y “wlad bell” astronol,
O fedd ing wyf ddihangol,
I dŷ fy Nhad af yn ol.

Y mae ynwyf annymunol—brofiad
O bob rhyfyg damuol ;
Ond o'r cwyn drwy eu canol,
I dŷ fy Nhad af yn ol.

Byw 'n druenus bendronol—adyn wyf,
O dan warth parddüol ;
Wylw wnafl am law nefol,
I dŷ fy Nhad af yn ol.

Baeddais gynhorion buddiol,—a gwir swyn
Dagrau serch angherddol ;
Ond toddais! yn gystuddiol,
I dŷ fy Nhad af yn ol.

Trosedd a'i ddistryw ysol,—ddifäodd
Fywyd anystyriol ;
Gwedi yfed gwae deifiol,
I dŷ fy Nhad af yn ol.

Y bri, am groes barhäol,—a'm golud
Am gywilydd bythol
A roddais ; ond yn raddol
I dŷ fy Nhad af yn ol.

Aur a ffödd, ac mor ffeiddiol—yw 'm gwaith,
A'm gwisg yn ddiraddiol ;
Yn hyll a thruan hollol,
I dŷ fy Nhad af yn ol.

Dôr agored i'r gŵyrol—a erys,
Yn arwydd o dadol
Gariad, a serch blagurol,
I dŷ fy Nhad af yn ol.

Adferir edifeiriol,—a rhoddir
Iddo ras maddeuol ;
Drwy hwnnw, yn dariannol,
I dŷ fy Nhad af yn ol.

O ddrwg ffyrdd yr euog ffol,—rhag dinystr
A'i gadwyni barnol,
A diwedd ofnadwyol,
I dŷ fy Nhad af yn ol.

Mae ei roesaw mor rasol,—a'i gariad
 Gwir yn fôr ymchwyddol;
 Ar ei dôn yn grediniol,
 I dŷ fy Nhad af yn ol.

O fraint! o'i anfri heintiol—ceir adref
 Y crwydryn diröol;
 Try yn gerub taylorgarol,—
 I dŷ fy Nhad af yn ol!

DYFED.

DUWINYDDIAETH YR HEN DESTAMENT YNG NGOLEUNI BEIRNIADAETH DDIWEDDAR.

[DARLLENWYD y rhan fwyaf o'r papur canlynol yng Nghyfarfod Gweinidogion Cymreig Lerpwl a'r amgylchoedd, yng Nghapel yr Annibynwyr, Clifton Road, Birkenhead, Tachwedd 19eg, 1894. Ychwanegir yma amryw gyfeiriadau at awduron, y rhai a allant, ond odid, fod yn fanteisiol er synorthwyo rhai darllenwyr i gario ymhellach eu hymchwiliadau i'r materion a ddygir ger bron. Gwnaed defnydd hefyd o rai o'r sylwadau a draethwyd gan rai o'r gweinidogion.]

GYDA'r testyn hwn y peth cyntaf ddylid ei wneyd ydyw "cerdded y terfynau." Trwy ddefinio ein termau yn ofalus ar y cychwyn, arbedir i ni lawer o amser a thrafferth wrth fyned ymlaen. Sicrheir y fantais oreu i gadw allan yr hyn sydd amherthynasol, ac i wneuthur yr ymdriniaeth â'r cwestiynau a ddeuant yn gyfreithlawn dan sylw yn olen a chliir.

Wrth "Feirniadaeth Ddiweddar" ynte y golygir yr "Uwch Feirniadaeth." A gwyr pawb fod honno i'w gwahaniaethu oddiwrth "Feirniadaeth Destynol," neu yr "Is-Feirniadaeth." Gorchwyl y ddiweddaf ydyw cael gafael ar y "testyn," fel y bwriadai yr awdwr iddo fod. Ei gorchwyl gyda'r Epistol at y Rhufeiniaid, er engraifft, ydyw cael allan bob gair a llythyren o'r Epistol hwnnw fel y mynnai yr Apostol Paul iddynt fod pan yn adrodd ei gynnwys wrth Tertius (xvi. 22), yr hwn a'i hysgrifennai drosto. A chyffelyb yw ei gorchwyl gyda llyfr Genesis, a chyda phob un arall o lyfrau yr Hen Destament,—penderfynu ar y "testyn," hynny yw, pa fodd y mynnai eu hawdwyr, pwy bynnag oeddynt, i bob gair a llythyren ynddynt fod. Ond ar ol i "Feirniadaeth Destynol" orffen ei gwaith, y mae yr "Uwch Feirniadaeth" yn dod ymlaen i ymasfyd yn ei gwaith hi. Os dechreuas arno yn gynt, y mae yn rhwym o fod dan anfantais; gyda "thestyn" perffaiith yn unig y gall hi gychwyn yn deg ar ei gyrfa. Nid oes dim a wnelo â llawysgrifau a chyfieithiadau, yn yr ystyr yr ymawneir

A'r cyfryw gan "Feirniadaeth Destynol:" y mae ei chwestiynau hi o nodwedd hollol wahanol. Wedi iddi gael llyfr Genesis, dyweder, i'w llaw, gofynna gan bwy, ymha oes, ac o dan ba amgylchiadau y cyfansoddwyd ef. A thuag at ateb y cwestiynau hyn, nid ymofyn y mae am dystiolaethau oddiallan, eithr chwilia i mewn i gynnwys y llyfr, er gweled pa beth a ddywed am dano ei hun. I ddechreu, edrycha a ydyw yn dweyd rhywbeth am ei awdwr, am ei enw, ei amser, ei wlad, a'i amgylchiadau. Yna ymofynna am ryw arwyddion pa un a ddygwyd y llyfr i'w ffurf bresennol ar unwaith, ynto yn raddol; a wna yr awdwr, pwy bynnag yw, ddefnydd o ryw ysgrifau neu draddodiadau hynach na'i ddyddiau ei hun; ac os gwna, pa beth yw hanes blaenorol y cyfryw. Yn y wedd hon ymdrechir gwneyd allan oedran pob cyfran o gynnwys y llyfr, a thuag at hynny edrychir ar bob ymaddod a gair o'i fewn er gweled pa dystiolaeth a geir oddi-wrthynt. Ymofynnir a ydyw yr arddull yn gystal a'r geiriau yn gyson A'r syniad mai Moses oedd awdwr y llyfr yn ei ffurf bresennol, ai ynto A'r syniad fod rhyw gyfran o'i gynnwys yn eiddo ef. Ac wrth edrych arno fel hyn y mae mwyafrif mawr o'r Uwch Feirniad yn dylod i'r enghlad ddarfod i'r awdwr wneyd defnydd o amryw ysgrifau, nidraddodiadau, neu draddodiadau; ac mai nid ar unwaith, eithr yn raddol, y gosodwyd y defnyddiau hyn ynghyd ac y dygwyd y llyfr i'w ffurf bresennol. Cyfelyb yw ymchwiliad yr Uwch Feirniadaeth i gynnwys pob un o lyfrau yr Hen Destament. Gellir ychwanegu ei bod yn hatod i dderbyn pob cynhorthwy dichonadwy at ei gwaith trwy gymharu y tystiolaethau mewnol a phob tystiolaethau a geir o unrhyw gyfeiriad arall. Y mae yr Uwch Feirniadaeth yn llenyddol a hanesiol.

(Swllir fod yr ymchwiliadau hyn yn cyffwrdd â chwestiynau heblaw awduriaeth a chyfansoddiad y gwahanol lyfrau. Y maent yn arwain, er ongraffit, at y cwestiwn o gywirdeb neu anghywirdeb hanesyddol yr hyn a geir ynddynt. Gyda llyfr, yr hwn y cesgir iddo gael ei ysgrifennu yn y seithfed neu yr wythfed ganrif cyn Crist, neu yn ddiweddarach, ond y ceir ynddo gyfeiriad at ddiwyddiadau a gymerasant le, neu yr honnir iddynt gyferyd lle, gannoedd os nad miloedd o flynyddoedd yn foreuach, ymofynnir yn naturiol am werth yr awdurdod ar ba un y gwneir y cyfryw gyfeiriad. Ac felly y mae beirniadaeth ddiweddar wedi dwyn i mewn syniadau newyddion, nid yn unig am awdwyr, amseriad, a chyfansoddiad llyfrau yr Hen Destament, ond hefyd am yr holl hanes o Adda hyd Grist. Cymaint a hynyna am ystyr ac amcan "beirniadaeth ddiweddar."

Adran o'r hyn a elwir "Duwinyddiaeth Feiblaidd" yw "Duwinyddiaeth yr Hen Destament." Gwneir gwahaniaeth rhwng "Duwinyddiaeth Feiblaidd" a "Duwinyddiaeth Gyfundrefnol." Y mae un elfen yn y gwahaniaeth yn gwbl eglur: unig gwestiwn y flaenaf ydyw, "Pa beth a ddywed yr Ysgrhythyr?" Nid yw hi yn estyn ei thiriogaeth y tu allan i derfynau y Ddau Destament; tra yr ymofynna "Duwinyddiaeth Gyfundrefnol" am dystiolaeth natur, cydwybod, rheswm, profiad,—yr & mewn gair, i unrhyw gyfeiriad a phob cyfeiriad lle y mae tystiolaeth i'w chael ar ei chwestiynau hi,—er ei bod yn adeiladu yn bennaf ar dystiolaeth yr Ysgrhythrau. Ymhellach, amcana weithio

duwinyddiaeth, fel yr arwydda ei henw, i gyfundrefn, gan osod allan ei holl rannau mewn cydbwysedd priodol â'u gilydd. Ond nid yw "Duwinyddiaeth Feiblaidd" yn gwneyd mwy na dilyn olyniad neu ddabwydd gwirioneddau yng ngwahanol rannau yr Hen Destament a'r Newydd, gan gymharu yr olwg ar y gwirioneddau yn y naill ran â'r olwg a geir arnynt mewn rhan arall.

Rhan o'r dduwinyddiaeth hon, fel yr awgrymwyd, yw "Duwinyddiaeth yr Hen Destament." Ei gwaith yw casglu ynghyd dystiolaeth yr Hen Destament, dan bob amrywiaeth ffurf ar y dystiolaeth honno, ar yr holl faterion a gynhwysir dan y term "duwinyddiaeth," gan olrhain yn ofalus y cynnydd neu y dabblygiad a gymerodd le o'r amseroedd boreuaf hyd yr amseroedd diweddaraf o fewn ei derfynau. Yn ystyr gyfyngaf y gair hwn, "duwinyddiaeth," ni chynnwys fwy na'r gwirionedd am Dduw; ond yn ei ystyr gyffredin, cymer i mewn y gwirionedd am ddyn ac am y creadigaeth yn gystal; cymer i mewn yn wir y cwbl am berthynas Duw â chreadigaeth, rhagluniaeth, a phrynedigaeth.

Ond wrth wahaniaethu rhwng Duwinyddiaeth Feiblaidd a Duwinyddiaeth Gyfundrefnol, ni ddylem anghofio fod ar yr un pryd berthynas agos rhyngddynt â'u gilydd. Ni raid i'r gyntaf, yn wir, ofalu am y ddiweddaf, ond rhaid i'r ddiweddaf wneyd cyfrif o firwyth yr ymchwiliadau mewn cysylltiad â'r gyntaf. Y mae hefyd ddwy wyddor arall sydd i'w gwahaniaethu oddiwrth Dduwinyddiaeth Feiblaidd, neu dyweder, er mwyn cadw yn agosach at ein mater ein hunain, oddiwrth Dduwinyddiaeth yr Hen Destament, sef Esboniadaeth neu Ddeonglyddiaeth, a Hanes Cenedl Israel. Cymer Duwinyddiaeth Feiblaidd i fyny ganlyniadau Esboniadaeth fel ei defnyddiau; ac allan o'r rhai hyn i fesur helaeth yr "adeilada ei thŷ." Yr un modd y mae yn defnyddio gwaith yr ymchwilyr sydd wedi ymgymeryd a gosod allan hanes y gonedl Iudewig, yn ei wahanol weddau a'i gysylltiadau, fel y ceir ef yn Ysgrhythrau yr Hen Destament, wedi defnyddio pob goleuni ar gynnwys y rhai hynny a geir o bob cyfeiriad arall.

Y neb a fynno eglurhad pellach ar yr amrywiol faterion yr ydym wedi cyffwrdd â hwynt, ni a'u cyfeiriwn at Weithiau Eherl a Schultz a'r "*Old Testament Theology*," cyhoeddedig gan y Meistri T. a T. Clark, o Edinburgh.

Ein cwestiwn yn awr ydyw, Pa beth yw dylanwad yr Uwch Feirniadaeth ar Dduwinyddiaeth yr Hen Destament? Os ydyw yr hyn a ddywed yr Uwch Feirniad am y gwahanol lyfrau yn wir, pa gyfnewid- iad raid gymeryd lle yn ein syniadau am ddysgoidiaeth yr Hen Destament am Dduw, am ddyn, am bechod,—am Dduw yn yr holl berthynasau a awgrymir gan y termau creadigaeth, rhagluniaeth, a phrynedigaeth. Y mae y maes hwn mor eang, fel y gwelir ar unwaith nas gallwn yn y lle hwn, ond yn unig cymeryd cipdrem frysiog ar ei gyrrau. Rhaid i ni, pa fodd bynnag, tuag at i'r "gipdrem" honno fod o ryw werth, gymeryd moment o hamdden i grynhoi ynghyd rai o gasgliadau yr Uwch Feirniadaeth sydd yn taffu goleuni newydd a gwahanol ar "Dduwinyddiaeth yr Hen Destament." Yr anhawster yw gwneyd hynny i unrhyw bwrpas o fewn terfynau mor gyfyng. Dichon nas gallwn wneyd yn well na rhoddi rhyddgyfeithiad o'r hyn a geir gan

yr Esgob Ellicott mewn "Siars" i'w glerigwyr dair blynedd yn ol. I'r blaidd Geidwadol ar faterion beirniadol y perthyn efe; a geiriau celyd a ysgrifennir am dano gan rai o'r Uwch Feirniaid. Diau y dywedent hwy nad oes neb a fyddai yn llai dewisol ganddynt i oesod allan eu golygiadau nag efe; ond y mae y radd leiaf o gydnabyddiaeth â'u bysgrifeniadau yn ddigon i ddangos nad yw yr Esgob yma yn gwneyd dim cam â hwy.

Gellir crynhoi ynghyd olygiadau y rhai craffaf o'r beirniaid ar y cyfandir fel y canlyn:—

1. Na ddaeth yr Hen Destament i'w flurf bresennol hyd adeg gymharol ddiweddar, yng nghyfnod y Caethgludiad.

2. Y gwelir yn y llyfrau hanesiol diweddaraf, ac yn enwedig yn llyfrau y Croniol, ddull o ysgrifennu hanes sydd yn myned ymbelli i gyfawnhau yr amheu-aeth gyda golwg ar ddilyrwydd yr hanes yn y llyfrau boreuaf, ac i'n paratoi i dderbyn y casgliadau sydd wedi eu tynnu oddiwrth ymohwiliad beirniadol i'w cynnwys.

3. Y darganfyddir trwy yr ymohwiliad yma yn y pum llyfr a llyfr Josua (a elwir yn awr yn gyffredin, Y Chwe Llyfr, *Hexateuch*), o leiaf dair haen (*strata*) yn cynnwys hanes a manylion deddfwrol, yn perthyn i wahanol gyfnodau, ac yn meddu eu neillduolion eu hunain; y rhai ydynt wedi myned trwy ddwyllaw amryw olygwyr a diwygwyr, ond ydynt yn diwedd wedi eu cyfuno gyda deheu-rwydd yn y flurf yma yn y maent wedi disgyn i'n dwylaw ni.

4. Mai y tair prif haen—oreidir fod yn y llyfrau amryw haenau ereill—ydynt:—
(a) Llyfr Hanesiol, wedi ei gyfansoddi trwy gyfuniad o ddwy ysgrif. Y ddwy hyn ar wahan ydynt E. a J. Yn E. ceir yr enw "Elohim" ar Dduw; ac yn J. yr enw "Jehovah" (Jahveh): gelwir y naill *Elohist*, a'r llall *Jehovist*. Gelwir y ddwy wedi eu huno â'u gilydd J.E. Perthyna y llyfr hwn i gyfnod y breuhinoedd a'r profiwydi boreuol. (b) Llyfr Deuteronomi, wedi ei gasglu yn nyddiau Manasseh neu Josiah, gan ryw ysgrifennydd anadnabyddus, ac yn dwyn rhyw fath o berthynas neu gydnawsedd â'r Llyfr Hanesiol (a). Gelwir yr haen yma D. (c), *Document* sydd yn ei flurf foreuaf yn perthyn i'r un cyfnod ag (a), yn hanesyddol yn unig mewn flurf, ac yn defnyddio trwyddo oll yr enw "Elohim," yn oael ei alw weithiau y Sylfaen (*Fundamental Document*), weithiau yn Llyfr y Pedwar Cyfamod, a phryd arall, er yn gamarweiniol, yr Elohist boreuaf,—yr hwn, wedi ei ddiwygio yn ofalus, a helaethwyd tuag adeg y Caethgludiad i'r hyn a elwir y Ddeddf Offeiriadol (*Priestly Code*).—ei gwaelod yn gynwysedig o Lefiticus a rhannau cydberthynasol yn Exodus a Numeri. Yr haen yma yw P.

5. Fod y tri llyfr o Ddeddfau (*Codes of Law*), a geir yn y Pum Llyfr yn cydreddeg â'r dadansoddiad hwn, ac yn ei gadarnhau.

6. Fod gennym yn Llyfrau y Barnwyr, Samuel, a'r Brenhinoedd, hanes wedi ei adlunio, a'r darlun gwreiddiol wedi ei liwio drosodd drachefn ar egwyddor sydd i fesur helaeth yn unfurf, a chyda rhyw gyfeiriad at Deuteronomi. Y mae yr ychwanegiadau a'r llygriadau yn Llyfrau Samuel yn lliosog, ac yn arbennig yn y manau y daw y profiwyd i gysylltiad â hanes Dafydd; ac y mae yr ad-drefniad ar Lyfrau y Brenhinoedd hefyd yn helaeth, er y oedwir yno yn nes at y weithiau nag yn Llyfr y Barnwyr a Llyfrau Samuel.

7. Y defnyddiai y Profiwydi hanes fel trosglwyddydd eu syniadau eu hunain, ac nad oedd eu rhagfyngiadau—y pethau a elwid felly—ond dyfaliadau ffaledig am y modd yr oedd Duw yn debyg, yn ol eu syniadau hwy, o ymddyng tuag at ddeiliad ei lywodraeth, mewn cysondeb â'r cymeriad a briodolent iddo. . . .

8. Ein bod gan hynny, yn ol yr hyn a ddywedwyd eisioes, i edrych ar lyfr Deuteronomi yn fûg, wedi ei seilio, fe allai, ar draddodiadau, ond heb ei ysgrifennu, yn ol pob tebygrwydd, yn foreuach na'r ddeunawfed flwyddyn o deyrn-asiad Josiah; na bu i Babell y Dystiolaeth, a'r hyn oll a berthynai iddi, erioed fodolaeth y tu allan i'r hanes a ddyfeisiwyd yn nyddiau y Caethgludiad. Yn lle bod y Babell yn rhag-gynllun y Deml, y gwirionedd, meddir wrthym, yw, mai y Deml a fu yn achlysur dyfeisiad yr hanes cyflawn am y Babell. Ymhellach, gelwir arnom i greu ddarod i'r llyfrau boreuaf gael eu hadlunio i gyfateb i'r hyn a ddywedir am y gyfundrefn Foesenaidd; ac i Lyfrau y Croniol, yn arbennig,

gael eu camliwio yn fwrriadol gan Offeiriaid a Lefaid, er mwyn cynnal i fyny y grediniaeth fod llwyth Lefi wedi ei osod o'r neilldu er dyddiau Moses, a bod tarddiad yr offeiriadaeth i'w gael yn yr un cyfnod boreu; er fod, fel yr honnir, y fath grediniaeth yn gwbl groes i'r gwirionedd." (*Christus Comprobator*, tud. 52—55).

Golygiadau Kuenen a Wellhausen, yn bennaf, a grynhoir ynghyd yn y dyfyniad uchod. Ond & yr Esgob ymlaen i ddisgrifio golygiadau y Parchedig Charles Gore, mewn erthygl yn *Lux Mundi (The Holy Spirit and Inspiration)*, ac i ryw fesur hefyd olygiadau Dr. Driver, mewn erthygl yn y *Contemporary Review*, Chwefror 1890. Nid yw Mr. Gore yn ddiau yn ystyried ei hun yn un o'r Uwch Feirniaid. Edrych y mae efe, oddiar safle duwinydd ac esboniwr, ac fel arweinydd plaid ddysgedig a dylanwadol yn yr Eglwys Sefydledig, ar ganlyniadau yr Uwch Feirniadaeth, cyn belled ag y gall efe dybio eu bod yn hawlio derbyniad, heb fod ganddo ran na chyfran o gwbl yn yr ymchwiliad sydd wedi arwain iddynt. Ond darlennir crynhoad yr Esgob o'i olygiadau;—

1. Nad yw yr hanesion boreuaf, cyn galwad Abraham, yn ddim amgen na chwedlau (*myths*). Deffinir ohwedl—a oes gwell gair Cymraeg am *myth*?—fel cynnyroh gweithrediad meddwl, heb i'r cynnyroh hwnnw gael ei ddostrannu a'i wahanu eto i hanes, barddoniaeth, ac athroniaeth.

2. Fod y Ohwe Llyfr yn seiliedig yn bennaf ar Lyfr Hanesiol cyfansawdd, a elwir weithiau Yr Hanes Prophwydol, Llyfr Deuteronomi, a Ohyfraith yr Offeiriad. (Gweler uchod, 4). Mai y cyntaf yw yr hynaf; fod yr ail yn perthyn i ddyddiau Manasseh neu Josiah; a'r trydydd yn perthyn i gyfnod y Caethgludiad, pan y ffurfiwyd y deddfau yn gyfundrefn gyflawn, allan o drefniadau boreuach a symlach.

3. Mai ad-gyhoeddiad yw Deuteronomi o'r Ddeddf yn ysbryd a nerth Moses, gan ei rhoddi mewn modd drychebol (*dramatically*) yn ei enau ef.

4. Fod y llyfrau hanesiol diweddaraf o nodwedd gyfansawdd, ac yn gynwysedig o ddefnyddiau hynach wedi eu hasio i mewn yng ngwaith casg ydd; a bod yn gyffredin yn hanesiaeth yr Hen Destament lawer o wthio i mewn o'u drychfeddyliau eu hunan (*idealising*) ar du yr ysgrifenywyr neu y casglwyr.

5. Fod hyn i'w ganfod yn arbennig yn Llyfrau y Croniol, er yn anymwybodol. Darlennir i mewn i adroddiadau am adegau boreuach, ddaablygiadau diweddar yng nghyfundrefn y genedl o addoliad.

6. Mai cyffredinol ydyw y wybodaeth trwy ba un y gwna y proffwydi eu rhag-fynegiadau.—gwybodaeth am y canlyniadau tuaq at ba rai y mae gogwyddiad pethau. Fod ysbrydoliaeth y proffwydi yn gyson a rhagfynegiadau camsyniol am amgylchiadau a chyfleusterau hunan-ddatguddiad Duw." (*Christus Comprobator*, tud. 56—7).

Gwelir nad yw yr Esgob yn gwneuthur unrhyw gyfeiriad at lawer o lyfrau yr Hen Destament. Ni ddywed ddim am Lyfr y Salmau. Syniad yr Uwch Feirniaid am hwn ydyw ei fod yn perthyn i gyfnod y Caethgludiad i Babilon. Tra y mae rhannau helaeth o hono, yn wir, yn ddiweddarach o lawer hyd yn oed na'r amgylchiad hwnnw, ni adddefir y posibilrwydd i braidd unrhyw ran o hono berthyn i gyfnod boreuach. Cymer yr Uwch Feirniaid oddiwrthym "Beraidd Ganiedydd Israel;" ond dywedant nad ydym i dybio ein bod trwy hynny yn dioddef unrhyw golled, gan eu bod yn gadael i ni yn eu cyfaurwydd y "Per Ganiadau." Un Salm yn unig (xviii.) y cydnebydd Dr. Cheyne y posibilrwydd iddi gael ei chyfansoddi gan Dafydd. Gellir gadael heibio bob crybwylliad am Lyfr Job, Llyfr y Diarhebion, Caniad Solomon, a Llyfr y Pregethwr.

Dyma grynnodeb byr o'r golygiadau y cytunir arnynt, gyda graddau mwy neu lai o unfrydedd, gan yr Uwch Feirniaid yn y wlad hon ac ar y Cyfandir, yn gystal ag yn yr America. Os myn neb eu gwled wedi eu gosod allan yn llawn, ond yn dra chymhedrol, gellir eu cyfeirio at lyfr gorchestol Dr. Driver (*Introduction to the Literature of the Old Testament*. T. a T. Clark). I lawer ymddengys y llyfr yn eithafol. O'i gymharu â'r golygiadau a elwir yn "draddodiadol," y mae felly yn ddiau; ond yng ngolwg Dr. Cheyne, "cymhedrol" ac "ofnus" yw Dr. Driver. Tra yn llawenhau ei fod wedi bwrw ei goelbren gyda'r Beirniaid, a rhoddi dylanwad ei safle uchel fel ysgolhaig Hebraidd o blaid eu golygiadau, nis gall Dr. Cheyne lai na gofidio na buasai yn dangos llai o betruster a mwy o wroldeb. Fel y mae, ni ddisgwyllia efe iddo fod yn gwbl gymeradwy yng ngolwg unrhyw ysgol; y mae yn rhy eithafol gan y naill, ac yn rhy gymhedrol gan y llall. Heblaw hyn, er mor gyflawn yw llyfr Dr. Driver, cwyna Dr. Cheyne ei fod yn gadael llawer o gwestiynau pwysig, naill ai heb sylwi arnynt o gwbl, neu ynte ei fod yn myned heibio iddynt gyda chyffyrddiad llawer rhy ysgafn.

Er ein bod eisoes wedi cwmpasu, feallai yn ormodol, rhaid i ni eto, cyn ymafyd yn ein prif gwestiwn, wneuthur tri neu bedwar o nodiadau, er definio ychydig yn fwy eglur a phenodol ein terfynau.

1. Nid oes a fynnwm â dylanwad unrhyw wyddor ar Dduwinyddiaeth yr Hen Destament ond yr "Uwch Feirniadaeth" yn unig. Y mae gwyyddorau ereill yn dylanwadu arni. Er engrafft, nis gallwn lai nag edrych bellach ar ddysgeidiaeth Llyfr Genesis am y Cread yng ngoleuni tystiolaeth Daeareg, ac amryw wyddorau ereill. Ond y mae y mater hwn a phob mater arall cyffelyb iddo y tu allan i derfynau yr ymdriniaeth bresennol.

2. Nid ar Dduwinyddiaeth yr Hen Destament yn unig y gwelir dylanwad yr "Uwch Feirniadaeth." Gwelir ef yn ogystal ar Dduwinyddiaeth y Testament Newydd, ac hefyd ar Dduwinyddiaeth Gyfundrefnol. I ddangos hyn ni raid ond cyfeirio at y goleuni newydd a deithr a defir gan y golygiadau "Uwch Feirniadol" ar Berson ein Gwaredwr. Nis gall fod amheuaeth nad edrychai Efe ar y gyfraith fel yr eiddo Moses: golygiad Efengyl Ioan oedd ei olygiad Yntau, "y gyfraith a roddwyd trwy Moses." Cyfeiria yn fynych at Moses ac at ei ysgrifeniadau. Ac y mae yn amlwg mai y golygiadau a elwir yn "draddodiadol" oedd ganddo am rannau ereill yr Hen Destament. Yn awr, os yw y golygiadau hynny yn anghywir â'r golygiadau beirniadol diweddar yn gywir, beth am berffeithrwydd ei wybodaeth Ef, a pha beth hefyd am Ddwyfoldeb ei Berson? I'r beirniaid a wadant y goruwchnaturiol, y gwyrthiol, y dwyfol, nid oes yma wrth gwrs un anhawster o gwbl; ond nid y golygiadau hyn a fabwysiedir gan yr Uwch Feirniaid galluocaf yn y wlad hon. Derbynant hwy yn ddibetrus yr athrawiaeth uniongred am Berson ein Harglwydd. Yr hyn a ddywedant ydyw, nad oes yn niffyg gwybodaeth yr Iesu ar gwestiynau beirniadol, ddim mwy anghyson â'i ddwyfoldeb, nag sydd yn y diffyg cyffelyb ynddi am ganlyniadau ymchwiliadau gwyddonol. Ni ddysgai ddim, meddir wrthym, oedd uwchlaw gwyddoniaeth ei oes; a phaham y dylem ddisgwyl iddo ddyagu dim uwchlaw beirniad-

aeth ei oes ? Saffle ei oes oedd ei saffle Yntau gyda golwg ar y naill a'r llall. Nid oes yn y cwbl, meddir wrthym ymhellach, ddim ond cyfran o'r goleuni angenrheidiol er ein galluogi i fyned i mewn i ystyr athrawiaeth fawr a phwysig yr Ymwaghad. Ond y mae yr holl gwestiynau hyn a'u cyffelyb y tu allan i gyloch yr ymdriuaeth hon.

3. Nid ein gorchwyl ydyw ceisio penderfynu dim ynghylch cywirdeb neu anghywirdeb y casgliadau beirniadol y cyfeiriwn atynt. Ynghauol eu helynt y mae y beirniaid eu hunain, a newidia eu syniadau, o leiaf ar y manylion, nid o flwyddyn i flwyddyn, ond hyd yn oed o wythnos i wythnos. Cyfeiriwyd eisioes at Dr. Cheyne. Dyna wr sydd yn ddiaddadl yn un o feirniaid galluocaf y deyrnas hon, yn wir yn un o feirniaid galluocaf Ewrop a'r byd ar yr adeg bresennol, ac yn un o'r rhai cyntaf i gymeryd i fyny, gyda difrifwch, ym Mhrydain, yr ymchwiliadau a ddygid ymlaen ar y Cyfandir ers llawer o amser ; ond y mae y modd y newidia ei olygiadau ymron yn boenus i unrhyw efrdydd o'i weithiau. Cyn y gellir ei ddilyn, nid digon yw darllen pob un o'r cyfrolau a'r llu o'r erthyglau i gyfnodolion a gyhoeddir ganddo ; rhaid hefyd ymgynghori a phob argraffiad o'r gweithiau. A'r hyn sydd wir am Dr. Cheyne sydd wir hefyd i fesur helaeth am ei gydweithwyr. Yr hyn a haerant yw mai ynghylch manylion yn unig y mae yr amrywiaeth barn, a'r mynych gyfnewidiadau mewn barn, tra y cytunir yn rhyfedd ynghylch yr egwyddorion mawr a lywodraethant ymchwiliadau beirniadol, ac ar y prif gasgliadau y deir iddynt. Ond y mae rhy fach o lawer o unfrydedd ynghylch cwestiynau mawrion a thrymion ymysg y beirniaid hyd yma i neb geisio dod i farn derfynol gyda golwg ar eu casgliadau.

Dylid crybwyll, feallai, yn y fan hon am agwedd Hynafiaethwyr at ymchwiliadau yr Uwch Feirniaid. I ryw fesur y mae yr *Archæologists* yn rhoddi eu dylanwad o blaid y golygiadau "traddodiadol" ar lyfrau yr Hen Destament, ac y maent yn dechreu ymhyfau yn eu hymosodiadau hyd yn oed ar *method* yr Uwch Feirniaid ; o leiaf dywedant wrthynt yn agored fod yn llawn bryd iddynt godi eu golygon i fyny ac edrych o'u hamgylch er sicrhau pa peth a ddywed Hynafiaethau Assyria a Chaldaea, yr Aifft a Phalestina, ar y cwestiynau y cymerant hwy yn ganiataol, i raddau gormodol, fod pob tystiolaeth angenrheidiol gyda golwg arnynt yn aros yug nghyfansoddiad y llyfrau eu hunain. I'r anghyfarwydd y mae y gwrthdarawiad hwn yn ddiethr. Galleid tybio y buasai y ddau ddoesbarth o weithwyr yn myned ymlaen yn dawel a difrifol gyda'u hymchwiliadau heb gymaint a meddwl am ymosod y naill ar y llall. Cyfeiriwn yn awr at weithiau y Proffeswr Sayce : *Fresh Lights from the Monuments*, a *The Higher Critics and the Monuments* ; a *Studies in Biblical Archæology*, gan Joseph Jacobs.

Hefyd, nid yw ymchwilwyr sydd yn glynu ar y cyfan wrth y golygiadau "traddodiadol," wedi dywedyd eto eu gair olaf. Nid wyf yn gwybod fod neb yn glynu wrth y rhai hyn yn hollol fel y dysgid ac y delid hwy gynt. Y mae hyd yn oed yr Esgob Ellicott—un o'r rhai a ystyrir yn fwyaf "csidwadol,"—yn eu "cywiro" cyn eu hamddiffyn. Gwaith gwir alluog ydyw *Baird Lectures* y Proffeswr James Robertson, D.D. Cyferfydd yr Uwch Feirniaid ar eu tir eu hunain ; a dengys fod eu golygiadau yn gwbl anghyson a gofynion

athrawiaeth Ymddadbygiad,—yr athrawiaeth yr honnant hwy sydd yn gwneyd y golygiadau “traddodiadol” yn anamddiffynadwy. Ac y mae yn y wlad hon, ac hefyd yn yr America, wŷr galluog ereill ydynt yn bell o gydnabod fod y tir wedi ei feddiannu gan yr Uwch Feirniaid. Doeth yn ddiâu fyddai i ni “mewn amynedd feddiannu ein heneidiau” nes y gwelir i sicrwydd pa beth fydd tystiolaeth derfynol ymchwiliadau beirniadol am gymeriad Ysgrythyrau yr Hen Destament. Gall y rhai a ymlynant yn ffyddlon wrth Uniongrededd, yn briodol gymeryd cysur oddiwrth ganlyniad ymchwiliadau beirniadol i gymeriad Llyfrau y Testament Newydd. Yno y mae y frwydr eisoes wedi ei hannill gan Uniongrededd “ar hyd yr holl linnell.” (Iwmaeth “Ysgol Tübingen” yn ddiâu wasanaeth pwysig i Feirniadaeth Ysgrythyrol; ond nid ei gwasanaeth lleiaf oedd cymell i ymchwiliadau a arweiniasant yr Eglwys Gristionogol i argyhoeddiad dyfnach nag a feddal eriodd o'r blaen o ddilyrwydd, purdeb, ac awdurdod Ysgrythyrau y Testament Newydd.

4. A chanlyniadau yr Uwch Feirniadaeth yn unig y mae a fynnom ac nid a chanlyniadau unrhyw syniadau neillduol y tu allan iddi, a ddiachon gwel eu coloddu gan rai Uwch Feirniaid. Awgrymwyd eisoes nad yw rhai o'r wŷr galluocaf yn eu mysg, yn enwedig ar y Cyfandir, yn erioed o gwbl yn y goruwchnaturiol, yn ystyr gyffredin yr ymadrodd, yn y Beibl. Ni byddai yn iawn dweyd eu bod yn amddifad o ffydd yn Nuw; ond goadant y Beibl yn hollol ar yr un tir a llyfrau ereill. Nid oes i “dilyfoddeb” ac “ysbrydoliaeth” mewn cysylltiad â'r Beibl, un ystyr iddynt hwy na pherthyn iddynt mewn cysylltiad â chynhyrehtlon llenyddol ereill. Ond nid oes a fynno y golygiadau hyn o'r eiddynt o gwbl a chwestiynau yr Uwch Feirniadaeth. O leiaf y mae beirniaid yn y wlad hon—gellir cyfeirio yn arbenig at y diweddar Dr. Robertson Smith—yn ddynion efengylaidd hollol eu hysbryd a'u syniadau, er sefyll i fesur helaeth ochr yn ochr a Kuenen a Wellhausen ar gwestiynau yr Uwch Feirniadaeth.

Dianghenraid ydyw ychwanegu nad oes un alwad arnom i gyfeirio at yr ysgafnder dibarch a ymddengys i raddau gormodol yn yegrifentadau rhai o'r beirniaid galluocaf ar y Cyfandir. Nid oes a fynnom a dim ond yr Uwch Feirniadaeth, a'i chasgliadau priodol ei hun.

Yr ydym erbyn hyn wedi cyrraedd at y prif ymofyniad y bwriedid i'r sylwadau blaenorol fod yn gynorthwyol er ei wynebn. Ond ychydig awgrymau byrion ac amherffaith yn unig allwn yn awr eu taffu allan, gyda'r gobaith y profant yn fanteisiol i ymchwiliad pellach ac efrydiaeth fanylach. Gallwn gychwyn gyda'r nodiad fod yr Uwch Feirniaid eu hunain—lawer o honynt, yn gwbl ymwybodol fod eu gwaith yn rhwym o feddu dylanwad dwfn ar ein syniadau am Dduwinyddiaeth, nid yn unig eiddo yr Hen Destament, ond Duwinyddiaeth yn gyffredinol. Nid yw y nodiad yn ddiâu yn wir gyda golwg ar y Beirniaid oll. Ymfrost rhai o honynt yw—er nad yw bob amser yn hollol gywir—mai Beirniaid ydynt, a dim ond Beirniaid. Nid oes ganddynt ofal, meddant, am ogwydd Dduwinyddol eu golygiadau; nid ydynt yn dduwinyddion o gwbl. Beirniadaeth yw eu maes, ac ynddo y llafuriant; nid iddynt hwy y perthyn ymofyn pa ddylanwad sydd i'w llafur ar feusydd ereill. Ond nid dyma agwedd pawb o

honynt. Y mae nifer fawr o'r beirniaid yn ymwybodol, bob cam a gymerant, o'r cyfnewidiadau mawrion a phwysig mewn duwinyddiaeth sydd yn anocheladwy, os ceir fod eu casgliadau hwy yn gywir. Dyma yr argraff a dderbyniwn wrth ddarllen gweithiau Dr. Cheyne. Yn ei syniad ef, Beirniadaeth fanol yn unig a ddichon ein gosod yn y safle briodol i ddeall ystyr yr Ysgrhythrau. Rhaid bwrw ymaith draddodiadau; rhaid trin fel chwedl yr hyn nad yw ond chwedl, er i ni trwy hynny gollu yr hyn yr edrychem arno gynt fel hanes, os ydym am ddeall yn wirioneddol feddwl Duw yn ei Air. Yn arbennig nid oes obaith, yn ol syniad Dr. Cheyne, am gyfarfod y gwyddonwyr a gyfeiriant at anhawsterau yn yr hanes Ysgrhythrol ond trwy gymorth Beirniadaeth Hanesiol. (*The Hallowing of Criticism: Appendix*, pp 186 &c.) Ac i'r un man yr edrych ofe am noddfa yng ngwyneb yr ymosodiadau ar foesoldeb y Beibl gan ysgrifenwyr a darlithwyr Secularaidd.

Ar y llaw arall, nid anhawdd fyddai cyfeirio at Feirniaid sydd yn ystyried nad yw Beirniadaeth yn debyg o syfyd dim ar ein safle dduwinyddol, neu o newid nemawr ar ein syniad am yr hyn ydyw sylwedd a hanfod duwinyddiaeth yr Hen Destament. Dywed Dr. Driver, er engraifft (*Introduction*, xv), nad yw Beirniadaeth "yn cyffwrdd ag awdurdod nac ysbrydoliaeth yr Hen Destament." "Ni ddygir i mewn trwy olygiadau Uwch Feirniadol," medd ymhellach, "un cyfnewidiad gyda golwg ar y priodoliaethau dwyfol a ddatguddir ynddo, nac yn y gwersi gyda golwg ar ddyledswydd dyn a ddysgir ynddo, nac ychwaith gyda golwg ar broffwydoliaethau am Grist, ar wahân oddiwrth y cwestiwn o ddehongliad adrannau neillduol."

Arweinir ni fel hyn i sylwi mai nid ar fater Duwinyddiaeth yr Hen Destament y mae dylanwad Beirniadaeth yn hennaf. Ni wna lawer o wahaniaeth yn ein syniad am yr hyn ydoedd yn ei pherffeithrwydd mwyaf ar derfyn yr Hen Oruchwyliaeth, eithr yn hytrach am yr hyn ydoedd mewn amser boreuach, ac am yr hyn a fu ei chynnydd a'i ddblygiad mewn amserau dilynol. Nid gormod yn ddiau yw dywedyd, fel yr awgrymwyd yn brin eisoes, mai dylanwad y syniad o Ymddadblygiad sydd i'w ganfod amlycaf ar ymchwiliadau yr Uwch Feirniadaeth. Dyma y syniad a ystyrir bellach fel yr agoriad i bob anhawster a dirgelwch, a dygydd i mewn drefn i bob dyrysni a chymysgedd. Ond mewn Uwch Feirniadaeth, wrth gwrs, nid syniad na dysgeidiaeth Darwin a ddug i mewn y Chwyldroad; yr oedd y gogwyddiad yn amlwg ymhell cyn ei ddyddiau ef. Ni raid ond crybwyll y termiau "Athroniaeth Hanes," ac "Addysgiad y byd," na arweinir ni at ryw beth cyffelyb cyn dyddiau Darwin i'r hyn a adnabyddir yn awr dan enwau ereill. Ar yr un pryd y mae dylanwad y symudiad a gychwynwyd gan Darwin a Wallace wedi effeithio yn amlwg ar yr Uwch Feirniaid, ac wedi eu cadarnhau yn y syniad nad oes obaith am ddeall Ysgrhythrau yr Hen Destament na'r Newydd heb gynhorthwy yr egwyddor o ymddadblygiad.

Nid oes gennym yn awr hamdden i wneyd mwy na chyfeirio at y modd y mae yr egwyddor hon, yn llaw yr Uwch Feirniaid, wedi trawsnewid hanes Crefydd ymysg yr Israeliaid. Addefa pawb mai Llyfr yw yr Hen Destament—"Llyfrgell" yn hytrach,—wedi ei fwriadu i osod allan hanes Crefydd ymysg y genedl Hebreig; ond os derbyniwn olyg-

iadau yr Uwch Feirniaid, y mae yr hanes hwnnw yn ein dwylaw yn myned yn rhywbeth cwbl wahanol i'r hyn yr arferai fod. Hanes nid oes gennym, meddant hwy, yn ystyr briodol y gair, yn gynt na dyddiau Amos, yn yr wythfed ganrif cyn Crist. Pob peth cyn dyddiau Jeroboam yr ail, traddodiad yw, yn hytrach na hanes. Yn ddiweddarach na hynny, meddir wrthym, yr ysgrifennwyd y llyfrau a gamenwir yn "Llyfrau Moses," a'r holl Lyfrau Hanesiol. Ac felly, yr oedd yr ysgrifenydd yn dibynnu yn gwbl am gywirdeb yr hyn a ysgrifennid ganddynt ar y traddodiadau a ddisgynasant i'w dwylaw o'r oesoedd gynt. A phan ystyrir pellter yr amser a diffyg cofnodau ysgrifenedig wedi eu tynnu allan gan gydoeswyr, deuir i'r casgliad mai ychydig o ymddiried a ellir roddi ymhob adroddiad o hanes y genedl yn foreuach na dyddiau y profwydi Amos a Hosea. Diau fod rhyw gnewyllyn hanesyddol yn y rhan fwyaf o'r traddodiadau; ond wedi i feirniadaeth fwrw ymaith y plisg, gwelir yn fynych fod y cnewyllyn yn hynod o fychan. Ac ni phetrusir dweyd wrthym mai chwedloniaeth (*myth and legend*) yw cyfran helaeth o'r hyn yr ydym gyhyd o amser wedi ei gamenwi yn hanes.

Wrth gwrs, ni fwriedir trwy hyn ein hamddifadu o'r Gyfrol Sanctaidd; yr hyn a honnir yn hytrach ydyw, ddarfod i'r Ysbyrd Glân wneuthur defnydd o'r pethau hyn i ddysgu trwyddynt i ddynion wirioneddau ysbrydol pwysig. "Y Gair a wnaethpwyd yn gnawd," daeth Mab Duw i fod mewn gwirionedd, ac nid mewn ymddangosiad yn unig yn Fab y dyn. Ac onid yw yn naturiol, meddir, diagwyl ymostyngiad tebyg yn y Beibl? Llefarodd Duw gynt wrth y tadau "mewn llawer modd"; a phaham yr amheurn y posibilrwydd i hyd yn oed y chwedl fod yn un o'r moddau hynny? Ond, os felly, yr ydym yn dod i'r casgliad fod hanes boreuol crefydd ymysg yr Hebraid, yr hyn ydoedd ymysg tylwythau Semitaidd ereill. Yn wir, os awn ymhellach yn ol na Noah, ein hunig arweinydd, bron, i ystyr yr hyn a ddarlennwn ydyw Chwedloniaeth Gymharol. Mewn gair, cyffelyb yw hanes Crefydd fel y ceir ef yn yr Hen Destament, yn enwedig yn yr oesoedd boreuaf, i'r hyn ydoedd mewn cylchoedd ereill sydd adnabyddus i ni mewn oesoedd mwy ddiweddar.

Myn rhai ysgrifenyddwr fod crefydd yn myned trwy dri chyfnod ymhob man,—*Animism* neu *Fetishism*, neu rywbeth cyffelyb i ddechreu; yna *Amllduwiaeth*; ac yn olaf—pe olaf hefyd—*Undduwiaeth*. A haerir nad oedd crefydd ymysg yr Hebraid yn eithriad. Dywedir wrthym y ceir tystiolaeth bendant am hynafiaid Abraham yn addoli lliosogrwydd o dduwiau; a thybir y ceir awgrymau hyd yn oed am ffurfiau boreuach ar grefydd. Ond dywedir wrthym, gyda gradd helaeth o hyder, nad oedd Jehofah yn nyddiau boreuol y genedl etholedig, ond cyffelyb yn ei berthynas â hi i'r hyn oedd Chemosh, Milcom, a Baal, yn eu perthynas â chenedloedd ereill. Ni amheuir nad ydyw y byd yn ddyledus i'r Iuddewon am Undduwiaeth bur a dyrchafedig; ond dywedir yn bendant mai yn raddol y daethant hwy eu hunain i feddiaut o honi. Duw cenedl, ac nid Argiwydd y lluoedd, oedd Jehofah ar y cyntaf. Ac wedi clywed cymaint â hyn, nid ydyw yn syndod gennym glywed syniad y genedl am gymeriad Jehofah yn yr oesoedd boreu yn cael ei osod allan fel un tra amherfaith.

Yn awr, nid oes un amheuaeth nad oedd dirnadaeth y genedl am Dduw yn ymddyrchafu o oes i oes Amhosibl ydyw darllen yr Hen Destament heb weled cynnydd yn y datguddiad o Dduw; ond y mae yr un mor amhosibl, debygem, gweled trwy yr holl Feibl, o Genesis hyd Malachi, ond yr un Jehofah yn amlgu ei Hun. Yn oesoedd boreu Cristionogaeth bu math o Gnosticiaid yn dadleu mai nid yr un oedd Duw yr Hen Destament a Duw y Testament Newydd o gwbl. Nid amhriodol ydyw gofyn, Onid ydyw dysgeidiaeth rhai o'r Uwch Feirniaid am Dduw fel y datguddir Ef yn yr Hen Destament, yn dyfod yn rhy agos at eu syniadau hwy?

Yr ydym yn awr wedi cyffwrdd â mater y byddai yn hawdd ymhelaethu arno,—Dysgeidiaeth yr Hen Destament am Dduw, ac am wasanaeth ac addoliad Duw ymysg y genedl Iuddewig mewn gwa-hanol oesoedd. A hawdd fyddai hefyd ymhelaethu ar ei ddyysgeidiaeth am Bechod, yng ngoleuni beirniadaeth ddiweddar. Ond ym-ataliwn.

Gwelwyd fod Dr. Driver yn haeru nad yw y proffwydoliaethau Messiannaidd yn cael eu cymeryd oddiwrthym gan yr Uwch Feirniadaeth. Y mae yn amlwg hollol yr ymwrthoda llawer o'r Uwch Feirniaid â hwy; ond nid yw, feallai, mor amlwg am ba reswm neu reymau y gwnant hynny. Dichon mai am y rhesymau y cyfeiriwyd atynt mewn rhan flaenorol o'r papur hwn. Ond nid amheurn na theimla llawer o gredwyr gonest yn anhawdd iddynt ddal eu gafael yn y proffwydoliaethau hyn os gollyngant eu gafael o'r hen olygiadau am gymeriad yr Ysgrhythrau.

Hwyrach mai prin y mae yn briodol i ni ddwyn i mewn y cyfnew-idiad a wna yr Uwch Feirniadaeth yn ein syniadau am Ysbrydoliaeth ac awdurdod ddwyfol ysgrifeniadau yr Hen Destament. Ond ystyrir yn gyffredin fod ysbrydoliaeth yn cael ei gynnwys mewn Duwinydd-iaeth. Yma eto haera y Beirniaid fod Beirniadaeth yn gwneyd y Beibl yn fwy dwyfol, yn gystal ag yn fwy dynol, nag ydyw yn ol yr hen olygiadau. Dengys yr hyn a ddywedwyd eisoes am y defnydd-iaid o chwedloniaeth ac o draddodiadau ansicr y rhaid i ni, os derbyn-iwn y golygiadau Uwch Feirniadol, newid llawer hefyd ar ein goly- iadau ar ysbrydoliaeth. Os myn neb gyrraedd dirnadaeth am fawredd y cyfnewidiad, darlenned lyfr y Proffeswr Ryle ar y *Pennodau Cynlaf yn Genesis* (i.—xi.). Dyna wr gwir grefyddol ei ysbryd, ac un a ystyrir yn dra chymhedrol ei olygiadau. Nid oes ganddo yr un gronyn o gydymdeimlad â'r golygiadau Rhesymolaidd a goleddir gan gynifer o Feirniaid ar y Cyfandir; ond ei unig obaith ef am adfer ffydd yn y rhan hon o'r Datguddiad Dwyfol ydyw caniatu i oleuni beirniadaeth a gwyddoniaeth dywynnu yn ddiwarafun arni. Nid hanes a ddysgir yn y penodau, medd ef, eithr gwirioneddau ysbrydol ydynt yn llawer gwerthfawrocach na hanes. Y cwestiwn a ofynnwn gyda gradd o bryder ydyw, Os ydyw y golygiadau Uwch Feirniadol i ennill y dydd, a'n syniadau mewn canlyniad am ysbrydoliaeth i fyned trwy y fath gyfnewidiad, a ydyw yn debyg y diogelir ffydd athrawon a disgyblion Ysgolion Sabothol Cymru yn awdardod y Beibl, yr hwn sydd wedi ei drosglwyddo i ni gan ein tadau fel Gair Duw? Barn Mr. Gladstone yw na raid i ni ofni dim am safle yr Hen Lyfr; a dyna

farn llawer ereill o'r gwŷr mwyaf cymwys i farnu. Ond nid yw hynny yn peri i ni beidio edrych ar yr amseroedd yr ydym yn byw ynddynt yn y mater hwn i fesur helaeth yn "amseroedd enbyd."

Gobeithiwn gael hamdden i ddychwelyd at rai o'r materion y cyffyrddwyd yn ysgafa & hwy yn yr erthygl hon.

Boelle.

GRIFFITH ELLIS.

PREGETHU CRIST.

ANERCHIAD A DRADDODWYD I FYFYRWYR COLEG DUWINYDDOL Y BALA.

GAN Y PARCH. JAMES CHARLES, DINBYCH.

PAN yr anrhydeddodd y Prifathraw fi & gwahoddiad caredig i ddyfod yma i'ch annerch, teimlais fod yn llawer hawddach derbyn y gwahoddiad na dewis testyn i siarad arno. Pa bwnc bynnag a gynhygiai ei hun i'm meddwl, teimlwn eich bod yn gwybod mwy eisoes am dano na mi, neu fod yr addysg a dderbyniwch yn wastadol yn y Coleg hwn yn llawer amgenach na dim a allwn i draethu arno. Ond yr wyf, o ran amser, wedi cael mwy o brofiad na'r rhan fwyaf o honoch ar bregethu, a chynhygiaf i'ch sylw ychydig o awgrymiadau ar Bregethu Crist. Addefir, ar bob llaw, ein bod yn byw mewn sefyllfa draws-gyfnewidiol. Mae ffeithiau gwyddonol, damcaniaethau athronyddol, a beirniadaeth Feiblaidd yn peri i rai ofni fod hyd yn oed "cadarn sail Duw" yn dechreu crynu. Dywedir fod y "Credöau" & "duwinyddiaeth Britanicaidd" yn barod i farw, os nad, yn wir, wedi marw, ac mai goreu po gyntaf i'w claddu allan o'r golwg. Fel engraffit o'r ddyg hon, darllennais yn ddiweddar y sylw a ganlyn gan awdwr galluog:—"We can distinguish in Milton between the Puritan theology which is perishable, and the art whose beauty can never pass away." Onid Iesu Grist a hwnnw wedi ei groeshoelio, oedd hanfod duwinyddiaeth y Puritaniaid? Os felly, y mae y sylw yn arwynebol, eithafol, a charmarweiniol, fel pe buasai yr awdwr wedi camsynied y plisgyn am y cnewyllyn. Credwn yn gryf fod galwad am roddi ffurf newydd i athrawiaethau crefydd; ond credwn yn ddifffael fod atbrawiaeth sylfaenol Cristionogaeth, sef ymgnawdoliad Mab Duw, yn aros yr un, ac fof Iesu Grist fel Gwaredwr pechaduriaid "yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd." Myntumir fod ffeithiau gwyddonol yn hawlio cyfnewidiad mawr, os nad chwyldroad; ond y mae diffyg undeb barn ymlith yr ymosodwyr yn brawf o wendid yr ymosodiad. Nid yw Huxley a Weismann, y gwyddonwyr enwog, yr

un farn ar bob pwnc. Ac y mae yr athronwyr galluog, Herbert Spencer, Edward Caird, a Hermann Lotze, mor wahanol i'w gilydd yn eu damcaniaethau ag ydyw y naill a'r llall o honynt i'r dduwinyddion a gyfrifir yn unionged. Dywed Dr. Orr, yn ei lyfr rhagorol a elwir "The Christian View of God," mai athroniaeth Hermann Lotze, ac nid eiddo Hegel, bia y dydd yn Germani, ac fod y llanw, mewn canlyniad, yn troi o blaid hanes Iesu Grist. Da fuasai gennym weled disgybl enwog i Lotze yn codi yn y wlad hon. Nid yw hyn oll ond profiad, heb honni unrhyw gymhwyster i rod-di barn ar bwnc mor fawr. Ond, yn ddiaddadl, fe deimlir fod ffeithiau gwyddonol a chadernid yn perthyn iddynt, ac fod y ffeithiau hynny yn galw am egluro rhai o athrawiaethau Cristionogaeth mewn dull newydd, a mwy dealedig i'r oes hon. Mae darllen llyfrau Dr. Bruce, a *Lux Mundi*; o dan olygiaeth Prin. Gore, a *Christ in Modern Theology*, gan Dr. Fairbairn, yn ddigon i brofi fod awduron enwog yn credu fod eisieu ad-drefnu y tŷ, neu mewn geiriau ereill, fod eisieu ail-adeiladu. Ond, fodd bynnag, yr un yw y sylfaen i fod. "Canys sylfaen arall nis gall neb ei osod, heblaw yr un a osodwyd, yr hon yw Iesu Grist." Os oes adeiladu o'r newydd i fod, credwn, yn ol dywediad y diweddar Barch. Joseph Thomas, y dylid gwneyd defnydd helaeth o'r "hen bricks."

Mae pregethu Crist yn golygu :—

L PREGETHU CRIST FEL MAB DUW AC FEL MAB Y DYN—
DUW-DYDYN.

Peidiwch a'm camddeall; nid ydwyf wedi dyfod yma i draethu ar Dduwdod y Mab. Mae eich enwad chwi wedi bod yn fyddlon ar hyd ei holl hanes i'r athrawiaeth am Berson Crist. Ond nis gellir traethu ar bregethu Crist heb ddweyd gair am y cwestiwn pwysicaf. Os nad yw Duwdod y Mab yn athrawiaeth ddatguddiedig, gwaith ofer fyddai ceisio profi y pwnc. Gan ei fod yn wirionedd datguddiedig, y mae pob ymgais i'w wrthbrofi wedi troi yn fethiant hollol. Nis gwyddom pa fodd y gall neb dderbyn Efengyl Ioan, dysgeidiaeth Paul, a dysgeidiaeth y llythyr at yr Hebreaid, os nad yw yn credu fod Iesu Grist yn Fab Duw mewn gwirionedd. Byddai y geiriau a lefarodd Iesu am dano ei Hun, megis, "Goleuni y byd ydwyf fi," "Myfi yw y ffordd, y gwirionedd, a'r hywyd," "Y neb am gwelodd i, a welodd y Tad," "Y neb sydd yn credu ynof fi, y mae ganddo fywyd tragwyddol," "Myfi a'r Tad un ydym," &c., yn gabledd pe llefarai dysgawdwr pennaf y byd hwy am dano ei hun. Ond gan mai Iesu Grist yw unig Waredwr y byd, a'i fod yn Fab tragwyddol y Tad, eglura y geiriau ei berthynas dragwyddol â'r Tad, a gogoniant ei waith fel Gwardwr y ddynoliaeth. A beiddiwn ddweyd, na fuasai Cristionogaeth ddim yn meddu y filfed ran o'r gallu y mae wedi ei feddu i ddiwygio y byd, oni bai fod Corff mawr crefyddwyr pob oes wedi arfer credu fod Iesu Grist yn wir Dduw yn gystal ag yn wir ddyn. Ac os collir ffydd ynddo fel Mab Duw, fe golla Cristionogaeth ei gallu arbennig i ddiwygio dynoliaeth. Ond ni chymer hynny byth le. Gan fod pregethu Crist yn cynnwys ei ddangos fel Mab Duw, onid oes rhyw gyfrifoldeb aruthrol yn gorphwys ar bregethwyr yr Efengyl! Bychan o beth, mewn dull o siarad, fyddai

pregethu Crist fel dyn yn unig, ac fel dysgawdwr moesol ; ond pan y codir Crist i fyny ar drostan yr Efengyl, mae meddwl fod y cynulleidfa oedd yn disgwyl gweled Duw yn wyneb Iesu Grist, yn dwyn rhyw ddwyyster neillduol i'r meddwl. Er fod natur, a rhagluniaeth, a chydwybod yn llefaru dros Dduw, ac am Dduw, ac er fod y Beibl ymhob tŷ, eto, dylid cofio fod lliaws y bobl yn ymgolli ar hyd yr wythnos yn eu masnach, yn y gwaith, ac yn y ffarm,—fod y fath gydymgaia a gofalon a phryder,—fel mai nid llawer o hamdden geir i feddwl am yr enaid, am grefydd, ac am Dduw, ond ar y Saboth, ac mai y pulpud yw y prif gyfrwng i ddangos Duw i'r bobl. Angen dyfnaf enaid dyn, ydyw Duw, ac y mae meddwl fod y bobl yn disgwyl i ni ddangos Duw iddynt, yn syniad gorlethol, ac yn peri i lawer ddweyd, "Pwy sydd digonol i'r pethau hyn ?" Ac eto, dyma ogoniant y pulpud. Y mae yng Nghrist, gwrthrych mawr yr Efengyl, ddigon o Dduw i gyfarfod âg angen y ddynoliaeth. "Mae gennym y trysor hwn mewn llestri pridd, fel y byddai godidowgrwydd y gallu o Dduw, ac nid o honom ni." Fel y dywedodd un :—"Probe the matter to the bottom ; between Jesus Christ, man, and Jesus Christ, man-God, there is infinity ; there is, if one may so speak, the whole thickness of Christianity."

Ac yr ydym i bregethu am dano fel Mab y dyn. Y mae dyfnder, tynherwch, a chyfoeth meddwl y term "Mab y dyn" yn anhysbyddadwy. Beth ydyw ystyr y geiriau ? Diau fod yr ymadrodd yn dysgu fod Iesu yn wir ddyn, yn ddyn perffaith, yn ddyn sanctaidd, yn ddyn dwyfol ; a'i fod yn perthyn, fel y cyfryw, i bawb fel eu gilydd. Ac nid perthynas bell ydyw, ond perthynas agosach na'r berthynas sydd rhwng rhieni a phlant, a rhwng brodyr a chwïorydd, yn enwedig ei berthynas â'r rhai sydd yn credu ynddo. Iesu Grist, fel Mab y dyn, a ddysgodd y gwirionedd i'r byd am "frawdoliaeth dyn" (*The brotherhood of man*), am yr hwn y sonir cymaint yn y dyddiau hyn. Ar wahân i Fab y dyn, ni sylweddolir byth beth ydyw gwir frawdoliaeth rhwng dynion a'u gilydd, o bob dosbarth, iaith, cenedl, a gwlad. "Nid oes nac Iuddew na Groegwr, nid oes na chaeth na rhydd, nid oes na gwryw na benyw : canys chwi oll un ydych yng Nghrist Iesu." Mae y dyn Crist Iesu wedi tynnu i lawr bob canolfur gwahaniaeth rhwng dyn a dyn, ac wedi dinystrio, mewn egwyddor, bob *caste* oddiar wyneb y ddaear.

Cyhoeddwyd yn y newyddiaduron dro yn ol fod un o arglwyddi ein gwlad wedi dweyd wrth ei was am beidio ei gyfarch fel arglwydd yn yr eglwys, oblegid eu bod yn frodyr wrth "fwrdd y Cymun." Cyhoeddwyd y newydd fel cloi iddo, ac felly yr ydoedd, mor bell ag yr oedd yn myned. Ond os brodyr wrth fwrdd y Cymun, onid brodyr hefyd ar yr heol ? Os brodyr ddwywaith neu dair yn y flwyddyn, paham nas gallent fod yn frodyr hefyd bob dydd o'r flwyddyn ? Iâ, meddwn, paham ? Mae hanes y dyn Crist Iesu yn hawlio i'r cwestiwn gael ei ateb ; oblegid nid yw Mab y dyn yn gweled dim gwahaniaeth, nac yn gwneyd dim gwahaniaeth, rhwng y frenhines ar ei gorsedd, a'r chwaer sydd yn byw ar y plwyf. A ydyw Iesu o Nazareth yn cael ei ddangos ym mywyd crefyddwyr yr oes hon ? Dylem feddwl llawer am ei hanes,—ei hanes yn cymeryd plant bychain i'w freichiau ac yn eu bendithio, yn rhoddi llygaid i'r dall, traed i'r cloff, iechyd i'r gwa-

hanglwyfus; ei hanes yn sychu dagrau y wraig weddw, yn cydymdeimlo â dynion cyffredin o bob math, yn pregethu i'r tlodion, ac yn wlyo wrth fedd ei gyfaill Lazarus. Pe buasai Cristionogion yr oes yn ymgrawdoliad o ysbryd Mab y dyn, ni fuasid wedi clywed son am "Labour Church," ac am "Socialists," &c. Nid ydym yn credu ynddynt, heb son am eu cyfiawnhau; ond credwn mai diffyg yr eglwys sydd wedi bod yn *achlysur* iddynt gyfodi. Credwn fod gan bob enwad lawer o le i ddiwygio yn y cyfeiriad hwn yng Nghymru, trwy efelychu mwy ar Iesu fel Mab y dyn, a thrwy fyw i greu diwygiad cymdeithasol, a dyrchafu dynion yn eu perthynas â'u gilydd, a'r holl fywyd yn cael ei gysegru i wasanaethu Duw. Ond un yw Crist, ac nid dau,—y Duw-ddyn. Nid oedd y ffaith fod Iesu yn Fab Duw yn milwrio dim yn erbyn ei ddynoliaeth, ond yn hytrach yn ei dyrchafu. Yr oedd yn Ddyn mor rhagorol, nid *er* ei fod yn Fab Duw, ond *am* ei fod yn Fab Duw. Treuliai y nos mewn cymundeb â'i Dad, mewn gweddi a myfyrdod, a rhodiai oddi amgylch y dydd i wneuthur daioni. Un o'r syniadau mwyaf ynfyd ydyw meddwl y gellir dyrchafu y ddynoliaeth heb Dduw, heb Grist, ac heb yr Ysbryd Glân. Yr haul sydd yn peri i'r ddaear ddwyn ffrwyth, ac yn ei galluogi i ymdrwsio mewn prydferthwch. Felly hefyd, y dynion sydd yn byw gyda'r Iesu, a'r rhai â mwyaf o Dduw yn eu hysbryd a'u bywyd, yw y rhai caredicaf a goren i'w cyd-ddynion. Dynion Duw yw y rhai mwyaf o werth a gwasanaeth i'w hoed a'u gwlad.

II. MAE PREGETHU CRIST YN GOLYGU EI DDANGOS FEL DYSGAWDWR AC FEL GWARDWR.

Ni fu cymaint erioed o ddyrchafu Crist fel Dysgawdwr ag sydd yn yr oes hon. Cyfaddefir fod safon moesoldeb, yn ol y Bregeth ar y Mynydd, yn uwch ac yn burach na'r un safon arall o foesoldeb. Po uchaf fydd y cyfryw mewn purdeb, rhinwedd, a daioni, fe fydd mwy o ymwneyd â geiriau Iesu Grist, a mwy o glod iddo fel dysgawdwr. Rhy *isell* yw cymdeithas heddyw i werthfawrogi yn iawn eiriau Iesu o Nazareth. Gwelir fod y Beibl yn edrych ar ddyn mewn dwy sefyllfa wahanol iawn i'w gilydd, sef fel pechadur ac fel plentyn Duw; neu ar ddyn fel y mae yn bechadurus ac yn farwol, a dyn fel y bwriadodd Duw iddo fod, yn ddibechod ac yn anfarwol. A da gennym feddwl nad yw Duw erioed wedi gollwng ei afael, nac wedi colli golwg ar ei *ideal* Ef o ddyn. Canfyddir hyn hyd yn oed o dan y gyfraith. Ochr gadarnhaol y gyfraith yw, "Câr yr Arylwydd dy Dduw â'th holl galon, â'th holl enaid, ac â'th holl feddwl," "a châr dy gymydog fel ti dy hun." Pe gwnai dyn hynny, byddai fel y bwriadodd Duw iddo fod. Gellid meddwl y buasai y gorchymyn yn gweddu yn well i ddynion mewn sefyllfa berffaith a dibechod, nag i ddynion pechadurus mewn byd fel hwn. "Cyflawnder y gyfraith yw cariad," a beth all fod yn uwch na hynny? Pan ddeuwn i'r Testament Newydd, mae y safon, os oes modd, yn codi yn uwch eto, oblegid gorchymynnai Crist i'w ganlynwyr "garu eu gelynyon, a gwneyd da i'r rhai a wneent ddrwg iddynt, a gweddi dros y rhai a'u herlidient," er mwyn iddynt fod yn blant i'w Tad yr hwn sydd yn y nefoedd. "Byddwch chwi gan hynny yn berffaith, fel y mae eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd yn berffaith." Dyma safon uwch nag a ddisgwyliid i ddynion ei chadw

mewn sefyllfa berffaith, oblegid mewn sefyllfa felly ni fyddai ynddi elynion i'w caru. Safon ardderchog; ond pwy sydd wedi ei chyrnaedd! Pwy all ei chadw! Pa werth ymarferol sydd mewn dysgeidiaeth fel hon i ddynion pechadurus! Gan ei bod allan o'u cyrraedd, onid oes perygl ynddi i'w cyffroi i fwy o elyniaeth, yn hytrach na'u hennill! Ynddi ei hun, credwn fod. Gwyddom fod miloedd yng ngwlad yr Efengyl yn ceisio cadw geiriau Iesu Grist, ond, fel rheol, dynion wedi eu hachub ydynt. Arweinia hyn ni at y sylw nesaf—

Rhaid pregethu Iesu Grist fel Gwaredwr.

Bu llawer o broffwydi yn y byd, ac y mae ynddo llawer o ddysgawdwr ar hyn o bryd; ond ni welodd y byd, ac ni wel byth ond un Iesu, un Gwaredwr. Fel Gwaredwr yr hysbyswyd ei fod wedi dyfod i'r byd. "Ganwyd i chwi heddyw Geidwad" oedd y newydd da o lawenydd mawr. Ar y cyntaf, addefwn mai y dysgawdwr a welir amlycaf, a thystiolaeth unol y bobl oedd, "Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn." Ond datguddiwyd y Gwaredwr yn raddol. Dyna, yn ddiameu, un o ddibenion y gwyrthiau,—eglurow cymeriad Iesu Grist fel Gwaredwr. Er mwyn cyfiawnhau ei waith yn derbyn pechaduriaid, llefarodd y tair dameg geir yn Luc (xv.), sef dameg y ddafad golledig, dameg y darn arian colledig, a dameg y mab afradlon. Iaith y cwbl yw, fod Mab y dyn wedi dyfod i geisio ac i gadw yr hyn a gollasid. Cyn diwedd ei yrfa dysga am dano ei Hun yn bendant fel Gwaredwr, ac fel unig Waredwr y byd. Dywed fod yr hwn sydd yn credu ynddo Ef a chanddo fywyd tragwyddol, ond am yr hwn nad yw yn credu, ni wel fywyd. Ei waith mawr oedd dyfod i'r byd i farw, er mwyn i bawb a gredent ynddo etifeddu bywyd tragwyddol. Rhoddwyd yr Ysbryd Glân i'r Apostolion er mwyn egluro iddynt ymhellach wirioneddau trefn y prynedigaeth. Swm eu dysgeidiaeth oedd fod Duw yng Nghrist yn cymodi y byd âg Ef ei Hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau. Mae y *Gwaredwr* yn cael lle amlycach o lawer na'r *Dysgawdwr* yn Epistolau Paul, ac yn yr Epistol at yr Hebraeid. Yr ydym yn credu ynddo yn y ddau gymeriad, a diau fod y ddau yn bwysig. Rhaid i ni wrth yr hanes am dano yn yr Efengylau, yn gystal â'r athrawiaeth am dano yn yr Epistolau. Rhaid i ni wrth ei fywyd fel wrth ei farwolaeth. Mae hanes Iesu, o'r dechreu i'r diwedd, yn un cyfanwaith; ond y mae y rhai sydd yn ei ddyrchafu fel Dysgawdwr ar draul ei ddarostwng fel Gwaredwr, yn ceisio dryllio ei hanes, ac yn euog o ddarnguddio rhan o'r gwirionedd. I'r rhai sydd yn credu, ac wedi eu creu o'r newydd i weithredoedd da, y mae y Bregeth ar y Mynydd yn rheol bywyd, a Iesu Grist yn esiampl iddynt. Dysger geiriau Iesu Grist i bawb, ond rhaid credu ynddo fel Gwaredwr er mwyn deall eu gwir werth. Dynion wedi eu haileni sydd yn caru eu gelynyddion, ac yn gwneyd i ereill fel yr ewyllsient i ereill wneyd iddynt hwy. Hyn ddaw a gwneyb y ddaear fel gwneyb y nef.

III. PREGETHU CRIST FEL Y DATGUDDIR EF YN Y BEIBL, AC YN OL EIN GWYBODAETH BROFIADOL NI O HONO.

Dylem bregethu yr hanes am Iesu Grist, neu Grist hanes.

Gwyddom fod beirniaid galluog wedi ymosod ar ei hanes, ac wedi ceisio argyhoeddi y byd mai chwedlau yw llawer o'r pethau a adrodd-

wyd gan yr Efengylwyr am dano. Os twyll yw hanes Iesu, y mae disgyblion Iesu wedi tafu i'r cysgod am byth y dynion mwyaf eu hathrylith welodd y byd, trwy gyfansoddi hanes *dychmygol*. Na, y mae Iesu a'i hanes yn rhy fawr a gogoneddus i fod yn dwyll. Nis gall hanes dychmygol fod mor dda â hanes Iesu. Yr oedd *dyfeisio* hanes o'r fath tu hwnt i gyrraeddiadau dyn. Diau fod rhai geiriau, ac ambell adnod, a rhai pethau dibwys ynddynt eu hunain, yn anhawdd, os nad yn amhosibl eu cysoni yn yr Efengylau; ond am ffeithiau mawrion hanes Iesu,—ei enedigaeth, ei waith, ei ddysgeidiaeth, a'i fywyd sanctaidd, ei farwolaeth, ei adgyfodiad, a'i esgyniad,—credwn eu bod mor gadarn a gorsedd Duw. Crist fel y datguddir Ef yn y Gair yw y *safon* i farnu Crist mewn profiad, neu mewn credo. Mae Crist yn y Beibl yn berffaith, ac felly yr un ddoe, a heddyw, ac yn dragwydd; ond nid yw felly mewn credoau a phrofiadau. Nid yw yn berffaith ym mhrofiad y dynion goreu. Mae Crist yn *fwy* na'r credo, yn *fwy* na phob credo, ac yn *fwy* na phob eglwys, yn *fwy* na'r eglwys drwy yr holl oesau. Crist yn y Gair fydd y safon hyd ddiwedd y byd. Gan hynny, "Yn ol at Grist." Tybia rhai pe profid fod ei hanes yn dwyllodrus, y byddai Crist y profiad yn ddigon. Byddai yn ddigon i'r rhai sydd wedi ei adnabod; ond beth am y plant, ac am eu plant hwythau, genhedlaeth ar ol cenhedlaeth? Pe dibynnid ar draddodiad, pa fath Grist fyddai yn yr eglwys ymhen mil o flynydd-oedd? Nid rhyfedd, gan hynny, fod llawer yn eiddigeddus dros ddiogelu yr hanes geir am Iesu Grist yn y Beibl. Ond nid yw gwybodaeth Feiblaidd o Grist, na gallu i gyhoeddi ffeithiau mawrion ei hanes mewn trefn a chyda hyawdledd, yn ddigon o gymhwyster i bregethu yr Efengyl. Rhaid i'r pregethwr ei hun wybod trwy brofiad am Iesu fel Gwardwr, a'i garu â'i holl galon, cyn y gall ei gyhoeddi yn Waredwr i ereill. Rhaid, nid yn unig iddo ef ymaflyd yn y gwaith, ond rhaid i'r gwaith gymeryd gafael ynddo yntau, a myned yn rhan o hono, cyn y gall pregethu y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu.

Dengys hanes ymwneyd Crist â'i Apostolion fod gwybodaeth brofiadol o hono yn hanfodol iddynt er mwyn y gwaith oedd ganddynt i'w gyflawni. Mae profiad yr Apostol Paul o Grist mor eglur a dim yn ei Epistolau. Tyfa yr athrawiaeth allan o'i brofiad ef; ac nid gwaith hawdd yw penderfynu pa le y dechreu a athrawiaeth ac y dibenna y profiad. Mae y gair yn wir fod Crist wedi dyfod i'r byd i gadw pechaduriaid, oblegid yr oedd Paul, y pennaf o honynt, wedi ei gadw. Gwyddai am ffeithiau hanes Iesu o'r blaen, ond nid oedd yn eu credu; wedi iddo ef gael ei achub, creda y ffeithiau bob un. Traetha gyda grym ac argyhoeddiad mai trwy ffydd y cyfiawnheir dyn gyda Duw, am mai trwy ffydd yr oedd efe ei hun wedi ei gadw, ac nid trwy weithredoedd y ddeddf. Yr oedd Crist yn bod o flaen y profiad, ond trwy brofiad yr oedd efe yn gallu sylweddoli yr hanes am dano.

Gwelir yr un peth yn hanes y disgyblion. Amherffaith iawn oedd eu syniadau am natur Ysbrydol teyrnas Iesu Grist, er wedi bod dan addysg yr Athraw ei Hun am dair blynedd; ond rhaid gosod un ffaith yn eu ffafr—yr oeddynt yn caru Iesu Grist. Yr oedd Pedr yn ei garu pan yn ei wadu, fel y dengys y wylo chwerw-dost, a gallai ddweyd y

pryd hwnnw, "Ti a wyddost bob peth, ti a wyddost fy mod i yn dy garu di." Yr oedd Thomas yn ei garu pan na chredai dystiolaeth y disgyblion ereill am ei adgyfodiad, oblegid y munud y gwelodd efe ôl yr hoelion yn ei draed a'i ddwylaw, dywedodd, "Fy Arglwydd a'm Duw." Dywed rhai beirniaid fod gormod o Ioan yn yr Efengyl sydd yn dwyn ei enw. Na, disgrifiad bendigedig o Iesu Grist fel Mab Duw, geir gan y disgybl, yr hwn yr oedd yr Iesu yn ei garu. Gwir fod yna brofiad, a buasai yn anhawdd i Ioan ysgrifennu ei Efengyl, a chofnodi geiriau dwyfol Iesu yn yr oruwchystafell, heb iddynt yn gyntaf suddo yn ddwfn i'w galon ef ei hun, fel y dywed Browning,—

What first was guessed as points, I now know stars,
And named them in the Gospel I have writ.

Ond nid yw profiad Ioan yn tynnu dim oddiwrth ardderchowgrwydd y darlun geir ganddo o Grist, ond yn hytrach rhydd help i'w ddangos. "Ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megis yr unig-anedig Ioddiwrth y Tad, yn llawn gras a gwirionedd." A dywed Pedr, wrth gyfeirio at y cyfarfod ar fynydd y gweddnewidiad: "Canys efe a'dderhyniodd gan Dduw Dad, barch a gogoniant, pan ddaeth y cyfryw lef ato oddiwrth y mawr ragorol ogoniant, Hon yw fy anwyl Fab i yn yr hwn y'm boddlonwyd. A'r llef yma, yr hwn a ddaeth o'r nef, a glywsom ni, pan oeddym gydag ef yn y mynydd sanctaidd." Yr oedd y tri disgybl wedi clywed Duw yn siarad ar y mynydd. "Yr hyn a welsom ac a glywsom, yr ydym yn ei fynegi i chwi."

Dynion wedi gweled Duw, ac wedi clywed Duw yn llefaru, oedd y proffwydi; a dynion wedi gweled Iesu, ac wedi ei glywed Ef yn llefaru, oedd yr Apostolion. Onid yw hyn yn gymhwyster hanfodol yn barhaus? Gweddia rhai dynion da am fod "lais Crist i gael ei glywed yn llais y pregethwr"; ond nis gall hynny fod os na fydd y pregethwr wedi clywed yn gyntaf y Meistr yn llefaru wrtho ef. Tarawiadol iawn yw geiriau Browning eto,—

That which was from the first, the word of life,
How will it be, when none more saith, "I saw"?

Pa werth yw talent, a dysg, a dawn os na all y pregethwr ddweyd, "I saw"? Onid hyn oedd nerth a gogoniant y pulpud Cymreig yn yr amser aeth heibio? Nid oedd llawer o'r pregethwyr ond cyffredin mewn dysg. Beth sydd yn cyfrif am eu llwyddiant? Eu dawn, medd rhai. Syniad arwynebol yw priodoli eu llwyddiant i lais a dawn. Ni ddylid diystyru y pethau hyn. Beth oedd yn cyfrif am lwyddiant Paul, pregethwr mwyaf y byd? Wedi gweled Crist yr oedd. A chredwn mai hyn oedd nerth yr hen bregethwyr. Yr oeddnt wedi gweled Duw, ac wedi clywed Iesu yn llefaru wrthynt, ac yn eu galw at eu gwaith. Ac onid y profiad o Grist, roddodd fodolaeth i'r Seiat? Ofna rhai y bydd i ieuenctid goleuedig ein gwlad fyned ar gyfeiliorn, yngwyneb cynnydd addysg; fod ein cenedl yn *impulsive*, ac er yn uniongred hyd yn hyn, yr arweinir ein pobl ieuaic ymhell gan ddamcaniaethau newyddion. Nid ydym yn gymwys i roddi barn ar y cwestiwn hwn. Ond credwn fod mwy o berygl oddiwrth *ddiffyg profiad*

o Grist a'r Efengyl, nag oddiwrth gyfeiliornad mewn barn. Os bydd profiad yr Eglwys farw, beth yw gwerth credo ysgrifenedig neu ddeall-edig? Ond os bydd y profiad yn fyw, ni fydd y ffydd byth farw. Angen mawr eglwysi pob enwad yw mwy o brofiad, i.e., profiad newydd o Grist. Mae dawn a dysg yn dda i bregethwyr, ac yn angenrheidiol; ond ein hangen dyfnaf yw gallu i ddweyd, "I saw."

IV. PREGETHU CRIST F·L Y DATGUDDIR EF YN AMCAN GOGONEDDUS EI YMGNAWDOLIAD.

Mae undod amcan yn rhedeg trwy y Beibl o'r dechreu i'r diwedd, sef iachawdwriaeth eneidiau. Daw y gwirionedd i'r golwg yn y Beibl o roddiad yr addewid yn Eden hyd ymddangosiad Crist yn y cnawd. Cadw personau unigol i ddechreu, yna teuluoedd, ac wedi hynny y genedl; ond cadw o hyd. Dywed Duw, "Fel mai byw fi, nid oes gennyf ewyllys ym marwolaeth yr annuwiol." Ond trwy ymgnawdoliad y Mab y daeth yr amcan yn amlwg. "Canys felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragwyddol." Hwn yw yr amcan sydd yn rhedeg trwy holl waith Duw, mewn natur, rhagluniaeth, a threfn gras. Mae pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn ei garu Ef.

Rhyfedd yw i Dduw roddi ei Fab i fod yn aberth dros bechod y byd; ond wedi gwybod pwy yw Duw, a'i fod yn Dad, buasai yn rhyfeddach iddo beidio danfon ei Fab i'r byd. Nid oedd arno un rheidrwydd, ond rheidrwydd cariad, rheidrwydd ei natur Ef ei Hun. Natur Duw, neu gymeriad Duw, yw y rheswm dros y pryndegaeth. Rhyfedd i'r Iesu aberthu ei orsedd a'i goron, ymwaghau o'i ogoniant, a dyfod i'r byd i gymeryd arno agwedd gwas, a bod yma heb le i roddi ei ben i lawr, a chael ei wawdio, ei ddirmygu a'i groeshoelio. Iâ, ond wedi gwybod pwy oedd Iesu, a gwybod ei gariad tragwyddol at y ddynoliaeth, buasai yn rhyfeddach iddo beidio dyfod i'r byd i farw, gan mai hon oedd yr unig ffordd i gadw eneidiau. Nid oedd arno un rheidrwydd ond rheidrwydd cariad. Yr oedd ganddo berffaith awdurdod ar ei einioes; Efe oedd yn ei dodi hi i lawr o hono ei Hun, ac Efe oedd yn ei chymeryd hi i fyny drachefn. Yng ngoleuni yr *amcan* y gwelir cariad anfeidrol y Tad wrth roddi y Mab, a chariad anfeidrol y Mab wrth roddi ei fywyd yn aberth drosom. Daeth Iesu i'r byd i ddatguddio Duw fel Tad, er mwyn ennill y byd i greu ynddo. Cysegrodd y ddaear â'i ddaerau a'i weddiau, er mwyn achub. Trwy farw ar y groes, tafodd ddrws gobaith yn agored o flaen holl genhedloedd y ddaear er mwyn eu cadw. Iachawdwriaeth eneidiau oedd amcan uchaf yr ymgnawdoliad. Pa fodd i gyrraedd yr amcan hwn? Yr ateb yw, Trwy bregethu Crist, a hwnnw wedi ei groeshoelio. Addefa Cotter Morison, yr *agnostic*, fod Cristionogaeth fel gallu ysbyrdol i wneyd dynion yn saint yn *anghymharol*. Ond dywed ymhellach, fod gwir saint yn ychydig mewn nifer, a'u bod wedi eu *geni* yn saint, fel y genir beirdd a cherddorion enwog. Yn hyn yr oedd yn cyfeiliorni. Nid oedd y publicanod a'r pechaduriaid wedi eu geni yn saint, ond gwnaeth Iesu Grist saint o honynt. Nid oedd y "Corinthiaid duon" wedi eu geni yn grefyddol. I'r gwrthwyneb, cyn i Paul fyned yno, yr oeddynt ymhlith y rhai iselaf; ond wedi iddo ef bregethu

Crist iddynt, dywedai, "Eithr chwi a olchwyd, eithr chwi a sancteidd-iwyd, eithr chwi a gyfiawnhawyd." Nid oes un dosbarth ar wyneb y ddaear yn rhy ddrwg i'r Iesu i'w cadw. Nid yw y bobl hynny sydd yn ein gwlad heb eu cadw erioed wedi roddi chwaraeu teg i'r Efyngyl. Nid ydynt wedi derbyn Crist, ac nis gall y Gwaredwr eu hachub heb iddynt gredu ynddo.

Un o gwestiynau pennaf y dydd ydyw, Pa fodd i ennill y lliaws ? neu pa fodd i achub eneidiau ?

Dyfeisir pob math o gynlluniau i geisio ennill y bobl. Ni ddylid dibrisio y pethau hyn. Credwn fod hanes Crist yn profi y dylai yr Eglwys gydymdeimlo â dynion mewn pethau tymhorol, yn enwedig mewn gofal am y tlodion, mewn cydymdeimlad â rhai mewn tralodion, ac mewn lledaenu egwyddorion sydd i wneyd "daear newydd" yn gystal â "nefoedd newydd." Ond is-ddibenion yw y pethau hyn. Sefydlodd Crist ei eglwys er mwyn achub y byd, a phregethu Crist a'i groes yw y gallu pennaf i gyrraedd yr amcan. Dyma ddirgelwch llwyddiant pregethwyr pennaf y byd,—Paul, Luther, Wesley, Spurgeon, Moody, Daniel Rowland, Williams o'r Wern, a llu ereill. Hyn sydd yn gwneyd pregethu yn anhawdd. Pe creu dyddordeb a dysgu egwyddorion moesol yn unig a olygid wrth bregethu, gwaith cymharol hawdd fyddai hynny. Ond y mae Duw wedi ordeinio trwy bregethu i gadw y rhai sydd yn credu. Gan hynny, pwy all bregethu ? Neb o honno ei hun. Mor wir ag fod eisieu yr Iesu i fod yn iawn, rhaid cael yr Ysbryd Glân i gadw. Rhaid cael y "nerth o'r uchelder." Beth yw mawredd bydol a gorsedd ddaearol i'w cymharu â phulpudd y dyn fedr bregethu Crist yn iawn !

DUWINYDDIAETH ATHRAWIAETHOL DR. SHEDD.

Dogmatic Theology : by W. G. T. SHEDD, D.D. Vol. III. Supplement.
New York : Charles Scribner & Sons. 1894.

DYMA y gyfrol olaf a gyhoeddwyd, a'r olaf a gyhoeddir bellach, o Dduwinyddiaeth Athrawiaethol y diweddar Ddr. Shedd. Bu yr awdwr farw pan ar ei gorffen hi fel atodiad i'w waith pwysig ar yr un pwnc,—y gwaith yn yr hwn y mae efe wedi casglu holl ffrwyth ei astudiaeth am ddeugain mlynedd. Cynhwysa y gyfrol, gan hynny, olygiadau addfetaf Dr. Shedd, yn y ffurf o eglurhad pellach ar rai pethau a ystyriai efe yn dywyll neu yn anorffennol yn y cyfrolau blaenorol, y rhai a gyhoeddwyd ganddo yn y flwyddyn 1888, ynghyda dyfyniadau helaeth, wedi

eu dethol gyda gofal arbennig, allan o lyfrau prinion neu ddrudfawr o eiddo duwinyddion hen a diweddar. O herwydd hyn, tra y mae y drydedd gyfrol yn dra gwerthfawr a phwysig i'r efrydwy'r hynny sydd wedi astudio y ddwy gyntaf, nis gellir ei defnyddio gyda llawer o fudd ar wahan iddynt. Ar yr un pryd, nid diogel fyddai i'r darlennydd feirniadu Dr. Shedd heb ymgvdnabyddu â'r gyfrol hon yn gystal a'r lleill.

Athraw duwinyddol yn Andover, ac wedi hynny yn *Union Seminary* yn New York, oedd Dr. Shedd. Ganed ef yn Americanwr, yn y fl. 1820. Ymneillduodd o'i swydd yn *Union* yn y fl. 1890, a bu farw tua diwedd y flwyddyn 1894, yr un diwrnod â Dr. McCosh yn Princeton. Efe oedd yr unig un o holl athrawon *Union* nad oedd yn bleidiol i Dr. Briggs, a'r Uchelfeirniadaeth. Yn wir, erbyn hyn, ers blynyddoedd, ystyrrid yn America nad oedd i Jonathan Edwards, y duwinydd dwfndreiddiol hwnnw, ond un olynnydd, sef Dr. Shedd, fel y sylwa Dr. Henry Van Dyke yn ei bregeth goffadwriaethol; a'r amddiffyniad cyflawnaf o'r athrawiaethau a elwir yn Galfniaidd ydyw y cyfrolau hyn, ar ol marwolaeth Dr. Charles Hodge, awdwr y *Systematic Theology*, a'i fab Dr. A. A. Hodge, awdwr yr *Outlines of Theology*, neu, fel yr aralleiriodd Mr. Morris Davies yr enw, "Bannau Duwinyddiaeth." "*Shedd is a Calvinist pure and simple,*" medd Dr. Schaff, "*and makes no concessions to Arminianism or modern Theology.*" Yr oedd yn fwy o olynnydd i Jonathan Edwards na Hodge ei hun. Perthynai y naill fel y llall i'r "hen ysgol;" ond ni fyddai Shedd symud modfedd oddiwrth yr hyn a eilw ef "*the elder Calvinism*" yn ei ffurf mwyaf anhyblyg.

Wrth "yr hen ysgol" y golygir y dduwinyddiaeth a gorfforir yng Nghyffes Westminster, ac a adwaenir yn America fel "Duwinyddiaeth Princeton," a hynny yn bennaf am mai y dduwinyddiaeth hon a ddysgid gan y tri athraw, y rhai a ffurfient yr olyniaeth yn Princeton am dros drigain a phump o flynyddoedd,—Dr. Archibald Alexander, Dr. Charles Hodge, a Dr. Archibald Alexander Hodge,—o 1812 hyd yn agos i ddiwedd 1877. Disgwylir i'r holl athrawon duwinyddol yn yr Athrofa honno ddilyn Cyffes Westminster fel y gwelir yr athrawiaeth yng Nghyffes Ffydd a Chatecismau yr Henaduriaethwyr yn yr Unol Daleithiau. Ond y mae yn ffaith, fel yr awgrymwyd eisoes, fod duwinyddiaeth Princeton wedi symud ychydig, a bod Dr. Shedd, ar y llaw arall, yn amddiffyn Calfniaeth yn ei ffurf gyntefig.

Y mae y ddau Hodge ac yntau yn cytuno ar y pump athrawiaeth a ganlyn :—

1. Cytunant fod y cwmp yn cael ei gymeryd yn ganiatäol yn yr arfaeth, fel peth wedi digwydd, ac nad ydyw yn rhan o'r arfaeth. Isgwmpedyddion (*Infralapsarians*) ydynt. Profa Dr. C. Hodge mai dyma athrawiaeth Awstin, ac ystyria ei fod yn amheus beth oedd athrawiaeth Calvin. Ond rhydd Shedd, yn y drydedd gyfrol, ddyfyniadau helaeth i ddangos fod Calvin hefyd yn dal y syniad nad yw y cwmp yn cael ei gynnwys yn yr arfaeth.

- 2 Cytunant fod arfaeth Duw i ethol rhai i gadwedigaeth yn tybied hefyd wrthodwedigaeth. Yn y gyfrol newydd cadarnheir yr athrawiaeth gan Shedd trwy ddyfyniadau o Bunyan ac Awstin, a thrwy gais i esbonio Rhuf. xi. 7.

3. Cytunant fod ewyllys ddatguddiedig Daw yn galw pob pechadur yn ddiwahaniaeth i dderbyn yr Efyngyl, a bod yr alwad gyffredinol hwnno yn gyson â'i ewyllys ddirgeoledig i wneyd yr alwad yn effeithiol taag at yr etholedigion yn unig. Ar y mater hwn yr hyn a goir yn y drydedd gyfrol gan Shedd ydyw dyfyniad o Awstin. Ond rhydd *Stolga* halyd ddyfyniadau llawn mor helaeth o Awstin ar tu dal. 680 o'i Ail Gyfrol.

4. Cytunant fod y rhai a godwir yn cael eu sancteiddio yn berffaith yn angho, ac yn myned yn uniongyrchol i ogoniau y Nef; a'r colledigion yn myned yn angho i Uffern. Ond y mae ychydig o wahaniaeth rhwng Hodge a Shedd ar y mater hwn. Myn Shedd mai y bedd, yn yr hwn y claddwyd corff yr Iesu, a foddylir yng Nghredo yr Apostolion, pan ddywedir fod y Gwardwr wedi "diagyn i uffern;" tra y golyga Hodge mai enw ydyw Uffern neu Hades ar le ei enaid yn y byd ynhyrdol, yn ystod yr adeg yr oedd ei gorff yn y bedd. Yr enaid Mhedd, hyd ddiwedd ei oes, yn gryf yn erbyn y cyfieithiad a gair yn y *Revised Version* o'r gair "Hades." Arferir yno y gair "Hades" fel pe byddai yn Saesneg, yn lle yr hen gyfieithiad "grave." Ond mynodd Mhedd oedd mai yr un lle a olygir wrth Hades ag wrth Gehenna, ael uffern y colledigion, oddiethr pan y golyga y bedd. Ithylid yn y gyfrol newydd ddyfyniadau o Tertullian, Ireneus, Jeremy Taylor, ac Awstin, ac nid oes dim yn Hodge i gystadlu âg ymddriniaeth Mhedd, er fod yr ychydig a ddywed yn hollol eglur.

5. Cytunant, yn y lle olaf, fod nifer y rhai a godwir yn annhraethol fwy llwng na nifer y colledigion. Ni thraethir dim yn ychwanegol at hyn yn y drydedd gyfrol gan Shedd. Ond yn hyn y mae duwinyddion wedi ehangu eu syniadau yn ddirfawr, a dywed Schaff fod Dr. A. A. Hodge yn fwy eang na'i dad, er nad oes un o'r tri yn ochri at yr athrawiaeth o adferiad cyffredinol, nac at y golygiad y difodir y colledigion.

Yn eu golygiadau ar gyfrifiad pechod Adda i'w hiliogaeth, y mae y gwahaniaeth mwyaf rhwng Shedd a'r ddau Hodge. Gelwir sylw neillduol y darlennydd gan Shedd ei hun at y gwahaniaeth hwn, ond heb enwi Hodge, yn y Rhagymadrodd i'r gyfrol ychwanegol. Y mae efe yn dilyn Jonathan Edwards yn fwy cyson na hwynt, trwy ddal mai cyseylliad naturiol Adda â'i hiliogaeth fel eu tad cyntaf ydyw sylfaen yr hyn a alwn yn gyffredin yr athrawiaeth o gyfrifiad y pechod cyntaf. Er mwyn cadarnhau y syniad hwn, ymresyma Shedd o blaid yr athrawiaeth o ddeilliad enaid pob dyn o'i rieni, heb gyfyngu y deilliad at y corff yn unig. Ond dywed Hodge mai y corff yn unig sydd yn deilliaw, tra y creir pob enaid pan ddechreu ei fodolaeth mewn corff; ac ymresyma nad priodol ydyw sylfaenu yr athrawiaeth am bechod gwreiddiol ar unrhyw ddamcaniaeth ynghylch tarddiad yr enaid. Dyma y prif wahaniaeth rhyngddynt.

Yn ol yr athrawiaeth Galfinaidd, yr hon a dderbynnid gan y tri, y mae pechod gwreiddiol yn cynnwys fod dyn wrth natur yn euog ac yn halogedig o herwydd pechod cyntaf Adda. Ond gwahaniaethant ar y cwestiwn pa un ai euogrwydd ai halogrwydd sydd gyntaf. Yn ei draethawd ar "Bechod Gwreiddiol," amcana Jonathan Edwards brofi fod pob dyn yn halogedig trwy ddeilliad oddiwrth ein rhieni cyntaf, ac

mai yr halogrwydd hwn ydyw yr achos o'i euogrwydd. Yn ol y golygiad hwn yr oedd Adda wedi pechu trwy chwenych y ffrwyth gwaharddedig, ac oblegid iddo bechu yn y chwenychiad, y pechodd yn weithredol trwy ei fwyta. Ond yr un act foesol oedd y chwenychiad a'r gweithrediad. Cyfrifwyd yr holl act foesol hon i'w hiliogaeth, ond yn y drefn hon, yr halogrwydd yn eu natur ymlaenaf fel yr achos o'u heuogrwydd. Gan hynny, nid oes cyfrifiad o gwbl i'w hiliogaeth o'r weithred o fwyta y ffrwyth ar ei phen ei hun, ond cyfrifiad o'r weithred hon fel y mae yn ganlyniad y chwenychiad. Ond ai cyfrifiad ydyw hyn? Onid yr enw priodol arno ydyw deilliad? Yr oedd Adda yn naturiol yn wreiddyn y ddynoliaeth. Gan fod y gwreiddyn mewn cyflwr o bechadurusrwydd, y mae yr holl bren yr un fath, yn rhinwedd ei ddeilliad o hono. "Yr hyn aned o'r cnawd sydd gnawd." Ac yn yr un modd y gellir dweyd am olygiad Shedd, mai deilliad, ac nid cyfrifiad, ydyw y berthynas a gydnebydd ef rhwng pechod cyntaf Adda a'i hiliogaeth, ac am hynny yr ymfynna pa un ai creadigaeth ai deilliad o'r rieni ydyw enaid pob dyn. Ond pa un bynnag ai creadigaeth ai deilliad ydyw yr enaid (ac y mae yn rhydd i ni ddweyd nas gwyddom), nid ymddengys i ni fod yr atebiad i'r cwestiwn yn bwysig. Oblegid nid ydys ond gwthio yr anhawster un cam yn ol o hyd. Pe dywedem hyd yn oed mai mewn sefyllfa flaenorol cyn ei eni i'r byd y pechodd dyn, fel y myn rhai, nid yw hyn drachefn ond gwthio yr anhawster gam ymhellach yn ol. Y mae yr holl Isgwmpedyddion yn cytuno mai cychwyn ddarfu pechod o ddim, ac nad yw Duw yn awdwr pechod. Ac ar hynny rhaid ymfoddloni yn y diwedd. Pa le, gan hynny, y daw y syniad o gyfrifiad i mewn? Yma y gwelir yr angenrheidrwydd am athrawiaeth y cyfamodau; cyfamod gweithredoedd i esbonio yn gyflawn berthynas Adda a'i hiliogaeth, a chyfamod y gras i esbonio perthynas Crist a'i hiliogaeth ysbrydol yntau. Nid yw y syniad o ddeilliad yn ddigon, am y rhesymau a ganlyn: *Yn gyntaf*, nid yw yn esboniad teg a chyflawn ar eiriau yr Apostol yn Rhuf. v. 12—21. Pe ei syniad ef fuasai fod deilliad naturiol dynoliaeth o Adda yn peri llygreddigaeth ei hiliogaeth, dylasai y gymhariaeth rhwng Adda a Christ redeg fel hyn: Fel y mae pawb yn halogedig oblegid pechod un dyn, felly y mae pawb a gredant yn gyflawn foesol trwy ufudd-dod un dyn. Ond y mae y duwinyddion Calfinaidd oll, i lawr hyd amser Cyffes Westminster, yn golygu mai nid anian dduwiol ydyw yr achos o gyfiawnder cyflwr, ond mai symud yr euogrwydd yw yr achos o adnewyddiad moesol. Felly y mae rhyw fath o undeb rhwng Adda a'i hiliogaeth yn cyfateb i'r unoliaeth cyflwr rhwng Crist a'r credinwyr. Yn awr trefn yr Efengyl ydyw cyfiawnhad y neb a gredo trwy gyfrifiad o ufudd-dod Crist, ac yn yr un modd trefn y llywodraeth ddwyfol gyda golwg ar bechod ddylai fod (yn ol ymresymiad yr Apostol) euogrwydd yr hiliogaeth trwy anufudd-dod Adda. Ni eilw y Bibl y cysylltiad yn gyfamod. Ond hyn yw yr ystyr, ac un o ddarganfyddiadau mwyaf pwysig y dduwinyddiaeth a ddaeth i mewn ar ol y Diwygiad Protestanaidd, ac ar ol yr "*elder Calvinism*," a amddiffynir gan Shedd, ydyw athrawiaeth y Cyfamodau o eiddo Cocceius, a ddarganfyddwyd hefyd ganddo fel esboniwr ar eiriau

yr Ysgrythyr ac nid yn gymaint fel athronydd duwinyddol. Gellir gosod ymresymiad yr Apostol yn y ffurf o amodau, fel hyn: Os anufuddha Adda, cyfrifir ei hiliogaeth yn euog, ac, fel canlyniad, ânt yn halogedig eu natur, ac, mewn canlyniad i halogrwydd eu natur, ânt, os pechant yn bersonol, yn bersonol euog: O'r ochr arall, os uffuddha Crist, cyfrifir yr hiliogaeth, a gwympodd yn Adda, yn gyfiawn neu ddiuog, ac, fel canlyniad, os credant, maddeuir iddynt a chânt eu hailu. Nis gallwn, gan hynny, dderbyn esboniad Meyer a Godet, y rhai a wadant fod yr Apostol yn golygu dysgu athrawiaeth o gyfrifiad yn yr adnodau hyn. *Yn ail*, o dan athrawiaeth y cyfrifiad y mae yn gorwedd y syniad o lywodraeth foesol Duw. Ond y mae llywodraeth foesol yn golygu bod amodau ar y deiliaid, ac, os bydd y llywodraethwr yn gweithredu yn unol ag egwyddorion uniondeb, arno yntau hefyd. Nis gallwn weled y byddai uniondeb yn llywodraeth Duw pe deilliad naturiol fyddai yr unig berthynas rhwng Adda a'i hiliogaeth. Ond y mae yn uniawn i Dduw llywodraethu y ddynoliaeth trwy ei chynrychiolwr, os ydyw yn gyfiawn i Dduw ganiatau pechod o gwbl. Rhaid i ni osod i lawr y dybiaeth hon, fod yn gyfiawn iddo ganiatau pechod, oblegid fod yr ymresymiad yn cymeryd yn ganiataol fod y llywodraeth o natur foesol, hynny ydyw, fod anufudd-dod yn bosibl. Ond y mae dyn, oblegid ei fod yn rhywogaeth, yn gymdeithasgar; y mae dynion, cynnyrch dynoliaeth, yn gweithredu tuag at eu gilydd; y mae eu gweithrediadau o natur foesol; y maent, gan hynny, yn un yn yr ystyr hwn, er eu bod yn llawer. Hynny ydyw, y maent mewn cyfamod â'u gilydd ac â'r llywodraethwr dwyfol. Os cwmp eu cynrychiolydd, cwmpant oll. Yng ngeiriau Baader, yr hwn sydd yn awdwr tra galluog: "Yr oedd cwmp dyn yn amgylchiad oedd yn dylwanwadu ar fyf, fel pan y cwmp teyrnas gyda'i brenin." Y mae hyn yr un peth a chydabod athrawiaeth y cyfamodau. Felly hefyd gyda golwg ar y prynedigaeth, rhaid bod trefn yr iachawdwriaeth yn tybied cyfamod. Pe amgen, ni byddai yn cynnwys yr elfen o gyfiawnder yn gwobrwyo y Gwaredwr; dim ond trugaredd tuag at y pechadur, heb amodau, o iawn ar du Crist neu o ffydd ar du y neb y gedwir. Ond ymddengys i ni fod y syniad o cyfamod yn cynnwys hefyd gyffredinolrwydd yr iawn, nid yn unig o ran digonolrwydd, ond o ran amcan Duw a'r Gwaredwr, ac nad oes dim ond ewyllysiad y pechadur yn atal i Dduw Ysbryd Glân ddwyn yr amcan grasol o gadwedigaeth i ben gyda golwg ar bawb o'r hil ddynol; oblegid cyfamod â'r ddynoliaeth oedd y naill, a chyfamod â'r un ddynoliaeth oedd y llall. Pe amgen, byddai y cyfamod gras yn fwy cyfyng na'r cyfamod gweithredoedd. Ac un o'r seiliau cryfaf dros gredu yn yr athrawiaeth o gyfamod gweithredoedd ydyw, y gallwn gredu yn yr athrawiaeth o gyfamod gras, o'r hwn, mewn gwirionedd, y mae y llall yn rhan, yr ochr gyferbyniol i llywodraeth foesol Duw, yr hwn a ganiataodd y cwmp er mwyn yr adferiad gogoneddusach. Fel y dywed I. r. Henry B. Smith, rhagflaenydd uniongyrchol Dr. Shedd fel athraw duwinyddol, yn *Union*, "*Just as in the atonement of Christ, redemption is not provided, primarily, for this or that man, but for the whole human race.*" Yr ydym, gan hynny, yn dal y ddau syniad, cyfrifiad a deilliad, a chyfrifiad oblegid y deilliad. Y mae Shedd, fel yr ymddengys i ni, yn rhoi rhy

fach o bwys ar y cyntaf, a Hodge rhy fach ar yr olaf. Ond nid pen-arglwyddiaeth yn unig oedd with wraidd ein perthynas âg Adda. Yr oedd efe yn wreiddyn y rhywogaeth, ac, *am hynny*, yn bencyfamodwr. Tra, ar y naill law, nad ydym i ddal yr hen syniad "fod ein llaw ni yn llaw Adda" yn estyn at y ffrwyth (yr hyn ni fyddai yn gyfrifiad o gwbl); nis gallwn dderbyn, ar y llaw arall, y dybiaeth y gwnai neb creadur y tro i fod yn bencyfamodwr i ddynoliaeth ond dyn, a'r dyn hwnnw yn unig a drefnodd Duw i fod yn dad cyntaf i ni oll. Dyn sydd yn cynnyrchu dyn; a dyn pechadurus yn unig a gynnrychir gan ddyn pechadurus.*

Gwelir nad ydyw y pynciau ar y rhai y gwahaniaetha Shedd a'r ddau Hodge yn hollol yr un peth a'r gwahaniaeth rhwng Uchel Galfiniaeth ac Isel Galfiniaeth, fel y defnyddir yr enwau hyn yng Nghymru. Y mae y tri yn Isel Galfiniaid. Ac nis gellir ameu fod Calfiniaeth wedi colli yr amddiffynwyr cryfaf yn America ym marwolaeth y tri duwinydd enwog a galluog hyn

Os gofynnir pa un o'r ddau fyddai oreu i'r efrydydd duwinyddol ei astudio, rhaid ateb, ar y cyfan, Dr. Charles Hodge, yn bennaf o herwydd trefniad gwell ei *Systematic Theology*, o'i gymharu â *Dogmatic Theology* Dr. Shedd. Diffyg pwysig yng nghyfrolau Shedd ydyw nad oes ynddynt ddostraniad manwl, fel sydd yng nghyfrolau Hodge; a gwaeth na hynny, nid oes mynegai (*index*) o gwbl yn niwedd y gyfrol newydd. Y mae hyn yn achlysur o anghyfleustra mawr. Os digwydd bod ar y darlennydd eisieu gwelod beth yw golygiad Shedd ar uurhyw fater yn y gyfrol gyntaf, rhaid iddo edrych i'r mynegai yn niwedd yr ail gyfrol, ac yna troi i'r lle y ceir y golygiad yn y gyfrol gyntaf; ac yn y lle olaf, edrych a oes dim ychwanegiad neu gyfnewidiad yn y drydedd gyfrol. I wneyd i fyny y diffyg hwn yn nhrefn y materion, teg yw cydnabod bod yn agos saith ar hugain o dudalennau yn niwedd yr ail gyfrol o waith Dr. Shedd wedi eu llenwi â Holiadau pwrpasol ar yr holl faes, y rhai sydd yn ateb y diben oedd mewn golwg gan Dr. A. A. Hodge yn cyhoeddi y llyfr rhagorol a elwir yr *Outlines*. Y mae Shedd yn llawn mor wirioneddol dda a thrwyadl, ond y mae Hodge yn well o herwydd y trefnusrwydd sydd yn ei raniadau. Os gellir pwrpasu tair cyfrol Hodge a thair cyfrol Shedd hefyd, bydd y neb a'u darlленно oll yn feddylgar, yn sicr o wneyd efrydydd duwinyddol o'r rhagorol.

Y mae y drydedd gyfrol o waith Shedd i'w chael yn y wlad hon gan y Meistri T. a 'I. Clark, Edinburgh. Ei phris yw 12s. 6ch.

T. C. E.

* Y mae yn hyfrydwch gennym gyfeirio at draethawd galluog yn Gymraeg, sydd yn ymdrin ar y mater hwn, sef llyfr Mr. R. S. Thomas ar "Gyflawnhad." Yr oedd yr awdwr yn un o efrydwyr Dr. A. A. Hodge, yn Princeton, a mabwys-iada ei olygiad a'r Gyfrifiad. Ond na feddylied neb mai adsair o lais Dr Hodge yn unig sydd yn y traethawd. Gwrthwyneba ei syniadau yn gryf ar fater arall, ac yn sicr, i'n tyb ostyngedig ni, Mr. Thomas sydd yn gywir. Yr ydym o galon yn canmol y llyfr hwn, ac yn dymuno ei argymhell i efrydwyr yn parotoi ar gyfer y *Synodical Examination*. Byddai ei astudio yn werthfawr iawn iddynt.

Y DDWY OCHR I'R DDALEN, GAN DDAU EGLWYSWR.

What the Welsh People owe to the Welsh Church. By J. BIRKBECK NEVINS, M.D., Lond., Author of "An Historical Picture of Wales," &c. London: Simpkin, Marshall & Co. 8c.

Disestablishment (Welsh and English). Dedicated to the Right Hon. W. E. Gladstone, M.P. By J. FROME WILKINSON, M.A., F.L.S., F.S.S., Rector of Kilvington, Nottingham. London: James Clarke & Co. 1s.

GALWASOM sylw, dro yn ol, at lyfr blaenorol Dr. Birkbeck Nevins ar Gymru yng nghyfnod y Tuduriaid. Y mae efe wedi talu llawer o sylw i'n hanes fel cenedl, ac yn ysgrifennu yn ddyddorol yn ein cylch. Sais, ac Eglwyswr aiddgar, ydyw y Doctor, a theimla fod y Cymry ymhell iawn o'u lle, fel y mae Llywodraeth bresennol ei Mawrhydi hefyd wrth wrando ar eu llais, gyda golwg ar y mater o Ddadgysylltiad a Dadwaddoliad Eglwys Loegr yn eu gwlad. Ymddengys hefyd ei fod ef yn argyhoeddedig mai y rheswm mawr am y fath anfadrwydd ar ein rhan ydyw ein dwfn anwybodaeth; ac mewn trefn i oleuo ychydig ar gynifer o honom ag a fo'n abl i ddeall tipyn o Saesneg, y mae wedi ysgrifennu y llyfryn hwn i ddangos i ni beth y mae y Cymry yn ddyledus am dano i'r Eglwys. Fe ddywedodd Mr. Lloyd George yn Nhŷ y Cyffredin, fis Ebrill diweddf, ryw eiriau am yr Eglwys yng Nghymru fel yn wrth-genedlaethol, &c., sydd wedi ei gythraddo yn fawr. Nid rhyfedd, ac ystyried yr holl achos, os tentid ein cydwladwr i ddefnyddio geiriau lled gryffion; ac y mae'n debyg na theimlai Mr. George un anhawster i addef fod llawer o'r hyn a ddywedir yma yn wir am y pethau da a dderbynasom, mewn rhyw wedd neu gilydd, oddiwrth yr Eglwys. Fe fuasai yn ofnadwy mewn gwirionedd fod Eglwys ag y priodola Dr. Nevins ei dechreuad i'r bumod ganrif, wedi bod yn ein gwlad am yn agos i bedwar cant ar ddeg o flynyddoedd, mewn meddiant o'i holl gyfoeth a'i holl ddysg a'i holl allu, heb wneyd rhywfaint o ddaioni. Feallai hefyd nad ydyw Dr. Nevins, er carediced ei awydd i wasgar ychydig ar ein hanwybodaeth, yn gwybod *popeth*, hyd yn oed ar y mater yr ysgrifenna mor awdurdodol yn ei gylch, er yr ymddengys ei fod, wedi Nodiad y TRAKTHODYDD ar ei lyfr cyntaf, yn deall yn awr fod ychydig o Fethodistiaid yng Nghymru y tu allan i gorff rhagorol y Methodistiaid Wesleyaid. Ac y mae yn sier o fewn terfynau posibilrwydd nad anwybodaeth a drygioni pobl Cymru ydyw holl achos y dwfn deimlad sydd wedi eu meddiannu am y pellter sydd rhwng Eglwys Loegr a hwynt,—teimlad sydd yn awr, ac mewn canlyniad i oesoedd o dyfiant, wedi anfon i'r Senedd 31 allan o'r 34 sydd yno yn cynrychioli Cymru, i ddweyd y rhaid i'r dadgysylltiad gymeryd lle. Sonia y Doctor mewn un man am sêl grefyddol yn amlygu ei hun "outside official Churchdom." Ai nid nid dyma esboniad y rhan fwyaf o lawer o'r cymwynasau y myn

efe ein bod yn ddyledna i'r Eglwys am danynt? Am y cyfieithiad cyntaf i'r Gymraeg o'r Testament Newydd, a argraffwyd yn 1567, fe'i gwased gan W. Salesbury, lleygwr, gyda chynhorthwy ychydig wŷr da, wedi i'r pump Esgob—er eu gorchymyn gan y Frenhines Elizabeth yn 1562, dan ddirwy, o fethu, o £40 bob un, i'w orffen erbyn 1566—*onedd*, neu *esgeuluso* gwneyd y gwaith a ymddiriedasid iddynt. Gwnaeth Dr. Morgan ei waith yntau o hono ei hun, ac yn nannedd gwthwynebiadau. Dywed ei fod "i lawer yn dra anghymeradwy." Heb ddiolch iddynt hwy nac i "official Churchdom" yng Nghymru, fe weithiodd Duw y Llyfr o blaid Morgan. ac fe gafodd gefnogaeth Whitgift, Archesgob Canterbury, i'w orffen, a dygwyd ef allan. Crybwyllir Ficer Pritchard a'i waith da; ond fe ddarfu iddo yntau wneyd ei waith er gwaethaf yr Eglwys. "Cymaint ydoedd dallbleidiaeth yr amserau," ebe Fenton, "fel y dygwyd cyngaws yn ei erbyn yn y llys eglwysig." A gweddiat efe ei hun—

Na thro dy wyneb grasol
Oddiwrth dy was cystuddiol,
Rwyf mewn trallod, dere ar frys
A thyn fi o'r *Llys* annuwiol.

Lled debyg ydoedd gyda Griffith Jones; yr ydoedd efe mewn llawn gydymdeimlad â'r Diwygwyr, y rhai a welai yn "treulio ac yn ymdreulio" gyda gwaith Crist, er heb fod yn ddigon cryf i'w dilyn yn gwbl. Fel y canai Williams:

Ond am fod ei foreu 'n dywyll,
Ac nad oedd ei ffydd ond gwan,
Fe arswydodd fynd i'r meusydd,
Ac i'r lleoedd nad oedd llan.

Ond am yr "official Churchdom," yr Eglwys fel y cyfryw, nid oedd a fynnai âg ef o gwbl. Buasai gwneyd gŵr fel efe yn Esgob,—neu y Ficer Pritchard neu Archddiacon Prys o'i flaen, neu hyd yn oed y Canon Howell ar ei ol,—yn un o'r saith rhyfeddod. Am y Tadau Methodistiaidd, fe wneir yn fawr yma o'r ffaith eu bod oll, oddieithr Mr. Charles, wedi marw yng nghymundeb yr Eglwys. Gwir: ond yr oedd yr Eglwys, ac o *herwydd eu ffyddlondeb i Grist*, wedi gwrthod eu gwasanaeth, ac felly eu gorfodi i ymdafu, enaid a chalon, i'r gwaith mawr nad oedd yr hyn gymerodd le yn 1811,—er na chafodd ei ddwyn oddiamgylch heb lawer iawn o feddwl, a dwys ystyriaeth, a thaer weddio,—ond ei ganlyniad naturiol ac anocheladwy. Dywedir hefyd fod y sêl grefyddol Gymreig a "gynhyrchodd y fath ddynion a Howell Harris," &c., "wedi codi ym mynwes yr Eglwys ei hunan." "Ym mynwes yr Eglwys ei hunan;" ac felly o'r Eglwys, debyg? Gyda'r un priodoldeb y gellid dweyd mai "ym mynwes" Eglwys Rhufain y cododd y sêl yn Luther a gynheiodd yn Ewrop y Diwygiad Protestanaidd; neu mai "ym mynwes" y dafarn, yn ol y chwedl, y cafodd y Ficer Pritchard y fendith a brofodd, trwy ei bregethau tanllyd a'i ganiadau duwiol, y fath iachawdwriaeth i Gymru. Fe all Eglwys Rhufain a'r dafarn ddweyd am y dynion hyn, fel y gall

Eglwys Loegr hefyd ddweyd am y Tadau Methodistaidd, "Oddi-wrthym ni yr aethant hwy allan, eithr nid oeddynt o honom ni; canys pe buasant o honom ni, hwy a arosasant gyda ni; eithr hyn a fu fel yr eglurid nad ydynt hwy oll a honom ni." Ac i ddangos fod yr Eglwys eto o'r un ysbryd, daeth Arglwydd Exeter, llywydd y *Church Union*, i lawr i'r cyfarfod protestio a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Rhyl, a phan yn cyfeirio at waith y Tadau Methodistaidd, dyna oedd ganddo i'w ddweyd, "fod y gelyn ddyn, pan oedd y gwseion yn cysgu, wedi dyfod a hau efrau yn y maes"! Rhoddir pwys neillduol ar y ffaith nad ydyw yr Eglwys fel y bu, yn awr. Ai iddi hi y mae diolch? Os ydyw Cymru—heb yr Eglwys, ac i fesur mawr er ei gwaethaf—wedi ei llanw âg addoldai, & Beiblau, ac â gwybodaeth o Dduw; a'r Eglwys, o'r diwedd, gan nerth y goleuni oedd yn tywynnu o'i hamgylch, wedi gorfod agor ei llygaid, nid ydyw hynny, yn sicr, yn gwneyd yn ddirym yr argyhoeddiad sydd wedi bod am oesoedd yn meddiannu calon y genedl Gymreig, ei fod yn ddfwn anghyfiawnder i barhau fel Eglwys y Llywodraeth, ac ar draul y boblogaeth oll, sect fach sydd ymhob ffordd mor amddifad o bob hawl a chymhwyster i'r lle a honnir iddi. Myn y Dr. Nevins mai yr Eglwys *bia* yr eiddo y mae yn fwynhau, a'i fod, wrth reswrn, yn gysegr-ysbeiliad ei gymeryd oddiarni. Mae yr eiddo, mae'n ddiawen, wedi bod yn ei llaw am dymor maith, ac ardderchog, bid sicr, yw y defnydd y mae wedi ac yn wneyd o hono! Heb fyned i mewn i'r ddadl, na gofyn i'r Doctor ddwyn ymlaen y gweithredoedd, y *title-deeds*, boddlonwn yn bresennol ar ei gyfeirio at eiriau dau Eglwyswr mor barchus ac mor gydwytbodol ag yntau, Mr. Gladstone a Mr. W. H. Smith, y rhai ar yr un noswaith a dystient yn ddiawys yn Nhŷ y Cyffredin mai y Wladwriaeth oedd *bia* yr eiddo, ac y dylai ei ddefnyddio yn y dull a farno yn fwyaf doeth er budd yr holl genedl. Mae'n wir y dalai Mr. Smith na ellid ei ddefnyddio yn well na'i adael fel yr ydoedd at wasanaeth yr Eglwys; ond nid oedd un amheuaeth yn ei feddwl yntau, mwy nag yn meddwl y gŵr mawr—y mwyaf o wladweinwyr Ewrop—oedd wedi siarad o'i flaen, nad meddiant y Wladwriaeth oedd yr eiddo, a bod y Wladwriaeth yn gyfrifol am y defnydd a wneir o hono. A gwelwn fod Dr. Wickham, mab ynghyfraith Mr. Gladstone, er yn condemnio y mesur Cymreig fel un "caled ac anghyfiawn," yn dweyd y dydd o'r blaen yng Nghynhadledd yr Eglwys yn Lincoln,— "Ni allaf ddarllen hanes Degymau fel dim amgen na Threth Wirfoddol sydd wedi derbyn ei gallu gorfodol gan y Wladwriaeth; ac yr ydwyf yn meddwl, os ystyria y Wladwriaeth nad ydyw yr arian yn cael eu defnyddio er lles y boblogaeth, y gall y Wladwriaeth ei ddefnyddio mewn ffordd ereill." Y mae Dr. Nevins, fodd bynnag, wedi gwneyd un darganfyddiad y bydd yn ddyddorol gan ein darllenwyr ei gael fel ychwanegiad gwerthfawr at eu hystôr o wybodaeth: y mae wedi cael allan fod yr Ymneillduwyr hefyd yn cael eu gwaddoli gan y *Llywodraeth*. Yr oeddym wedi clywed llawer gan Mr. Stanley Leighton a chewri y *Church Defence* eu bod yn *sefydledig*,—yn enwedig y Methodistaidd Calfinaidd, am fod ganddynt eu Gweithred Gyfansoddiadol. Er ei fod yn amlwg i bawb y tu allan i Fedlam na all hynny olygu dim mwy na'r amddiffyn y mae y Wladwriaeth yn estyn i bob clwb cleifion, i bob

cymdeithas, ac i bob cwmni masnachol yn y mwynhad o'u hawliau cyfreithlawn, eto y mae y bobl ardderchog hyn wedi cael allan ein bod oll mor "sefydledig" gan y Wladwriaeth ag ydyw yr Eglwys sydd yn cael ei dynodi yn arbennig fel ei Heglwys hi; yr Eglwys sydd yn dibynnu arni am ei chyuhaliaeth ac am ei llywodraethiad; na phenodir ei Hysgolion ond gan Arweinydd y blaid boliticaidd ddigwyddo fod ar y pryd yn yr uchafiaeth yn y Senedd, boed Eglwyswr neu Ymneillduwr, Cristion, *positivist*, *agnostic*, neu anffyddiwr; ac Eglwys hefyd ag y mae ei Hlesgobion yn aelodau o'i Deddfwrfa, ac felly yn meddu llais yn ffurfiad y cyfreithiau wrth ba rai y llywodraethir yr holl Ymerodraeth Brydeinig. Er y cwbl, nid ydyw yr Eglwys hon yn fwy "sefydledig" nag ydyw Cymdeithas yr Olyddion neu y Methodistiaid Calfinaidd! Ond er mor wych ydyw y dadleuwyr gwrol hyn, y mae Dr. Nevins wedi codi ymhell uwchlaw iddynt, ac wedi cael allan ein bod ninnau fel Ymneillduwyr yn "waddoledig" hefyd. A wyt ti mewn cynni mawr, ddarllenydd tirion, am gael gwybod sut y mae hynny yn bod, ac yn ddi-amynedd am ein bod yn dy adael cŵd yn y fath berygl, chwedl hwnnw gynt, "to burst in ignorance"? Wel. dyma'r eglurhad: Y mae Capelau yr Ymneillduwyr yn rhydd oddiwrth Dreth y Tlodion, ac oddiwrth Dreth Eiddo! Os na yw hynyna yn fod yn "waddoledig," beth ddrwg *all* fod?

Ond ni allwn fyned i mewn i'r holl "resymau" a ddygir ymlaen yn y lyfr hwn i ddangos y bendithion mawrion y mae y Cymry mor rwymedig am danynt i Eglwys Loegr yn eu gwlad, a dyfnder yr anniolchgarwch a'r ffolineb a ddanghosant wrth geisio dwyn oddi-amgylch ei dadsefydliad a'i dadwaddoliad,—ac yn neillduol yn *awr*, pan y mae hi ar bob llaw, fel y dywedir, yn myned rhagddi gan lamu a neidio, a'r Ymneillduwyr esgymun—hefyd fel y dywedir!—gyda'r fath brysurdeb bendigaid yn diflannu o'r tir.

Wedi darllen lyfr Dr. Nevins, daeth i'n llaw yr ail lyfr a nodir uwch ben yr erthygl hon, eiddo y Parch. J. Frome Wilkinson, M A., F.L.S., F.S.S., periglor parchus yn Eglwys Loegr, ac wedi bod yn weinidog ffyddlon iddi am ugain mlynedd. Ni ddymunem "osod dyn annuwiol" ar y Doctor parchus na'i frodyr; ond yr ydym yn meddwl fod yn eithaf teg iddynt wrando ar yr hyn sydd gan eu brawd i'w ddweyd, yn enwedig pan yn llefaru gyda'r pwyll, a'r gallu, a'r feistrolaeth gyflawn ar yr holl fater, a'r ysbryd crefyddol a chariadlawn sydd mor amlwg yn nodweddu y gwaith hwn. Y mae yn ffaith dra arwyddocaol fod cynifer o'r Eglwyswyr goreu y dyddiau hyn,—fel y gwelir yn yr erthygl, "Y Dadsefydlwyr o fewn y Sefydliad," a ymddanghosodd yn NHRARTHODYDD 1893, tud. 451, &c.,—yn dyfod i deimlo mor anfoddlawn ar y cysylltiad sydd rhwng eu Heglwys a'r Wladwriaeth, ac mor awyddus, er mwyn yr Eglwys ei hun,—wrth weled fod y cysylltiad yn gymaint nychdod iddi, yn gystal ag er mwyn y cyrff crefyddol lliosog y tu allan iddi y mae ei sefyllfa freintiedig hi yn gymaint anghyfiawnder â hwynt,—am ei weled, mor fuan ag y bo modd, yn cael ei ddwyn i derfyniad. Gwelwn fod Mr. Frome Wilkinson yn Ysgrifennydd Mygedol i'r *Liberal Churchmen's Union*, cymdeithas barchus sydd yn brotest yn erbyn y syniad y dylai pob Eglwyswr fod yn Dori, a sefyll wrth gefn y pethau sydd—pa un bynnag ai ym mraint y person, y

pendefig, ai y tafarnwr,—deued a ddelo o'r pethau a ddylent fod. Y mae efe hefyd, heblaw ei wuth fel gweinidog, wedi ei wneyd ei hun yn awdurdod ar rai cwestiynau cymdeithasol pwysig, yn enwedig ynglyn â gweithiad cymdeithasau cyfeillgar; ac wedi dangos mewn llawer ffordd ei fod yn credu ei fod wedi ei lunio er mwyn ereill, ac nid yr holl fydysawd wedi ei osod wrth ei gilydd er mwyn ei wasan-aethu ef. Mae'n ddiâu y bydd llawer o'n darllenwyr yn mynnu ei lyfr; ond er y mwyn lleill, ac yn enwedig pan y mae cwestiwn Cymru wedi ei wthio ei hun yn y fath fodd i'r ffrynt, a Thy y Cyffredin, o leiaf, ar ei gymeryd yn fater neillduol ei ystyriaeth, ni a ymdrechwn osod ger bron sylwedd ei ddadl.

Cymer ei safle ar ddatganiad pwysig y diweddar Ddeon Alford: "Pa un bynnag ai blynyddoedd ai degau o flynyddoedd a gymerir er dwyn oddiamgylch ysgariad yr Eglwys oddiwrth y Wladwriaeth, er cymaint y gofidir o'i blegid, ac er cymaint y gwrthwynebir ef, ei ddwyn oddiamgylch yn sicr a wneir." Ac ar eiriau hynod y diweddar Arglwydd Derby: "Yr ydwyf yn hir wedi dal, ac yr ydwyf yn barod i'w dlatgan yn agored, nad wyf fi yn credu y gall Eglwys Sefydledig—hynny yw cynghreiriad neillduol un enwad crefyddol ymysg lliaws, â'r Wladwriaeth—gael ei dal i fyny yn hir ochr yn ochr â threfn o gynrychioliad gwir boblogaidd o'r fath ag sydd gennym yn awr. Mae yn rhaid i Ddadsefydliad, ac o leiaf, mewn rhan Ddadwaddoliad, yn ol fy meddwl i, ddyfod yn y pen draw; a phe buaswn i yn glerigwr, neu yn un o'r lleygwyr sydd yn gofalu yn arbennig am fuddion a syniadau Eglwysig, mi fuaswn yn edrych at wneyd y telerau goreu tra y mae amser, yn hytrach na gwrthwynebu yr hyn sydd anocheladwy. Ond prin yr ydym yn addfed yn Lloegr i'r cyfnewidiad. Y mae yn un mawr iawn, ac os cymernwn ef i fyny yn awr, gallwn fod yn bur sicr nas gall un diwygiad arall—ac y mae gennym gryn lawer ar law—mewn un modd gael sylw. Yr wyf yn meddwl, gan hynny, fod y penderfyniad y daethpwyd iddo, i adael y cwestiwn i soflyll yn awr, yn un doeth. Ond os ydyw cynrychiolwyr Scotland yn galw am Ddadsefydliad eu Heglwys, nid ydyw y Saeson i'w gwrthwynebu. *Ac am ddnaf fy hun, er na allaf siarad dros neb arall, yr ydwyf yn ystyried fod gan Gymru hawl gref i gael delio â hi ar wahân. Yng Nghymru, fel yr ydoedd yn Iwerddon, mae yr Ymneillduwyr yn ffurfio corff y boblogaeth.*"—Y mae Arglwydd Derby wedi marw ers llawer o amser bollach, ac y mae pethau, er hynny, wedi cymeryd camrau tra breision.

Mae yn anlwg i Mr. Frome Wilkinson nad ydyw yr Eglwys mwyach yn *genedlaethol*. Wedi y Diwygiad Protestanaidd fe gaed nad ydyw y syniad prydferth o Eglwys yn gymhesur â'r Wladwriaeth,—y naill yr ddim ond y llall mewn ffurf arall,—ond breuddwyd amhosibl, er ei fod wedi ei anwesu yn gariadus gan Hooker, a llawer ereill. Yr oedd y fendith o ryddid meddwl a gaed y pryd hynny, yn cau allan yr unfurfiath llawn sy'n angenrheidiol i wneyd un corff crefyddol y gellid ei sefydlu a'i gydnabod gan y Wladwriaeth fel yn genedlaethol. Hanfod cenedlaetholdeb yr Eglwys oedd fod y bobl yn dyfod yn raddol i gydnabod ei hawliau, ymostwng i'w hawdurdod, a derbyn ei haddysg. Ar hynny y gorffwysai ei theitl i sefydliad a gwaddoliad. I fod yn Eglwys sefydledig genedlaethol, rhaid iddi fod yr unig un, yr unig Eglwys a

gydnabyddir—ie yn briodol, a *oddefir*—gan y Wladwriaeth. Ac egniol fu yr ymdrechion a wnaed i'w chadw felly. Mae y brenin Iago yn ei ddeclarasiwn o flaen y Deugain Erthygl namyn un, yn gorchymyn “gadael heibio bob manylaidd chwilio ym mhellach,” ac yn dweyd na fydd iddo ER oddef unrhyw amrywiad neu ymadawiad yn y radd leiaf “oddiwrth athrawiaeth, disgyblaeth, a rheol Eglwys Loegr, y sy'r awrhon yn safadwy.” Wrth weled fod cadw pethau felly dipyn yn anhawdd, fe ymdrechwyd tynhau y rhwymau yn fwy fyth trwy nifer o Actau Seneddol, a hynny—a defnyddio geiriau yr Archesgob Sheldon—“er gogoniant Duw, lles yr Eglwys, a dedwyddwch yr holl deyrnas.” Ond yn gwbl ofer. Yr oedd yr *unffurfaeth* y gwneid y fath ymdrechion : er ei sicrhau yn amhosibl. A bu raid pasio deddf ar ol deddf i liniaru y caethiwed, ac i adael ei ffordd i'r bywyd newydd oedd yn ymweithio trwy y deyrnas : ac y mae bellach y fath liosowgrwydd o bobl grefyddol yn y wlad y tu allan i'r Eglwys, fel nad ydyw honni iddi y cymeriad o fod yn *genedlaethol*,—yr unig deitl posibl i fod yn sefydledig a gwaddoledig gan y Wladwriaeth,—ond ynfydrwydd. Mae hyd yn oed dadl yr ystadugau,—sydd yn dangos nad ydyw cymunwyr yr Eglwys trwy y deyrnas ond rhyw filiwn a hanner, allan o boblogaeth o dros ddaunaw miliwn o rai dros bymtheg oed,—yn peri i Mr. Wilkinson ddweyd, “Rhag cywilydd, na fydded i ni ymfrostio mwy yn llwyddiant y Sefydliad.” A symia y ddadl ar y mater yma i fyny yng ngeiriau Dr. Medley, Esgob Fredericton, Canada, a draddodwyd mewn Cyngor i'w Glerigwyr yn 1868 : “Os nad wyf yn camgymeryd yn fawr wrth ddarllen arwyddion yr amaerau, nid ydyw y dydd ymhell pan y rhaid i'r Eglwys Seisnig ddysgu pwysu llai ar ddamwain dymhorol ei sefyllfa, a mwy ar gynhorthwy y gall yn rhesymol obeithio am dano oddiwrth y nerthoedd ysbrydol a ymddiriedwyd iddi gan ei Phen mawr. Canys prin y gellir disgwyl y bydd i genedl a oddefa Eglwys Esgobyddol Sefydledig yn Lloegr, Eglwys Bresbyteraidd Sefydledig ac Eglwys Esgobyddol ansefydledig yn Scotland, Eglwys Babaidd anwaddoledig ac ansefydledig yn Iwerddon, ac amryw gyrrf cryfion o Gristionogion wedi cydymgynghreirio yn erbyn pob sefydliadau yn y tair gwlad, allu dal i fyny, gydag un math o reswm neu foddlonrwydd cyffredinol, fod Eglwys Loegr yn sefydledig. am mai hi, a hi yn unig, sydd yn dysgu gwirionedd Duw. Mae hynny yn beth ag y byddai i'r genedl, fel cenedl, a chan ddatgan y llais cenedlaethol yn y cynghorau cenedlaethol, ymgroesi yn sicr rhag ei ddal ; ac y mae, er yn cael ei amddiffyn mewn damcaniaeth gan ein hen dduwinyddion, wedi profi yn fwyfwy anhawdd i'w ddal mewn ymarferiad er dyddiau William III. Ac edrych ar y peth o safte genedlaethol yn unig, yr wyf yn ofni nad yw y fath syniad yn ddim ond ffûg, er mor ddymunol allai fod ; ac er na wnawn i o'm bodd symud carreg o'r Sefydliad presennol, fe fyddai yn ddrwg gennyf bwysu llwyddiant y ffydd Gristionogol ar beth nad ydoedd o gwbl yn rhan o sail wreiddiol ein Harglwydd i'w Eglwys.” Ac ychwanega Mr. Wilkinson : “Eto, yr wyf yn mentro gofyn, a ydyw yn bosibl mwyach i Eglwyswyr hawlio bod y geiriau ‘Eglwys Sefydledig’ yn cael eu cadw ar ein Deddflyfr ? Gallm ofidio mai felly y mae, ond er ein cysur, y mae dedfryd hanes ein Heglwys am y tri chan mlynedd diweddf, gyda nerth oedd yn gwastadol gryfhau,

wedi cael ei ddatgan,—sef *nad ydyw nerth yr Eglwys yn gwrwedd yn ei chysylltiad â'r Wladwriaeth.*” A châ fod yr achos mawr o'i gwendid, a'r dull anffodus ymha un y mae yn barhaus yn gwrthwynebu pob mesurau o degwch cenedlaethol, ac felly yn pellhau y werin fwyfwy oddiw'rthi, yn codi oddiar yr amryfusedd anffodus â pha un y mae o hyd yn dal ei gafael yn y breuddwyd ofer ag y mae wedi hen fyned yn ddigon o'r dydd iddi ddeffro o hono.

Am y cwestiwn Cymreig, deil efe mai *cwestiwn Cymru* ydyw, ac y dylid yn sicr ei benderfynu yn ol dymuniad Cymru. Wedi talu sylw manwl i'r cwrs ydoedd pethau yn gymeryd yn ystod yr etholiad diweddaf, y mae yn cael “fod Dadsefydliad i Gymru ymhell iawn o gymeryd lle israddol; a gadael allan Home Rule (ydoedd eisoes wedi cael lle sefydlog a dealedig ym meddyliau etholwyr Rhyddfrydol), ei fod yn rhedeg ochr yn ochr â ‘Thy yr Arglwyddi’ fel peth oedd yn ffafr y bobl. . . Y mae yn ffaith ‘lynol,’ a sicrheir gan Arglwydd Salisbury ei hun, fod mwyafrif terfynol o bleidleisiau Cymreig wedi eu rhoddi o blaid Dadgysylltiad, yn gystal â Home Rule i'r Iwerddor, a'r canlyniad ydyw bod un ar ddeg ar hugain allan o bedwar ar ddeg ar hugain o aelodau dros Gymru a Sir Fynwy wedi eu dychwelyd i'w bleidio. Y mae wedi cael ei ddatgan yn ddi-gamgymeriad wrth y pól—yr un maen prawf cyfreithlon—fel y mae Dr. Percival yn ei lythyr enwog i'r *Times* [TRAETHODYDD 1894, tud. 231] wedi ei osod, ‘Fod yr Eglwys yng Nghymru yn Eglwys lleiafrif, fod llais Cymru yn Nhy y Cyffredin bron yn un yn ei herbyn, ac fod y teimlad cyffredin ymysg y Cymry yn anghymodol wrthwynebol iddi fel sefydliad.” Nid yw ond ofer siarad am y Llywodraeth yn dyfod â'r mesur hwn i mewn er sicrhau fôt yr aelodau Cymreig ar fater arall, neu nad ydynt yn meddwl ei gario. Y mae nerth galwad Cymru yn yr achos hwn yn gwneyd gwrthod ei chais yn amhosibl. “Pan y mae Cymru,” meddai Mr. Gladstone, “wedi siarad fel yma, a ydyw yn iawn, a ydyw yn ddymunol, a all barhau yn hir, fod y fath ddatganiad o Gymru, ac o herwydd opiniwn Seisnig, yn cael ei adael yn ddi ystyr, ei wrthwynebu, neu ei oruwchreoli?” Ac ebe Dr. Percival ymhellach: “Fel Saeson a rhai oddi-allan, yr ydym yn dal, beth bynnag allai fod ein teimladau personol, nad oes gennym ni hawl yn y fath achos i wrthsefyll ewylllys pobl Cymru, yr hon sydd wedi ei datgan mor glir.”

Mae y mân ddadleuon a godir yn erbyn y mesur yn mynd yn ddim yn nwyllaw yr awdwr hwn. Pan mae y mater wedi ei benderfynu yn etholiadau Cymru trwy fwyaftrif o 51,000 o bleidleisiau, ystyria mai ofer yw ceisio dweyd nad ydyw y llais yn derfynol. Ac eto y mae ceisiadau cywrairi wedi eu gwneyd trwy lythyrau yn y *Times* ac mewn ffyrdd ereill i ddangos, pe buasai pethau fel ar fel, y buasai y canlyniadau yn wahanol. *Fel yr oeddynt*, sut bynnag, *yr oeddynt*, ac felly y maent wedi bod ers llawer o flynyddoedd; ac nid oes unrhyw le i ameu nad ydyw y Cymry wedi dangos trwy yr etholiadau—*a dyma, chwedl Mr. Frome Wilkinson*, ydyw yr unig faen prawf cyfreithlon: *the one legitimate test* mewn achos o'r fath yma—ar beth “y mae y mwyafrif anferth o honynt,” fel y dywedai Mr. Asquith ym Mirmingham, “wedi gosod eu calon.” Mae y cwestiwn o ystadegau mewn achos o'r fath yn amherthynasol. Condemnia yr awdwr yr amcan o gael *census*, neu

gyfrifiad cyhoeddus, mor groew â neb o honom, am y gwyr na fyddai ond cwbl gam-arweiniol, ac fod sefyllfa pethau, ar y wyneb, yn amlwg i bawb. Ac yn wir er caniatâu yr oll a fynnai hyd yn oed Mr. Stanley Leighton ei ddadleu, am ddirfawr liosowgrwydd Eglwyswyr Cymru,—eu bod yn 700,000, ac fod yn sicr ganddo y byddai i gyfrifiad swyddogol chwyddo y ffigyrau hynny yn fawr iawn yn ffafr yr Eglwys!—y mae y ffaith y rhaid fod cynifer o filoedd, ie o ugeiniau o filoedd o'r *Eglwyswyr eu hunain yng Nghymru*, wedi fotio dros Ddadgysylltiad yr Eglwys, fel ag i wneyd i fyny y mwyafrif o 51,000 a alwai am hynny yn yr etholiadau, yn dangos nad all fod y mater yma mwyach yn un ag y mae yn bosibl fod un math o ddadl yn ei gylch. Wedi myned i mewn yn fanwl i'r achos yma, dywed Mr. Wilkinson: "Nid oes gennyf galon i ymhelaethu, tra y mae cyfiawnder anhyblyg yn fy ngorfodi i gydnabod fod disgrifio y Cymry fel 'cenedl o Ymneillduwyr' ymhell iawn yn wir o fod y datganiad di-reswm y mynnai pleidwyr y Sefydliad i ni gredu ei fod." Soniai Ysgrifennydd y *Church Defence*, wrth ateb Dr. Percival, am "lifiad cyson o Ymneillduwyr i'r Eglwys"; y mae hynny i'w gymeryd am a dâl; ond tra y gwêl Mr. Wilkinson oddiwrth gyfrifon yr ugain mlynedd diweddaf fod cynnydd cymunwyr y Methodistiaid Calfaidd yn 46.7 y cant, eiddo y Bedyddwyr yn 54.6 y cant, ac eiddo y Wesleyaidd yn 37.6 y cant, ac nad ydyw cyfartaledd cymunwyr yr Eglwys i eiddo yr Ymneillduwyr ond yn ol 23.4 y cant i 76.6 y cant o'r boblogaeth, y mae yn cael nad yw ond ofer meddwl am i Ymneillduaeth gael ei llyncu i fyny gan yr Eglwys, pa mor hir bynnag fyddo y tymor a adawer i ddwyn hynny oddiamgylch. Y dydd o'r blaen gwelwom fod gwr bonheddig o'r enw Mr. W. S. De Winton yn dweyd yn Truro, "Os â pethau ymlaen yng Nghymru fel y maent yn awr yn myned ymlaen, ni fydd mewn can mlynedd ond ychydig Ymneillduwyr wedi eu gadael." Rhaid fod y gwr hwn â'i ffydd yn grêf iawn, neu ei anwybodaeth yn resynus. Yn 1851 yr oedd poblogaeth Cymru yn 1,118,000. Buasai gan yr Eglwys, yn ol y raddeg o 58 y cant, i ddarpar eisteddleoedd ar gyfer 689,000 o'r rhai hynny; ond nid oedd ganddi ond lle i 302,000, a chymryd ystafelloedd cenhadol a phopeth i'r cyfrif, gan ddaugos felly ddiffyg o 387,000. Yn 1891, ddeugain mlynedd yn ddiweddarach, gyda'r boblogaeth yn 1,776,000, buasai gan yr Eglwys, yn ol yr un raddeg, i ddarpar eisteddleoedd ar gyfer 1,030,000; ond dengys yr *Official Year Book* nad oedd le ganddi ond i 416,000; yr hyn sydd yn dangos fod y nifer nad allai yr Eglwys eu cynnwys yn 613,000. Yn 1851, 387,000 oedd y nifer ar gyfer pa rai nad oedd ganddi le; yn 1891, mae y nifer hwnnw wedi codi i 613,000; ac eto y mae ei llwyddiant y fath fel os parhâ i fyned rhagddo fel y mae, na fydd ynghyng Nghymru ymhen can mlynedd ond ychydig iawn o Ymneillduwyr wedi eu gadael!

Mae yr ystyriaethau y cyfeirwyd atynt wedi paratoi Mr. Wilkinson i dderbyn y datganiadan a wnaed o bryd i bryd gan bersonau ag yr oedd yn amhosibl tybied fod ganddynt unrhyw bwrpas gwrthwynebol i'r Eglwys wrth eu gwneyd. Felly gyda geiriau y diweddar Ddeon Edwards yng Nghongress Abertawe yn 1879, yr hwn wedi son am gynnydd Ymneillduaeth, a ddywedai: "Y mae deuddeg o bapurau wythnosol, deunaw o gylchgronau, a nifer helaeth o lyfrau yn cael eu

cyhoeddi yng Nghymru. O'r llenyddiaeth yma, y mae mwy na phum rhan o chwech yn cael eu cynhyrchu gan Ymneillduwyr i Ymneillduwyr. Eto, er bod tîrfeiddianwyr Cymru gan mwyaf yn Eglwyswyr, y mae o leiaf ddwy ran o dair o allu politicaidd Cymru yn Ymneillduol. Y fath yw sefyllfa bresennol yr Eglwys yn Nghymru. Y mae wedi colli pum rhan o chwech o'r bobl sy'n siarad Cymraeg, ac y mae ei nerth yn aros gyda'r dosbarth uchaf a'r dosbarthiadau canol uchaf, y rhai sy'n siarad Saesneg. Yn o.c. 1715 nid oedd gan yr Eglwys ond 35 o gapelau Ymneillduol i'w gwynebu; yn o.c. 1879 y maent dros 3,000. Y *pryd hynny*, yr oedd llenyddiaeth Gymreig yn dyfod bron yn gwbl oddiwrth glerigwyr; ym awr y mae yn dyfod bron yn unig oddiwrth Ymneillduwyr. Mae yr Eglwys wedi gwneyd cynnydd sylweddol yn ddiweddar. Y mae eglwysydd, persondai, ysgolion, wedi eu hadeiladu; ac ar yr eglwysi cadeiriol, wedi ymdrechion mawrion am flynyddoedd lawer, y mae hanner cymaint o arian wedi eu gwario ag a godir gan y Methodistiaid Gymreig mewn un flwyddyn. Ond pa nifer o'r eglwysydd sydd yn wag? Y mae pum rhan o chwech o'r miloedd sydd yn siarad Cymraeg y tu allan i'r Eglwys. Dyma y sefyllfa bresennol.—Yn debyg y ceir yn Adroddiad y Pwyllgor ar Addysg Ganolraddol ac Uwchraddol yn Nghymru, 1881: “Mae yn ddiddadl fod Ymneillduaeith yng Nghymru yn ddatganiad allanol o argyhoeddiadau crefyddol dyfnion ymysg y bobl. Mae y Cymry, gan droi oddiwrth y drefn eglwysig a gydnabyddir gan y Wladwriaeth, wedi creu yr eiddynt eu hunain ac yn ei chynnal ar draul flynyddol fawr, yr hon y maent yn gwirfoddol ymgymeryd â hi. Y maent wedi codi eu capelau ymhob man, ar lethr y bryn unig yn gystal ag yn y dref boblog, ac felly, a thrwy eu Hysgolion Sabothol—y rhai yr ymddengys eu bod yn dal gafael mewn rhan fawr o'r boblogaeth dros eu hoed y mae dyddordeb cyffredinol bron mewn cwestiynau crefyddol yn cael ei gadw yn fyw.”—Felly yr Archddiacon Howell yn St. Margaret's, Westminster, Ion. 26, 1890: “Mae yr Eglwys yn Nhywyoegaeth Cymru yn awr mewn cyflwr gwassedig. . . Dyna y ffaith ddiarnheuol nad ydyw mwyafrit y bobl i'w cael o fewn caerau yr Eglwys. Dyna eto y ffaith sydd yr un mor ddiarnheuol, fod y rhai sydd yn ei dilyn, yn cael eu gwneud i fyny yn helaeth o Saeson wedi ymalyddu yn y wlad, a Chymry wedi eu Seisnigeiddio,—nid o'r lliaws sy'n siarad Cymraeg, y rhai sydd yn dal yn eu llaw ddyfodol y Nhywyoegaeth. Dyna y ffaith fod yr Eglwys ym meddylliau y Cymry eto yn cael ei chysylltu â'r hyn ydoedd dan lywodraeth eglwysig entronol, ac mewn ffafraeth i berthynasau, ac mewn cam-drefn nad oes neb yn awr a faidd ei amddiffyn. Dyna yr argraff nad yw ond rhy gyffredinol, nad ydyw eidd grefyddol dauwdeh ac ysbrydolrwydd, ond megis planhigion o wlad arall yn yr Eglwys, a lle bynnag y maent i'w cael mair cathariadau i'r rheol ydynt. *Mae gwneud yr Eglwys yng Nghymru yn ddibwya i'r ddiwedd* nad ydyw mwyach yn cael ei wneud. Felly sydd yr i ni guddio oddiwrthym ein huanu a gwneud i'r hyn ydynt. Beth y cyfartaledd manwl y lliw mwy pwyysig yw y ffaith fod cyfran mor fawr o nerth a

brwdfrydedd y Cymry ar lawn waith y tuallan i'r Eglwys." A'r Parch. Lewis Hughes, yng nghyfarfod y *Christian Social Union*, yn y Chapter House, St. Paul's, Mai 18, 1893: "Fel clerigwr Cymreig nid oes arnaf gwilydd datgan fy mod o blaid dadsefydliad a dadwaddoliad. Yr wyf yn teimlo fod Eglwys Crist mewn sefyllfa gau yng Nghymru y dydd hwn. . . Mae yr Eglwys yng Nghymru wedi ymgysylltu â'r cyfoethogion. Mae y bobl dan yr argraff fod yr Eglwys yn eu herbryn." "Eto," medd ein hawdwr, "y mae diffynwyr y Sefydliad yn barhaus yn trin Mr. Gladstone am ddyweyd: 'Mewn dau bwynt sydd yn fywiol a therfynol, ni allaf wadu fod achos yr Eglwys Gymreig yn cyfateb i eiddo yr Eglwys Wyddelig. Yn y lle cyntaf, y mae yn Eglwys yr ychydig yn erbyn Eglwys y llawer; ac yn yr ail lle, y mae yn Eglwys y cyfoethogion yn erbyn Eglwys y rhai sydd mewn cymhariaeth yn dlawd. Mae y nodweddion llydain hyn wedi eu stampio yn y fath fodd ar yr achos, fel yn fy marn i, y mae yn amhosibl eu gwadu.'" A phriodol iawn, ynte, y gofynnai Mr. Asquith y noswaith o'r blaen, yn y cyfarfod mawr yn y Town Hall, Birmingham: "A oes un dyn, un Rhyddfrydwr, a gymerodd ran 25 mlynedd yn ol yn yr ymdrech, yr ymdrech lwyddiannus, er dwyn i lawr, ni ddywedaf yr Eglwys, mae hynny yn beth tra gwahanol, ond y Sefydliad Seisnig yn Iwerddon,—a oes un dyn yr hwn y pryd hynny o dan faner cydraddoldeb crefyddol a gariodd ymlaen ymdrech fawr er cael llywodraeth boblogaidd ar addysgiaeth y werin, sydd yn barod i gwestiyno hawl y Wladwriaeth i ymyrryd mewn achos sydd, wrth ystyried ffeithiau y bywyd crefyddol yng Nghymru, mor brofedig ac mor ddiarnheul, a wâd fod achos clir wedi ei wneyd allan yno i ymyriad o'r fath?"

Am y ddadl fod Dadsefydliad i Gymru yn anghyfiawn, am ei fod yn darnio yr Eglwys Seisnig trwy dorri ymaith oddiwrthi bedair o'i hegobaethau, a'i fod yn anghywir son am yr Eglwys *Gymreig* yn lle yr Eglwys *yng* Nghymru, danghosir fod y llinell yna yn beryglus iawn i ddiffynwyr Sefydliad i'w chymeryd. Dywedai y Deon Edwards, "Hyd y ddeuddegfed ganrif yr oedd yr Eglwys yn Eglwys Cymru. Darfu i'r gallu Normanaid, trwy lanw yr esgobaethau Cymreig & dieithriaid, gyfnewid Eglwys Cymru i fod yr Eglwys *yng* Nghymru." Y mae son am y "pedair esgobaeth" yn rhoddi i fyny yr holl ddadl. Ceir fod rhesymau da dros ddal nad ydyw yr Eglwys yn Lloegr yn genedlaethol; ond yng Nghymru nid oes iddi rith o genedlaetholdeb. "Mae Cymru wedi colli ei Heglwys Genedlaethol, nid ydyw esgobaethau presennol Eglwys Loegr yng Nghymru yn meddu yr un hawl i genedlaetholdeb Cymreig, ac edrychir arnynt gan y rhan fwyaf o'r bobl fel yn estronol i dddear Cymru. *Dyma y gwraidd-achos mawr, nid dros ddal y Sefydliad yng Nghymru, ond dros ei symud. Pa resymau bynnag a ellid ddwyn o b'aid y Sefydliad yn Lloegr, y mae y llwyr ddiffyg o bob cenedlaetholdeb, cyn belled ag y mae a fynno â Chymru, yn andwyol.*" Ymddengys yr eiddigedd yma dros olygu yr Eglwys yng Nghymru yn rhan o Eglwys Loegr, i Mr. Wilkinson, fel rhan o'r gwrthwynebiad i Lywodraeth Gartrefol, yn wladol ac yn grefyddol, ac yn codi o'r syniad mai yn y genedl a'r llywodraeth Seisnig y dylem hanfodi yn gwbl oll. Yr oedd Dr. Percival wedi dweyd "fod cenedlaetholdeb wahaniaethol

Cymru yn cael ei derbyn fel ffaith;" ond cyfrôdd y fath eirian Mr. Stanley Leighton yn fawr, ac ysgrifennodd i'r *Times* ar unwaith i ddweyd y carai ofyn, "Gan bwy? Onid yw efe yn gwybod ddarfod i Henry ap Owen, ap Tudor, a elwir yn gyffredin Henry VIII, lefaru am y rhai hynny a ddalient i fyny drefn o ysgariad rhwng Lloegr a Chymru fel 'rude and ignorant men,' a disgrifio y Dywysogaeth fel 'a very joint and member of the Realm of England!'" Feallai y carai *efe* ddwyn i rym eto y trefniadau Tuduraidd oedd yn gwahardd i neb o bobl Cymru siarad Cymraeg, ac yn enwedig drefn fawr y brenin Iago, ein bod oll i gydymffurfio yn fanwl â holl drefniadau yr Eglwys, a hynny dan berygl o "fod dan bwys Ein Hanfoddlunrwydd a Barn yr Eglwys yn ein Comisiwn Eglwysig."—a dwyn y canlyniadau! Mae y gwadiad yma o genedlaetholdeb yr Eglwys yng Nghymru, a'r gagedor o ran ffaith a theimlad aydd rhyngddi, mewn canlyniad, a'r mwyafrif anferth o bobl y Dywysogaeth, yn ei wneyd y peth mwyaf anghyson dan haul i geisio dailleu y dylid ei pharhau fel Eglwys Sefydledig.

Ceir yn y llyfr drafodaeth dda ar fesur Mr. Asquith, a beirniadaeth gref a chondemniol ar y mân ddadleuon y mae cynifer wedi bod yn ddwyn yn ei erbyn. Danghosir fod y condemniadau mawrion a wnael arno yn codi oddiar fod y bobl dda, yn eu sêl, "yn tywyllu cyngor âg ymadroddion heb wybodaeth"* Iddo ef y mae mor oleu â'r haul fod cyfiawnder yn galw am i'r mesur gael ei basio yn ddoddf, a hynny mor fuan ag y bo modd; fod gwrthwynebu hynny yn beth nad all lai na phrofi yn niweidiol i'r Eglwys ei hunan; ac mai mewn ildio i'r anocheladwy, ac ymgymeryd ar unwaith ac o galon â dyledawyddau y sefyllfa newydd, y mae ei hiachawdriaeth. Ac y mae hofyd yr un mor oleu iddo ef mai goreu po gyntaf yr estyner i *Loegr* hofyd yr un mesur o gyfiawnder gyda golwg ar ddadsefydliad yr Eglwys ag y mae ei basio i Gymru erbyn hyn wedi dyfod yn beth mor anocheladwy. "Os ydym yn credu," meddai, "y bydd Eglwys *Loegr*, ac Eglwys adferdig Cymru, yn gryfach—wedi eu harfogi yn well â darpariaeth ar gyfer Eglwys y presennol, eu rhyddhau o dan lywodraeth Sonedd gymysg, a'u cynysgaeddu â'r rhôdd o hunan-

* Mae'n debyg y buasai yr awdwr yn synnu yn llawer mwy nag at ffolinebau y cyfeiria atynt pe buasai wedi gweled yn y *Record* am yr 16eg o Dachwedd diweddfaf ddywedliad rhyfeddol Esgob Bangor yn Radcliffe, fod Mesur Dadsefydliad i Gymru "yn cynnyg gwneyd i fwrdd â'r pedair eglwys gadeiriol, ym Mangor, Llanuwchllyn, Tyddewi, a Llandâl, mor bell ag y mae a fynnant âg amcanion crefyddol." Dywed y mesur ei hunan, "y caiff yr eglwysi oadeiriol Cymreig, os neu ohyd ag y bydd Corff Cyurychioladol yr Eglwys yn dewis telly, *darhau i gael eu defnyddio fel o'r blaen.*" Hynny yw, caiff yr Eglwys, a hi yn unig, eu defnyddio i gynnal ymlaen wasanaeth crefyddol fel cynt. Ond ystyr hyn, yn ol yr esgob dyg-edig ydyw, fod y mesur yn cynnyg gwneyd i fwrdd â'r pedair eglwys gadeiriol! Byddai yn dda gennyf ideal fod y *Record* wedi camadrodd. Os amryfusedd a fu, ni fuasai yn ormod, gyda chamgymeriad mor fawr, gan apostol, neu hyd yn oed archangel, ddatgan ei offd a galw ei eirian yn ol. Ond os gadewir ni dan yr argraff fod y fath eirian, ac yntau yn gwybod yn well, wedi eu dweyd gan ôr sydd yn honni fod ganddo awdurdod i drosglwyddo i ddynion ddawn yr Ysbryd Glân fel cymhwyster at weinidogaeth yr Efyngyl, y maent —, wel, nid awn i chwilio am eirian cymwys i'w dynodi. Nid oes dim i'w wneyd ond eu gadael gyda'r anferth bentwr o ymadroddion gwallgof a letarwyd adeg y *Suspensory Bill* gan olynwyr yr apostolion, y rhai a wnaent y fath ymdrech, pan gaent bobl digon ehud i wrando arnynt, i'w perawadio nad allai pasio y fath mesur lai na golygu troi yr holl eglwysydd i'r dibenion mwyaf gwaradwyddus, a rhwygo y mynwentoedd lle y gorffwysai cyrrf eu hanwyliaid.

lywodraeth; os ydym yn credu, ar y llaw arall, y bydd i'r bobl yn gyffredinol nid yn unig beidio dioddef, ond y bydd i gynydd eu llwyddiant, dan lygad Duw, gael ei fywchau,—yr ydym yn rhwym, pa mor amherffaith bynnag, yn yr argyfwng presennol, o ddatgan yn agored ein crêd, a chymeryd ein safle gyda diffynwyr Dadsefydliad. Ac os costia i'r Eglwys rywbeth, ni allwn ond dweyd, yn iaith un ag y mae ei ffyddlondeb i'r Eglwys y tu hwnt i amheuaeth—Mr. George Russe A.S.—'Fe fydd yn ddiwrnod ardderchog a dedwydd pan, fel ateb i ymfrost cyfiawn y Cyfundebau Ymneillduol eu *bod wedi eu geni yn freiniol*, y bydd yr Eglwys yn abl i ddweyd, '*A sum major y prymais i y ddinasfraini hon.*'"

Wel, os ydyw Eglwyswyr parchus, y rhai hefyd y mae eu nifer yn cyflym llosgi, yn gallu dadleu achos Cymru gyda'r fath oleuni a nerth, ni raid i Gymru ei hun, yn sicr, betruso wrth ofyn am y mesur y mae wedi bod mor addfed iddo am lawer o flynyddoedd, ac y mae ei galwad am dano, erbyn hyn, wedi dyfod mor gref ac mor gyffredinol.

TORRI TYWARCHEN RHEILFFORDD Y WYDDFA.

WEL, henffych well, fy nghyfaill Robert,
Rwy'n llon o'ch gweld, gymydog fraethbert:
A daethoch ohwithau o'ch ymguddfa,
I weled dechreu Ffordd y Wyddfa.

"Do, mi ddaethum,
A braidd nad wy 'n ameu mai ffol y gwnaethum."

Ffol, Holo! Beth ydyw 'r ohwim
Sy 'n awr yn eich oopa? Wela i ddim
Sydd ffol o gwbl, fy hen gyfaill serchog,
Mewn edrych ar ddechreu gwaith mer ardderchog.
Y llinell â dros yr uchel ymylau,
A'r miloedd gant esgyn i fro y cymylau.

"Ie, ie, mi wela 'oh bod ohwithau
'N pendroni, fel Gwenno fy ngwraig; y mae hithau
Ymron o'i ohô wrth feddwl cael esgyn
Mewn cerbyd i'w phen; a da os nad disgyn
Ddilysa, a ohwalfa wnaiff bopeth yn deilchion,
Fel sy'n fynych yn dod ar amcanion rhy feilohion."

Ond dyma Mrs. Owen gerllaw.—
Mi wela fod eich teilwng briod mewn braw
Wrth feddwl am y rheilffordd newydd,
I gario 'r bobl i ben y mynydd.

"Ydyw, y mae, ac rwy i 'n dweyd fod ei stori
Yn dangos ei fod yn gryn dipyn o Dori;
Mae am i'r byd aros o hyd fel y mae,
Ac os symud un oam, cyhoedda ei wae."

"Na, paid di yrwan a dweyd yn rhy brysur,
Ti elli gymeryd hynny o gysur,

Rwyf fi mor ryddfrydol & neb yn y wlad ;
 Ond nid yw pob newid yn siwr er lleshad.
 Ac am wneyd rheilffordd i'r fath uchder,
 Er maint ydyw medr athrylith a'i gwyochder,
 Ni allaf fi weled nad ydyw ond rhyfyg,
 Ac am hynny rwy 'n credu na ddylid ei ohynnyg."

Fy ffyrnd, fe rydd profiad y byd y fath hyder
 Ar hyn ag a allai lwyr leddfu eich pryder ;
 Ar fynyddoedd y Swiss y mae rheilffyrdd yn dringo,
 Dri uchder y Wyddfa, gan droi ac ymwingo
 Mewn sicr ddiogelwch nes cyrraedd y pen,
 A glanio y teithwyr yn entrych y nen.
 A'r un modd wrth ddiagyn o'r uchder mawr,
 Yn ÷ofn ddiberygl hwy ddeuant i lawr ;
 Mae'r teithwyr, wrth esgyn a diagyn yn gydstad,
 Mewn llawn ddiogelwch ag ar y ffyrdd gwastad.

" Ond beth am y perygl i Lanberis
 Oddiwrth ddyliwiad y fath giwed ddibris
 Ag a ddeuant felly i ddringo y mynydd ?
 Os byddai ar lwyddiant tymhorol beth cynnydd,
 Rwy 'n ofni y dygai y fath lygredigaeth
 Ar foesau, nes profi yn erch golledigaeth,
 Gan ein dwyn un ac oll i sobr ofidio,—
 Ie, wrth weld yr anrhaith, i chwervw lidio."

" Mi glywais gan Robert lawer gwaith,"
 Ebe Mrs. Owen, " y fath iaith ;
 Ond wedi gwled ymwelwyr luoedd
 Yn dod ar eu tro i wahanol ardaloedd,
 Nid tebyg, rwy 'n medwl, y daw rhai llygredig
 I geisio 'u pleserau mewn ardal wledig,
 Ond arhosant hwy yn eu budr ogfyedd ;
 Ac am y rhai garant ein heirdd olygfeydd,
 A esgynant i gopa y Wyddfa, gan
 Syllu mewn pleser o'i huchder ban
 Ar y myrdd rhyfeddodau a'r ceinion laweroedd
 Sy'n ymestyn o'u hamgloch hyd ddirfawr bellteroedd,
 Nes teimlo eu bryd yn y ceinder a'r mawredd
 Yn ymestwng mewn paroh ac yn esgyn mewn puredd,—
 Prin credaf y deuant hwy i lawr o'r llechweddi
 I lygru y wlad, ac ymdroi mewn budreddi."

" Ie," meddai Robert Owen,
 " Y mae gan Gwenno gyfoeth o awen.
 Chwi glwysoch mae 'n debyg y dwediad rhyfedd
 Gan y dyn 'r ol Cymanfa Ddirwestol Gwynedd,
 Yn Llangefni yr haf, wedi gwrando y rhyw deg,—
 Myn gatr, mae 'n ymddangos i mi, mai nhw fydd y dynion
 yn union deg !

" Ond yn siwr mae 'r byd yn ymagor fwyfwy
 O flaen ein plant, a hwythau yn ei dramwy,
 Gan orfod, lle bynnag disgynno 'u llinynnau,
 Wynebu o hyd ar ei ffyrdd temtaisynau.
 Ein dyled a'n braint yw gwneyd 'r oll a allom—
 Ac yn hyn rhodded Duw ei ras fel na phallom—
 I'w magu a'u cadw yn ffyddlon i'r Arglwydd,
 Yn gryfion mewn fydd ac yn hardd mewn sanoteiddrwydd."

" Mae nyna," ebe, i, wraig, " yn fwy boddlonol.—
 Ond glwysoch chi am helbul ein Mab barddonol ?

Daeth llythyr ddydd Mawrth oddiwrtho o Lerpwl,—
 Da gwyddoch *chwi* nad ydyw Gut garbwl,
 A gwell na 'r owbl, er yn y fath dre,
 Y mae 'n ofni Duw, ac yn cadw 'i le :
 Ond mae 'n awr dros ei ben yng nghymdeithas y beirdd,
 A'i ybryd ar dân gan eu ceinion heirdd ;
 Nid rhyfedd a fyddai ei weld yn wir
 Yn fardd braint a defawd cyn bo hir.
 Ond fe ddaw Gruffydd yn hŷn bob dydd,
 Ac er cystal y beirdd, yn fwy eglur y bydd
 Fod byd dynolryw gryn lawer yn fwy
 Na chyfyng gyleh eu cymheudod hwy.
 Ond y llythyr. Fel dwedai y Peraidd Ganiedydd,
 Mae wedi ei osod mewn 'cân henrhydd' :—

“ O Mam, O Mam, yr wyf mewn gofid dwys
 Wrth weld yr anfad fwriad nawr ar gael
 Ei roi mewn grym, a'r rheilffordd eroh ei gwneyd
 I ben y Wyddfa gysegredig. Prin
 Y coeliwn ar y dechreu y cai 'r fath
 Yageler amcan byth ei ddwyn i ben :
 Ac wedi gweld y protest yn y wasg,
 A'r cais at Assheton Smith i 'mgroesi rhag
 Rhoi caniatad i wneuthur y fath waith,
 Gobeithiwn na chawn glywed mwy 'n ei gylch.
 Ond bellach mae'r dywarchen wedi ei throï,
 A'r gwaith yn mynd ymlaen ar garlam gwyllt.
 Cyn hir yr unigeddau swynol gânt
 Eu hagr anurddo gan ffordd fawr i fyd ;
 A'r dwin ddistawrwydd, na fai dim ond brêf
 Y ddatfad fwyn, neu alwad gu ei hoen
 A dorrai arno, bellach rwygir gan
 Sgrechiadau eohrys yr hen beiriant blwng.
 Ac ni fydd lloches yno bythol mwy
 I ddwys tyfyrdod a meddyliau mŷg,
 A chymdeithasu gydag anian deg.
 Am awen a dwys efryd, mwy yn iach ;
 Y peiriant â'i eroh drwst a'u gyr o'r tir !
 'A pha fwynhad a rydd y Wyddfa i neb
 A ddiog aiff i'w phen yng ngherbyd trên,
 Yn lle ei dringo gydag ymdrech wydn,
 Gan goncro 'r galed daag trwy ynni byw ;
 Ac wedi gwneuthur hynny, lawn fwynhau
 Wobr yr ymdrech mewn diderfyn hoen ! ’

“ Fel yna y canai fy, machgen y prydydd.”

A pheth ddwedssoch ohwithau mewn ateb i Gruffydd ?

“ Sgrifennais ato 'n ddigon iach,
 Paid a gwirioni, Gruffydd bach ;
 Gad i'th ofnau ffion ffoi ;
 Y mae 'r hen ddaear eto 'n troi.
 Mae'r “ unigeddau ” 'n berffaith sâff,
 Na ollwng i'th ddychymyg ráff.
 Ni fydd y lein ond ede fain,
 Fel gwêad y pryf oopyn cain,
 Ar eang fron y Wyddfa fawr,
 A phrin i'w gweld oddiar y llawr ;
 Tra'r “ unigeddau,” 'n llond pob man,
 A'r oll i'th awen fwyn yn rhan.

Ac am dy arswyd rhag ysgrech,
 Neu wichiad byw yr engine wech,
 Sy 'n gymaint dychryn i dy fryd,
 A phe bai 'n swm fyddarai fyd,—
 Ni fydd yn awyr eang Ior
 Ond fel diferyn yn y môr.
 "Ac a yw fy machgen sione,
 A ddring fel gwiwer allt a phone,
 Am wrastun i eiddilach rai,
 Nod yw eu hawydd ronyn llai,
 Gwel mynd i ben y Wyddfa der,
 Gymaint yn nes at wlad y sêr,
 A gweld oddiar ei huchel lawr
 Ffil myrdd prydfertion ddaer fawr,
 A ohanu â mynnes lawn o dân,
 Ogoniant ei Chreawdwr glân !
 "A pheth os oddiyno, ar aden y felltan,
 Y carent roi gair wnai eu ffryndiau yn llawen,
 Fel y gyrrodd yr anwyl Brifathraw Charles Davies
 Ei delegram adre o gopa Ben Nevis !
 "I gryllon heinyf ffordd haiarn ni raid :
 Cymerant hwy Wyddfa ar hwb, cam, a naid !
 Ond pam nad i wei-faid y mwyniant tég,
 A pham nad i fil, yn gystal a deg ?
 "O Guto, paid a'th grintach gwael,
 Pan mas y Wyddfa fawr mor hael ;
 Crossawaf ar ei llethrau fil,
 A llawer mwy o'r ddynol hil,
 Ian esmwythau eu cur a'u poen,
 A rhoddi i'w hysbrydoedd hoen ;
 A'r Wyddfa, fel mam, yn ysgafnach ei bron
 Wrth wneyd y lluoedd yn fwy llon.
 A pheth ddywedaf i'm Guto bach,
 Ityw fore hyfryd, disglær, iach,
 Am gymryd yno 'i anwyl Fam,
 Hy 'n siwr yn bur awyddus am
 Iael dringo 'r Wyddfa, ond fod pall
 Ei natur lesg yn dweyd nad all,—
 Os na ohaiff, gyda 'i bachgen glân,
 Fynd yno gyda 'r cerbyd tân !"

A pheth ddwedodd Gut ?—"Ymhen post neu ddaer
 Mi gos oddiwrtho yr ateb clau :
 'Anwylaf Fam,—Derbyniais eich cân,
 A rhaid dweyd eich bod wedi fy nghuro yn lân !'"

Da lawn, i' anwyl ffrynd ! Ni awn oll ryw foreu,
 Yn yr haf, pan fo anian i gyd ar ei goreu,
 Ar faino y trên bach i'r hyfryd uchelder,
 Yn lle bod o hyd yn yr hwyrdwrw iselder.
 A ynnwn i ddim nad ohwi, Robert Owen,
 A Gruffydd fy nisgybl hoff, gyda 'i awen,
 Fydd uchaf eich cloch yn gwaeddi, HAWDDAMOR
 I REILFFORDD Y WYDDFA, PRIF GAMPWAITH EIN GOROB !

(OBADRIA DAFYDD.

NODIADAU LLENYDDOL.

Cofiant Darluniadol y Parchedig William Williams, o'r Wern: yn cynnwys Pregethau a Sylwadau o'i eiddo. Gan y Parch. DAVID SAMUEL JONES, Chwilog. Dolgellau: W. Hughes. 7s 6c.

"CLARE et memorabile nomen." Enw disglaer yn sicr, ac i'w hir gofio! Yr ydys bellach ers llawer o amser wedi cysylltu enw Williams o'r Wern gyda'r eiddo John Elias a Christmas Evans fel y tri chedyrn yr edrychai y Cymry i fyny atynt fel arweinwyr y fyddin yn eu dydd, ac a waethant i'w cenedl wasanaeth o amhrisiadwy werth. Cofiair ya y llyfr hwa sylw o eiddo Mr. Gladstone am ddynt, "fod eu hwynebau yn arddangos nerth digonol i ysgwyd creigiau Cymru." A gwelwn fod Syr George Osborne Morgan yn dweyd ddiwrnod dad-orchuddiad cofgolofn Williams yn y Wern, yn 1884, "ei fod ya cofio ei dad ya dweyd fod John Elias, Christmas Evans, a Williams o'r Wern, yr un peth i grefydd efengylaidd yng Nghymru ag oedi John a Charles Wesley yn Lloegr." Mae'n amlwg nad oedd ei deilwng dad, mwy na'r barwaig gwir anrhydeddus ei hunan, o lawer yn ddigon pell ymlaen i ddeall yr athrawiaeth y rhoel y fath gressaw i lywydd y *Church Union* i'w chyhoeddi y dydd o'r blaen yn Rhyl, mai "gelynyon" oeddynt, "wedi dyfod pan oedd yr Eglwys wedi heptian a huno, a hau efrau ymyag y gwenith!" Hyderwn y bydd llawer iawn o'n cydwladwyr, heblaw y nifer liosog y ceir eu henwau yn niwedd y gyfrol fel tanysgrifwyr, yn gwneyd y llyfr hwn yn eiddo iddynt, ac yn eu cyfoethogi eu hunain â'r fendith werthfawr sydd ynddo. Yr oedd llawer o honom wedi darllen ar adeg ei ymddangosiad Fywggraffiad Dr. W. Rees i Mr. Williams, ac wedi ef ddirfawr fwyngau; ond gan fod hwnnw lawer yn rhy gryno, heblaw ei fod allan o argraff, a bellach yn anhawdd dod o hyd iddo oddieithr yn Rhydd-weithiau Hiraethog a gyhoeddwyd gan Mr. Isaac Foulkes, da y gwnaeth y Parch. D. S. Jones yn ymgymeryd â pharatoi y gwaith hwn, a gosod ger bron hanes Williams mor gyflawn ag yr oedd modd. Heblaw corffori sylwedd llyfr Dr. Rees, y mae wedi caaglu ei hunan lawer iawn o fater ychwanegol sydd o ddydd-ordeb tra mawr, ac wedi dwyn ynghyd o bob cyfeiriad gyflawnder o'r pethau goreu a ysgrifenydd yn ei gylch o hynny hyd yn awr. Mae y gyfrol wedi ei hargraffu a'i rhwymo yn dra hardd, yn debyg i Gofiant y Dr. William Rees, y galwasom yn ddiweddar sylw ato yn y TRAEHONYDD. Buasai yn dda gennym ei gwled dan gaboliad llenyddol uwch. Prin yr oedd eisieu y cyfenwad "darluniadol" yn ei henw. Mae y paragraffau nid yn anfynych yn hirion a chymysgelyd. Mae y defnydd a wneir o ddyfynnodau yn dra esgeulus. Pan wneir dyfyniadau Seisnig, na allasai fod dim petruster yn eu cylch, ceir y "yn llawn yn nechreu pob llinell; ond gyda dyfyniadau Cymreig, er yn fynych yn helaeth, ni cheir hwynt hyd yn oed yn nechreu y paragraffau, fel nad ydyw y darlennydd aml i waith mewn un modd yn sicr pwy sydd yn siarad âg ef. Yn y paragraffau drachefn mae y dyfynnodau yn dra chymysgelyd. Nid bob amser chwaith y mae y brawddegau yn gymen. Amryw weithiau fe geir diweddauod ynghanol brawddeg, ac y mae lluniad amryw o honynt yn llac. Y mae trefniad mater y llyfr hefyd yn annosbarthus, ac i fesur mwy nag a ddylai yn dwyn delw y siarad y soniaid y flances o Gymraes am dano,— "popeth trwy giddyl." Ond chwedl Mr. Balfour, pan yn dangos i'w etholwyr goleuedig mor ffol ydyw meddwl am dalu unrhyw sylw yn y Senedd i achosion Cymru, "De minimis non." Ac y mae y llyfr hwn o ran ei sylwedd yn un a ddylai gael ei ddarllen yn helaeth, ac o hynny fe geid llawer o fwyngad a llawer o adeiladaeth. Mae'n ddyddorol deall fod taid Williams, Edmund Morgan, y dyn cryfaf yn yr holl wlad, a'i fod yntau, unwaith o leiaf, wedi codi "Carreg y Cawr" gyda rhwyddineb oedd yn syndod i bawb. Mae yr "hen chwech" a roddodd â chil y fwyall, i ben y tarw rhuthrog nes yr aeth i lewyg, ac wedi cael ei draed dano a redai am ei hoedi, ac nad oedd eisieu ond dweyd y geiriau hynny na wnai yr un fath tra y bu byw,—yn hanesyddol. Diameu fod ei nerth corfforol wedi bod yn llawer o help iddo i fyned trwy ei

anorth lafar, a gresyn i'w ormod cydwybodolrwydd beri iddo fyned ar y cerbyd trwy y dymestl lawr i'r Cyfarfod Dirwestol yn Heol Mostyn, yn 1838, pan wedi chwysu wrth geisio ei sierhau—wedi cael nad elai y llong y bwriadai fyned gyda hi o herwrdd y storm,—a thrwy hynny, debydig fyrrhau ei dymor o lafar oedd mor hynod o feodithiol. Fel llawer o'n tadau enwog, fe weithiodd ei fiordd trwy fyrdiwn o anhawsterau, ac er iddo ddwyed wrth ei athraw pan yn gadael y Coleg, nad oedd yn meddwl bod neb o'i efrydwy'r wedi myned oddiyno yn *onestach* nag efe, eto fe wnaeth beth anffurrol well nag ennill anrhydedd athrofaol,—fe'i gwnaeth ei hun yn efrydidd dyfal a chydwybodol ar hyd ei oes. A chydya'r talentau mawrion a ymddiriedwyd iddo, a'i ymroddiad fyddlawn i gasglu gwybod-aeth, fe fu yn dra ffidus o'r dechrouad yn y "glewder" & pha un yr ymddiriedai iddo ei hunan fel meddyliwr, ac y traethai ei feddyliau i'w gydwladwy'r. A phrin byth y methai eu cyrraedd, ac mewn canlyniad nid oedd neb ag y cofid ei bethau yn well. Yr oedd y Parch. W. Roberts, o Benybontfawr, yn hynafgw'r yn cofio ei ragmadrdd i bregeth o'i eiddo ar Rhuf. v. 21, a wrandawsai rhwng 7 a 9 mlwydd oed, fel pe buasai wedi ei glywed y noswaith o'r blaen. "Tri brenin fu yn teyrnasu yn ein byd ni ersodd, brenin diniweidrwydd, brenin pechod, a brenin gras. Nid hir y bu'r brenin diniweidrwydd ar yr orsedd, na chododd brenin pechod i'w ddi-orseddu; wedi hyn fe gododd brenin gras i fyny i ddi-orseddu brenin pechod: Fel megis y teyrnasodd pechod i farwol-aeth, felly hefyd y teyrnasai gras trwy grifawder i fwyd tragwyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd." Ac ni eiddo arghosho ei swadaw yng nghyfarfod y Feibl Gymdeithas yn Llangollen. "Machyirach am yr aber fach ar waedol y nant Ewch ati a gofynwch iddi, I ba fe yr wyt ti yn myned mor bysura di-ymdroi, aber fach? 'Yr wyt yn myned i giudo longau i India a China, a rhanan ereill o'r byd,' atebai hi. 'Ti'n myned i giudo longau?' 'Yr wyt ti'n rhy wan i giudo gwialen, heb son am longau.' 'O, medd yr aber fach, y mae aber fach arall yn cyfarfod & mi ychydig ymhell-ach, ac un arall draw, ac un arall drachefn, ac afon fawr o'n blaen, ac ni awn guda'n giydd i hono ac yn hono i'r môr, a ni a gynorthwywn ein giydd felly, ac fe gwyrr y môr ein help i gario y longau mawrion i holl borthladdoedd y byd.' 'Gofynnwch i'r ddiamaid sydd yn Law'r eneth fach yna i'w dodi yn y casgliad hono, 'I ba fe yr wyt ti yn myned, ddiamaid druan?' 'Y mae ei thinc yn disgyn ar y plât yn ateb, 'I arfon Beiblau i'r holl fyd!' 'Ti anfon Beiblau i'r holl fyd! 'Ymunu o hono.' 'O, y mae un arall i ddyfod i'm cyfarfod oddiwrth y bachgen bach hon, ac un arall oddiwrth yr eneth yna, ac un arall oddiwrth yr hen wraig weithu yn y fan draw; ac ni awn guda'n giydd i drysorfa y Gymdeithas yn Llundain, ac mi ddaw lawerodd i'r cyfarfod ni o bob cwr i'r deyrnas; ac i gyd guda'n giydd, trwy barha o fawddyn i fwyddyn, ny ni lanwn holl wyneb y ddaw'r & Beiblau o'r ddudd.' 'Yna rhoddai siars ddiifrifol i riani plant ar hdynt eu dygn i gadw eu dduddau i'w cyfranu at achosion da, yn lle eu gwario ar feilunau. 'Hwyrach mai'r ddiamaid a rydd yr eneth fach yna ar y plât hono,' meddai, 'a dda am argyffwrdd aiod y caiff rhyw bagan yn Affrica fywyd tragwyddol wrth ei ddiamaid.' 'Nid rhyfedd oedd i'r clochydd, oedd yn "oracl y dydd," ddywed, "Bachgen rhyddodd wîw bachgen y Wern yna, yr oedd ei araeth hono yn ddech o ddigon rai'n un o'r lleill." Drachefn, wrth bregethu ym Mhen-ybontfawr ar "Nyn a wraestpwrdd yn ddyrch i'r byd," &c., pan yn son am aughyftalwch y pwsbau yn yr ymdrech fel rheswm am y sylw a dynnai ati, dywedai: "Tybuech fod hwydr: gwymerd lle fferu yn Llanfyllin, rhwng llew ac oen, a bod pob diwydd mae yr oen bach a eiddai y foddugoliaeth. Dylfai yr holl hold o Benybontfawr, Llangyng, Llanrhaisdr, ac o'r holl gychoedd cyfagos, i weled oen bach yn gorchfygu few. Yr un medd y mae pleidiau pryderus yn eiddo ar y Cristion gwau yr hwydr ac yn llawenhan wrth ei weled yn gorchfygu y cryf arfog." Drachefn, wrth bregethu ar "Dweg ddynion a thwyllwyr a ddi rhagddynt waeth waeth," &c., dywedai: "Mae yna ddyn yn eistedd yn y *seat* yna ynwau. Y mae yn annuwiol y boreu yna er y bregeth hon, a chanoedd o bregethau o'r blaen, nid oes trêdo un meddwl difrifol i adael ei annuwioldeb. Parhau yn annuwiol a wna. Rwy oddiwrthdod fe fodd farw yn annuwiol. Ac wrth farw fe & a'i holl annuwioldeb hwn godog ef i'r byd hwnnw. Ac mi a welaf ryw hwynt, draw, draw, yn y tragwriaddeb pell, pan y bodd y dyn yna wedi casglu i'w galon ei hun fwy o'elymaeth at Dduw nag eiddo heddyr yn nghreadigaeth Duw i gyd. 'Dweg ddynion a thwyllwyr a ddi rhagddynt waeth waeth.'" Ond ni wîw dechrou dyfannu o'r llawr pethau da a nodasom wrth fwyntau y gyfrol

werthfawr hon. Yr oedd dau beth, yn neillduol, yn ein taro wrth ei ddarllen, fel cuddiad ei gryfder, ac esboniad ei ddirfawr lwyddiant. Y cyntaf oedd dyfnder ei gryfddolder. Fel engraffft, dyma a ddywed y Parch. R. Parry (*Gwalchmai*), am ei waith yn oedw dyledswydd yn ei dŷ pan alw dd gydag ef wedi i'r ystorm, Ionawr 6ed, 1839, ddyrechwelyd y corn simnai ar y gwely lle'r oedd *Gwalchmai* i gygu pe daethai yno yn ol ei fwriad: "Yr oedd rhywbeth hynotach yn ei weddi y pryd hwanw na dim a glywswn orioed; yr oedd fel pe yn gofyn cenad y Goruchef i nesáu ato yn nes nag arferol, megys i ymddyddan ág ef wyneb yn wyneb,—mor syml, mor deimladol; eto, mor eofn, rywffodd, nes yr oeddwn yn arwydo yn grymddig yn fy lle; a pharhaodd rhyw deimlad nad allaf ei ddarlunio wrthyf dalm o ddyddiau; braidd na ddychymygaswn fod ei wyneb yn dysgleirio fel Moses; ni welais fwy o arwyddion ysbryd duwiolfrydig erioed." Y peth arall oedd yr olwg ddyrchafedig a gymesai ar y gwaith yr ydoedd wedi ymgysgru iddo. Yn ei waeledd olaf dywedai, "Yr wyf yn penderfynu yn nghymorth nef, os oaf wella, i bregethu yn well, a gweithio mwy nag erioed." "Daliodd Mrs. Hughes sylw arno un boreu, ei fod yn edrych yn hynol o bruddaid ac isel ei feddwl, a chan dybio mai gwaeledd ei isohyd, ac nad oedd yn gwellhau cystal a'i ddyagwylid oedd yr achos, hi a ddywedodd wrtho, 'Yr wyf yn rhyfeddu atoch, Mr. Williams, fod gŵr o'ch bath ohwi yn gofidio wrth feddwl am farw, mwy na phe byddoch yn maddwl am fyw.' Taffodd olwg dreiddiol ar ni, ond methodd ateb gair; crymodd ei ben yohydig, a sylwai Mrs. Hughes fod y dagrau yn llifo ar hyd ei ruddiau; pan welodd hithau hyny, gadawodd ef, gan fyned i barotol boreu-fwyd. Wedi i'r teulu ymwysgaru, galwodd arni, ac wedi iddi eistedd gerllaw iddo, dywedai: 'Dywedasoch gyneu eich bŷ yn rhyfeddu ataf fi, fy mod mor drwm fy nghalon gyda golwg ar farw; yn awr mi a ddywadaf i ehwi, y mae arnaf lawr awydd byw i wneud llawer mwy dros Grist nag a waethum erioed. O! nid wyf wedi gwneuthur dim.'" Ac eto ei waith ardderohog yn llanw y gwledydd!

Cyfiawnhad trwy Ffydd Gŵn y Parch. R. S. THOMAS, Aberdare Junction.
Cyhoeddedig gan yr Awdwr. 8s. 6s.

MAE'n debyg nad ydyw enw awdwr y gwaith hwn yn rhyw adnabyddus iawn yng Nghymru, ond y mae wedi ygrifennu llyfr a ddylai gael ei astudio gan liaws mawr o'i gydwladwyr, yr hyn nad allai lai na gwneyd ei enw yn barhaus ac yn dra chymeradwyr yn eu golwg. Ymddengys fod Mr. Thomas wedi ei eni a'i fagu yng Nghymru, ond pan yu bump ar hugain oed, aeth drosodd i America, lle y cwtrefodd am yn agos i bedair blynedd ar hugain, a dychwelodd i Gymru rhyw ddwy flynedd yn ol. Yn America dechreuodd bregethu gyda'r Methodistiaid Calfainaid, ac y mae ei enw yn awr ymyg gweinidogion Dwyrain Morgannwg. Cyflwyns ei lyfr "i fendigedig goffiadwriaeth y diweddar Barchedig Thomas Rees (T.C.), yr hwn a anwyd Medi 11eg, 1819, yn Ponthrhydfendigaid, Sir Aberteifi, ac a fu farw Mai 8fed, 1882, yn Ffynon Taf, Morgannwg, fel arwydd o barch dwfn iddo fel dyn da, Cristion dysglær, a duwinydd galluog; ac fel cydnabyddiaeth fechan am y lles ysbrydol a deallol dderbyniodd oddiwrtho yn ystod yr amser y bu yn weinidog ar eglwys Fethodistaidd Aberaman, Morgannwg, o ba un yr oedd yr Awdwr yn aelod ar y pryd." Nid ydym yn osio i ni ddigwydd clywed am y gŵr da hwnnw o'r blaen, ond y mae y warogaeth gariadus yma a delir i'w goffiadwriaeth yn peri i ni feddwl y fath gyfoeth o ddaioni sydd yn barhaus ar waith yn lleshau ac yn bendithio, nad ydyw y byd yn gwybod nemawr yn ei gylch. Dymunol iawn ydyw y coffa serohog yma am y lles a dderbyniodd yr awdwr, fel Cristion ac fel efrdydd, oddiwrth Mr. Rees. Crybwylla hefyd am y Dr. A. A. Hodge o Princeton, fel un y cawsai y fraint a'r hyfrydwech o fod dan ei addysg yn America. Ac mae yn amlwg oddiwrth ei lyfr ei fod yntau am lawer o flynyddoedd wedi bod yn efrdydd dylaf a chydwybodol, wedi darllen yn ofalus yr awdwr gorau mewn duwinyddiaeth, ac nid yn unig wedi darllen yn dda, ond hefyd wedi meddwl yn ddwyd a chydwytbodol, "gan gydfaru pethau ysbrydol & phethau ysbrydol," ac felly gyrraedd dirnadaeth glir a chyfoethog o athrawiaeth yr Efyngyl. Da y dewisodd yr athrawiaeth fawr o Gyflawnhad i ysgrifennu llyfr arni. Pa gyfnewidiadau bynnag sydd wedi cymeryd lle, y mae y gwirionedd am y drefn y cyfiawnheir dyn gyda Duw, eto yn un ag y mae eglwys, ohwedl Luther, yn sefyll neu yn syrthio yn ol fel y mae yn gywir neu yn gyfelliornus yn y farn a goledda am dani. Ac y mae yn rhyfedd mor wahanol y mae dynion wedi bod yn

meddwl yn ei chylch. Y mae Mr. Thomas wedi myned yn bur drwyadi i'r mater, ac y mae ei lyfr y tu hwnt i bob cymhariaeth y traethawd goreu ar Gyfiawnhad a feddwn yn ein hiaith; ac yn wir, o fewn y terfynau a osododd iddo ei hun, fe gymerasai le anrhydeddus mewn unrhyw iaith. Nid oes nemawr i arwedd ar yr athrawiaeth bwysig nad ydyw yn ymdrin â hi, a hynny yng ngoleuni y lenyddiaeth oreu, ac mawn modd galluog, eglur, a thra boddhaol. Nid ydym yn cofio i ni ers llawer o amser weled ymfriniaeth mor gyflawn a rhagorol ar un o'r athrawiaethau mawrion ag a geir yn y llyfr hwn. Pan ddywedwn fod ei benodau yn ymwneyd â'r fath faterion â Natur Cyfiawnhad, Ystyr Feiblaidd y Term, Sylfaen Cyfiawnhad, Cyfrifiad, Natur Ffydd Gyfiawnhad, Perthynas Ffydd a Chyfiawnhad, Perthynas Cyfiawnder ac Ailenedigaeth, Cyfiawnhad yn ol Paul a Iago, Cyfiawnhad yn ei berthynas â'r Drindod, Perthynas Cyfiawnhad a Chyfiawnder, Cyfiawnhad yn ei berthynas â Gras, a Hanes Cyfiawnhad,—ac y ceir ar bob un o'r materion hyn ymdriniaeth lawn ac addfed, yr ydym yn hyderu y teimla llawer o'n darllenwyr mai doeth fyddai iddynt wneyd y fath lyfr, ac ymhob ystyr, yn eiddo iddynt eu hunain. Dylai ein pregethwyr ieuainc yn neillduol ei feistroli. Ni fydd eisieu iddynt bregethu popeth a gânt yma; ond y mae y sylw eto yn wir, Gymaint o wybodaeth am y pethau mawrion sydd yn angenrheidiol i'w gwneyd yn eglur i'r bobl gyffredin sydd yn gwranddo yr Efengyl! A gwnai werslyfr rhagorol i'n cyfarfodydd darllen. Yn wir oni fyddai yn amheuthyn gwych cael mater un o'i benodau yn destyn ymddiddan mewn seiat? Mae o ddirfawr bwys fod ein cyfeillion oll yn deall y drefn fawr ag y mae "mawr amryw ddoethineb Duw" yn llewyrchu mor ogoneddus ynddi. Ac y mae yn hyfryd gennym ddweyd nad oes air yn y llyfr hwn yn annheiliwng o'r amcan mawr a ddynodai Dr. Owen fel anhepgor i unrhyw ymdriniaeth deilwng ar y fath fater, sef cael y boddlonrwydd a ddymunai dyn yn ei fundau mwyaf difrifol iddo ei hun, ac a deimlai yn deilwng i'w argymhell i'w gyfaill neu ei gymydog méwn teimlad cyffelyb, am y drefn y mae i bechadur ddyfod yn gymeradwy gyda Duw. Dymunwn o galon i'r llyfr ledaeniad helaeth, ac astudiaeth dda.

Howell and the Cat. The R.S.P.C.A. Prize Story for 1898. By L. JONES, Headmaster, Practising Schools, Garth, Bangor.—*Hywel a'i Gath. Chwedl Arobryn C.F.A.C.A. am 1898.*

CAWSOM yr hyfrydwch o ddarllen y chwedl brydferth hon yn Saesneg a Chymraeg y llynedd, wrth feirniadu y cyfansoddiadau a anfonasid i Gangen Sir Gaernarfon o'r Gyndeithas er Atal Creulondeb at Anifeiliaid. Cofiw'n i ni y pryd hynny ddatgan dymuniad cryf ar iddi gael ei chyhoeddi yn y ddwy iaith, a'i lledaenu yn helaeth ymhlith ein plant. Dyma hi yn awr wedi ei chyhoeddi, ac i'w chael am chwe swllt y cant oddiwrth Miss Rathbone, Glanymensi, Menai Bridge, y foneddiges deilwng sydd ers rhai blynyddoedd yn gwneyd y fath waith rhagorol fel Ysgrifennydd y Gyndeithas honno. Dylai fod yn nwyllaw miloedd lawer o'n plant. Wedi iddynt ddechreu ei darllen, byddai raid iddynt fyned drwyddi; ac anhawdd iawn, debygem, fyddai i gymaint ag un o honynt ddianc heb deimlo ei bendith yn glynu wrtho. Atebai yn rhagorol i'w ddarllen yn ein hysgolion elfennol, fel ymarfer yn yr addysg ddwyieithog. Buasai chydig yn fwy cyfleus i'r diben hwnnw pe buasai y ddwy iaith ar dudalennau cyferbyniol, fel y gellid yn fwy rhwydd eu cymharu; ond nid ydynt wrth reswm ymbell oddiwrth eu gilydd, a gellid yn rhwydd weithio allan gyda'r llyfr ddrychfeddwl firwythlon yr addysgydd rhagorol Deon Cotton, sef i'r plant ddilyn y chwedl yn y naill iaith pan fyddo yn cael ei darllen yn y dosbarth yn yr iaith arall.

TIME TESTED TEAS.

SUPERIOR CEYLON TEA

1/3 PER LB.

8lbs. by RAIL CARRIAGE PAID for 20s.

SUPERIOR
INDIAN
BOUCHONG
1/7 LB.
GOLD MEDAL
LIVERPOOL
EXHIBITION.

THOS JONES & CO LTD
TIME-TESTED
Teas

AMSER ADDENGY'S
TIME HAS PROVED THAT THOS. JONES & CO'S TEAS ARE UNSURPASSED

THOS. JONES & CO LTD
INDIA CHINA
TEAS

TESTED BY TIME
THOS. JONES & Co Ltd
9, PARKER STREET
LIVERPOOL

TEA & COFFEE MERCHANTS
BIRKENHEAD SOUTH FORT & BLACKBURN.

The illustration shows a bearded man in a long robe, holding a staff and pointing towards the left. To his left is a box of tea with a label that reads 'THOS. JONES & CO LTD INDIA CHINA TEAS'. Below the box is a small table with an hourglass on it. The background is a simple landscape.

SUPERIOR
BLENDED
TEA
PER 2/- LB.
SPECIALLY
RE-
COMMENDED.

AGENTS WANTED. SAMPLES ON APPLICATION.

Thos. Jones & Co., Ltd.,

TEA IMPORTERS,

9, Parker Street, LIVERPOOL.

COCOA CADBURY

Hollol bur, wedi 'ei wneyd yn Lloegr.

Ni ddefnyddir Chemicals fel y gwueir yn Cocoas a elwir yn rhai tramer.

Mae enw CADBURY ar unrhyw sypyn o Cocoas
neu Chocolate yn ddigon o sicrwydd am burdeb.



SEBON

PEARS

Y TRAETHODYDD.

MAWRTH, 1895.

CYNHWYSIAD.

Yr Iesu yn Offairiad drosto ei Hun. Gan y Paroh. WILLIAM GLYNNE, B.A.	81
Beth yw Bywyd? Gan y Paroh. H. CERNYW WILLIAMS	91
Charles o'r Bala fel Cymreigydd. Gan yr Athraw J. YOUNG EVANS, M.A., o Athrofa Treseoca	98
Y Waen Fawr, ddeugain imlynedd yn ol. Gan RICHARD JONES	102
I'r Ffrwydr. Gan ORADEIA DAFYDD	116
Eglwys Loegr a Phobl Cymru. Gan y Gwir Anrhydeddus G. OSBORNE MORGAN, A.S.	118
Cyfundrefn Grefyddol China a Japan. Gan y Paroh. D. LLOYD JONES, M.A.	181
Cymdeithas Yndreoh Gristionogol y Bobl Ieuainc. Gan y Paroh. J. MOSTYN JONES	187
Cyfieithiad Dr. Briscoe o'r Testament Newydd	148
Nodiadau Llenyddol	155

CYBOEDDIR Y RHIFYN NESAF MAI 1, 1895.

PRIS SWLLT.

TREFFYNNON:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN P. M. EVANS & SON.

COLEG Y GOGLEDD, BANGOR.

(UN O'R COLEGAU YN Y BRIFYSGOL GYMREIG).

PRIFATHRAW: H. R. REICHEL, M.A., gyda Naw o Broffeswyr, Pedwar o Ddarlithwyr, ac Unarddeg o Athrawon ereill.

Parotoir ar gyfer Arholiadau Prifysgol Llundain, y Cwrs Meddygol ym Mhrifysgollon Edinburgh a Glasgow, ac Arholiadau ereill. Rhwir addysg arbenig mewn Amaethyddiaeth ac *Electrical Engineering*.

Cynnygir dros 20 o Ysgoloriaethau, yn amrywio mewn gwerth o £40 i £10 y flwyddyn, i'r rhai fyddo'n ymaelodi yn y Coleg gyda dechreu y tymor nesaf. Bydd *hanner* yr Ysgoloriaethau yn gyfyngedig i Gymry. Dechreua yr arholiad am danynt yn Medi.

Ceir pob manylion gan

JOHN EDWARD LLOYD, M.A.,
Ysgrifannydd a Chofrestrydd.

AT HOLL

GYMRY Y DEYRNAS GYFUNOL.

TELERAU ARBENIG

HYD GORPHENAF 31,
1895,

ESBONIAD JAMES HUGHES

AR Y

TESTAMENT NEWYDD,

WEDI EI RWYMO YN HARDD A CHRYF MEWN CROEN LLO,
AM DDIM OND

 UN BUNT! 

Y Pris isaf y gwerthwyd yr Esoniad erioed, sef
gostyngiad o

BEDWAR SWLLT AR DDEG A CHWE CHEINIOG

Y GYFROL.

Y TRAETHODYDD.

YR IESU YN OFFEIRIAD DROSTO EI HUN.

Mewn erthygl yn y TRAETHODYDD am Orffennaf, 1894, ceisiais ddangos fod yr IESU yn aberthu drosto ei Hun, trwy (1) elfennu Hebreaid v. 1—10, ac (2) trwy olrhain ystyr a hanes aberth, a hynny dan yr Hen Oruchwyliaeth a than y Newydd. Gellir edrych ar yr un gwirionedd o safle arall, sef Ystyr a Hanes Offeiriadaeth fel ei dysgir yn y Beibl. Er amser y Diwygiad Protestanaidd danghosir tuedd i roddi y pwys yn unig a hollol ar y wedd gyfryngol ar waith yr Iesu. Credwn fod y wedd honno yn berffaith deg a chywir, a'i bod yn y gorffennol wedi profi ei hun yn hynod effeithiol tuag at amcanion ymarferol. Eto fe wyddys yn eithaf da fod unochredd weithiau, ac yn wir yn aml, yn arwain i gyfeiliornad, a phob amser yn cyfyngu ar gydymdeimlad ac yn crebachu y meddwl. Nid oes engraifft well o hyn na'r un geir yn fynych yn hanes gwyddonwyr y dyddiau hyn. Rhannant faes gwybodaeth yn fân rannau, a chyfyngir y sylw *to specialize*, fel y dywedir; a'r canlyniad yw tuedd i roi gormod pwys ar hoff bynciau, ac anwybyddu, os nad diystyru pynciau ereill. Ceir fod yr un peth yn wir am dduwinyddion : er engraifft, y mae talu sylw yn unig i berthynas gwaith Iesu Grist â chadwedigaeth pechaduriaid, wedi arwain i ddiffygion mewn un cyfeiriad, gan nad pa mor fawr y rhagoriaethau mewn cyfeiriad arall. Credwn fod y diffyg ehangrwydd yma yn gyfrifol am gryn lawer o'r diystyrwch a dynnwyd ar athrawiaeth yr Iawn yn yr Almaen a Lloegr. Fel y lledaenir addysg yng Nghymru, onis gofelir mewn pryd, mae'n ddigon tebyg y gwelir hanes yn cael ei ailadrodd eto yn hyn o fater.

Fel hyn y dymunwn ofyn y cwestiwn a awgrymir gan benawd yr erthygl :—A rhoi heibio y wedd gyfryngol ar waith yr Iesu fel offeiriad, a allwn ni mewn un modd ddweyd ei fod yn offeiriad drosto ei Hun ? Tuag at ateb y cwestiwn, bwriadwn olrhain hanes offeiriadaeth yn yr Hen Destament a'r Newydd :—y gair a gyfieithir offeiriad yn yr Hen Destament ; yr adnodau yn Numeri xvi. ; a'r ddygeidiaeth am aberthau yn y Beibl. Yna galledd ddangos ple mae y syniad o gyfryngdod yn dod i mewn, a hynny yn ystyr y gair, yn hanes cenedl Israel a'r saint, ac yn hanes offeiriadaeth Aaron a Melchisedec. Wedi hynny dylid cymhwyso hyn at waith

yr Iesu. Byddai hynny, hwyrach, yn foddion i wneyd ein gosodiad yn fwy clir; eithr ymataliwn y tro hwn.

1. Y mae tri gair yn yr Hebraeg a gyfieithir "offeiriad" yn yr Hen Destament. Defnyddir un yn ddiethriad am offeiriad gau grefyddau. Mewn un man yn y testyn Cymraeg, cawn ef wedi ei Gymraegio yn "Chemariaid" (Sephaniah i 4). Mewn dau fan arall (Hosea x 5; 2 Brenhinoedd xxiii 5) ceir "offeiriad" yn y testyn a "Chemarim" ar ymyl y ddalen. Offeiriad i Baal oeddynt; ac ystyr yr enw roddir arnynt yma yw "mynachod," neu yn llythrennol, "rhai yn gwisgo du." Dyma'r unig fannau lle'r enwir hwy.

Nid yw y ddau air arall ond amrywiad seiniol o'r un gair, heb un gwahaniaeth ystyr. Yn llyfr Ezra yn unig y ceir un ffurf (*kohen*) a hynny ryw wyth o weithiau; tra y ceir yr hen ffurf (*kohen*) ymhob man arall lle y ceir "offeiriad" yn y Gymraeg. Sier yw fod y ddwy ffurf o'r un gwreiddyn, ac yn wir, mai yr un gair yw y ddau, ond fod dylanwad y Galdäeg yn troi yr *o* yn *a*. Os felly, cyfryngir ein sylw at ystyr un gair yn unig, ac y mae hyn yn ychydig fantais.

Ni chaniatai gofod i mi roi hanes na chrynhodeb o hanes y gwahanol olygiadau ar ystyr gwreiddyn y gair. Er cymaint o ysgrifennu fu ar hyn, yn enwedig o ganol y ganrif ddiweddaf hyd ganol y ganrif hon, y mae cryn lawer o unfrydedd barn am ystyr y gair. Gall y neb na fedr Hebraeg weled fod y gair, fel pob gair arall, wedi cyfnewid o ran ei ystyr. Gyda threiglriad yr oesoedd daeth ei ystyr yn fwy cyfyng. Ceir engrafft o hyn yn y Beibl Cymraeg ond cymharu 1 Chronicl xviii. 17, & 2 Samuel viii. 18. Yn y lle cyntaf dywedir: "A meibion Dafydd oedd y rhai pennaf wrth law y Brenin;" eithr yn yr olaf: "A meibion Dafydd oedd dywysogion." Amlwg yw mai yr un ffaith a groniclir yn y ddau le, ac fod "y rhai pennaf" yn golygu "tywysogion." Tröer i'r Saesneg Diwygiedig o'r lle olaf, a gwelir mai "priests" (offeiriad) yw y gair a ddefnyddir yn lle tywysogion, a'r gair Hebraeg a gyfieithir yn gyffredin "offeiriad" sydd yn y gwreiddiol. Mae hyn ar unwaith yn awgrymu fod y gair wedi newid ei ystyr erbyn amser y Croniclewr, onidé pa reawm fuasai dros iddo ei aralleirio? Mae esiamplau ereill o'r gair yn cael ei ddefnyddio yn yr un ystyr eang ag yn Samuel;* eithr ni raid i ni ar hyn o bryd sylwi arnynt. Digon yw hyn i ddangos fod y gair wedi tyfu, fel pob gair arall. Yn amser y Croniclewr golygai "offeiriad," mae'n ddiameu, "offeiriad yn ol urdd Aaron," ac nis gellid ystyried yr un o'r urdd honno yn "benllywydd" na "thywysog."

Nid felly yr oedd bob amser. Mae'n amlwg fod i'r gair ystyr ehangach yn amser casglydd llyfrau Samuel, a'r rhannau hynaf o'r Pumlyfr. Yr oedd cyfieithwyr y Saes. Diwyg. yn ameu pa un ai "tywysog" ynte "offeiriad" i alw Potipherah (Gen. xli. 45, &c.) a Jethro (Exod. ii. 16, &c.). Dengys hanes fod y naill a'r llall yn dywysogion; ac fe allai eu bod yn "offeiriad." Dysgir ni gan hanes crefyddau y byd y perthynai offeiriadu, ar y cyntaf, i ben y teulu; wedi

* Gwel 2 Samuel xx. 26, "benllywydd;" 1 Brenhinoedd iv. 5; a chymharer Genesis xli. 45; Exodus ii. 16.

hynny, i ben y llwyth; ac yn ddiweddf, i ben y genedl; a rhydd hyn i ni sail i dybied y perthynai i Potipherah a Jethro. Eto nid oedd ond rhan, a rhan fechan, gan nad pa mor bwysig, o'u gwaith.* Dyma'r engreiffitiau hynaf o'r gair, a cham ymhellach a'n dwg ni at ei ystyr.

Er cymaint o wahaniaeth barn fu ar hyn, y mae tuedd gyffredinol i ystyried ei fod yn golygu un o ddau ystyr: "agoshau" at uwchafiaid, neu "gyflawni gwasanaeth anrhydeddus."† Y mae trydydd ystyr sydd yn cael cryn lawer o sylw, sef ei fod yn golygu "un gwybodus," megis dewin: ond dywed Oehler nad oes ameaeth nad ail ystyr yw hwn. Rhwng y ddau ystyr cyntaf nid oes nemawr wahaniaeth, a hawdd gennym gredu fod geiriau Dr. Curtiss yn agos iawn i'r gwir. "Mae'n dra thebygol," meddai, "fod y ddau ystyr yn perthyn i'r gwreiddyn yr un mor gyfreithlon."‡ Diameu mai y sawl sydd yn agoshau at ei uwchafiaid yw y tebycaf o fod yn cyflawni gwasanaeth anrhydeddus; a hawdd gweled fod yr ystyr o "un gwybodus" heb fod nepell oddiwrth y ddau hyn. Y rhai mwyaf gwybodus yn yr hen amseroedd oedd yn cael dod agosaf at eu huwchafiaid. Oddiwrth hyn gwelwn yn eglur nad yw y gair ei hun yn wreiddiol yn golygu "gweithredu dros arall" mewn unrhyw gysylltiad; nad oes yma gyfeiriad o gwbl at "offrymu dros arall." Sut y daeth y syniad hwn i mewn sydd gwestiwn arall. Heb i ni geisio manylu a phrofi pa un o'r ddau ystyr hyn yw y cyntaf, digon yw sylwi fod yr ystyr o "agoshau" yn perthyn yn fore, os nad yn gyntaf i'r gair, a hynny heb ronyn o awgrym fod yr agoshad yn un dros ereill.

2. Os trawn i Numeri xvi. 1—11, ceir y syniad cyntaf am offeiriadaeth a gronclir yn y Beibl, ac y mae yn cadarnhau y sylw a wnaed eisioes am ystyr y gair. Pan glywodd Moses am wrthryfel Corah, Dathan, ac Abiram, "efe a syrthiodd ar ei wyneb. Ac efe a lefarodd wrth Corah . . . Y bore y dengys yr Arglwydd yr hwn sydd eiddo ef, a'r sanctaidd; a phwy a ddylai neshau ato ef, canys yr hwn a ddewisfa efe a neshau ato" (ad. 4, 5). Yma enwir tair nodwedd fawr offeiriad, sef,—dewisedig neu eiddo Duw; sanctaidd; ac agoshau at Dduw.‖ Cydnebydd pawb fod agoshau at Dduw yn disgrifio hanfod gwaith yr offeiriad; ynglŷn â'r ddwy nodwedd blaenaf yn unig y mae gwahaniaeth barn. Y cwestiwn yw, pa un ai am mai Duw a'i dewisodd y mae yr offeiriad yn sanctaidd, ai ynte am ei fod yn sanctaidd y dewiswyd ef gan Dduw. Deil y duwinyddion a ystyrir yn uniongred at y golygiad blaenaf, a'r lleill at yr olaf. Rhydd y dosbarth blaenaf bwys mawr ar yr adnodau sydd yn dweyd mai rhodd Duw ydyw offeiriadaeth (Exod. xxviii. 1, 41; Num. xviii. 7, &c.)§ Apelia yr olaf at hanes llwyth Lefi fel yn profi eu rhagoriaeth ar bob llwyth arall, ac felly eu cymhwyster i fod yn offeiriad.

Ymddengys fod y dosbarth blaenaf, fel rheol, yn anghofio unfaith: mai nid yn iaith wyddonol y dyddiau hyn, eithr yn iaith profiad duwionion yr ysgrifenydd y rhan fwyaf o'r Beibl. Yn y cysylltiad hwn rhaid cofio fod tuedd yn y teimlad i bylu y deall. "Men of loving

* Gwel Keil, Arohology i. 206; Oehler, Old Testament Theology, i. 292. † Gwel Keil, ib. i. 209; Oehler, ib. 304, 309. ‡ S. I. Curtiss, Levitical Priests, 57—58. § Keil, i. 206; Oehler, i. 292—3; cymharer Milligan, Expositor, 3rd ser. II. § Bähr, Symbolik ii. 18; yn enwedig Philo, Vita Mosews, tud. 676; ac ereill.

hearts," ebe Sabatier, "seldom have a perfectly clear intelligence." Mae diolchgarwch calon y duwiol yn peri mai peth anhawdd ac anarferol iawn iddo ef yw bod yn fanwl gydag olyniad amser a threfn; yn enwedig, y mae am briodoli y cwbl i Dduw. Nid oedd Paul yn gwled dim ond gras Duw yn ei dröedigaeth; mae duwinyddiaeth ddiweddar yn gweled canlyniadau ei fywyd gynt yn baratöad neillduol ar gyfer hynny. Yn ei awyddfryd i ganmol Duw yr oedd Paul yn anghofio ei hunan. Diameu nas gellir canmol gormod ar y rhinwedd hwn; eto rhaid addef ei fod yn arwain i gyfeiriornad mewn barn, fel pob unochredd arall. Dyma'n cwyn yn erbyn y dosbarth blaenaf o esbonwyr a nodwyd.

Y mae'r un mor wir am y ddau ddosbarth eu bod yn dangos gormod o duedd i anwybyddu y ffaieth fod adnodau gwahanol i'w cael sydd yn cadarnhau y naill neu y llall o'r golygiadau. Mae Exod. xix. 5. yr un mor gadarn dros roddi pwys ar ochr dyn ag yw yr adnodau a nodwyd dros roddi pwys ar ochr Duw. Yn yr adnod hon rhoddir uniondeb buchedd o flaen dewisiad Duw. Arweinia hyn ni at wir ystyr "cyfamod;" oblegid y syniad o gyfamod sydd wrth wraidd ac odditan yr holl adnodau y cyfeiriwyd atynt, ac iawn ddeall ei ystyr yw yr agoriad i'r holl olygfa.

Onid cyn myned at y syniad hwn, dylem gyfeirio at un peth arall, nad yw yr esbonwyr a nodwyd yn ymddangos yn meddu golwg glir arno,—sef, ystyr y gair "sanctaidd" yn rhannau hynaf y Pumllyfr. Feallai, mai cywirach yw dweyd eu bod yn darllen y rhannau hynaf hyn yng ngoleuni duwinyddiaeth ddiweddarach a chyflawnnach y profwydoliaethau a elwir ar enw Esaiah, a'r rhai diweddarach. Gyda golwg ar ystyr wreiddiol y gair, y mae dysgedigion bron yn unfarn. Golyga "neillduad."* Eithr pan ofynnir y ddau gwestiwn—neillduad oddiwrth, ac i ba beth?—ceir cryn lawer o wahaniaeth. Unpeth y cytunir arno yw fod a wnelo y neillduad yn uniongyrchol â Duw. Oddiwrth, ac i ba beth bynnag y neillduir, mae addoli Duw ar ei fantais. Credwn pe cofid fod duwinyddiaeth Feiblaidd i fyned o flaen yr un gyfundrefnol, y ceid mwy o unfrydedd ar y mater hwn. Cyn belled ag y mae a wnelo'r cwestiwn â rhannau hynaf y Pumllyfr, nid wyf yn gweled fod un lle i ameu nad yr ystyr yw neillduad i wasanaethu Duw, ac felly oddiwrth genhedloedd ereill y byd, y rhai oedd yn myned ar ol eilunod. Dyna hanes cenedl Israel, a dyna a'i gwnaeth yn neillduedig i Dduw, ac felly yn "drysor priodol" iddo Ef.† Yr oedd awdwr Deuteronomium yn deall duwinyddiaeth rhannau blaenaf y Pumllyfr yn dda pan ysgrifennodd: "Canys pobl sanctaidd ydwyt ti i'r ARGLWYDD dy DDUW:" "Yr ARGLWYDD dy DDUW a'th ddewisodd di i fod yn bobl unig iddo ei hun, o'r holl bobloedd sydd ar wyneb y ddaear" (vii. 6). Yr oedd y genedl yn "sanctaidd" oblegid fod Duw wedi ei neillduo oddiwrth y byd i'w wasanaeth ei Hun.

Os yw yr esboniad hwn yn gywir, nid oes modd osgoi y casgliad, nad am fod Duw wedi eu dewis yr ystyrid y genedl yn "sanctaidd," yn neillduedig iddo Ef, ac am hynny yn eiddo, neu "drysor priodol" iddo. Cwestiwn pellach yw, A oedd Duw, wrth ddewis, yn cymeryd i

* Duff, Old Testament Theology, 164; Robertson Smith, The Prophets of Israel 224 ac ereill. † J. Agar Beet, Expositor 2nd Series, VI. 160.

ystyriaeth ragoriaethau cenedlaethol Israel, a rhagoriaethau llwyth Lefi a theulu Aaron wrth eu dewis, ai ynte rhôdd benarglwyddiaethol a diamodol ydoedd hyn? Nid cwestiwn neillduol yw hwn; eithr un o gwestiynau mawr trefn yr iachawdwriaeth sydd yn holl oesoedd crêd wedi bod yn anhawster. Yr anhawster yw cysoni penarglwyddiaeth o du gras, a rhyddid ewyllys o du dyn. Nid amcan yr ysgrif hon yw olrhain na cheisio eu cysoni. Beth bynnag am eu cysondeb, rhaid cydnabod fod rhannau hynaf y Pumlyfr, fel llawer rhannau ereill o'r Beibl, yn cynnwys adnodau sydd yn rhoddi pwys arbennig ar waith dyn; ac arweinia y ffaith hon ni at ffaith arall,—sef mai cyfamod rhwng Duw a dyn yw y syniad sydd wrth wraidd duwinyddiaeth yn yr Hen Destament, yn euwedig yn y rhannau hynaf, fel y mae teyrnas yn y Testament Newydd; ac am hynny wrth y syniad hwn y rhaid i ni drefnu ein golygiadau.

Credwn fod y gair Cymraeg, “cyfamod,” yn esboniad cywir ar natur ac ystyr y trefniad rhwng Duw a'i bobl. Gall y gair Hebraeg a gyfieithir “cyfamod” olygu, un ai trefniant o eiddo un dyn, megis ei destament diweddaf; neu gytuned rhwng dau ddyn mewn ystyr gyfreithiol: eithr credwn mai cyfamod yw yr ystyr oreu,—dwy ochr, neu ddau barti, yn cytuno â'u gilydd, a'r amodau yn cael eu cyflawni gan y naill a'r llall. Y syniad hwn sydd yn gwneyd mwyaf o chwarae teg â'r gair yn y rhannau hynaf o'r Hen Destament,* yn gystal â'r ffaith fod dyn yn fôd moesol ac yn meddu rhyddid ewyllys.

Y mae duwinyddiaeth Cocceius, a Turretin, a Charles Hodge, wedi rhoddi lliw cyfraith Rhufain ar y gair, ac y mae hynny i lawer yn peri fod arno arogl anhwyfryd. Eithr os trown i rannau hynaf yr Hen Destament, diflanna hyn. Er engrafft cymharer syniad Hosea am y cyfamod rhwng Duw a'i bobl; gesyd ef y syniad allan trwy gyfamod gŵr a gwraig. “Dyna yw'r cyfamod,” medd Dr. Duff, “llw cariadon.”† Duw o'i ras yn cynuog, ac yn trefnu yr amodau ac yn rhoi yr addewidion, a dyn o'i wir ewyllys yn cytuno; wedi hynny—Duw yn eiddo dyn, a dyn yn eiddo Duw; cariad y naill yn ateb i gariad y llall. Duw bia'r flaenor-iaeth; ewyllys dyn sy'n cydsynio. Nis gall y naill wneyd y cyfamod heb y llall; ac nid peth i'w wthio trwy orthrech ydyw ar y naill ochr, na rhywbeth i'w dderbyn rywsut o'r ochr arall. Bodau moesol sydd ynddo; gweithred foesol yw ei hanfod; ac egwyddorion moesol sydd yn sylfaen iddo. Os felly, nid unrhyw amharch â'r cyfamod ydyw ymdrin âg ef yn iaith moeseg; ac i'w iawn ddeall, y mae hyn yn anhepgorol.

Buasai yn amharch ar Dduw ac yn groes i reswm a hanes i ddweyd fod Duw wedi dewis cenedl Israel am mai hi oedd y genedl waethaf a mwyaf pechadurus ar wyneb y ddaear; er ar yr un pryd y mae yn eithaf gwir i Dduw eu dewis er eu bod yn bechaduriaid. Saif yr un gosodiad am ddewis un yn offeiriad. Yr egwyddor sydd wrth wraidd y dewis, ar un ochr, yw honno: “Neshewch at Dduw, ac efe a nesha atoch chwi” (Iago iv. 8); ac ar yr ochr arall, “Yr ydym ni yn ei garu ef, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni.” Duw o'i ras sydd yn gwahodd dyn i gyfamod; dyn o'i ewyllys, sydd yn cydsynio. Yn y cydsyniad

* Gwel Cremer, *Lex. a Delitzsch* ar Hebraeid vii. 22; ac ereill. † *Old Testament Theology*, tud. 180.

y mae dyn yn dewis Duw, a Duw yn dewis dyn, a'r ddau ddewis yn gydfynedol, ac yr un mor hanfodol angeurheidiol i wneyd y dewis yn gyflawn. Os felly, y mae dyn yn "sanctaid," nid yn unig am fod Duw wedi ei neillduo, ond am fod dyn wedi ei neillduo ei hun; nid yn unig am fod Duw wedi dewis dyn, ond hefyd am fod dyn wedi dewis Duw. Yn hyn oll eglur yw gras Duw yn ymostwng tuag at ddyd er yn bechadur, ac yn ymddiddan âg ef ynghylch y cyfamod, fel "gŵr â'i gyfaill." Am hynny fe ddewisodd Duw genedl Israel i fod yn "frenhiniaeth o offeiriad" yn ol amodau y cyfamod, am mai hi oedd yr unig genedl oedd yn barod i ymgyfamodi â Duw; ac ofer yw dweyd y gwrthodasai unrhyw genedl arall fuasai yn meddu yr un parodrwydd. Nid wyf yn gwybod am ffordd arall i osod allan y gwirionedd hwn, oddieithr fel hyn: Yr oedd Duw yn dewis cenedl Israel yn "genedl sanctaid" iddo ei Hun o herwydd ei rhagoriaethau cenedlaethol, gan nad pa mor ychydig a bechan ydoedd o'i hystyried yn ol safon perffeithrwydd. Cyfamod yw'r syniad oedd wrth wraidd y dewis; ac y mae, Yr wyf fi yn dy ddewis di am dy fod di yn fy newis i, yr un mor wir am y naill ochr a'r llall yn y cyfamod hwn ag yw am y cyfamod rhwng gŵr a gwraig.

Yn wyneb hyn gwir yw fod yr offeiriad yn sanctaid (Num. xvi. 4—5) am fod Duw wedi eu dewis, yn gystal ag am fod dyn wedi cydsynio. Yr oeddynt yn neillduedig at wasanaeth Duw am fod Duw wedi eu neillduo, yn gystal ag am eu bod hwy wedi neillduo eu hunain. Dyma y cyfamod a wnaed rhyngddynt. Ar ol gwneyd y cyfamod, y mae yr offeiriad yn sanctaid i Dduw, a Duw yn sanctaid iddynt hwythau; a'r naill yn agoshau at y llall. Dyn, fel offeiriad, yn agoshau at Dduw i ddal cymundeb âg Ef, ac i gyflwyno ei fywyd yn aberth byw, sanctaid a chymeradwy gan Dduw; a Duw, fel Awdwr bywyd, yn cynnal dyn i sylweddoli y bywyd perffaith hwnnw. Eto nid oes grybwyll am weithredu dros ereill.

3. Ni raid colli amser na gwastraffu gofod i ddangos fel y mae y syniad hwn yn cyfateb i ddysgeidiaeth y Beibl am wir ystyr a natur aberth.* Os ymgysgriad i Dduw yw ystyr uchaf aberth, yna ystyr uchaf swydd offeiriad ydyw agoshau at Dduw i ddal cymundeb âg Ef, i gyflwyno aberth iddo, ac i dynnu nerth o'r cymundeb, modd y byddo yr aberth yn gyflawnach. Eithr nid ydys eto yn crybwyll am aberth dros bechod. Fel y dangoswyd fod lle i aberth ar wahan i, a phe na buasai pechod, felly hefyd y mae lle i offeiriadaeth pan nad oes pechod. Nid pechod roddodd fod i offeiriadaeth nac aberth; mae'r naill a'r llall yr un mor dragwyddol ag yw bwriad Duw o greu dyn. Yr oedd y naill a'r llall yn y cynllun bore cyn rhagweled pechod.

Gan hynny y mae ystyr y gair Hebraeg am offeiriad, a dysgeidiaeth Numeri xvi. 4, 5, a manau ereill, yn cydolygu ar hyn: Agoshau at Dduw yw hanfod gwaith dyn fel offeiriad, a hynny yn gyntaf drosto ei hun. Nid yw y naill na'r llall yn sôn am weithredu dros ereill. Ac â hyn y cytuna dysgeidiaeth y Beibl ar aberth yn ei ystyr uchaf; nid oes wahaniaeth pa mor berffaith y byddo dyn, nid yw yr angen am hyn ronyn llai. Mae'r angen am dano mor gyffredinol a thra-

* Gwel TRAEHODYDD, 1894, tud. 172—4.

gwyddol ag yw bod byd moesol fel rhan o'r cynllun Dwyfol. Gall-
asem yma ymofyn ynghylch y syniad o Gyfryngdod, a cheisio dangos
sut y daeth i gael ei gysylltu âg offeiriadaeth. Mae yn destyn teilwng
o'r ystyriaeth fwyaf pwylllog; eithr nid dyma'n hamecan yn yr erthygl
hon, ond dangos fod yr Iesu yn offeiriad drosto ei hun.

Os yw yr esboniad uchod yn deg a chywir—a chredwn ei fod,—y
mae un neu dda: i o wirioneddau yn dra eglur. (1) Gan y gallai fod
offeiriadaeth heb bechod, yna gallai yr Iesu fod yn offeiriad drosto ei
Hun. (2) Gan y buasai offeiriadaeth yn hanes dyn ar wahân i
bechod, a hynny am ei fod yn angenrheidiol i bob bod moesol o
greadur, yna disgwyliem i'r Iesu fod yn offeiriad drosto ei Hun. (3)
Gan ei fod yn wir ddyn, yna yr oedd hyn yn ffaith yn ei hanes;
onidê, yr oedd un o amodau bywyd dyn yn aros ynddo Ef heb ei
gyflawni, ac yna nid oedd yn gyflawn ddyn. Ymddengys y casgl-
iadau hyn i mi yn anocheladwy.

Oddiwrth gasgliadau, trown at Hanes yr Iesu; a'r gwaith o'n blaen
yw cael allan a oedd Efe yn agoshau at Dduw drosto ei Hun. Eithr
cyn hynny fe ddylem ymholi yn fwy manwl pa beth a olygwn wrth
agoshau at Dduw. Mae'r ymadrodd yn dra eang, yn ddigon eang ei
ystyr i osod allan holl ymagweddiad ysbryd dyn yn ei berthynas
â Duw, a cheir ef yn aml yn yr Ysgrhythrau, dan wahanol enwau neu
ffigyrâu.* Nid dyma'r amser i olrhain hyn; digon yn awr yw sylwi
fod yr ymadrodd yn ddigon eang i gynnwys holl weithrediadau
meddwl dyn,—mewa deall, teimlad, ac ewyllys. Mewn deall, y mae
dyn yn agoshau at Dduw trwy feddwl meddyliau Duw drosodd
drachefn; mewn teimlad, trwy garu Duw a'i gymydog fel ef ei hun;
mewn ewyllys, trwy "wneuthur bob amser bob peth sydd foddol
ganddo Ef." Yn yr ystyr yma y mae'n bosibl i ddyn "weddio
yn ddibaid;" ac y mae'n ddiameu, oni buasai am bechod, mai dyma
fuaasai hanes dyn; ac ar ol cael gwaredigaeth oddiwrth bechod dyma
fydd ei gyflwr gwastadol a thragwyddol.†

Ond i gymhwyso hyn at hanes yr Iesu—cans dyna yw ein gwaith
yn awr—dechreuwn gyda gair loan am dano yn ei Epistol cyntaf (i. 2).
Yma cawn y peth nesaf i ddefiniad o fywyd tragwyddol, os nad yw,
yn wir, i'w ystyried yn gwbl felly. Am berthynas y Mab a'r Tad, fe
ddywed, "Yr hwn oedd gyda'r Tad," neu yn fwy cywir, "Yr hwn yn
wir oedd yng nghyfeiriad y Tad." Fel bywyd yr oedd yn ymsymud, yn
gweithredu, a hynny bob amser a than bob amgylchiad yng nghyfeiriad
y Tad, er ei ogoniant a'i anrhydedd. Dyma y bywyd tragwyddol a
ddatgunddiwyd trwy y Mab, ac a eglurhawyd yn ei fywyd hanesyddol i'r
disgyblion gafodd y fraint o fwynhau ei gymdeithas agosaf. Yng
nghyfeiriad y Tad yr oedd meddwl, teimlad, ac ewyllys yr Iesu
yn gweithredu pan ar y ddaear yn ei sefyllfa o ddarostyngiad, yn
gystal a chyn hynny yn ei berthynas â'r Drindod. Os newidiwn
y chydig ar y frawddeg hon, hynny yw, os mynegwn weithrediad
y bywyd oedd bob amser, o ran cyflwr, yng nghyfeiriad y Tad,
y frawddeg agosaf i wneyd hyn yw hon: Yr oedd yr Iesu bob amser

*Paul yn Rhufeiniaid v. 2, "dyfodfa;" Ephesiaid ii. 18, iii. 12; 1 Pedr iii. 18,
"d)gai;" Lago iv. 8, "nessau." †Cymharer Strong, Systematically Theology, tud. 685.

yn ystod ei fywyd o ddarostyngiad yn agoshau at Dduw ei Dad, a hynny yn gyntaf drosto ei Hun fel un ag oedd wedi ei wneuthur dan ddeddf. Dysgeidiaeth y Tad oedd Efe yn ei dysgu (Ioan viii. 28, xiv. 24); yng nghariad y Tad yr oedd Efe yn aros (Ioan xv. 10); ac ewyllys y Tad oedd moddion cynhaliaeth a chynnydd ei fywyd Ef yn y byd (Ioan iv. 34). Ymhob agwedd ar ei fywyd ysbrydol, yr oedd Efe yn agoshau at y Tad pan yn y byd. Os felly, yr oedd yn cyflawni gwaith hanfodol offeiriad; ac fel y cyfryw gallai ddweyd, "Ni adawodd y Tad fi yn unig!" (Ioan viii. 29). Yr oedd yr agoshad rhwng yr Iesu a'i Dad yn wastadol, y cymundeb yn ddidor, a'r offeiriadaeth yn berffaith.

Gall na theimlir un anhawster i gydsynio â hyn: cred pawb fod bywyd yr Iesu yn fywyd o gymundeb parhaus â'r Tad, ac nis gellir gwadu nad dyma hanfod gwaith dyn fel offeiriad. Y cam nesaf yw yr anhawddaf i lawer, Fod yr Iesu yn offeiriad drosto ei Hun. Mae gweddillion yr athrawiaeth Docetaidd am yr ymgnawdoliad wedi aros yn yr eglwys hyd y dyddiau diweddaf hyn, ac yn parhau i godi gwrthddadleuon beunydd yn erbyn pob esboniad sydd yn gwneyd hanes yr Iesu yn hanes cyflawn gwir ddyn. O'r cyfeiriad hwn yn unig y gellir codi gwrthddadl yn erbyn y golygiad a fyntumiwn; a'r cwestiwn yw, pa angen am hyn, gan ei fod yn wir Dduw? Mewn atebiad, gallwn ddweyd ei fod Ef ar yr un pryd yn wir ddyn. Nid *sham* nac actio, fel ar fwrdd chwareufa, oedd ei fywyd Ef. Os yw Duw wedi trefnu i ddyn fod yn offeiriad drosto ei hun ar wahan i bechod, h.y., os yw offeiriadaeth yn un o amodau bywyd tra-gwyddol, disgwylasem i'r Iesu ei Hun gydymffurfio â hyn, a chredwn iddo wneyd. Ond paham drosto ei Hun? Wel, am ei fod yn wir ddyn. Êto, hwyrach y dylid manylu ar yr ateb hwn er mwyn eglurhad; a hynny a geisaf wneyd trwy alw sylw at ymadrodd yr Apostol Paul, lle y dywed am Fab Duw, ei fod "wedi ei wneuthur dan ddeddf" (Galat. iv. 4). Nid dan y ddeddf a ddywedir; ac felly ni pherthyn i ni ofyn pa ddeddf y cyfeiriai yr Apostol ati. Erbyn hyn rhaid i esbonwyr fod yn fanwl gyda'r fannod yn Groeg.* Nid dan unrhyw un ddeddf a ddywedai yr Apostol, ond dan ddeddf; ac y mae yr ymadrodd yn ddigon eang i gynnwys pob deddf sydd yn perthyn i fywyd dyn, yn anianyddol a meddyliol, yn naturiol a moesol, yn eneidol ac ysbrydol,—holl amodau bywyd dynol. Nodwedd fawr bywyd dan ddeddf yw cynnydd; ac yn gyfochrog â, os nad yn achos o gynnydd, y mae ymdrech. Er sicrhau fod y cynnydd hwn yn gynnydd perffaith, y mae cymundeb â Duw yn hanfodol angenrheidiol. Ar un llaw y mae yn achos, ac ar y llaw arall y mae yn effaith cynnydd perffaith. A oedd yr amodau hyn yn cael eu cyflawni ym mywyd yr Iesu? Os oedd yn wir ddyn, rhaid eu bod. Beth yw ei hanes? Onid un o'r goiriau cyntaf am dano yw iddo "gynhyddu a chryfhau yn yr ysbryd, yn gyflawn o ddoethineb" (Luc ii. 40)—geiriau sydd yn cyfro y deuddeng mlynedd cyntaf yn ei fywyd. Rhydd Luc brawf o gywirdeb y gosodiad hwn pan y dyry hanes yr Iesu gyda'r doctoriaid yn y deml. Am y gweddill o'i fywyd dywed eiriau cyffelyb ond mwy manwl: "A'r Iesu a gynyddodd mewn doethineb a chorffolaeth, a ffafr [gwel gras] gyda Duw a dynion" (ii. 52). Dyma briodoli

* Gwel Lightfoot ar Galatiaid. iv. 4.

cynnydd mewn corff, mewn gwybodaeth, a gras i'r Iesu; ac felly dyma brawf o wirionedd gosodiad Paul, iddo gael ei "wneuthur dan ddeddf." Eto, yr oedd ymdrech yn hanes cynnydd yr Iesu: mewn corff, canys bu yn gweithio â'i ddwyllaw waith saer, fel y gellir casglu yn ddiamheuol oddiwrth yr efengylau; mewn gwybodaeth, canys y mae ei wybodaeth o'r ysgrythrau, ei ddull o'u dyfynnu ac o'u hesbonio, yn eglur ddangos ei fod yn casglu gwybodaeth fel ninnau; ac mewn gras, oblegid fe ddywed Ef ei Hun mai ei fwyd ysbrydol, moddion ei gynnydd yn ei berthynas â Duw, oedd "gwneuthur ewyllys yr hwn a'i hanfonodd." Yn hyn oll, y mae swn ymdrech un oedd dan ddeddf cynnydd ymhob rhan o'i fywyd o ddarostyngiad, i'r Hwn yr oedd cymundeb parhaus â Duw yn hanfodol angenrheidiol tuag at sicrhau cynnydd perffaith.

Pallai amser a gofod i ni fyned yn fanwl trwy yr Efengylau i ddangos fel y mae hyn yn cael ei gadarnhau; eto, nid wyf yn foddlon i'w ollwng heb gyfeirio at ddau beth, neu yn hytrach roddi dwy engraifft,—un o waith Anselm, a'r llall o hanes gweddïau Iesu Grist. Dengys y dyfyniad hwn o Anselm berthynas marw â'r Iesu fel dyledswydd bersonol, yn hytrach nag fel rhan o'r Iawn yn yr ystyr feichniol. Yr wy'n dyfynnu o'r cyfieithiad Cymraeg o'm heiddo sy'n awr yn barod i'r wasg. Mae B yn sefyll am Boso, y disgybl, ac A am Anselm yr athraw. Ar ol dyfynnu amryw adnodau dywed B:—

B. Oddiwrth yr adnodau hyn ymddengys i mi ddarfod i Grist farw, nid am ei fod yn ufuddhau o'i wir fodd, yn gymaint ag am ei fod dan rwymau i ufuddhau.

A. Rwy'n methu gweld dy fod yn iawn ddeall y gwahaniaeth rhwng yr hyn a wnaeth yr Iesu am ei fod dan rwymau i ufuddhau, a'r hyn y goddefodd i ereill wneyd iddo, am ei fod yn dewis ufuddhau.

B. Rhaid i mi gael mwy o oleuni ar hyn.

A. Pam y dartu i'r Iddewon ei erlid hyd angu?

B. Nid am un rheswm ond ddarfod iddo ar air a gweithred llynu yn ddiysgog wrth gyfiawnder a gwirionedd.

A. Gwir; ac rwy'n credu fod Duw yn gofyn hyn oddiwrth bob creadur rhesymol, ac y mae'n ddyledswydd arno ufuddhau iddo.

B. Rhaid caniatáu hynny.

A. Dyma'r ufudd-dod, gan hynny, ag yr oedd yn ddyledswydd ar y dyn hwnnw [sef Iesu Grist] ei roddi i Dduw Dad,—dyledswydd dynoliaeth i'r Duwdod; a dyma'r ufudd-dod a ofynnid oddiarno gan y Tad.

B. Nid oes neb yn ameu hyn.

A. Dyna i ti ynte yr hyn a wnaeth am ei fod dan rwymau i ufuddhau.*

Dengys y dyfyniad hwn fod dyledswydd bersonol yn aros ar yr Iesu fel un dan ddeddf,—sef, y ddyledswydd o llynu wrth y gwir; ac yr oedd yn ddyledswydd ar wahân yn lollol i bob cysylltiad cyfryngol rhyngddo ef a phlant dynion,—mewn gair, yn ddyledswydd drosto ei Hun fel un dan ddeddf, yn yr un ystyr yn hollol ág y buasai ar bob dyn pe heb bechod, ac y mae ar bob Cristion wedi derbyn maddeuant o'i bechod. Gwaith hanfodol dyn fel offeiriad i Dduw yw neshau at Dduw; ac un ffurf ar y neshad yw rhoddi ei hun yn aberth byw o llywr ymgysgriad i Dduw a'i gyfiawnder. Gwnaeth Iesu Grist hyn, ac am hynny y mae yn offeiriad drosto ei Hun.

Eto: cymerer trem ar weddïau yr Iesu, a chredwn y dysgir yr un gwirionedd. Cawn fod yr Ysgrythyr yn defnyddio tri gair gwahanol i olygu gweddi, a'i bod yn cysylltu un gair arall â'r tri hyn er dangos

* Cur Deus Homo, I. viii.—ix.

fod yr elfen honno i fod ymhob gweddi. Mewn un man yn y Testament Newydd yn unig y cawn y pedwar gyda'u gilydd, sef yn 1 Timotheus ii. 1 ;—"ymbiliau, gweddïau, deisyfiadau, a thalu diolch." Defnyddir tri o'r rhai hyn am Iesu Grist yn gweddïo, neu ganddo Ef ei Hun mewn gweddi, un ai yn y fuff o enw neu ferf,—sef, "ymbiliau, gweddïau" a "thalu diolch." Dechreuwr gyda'r olaf. Dywed yr Iesu wrth fedd Lazarus : "Y Tad, yr wyf yn *diolch* i ti am i ti wrandaw arnaf" —h.y., yn yr amgylchiad hwn—"ac myfi a wyddwn dy fod di yn fy ngwrandaw bob amser ;" h.y., nid yn unig ar yr amgylchiad hwn, ond ar bob amgylchiad ag y byddai yn gweddïo arno. Yr un modd yr oedd yr Iesu yn diolch wrth dorri y bara yng ngwyrth porthi y pedair mil, ac ar y swper diweddaf.* Nid yr un gair eithr bron yn hollol yr un ystyr geir yn Matthew a Luc, lle y dywed, "Yr wyf yn diolch i ti, O Dad."† Un waith y ceir y gair a gyfieithir yma "ymbil" yn cael ei ddefnyddio am yr Iesu, a hynny gan yr Iesu ei Hun pan weddiodd na ddiffygai ffydd Petr.‡ Eithr y mae yr Iesu yn ei ddefnyddio yn aml yn ei anogaethau i'w ddisgyblion.¶ Y gair a ddefnyddir amlaf am weddiö yr Iesu yw y gair a gyfieithir yma yn "gweddïau," a dyma y gair ddefnyddir amlaf o lawer yn y Testament Newydd am weddiö. Fe'i ceir am neu gan yr Iesu, ar dri ar ddeg o wahanol amgylchiadau a groniclir yn yr Efengylau. Dyma yr ehangaf ei ystyr o'r tri, a gellir dweyd ei fod yn cynnwys y ddau ereill, yn gystal â'r pedwerydd, pan eu defnyddir am weddiö ar, a thalu diolch i Dduw§ Am weddiö ar dduw neu dduwiau y defnyddir ef bob amser yn y clasuron; ac y mae, ar ol ei arfer am oesoedd, yn gysegredig ei ystyr a'i gynnwys. O'i gymharu â'r geiriau ereill, dynoda agwedd ddefosiynol y meddwl pan yn erfyn, deisyf, neu dalu diolch. Yn yr ystyr hon gellir gweddïo yn ddibaid. Elfennau neillduol yn y defosiwn yw ymstyngiad, cydnabyddiaeth gywir o ddibyniad hollol ar wrthrych y weddi, yn gyplusedig â myfyrdod tawel a dedwydd ar ei ragoriaethau, o'u cymharu â diffygion y gweddiwr. Yr oedd Kepler yn gweddïo pan, wedi darganfod llwybrau y ser, y torrodd allan ac y llefodd: "O Arglwydd, fy Nuw; yr wyf fi yn meddwl dy feddyliau Di ar dy ol." Felly hefyd Awstin, pan yn traethu ei hanes ei hun wrth ysgrifennu ei "Gyffesion." Dyma ddefosiwn pur. Eto y mae mwy na hyn yn y gair; gall olygu deisyfiad, erfyniad, neu dalu diolch, yn ol fel y bo gwahanol amgylchiadau. Credwn ei fod yn cynnwys pob un o'r ystyron hyn yn hanes Iesu Grist. Dywedir fod gweddïo yn un o'i arferion (Luc xxii. 39); a chroniclir un ffaith sydd yn dangos fod rhai llanerchau yn gysegredig ganddo i'r gwasanaeth hwn. Unwaith dywedir iddo barhau drwy y nos yn un o'r llanerchau hyn,—tŷ neu fan gweddi, fel y gelwid hwy gan yr Iuddewon (Luc vi. 1): ac y mae yr amgylchiadau yr oedd ynddynt ar y pryd yn eglur ddangos nad myfyrdod defosiynol pur a thawel yn unig a barai iddo wneyd hynny, eithr hefyd pryder dwys a difrifol ynghylch dewis Apostolion. Gweddïai am fendith ar, ac amddiffyniad Duw dros ereill; ** am fendith

* Ioan xi. 41; Matthew xv. 36; Marc viii. 6; Luc xxii. 19. † Matthew xi. 26; Luc xx. 21. ‡ Luc xxii. 32. § Matthew ix. 88, "atolygwob;" Luc x. 2; xxi. 36, &c. § Cremer, Lex. tud. 720; cymharer Grim-Thayer Lex. tud. 126. ** Marc x. 16; Luc 82, xxiv. 50; Ioan xvii. 9.

ar y bwyd ;* pan yn anterth ei hoblogrwydd ; † pan ei bodyddiwyd (Luc viii. 20) ; pan ei gweddnewidiwyd (Luc ix. 29) ; cyn gofyn i'w ddisgyblion y cwestiwn mawr (Luc ix. 18). Gweddiodd mor gynted ag y deallodd fod y Phariseaid yn elynion calon iddo (Luc vi. 12) ; pan y deallodd nad oedd dim ond dioddef o'i flaen (Luc ix. 28). Ac nid oes gweddïau mwy erfyniadol a phersonol i'w cael na gweddïau ing Gethsemane. Danghoſwyd perthynas gweddïau yr Iesu â phechod fel y mae yn pentyrn anhawsterau o flaen y duwiol yn yr ysgrif y cyfeiriwyd ati uchod ; ac y mae yr un mor eglur nad pechod oedd yr unig anhawster o flaen yr Iesu a barai iddo weddio ar Dduw. Ynglyn â phob anhawster yr oedd Efe mewn ymdrech meddwl, er nad un mor chwerw ag ing Gethsemane. Yn a thrwy yr ymdrech honno yr oedd yn cynyddu mewn gras trwy gymorth gweddi ; ac yn ei weddïau yr oedd yn cydnabod fod ei gynnydd o Dduw ; tra wrth weddio yr oedd yn agoshau at Dduw mewn trefn i gyflwyno ei fywyd iddo, a'i aberthu erddo yn aberth byw, sanctaidd a chymeradwy. Ar ol elfennu ei weddïau yn fanwl, nid oes dim yn fwy amlwg na'i fod Ef yn gweddio drosto Ei hun yr un mor wirioneddol a thros ðreill. Os felly, yr oedd yn agoshau at Dduw drosto ei Hun, ac am hynny yn gwneyd gwaith offeiriad drosto ei Hun.

Credwn fod digon yn y sylwadau byrion hyn i ddangos y posibilrwydd, ie yr angenrheidrwydd, a'r ffaith fod yr Iesu yn offeiriad drosto ei Hun. Fe allai fod rhywun yn barod i ddweyd nad yw hyn oll ond mater o eiriau. Bid a fynno, y mae yn perthyn iddo un fantais : y mae yn gwneyd dynoliaeth yr Iesu yn fvy cyflawn a pherffaith, a haws ei deall i Gristionogion ; a chredwn hefyd ei fod yn profi unoliaeth dysgeidiaeth y Beibl ar offeiriadaeth, ac yn rhoddi sail fyw ac nid dychmygol i Athrawiaeth yr Iawn.

WILLIAM GLYNNE.

BETH YW BYWYD ?

BETH yw bywyd ? Dim ond cysgol
 Yn ymddangos ar y ddôl,
 Wedi ennyd fer yn darfod
 Ac heb adael dim o'i ol ;
 Hyn yw bywyd, eto sylwedd
 Ydyw mwy na heuliau'r nen :
 Pery ar ei dreigliad rhyfedd
 Wedi dirwyn oesau i ben.

* Matthew xiv. 19 ; xxv i. 26, &c. † Marc i. 37 ; Luc v. 16 ; Luc vi. 46, &c.

Beth yw bywyd ? Blodyn swynol
 Yn prydfferthu gardd y byd,
 Wedi cylech o ddyddiau siriol
 Darfind wna ei swyn i gyd :
 Hyn yw bywyd, ond blodeua
 Eto ym mharadwys Duw,
 Tra pelydrau heuliau Gwynfa,
 Pery yntau 'n hardd a byw.

Beth yw bywyd ? Canwyll fechan
 A gynheuodd Duw ei Hun,
 A'i goleuni llwydaidd egwan
 A ddiffoddir gan ryw ffun ;
 Felly tybir, ond mae 'n cynneu
 Draw trwy niwloedd angeu prudd,
 A phan dderfydd hwyr a boreu
 Llewyrch hon yn ddiaglaer fydd.

Beth yw bywyd ? Gauaf trallod
 Yw ei hanes ar y llawr ;
 Tyr y cwmwl diagyn cawod
 Dafnau breision gofid mawr ;
 Dyna fywyd, ond mae hafddydd,
 Iddo mewn tragwyddol fyd,
 Gyda 'r dyrfa bur a dedwydd
 Yng nghymdeithas Duw o hyd.

Beth yw bywyd ? Rhywbeth agos,
 Nês na 'r awel ysgafn sydd,
 Nês na thrwm dywyllwch dunos,
 Nês na goleu canol dydd ;
 Agos ydyw, pellach hefyd,
 Na hynt bell dychymyg dyn,
 Pwy erioed a welodd fywyd ?
 Pwy all ddweyd ei liw a'i lun ?

Beth yw bywyd ? Holaf eto :
 Ton ar draethu 'r eigion mawr,
 Geir am eiliad yn ymgrwydro
 Ar ororau daear lawr :
 Ond bydd eto 'n curo glannau
 Tragwyddoldeb Duw ei Hun,
 Uwch dirnadaeth ein meddyliau,—
 Dyna ydyw bywyd dyn.

CHARLES O'R BALA FEL CYMREIGYDD.

Er bur Eiriadur, eglur, rhywioglon,
A wnaeth, sydd bennaeth helaeth hylon,
Ar wiw lyfrau Cymru oleufron,
O waith ei dewraf ddoeth awduron ;
Gwiwsail athrawiaeth gyson,—peth a fydd,
Nes derfydd cynnydd pob amcanion.

PERTHYNA i Thomas Charles o'r Bala safle eithriadol ymhlith ysgrifenywyr Cymreig, ac yn wir y mae ei ddylanwad ar grefydd ac athrawiaeth cyfran helaeth a phwysig o genedl y Cymry heb gymar iddo yn hanes crefydd a llenyddiaeth unrhyw wlad Brotestanaidd. Prin y gellid dyfod o hyd i well datganiad a daughoseg o berthynas Thomas Charles a Chymru, yn ei gymeriad o awdwr a duwinydd, nag a osodir allan yn y llinellau athrylithgar a ddyfynnwyd gennym o farwnad arobryn Ieuan Glan Geirionnydd, yr hon oedd, yn ol barn Gwalchmai, un o'r awdlau cyntaf a gyfansoddwyd gan y bardd seraffaidd. Er mai Cyfundeb y Methodistiaid Calffinaidd ydyw yr enwad Cymreig sydd wedi cael dylanwadu arno fwyaf gan ddysgeidiaeth ac athrawiaeth Thomas Charles, eto nid yw hyd yn oed yr enwadau a wrthodant rannau arbennig o'i dduwinyddiaeth, heb brofi cryn fesur o effeithiau ei ymdrechion i ddehongli'r Beibl i'w gydgenedl. Gan hynny, buddiol ac adeiladol ydyw pob ymchwiliad i'w ddysgeidiaeth a'i deithi meddyliol, nid yn unig i Fethodistiaid, ond hefyd i bawb a deimlant ddyddordeb yn hanes y ffydd yng Nghymru yn y ganrif bresennol. Eithr nid ydym ar hyn o bryd yn bwriadu myned ar draws mwy na chornel o'r maes eang hwn, er mor ddeniadol a fyddai olrhain effaith dysgeidiaeth glasurol, eglwysig, a duwinyddol Thomas Charles, ar ei ddeongliadaeth a'i esboniadaeth o'r Ysgrhythyr Lân. Dichon y cymer ereill at y gwaith pwysig o ddadblygu bywgraffiaeth ac astudiaeth feirniadol o brif awduron ein cenedl, canys prin y gellir dweyd ein bod eto wedi cyrraedd tir digon uchel yn y gelfyddyd o ddadansoddi a chymharu ceinion ein llenyddiaeth. Hwyrach mai *Geiriadur* Charles oedd y llyfr Cymraeg cyntaf a ddarllennodd amryw o honom, ac feallai hefyd mai hwn oedd yr unig un a fu am hir amser yn ein meddiant. *Hyfforddwr* Charles oedd corff ein duwinyddiaeth, ac ni choleddasom am foment yr un cysgod o amheuaeth nad ydoedd yn anffaeledig. Ond yn ddiaw, y *Geiriadur* yw'r llyfr sydd hyd y dydd hwn wedi dylanwadu fwyaf, nid ar y Methodistiaid yn unig, ond hefyd ar y genedl Gymreig yn gyffredinol ; a'r ffaith mai i Eiriadur, yn hytrach nag i gorff ffurfiol o dduwinyddiaeth, neu restr o erthyglau, neu esboniad rhannol neu gyfran o'r Gair, y mae apêl y Methodistiaid ar faterion o athrawiaeth neu reolaeth,—y ffaith hon sydd yn gwneyd sefyllfa Thomas Charles fel dysgawdwr yn eithriadol. Rhaid priodoli awdurdod Charles o'r Bala, i raddau helaeth iawn, i amgylchiadau hanesyddol. Yr oedd efe, fel pe yn ffurfio y trydydd aelod o'r drindod a sylfaenodd Fethodistiaeth, ac a roddodd hefyd fywyd newydd i'r chwaer-enwadau. Os

gellir dweyd fod Howell Harris yn ddanfonedig o Dduw i efengylu, a William Williams i roi iaith newydd i foliant a chân, diau mai gorchwyl penodedig Thomas Charles ydoedd athrawiaethu. Fel y darfu i John Calvin gyflwyno blynyddoedd gorau ei oes i gyfansoddi cyfundaethau manwl o athrawiaethau a deddfau er cyfarwyddyd i Brotestaniaeth, felly hefyd, ar raddfa lai, y gwnaeth Thomas Charles dros y Methodistiaid a'r Cymry oll. Cyhoeddwyd y *Geiriadur* yn 1805,* chwe blynedd cyn ymfurfiad Methodistiaeth yn Gyfundeb ar wahân oddiwrt h Eglwys Loegr; a gellir edrych ar y parch a'r warogaeth a dalwyd gan arweinwyr Methodistiaeth ar adeg yr ordeinio cyntaf i safle ac urddas Thomas Charles fel ysgolhaig, fel ernes o'r pwysigrwydd y mae y Gyfundeb bob amser wedi ei osod ar wybodaeth ac esboniadaeth fanol a chywir o'r Gair. Yr oedd ymysgariad y Methodistiaid oddiwrt h Eglwys Loegr, fel eiddo yr Ymneillduwyr blaenorol, yn sylfaenedig ar apel newydd at Air Duw, gan dafu ymaith draddodiadau'r tadau ac erthyglau eisteddfodau'r Eglwys. O herwydd hynny, rhaid ydoedd wrth ddatganiad pendant o athrawiaeth, megis ag ei ceir yn y *Cyffes Ffydd*, ac o *Reolau Disgyblaeth*, gyda chyfeiriad uniongyrchol at rannau o'r Ysgrhythrau fel cyfarwyddiadau yr Ysbryd Glân ynghylch y materion dan sylw. Naturiol, gan hynny, oedd i ddylanwad Thomas Charles fod uchaf yn ffurfiad y *Cyffes Ffydd* (1823), ac i hwnnw a'r *Geiriadur* gyd-fwynhau ymddiriedaeth lwyr af y Methodistiaid gyda golwg ar bob pwnc yr ymdrinid âg ef. Hwyt-hwy oedd yn derfyn ar bob ymrson, pa un bynnag ai ynghylch athrawiaeth ai ynghylch ystyr geiriau.

Amcan yr ychydig nodion hyn ydyw cael allau pa dystiolaeth a roddir gan y *Geiriadur* ei hun o ddsygeidiaeth Gymreig Thomas Charles. Diau mai hwn ydyw y pwnc hawddaf traethu arno o'r holl destynau a awgrymir gan y sylwadau uchod ynghylch dylanwad ei ddsygeidiaeth ef arnom fel cenedl, gan na fydd eisieu yngan gair ynghylch materion dyfnion athrawiaeth. Cofier mai ffrwyth myfyrdod o'r *Geiriadur* yn unig sydd dan ein sylw, ac nad yw'r ysgrifennydd wedi cael cyfleustra i wneyd ymchwiliad i dystiolaethau allanol o gynefndra Thomas Charles â llyfrau Cymraeg, megis gweled rhestr o'i lyfrau neu adwaeu ffeithiau ynghylch ei berthynas â llenorion Gymreig. Bid sicr, nid oes yr un sail i gredu fod y *Geiriadur* yn rhoddi i ni syniad cyflawn o ddsygeidiaeth Gymreig yr awdwr. Yn gyntaf, nid oedd egwyddorion *Geiriaduraeth* wedi eu llawn ddeall yn ei oes ef; a hwn oedd un o'r rhai cyntaf o'r *Geiriaduron* Ysgrhythrol Gymreig.† Er eng-raiff, ni chymerid cymaint o ofal ag a wneir heddyw, i roddi esiamplan o hen ystron neu hen orgraff geiriau, trwy ddyfyniadau allan o weithiau amryw awduron. Yn y lle nesaf, nid *Geiriadur* ieithyddol a llenyddol, eithr *Geiriadur* Ysgrhythrol a ysgrifenydd gan Thomas

* Rhoddir yma ddyddiad y *Bhagymadrodd* (Awst, 1805), a'r "Llyfr Cyntaf." Ceisir ymdrin yn ol llaw â Llyfryddiaeth y *Geiriadur*.

† Yn erthygl *Cymru* ar Thomas Charles, anghymeradwyr "yr awgrymiadau a defir allan gan rai, fod Mr. Charles wedi oymeryd mantais annheg ar *Eiriadur* John Roberts, o Gaergybi" (Cyf. II, tud. 819). Nid yw yn debyg fod Thomas Charles yn gwybod am y llyfr, canys dywed am ei eiddo ei hun, "Er nad oes prinder o [*Eiriaduron* Ysgrhythrol] yn ieithoedd eraill, y mae y Cymry, hyd yn hyn, wedi bod heb yr un."

Charles, ac felly, y mae arwyddocâd* ysbrydol y gwrthrych a enwir yn anfeidrol bwysicach na tharddiad, hanes, ac ystyr y gair a arferir i'w ddynodi. Yn drydydd, hwyrach y byddai dyfyniadau allan o rai awduron yn anweddaidd, yngolwg Thomas Charles a'i ddarllenwyr, mewn Geiriadur Ysgrythyrol, hyd yn oed pan roddent esiamplau godidog o ystyron arbennig ac eithriadol geiriau. Amlwg ydyw, gan hynny, nas gall y Geiriadur roddi i ni ond syniad amherffaith o gynefnindra'r awdwr âg awduron Cymreig.

I ddechreu, yr oedd yn gyfarwydd iawn, nid yn unig â'r Beibl Cymraeg awdurdodedig o ddiwygiad Dr. Parry, ond hefyd â'r cyfieithiadau blaenorol sydd oll, neu mewn rhan, yn gysylltiedig âg enwau William Salesbury, Richard Davies, Dr. W. Morgan, Thomas Huet, ac ereill. Heblaw hynny, yr oedd yn hyddysg yn aralleiriadau yr Archddiacon Edmund Prys o Salmau Dafydd. Mae'r Geiriadur yn cynnwys—gydag ychydig eithriadau a nodir rhagllaw—bob gair pwysig neu anghynhefin a geir yn y gwahanol gyfieithiadau Cymraeg, ac yn Salmau Edmund Prys, ac y mae am hynny yn ddefnyddiol iawn i egluro'r geiriau nodedig a geir, yn enwedig yn Salesbury a Phrys.

Afreidiol ydyw rhagdraethu ar hanes a natur y gelfyddyd o Eiriadur-aeth, gan fod y darllennydd yn ddigon cyfarwydd ag amcan Geiriadur. Y mae gwaith o'r fath yn gyflawn a pherffaith i'r graddau y mae yn ymdrin â'r holl eiriau a arferir yn y gangen honno o wybodaeth y mae a fyyno â hi. Os Geiriadur iaith gyfan ydyw, rhaid i'r llyfr, er mwyn bod yn awdurdod, gynnwys pob gair yn yr iaith, ynghyd a'u tarddiad a'u prif dreigliadau, eu harwyddocâd a'u cyfystyron. A thra y mae safon golygydd mewn llenyddiaeth i fod yn gyfryw ag i ennill ymddiried, nid yw yn ddigon iddo ef ddweyd beth yw yr ystyron neu'r ffurfiau a fu gan y gair, heb "adnod i brofi;" rhaid iddo ddwyn engreiffitiau o arferiad y gair gan yr awduron sydd yn dangos safon yr iaith o bryd i bryd. Ond nid yw dyfyniad brawddeg a fyddo yn cynnwys gair neillduol o unrhyw wasanaeth at roi engrafft o ystyr y gair, oni fydd y cysylltiadau yn gyfryw fel nas gall y gair gyfleu yr un meddwl arall, ond yr hwn a briodolir iddo yn nehongliad y Geiriadur. Er engrafft, cymerwn yr erthygl ganlynol, ar antur, o Eiriadur Charles:—

PENTEWYN-ION; (pen-tewyn) tewyn o dân; bonffaglydd, terfysgwr.

"Gwae y cynhenus mewn gwlad! Pentewynion uffern ydynt."—*Mor. Llwyd.* †

"Onid *pentewyn* yw hwn wedi ei achub o'r tân." Zech. iii. 2. Edr. *Josua.*

Yn awr, dengys yr erthygl hon fod Thomas Charles wedi darllen peth o waith Morgan Llwyd o Wynedd, yn gystal â phroffwydoliaeth Zechariah. Ond byddai rheolau ysgolheigddod y dyddiau hyn yn ei orfodi i ddweyd mai yn *Llyfr y Tri Aderyn* y cafodd y frawddeg gyntaf, a chan nad oes penodau ynddo, byddai raid iddo nodi y tudalen mewn argraffiad penodol o'r llyfr. Ond prin y mae y dyfyniad o Morgan Llwyd yn un help i ddeall ystyr lythrennol, chwaithach ystyr ddamhegol y gair *pentewyn*. O'r ochr arall, ychydig uwch i fyny ceir

* Dyddorol sylwi ar orgraff y geiriau lle acennir eu hirsain olaf, yn yr Argraffiad a'r Gyntaf a'r Ad-argraffiad; megis *Arwyddocâd, Cyflawnhaad, Eglurhaad.* † Yn yr argraffiad cyntaf, argreffir y brawddegau hyn fel pe baent linellau o farddoniaeth.

yr erthygl PENGUWCH,* gyda brawddeg o *Hen Ddeddfau* : "Penguwch melyn a wisgai merch newydd-weddawg." Amlwg ydyw ar unwaith mai math o wisg yw penguwch. Eto, nid yw ddiagon i ddadansoddi penguwch i pen cuwch, er mwyn egluro ei ystyr. Dylasai fod esboniad pellach o ystyr y gair *cuwch*, lle yn ddiau y gallesid dyfynnu y frawddeg *tan ei guoch*, tebyg i'r *tan ei ysgafell* a geir yn nhudalennau cyntaf *Gweledigaeth Cwrs y Byd*, gan y Bardd Cwag.

Wele restr o awduron ac enwogion Cymreig y cyfeirir atynt yn y Geiriadur:—H. Davi, Tudur Aled, M. Llwyd, Goronwy Owain, T. Salisbury, W. Wyn, W. Middleton, Cynddelw, Sion Cent, Llywarch, Casnodyn, Cato Gymreig, St. Ffagan, Taliesin: ond anaml iawn y cawn gyfeiriad at y gwaith y cymerir y dyfyniad o hono. Cawn hefyd ddarnau o'r Cyfreithiau Cymreig a'r Barddas, Deddfau Hywel Dda, y Trioedd, a Diarhebbion lawer. Tueddar fi i gredu, oddiwrth yr erthyglau ar yr *Eryr*, y *Golomen* a'r *Gigfran*, ac yn enwedig y nodion ar "Loches y grisiau," fod Charles yn lled gyfarwydd â *Llyfr y Tri Aderyn*; ond ar yr un pryd, rhyfedd nad yw yn cyfeirio, yn ei esboniad o'r gair *Defni*, at y frawddeg "Mae'r eglwysydd yn gollwng defni, a'r distiau yn pydru,"—dyfyniad o'r fath oreu at egluro ystyr y gair *defni*.

() fanwl ddarllen y Geiriadur, down ar draws lliaws o ffeithian dyddorol. Fel y digwydd yn fynych mewn llyfrau dysgedig, mae'r tamsidiau melusaf o wybodaeth i'w cael mewn troed-nodion. Dengys rhai o honynt fanylder gwybodaeth lyfruddiaethol yr awdwr. Er engraifft, dywed fod y gair *cyflafaredd*† wedi ei gamargraffu yn *gyfaredd* mewn "argraffiadau diweddar o'r Beibl, a'r Llyfr Gweddî Gyffredin hefyd." Hen gamp ysgrifenyddion neu gysodwyr anwybodus ydyw i hoddî y gair hawddaf yn lle'r caletaf, canys diarwybod iddynt y rheol *praestat difficillima lectio!* Gwelwn mor awyddus oedd yr argraffwyr i andwyo orgraff Dr. Morgan, yn y nodyn fod *diniwed*, ar ol 1752, yn cael ei argraffu yn *diniweid*. Yn yr argraffiadau rhwng 1752 a 1799 yr oedd *na* wedi ei adael allan o'r adnodd "na nesewch ati," &c. (Josua iii. 4). Rhydd gerydd i'r rhai a geisient gyfnewid geiriad y Beibl Awdurdodedig Cymraeg yn rhai o'r lliaws argraffiadau a ddaeth allan yn ei oes ef. Yn argraffiad 1799 trowyd *cabot-feini* (Isaiah lvii. 6) yn *llyfnion feini*; eithr dywed Charles, "nid gweddus na buddiol cyfnewid gair mewn cyfseithiad cyffredin awdurdodedig." Yn ei erthygl ddyddorol ar *Bibl*, ceir haes prif argraffiadau y Beibl Cymraeg, ond rhyfedd nad yw yn cyfeirio at y Beiblau a ddaethant allan o argraffwasg Trefecca. Hwyrach nad annyddorol yw crybwyll yma y dywed Charles mai *Bibl Cromwel* y galwai rhai yr argraffiad o chwe mil a ddygwyd allan yn 1654 (sef y fwyddyn ar ol ymddanghosiad *Llyfr y Tri Aderyn*), dan ofal Vavasor Powel a Walter Cradoc. Gwelais mewn newyddiadur Saesneg yn ddiweddar, fod Beibl Saesneg nodedig a elwid *Cromwell's Bible* yn cael ei ddangos yn Arddanghosfa Chicago; ond a siarad yn briodol, dylid cyfyngu yr enw *Cromwell's Bible* yn Saesneg i'r ychydig ddalennau o'r Ysgrhythyr a gariai milwyr Cromwel yn eu pocedau.

* Nid yw *Penguwch* yn yr argraffiad cyntaf. † Un o eiriau Salmau Prya yw *cyflafaredd*; "yr un *gyflafaredd* torodd" (efe a dorodd ei gyfamod) Ps. lv. 20.

Ond pan ddown i feirniadu ieitheg y Geiriadur, nis gallwn lai na gwelwedd gymaint o gynnydd sydd wedi ei wneyd yn y ganrif hon yn ein gwybodaeth o darddiad geiriau, a chysylltiadau ieithoedd â'u gilydd. Yr oedd cenedlgarwch Thomas Charles yn gryf, a hawdd ydyw edmygu hyd yn oed gamsyniadau dynion oedd yn llawn o'r hen syniad am hynafiaeth a phurdeb y Gymraeg, a'i pherthynas agos â'r Hebraeg. Nid rhyw lawer o flynyddoedd cyn cyhoeddiad y Geiriadur, yr oedd Syr William Jones, trwy ymgynefino â'r Sanskirt gyfrin, wedi cychwyn chwyldroad yng ngwyddor ieitheg. Trwy ymdrechion ac ymchwiliadau mintioedd o ddysgedigion, o hynny hyd yn awr, y mae ein syniadau am gysylltiadau geiriau wedi eu llwyr drawsffurfio. Nid yw tebygolrwydd furfiau geiriau cyfystyr mewn dwy iaith, yn un prawf o gysylltiad y geiriau â'u gilydd, oni fydd prawf allanol fod un wedi ei gymeryd oddiwrth y llall, neu brawf mewnol eu bod yn ymdebygoli neu yn ymwahaniaethu yn ol gweithrediad deddfau sydd wedi eu darganfod ar ol cymhariaeth fanol a thrwyadl o dreigliadau nifer o ieithoedd.* Gwir yw y fraetheb Seisnig, "Sound-etymology is not sound etymology." Dichon y darganfyddir ymhen ychydig oesoedd gysylltiad rhwng yr ieithoedd Aryaidd a Semitaidd; eithr heddyw, ni wneir ond cellwair a gwawd o'r rhai a geisiant brofi fod ambell i air Cymraeg neu Ladin, a gair Hebraeg, yn tarddu o'r un gwreiddyn. Ond dywed Thomas Charles: "Nis dichon un Cymro, mewn gradd bychan yn gydnabyddus â'r ddwy iaith, lai na chanfod perthynas agos rhwng y Gymraeg a'r Hebraeg; mor agos perthynas, fel y gellir dangos cannoedd o eiriau o'r un ystyr a'r un sain, agos, yn y ddwy iaith; a llawer o'u rheolau grammadegol yr un yn gwbl. Gellir barnu am y Gymraeg, nad yw, o ran ei tharddiad, ond un gradd oddiwrth iaith wreiddiol y byd; a'i bod yn hynach, yn burach, ac yn fwy digymmysg nag un iaith yn y parthau gorllewinol hyn o'r byd." Ond tuag at iawn werthfawrogi y gwahaniaeth barn sydd gennym heddyw parthed perthynas y Gymraeg ag ieithoedd Ewrop a'r Dwyrain, edrychwn ar eiriau olaf dyfyniad Thomas Charles o gân clod Dr. Davies i'r Gymraeg:—"Mewn gair, mae'n gliriach na goleu canol dydd, fod i'r iaith Frytanaidd berthynas agos â'r ieithoedd dwyreiniol y mae yr holl ieithoedd i gyd wedi deilliau o honynt; eithr braidd dim perthynas â gweddill ieithoedd Ewrop."

Dyddorol ydyw olrhain effaith y syniadau barddonol a chrefyddol hyn am berthynas y Gymraeg a'r Hebraeg â'r brif Famiiaith, ar y tarddiadau o eiriau Cymraeg a roddir gan y Geiriadur. Gwelir yma yr un duedd ag a andwyodd Eiriadur Dr. Owen Pughe, sef yr arferiad o greu gwreiddiau dychmygol, fel pe byddent o'r gwasanaeth lleiaf i egiuro ystyr a tharddiad gair. Ymddengys, ar yr olwg gyntaf, yn anghoeladwy fod gwr a feddai y radd leiaf o ddysgeidiaeth glasurol, a'i gof heb ei ddyrysu, yn methu neu yn gwrthod gwelwedd mai gair benthyg oddiwrth y Groeg, trwy gyfrwng ymdrafodaeth eglwysig, oedd *eglwys* (ecclesia); ond yn haeru mai gair gwreiddiol Cymraeg ydoedd, o'r gwreiddiau *e* a *glwys*, yn cyfleu y syniad o rywbeth dymunol a sanctaidd, ac felly yn y blaen. Ond er nad wyf yn ceisio

* Er engraifft, cysylltir Aagwrn (as-own) & גרם (garem), Bara & ברה (barah).

amddiffyn neu esgusodi ymddygiad o'r fath yma mewn dysgawdwr cenedl fel Owen Pughe, dylid cofio fod hanes dechreuad y gwyddonau yn llawn engreiffitiau cyffelyb o effaith y cynllun dad-gasgliadol (*deductive*) mewn rhesymeg ac addysgiaeth. Yr oedd yr ysgol hon o ieithyddion yn credu fod i lythrennau neu seiniau arbennig ryw ystyr hanfodol a chyfrin, a bod sylwedd meddwl gair i'w ddarganfod trwy ei ddadansoddi i'r gwahanol lythrennau a'i ffurfient. Cofus gan y darlleunydd ddarllen yn y TRAEHODYDD, dro yn ol, ysgrif finioeg a doniol fy nghyfaill y Profeswr J. Morris Jones, ar y dull hwn o eiriaduro, ac y mae efe wedi rhyddhau pawb arall oddiwrth y ddyledswydd o'i gondeinio. Yn yr ail le, credai rhan Gymreig yr ysgol hon fod y Gymraeg, o ran ei tharddiad, yn nesaf at yr Hebraeg, neu pa iaith bynnag a lefarid yng ngardd Eden. Gan hynny, trwy ddadansoddiad mympwyol o eiriau Cymraeg, trwy ddienyddio y naill a chwtogi y llall, y delid at wreiddiau cyntefig, o ba rai y tarddasai ieithoedd ereill. Digon hawdd i ni, yn yr oes oleu hon, wawdio damcaniaethau fel hyn, ond cofier ar yr un pryd mai digon araf y mae ysbryd beirniadol ymchwiliad gwyddonol yn cynhyddu yn ein plith ni eto mewn perthynas â geiryddiaeth. Mae gwybodaeth o ddeddfau sylfaenol ieithge Gymreig eto fel cyfrinach nad oes ond ychydig o'r dysgedigion yn ei meddu; ac y mae y syniadau a gyhoeddor o bryd i bryd ynghylch ystyron enwau lleoedd, a'r cyffelyb, yn brawf amlwg iawn mai ychydig a biau y wybodaeth angenrheidiol o ddeddfau treigliad geiriau i'w cymhwyso i ffurfio barn ynghylch eu tarddiad. Mewn ieithge, fel ymhob adran arall o ymchwiliad, rhaid dechreu gyda dwys ystyriaeth o'r ffeithiau, gan gasglu ynghyd a chymharu y rhai a ymdebygant i'w gilydd, a nodi'r gwahaniaethau, er mwyn darganfod y ddeddf sydd yn eu rheoli: hwn yw y cynllun cyd-gasgliadol (*inductive*). Fel na wnaeth y celfyddydau lawer o gynydd, yn ol tystiolaeth Bacon, pan ddechreuai dynion gyda syniadau rhagfarnllyd a thueddiadol, dychmygion ansylweddol a rhagflaeniadau ynghylch natur (*anticipationes naturae*), yr un ffunud nid oedd cynnydd yn bosibl mewn ieithge Gymreig pan geisid ymdrin â hi dan y drychfeddwl mai ynddi hi yr oedd gwreiddiau cysefin iaith, a'i bod o leiaf y brif iaith namyn un.

Ond nid yw Thomas Charles yn rhedeg i eithafion pensyfrdan Owen Pughe ynghylch geiriau fel *ecclesia*. Ac eto mae yn syndod nad ydyw ond yn anaml, pan yn rhoddi y gair Lladin wrth ochr y gair Cymraeg a eglurir ganddo, yn gweled mai gair benthyc o'r Lladin yw'r gair Cymraeg.—cymaint y mae yntau hefyd wedi ei feddiannu gan y syniad o burdeb geiryddiaeth y Gymraeg, a sylwedd y gwreiddiau. Wrth reswm, nid oedd gan Charles y cyfleusterau sydd gan bob Cymro diwylliedig heddyw, o ddarllen hen lyfrau fel y *Mabinogion*, *Llyfr Du Coerfyrddin*, *Campeu Chartymaen*, *Llyfr yr Ancr*, a'r lliaws cyfrolau ereill sydd wedi eu cyhoeddi yn ystod y ganrif, lle gellir olrhain y gwahanol ffurfiau a fu ar eiriau o oes i oes, hyd oni ellir gweled ar unwaith eu tarddiad, pa un ai Gymreig ai estronol. Mewn perthynas i eiriau o darddiad Lladin ag y mae y Beibl Cymraeg yn frith o honynt, gellir eu rhannu i bedwar dosbarth gyda golwg ar ymdriniaeth Thomas Charles o honynt.

1. Geiriau wedi eu gosod yn nhestyn y Beibl, heb ddim neu nemawr gyfnewid arnynt, megis *ciconia*, *palman*, *consurio*, *condemnio*, *molestu*, *flagell*. Boddlonir yma ar roddi y gair Lladin yn llawn,—*palmantum*, *molestare*, *conjurare condemnare*, *flagellum*.

2. Geiriau wedi goddef treigliad wrth eu Cymreigio, ond yn cael eu priodoli yn uniongyrchol i'r Lladin, heb un ymgais i'w dadansoddi i wreiddiau dychmygol Cymreig. Er engraifft:—

ESPONIO, Llad. *Expono*: dehongli, hysbysu, egluro, amlygu.

BENDITH,* Llad. *Benedictio*: nawdd, moliant, dedwyddyd, hawddamor.

Nid oes yr un ymdrech yma i olrhain y geiriau i wreiddiau, megis *pon*, *pen*.

3. Geiriau wedi goddef treigliad wrth eu Cymreigio, eithr yn cael eu dadansoddi i wreiddiau dychmygol Cymreig, tra eto ar yr un pryd y rhoddir y gair gwreiddiol Lladin, ond gan feddwl, mi debygwn, mai cyd-enedigol (*cognate*) â'r gair Cymraeg ydyw, sef wedi deilliaw oddi wrth y gwreiddyn a welir yn y gair Cymraeg. Er engraifft:—

LLURYG† (llur), Llad. *Lorica*.

MEDDYG (medd), Llad. *Medicus*.

PLETH (py-leth), πλεκα, Llad. *Plectare*.‡

RHEOL (rhe-ol), Llad. *Regula*.

4. Geiriau wedi treiglo cymaint fel mai prin y gellir adnabod eu haniad Lladin heb gynefndra â gweithiau Cymreig y Canol Oesoedd. Hynny yw, geiriau na roddir eu ffurfiau cyntefig Lladin o gwbl, gan na wyddys fod gan unrhyw air anghyfaith gysylltiad â hwynt. Rhydd Thomas Charles yma y gwreiddiau dychmygol yn unig (ychwanegwn ninnau y tarddiadau Lladin a'u hystyron), megis:—

ACHOS (aaws) L. *occasio* (cyfeusdra).

ACHUB (cub) L. *accipere* (derbyn, cymeryd, fel yn "achub y blaen").

CYTHRAUL (cy-traul) L. *contrarius* (gwrthwynebol).

UFFERN (uff-ern) L. *infernum*|| (y peth neu le isod).

Ceisiwn bellach wneyd ychydig nodiadau ar y tarddiadau a'r dulliau ieithogol uchod.

1. Afreidiol son llawer am y geiriau sydd yn y dosbarth cyntaf. Ond mae yn rhyfedd fod Charles yn gwneyd i'r gair *Llusern* (*lucerna*)

* Ar yr ochr arall, priodolir *meiddith* i *mall-dith*. † *Lluryg* yw orgraff yr argraffiad cyntaf. Yn 1886 cawn *Llurig*. ‡ Felly yr argraffir y lert yn nhrdydd argraffiad Saunderson (1886). Mae yn hwn amryw wallau ereill, megis *Lampus*, *Flagrwm*: ni wneir profes o acennu'r geiriau Groeg, a o mas weithiau ffurfiau rhyfedd arnynt. Yn argraffiad 1810 ceir *πλειάδος* am *Πλειάδες*, ond, gwaeth fyth, yn 1886 ceir *πλειάδος*! Gresyn na ohymerasid mwy o ofal gyda'r argraffiad hwn. Er engraifft, gan na roddir anadiadau y llafariaid Groeg, trawalythrennir *υποκριτης* yn *ypokrites*. (Cyf. ii. tud. 406).

|| Hwyrach mai *infernum* (a arferir gan Julian) oedd sail yr enw gwrywaidd *infernus*, a geir gyntaf yn yr ystyr o *uffern* yn nodiadau Ambrosius ar Psalm xlviii. Gwel *Lewis and Short*.

(yn gystal a *Lantern*) darddu o *laterna* ;* ac nad oedd wedi sylwi mai *deuplygion* (*doublets*) yw *Ffrewyll* a *Fflangell*. Dywed

FFLANGELL. Gr. φραγγέλλιον, Ll. *Flagellum*, ffrewyll.
FFREWYLL (ffraw) Ll. *FLAGRUM*.

Y ffaith yw, fod *ffrewyll* yn tarddu o *fragellum*,† a *fflangell* o *flagellum* Mynych y treigilir *r* am *l*, ac *l* am *r*.

2. a 3. Tueddir fi i gredu y ceisiai Charles ddarganfod gwreiddiau Cymraeg pa le bynnag y gallai. Nid oes un rheswm, gan ei fod yn rhoddi y gair Lladin yn y ddau ddsbarth hwn, am ei fod yn ymgadw rhag rhoi'r gwreiddiau i *Esbonio* a *Bendith*, tra yn cyflwyno rhai i *Llurig* a *Meddyg*. Bydd yn dda gennyf glywed yn amgen; ond fy marn i yw fod ffurf y geiriau cyntaf yn ei luddias rhag gwneyd hynny, tra y mae *llur*, *medd*, *py-leth*, *rh-e-l* yn ymddangos yn dderbyniol a deniadol a chanmoludwy. Goddefer i mi grybwyll, wrth fyned heibio, fod y Groeg πλάκω a'r Ll. *plecto* yn eiriau cydnaws a chydenedigol, yn tarddu oddiwrth yr un gwreiddyn Aryaidd, tra y mae *pleth* yn air benthyg oddiwrth *plecto*, fel y mae *coctus* yn rhoi *coeth*, ac y daw *doeth* o *doctus*, ac nid oddiwrth *d* ac *oeth*, beth bynnag a feddylir wrth hynny.

4. Ceir engraifft o anfuiddioldeb y gwreiddiau dychmygol yn y ffaith fod nid yn unig *achos*, ond hefyd *agos*, yn cael ei briodoli i'r gwreiddyn *caus*. Os ydym i gredu mai un yn *treulio* (sef *dinystrio*) yw'r cythraul, mae'r syniad, er gwired o ran duwinyddiaeth, yn debyg i'r drychfeddwl mai *dî-wawl*, sef tywyll, yw ystyr y llygriad sathredig presennol o *diabolus*. Yr un modd y creda yr annysgedig Seisnig fod cysylltiad isithegol, yn gystal a moesol, rhwng *devil* ac *evil*.

Fel y dywedasom eisoes, yr oedd traethu ar sylwedd geiriau yn anfeidrol bwysicach at amcan y Geiriadur nag ymdrin yn isethyddol â hwynt, a dichon nad oedd gan yr awdwr lawer o hyfrydwch mewn ymddiddanion am hanes geiriau. Yn *Llyfr y Tri Aderyn* fe ddywed y Golomen, pan yn hysbysu'r Eryr mai *Tebah* y geilw Moesen yr Arch, "ond cofia fyth nad *Tebah*, na Groeg, nag Ebrew yw gwreiddyn yr Yscrethurau." Ac am bŷg yr Arch hi a ddywed, "Fe ai gelwyd Copher (ond nad yw isithoedd ond fel llais cograin, er bod llawer yn dotio arnynt)." Nid ydym yn cael, gan hynny, y nodiadau dyddorol ar ystyr geiriau a gawn, er engraifft yn y *Geiriadur Duwinyddol*, o waith William Jones, Penybont, a gyhoeddwyd yn 1837. Cymerwn y gair *crefydd*. Ni wna Thomas Charles ddim pellach at ein goleuo ynghylch tarddiad y gair dyrys hwn nag ysgrifennu "(cref)," heb siw na miw ychwaneg. O'r ochr arall, traetha William Jones yn ddifyr am y gwahanol darddiadau a briodolir, megis *crefu*, *greddf*, &c.; eithr cynhygia yr awgrym mai'r ansoddair *cref* (cryf) ydyw'r gwreiddyn,

* Ni cheir *Lantern* yn Argraffiad 1810. Yn y Trydydd Argraffiad rhoddir *Laterna* fel ei darddiad. Nis gwn ai gwall orgraffyddol yw rhoi *Laterna* fel tarddiad *Llusera*. Ond fel pwno bychan o orgraff Ladin, rhyfedd fod Thomas Charles yn ysgrifennu *Laterna* yn lle *Lanterna*. Yn ol Geiriadur *Lewis and Short*, ffurf gyn-glasurol a diweddar yw *Laterna*; y llall a arferir gan awdwy'r clasurol. Dichon mai ei duedd-fryd at *Laterna* a'i camarwainiodd gyda golwg ar haniad *Llusera*.

† Nid yw *fragellum* yn air Lladin clasurol, ond mae yn amlwg mai hwn ydyw'r gair a Roegir yn φραγγέλλιον, fel y rhydd y gair clasurol *flagellum* y ffurf ddiweddar φλαγγέλλιον a geir yn Geiriadur Hesychius. Gwel *Liddell and Scott*.

yr hyn sydd yn "arwyddo y cryfder a'r gwrolder meddwl ac ymarferiad ag y mae gwir grefydd yn tueddu i gynysgaeddu ei pherchenog & hwynt." Fel y cawn ddangos yn ein hysgrif nesaf, nid yw yr eglurhad hwn ond esiampl o ieitheg *à priori*, wedi ei sylfaenu, nid ar ymchwiliad i ffurfiau'r gair mewn ieithoedd perthynasol, ond ar dduwinyddiaeth a thuedd praegethu. Ond eto, dengys William Jones fwy o hoffder i dreiddio i ystyr y gair Cymraeg nag a amlygir gan ei ragflaenydd enwocach. Cawn brofion pellach o annyddordeb Charles mewn tarddiad geiriau lle y gallesid disgwyl y buasai ei wybodaeth fanol o orgraff Beibl Dr. Morgan a Thestament Salesbury yn ei ddarbwylllo, gan fod y llyfrau crybwyllledig yn sillebu rhai geiriau yn y fath fodd ag i ddangos yn ddiamwys eu haniad o'r Lladin. Ond er fod *deffygio* yn Dr. Morgan yn pwyntio at *deficio*, eto rhydd y Geiriadur y gwreiddyn *diff* i egluro *diffygio*; ac er mynyched y gwelir *escop*, priodolir *escob* i'r gwreiddyn *cob*.

Na feddylied neb mai o ddiffyg parch i goffadwriaeth Charles o'r Bala yr ydym wedi dangos rhai gwallau yn ei syniadau am darddiad geiriau Cymraeg, neu ein bod am saethu picellau tanlyd uchelfeirniadaeth at y Geiriadur fel trysorfa o ddysgeidiaeth Gymreig, er mwyn ceisio gwanhau awdurdod y llyfr fel casgliad o erthyglau yn gosod allan ddyfarniadau terfynol—o leiaf i'r Methodistiaid—ar athrawiaethau a chyffes fydd. Beth bynnag a fyddo'r cynnydd a wneir mewn gwybodaeth ysgrythyrol, bydd Geiriadur Charles bob amser yn sylfaen pob Geiriadur Ysgrythyrol Cymreig; ac ar ol i'n llenyddiaeth gael ei choroni â'r Geiriadur cyflawn y mae'r Canon Silvan Evans yn awr yn ei ddwyn allan, gobeithio y bydd yn bosibl i bwyllgor bychan o dduwinyddion, ysgolheigion a Chymreigyddion, olygu argraffiad diwygiedig o'r gwaith clasurol hwn. Nid oedd Thomas Charles ei hun yn honni bod yn anffaeledig, ac nid ydym wedi gwneyd yn amgen na cheisio dilyn y cyngor a rydd efe yn ei Ragymadrodd:—"Os bydd neb o ddarllenwyr y Gwaith hwn yn cael eu tueddu i feddwl yn amgen am unrhyw fatter nag y trinir, neu y penderfynir ef yn y Llyfr hwn, dymunaf arnynt chwilio yn fanwl; ac wedi hynny, barnu yn bwylllog ac yn ddiudedd, a pheidio dilyn un awdwr heb edrych a gwranddo ar ereill a ysgrifennasant ar yr un matter."

Yn yr erthygl nesaf, ceisiwn gywiro, yma a thraw, rai o'r tarddiadau o eiriau Cymraeg a roddir yn y Geiriadur, gyda chymaint o gynhorthwy ag a geir hyd yn hyn oddiwrth gyfrolau y Parch. Silvan Evans. Heblaw hyn, y mae hefyd bynciau dyddorol ereill yn codi i'n sylw, megis arddull Charles, a'i syniadau am hanes Cymru. Am y gyntaf, digon yw dweyd ar hyn o bryd ei bod yn cyflawni y rheol a ddyfynna efe o'r *Barddas* am "dri anhepgor iaith, purdeb, amledd, a chyweddiant."

Athrofa Trefecca.

JOHN YOUNG EVANS.

Y WAEN FAWR, DDEUGAIN MLYNEDD YN OL.

Y MAE y Waen Fawr, yr hon a saif tua phedair milltir i'r de-ddwyrain o Gaernarfon, yn ardal led hynod ar amryw gyfrifon. Yn ol y Profdeur Rhys, dyma lle siaradur y Cymraeg puraf yng Nghymru. Ac fe ddwydd George Borrow, awdur *Wild Wales*, mai dyma y llannerech brydferthaf a weloddi erioed. Yr ydym yn rhoi Nant y Betsws i mewn yn y Waen. Pan ddaeth Borrow i olwg y Nant uchod, daeth rhyw berlewyr drosodd, a chybiandd fod paradwys yn agor o'i flaen. A ehan ei fod ef, yr hwn oeddi wedi teithio cymaint o'r byd, yn barnu mai y Waen yw'r llannerech brydferthaf a weloddi, gallwn gymeryd yn ganiataol ei bod feily mewn gwirionedd.

Yr hyn a dery sylw y teitnydd yn fuan wedi gadael tref hynafol Gaernarfon, ar hyd ffordd Bethesda, ydyw y ddan fynydd talgryf a llusiantd a safant ymheu i'w y dyffryn swyrol. Yr agosaf ato yw y Fael Kilian.—ei durt reolaid heb braddi dole arni o'r gwaelod i fyny, a'i hwyneb llathraidd fel yn gwynu croesawial iddo. Yn cael ei wahanu oddiwrethi gan gwm cwi a dwfn, ymgyfrd mynydd serth a elwir *Mynyddogawr*, a ehan y Sesson yn *Enophant Mountain*. Y mae yn edrych yn arddunol.—ei rannau isaf yn arw a chreigiog, ei ysgwyddau yn ysgwrth a llydau, ac yn ymdebychiant yn raddol a rheolaidd i'w grib. Nhw olwg led sarrog sydd arno, nid rhallawn fel ei chwaer, y Foel Kilian. Y mae ei drwmyn erioed fel yn gogwyddo yn ol i ysbio dros ben Sir Fawr tua'r Iwerddion. Ffianam y mae yn gwneyd felly nis gwn, os nad rhag gwelod y ar to'ill hwy sydd yng ngraddi aswy ei gymhars hysulog. Y mae yn ymdebychus fel dyn yn aml yn debyg i'r elynes hynny yn enghlyn Corrig.

a'i chlyw

Yn cwilio am wythen.

Felly ymna fe ddawed dyn neu hynnyd ryw dro i chwilio am wythen a ffw hynny a llwyddasent i gwisgo arni o drwm yng ngrudd deg y ffw, ac y mae y rhyddi d'igwnt a chafwyd ahan o honvat yn edrych fel ymmod wedi rhwng a ffw ar ei ddau werddias. Nid rhyfodd fod yn well gan yr hon ffwddi mawr i'w gwnt tua'r Iwerddion nag edrych ar y ffw yn amlwg. Ond dda y mae gorfawr antariethus yr oes llosgwnt yn llosg am breiddwntu mawr, os bydd tipyn o'r llwch mawr yn y cwmwnt. Fe gant ystyrieddai wyneb teg y lloer ag hysulog am ei ddau a'i ffwdd.

Nhw y chian hwydd gawntd hyn, y rhai ydynt yn gwyllo hynnyd yr ardal hwyddd hon o oes i'w llo yf ahan Gwyrfa'i yn amlwg, nes y dd gant wyntu ahan i ddyffryn gwastadlyfn Nant y Betsws. Ac ymna y mae yf yr arw ymdebychus nes y cythaodda Glyn Ahan, i'w gwnt mawr ffw yf yf. Ym p'p'ura ymlaen, gan ymdebychus yng hwydd p'p'ura, nes a chwyntu, a'i swa mawr yn sibwd

Yf, nes i'w.

Gan fod yr ardal hon wedi ei ffafrio gymaint gan natur, ni fyddai yn beth afresymol i ni ddisgwyl hynodrwydd o ryw fath yn ei thrigolion. Os tafwn ein golwg ryw ddeugain mlynedd yn ol, cawn ei bod yn llawn o hen gymeriadau gwreiddiol a dyddorol. Yma yr oedd hoff gartrefse yr hybarch Owain Williams; ac y mae ei neillduolion a'i hynodrwydd ef yn ddigon adnabyddus trwy Gymru erbyn hyn. Gan hynny, gadawn ef gyda chrybwyll un sylw arferol o'i eiddo: pan fyddai wedi monni wrth y Waen am rywbeth neu gilydd, ac yn myned i'r dref i ards am ychydig wythnosau, dyma fel y dywedai,—“Mae y bobol yn y Waen yma wedi tyfu fel coed, weldi, heb ddim disgyblaeth.” Y mae rhywbeth yn bert a nodweddiadol o'r cyfnod hwnnw yn y sylw. Ië, “tyfu fel coed;” wel, gellid cymhwyso y disgrifiad yna ato ef ei hun yn gystal a neb o'r hen frodorion. Nid wyf yn meddwl y cyfeiliornwn pe dywedwn mai dyna pam y mae ei hynodrwydd mor ddyddorol i ni yn bresennol. Mae'n wir ei fod wedi diwyllio llawer ar ei feddwl, ond yn ei ffordd ei hun yn hollol y gwnaeth hynny. Pe buasai wedi ei dynnu trwy oruchwyliaethau a pholish y colegau, mae yn sicr y buasai wedi gwneyd mwy o'i ôl ar lenyddiaeth ei wlad; ond mae yn fwy na thebyg mai nid yr hen Gymro ffraethbert a difyrus a adnabyddir fel Owain Williams, Waen Fawr, a fuasai. Y ffaith ydyw fod cynnydd addysg, a chyffredinolrwydd teithio y blynyddoedd diweddaf yma, wedi bod yn foddion i lyfnhau llawer ar erwinder, a lleihau y gwreiddiolder oedd yn perthyn i'n hen dadau. Wrth i ni edrych ar ansawdd cymdeithas yn bresennol, gwelwn ei bod yn llawn o ryw lyfnder arwynebol, fel yr eiddo cerrig glan y môr; ond nid yw yr unrhywiaeth a'r llyfndra hwn yn agos mor ddyddorol â gerwindsb rhamantus Aberglaslyn neu Nant Ffrancon.

Yn y tudalennau canlynol ymdrechaf roddi rhyw frasolwg ar agwedd grefyddol a chymdeithasol y Waen Fawr ryw ddeugain mlynedd yn ol. Y mae yn rhwym o fod yn dra amherffaith a chyfyng, am nad yw ond cynnyrch sylwadaeth deng mlynedd o “oedran diniweidrwydd,” pryd y llyncir y meddylfryd ieuanc gan oll-bwysigrwydd y bêl a'r top, a theganau o'r fath. Ond fel rheol y mae y meddwl ieuanc yn derbyn argraffiad dwfn o nodweddion personau ac amgylchiadau a ddygir dan ei sylw yr adeg honno, ac fe'u trysorir yn y cof yn annileadwy, modd y gallo eu helfennu a'u barnu mewn oedran addfetach.

Nid hawdd oedd gwneyd cydnabyddiaeth fanol â'r trigolion yr adeg honno, am fod mwyafrif mawr y meibion gyda'u gorchwylion yn chwarelau Llanberis trwy yr wythnos. Ond cefais bob mantais i ddyfod i gydnabyddiaeth â'r ddau frawd y bydd a wnelwyf fwyaf â hwynt, am nad oeddynt yn digwydd gweithio yn y lle uchod, a bod fy nghartref innau yn agos i'r eiddynt hwy. Y cyfrwng goreu i mi adnabod yr ardalwyr oedd y moddion Sabothol a'r seiat ganol yr wythnos yn y capel.

Yr oedd yr hen bobl yn ddyinion tal ac esgyrniog bron yn ddiethriad. Ac hefyd yr oedd rhyw ddiniweidrwydd difalais a dymunol yn eu nodweddu. Fel engraffit o hyn, yr oedd Sion William, Pant y Cerrig, feallai, cystal â neb a allem gael. Yr oedd yn hen wr tal a chryf, ac yn arfer eistedd dan y pulpud, am fod ei glyw yn drwm. Yr oedd yn wrandawr rhagorol a chyson, ac er nad oedd yn cadw cymaint

i mi ehangu fy nghydnabyddiaeth & thrigolion yr ardal. Yr oedd y cynhulliad yn lliosog bob amser o bob rhyw ac oed, a phawb yn ymddangos yn llafurus ac ymdrechgar i wneyd y goreu o honi. Nid wyf yn cofio ond un arolygwr yr holl amser, sef Owen Jones, y Shop, yr hwn oedd yn fywiog, gweithgar, ac effro. A dim ond un athraw ar y plant bach wyf yn gofio, sef Thomas Jones, Cyrnant Lodge, dyn cymharol ieuanc, ymchwilgar, a llawn o ynni. Yr oedd ef yn barnu, gan ei fod wedi cael gwell manteision gwybodaeth na'r cyffredin yn y dyddiau hynny. y dylasai gysegru ei holl alluoedd a'i dalentau at wasanaeth y plant. Felly ymdaflodd i'r gwaith &i holl egni, yn wirfoddol a siriol. Er na chafodd oes hir, gwnaeth waith pwysig yn y cylch hwn—pob parch i'w goffadwriaeth. Wedi myned trwy goleg Thomas Jones yn llwyddiannus, cefais y ffafwr o fy symud i ddosbarth Dafydd Tomos, Tai Isaf,—dosbarth o fechgyn o 12 i 18 mlwydd oed. O herwydd gwybodaeth eang ac ynni llafurus yr athraw hwn, yr oedd yr hyfforddiant mewn hanesiaeth ysgrythyrol yn drwyadl ac effeithiol. Yr oedd yma un ddisgyblaeth yn cael ei harfer na welais yn un lle arall, sef ein gorfodi i gau ein Beiblau rhyw ddeng munud cyn amser gwrandio y llafur, a'n holi er cael gweled faint oeddym yn ei ddeall a'i gofio o'r hyn a ddysgasid i ni. Cynllun rhagorol a gwerth ei efelychu gyda'r ieuencid, mae'n ddiameu.

Cylch arall a roddai fantais i ymgydnabyddu &r ardalwyr oedd y cyfarfod eglwysig, neu y seiat wythnosol. Byddai y cyfarfodydd yn cael eu dilyn yn dda, ac ystyried mor wasgaredig oedd yr ardalwyr gyda'u gorchwylion. Yr oedd cryn hynodrwydd yn perthyn i'r swyddogion, ac er eu bod yn bur wahanol yn eu dull, byddent yn cyddynnu yn hapus. Yr hynaf, mae'n debyg, oedd Tomos Gruffydd. Gŵr lled gyffredin o ran galluoedd a chyrraeddadau oedd ef, ond hynod o ffyddlon. Yr oedd yn euwog am ei brydlondeb gyda dechreu a diwedd y moddion,—cymhwyster pwysig mewn swyddog, pan ystyriom mor esgeulus ydym ni fel Cymry yn y rhinwedd hwn. Byddai yn lled chwyru wrthym ni y plant drwg a direidus, a byddai arnom gryn dipyn o'i ofn hefyd. Morgan Jones, Hafod Oleu, oedd gryn lawer yn ieuengach. Yr oedd ei wybodaeth ysgrythyrol yn llawn, ei ymadrodd yn hylithr a pharod, ac yr oedd yn un a fedrai droi ei law at unrhyw beth mewn cylchoedd crefyddol a chymdeithasol, ac o dymer tra siriol a chyfeillgar. Yr oedd Owen Morgan, tua'r un oed, yn dawedog a diymhongar, ond eto yn sylweddol a thra chymeradwy gan y frawdoliaeth. William Jones, Dwr Oer, oedd y swyddog agosaf at Tomos Gruffydd o ran oed. Buasai ef yn sefyll ar ei ben ei hun mewn hynodrwydd ynghanol myrddiwn o'i frodyr. Yr oedd mor urddasol o ran ymddanghosiad personol, y cristion mor loew, a'r dyn mor gyflawn a thrwyadl ynddo, fel y buasai yn naturiol yn hawlio sylw ac yn meddu dylanwad mawr ar ei gyddynion mewn unrhyw gylch. Yr oedd yno un arall hefyd yn meddu ar nodweddion hynod iawn fel dyn a christion, ac yn llawn o bob cymhwysterau meddyliol er defnyddioldeb mewn byd ac eglwys, fel y mae yn achos o syndod na etholwyd erioed mo hono yn swyddog eglwysig. Eto ni chuddiodd ei dalentau yn y ddaear, ond llewyrch-

oed ei lamp yn ddisglair a sefydlog hyd y daliodd ei nerth a'i wechrol. Gan fod yn ymddangos na welodd yr ardalwyr y pryd hwnnw mai werth a'i ragoroldeb, yr ydwyf yn barnu fod ei goffaduriaeth yn teilyngu sylw arbennig yn hyn o ysgrif. Yr hen gymerial disglair yr wyf yn cyfeirio ato yw Owen Jones, y Crydd, Bryn y Pistyü. Ond cawn fanylu ar y ddau hyn ymhellach ymaen.

Fel y sylwasom, yr oedd yr eglwys a'i swyddogion yn byw yn hynod grtün a heddychol. Eto yr oed yma un eithriad; a'r un a dorrai ar y tawelwch arferol, oedd larpn o fenyw drom, fer, a chethin yr olwg arni, a elwid yn gyffreini Cadi Ty'n Dryfwl. Y mae rhyw swn terfysg yn enw ei phreswylfod, onid oes? Yr oedd hon fel "dafad ungorn" y bardd Hiraethog, yn peri cryn lawer o flinder i'r praidd a'u bugeiliaid. Torrai bob rheolaer a lyffetheiriau eglwysig yn yfflon. Ond os diarddielid hi, mynnai ddod yn ol i'r eglwys, ac aros yno er gwaethaf pawb a phopeth. Y pechod mwyaf parod i amgylchu Cadi druan, oedd ymladd a chweryla a'i chymdogion, a dywedid y medrai ddefnyddio ei drynau i bwrsas. O ran ei gwybodaeth grefyddol a'i synwyr cyffredin, tybiwn ei bod tua'r un lefel a'r hen wreigan arw honno aeth at y Ficer i drefnau ynghylch cael bedydd esgob. Synnai y gŵr parchedig ac ysgydwai ei ben yn yr olwg ar gwsmer mor ambeus am urdd gysegredig. "Wel," ebai yr hen wraig, "y mae arna i eisiau mynd i'r nefoedd crystal a phawb arall." I brofi ei gwybodaeth grefyddol, gofynodd y clerigwr pa sawl gorchymyn oedd. "Tri," ebai hithau. "Tri! pa rai ydynt?" meddai y Ficer. "Wel, y Pasg, y Sulgwyn, a'r Nadolig." Synnai y gŵr parchedig yn aruthr wrth glywed y fath atebiad. "Wel," ebai yr hen wraig drachefn, "yr ydw i wedi byw yn yr ardal yma am dros hanner can mlynedd, ac fe ddylyn i wybod." Un tro, pan oedd y ddeddfryd wedi pasio yn ei herbyn, cododd ar ei thraed, a gofynnodd i un o'r blaenoriaid wrth ei enw, am fynd i agor y drws iddi, os oedd o ei hun yn ddibechod! Gan fod yr eglwys a'i swyddogion yn bur dyner, ac eto yn benderfynol, yr oeddynt mewn penbleth yn aml yn achos yr hen chwaer aflywodraethus hon. Wn i ddim beth ddaeth o honni yn y diwedd, ond gobeithio fod y Pen Bugail wedi cael gafael arni, a'i dwyn allan o'r drysni ar ei ysgwyddau ei hun yn llawen.

Y mae son am y "dafad ungorn honno," wedi dyfod a'r ci, neu yn hytrach y cwn, i'm meddwl. Yr oedd y cwn yn cael derbynriad, neu o leiaf oddefriad, i aros yn y seiat yr adeg honno. A byddent weithiau, wedi archwilio cefu ac ochrau y capel yn drwyadl, yn dyfod yn ol i ganol y llawr, ac yn difyrru eu hunain trwy gael ymladdfa gyffredinol. Ac feallai, yn hawdd, fod y dafad gorniog yma y bum yn son am dani, yn tybied ei fod yn annheg ei throi hi allan, serch ei bod yn ymladd weithiau oddiallan, a goddef y cwn oeddynt yn ymladd oddimewn, ac ar ganol y seiat hefyd, pwy bynnag fyddai yn dweyd ei brofiad. Sut bynnag, y mae un peth mewn cysylltiad â'r cwn yr wyf yn ffaelu rhoddi cyfrif am dano yn iawn, sef na fyddent byth i'w gweled yn y capel ar y Saboth. Tybed fod cwn y Waen yn gallach na chwn yn gyffredin, eu bod yn ystyried nad oedd ganddynt yr un siwt oreu i'w gwigo i fynd i'r capel ar y Sul, ac felly mai gwarchod gartref oedd y dull gorau iddynt o gadw y Saboth? Ond yr wyf yn cofio un ci, a

rhyw ledfegyn o gi ieuanc dibrofiad oedd hwnnw, yn treio cael derbyn-
iad i mewn i'r gwasanaeth Sabothol un tro Aeth i mewn trwy y
drws yn hyf, ond ymhen ychydig lathenni, daeth i gyfarfyddiad sydyn
& blaen troed William Thomas, Bryn Melyn, yr hyn a fu yn foddyn
effeithiol i'w argyhoeddi mai oddiallan yr oedd y cwn i fod, er bod
gwrthdystiad hyglyw wedi ei wneyd gan y ci oblogid dull diseremoni
yr *eviction*.

Rhag i neb feddwl mai disgyblu cwn oedd y gwaith goreu allasai
William Thomas, Bryn Melyn, ei wneyd, yr wyf yn prysuro i wneyd
yn hysbys mai cymeriad gwreiddiol a rhagorol oedd yr hen ŵr hwn,
wedi ei drwytho yn dda â'r halen Cristnogol sydd yn pureiddio cym-
deithas o'i amgylch. Yr oedd un peth ynddo yr oeddwn yn ei edmygu
yn fawr, sef ei ddull syml a difrifol o areithio ar Ddirwest. Yn y
cyfnod hwnnw, ysgafn iawn hyd y clywais i, oedd dull areithian ar-
weinwyr y symudiad Dirwestol. Cymorth i chwerthin tipyn oedd
cynnwys y rhan fwyaf o honynt. Ond byddai William Thomas bob
amser yn ddirifol dros ben. Clywais ef un tro yn disgrifio ffarwel
olaf y meddwyn i'r gwydraid dwr oer, gydag effaith angherddol—
teilwng o Gough ei hunan unrhyw ddiwrnod. Gyda llaw, a fyddai
hwnyna ddim yn destyn rhagorol i rai o'n beirdd dirwestol i gyfan-
soddi arno! Ymresymiad ac anogaeth ddirifol yw y dull goreu o
lawer gyda Dirwest. Y mae llawer iawn o'n dynion ieuainc yn Llun-
dain yma yn cael eu hysgubo ymaith ganddi megis & llifeiriant.

Yn yr adeg hon, yr oedd yn byw yn y Waen amryw o hen bobl na
fyddent yn arfer myned i lan na chapel, fel y dywedir. Yr oedd y
rhan fwyaf o honynt yn gymeriadau diniwed, ac yn ddigon parchus fel
cymdogion. Un felly oedd William Jones, neu Wil Sion y Beili, fel y
gelwid ef yn gyffredin. Yr oedd yn bur hen pan wyf yn ei gofio
gyntaf, eto yn mynd o amgylch yn lled heinif. Cariai ffon uchel
yn wastad, yn yr hon y gafaelai o fewn tua throedfedd i'w thop, a
dilynid ef gan ddau neu dri o ddaeargwyr bychain. Yr oedd yn debyg
iawn i'r hen Owain Williams mewn un peth, sef mewn siarad llawer
iawn âg ef ei hun, a hynny yn bur gyflym. Yr oedd yn lled dda allan
o ran ei amgylchiadau, a chanddo amryw o dai yng Nghaernarfon o'i
eiddo ei hun. Byddai yn arfer mynd i lawr yno bob pen y mis, i
ymorol am y rhenti. Un tro, bu yn lled afwyddiannus gyda'u casglu,
ac wedi bod yn treio ymgysuro tipyn yng ngyfeillach Syr John
Heidden, cychwynodd adref yn gynnar y prydawn, ond yn bur
afrywiog ei dymer. A phwy oedd yn digwydd dod o'r tu ol iddo, ac
yn ennill arno yn brysur, ond yr hen Fistar Lloyd, person y Betws.
Hen fachgen hynod o dduwiolfrydig oedd ef, a pharod iawn i wrth-
dystio, os clywai, neu y gwelai rywbeth o'i le. Wedi dod yn ddigon
agos ato, clywai fod yr hen ŵr yn chwyrnellu allan iaith oedd yn fwy
nerthol na choeth o lawer. Aeth Mr. Lloyd ato yn bryderus, a chan
roi ei law ar ei ysgwydd yn dawel dywedai, "Wel, wel, mae y dydd
pen cyfri yn dod, William Jones bach." "Ydi machgen i," ebai
yntan, "mae o wedi dwad yn barod, a ches i ddim ond chweugain gin y
d—l—d." Er mor arw oedd ei ddull a'i eiriau, yr wyf yn credu ei fod
o duedd garedig a chymwynasgar,—un o'r rhai a'r "gair garwa
ymlaenaf" oedd ef. Ac fel rheol, math da o bobl yw y rheiny; nid

ydylt yn arfer curo y twmpathau, a pha beth bynnag fydd ar eu meddwl, daw allan fel ergyd o wn.

Un o'r fath yma oedd Neli Morgan, Bryn Goleu. Hen wreigan fer drwchus, a'r olwg arni yn lled arw a gwrol, a llais cryf fel dyn ganddi. Yr oedd yn hyddysg iawn yn hanes y tylwyth teg, a phob urdd arall oedd yn perthyn i wlad hud a lledrith, ynghyd a chwedlau llên gwerin. Pe cawsai y Proffeswr Rhys awr o ymgom â'r hen wraig hynod yma, buasai yn debyg o fod yn gwybod tipyn ychwaneg am chwedloniaeth Gymreig ar ei ymadawiad a hi. Yr oedd yn hynod graff yn ei sylw ar arwyddion a chyfnewidiadau y tywydd. Yr oedd twymyn ymfudol yn y wlad y pryd hynny, ac areithiai Neli Morgan yn hallt iawn yn erbyn America bob amser. Diweddai ei harawd yn gyffredin trwy ddweyd, "Does yno ddim lle ffit i bobol fyw yno, wel di,—mae yno lyffant du dafadennog, gimin a theciall, a hwnnw yn gweiddi fel mul mawr, wel di."

Yr oedd mwyafrif y trigolion yn ddynion sobr a pharchus, fel gweithwyr yn addurn i gymdeithas; ac yr oedd rhyw ymddeffrôad am wybodaeth yn dechreu meddiannu yr ieuencid. Yr wyf yn cofio un llanc wedi penderfynu dysgu siarad Saesneg, doed a ddelo, ac ni siaradai ddim arall os meddyliai fod y sawl y siaradai ag ef yn medru peth o'r iaith fain. Os digwyddai na fyddai ganddo ddigon o Saesneg i osod allan ei feddwl ar y pryd, fe gyfansoddai Morgan dipyn at ei angen wrth fynd ymlaen. Un prydawn aethum am dro at lan yr sfon, a phwy oedd yno gyda'i enwair, yn ceisio twyllo y brithylliaid, ond Morgan. Gofynais iddo, a oedd wedi dal rhywbeth. "Yes," ebai Morgan yn dalog, "is me hold two fish and a slow," gan eu dangos, pryd y gwelwn mai llysofen oedd yn ei feddwl wrth *slow*. Yr oedd ysgol nos yn cael ei chadw yn y capel hefyd, a dosbarth gramadeg i rai mewn oed ar y diwedd. Un noswaith arhossais ar ol o ran cywreinerwydd. Yr wyf yn meddwl mai Owen Jones y Shop oedd yr athraw. Yr oeddynt yn ceisio gramadegu yr adnod gyntaf yn y bennod olaf o Efyngyl Matthew. Yr oeddynt wedi mynd cyn belled â'r ail frawddeg, "a hi yn dyddhau." Y cwestiwn oedd, rhagenw ar beth oedd y gair *hi*. Yr oedd yno helynt erwinol, ac yr oeddynt i gyd ar ol yr "hi" fach fel bytheid ar ol ysgyfarnog. Ond profodd yr "hi" yn rhy sionc iddynt y noson honno. Nis gwn a ddaliwyd hi y noswaith ganlynol ai peidio.

Yr oedd yn perthyn i eglwys y Waen y pryd hyn nifer lled helaeth o ddynion o fuchedd loew a defnyddioldeb uchel, a deilyngent sylw, pe byddai gofod yn caniatau. Ond symudwn ymlaen at y ddau gymeriad y cyfeiriwyd atynt yn barod. Y cyntaf i sylwi arno yw Owen Jones, Bryn y Pistyll. Yr oedd O. Jones tua chymdogaeth y canol oed pan ddaethum i'w adnabod gyntaf,—wedi colli ei wallt oddiar y coryn, a'r cernflew a'r gweddill yn britho yn gyflym. Yr oedd ychydig o dan y taldra cyffredin, yn meddu talcen llydan a llawn, bochgernau lled uchel, llygaid canolig o ran maint, y trwyn yn fyr ond lluniai, a'r gwefusau yn llawn. Yr oedd ei ymddangosiad cyffredinol yn dawel, boneddigaidd, a hunanfuddiannol. Meddai un goes ddiffwrth, ac o herwydd hynny cerddai trwy gymorth y ffyn bagl. Yr oedd atyniad i mi yn ei weithdŷ bob amser, ond yn neillduol felly bob prydawn Mercher, pryd

y cawn y fraint o ddarllen yr *Amserau* iddo. Efe oedd yr unig un yn yr ardal, ar a wyddwn i, a dderbynai newyddiadur. Ar ol cael gollyngdod o'r ysgol, a llyncu cwpanaid o dê, awn yno ar garlam wyllt. Byddai y papur ar y sedd bob amser yn barod, ac ni symudid oddiyno nes y byddai yr oll a fyddai yn werth ei ddarllen wedi ei ddysbyddu. Yr wyf yn cofio mai amseroedd enbyd mewn gwleidywiaeth dramor oedd y pryd hwnnw,—cyfnod y gwrthryfel Hungaraidd, gorchestion Kossuth, a thrais Napoleon III. Weithiau, pan fyddai rhyw garreg afael, fel y dywedir, yn y golofn Seneddol, neu yr erthygl olygyddol, cymerid seibiant i ystyried y mater, a defnyddid y cyfleustra i ddodi saig ffresh o'r tybaco ynghil y foch. Yna lledgamai O. Jones ei ben, a gwnai lygad main drwy y ffenestr ar lechwedd y Cyrnant gyferbyn, fel i ddisgwyl rhyw oleuni newydd ar y pwnc oddi yno, ac fe ddeuai hefyd y rhan fynychaf. Sut bynnag, wedi cael boddlonrwydd i'w feddwl ei hun, ail ymeflid yn rhaffau preiffion yr edau grydd, a thynnid hwy trwy y tyllau gydag egni dau ddyblyg. Gwarchod ni, dyna'r pryd yr oedd esgidiau yn esgidiau onidê, ac nid rhyw lwtrachod o bethau meddalion yn cael eu dal wrth eu gilydd a phegiau pren, fel yn yr oes bresennol.

O ran ei amgylchiadau yr oedd O. Jones yn lled gyfyng arno y pryd hwn. Yr oedd ganddo deulu lluosog, ei iechyd yntau yn wanlyd, ac yr oedd yn cael ymosod arno gan fath o lewygfeydd yn achlysurol, a achosid, mae'n debyg, gan waith caled yn foreu a hwyr mewn ystafell fechan. Buasai cyfansoddiad gwannach yn torri i lawr dan bwys y caledwaith; ond yr oedd ei galonddid a'i benderfyniad ef yn ddiildio, a chredai yn wastad fod amseroedd gwell i wawrio. Clywais oddiar awdurdod dda, ei fod yn arfer cyfrannu at yr achos goreu gymaint â neb o'r rhai mwyaf cysurus eu hamgylchiadau yn yr ardal. Cafodd ei ddisgwyliadau am well amseroedd a thipyn o hamdden yn niwedd ei oes eu cyflawni i raddau helaeth, ac yr oedd llawer o glod am hyn yn ddyledus i'w briod, Sian Jones, yr hon oedd yn hyund am ei gallu i gynllunio ac i wneyd y goreu o bob peth. Yr oedd yntau ei hun mor ddeheuig ac ymarferol, a dywedai weithiau mewn ysmaldod y gallai ef wneyd popeth ond nyth aderyn. Yr oedd yn meddu ar wybodaeth ysgrythyrol eang, ac yn coleddu golygiadau duwinyddol eithafol o Galffinaidd ar y cyntaf,—yn gymaint felly fel yr arferai y Parch. John Jones, Talysarn, sylwi, pan glywai drwt y ffon fagl yn dod trwy ddrws y tŷ capel,—“Ho, ho, dyma'r hen Galffin mawr yn dwad.” Fel y sylwyd, ni fu erioed yn swyddog eglwysig, er ei fod debygwn i, yn meddu cymwysterau llawn a nodedig at hynny. Heblaw bed yn gristion gloew, yr oedd ganddo farn graff ac adnabyddiaeth dda o'r natur ddynol. Yr oedd o feddwl annibynnol, ac yn meddu ar eofndra i ddweyd ei feddwl. Dichon fod crefyddwyr yr oes honno yn barnu nad oedd hyn yn cydweddu ag ysbrydolrwydd crefydd. Feallai nas gollid ei restru ef yn gyfartal â phob un mewn dyfnder teimlad, ond nid wyf yn siwr, oblegid gall gwythen o deimlad brwd fod yn gorwedd o dan arwyneb tawel, nas gwyddir ei bod yno, hyd nes y daw amgylchiadau i'w dwyn i'r golwg. Clywais mai ato ef yr oedd Gwilym Hiraethog yn cyfeirio yn ei ddarlith ar Garibaldi,—sef ddarfod iddo un boreu wedi derbyn yr *Amserau*, a gweled fod yr Hungariaid wedi eu

gorchfygu a cholli eu hannibyniaeth, syrthio i lewyg yn y fan. Nid oedd hynny yn arwydd o deimlad bäs na chlaiar, a dweyd y lleiaf. Byddai bob amaer yn selog a ffyddlon gyda'r moddion crefyddol mwyaf amhoblogaidd, a chymerai ran yn y dyledswyddau yn ewyllysgar.

Bum yn meddwl lawer gwaith fod yn resyn na fuasai ganddo ddoesbarth o fechgyn ieuainc yn yr Ysgol Sabothol, yn lle dosbarth o hen wragedd. Yr oedd ganddo gymaint o bwyll, adnabyddiaeth mor dda o'r natur ddynol, a chydymdeimlad mor lwyr â'r ieuencid ag â'i gwnelsai yn athraw o'r fath fwyaf cymwys iddynt. Cawsent y fraint yn y cylch hwnnw o fynd i gyntedd nesaf i mewn ei deimladau Cristnogol, a'u hargyhoeddi mai nid rhyw fwgan o beth i'w gochelyd oedd crefydd. Yr adeg honno yr oedd ar y blaen mewn gwybodaeth a meddylgarwch. Cof gennyf ei fod yn holi yr ysgol un tro ar y Bod o Dduw, a gofynnai am brawf o'i fodolaeth yn annibynnol ar y Beibl. Hyrddiai yr hen bobl y naill adnod ar ol y llall ato; ond eglurai yntau fod llawer o bobl yn y byd nad oeddynt yn credu yn y Beibl o gwbl, a gofynnai am ryw brawf a fuasai yn debyg o argyhoeddi y dosbarth hwnnw. Edrychai yr hen bobl yn betrusgar, fel pe byddent yn ameu a ydoedd yn iach yn y ffydd ai peidio. O'r diwedd atebodd y gŵr ieuanc darllengar a ddysgai y plant bach, fod y greadigaeth faterol yn sefyll fel cofgolofn, ac yn dweyd, "dyma fi." Yr oedd yn gofyn tipyn o feiddgarwch i fynd gymaint allan o'r llwybr cyffredin i holi, a dengys yr amgylchiad fod Owen Jones yn feddiannol ar feddwl athronyddol, yn gystal ag ymarferol, ac nad oedd arno ofn edrych yn wyneb anhawsterau.

Fel y gallesid disgwyl, yr oedd yn dilyn yr oes yn ei dadblygiadau gwleidyddol a chrefyddol. Yr oedd yn ddigon craff i weled ffug, i ddiystyru yr arwynebol, a gwerthfawrogi y sylweddol. Clywais ef yn gwneyd sylw braidd yn wawdus ar ffasiwn unwaith. "O ie, ffasiwn," ebai, "rhaid dilyn y ffasiwn bid siwr. Pe byddai hi yn ffasiwn i ni gerdded yn droednoeth yn yr eira, mi fyddai yn rhaid i ni gyd wneyd hynny." Yr wyf yn coelio y byddai yn dipyn o swmbwl yn y cnawd weithiau i'r hen flaenoriaid, pan fyddent yn rhy ddiotal gydag amgylchiadau allanol o bwys. Adroddai am un amgylchiad o'r fath a barai gryn ddifyrwrch iddo. Amser ail adeiladu y capel, tua'r flwyddyn 1837, daeth ar draws y gweithredoedd, oeddynt wedi eu gadael mewn rhyw gongl yng nghanol yr ysbwrial. Pigodd hwynt i fyny, gan eu cymeryd gartref, a'u rhoi dan glo yn ofalus. Ymhen amser, gwybwyd eu colli, a bu chwilio dyfal a helynt erwinol, ond y cwbl yn ofer, nes i Owen Jones ddyfod a hwy i'r golwg, a dweyd ymhle yr oedd wedi eu cael. Yn lle cynnyg pleidlais o ddiolchgarwch am ei ofal, gofynnwyd iddo yn chwyrn iawn, "Beth oedd dy feddwl di mewn difri, Owen, yn gwneyd y fath dro?" "Dim, ond i ddangos y fath set ddiotal ydach chi," ebai yntau yn dawel.

Cafodd fyw i oedran teg, a mwynhau amgylchiadau cysurus y rhan olaf o'i oes. Eto yr oedd y caledi a ddiodesfodd yn moreu ei fywyd wedi effeithio ar ei gyfansoddiad, ac amharu ei gynheddfau rai blynyddau cyn ei farw. Fel y gwelir, yr oedd ei alluoedd yn gyflawn, ac wedi eu diwyllio yn dda. Cafodd yr ymarferol, yr athronyddol, a'r ysbrydol, sylw dyladwy ganddo. Mewn gair, gellir dweyd ei fod wedi

gwneyd y goreu o'r ddau fyd, yn ol y manteision a gafodd, a'r amgylch-
iadau y gosodwyd ef ynddynt.

Am William Jones, Dwr Oer, y cof cyntaf sydd gennyf ydyw, pan
oedd newydd wella o glefyd trwm a hirfaith, ac yn dioddef yn dost
gan y pruddlglwyf, fel effaith yr afiechyd. O ran ymddanghosiad
allanol, yr oedd ychydig uwchlaw y taldra cyffredin, yn edrych yn
urddasol a tharawiadol ymhob ystyr. Er ei fod gryn lawer heibio y
canol oed yr adeg hon, a'i gyfansoddiad wedi ei amharu gan hir
gystudd, yr oedd yr olwg arno fel hen gastell cadarngryf a welsai
ddyddiau gwell. Yr oedd yn meddu ar gorff o'r llunieidd-dra mwyaf
perffaith. Cerddai yn araf a phwyllog, gan grymu ychydig, ac
ymddanghosai fel wedi ei lyncu i fyny yn ei fyfyrddodau. Yr oedd
ffurf ei ben braidd yn hynod. Meddai dalcen crynaidd, ond llawn.
O'r aelïau, yr oedd yn ymddyrchafu ar ogwydd i fyny i'r coryn yn
uchel iawn, yna yn disgyn yn unionsyth yn y gwegil, a'r esgyrn y tu ol
i'r clustiau yn anarferol o drwchus. Yr oedd yr ên yn dra llydan,
cadarn, ac yn taflu ymlaen,—y genau yn gymhedrol o faint, y trwyn
braidd yn fyr ond syth, y llygaid o liw glas, heb fod yn fawr, ac
ychydig o gochni dyfrol o'u deutu, ac edrychai braidd yn llym. Gyda
dweyd fod ei wyneb yn wridog a rhychog, bydd y darlun o'i berson yn
lled gyflawn. Yn ei symudiadau gellid gweld ar unwaith fod pybyr-
wch y cawrfil ynddo wedi ei gyfuno â sionerwydd yr ewig.

Gwelir fod amryw o nodau y camp-ymladdwr yn llinellu y disgrifiad
uchod. Rhaid addef ei fod wedi hynodi ei hun yn fawr yn y cyfeiriad
yua yn y rhan flaenaf o'i oes. Ond teg yw hysbysu na fu erioed o
duedd gwerylgar; i'r gwrthwyneb, yr oedd yn llednais, siriol, a braidd
yn dawedog. Yn y cyfnod hwnnw, ymladd oedd prif ddiwyrrwch yr
ieuenctid mewn ffair a marchnad, ac nid canu a barddoni, fel yn ein
dyddiau ni. Yr oedd yn fwy cydnaws â'i natur ef i setlo cwerylon ac
ymladdau, ond nid oedd yn bosibl gwneyd hynny heb oruchwyliaeth y
dwrn, pan fyddai nwydau gwylltion yn fflagu allan dan gynhyrfiad y
ddiod. Yr oedd ymhell ar y blaen mewn campau ereill, megis rhedeg
a neidio Gallwn feddwl y buasai yn edrych gyda dirmyg ar brif
gyflawniadau campwyr y dyddiau hyn, os gellir dibynnu ar gywirdeb y
chwedlau am ei orchestion. Pe buasid yn eu rhoddi i lawr yma,
buasent yn ymddangos yn anhygoel, ac yn debycach i ddalen o ffug-
hanes rhamantus nag i adroddiad o ffeithiau. Felly tynnaf y llen dros
y rhan yma o'i fywyd trwy adrodd byr ymddiddan a fu rhyngof a
brodor o'r ardal a'i hadwaenai bron cystal a minnau. Gofynnais iddo,
a oedd yn gallu credu yr ystraeon a adroddid am orchestion William
Jones yn more ei oes. Ar atebiad oedd,—“Fuaswn i ddim, yn wir,
oni bai am un peth a welais â'm llygad fy hun.” “Ho! beth oedd
hynny,” ebwn innau. “Wel, yr oedd fy nhad a minnau yn dod adref
o farchnad Caernarfon un prydnewn Sadwrn, pan ddaethom o hyd i
William Jones yn cerdded yn hamddenol y tu ol i'w drol a'r llwyth glo
fel arfer. Aeth yn ymddiddan gwresog rhyngddynt, a minnau yn
dilyn wrth eu cwt. Yn y man clywn fy nhad yn gofyn iddo,—‘Wil-
liam Jones, a fyddwch chi ddim yn teimlo rhywbeth o'r hen ysbryd
ers talwm yn dyfod drosoch weithiau?’ Atebodd yntau yn sydyn,—
‘Wel, bydda wir, wel di, dalla i ddim gwadu na bydd rhyw bwff o

hono fel yn dwad trosta i weithia.' Ac os wyt ti yn y fan yna dyna'r pwff fel yr dwad trosto ar y pryd, a thyna fo yn neidio i fyny yn syth oddiar lawr i ben y drol a'r llwyth glo." Wedi clywed peth fel hyn oddiar awdurdod ddiameuol llygad-dyst, y mae yn anhawdd iawn anghoelio traddodiadau yr ardal am ei wrhydri gynt. Buasai yn ddifyr adrodd amryw o honynt,—megis y modd yr ymosodwyd arno gan dri o ysbeilwyr mileinig pen ffordd, a'r byr waith a wnaeth arnynt. Nis gallaf wrthsefyll yr awydd o gyfeirio at un amgylchiad hynod a dynnodd gryn sylw yn y wlad ar y pryd, sef ei waith yn achub boneddiges ieuanc o ganol perygl mawr. Yn ol fel y clywais i yr hanes, merch i Douglas Pennant, perchennog chwarel y Penrhyn, oedd y foneddiges, ac yr oedd yn cael ei chludo i fyny yr *incline* serth yn un o'r gwagenni gweigion, pryd yr aeth rhai o'r gwagenni oddiar y rheiliau, gan wneyd ei sefyllfa yn beryglus, a pheri dychryn nid bychan i'r foneddiges. Yn ffodus, fodd bynnag, digwyddai William Jones fod ar y pryd yn ymyl, a chyda phresenoldeb meddwl efe a'i gwaredodd â'i fraich gref ar unwaith o'i sefyllfa beryglus, am yr hyn, afreidiol yw dweyd, y derbyniodd crydnabyddiaeth deilwng oddiar law y foneddiges.

Gan i mi wneyd grybwylliad am dano fel yn dilyn trol a cheffyl i gario nwyddau o Gaernarfon, dylwn egluro pa fodd y daeth i ym-gymeryd â'r gyfryw alwedigaeth. Pan yn nyfnder y pruddglwyf, byddai yn treulio y rhan fwyaf o'i amser i gerdded yn ol ac ymlaen o'i dŷ ei hun i'n tŷ ni, pellter o tua hanner milltir. Byddai fy rhieni yn gwneyd eu goreu i'w gysuro ac ysgafnhau ei feddwl, trwy ei hudo i son am hen gymeriadau a helyntion yr amser gynt. Ceid ganddo ymddiddan yn rhywydd am hen ewythr iddo a dreuliasai ei oes fel môr-filwr, ac am hen gymeriadau rhyfedd a gyfarfyddasai pan yn gweithio yn chwarel y Penrhyn. Yr oedd ganddo syniad byw iawn o'r digrifol, a dihangai ambell i chwerthiniad iachus heb yn wybod a wnai les iddo. Mor wir yw gair Solomon, mai calon lawen a wna les fel meddyginiaeth! Er pob ymdrech, methem a chael ganddo ddweyd dim am ei orchestation ei hun. Os pwysid arno yn drwm iawn, pruddhâi, a dywedai yn syn, "Ah! ie, llawer tro ffol aeth dros fy mhen i rioed," a dyna y cwbl a geid ganddo. Ond un tro, digwyddodd adrodd am dano ei hun yn dod yn ol o un o hen Sasiynau y Bala, ac yn croesi mynydd maith y Migneint ar ei ffordd i Ffestiniog. Trôdd i mewn i ryw dafarndy lled fawr ar ganol y ffordd, i gael tipyn o luniaeth. Yr oedd yno gwmni o ddyinion yn yfed, ac yn meddwl eu hunain yn ymladdwyr glew. Yr oedd yno un talgryf, yn cael ei ystryied yn bennaeth arnynt, ac yn annioddefol o sarhaus wrth W. Jones, i'r diben o dynnu cweryl, a chael ymladd âg ef. "Bu agos iawn," meddai, "i'r hen Adda fynd yn drech na mi, a dweyd wrtho fo—Beth bynnag ydw i, mi rydw i yn ddigon i ti; ond tewi ddaru mi." Dyna yr unig beth a glywais ganddo yn ymylu ar ddim o'i hen orchestation ei hun.

Ar brydiau byddai ei bruddglwyf bron a'i lethu, ac âi i'w wely i farw, fel y dywedai, a byddai yn anhawdd iawn ei godi oddiyno. Bu Sioned, hen wreigan o forwyn oedd ganddo, mewn cryn brofedigaeth un boreu, pan ydoedd yn y cyflwr hwn. Dylaswn grybwyll yn gynt mai gŵr gweddw oedd W. Jones, heb un plentyn, ac yn lled dda arno o ran ei amgylchiadau. Trwbwl Sioned oedd fod sachaid

o flawd wedi dod o'r felin ar gefn merlyn, a dim ond bachgen bach gwan wedi dod gydag ef; yr oedd hi ei hun wedi mynd yn rhy hen a musgrell i roddi fawr o help ar amgylchiad o'r fath. "Wn i yn y byd mawr be wna i, wel di," ebai Sioned wrth y bachgen, "mae William Jones wedi mynd i'w wely i farw; does dim i'w wneyd ond mynd i fyny i dreio'i godi o, ac os medra i gael o i lawr, rhaid i ti a minnau wthio yn ofnadwy yn y sach, i dreio ei gael ar ei gefn o, ac os medrwn ni ei gael o ar ei gefn o unwaith, fydd dim peryg wedyn, wel di." Felly fu, aeth Sioned i fyny at ddrws y *bedroom* i ddweyd helynt y sachaid blawd, a gofyn am help. Ond gruddfan yn druenus yr oedd W. Jones, gan ddweyd na fedra fo wneyd dim, ei fod yn mynd i farw yn union deg. Beth bynnag, wedi crefu a dondio am dipyn o amser, cafodd Sioned ganddo godi, a thyma fo i lawr i'r drws yn wyllt yn nhraed ei sanau a'i *drawers*. Wedi cryn hwbio a gwthio, llwyddodd Sioned a'r bachgen i gael y sach ar ei gefn, a ffwrd ag ef a'r sach blawd i fyny y grisiau yn ffwch, a Sioned yn chwerrthin yn ei llewys, ei bod wedi managio mor hapus. Mynd i farw yn union deg, aiê? Cato pawb, yr oedd digon o nerth ynddo eto i dynnu y tŷ i lawr, fel Samson gynt. Yr oedd wedi ei ethol yn swyddog glwysig ers blynyddoedd cyn hyn; ond yn yr adeg hon nis gellid cael ganddo afael yn yr un ddyledswydd gyhoeddus. Deuai i'r moddion yn gyson, ond ni wnai ddim heblaw cnoi papur ac ochneidio yn drwmlythog. Yn y cyfwng hwn, perswadiodd ei hoff gyfaill, Owen Jones y Crydd, ef i ddod gydag ef am fordaith i Lerpwl, i edrych a wnaethai hynny ddim lles iddo. Aethant yno mewn hen agerlong hir-gul, ac yr oedd yn dywydd go arw ar y môr. Gorwedda i W. Jones ar ryw fainc, a'i gôb wedi ei thaenu drosto. Yn y man ayma foryn trwm yn dod ac yn taro yr hen agerlong nes y meddyliant fod popeth ar ben arnynt. Neidiai W. Jones i fyny yn wyllt, gan weiddi ar y teithwyr,—"Ydi hi mhell oddiwrth y lan tybed?" Wn i ddim sut yr ymdrawsant tua Lerpwl; doedd gan yr un o'r ddau ond y nesaf peth i ddim Saesneg. Fodd bynnag daethant yn ol yn ddiogel. Gwnaeth hyn dipyn o les iddo am beth amser, ond mynd yn ol i'r un twll ddarfu iddo drachefn yn lled fuan. Gresynnai pawb drosto yn fawr. Yr oedd pruddglwyf fel hunllef bron llethu ei ysbryd, ac yn bygwth bod yn arhosol. O'r diwedd daeth i feddwl fy mam geisio ei berswadio i brynu trol a cheffyl, i gario llechi o'r chwareli i borthladd Caernarfon, a llwyddodd yn ei hamcan. Cyn hir parodd hyn gyfnewid-iad mawr ynddo. Yn lle bod yn edrych i mewn yn barhaus iddo ei hun, a dim arall, parodd y drol a'r cheffyl iddo edrych ar y byd o'i amgylch, a chymeryd dyddoreb ynddo, er na chollodd byth moi ddwyster difrifol pan ar ei ben ei hun. Ail ymaffodd yn ei ddyledswyddau cyhoeddus gydag ynni adnewyddol, yr hyn a barodd lawenydd mawr trwy yr ardal.

Nid wyf yn gwybod am amgylchiadau ei droedigaeth. Mae yn debyg mai yn amser yr hyn a elwir yn Ddiwygiad Beddgelert y cymerodd hynny le, pan oedd tua 38 mlwydd oed. Arferai ddweyd i'r hen frodyr, ar ol iddo benderfynu bwrw ei goelbren ymysg yr hen Fethodistiaid yn y Waen, gydsynio i'w dderbyn ar brawf am fis, a'i fod yn teimlo na ddaethai ei fis i ben eto. Fel yr haul wedi bod dan ddiffyg, daeth allan o'r pruddglwyf yn ddisgleiriach nag erioed. Daeth yn

ansoddau gwrthgyferbyniol sydd yn y meddwl dynol wedi cael eu cyfrannu iddynt mewn mesur tra chyfartal. Yr oedd hyn yn amlwg yn W. Jones ar yr olwg gyntaf. Nid bob amser y mae'r allanol yn fynegai fyddlawn o'r tumewnol; ond ynddo ef yr oedd yn neillduol felly, fel y dengys yr ychydig engreiffiau a roddasom uchod. Yr oedd diysgog-rwydd a sydynrwydd taranfollt yn perthyn iddo, fel y dengys yr amgylchiad o waredu y foneddiges ieuanc. O ran ei deithi meddyliol, meddai ar ansoddau gwrthgyferbyniol, a hynny yn helaeth,—yr oedd gwroldeb y llew a diniweidrwydd yr oen yn perthyn iddo. Dengys y modd y ceryddai lanciau anystyriol y côr canu, hunanfeddiant a doethineb. Yr oedd ei naturioldeb yn berffaith, eto heb un ymgais, yr oedd yn gallu rhoddi dylanwad ag oedd yn gyfuniad o barch ac arswyd—y peth a olyga y gair Saesneg *awe*. Er ei ddwyster difrifol, ni chlywid chwerrthiniad mwy calonnog pan adroddid rhyw chwedl ddigrif, os byddai yn unol â chwaeth dda. Gwelais ef bron a chael ei orchfygu gan y *sense of the ludicrous* yn y seiat un tro, sef pan gododd hen chwaer aflywodraethus i fyny, a chau ei dwrn yngwyneb y sêr fawr, gan hawlio pedwar cant o bunnau o iawn am dorri ei charitor. "Ho, ho, ffortiwn dda iawn i ti wir, Cadi, os cei di nhw," ebai yntau. Dengys yr amgylchiad o neidio i ben y drol, ei fod yntau, er cymaint ei hunanfeddiant, yn ddarostyngedig i gynhyrfaeau y foment yn gystal a ninnau, ddynion bach cyffredin. Y mae yn ddigon posibl fod hyn wedi peri iddo wneyd camgymeriadau pwysig yn ystod ei oes, er nas gwn i am yr un o honynt. Er hyn, y mae y gwrthgyferbyniad yma yn gystal a phob un arall, yn elfen hanfodol yng nghyfanrwydd a hynod-rwydd ei gymeriad.

Nid oedd y nwydau a'r teimladau mor amlwg yn Owen Jones; ond yr oedd yr ewyllys a'r penderfyniad yn nodedig o gryf, ac felly yr oeddynt yn cael eu cadw danodd yn ddigon hawdd, ac yn peri fod pwyll bob amser wrth y llyw. Yr oedd hyn yn ffafriol iawn i nerth a sefydlogrwydd cymeriad, ac yr oedd dyngarwch Cristnogol yn haen o dan y cwbl. Felly yr oedd ei nerth ef megis llifeiriant gwastadol ac anwrthwynebol afon lydan, ac nid fel rhuthriad corwynt neu ddyrwygiad lloegfynydd. Yr oedd ef bob amser fel gwyliwr ar y mur, yn edrych allan am arwyddion yr amserau, yn wleidyddol a chrefyddol. Pe buasai yr hen wr yn fyw, buasai yn addysgiadol iawn cael ymddiddan âg ef am ragolygon ein gwlad yn gyffredinol y dyddiau hyn, ac yn neillduol yr eiddo Cymru. Yr wyf yn siwr mai gobeithiol a fuasai, er nad yw pethau yn ymddangos mor foddhaol a disglair ag y buasid yn dymuno. Y mae yr Eglwys Gristnogol mewn cyflwr symudol yn bresenol,—yr orchwyliaeth yn mynd ymlaen yn araf iawn, ond yn sicr. Ni pherthyn i ni fynd i mewn i'r pwnc hwn yn bresenol; ond credwn, pan fydd y gweddnewidiad wedi ei berffeithio, a chanolbwnc y cydbwysedd rhwng yr ymarferol a'r athrawiaethol, neu y damcaniaethol, wedi ei benderfynu, y bydd crefyddwr y dyfodol yn un tebyg iawn i Owen Jones y crfdd.

Gobeithio y parha y Waen Fawr i fagu gwroniaid tebyg i'r rhai y cawsom y pleser o sylwi yn fyr ar eu nodweddion.

RICHARD JONES.

Caerludd.

I'R FRWYDR.

WEDI bod yn gwrandu ar ruadau llewod ieuainc y Blaid Gyfansoddiadol Fawr, a gweled eu diderfyn fwynhad wrth rannu ysbaill y fuddugoliaeth y teimlent mor sicr ei bod yn eu llaw—er bod y rhyfel eto heb ei hymladd,—fe syrthiodd y Bardd i gwsg; a thra yn tawel fwynhau hyfryd ddymunolion Gwlad Hŷd, fe dybiodd ei fod yn clywed CORN Y GAD, a chanodd fel yma :—

CAN croesaw i'r Etholiad !
Dowch allan, Gymry rhydd,
A rhestrwch yn fyrddiynau
Dan faner Cymru Fydd :
I boten hên Doriaeth,
Fu arnoch megis barn,
Llym-wthiwch, megis Ehwed gynt,
Eich cleddyf hyd y carn.

D yw Cymru ddim am farw ;
Yr un yw Cymru Fu,
Ymladdodd fyrdd o frwydrau
Er cadw 'i rhyddid eu,
A Chymru yr hon Heddyw
Mor lawn o ynni sydd,
Ac am y breintiau mwya 'u gwerth
Yn rhan i Gymru Fydd.

Esgobion, Archesgobion,
Darllawyr mawr eu bri,
Y rhai yn Nhy 'r Arglwyddi
Sy am sathru arnom ni,—
Personiaid a Thafarnwyr,
Gyda'u holl gynffon laes,
Yw 'r nerthoedd sydd o'n blaen yn awr
I'w gyrru 'n llwyr o'r maes.

Yr Arglwydd-dirfeddiannwr,
A'r Stiward sy 'n neshau,
A'r Keeper, chwedl Bryn Roberts,
Sy'n llawer gwaeth na'r ddau ;
Maent am ein dallu a'n denu
Trwy dwyll dan deneu len,
A gwên Meistresi 'r Primrose League,
Er sgriwio 'n cadwen den.

Cyfodwch, Gymry dewrion,
Eich braint a'ch dyled yw,
A dwedwch wrth wŷr mawr eich bod
Fel hwythau 'n ddyinion byw :

Nid breintiau i ddoesbarthiadau,
Ond teg gyfiawnder mād
I bawb yn ddiwahaniaeth mwy,
Raid fod o fewn ein gwlad.

Am "Eglwys yr ychydig,"
Ac "Eglwys y gwŷr mawr,"
Fel Eglwys yr Iwerddon,
Ys dwedai Gladstone gawr,—
Yn siwr fe ddylai honno,
Yn gwbl fel pob un
O fyw Eglwysi Cymru lân,
Ofalu am dani ei hun !

Y Landlords, drawsfeddiannodd
Gymaint o ddaear Duw,
I feibion dynion roes Efe
I weithio arni a byw,—
Na chwynant os cānt hwythau
Ran o'r cyfiawnder hael
A fynnent hwy i ereill roi,
A fynnent i'w deiliaid gael !

Ac am y Fasnach Feddwol,
Sy 'n felldith i'r holl hfl,
Rydd i ambell un ei filiwn
Trwy ddamnio llawer mfl,—
Gadewch i'r Cymry tirion
Ddweyd p'un a ydynt hwy
Am ei pharhau ? Ac os nad ŷnt,
Na foed i'w blino mwy !

Y Fasnach, fel y dwedodd
Lord Churchill mewn llawn bwyll,
Sydd "ddieffig a dinystriol,"
Llawn o uffernol dwyll,—
Os geilw 'r bobl am atal
Llifeiriant mawr ei gwae,
Paham rhaid i Ustusiaid gael
Y gallu i'w nacau ?

Fe soniwyd am "ad-daliad ;"
Dylai ad-daliad ddod !
Ond yn gyntaf, penderfyner
Pa ochr y mae i fod :
Ai ochr "masnach ddieffig"
Sy a'i gallu yn lleihau,
Ai ochr trueiniaid heb ddim rht
Sydd trwyddi dan eu gwae.

Wel dyma 'r nerthoedd mawrion
Sydd yn ein herbyn ni,—

Arglwyddi, Esgobion, Landlorda,
 Tafarnwyr yn ddi rî ;
 Gwroniaid y Bîr a'r Beibl,
 Oll yn fflam dân o sêl
 O blaid eu buddion gwych eu hun,—
 O ereill doed fel dêl !

Am ddewrion Ty 'r Arglwyddi,
 Na chynrychiolant ddim
 Ond enwau wedi diffodd,
 Ac eiddo, ac ambell chwim
 Sydd yn eu gwâg benglogau
 Eu hun,—deallant mwy
 Nad ydyw 'r genedl oll i gyd
 I drengu o'u plegid hwy.

A phwy sy i'w gwrthwynebu !—
 Gwerin rinweddol grêf
 Hen Wlad y Menyg Gwynion,
 Gododd, trwy râd y Nef,
 O ddyfnder ei thrueni
 A'i hanwybodaeth trwch,
 Ac nid trwy help y bobl sy 'n awr
 Am ei chadw yn y llwch !

O cyfod, Gymru dirion,
 A chyfod yn dy rym ;
 Dadleua 'th gyfiawn hawliau
 O flaen gelynyion llym :
 A dewr unfrydedd anfon
 I fynnu dy gais yn awr,
 DY BEDWAR AR DDEG AR HUGAIN OLL
 I Senedd Prydain Fawr !

OBADOLA DAFYDD.

EGLWYS LOEGR A PHOBL CYMRU.

GAN Y GWIR ANRHYDEDDUS SYR G. OSBORNE MORGAN, A.S.

MAE y diweddar Mr. Buckle, yn ei *History of Civilization*, wedi dangos yn amlwg nad oes un offeiriadaeth, pa mor gyfoethog bynnag neu pa mor gadarn bynnag y bo wedi ei sefydlu, wedi llwyddo erioed i ennill

dylanwad gwirioneddol neu barhaus, mewn gwlad lle nad ydyw wedi gallu cadw ei hun mewn cyffyrddiad agos a chyson â chorff y bobl. Pe buasai yr hanesydd enwog hwnnw wedi byw hyd heddyw, gallasai gael prawf tarawiadol o hynny yn y berthynas sydd wedi bod ac sydd eto yn parhau rhwng yr esgobion a'r clerigwyr Cymreig a phobl Cymru. Anaml, os erioed, y darfu i gorff crefyddol mawr ei dorri ei hun mor lwyr oddiwrth ffynhonnau a ffrydiau bywyd cenedlaethol, neu fethu mor amlwg mewn rhoddi ffurf ac argraff ar y cymeriad cenedlaethol â'r hyn a elwir yn Eglwys "Genedlaethol" Cymru. Ni ellir, yn wir, ddatgan y gwirionedd pruddaidd yn well nag yng ngeiriau ei mab mwyaf enwog a mwyaf hyawdl, yr Hybarch Archddiacon Howell. Mewn pregeth a draddododd yn Eglwys St. Margaret, Westminster, ryw bedair blynedd yn ol, defnyddiodd efe y geiriau hynod a ganlyn:— "Mae yr Eglwys yn Nhywysogaeth Cymru yn awr mewn ystâd wasgedig. . . . Dyna y ffaith ddiamheuol, nad ydyw y mwyafrif o'r boblogaeth i'w cael o fewn magwrydd yr Eglwys. A dyna y ffaith sydd yr un mor ddiamheuol, fod y rhai sydd yn glynu wrthi yn cael eu gwneyd i fyny mewn rhan helaeth o drigianwyr Seisnig, a Chymry wedi eu Seisnigeiddio,—nid o'r lliaws sydd yn siarad Cymraeg, y rhai sydd yn dal yn eu llaw ddyfodol y Dywysogaeth. Dyna y ffaith fod yr Eglwys ym meddyliau pobl Cymru eto yn cael ei chysylltu â'r hyn a arferai fod yn llywodraeth eglwysig estronol, ac â threfn o ffafraeth i berthynasau a chamlywodraeth nad oes neb yn awr a feiddiai eu hamddiffyn. Dyna yr argraff, nad ydyw ond yn rhy gyffredin, nad ydyw sêl grefyddol, duwioldeb, ac ysbrydolrwydd, ond planhigion tramor yn yr Eglwys, a lle bynnag y maent i'w cael mai eithriadau ydynt i'r rheol. Mae gwendid yr Eglwys yng Nghymru yn ddyledus i'r ffaith fod cymaint o waed goreu y genedl nad ydyw mwyach yn ei gwythennau. Ynfydrwydd noeth ydyw i ni guddio oddiwrthym ein hunain y gwirionedd nad ydyw bywyd cryfaf pobl Cymru mwyach yn tarddu allan o galon yr Eglwys Gymreig. Beth yw cyfartaledd manwl y bobl a geir y tu mewn a thu allan i'r Eglwys, sydd fater israddol. Llaver mwy pwysig yw y ffaith fod cyfran mor helaeth o ynni a brwdfrydedd pobl Cymru ar lawn waith y tu allan i'r Eglwys."

Yn anffodus i achos gwirionedd, y mae gwŷr fel yr Archddiacon Howell yn brinion, ac o'u heisieu nid ydyw yr agoriad llydan ag sydd yn parhaus fyned yn lletach rhwng yr offeiriaid a phobl Cymru, er yn cael ei addef a'i gydnabod yn gyffredinol yn y Dywysogaeth, yn cael nemawr neu ddim sylw mewn manau ereill. Mae amryw bethau yn peri y difaterwch yma, yr hwn sydd gan mwyaf yn gynnyrch anwybodaeth. Mae yr ymwelwr Seisnig, os croesa y ffin, yn gyffredin yn ymsefydlu mewn rhyw dalaeth Seisnig, megys Llandudno neu Beaumaris, y rhai mewn gwirionedd nad ydynt ond rhyw fychanigion o Brighton neu Bournemouth. Fe wêl fod Eglwys y plwyf yn cael ei llanw â meibion a merched o'i genedl ac o'i ddoe-barth ei hun. Digwydda droi i mewn i bazaar Eglwysig a noddir gan wŷr mawr y gymdogaeth, ac a lenwir gan foneddigessau ffasiynol sydd yn awyddus i ddangos ar unwaith eu sêl dros yr Eglwys a'r ffasiynau diweddaraf mewn llewys. Derbynia ymweliad oddiwrth

o blaid ymgeiswyr Undebol, *gyda'r rhai nad aethant i'r pŵl*, yn 53 y cant o'r holl etholwyr!" Mae yr Esgob yn cymeryd holl nifer yr etholwyr ar y rhestrau (314,540), ac yn llawen yn gweithio allan ei gyfartaleddau y cant, gan lwyr anghofio, neu anwybyddu, y nifer mawr o rai wedi eu rhoi i lawr am wahanol fannau, symudiadau, marwolaethau, a rhai wedi eu hanalluogi mewn ffyrdd ereill, heblaw fod y rhestr wedi ei gwneyd ers dros chwe mis. Fe w'yr pawb, a w'yr rywbeth am etholiad, fod "etholwyr ar y rhestr," a dynion yn alluog i fotio, a gwahaniaeth mawr rhyngddynt. Ond ymddengys fod yr Esgob yn edrych arnynt fel yr un. Ac ni fyddai yn anhawdd dangos fod y lliaws o'r rhai a beidiasant fotio, wedi aros gartref dau bwysau y dylanwad hwnnw ag y mae lleiafrif cyfoethog a galluog iawn bob amser yn allu osod ar waith ar adegau etholiad. Ond fel pwnc o ffaith, y mae yr arfer newydd yma o fynd y tu cefn i'r peiriant etholiadol a ddarparwyd gan y Cyfansoddiad, a damcaniaethu am a allasai ddigwydd pe buasai nifer neillduol a etholwyr wedi gwneyd rhywbeth *na* wnaethant, y peth gwirionaf a mwyaf plentynaidd y gellid meddwl am dano. Trwy chwaraeuaeth gyffelyb ar ffgyrau, fe ellid profi na ddarfu i'r Gwyddelod erioed ddatgan eu bod o blaid Llywodraeth Gartrefol, ac fod trethdalwyr Llundain yn yr Etholiad Bwrdd Ysgol diweddfaf, wedi mynd fel un o blaid Mr. Diggle a Mr. Athelston Riley. Fel y danghosodd Arglwydd Hartington lawer o amser yn ol yn achos Scotland, ni all cwestiwn Dadesfydliad gael ei benderfynu ond trwy bleidleisiau Seneddol cynrychiolwyr wedi eu hethol yn gyfreithlon gan y bobl y mae a fynnon't ag ef.

Fe fyddai y Sophist, neu y twyll-resymwr Groegaid, pan gâi ei fod wedi ei wasgu i gongl, yn arfer dianc trwy "gymysgu y ddadl;" ac erioed, feallai, ni wnaed defnydd mor rydd ac mor fynych o'r dull amheus hwnnw o droi heibio wrthwynebydd ag yn y ddadl bresenol. Felly fe ddywedir wrthym yn barhaus fod yr Eglwys yng Nghymru yn dyfiant cynhennid o'r ddaear, ei bod yn hanfodi cyn i Awstin laniau ar draethau Kent, ac na ddechreuodd golli tir ond pan, megis yn y ganrif ddiweddfaf, y gosodwyd Esgobion Seisnig a Saeson yn dal lliaws o fywoliaethau ar bobl na allent ddeall eu gweinyddiadau. Gallai traethiadau o'r fath fod yn ddyddorol o safle hynafiaethol neu athrofaol: ond â'r cwestiwn sydd yn awr yn pwysu am gael ei benderfynu, nid oes a fynnon't o gwbl. Fel y danghosais fwy nag unwaith, y cwestiwn mawr i'w ystyried gan wladweinwyr a deddfwneuthurwyr ydyw, nid perthynas yr Eglwys Gymreig â'r Eglwys Seisnig yn y chweched ganrif neu yr unfed ganrif ar bymtheg, ond perthynas yr Eglwys Seisnig â phobl Cymru y dydd hwn. Gan edrych ar y mater ô'r safle yma, yr ydwyf yn datgan yn y modd mwyaf difloesgni fod y Sefydliad Seisnig yng Nghymru nid yn unig yn "estronol," ond hefyd yn wrthgenedlaethol.

Mae yn bosibl—ie, yn debygol—y gallai fod y dull gwaradwyddus o apwyntio Saeson anwybodus o iaith y bobl i leoedd o ymddiried ac ennill yn yr Eglwys Gymreig, yn gystal â buchedd ddrygonus a llygredig rhai o'r offeiriaid Gymreig, wedi helpu i bryuro yr ymadawiad mawr a nodweddfaf derfyn y ganrif ddiweddfaf. Ond fe fyddai yn gamgymeriad dybryd i foddloni ar yr eglurhad rhannol ac

arwynebol hwn o drychineb na ellir ei esbonio yn briodol ond gan nodwedd a thymor y bobl eu hunain, wedi eu deffro o gyngadrwydd oesoedd gan adfywiad ysbrydol mwyaf yr amseroedd diweddaf. Ni ellir dweyd yn rhy fynych—oblegid dyma yr allwedd i'r holl gwestiwn—fod y gwerinwr Cymreig yn hollol wrthgyferbyniol i'r llafurwr Seisnig, a bod yr achosion a duedda y naill i dderbyn gweinyddiadau offeiriad y plwyf yn tueddu y llall i'w gwrthod. I fesur mawr y mae y gwahaniaeth sylfaenol hwn yn codi o'r gwaed a rēd yn eu gwythennau. Mae yn debyg fod y Proffeswr Goldwin Smith, yr hwn sydd wedi gosod yr achos gyda'i nerth a'i eglurder arferol, yn iawn pan y dywed y "gall y gwerinwr Celtaidd fod yn Babydd gwresog fel y mae yn Llydaw ac Iwerddon, yn Bresbyteriad gwresog fel y mae yn yr Uchel-diroedd, yn Fethodist gwresog fel y mae yng Nghymru, ond yn *Eglwyswr Seisnig cyson a gweddaidd—byth*." Boed hyn fel y bo, y mae y Cymro cynhennid—â'r hwn yn unig y mae yn awr a fynnom—yn Ymseïllduwr o waed ac o anian. Gan ei fod yn dduwinydd o dymer ac o addysgiaeth, fe ysgornia gymeryd ei grefydd yn ail llaw, hyd yn oed er ei fod trwy wneyd hynny yn ei chael yn rhad. Y mae yn barod, yn hunanymddiriedol, ac yn selog grefyddol, ac am hynny yn nerth byw a gweithgar yn ei Eglwys ei hun. Pa ryfedd os i'r fath un fod trefu o lywodraeth Eglwysig dan ba un y mae gofal ei enaid anfarwol yn cael ei drosglwyddo i un a enwir gan Arglwydd Ganghellydd neu Esgob, neu yn cael ei daro i lawr i'r cynhygydd cyfoethocaf mewn arwerthiant eglwysig, yn Anathema Maranatha? Pa ryfedd fod y Llyfr Gweddî Gyffredin, yn cael ei grŵna yn undonol o'r ddarllenfa, y person

Bummin' awaây loike a buzzard-clock ower his yeâd,

yr hyn a effeithiai fel cwsgbair esmwyth ar "Northern Farmer" Tennyson, yn gadael ei ddeall ef heb ei foddloni, a'i galon heb ei chyffwrdd? Yma y mae manteision yr Eglwysi Rhyddion yn dechreu dweyd. Gyda hyblygrwydd hynod, y maent wedi cyfaddasu eu gwasanaeth a'u disgyblaeth at anghenion a dymuniadau eu haelodau mewn dull ag y mae Eglwys Gwladwriaeth—sydd wedi ei rhwymo draed a dwylaw gan Actau Seneâdol, ac yn cael ei gorfodi i bwrcasu ei hunoliaeth, y fath ag ydyw, ar draul ei chynnydd, ac o angenheidrwydd yn analluog i ymgyfaddasu yn gyffelyb—yn ceisio yn ofer ei ddynward. Yma a thraw, yn wir, y mae ambell i lanc o offeiriad, mwy hynod am sêl na barn, yn ceisio gwneyd i fyny trwy fydumiaeth Pabaidd am oerni a ffurfioldeb y ffurfwasanaeth Seisnig; ond nid yw yr atyniadau sydd yn awyno bechgyn penwan a genethod cyffrous ymysg y Saeson, yn cynhyrchu dim ond ffeidd-dod ym Mhuritan penderfynol Môn neu Feirion, ac y mae y "gagendor mawr" sydd wedi "ei sicrhau" rhyngddo a'i weinidogion a'i feistriaid yn myned yn lletach o ddydd i ddydd.

A phe, yn wir, y buasai yr Eglwys Seisnig yn ei pherthynas â'r genedl Gymreig, wedi bod yn oddefol yn unig, ac yn aros yn dawel, fe allsid dadleu fod ei methiant i gyrraedd calonnan y bobl yn codi o'i hanffawd yn hytrach na'i bai. Ond y mae yn ffaith hynod fod urddasolion yr Eglwys, dros amryw flynyddoedd, wedi bod yn pregethu ac yn cario ymlaen groesgadiad gweithgar ac egnïol yn erbyn cenedlaethol-

deb Gymreig ei hunan. Fel y dywedodd Mr. Lloyd George y dydd o'r blaen, nid ydyw Esgob Cymreig byth mor hapus â phan y mae yn amharchu ei zig a'i waed ei hun. Pan y ceir fod arwr glewaf y Sefydliad yn llythrennol yn ymfwynhau o herwydd diflaniad tybiedig yr iaith Gymraeg, fel arwydd o ddiflaniad cenedlaetholdeb Gymreig,— fel pe buasai Cymru yn peidio bod yn Gymro pan y dysga Saesneg,— pan y mae bwrw pob anfri, a hynny yn ddigymmysg, ar ei wlad ei hun ac ar ei gydwladwyr ei hun wedi dyfod i gael ei ystyried y cymhwyster goreu i ymgeisydd Ceidwadol, a'r ffordd sicraf i ennill ffafr Esgobol, y mae yn hawdd deall mor anobeithiol ac mor anadferadwy y mae apostolion Diffyniad yr Eglwys yng Nghymru wedi colli ffafr pobl mor lawn o deimlad ac mor hynod o wladgarol. Yn wir y mae eu hoff ddadl, nad ydyw y Dywysogaeth ond yn cynnwys pedair esgobaeth o dalaeth Canterbury, na feddant fwy o hawl i gael eu hystyried ar wahân neu yn annibynnol na swydd York neu Kent, ei hunan yn cael ei hystyried fel sarhad diamheuol gan y Cymro, yr hwn, nid yn annaturiol, a fetha weled y cyflawnder o wrthod Dadsefydliad i Gymru am nad oes ar Loegr ei eisieu.

Nid yw yr eaboniad ar y dull cymharol newydd yma o weithredu, yn anhawdd iawn cael gafael arno. Gan anobeithio, a hynny yn rhesymol, allu codi unrhyw deimlad cenedlaethol yn ffafr eu hachos ymysg eu cydwladwyr eu hunain, y mae arwyr Cymreig y Sefydliad wedi eu taffu eu hunain i freichiau eu brodyr Seisnig, ac wedi galw am help corff o gynorthwywyr estronol, nad oes ganddynt ond ychydig wybodaeth o anghenion a dymuniadau pobl Cymru, a llai fyth o gydymdeimlad â hwynt. Congress yr Eglwys yn Rhyl, pan foddheid llygaid ymwelwyr a thrigolion y lle poblogaidd hwnnw â'r olwg ar ddau Archegob a dwsin neu fwy o Esgobion yn ymdeithio yn eu hurddwisgoedd trwy brif heolydd y dref, oedd yn nodi dechreuad y symudiad. Yng nghyfarfod yr Albert Hall y llynedd,—y cydnabyddir yn gyffredin bellach ei fod yn gamgymeriad,—fe gyrhaeddodd ei bwynt eithaf. Fel y sylwid yn briodol ar y pryd, yr oedd yr arddanghosiad anffodus hwnnw yn hynod am bresenoldeb amlwg ymgeiswyr gwrthodedig, ac absenoldeb amlwg aelodau Cymreig oedd wedi eu hethol. Ond os ydyw plaid Diffyniad yr Eglwys wedi methu cael gwasanaeth unrhyw leygwr Cymreig cynrychioladol, y maent wedi gwneyd i fyny am eu methiant trwy yr ymosodiadau bryntaf, nid yn unig ar arweinwyr y farn gyhoeddus Gymreig, ond ar bobl Cymru eu hunain. Nid oes un iaith wedi bod yn rhy lem, nac un awgrym wedi bod yn rhy warthus am ddynion, prif drosedd pa rai ydyw eu bod wedi eu dewis trwy fwyafrif mawr, ac mewn rhai achosion mwyafrif aruthrol, i siarad dros ac i gynrychioli eu cydwladwyr. Mae dynion cyhoeddus, yn ffodus, yn dysgu yn fuan i gymeryd pethau o'r fath fel pethau i'w diagwyl, ac i ystyried y fath ffodeu areithyddiaeth ag "anwiredd lluniedig," "celwydd ystyfnig," ac "ysbeilio Duw," yn unig fel "furf gyffredin" o'r tafod drwg eglwysig, sydd yn fynychedi wedi gwasanaethu mewn dadleuaeth dduwinyddol, ond na argyhoeddodd erioed eto neb oedd yn petruso, ac na ddychwelodd neb. Ond beth sydd i'w ddweyd am ysgrifennydd erthygl ar "The Church in Wales" yn y *Quarterly Review* sobr a gweddaidd, yr hwn nad all weled ym myw-

ydau gweinidogion Ymneillduol Cymreig ond "gwawdlun gwrthun o'r bywyd Cristionogol"—*a hideous travesty of the Christian life*; nac yn elfen boblogaidd Ymneillduaeth Gymreig ond "ymyriad anfoes diddysg mewn materion ysbrydol"—*the interference of uneducated vulgarity in spiritual matters*; nac yn y wasg Ymneillduol Gymreig,—yr hon, gyda llaw, a gymer i mewn bron yr oll o wasg Gymreig Cymru,—ond cynhyrfion i "anghrefydd, penrhyddid, a'r Sosialaeth wylltaf"—*irreligion, lawlessness and the wildest Socialism?* Ac eto fe wyddai awdwr y ffloineb alaethus yma,—personoliaeth yr hwn na chuddir ond i fesur bychan dan len bod yn ddienw,—ei fod yn siarad am wlad lle mae ei haddoldai a'i hysgolion Sabothol yn llawnion, lle nad ydyw troseddau cosbadwy ond ychydig fwy na'r hanner mewn cyfartaledd i'r boblogaeth o'r hyn ydynt yn Lloegr, a lle, mewn brawdlys ddiweddar, y cymerodd dair o siroedd i wneyd un carcharor.

Onid byddai dda pe bai yr ymosodiad yma ar y teimlad cenedlaethol yn cael ei gyfyngu i eiriau. Mae y cyhuddiad yn erbyn awdurdodau yr Eglwys Gymreig o fath fwy difrifol fyth. Mae y rhan fwyaf o Saeson wedi clywed am yr ymdrech i godi safon addysgiaeth y bobl yn y Dywysogaeth, sydd wedi dechreu o'r amser pan dafliwyd yr hen Brifysgolion—y rhai oeddent yn ymarferol gaudig i gorff y boblogaeth—yn agored i Ymneillduwyr. Ond nid oes ond ychydig a wyr gymaint o lwyddiant yr ymdrech yma sydd yn ddyledus i bobl Cymru eu hunain. Yn ystod ychydig iawn o flynyddoedd y maent wedi sefydlu tri o Golegau Prifysgol, pob un o ba rai sydd yn gwneyd gwaith ardderchog; ac y maent newydd goroni yr adeilad addysgol trwy sefydlu Prifysgol Cenedlaethol Gymreig. Y maent yn gorchuddio y wlad â rhwydwaith o Ysgolion Canolraddol, y rhai ydynt yn anadlu gobeithion newyddion a bywyd newydd i'r genhedlaeth sydd yn codi o feibion a merched eu gwlad. At yr amcanion cenedlaethol hyn—heb son am drethoedd a godir at gynnal ysgolion Canolraddol ac Elfennol—y maent wedi cyfrannu mwm o fwy na chwarter miliwn o bunnau, a hynny nid yn unig mewn ymision mawrion, ond mewn casgliadau wrth ddrysau capelydd, mewn tanagraffadau a godir ymysg chwarelwyr, ac ymysg masnachwyr ac amaethwyr nad ydynt yn aml ond ychydig well allan na llafurwyr wrth y dydd. Byddai yn anghyfiawn i'r eithaf, yn gystal ag yn angharedig i'r eithaf, i anwybyddu y rhan a gymerodd llawer o Eglwyswyr amlwg, fel Arglwydd Aberlata, Arglwydd Rendel, y diweddar Arglwydd Abertan, Mr. Humphreys-Owen, A.S., yn gystal ag ereill rhy liosog i'w hennu, yn y symudiad cenedlaethol mawr hwn. Ond pa ran a gymerodd yr Eglwys a'r Offeiriad Cymreig yn y gwaith? Gydag ychydig eithriadau amlwg a thra theilwng, ychydig neu ddim.

Nid ydyw yn armodl dweyd fod y rhan fwyaf pwysig a gwerthfawr o'r symudiad, y drefn o Addysgiaeth Canolraddol a grewyd gan Act 1885, wedi cael yn awdurdodau yr Eglwys Gymreig ei galyntion mwyaf penderfynol ac aughymhell. Ffwr help dyrnaid o ddeddfwriaethwyr allwng, y rhai na'n deddf, a wyddent lawer iawn mwy am enillydd nosaf y Parly na'r am angheddion a ddiheadau y bobl y deddfwriaethent ei oll mwm. Y maent mewn mwy na'r am angheddion, wedi llywddo i safon dan ddaed y de. Awdardd rhydd a phwrick a wnaed o ewyllys y ludd. Adwadu y rhwydd ddrws oren yng ngeiriau cryfion Mr.

Thomas Ellis yn ei araith ddiweddar yng Ngholwyn Bay:—"Fe garwyd y gwrthwynobiad hwnnw mor bell ag i wrthwynebu sefydliad addysgiaeth ailraddol yng Nghymru. Yn ystod y ddwy flynedd ddiweddar, defnyddiodd Esgobion Llanelwy a Bangor eu sefyllfa yn Nhy yr Arglwyddi, ac ymdrechasant ddymchwelyd y cynlluniau, neu rannau o gynlluniau, oeddent wedi eu pasio gan Gynghorau Sirol Cymreig, a'r *Charity Commissioners*, a'r Cyngor Addysg. Mewn llawer o achosion nid oedd y chwerw wrthwynobiad i'r cynlluniau hyn wedi ei gymeradwyo hyd yn oed gan Dy yr Aglwyddi. Cynhygiodd Esgob Bangor wrthodiad cynllun Sir Gaernarfon, a rhoddodd efe a'i frawd o Lanelwy rybudd o gynhygion am wrthod cynlluniau ereill, megis rhai Siroedd Fflint a Môn; ond nid oedd hyd yn oed farn Ty yr Arglwyddi mor Doriaidd, gwrthweithiol, a gwrthgenedlaethol ag eiddo y ddau Esgob. Fel yr ydoedd, darfu iddynt andwyo cynllun Sir Aberteifi trwy dynnu o hono rai o'r darpariaethau gwerthfawrocaf er sefydlu ysgoloriaethau a chynorthwyon. Cymerasant o gynlluniau ereill, megis eiddo Siroedd Dinbych, Meirionydd, a Fflint, y darpariaethau a wnelai yn amhosibl i unrhyw uchafiaeth sectol gael ei sefydlu mewn unrhyw ysgolion ailraddol yng Nghymru. Yn achos cynllun Sir Ddinbych, caniatâodd yr Esgobion Cymreig i Dy yr Arglwyddi gymeryd cwrs o'r fath fwyaf annheilwng."

I ymdeimlo â llawn nerth y cyhuddgwyn ofnadwy yma, mae yn angenrheidiol cadw mewn côf:—(1) fod y mater oedd o flaen Ty yr Arglwyddi yn achos Sir Ddinbych yn troi ar y cwestiwn pa un a oedd Ysgol Rhuthyn yn "Ysgol Eglwysig;" (2) fod Llywodraethwyr yr Ysgol, o ba rai yr oedd Esgob Llanelwy yn un, mewn llawn ystyriaeth wedi gosod yr achos o flaen Syr E. Clarke, feallai yr awdurdod uchaf yn y deyrnas, er cael ei farn; (3) mewn atebiad, fod y cyfreithiwr Ceidwadol mawr hwnnw wedi datgan yn y modd mwyaf clir ag oedd yn bosibl *nad* ydoedd yn Ysgol Eglwysig; (4) ond gyda'r achos a'r farn honno yn ei fediant, fod yr Esgob Edwards wedi cadw y nail a'r llall oddiwrth wybodaeth Ty yr Arglwyddi; ac (5), er cael ei gyhuddo drachefn a thrachefn yn y papurau newyddion o gelu y gwirionedd, a'i alw i esbonio ei ymddygiad, na ddarfu iddo o gwbl geisio gwneyd hynny.

Fe allai ymddangos yn rhyfedd fod corff offeiriad Cymru, a hwythau, fel y maent, yn dyfod oddiwrth gorff y bobl, ac yn sicr heb fod yn ddiffygiol o ansoddau goreu eu cenedl, yn eu benthyca eu hunain at weithrediad mor anwladgarol. Ond y mae yn hawdd esbonio y ffaith. Yn y Dywysogaeth, y mae y rhan fwyaf o lawer o Nawddogaeth Eglwysig yn llaw yr Esgob. Prin y gellir disgwyl i offeiriad, gyda chyfflog bychan a theulu mawr, gweryla â'i fara a'i ymenyn, a chyhyd ag y credir, boed cam boed cymwys, fod y ffordd i ddyrchafiad trwy ddarostwng gwasg y bobl a chynnrychiolwyr y bobl, cyhyd â hynny y tueddir corff yr offeiriad i gymeryd eu harwain gan feistr llawer o fywoliaethau. Yn ddiameu y mae llawer o eithriadau anrhydeddus. Nid wyf yn siarad yn awr am y gau-wladgarwyr sydd yn edrych am ddyrchafiad, y rhai ydynt Eglwyswyr yn gyntaf a Chymry wedyn; ond am y fath wŷr â Ficer Abergel, ymddygiad Cristionogol a rhyddfrydig yr hwn yng nghladdedigaeith y diweddar Gllwydfardd, sydd mor dra gwahanol i'r camddehongliad gwarthus a roddir gan gynifer o'r offeir-

Ond gan fod y cri gwag am gyfrifiad crefyddol,—yr hwn, heblaw, cynhyrfu anghydfod crefyddol yn hanner teuluoedd Cymru, nad allai hyd yn oed pe gellid ei gymeryd yn deg, daflu nurhyw oleuni ychwanegol ar y cwestiwn oll-bwysig a atebwyd yn yr etholiadau, sydd yn dangos dymuniad pobl Cymru, Eglwyswyr yn gystal ag Ymneillduwyr, am Ddadedesyddliad,—eto wedi ei godi yn y pamphled diweddar o eiddo Esgob Llanelwy, fe fyddai yn gystal edrych yn fyr ar y seiliau ar ba rai y gelwir am dano. Trwy gywreinrwydd rhifyddol, tra thebyg i'r hwn y mae trwyddo wedi naddu ymaith y mwyafrif Seneddol anferth o blaid Dadgysylltiad, fe ymddengys fod yr Esgob wedi dyfod i'r casgliad fod yr Ymneillduwyr yng Nghymru yn rhifo bron lai na hanner holl boblogaeth y wlad. I gyrraedd y casgliad hynod hwn y mae wedi cymeryd llyfrau blynyddol swyddogol y pedwar corff Ymneillduol yn y Dywysogaeth, a chan gael fod y rhai hynny yn cyfrif eu “haelodau,” sef rhai mewn oed wedi ymuno â hwynt, a'u “gwraddawyr,” sef y rhai sydd yn eu dilyn heb fod yn “aelodau,” yn 832,357, neu 47 y cant o holl boblogaeth Cymru a Sir Fynwy, y mae yn dawel yn casglu fod y cyfanrif yma yn cynnwys “pob dyn, dynes, plentyn, neu faban a ellir ddisgrifio fel yn perthyn i'r enwadau hynny.” Oddiworth y cyfrifiad yma,—yr hwn, gyda llaw, na chymer un sylw o gyrff crefyddol ereill, megis y Pabyddion, sydd yn dra lluosog yn y Deheudir,—yr ydym, fe ellid meddwl, i gasglu fod y 53 y cant sydd yngweddill o'r boblogaeth, yn “aelodau” neu “wraddawyr” yn Eglwys Loegr! Fel y dywedais yn Nhy y Cyffredin, gallasai yr Esgob yn gystal gymeryd nifer yr aelodau rhestredig ym Myddin y Ruban Glas, a gosod i lawr holl boblogaeth Prydain Fawr nad ydynt wedi eu rhestru felly fel meddwon gwastadol.

Y gwir yw mai yr unig ffordd ddiogel o ddelio â'r ddadl ystadegol ydyw cymharu nifer *Cymunwyr* pob corff crefyddol. Mae hyn wedi ei wneyd yn dra gofalus gan Mr. Thomas Darlington mewn erthygl bwyllog a manwl-ymresymiadol yn y rhifyn am Fai o'r *Contemporary Review*. Gan gymeryd y nifer a roddir yn llyfr blynyddol swyddogol Eglwys Loegr am yr holl esgobaethau Cymreig, a chaniatau ar gyfer plwyfydd o ba rai na chafwyd cyfrif, a'u cymharu drachefn â chyfrifon swyddogol y Methodistiaid Calfinaidd, y Bedyddwyr, y Wesleyaid, ac yn achos yr Annibyuwyr â'r cyfrifon a gaed gan Dr. Thomas yn 1891—yr olaf a ellid gael at y pwrpas—y mae yn dyfod i'r casgliadau hyn :—

Mae cymunwyr yr Eglwys yn rhifo . . . 117,900, neu 6·6 y cant o'r boblogaeth.
Cymunwyr y pedwar enwad Ymneillduol 387,671, neu 21·6 y cant o'r boblogaeth.

Neu mewn geiriau ereill :—

Mae cymunwyr yr Eglwys yn . . . 23·4 y cant o'r holl nifer.
Eiddo y pedwar enwad Ymneillduol yn 76·6 y cant o'r holl nifer.

Yn ol y ffigyrau hyn, mae y nifer yn y pedwar enwad Ymneillduol yn fwy nag eiddo yr Eglwys o ychwaneg na thri am un,—yr hyn sydd yn cyfateb i'r casgliad y daethpwyd iddo yn ddiweddar gan y Parch. R. Temple, offeiriad Seisnig, yr hwn am ddeng mlynedd ar hugain a hanwai y swydd o Arolygydd Ysgolion yng Nghanolbarth Cymru. Yr

wyf fi, fodd bynnag, yn credu fod y cyfrif a roddir gan Mr. Darlington, os rhywbeth, yn rhy ffafriol i Eglwys Loegr, mewn rhan am na chymer gyfrif o gwbl o Babyddion, Undodiaid, Crynwyr, ac enwadau llai ereill; ac mewn rhan am fod nifer cymunwyr yr Eglwys ym misoedd yr haf a'r hydref yn cael eu chwyddo yn fawr gan ddylifiad ymwelwyr Seisnig. Dengys Mr. Darlington hefyd, yr hyn sydd yn fwy pwysig fyth, fod y Methodistiaid Calffaidd Cymreig rhwng 1872 a 1892 a'u nifer wedi cynhyddu dros 46 y cant; y Bedyddwyr dros 54 y cant; a'r Wesleyaid dros 37 y cant. Y mae yn ffaith arwyddocaol, hefyd, yn ystod yr un amser, fod nifer yr aelodau Cymreig a ddychwelwyd i bleidio Dadsefydliad yn Nhy y Cyffredin wedi codi o 7 i 31, tra y syrthiodd y nifer a'i gwrthwynebot o 13 i 3. Mae yr etholiadau diweddar i Fyrddau Ysgol a Chynghorau Sirol a Phlwyfol yn dweyd yr un ystori. Eto fe ddywedir wrthym yn barhaus fod Ymneilldueth yn marw yng Nghymru!

Y mae Esgob Llanelwy yn gwneyd pwynt mawr o'r nifer fach o gladdedigaethau a gymerodd le yn ei esgobaeth dan y *Burial Amendment Act*, 1880. Pe buasai wedi darllen araith Mr. Disraeli wrth gynnyg gwrthodiad *Burials Bill* 1873, gallasai weled fod y canlyniad yma i'r Act yn cael ei ragweled a'i esbonio. Yn yr araith honno danghosai Arweinydd diweddar y Blaid Gyfansoddiadol, gan fod ynglŷn â'r rhan fwyaf o gapelau Ymneillduol Cymru gladdfeydd o'r eiddynt eu hunain,—y rhai a fyddent orffwys-fannau naturiol eu haelodau,—na fyddai i'r Act ond ychydig weithrediad yn y Dywysogaeth. Anghofia hefyd fod gwaith llawer o bersoniaid Cymreig yn gwrthod caniatáu i rai heb fod yn blwyfolion gael eu claddu yn eu mynwentydd oddieithr ar yr amod fod Gwasanaeth yr Eglwys yn cael ei arfer—gwrthodiad hollol ddi-awdurdod yn ol y ddeddf—wedi ymyrryd yn helaeth â gweithrediad yr Act. Ac y mae y ddadl y rhaid fod Ymneillduwyr mewn lleiafrif yng Nghymru oblegid, yn ystod y deng mlynedd diweddar, fod y Priodasau a weinyddwyd gan offeiriaid yn lliosocach na'r rhai a weinyddwyd gan weinidogion Ymneillduol o'r drydedd neu y bedwaredd ran, yn rhy afresymol i ofyn am unrhyw sylw. Fel y sylwa y Parch. Frome Wilkinson, "Tlawd yn wir raid fod y farn am ddeallttriaeth y bobl yn gyffredin a goleddir gan awdwyr y ffurf ddiweddaraf hon o brawf neu *test* Eglwysig, os ydynt yn meddwl taffu llwch i'w llygaid trwy yr ystryw yma. Yr oedd yn ddigon drwg codi unrhyw ddilynnnydd damweiniol ar y gwasanaeth Dwyfol i fod yn aelod o'r Eglwys; ond am gyfrif mewn pwyll bob dyn a dynes y cymer eu priodas le yn Eglwys Loegr, yn bobl yr Eglwys, fe fyddai yn annheilwng o sylw oni bai ei fod yn anonest."

Y mae, feallai, yn naturiol bod y 230 dalennau a thraethodau a gyhoeddir gan y *Church Defence Institution* ar Gynnydd yr Eglwys yng Nghymru yn aros gyda balchder maddeuol ar y pethau a ddygwyd oddiamgylch trwy ymdrechion gwirfoddol Eglwyswyr o anferth gyfoeth, fel y diweddar Mr. Talbot, A.S.—yr hwn, gyda llaw, a fotiodd dros Ddadsefydliad i Gymru,—mewn ardaloedd mwnawl a mannau ereill, lle, ac ystyried lliosogrwydd ac anghenion y boblogaeth, y mae Eglwys Loegr yn bresennol yn gystal a bod yn anwaddoledig. Ond rhaid i ni beidio anghofio, pa mor fawrion bynnag ydyw yr ymdrechion

hyn, fod y cyfraniadau a wna Ymneillduwyr Cymru at eu hachosion eu hunain, o leiaf yn dyfod i fyny â hwynt, er fod eu hadnoddau yn llawer iawn eiddilach,—cyfraniadau a ystyriai diweddar Ddeon Bangor yn “llawer mwy na £300,000 yn y flwyddyn.” Ymbellach, cyn derbyn yn rhy ddbetrus y profion hyn o waith llwyddiannus, byddai yn dda adgofio geiriau rhybuddiol yr un Eglwyswr enwog yng Nghongress yr Eglwys yn Abertawe, y rhai ydynt mor wir yn awr â phan lefarwyd hwynt: “Mae yr Eglwys wedi gwneyd cynnydd sylweddol yn ddiweddar. Mae eglwysydd, persondai, ac ysgolion wedi eu hadeiladu. Ond pa nifer o'r eglwysydd sydd yn weigion?” Ac ni ddylem anghofio fod llwyddiant yr Eglwys yng Nghymru wedi bod *fwyaf*, lle'r oedd y budd a enillid oddiwrth ei chysylltiad â'r Wladwriaeth *leiaf*, ac fod gwrthwynebu mesur Mr. Asquith am y gorfodai Eglwyswyr ymhob man i ymddiried i'r nerthoedd, y rhai lle bynnag y gosodwyd hwynt ar waith a brofwyd nid yn unig yn effeithiol, ond yn holl-ddigonol, yn sicr y rhesymeg ryfeddaf mewn bod! Ond, boed hyn fel y bo, ni warafuna yr un dyn, a'i feddwl yn ei le, i Eglwys Loegr y boddlonrwydd a gâ yn haelioni ardderchog ei meibion a'i merched cyfoethocaf,—boddlonrwydd a fwynheir yr un modd gan ddyinion da o bob crêd ac enwad. Yn unig pan y mae darlithwyr ac ysgrifenywyr Diffyniad yr Eglwys yn mynd i lawr at ystadegau unochrog, at gyhuddiadau isel, at ymfrostriad dirmygus ac annheilwng wrth edrych ar “israddoldeb cymdeithasol” a thlodi cymariaethol cyrff crefyddol ereill, ac at ynydrwydd cableddus ynghylch “cysegr-ysbeiliad” ac “ysbeilio Duw,” y mae dynion ydynt yn dewis gwirionedd o flaen dadleuon, ac a feddyliant fwy am Eglwys Crist nag am Eglwys Loegr, dan orfod i siarad allan. Eto y mae yr ystranciau hyn, er mor druenus ac isel, wedi cael un effaith dda. Y maent wedi arwain llawer o Eglwyswyr Seisnig i ymofyn a ydyw achos sydd yn galw am gael ei amddiffyn gyda'r fath arfau, yn werth ymladd drosto? Eisoas, yng Nghongress yr Eglwys yn Exeter, ac mewn mwy nag un Gynhadledd Esgobaethol ddiweddar, y mae offeiriaid yn gystal â lleygwyr, y rhai y mae eu ffyddlondeb yn ddiarnheuol, wedi digllawn brotestio yn erbyn dull o ryfela sydd yn gwneyd llawer mwy i gloffi a diffwrtho ynni ysbrydol Eglwys Loegr, nag a all mewn un modd wneyd er cadw adeilad y Sefydliad yng Nghymru sydd yn prysur ddyfod i lawr. Y mae un peth, sut bynnag, yn sicr: Po hwyaf y parheir yr ymdrech—ac yr ymleddir hi allan i'r eithaf pwy all ameu?—gwaethaf a fydd i'r Sefydliad sydd wedi ei gollfarnu, yr hwn,—tra'r oedd ei eiddoyn ddiogel,—oedd foddlon i aros yn ddiogel ac yn farw, hyd oni chafodd ei gynhyrfu i weithgarwch tanbaid ac annaturiol gan yr ymosodiad ar ei waddoliadau.*

*Ceir yn Dr. Percy, Prifathraw Ysgol Rugby, yr hwn sydd yn awr yn Esgob Henffordd, un o'r eugraffitiau mwyaf clir o'r adweithiad a gynhyrohir mewn dynion meddylgar gan y dadleuon unochrog ac eithafol a ddefnyddir i geisio gwrthwynebu y Mesur hwn o gyflawnder a gynhygir i Gymru. “F'e addefir,” meddai, “fod yr Eglwys Gymreig yn Eglwys y lleiafrif; y mae llais Cymru yn Nhy y Cyffredin bron yn un yn ei herbyn, ac y mae y teimlad sydd yn flynnu ymyag pobl Cymru yn anghymodol wrthwynebus iddi fel Sefydliad. Yn wyneb y fath freithiau â'r rhai hyn, prin y gellir ameu fod achos gwir grefydd yn cael ei niweidio wrth ei dal mewn sefyllfa freintiedig; a gellid yn ddiogel ragddwedyd,

iaethau trwy y wlad?"—Gall yr Esgob deimlo yn berffaith dawel; bydd pob dimai a gyfranwyd er 1703 yn ddiogel yn eiddo i'r Eglwys byth. Ond fel y dywed yntau, ac fel y dyweda Mr. Gladstone, y mae Dadwaddoliad, *of course*, wrth reswm, yn dilyn Dadsefydliad.

Wedi ysgrifennu y geiriau uchod, gwelsom yn y *Manchester Guardian* lythyr yn dwyn yr enw "A Welsh Churchman," lle y dywedai:—"Oddiar adnabyddiaeth agos âg offeiriad Cymru, nid wyf yn petruso dweyd fod nifer fawr iawn o'r 'younger gang' o blaid Dadgysylltiad. Y mae llawer, gan gadw golwg ar eu sefyllfaeodd, yn ddoeth yn ymgadw rhag cymeryd rhan weithgar ac agored yn y symudiad, rhag syrthio dan anfoddlonrwydd yr Esgobion. Pe bai i Esgob Cymreig unwaith ddatgan ei fod yn bleidiol i'r cynllun, mae'n debyg y gwelem y dydd nesaf dair rhan o bedair o'i offeiriad yn ymuno â Chymdeithas Rhyddhad Crefydd. . . . Yr stalfeydd gwirioneddol yn flordd teryniad boddhaol ar y cwestiwn blinderus hwn ydyw yr Esgobion, y rhai, trwy eu hagwedd anhyblyg, ydynt yn lledaenu eiddgedd sectaidd, cydyngais, drygioni, a ohynnen. . . . Mae y bobl yn ddiameu eisoes wedi gwneyd eu meddwl i fyny, ac fel y dywed Mr. Chamberlain, 'Rhaid i Ddadsefydliad ddod.' . . . Mae symud achos y tryblith presennol yn anhepgorol er drychafu sefyllfa ysbrydol, addysgol, a chymdeithasol pobl Cymru."—GOL. Y TRAFETHODYDD.

CYFUNDREFN GREFYDDOL CHINA A JAPAN.

NID y swm o wirionedd a berthyn i unrhyw gyfundrefn o grefydd yw yr unig beth sydd yn ei gwneyd yn deilwng o astudiaeth; ond hefyd ehangder ei lledaeniad a'i dylanwad ar fucheddau a chymeriadau dynion, ynghyda'r arwyddiad a geir o'i mewn o'r ynni meddyliol a ddaeth i weithrediad yn y gwaith o'i llunio. Y mae'r grefydd y ceisiwn roddi amlinelliad o honi yn yr ysgrifau hyn yn un o'r cyfundrefnau rhyfeddaf o ddamcaniaethau a dychmygion a ddygwyd i fod gan gynheddfau meddyliol a galluoedd moesol bôl rhesymol erioed. Yr oedd, fel pob crefydd arall, yn llawer mwy pur pan sylfaenwyd hi gyntaf nag y bu ar unrhyw adeg yn nhreigliad oesoedd wedi hynny. Ni fydd a wnelom ni â dadblygiadau diweddaraf y grefydd hon, oblegid y mae ofergoelion a llygredigaethau afrifed wedi ymgymysgu â hi; ond ceisiwn roddi golwg arni yn y canrifoedd cyntaf wedi ei sylfaeniad.

CYFFREDINOLRWYDD EI LLEDAENIAD.

Er mai yn India y ganwyd y grefydd hon, collodd ei gafael ar ei gwlad enedigol, ac ymfudodd i wledydd ereill, ac yn y rhai hynny y mae yn awr yn gallu hawlio ymlyniad cannoedd o filiynau o'u trigolion. Y mae y ffigyrau a ganlyn wedi eu cymeryd o'r gwahanol gyfrifon a wnaed gan yr awdurdodau gwladol o 1862 i 1876.

DILENWRYB GAUTAMA BWDHA YN Y DEHEU.

Yn Ceylon.....	1,520,575
Burmah Brydeinig	2,447,881
Burmah	8,000,000
Siam	10,000,000
Anam	12,000,000
Jains	488,000
	<hr/>
	30,000,000

DILYNWYR GAUTAMA BWDHA YN Y GOGLEDD

Tiriogaethau Denmark a Bali	50,000
Y Tiriogaethau Prydeinig	500,000
Tiriogaethau Rwsia	600,000
Ynysoedd Lieu Khen	1,000,000
Korea	8,000,000
Bhutan a Sikhim	1,000,000
Kashmir	900,000
Tibet	6,000,000
Mongolia	2,000,000
Manchuria	8,000,000
Japan	32,794,894
Nepal	500,000
China, sef ei 18 Tiriogaeth	414,686,994

470,000,000

Pan wnaed y cyfrifon hyn yr oedd holl drigolion y ddaear, yn ol yr amcan-gyfrifon goreu, oddeutu 1,250,000,000 mewn rhifedi. Felly gwelir fod cyfundrefn grefyddol Gautama Bwdha yn gallu hawlio ymlynial y nifer aruthrol o 40 y cant o'r holl hil ddynol. Pa mor ddisail a gwrthun bynnag y gall eu syniadau fod am gyfansoddiad y greadigaeth, am natur foesol ac ysbrydol dyn, ac am y byd anweledig, y maent wedi bod yn alluoedd cryfion i ddylanwadu ar ymddygiadau a bucheddau dwy ran o bump o holl drigolion y ddaear. Ac y mae'r ystyriaeth hon, raddi ei hun, yn ddigon o reswm dros i ni wneyd y gyfundrefn grefyddol hon yn bwnc astudiaeth.

FFYNONELLAU EIN GWYBODAETH AM GREFYDD BWDHA.

Y mae disgyblion Gautama Bwdha yn credu i sylfaenydd eu crefydd gyfansoddi llyfrau, a bod ei ddisgyblion wedi trysori eu cynnwys yn eu cof, a bod ei asthrawiaethau wedi eu trosglwyddo i lawr yn y dull hwn, a wyf wrth cof yn unig, o'r naill genhedlaeth i'r llall, hyd nes y cofnodwyd hwy o'r diwedd mewn ysgrifen. Barn rhai o'r awdurdodau wedi, pa fodd bynnag, ar y pwnc hwn yw, na adawodd Gautama un awdwr o ysgrifeniadau ar ei ol; ac fel prawf o hyn dywedant nad oedd y grefyddol o ysgrifennu mewn bod yn nyffryn Deheuol y Gangee bum awdwr yn ymmodd eraill. Gan fod hyn agos yn sicr o fod yn gywir, y mae'r cofnodwyr wedi ei dderbyn oddiwrth Bwdha ei hun wedi dod i lawr i'r ysgrifennu cof cryf cenedlaethau lawer o'i ddisgyblion.

Y cyfnewid boruaf i ba un y gellir olrhain rhai o lyfrau cysegredig y grefydd hon yw 250 C.C. Oddeutu yr adeg hon y cynhaliwyd Cyngor Patna ac yn hwn y penderfynwyd ar Ysgrifthyrau Cysegredig y Bwdha a rhai eraill mewn sylwedd yr un rhai a'r Pitakas sydd i'r awdwr yn ymlynial yn awc. Rhag y gall rhywrai ein hystyried yn ddiddorol i'r hyn ddyfynnwyd amau Rhys Davids, un o'r ysgolheigion mwyaf a'r pwnc. Gellir dweyd yn gyffredinol y gwyddys fod rhai o'r Pitakas ysgredig wedi eu cyfieithu i'r Chinäeg yn fuan wedi cyrraedd eu gwlad yn, ac fod pob rheswm i greu fod y Pitakas sydd i'r awdwr yn ymlynial yn sylweddol yr un â llyfrau y Canon Patna fel eu gwladwyr gan Gyngor Patna 250 C.C. Gan na ddigwydd i'r awdwr yn ymlynial yn y Canon ond a gredid eu bod yn *dra hen*, y mae'r awdwr i'r Pitakas o'r awdwr y *hatsawedd ganrif* C.C., a gallai fod

rhannau o honynt yn cyrraedd yn ol *yn bur agos, os nad yn gwbl at amser Gautama ei hun*. Ond o'r Canon yma nid oes ond rhan fechan iawn wedi ei chyhoeddi, a rhaid i ni eto ddibynnu cryn lawer ar weithiau diweddarach."

Mae y Parch. S. Beal, yr hwn a fu'n offeryn i ddod a chorff mawr o'r llenyddiaeth gysegredig hon i feddiant Prydain, yn olrhain eu hysgrifeniadau hynaf i'r un cyfnod boreuol. "Y mae amseriad marwolæth Bwdha," meddai, "wedi ei gyfrif yn wahanol oddiwrth gynseiliau, y rhai y gellir eu priodoli ar hyn o bryd i law-ysgrifau Deheuol, fel peth a gymerodd le rhwng 543 C.C., a 412 C.C. Gan mlynedd wedi iddo gyrraedd Tangnefedd (*Nervana*), digwyddodd sism yng nghymdeithas ei ddilynwyr (*Sangha*), yr hwn a achoswyd trwy esgenlusiad o ddisgyblaeth ymysg y Bhikshus (aelodau cymmundeb y Bwdhistaidd), oeddent yn trigo yn Vaisali, tref heb fod ymhell i'r Gogledd o Patna. Yr oedd aelodau lleygol y cymundeb yn y lle hwn wedi cael eu perswadio gan y Bhikshus i roddi arian iddynt hwy, y rhai a rennid ar adegau penodol ymysg y disgyblion. Yr oedd y rhyddid hwn o feddu arian yn groes i reolau yr urdd. Gwrthdystiodd aelod blaenllaw o'r enw Yasna yn erbyn y troseddai hwn ar reolau eu disgyblaeth, ac mewn canlyniad diarddelwyd ef o'r cymundeb gan weithred o eiddo y frawdoliaeth yn Vaisali. Mewn canlyniad i hyn, rhoddes yntau rybudd neu yn hytrach dygodd ger bron sylw y brodyr blaenaf (*sthavira*) oedd yn trigo mewn mannau ereill, y ffaeolddau neu y pechodau oedd wedi ymlusgo i mewn i fyag offeiriad Vaisali, ac wedi iddynt benderfynu eu bod yn anghyfreithlawn, gwyswyd cyngor ynghyd o dan lywyddiaeth Revata, i warthnodi y troseddau â'u hanghymeradwyaeth, a diwreiddio y troseddwyr o'r gymdeithas." Ymgynhullodd y cyngor hwn, condemnwyd ymddygiad offeiriad Vasali, a phasiwyd penderfyniad o blaid cadw y rheolau yn eu purdeb. Yn awr y mae hon yn ffaith hanesyddol y gellir dibynnu arni, ac y mae Mr. Beal o'r farn y gallasai rhai o lyfrau cyntaf y Bwdhistaidd fod mewn bod yn yr amser boreuol hwn." Pa un a oedd y llyfrau cysegredig wedi eu cyfansoddi yn yr amser hwn, ai nad oeddynt, nis gallwn wybod i sicrwydd; ond pa fodd bynnag, y mae'n dra thebygol eu bod yn cael eu hadrodd allan yn y cyngor, gyda'r amcan o sefydlu y ddisgyblaeth gyntefig; wedihynny trosglwyddwyd hwy i lawr yn yr ysgol oedd yn cynrychioli y blaid uniongred yn y cyngor. Yr oedd y blaid hon yn cael ei galw, "Dilynwyr y Sthavoras," neu "yr Henuriaid." Ffurfiodd y rhan arall o'r gymdeithas a arweinid gan offeiriad Vasali, eu corff eu hunain, a galwyd hwn "Y Mahasanghikaidd," neu y "Gynulleidfa Fawr." Yn awr dyma y ddwy ffinhonnell o ba rai y tarddodd y ddwy afon, sef llenyddiaith y De a llenyddiaith y Gogledd. Y mae llenyddiaith y De, sef yr Ysgrhythrau yn iaith Pali, yn cynrychioli syniadau y "Sthaveiriaid," neu "yr Henuriaid," y blaid uniongred a llem ei disgyblaeth, tra y mae llenyddiaeth y Gogledd yn cynrychioli syniadau plaid offeiriad Vasali, y blaid lac boblogaidd, yr hon a elwid wrth yr enw y "Mahasanghikaidd."

O'r cyngor hwn y cododd y pleidiau a roddes fod i'r ddau fath o lenyddiaeth y ceisiwn roddi bras linelliad o honynt yn y tudalennau

a *gama*. Y mae *maññīyā* i'w *lyfr* i ymlithro i gyfoiriad Pharisēaeth neu Saiaeaeth, yn ddi i'r *gwyb* yn eglur ymhob gau grefydd bron sydd yn y *brl*. Y mae *maññīyā* gref mewn rhai dynion at lymder a *chāyā* tra y mae ereill yn wastad mewn perygl o fod yn rhy lydan, *dhāyā* a *lāc*. Y mae'r *maññīyā* hyn wedi rhwygo bron bob ysgol aithronyddol a pob *erizāyā* o grefydd a fu yn y byd erioed.

Y mae y *fata gādā* asierth o lenyddiaeth wedi ei gynhyrchu ar y *pwnc* hwn fel y mae yn azzichmadwy rhoddi hyd yn oed frasolwg amherfaith arno: oed *oziwa* enwi y *prif* lyfrau sydd yn cynnwys y *wybo*daeth gyflawnaf ar y *pwnc*.

Y mae'r *lyfrau* hyn yn *parhys*, fel y *dywoda*som, i un o'r *ddau* *ddo*barth.

Llyfrau Cysegredig Bwdhistiaid y Deben.—Y mae amryw *bethau* yn *gwahaniaethu* y *lyfr* hon oddiwth y *llall*, sef *llynyddiaeth* *Bwdhistiaid y Gogledd*. (1) Y mae *llynyddiaeth* y *De* wedi ei *chyfansoddi* yn *wreiddiol* yn iaith *Pali*, ond y mae y *rhan* fwyaf o *lenyddiaeth* y *Gogledd* wedi ei *chyfansoddi* yn *wreiddiol* yn *Sanscrit*. *Nid* yw y *swl* hwn yn *gwir*, pa *fodd* bynnag, ond o fewn *terfynau* *neillidol*, *oblegid* y mae amryw *eithriad*au i'r *rheol*. Fel *esiamp*l o *hyn*, *gellir* *erw*rwil y *ffai*th *na*d *oedd* yr *holl* *lyfrau* a *ddy*gwyd i *mewn* i *China* *gan* *rif*oedd *lauer* yn *ol*, *wedi* *eu* *cyfansoddi* yn *Sanscrit*, ond yr *oedd* *amryw* o *hon*nt *mewn* *gwahanol* *gange*n-*ieith*oedd *ereill*, ac yr *oedd* *llawer* o'r *lyfrau* a *dy*gwyd o *Tibet* *wedi* *eu* *cyfieithu* i iaith *Pali*, ac y mae *ragrif*eniaid *au* *cysegredig* yn iaith *Pali* i'w *cael* *hyd* *hodd*yw yn *Japan*. (2) Yr *hyn* *sydd*, *mewn* *gwirionedd*, yn *gwahaniaethu* y *ddau* *fath* *hyn* o *lenyddiaeth* *yw*, *fod* *lyfrau* *cysegredig* y *De*, y *rhan* *fwyaf* o *ba* *rai* *sydd* yn iaith *Pali*, *fel* yr *awgrymasom*, yn *crnnwys* y *ddy*sgidiaeth *fwyaf* *cyntefig*, yr *hynaf* a'r *buraf*; *tra* y mae *lyfrau* *cysegredig* y *Gogledd*, y *rhai* a *gyfansoddyd* yn *Sanscrit*, *Pali*, a *ieithoedd* *ereill*, yn *cynnwys* y *gyfundrefn* *wedi* *ei* *dad*blygu a'i *chymysgu* a *llawer* o *bethau* *ereill* a *lwg*wyd i *mewn* *iddi* yn *nhreig*liad *oesoedd*. *Hon* *yw* y *brif*inell *sydd* yn *eu* *gwahaniaethu*.

Y mae y *lyfrau* *canlynol* yn *seiliedig* ar *lenyddiaeth* *Bwdhistiaid* y *De*. *Malalankara Wouta*. Yn iaith *Pali* y *cyfansoddyd* *hwn*, ond *cyfieithwyd* *ef* i iaith *Burmah*, ac *yna* i'r *Saesneg*, o *dan* y *teitl* "The Life or Legend of Gautama, the Budha of the Burmese"

Yr *hanes* a *gyhoeddwyd* yn 1860 gan *Spence Hardy*, yn ei "Manual of Buddhism," yr *hwn* *sydd* yn *seiliedig* ar *lyfrau* a *gyfansoddyd* yn iaith *Ceylon* *oddeutu* 1200 *o.c.*

Y *testynau* *gwreiddiol* yn iaith *Ceylon* o'r *esboniadau* ar y *Jataka*, y *rhai* a *gyfansoddyd* *oddeutu* 450 *o.c.* Ceir *cyfieithiad* i'r *Saesneg* o *hwn* *gan* *Rhys Davids* *dan* yr *enw* "Buddhist Birth Stories."

Y *Mahap Sutta*. *Hanes* *marwolaeth* *Gautama* o'r *Ail* *Bitaka* yn iaith *Pali* *yw* *hwn*. Ceir *cyfieithiad* o *hono* i'r *Saesneg* *gan* *Rhys Davids*, *dan* yr *enw* "Buddhist Suttas." *Cyfansoddyd* *hwn* ar *ryw* *adeg* *rhwng* 250 *o.c.* a 400 *o.c.*

Maha Vagga. *Hanes* *digwyddiadau* (yn iaith *Pali*) *ym* *mywyd* *Gautama* *wedi* *iddo* *gyrraedd* *Nervana*.

Y mae yr *holl* *weithian* *hyn* yn *seiliedig* ar *lenyddiaeth* *Budhistiaid* y *De*, *fel* y mae i'w *chael* yn iaith *Pali*.

Y rhai uchod yw yr ysgrifau y gellir dibynnu mwyaf arnynt fel yn cynnwys y syniadau a goleddid gan y Bwdhistiaid cyntefig am sylfaenydd eu crefydd, a'r rhai hyn a astudir gan ddegau o filiynau o'i ddilynwyr yn awr.

Llyfrau cysegredig Bwdhistiaid y Gogledd.—Cynhwysa y rhai hyn (1) Y llyfrau yn yr iaith Sanerit a ddarganfyddwyd yn Nipal gan Mr. Hodgson yn o. c. 1833—43, ac a gyflwynwyd ganddo fel y canlyn :—85 o fwndeli yn cynnwys 144 o lyfrau i Gymdeithas Ddwyreiniol Bengal ; 85 i Gymdeithas Ddwyreiniol Llundain ; 30 i Lyfrgell Swyddfa India ; 7 i Lyfrgell Bodleian, Rhydychen ; a 174 i Gymdeithas Asiaidd Paris. (2) Llyfrau cysegredig Tibet. Y mae y rhai hyn yn ysgrifenedig ar fyrddau pren, ac y maent, neu o leiaf y mae y *Kagyur*, neu y *Kangyur*, yn cynnwys dim llai na 100 o gyfrolau. Gelwir y casgliad hwn wrth yr enw *De-not-sum* neu yn Sanerit *Trepeiaka*, “y Tri Thrysordŷ, neu y Tair Basged,” ac y maent yn cael eu rhannu i dri o ddosbarthiadau, o dan yr enwau *Dulva, Do, a Sherchin*. Ystyr yr enw *Kagyur* yw “cyfieithiadau o orchmynion,” ac y maent yn proffesu bod yn gyfieithiadau o lawysgrifau oedd yn bod yn y cyfnod rhwng y 7fed ganrif a'r 13eg yn iaith Magadha. Am y corff hwn o lenyddiaeth gysegredig y Bwdhistiaid, dywed Mr. A. Cosma fel y canlyn : “Y mae y llyfrau hyn yn cynnwys athrawiaeth Shakya Bwdha, a chasglwyd hwy ynghyd ar wahanol adegau ac mewn tri o wahanol fannau yn India. Yn gyntaf, yn union ar ol marwolaeth Shakya ; yn ail, yn amser Ashoka, 110 o flynyddoedd ar ol marwolaeth Shakya ; ac yn ddiweddar, yn amser Kaneshka, brenin gogledd-barth India, dros 400 o flynyddoedd yn ddiweddarach nag amser Shakya. Dygwyd y gweithiau hyn i Tibet, a chyfieithwyd hwy yno, rhwng y 7fed ganrif a'r 13eg o'r cyfnod Cristionogol, ond gan mwyaf yn y 9fed ganrif.” (3) Y *Tupataka*, yn iaith China. Y gŵr a fu yn offeryn i ddwyn y llyfrau hyn i sylw Ewropeaid oedd y Parch. S. Beal. Tra yr oedd yn aros yn China a Japan yn 1854—59, arghyhoeddwyd ef nas gellid gwneyd llawer o gynnydd mewn lledaenu Cristionogaeth yn y gwledydd hynny nes yn gyntaf ddeall athrawiaethau cyfundrefn grefyddol y wlad, ac nad oedd yn ddichonadwy gwneyd hyn heb feddu eu llyfrau cysegredig. Llwyddodd y cenhadwr hwn i berswadio Llywodraeth Prydain i anfon cais trwy Swyddfa India at ein llysochadwr yn Pekin, am iddo ddefnyddio ei ddylanwad gyda llywodraeth China i'r amcan o gael ganddi werthu y llyfrau hyn, sef y *Tupataka*, neu eu cyflwyno yn rhodd i ni fel gwlad. Gwyddai Mr. Beal fod y gweithiau hyn yn cael eu cadw fel trysorau amhrisiadwy ym mynachelogydd mawrion China. Ar y pryd, pa fodd bynnag, bu pob ymdrech i gael meddiant o honnynt yn ofer ; ond nid hir y bu cyn iddynt gael eu trosglwyddo i feddiant Prydain Fawr. Yr oedd llysochadwr Japanëaidd o'r enw Iwakura-Tomoni, yn aros yn y wlad hon, a gwnaed cais ato ef, oblegid yr oedd yn eithaf gwybyddus fod y Japanëaidd wedi mabwysiadu Bwdhiaeth o China trwy Korea, ac o ganlyniad yr oedd-ynt wedi derbyn eu llyfrau cysegredig o'r un ffynhonnell. Yr oedd y llysochadwr hwn yn fwy rhydd oddiwrth ragfarnau nag oedd yr un Chinëaidd, ac ar unwaith cydsyniodd â'r cais. Cyn gynted ag y dychwelodd yn ol i Tokio, parodd i holl lyfrau cysegredig y Bwdhist-

iaid yn Japan gael eu hanfon i ni ym Mhrydain. Y mae y rhai hyn yn cynnwys "Dysgeidiaeth gysegredig y Tri Thrysor," y rhai a argraffwyd yn China yn amser llinach frenhinol Meng. Y mae'r llyfrau hyn, ar ba rai y mae Bwdhiaeth yn Japan a China yn sylfaenedig, yn awr yn cael eu cadw yn ddiogel yn Swyddfa India yn Llundain. Yn y rhagymadrodd i'r llyfrau hyn ceir yr eglurhâd a ganlyn o'r *Catalogue* a ddarparwyd at wasanaeth y Swyddfa:— "Cyhoeddwyd y casgliad hwn trwy orchymyn yr Ymerawdwr (Chineiaidd) Nanlieh, tua diwedd y 16eg ganrif. Ail gynhyrchwyd ef yn Japan yn y 6ed flwyddyn o Nengo (cyfnod blynyddol Impo, o.c. 1679): ac wedi hynny cyhoeddwyd ef gyda rhagymadrodd ymerhodrol yn y cyfnod Tenwa, o.c. 1681—3. Fel y derbyniwyd ef gyntaf yn Swyddfa India, yr oedd y casgliad yn gynwysedig mewn saith o gistiau mawrion, wedi eu pacio yn ofalus mewn plwm gyda rhedyn a gwelltsych. Yr oedd yr holl gyfres o lyfrau wedi eu gosod mewn 103 o orchuddleni; ymhob gorchuddlen yr oedd fel rheol 20 o gyfrolau; fel y mae holl nifer y cyfrolau yn fwy na 2000. Pe gosodid hwy y naill ar y llall, byddai i'r holl nifer sydd yn y casgliad gyrraedd i'r *uchder* o 110 o *droedfeddi*." Dyma y corff o lenyddiaeth gysegredig o ba un y mae holl athrawiaethau Bwdhiaeth yn Japan a China wedi eu cymeryd. Y mae y corff hwn yn cynnwys yr holl lyfrau a ddygwyd mewn llawer o flynyddoedd yn olynol o India i China, ac a gyfieithwyd i iaith y Chinëaid, ynghyd a gweithiau brodorol offeiriad Chinëaid, ynghyd ag esboniadau, *catalogues* a mynegeion. Hwn yw y casgliad pwysicaf o lenyddiaeth y Bwdhistiaid, ac nid oes yr un corff o lenyddiaeth ar wyneb y ddaear ag y mae cymaint o gannoedd o filiynau o'r hil ddynol yn tynnu eu credoau am bynciau athrawiaethol a defodau a seremoniau oddiwrtho â hwn.

Enw y llyfr yn iaith China yw *Santsong*; "Y Tri Thrysor neu y Tair Basged." Tybir mai y rheswm paham y rhoddwyd yr enw hwn arno oedd, am fod cynhwysiad yr hen lenyddiaeth hon wedi ei ysgrifennu ar ddail palmwydd, a bod y dail hyn yn cael eu cadw mewn basgedi neu gistiau o fagedwaith.

Rhennir yr ysgrifeniadau hyn i dri o ddosbarthiadau. Y cyntaf o'r rhai hyn yw y *Vinaya*, yr hwn sydd yn cynnwys rheolau disgyblaeth. Yr ail yw y *Sutras*, a chynhwysa y rhan hon y pregethau a'r darlithiau a draddodwyd gan Bwdha, sylfaenydd y grefydd. Y trydydd ydyw yr *A Chedharma*, ac yn hwn y gosodir i lawr ac y dadlennir uchaniaeth y grefydd. Cymerai ormod o le i ni yma i fanylu ar gynnwys pob un o honynt; ond digon yw dweyd eu bod yn gwahaniaethu o ran eu hamseriad, eu pynciau, a'r ffynonellau o ba rai y cymerwyd hwynt.

Y mae cymaint i'w ysgrifennu ar eu nodweddion fel na byddai cyfrol yn ddigon i hysbyddu y pwnc; a phe gwneid hyuny, nid atebai un diben, ond yn hytrach parhai i'r darlennydd deimlo ei hunan yn ymbalfalu yng nghanol anialwch gwag erchyll, heb ddim gobaith meddu syniad clir am ei gyfeiriadau, ei faintioli na'i derfynau. Gwell gennym roddi ychydig wybodaeth gryno a chilir, na llethu y meddwl â baich mawr annhrefnus, nas gall dyn ymsythu dano, na gweled i ba le y mae yn cyfeirio ei gamrau. Y mae trefn ac eglurder yn hanfodol tuag at

wneyd cynnydd sylweddol mewn gwybodaeth yn y pwnc hwn, fel pynciau ereill.

Wele eto rai llyfrau a berthynant i lenyddiaeth gysgredig Bwdhistiaid y Gogledd.

Y *Lahtā Vastara*. Gwaith safonol yn y Sanscrit sydd yn rhoddi hanes bywyd Gautama Bwdha hyd yr adeg y cychwynodd ar ei yrfa fel dysgawdwr cyhoeddus.

Hanes ei fywyd yn iaith Tibet wedi ei ddadansoddi gan Cosma ac Auton Schiefnei.

Y *Mahāb Sūtra*. Llyfr Sanscrit, yn yr hwn y ceir hanes hunanymwadiad mawr Gautama yn gadael ei gartref er mwyn dilyn bywyd cardotyn. Cyfieithwyd hwn i iaith China oddeutu o.c. 600. Cyfieithwyd ef drachefn i'r Saesneg gan y Parch. S. Beal, dan yr enw, *The Romantic Legend of Sakya Budha*.

Y rhai hyn yw y prif lyfrau yn Llenyddiaeth y Bwdhistiaid, a'r pennaf yn eu mysg yw y "*Pitakiad*," y rhai a geir ymysg llyfrau cysegredig Bwdhistiaid y Ddeheu. Ysgrifenyddwyd y llyfr hwn yn iaith Pali, ond mae ei faintioli mor fawr fel nad atebai yr un diben i ni geisio gosod i lawr yma y dosbarthiad o'i gynhwysiad a gynhygir i ni gan ddynion dysgedig sydd wedi treulio eu hoes i'w astudio. "Mewn maintioli," medd Mr. Spence Hardy, "y mae y Pitakiad yn fwy na holl gynhyrchion llenyddol y Gorllewin." Nid yw hyn yn gywir, ond sierheir ni gan ysgolheigion yr oes hon ei fod yn cynnwys cymaint ddwy waith o eiriau â'n Beibl ni, ac y byddai cyfieithiad o honynt i'r Saesneg yn fwy bedair gwaith. Felly, y mae'r casgliad hwn o ysgrifeniadau cysegredig a elwir y "*Pitakiad*, yn *fwy na'n Beibl ni wyth gwaith*;" a chofier nad yw y llyfr hwn ond un allan o gorff mawr o lenyddiaeth a berthyn i'r grefydd hon. Y mae hwn yn fyd ei hun, ag y mae 40 allan o bob cant o'r hil ddynol yn byw, symud, a bod o'i fewn.

D. LLOYD JONES.

CYMDEITHAS YMDRECH GRISTIONOGOL Y BOBL IEUAINC.

Bu eglwysi Crist yn ein gwlad yn teimlo trwy'r blynyddoedd fod eu darpariadau gogyfer â'r Ieuenctid yn dra diffygiol, ac yn ymyl bod yn fethiant. Teimlid fod y ddolen briodol rhyngddynt hwy â gwaith cyhoeddus crefydd megis ar goll. Llafuriai yr eglwysi yn bennaf i osod yr Ieuenctid ar eu gocheliad rhag drygau, i'w hyfforddi i beidio a gwneuthur drwg; ac yn hyn i fesur pell, ni bu eu llafur yn ofer. Eithr teimlai yr arweinwyr eu bod yn gymharol aflwyddiannus mewn medru deffro eu dyddordeb a'u brwdfrydedd yn nyledswyddau ymarferol crefydd. Y canlyniad o hyn oedd fod cymeriad y dosbarth Ieuanic yn yr eglwysi yn gyffredin yn gogwyddo yn ormodol i ffurf nacïol, heb ymollwng i ymarferiad gweithredol o'u galluoedd a'u teimladau, er cyflawni gwaith priodol i'w gwybodaeth a'u profiad, fel ag i

Cynhyrfodd yr ysgrif honno y wlad trwyddi, a llifodd llythrau i'r swyddfa ar y mater oddiwrth fugeiliaid a gweithwyr crefyddol o holl rannau y Cyfandir. Bu y Gymdeithas yn cyflym gynhyddu cyn llunio unrhyw drefn reolaidd i sefydlu cangen gymdeithasau. Cymaint fu cynnydd rhif yr aelodau mewn byr amser fel yr anesmwythent ar weithio allan y broblem hon drostynt eu hunain; rhaid oedd cael dyfod ynghyd, a dweyd y naill wrth y llall y pethau mawrion a wnaethai yr Arglwydd iddynt a thrwyddynt. I'r diben hwn lluniwyd cymanfa flynyddol. Cynhaliwyd y gyntaf yn eglwys Williston (lle y cychwynwyd y Gymdeithas) Mehefin 2, 1882; ac yr oedd y cynadleddau yn llawn brwdfrydedd ysbrydol. Y pryd hyn nid oedd ond chwech o gymdeithasau wedi eu cofrestru; er yn ddiau fod llu yn rhagor wedi eu sefydlu yn ddiarwybod i'r Gymanfa. Cynrychiolid pump o'r rhai hyony yn y Gymanfa, a dygasant adroddiadau cefnogol o'r gwaith oeddidd wedi ei wneyd, ac y parheid i'w gyflawni. Cyfanrif aelodau y chwech hyn oedd 481. Dyddorel, mae'n ddiau, fydd cael trem ar gynnydd y Gymdeithas yn ei gwahanol agweddau o'r flwyddyn 1882 hyd 1894. Yn 1883 yr oedd rhif yr aelodau yn 2870; yn 1884, 8905; yn 1885, 10,964; yn 1886, 50,000; yn 1887, 140,000; yn 1888, 300,000; yn 1889, 500,000; yn 1890, dros 660,000; yn 1891, dros 1,000,000; yn 1892, 1,400,000; yn 1893, 1,650,000; yn 1894, dros 2,000,000. Yng nghorff tair blynedd ar ddeg o amser, llwyddodd y Gymdeithas mor fawr fel nad oes bellach diriogaeth ar y ddaear nad ydyw mewn rhyw flurf neu gilydd wedi ei sefydlu ynddi, ac nid oes genedl wareiddiedig dan y nef nad yw cyfansoddiad y Gymdeithas wedi ei gyfieithu i'w hiaith. Y mae y chwe chymdeithas yn 1883, erbyn hyn wedi lliosogi nes cyrraedd 40,000 mewn rhif. Ac ni fu ei dyfodol yn ymddangos yn fwy diaglaer o'r cychwyn nag ydyw yn awr. Cymerodd dau symudiad pwysig le er hyrwyddo y Gymdeithas yng Nghynhadledd 1885, yr hon a gynhaliwyd yn Ocean Park, Me., Gor. 9, 10. Un oedd, sicrhau gwasanaeth Ysgrifennydd Cyffredinol i roddi ei holl amser at y gwaith; y chasglwyd oddeutu dau gant a hanner o bunnau yn y fan tuag at ei gyflog. Y llall oedd sefydlu a chorffori "Cymdeithas Undebol yr Ymdrech Gristionogol," dan ddeddfau talaeth Maine. Yma etholwyd Mr. Van Patten yn Llywydd; Mr. George M. Ward, o Lowell, yn Ysgrifennydd; a Mr. William Shaw, o Boston, yn Drysorydd.

Yn haf y flwyddyn 1887, mewn Cynhadledd a gynhaliwyd yn Saratoga, teimlid fod llwyddiant y symudiad yn galw am ysgogiad pellach mewn arolygiaeth arno. Yno etholwyd y Parch. F. E. Clark yn Llywydd y "Gymdeithas Unedig," a hefyd yn Olygydd ei llenyddiaeth. Rhoddes yntau i fyny ei weinidogaeth yn Phillips Church, Boston, gan gysegru ei holl amser at y gwaith. Ac y mae yn y swydd hyd heddyw, ac yn brif ysgogydd yn y symudiad.

Un o brif agweddau cynnydd y Gymdeithas yn y blynyddoedd diweddfaf ydyw sefydliadau ei Hundebau Talaethol, y rhai sydd bellach bron yn yr oll o'r Talaethau Unedig yn allu a deimlir gan yr eglwys a'r byd.

Dan fendith Duw, bu sefydliad Undebau Lleol mewn cannoedd o fanau, ynghyd a mabwysiadu y "*Golden Rule*" i fod yn organ swyddogol

a chynrychiolydd llenyddol y Cymdeithasau, yn rhai o'r prif achosion i hoesogi yr *ma* Gymdeithas yn 1881, i fod y myrdd sydd heddyw yn hulo gwyneb y Cyfandir, gyda'u miliynau o aelodau yn America, a lliaws o filoedd yn ychwanegol yn Mhrydain Fawr, ac yn holl feusydd Cenhadol.

Bellach cymerwn drem frysiog ar sefyllfa y Symudiad yng ngwahanol rannau y byd y tu allan i America. Yn *Lloegr* rhifai y Cymdeithasau y flwyddyn ddiweddar, 1894,—yr un rhif a'r flwyddyn. Yn *Australia* ffurfwyd o Gymdeithasau mewn chwe blynedd 1118. Aeth lluo o aelodau y Cymdeithasau hyn i'r meusydd cenhadol yn Asia. *China*; yr oedd yma Mehefin ddiweddar, 18 o Gymdeithasau, ac y mae deg o Gymdeithasau yn perthyn i'r Chinëaid ar ororau y Tawelfor. Cynhelid cyfarfod blynyddol, "Undeb San Francisco," mewn addoldf Chinëaidd, ac y mae Cymdeithas Chinëaidd yn Chicago. *India*; cyfieithwyd cyfansoddiad y Cymdeithas i chwech o brif ieithoedd yr Ymerodraeth hon. Mewn un cyfarfod yn India, canwyd tonau efengylaidd y Gymdeithas mewn saith o ieithoedd gwahanol. Yn *Canada* y mae mwy na 2000 o'r Cymdeithasau hyn; ac ar un ynys yno cyfodasant adeilad at wasanaeth yr Ymdrech Cristionogol a'r Ysgol Sul, o werth deunaw cant o ddoleri. Yn *Japan*, y mae 570 o Gymdeithasau, a chanddynt bapur cenedlaethol at eu gwasanaeth. Yn *Ffrainc* gwneir gwaith cenhadol gan y Gymdeithas o gylch Paris, mewn cysylltiad a'r Ysgol Sabothol. Gwneir ymdrech jarbeannig yn *Iwerddon*. Y mae Cymdeithasau crynion mewnghannau o'r wlad, ac "Undeb Ymdrechol" lliwag yn perthyn i Belfast. Cynhelir cyfarfodydd gweddi yn y bwthynol trwy'r wlad gan yr aelodau Gwyddelig. Yn *Madagascar*, y mae heddyw oddeutu 200 o Gymdeithasau, gydag aelodaeth o dros 2277. Y mae Ymdrechwyr *Senegal* wedi sefydlu Cymdeithasau mewn crylltiad a'u gwaith Cenhadol yn *New Guinea*, a chanddynt gyhoeddaiad o'r enw "*The Senegal Force*." Cynhwysa Undeb Auckland, yn *New Zealand* dros 41 o Gymdeithasau, ac y mae ar wyneb y wlad tros 4000 o nebulau. Yn *Nigeria* o bôman yn Mhrydain Fawr, y mae y crylltiad hon wedi crybwrth cyfrmaf. Y mae Cymdeithasfa y Methodistiaid *California* wedi ffrâm groswau y Gymdeithas. Mewn pwyntwr mae yr eidd "*Undeb Abertawe*," o ddiu, i 24 o Gymdeithasau.

Cynhelir yn *China* bapur Cymrag at wasanaeth y Cymdeithasau Cymru yn America o'r enw "*The Emerald*." Pwy yng Nghymru a gwybysna amrywedd gyfnewid? Yn *Sweden* medd Dundee undeb method, a gwna ddyddio i'r *Sweden* waith cenhadol amhrisiadwy. *Westminster* yn yr wlad hono 117 o Gymdeithasau yn Gorfennaf dimmial. *United States* yn *Senegal* 217 o Gymdeithasau, a phwyntwr yn *Senegal* dros 200000 cant o ddoleri yn gronfa cenhadol.

At yr amlyd *Senegal* y mae ymdrech y Gymdeithasau, ac y maent yn pwyntwr gwybys a'r *Senegal* cenhadol yma. Cyfieithwyd yr ardistiad *Senegal* i'r *Senegal* yn yr *Senegal*. Arlawster mawr a deimlir i'w *Senegal* yn *Senegal* y mae ymdrech i'r *Senegal*. Eithr ffurfiwyd *Senegal* yn *Senegal* y mae ymdrech i'r *Senegal* yn *Senegal*. Yn *Senegal* y mae ymdrech y Cymdeithasau yn *Senegal*, *Senegal* ymdrech *Senegal* *Senegal* yn *Senegal* *Senegal* yn *Senegal*.

Bohemia, Switzerland, Persia. Cychwynwyd y symudiad yn y lle olaf hwn, Gwlad y Shah, gan bump o fechgyn a lawnodasent yr ardystiad Dirwestol gyda'u gilydd, ac ar ol hynny sefydlasant Gymdeithas Ymdrechol, ac y maent ynddi yn gwneyd casgliad cenhadol bob wythnos. Cyffelyb yw yn *Itali a'r Hispaen.* Yn America sefydlwyd amryw o'r Cymdeithasau Ymdrechol ymhlith y milwyr, rhai yn y "*Regular Army*," ac y mae ereill y flwyddyn ddiweddfaf, wedi eu cychwyn ymhlith y "*National Guards*." Y mae llawer o swyddogion uchel yn y fyddin, yn swyddogion y Gymdeithas Ymdrechol ar yr un pryd. Hofyd, sefydlwyd amryw o honynt yn "Ysgolion y Byddariaid." Yn un o'r sefydliadau hyn yn Columbus, Ohio, y mae Cymdeithas yn rhifo 133 o fyddariaid. Ac y mae Cymdeithas ymhlith y plant yn yr un sefydliad yn rhifo 65 o aelodau. Gwna y Gymdeithas waith bendithiol ymysg heddeidwaid dinas New York, ac yng ngharcharau talaethol Wisconsin a Connecticut. Ac heblaw hyn, gweithia Pwyllogor Dirwestol y *Christian Endeavour* mor effeithiol nes bod yn offerynol i sŏhri cannoedd o feddwon cyhoeddus, mewn gwahanol ddulliau, bob blwyddyn.

Yn awr, gwnawn ychydig nodiadau ar Gyfansoddiad y Gymdeithas, a'i dull o gario ei chyfarfodydd ymlaen. Ei harwyddair ydyw—" *I Grist a'r Eglwys.*" Darlennu ei hardystiad, yr hwn a lawnodir gan ei haelodau gweithiol ar eu hymuniad â hi, a'r hwn sydd yn rhoddi tŏn i'w hamcanion a'i gweithrediadau, fel y canlyn:—"Gan ymddiried yn yr Arglwydd Iesu Grist am gymorth, yr wyf yn addaw iddo y bydd i mi ymdrechgu cyflawni pa beth bynnag a ewyllysia Efe i mi ei wneuthur —y bydd i mi wneuthur yn rheol fy mywyd i weddio a darllen y Beibl bob dydd, a chynorthwyo yr eglwys y perthynwyf iddi ymhob modd, yn arbennig trwy fynychu ei gwasanaeth rheolaidd yn Sabothol ac wythnosol, oddieithr cael fy lluddias gan reswm a allaf yn gydwybodol gyflwyno i'm Gwardedwr; ac mor bell ac y gwn pa fodd, mi a ymdrechaf arwain bywyd crefyddol trwy fy holl oes. Fel aelod gweithiol, yr wyf yn addaw bod yn gywir i'm holl ddyledswyddau,—bod yn bresennol ymhob cyfarfod gweddi perthynol i'r Gymdeithas Ymdrechol, a chymeryd rhan ynddo, heblaw canu, oddieithr cael fy atal am reswm a allaf roddi i'r Arglwydd. Os yn rhwym o fod yn absennol o gyfarfod misol ymgysgrol (*consecration meeting*) y Gymdeithas, bydd i mi anfon, o'r hyn lleiaf, adnod o'r Ysgrythyr yn atebiad i'm henw pan ddarllenir y rhestr."

Cynhwysir yn y *pledge* hwn fod *crefyddolder* y Gymdeithas i fod yn *oruchaf* ynddi dan bob amgylchiad. Ei llenyddiaeth, ei chanu, ei hanerchiadau, ei darlennyddiaeth, a'i hadroddiadau i'w *molio* gan ysbryd crefydd. Canolbwynt y Gymdeithas ydyw ei *chyfarfod gweddi*, o amgylch yr hwn yr ymgrynhoia popeth a berthyn iddi, ac o'r hwn y derbynia pob gwasanaeth ynddi ei gyweirnod. Y mae y cyfarfod hwn i'r Gymdeithas Ymdrechol yr hyn yw y galon i'r corff, yn tafu bywyd a neth i'w holl weithrediadau. Dyma a'i cymhwysodd i fod yn famath i'r dychweledigiou ieuainc, ac yn wir, i blant yr eglwys, yng nghyfwng eu prawf; rhydd iddynt gyfleustra a chefnogaeth i gydnabod eu Gwardedwr a gweithio drosto yn y fan, yn ddiymdroi, yr hyn sydd fel pont i'w cario tros agendor eu perygl, pan yn croesi o'r byd i'r eglwys ar

... yn bobl ar y llall. A
 ... Rhydd
 ... Dwy ei i gynefino &
 ... yn ebrwydd
 ... ngweithrediau
 ... Ffeistr; ac yn fuan daw i
 ... yng nghyfarfod gweddi
 ... ac eanwyth i fod yn un o
 ... a ffordd y gweinidog. Nid dychmyg-
 ... beunyddiol yn hanes y
 ... Gristionogion wedi eu hyfforddi
 ... dyfalwch, a serchog-
 ... gwir yndrechol.

... Yndrechol yw ei Phwyllgorau;
 ... dyledswyddau bydd llwydd-
 ... y Cyfansoddiad. Y
 ... (Look-out Committee),
 ... Pwyllgor Cymdeithasol; ac y mae y
 ... gweithrediau bob mis i'r
 ... gylyadwriaethol; efe
 ... aelodau newydd i'r gymdeithas, ac
 ... fel aelod gweithiol na byddo
 ... adfer
 ... yd yn lleuan, y rhai sydd yn
 ... a gofalu am wybod y rheswm
 ... o'r cyfarfod misol ymgysgrol.
 ... Look-out, arno ei hun, yn diogelu llawer
 ... doeth yn adfer cannoedd oeddynt

... yn llwyddiant y gym-
 ... neu ei Seiat brofiad, a gynhelir yn
 ... y symudiad. Ystyrir fod pob aelod
 ... rhyw ffurf, i roddi mynegiad o'i
 ... Grist yn y cyfarfod hwn. Golygir galw
 ... gan y byddys yn ystyrir atebiad i'r
 ... yn gyffredin, gelwir yr enwau yng
 ... pob un ateb i'w enw mewn gweddi fer,
 ... neu awr o'r Beibl.

... enwad efengylaidd trwy'r byd, ac y mae
 ... Yng nghorph ei egwyddorion
 ... y cyndeithasau ydyw fyddlondeb cyffred-
 ... wasanaeth i Grist, a serch Cristionogol
 ... athrawiaethol ac eglwysig. Yn y fath
 ... Efengylaidd ymuno heb wadu neu fod
 ... neu athrawiaeth enwadol.

... baddiol fyddai gwnedol ychydig
 ... ar y rhai sydd yn cychwyn y Gym-
 ... Dywysogaeth. Dywedwn yn gyntaf—
 ... chynifer o Gristionogion ieuainc difrifol,

egniol, ag y gellir dyfod o hyd iddynt. Hefyd, na phryderer ynghylch nifer yr aelodau. Meddylier mwy am *ansawdd*, nag am faint y gymdeithas. Bydd banner dwsin o ieuentid wedi ymgysgru i'r gwaith yn fwy o werth na chant o bersonau llwfr, difraw. Cychwyner hi yn iawn, gyda'r fetl briodol, a bydd yn llwyddiant. Drachefn dywedwn, Na ostynger y safon. Gwneler i'r rhai a ymunant ddeall yn glir eu dyledswyddau a'u rhwymedigaethau ynddi, a mynner gwybod a ydynt, yng nghymorth Duw, yn gwirfoddol ymgymeryd â hwynt.

Eilwaith, mynner gafael ar gyfansoddiad (*model constitution*) y Gymdeithas, er mwyn gwybod mwy am dani, a dyfod dan ddylanwad ei hysbrydiaeth.

Cadwer mewn cof yn barhaus fod ei llwyddiant yn cyfodi, nid o ddoethineb a manylwch ei chyfansoddiad a'i rheolau, nac o liosogrwydd ei haelodau, nac o frwdaniaeth naturiol dynoliaeth yn ei hieuenctid; eithr yn hollol o'i *hysbryd* a'i *thymheredd* gysegredig.

Cyfreithlonir ni gan ddylanwad y symudiad heddyw ar y byd i ddweyd nad cymdeithas yn ystyr gyffredin y gair mo honi; ond Ysgogiad Rhagluniaethol i orchfygu drwg y byd, a'r oruchafiaeth hon yw ei ffydd hi. Llais yr Arglwydd trwyddi yw, "Nid trwy lu, ac nid trwy nerth, eithr trwy fy Ysbryd medd yr Arglwydd."

J. MOSTYN JONES.

CYFIEITHIAD DR. BRISCOE O'R TESTAMENT NEWYDD.

Y Testament Newydd. Newly translated from the Readings adopted by the Revisers of the Authorised Versions: by THOMAS BRISCOE, D.D., Vicar of Holyhead, and Chancellor of Bangor Cathedral. Bangor: Jarvis and Foster. 6s.

Y MAE Dr. Briscoe bellach yn "hynafgwr ymysg gwŷr," ac yn gariadus a pharchedig gan bawb a'i hadwaenant. Y mae hefyd yn bob clod iddo ei fod wedi parhau trwy y blynyddoedd i dalu sylw i efrydiau Beiblaidd, ac wedi cyhoeddi o dro i dro amryw lyfrau yn y rhai yr ymdrechai wneyd rhannau o'r Hen Destament yn fwy dealladwy i'w gydwladwyr trwy eu cyfieithu o'r newydd o'r Hebraeg. Yn y llyfr hwn y mae wedi gwneyd ymdrech gyffelyb gyda'r Testament Newydd. Yn y Rhagymadrodd,—yr hwn fel y wyneb-ddalen, ynghyd a dau nodiad ar waelod y ddalen a geir yn y llyfr, ac am ryw reswm cwbl anwybyddus i ni, sydd yn yr iaith Saesneg,—dywed fod yr *University Presses* yn 1881 yn barod i gyhoeddi cyfieithiad Cymraeg o'r Testament Newydd, os byddai yr Esgobion Cymreig yn unfrydol yn gofyn am

dano. Ffurfiwyd pwyllgor o dri o bob Esgobaeth i ystyried y mater, yr hwn a gyfarfu yn Amwythig, ac oddieithr un, yr oeddynt yn cytuno i dderbyn y cynnyg. Yn fuan ymddanghosodd ymosodiad Deon Burgon ar y *Revisers*, a chytunodd yr Esgobion i ohirio y peth yn amhenodol, ac felly'n ddaeth dim o hono. Dywedodd efe wrth yr Esgob Hughes o Lanelwy, pan yn dyfod o'r gynhadledd, fod ganddo gyfieithiad yn barod, oddieithr newid y testyn; ac ebai yntau "Dygwch ef allan ynte." Nid oedd efe yn foddlon ar y pryd i ymgymeryd â'r cyfrifoldeb ei hun, er ei fod yn awr wedi anturio gwneyd hynny.

Y mae Dr. Briscoe wedi cymeryd anferth lafur am lawer o flynnnydd-oedd gyda'r gwaith hwn, a diameu y bydd y llafur hwnnw yn gynhorthwy gwerthfawr i lawer a'i hefyrdant er cael allan yn fwy llwyr ac yn fwy manwl ystyr yr ysgrifeniadau sanctaidd. Yr ydym ni wedi ei ddarllen bob gair, a hynny yn fynyeh gan ei gymharu â'r cyfieithiad Cymraeg arferedig, â'r *Revised Version*, ac â'r testyn gwreiddol Diwygiedig. Nid ydym yn sicr ei fod yn ddfai. Y peth iawn a fuasai fod y cyfieithiad yn cael ei ystyried yn fanwl, ac o air i air, gan bwyllgor o ysgolheigion, ac felly yn dyfod yn addfed ffirwyth medr a doethineb yr oll. Sut bynnag, y mae yn gyfraniad gwerthfawr at yr amcan gwych o gael y Testament Newydd yn Gymraeg mor berffaith ag a fyddo yn bosibl. Mae y cyfieithiad mewn lliaws o fannau wedi ei wella, ac y mae y cyweiriadau yn y Testyn Groeg wedi eu cymeryd i mewn. Rhoddwn ychydig o'r nifer mawr o welliantau a nodasom. Feallai, er arbed lle, y trŷ y darlennydd i'r manau yn ei Destament Cymraeg er mwyn eu cymharu:—Matt. vi. 4, a dâl i ti. vii. 25, na phryderwch; a 26, a phwy o honoch, gan bryderu. vii. 3, ond y trawst yn dy lygad dy hun nad ystyri. ix. 1, i gwch; 23. y pibyddion; 39. yr hwn sydd yn cael i einioea. xi. 23. A thydi, Capernaum, ai hyd y nef yth ddyrchefid? 25. Arglwydd y nef a'r ddaear. xii. 27. Ac os myfi wyf trwy Beelsebub; 41. canys uffuddhasant wrth bregethiad Jonah. xiii. 11. dirgeledigaethau; 25. a thra y cysgai y dynion. xvi. 26. neu pa beth a rydd dyn yn gyfnewid am ei fywyd? xvii. 20. Dos drosodd oddi yma acw; 25. Gan eu meibion eu hun. xvii. 19. Os dau o honoch a gydsyniant ar y ddaear. xix. 11. Nid pawb *fedr* dderbyn y gair hwn; 29. y can cymaint a dderbyn efe. xxii. 2. a wnaeth briodaswledd i'w fab; 29. cyfeiliorni yr ydych.—Marc iii. 9, am fod i gwch bach; 15. i fwrw allan gythreuliaid. iv. 36, i'r cwch; 40. Ac ofnasant âg ofn mawr, a dywedasant wrth eu gilydd, Pwy, ynte, yw Hwn? v. 13, a thagwyd *hwy* yn y môr; 20. a phawb a ryfeddent; 24. a chanlynai tyrfa fawr Ef; 28. Os cyffyrddaf ond â'i ddillad; 40. A chwarddasant am ei ben ef; 42. canys yr oedd hi yn ddeuddeng mlwydd oed. vi. 20, ac wedi ei glywed ef, llawer yr ammeuai; 27. gan ddanfôn o'r brenin lys-filwr; 31. a gorphwyswch ychydig; 53. ac a angorasant. viii. 16, torthau nid oes genym; 33. pethau Duw. ix. 19, O genedlaeth ddi-ffydd; 22. Ers yn fachgen bach; 23. "Os gelli!" Y mae pob peth, &c. x. 14, Gadewch i'r plant bychain; 15. fel plentyn bach (felly hefyd Matt. ii. 13; Luc ii. 12). xi. 11, Bendigedig yw'r deyrnas sy'n dyfod, *teyrnas ein tad Dafydd!* xii. 11, Oddiwrth Iehofah y bu hyn. xiii.

30, i'r Arglwydd dalfyru'r dyddiau. 28, Ond oddiwrth y figysbren dysgwch ei ddammeg. 32, Ond am y dydd hwnw, neu yr awr. xiv. 2, Nid ar yr wyl, rhag ysgatfydd i gynwrf o'r bobl fod. Luc i. 59, A bu ar yr wythfed dydd, y daethant i amdorri ar y plentyn. ii. 1, i gofrestru'r holl fyd. 14, Gogoniant yn y goruchafion i Dduw. 38, wrth y rhai oll oedd yn disgwyl am ymwared Ierushalem. xxii. 11, Pa le mae'r westfa? 25, Brenhinoedd y cenedloedd a arglwyddiaethant arnynt. 44, Ei chwys fel defnydd mawrion o waed. 53, ac awdurdod y tywyllwch. xxiii. 33, A phan ddaethant at y lle a elwir y Benglog. 39, Onid Tydi yw y Crist? xxiv. 17, Pa beth yw'r geiriau hyn a fwrwch at eich gilydd? 18, A wyt ti yn aros ar dy ben dy hun yn Ierushalem? 25, O rai difeddwl. 34, Yn wir, cyfododd yr Arglwydd.—Ioan i. 11, At yr Eiddo Ei hun y daeth, ac Ei bobl ei hun, &c. 14, a thabernaclodd yn ein plith ni. 29, yr Hwn sy'n dwyn ymaith bechod y byd. 38, Ac wedi troi o'r Iesu, a'u gweled hwynt yn canlyn. ii. 1, A'r trydydd dydd, priodas oedd yn Cana Galilea. 9, A phan archwaethodd llywodraethwr y wledd. 11, Hyn o ddechreu Ei arwyddion a wnaeth yr Iesu. 24, Ond yr Iesu Ei hun nid ymddiriedodd Ei hun iddynt. iii. 17, Canys ni ddanfonodd Duw ei Fab i'r byd fel y barnai y byd. xiv. 14, Os gofynwch i Mi ryw beth yn Fy enw. 22, Arglwydd, pa beth yw'r *achos* mai i nyni yr wyt ar fedr dy egluro Dy hun, ac nid i'r byd? xvi. 13, tywys Efe chwi i'r holl wirionedd.—Act. ii. 3, ac ymddangosodd iddynt dafodau yn ymholli, fel o dân. vii. 19, i fwrw allan eu babanod. 23, â'i frodyr, meibion Israel. 58, a ddodasant i lawr eu cochlau wrth draed dyn ieuanc a elwid Shaul; a llabyddiasant Stephan yn galw ar yr *Arglwydd*. viii. 82, a'r lle o'r Yagrythyr yr hwn a ddarllenai oedd hwn. xi. 36, Efe yw Arglwydd pawb.—Rhuf. v. 12, Am hyny, fel trwy un dyn y bu i bechod ddyfod i mewn i'r byd; a thrwy bechod, farwolaeth; ac felly ar bob dyn yr aeth marwolaeth, o herwydd i bawb bechu. 17, Canys os trwy gamwedd yr un y bu i farwolaeth deyrnasu trwy yr un, llawer mwy y rhai sy'n derbyn gorlawnder o ras ac o rodd cyfiawnder, a deyrnasant mewn bywyd trwy yr Un, Iesu Grist. vi. 1, Ai arhoswn mewn pechod fel y bo i ras amlhau? viii. 11, yr Hwn a gyfododd Crist Iesu o feirw a fywha hefyd eich cyrph marwol chwi. 19, Canys awyddfryd y greadigaeth, am ddatguddiad meibion Duw y mae'n disgwyl. 29, Canys y rhai a ragadnabu *Efe*, a ragoedeiniodd *Efe* hefyd.—1 Cor. iv. 16, attolygaf i chwi, gan hyny, byddwch efelychwyr i mi (felly hefyd Eph. v. 1). vi. 18, Ffowch oddiwrth odineb. ix. 25, hwynhwy yn wir fel y bo coron lygradwy i'w chael ganddynt; ond nyni, un anlygradwy. xii. 3, Gan hyny, hysbysu i chwi yr wyf, nad yw neb, yn llefaru yn Ysbryd Duw, yn dywedyd, Anathema *yw'r* Iesu; ac nad oes neb all ddywedyd, yr Arglwydd *yw'r* Iesu, oddieithr trwy yr Ysbryd Glân. xv. 32, Os yn ol dyn yr ymleddais â bwystfilod yn Ephesus. 41, canys rhwng seren a seren y mae gwahaniaeth mewn gogoniant.—2 Cor. i. 1, ynghyd'r saint oll. 16, a thrwoch chwi dramwy i Macedonia. v. 14, Canys y mae cariad Crist yn ein cymmell, gan farnu o honom y bu un farw dros bawb, a chan hyny, pawb a fuont feirw.—Gal. ii. 6, gwyneb dyn Duw ni dderbyn. Eph. iv. 5, un Duw a Thad pawb.—Phil. i. 23, gan fod â chwant genyf i ymadael a bod gyda

Christ. ii. 7. Eiddor Ef Ei iun a waghodd *Efe*. iii. 3, bydded eich Eryd ar y crochwr: *chrys xxi* yr amadoriad.—1 Tim. i. 11, Efyngl gogoniant y Gwyrddwyr Dduw. 18, fy mhlentyn Timotheus (eto 2 Tim. i. 1, fy mhlentyn *amryd* iii. 1, gwaith ardderchog a ddymuna *af* 18, yr Eiddor a *amryd* yn y cawd. iv. 10, yn enwedig y rhai sy'n creffwr.—2 Tim. iii. 15, y sanctaidd ysgrifeniadau.—Tit. i. 8, yn sobr ei feibwr, yn grydwr, yn sanctaidd, yn feistr arno ei hun.—Heb. v. 7, a chael ei wrandaw o herwydd Ei ofn duwiol.—Iago i. 1, llawenydd i eiddor. 11, y gwywa. 13, Oddiwrth Dduw. 17, oddiwrth Dad y gogoniant. iii. 4, a llw bychan iawn. 8, drwg diorffwys. 12, Nid ydychwan yn holl roddi dwir melus. v. 14, Ai sirol heb i—1 Pet. i. 7, dar am y sy'n darfod a thrwy dan yn cael ei brofi. 12, y chwaredd amryd ymrymu i odrych. 19, fel eiddo oen dianaf a ddyddwyr. 12, ach ymarweddiad ymhlith y cenhedloedd yn *dia*. 15, yn orchudd drygioni. 17, eithr megis caethweision Daw. fel y 2 Pet. i. 1; ond pam am yr un gair yn Rhuf. i. 1, Phara. i. 1. Tit. i. 1, Iago i. 1, a Jud. i. 1, y rhoddir "gwas" a "gweision" b. iii. 21, yr hwn *ddwfr*, yn yr ateb-lun, sydd, &c. iv. 15, neu megis arall-arolygwr; ond os megis Cristion, na fydded *cywilyd* i gandi o, ond gogonedded Dduw yn yr enw hwn. v. 2, gan arolygwr. 3, nid megis yn arglwyddiaethu ar y rhan-nau o *ymddiriedd* i *amry*. 7, guda ch holl bryder wedi ei fwr Arno Ef. 8, fel llew yn rhan.—2 Pet. iii. 13, gan ddiagwyl a phrysuero dyfodiad dydd Daw.—1 Ioan. iii. 9, Pob un o'r genhedlwyd o Dduw. v. 1, o Dduw y cenhedlwyd ef. (Ond pam "uniganedig" yn Io. iii. 16 f) 20, fel yr adnabyddwr y Gwir Un.—Jud. 15, yr Arglwydd a'i fyrdiynau sanctaidd.—Dat. v. 12, a llais mawr. viii. 13, a gwelais a chlywais erry yn eiddor ymryd y nef, yn dywedyd a llef fawr. ix. 1, pydew affwys. xi. 15, Aeth teyrnas y byd yn *deyrnas* ein Harglwydd a'i Grist. xiv. 9, Ac argei arall, trydydd, a'i canlynodd. xv. 8, Brenin yr oesoedd. xvi. 7, A chlywais yr allor yn dywedyd. xviii. 2, ac yn gadwfa i bob ysbryd arian.

Buasai yn hawdd ychwanegu llawer ereill. Ond er i'r gwaith mewn llawer ffordd brofi i ni o gymaint dyddordeb fel nad allem ei ollwng heb fyned trwyddo, y mae ynddo amryw bethau nad allwn ddweyd ein bod yn eu hedmygu. Nid ydym, yn un peth, yn gweled pam, mewn cyfieithiad o'r Testament Groeg, yr oedd eisieu gosod yr holl enwau priodol mewn ffrif Hebreig, pan yr oedd yr ysgrifenywyr eu hunain, ac er eu gwneyd yn haws i'w cynhanu gan y Groegiaid a'r byd cenhedlig, wedi eu gosod yn y ffrif sydd yn adnabyddus i ni oll. Nid ydym am funud yn cwyno ar ol y *J* Seisnig, yr hon sydd mor ddieithr i'r Gymraeg ag i'r Roeg, ac yr ydym yn foddlon iawn ar y ffurfiau Iehofah, Iacob, Ionah, Iair. Nid ydym yn cwyno ychwaith am y sain *w* yn Iwdas, Sabwlon, Halelwiah. Ond pam yr *a* yn Capernahwm? Mae yr *a* hefyd yn uchel yn ffair yr awdwr,—Moshe (Moses), Ierwahalem, Shimon (Simon), Shamaria, Pharisheaid, Sholomon (Solomon), Iehoshua (Josua), Hoshanna, Shwshanna, Shawl. Mae ein tad Adda yn Adam, a'r seithfed o hono yn Chenoc. Mae Annas hefyd wedi mynd yn Chanan, ac Ananias yn Chaniah. Mae yr *s* yn myned yn *ts*: Tsion, Tsidon, Itsaac, Natsareth, Tsaduceaid. Mae Mair ymhob

man yn Miriam. Diau mai yr un yw y ddau enw, fel y ffurfiau Maria, Marie, Mary, Mari, a Mair; ond nid ydyw y Fam sanctaidd o gwbl gan ysgrifenyddwyr y Testament Newydd yn cael ei galw Miriam. Prin iawn hefyd yr oedd yn werth newid Barabbas y Testyn am Barabba. Mae Babulon yn well na Babilon. Fel rheol, sut bynnag, nid ydym yn awyddus am wadu hen gyfeillion; ac y mae tafod meibion d'ynion, ymhob cyfeiriad, yn cilio oddiwrth y clogyrnaidd a'r garw, ac yn glynu wrth y llithrig a'r seinber.

Ond ynglyn â hyn y mae gennym gwyn neillduol yn erbyn ein cydwladwr dysgedig: sut ddrwg y bu iddo, tra yn ymgais at roddi y Testament Newydd yn fwy llawn o flaen y darlennydd Cymreig, roddi ynddo y fath nifer o eiriau Groeg, a hynny heb na nôd nac esboniad! Am yr arian bath, rhaid i'r Cymro tirion wneyd fel y gallo gyda'r *denar*, a'r *stater*, a'r *drachma*; ac am eu gwerth fe'i gadewir yn gwbl at drugaredd yr Iuddewon. Gadawodd y Cyfieithwyr *Raca* yn Matt. v. 22, heb ei gyfieithu, ac fe ddeallir ei fod yn air sydd yn dangos dirmyg; ond yma cawn ar ei ol *Moreh*: "a phwy bynnag a ddywedo 'Moreh,' dyledwr fydd i'r Gehenna tanllyd." Beth ydyw "Moreh," rhaid i'r Cymro ddyfalu. Mae y "porthladdoedd prydfarth" yn Act. xxvii. 8, er yn gyfieithiad perffaith o'r geiriau gwreiddiol, yn gorfod cilio o'r neillduol er rhoddi lle i "Caloi Limenes." Yn Heb. i. 3, darllenwn, "yr Hwn, ac Efe yn ddiagleirdeb ei ogoniant Ef, ac yn wir lun Ei hupostasia." Yr oedd Salesbury wedi mentro cynnyg "person," a'r *Revisers*, "substance; "the very image of his substance;" ond ni fyn Dr. Briscoe y naill na'r llall, a gedy y Cymro yn y gaddug gyda *hupostasia*, yr hwn hefyd a argreffir ganddo fel pe yn air Cymraeg pur. Yn Dat. i. 15, yn y disgrifiad mawreddog o'r "un tebyg i Fab y dyn," fe ddwedir, "ac Ei draed yn debyg i Chalcolibanus, fel wedi eu llosgi mewn ffwrn." Fe drosglwyddai "pres coeth," "fine brass" y Saesneg, neu "burnished brass" y *Revisers*, syniad da i'r darlennydd Cymreig; ond mae'n sicr na all wneyd dim o'r "Chalcolibanus." Yn Dat. vi. 6, cawn "Choinics o wenith er denar, a thri choinics o haidd er denar." "Mesur" yw gair y Cyfieithwyr, a chawn ar ymyl y ddalen, "*Choinix* a arwyddocâ fesur yn cynnwys un pint gwin, a saith ddegfed ran pint." Boddlon a *Revisers* hefyd ar "measure," a rhoddant *choinix* ar ymyl y ddalen, gyda'r eglurhad, "a small measure." Ond yma gadewir y Cymro i gymryd ei siawns efo'r *choinics*. Yn Dat. xviii. 11, darllenwn: "A marchnatawyr y ddaear a wylant ac a alarant drosti, canys eu llonglwyth [gwell na "marsiantaeth" am *γομων*] nid oes neb yn prynu mwyach, llonglwyth o aur ac arian a maen [gwell na "meini"] gwerthfawr a pherlau a llian main a phorphor a sidan ac ygarlad; na phob coed citron, a phob llestr o ifori, a phob llestr o goed gwerthfawrocaf ac o bres ac o haiarn ac o faen marmor, a chinna-mon ac amonon a pheraroglau," &c. Debyg fod "sinamon" y Cyfieithwyr wedi dyfod o feddaliad y *c* Seisnig, a ddefnyddid am y *χ* Roegaidd; ond mae yr *ch*, fel gyda'r geiriau ereill a nodason, wedi dyfod o chwaeth Hebreig yr awdwr. Ond beth a all y Cymro wneyd o "amonon?" Mae y gair yn cael ei ychwanegu yn y Testyn Diwygiedig, a rhydd y *Revisers* "spice" am dano, ac *amomum* ar ymyl y ddalen; buasai "perlysiau" yn dangos yr ystyr yn burion yn Gym-

raeg ; ond na, rhaid gadael y Cymro tirion yma eto, fel gyda'r geiriau dieithr ereill, yn gwbl dan ei ddwylo.

Y mae tipyn i'w ddweyd am Gymraeg y llyfr. Yn un peth, y mae yr awdwr lawer yn rhy hael ar ei brif-lythrennau. Fe deimlir y dyddiau hyn fod gweddeidd-dra mewn defnyddio prif lythyren i ddechreu geiriau y gosodir pwys neillduol arnynt, ac yn enwedig am y personau Dwyfol ; ac fe'u defnyddir gan lawer yn Saesneg felly gyda rhagenwau, megis He, His, &c. ; yn Gymraeg hefyd ysgrifennwn Efe, Hwn, Yntau, pan ddefnyddiwn hwynt mewn ystyr ddyrchafedig. Ond y mae eu cario i eithafion efo Ei, Iddo, Wrtho, Atto, &c., &c., yn dyfod yn feichus. "Yr Hwn y mae Ei wyntyll yn Ei law." "Os Mab Duw wyt, bwrw Dy Hun i lawr, canys ysgrifenyd, I'w angylion y gorchymyn Efe am Danat . . . rhag un amser darawo o Honot Dy droed wrth garreg." "Ac wele angylion a ddaethant Atto, ac a weiniasant Iddo." "Deuweh ar Fy ol." "Ond Myfi a'ch dewisais chwi?" "Paham y ceisiwch Fy lladd I? Attebodd y dyrfa, Cythraul sydd Genyt : pwy sy'n ceisio Dy ladd Di?" Ac felly yn ddiidiwedd gyda'r rhagenwau personol, meddiannol, ac arddodiadol ; a chan Grist ei Hun, a chan ei elynion, fel gan ei ddiagyblion. Buasai yn llawer iawn gwell dilyn esiampl bur y Cyfeithwyr yn hyn, fel y gwna y *Revisers*. Y mae dyfynodau yn fynych yn gyfleus i nodi allan rywbeth a godir gan ysgrifennydd o waith rhywun arall. Ond fe gofia y darlennydd na cheir hwynt yn yr Ysgrhythrau, er na theimla un amser anhawster i wahaniaethu y dyfyniad oddiwrth eiriau yr awdwr, o herwydd ei fod yn cael ei ddwyn i mewn fel dyfyniad, a'i ddechreu bob amser efo phrif lythyren. Ond yma fe geir y dyfynodau yn ymwithio i sylw yn barhaus, nes peri ein bod yn llwyr fino arnynt. Megis :—A hyn oll a ddigwyddodd fel y cyflawnid yr hyn a ddywedwyd gan yr Arglwydd trwy'r prophwyd, gan ddywedyd,

"Wele y forwyn fydd feichiog, ac a esgor ar fab,
A galwant Ei Enw Ef Immanwel,"

yr hyn o'i gyfeithu yw, "Gyda ni, Duw." Eto : Fel y cyflawnid yr hyn a ddywedodd yr Arglwydd trwy'r prophwyd, gan ddywedyd, "O'r Aipht y gelwais Fy Mab." Drachefn : Ysgrifenyd, "Nid ar fara yn unig y bydd byw dyn, ond ar bob gair yn dyfod trwy enau Duw." Mae y diafol yr un modd yn dyfynodi : "I'w angylion y gorchymyn Efe am Danat," &c. Eto : Yn ol yr hyn sydd ysgrifenedig, "Credais, gan hyny y lleferais" Ac felly trwy yr holl lyfr. Da y gosodir y dyfyniadau barddonol o'r Hen Destament mewn cyfochraeth. Fe fuasai hynny yn ddigon i'w gwahaniaethu, ond rhaid gwneyd sicrwydd yn ddwbl sicrach, a'u dyfynodi hefyd. Gosodir mewn cyfochraeth yr un modd farddoniaeth y Testament Newydd, megis canu Gabriel, canau Elisabeth, Mair, Zacharias, yr angylion, a Simeon. Rhoddir rhai o eiriau Crist felly hefyd, megis Luc xii. 8—10, er fod yn amlwg nad oedd Efe wrth eu dweyd yn barddoni mewn un modd ; tra yr argreffir caniadau y Datguddiad, ac ymadroddion ereill sydd yn dyrchafu i farddoniaeth uchel, fel rhyddiaith.

Dilynir orgraff y cyfieithiad cyffredin, yr hon sy'n llawer gwell na'r peth mympwyol a lusgwyd i mewn wedyn fel gwelliant arni, ac—

ond gadael allan y dybliadau cydseiniol nad oes iddynt na rhaid nac achos, gan eu cadw gyda'r cydseiniaid gweiniaid ar y sillau acennol—a ellid dderbyn fel safon na ellid ei well. Ond ceir yma hynny a hwnnw a honno; er ambell dro, y ceir tarannau,—fel llanc y tram yn Llundain, pan ofynnid iddo a ydoedd wrth waeddi, “Ammersmith, Ammersmith,” wedi gadael rhywbeth ar ol, a atebai, “Never mind, sir, we'll pick it up at the Hangel!” Cawu preniau, a deisyfiwch. Weithiau cawn yn o flaen gair yn dechreu efo *ng*, “yn nghyfraith yr Arglwydd,” er yn gyffredin y ceir *yn*g,—megis “yng Nghrist;” a heb betruster ysgrifenna yngwydd, ynghanol, ynghyd, ymlaen, ymysg, ymhlith; ond ambell dro, a debyg yn amryfus, y ceir ym mlaen, ym mron. Er yn gyffredin dipyn yn Geidwadol yn y ffordd yma, yr ydym ambell dro yn ei gael yn rhy Radicalaidd, ac yn ysgrifennu, ynghalon, yngharchar, yngogoniant, yngwrthwyneb, ynghyfeiliornad Balaam, yngwrth-ddywediad Core, ac nid yngwŷn trachwant.

Geilw sylw at rai o'r geiriau newyddion a greodd; ond nid ydyw y rheiny, fel rheol, yn werth ymfrostio ynddynt. Gair da iawn yw amdorriad am *περιτομη*, *circumcisio*, a llawer gwell nag enwaediad. Ond pam y rhaid gadael *heolydd* y ddinas a myned i'w “llydanfeydd” ? Mae'n wir fod *πλατεια*, o *πλατυς*, yn arwyddo lleoedd llydain, a gallai felly olygu *squares*; ond ai nid yw yr heol yn llydan ? Mae'n wir fod *βουρσας* Matt. vi. 2, yn cael ei gyfieithu “heolydd,” ond *ystrydoedd* oedd y rheiny; pan ddefnyddir y ddau air ynghyd, megis yn Luc xiv. 21, ceir “i heolydd ac ystrydoedd y ddinas.” Nid oedd ar y gwelch y cyfeirir atynt un awydd am fynd i gongl ysgwâr i weddio; congl yr *heol*, lle y gwelid hwy gan liaws, oedd y lle iddynt hwy. Drachefn, a raid i'r *publicanod* gilio i wneyd lle i “dreth-gymmerwyr” ? Cymeroedd Salesbury yr enw Rhufeinig, *publicanos*, ar y teulu yma, ac ni fu yn werth gan neb hyd yma ei newid. A phe ceisid ei newid, nid *treth-gymmerwyr* fyddai y gair. Y publicanod a adwaenom; a'r *trethwyr*, neu y *bethgasglwyr*, ysywae h, a adwaenom yn rhy dda; ond pwy ydych chiwi, y treth-gymmerwyr ? Y mae yn dipyn gormod i chiwi ddiagwyl i ni ddyfod â'r dreth i'ch swyddfa, fel na bo eisieu i chiwi ond ei chymeryd; yr ydym ni, fel yn wir ein cyd-ddeiliaid oll, a holl ddeiliaid Rhufain yn nyddiau y Testament Newydd, yn barnu fod yn ddifai swydd i chiwi ddyfod i'w *chasglu*. Nid oes neb yn *eistedd* wrth fwrdd o ddechreu y llyfr i'w ddiwedd; “lled-orwedd” y mae pawb Fe orchymynir “i'r dyrfa orwedd ar y ddaear yn Matt., ond yn Marc, “am i bawb led-orwedd” y gorchymynir. “Fe dywalltodd Mair yr ennaint “ar Ei ben Ef pan yn lled-orwedd wrth y *ford*.” “A bu lled-orwedd o Hono *with y ford* yn ei dŷ ef, a llawer o dreth-gymmerwyr a phechaduriaid a led-orweddent ynghyda'r Iesu a'i ddiagblyon.” “Pan wahodder *di* gan neb i neithior na led-orwedd yn y prif led-orweddle.” “Ac yn ei ddysgad dywedodd, ymogelwch rhag yr ysgrifenyddion, y rhai a garant rodio mewu gwisgoedd llaesion, a chyfarchiadau yn y marchnadoedd, a phrif-gadeiriau yn y synagogau, a'r prif-ledorweddleoedd yn gwleddoedd.” Ofnwn y temtid ein cydwladwr parchus, y Cymro uniaith, i gasglu fod y bobl hynny, o'r ddau, yn waeth nag oeddynt, a'u bod yn gwneyd defnydd llawer rhy helaeth o'r danteithion a'r diodydd

a osodid o'n blaen. Mae'n wir fod y gair Groeg κατακλινω, yn fanwl yn golygu lled-orwedd, ond gan mai dyna eu dull hwynt o *eistedd*, eistedd a olyga, a charmarweiniol yw ei gyfieithu yn ddim amgen. Yn Luc xiv. 8 rhydd y R.V. "sit not down in the chief seat," gyda nodiad ar ymyl y ddalen, "*recline not.*" Yr oedd hynny yn burion i ddangos mai felly y byddent hwy yn y wlad honno yn eistedd, ond buasai ei osod yn y testyn yn gymhendod. Mae y gair "dwrdio" yma yn cael llawer mwy o le nag a ddylai. Nid ydym yn synnu fod gwyr Ephraim "yn dwrdio" Gedeon yn "dost," am iddo beidio eu galw i'r rhyfel yn erbyn y Midianiaid. A chwareu teg i Nehemiah, yr oedd yn lled anodd iddo yntau beidio "dwrdio y pendeffigion a'r swyddogion" oedd yn "cymeryd occraeth bob un gan ei frawd." Nid rhyfedd ychwaith oedd iddo "ddwrdio y swyddogion," pan oedd rhannau y Lesiaid heb eu rhoddi iddynt, a'i fod yn "dwrdio pendeffigion Judah" pan oeddynt yn "halogi y Sabboth,"—er yr ymddengys ei fod yn mynd yn llawn ddigon pell efo'r Iuddewon oedd wedi priodi gwragedd cenbedlig pan yn eu "melldithio," ac yn "eu taro," ac "yn plicio eu gwallt hwynt." Ond y mae y pellter mawr rhwng y "dwrdio" yma,—y mae Cynddelw yn ei *Biriadur Cymraeg Cymreig* yn ei esbonio fel ystwrddio dondio, bygwth,—a "cheryddu." Mae cymaint o wahaniaeth rhwng dwrdio a cheryddu ag sydd rhwng *to chide* neu *to scold*, a *to rebuke*. Mae y cyntaf yn awgrymu fod dyn i fesur "wedi gwylltio;" ond yr ail yn dangos difrifwch ac urddas. Ac eto yma, y mae Crist yn "dwrdio y gwyntoedd a'r mor;" a Phedr yn dwrdio yr Iesu,— "a ddechreuodd ei ddwrdio Ef," neu yn ol Marc, "Ac wedi ei gymmeryd Ef atto, Petr a ddechreuodd ei ddwrdio Ef. Ac wedi troi o Hono," yr ydym yn cael ei fod Yntau yn "dwrdio Petr." Wedi i Pedr wneyd ei gyffes fawr, "Crist Duw," "Efe gan ddwrdio, a orchymynodd iddynt na ddywedent i neb." Yr oedd y disgyblion "yn dwrdio" y rhai oedd yn dwyn y plant bychain; yr Iuddewon "yn dwrdio" Bartimeus; a'r Iesu yn "dwrdio y cythreuliaid." Os pecha ein brawd i'n herbyn, yr ydym "i'w ddwrdio ef." A "dwrdio" mawr sydd felly ymhob man, a hynny yn ddiameu er cryn lawer o golled i urddas y llyfr. Anffodus oedd i Salesbury yn Ioan iii. 29, roddi "Y llawenydd hyn meu ei gan hyny a gyflawnwyd," a chael ei ddilyn gan y lleill, "mau fi." Mae *εμη* yma, fel *mea* a *mine*, yn golygu, fel ar ymyl y ddalen, "o'r eiddof fi;" *mau* yn wrthgyferbyniol i *tau*. Wedi dweyd "y llawenydd mau," nid oedd eisieu ychwanegu "fi," oblegid nid yw ond tywyllu yr ystyr. "This my joy;" y llawenydd mau hwn; neu y llawenydd hwn o'r eiddof fi. Yn Act. xiii. 33, cawn gan Salesbury, "Y map meu yw ti." Ond ymddengys fod Dr. Briscoe wedi teimlo fod y geiriad "mau fi" yn un cain, ac y mae yn ei ddefnyddio drachefn a thrachefn. "Pob un gan hyny, y sy'n clywed y geiriau hyn mau Fi, ac yn eu gwneuthur. . . A phob un y sy'n clywed y geiriau hyn mau Fi, a nad yw yn eu gwneuthur," &c. Fe sonir am Judas fel yr "hwn oedd ar fedr ei fradychu ef," *ημελλεν αυτον παραδιδουαι*; yma "ar fedr ei draddodi Ef." Mae "traddodi" fel yn Rhuf. viii. 32, yn gyfieithiad teg o *παραδιδουαι*, ac felly y defnyddir ef o hyd am a wnaeth Judas; ond gan fod ei *draddodi ef* yn gymaint *brûd*, digon naturiol oedd i'r Cyfieithwyr roi "bradychu" am dano; fel y Saes., a'r R.V. "betray;" *to give up*

treacherously; ar ymyl dalen y R.V., "or delivered him up: and so always." Nid oedd werth ganddynt ei newid yn y testyn, ac nid oedd werth ychwaith gwneyd felly yma. Ond cyfeirio yr oeddynt at y gair "ar fedr": "ar fedr ei fradychu Ef." Mae y gair yn dangos dyfodol oedd yn ymyl, ar *gymeryd lle*. "Pan wybu eu bod hwy ar fedr dyfod, a'i gipio ef i'w wneuthur yn frenin." Ni wyddom o ble y daeth "ar fedr," ond geiriad trwsgl ydyw, fel y "mau fi." Mae y Doctor, sut bynnag, mor hoff o hono fel y mae yn ei wthio arnom pan nad oes rith o'i eisieu. "Efe yw'r Elias ar fedr dyfod." "Y mae Mab y Dyn ar fedr ei draddodi i ddwyllaw dynion." "A phan oedd y saith niwrnod ar fedr eu cyflawni." "A thra yr oedd y dydd ar fedr dyfod." "A chadarnha y pethau yngweddill, y rhai oeddynt ar fedr marw." "A'r ddraig a safodd ger bron y wraig ar fedr esgor." Pan yn dangos bwriad ac amcan, fel am Judas, y mae rhyw synwyr ynddo; ond hyd yn oed felly, ni rydd nemawr na fuasai ar ei hun yn roddi; pan na ddynoda ond dyfodol yn unig, y mae ei bresenoldeb yn fwy o rwystr nag o help. Ni a gawn yma hefyd un gair Cymraeg newydd a hynod, un o'r *susquepedalia verba*, y geiriau troedfedd a hanner, y sonia Horas am danynt, ac y mae cymaint o angen eglurhad arno â'r un o'r geiriau anghyfaith, moreh, denar, stater, drachma, hupostasis, chalcolibanus, choinica, ac amomon. Y gair hwnnw yw, "ymochreiniasant." "A hwy, wedi dyfod Atto, a ymafaelasant yn Ei draed Ef, ac ymochreiniasant Iddo." Dywed y diafol Luc iv. 7. "Os Tydi gan hyny a ymochreini o'm blaen, bydd yr oll yn eiddot Ti." Fe geir ychydig o eglurhad arno pan welir fod yr un gair, *προσκυω*, Matt. iv. 9, yn cael ei gyfieithu "addoli," ac felly hefyd mewn llaws o fannau. Yr oedd mam meibion Zebedeus (xx. 20) yn "ymochreinio." Ac "wedi gweled yr Iesu o hirbell," rhedodd y dyn o'r beddau (Marc v. 6) "ac ymochreiniodd Iddo." Gwelsom gryn nifer o eiriau ereill nad ydyw y Gymraeg wen, chwedl Edmund Frys, yn gwybod am danynt, ac nad ydym yn meddwl y myn eu derbyn i fsys ei phlant:— megis ethnigion, gwahanglwyfusion, rhyfyguision, goludogion, celwyddu, celwyddwr, cropiedyddion (ymlusgiaid), Antigrist (Anghrist), ministriad, gwylo ("paham y gwnewch gynnwrf, ac y gwyllwch"), cymmeradwyedig, anhuneddau, yn wahân (ar wahân, bonad (sylfaen), yn uniawn (yn y fan), gwinllydrwydd, nesau a sarad (neshau a sarhad), cariad y Tad a chyfundeb yr Ysbryd Glân, &c. Mae "digwydd" yn dyfod yn aml heb ddim o'i eisieu, megis, "Yna y digwydd yr ymadrodd sydd yn ysgrifenedig, 'Llyncwyd angau am byth.'" Mae "tripio" yn dyfod yn barhaus yn lle llithro, ac "ardderchog"— "ardderchog ydyw i ni fod yma"—yn rhy fynych o lawer, pan fuasai "da" yn gwneyd yn well. Mae'n bosibl fod cyfathrach rhwng "malio" a *μάλι* y Gr., ond y mae yn llawer islaw urddas y testyn i ddweyd, "Canys maliaw y mae *Efe* am danoch." Mae "dianaf" yn weddus am oen, ond gwell "difeitus" y Cyfieithwyr am yr Oen Dwyfol, ac yn neillduol am y saint, ac nid "i fod o honom yn sanctaidd a dianaf ger Ei fon Ef," neu "eithr fel y byddai yn sanctaidd ac yn ddianaf." Mae "arlwyo" yn baratoi yn siwr, ond paratoi ymborth neu wledd ydyw: "Ti a arlwyaisit ford ger fy mron," &c. Ond yma cawn "arlwyo had i'r hauwr," "arlwych yn eich ffydd rinwedd," "canys

felly yn orlawn yr arlwyr i chwi y mynediad i mewn," &c. Trwsgl yw "ysgrubl aflafar" am yr asen fud. Mae y galwai, neu y *wacsioc* yn Gymraeg, yn cael ei ddilyn gan y sain feddal, megis, Frodyr! Ond yma caled ydyw yn ddiieithriad. "Brodyr a thadau," "Brodyr, yn ol dyn yr wyf yn dywedyd," "Godineb-wragedd, oni wyddoch," &c. Y mae "ac y" yn cael eu defnyddio hyd flinder, a bron yn peri i ddyn feddwl am rygniadau annioddefol *Coll Gwynfa* Dr. Pughe. Cawn "ac yr hwn," "ac ei frodyr," "ac ei chwirydd," "ac ei mam," "ac y gwyrthiau," "ac y gair hwn," "ac Ei ddirmygu," "ac yr Iesu." "ac y rhai a brynent," yn fynych fynych.

Ond rhaid i ni ymatal heb roddi ychwaneg o'r doraeth oeddem wedi nodi o'r newydd-bethau a ddsuent o'n blaen wrth ddarllen y llyfr. Fel yr ydym wedi cael yr hyfrydwch o ddangos, yr oedd llawer o'r pethau hynny yn welliantau; ond am liaws go fawr o honynt, yr ydym yn ofni nad allwn eu rhestru felly. Nid oes ddaid nad ydyw ein cyd-wladwr parchus yn deall Groeg yn rhagorol; yn wir fe ymddengys i ni mai ei or-fyddlondeb i'r iaith Roeg ydyw y rheswm pennaf am ddiffygion ei gyfieithiad. Pe buasai ei feistrolaeth ar y Gymraeg, a'i gydnawsedd â'i hysbryd, i ryw fesur yn debyg i'w gydnabyddiaeth a'i gydymdeimlad â'r iaith Roeg, fe fuasai ei gyfieithiad o'r Testament Newydd—a defnyddio gair sy'n troi i fyny yma lawer yn rhy fynych—yn "ardderchog." Fel y mae, sut bynnag, mae y Gymraeg yn cael triniaeth dra angharedig oddiar ei law. Ac felly, ysywaeth, lawer yn rhy fynych gydag offeiriad Eglwys Loegr yn ein gwlad. Wrth reswm yr oedd Dr. Morgan, Edmund Prys, Goronwy Owen, Ellis Wynn, &c., yn Gymry iawn; felly hefyd Glan Geirionydd, Nicander, a rhai "dychweledigion" diweddarach a addysgwyd yn Ysgolion Sabothol yr Ymneillduwyr, ac a gawsant eu rhan o ddiwylliad Cymreig y deffroad. Ond am y lleill, liaws o honynt, y maent yn llawer rhy uchel i fod yn "gyd-ostyngedig â'r rhai isel-radd," a siarad ac ysgrifennu Cymraeg llithrig, naturiol, "parabilber," ac felly ddangos rhyw fesur o'r feistrolaeth arni hi ag yr oedd raid iddynt yn yr ysgolion ei gyrraedd gydag ieithoedd ereill.* Yr ydym wedi gweled yr hen iaith anwyl a godidog yn dyfod droion o dan eu dwylaw gan gwynfan

*Wedi ysgrifennu y geiriau uchod daeth i'n llaw bapur oddiwrth offeiriad oedd yn awyddus i'n bargyhoeddi o'n braint o fotio drosto yn un o'r etholiadau diweddar, so mewn ffordd gwbl ddianghenraidd llusgodd i mewn air ag sydd, mae'n amlwg, yn uchel yn ei safon, yr hwn a ddefnyddiai drachefu a thrachefu a thrachefu, o lewn cyloch yohydig linellau,— "gwasanaethau"! Feallai y cawn cyn bo hir, fel cymdeithion i'r anghenfil hwn, utudd-dodau, ffyddlondebau, barddoniaethau, llawenyddau, a thristwehau!

Clywsom hefyd, oddiar awdurdod dda, am offeiriad Cymreig, nad ydyw mwyaoh yn ieuanc, mewn tref bwysig yng Ngwynedd, yn caau mewn cyngorodd er adalladaeth boneddigessau y Primrose League, ac fel yma y Cymreigiaid—

Ac os oes tair neu pedair
Yn hoff o hono hêt,
Mae cenif fina pedwar
Neu pymtheg yn y tref.

Lled debyg i'r cyfreithiwr parohus mewn tref Gymreig arall, oedd yn garedig yn cynorthwyo mewn cyngordd i bobl y Workhouse, ac er mwy o ddiffyrwch nag a feddyliai i'r tlodion, a ganai—

Bwyf fi yn owr i Betsi,
A Betsi'n owrlo i mi!

oblegid ei doluriau,—“Dyma y rhai ym clywyfwd & hwynt yn nhŷ fy ngharedigion.” Fel nad ydyw pobl Cymru i'w cyrraedd gan y boneddigion hyn ond trwy gryn ymdrech o ymddarostyngiad, felly nid yw eu hiaith i'w hystyried yn werth ei hastudio ganddynt, ac fe'i siaredir ac fe'i hysgrifennir rywsut, rywsut.

Mae y diffyg y cwynwn o'i herwydd yn Dr. Briscoe, yn dyfod o dan ein sylw yn neillduol mewn pedwar peth. 1. Gan nad yw y Roeg yn fynych yn defnyddio y rhagenwau personol, o herwydd fod treigliad a lleoliad y ferf yn gwneyd hynny yn afreidiol, deil efe na ddylid gwneyd hynny yn Gymraeg chwaith, a gad hwynt allan; heb ystyried ei fod trwy hynny, yn y Gymraeg, yn colli cymaint mewn eglurder, a phwyslaia, a phersain. “Shimon, *mab* Iona, ai hoff genyt Fi yn fwy na'r rhai hyn? Dywedodd *yntau* Wrtho, Y mae, Arglwydd: Tydi a wyddost mai Dy garu yr wyf. Dywedodd *Efe* wrtho, Portha Fy wyn. Dywedodd wrtho drachefn, yr ail waith, Shimon *mab* Iona, Ai hoff genyt Fi? Dywedodd *yntau* Wrtho, Y mae Arglwydd; Tydi a wyddost mai Dy garu yr wyf. Dywedodd *Efe* wrtho, Bugailia Fy nefaid. Dywedodd wrtho y drydedd waith, Shimon *mab* Iona, Ai fy ngharu yr wyt? Poenwyd Petr am ddywedyd o Hono wrtho y drydedd waith, Ai fy ngharu yr wyt? a dywedodd Wrtho, Arglwydd, pob peth Tydi a wyddost; Tydi a ganfyddi mai dy garu yr wyf.” Da iawn oedd cael dau air, “caru” a “hoffi” i ateb i *αγαπᾶω* a *φιλῶ*; ond yn sicr y maent yma wedi eu gosod yn y gwrthwyneb. *Caru* sy'n ateb i air mawr Crist, ac felly y defnyddir ef trwy y llyfr: “Canys felly y *carodd* Duw y byd,” &c.; a diau mai *hoffi* ydoedd y *φιλῶ* llai a ddefnyddiai Pedr. (Gwel erthygl ragorol y Dr. O. Thomas, “Nodiadau Ysgrhythol,” TRÆTHODYDD 1845, tud. 37. Hefyd gwel Alford, Meyer, Godet, Luthardt, &c., ar y geiriau). Mae cystrawiaeth yr adran hefyd yn ddrwg iawn. Nid y pwnc oedd, Ai *caru* Crist yr ydoedd, ond A *ydoedd* yn ei garu? Sonia y Rhagymadrodd am yr Archddiacon Pryce unwaith fel *college-pupil* i'r awdwr: buasai yn ddyddorol gennym glywed sut y buasai y ddau yn gramadegu “Y mae, Arglwydd,” a geir ddwywaith gan Pedr. “c nid “poeni” ond *tristau*, *ἐλπιῶν*, wnaeth Pedr, pan ofynnwyd iddo y drydedd waith, A wyt ti, &c. Ond yr oeddym yn dyfynnu y geiriau hyn yn awr fel engraifft o'r fargen sâl a geir wrth ymgroesi yn gymaint rhag defnyddio rhagenwau. Gymaint yn fwy grymus a naturiol, a mwy ffyddlon i'r gwreiddiol hefyd, ydyw y geiriau, “A wyt ti yn fy ngharu i yn fwy na'r rhai hyn,” ac felly trwy yr holl adran.

2. Am fod yr Hebraeg, y LXX, y *Vulgate*, a'r Saesneg, yn defnyddio y dyfodol am y gorchmynnol, myn efe y dylid gwneyd felly yn Gymraeg hefyd. Dylai y gorchmyn cyntaf, medd efe, fod, “Ni ddygi enw Iehofah dy Dduw yn au, canys ni ddieuoga Iehofah, neb a ddygo Ei enw yn au.” Ac felly, “Ni leddi,” “Ni wnei odineb,” &c., a gawn yn ei gyfieithiad. Yn yr ieithoedd ereill, fe deimlir y nerth gorchmynnol yn nyfodol y ferf, megis “Thou shalt not kill.” Ond nid felly yn sicr yn Gymraeg. Dywedwch wrth Gymro, “Ni leddi,” ac fe'i cymer fel hysbysiad y byddwch mor garedig a'i wneyd mewn ffordd o chwaneu at ei wybodaeth; ond ni ddaw adref ato ef yn y ffordd yna fel gorchmyn, yn yr ystyr o “Na ladd.” Yma eto, yn ddiameu, “gwell yw yr hen.”

3. Mae y ferf yn y ffurf o ran-gymeriad yn yr iaith Roeg yn gallu chwareu campau dieithr iawn i'r Gymraeg mewn un gair. Gall ddangos gweithred yn, wedi, neu ar gymeryd lle, a hynny yn ei gwedd weithredol neu oddefol, unigol neu liosog, hefyd mewn tair rhyw, ac yn y gwahanol achosion—a defnyddio geiriau cryno y Parch. David Rowlands, B.A., yn ei *Ramadeg Cymraeg*—o enwai, meddiannai, gwrthrychai, neu alwai. Wrth reswm ni ellid cyfieithu geiriau felly ond trwy ddefnyddio priod-ddulliau gwahanol, a gosod y *peth* ger bron yn ddeallus a naturiol, er nad yn yr un ffurf. Y mae y Cyfieithwyr wedi gwneyd hynny cystal ag y gellid; ac i ddangos hynny, ynghyd a methiant y cyfieithiad presennol yn hyn o beth, cymerer yr engeifftiau a ganlyn:—Ac efe a agorodd ei enau ac a'u dysgodd hwynt: Ac wedi agor ei enau, dysgodd hwynt.—Ac a gyfododd i fynu, ac a'i dilynodd ef: Wedi sefyll i fynu y canlynodd Ef.—A phan ddaeth y llifeiriant: A llifeiriant wedi digwydd.—Ac a eginodd ac a ddug ffrwyth ar ei ganfed: Ac wedi tyfu dug ffrwyth ar ei ganfed.—Rhag iddynt gredu, a bod yn gadwedig: Rhag wedi credu o honynt, iddynt fod yn gadwedig.—*Hwn*, wedi gweled yr Iesu, a dolefaïn, a syrthiodd i lawr ger ei fron ef, ac a ddywedodd â llef uchel: A chan weled yr Iesu, gan waeddi, syrthiodd ger ei fron Ef, ac â llef fawr y dywedodd.—Ac wedi iddynt fyned allan, hwy a aethant: A chan fyned allan yr aethant.—Gad i mi yn gyntaf fyned a ohladu fy nhad: Gâd i mi, wedi myned ymaith, yn gyntaf gladdu fy nhad.—Mi a godaf, ac a âf at fy nhad: Gan gyfodi yr af at fy nhad.—Ac efe a gododd ac a aeth at ei dad: Ac wedi cyfodi yr aeth at ei dad.—Canys fy mab hwn oedd farw, ac a aeth yn fyw drachefn: Canys hwn fy mab, marw ydoedd, ac a adfywiodd.—Yntau a'i cymmerodd, ac a'i bwytaodd yn eu gwydd hwynt: Ac wedi ei gymmeryd ef, yn eu gwydd y bwytaodd.—A'r newidwyr arian yn eistedd: A'r newidwyr arian yn eu heistedd.—A'r hwn oedd yn eistedd, oedd yn debyg yr olwg arno i faen jaspis a sardin: Ac yr Hwn yn Ei eistedd, tobyg oedd, i'r golwg, i faen iaspis a sardin.

4. Ond y graig sydd wedi bod yn fwyaf andwyol i'r cyfieithiad hwn ydyw ymlyniad direswm yr awdwr wrth drefn y geiriau mewn brawddegau, yr *ordo verborum*, chwedl yntau, yr hyn fel ei ceir yn y Roeg, sydd mor gysegredig yn ei olwg fel nad yw yn ormod ganddo lurgynio y Gymraeg dirion yn y modd mwyaf didrugaredd er ceisio ei chael i fod rywbeth yn debyg. Mae cyflead y geiriau pwysig yn nechreu y frawddeg yn yr iaith Roeg yn help neillduol i drosglwyddiad byw o'r ystyr i foddwl y darlennydd. Gwelir hynny yn fyrych yn Gymraeg, pan mae y cyflead hwnnw yn y naill iaith yn cyfateb yn hollol i'r hyn ydyw yn y llall: megis, "Syrthiodd, syrthiodd Babilon fawr." Ac weithiau yn y Saesneg: megis "Lovest thou me." Ond y mae cadw hynny o flaen y moddwl fel eilun y rhaid aberthu popeth iddo, "yn anwiredd i'w gosbi gan farnwyr." Mae y darlennydd wedi sylwi mor dywyll a chlogyrnaidd ac anhysain ydyw llawer o'r brawddegau a ddyfynasom o'r gwaith hwn. Dyma i fesur mawr y rheswm am yr holl drueni. Rhaid llusgo geiriau o'u lleoedd naturiol er mwyn eu cael rywaut, i ateb i drefn y geiriau yn yr iaith y cyfieithir o honi. Y mae "Perchweh bawb. Cerweh y brawdoliaeth. Ofawch Dduw. Anrhydeddweh y bronhin," yn cario cyngor da yr Apostol Pedr adref i

feddwl y darllenydd gydag anfesurod fwy o effaith na, "Pob dyn anrhydedd-wch; y frawdoliaeth cerwch; Duw ofnwch; y brenhin anrhydedd-wch." Ac felly am a geir mewn lliaws o fannau ereill yn y cyfieithiad hwn.

Buasai yn dda gennym ysgrifennu yn wahanol am waith cydwladwr y teimlwn tuag ato gymaint o barch; ond wedi ein tynnu i dalu cymaint o sylw iddo, ni allem ond datgan fel y gwnaethom yr argraff a osodwyd trwy hynny ar ein meddwl. Ni ellir dysgu y Gymraeg i siarad Groeg, mwy nag y gellid dysgu y Roeg i siarad Cymraeg. Hyd yn oed pe'r addefid,—mewn ymostyngiad i'r rhagfarn a'r cymhendod sydd eto mewn rhai cylchoedd mewn gormod o fri,—mai ffrêgod ydyw iaith Goronwy Owen a Lewis Edwards, ac nad ydyw yn deilwng i'w hastudio gan ysgolheigion; eto os defnyddir hi o gwbl, pa un bynnag ai ar lafar neu mewn ysgrifen, i geisio cyrraedd y Cymry, fe ddylid gwneyd hynny yn ol ei hanian hi ei hun, oblegid mai felly yn unig y gall y defnydd a wneir o honi ateb unrhyw ddiben. A pho fwyaf a roddir iddi o astudiaeth ddoeth, mwyaf yn y byd y datguddia i'r efrdydd ei chyfrinach, a pherffeithiaf fydd ei gwasanaeth iddo yn ei ymdrech i oleuo a dyrchafu a dedwyddoli y Cymry mwynion, ple bynnag y byddont.*

* Wedi i'r erthygl uchod gael ei chysodi, yr oedd yn ddrwg gennym weled fod Dr. Briscoe, yn yr oedran addfed o 81 mlwydd, wedi myned i orfwys. *In pace!*

NODIADAU LLENYDDOL.

The Handbook on Welsh Church Defence. By THE BISHOP OF ST. ASAPH.
Denbigh: C. Cotton and Co. 6d.; cloth, 1s.

LXXX "for English consumption." Am y Cymry, nid oes berygl iddynt gael eu camarwain ganddo drwch y blewyn. O'r dechreu i'r diwedd *special pleading* cibddall ydyw, ac nid oes dim yn ormod ganddo aberthu, nae yn rhy isel ganddo wneyd

To make the worse appear the better reason.

Mae'n ddrwg gennym dros ein cydwladwyr sydd yn credu fod y cyfnewidiad sydd gerllaw yng nghysylltiad Eglwys Loegr yng Nghymru â'r Llywodraeth, yn gymaint trychineb; er y credwn yn sicr y byddant hwythau, cyn pen nemawr, fel eu brodyr ymhob man lle mae eu Heglwys wedi eu rhyddhau oddiwrth y Wladwriaeth, yn gweled fod yr hyn a fawr ofnont wedi profi iddynt y fendith werthfawrocaf. Ond gofidiwn yn neillduol wrth weled gwyr fel yma yn ymddarostwng at ddadleuseth mor isel wrth geisio profi eu pwnc. Rhaid tæru na fyddai dim y gellid edrych am dano fel canlyniad i Ddadgysylltiad yn ein gwlad, ond fod Cymru oll yn suddo i baganiaeth. Fe wneir allan fod hyn a hyn o blwyfydd heb weinidog Ymneillduol ynddynt o gwbl, ac wedi gwneyd i ffridd â threfn sydd "yn sicrhau gweinidog ymhob plwyf," beth a fyddai i'w ddiagwyl ond trychineb,— "disaster to the spiritual and moral well-being of the community." Gyda golwg ar y ddadl hon, y gosodir cymaint o bwys arni, gallwn sylwi, yn un peth, *nad oes* gan yr Eglwys weinidog ymhob plwyf. Ni cheisiodd neb wrthbrofi geiriau y Parch. Griffith Hughes yn y *Manchester Guardian*, pan ddywedai fod 27 allan o'r 77 o blwyfydd ym Môn—bron un ran o dair o'r cyfan—heb offeiriad o gwbl; ac mewn tri o honnyt fod eu heglwysydd adfelliedig wedi eu hen dynnu i lawr.

Diameu y gallid dweyd peth tebyg am Siroedd ereill Cymru. Mae'n wir fod Esgob Bangor wedi rhoddi ei reswm trwy ddweyd fod llawer o'r plwyfydd hynny yn fychain, a dim modd i gynnal offeiriad ynddynt; ond y mae mor wir a hynny fod yr un eglurhad, ynghyda phethau ereill sydd yn rhoddi cyfrif digonol am fod nifer o blwyfydd heb weinidog Ymneillduol ynddynt, wedi eu dwyn ymlaen o'r ochr arall, ond heb fod un sylw yn cael ei wneyd o honynt, ond yr un chwedl siol yn parhau i gasl ei hadrodd, fel pe na bai amheuseth o gwbl am ei dilyrwydd. Drachefu, yn mae yn herffaith wybyddus mai peth diweddar, yn enwedig gyda'r Corff uwafyddol y mae y boneddigion hyn yn barhaus yn brygawthan yn ei gylich, ydyw yr hyn a adnabyddir fel y "symudiad bugelliol;" a'r rhyfeddod ydyw, ac ystyried pobuth, fod ei gynnydd wedi bod mor fawr. Ac nid ydyw byth i'w anghofio mai dan drofu pan nad oedd o gwbl weinidogaeth sefydlog, y cariwyd ymlaen y gwaith mawr a achubodd (Ymru oddiwrth y "baganiaeth," chwedl Arglwydd Aberdâr, ag yr oedd Eglwys Lloegr, gyda'i "gweinidog ymbob plwyf," wedi ei gadael am amawdd i orwedd yn farw yddo. Ac ar bob llaw fe welir egnion ar waith sydd yn dangos nad ydyw y plant mewn un modd am ollwng eu gafael o'r eifedfyaeth dda a storhawyd lldynt, dan fendith Duw, trwy dduwioledeb ac ymdrechion eu tadau. Iywedol Dr. Campbell, diweddar Esgob Bangor, fod Ymneillduwyr Cymru wedi darparu mwy na digon o le yn eu haddoldai ar gyfer holl boblogaeth y wlad; a gallwn storhau bod ymdrech ddyfal yn cael ei gwneyd yn yr oll i gadw "lamp Duw i oleuo yn nheul yr Arglwydd." Yr Ymneillduwyr hefyd, yn arbennig, sydd yn gofalu am foddion grâs i'r ardaloedd newyddion; ac felly y mae cryn lawer thyngom fel gwlad â'r trychineol a fygythia yr Esgob, hyd yn oed pe na byddai i'r Eglwys wneyd dim. Ond ymhellach, ac yn neillduol, A ydym i feddwl na byddai i Eglwys sydd yn llawn o'r fath honiadau, y mae holl fawrion y wlad yn ei ohymunadeb, ac na feddylir am ddwyn oddiangylich ei Dadsefydliad ond mewn ffordd a raddol iddi ddigon o amser i edrych o'i hamgylch ac ymbarhau at yr holl atsefyllfa newydd—a ydym i feddwl am drawiad amrant na wnaes yr Eglwys fawr gyfnewid hys, wedi ei rhyddhau oddiwrth y Wladwriaeth, *ddim ond ymmlwyn i farw!* I'u felly, hi ddylai farw! Ond ni allwn ni feddwl mor galed am dant ag y myn ei melbion i ni wneyd, pan y maent mor groch yn pregethu y "trychineol" a fyddai yn anocheladwy yn dilyn Dadgyssylltiad. Wedi rhyddhau yr Eglwys yng Nghymru o'i hualau, ac iddi ymdafu yn deg a'r gariad ei pliant a grâs ei Harglwydd mawr, "fe elai ei ohyfiawnder hi allan fel ddaigolrdeb, a'i hiaohawdwriaeth hi fel lamp yn lloegi." Fe lefarodd y dywedolig a'r ehangfryd Esgob Thirlwall eiriau ardderchog yn Nhy yr Arglwyddi yn ystad y ddadl ar Ddadsefydliad Eglwys Iwerddon, a gwnai yn ysgafn iawn o'r cyhuuddiadau gwylltton o "ybeillio Duw," &c., a luchid o amgylch y pryd hynny fel yn awr. Nid oes dim a ellid ei ystyried felly, am funud, mewn cymhariaeth i waith offeiriad yr Eglwys yn ein gwlad am oesoedd lawer yn mwynhau yr eiddo ydoedd wedi ei neillduo at ddwyn ymlaen waith Crist, ond heb feddwl o gwbl am eu cyfrifoldeb iddo Eif.—*Ie â'u holl fywyd yn wrthryfel yn ei erbyn! Mae y goleuni mawr sydd wedi bod am gyhyd o amser yn llewyrchu, wedi argyhoeddi mwyafrif anferth, orbyn hyn, mai y peth iawn ydyw i'r Wladwriaeth ddefnyddio ei haduoddau at amcanion a fo yn deg i'r boblogaeth oll, a gadael Eglwys y cyfoethogion, fel Eglwys i bobl, i ymladd rhyfel Crist yn nerth ei chariad ei hun. Diameu y cymer Esgob newydd Henffordd, Dr. Percival, yr un tir yn Nhy yr Arglwyddi â Dr. Thirlwall; ac mewn amser, mae'n sior, mai gofid a chywilydd ei holl frodyr fydd na fuasent ar unwaith yn ildio i'r anocheladwy, ac yn croesawu eu hymwarod. Gwelwn fod y "pum can brodyr," yr offeiriad a'r llewygwr urddasol a wahoddwyd i Gastell Penrhyn y 15ed o Chwefror diweddar, yn ymrwymo gyda dirfawr sêl i wneyd eu goreu gyda'u pwyllgorau plwyfol, &c., yn ol drych-feddwl mawr Archesobog Canterbury, er ceisio "goleuo pob un wedi tyfu i oedran trwy yr holl esgobaeth am natur yr ymosodiad ar yr Eglwys, am feithiau hanes Eglwysig, a chanlyniadau tebygol dadsefydliad a dadwaddoliad." Onid oedd yr Esgob yn y gadair, ac yn ymfrostio fod y "great predominant partner," yr Eglwys Seisnig, o'u plaid, a'r cynhygiad yn cael ei wneyd gan Arglwydd Penrhyn, a'i eiddo gan Arglwydd Raglaw Sir Gaernarfon, a'i basio gyda brwdfrydedd? Beth all sefyll o'i flaen? Yn anffodus, sut bynnag, nid ydyw pethau ond yn union lle yr oeddnt. Fe wyr pawb yng Nghymru ddigon "am natur yr ymosodiad" i ddeall nad ydyw ond amcan i unioni anferth gam; digon "am hanes Eglwysig" i ddeall nad oes dim trwy yr holl oesoedd wedi profi mor andwyol i Eglwys Crist â gwaith*

llywodraethau gwladol yn ei sefydlu ac yn ei gwaddoli a digon "am ganlyniadau dadsefydliad a dadwaddoliad"—yn America, yn Iwerddon, ac yn y Taleithiau Prydeinig,—i ddeall mai y pethau echrhydus y mae ein cyfeillion yn teimlo mor sior eu bod yn anocheladwy, ac yn arswydo yn gymaint wrth feddwl am danynt, ydyw y pethau annhebycaf mewn bod i gymeryd lle. Credwn fod bywyd yn yr Eglwys; ac am hynny ni gredwn hefyd mai dirfawr fantais iddi fyddai cael ei gosod i ymddibynnu ar ei hadnoddau ei hun, ac felly i fwrw ymaith y llyftheiriaiu sydd yn ei dal yn gaeth, a myned rhagddi, yn nerth yr Arglwydd, i wynebu ar y gwaith sydd ganddi i'w gyflawni er gogoniant i Grist a gwasanaeth i ddynolryw.

Montgomeryshire Worthies. By RIHARD WILLIAMS, Fellow of the Royal Historical Society. Second Edition. Newtown: Phillips & Son. 8s. 6d.

MAE Mr. Williams wedi cymeryd dirfawr drafferth, a hynny am lawer o flynyddoedd, i gasglu nghygd y manylion a geir yn y llyfr hwn am lewion gwlad ei enediggaeth, ac i'w gydwladwyr, yn enwedig, dylai y llyfr brofi o ddyddordeb tra mawr. Ac yn wir y mae cynifer o bobl dda Sir Drefaldwyn, o bryd i bryd, wedi chwarae y fath ran bwysig yn hanes eu gwlad fel y byddai darllen y llyfr yn rhwym o fod yn dra dyddorol i lawer y tu allan i gyffiniau y Sir. Pan nodwn, a chymeryd y Davisiaid, y ceir pob gwybodaeth sydd ar gael am wŷr fel Dr. John Davies, Richard Davies y Crynwr, John Davies, Tahiti, Walter Davies, Morris Davies, David Davies, Llandinam, Mynyddog, &c., fe welir fod y llyfr yn drysorfa werthfawr o wybodaeth am bobl Sir Drefaldwyn ag y byddai yn dda gan lawer Cymro llen-garol ei chael o fewn ei gyrraedd. A thrwy yr holl lythrennau, yr ydym yn cyfarfod yn fynych âg enwau y mae yn dda gan ein cenedl am danynt, ac y teimlwn yn ddiolohgar am help gŵr o allu a diwydrwydd a ohwaeth bur Mr. Richard Williams er cael mwy o wybodaeth yn eu cylch.

Araeth a draddodwyd o Gadair Cymdeithasfa y Methodistiaid Calfinaidd yn Nheudir Cymru, a gynhaliwyd yn Nhrefdraeth, Sir Benfro, Hydref 2 8, 4, 1898. Gan y Parch. W. MORRIS LEWIS. Haverfordwest: Paroh. W. Mendua. 2s.

Llenyddiaeth, Calfiniaeth, a Methoistiaeth. Anerchiad gan y Paroh. T. ROBERTS, Bethesda, a draddodwyd wrth roddi i fyny Gadair Cymdeithasfa y Gogledd yn Mrynsiencyn, Môn, Ebrill 25, 27, 1894. Llanfairfechan: Paroh. W. B. Jones. 1s.

Y Sacramentau: Anerchiad Agoriadol a draddodwyd yn Nghymdeithasfa Pwllheli, Awst 28, 1894. Gan y Paroh. HUGH WILLIAMS, M.A., Athrofa Dduwinyddol y Bala. Bala: Davies ac Evans. 6s.

DA iawn fod hamdden yn cael ei roddi ymysg y Methodistiaid i ymddrin yn weddol gyflawn yn eu cynneddiadau ar faterion ag y teimlir eu bod yn galw am eu sylw, a gwych ydyw fod anerchiadau pwysig fel y rhai uchod yn cael eu cyhoeddi trwy y wasg, er mwyn i liaws gael yr hyfrydwch a'r adeiladaeth o'u darllen. Dylai y rhai hyn gael eu darllen a'u dwys ystyried gan floedd. Baich anerchiad rhagorol Mr. Morris Lewis ydyw, y dylid rhoddi llawer mwy o bwys ar y Sacramentau. Fel y dengys yn amlwg, yr oedd y Tadau Methodistiaid yn rhoddi pwys neillduol arnynt, ac yn edrych arnynt yn gysegredig iawn. Ond fel y mae yr ymdrech i ddefnyddio yr ysgolion elfennol cyhoeddus fel cyfneustra i broselytic plant Ymneillduwyr i Eglwys Loegr wedi peri i lawer benderfynu mai gwell peidio rhoddi addysg grefyddol mewn ysgolion felly o gwbl, felly y mae y Babyddiaeth ronc a ddyysgir gan fwyatrif anferth yn yr Eglwys honno gyda golwg ar Fedydd a Swper yr Arglwydd, wedi bod yn achlysur i heri i nifer mawr gymeryd golwg lawer is nag a ddylent ar yr ordinhadau sanctaidd hynny. Ond tra yn cadw yn y pellter eithaf oddiwrth ofergoel y syniadau Uchel-eglwysig neu Babaid, y mae Mr. Lewis yn cael fod i'r Sacramentau le llawer uwch nag a roddir iddynt yn gyffredin y dyddiau hyn, a'i gri gan hynny, er mwyn bod yn fyddlon i Grist a derbyn oddiwrth yr ordinhadau y bendithion y maent mor gyfaddas fel cyfyngau eu gweinyddiad, ydyw, Yn ol at y tadau, ac felly yn arbennig Yn ol at Grist.

Mae Anghorlud Mr. Roberts yn cymeryd i fyny yn hafus dri mater oedd wedi cael arysu sylw yn ystod ei flwyddyn yn y Gymdeithas, ac yn tractio arnynt gyda gryn ac nidfedrwydd a blâs. CÂ fod ei bobl wedi dangos fyddlondeb mawr i achos Iduyddiaeth, yr hyn, fel y nodai, a ddaenghoiwyd yn seilidol trwy eu hynafiaeth o'r dechreuad gyda y TRAEITHODYDD, a bod hynny wedi profi iddynt yn ddilysu amall. "Teluola yn hyderus hefyd y bydd iddynt barhau felly, a chynhyddu fwyfwy, tra ar yr un pryd "yn dal yn lew y gair fyddlaw, yn ol yr amlwg." Nid ydyw Calfaniaeth yohwaith yn beth y teimla fod galw arno i gywilyddu o hono mewn un modd, er mor ddibris y cair pobl na wyddant ddim yn ol yr hyn yn burw eu dirmyg arno. Fel profwyd rhyddid gwiaol a chyfaill gyllyng, ac yn uweddig fel dehonglydd digymar ar yr Ysgrifysrau, ac un sydd yn drosu Abiawiaeth yr Efrogyl mewn modd mor gyflawn a dwfn ag sydd yn dangos ei hunhawber, ac felly ei Dwyfoldeb,—y mae yn cael fod Calvin wedi gosod y llyd dau ddilysu ddylod iddo, ac mai da y gwnaent hwythau wrth ymroddi i fod yn ddilysuwr iddo, mewn ag yr oedd yntau i Grist. Ac mewn Methodistiaeth, y mae yn cael dau beth o werth mawr iawn: y Gymdaithaaf, yn sicrhau eu cyfathreolrwydd gyda gwaith yr Arglwydd; a'r Olyniad Apostolaidd,—nid y ffrug ddiwedd, ond y ddiwedd ydyddol mawr sydd yn dwyn dynion o afael eu pechodau, ac yn eu gwanhau yn anaf.

Yn Amherst Mr. Williams, y mae tipyn o helynt wedi bod. Fe aeth efo i'w hysbysu gydag ymdeith eang a chydwbybodol; ond yn anffodus nid oedd yn bosibl i'w ei ei amlwg fus oedd ganddo, wrth arwain ymddiddan yn ei gylch yng nghyfeirdd y pwysohwr yn y Gymdaithaaf, ond ymddrin yn fryslog ag ef, yr hyn a achosodd gwaith o anghyffwrdd i lawer fel y caent eu hunain mewn cryn benach. Yn anghyffwrdd i'w, wrth wled fod Mr. Williams wedi myned i'r pwnc hwn yn fwy bwrwdd nag y gallai ddangos ar y pryd, a bod y dyryswoch a brofid yn cael i'w hysbysu amlwg i'w ddarwngiad ei fater, eu bod yn ei annog i gyhoeddi llyfr ar y *Scriptures*. Mae wedi gwneyd y peth nesaf i hynny trwy ddwyn allan y llyfr hwn. Dylai fod yn gyntol pump neu ohw swllt, a dylasai y Cymry fod yn anafus i'w hysbysu felly. Ond y mae y llyfr yma o 64 o dudalennau,—ac a ffeithu eu ddim ond ohw ohommg; al am lytrau yn unig y mae y Cymry yn gwel i'w hysbysu yn hysbysu y cyfwrdd ymddriniaeth eang, ysgolheigaidd, a gwerthfawr iawn ar ei holl llyfr. Am y pethau yr ofnid fod yr Athraw tirion yn gwroo amlwg i'w hysbysu y Cyst, fo goir mai yr unig wahaniaeth rhyngddo a rhai ag oedd yn euogdu i'w hysbysu, ydyw ei fod yn dal ei afael yn fwy cryf yn yr holl hysbysu, ac yn ei oed ger bron yn ei lawr ystyr. Gyda nifer mawr o'r gwyr amgocd am eu gallu a'u dyng, er eu hunain yn fedyddwyr babanod, a hynny trwy ddaenllud, ni phofrusu gyda'ed mai bedydd rhai mewn oedran yw yr un y rhoddir ei hysbysu yn y Testament Newydd, a hwnnw yn cael ei weinyddu, fel y gallid meddwl, trwy drochiad; er ei fod hefyd yn cael fod plant credinwyr o'r dechreuad yn cael eu bedyddu, ac fod saenellu yn cael ei arfer yr un modd a throchi. Mewn amser hefyd, ac fod bedydd plant, a hynny trwy daenllud, wedi ffynnu yn fwy, er y bedyddid pob un mewn oedran addfatach a gredid, ac fod llawer yn barod i wneud hynny y naill ffordd neu y llall, gan doimlo o hyd mai y *poet* o'r *hunan* oedd yn lawr, ac nad oedd y dull ond dibwys. Ebo y Dr. James S. Cardlish yn ei *Christian Sacraments*, a gyhoeddwyd yng nghyfeir y *Handbooks for Bible Classes*, ac a gyfeithwyd i'r Gymraeg gan y Parch. W. Williams, Glandyffwrdd: "Fe olygr gan y rhan fwyaf o'r rhai sydd wedi ymchwilio i'r pwnc, mai trochiad oedd ffrif grynaf y bedydd Cristionogol, ar sail cyffwrdd Paul ac frued i waered a dyfod i fyny o'r dwf fel arwydd-lyd o gladdu a chyfodi gyda Chris (Rhuif. vi. 4; Col. ii. 12), ac hefyd ddatgan- ladau yr Ysgrifauwyr Cristionogol cyntaf. Sut bynnag, mewn achosion o afiechyd, fo ganiateid tywallt neu daenellu yn lle trochi; ond parhaodd yr olaf i fod y ffrif reolaidd am lawer o oesoedd, ac yn Lloegr hyd y Dwygriad. Yn wir y mae yn parhau fel y flur sydd, yn ddaemaniaethol, yn cael ei herchi fel yn fwy deirnod yn Llyfr Gwedd Eglwys Loegr, er fod tywallt yn cael ei ganiatau. Yn Ffrainc, Itali, Germani, fo aeth trochi allan o arferiad lawer yn gynt nag yn Lloegr; ac yr oedd tywallt neu daenellu wedi dyfod y ffrif arferol cyn y Dwygriad. Y mae Eglwys Ddiwygiedig Scotland wedi dilyn arfer y Cystadur yn y mater hwn, ac yn argymhell bedyddio trwy dywallt neu daenellu fel nid yn unig yn gyfeithlawr, ond yn ddigonol ac yn fwyaf dymunol." Darfu i sylw Mr. Williams fod bedydd babanod, o'i gymharu â bedydd credinwyr mewn oed, heb fod yn gyflawn, ond i'w gyflawni ar eu gwaith yn credu eu hunain, dafu rhai i anhawster a barai iddynt

ddyohmygu ei fod wedi dygu "haner bedydd,"—peth nad oedd rith o sail iddo. Hyderwn y bydd darllen mawr ar y llyfr hwn; ac os felly, ni all lai na dwyn llawer o'n cydwladwyr i gymeryd golwg lawer uwch ar y Sacramentau, a thra yn ymgadw led y ddaear oddiwrth y dychmygion Pabaidd ac Anglicanaidd, y cysylltir yn ein plith gymaint o feddwl, a ffydd, a defosiwn â'u gweinyddiad, fel ag i fod i'n haelgysu yn gyffredin yn ennill ac yn ddirtfawr fendith. Mae y Sacramentau yn llawer mwy nag arwyddion; y maent hefyd yn saliau; ac y mae ymwneyd teilwng â hwynt yn foddion effeithiol o ras.

Undeb Ysgolion Sabbathol y Methodistiaid Calfniaidd. Gwerslyfrau Ysgrythyrol. *Llyfr Josua, penodau i. hyd xiii. Maes Llafur yr Ysgolion o Ebrill, 1895, hyd Mawrth, 1896. Gwersi Sabbathol a Nodiadau, &c. Gan y Parch. W. J. WILLIAMS, Hirwain. 2c. Parch D. O'Brien Owen.*

MAE y llawlyfr hwn ar yr un cynllun â'r llawlyfrau ar y rhannau ereill o'r Ysgrythyr oedd yn faes llafur y dosbarth ieuengaf a'r dosbarth canol yn y blynyddoedd o'r blaen, ac y mae yn cynnwys mewn cylch cryno lawer o wybodaeth fuddiol am y pethau a ddaw ger ein bron yn llyfr Josua. Hyfryd ydyw meddwl fod cynifer o'n plant a'n pobl yn cael hyfforddiant mor drwyadl yn mhethau mawrion y gair, ac yn pasio mor anrhydeddus yr arholiadau ar faes eu llafur. Ac eto yr oedd Esgob Bangor yn dweyd y dydd o'r blaen yng Ngharnarfon, a llawr o bobl barohus yn derbyn ei eiriau fel eiddo oraol,—“Oddieithr am yr Eglwys, ei fod yn ofni y byddai plant y wlad heb unrhyw hyfforddiant crefyddol o gwbl!”

Hanes yr Apostol Paul: llawlyfr at wasanaeth yr Ysgol Sabbathol, yn nghyda Map o Deithiau Paul. Gan y Parch. O. L. ROBERTS, Pwllheli. Dolgellau: W. Hughes. 6c.

Holwyddoreg ar Hanes yr Apostol Paul. At wasanaeth yr Ysgolion Sabbathol. Gan THOMAS OWENS, C.M., Ysgol Rammadegol Aberystwyth. Wrexham: Hughes and Sons. 2c.

MAE llyfr Mr. Roberts yn gosod ger bron mewn cylch cryno ac mewn dull tra darllenadwy y wybodaeth sydd o fewn ein cyrraedd am Apostol mawr y Cenhedledd, a diameu y profai ei ddarllen yn ofalus yn gynhorthwy tra gwerthfawr i'n pobl ieuainc er ennill syniad mwy clir am ei fywyd llafurus a thra defnyddiol. Byddai hefyd yn arweiniad rhagorol i astudiaeth o'i ysgrifeniadau.

Y mae Mr. Thomas Owens hefyd, fel athraw profedig, wedi gosod yr ystori ger bron yn ei Holwyddoreg yn glir a threfnus, ac y mae yn dra hawdd ei darllen.

Adgofion Andronicus. 2s. 6c.

MAE ein cytfaill tirion, Mr. J. W. Jones, sydd bellach ers llawer dydd yn bur adnabyddus i lawer o'i gydwladwyr fel Andronicus, wedi bod am amser maith yn gystuddiol, ac wedi gorfod ysgrifannu yr oll sydd wedi peri cymaint bodddad i'r rhai sydd yn darllen ei gynhyrchion, yn ei wely. “Ysbryd gŵr a gynnal ei glefyd.” Rhaid fod ei ysbryd yntau yn gryf a bywiog iawn, onidè fe fuasai wedi myned i lawr ers llawer dydd. Hyfryd ydyw deall hefyd ei fod ef ei hun, yn neillduol, yn dra ymwybodol o Allu Uwch sydd, ynghanol llawer o ddiocdef, yn ei gynnal, ac yn ei “goroni & thrugaredd ac â thoesturi.” Y mae wedi ei fendithio & thymher hynod o hapus, tymer sydd yn lled fynych, ac er gwaethaf y nerthoedd sydd am ei gadw i lawr, yn ei alluogi i edrych ar yr ochr oleu i'r cwmwl, a gweled daioni lle na welai llawer ond dygn ofid. A gwyth oedd iddo, ar gais ei gyfeillion,—ac y mae yn gyfoethog mewn cyfeillion,—wneyd detholiad o'i ysgrifeniadau oedd yn wasgaredig hyd y papyrâu a'r cyhoeddiadau, a'u cyhoeddi fel yma fel “Adgofion Andronicus.” Gwelwn fod nifer mawr wedi tanysgrifio am y gyfrol, a hyfryd gennym ei ohyfnydd i sylw ein darllenwyr sydd heb wneyd hynny fel un na allent ei darllen heb dderbyn llawer o fwyndad a llawer o adeiladaeth. Y mae Andronicus yn cofio llawer iawn, ac y mae ei Adgofion a esyd yma o'n blaen mewn ffordd rydd a dirodres, ac yn aml yn ddoniol a diddan iawn, yn bethau sydd yn hynod o hawdd eu darllen, ac yn bethau sydd hefyd, ac nid yn anfynych, yn cymeryd meddiant llawnach o honom nag y buasem, feallai, yn meddwl am ddiagwyl oddiwrthynt. Y mae a fynno llawer o'r Adgofion & phersonau a phethau ag y teimla llawr mawr o'r

Cymry ddyddordeb parhaus ynddynt, a darllenant gyda blaŷ bopeth a'u galluoga i'w hadnabod neu eu deall yn well. Ac am y lleill y mae ynddynt naturioldeb a gwerth sydd yn rhwym o dalu am y sylw a roddir iddynt.

One touch of nature makes the whole world kin.

Nid oeddem ni, er yn gydnabyddus â blaenoriaid eglwysig o'n mebyd, erioed wedi clywed am y fath rai ag y sonir am dan ynt yn y chwedl am "Robot y Go," a hyd nes y cawn foddlonrwydd i'r gwrthwyneb ni a gymerwn mai dalennau o ryw Apocryffia ydyw y cyfeiriadau hynny, ac wedi eu cael allan yn yr iselderau. Mae yr ysmaldod bach am "seiat y beirdd" hefyd dipyn islaw y safon, ac yn cael ei gorweithio yn greulon. Ond y mae y llyfr i gyd yn ddifyr iawn, yn dangos ysbryd hynaws a phur, ohwaeth goeth, a rhadlonedd a bâr i fryndiau Andronicus deimlo yn nês ato, ac a enilla iddo lawer o fryndiau newyddion. Buan yr adferer ef i'w iechyd, a gweled eto "haul ar fryn."

Anturiaethau Cymro yn America. Gan WILLIAM GRIFFITH, M. Inst., M.E. (gynt o Porthdinorwig). Swyddfa'r "Genedl," Caernarfon. 1s.

DARLLENASOM y llyfr hwn gyda mawr hyfrydwch, a da gennym ddeall fod llyfr neu lyfrau ereill cyffelyb i'w disgwyl. Ychydig iawn sydd yn y Gymraeg a allai roi ychydig wybodaeth am wledydd y ddaear, ac y gellid o'u darllen fwynhau. o leiaf mewn dyohymyg, y pleser o drafaelio a gweled y byd. Ni fyddai raid i Haws mawr o'n cydwladwyr ond dechreu darllen y llyfr hwn nad sent drwyddo gydag awoh. Llawn oedd gennym weled cydwladwr yn ei brofi ei hun yn gymwys i'r gwaith pwysig a ymddiriedwyd i Mr. Griffith fel arweinydd mintai dan Gwmni pwysig i archwilio rhannau o Affrica, a hawdd gweled iddo wneyd ei waith yn dra effeithiol. Ac ysgrifenna am a welodd ac a brofodd mewn dull rhwydd a chartrefol, yn gystal a manwl a deallus. Heblaw a ddywed am y wlad a helynt ei deithio, dyddorol iawn ydyw ei gyfeiriadau at waith y gwahanol Genedlaethau Cristionogol y daeth ar eu traws, a'r daloni pur sydd ymhob man yn cael ei ddwyn oddiamgylch trwy yr Efyngyl. Ond y mae yr olwg a gair ar fellidith y ddiwedd feddwol, y mae Prydeinwyr di-egwyddor yn wthio ar y gwledydd hynny, yn llanw dyn â dwfn ddiagonedd, ac ni allwn lai nag edmygu o galon waith y brenin Karna, sydd yn Gristion ymarferol, ac wedi gosod ei fryd ar gartnu y drwg hwn o'i wlad. Darllennwn:—

Mae dirgelwch cryfder a llwyddiant llywodraethiad Karna i'w briodoli yn ddi-amben i'r gwrthwynebiad dibaid mae wedi roddi i'r diodydd meddwol. Nid oes yr un math o ddiodydd meddwol yn cael eu goddef yn y wlad, i'w gwerthu na'u gwneuthur: ac ers rhai blynyddoedd bellach ni ohanistair hyd yn oed i Kaffir beer—math o ddiwedd fain frodorol—gael ei gwneyd, er fod hon i'r Kaffir fel tē neu goffi i ddyw gwyn. Nid yw Karna yn goddef ei gwneyd, gan y dywedai nad oedd yn gyson gwahardd un math a goddef y llall, a bu gwahardd i'r bobl eu diod genedlaethol yn llafur anarferol i'w gario allan. Ymosodwyd ar Karna lawer gwaith, a bu agos iddo gael ei ladd o'r herwydd, a cheisiwyd codi gwrthryfel amryw droiau; ond yr oedd penderfyniad a gallu y brenin yn drech na hwy oil, a gellir tybied fod rhoddi cyfraith o'r fath mewn grym trwy wlad sydd fwy ddwywaith ei maint na Phrydain Fawr, yn gan dipyn o dasg ar ysgwydd un dyn. Eto gorchfygodd bob gwrthwynebiad, a'r canlyniad yw fod Bechuanaland yn un o'r gwledydd hapusaf dan haul.

Robert Dafydd, Brynengan; ei Hanes a'i Hynodion, ynghyda Hanes Eglwys hynafol ac enwog Brynengan; gyda Darluniau o'r Gwrthrych ac o Gapel Brynengan. Gan HENRY HUGHES, Brynkir. 6c.

Y MAE i Frynengan hanes werthfawr a bendigaidd ynglŷn â'r deffroad crefyddol yn Sir Gaernarfon, a da iawn y gwnaeth y Paroh. Henry Hughes ei chaglu ynghyd fel yma a'i diogelu, cyn i'r adeg y gellid gwneyd y fath beth fyned hebio am byth. Y mae *Robert Dafydd* hefyd yn un o'r rhai rhagorol yr ydym i feddwl am danant, a dilyn eu ffydd; a diameu y bydd yn werthfawr gan ddarllenwyr y TRAEHODYDD, a ddarllenasant gyda'r fath flas ddwy orthygl Mr. Hughes yn ei gylch, gael yn y llyfr yn hwn, ac mewn dull mor ddymunol, bron yr oil sydd yn wybyddus am y gŵr da. Da iawn bod ei ddarlun gan Mr. Hugh Hughes ar gael. Mae yr olwg arno yn wirioneddol hybaroh. Wrth feddwl am ei lafur mawr a'i ymgysgriad i wasanaeth Crist, nid rhyfedd i Ddewi Wyn ganu mai

Oferyn Duw a'i ffrynd oedd.


TIME TESTED TEAS.

SUPERIOR CEYLON TEA

1/3 PER LB.

6lbs. by RAIL CARRIAGE PAID for 20s.

**SUPERIOR
INDIAN
BOUOHONG
1/7 LB.
LIZE MEDAL
LIVERPOOL
EXHIBITION.**



**SUPERIOR
BLENDED
TEA
PER 2/- LB.
SPECIALLY
RE-
COMMENDED.**

AGENTS WANTED. SAMPLES ON APPLICATION.

Thos. Jones & Co., Ltd.,
TEA IMPORTERS,
9, Parker Street, LIVERPOOL.

COCOA CADBURY

Hollol bur, wedi ei wneyd yn Lloegr.

Ni ddefnyddir Chemicals fel y gwneir yn Cocoas a elwir yn rhai tramor.

Mae enw CADBURY ar unrhyw sypyn o Cocoas
neu Chocolate yn ddigon o sicrwydd am burdeb.



SEBON

PEARS

JAN 3 1916

LLYFR L.

RHIFYN CCKXIV.

Y TRAETHODYDD.

MAI, 1895.

CYNHWYSIAD.

Llythyrau Ignatius. Gan y Proffeswr ANWYL, M.A.	161
Ymchwil Enaid am Dduw. Gan y Parch. JOHN OWEN, B.A.	178
Trysorau Cuddiedig. Gan H. R. JONES	180
Y Ddadl ar y Gydwybod : A ellir ei dysgu ? Gan y Parch. W. RYLE DAVIES	184
Dr. Arnold Gan ANNA ROWLANDS, B.A.	191
Daw yn yr Hen Destament. Gan y Parch. E. O. DAVIES, B.Sc.	210
Yr Ail Ddarlleniad. Gan y Parch. DANIEL ROWLANDS, M.A.	224
Nodiadau Llenyddol	289

CYBOEDDIR Y RHIFYN NESAF GORPHENAF 1, 1895.

PRIS SWLLT.

TREFFYNNON:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN P. M. EVANS & SON.

COLEG Y GOGLEDD, BANGOR.

(UN O'R COLEGAU YN Y BRIFYSGOL GYMREIG).

PRIFATHRAW: H. R. REICHEL, M.A., gyda Naw o Broffeswyr, Pedwar o Ddarlithwyr, ac Unarddeg o Athrawon ereill.

Parotoir ar gyfer Arholiadau Prifysgol Llundain, y Cwrs Meddygol ym Mhrifysgolion Edinburgh a Glasgow, ac Arholiadau ereill. Rhofr addyag arbenig mewn Amaethyddiaeth ac *Electrical Engineering*.

Gynnygir dros 20 o Ysgoloriaethau, yn amrywio mewn gwerth o £40 i £10 y flwyddyn, i'r rhai fyddo'n ymaelodi yn y Coleg gyda dechreu y tymor nesaf. Bydd hanner yr Ysgoloriaethau yn gyfyngedig i Gymry. Dechreua yr arholiad am danyat yn Medi.

Ceir pob manylion gan

JOHN EDWARD LLOYD, M.A.,
Ysgrifennydd a Chofrestrydd.

AT HOLL

GYMRY Y DEYRNAS GYFUNOL.

TELERAU ARBENIG

HYD GORPHENAF 31,

1895,

ESBONIAD JAMES HUGHES

AR Y

TESTAMENT NEWYDD,

WEDI EI RWYMO YN HARDD A CHRYF MEWN GROEN LLO,
AM DDIM OND

UN BUNTI!

Y Pris isaf y gwerthwyd yr Esoniad erioed, sef
gostyngiad o

BEDWAR SWLLT AR DDEG A CHWE CHEINIOG

Y GYFROL.

Y TRAETHODYDD.

LLYTHYRAU IGNATIUS.

GAN Y PROFESWR ANWYL, M.A.

HEDDYW, pan y mae ymchwiliadaeth feirniadol a hanesyddol ar bynciau duwinyddol a chymdeithasol yn dechreu cymeryd gafael newydd ynom fel cenedl, nid amhriodol, hwyrach, fyddai ymdrin yn helaethach â hanes tyfiant gwahanol drefniadau a swyddogaethau eglwysig. Ysbryd hanesyddol a chymariaethol sydd yn nodweddu hanner olaf y ganrif hon yn bennaf, ac mewn ysbryd hanesyddol a chymariaethol y diagwylia hi i ni olrhain dechreuad a thyfiant pob athrawiaeth, egwyddor a sefydliad. Ceisir, hyd y gellir, dreiddio i ddechreuad pob symudiad meddyliol a chymdeithasol. Edrychir ar y dylanwadau fuont yn gweithredu arnynt, a'u dylanwad hwythau ar yr hyn a'u cylchynai. Gwelir hyn yn amlwg iawn yn hanes athroniaeth a duwinyddiaeth. Amcenir deall pa anhawsterau meddyliol oedd yn blino dyn mewn gwahanol adegau ar ei hanes; paham a pha fodd y cyfododd y rhai hynny; ymha ddull y ceisiodd dynion eu hateb; a phaham y ceisiasant eu hateb yn y modd y gwnaethant. Wrth astudio cymdeithas a'r sefydliadau a godasant yng nghwrs ei hanes, yr ydym, yn y blynyddoedd hyn, yn ceisio gweled beth oedd anghenion neillduol cymdeithas mewn gwahanol gyfnodau; pa anghenion y ceisiai'r sefydliadau a godasant eu cyflenwi; i ba raddau y llwyddasant, a phaham a pha fodd y cyfnewidiai'r sefydliadau fel y cyfodai anghenion newyddion. Mae pob sefydliad byw yn gallu cyfaddasu ei hun at y cylch y perthynna iddo, yn gymwys fel y mae bywyd anifeilaidd a llysienuol yn gwneuthur. Dylem er hynny gofio fod gwahaniaeth pwysig rhwng dadblygiad athrawiaethau a sefydliadau trwy gyfrwng meddwl ac ewyllys dyn, a dadblygiad anian ddifywyd; ond nid ein hamcan yn awr yw ymdrin â phwnc dadblygiad.

Wrth astudio pob sefydliad yng ngoleuni'r amgylchiadau a'r dylanwadau yr oedd danynt, daw hanesyddiaeth yn fwy gwyddonol, a deawn ninnau hefyd i'w hastudio yn fwy diragfarn a chyda mwy o gydymdeimlad. Nid er mwyn dadleu yn eu cylch y byddwn yn astudio hanes personau, athrawiaethau, a sefydliadau mwyach; ond er mwyn cael gwybodaeth ddyfnach o natur dyn ac o drefn Rhagluniaeth, a gweled fel y mae rhywbeth mwy nag ewyllys dyn yn llywodraethu yn hanes cymdeithas yn gystal ag yn y greadigaeth.

Wedi i ni ddirnad fod sefydliadau yn gorfod newid yng nghwrs amser, deawn i ddadleu llai ynghylch enwau. Erys enwau sefydliadau, threfniadau a swyddogaethau yn aml heb newid, pan fyddo'r hyn a ddynodir ganddynt wedi newid llawer iawn. I unrhyw un diragfarn pan yn astudio hanesiaeth eglwysig, mae'r ffaith hon yn ddigon amlwg. Gorfodwyd dynion yn aml i ddiwygio'r sefydliadau gyda'r moddion agosaf i'w llaw, a hyderwn y bydd i'r darlennydd gadw hyn mewn golwg pan yn darllen llythyrau Ignatius. Chwanegu cyfrifoldeb prif arweinydd yr eglwys oedd y cynllun a ystyriai efe oreu ar y pryd i uno'r eglwys trwy'r holl fyd yn un cyfangorff yn y cyfwng pwysig hwnnw.

Ni fwriadwn ymdrin yn fanwl yma â llywodraeth foreuol yr Eglwys. Yn unig rhoddwn fraalun i'r efrdydd o'r cwsr, yn ol pob tebyg, a gymerodd pethau. Feallai y bydd rhai o'r pethau a ddywedir yn newydd i rai o'r darllenwyr. Nid ydym ychwaith yn bwriadu rhoddi mwy na braslun o'r dadleuon ynghylch ffurf wreiddiol a dilysrwydd y llythyrau. Mae gwybodaeth newydd ac ysbryd mwy eangfrydig wedi tynnu llawer oddiwrth rym rhai o'r hen ddadleuon ynglyn â'r llythyrau hyn. Ar ol ymchwiliad manwl y diweddar Esgob Lightfoot, mae'n hollol sicr bron mai'r saith llythyr at yr Ephesiaid, y Magnesiaid, y Tralliaid, y Rhufeiniaid, y Philadelphiaid, y Smyrniaid, a Polycarp, yn eu ffurf Roeg ferraf, yw gwaith gwirioneddol Ignatius. O'r rhai hyn ysgrifenyddwyd y pedwar blaenaf o Smyrna, a'r tri olaf o Troas gan yr awdwr, pan oedd ar ei daith i Rufain i gael ei ferthyru. Gelwir y saith llythyr yma gennym, yn ol yr enw cyffredin, y llythyrau Vossiaidd. Rhoddir arnynt yr enw yma am mai'r ysgolhaig enwog, Vossius, a gyhoeddodd cyntaf y llawysgrif Fedicëaidd yr hon a'u cynnwys. Llauer a ddefnyddiwyd ar y llythyrau hyn yn y dadleuon gynt ar Esgobyddiaeth. Mae ysgolheigion erbyn hyn o'r farn fod gormod wedi ei wneyd o'honynt i'r amcan hwnnw o'r ddeutu. Nid annog yr eglwysi i fod yn Esgobaethol ydoedd amcan blaenaf Ignatius; ond fel y dywed Dr. Hatch, arwain y Cristionogion oddiallan i ymuno â'r eglwys dan arweiniad ei swyddogion cydnabyddedig, a dwyn y swyddogion hefyd i undeb â'u gilydd dan un arweinydd. Ni chyfeiria Ignatius at Esgobion o gwbl yn ei lythyrau at y Rhufeiniaid a'r Philippiad. Pe na buasai ganddynt Esgobion, buasai yn rhyfedd iddo beidio eu hannog i'w cael; ac o'r tu arall, os oedd Esgobion ganddynt, buasem yn disgwyl iddo eu gosod fel esiamplau i'r eglwysi oedd heb Esgobion, pe buasai yn amcanu cymhell yr urdd yma ar yr eglwysi. Ei amcan mawr ef, mewn gwirionedd, oedd ffurfio'r Eglwys trwy'r holl fyd yn un cyfangorff; ac i'r perwyl yma ceisiai un o'r Cristionogion eu hunain yng ngwahanol ardaloedd yr ymerodraeth dan ryw arweinydd gweledig. Yn y blynyddoedd cyntaf, y mae lle i gasglu fod cryn nifer o Gristionogion yn aros y tu allan i'r eglwysi, heb wled unrhyw angenrheidrwydd iddynt ymuno â hwy. Mae Ignatius yn daer iawn ar y cyfryw i ymuno â'r eglwys, fel y byddont yn nerth i'w brodyr. Fel y dywed yn ei lythyr at yr Ephesiaid, y mae am i'r aelodau fod mewn undeb â'r henaduriaeth, a'r henaduriaeth â'r esgob, neu'r arolygwr.

Pan y cyfyd amryw sefydliadau mewn unrhyw gyfnod, ceir ynddynt yn wastad ryw nodweddion cyffredinol. Yma y gwelir y fantais fawr

o astudio sefydliadau yn gymariaethol. Fel cymdeithas yn meddu ar swyddogion a llywodraeth, y mae'r eglwys, fel y gellid disgwyl, wedi ei chynllunio, yn rhannol, ar gynllun y Synagog Iuddewig a'r llysoedd perthynol, yn rhannol ar gynllun lliaws o gymdeithasau pur gyffredin ym mlyneddodd cyntaf yr Ymerodraeth Rufeinig. Nid son yr ydym yn awr, dealler, am yr Eglwys Ysbrydol, anweledig, ond am yr Eglwys weledig, fel y cyfaddasodd ei hun at yr amgylchiadau cymdeithasol yn y rhai y gosodwyd hi.

Pan gododd yr Eglwys Gristionogol, llenwid yr Ymerodaeth Rufeinig â gwahanol gymdeithasau gwirfoddol at wahanol ddibenion. Y pryd hynny yr oedd amryw genhedloedd wedi colli eu bywyd gwleidyddol, a than yr ymerodraeth ni chai'r person unigol nemawr gyfla i ymenwogi mewn unrhyw gyfeiriad, heb dynnu arno'i hunan w'g yr ymerawdwr. Wedi iddo gael ei amddifadu o'r cychloedd gwleidyddol, arweiniodd ei reddf gymdeithasol ef i ffurfio nifer o gymdeithasau gwirfoddol. O'r diwedd daethant mor aml ac mor gryfion nes yr ofnodd rhai o'r ymerawdwr iddynt droi yn beiriannau gwrthryfel. Ceisiasant o ganlyniad eu rhwystro; a'u hanallu i rwystro'r Cymdeithasau Cristionogol, i raddau pell iawn, a arweiniodd i erledigaeth eu haelodau. Dengys Proff. Ramsay nad oedd erledigaethau cyntaf yr eglwys ond lleol ac anawyddogol.

Gelwid y cymdeithasau hyn yn gyffredin dan yr enw *Collegia*. Yn eu plith ceid cymdeithasau masnachol, cymdeithasau dramäyddol, cymdeithasau at ymarferiad corfforol, cymdeithasau claddu, cymdeithasau ciniawa, cymdeithasau cyfeillgar, cymdeithasau llenyddol, a chymdeithasau ariannol. Ychydig yw'r cyfeiriadau atynt mewn llenyddiaeth, ond cyfeirir yn aml atynt mewn cerf-ysgrifau. Cysylltid hwy yn wastad âg addoliad rhyw dduw neu dduwies, dan nawdd y rhai yr oeddynt. Gelwid cyfarfodydd rhai o honynt hefyd yn gymanfäoedd sanctaidd (*hierai sunodoi*), ac addoli, o'r fath ag ydoedd, oedd amcan pennaf bodolaeth rhai o honynt.

Ar y cychwyn, mae lle i gasglu fod cryn nifer o bobl o'r dosbarth canol, rhai o honynt yn lled gyfoethog, wedi ymfurfio yn gymdeithasau, mewn canlyniad i bregethiad yr Apostolion. Ar yr un pryd mae'n ddiameu fod cryn nifer o dlodion yn yr eglwys o'r dechreu cyntaf. Mae'n amlwg fod yr eglwys wedi cael rhyddid gan yr ymerodraeth, i ddechreu, am eu bod yn rhy ddistadl i dynnu sylw, ac am fod yr ymerodraeth yn caniatáu cryn ryddid crefyddol i'w deiliaid. Nid peth anghyffredin ydoedd i ddynion ddilyn un crefydd mewn bywyd neillduol, a phroffesu crefydd yr ymerodraeth mewn bywyd cyhoeddus. Perygl mawr y Cristionogion oedd eu hamharodrwydd i gydymffurfio f'r crefydd gyhoeddus, neu addoliad Cesar. Fodd bynnag, nid oddiwrth yr ymerawdwr y dechreuodd erledigaeth ar y Cristionogion, ond oddiwrth yr Iuddewon a'r masnachwyr y cymerai'r crefydd newydd oibaith eu helw oddiarnynt, megis gwerthwyr y cig a aberthid i eilunod, a gwerthwyr delwau y duwiau. Arweinid y werin-bobl hefyd yn eu hofergoeldd i gredu mai'r Cristionogion oedd yr achos o bob cyflafan a ddenai i'w rhan.

Pan ddaeth yr ymerodraeth i erlid yr eglwys, fe'i herlidiai yn bennaf am mai cymdeithas ddirgel ydoedd, a chredid gan lawer, o

herwydd y dirgelwch yma, mai cymdeithas anfoesol a gwrthryfelgar oedd. Yr oedd ymwrthodiad angenrheidiol y Cristionogion â chynifer o'r arferion paganoid cysylltiedig â bywyd cymdeithasol, yn tueddu i gadarnhau dynion yn y dyb honno. Daeth yr ymerodraeth yn fwyaf byw i'w pherygl pan ddechreuodd yr Eglwys Gyffredinol, dan arweiniad Ignatius ac ereill, ymfurfio yn un corff trwy'r holl fyd, fel un fyddin fawr, a'r esgobion yn gynifer o arweinwyr ar y gwahanol gatrodau. Gwnaeth tyfiant yr "esgobaeth" fwy na dim arall, feallai, i furfio'r Eglwys Gatholig; ac o'r tu arall y syniad o undeb yr Eglwys weledig yn un corff fu yn un o'r moddion cryfaf i ddadblygu ac i gadarnhau'r "esgobaeth." Cawn weled mor agos at eu gilydd yr oedd y ddau syniad yma ym meddwl Ignatius.

Ceisiai Ignatius, fel y dywedwyd eisoes, gael gan yr holl Gristionogion ymuno â'r eglwys weledig. Rhoddasid anogaethau o'r fath i Gristionogion unigol ymuno â'r eglwys weledig cyn hynny yn y Llythyr at yr Hebraïd, yn llythyr Judas, ac hefyd yn yr alegori foreuol a elwir "Y Bugail" gan Hermas. Mae'n amlwg, fel y dywed Dr. Hatch, nad oedd rhai dynion yn Ephesus, Magnesia, Trales, Philadelphia, a Smyrna, yn cydnabod awdurdod yr esgobion a'r henuriaid a'r diaconiaid; ac un o amcanion pennaf Ignatius ydyw annog y cyfryw i ddyfod yn aelodau o'r eglwys. Ymddengys fod rhai o'r Cristionogion hyn yn arfer cyfranogi o Swper yr Arglwydd ar wahân i eglwys eu hardal.

Yr enwau a ddefnyddid ar yr eglwys yn y blynyddoedd cyntaf oedd *ecclesia* (cynulleidfa), *synagoge* (cydgynhulliad), *synodos* (y cwrdd), a *to coinion* (yr achos cyffredinol). Yn gyffelyb i aelodau'r cymdeithasau a enwyd, arferai aelodau pob eglwys gyfrannu at gronfa berthynol iddi. Ar y cyntaf, yn ol yr hanes yn llyfr yr Actau, yr oedd pob peth gan yr aelodau yn gyffredin. Credir na pharhaodd hyn yn hir.

Yr un modd hefyd âg aelodau'r cymdeithasau ereill, byddai aelodau yr eglwys yn arfer bwyta pryd o fwyd gyda'u gilydd. Dyma oedd y gariad-wledd, neu yr *agapè*. Derbynnid i'r gymdeithas gaethion a gwŷr rhydd, hynafgwyr a phlant, gwŷr a gwragedd, y dysgedig a'r annysgedig, a dieithriaid hefyd; yn ddiweddarach, fodd bynnag, fel y codai perygl i'r eglwys gael ei thwylo gan ddieithriaid digydwybod, daeth llythyrau cymeradwyaeth yn angenrheidiol, y rhai a arwyddid gan brif arolygwr (*episcopus*) yr eglwys.

Blinid canrifoedd cyntaf yr ymerodraeth Rufeinig â chryn wasgfa ariannol. Yn aml aethai dinasoedd i ddyled i godi adeiladau gorwych, er engraifft. Daeth cyfrannu elusen o ganlyniad yn rhan bwysig iawn o waith y gwahanol gymdeithasau cyfeillgar, a gorfu i'r ymerodaeth ei hun rannu bara i'w deiliaid tlota. Yr un modd daeth elusengarwch yn elfen angenrheidiol iawn yn yr eglwys, a danghosodd hithau trwy hyn fod tynherwch yr efengyl wrth y tlawd wedi dylanwadu'n gryf ar ei meddwl a'i chalon. Atynnai hyn yn naturiol gryn nifer o dlodion iddi, a chan fod llawer o dlodion ac o gyfoethogion, yn ddiameu, yn llithro yn aml yn y dyddiau llygredig hynny, daeth disgyblaeth yn adran bwysig iawn o waith yr eglwys. Mae digon o le i gasglu mai un o ddyledswyddau pwysicaf yr henuriaid yn y blynyddoedd cyntaf,

ac am ysbaid wedi hynny, oedd ffurfio math o frawdlys i brofi achosion rhwng y brodyr, ac i weinyddu disgyblaeth.

Galwid prif swyddogion yr eglwys ar yr un enwau ag a geid mewn cymdeithasau ereill, megis y gelwir llywydd cyfarfod crefyddol yn "gadeirydd," yn gystal a llywydd cyfarfod bydol. Yr enw ar brif swyddog "*collegia*" y cyfnod hwnnw oedd naill ai *epimeletes* (un yn gofalu), neu ynte *episcopos* (un yn arolygu). Defnyddid yr enw *epimeletes* yn arbennig am brif swyddog cymdeithas grefyddol, tra mai ynglŷn â swyddi ariannol y defnyddid yr enw *episcopos* yn bennaf. Teifl y ffaith hon gryn fesur o oleuni ar waith yr "arolygwr" yn yr eglwys foreuol. Defnyddid yr enwau hyn nid yn unig ar arweinwyr unigol y gwahanol gymdeithasau, ond hefyd yn y rhif lluosog, at bwyllgor o swyddogion, —er engraifft, fe ddefnyddir y rhif lluosog *episcopoi* am bwyllgor cyffelyb yn Thera. Ceid felly hefyd yn bur fuan yn yr eglwys bwyllgor o swyddogion, y rhai a elwid yn y rhif lluosog yn *episcopoi*, a cheid mewn rhai eglwysi, beth bynnag, bwyllgor yn myned dan yr enw *presbuteroi* (henuriaid).

Dengys Profeswr Ramsay fod y cymdeithasau (*collegia*) a nodwyd dan orfodaeth i gofrestru eu heiddo yn enw un person. Fel yr enillai yr eglwys gyfoeth, gorfu iddi hithau weithredu'n gyffelyb. Daeth yr *episcopos* neu'r arolygwr, yn enw'r hwn y cofrestrid yr eiddo, yn ŵr pwysig iawn, a chan ei fod eisoes yn ddiameu yn gadeirydd ar bwyllgor yr *episcopoi* neu'r *presbuteroi*, daeth ei swydd i fod yn un o urddas neillduol. Mewn rhai eglwysi hefyd, lle y buasai un o'r Apostolion gynt yn llywyddu, megis Ioan yn Ephesus, yr oedd yr aelodau wedi cynefino a'r syniad o flaenoriaeth un dyn, a'r caulyniad fu penodi person neillduol i gymeryd lle'r ymadawedig.

Pan offrymid rhoddion aelodau yr eglwys, fe'u hoffrymid yn gyhoeddus trwy eu cyflwyno i'r prif arolygwr, er mwyn iddo yntau eu cyflwyno i'r Arglwydd. Rhoddodd hyn hefyd fri neillduol ar swydd y prif *episcopos*. O ganlyniad daeth prif gadeirydd pwyllgor yr eglwys yn bwysicach nag erioed, yn enwedig yng ngolwg tlodion yr eglwys, gan mai efe oedd yn cyfrannu yr elusen. Arno ef hefyd y gorffwysai'r gwaith, yn bennaf, o ofalu am y gweddwon a'r amddifaid, ac hefyd o letya'r dieithriaid. Gan ei fod yn gyffredin yn ŵr lled adnabyddus a dylanwadol, efe fyddai yn rhoddi llythyrau cymeradwyaeth, ac efe fel y prif henuriad oedd llywydd cyngor disgyblaethol yr eglwys.

Yr eglwys oedd yn ethol ei harweinwyr, ac yr oeddynt y rhan amlaf, yn ddiameu, yn deilwng o'r ymddiriedaeth a osodid arnynt. Nid felly fuont, er hynny, mewn rhai eglwysi. Canys fe fu yn angenrheidiol penodi goruchwylwyr (*oiconomoi*) i fod yn dystion o'u gweithrediadau ariannol; a rhag ofn i'r esgobion gyfrannu gormod o arian i'w plant eu hunain, fe ddaeth yn rheol fod yr esgob i fod yn ddiblant. Y brif ganmoliaeth i'r *episcopos* yn gyffredin, yn llenyddiaeth foreuol yr eglwys, ydyw iddo ofalu dros y cystuddiol, ac yn enwedig am y gweddwon a'r amddifaid.

Oddiwrth lyfr yr Actau, fe wyddys fod diaconiaid wedi eu penodi yn bur foreu i wasanaethu byrddau. Dengys hanes yr eglwys fod swydd esgob neu arolygwr, a swydd diacon, yn dwyn cysylltiad agos iawn a'u gilydd, ac mae'r hen gysylltiad i'w weled hyd heddyw, mewn ffurf

arall ym mherthynas yr esgob a'r archddiacon yn yr eglwysi esgobaethol.

Ond ychydig, wedi'r cyfan, o wybodaeth foreuol fanwl sydd ar gael am natur a gwaith y swyddi hyn. Y cyfeiriad llawnaf atynt yw eiddo Justin Ferthyr yn nechreu'r ail ganrif. Ymddengys oddiwrtho ef y byddai'r esgobion ar adeg y cymun yn derbyn rhoddion yr eglwys, a'r diacon ar is-ddiacon yn gofalu am eu rhannu i'r tlodion. Nid oes unrhyw gyfeiriad at yr henuriaid yn y deryn hwn o eiddo Justin. Yr esgob oedd trysorydd yr elusennau, ond chwiliai'r diaconiaid am y tlodion. Ymddengys hefyd mewn rhai eglwysi, beth bynnag, fod yr esgob, ynghyda'r diaconiaid, yn ffurfio math o gyngor gyda gallu disgyblaethol, o'r hwn gyngor yr oedd yr esgob yn gadeirydd.

Yn raddol daethpwyd i edrych ar y diaconiaid yn unig fel math o glerigwyr israddol. Creda Dr. Hatch ac ereill mai un rheswm dros hyn oedd y gymhariaeth a dynnid yn lled foreu rhwng y weinidogaeth Gristionogol a gweinidogaeth yr hen oruchwyliaeth. Daeth y diaconiaid i gymeryd lle y Lefiaid, ac fel y codai sefydliadau elusengarol, megis claf dai a'r cyffelyb, daeth cysylltiad y diaconiaid âg elusennau yr eglwys yn llai amlwg, a'r un modd yr arolygwyr hwythau. Er hynny parhaodd cysylltiad y diaconiaid yn nês â'r esgob nag â'r henuriaid.

Gair neu ddau yn awr am yr Henuriaid. Fel y gallesid casglu oddi-wrth yr enw, yr oeddynt yn gyffredin yn hynafgwyr. Y cwestiwn yn naturiol a ofynnir ydyw, beth oedd eu prif waith yn yr eglwys. Edrychwn yn gyntaf ar dyfiant yr henaduriaeth yn yr adran Iuddewig o honi.

Mae'n hysbys i'r rhan fwyaf o'n darllenwyr fod Cyngor yr henuriaid Iuddewig wedi codi i gryn sylw yn y cyfnod rhwng yr Hen Destament a'r Newydd. Gelwid y cyngor hwn yn y Groeg *Sunedrion*, a throwyd yr enw hwn i'r ffurf Hebreig *Sanhedrim*, neu, yn llai cywir, *Sanhedrim*. Cynhelid y prif Sanhedrim yn Jerusalem, ond yr oedd lliaws o'r cyngorau hyn yn y gwahanol ardaloedd yn ffurfio math o lysoedd lleol, yn gyfochrog â'r synagogau. Cyfarfyddai'r synagog ar y Saboth dan arweiniad llywydd y synagog, i addoli a darllen ac egluro'r ddeddf; tra y cyfarfyddai'r cynhulliad arall ar ddau ddydd arall o'r wythnos fel math o frawdlys lleol dan lywyddiaeth y *gerousiarches*, neu'r *archontes*, neu'r *presbuteros*.

Pan droai mwyafrif aelodau unrhyw synagog at Gristionogaeth, y duedd oedd iddynt gadw'r gwahanol swyddogaethau fel o'r blaen. Felly fu gyda'r henuriaid. Nid yw mor hawdd esbonio eu tarddiad yn yr eglwysi Cenhedlig. Feallai eu bod wedi mabwysiadu'r cynllun Iuddewig, neu ynte iddynt deimlo'r angenrheidrwydd o ffurfio cyngorlys i'r arolygwyr. Dywedir fod yr enw *presbuteros* yn cael ei arfer am athraw ar ysgol athronyddol, ac feallai fod hyn wedi cynefino'r eglwysi Cenhedlig â'r enw.

Beth bynnag y mae'n eithaf amlwg mai prif waith yr henuriaid oedd gweinyddu disgyblaeth. Dywed Tertulian fod yr hynafgwyr mwyafrif cymeradwy yn llywyddu i'r amcan yma. Yr oeddynt hefyd yn gorfod gwrando pob cyngaws rhwng Cristionogion a'u gilydd, am y byddai'r Cristionogion cyntefig, hyd y gallent, yn osgoi myned i'r llysoedd gwladol i ddadleu eu hachos ger bron paganiaid. Yn ddiweddarach

daeth y gwaith barnol yma yn gymharol ddianghenraid, gan fod Crist-ionogion erbyn hyn yn eistedd ar y fainc farnol, ac yr oedd yr esgobion hefyd wedi ceisio cael i'w dwylaw eu hunain hynny o waith barnu ag yr oedd angen am dano yn yr eglwys.

Er hynny ni ddaeth terfyn hollol ar y syniad o lywodraethu a gysylltid â'r enw *presbiteros*. Cymharer er engraifft y gair *rheithor*, Lladin *rector*, & llywodraethwr. Cytuna hyn a'r dywediad a geir yn y *Clementine Homilies*, mai gwaith esgob oedd dysgu'r athrawiaeth, tra mai gwaith henuriad oedd dysgu moesoldeb.

Yn wreiddiol yr oedd *episcopos* ymhob eglwys. Yn raddol fe dyfodd cangen-eglwysi o gylch rhai mwy, a danfonid henuriaid i gymeryd eu gofal. Mae'n ymddangos na byddai'r henuriaid hyn yn bedyddio nac yn cyfrannu'r ordinhad ar y cyntaf, ond yn absenoldeb yr *episcopoi*. Yn yr eglwysi Esgobaethol nid yw bedydd wedi myned yn gyfangwbl i ddwyllaw'r ofeiriad (*presbiteroi*) hyd y dydd heddyw, gan na chyfrifir y bedydd yn gyflawn hyd y confirmasiwn neu'r bedydd esgob, pan y geysd yr esgob ei ddwyllaw ar ben y bedyddiedig. Mae amryw o dro i dro wedi ceisio olrhain hanes tyfiant blaenoriaeth un o'r arolygwyr ar ei gyd-arolygwyr. Yn y Testament Newydd, ar wahan i Timotheus a Thitus, nid oes cyfeiriad at yr esgobion ond yn y rhif lluosog. Dylid cofio, fodd bynnag, yn y ddadl hon nad oedd hyd yn oed yr *episcopos* unigol yn ddim mwy na phen blaenor neu brif-ddiacon, ac nad oedd tebygrwydd o gwbl rhwng ei waith a gwaith esgob y Canoloesoedd. Gallwn dderbyn heb betruster fod yr arolygiaeth yn yr ystyr a roddid i'r gair y pryd hynny, wedi dyfod yn beth cyffredin mewn rhai eglwysi o leiaf, yn bur foreu, ac yn yr ail ganrif yr oedd yn beth cyffredin iawn. Ar yr un pryd gellid galw'r *episcopos* y pryd hynny naill ai yn *episcopos* neu *presbiteros*, fel y geilw Ireneus Polycarp.

Fel y tyfai cyfeiliornadau, deuid i deimlo fod mwy o obaith am gadw undeb yr athrawiaeth trwy osod ymhob eglwys y cyfrifoldeb ar un dyn, na gadael y gwaith i amryw o wahanol farnau. Daeth y syniad yma o edrych ar yr esgob fel ceidwad purdeb yr athrawiaeth mor gyffredin o'r diwedd, fel y geilw Awstin sêdd yr esgob yn "gadair y gwirionedd" (*cathedra veritatis*). Tueddai'r angen am unoliaeth disgyblaeth hefyd i'r un cyfeiriad. Diameu hefyd fod gan gyfundrefn llywodraethol yr ymerodraeth gryn ddylanwad ar drefn llywodraeth yr eglwys. Hefyd, fel y caiff y darlennydd weled yn llythyrau Ignatius, fe ddaeth y syniad yn bur gyffredinol fod yr esgob yn cynrychioli Crist ar y ddaear, a'i fod ef yn sefyll yn yr un berthynas i'r henuriaid a'r eglwys, & Christ i'r Apostolion a'r disgyblion. Gyda'r braslun yma o hanes swyddogaethau'r eglwys gyntefig, fe all y darlennydd ddeall yn well drosto ei hun pa fodd yr edrychai Ignatius arnynt.

Buddiol yn awr fyddai dweyd gair neu ddau am y llythyrau eu hunain, a'r dadleuon sydd wedi codi yn eu cylch.

Ychydig iawn a wyddys i sicrwydd o hanes Ignatius. Dywed Eusebius iddo gael ei benodi yn esgob Antiochia yn y flwyddyn o.c. 70 neu 71. Mae rhai ysgolheigion o'r farn fod Lucian yn ei ysgrif finio *De Morte Peregrini* (yr hon a ysgrifennwyd o.c. 160) yn cyfeirio at Ignatius. Y mae, yn wir, gryn debygrwydd rhwng chwedl Peregrinus & hanes Ignatius. Ar yr un pryd anhawdd sicrhau dim ar hyn. Cyfeiria

Theophilus o Antiochia (yr hwn oedd yn byw cyn 160 o.c.) at y dywediad o eiddo Ignatius yn ei lythyr at yr Ephesiaid, xix. 1, sef fod genedigaeth Crist wedi ei gadw yn guddiedig oddiwrth y diafol. Mae Ireneus o.c. 180 yn cyfeirio at ran o lythyr Ignatius at y Rhufeiniaid, a chredir fod Origen ei hun, yn fuan yn y drydedd ganrif, yn cyfeirio at lythyr Ignatius at y Rhufeiniaid, vii. 2, ac hefyd yr un at yr Ephesiaid, xix. 1. Fe ddywed Eusebius i Ignatius ysgrifennu llythyr au o Smyrna i Ephesus, Magnesia, Tralles a Rhufain; ac er mwyn rhoddi engraifft o waith Ignatius y mae'n dyfynnu'r bumed bennod o'i lythyr at y Rhufeiniaid. Dywed Eusebius hefyd i Ignatius ysgrifennu, ar ol cyrraedd Troas, llythyr au at eglwysi Philadelphia a Smyrna, ac hefyd at Polycarp. Methiant hollol fu ymgais Dailé ac ereill i geisio gwrthbrofi tystiolaeth Eusebius yn hyn o beth.

Yr hyn sydd wedi peri cryn anhawster ydyw, fod y saith llythyr hyn y sonia Eusebius am danynt, a'r rhai a elwir yn gyffredin y llythyr au Vossiaidd, i'w cael mewn ffurf hwy, ac hefyd fod amryw llythyr au ereill dan enw Ignatius. Cynhwysa'r gyfres hwyaf hon y llythyr au canlynol:—(1) Oddiwrth Mair o Castabala at Ignatius, (2) Ateb Ignatius iddi, (3) y llythyr at y Tralliaid, (4) y llythyr at y Magnesiaid, (5) y llythyr at y Tarsiaid, (6) y llythyr at y Philipiaid, (7) y llythyr at y Philadelphiaid, (8) y llythyr at y Smyrneaid, (9) y llythyr at Polycarp, (10) y llythyr at yr Antiochiaid, (11) y llythyr at Hero, (12) y llythyr at yr Ephesiaid, (13) y llythyr at y Rhufeiniaid. Nid oes yr un beirniad o bwys a ddaliai yn awr ddilyrwydd yr holl llythyr au hyn. Mae Lightfoot yn eu dosbarthu fel y canlyn: (1) Dau o llythyr au ffugiol, yn cael eu priodoli i'r adeg pan oedd Ignatius yn Antiochia; (2) Y pedwar llythyr o Smyrna gydag ychwanegiadau atynt; (3) Y tri llythyr o Troas gyda chyfnewidiadau; (4) Tri llythyr ffugiol yn cael eu priodoli i Ignatius yn Philipi; (5) Un llythyr ffugiol o Itali.

Yn 1847 darganfyddodd Cureton yn yr Amgueddfa Brydeinig dri o llythyr au Ignatius yn y Syriaeg, mewn ffurf gryn lawer yn ferrach na'r ffurf Roeg ferraf. Y tri llythyr hyn yw'r tri llythyr at yr Ephesiaid, y Rhufeiniaid, a Polycarp, wedi eu hadysgrifio yn y chweched neu'r seithfed ganrif. Barnai Cureton ei hun, a hefyd Bunsen, mai hwy oedd yr unig llythyr au gwreiddiol; ond erbyn hyn y mae ysgolheigion yn bur gytún o'r farn mai cyfieithiadau talfyredig ydynt o'r llythyr au Groeg. Gellir dweyd yma fod y diweddar M Renan o'r farn mai'r llythyr at y Rhufeiniaid yn unig oedd yn waith Ignatius, ond ni chytuna nemawr neb ag ef yn y farn hon.

Mae un peth yn deilwng o sylw, sef fod yr "Apostolical Constitutions" mewn llawer o fannau yn eu ffurf hwyaf, yn cyfateb i'r llythyr au Ignatiaidd yn eu ffurf hwyaf hwythau, tra y cyfatebant yn y ffurf wreiddiol fel y'u ceir yn y Syriaeg a'r llythyr au Vossiaidd.

Mae cyfeiriadau at Ignatius i'w cael mewn ysgrif ar enw Athanasius (nid ei waith ef ei hun, ond un o'i gydoeswyr), ac hefyd gan Basil, tra mae gan Chrysostom bregeth arno. Ceisiodd Zahn ddangos nad oes yng ngwir weithiau Chrysostom gyfeiriad o gwbl at Ignatius; ond methiant fu ei ymgais yn hyn. Dyfynna Theodoret yn aml o'r saith llythyr yn eu ffurf Vossiaidd, a gellir dweyd yr un peth am Severus o Antiochia (o.c. 513—531).

Ceir lliaws o lawysgrifau yn profesu rhoddi hanes merthyrdod Ignatius yn Lladin, Groeg, a'r Armenaeg. Credir fod yr hanes fel y mae yn y Colbert MS. yn myned yn ol i'r bedwaredd ganrif, ond iddo gael ei roddi yn ei ffurf bresennol yn y bumed ganrif. Dengys llawysgrif y Vatican, o'r tu arall, ei bod hithau yn seiliedig ar hanes y sant, yn perthyn i ddiwedd y bedwaredd ganrif. Oddiwrth Eusebius gellir gosod llythyrau, taith, a marwolaeth Ignatius rhwng o.c. 105 a 117. Ar y cyfan, hwyrach mai o.c. 107 yw'r dyddiad tebycaf.

Yn y flwyddyn 1878 ceisiodd Harnack wrthbrofi y traddodiad cyffredin mai dan Trajan y bu Ignatius farw. Nis gellir dweyd ei fod wedi profi ei bwnc. Ceisiodd Volkmar, ar awdurdod sigledig Ioannes Malalas (yr hwn a osodir gan rai yn y nawfed. gan ereill yn y seithfed ganrif) ddal mai yn Antiochia y merthyrywyd Ignatius, ond y mae diweddar Esgob Durham wedi llwyr brofi geudeb y syniad yna.

Ni chyhoeddwyd y gyfres hwyaf o lythyrau sydd dan enw Ignatius hyd ddiwedd y 15fed a'r 16eg ganrif. Fe'u cyhoeddwyd yn gyntaf yn y cyfieithiadau Lladin, wedi hynny yn yr iaith Roeg; ond yr oedd tri yn amlyg yn fflugiol, ac i'w cael yn y Lladin yn unig. Daethpwyd yn bur fuan i ameu fod y saith llythyr yn y gyfres hon yn cynnwys ychwanegiadau; a phan gyhoeddodd Vossius y llawysgrif Fedicëaidd, daeth hyn yn amlycach fyth. Ceisiodd Daillé wrthbrofi hyd yn oed y llythyrau Vossiaidd, ond er pan ysgrifennodd Lightfoot nid oes namawr amheuaeth yn eu cylch hwy.

Mae cryn anhawster i benderfynu pwy yw awdwr yr ychwanegiadau at y llythyrau Vossiaidd. Bernir i'r ychwanegiadau hyn gael eu gwneuthur yn neu cyn y flwyddyn o.c. 400, ond nis gellir eu gosod ymhellach yn ol nag o.c. 325, gan nad yw Eusebius yn cyfeirio o gwbl atynt. Tueddir ysgolheigion i'w gosod, ar y cyfan, rhwng 360 a 380, ac mae Zahn o'r farn mai Acacius, olynydd Eusebius yn Cesarea, oedd eu hawdwr. Gellir crybwyll yma na wnaed dim ychwanegiadau at y llythyr at y Rhufeiniaid.

Llythyrau o ddiolch yn bennaf yw llythyrau Ignatius i'r eglwysi am anfon cenhadon i'w gyfarfod, a'i groesawu a'i gysuro, pan ar ei daith i Rufain i'w ferthyr. Ei amcan mawr, fel y soniwyd, ydoedd uno'r eglwys, a cheisiai wneyd hynny trwy roddi'r cyfrifoldeb ymhob eglwys ar ysgwyddau un dyn.

Dywedwn yn awr air neu ddau am y llythyr cyntaf o'r gyfres, sef y llythyr at yr Ephesiaid. Yr oedd Ignatius yn ddieithr i'r eglwys honno ei hun, ond pan ddaeth hi i wybod am ei daith i Rufain, anfonodd genhadon i'w gyfarfod i Smyrna, tua deugain milltir o Ephesus. Y rhai a anfonwyd oedd yr Esgob Onesimus, ynghyda Burrus, Crocus, Euplus, a Fronto. Mae Ignatius yn cyfeirio at bob un o'r rhai hyn yn ei holl lythyrau o Smyrna. Aeth Burrus gydag Ignatius o Troas.

Canmola Ignatius yr eglwys yn Ephesus. Yr oedd yr athrawiaeth yn bur ganddi, ond yr oedd yn cael ei bygwth gan gyfeiliornad. Mae llawer o ddyfalu wedi bod pa heresiau y cyfeiria Ignatius atynt. Meddylia rhai mai rhyw ffurfiau ar Ddocetiaeth, ereill mai hadau Gnosticiaeth. Nis gallwn lai na theimlo ar brydiau, wrth ddarllen llythyrau Ignatius, fod gwrthwynebu Docetiaeth ganddo mewn golwg,

ac y mae ôl dylanwad Efengyl Ioan yn amlwg iawn ar ei feddwl. Un pwnc o dduwinyddiaeth y rhoddai bwys mawr arno oedd trigianiad yr Ysbryd yng nghalon y credadyn. Defnyddir ymadroddion cryfion iawn i osod allan y gwirionedd hwn. Geilw ei hunan a chrefyddwyr yn gyffredin yn *Theophoroi* (rhai yn cludo Duw). Fe all, fel yr awgryma Lightfoot, fod arferiad y paganiaid o gludo delwau bychain o'u duwiau, wedi awgrymu'r ymadrodd iddo.

Yn awr cyflwynw'n i'r darllyenydd y cyfieithiad a ganlyn o lythyr Ignatius at yr Ephesiaid.

I.—Y LLYTHYR AT YR EPHEZIAID.

IGNATIUS, yr hwn hefyd a elwir Theophorus, at yr hon sydd fendigedig ym mawredd a chyflawnder Duw Dad, yr hon a ragordeiniwyd cyn yr oesau i barhau yn dragwyddol, er gogoniant arhosol, digyfnawid, unedig ac etholedig, mewn gwir ddi-foddefaint, drwy ewyllys y Tad a Iesu Grist ein Duw ni, saf at yr eglwys a haedda ei galw yn wynfydedig, yr hon sydd yn Ephesus yn Asia: pob bendith fo arnoch yn Iesu Grist ac mewn gras difrycheulyd.

I. Derbyniais yn Nuw dy anwyliaf enw di, yr hwn a enillasoch ohwi yn haeddiannol, yn ol fydd a chariad, yn Iesu Grist ein Hiachawdwr ni; gan fod yn ddilynwyr i Dduw, wedi ymadnewyddu yng ngwaed Duw, cyflawnasoch eich cysefin waith yn berffaith: canys ar ol olywed fy nyfod mewn rhwymau o Syria dros enw a gobaith pawb o honom [chwi a ddaethoch i'm gwelod], a minnau'n gobeithio cael eich gweddi ohwi i ymladd & bwystflod yn Rhufain; fel, trwy fy nhystiolaeth, y gallwn fod yn ddiogybl i'r gŵr a gyflwynodd ei hun i Dduw yn offwrn ac yn aberth. Felly, gan i mi dderbyn, yn enw Duw, eich holl gynull-eidfa ohwi ym mherson Onesimus, yr hwn sydd annhraethol o gariad, a'r hwn yn y onawd sydd esgob i chwi, fy ngweddi yw ar i chwi ei garu ef yn ol Iesu Grist, a bod, bawb o honoch, yn debyg iddo.

II. Eto, am fy nghydwas Burrus, eich diacon ohwi yn ol ewyllys Duw, gŵr sydd yn fendigedig ymhob peth, fy ngweddi yw ar iddo yntau ddyfalbarhau er anrhydedd i chwi ac i'r esgob. A Crocus hefyd, yr hwn sydd deilwng o Dduw ac o honoch chwithau, yr hwn a dderbynias i yn esiampl o'r cariad a deimlech tuag ataf, rhoddodd efe orffwysdra i mi ymhob modd, ac yn y cyfryw ffordd rhoddod Tad Iesu Grist ysgafnhad iddo yntau, megis i Onesimus a Burrus ac Euplus a Fronto, drwy y rhai y gwelais fod pawb o honoch yn fy ngharu. Arhosed eich gwenau arnaf, os byddaf deilwng. Gweddus yw, gan hynny, ymhob dull ogoneddu Iesu Grist, yr hwn a'ch gogoneddodd ohwi, fel y byddoch yn berffaith mewn un ufudd-dod, yn yr un meddwl a'r un amoen, ac y byddoch bawb yn unfryd unfarn, fel, drwy ymostwng i'r esgob a'r henaduriaeth ymhob peth, y byddoch wedi eich sancteiddio.

III. Nid wyf yn eich gorohymyn chwi, fel pe bawn yn rhywun. Canys os wyf wedi fy nghadwyno yn yr enw, nid wyf eto wedi fy mherffeithio yng Nghrist: oblegid yn awr nid wyf ond yn dechreu myned dan ddisgyblaeth, ac yn llefaru wrthych ohwi fel cyd-ddisgyblion i mi, canys rhaid oedd fy narparu at yr ymdrech gennych chwi, gyda fydd a chyngor, amynedd a hirymaros. Ond gan na chaniatâ cariad i mi dewi am danoch, dyna paham yr ymgymerais a'ch annog chwi, fel y cyd-redoch & bwriad Duw: o herwydd Iesu Grist, ein bywyd digymar ni, ydyw bwriad y Tad, fel y mae'r esgobion y rhai a benodwyd i eithafocedd y ddaear yn fwriad Iesu Grist.

IV. O ba herwydd gweddus yw i chwi gyd-redeg & bwriad yr esgob, yr hyn hefyd yr ydych yn ei wnenthur. Mae eich haeddiannol henaduriaeth ohwi, yr hon sydd deilwng o Dduw, wedi ei chydgorodio a'r esgob fel y tannau a'r delyn. O ba achos Iesu Grist yw'r hyn a genir drwy eich unfrydedd ohwi a'ch cydsain gariad. Dened yr holl aelodau hefyd yn un côr, fel y byddoch yn unfryd mewn cydgord, ac wedi derbyn peroriaeth Duw mewn undeb, y canoch âg yn llais drwy Iesu Grist i'r Tad, fel y gwrandawo yntau arnoch, ac y gwybyddo drwy eich gweithredoedd da chwi eich bod yn aelodau o'i Fab ef. Buddiol, gan hynny, yw i chwi fod bob amser mewn undeb difeius, fel y cyfranogoch hefyd o Dduw yn wastadol.

V. Os oesais i mewn byr amser gystal oymdeithas â'oh esgob ohwi, nid cymdeithas ddynol ond ysbrydol, pa faint mwy y cyfrifaf ohwi yn wynfydedig, y rhai a gysylltwyd ynghyd megis ag y mae'r eglwys yng Nghrist Iesu, a Iesu Crist yn y Tad, fel y byddo pob peth yn cydgorio mewn undeb. Na chyfeilliornd neb : os na bydd un o'r tu fewn i'r allor, y mae yn ol o fara Duw. Canys os oes gan weddi un neu ddau gymaint gallu, pa faint mwy yw gallu gweddi'r esgob a'r holl eglwys ! Y neb nad yw yn dyfod i'r cyd-gynhulliad, mae hwnnw eisoes yn ymfalchïo ac yn condemnio ei hun, canys ysgrifennwyd, " Y beiliohon a wrthwyneba Duw." Byddwn ddyfal, felly, i beidio a gwrthwynebu'r esgob, fel y byddom ddarostyngedig i Dduw.

VI. A pho ddistawaf y gwelo neb yr esgob, mwyaf oll yr ofned ef : canys pawb a'r a ddenfyn arglwydd y tŷ i'w oruchwyliaeth ei hun, a ddylem ninnau dderbyn yn y cyfryw fodd â'r hwn a'i danfonodd. Amlwg yw, gan hynny, y dylid edrych ar yr esgob fel yr Arglwydd ei hunan. Mae Onesimus ei hun yn treohannol eioh rheoleidd-dra yn Nuw, eioh bod oll yn byw yn ol gwirionedd, ac nad oes un cyfeillornad yn trigo yn eioh mysg : ie, nad ydyoh yn gwrandaw ar neb yn fwy nag ar Iesu Crist yn llefaru mewn gwirionedd.

VII. Mae rhai wedi arfer dwyn yr enw oddiamgylch mewn twyll anwireddus, gan gyflawni gweithredoedd ereill annheilwng o Dduw : dynion ydynt y dyleoh ohwi eu troi heibio fel bwystfilod rheibus, canys o'n cynddeiriog ydynt, yn brathu yn ddirgel ; rhai y dyleoh ymoohelyd rhagddynt, gan eu bod yn anhawdd eu meddyginiaethu. Un meddyg y sydd, yn gnawd ac ysbryd, wedi ei genhedlu ac heb ei genhedlu, yn Dduw wedi dyfod yn y onawd, yn fywyd gwirioneddol mewn marwolaeth, o Fair ac o Dduw, yn gyntaf yn dioddef, wedi hynny heb ddi-oddefaint.

VIII. Am hynny na thwyllod neb ohwi, megis yn wir nad ydyoh yn cael eioh twyll, gan eioh bod yn gyfangwbl yn eiddo Duw. Canys pan na byddo ymrafael wedi ei gynneu yn eioh plith, yr hyn a allai eioh profi ohwi, yna yr ydyoh yn byw yn ol ewyllys Duw. Sancteiddir finnau hefyd fel peoh offrwrm drosoch ohwi yr Ephesiaid, eglwys y pery ei ohlod i'r oesau. Nis gall y rhai onawdol wneuthur gweithredoedd ysbrydol, na'r rhai ysbrydol weithredoedd onawdol ; megis nas gall fydd wneuthur gweithredoedd anghrediniaeth, nac anghrediniaeth weithredoedd fydd. Y pethau hefyd a wneoh yn ol y onawd, ysbrydol ydynt, canys gwneoh bob peth yn Iesu Crist.

IX. Adnabum rai a ddaeth oddiyna yn dal gau athrawiaeth. Ni adawsoch ohwi iddynt hau yn eioh plith ohwi, ond cauasoch eioh olustiau rhag derbyn dim o'r hyn a heuid ganddynt, gan eioh bod yn feini yn nhemi y Tad, wedi eioh paratoi i adeilad Duw Dad, yn cael eioh dyrohafu i'r uchelderau drwy beirianwaith Iesu Crist, yr hyn yw y Groes, gan ddeifnyddio rhaff yr Ysbryd Glân ; eioh fydd ohwi hefyd yw eioh awenau, a'ch cariad yw'r ffordd sydd yn arwain at Dduw. Yr ydyoh ohwithau, gan hynny, oll yn gyd-deithwyr, yn cludo Duw ac yn cludo teml, yn cludo Crist ac yn cludo sancteiddrwydd, wedi eioh rheoli ymhob peth â gorchymynion Iesu Crist, yn y rhai hefyd yr wyf yn gorfioleddu am fy nghyfrif yn deilwng, trwy y pethau a ysgrifennaf, i gael ymddiddan ac i gydlawenhau â ohwi, canys yn y bywyd newydd hwn nid ydyoh yn caru neb ond Duw yn unig.

X. Eto hefyd gweddiwoh yn ddbaid dros ddynion ereill, canys y mae ynddynt hwythau obaith edifeirwoh, fel y caffont Dduw. Anogwoh hwy i fod yn ddisgyblion i ohwi, pe na bai ond yn eu gweithredoedd. Wrth eu digofaint hwy byddwoh ohwi yn addfryn, wrth eu geiriau trahaus hwy byddwoh ohwi yn iselfrydig, wrth eu cabledd hwy dygwch ohwi eioh gweddiau, wrth eu cyfeilliornd hwy byddwoh ohwi setydog yn y fydd, wrth eu rhaib hwy byddwoh ohwi yn dynyr ; heb geisio bod yn debyg iddynt. Caffer ni, felly, yn frodyr iddynt mewn lledneisrwydd, ond ymegniwn i fod yn debyg i'r Arglwydd. Pwy a gymer ei gamdrin fwyaf, pwy a gymer ei ysbeilio, pwy a gymer ei ddiystyru ? Fel na chaffer yr un o ohwŷn y diafol ynooh ohwi, ond y parhaeo ymhob glendïd a sobrwydd yn Iesu Crist, yn ol onawd ac ysbryd.

XI. Mae'r amseroedd olaf wedi dod ; bellach, cywilyddiwn, ofnwn hir-ymaros Duw fel na thry yn farnedigaeth i ni. Oblegid nail ai ofnwn y lliid a fydd, neu ynte carwn y gras sydd gyda ni ; un o'r ddau yn unig ydyw ein cael yng Nghrist Iesu i fywyd gwirioneddol. Ar wahân iddo ef, na fydded dim yn weddus i ohwi ; canys yuddo ef yr wyf yn cludo fy nghadwynau, y perlau ysbrydol, yn y rhai y

gaffwyf adgyfodi yn ol eich gweddi ohwi; o'r hon weddi y byddwyf byth yn cyfrannog, fel y'm ceir mewn un gorlan â'r Ephesiaid Cristionogol, y rhai a gyfunasant bob amser â'r Apostolion drwy allu Iesu Grist.

XII. Yr wyf yn gwybod pwy wyf fi, ac at bwy yr wyf yn ysgrifennu. Yr wyf fi wedi fy nghondemnio: ohwithau wedi derbyn trugaredd. Yr wyf fi mewn perygl, ohwithau wedi eich cadarnhau. Yr ydyoh ohwi yn fan i droi i'r rhai a leddir i Dduw; yr ydyoh yn gyd-gyfrannog o ddirgeledigaethau Paul, yr hwn a sanoteiddiwyd, yr hwn a ferthyrwyd, yr hwn a haedda ei alw'n wynfydedig, yn ol traed yr hwn, pan ddelwyf at Dduw, y caffer finnau; efe yr hwn a wna ymhob llythyr goffa o honoch ohwi yng Nghrist Iesu.

XIII. Ymegniwch, gan hynny, i ddyfod ynghyd yn amlach er diolchgarwch a gogoniant i Dduw: canys pan ddeloch yn aml i'r un lle, y dileir nerthoedd Satan ac y diddymir ei allu i ddinystrio, y pryd y byddwch ohwi yn unfryd mewn fydd. Nid oes dim sydd well na heddwch, trwy yr hyn y dinystir pob rhyfel rhwng nefolion a daearolion bethau.

XIV. Ni bydd yr un o'r pethau hyn yn guddiedig rhagoch os oedwch eich fydd yn Iesu Grist yn berffaith, a'oh cariad hefyd: yr hyn beth sydd ddechreu a diwedd bywyd: y dechreu yw fydd ond y diwedd yw cariad: a phan y ceir y ddau mewn undeb y maent o Dduw, ond mae'r holl rinweddau ereill yn dilyn er mwyn perffethrwydd cymeriad. Ni bydd neb pan yn professu fydd yn peobu, nac yohwaith, wedi enill cariad, yn cashau. Eglur yw'r pren oddiwrth ei ffrwyth. Felly y rhai a broffesant fod yn Gristionogion: trwy yr hyn a wnant y gwelir yr hyn ydynt: canys nid oddiar broffes y cyfyd y weithred, ond trwy nerth fydd, os ceir neb i lyau hefyd hyd y diwedd.

XV. Gwell yw tawi a bod, na siarad a pheiddio bod: da yw rhoddi addysg os gweithreda'r sawl a lefaru. Un athraw y sydd yr hwn a lefarodd ac a fu: ac ymhellaon, mae'r pethau a wnaeth efe mewn distawrwydd yn deilwng o'i Dad. Y neb a dderbyniodd Air Iesu yn wirioneddol a all hefyd wrandaw ar ei dawelwch ef, fel y byddo yn berffaith: er mwyn iddo allu gweithredu trwy ei ymadroddion a chael ei adnabod trwy ei ddistawrwydd. Nid oes dim yn guddiedig rhag yr Arglwydd, ond y mae hyd yn oed ein dirgel bethau ni yn agos iddo ef. (Iwnawn felly pob peth, gan gofio ei fod ef yn preswylion ynom, fel y bom yn demlau iddo, ac y byddo yntau o'n mewn yn Dduw i ninnau: hyn yn ddiau ydyw efe, ac efe a ymddengys ger bron ein hwynebau; o ba herwydd da y gw'nawn yn ei garu ef.)

XVI. Na chyfeillionwch, fy mrodyr. Ni chaiff y rhai a lygrant deuluoedd eiddaddu teyrnas Dduw. Os ynte y bu farw y rhai a wnaethant y pethau hyn yn ol y enwad, pa faint mwy os llygra neb â gau athrawiaeth fydd Duw, dros yr hon y croeshoeliwyd Iesu Grist. Aiff y cyfryw un, yn arian oll, i'r tŷ anniffoddadwy, ac felly'r neb a wrandawo arno.

XVII. O'r achos yma y derbyniodd yr Arglwydd enaint ar ei ben, fel yr anadlai anlygredigaeth ar ei eglwys. Na eneinier ohwi â ffaidd arogl tywysog y byd hwn, rhag eich dwyn yn gaeth i fyw yn y presennol. Ond paham na ddeuwna oll yn synhwyrol, gan dderbyn gwybodaeth am Dduw, yr hyn yw Iesu Grist? Paham y'n cyffgollir mewn ynfydrwydd, heb adnabod ein braint, yr hon a anfonodd yr Arglwydd mewn gwirionedd?

XVIII. Pech-offrwm yw fy ysbryd i dros y groes, yr hon sydd dramgwydd i'r rhai na chredant, ond i ohwi yn ischawdwriaeth ac yn fywyd tragwyddol. Pa le mae'r deuth? Pa le mae'r ymchwilydd? Pa le mae ymfrost y rhai a gyfrifir yn ddanillu? Canys ein Duw ni, Iesu Grist, a ymddygydd ym mru Mair, yn ol gannhwyllaeth Duw, o hād Dafydd, ond hefyd o'r Ysbryd Glan: yr hwn a anwyd ac a fadyddiwyd fel y pural efe y dwfr drwy ei ddiodefaint ef.

XIX. Nid adnabu tywynog y byd hwn forwyndod Mair na'i hesgoriad hi; yr un modd nid adnabu farwolaeth yr Arglwydd: tri dirgelwch i'w cyhoeddi, ond a gellhwyd yn nistawrwydd Duw. Pa fodd gan hynny y datguddiwyd ef i'r oesau? Bw'n a dywynnodd yn y nefoedd uwchlaw'r holl ser, a'i goleu hi oedd annhraethadwy, a pharai ei newydd-deb synedigaeth. A daeth yr holl ser ereill, ynghyda'r haul a'r lluar yn ogordd i'r seren hon, ond disgleiria i hi ei hunan tu hwnt iddynt oll. Ac yr oedd dynion mewn penbleth o ba le y daethai iddynt y newydd-beth hyn, na welant erioed ei debyg: o hyn y deuai terfyn ar bob swyn-gyfaradd ac y distannol pob rhwymyn anwiredd ac y diddymid anwybodaeth, ac y dinystirid y teyrnas o'r blaen, pan ymddenghosai Duw yn ffurf dyn, er dwyn o'r

newydd fywyd tragwyddol. Bithr derbyn dechreuad yr oedd yr hyn a berffeithiasid gyda Duw. O hyn y cythryblid pob peth am y darperid terfyn i farwolaeth.

XX. Os cyfrif Iesu Grist fi yn deilwng trwy eich gweddi chwi, ac ewyllysio [o Dduw] hynny, yn yr ail ysgrif yr hon a fwriadaf anfon atoch, mi a ddatguddiaf i chwi yr oruchwyliaeth a ddechreuais am y dyn newydd Iesu Grist, yn ei ffydd ac yn ei gariad ef, yn ei ddiodeffaint ac yn ei adgyfodiad; yn bannaf oll os rhydd yr Arglwydd ddatguddiad i mi: canys yr ydych chiwi oll bob aelod o honoch yn bersonol yn dyfod ysghyd mewn un ffydd ac yn Iesu Grist: yr hwn sydd o deulu Dafydd yn ol y onawd, yn Fab Dyn ac yn Fab Duw, er mwyn ufuddhau o honoch i'r esgob ac i'r henaduriaeth & meddwl anwahanedig, gan dorri un bara, yr hwn sydd feddyginiaeth i anfarwoldeb, ac a all eich cadw rhag marw, ond byw o honoch byth yn Iesu Grist

XXI. Mae fy enaid i yn un a'oh aneidiau chwi, ac a'r hwn a anfonasoch er anrhydedd Duw i Smyrna. Oddiyno hetyd yr wyf ffinau yn ysgrifennu atoch, gan ddiolch i'r Arglwydd; ac yr wyf yn caru Polycarp fel yr wyf yn eich caru chwi. Gwnewch goffa o honof, fel y gwna Iesu Grist o honoch chwithau. Gweddifwch dros yr Eglwys sydd yn Syria: oddiyno y'm dygir mewn rhwymau i Rufain, yr olaf o'r ffyddloniaid yne, fel y'm cyfrifwyd yn deilwng o'm cael er anrhydedd i Dduw. Byddwch wych yn Nuw Dad ac yn Iesu Grist gobaith pawb o honom.

YMCHWIL ENAID AM DDUW.

O ARGLWYDD IOR, Ti anweledig Fod,
Y mawr, yr uchel, y Tragwyddol pell,
Ofnadwy ydwyf ar dy orsedd wen!
Anfeidrol, annherfynol ydwyf ION,
Dy fawredd Di sydd anchwiliadwy byth.
Er tragwyddoldeb, Arglwydd, Ti wyt DDUW,
I dragwyddoldeb y teyrnasi Di.
Y Brenin mawr a gogoneddus wyt,
Tragwyddol gadarn yw dy orsedd glaer.
Y Perydd dwyfol, y Creawdwr doeth,
Tydi, cyn geni Amsêr, hynaf fab
Y rhyfedd Dragwyddoldeb, luniaist gynt
Y bwriad pell i alw bydoedd fyrdd
O groth diddymdra; dy anfeidrol fraich
"Yn y dechreuad" a'u gwasgarodd hwy,
Fel gemau tryfrith drwy wybrennau nen.
Tydi osodais ar ei orsedd lân
Hardd frenin dydd; dy law arweiniodd gynt
Y lleuad dlos i'w lle, ti wnest i hon
Roi delw'r dydd ar ddu fantelli'r nos.
Tydi addurnaist, Holl-gyfoethog Dduw,
Fron y ffurfafen lân & myrdd o sêr;
Dy emau ydynt, Ti a'u lluniaist hwynt.

Y leiaf oll o'r llu mawreddog hwn
 Ti a'i hadwaenost ; wrth dy arch a'th air
 Y symud bydoedd yn eu cylchdro pell.
 Ti greaist ddisglaer rengoedd nefeodd wen,
 Yr archangylion a'r angylion glân ;
 Cerubiaid a Seraffiaid, trwy dy nerth
 Y crewyd hwy ; dy Ddwyfol allu mawr
 A'u galwodd yn ysbrydoedd pur wrth raid
 I wneyd dy arch trwy gyrrau 'r cread oll.
 Ein daear ni, dy eiddo Di yw hon,
 Tydi a'i gwnaethost ac a'i lluniaist hi.
 Afrifed greaduriaid roddaist ar
 Ei llydan wyneb ; mawrion bysg y mor,
 Preswylwyr dirifedi 'r dyfnder mawr,
 Tydi anadlaist fywyd iddynt oll.
 A chreaist, Arglwydd, er dy glod dy Hun,
 I fod yn frenin ar y ddaear hon,
 Greadur fedr wisgo delw Duw,
 Creadur fedr deimlo 'r llaw a'i gwnaeth,
 Un all adnabod dy gymeriad Di,—
 Un *fedrai* ufuddhau i'th gyfraith bur,
 Un *fedrodd* sathru deddfau glân y nef.
 O, ryfedd fod, nid oes ryfeddach hwn
 Ond Ti dy Hun, yr un tragwyddol Dduw !
 Mae 'n ddigon mawr i wrthod ufuddhau.

Ofnadwy fawredd ! Yn y corff o bridd
 Gosodaist enaid fedrodd ddweyd yn hyf
 Na wnai ond fel y mynnai ef ei hun.
 O, enaid dyn, y bod genhedlodd IOR
 Ag anadl bur ei fywyd Ef ei Hun,
 Tydi wyt fawr, a mawr a fyddi byth,—
 Wyt ddigon mawr i deimlo eisieu Duw.
 Mae 'r enaid hwn sydd yn fy mhabell wan,
 Yr enaid sydd yn fyw ysgogydd trwy
 Holl raunau, holl aelodau 'r corff o gnawd,
 Mae hwn, dragwyddol IOR, yn ddigon mawr
 I fethu byw ond ynot Ti dy Hun.
 Pe rhoddid iddo fydoedd heb ddim rhif,
 Pe cawsai haul y nen yn gerbyd chwim,
 A myrdd o sêr yn anrheg iddo 'i hun ;
 Pe deuai archangylion gwlad y gwawl
 Yn rhengoedd gwyn i weini iddo byth,
 Truenus eto fyddai hebot ti.

Ni chreaist, ARGLWYDD, yn dy Ddwyfol rym
 Un gwrthrych fedr lanw angen hwn ;
 Tragwyddol wag fydd enaid, gwag a thlawd,
 Heb gael y Duwdod iddo 'i hun yn rhan.

Fel y brefa 'r hydd sychedig
 Am y dyfroedd gloewon byw,
 Felly brefa f' enaid eiddil
 Yn ei eisieu am ei Dduw ;
 Duw yn unig sydd yn abl
 I ddigoni hwn yn llawn :
 Ond cael Duw gorffwysa 'm hysbryd
 Mewn tangnefedd pur a hyfryd,
 A thawelwch melus iawn.

O, fy Nuw, gan iti lunio
 F' enaid i dy lon fwynhau,
 Nad fi aros yma i chwilio
 Am bleserau gwag a gau ;
 Gwn y trengaf yn eu canol,
 Marw wnaif,—nis gallaf fyw,
 Oni chaf gartrefu 'n dawel
 Yn dy fynwes Di fy Nuw !

Y Duw a wnaeth y bydoedd, Hwnnw wnaeth
 Fy enaid innau ; anadl bywyd IŌN
 A'i bywiocäodd ; plentyn ydyw hwn
 F'r Duw tragwyddol, rhyw ddiferyn bach
 O'r moroedd annherfynol, eang, dwfn,
 O fywyd rhyfedd sydd yn natur IOR.
 Ar ysbryd dyn rhoes Tad y cread oll
 Anrhydeddusach ddelw nag ar haul
 Y nefoedd ; arno rhoddodd ddelw bur
 Ei wyn sancteiddrwydd dwyfol Ef ei Hun.

Dragwyddol Ysbryd, ogoneddus Dduw,
 Ai ni fwriedaist i fy enaid bach
 Gartrefu yn dy fynwes fawr dy Hun ?
 Pa drigfan drefnaist i fy ysbryd gwan
 Ond gwenau gwyneb ei Greawdydd doeth ?
 Ond, Ddwyfol Dad, yn nrysni Eden ardd,
 Aeth dyn ar bell ddisperod, crwydro wnaeth
 O wedd dy wyneb, a gadawodd Di,
 Yr hwn wyt fyfnon bur y dyfroedd byw.

O golled drom ! Druenus enaid dyn !
 Gwel, f' ysbryd tlawd, pa beth a gollaist gynt !
 Ti gollaist hardd baradwys, ardeb byw
 O well paradwys yn y wlad o hâf
 Tragwyddol, sydd yn bod tu draw i'r llen.
 Ti gollaist gwmmi engyl pur y nef,
 Y rhai a ddeuent i'th baradwys fach
 O ganol blodeu eu paradwys hwy,
 Ag arogl nefoedd ar eu gwisgoedd glân.
 Ond collaist fwy, fy enaid, canmil mwy ;
 Ti gollaist nefol gwmmi Duw, a hyn

Fy enaid trist, a'th wnaeth yn dlawd yn wir !
 Hyn a'th ysbeilliodd o dy emau drud ;
 Hyn barodd iti fod yn grwydryn noeth,
 Yn alltud diymgeled i a di-hôdd.
 O, cofia'r dydd daeth angel gwyn â'i gledd
 O dân, i'th droi ar ffrwst o ganol pêr
 Rosynau Eden ardd, i ganol drain
 A brwnt fieri byd oedd anial llwm.
 Pa beth oedd hyn ond cysgod egwan iawn
 O'r hyn ddigwyddodd yn dy fewnol hanes ?
 O wyddfod Duw ymhell alltudiwyd di,
 I grwydro yn dragwyddol dlawd a noeth
 O'th ran dy hun. Y Duw oedd fywyd it
 Hwn gollaiat di ; yr hwn a'th luniodd gynt
 Ac a'th fwriadodd i breswyllo byth
 Yn ei gymdeithas nefol Ef ei Hun ;
 Yr hwn feddyliond it, mewn llawn fwynhad
 O dywyniadau llon ei wyneb hardd,
 Gartrefu bythol yn ei fynwes glŷd !

Plentyn wedi colli cartref,
 Colli aelwyd mam a thad,
 Colli hoen a mwynder mebyd,
 Colli 'r afon o fwynhad
 Ffrydiai i'w blentynaidd fynwes
 O weniadau rhiaint cu,—
 Wedi colli gwedd fy Arglwydd
 Dyna hanes f' enaid i.

Plentyn wedi dyrys grwydro
 Wrth dueddfryd ysbryd ffol,
 Ac yn methu cael y llwybr
 I ddychwelyd yn ei ol,
 Yn ymwylltio mewn dyryswch
 Heb oleuni haul na sêr,—
 Dyna hanes f' ysbryd innau
 Wedi colli cwmni Ner.

O fy Nuw, fy Nhad, fy Nghrewr !
 Gwel fy nghrwydriad ynfyd ffol,
 Moes dy law i wael bechadur
 Dwg fi eilwaith i dy gôl :
 Tyn fy nhraed o'r dyrys rwydau
 Gad im' eto dd'od yn rhydd,
 O bob nosawl bell grwydriadau
 Dwg fi i oleuni 'r dydd.

Dirion Dad, erglyw fy ngweddi,
 Gwel fy nghyatudd, gwrando 'm eri ;
 Ni wna f' enaid tlawd ond trengu
 Mewn gwaradwydd hebot Ti.

Mae fy nghalon yn hiraethu
 Am dy wyneb, rasol Dduw,
 A'm holl enaid yn sychedig
 Am dy bresenoldeb gwiw.

Fel yr hiraetha y diferyn bach
 Am fynwes lawn y cefnfor llydan pell,
 Fel yr hiraetha 'r gragen unig draw
 Am swn yr aig a rhuad tôn y môr ;
 Fel hynny y sycheda f' enaid llesg
 Am danat Ti y Bendigedig Dduw !
 Fel y sycheda 'r ddaear am y gwlaw
 Pan gauer holl ffenestri 'r Nef, pan bo
 Cymylau 'r wybren wedi eu rhwymo oll,
 Pan ddwys agenna 'r meusydd gan y gwres,
 Pan fetho 'r egwain egin godi eu pen,
 Fel yna y sycheda f' ysbryd gwyw
 Am afon Duw, am loew ffrydiau 'r Nef.
 O, olwg brudd, gweld gwanwyn heb ei wisg,
 Gweld Ebrill heb ei fwyn gawodau maeth,
 Gweld Mai heb flodeu, heb rosynau heirdd,
 Heb friaill teg ; y dolydd heb y gwellt ;
 Gweld marw murmur-gân y loew ffrwd,
 A'r ddaear yn dyheu am y gwlaw :—
 Fel hyn, a mwy, sycheda f' enaid gwan
 Am Awdwr bywyd, y bendigaid IOR.
 Ar dde ac aswy chwilio 'r wyf o hyd,
 Ymholi mewn pryderon dwys, Pa le
 Y mae ei ogoneddus drigfan Ef ?
 Mae ol ei law ar bopeth is y rhod
 Y ban fynyddau draethant am ei rym,
 Y ffrwd risialaidd furmur am ei ras ;
 Y blodeu bach wrth wenu ar yr haul
 Bregethant am ei ofal cyson Ef.
 Mae 'r adar mân yn mwyn delori ei fawl,
 A natur oll yn dweyd mai da yw Duw.
 Ond nis gall f' ysbryd ddyfod ato Ef,
 A gorffwys ar ei fynwes mewn boddhâd.
 Nis gallaf ymlonyddu yn ei hedd
 A dweyd mewn cariad perffaith—DUW FY NHAD.
 Mae du bechodau fel cymylau trwch
 Yn cuddio rhyngof â'i wynepryd hardd,
 A minnau yn y gaddug fel y dall
 Yn ymbalfalu am y bywiol Dduw.
 Pwy dywys wael bererin drwy y gwyll ?
 Pwy arwain lesg grwydredig ysbryd ffôl
 Dros greigiau fyrdd, trwy anhawsterau fil,
 At Dduw yn ol, y Duw a ddigiodd gynt ?
 Pwy gyfarwydda enaid tlawd a gwyw
 Sydd heddyw 'n gorwedd bron ar fin y bedd,

At ffynnon loew lawn o ddyfroedd byw,
 At gyfoeth annherfynol a didrai ?
 O DDUW y duwiau oll, pa le 'r wyt Ti ?
 Pa le mae preswyl dy gadernid mawr ?
 Mae hiraeth f' enaid yn trymhau, O dwéd
 Pa ffordd y deuf at dy balas, IOR.
 'R wy 'n marw heb dy wyneb ; ynot Ti
 Mae ffynnon bywyd. Arglwydd cofia un
 A luniaist i gartrefu yn dy hedd.
 Pa beth dâl cyfoeth, beth dâl clod a bri,
 Beth dâl enwogrwydd, Arglwydd, heb dy wedd ?
 Pe meddwn aur y byd a'i berlau oll,
 A'i emau drud, pe rhoddid ar fy mhen
 Goronau 'r ddaear wedi eu toddi 'n un ;
 Pe byddai pob teyrnwialen yn fy llaw,
 A minnau 'n eistedd ar deyrngadair aur,—
 Ni byddwn ond truenus, tlawd, a llwm,
 Os hebod Ti : Tydi yn unig all
 Ddigonol lanw eisieu ysbryd dyn.

Hwnt, wag-ogoniant, paid a'm dal yn ol ;
 Dos ymaith glod, a brau enwogrwydd ffól ;
 Dos barch daearol, cilia fydol fri ;
 Ffowch aur ac arian, O na rwystrwch fi !
 Mae ymchwil f' enaid am un llawer gwell
 Nag aur a drudfawr berlau gwledydd pell.

Dewch chwi gystuddiau, deuwch ddaagrau heillt,
 Tyrd brofedigaeth, tyrd ddioddaf llym ;
 Tyrd greulawn siomiant, chwythwch wyntoedd erch,
 Ewynnog donnau torrwech dros fy mhen,
 Ond i chwi oll fy nglanio yn fy Nuw !
 Ar aden ddu y brofedigaeth lem
 Dan orfoleddu awn i fynwes NER.
 O Dduw, yng nghyfoeth dy drugaredd rad,
 Na âd i'th wael greadur farw byth
 O eisieu gweld dy wedd. Cwyd nefol Haul
 Ac ymddisgleiria rhwng y cymyl du ;
 Tywynned dy oleuni ar fy mron,
 Rho wres a bywyd yn fy ysbryd gwan.

O, seren fach, yr hon arweiniaist gynt
 Y doethion o eithafoedd pell y byd
 I Fethlem dlawd, lle dodwyd Baban Mair
 I orwedd mewn di-addurn breseb gwael,
 O arwain finnau o grwydriadau pell
 Anialwch pechod at fy Nuw yn ol !
 Drwy gystudd, os bydd raid, drwy chwerw loes,
 Drwy ddiodefiadau a blinderus boen,
 Drwy ddrain a miferi, dros y creigydd serth,

Dros fryniau fyrdd, dros grib mynyddau fil,
Dros foroedd blin, rhwng tonnau brigwyn hyf—
Drwy bopeth, seren fechan, at fy Nuw !

O, engyl glân gwlad y goleuni gwyn,
Adwaenoch chwi y ffordd at orsedd Iôr ;
Safasoch wrthi oesoedd cyn i'r haul
Dywynnu gyntaf ar grwydredig ddyn :
O cyfarwyddwch enaid sydd ymron
A threngu yn ei ymchwil am ei Dduw !
Pa fodd, angylion glân, y gallaf ddod,
Fel chwithau, at yr ogoneddus sedd
Lle 'r eistedd Duw, ac aros yn ei wydd ?

Fy enaid, aros, gâd dy brudd holiadau ;
Ni raid it grwydro dyrys anial *lwybrau*
At Dduw 'r gogoniant, gwrthrych mawr dy syched ;
I balas IOR mae PRIF-FFORDD yn agored.
Ni raid wrth engyl i dy arwain yno,
Dos at yr IESU, rho dy ofal iddo !

O, ddwyfol Athraw, wele f' enaid tlawd
Yn ceisio llechu yn dy gadarn law,
I'w arwain gennyf o'i grwydriadau pell
Yn ol at Dduw, yn ol i hedd ei Dâd.
O, fendigedig foreu ! Wele wawr
Yn torri ar Galfaria. Wele Dduw
Yn agos at bechadur ; dyma ffordd
I enaid gwag sychedig ddyfod at
Y ffynnon sydd yn fywyd ac yn nerth.
Tragwyddol ddiolch ! Daw, fe ddaw yr awr,
Caf esgyn uwch pob cwmwl at fy Nuw,
Heb eisieu mwy, heb syched byth na thrai.
Caf fyw mewn moroedd o dangnefedd pur,
A gwenau Duwdod fel awelon hâf
Yn felus fywyd i fy enaid byth.
O ddigon, annherfynol ddigon mwy !

Gerlan.

JOHN OWEN.

TRYSORAU CUDDIEDIG.

LLYFR Y MEIRW.

III.

WEDI cwblhau yr ysgrifau blaenorol deallais fod papyrus gwerthfawr a phwysig oedd yn yr Amgueddfa Brydeinig wedi ei gyhoeddi y flwyddyn o flaen y ddiweddar, trwy orchymyn yr Ymddiriedolwyr, o dan y teitl, *The Book of the Dead. Facsimile of the Papyrus of Ani in the British Museum.*

Tybiaf y byddai adolygiad arno yn ddigon priodol fel Atodiad i'r ysgrifau ereill.

Fe gofia y darlennydd mai yn y dull *gwerinaidd* yr oedd yr ysgrifeniadau a fu dan ein sylw wedi eu hysgrifennu. Yn yr *arwyddluniol* y mae y papyrus hwn, ac y mae o hynafiaeth mawr. Gwel y cyfarwydd mewn hanesiaeth ysgrhythrol fod yr amseriad a geir yma yn wahanol i amseriad y Beibl, ac os ydyw yn gywir, fod yr Ani y sonir am dano yma yn byw yn fuan wedi amser Josua; ac felly fod y papyrus hwn yn hŷn o tua 500 mlynedd na gweithiau y beirdd Groegaidd, Homer a Hesiod, a'i fod wedi ei ysgrifennu yn y ganrif gyntaf ar ol y Pumllyfr ei hunan.

Prin y gall neb ei ddarllen heb sylwi ar y tebygrwydd sydd rhwng llawer o syniadau ac ymadroddion a ffigyrau geir ynddo i'r rhai yr ydym mor gynhefin a hwy yn y gyfrol ysbrydoledig, ac y mae'r ymholiad am y berthynas a all fod rhyngddynt yn debyg o godi yn aml ymhob meddwl ymchwilar.

O fewn holl gylch eang gwybodaeth hynafiaethol, yr hon mewn gwirionedd, sydd wedi dyfod i fod yn ystod yr hanner can mlynedd diweddar, nid oes yr un mater sydd yn tynnu sylw dysgedigion ymhob cangen o wybodaeth yn fwy na hanes dechreuad a dadblygiad gwareiddiad trigolion cyntefig yr Aifft. Mae hynafiaeth mawr y wlad ryfeddol hon, y dirgelwch a'r tywyllwch oedd o amgylch tarddiad yr afon sydd yn rhoi bywyd iddi, a dysgeidiaeth fydgodus ei phreswylwyr, wedi denu meddyliau pobl feddylgar pob gwlad, ac wedi tynnu eu sylw at y genedl oedd a'i doethineb wedi dyfod yn ddiarhebol ymysg y Groegiaid coethedig yn agos i 2000 o flynyddoedd yn ol.

Nid yw y dyddordeb yn yr iaith Aifftaidd a achoswyd gan ddarganfyddiad rhyfeddol yr agoriad i'r ysgrifen arwyddluniol gan Champollion eto wedi lleihau dim; ond o'r tu arall pan unwaith y cydnabyddwyd fod y wybodaeth a geid o fynnionellau Aifftaidd brodorol yn gywir, y mae wedi cynhyddu yn barhaus. Mae yr hanesydd wedi bod yn alluog i gywiro a chymedroli dywediadau yr ysgrifenyddwyr Groegaidd a Rhufeinaidd mewn perthynas i'r Aifft, ac i furfio cyfundrefn o amseryddiaeth lled gywir; ac y mae yr ieithyddwr wedi cael manteision pwysig at efrydu ieithyddiaeth gymharol oddi wrth gerfiadau ar golofnan, temlau,

beddrodau a phapyri; ac mae yr hwn sydd yn astudio crefydd yn awr yn alluog i brofi o weithiau yr Aifftiaid eu hunan fod pobl yr Aifft yn rhywbeth heblaw addolwyr dall yn unig ar adar, anifeiliaid, ac ymlusgiaid, a bod ganddynt syniadau am Dduw, a'u fod yn meddu profiad o deimladau crefyddol mor gyffrous ag sydd yn perthyn i Gristionogaeth ei hunan.

Ar hyn o bryd y mae credo crefyddol yr Aifftiaid yn ffurfio un o brif destynau efrydiaeth nifer o'r dysgedigion enwocaf mewn Aifftyddiaeth, ac mae y cyhoedd yn disgwyl yn awyddus am ganlyniad eu hymchwiliadau. Cynhwysa amgueddfeydd Ewrop nifer mawr o papyri wedi eu hysgrifennu ar faterion crefyddol, a gelwir hwy yn gyffredin Llyfr y Meirw. Mae y "llyfrau" hyn yn gynwysedig o nifer o benodau sydd yn trin am gyflwr dyn ar ol marw, ac am y cyfnewidiadau sydd yn ei gyfarfod yn ei fynediad trwy y byd isaf. Er fod y penodau, fel eu gelwir, mor annibynnol y naill ar y llall ag ydyw y Salmau Hebreaidd, y maent yn digwydd weithiau yn gasgliadau o'r un natur gyda'u gilydd; ond anaml y maent mewn trefn osodedig hyd oddeutu C.C. 600. Nid ydynt yn ffurfio defodlyfr; yn wir, camsyniad fyddai eu galw felly. Y diben a'r amcan o'u hysgrifennu oedd rhoddi awdurdod i'r ymadawedig a'i alluogi i fwynhau rhagorfreintiau ei fywyd newydd. Gyda'r syniad yna mewn golwg, yr oedd yn arferiad gan yr Aifftiaid i ysgrifennu dyfyniadau, a hyd yn oed benodau cyfain o'r llyfr ar eirch, muriau beddrodau, a phapyri er lles yr ymadawedig. Cawn fod yr arferiad hon yn bodoli mor bell yn ol ag amser y brenhinoedd Pepi, Teta, ac Unas, oddeutu C.C. 3,800, oblegid cafwyd fod muriau mewnol pyramidiau y brenhinoedd hyn wedi eu llwyr orchuddio â cherfiadau arwyddluniol o natur grefyddol. Yr oedd y math hwn o destynau yn cael eu harysgrifio ar eirch oddeutu C.C. 2,600; ond nid oedd yr Aifftiaid yn ysgrifennu llyfrau y meirw, ac yn eu claddu gyda'r meirw am tua 1000 o flynyddoedd ar ol hynny. Weithiau rhoddid y rhol papyrus rhwng y coesau, ac weithiau sicrheid ef o dan y rhwymynnau, a phrydiau ereill rhoddid ef yn rhydd yn yr arch, neu hyd yn oed mewn lle cyffens yn ymyl yr arch. Dibynnai hyd a gwneuthuriad y gwaith yn hollol ar chwaeth y perthynasau. Yr oedd llyfrau y meirw, wedi eu haddurno ac heb eu haddurno, yn ffurfio rhan o ystôr yr *undertaker*. Os byddai y prynwr yn gyfoethog, mae'n debyg y dewisai y goreu fyddai ar law; os yn dlawd, ymfoddlonai ar un syml diaddurn. Yn y llyfrau fyddai ar law, gadewid lleoedd gweigion i dderbyn enwau yr ymadawedigion, dros y rhai y prynid hwy. Mae copïau yn awr ar gael, wedi eu gadael trwy anghof neu esgeulustra, na ysgrifenydd enw neb erioed ynddynt. Yr oedd llyfrau rhad yn gyffredin yn golygu diofalwch neu anwybodaeth ar ran yr ysgrifenydd. Modd bynnag, rhaid i ni beidio tybied nad oes gwaith gwael neu ddiotal yn y rhai mwyaf prydferth a drudfawr, oblegid y mae rhai o'r papyri goreu y gwyddys am danynt yn cynnwys camgymeriadau sydd yn dangos, nid yn unig fod yr ysgrifenydd yn ddiotal, ond hefyd nad oedd yn deall yr hyn a ysgrifennai. Gwahaniaetha nifer y penodau yn ol hyd y papyrus, a dibynnai y dewisiad, mae'n debyg, ar yr arferiad ar y pryd. Nid oes yr un papyrus y gwyddom am dano yn cynnwys yr holl benodau a gynhwysid yn y casgliad a adnabyddid fel Llyfr y Meirw,

ac mae y gwahanol ddarllenïadau o'r gwahanol lawysgrifau yn lliosog. Mae dysgedigion fel M. Renouf, sydd wedi treulio eu hoës i efrynu y cyfansoddiadau hyn, ac i geisio cael allan oddiworth y llawysgrifau hynaf beth yw y darllenïadau cywir, wedi dyfod i'r penderfyniad fod angen mor foreu a'r 10fed neu yr 11eg teyrnach—hynny yw, tua C.C. 2,800—am eglurhad ar ystyr llawer o rannau o Lyfr y Meirw.

Barna M. Renouf y gellir rhannu bodolaeth Llyfr y Meirw i dri chyfnod gwahanol. 1. Y cyfnod cyn y 18fed teyrnach (C.C. 4,400—1,700). 2. Cyfnod y teyrnachau Thebaidd yn yr ymerodraeth newydd (C.C. 1,700—1,000). 3. Canrifoedd olaf yr hanes Aifftaidd.

Er bod y copïau a ysgrifenyddyd yn ystod yr ail gyfnod yn cynnwys llawer o ychwanegiadau a darllenïadau amheus, ystyrrir ei fod o bwys mawr cael llawysgrif ddiarnheuol o'r cyfnod hwn. Mae dysgedigion mewn Aifftyddiaeth wedi archwilio holl lawysgrifau hynaf y cyfnod yma gyda'r gofal mwyaf, ac wedi cael llawer o wybodaeth werthfawr o papyrus Kenna yn Leyden, ac o papyri Hunefer a Phasetu yn yr Amgueddfa Brydeinig. Os nad ydym yn camsynied, fe wna papyrus Ani, yr hwn sydd wedi ei gyhoeddi yn hollol fel y mae mewn cyfrol brydferth gan Ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Brydeinig, fwy yn y cyfeiriad hwn na'r un papyrus arall y gwyddys yn awr am dano.

Mae y llawysgrif hon tua 88 troedfedd o hyd, a rhyw 60 o'r penodau hynaf o'r adolygiad Thebaidd wedi eu hysgrifennu ynddi, ac un o honynt, y 175ain, yn ymddangos yma am y tro cyntaf mewn ffurf gyflawn. Addurnir y papyrus o'i ddechreu i'w ddiwedd â darluniau, fychain a mawrion, sydd yn egluro y testyn arwyddlunol. Maent wedi eu lliwio yn brydferth dros ben, ac y mae disgleirdeb y lliwiau yn dra hynod. Deallwn oddi wrth y testyn fod y gwaith ardderchog hwn wedi ei wneyd i Ani, "ysgrifennydd cyllid cysegredig yr holl dduwiau yn Thebes, ac arolygydd ystorfeydd fyd Arglwyddi Abydos." A barnu oddiworth dystiolaeth yr hen ysgrifeniadau, rhaid ei fod yn byw yn agos i 1,400 o flynyddoedd cyn Crist. Gellir canfod yn amlwg yn y testyn arddull amryw o ysgrifenyddyr, ond y mae braidd yn sicr mai y rhan gyntaf a ysgrifenyddyd ddiweddar, a'i fod wedi ei wneyd yn arbennig i Ani. Yn y darluniau arddanghosir ef yn gyffredin gyda'i wraig Tutu, yr hon oedd gerddores yn athrofa Amen-Ra, brenin y duwiau yn Thebes.

Dechreu a papyrus gyda darlun o Ani a'i wraig yn sefyll o flaen bwrdd yn llawn offrymau, a'r testyn agosaf ato ydyw emyn o fawl i Dduw yr Haul.

Y nesaf ydyw arddanghosiad o godiad yr haul, ac o addoliad i epaod a phennau cwn iddynt, y rhai ydynt ysbrydion y wawrddydd. Gweddï yw y testyn ar Osiris, "brenin brenhinoedd ac arglwydd arglwyddi, a llywodraethwr llywodraethwyr, yr hwn o groth Nut [y wybren] sydd wedi etifeddu yr holl ddaear ac yn llywodraethu y bydoedd a'r byd isaf." Ar ol hyn daw yr olygfa fawreddog o bwysio y galon neu y gydwybod. Mae enaid yr ymadawedig, Tynged a Ffawd, a Meschenit, duwies yn dal perthynas â genedigaeth, ynghyd ag arwydd y crefd, yn gwylio yr olygfa, ac wedi eu gosod ar un tu i'r glorïan yn yr hon y mae y galon i gael ei phwysio yn erbyn pluen, arwyddlun o Gyfraith, ym mhresenoldeb y duwiau mawrion. Saif Thoth, ysgrifennydd y duwiau,

o'r tu arall i'r glorian, yn ysgrifennu canlyniad y prawf, yr hwn yn yr achos yma sydd yn ffafriol i'r ymadawedig, a'r dyfarniad ydyw, " Mae calon yr ymadawedig wedi ei phwyso, ac erys ei enaid yn dystiolaeth o hynny. Mae ei achos yn uniawn yn y glorian fawr. Ni chafwyd dim anwiredd ynddo ef; nid yw efe yn un oedd yn atal y bara yn y temlau, nid oedd gybyddlyd yn ei weithredoedd, nid oedd ef yn un a roddai ei leferydd ar waith yn erbyn ereill tra fu ar y ddaear."

Mewn atebiad i hyn cyhoedda y duwiau, " Cadarnheir yn anghyfnwidiol yr hyn sydd yn dyfod o'th enau. Cyflawn a chywir yw yr Osiris [hynny yw yr ymadawedig], Ani, y gorchfygwr. Y mae heb drosedd ac heb gerydd ger ein bron. Na orfydded y Dinystrydd arno; rhodder iddo ef deisennau; yr hawl i ymddangos o flaen Osiris, a rhan barhaol yn Sechit-hotspu fel dilynwy'r Horus."

Wedi hynny arweinir yr ymadawedig i bresenoldeb Osiris gan Horus, ac yna â ymlaen i fwynhau bodolaeth adnewyddol "fel ar y ddaear." Gall ddullnewid ei hunan "i bob ffurf a fynno;" gall gymdeithasu â'r duwiau "fel un o honynt hwythau;" ac yn y diwedd gall gael ei droi i'r un natur ag Osiris, neu gael ei uno âg ef.

Mae y rhan arweiniol yn fwy cyflawn nag mewn un papyrus arall. Y mater nesaf yr ymwneir ag ef â phin ac â phwyntel ydyw claddedig-aeth y trancedig a'r seremonïau cysylltiedig â hynny. Mae yr elor, wrth ochr yr hon y mae y wraig alarus ar ei gliniau, y "pencerdd," a'r offeiriad, yr offrymau a'r rhai sydd yn eu dwyn, y fintai o alar-wragedd sydd yn curo eu pennau a'u dwyfronnau, a derbyniad corff perarogledig Ani gan Anuties, duw y bedd, oll yn cael eu gosod allan gyda chywirdeb manwl, ac fel disgrifiad o angladd Aifftwr o radd uchel y maent yn werth holl ddisgrifiadau yr ysgrifenydd Groegiaidd gyda'u gilydd.

Yn y golygfeydd sydd yn dilyn, ni a gawn Ani a'i wraig yn eistedd mewn deildy yn chwareu *draughts* yn y byd tu draw i'r bedd, ac y mae eu heneidiau ar ffurf hebogau a phennau dynol iddynt, yn sefyll gerllaw. Mae llew-dduwiau "ddoe" a "heddyw" ac aderyn yn sefyll rhyngddynt ac elor Ani, wrth bob pen i'r hon y mae Nephthys ac Isis, duwiesau yr hwyr a'r wawrddydd a'r ffurf fwlturod. Gwelir mai o dan yr elor y mae y *palette* a ddefnyddiai Ani yn ei fywyd. Mae y golygfeydd sydd yn dilyn,— "pyrth y bedd," ac ereill,—oll yn cael eu hegluro trwy chwedlau arwyddluniol byrion, sydd yn rhoddi terfyn ar bob amheuaeth flaenorol am eu hystyr. Wedi myned heibio i'r golygfeydd ymha rai y gwelir eneidiau Ra ac Osiris yn cyfarfod yn Tattu, Duw yr Haul ar ffurf cath yn torri ymaith ben sarff y tywyllwch, cychod yr haul, saith borth a deg pylon Osiris, pob un a'i warcheidwaid a Galluoedd Lleoldeb, deunw at nifer o benodau hynafol gyda darluniau, sydd yn cyfeirio at "agoryd genau" yr ymadawedig, ac at roddi iddo eiriau o allu ac awyr, a'i enaid a'i galon. Ar ol nifer o benodau byrion ond tra dyddorol, sydd yn trin am "beidio marw yr ail farwolaeth," am "fod heb ddychwelyd mwy i lygredigaeth," ac am ail uno yr enaid â'r corff marw, am fyw ar ol marw, am gyflawni y dullnewidiadau i fod fel colomen, hebog euraidd, hebog dwyfol, y sarp Setna, Sebak, Ptah, enaid Tmu, y creyr, y gorsiar, y lotus, a'r "duw sydd yn goleuo y tywyllwch," daw y bennod hynod ymha un y mae y trancedig yng

“nglyn cysgod angeu,” yn ei ing yn llefain “Beth yw y lle hwn y teithiais iddo? oblegid y mae heb ddwfr ac heb awyr. Cadduglyn ydyw oll, tywyllwch eithaf, dyryswch hollol!”

Yn nesaf daw y “Gyffes Negyddol,” o'r hon y dyfynnwn a ganlyn :—

Nid wyf yn ysbeillydd, nid wyf yn prinhanu y dogu o fŷd, nid wyf yn gybydd, nid wyf yn achos o ddagrau rhai ereill, nid wyf o nodwedd drahaus, nid wyf yn ysbeilio tir wedi ei drin, nid wyf yn gwrandio dan y fargod, nid wyf yn troi achos heibio er mwyn hunan-les, nid wyf yn anniwair, nid wyf yn brysur yn fy ymadrodd, nid wyf yn cyfnewid yn fy amcanion, nid wyf yn cablu y brenin, nid wyf yn dwyllodrus, nid wyf yn amddifadu y meirw o'u teisennau angladdol, nid wyf yn cymeryd ymaith deisennau y plentyn, nac yn halogi duw fy ardal.

Tafien “Cyfweddiad aelodau” y trancedig gyda'r amrywiol dduwiau, y penodau sydd yn dal perthynas a swyn-gyfaredd, a'r olygfa ar “Faesydd Gwynfa,” lle mae'r ymadawedig yn aredig, yn hau ac yn medi, trwy y rhai y rhêd camlas “nas gellir traethu ei maint, ac yn yr hon nad oes un math o bysgod na seirff,” a'r olygfa ar enau y bedd o flaen yr hwn y mae duwies ar ffurf afon-farch yn sefyll, sydd yn dwyn papyrus Ani i derfyniad.

H. R. JONES.

Y DDADL AR Y GYDWYBOD : A ELLIR EI DYSGU ?

MAE yn ddiameu fod llawer, fel fy hunan, wedi cael mwynhad mawr wrth ddilyn y ddadl yn *Yr Eurgrawn* rhwng y Parchedigion R. Lloyd Jones ac O. Lloyd Davies, ar y testyn pwysig a dyrys uchod. Y mae yn hyfryd meddwl fod *Yr Eurgrawn* yn faes agored i ddadl-euon o'r natur hyn, ac fod brodyr yn y weinidogaeth, o safle a gallu y brodyr anwyl a enwir uchod, uwchlaw cymeryd tramgwydd wrth feirniadu eu gilydd gyda phynciau fel yma. Yn sicr, y mae yn yr ysbryd hwn broffwydoliaeth am amser gwell yn hanes llenyddiaeth ein gwlad.

Nid ydyw beirniadu awdwyr enwocaf oesoedd a gwledydd ereill yn beth dieithr yng nghylchgronau Cymru; ond y mae beirniadu awdwr, o safle ac urddas, perthynol i'r un enwad, yn enwedig os bydd y cyfryw yn fyw, yn rhywbeth pur amheus, a dweyd y lleiaf, yng ngolwg rhai o'r prif gyhoeddiadau.

Wrth alw sylw, fel hyn, at y ddadl uchod, pell ydwyf o chwennydh ail-agor y ddadl. Hyn barodd i mi oedi cymaint cyn anfon i mewn yr hyn a ysgrifennais wrth ddarllen y ddadl, fel yr ydoedd yn cael ei chyhoeddi.

Ar yr un pryd, y mae dwy neu dair o ystyriaethau yn fy nghymell i gyhoeddi yr hyn a ysgrifennais, heblaw cymelliadau oddiwrth frodyr a barchwn. Yn gyntaf oll, y mae sylw Carlyle, fod pob dyn yn cael ei eni yn elyn i bob ffurf ar gyfeiliornad a chelwydd, yn fy nghymell. Mae y byd yn llawn cyfeiliornadau, ac fe all y dyn gonestat gyfeiliorni ; ond melltith fwy i'r byd na hynny fyddai i ddynton fyw mewn camgymeriad, a chau eu llygaid i'w fodolaeth.

Eilwaith, y mae yr ystyriaeth mai ysbryd *carriad* ac nid *casineb* yw ysbryd gwir feirniadaeth, yn fy nghymell ; oblegid gyda'r ysbryd hwn nid oes berygl gwneyd drwg i unrhyw un. Dylai ein *carriad* at y Gwirionedd fod yn gyfryw fel mai y llawenydd pennaf i ni fydd ei weled, gan nad pwy a'i dengys i ni. Ychydig iawn o obaith sydd gennym y deawn o hyd i'r gwirionedd trwy unrhyw ymchwiliad os na fyddwn yn meddu yr ysbryd priodol. O'r ochr arall, os bydd yr ysbryd priodol gennym, fe gymer ofal am ein geiriau ; oblegid, fel y dywed Coleridge,* fe â yr olwynion (y geiriau) i pa le bynnag yr â yr ysbryd.

A thrachefn, gan i'r hyn a ysgrifennais i'r TRAETHODYDD ar y pwnc dan sylw gael cymaint o le yn y ddadl—pa un bynnag ai er clod ai er anghlod i mi—yr wyf yn tybied y dylwn egluro a chywiro rhai pethau a briodolir i mi ynglŷn â'r cwestiwn mewn dadl ; oblegid y mae cywirdeb yn hanfodol i'r gwirionedd, ac fe ddylid cywiro y camgymeriad lleiaf, fel gwobr i'r ymchwiliwr gonest, yn gystal ag fel gwarogaeth i'r gwirionedd.

Hyn, a hyn yn unig, sydd yn fy nghymell i roddi cyhoeddusrwydd i'r sylwadau dilynol ar y ddadl werthfawr a dyddorol dan sylw. Wrth reswm, ni ellir disgwyl dim byd tbyg i feirniadaeth ar y ddadl yn ei chyfanrwydd ; nid yw hynny yn amcan gennyf o gwbl. Fe ganiateir i ddyrn wneyd sylw felly—tybed ?—heb roddi lle i un math o ddrwgdybiaeth, *Fod y ddadl yn un o'r rhai goreu, i fyny âg urddas y pwnc, ac fod yr ysgrifenywyr wedi profi eu bod yn ddigonol i'r cyfryw waith o ran gallu, gwybodaeth, ac ysbryd.*

Mae yn wir y gwelwyd rhai *torpedoes* bychain yn ffrwydro ar y naill ochr a'r llall ; ond nid oedd dim niwed yn cael ei fwrriadu namyn dychryn y mân bysgod fydd yn dilyn mewn adegau o'r fath, ac yn ffrostio pethau mawrion. Ar rai adegau, yr oeddwn yn dueddol i ddweyd : "Pethau, frodyr, ac nid enwau." Beth a ddywedir, ac nid pwy fydd yn dweyd sydd yn bwysig mewn dadleuon fel hyn. Nid trwy fwyafrit y mae cwestiwn fel hwn i'w benderfynu. Pe felly, buasai yn un anhawdd i'w benderfynu, oblegid buasai y ddwy ochr i'r ddadl yn hawlio yr un enwau yn sml, megis y gwneir gydag enw Dr. Charles Edwards yn y ddadl hon. Ar bwy y mae hyn yn adlewyrchu clod neu anghlod, barned y darllynydd.

O'm rhan fy hun, byddai yn well gennyf i'r hyn a ddywedir gan awdwr gael sylw yn hytrach na'i enw ; ac os na phrofr fod yr hyn a ddywedir yn wir, dylem ymwrthod âg ef, pwy bynnag allai fod yn ei ddweyd. Rhwyddhâi hyn ei ffordd, lawer pryd, mewn pynciau dyrys, fel yr un sydd dan sylw ; oblegid nid oes dadl i fod nad oes llawer yn rhoddi mwy o bwys ar *pwys* sydd yn dweyd nag ar yr *hyn* a ddywedir ;

* *Aids to Reflection*, p. xiv.

a thybir hyn, bob amser, yn yr awydd a ddanghosir i gael enwau swnfawr o blaid pob golygiad a gosodiad.

Bellach gwahoddaf y darllenydd i sylwi ychydig ar rai o eiriau y Parch. R. Lloyd Jones,—y geiriau sydd yn dal perthynas neillduol â mi yn y ddadl. Dywed Mr. Lloyd Jones fy mod yn ceisio cael gan ystyr y gair cydwybod ategu fy ngolygiad, sef nad ellir dysgu y gydwytod. Wele ei eiriau :—“Ceisia y ddau Davies gael gan ystyr y gair cydwybod i ategu eu golygiad. ‘Gwybodaeth yn trigo ym mherson dyn yn annibynnol ar bob ymdrech o'i eiddo ; yn debyg i'r gair ymwybyddiaeth,’ ebai Ryle Davies. ‘Mae y gair yn meddwl gwybodaeth ddwbl neu ddau wybod. Gwybod gyda phwy? Gyda Duw,’ ebai Lloyd Davies.”

Pan yn chwilio i “ystyr y gair cydwybod,” gwelaf mai fel hyn yr ysgrifennais :—“Cydwybod—*cyd wybod ; con scientia ; συν ειδής*. Nid yw y *cyd, con, συν* yn golygu gwybod gydag un arall, megis gwybod gyda Duw, fel y tybia rhai ; ond golyga (fel yr arwydda y gair *συνείδής*) y gwahaniaeth sydd rhwng y person a'i wybodaeth ; h.y. gwybodaeth yn trigo ym mherson dyn yn annibynnol ar bob ymdrech o'i eiddo ; yn debyg i'r gair ymwybyddiaeth.”*

Fe welir fy mod yn ceisio egluro “ystyr y gair cydwybod” yn hollol ar wahan i bob syniad neu olygiad yn ei chylch. Os nad oeddwn, hoffwn gael gwybod pa fodd y mae gwneyd hynny. Gwelir hefyd nad yw “y ddau Davies” yn cydolygu ar “ystyr y gair cydwybod,” er na fuasai hynny ynddo ei hun yn gwrthbrofi cyhuddiad Mr. Lloyd Jones, oblegid gallasai “y ddau Davies” (a thybied peth mor hynod am danynt), bob un yn ei ffordd ei hun, geisio cael “gan ystyr y gair cydwybod i ategu eu golygiad.” Ond, yn sicr, nid “ceisio ategu” rhyw olygiad o'i eiddo y mae dyn pan yn chwilio i ystyr gair. Byddai hynny yn wŷrdroad hollol ar drefn gwybodaeth. Eto, priodolir hyn i'r “ddau Davies.” Yr wyf fi yn dymuno peidio cael fy nghyhuddo o gau amcanion yn fy ymchwiliad gonest am y gwirionedd, pa un bynnag a wyf yn llwyddiannus ai peidio ; oblegid y mae hynny yn sicr o fod yn ddiystyrwch ar ddyn, pa un bynnag a yw yn alluog ai peidio. Yn ddilynol dywed Mr. Lloyd Jones :—“O'r goreu, ond y cwestiwn pwysicaf yw, *beth* y mae hi yn ei wybod ? Yn sicr, nid gwybod am y ddeddf foesol fel *abstract idea*, ond ymwybyddiaeth dyn yw o'i gydymffurfiaid neu ei anghydymffurfiaid personol â'r hyn a greda sydd yn foesol rwymedig arno. Ac yn debyg i hyn y mae yr anfarwol Finney yn darnodi y gydwytod. A chwith yw clywed dynion y dyddiau hyn, nad ydynt yn deilwng i ddatod carrai ei esgid, yn ceisio diystyru y dyn gwir alluog a rhagorol hwnnw. ‘Conscience is the faculty or the function of the intellect that recognises the conformity or disconformity of the heart and life to the moral law as it lies revealed in the reason, and also awards praise to conformity, and blame to disconformity to that law.’”

Caniataer i mi wahodd y darllenydd i sylwi ar y paragraff hwn gydag ychydig o fanylwch. “O'r goreu,” medd Mr. Lloyd Jones, ond a ydyw hyn yn golygu ei fod yn cydsynio â'r ddau Davies yn eu

deffiniad o'r gair cydwybod ? Pa fodd y gall wneyd hynny, a ninnau yn wahanol ein barnau ar ystyr y gair ?" Os ydyw Mr. Lloyd Jones wrth ddyweyd "o'r goreu" yn cymeryd yn ganiataol fod y wybodaeth a feddwn trwy y gydwybod "yn annibynnol ar bob ymdrech o'r eiddom, yn debyg i'r wybodaeth a feddwn trwy ymwybyddiaeth," yna, pa fodd y tybia fy mod yn meddwl mai gwybodaeth o'r "ddeddf foesol fel *abstract idea*" ydyw gwybodaeth y gydwybod ? Yn gyntaf, A yw dweyd fod gwybodaeth y gydwybod yn annibynnol ar bob ymdrech o eiddo dyn, yn debyg i'r hyn a olygir yn y gair ymwybyddiaeth, o angenrheidrwydd, yn golygu mai gwybodaeth o *abstract idea* ydyw ? Onid ydyw Mr. Lloyd Jones, yn y dyfyniad uchod, yn cydnabod fod ymwybyddiaeth yn cynnwys gwybodaeth wahanol i *abstract idea*, pan y dywed "ond ymwybyddiaeth dyn yw ?" Eto, y mae pob ymwybyddiaeth, gan nad beth yw y cynnwys yn wybodaeth sy'n "annibynnol ar bob ymdrech o eiddo dyn." Y dull y ceir y wybodaeth yw y pwynt o debygolrwydd. Yn ail, oni ddywedais yn eglur yn y geiriau a ddyfynnodd Mr. Lloyd Davies : "Oblegid nid egwyddorion wedi eu cyffredinoli yw yr hyn a ddatguddir gan y gydwybod." Oni fuasai synied mai gwybodaeth o'r ddeddf foesol fel *abstract idea* yw gwybodaeth y gydwybod, yn tybied mai cynnyrch ymresymiad fuasai, ac nid gwybodaeth tebyg i'r hyn a olygir yn y gair ymwybyddiaeth ?

Yn nesaf, dywed Mr. Lloyd Jones : ". . . ond ymwybyddiaeth dyn yw o'i gydymffurfiaid neu ei anghydfurfiaid personol â'r hyn a gred sydd yn foesol rwymedig arno." Erbyn hyn, fe welir fod Mr. Lloyd Jones yn haeru mai math o ymwybyddiaeth yw gwybodaeth y gydwybod, sef "ymwybyddiaeth o'i gydymffurfiaid neu ei anghydfurfiaid personol â'r hyn a gred sydd yn foesol rwymedig arno." O'r goreu, dywedaf finnau, os math o ymwybyddiaeth yw gwybodaeth y gydwybod, nid oes dadl mwy i fod ynghylch y tebygrwydd sydd rhwng gwybodaeth y gydwybod ac eiddo ymwybyddiaeth ; oblegid, yn ol geiriau Mr. Lloyd Jones, un math o'r olaf yw y blaenaf ; ac y mae pob math o ymwybyddiaeth yn annibynnol ar bob ymdrech o eiddo dyn.

Pe cymerem ddysgoidiaeth Mr. Lloyd Jones fel gwirionedd, beth fyddai y canlyniad ? Yn gyntaf, ymwybyddiaeth yw gwybodaeth y gydwybod ; ond ni chlybuwyd am neb erioed yn dysgu ymwybyddiaeth ! Heblaw hynny, onid yw pob gwybodaeth yn dod i'r ymwybyddiaeth, ac yn dod yr un modd ? Yn ail, gellid meddwl nad oes a wnelo y gydwybod ond â "chydymffurfiaid neu anghydymffurfiaid personol dyn â'r hyn a gred sydd yn foesol rwymedig arno." Ond paham y mae dyn yn rhwymedig foesol ? Ai nid am ei fod yn meddu gallu i gydymffurfio â deddf foesol ? Ac onid yw hynny drachefn yn cynnwys gallu i ddarganfod deddf foesol ? Ac onid yw y "gred" y sonia Mr. Lloyd Jones am dani, yn gynnrych barnu yng ngoleuni deddf foesol ? Ac onid yw y "cydymffurfiaid neu yr anghydymffurfiaid" y sonir am danynt yn gynnrych gweithrediad yn ol neu yn erbyn y "gred" yng ngoleuni y ddeddf foesol ? Tybed mai ar ol cael datguddiad o ddeddf foesol, ar ol credu beth sydd yn foesol rwymedig arnom, ar ol gweithredu, ac ar ol barnu y weithred yn ol deddf, y mae y gydwybod yn dod ymlaen fel "ymwybyddiaeth dyn o'i gydymffurfiaid neu ei anghydfurfiaid personol â'r hyn a gred sydd yn foesol rwymedig

arno?" Os felly, beth sydd yn darganfod y ddeddf foesol? Beth sydd yn furfio ei "gred"? Beth sydd yn barnu y weithred? Os dywed Mr. Lloyd Jones "fod cydwybod yn cynnwys barn"—beth bynnag all hynny olygu—dywedwn innau fod hynny, pe byddai yn wir, yn peri fod yr hyn a ddywed ef am y gydwybod yn rhy gyfyng, oblegid y mae ymwybyddiaeth o'r weithred o farnu yn blaenori "yr ymwybyddiaeth o gydymffurfiaid neu anghydymffurfiaid personol dyn & r hyn a gred sydd yn foesol rwymedig arno." Gwelir mai y pedwerydd neu y pumed ymwybyddiaeth o eiddo dyn fel gweithredydd moesol yw y gydwybod yn ol dysgeidiaeth Mr. Lloyd Jones. Y gwirionedd yw, y gydwybod sydd yn dwyn dyn i diriogaeth moesoldeb, yn gosod sylfaen i bob dysgeidiaeth foesol ynglŷn â rhwymedigaeth dyn, ac yn gwneyd yr ymwybyddiaeth y sonia Mr. Lloyd Jones am dano yn bosibl mewn canlyniad i weithrediad y farn. A glybuwyd erioed fod ymwybyddiaeth yn cyfeiliorni? Eto, dywed Mr. Lloyd Jones, "yr *ucyf yn sicr ei bod yn cyfeiliorni*," am y gydwybod, ac "ymwybyddiaeth" dyn ydyw, medd ef, yn y dyfyniad uchod. Tybed mai y gydwybod sydd yn credu beth "sydd yn foesol rwymedig" ar ddyn, yn ol Mr. Lloyd Jones? Felly y buasid yn meddwl oddiwrt h y frawddeg ganlynol o'i eiddo: "Mae cydwybod Dr. Martineau yn gwrthod athrawiaeth yr Iawn, ond y mae cydwybodau anffaeledig Lloyd Davies a Ryle Davies yn ei derbyn." Yn awr, os yw Mr. Lloyd Jones yn sicrhau mai yn debyg iddo ef "y mae yr anfarwol Finney" yn darnodi y gydwybod, yr wyf yn meiddio dweyd, heb honni anffaeledigrwydd nac anfarwoldeb, y gallai dyn marwol wneyd rhywbeth mwy gwerthfawr, fel gwasanaeth iddo, na "datod carrai ei esgid," sef ei gymell ef a'i ddisgyblion i rwymo eu darnodiadau yn fwy manwl, rhag na byddo ynddynt y fath laerwydd ag a ddongys yr ymadroddion canlynol:—"*faculty or function of the heart and life, as it lies revealed in the reason.*" Ni fanylaf ar hyn rhag yr ystyrir fi "yn ceisio diystyru y dyn gwir alluog a rhagorol hwnnw."

Drachefn, dywed Mr. Lloyd Jones:—“Ymddengys i mi mai y diffyg amlwyol sydd yn perthyn i ddsgeidiaeth y ddau Davies am y gydwybod ydyw, eu bod yn dysgu mai â rhyw egwyddorion cyffredinol y mae a fynno cydwybod, ac nid â gweithred unigol pob person cyfrifol. 'Nid gwaith y gydwybod yw ein cymell i ymddwyn yn iawn, na dweyd i'r weithredoedd sydd yn cydfyned neu yn groes i'r safon fawr hon.' Dyna ddywed Mr. Ryle Davies.” Do, dywedais y frawddeg uchod, ac yr wyf yn harod i'w dweyd eto; ond, nid dyna yr oll a ddywedais ar awydd y gydwybod. Ond, tybier, am funud, mai dyna yr oll a ddywedais ar y pwnc; pa fodd y gall Mr. Lloyd Jones ganfod “y diffyg amlwyol” y cyfeiria ato, yn y frawddeg hon? A yw y frawddeg hon “yn dysgu mai â rhyw egwyddorion cyffredinol y mae a wnelo y gydwybod?” A yw y frawddeg hon yn dysgu nad oes “a fynno cydwybod â gweithred unigol pob person cyfrifol”? Ai yr unig fodd posibl i'r gydwybod ymwneyd “â gweithred unigol pob person cyfrifol” yw “trwy ei ohymell neu ddweyd a yw yn cydfyned neu yn groes i'r safon fawr hon”? Nage, medd Mr. Lloyd Jones ei hun, oblegid dywed “fod y gydwybod yn cymeradwyo neu ynte yn condemnio yn ol fel y byddont yn gyson neu yn anghyson & u gilydd.” Y mae y gwiriau hyn o eiddo Mr. Lloyd Jones yn hollol gyson & r hyn a

ddywedais innau, mai "swydd y gydwybod, gan hynny, yw cyflwyno i ni wirionedd moesol gydag awdurdod deddf, fel rheol ein buchedd, ynghyda chymeradwyo popeth fydd yn cydreddeg â'r ddeddf honno, ac anghymeradwyo popeth fydd yn groes iddi." Ie, dyfynnodd Mr. Lloyd Davies y geiriau canlynol o'm heiddo : "Oblegid nid egwyddorion wedi eu cyffredinoli yw yr hyn a ddatguddir gan y gydwybod ; . . . dyma'r gynneddf sydd yn dwyn dyn i diriogaeth moesoldeb, ac yn gosod sylfaen i bob dysgeidiaeth foesol, trwy ddatguddio iddo egwyddorion cyntaf moesoldeb." Ac, eto, dywed Mr. Lloyd Jones fy mod "yn dysgu mai â rhyw egwyddorion cyffredinol—'egwyddorion moesol yn yr *abstract*'—y mae a fynno cydwybod, ac nid â gweithred unigol person cyfrifol." A dywed Mr. Lloyd Jones ymhellach : "A beth ydyw gwerth sicrwydd yn yr *abstract*, ac ansicrwydd, ie, anwybodaeth hollol, pan y daw y cyfryw egwyddorion i *beario* ar fywyd ymarferol, oblegid nis gall y gydwybod, yn ol Ryle Davies, 'ddweyd pa weithred sydd yn cydfyned neu yn groes i'r ddeddf foesol.' Apeliad at synwyr cyffredin, ac at 'y bobl,' a gofynnaf, onid cydwybod go ddiwerth yw cydwybod felly?" Yr hyn a ddywedais i ydyw : "Nid gwaith y gydwybod yw ein cymell i ymddwyn yn iawn, na dweyd pa weithredoedd sydd yn cydfyned neu yn groes i'r safon fawr hon." Tybed na wel pawb fod gwahaniaeth rhwng hyn a'r hyn a briodolir i mi gan Mr. Lloyd Jones ? Yn wir, rhagdybiais yr hyn a ddywed Mr. Lloyd Jones, oblegid dywedais, "Y cyfeiliornad mawr sydd yn rhedeg megis dan hyn oll yw y syniad nas gall egwyddorion ymarferol cynhennid fod, os nad ydynt yn cael ufudd-dod ; ac hefyd y dylai y gydwybod *ddweyd pa beth sydd iawn, a'n gorfodi* (neu ein cymell) i *ymddwyn yn iawn*, neu ynte nad yw o un gwasanaeth o gwbl." Cofier fod y geiriau hyn wedi eu hysgrifennu a'u cyhoeddi flynyddoedd cyn i Mr. Lloyd Jones ysgrifennu yr uchod. Ai am nad yw y gydwybod yn farn, ai am hynny "diwerth" yw y gydwybod ? Ai am nad yw y gydwybod gymhelliad, ai am hynny ai "diwerth" yw y gydwybod ? "Diwerth," ie, a hithau yn dal safon i'r farn fesur pob cymhelliad a gweithred wrthi, ac yn cymeradwyo popeth sydd yn cydfyned â'r safon, ac yn anghymeradwyo popeth croes iddi. Ai "anwybodaeth hollol" yw fod y gydwybod yn gwneyd ei gwaith ei hun, ac yn peidio gwneyd gwaith y farn a'r cymhelliad ? Tybed na ddywed "synwyr cyffredin" mai gofyn cwestiynau fel hyn yw eu hateb !

Unwaith eto. Dywed Mr. Lloyd Jones : "Dadl fawr Calderwood o blaid anffaeledigrwydd cydwybod ydyw ei bod yn gyfryw yn ei natur nas gellir ei haddysgu, mwy nag y gellir addysgu y llygad neu y glust. Ac mae Ryle Davies yn dweyd yr un peth. 'Mae y gydwybod yn canfod egwyddorion cyntaf moesoldeb fel y mae y llygad yn canfod lliwiau.' Ond, fe wyr *tyro* mewn athroniaeth y meddwl fod y llygad a'r glust yn alluog o welliant diderfyn bron o dan addysg." Druan o Calderwood ! Wedi y cwbl, ac yntau yn eistedd yn athraw yn un o gadeiriau parchusaf Athroniaeth foesol y byd, nid yw yn "*tyro* mewn Athroniaeth y meddwl !" Druan o Ryle Davies ! tra yn meddwl ei fod yn dwyn ymlaen engraifft dda i ddangos pa mor bell yw y gydwybod o gael ei dysgu, efe a ddygodd engraifft ardderchog i ddangos ei bod yn alluog i gael ei dysgu—a thybied ei bod yn canfod egwyddorion

cyntaf moesoldeb fel y mae y llygad yn canfod lliwiau—oblegid “fe wŷr *tyro* mewn athroniaeth y meddwl fod y llygad a'r glust yn alluog o welliant diderfyn bron o dan addysg.” Fe wŷr Mr. Lloyd Jones hyn ynte, oblegid y mae ef yn fwy na *tyro* mewn athroniaeth y meddwl. Pwy ddarganfyddodd hyn tybed ? Ai wrth efrynu athroniaeth y meddwl y cafodd Mr. Lloyd Jones hi ? Tybed fod athroniaeth y meddwl yn dweyd fod yn bosibl dysgu un fyddo mewn lliw-dallineb (*colour-blindness*) i weled y lliw hwnnw ? Neu a oes rhyw gangen arall o wybodaeth yn gwneyd hynny ? Mae yn wir y defnyddir ymadroddion allant gamarwain dynion o berthynas i'r llygad a'r glust, a thueddar fi i feddwl mai wedi ei gamarwain felly y mae Mr. Lloyd Jones i feddwl y gellir dysgu y llygad a'r glust.

Sonir am “glust gerddorol,” “llygad ymarferol y’ fferyllydd,” “llygad celfydd yr arlunydd,” “llygad i weled anian,” &c., &c. ; ond prin y mae angen dweyd fod hyn oll yn golygu disgyblaeth feddyliol, ac nid unrhyw wellhad i'r llygad a'r glust fel cyfryngau gwelediad a chlyw. Fe all pawb weled y lliwiau yn y darlun—ac, “fel y mae y llygad yn canfod lliwiau,” oedd y geiriau ddefnyddiwyd yn yr engraifft anffortunos !—ond ni all neb ond yr hwn sydd yn meddu llygad celfydd yr arlunydd weled a gwerthfawrogi y prydferthwch sydd yn gorwedd megis o'r golwg, ac nid y llygad naturiol sydd yn canfod lliwiau. Yn hollol annisgwiliadwy, un o'r dyddiau diweddfaf, wedi i mi ysgrifennu yr uchod, syrthiodd fy llygaid ar y geiriau canlynol o aiddo—wel, well i mi beidio ysgrifennu yr enw, er mwyn i'r geiriau eu hunain lefaru :—“You can buy the canvass and the oil, but not the artistic eye which interprets and appreciates the picture—this eye is an inner power which perceives beauty as it grows from the inner nature of things real or represented.” Y mae hyn, tybed ? yn ddigon. Y gwirionedd yw mai y meddwl sydd ar waith, ac mai disgyblaeth y meddwl sydd yn rhoddi “*this eye (which) is an inner power*” i'r cerddor, y fferyllydd, yr arlunydd, &c., &c., fel y mae meddwl dyn gyda phellter, ac nid y llygad, yn gweled y pethau. Rhaid ymatal rhag codi dadl arall ynghylch gweled pellter !

Y mae amryw bethau ereill yn ysgrifau Mr. Lloyd Jones y caraswn sylwi arnynt megis, “Y gydwybod ac athrawiaeth yr iawn,” “fod Kant a David Hume yn cytuno â'u gilydd i hau egwyddorion ammeuyddiaeth,” y dyfyniadau o eiriau y Prifathraw Edwards a'r Athraw Davidson, a geiriau Dr. Noah Porter ; ond rhaid gadael popeth.

W. RYLE DAVIES.

DR. ARNOLD.

Fy esgusawd dros alw sylw at y gŵr mawr a da hwn ydyw fy mod yn teimlo dyddordeb neillduol mewn addysgiaeth, ac fod gennyf ddwfn barchedigaeth at Dr. Arnold fel "yr addysgydd Seisnig mwyaf," fel y geilw y diweddar Barch. R. H. Quick ef,—un a dderbyniodd y drefn a ffynnai fel yr ydoedd, ac a wnaeth y goreu o honi. Ymhellach, ar adeg o'r fath weithgarwch ynglŷn âg addysg yn ein gwlad fach ni ein hunain,—pan y mae ysgolion newyddion ymhob man yn cael eu sefydlu, a chynifer o feibion a merched yn dechreu ar eu dyledswyddau pwysig mewn cychwyn addysgiaeth yr ysgolion hynny,—ni allai fod yn anamserol i ni droi i hanes y gorffennol, ac edrych a allwn gael arweiniad neu ysbrydoliaeth o fywydau dynion rhagorol a aethant o'n blaen yn llwybrau addysgiaeth, ac a ddangosasant i ninnau y ffordd.

Pan oedd Dr. Arnold yn ymgeisydd am fod yn Brif Athraw yn Rugby, fe rag-ddywedid yn un o'i dyst-lythyrau y byddai iddo, os penodid ef, newid wyneb addysgiaeth trwy holl ysgolion cyhoeddus y deyrnas. Yr oedd ar yr ysgolion hyn eisieu eu diwygio mewn dau gyfeiriad. Yn gyntaf, yr oedd y cwrs o addysg, na chymerai i fewn ond Groeg a Lladin—yr efrydiau a ddigwyddent o herwydd dylanwad y Ddfroad, gael eu hystyried o'r pwysigrwydd mwyaf pan sefydlwyd yr ysgolion hynny—a mawr angen ei ehangu er cyfarfod anghenion helaethach bywyd diweddar, a dadblygiad diweddarach gwyddoniaeth naturiol. Yn y lle nesaf, yr oedd tŷn addysgiaeth yn ysgolion cyhoeddus Lloegr yn dyfod yn fwyfwy o waradwydd yngolwg pob dynion da ar gyfrif ei thuedd wrth-grefyddol. Anaml y ceid efrydydd crefyddol yn y Brifysgol, a phau y digwyddai fod un, fe'i gwnelid bob amser yn wrthrych gwawl. Ac yr oedd hyn yn wir, nid am fechgyn a ddalent o un ysgol gyhoeddus, ond o'r oll. Ond wedi marw Arnold ysgrifennai Dr. Moberley, y pryd hynny yn brif athraw Winchester, at Deon Stanley: "Y mae cyfnewidiad neillduol a thra hynod wedi dyfod ar ein hysgolion cyhoeddus, cyfnewidiad rhy fawr i neb allu synied am dano yn briodol heb fod yn gwybod am danynt yn y ddau gyfnod. Mae y cyfnewidiad hwn, mae'n ddiameu, yn rhan o wellhad cyffredinol yn ein hoes mewn duwioldeb a pharchedigaeth; ond yr wyf yn sicr fod dygiad y gwellhad yma i'n hysgolion yn ddyledus yn bennaf i symledd personol pur Dr. Arnold, nerth ei gymeriad, gallu ei ddylanwad a'i dduwioldeb,—pethau nad allai neb a ddeuai yn agos ato byth eu camgymeryd neu eu hameu. Fe ddechreuodd yn fuan ddyfod yn destyn sylw gennym yn y Brifysgol fod ei ysgolorion ef yn dwyn gyda hwynt i Rydychen gymeriad cwbl wahanol i'r hyn a gaem mewn manau ereill. Nid wyf yn siarad am opiniynau; ond yr oedd ei ysgolorion ef drwyddynt yn rhai o feddylgarwch gwych, yn ymwybodol o ddyledswydd a rhwymedigaeth pan ddeuent gyntaf i'r Coleg; gofidiem yn wir eu bod wedi eu dwfn drwytho mewn egwyddorion a anghymeradwyem ni, ond cydnabyddem yn galonnog y

dirfawr wellhâd yn eu cymeriadau o ran moesoldeb a duwioldeb personol, ac edrychem ar Dr. Arnold fel yn cario dylanwad er daioni, yr hwn (dros ba nifer o flynyddoedd nis gwn) oedd wedi bod yn hollol ddieithr i'n hysgolion cyhoeddus."

Wedi cyfeirio fel yma at waith mawr bywyd Dr. Arnold, dylem yn awr geisio cael allan pa gymwysterau naturiol, a pha addysg a phrofiad blaenorol a gawsai i'w gyfaddasu at y fath waith, ac hefyd edrych yn gryno i'r dulliau o weithredu trwy ba rai y llwyddodd i adael tystiolaeth anniflânedig o'i waith, fel prif athraw yn Rugby, ar hanes Lloegr.

Fe'i ganwyd yn 1795, yn West Cowes, Isle of Wight. Bu ei dad, yr hwn oedd gasglwr cyllid yn Cowes, farw pan nad oedd ei fachgen ond chwe mlwydd oed. Cymerwyd gofal ei addysgiaeth foreuol gan Miss Delafield, chwær ei fam. Pan yn wyth oed, fe'i hanfonwyd i ysgol Warminster, a phan yn ddeuddeg i Winchester. Coleddai bob amser deimlad cynnes at Winchester, a chyfeiriai wedi tyfu i oedran at y wybodaeth a gawsai yno am drefn neillduol ysgol gyhoeddus, a siaradai am y doethineb a ddanghosid wrth ymwneyd â bechgyn, a'r medr mewn cyfrannu gwybodaeth a nodweddi bob un o'r ddau ŵr a fuont, y naill ar ol y llall, yn brif athrawon yno yn ei amser ef. "Yr ydoedd y pryd hynny, fel bob amser, o duedd yswil a thawdog, a nes yr aeth i Rydychen yr ydoedd yn hynod am ei anystwythder a'i ffurfioldeb, yr hyn oedd yn hollol wrthwyneb i hoender a symledd ei flynyddoedd diweddarach. Mae ei deulu a'i gydysgolorion yn ei gofio fel yn wahanol i rai o'i oedran, ac yn dilyn amcanion oedd yn neillduol iddo ei hun." Ffurficdd gyfeillgarwch â llawer o'r bechgyn a gadwodd yn hir. Dywedir wrthym ei fod fel bachgen a gŵr ieuanc yn ei gael yn anhawdd codi yn fore, yr hyn a'i harweiniodd i ddweyd nad ydoedd yn y mater hwn wedi cael fod y rheol gyffredin, fod popeth yn dyfod yn hawdd trwy ymarfer yn wir, ond fod codi yn fore iddo ef yn gofyn ymdrech barhaus. Yr oedd dylanwad lle ei enedigaeth i'w weled yn benaf yn ei adgofion byw o'r argraff a wnaed arno trwy ymarferiadau morwyr y llynges a'r milwyr, ydoedd wedi weled yno. A gwelwn ddechreuad ei ddyddordeb mewn Hanes Rufeinig ac yn Thucydides yn ei chware plentynaidd o nofio llyngesoedd gwrthwynebol yng ngardd ei dad, neu o actio brwydrau gwroniaid Homer, ac adrodd eu hareithiau o gyfieithiad Pope o'r Iliad. Yr ydoedd yn dra hoff o gerddi, ac arferai gyfansoddi ychydig, yr hyn a enillodd iddo yn yr ysgol yr enw o "Arnold y bardd." Ond ei gynnydd mewn hanes a daearyddiaeth ydoedd fwyaf nodedig. Danghosai ei chwaeth y ffordd yma yn dra chynnar. Un o'i ychydig adgofion am ei dad ydoedd ei fod yn ei anrhegu â Hanes Lloegr gan Smollett pan nad oedd ond tair oed, fel gwobr am iddo adrodd yn gywir yr ystorïau cysylltiedig â'r darluniau o'r gwahanol frenhinoedd.

Yr oedd ei serchiadau teuluaidd cryfion yn amddiffyn iddo rhag temtasiynau, pan, yn 1811, yn un ar bymtheg oed, yr aeth i Rydychen fel ysgolor o goleg Corff Crist. Ac yr oedd hynny yn rhoddi iddo y pleser mwyaf, lawer o flynyddoedd wedi hynny, pan adawyd ef ei hunan yn ben y teulu, mewn casglu o'i amgylch y rhai oedd wedi eu gadael o dŷ ei dâd. Yn y Brifysgol yr oedd y gallu a'r medr â pha rai yr elai i mewn i ddadleuon yr estrydwyr, ynghyd a'r gwroldeb â pha un y gosodai ei

olygiadau ger bron, hyd yn oed pan wahaniaethent oddiwrth eiddo rhai ereill, yn hynod mewn gŵr mor ieuanc. Ond ni welodd neb ynddo, y pryd hynny na chwedyn, ddim cymhendod. Yr ydoedd yn hoff o ymddiddan ar faterion difrifol, ac yr ydoedd yn danbaid mewn dadl; ond bob amser yn wyneb-agored a gonest, a phob amser mewn tymer dda yngwyneb gwrthwynebiad neu gerydd. Yr oedd ei gyd-ddadleuwyr yn Doriaid cryfion mewn Eglwys a Gwladwriaeth, a phrin ambell dro y byddai golygiadau gwrthwynebol Arnold yn cael eu goddef ganddynt. Er na ddarfu iddynt hwy ei droi, fe leddfwyd ei Iagobiaeth ieuengaidd gan y Toriaid hyn yn Rhydychen i'r egwyddorion Rhyddfrydol sefydlog a'i nodweddent yn ddiweddarach. Ffurfiodd gyfeillgarwch cryf tra yn y Brifysgol gyda llawer o wŷr ieuainc oeddent, o ran chwaeth a thuedd, yn dra gwahanol i'w gilydd, a chadwodd i'fyny yn fyddlon ohebiaeth â hwynt ynghanol holl orchwyllion trafferthus y blynyddoedd a ddilyent. Arferai ddweyd: "Byddaf yn hoffi meddwl y gallai fod cyfeillgarwch Cristionogol yn rhan o fusnes tragwyddoldeb." Dywedai Arglwydd Coleridge fod cyfeillgarwch âg Arnold pan yn y Brifysgol wedi bod yn un o fendithion ei fywyd. Ond nid yn unig fe ymlynodd wrth bersonau tra yn Rhydychen, ond fe ddaeth y lle ei hun yn anwyl iddo. Cyfeiriai bob amser yn yr ymadroddion mwyaf caruaidd at ei Brifysgol, ac at liaws prydferthion naturiol y golygfeydd o amgylch. "Hen Rhydychen fach druan," ysgrifennai yn 1819 at gyfaill oedd yno gydag ef, "pe byddwn byw hyd bedwar ugain, a mwynhau yr holl ddedwyddwch a allai y dymuniad cynhesaf ei chwennych, ni anghofiwn byth, ac ni pheidiwn ag edrych yn ol gyda rhyw deimlad poenus ar y blynyddoedd yr oeddem ynghyd yno, ac ar yr hyfrydwch a gollasom." Fe ddylanwadid arno yn fawr tua'r amser yma gan "feirdd y Llynnoedd." Gwasanaethai hyn er cywrio gogwydd rhy ymarferol meddwl Arnold, trwy ddadblygu ei ymdeimlad o'r dyrchafedig a'r dychmygol. Ond ei nwyf yn yr adeg yma, fel trwy ei fywyd, oedd Thucydides ac Aristotle. "Ni adwaenais ddyn erioed," ebe Coleridge, "a wnai y fath ddefnydd agos, te hoff o awdwr; prin y mae yn ormod dweyd y siaradai am Aristotle fel un a adwaenai ac a werthfawrogi yn agos ac yn serchog." Ei ymarferion corfforol oedd nosio a cherdded. Yr ydoedd yn wannaidd o ymddanghosiad, ac nid oedd yn debyg o ddyfod i fwynhau cryfder mawr; eto yr oedd ei gorff yn ysgafn, a gallai gerdded i bellteroedd mawrion, a dal llawer o flinder. Yn 1814 cymerodd Ddosbarth Cyntaf yn y Brifysgol mewn Clasuron, ac yn 1815 fe'i hetholwyd yn Gymrawd, *Fellow*, o goleg Oriel. Am y pedair blynedd nesaf arhosodd yn Rhydychen, gan gymeryd ysgolorion preifath a darllen llawer yn llyfrgelloedd y Brifysgol. Yr amser yma blinwyd ef gan amheuan crefyddol mewn perthynas i athrawiaeth y Drindod; ac yr oedd ei brofedigaeth yn fwy am ei fod yn ymddangos i'w fantais bersonol i osod ei amheuan o'r neilldu a derbyn y golygiadau uniongred, yr hyn a'i gwnelai yn fwy anfoddlawn i wneyd hynny nes ei lawn argyhoeddi o'u gwirionedd. Wedi gosod ger bron yr amheuan â pha rai y blinid Arnold yr amser yma, a'r cyngor a roisai iddo ar y mater, ysgrifennai cyfaill i'r ddau at Coleridge: "Yn y cyfamser y fath greadur gwych ydyw. Yr ydyf yn meddwl y gallai un yn ddiogel ddweyd, fel y dywedodd rhywun am

rywan arall, 'Byddai yn well i ddyn gael amheuan Arnold na chrediniaethau sicr y rhan fwyaf o ddynion.'

Yn 1815 fe'i hordeiniwyd yn ddiagon yn Rhydychen, ac yn 1819 ymsefydlodd yn Laleham ger llaw Staines, ac yn 1820 priododd Mary, merch ieuengaf y Parch. John Penrose, Rector Fledborough yn swydd Nottingham, chwaer i un o'i gyfeillion cyntaf yn yr ysgol a'r coleg. Bu fyw yn Laleham am naw mlynedd, a chymerai saith neu wyth o ysgolorion preifat i'w paratoi i'r Brifysgol. O'r amser yma diflannai y fath feiau ag a nodweddent ei febyd a'i ieuentid, ac yn eu plith ei amheuan ar faterion cysegredig. Gwnai yr adgof am y rheiny, fodd bynnag, yr hanes am gyffes yr Apostol Thomas—"Fy Arglwydd a'm Duw!"—yn anwyl iawn iddo. Pregethodd arni fwy nag unwaith, a daeth yn ol ati yn ystod ei gystudd byr olaf. O hynny allan y mae holl fywyd Arnold yn cael ei liwio gan ddwyter ei argyhoeddiadau crefyddol. Nid am y byddai yn siarad yn fynych am bethau cysegredig, ond llewyrchai ei ffydd allan yn ei ddull o ymwneyd â hwy pan y siaradai am danynt, ac yn llawer mwy yn yr ysbyrd crefyddol ymha un y cyflawnai holl ddyledswyddau bywyd. "Ni allai neb ei adnabod, ie i fesur bychan," ebe un nad ydoedd ei hun ymysg ei gyfeillion agosaf, "na tharewid ef gan ei ymdrech yn erbyn drwg, fel, megis St. Paul, yr ymddanghosai ei fod yn ymladd â'r un drwg, ac eto gyda'r teimlad o fod nerth Duw o'i du, gan ei ddirmygu yn gystal a'i gashau." I ddeall Arnold y mae yn rhaid hefyd sylweddoli y teimlad neillduol o gariad ac addoliad â pha un yr edrychai ar ein Harglwydd Iesu Grist. "Ple y cawn ni enw mor sanctaidd i'r hwn y gallwn roddi i fyny ein holl enaid, o flaen yr hwn y gallai ufudd-dod, parchedigaeth heb fesur, dwfn ostyngeddrrwydd a'r addoliad llawnaf, oll gael eu cyflwyno?"—dyna ydoedd ymfyniad difrifol ei holl natur ddealltwriaethol a moesol, yn gystal a chrefyddol. A dyma yr ateb a rydd yn un o'i bregethau: "Un enw sydd, ac yn unig, yn y nefoedd a'r ddaear. Nid gwirionedd, nid cyflawnder, nid caredigrwydd, nid mam Crist, nid ei weision sancteiddiaf, nid ei sanctaidd sacramentau, ac nid hyd yn oed ei gorff cyfriniol, yr Eglwys; ond Efe ei Hun yn unig, a fu farw drosom ac a gyfododd drachefn, Iesu Grist, Duw a dyn."

Rhoddai lawer iawn o'i amser at wasanaeth ei ysgolorion. Dechreuai gwersi am 7, a chydag ysbaid o amser at frecwaest, parhaent hyd 3. Yna ymunai â'i ysgolorion mewn cerdded, ymdrochi, neidio, neu unrhyw ymarfer corfforol arall y gallai arno. Ciniawent am 5 30. Am 7 byddai yn gyffredin wers, ac wedyn, pan fyddent oll wedi dyfod ynghyd i'r *drawingroom* am dde, gyda dynion ieuainc o'i amgylch o bob cyfeiriad, dechreuai ar ei ysgrifennu ei hun, pa un bynnag ai pregeth ai Hanes Rhufain. Dywed un o'i hen ysgolorion yn Laleham fod ei allu mawr fel athraw preifat yn gorwedd yn y ffaith ei fod yn rhoddi y fath angherddol ddifrifwch i fywyd. "Gwneid i bob ysgolor deimlo fod gwaith icdo ef i'w wneyd; fod ei ddedwyddwch yn gystal a'i ddyledswydd yn gynwysedig mewn gwneyd y gwaith hwnnw yn dda. Mewn canlyniad yr oedd hyfrydwch annisgrifiadwy yn cael ei roddi i deimlad dyn ieuanc gyda golwg ar fywyd; denai llawenydd dieithr drosto wrth ddarganfod fod ganddo y modd i fod yn ddefnyddiol, ac

felly i fod yn ddedwydd; a chyfodai dwfn barch ac ymlyniad serchog at yr hwn a'i dysgasai felly i werthfawrogi bywyd, a'i fywyd ei hun, ynghyd a'i waith a'i neges yn y byd."

Yr oedd Arnold yn mwynhau yn fawr neillduedd heddychol ei fywyd yn Laleham. "Yr ydoedd," fel y dywedai, "yn dymor o ddedwyddwch mor dæg ag a ellid byth ei fwynhau gan ddyn." Pan ddaeth yr amser iddo ei adael, ysgrifenuai: "Heb unrhyw rodres yr wyf yn credu fod John Keble yn iawn, a'i fod yn dda i mi adael Laleham, oblegid yr wyf yn teimlo ein bod yn dyfod i edrych ar y lle fel yn ormod o gartref. Ni allaf ddweyd fel yr ydym ein dau yn ei garu, ac y mae ei berffaith heddwch, weithiau, yn ymddangos yn wrthgyferbyniad brawychus i gyhoeddusrwydd Rugby. Yr wyf yn sicr nad oes dim a allai ddarostwng y blinder yma ond fy llawn ymwybodolrwydd nad oes gennyf fi ddim i'w wneyd â gorffwys yma ond mewn llafur; ac yna mi allaf, ac yr ydwyf yn edrych ymlaen at y llafur gyda llawn foddlonrwydd." Yr oedd ei gyfeillion ers peth amser wedi bod yn ei annog i edrych am gylch ehangach o ddefnyddioldeb nag a allai Laleham roddi, ac yr oedd y draul o fyw yn Laleham wedi peri iddo benderfynu ymadael pan ddaeth lle Prif Athraw Rugby yn wâg; ac wedi peth petruster, fe benderfynodd geisio am dan. Rhagfyr 1827 fe'i hapwyntiwyd yn unfrydol. Ym Mehefin 1828 derbyniodd urdd offeiriad; yn Ebrill a Thachwedd cymerodd y graddau o B.D., a D.D.; ac yn Awst dechreuodd ar ei waith.

Yn fuan wedi ei benodiad fel Prif Athraw Rugby, ysgrifennodd Arnold at gyfaill: "Am y llafur nid wyf yn gofalu dim, os rhydd Duw i mi iechyd a nerth fel y gwnaeth yr wyth mlynedd diweddaf. Ond pa un a allaf wneyd yr Ysgol yr hyn y dymunwn ei gwneyd,—nid wyf yn meddwl yn gwbl neu yn berffaith felly, ond mewn rhyw radd,—hynny yw, yn offeryn gogoniant Duw, a thragwyddol les y rhai a ddeuant iddi,—y mae hynny yn wir yn bryder ofnadwy." Dyna yr ysbryd ymha un y dechreuodd ar ei waith. Yr oedd yn lle ag yr ydoedd ei chwaeth naturiol yn amlwg wedi ei gyfaddasu iddo. Yr oedd ei ynni a'i ysbryd yn neillduol yn ei gymhwyso i ddelio â'r ieuaine yn hytrach na'r hen; ac yr oedd ei gariad at addysgu, oedd wedi cyrraedd i'r fath nerth fel yr arferai ddweyd nad allai fyw heb y fath waith, ei ddymuniad angherddol i uno crefydd ac addysgiaeth, i ddwyn egwyddorion uchaf gweithrediad i helyntion bychain gwaith gwastadol ysgol,—a hyd yn oed ei sêl wleidyddol, a dybid gan rai yn wrthwynebol i gyflawniad ei ddyledswyddau fel athraw ysgol, yn anuniongyrchol yn cynorthwyo at gyflawniad llwyddiannus o honynt. Fe edrychai ar yr ysgol "fel delw o'r byd maŵr," a llafuriai er atal tyfiant y drygau cymdeithasol a ganfyddai yn y cymuned bychan oedd dan ei ofal, ac er dadblygu y rhinweddau hynny a ddygent ffrwyth ym mywyd dinasyddion dyfodol Lloegr. "Llywodraethai yr ysgol yn union ar yr un egwyddorion ag y llywodraethai ymerodraeth fawr."

Yr oedd yr anhawsterau oeddent ar ei ffordd ar y dechreu yn fawrion. Am beth amser yr ydoedd yn teimlo ei ffordd ymysg y gwahanol sefydliadau a ganfyddai neu a ddyfeisiai, gan groesawu awgrymiadau oddiwrth gyfeillion ac ysgolorion blaenorol, a phob amser yn barod i addef ei fod yn camgymeryd pan argyhoeddid ef felly, bob

amser yn ymestyn at nôd uchel nad ymddanghosai ei fod byth yn ei gyrraedd. Gwrthwynebai rhai y cyfnwidiadau parhaus a wnelid fel yn eithafol; ond fe sicrhaid mesur o sefydlogrwydd i'w gynlluniau trwy ei fod yn cyfeirio popeth a wnelai at ryw ddeddf gyffredinol, a thra y cyflym newidid manylion ei drefniadau fe arhosai ei egwyddorion cyffredinol yn sefydlog. Yr oedd ei ymosodiadau tanbaid ar ddrygioni—gonest a di-arbed fel y byddent—ar y dechreu yn ei wneyd yn bur amhoblogaidd; ond yn raddol cyrhaeddodd fwy o lywodraeth arno ei hun ac ar ei waith, a dechreuai dynion ddeall a gwerthfawrogi yr uniondeb a'r gonestrwydd a'r an-hunanoldeb hollol a nodweddent ei gymeriad. Yr oedd ei gyfuniad o ddiysgogrwydd a thynherwch yn cael yr un effaith mewn gorchfygu rhai o anhawsterau ei swydd ag a gâi medr a deheurwydd mewn arall; ac ar derfyn ei dymor gyda'r ysgol, yr ydoedd wedi cyflawn ennill y ffafr gyhoeddus ag ydoedd yn ystod y rhan flaenaf o honno yn cael ei atal oddiwrtho. Yr ydoedd bob amser ar delerau da gydag ymddiriedolwyr yr ysgol, ond yr oedd yn ofalus i ddal ei hawl o annibyniaeth hollol yn ei weithrediadau, gan ystyried mai eu hymwared, os na fyddent yn cymeradwyo, ydoedd, nid ymyraeth, ond ei ddiswyddo. Am unrhyw ymgais i reoli naill ai ei lywodraethiad o'r ysgol neu ei orchwyllion personol, fe deimlai yn rhwymedig i'w wrthwynebu "fel dyledswydd," fel y dywedai ar un achlysur, "nid yn unig ato ei hun, ond at brif athraw pob ysgol gyhoeddus yn y deyrnas."

Am yr athrawon cynorthwyol, fe ddibynnai ar eu cydweithrediad fel yn hanfodol i'w lywodraethiad ef ei hun o'r ysgol. Ymhob ffordd oedd o fewn ei allu, fe ychwanegai at eu pwysigrwydd; sefydlodd gynghorau wythnosol yn y rhai yr ymdrinid â phob materion perthynol i'r ysgol; ac anaml y gweithredai ar unrhyw achos o ddisgyblaeth heb ymgynghori â hwynt. Gosododd y tai byrddio dan eu gofal, ac nid oedd dim a'i boddhâi yn fwy na deall fod bechgyn yn cael eu hanfon i'r ysgol er mwyn hyfforddiad ei gyd-athrawon yn hytrach na'r eiddo ef ei hun. Llanwai eu hysbryd hwy â'i olygiadau uchel ei hun am addysgiaeth a bywyd, a deuai y rhwymyn rhyngddynt yn gryfach o flwyddyn i flwyddyn fel y byddai y naill ar ol y llall o'i hen ysgolorion yn dychwelyd i'r ysgol fel athrawon. "Y tu allan i'w deulu ei hun nid oedd yr un cylch o ba un yr ydoedd mor hollol yn egwyddor fywiol ag ymysg y rhai a gydweithredent âg ef yng ngwaith mawr ei fywyd,—yr un ag y teimlid mor fyw ynddo fod y golled ar ei ol yn un na ellid ei gwneyd i fyny, neu yr ystyrriid ei esiampl mor naturiol fel ffynnon fyw o weithgarwch a chyfrifoldeb difrifol ag ymysg y rhai a alwyd i barhau eu llafur yn y cylch ac o fewn y lle oedd wedi ei wneyd mor fawr yn eu golwg gan ei gynghorion a'i bresenoldeb ef."

Ond y mae y prif ddyddordeb yn canolbwyntio yn llywodraeth ber-sonol Arnold ar y bechgyn. Meddyliai gymaint am yr ysgol ac mor lleied am dano ei hun, ac ymdrechai mor egniol i beri iddi weithio yn annibynnol ar unrhyw ddylanwad o'i eiddo ef, fel mai y canlyniad oedd fod bodolaeth wahaniaethol yr ysgol wedi ei soddi yn gwbl ynddo ef. Yr oedd yr ysgol yn adlewyrchiad o'r Prif Athraw. Yn wir, nid Rugby oedd yn dylanwadu ar y bechgyn, ond Arnold. Yr ydym wedi gwled

mai ei amcan mawr oedd gwneyd yr ysgol yn lle o addysgiaeth Gristionogol. Yr oedd ei olwg ar fywyd mor uchel grefyddol, fel yr oedd yn naturiol yn ystyried nad oedd perthynas athraw â'i ysgolorion, fel holl berthynasau ereill bywyd, mewn ystâd iachus, ond yn unig pan yn ddarostyngedig i'w perthynas â Duw. "Gwaith ysgolfeistr," arferai ddweyd, "yn ddim llai na gwaith gweinidog plwyf, ydyw gofal eneidiau." Ymwnelai â'r bechgyn fel bechgyn ysgol, ond fel bechgyn ysgol a raid dyfu i fod yn ddyinion Cristionogol, y rhai yr oedd eu troseddau yn bechodau, a'u rhagoriaethau yn rhinweddau. Yr oedd ei addysgiaeth, fel y sylwyd unwaith, nid yn seiliedig ar grefydd, ond yr ydoedd ei hunan yn grefyddol. Felly fe gâi ei ysgolorion ei fod yn amhosibl dweyd ar ol bod dan ei addysg,—am lawer ag oedd wedi cario dylanwad arnynt,—pa un a oeddent wedi ei gael oddiwrth yr hyn a leferid yn y pulpud, yn yr ysgol, neu yn broifat. Yr ydoedd yn teimlo i'r byw anhawsterau a pheryglon trefn Ysgol Gyhoeddus Seisnig, trefn sydd yn tasfu bechgyn gymaint i gwmmi eu gilydd fel y maent o angenrheidrwydd yn cael dylanwadu arnynt, pa un bynnag ai er da ai er drwg, yn llawer mwy gan eu cymdeithion, nag y gallent fod gan eu hathrawon. "Gallai trefn arall," meddai, "fod yn well ynddi ei hun, ond yr wyf fi wedi fy ngosod yn y drefn hon, ac yr wyf yn rhwym o geisio beth allaf wneyd o honi." Cadwai yr hen gyfansoddiad ysgol, cyn belled ag oedd yn bosibl. Seiliai ei lywodraeth ar yr ysgol ar yr argyhoeddiad mai nid cyflawniad oedd ganddo i edrych am dano, ond addewid, ac y gellid gwneyd rhyddid bywyd ysgol yn foddion dad-blygiad rhinwedd effeithiol yn y bechgyn. "Yr wyf yn dal yn dyn," meddai, "y gwirionedd mawr mai 'gwyn ei fyf yr hwn sydd yn gorchfygu.'" Gwnâi yr oll a allai i fyrhau ac i leddfu y prawf sydd yn y mynediad drosodd o fechgyndod i ddyndod, a thra yr ysgorniai wrolrwydd neu *manliness* gau, ymdrechai feithrin yn y bechgyn wir wrolrwydd, ac i'w trwytho âg egwyddor dda a meddylgarwch meisol. Mewn canlyniad, yr oedd yn awyddus am fod gymaint ag a ellid yn cael ei wneyd gan y bechgyn, a dim *erddynt*. Ymddygai tuag atynt fel boneddigion a bodau rhesymol; apeliai at eu synwyr cyffredin a'u cydwybod, a pharai iddynt eu parchu eu hunain mewn caulyniad i'r parch a ddanghosai efe iddynt. Rhoddai ymddiried llawn yug ngair bachgen, a phe ceisiai haeru, fe'i hatelid ar unwaith gyda'r geiriau tawel, "Os ydych chiwi yn dweyd felly, mae hynny yn llawn ddigon. *Wrth reswm* yr wyf fi yn credu eich gair." Anwiredd, pan ddywedid ef, a drinid yn llym; ond digwyddai yn fwyfwy anaml fel y tyfai yn yr ysgol y teimlad ei "fod yn gywilydd dweyd celwydd wrth Arnold,—y mae bob amser yn eich coelio." Pan ymddanghosai ger bron yr holl ysgol bryd gweddi bob bore, neu ar adegau ereill pan elwid am ei bresennoldeb, fe edrychai fel yn sefyll o flaen y bechgyn, nid yn unig fel y prif athraw, ond fel cynrychiolydd yr ysgol, a siaradai wrthynt fel aelodau gydag ef ei hun o Sefydliad mawr, cymeriad ac enw pa un yr oeddent hwy i'w ddal i fyny fel yntau; ac arhosai ar y pleser a fwyhâi o fod wrth ben cymundeb lle y cefnogid teimladau gwyhych ac anrhydeddus, neu ar y gwarth a deimlai pan glywai am annhrefn neu greulondeb ar ran y bechgyn. Wedi siarad ar un o'r achlysuron hyn ar amlygiad helaeth o deimlad drwg, ychwanegai: "Ni allaf fi aros

yma os yw popeth i'w gario ymlaen trwy orfodaeth a nerth ; os ydwyf i fod yma fel ceidwad carchar, mi roddaf fy swydd i fyny ar unwaith." Dro arall, wedi gorfod troi allan amryw fechgyn o herwydd terfysg, ynghanol ysbryd cyffredinol o anfodogrwydd ag yr oedd ei weithred wedi ei gynhyrfu, safodd yn ei le o flaen yr holl ysgol a dywedodd : "Nid ydyw yn angenrheidiol i hon fod yn ysgol o dri chant, neu gant, neu hanner cant o fechgyn ; ond y *mae* yn angenrheidiol iddi fod yn ysgol o foneddigion Cristionogol." Yr oedd y moddion trwy ba rai y cariai allan yr egwyddorion hyn yn amrywiol.

Yn gyntaf, *Disgyblaeth Gyffredinol*.

Yn y rhan uchaf o'r ysgol fe wnaeth gyfnewidiad mawr yn y drefn o gosbi, "gan gadw hynny," fel y dywedai yn un o'i bregethau, yn gymaint ag y gellid o'r tu ol, a thrwy garedigrwydd a chefnogaeth dynnu allan deimladau da a gwych y rhai yr oedd a fynnai â hwynt." Gyda'r bechgyn ieuengach fe gadwai at chwipio, ond yn unig am dros-eddau pwysig, megis dweyd celwydd, yfed, a segurddod parhaus ; ac mor wrthwynebol ydoedd i wneyd hynny fel nad ydoedd yn digwydd mor fynych ag y gofynnai ei egwyddor. I rai a ddatleuent y pryd hynny, fel y gwna rhai yn awr, fod cosb gorfforol yn ddarostyngol, atebai gyda phwylais nodweddiadol : "Mi wn yn dda o ba deimlad y mae hyn yn ddatganiad ; gwreiddia yn y syniad balch o annibyniaeth bersonol, yr hwn nad ydyw yn rhesymol nac yn Cristionogol, ond yn hanfodol farbaraid. . . Mewn oedran pan y mae bron yn amhosibl cael teimlad gwir a dynol o iselder euogrwydd neu feiau, ple mae y doethineb o gefnogi teimlad penchwiban o iselder cosb gorfforol ?"

Ond nid ydoedd yn foddlon ar atal drygau neillduol "Yr hyn sydd arnaf eisieu ei weled yn yr ysgol," meddai, "a'r hyn nid wyf yn ganfod, ydyw ffeidd-dod o ddrygioni." Câi mai yr achos o hyn oedd yr ysbryd a gefnogid yn yr holl ysgolion cyhoeddus o ymostyngiad gormodol i farn y lliaws. Rhoddai hyn iddo fwy o boen na dim drwg arall yn yr ysgol, ac nid elai un hanner blwyddyn heibio heb iddo bregethu arno. Gan deimlo fod dylanwad yr athrawon yn annigonol i gyfarfod ag ef, penderfynodd wneyd defnydd o'r drefn a ffynnai yn y Chweched Dosbarth, ac o *ffaggio* i'r diben hwnnw. Cynhwysai y Chweched y deg ar hugain bechgyn a ffurfient y dosbarth uchaf, a *ffaggio* oedd y gallu a roddid iddynt gan awdurdodau yr ysgol i'w ymarfer dros y bechgyn ts, er sicrhau llywodraeth reolaidd ymysg y bechgyn eu hunain. Mae gweithiad y drefn yma yn cael ei ddangos allan yn dda yn *Tom Brown's School Days*. Golygai y gallu a ymddiriedid i'r Chweched er cadw nerth anifeillaidd ymysg y bechgyn dan reolaeth, gan atal ymarferiadau drwg heb ymyriad yr athrawon, a delio weithiau gyda chwestiynau anhawdd o lywodraethiad yr ysgol, hyd yn oed i'r graddau o chwipio y rhai fyddent ar fai. Ystyriai Arnold y drefn yma fel cywair ei holl lywodraeth, a diffynnai y Chweched yn selog yn yr ymarferiad o'i gallu yn erbyn pob beirniadaeth wrthwynebol. Yn wir edrychai ar y drefn yma fel y prif foddion trwy ba un y gallai beri i'w ddylanwad ei hun gael ei deimlo trwy yr holl ysgol, a chreu parch i ragoriaeth moesol a meddyliol. Gwnai i'r *praepostors*, yr arolygwyr, deimlo eu bod yn gydweithwyr âg ef, er daioni pennaf yr

ysgol, a hynny ar yr egwyddorion a'r cymhellion uchaf; eu bod yn gyfrannog âg ef o gyfrifoldeb moesol ac o ddwfn ddyddordeb yng ngwir les yr ysgol. "Pan y mae gennyf ymddiried yn y Chweched," meddai unwaith wrthynt yn un o'i anerchiadau cyfnodol, "nid oes yr un lle yn Lloegr a newidiwn am hwn; ond os na fydd iddynt hwy fy nghy-northwyo, rhaid i mi fyned."

Moddion arall a ddefnyddiai Arnold er cadw disgyblaeth oedd troi allan. Hyd ei amser ef, yr oedd teimlad cyffredinol, oddieithr fod bachgen wedi cyflawni rhyw drosedd ysgeler, fod ganddo hawl i aros mewn ysgol gyhoeddus; yn wir, mai dyna y lle y dylid danfon bechgyn anhywaith ac aflywodraethus er chwipio eu drygau allan o honynt. Nid dyna olygiad Arnold. "Nes i ddyd ddyysgu mai dyledswydd gyntaf, ac ail, a thrydedd i ysgolfeistr ydyw mynnu ymwared o fechgyn anaddawol, ni all ysgol gyhoeddus fawr," meddai, "byth fod yr hyn a allai fod, a'r hyn a ddylai fod." Hynny yw, gwrthodai gadw yn yr ysgol unrhyw fachgen y meddyliai efe na chai fudd o'r fath addysgiaeth, neu ddylanwad yr hwn ar y plant a fyddai yn annymunol. Arweiniodd y dull yma o weithredu i lawer iawn o wrthwynebiad, ond yr oedd Arnold yn ddiysgog. Ar yr amod ei fod yn cael llaw rydd yn y mater yma yr ydoedd wedi ymgymeryd â'r lle o fod yn brif athraw, ac arferai ddweyd nad allai ei ddal ar unrhyw delerau ereill, neu gyflawnhau bodolaeth trefn o ysgolion cyhoeddus mewn gwlad Gristionogol. Cymerai ofal i wahaniaethu rhwng y symud yma a throi allan, fel y mae yn cael ei ddeall yn gyffredin. Ni throïd bachgyn allan ond am y troseddau moesol mwysaf ysgeler, a gwneid hynny yn dra difrifol o flaen yr holl ysgol. Ond am symud, pa un bynnag ai dros amser ai yn derfynol, cymerai ofal i ddangos nad ydoedd yn gosb, a dygid y peth oddiamgylch trwy drefniad preifat gyda'r rhieni, y rhai a ofynnid i gymeryd ymaith eu bachgen, yn gyffredin ar ddiwedd yr hanner blwyddyn, heb fod y bechgyn ereill yn yr ysgol, mae'n debyg, yn gwybod dim am y peth, ond fod hwn a hwn yn ymadael, neu wedi ymadael. Am un o'r bechgyn yma ysgrifennai at Bennaeth Coleg: "Nid oedd — yn fachgen drwg o gwbl, ond yr oedd wedi gordyfu ysgol yn ei gorff cyn ei fod wedi ei gordyfu mewn deall; yr ydoedd gan hynny yn arwr y bechgyn iau mewn nerth a dewredd; ac yr oedd y math yma o ragoriaeth yn gwneyd niwed iddo; felly mi gynghorais ei dad i'w gymeryd ymaith, a'i gael i mewn i Brifysgol cyn gynted ag y gellid." Ac at athraw prifat un arall: "Mae yn dda gennyf eich bod yn para i hoffi —, ac nid wyf yn synnu; canys mi fyddwn bob amser yn meddwl fod ysgol yn dwyn allan y drwg yn ei gymeriad, ac yn cadw i lawr y da. Mae rhai ereill yn yr un ffordd y rhai a gaech, yr wyf yn meddwl, yn ysgolorion boddhaol, ond nad ydynt yn dyfod ymlaen yma." "Ah," fe ddywedai am achos o'r fath yma, "pe buasai rhyfel y Peninsula yn mynd ymlaen yn awr, gallai dyn wybod beth i'w wneyd âg ef,—gwnelai ychydig flynyddoedd o galedi greadur gwych o hono."

Yn ail, am *Addysg* yr ysgol.

Mae yr ysbryd ymha un yr elai ymlaen gyda hyn yn cael ei ddangos gan ei waith yn dwyn i fewn weddi o flaen y wers gyntaf yn y Chweched bob bore. Dywedai fel rheswm am ei waith yn gwneyd

hynny, ei fod wedi cael poen neillduol wrth fynd ar ei union i'r dosbarth oddiwrth wely anghau un o'r bechgyn yn ei dŷ, a chanfod mor fawr oedd y newid; a meddyliai fod yn debyg mai y rheswm ydoedd nad oedd gwaith yr ysgol yn cael ei sancteiddio yn ddigonol i ogoniaut Duw. Fel hyn yr oedd yr holl wersi yn cael eu gwisgo a chymeriad crefyddol, tra yr oedd ei ddymuniad i godi cymeriad yr ysgol mewn gwybodaeth ac ymrôad yn gymaint â phe hynny fuasai ei brif nôd. Cyfrannai lawer o arian er sefydlu ysgoloriaethau a gwobrwyon, a chymerai ei hun lawer o waith ychwanegol mewn ffordd o arholi. Yr un pryd, ceisiai rwystro gorlafur; ymliwiai â bechgyn fyddent yn euog o hynny, ac os byddent yn y rhan uchaf o'r ysgol, gwahoddai hwynt i'w dŷ yn yr hanner blwyddyn neu yn y gwyliau i ymgyrfau. Yr oedd ganddo fydd gref yng nghyfuniad rhagoriaeth moesol a dealltwriaethol. "Yr wyf wedi cael yn barhaus," meddai unwaith wrth bregethu yn Rugby, "fod ffolineb ac annystyriaeth wedi myned i ddrwg; bod meddwl a dynolrwydd wedi cael eu huno â ffydd a daioni." Ac arhosai yn fynych ar "y ffrwyth yr wyf fi uwchlaw popeth yn hiraethu am dano—moddylgarwch moesol—cariad ymofyngar at wirionedd yn cyd-fyned â chariad ymroddgar at ddaioni." O hyfedredd, *cleverness*, yn unig, ni feddyliai Arnold ddim. Yr oedd yr anrhydedd Prifysgol a enillai y bechgyn ar un adeg, i fyny ag unrhyw ysgol gyfoeddus yn Lloegr, ond rhoddai efe bob amser bwys ar y ffaith mai nid hynny oedd prif ddiben addysgiaeth. Yr oedd ei gydymdeimlad â bechgyn diwyd yn hynod. Arferai ddweyd wrth ei blant yn Rugby fel yr ydoedd unwaith yn Laleham wedi cael ei gyfiawn geryddu am ei ddiffyg amynedd gyda bachgen hurt gan y bachgen ei hun, yr hwn a edrychai i fyny ato ac a ddywedai: "Pam yr ydych chi'n siarad yn ddig, Syr? Yn wir yr wyf yn gwneud y gorau a allaf." Yr oedd ganddo ddwfn barch i rai, tra heb allu, oeddent yn hynod am eu hegwyddor uchel a'u diwydrwydd. Mewn cyfeiriad at ysgoler o'r fath yma dywedai unwaith, "Mi safwn o flaen y dyn yna a'm het yn fy llaw."

Dallai y dylai efrydiau Clasurol fod yn sylfaen addysgiaeth feddyliol. Ar y llaw arall efe oedd y Sais cyntaf yn ein hysgolion cyhoeddus a dynnodd sylw at werth hanesyddol, gwleidyddol, ac athronyddol leitheg a'r hen yagrifonwyr, ar wahân oddiwrth ddim ond beirnadaeth eiriol ac "yngolheigddod gwych" y ganrif o'r blaen. Efe wnaeth yr ymgeis cyntaf i "ddiweddaroli" y cwrs o addysg trwy gymeryd i mewn, ynghyd â'r Clasuron, efrydiaeth Hanes Ddiweddar, Ieithoedd Ddiweddar a Mathematics, i waith yr Ysgol; ac mewn arholiadau ac wrth gefnuogi chwaraeth bechgyn neillduol at Ddaearag ac efrydian ersill, fe roddodd gyhoewniad cyffredinol i ddarllen amrywiaethol. Yr oedd ei ddull o addysgu yn seiliedig ar yr egwyddor o ddefro dealltwriaeth pob bachgen. Am hynny fe addysgai trwy gwestiyno, ac fel rheol ni roddai wybodaeth ond fel gwobr am ateb. Rhoddai bwys mawr ar gyfauoddad gwreiddiol, ond alltudiai y fath destynau dansoddol ag "Y mas rhwnged yn bech da," a rhoddai i'r bechgyn destynau i ysgri-fennu am ba rai y gallid disgwyl fod ganddynt ryw syniadau,—megis disgrifiadau hanesyddol neu ddaearyddol. Arferai fod yn ddiystyr o arddull mewn cynhariaeth i arddangosiadau o wir feddwl, a gwnai ei orau i gefnuogi yr olaf. Nodwddid ei addysgu bob amser gan absen-

oldeb o bob arddanghosiad, yr hyn a barai i'r bechgyn deimlo fod yr hyn a ddywedai bob amser gyda golwg ar eu dysgu hwy, ac nid i ddangos ei ddysg ei hun. Ni chelai un amser anhawsterau, ac ni phetrusai gyffesu anwybodaeth, a chydabyddai gamgymeriadau yn ei Thucydides, neu apeliai at fechgyn blaenllaw ar gwestiynau anhawdd mewn Ffrancaeg neu Fathematics. Teimlai y dylai athraw bob amser fod uwchlaw lefel ei ysgolorion, yn ddealltwriaethol yn gystal ag yn foesol, a daliai na ddylai un ysgolfeistr aros yn ei le yn hwy na phedair blynedd ar ddeg neu bymtheng mlynedd, rhag, erbyn hynny, iddo fod wedi syrthio yn ol i ysgolheigddod yr oes. Yn y gwersi cyffredin, danghosid ei ysgolheigddod yn bennaf yn ei allu i gyfieithu o'r Lladin a'r Groeg i'r Saesneg,—gallu a gyraeddasai yn Winchester, ac a ddiwylliasai yn ystod gwyliau yr haf tra yn Rhydychen trwy gyfieithu Homer er sirioli gwely cystudd chwaer oedd wedi colli ei hiechyd. Arferai amddiffyn yn bur gryf y dull o gyfieithu i Saesneg da, yn wrthgyferbyniol i'r dull a ddilynir yn fwy cyffredin o roddi ystyr manwl pob gair. Pan ofynnid iddo unwaith ai ni theimlai fod myned dros yr un gwersi o hyd yn flinderus, atebai: "Nac ydwyf, y mae newydd-deb parhaus ynddynt. Yr wyf yn cael rhywbeth newydd ynddynt bob tro yr âf drostynt." Ac fe nodweddid ei wersi oll gan dôn grefyddol. Mewn pregeth argymhellai y bechgyn i "nodi mewn unrhyw waith cyffredin a ddarllenent y fath olygiadau ar ddynion a pethau, a'r fath dôn wrth siarad am danynt ag a fyddai yn amlwg yn wahanol i ysbryd Crist." A byddai efe ei hun yn cario hynny allan yn gyflawn. Yn y gwersi Ysgrythyrol, fe darewid y bechgyn gyda'r cyfuniad o barchedig-aeth a gonestrwydd yn ei ddull. Ysgrifennai ysgolor mewn cyfeiriad at y gwersi hyn: "Ymddanghosai i mi yn hynod am ei allu i sylweddoli popeth a ddywedir wrthym yn yr Ysgrythyr. Ymddanghosai fel yn meddu y golygiad mwyaf newydd am fywyd a marwolaeth ein Harglwydd a wybŷm i neb ei feddu erioed. Byddai ei feddwl cyfoethog yn llanw i fyny amlinelliad noeth yr hanes yn yr Efyngyl; iddo ef yr ydoedd y *ffaith* fwyaf dyddorol a ddigwyddasai erioed,—mor wirioneddol, mor *gyffrous*—os gallaf ddefnyddio y gair—ag unrhyw ddigwyddiad newydd gymeryd lle mewn hanes diweddar, effeithiau pa un oedd o flaen ein llygaid. Ac yr oedd ei holl esboniadaeth, ar ba olwg bynnag ar ysbrydoliaeth y byddai yn cael ei rhoddi, bob amser mewn tŷn a dull a adawai argraff mai o'r Llyfr ydoedd o'i flaen yr oedd efe mewn gwirionedd yn ceisio tynnu ei reol buchedd; a thra y chwiliai ef o ddifrif er cael allan beth ydoedd ei feddwl, eto wedi iddo ei gael, ei fod yn bwriadu glynu wrtho."

Yn drydydd, am y *Capel*, y pwynt yn arbennig o amgylch pa un y mae dyddordeb bywyd ysgol Arnold yn Rugby yn naturiol grynhoi.

Yn un o'i bregethau diweddar dywedai: "Da fyddai, ie i ddyn cwbl ddieithr a fyddai yn bresennol yn y gwasanaeth dwyfol yn y capel hwn, deimlo rhywbeth mwy na dyddordeb cyffredin yn yr olwg ar y gynulleidfa sydd yma wedi dyfod ynghyd. Ond os ydyw yr olygfa o gymaint dyddordeb i ddyn dieithr, beth ddylai fod i ni, i chwi ac i minnau?" Yr oedd ei agwedd wrth fyned trwy y gwasanaeth yn gyfuniad cyflawn o ddynolrwydd a defosiwn, o urddas a symledd; ac ni allai ei ddiffrifoldeb ef ei hun lai na galw allan ddyddordeb cyfatebol

ar ran ei ysgolorion. Cyfranogid o'r Cymundeb, a weinyddid bedair gwaith yn y flwyddyn, ar y dechreu yn unig gan y bechgyn hynaf; ond anogai bawb yr oedd ganddynt rhyw feddyliau difrifol o unrhyw ran o'r ysgol i ddyfod, a byddai y nifer weithiau yn cyrraedd cant. Anherchai hwynt yn bur ddifrifol ar y mater yn ei bregethau. "A phan," medd un, "yn enwedig at fechgyn ieuainc iawn a gyfranogent o'r Cymundeb, y gŵyrai i lawr gyda golwg o dynherwch tadol a llygaid yn loewen gan ddagrau, a chyda llais crynedig, wrth estyn yr elfennau, fe deimlid, feallai yn fwy nag ar unrhyw adeg arall, mor fawr oedd ei gydymdeimlad â'r dynesiadau boreuaf at ddaioni ymhob un o'r bechgyn." Ond feallai mai yn ei bregethau wythnosol ar brydnawn Saboth y dylanwadau fwyaf ar y bechgyn. Pregethai y rhai hyn yn rheolaidd o 1831 pan benodwyd ef yn gaplan, hyd ei farwolaeth yn 1842. Nid ydoedd wedi bod yn arferol i brif athraw ysgol gyhoeddus fod yn gaplan hefyd; ond yr oedd Arnold yn anfoddlawn i'r hyn a ystyriai efe fel un o ddyledswyddau pwysicaf y prif athraw gael ei rhoddi drosodd i neb arall. Ac y mae'n debyg y bydd ei bregethau, fel y maent y rhai cyntaf o'r fath, yn hir yn cael edrych arnynt fel cynlluniau o bregethau ysgol. Byddent, gan mwyaf, yn uniongyrchol ymarferol; ond yn achlysurol fe bregethai ar ddeongliadaeth yr Ysgrythyr, ar egwyddorion cyffredinol a phroffion Cristionogaeth, neu ar beryglon eu bywyd ar ol hynny. Byddai ei anerchiadau ymarferol, bron fel mewn ymddiddan, yn ymdrin â sefyllfa neillduol ysgolion cyhoeddus; eto ni fyddent byth yn gyffredin, ac anfynych y gwnai gyfeiriad personol. Pan oedd ganddo unwaith i siarad â'r bechgyn am achos o ddrwydded anwiredd, pregethodd y bregeth o flaen y gwasanaeth cyffredin, fel ag i fod ar ei ben ei hun gyda'r bechgyn, heb hyd yn oed yr athrawon ereill. Siaradai yn aml gyda llymder am ddrygau y lle, ond ni fyddai byth fawr un bregeth na chynhwysai rai geiriau o galonogiad." "Yr wyf yn meddwl," meddai yn ei bregeth olaf, "ei fod yn berffaith iawn sylwi ar yr hyn sydd obeithiol ynom yn gystal â'r hyn sydd fygythiol; fod cyffesiadau cyffredinol o ddrwg digymysg o duedd i dwyllo a chaledu, yn hytrach nag i gyffroi; nad ydyw drwg byth yn ymddangos mor wiioneddol dywyll â phan wrthgyferbynnwn ef ag unrhyw dda a all fod ynom" Am ddisgrifiad rhagorol o wasanaeth prydawnol yng nghapel Rugby trôer i *Tom Brown's School Days*, I. vii.

Yn bedwerydd, ei *Ymwneyd Personol â'r ysgolorion*.

Yr oedd ieuengrwydd a hydwythedd ei gyfansoddiaid yn fantais iddo yn ei ymwneyd â'r bechgyn. "Pan welaf na allaf redeg i fyny risiau y llyfrgell," meddai, "mi wn ei fod yn amser i mi fynd." Er nad yn naturiol yn sylwedydd ar gymeriadau, fe enillodd ddofnu adnabyddiaeth o nodweddion cyffredinol bechgyndod. "Yn fynych iawn," ebe un o'i ysgolorion, "y dywedais wrthyf fy hun, Pe un o honom ni ein hunain a fuasai newydd siarad, na allasai fod wedi gwybod a deall yn fwy cyflawn ein meddyliau a'n syniadau." Arferai wahodd y bechgyn o'r *schoolhouses* i'w dŷ ei hun mewn achosion o afiechyd a phroffedigaeth, cyfarfyddai â hwynt yn y dosbarth Confirmasiwn, ac yn ystod y rhan olaf o'i oes rhoddai awr neu ddwy yn y prydawn i ymddiddan â hwy naill ar ol y llall. Ddwywaith yn y dydd gwelai yr oll oedd yn

byrddio o dan ei ofal i alw eu henwau, ac adeg yr addoliad a ddilynai alw yr enwau yn yr hwyr, arferai ddarllen rhan o'r Ysgrhythyr, ac ar nos Saboth rhoddai i'r bechgyn ychydig o anerchiad. Yr oedd rheolaeth gyffredinol yr ysgol yn cael ei adael hyd yr oedd yn bosibl yn llaw y *propostors*. Am ddarlun o'r Doctor yn ei ymwneyd â bechgyn y *schoolhouse*—moesgar, caredig, cyfiawn,—rhaid i mi eto gyfeirio at *Tom Brown's School Days*. Gyda'r Chweched fe gâi ychwaneg o gyfleusterau, yn y ciniawau hanner-blynyddol gydag ef, y galwadau cyn ac wedi y gwyliau, ymweliadau yn ystod y gwyliau, &c. Ymogelai rhag rhoddi cyngor yn uniongyrchol gymaint ag a fyddai yn bosibl, mewn rhan o herwydd ei dawedogrwydd naturiol, ac mewn rhan ar gyfrif ei egwyddor o adael cymaint ag a fyddai yn bosibl i'w lanw i fyny gan farn y bechgyn eu hunain, a'i argyhoeddiad y rhaid i symudiad yn y materion pwysicaf oll ddyfod oddi mewn, ac nid oddi allan. Yr oedd y ffaith hyn yn anaml y cymerai hynny le, yn rhoddi dwbl werth ar yr oll a ddywedai. Ond ar wahân i ddim a ddywedid, yr oedd dwfn is-lifiad o gydymdeimlad a gyrhaeddai bron yr oll. Un o'i ysgolorion, a darewsid ei hun gan lymder ei ddull pan ddaeth gyntaf i'r ysgol, a amlygai ei syndod pan ddywedai wrtho mor ddwfn y teimlai wrth dderbyn bachgen newydd oddiwrth ei rieni, gan wybod y dylanwad mawr oedd yn yr ysgol er drwg yn gystal ag er da. "Pe gallwn byth," meddai, "dderbyn bachgen oddiwrth ei rieni heb deimlad, mi dybiwn ei fod yn hen amser i mi fod ymaith." Derbynai y bechgyn eu har-graff am dano, nid yn gymaint oddiwrth ymwneyd ac ymddiddan uniongyrchol âg ef, ag oddiwrth ddyylanwad cyffredinol ei holl gymeriad fel y'i danghosid yn ei holl ymwneyd â hwynt. Yr oedd ei ddull, mewn rhan o yswildod, i fesur yn ddreng, yn tueddu i beri ofn yn hytrach na serch. Felly gerwindeb ei gymeriad a darawai yr oll oddieithr y bechgyn bach, y rhai a drinai gyda thiriondeb chwareus a thynherwch ydoedd bob amser yn nodi ei ymwneyd â phlant bychain. Ond elai ofn yn edmygedd, ac edmygedd yn ffyddlondeb, fel yr elai bechgyn ymlaen yn yr ysgol. "Yr wyf yn sicr," ysgrifennai ysgolor na fuasai dim cymundeb personol rhynyddo âg ef tra yn yr ysgol, nac ond ychydig wedyn, ac na fuasai yn y Chweched Dosbarth, "nad wyf yn dweyd gormod am fy nheimlad pan ddywedaf fy mod yn teimlo cariad a pharchedigaeth ato fel un o fawredd a daioni ag oedd yn ofnadwy, dros yr hwn yr arferwn feddwl y buaswn yn llawen yn rhoi fy mywyd i lawr;" gan ychwanegu mewn cyfeiriad at y cymdeithion difeddwl y trôai yn eu plith: "Byddwn yn meddwl fod gen innau hefyd waith i'w wneyd erddo yn yr ysgol; ac er ei fwyn ef mi ymdrechais i godi tôn y rhai yr oeddwn gyda hwynt, yn neillduol gyda golwg arno ef." Fel y gwelent fwy o honno, ac y deuent i'w adnabod yn well yn y Chweched, fe chwangedid at eu gwerthfawrogiad o'i gymeriad a'i allu, y grediniaeth falch eu bod yn ysgolorion dyn na fyddai yn llai hynod i'r byd nag ydoedd iddynt hwy. Ac wedi iddynt adael yr ysgol, ymddanghosai fod dyddordeb Arnold yn y bechgyn, yn lle lleihau, yn cynhyddu. Calonogai hwynt i ddyfod i'w weled, ac i ysgrifennu ato, a pharai iddynt deimlo fod ei gydymdeimlad a'i help bob amser yn barod iddynt. Er yn gorfod gweithio yn galed, fe gâi yn wastad amser at yr ohebiaeth a ddygai hynny arno. Ac wedi ychydig flynyddoedd o'i fywyd yn Rugby, ni fyddai gwyliau

yn pasio heb fod rhai o'i hên ysgolorion yn ymweled âg ef. Pan yn cael ei fflino gan helyntion o fewn yr ysgol neu wrthwynebiad oddi allan, fe droai, fel yr arferai ddweyd, at eu hymweliadau hwy, "fel at un o ffynhonnau gloewaf bywyd."

Yn Fox How, Westmoreland, ystâd fechan a brynasai yn 1832, y byddai ei ysgolorion yn gyffredin yn ymweled âg Arnold. Ni chafodd Rugby fel lle erioed y fath asael ar ei deimlad â Rhydychen a Laleham. Yr oedd ei gariad cryf at brydferthwch ac amrywiaeth naturiol yn peri fod golygfeydd swydd Warwick yn hollol wrthwynebus ganddo; a chyn gynted ag y byddai gwaith y term drosodd, byddai yn dda ganddo ddianc, os nad elai ar lâl, i'w encilfa anwyl ar lannau y Rotha. Yma fe ymfwynhâi ym mbrydferthion natur. Cymerai wibdeithiau meithion gyda'i wraig a'i blant trwy goed a thros fynydd. Yma hefyd cafodd gydnabyddiaeth â Southey ac â Wordsworth. Edrychai ymlaen at dreulio henaint tawel yn Fox How, ac yno gario allan y cynlluniau nad allai yn Rugby ond yn unig eu dechreu.

Er mai hawl neillduol Arnold i fawredd ydyw ei waith professewr-iaethol fel ysgolfeistr, eto yr oedd ei fywyd cyhoeddus, yr hwn y gellid dweyd ei fod wedi ei ddechreu pan aeth i Rugby yn rhan mor hanfodol o'r dyn, ac fe fu yn foddion iddo gario cymaint o ddylanw er da, fel y mae yn rhaid iddo ddyfod i mewn am ran o'n slyw.

Yr oedd Arnold mewn modd arbennig yn ymarferol, nid ystyr gyffredin o "ddyn ymarferol," ond yn yr ystyr ehangach o beidio meddu unrhyw olygiadau, pa mor dd bynnag, na cheisai eu dwyn i ymarferiad yn gynt neu Arferai ddweyd, "Byddaf bob amser yn meddwl : fawreddog honno o eiddo Bacon, 'Yn ... a hwn, D ... Cy ... ydd ...' anglyion all fod yn edrychwyr.'" Cy ... ydd ... mewn gwleidyddiaeth, a thrwy ei ... mawr ar y wlad. "Rhaid i ... yn fyfych mewn amserau o ddy ... ei egwyddorion Rhyddfrydol," n ... o'i ymlyniad wrth Weinyddiaeth ... angenrheidrwydd parhaus o gyn ... ymlaen a diwygiad, y rhai yn eu ... un â Christianogaeth ei hun ... gwrthwynebol i newidiad. Nid ... gwelir oddiwrth y ffaith yr hawl ... yr oll fel eu gilydd. Ac ychydig ... ar ran ei blant nag a derfyna ... Daw i fy meibion, os byddan ... wirionedd, a phenderfyniad ... ffeidd-dod angherddol ... hwnnw sydd yn eu ...

Ond llawer ...
egwydd ...
ba rai y ...
i ddarllen o angen...

They ...
H...

yn pasio heb fod rhai o'i hen ysgolorion yn ymweled âg ef. Pan yn cael ei ffino gan helyntion o fewn yr ysgol neu wrthwynebiad oddi allan, fe dröai, fel yr arferai ddweyd, at eu hymweliadau hwy, "fel at un o ffynhonnau gloewaf bywyd."

Yn Fox How, Westmoreland, ystâd fechan a brynasai yn 1832, y byddai ei ysgolorion yn gyffredin yn ymweled âg Arnold. Ni chafodd Rugby fel lle erioed y fath afael ar ei deimlad â Rhydychen a Laleham. Yr oedd ei gariad cryf at brydferthwch ac amrywiaeth naturiol yn peri fod golygfeydd swydd Warwick yn hollol wrthwynebus ganddo; a chyn gynted ag y byddai gwaith y term drosodd, byddai yn dda ganddo ddianc, os nad elai ar léd, i'w encilfa anwyl ar lannau y Rotha. Yma fe ymfwynhâi ym mhrydferthion natur. Cymerai wibdeithiau meithion gyda'i wraig a'i blant trwy goed a thros fynydd. Yma hefyd cafodd gydnabyddiaeth â Southey ac â Wordsworth. Edrychai ymlaen at dreulio henaint tawel yn Fox How, ac yno gario allan y cynlluniau nad allai yn Rugby ond yn unig eu dechreu.

Er mai hawl neillduol Arnold i fawredd ydyw ei waith profeswr-iaethol fel ysgolfeistr, eto yr oedd ei fywyd cyhoeddus, yr hwn y gellid dweyd ei fod wedi ei ddechreu pan aeth i Rugby yn rhan mor hanfodol o'r dyn, ac fe fu yn foddion iddo gario cymaint o ddylanwad er da, fel y mae yn rhaid iddo ddyfod i mewn am ran o'n slyw.

Yr oedd Arnold mewn modd arbennig yn ymarferol, nid yn yr ystyr gyffredin o "ddyn ymarferol," ond yn yr ystyr llawer ehangach o beidio meddu unrhyw olygiadau, pa mor ddyrchafedig bynnag, na cheisai eu dwyn i ymarferiad yn gynt neu yn hwyrach. Arferai ddweyd, "Byddaf bob amser yn meddwl am y frawddeg fawreddog honno o eiddo Bacon, 'Yn y byd hwn, Duw yn unig a'r angylion all fod yn edrychwyr.'" Cymerai y dyddordeb mwyaf byw mewn gwleidyddiaeth, a thrwy ei ysgrifeniadau cariodd ddylanwad mawr ar y wlad. "Rhaid i mi ysgrifennu neu farw," dywedai yn fynych mewn amserau o ddyddordeb cyhoeddus mawr. "Nid oedd ei egwyddorion Rhyddfrydol," meddai Stanley, "yn unig yn ddatganiad o'i ymlyniad wrth Weinyddiaeth Whigaid, ond o'i grediniaeth yn yr angenrheidrwydd parhaus o gymhwyso yr egwyddorion hynny o fyned ymlaen a diwygiad, y rhai yn eu dadblygiad perffeithiaf a ystyriai yr un â Christianogaeth ei hunan." Cashâi Geidwadaeth fel ysbryd gwrthwynebol i newidiad. Nid ydoedd yn aelod o unrhyw blaid, fel y gwelir oddiwrth y ffaiith yr hawlid neu yr ymwrthodid ag ef yn eu tro gan yr oll fel eu gilydd. Ac ychydig ddymuniadau gwresocach a goleddai ar ran ei blant nag a derfyna un o'i lythyrnod atynt: "Caniatâd Duw i fy meibion, os byddant fyw hyd ddyndod, gariad ansigledig at wirionedd, a phenderfyniad diysgog i'w ddilyn drostynt eu hunain, gyda ffeidd-dod angherddol o bob rhwymau plaid, oddieithr yr un rhwymyn hwnnw sydd yn eu cylmu wrth blaid Crist yn erbyn drygioni."

Ond llawer pwysicach nag unrhyw awgrymiadau ymarferol oedd yr egwyddorion sefydlog a orweddent y tu cefn i'w holl ysgrifeniadau, ac ar ba rai y seiliai bob amser ei hawl i gael ei wrando. Yr oedd ei amser i ddarllen o angenrheidrwydd yn brin, ond

They can make who fail to find
Brief leisure e'en in busiest days.

Ac yr oedd ganddo allu hynod i wneyd defnydd o funudau achlysurol, ac i feistroli cynnwys llyfr mewn ychydig iawn o amser, yn gystal â chôf tra gafaelgar; ac yr ydoedd yn efrdydd diffino hyd y diwedd. Am yr hyn ydoedd fel hanesydd, athronydd, a duwinydd, rhaid i ni farnu ei fwriadau yn hytrach na'r hyn a gyflawnodd. Buasai ei olygiadau wedi dyfod i lawr atom yn llawn mewn tri gwaith mawr: Hanes Rhufain, Esboniad ar y Testament Newydd, a Thraethawd ar Eglwys a Gwladwriaeth, neu Wleidyddiaeth Gristionogol,—gyda pharai y bwriadau dreulio ei flynyddoedd olaf: ond

We doubt not that for one so true
There must be other nobler work to do,

ac efe a fu farw.

Cynhyddai ei hoffder boreuol at Hanes gyda'i flynyddoedd, ac yr oedd ganddo allu rhyfeddol i sylweddoli yn dra byw olygfeydd y gorffennol. Ei amcan fel hanesydd oedd, nid yn unig dangos beth wnaeth dynion, ond beth a feddyliant ac a deimlent; mewn gair, cynhyrchu darlun, nid cynllun o'r gorffennol; ac uwchlaw popeth, yr ydoedd yn awyddus am i'w Hanes anadlu ysbryd Cristionogaeth, a "thrwy ei moeseg uchel a'i thôn gyffredinol, fod o wasanaeth i'r achos heb yn weithredol ei ddwyn ger bron."

Mewn Duwinyddiaeth yr oedd ei ddyddordeb yn fwy fyth, a theimlai fod ei waith yn nehongliad a chymhwysiad yr Ysgrhythrau yn llawer mwy angenrheidiol. Gwnaeth amgylchiadau iddo gymeryd i fyny Hanes Rhufain yn lle Deongliadaeth; ond trwy yr hyn a wnaeth "y mae Arnold wedi gosod ger bron ddull," ebe un o'i ysgolorion, "wedi sefydlu egwyddorion a rheolau o ddehongli yr Ysgrhythr, y rhai, gyda bendith Duw, fydd yn arweiniad i lawer llafurwr dyfodol, ac a addawant ac a gynhyrchant ffrwyth o amrhisiadwy werth."

Am ei waith bwriadol ar Eglwys a Gwladwriaeth, meddyliai fod achos llesteiriad buddugoliaeth Cristionogaeth i'w gael yn llygriad yr Eglwys. Anghymeradwyai yn fawr iawn fod yr enw Eglwys yn cael ei ddefnyddio am y Clerigwyr, a theimlai yn gryf yn erbyn yr egwyddor o ysgariad rhwng gwŷr llên a llyegwyr. Edrychai ymlaen at fod Cymdeithas Gristionogol yn gwbl yr un â chymdeithas wleidyddol; "ac er," meddai, "na fydd byth wedi ei lawn sylweddoli, eto os gellir cael dynion i edrych at hyn fel y wir egwyddor, gallai y dynesiadau ymarferol ati, ynghwrs amser, ddyfod yn fawrion iawn."

Y mae diwygiwr mawr, trwy fod o flaen ei oes, o angenrheidrwydd yn cael ei gamddeall gan ei gydoeswyr, ac i ryw fesur yn colli ymddiried. Ac er ar lawer o bethau fod llygaid y genedl ar ol hynny wedi cael eu hagog i'r gwirioneddau a welai Arnold mor glir ac a ddiffynnai mor selog, eto yn ei amser ei hun, ac yn neillduol yn y deng mlynedd cyntaf o'i fywyd yn Rugby, fe'i camddarlunid, fe ymosodid arno, ac fe'i henllibid; a'r hyn oedd yn peri llawer iawn mwy o boen iddo na dim camdriniaeth gyhoeddus, fe gollodd gydymdeimlad, cefnogaeth, ac mewn rhai achosion gyfeillgarwech llawer o ddynion yr oedd eu barn dda yn werthfawr yn ei olwg. Fe deimlid dynesiad cyntaf ystorm-gwmwl yr amblogrwydd dan ba un y llafuriai yn 1828, pan gyhoeddodd ei gyfrol gyntaf o bregethau. Yr

oedd y Clerigwyr yn dramgwyddus wrth arddull y progethau, "mor wahanol i'r hyn a ddisgwyliai pobl oddiwrth offeiriad o'r Eglwys Sefydledig, ac ysgolhaig o'r dosbarth cyntaf heblaw hynny." Darfu i'w bamffled ar "Y Ddyledsdydd Gristionogol o ganiatáu Hawliau y Pabyddion," bellhau y Clerigwyr yn fwy, am y daliai eu bod, o herwydd peidio ystyried "tarddiad, hawliau, a chwyldroadau olynol cymdeithas," yn anghymwys i benderfynu cwestiynau hanesyddol a gwleidyddol. Yn 1831 a 1832 gruddfannai y deyrnas dan haint y Colera, a'r cyfyngder â'i dilynai ymysg y tlodion, yr hwn a fygythiai dorri allan yn wrthryfel. Arnold oedd y cyntaf i weled—yr hyn sydd ar ol hynny wedi cael ei gydnabod ar bob llaw—fod gan y tlodion eu cwynion, ac y rhaid gwneyd rhywbeth er mwyn cyfarfod â hwynt. "Yr ydym yn byw," ysgrifennai at ei chwæer yr amser yma, "ymysg poblogaeth yr ydym yn drin gyda'r holl draha a'r anystyriaeth ag y gallem drin slafiaid, y rhai a adawn i fod yn slafiaid mewn anwybodaeth, heb eu cadwyno a'u gwyllo rhag iddynt beri niwed i ni." Yn ei ymwneyd â'r tlodion yn Rugby fe gerrid ei egwyddorion allan i ymarferiad. Arferai ymddiddan yn fynych â'r tlodion yn yr elusendy, a phob amser fel cyfaill â'i gyfartal. Dymunai ymweled â hwynt "fel cymdogion, heb ymddangos bob amser yn benderfynol o'u helpu neu eu dysgu." Siaradai â gweinidogion ei dŷ fel cynifer o aelodau o'r cylch teuluaid. Ac yn hyn "nid oedd dim rhodres ymostyngiad; cyfarchiad dynol i gyd-ddyn ydoedd, dyn yn cyfarch dyn." "Ni adwaenais erioed ddyn mor ostyngedig â'r Doctor," ebe clochydd Laleham wedi iddo ddyfod i ymweled â'r lle o Rugby, "mas'n dwad i ysgwyd llaw â ni fel pe bai yn un o honom." Yr oedd yn awyddus i gael cylchgrawn i'r tlodion, "na wnai ategu camwri, na chuddio pechodau, na baldordd wrth y tlodion fel pe byddent blant;" ond "a siaradai wrthynt yn hyf, yn blaen, yn ddiwyll, ac yn ysbryd cariad a chydreddoldeb." Gyda'r amcan yma cychwynodd "*The Englishman's Register*." Ond canlyniad hyn oll oedd ei fod yn cael ei gondemnio fel democrat a chwyldroadwr, a'i gyhuddo o ddysgu *politics* i'r bechgyn.

Tua'r un amser darfu i gyhoeddiad "Traethawd ar Iawn Ddehongliad a Dealltwriaeth o'r Ysgrhythrau" ei wneyd yn agored i ymosodiad trwy newydd-deb y golygiadau a osodai ger bron. Yn 1833 cyhoeddodd bamffled ar "Ddiwygiad yr Eglwys," a dilynwyd hyn gan fwy o gamddealltwriaeth ac anfoddlonrwydd. Dewisai pob plaid deimlo fod ei golygiadau neillduol hi ei hun yn cael ymosod arnynt. Ymneillduwyr neu offeiriad Uchel-Eglwysig, Rhyddfrydwyr neu Geidwadwyr—cytunent oll i gondemnio yr ysgrifennydd. "Ond yn annibynnol ar fater y pamffled," ebe y diweddar Deon Stanley, "yr oedd ei gyhoeddiad yn arwydd er ffrwydrad cyffredinol yr anferth ofn a drwgdybiaeth oedd mewn cynifer o feddyliau wedi codi yn ei erbyn er pan ddaethai yn adnabyddus i'r cyhoedd; ymysg y werin am ei bamffled ar Hawliau y Pabyddion; ymysg rhai mwy meddylgar am ei draethawd ar Ddehongliad yr Ysgrhythrau; ymysg dynion yn gyffredin, am y cyfyniad o ofn amhenodol a chasineb sydd bron yn sicr o gael ei gynhyrfu gan bresenoldeb digroesaw dyn a fedd benderfyniad i gynnyg, difrifoldeb i ymgais at, ac ynni i ddwyn oddiamgylch unrhyw gyfnewid-

iad mawr, uail ai ym marn y lliaws ai mewn sefydliadau." Am y pedair blynedd dyfodol yr ydoedd yn byw dan gwmwl. Yng ngeiriau bywgraffydd Americanaidd, "Fe gysylltid ei enw â phob camgymeriadau, camweddau, a phechodau posibl, a rhai amhosibl, o beidio gwneyd ac o wneyd." Fe'i condemnwyd yn bersonol ym Mhrifysgol Rhydychen. Cyhuddwyd ef hyd yn oed o lygru egwyddor grefyddol y bechgyn. Ond edrychai efe ar bob ymosodiad arno ei hun ac ar yr ysgol gyda distawrwydd urddasol ymwybodolrwydd o uniondeb. "Mae fy mhenderfyniad yn sefydlog," meddai, "i'w gadael yn llongydd, ac i beidio ar un cyfrif eu hateb yn y papurau"

Yn 1836 dengys ei lythyrau fel ei poenid wrth weled golygiadau Dr. Newman yn ffynnu gymaint yn Rhydychen. Iddo ef ymddanghosai Newman a'i blaidd yn eilunaddolwyr, gan eu bod yn "gosod Eglwys Crist, Sacramentau Crist, a Gweinidogion Crist yn lle Crist ei Hunan." Dywedai unwaith mai ei gariad at unrhyw le, person neu sefydliad, oedd union fesur ei ddymuniaid i'w diwygio; a'i gariad dwfn a gwresog at Rydychen a barai iddo deimlo yn gymaint oddiwrth ledaeniad y cyfeiliornadau hynny "yn y Brifysgol hynafol a mawreddog ar lannau y Thames." Nid oedd ganddo ef ond ffydd fach mewn llawer o bethau y gwna y bobl hyn eilunod o honynt; er engraifft, fel yma y dywedai am Esgobyddiaeth:—"Y mae dadleu am yr angenrheidrwydd o Esgobyddiaeth yr un peth a dadleu am yr angenrheidrwydd o enwaediad; y mae ac yr oedd y ddau yn gyfreithlawn; ond dywedyd fod y naill neu y llall yn angenrheidiol sydd anghristionogol, ac yn rhwymo yr eglwys dan iau ordinhadau cnawdol; a'r rheswm pŷham y dywedwyd nad oedd enwaediad yn rhwym ar Gristionogion, er ei orchymyn unwaith, sydd yn llawer cryfach yn erbyn natur rwym Esgobyddiaeth, yr hon ni orchymynwyd mewn un modd erioed."

Fe'i hetholwyd yn Gymrawd o Brifysgol Llundain yn 1835, ond tra yn mawr gymeradwyo Prifysgol anenwadol, ni chaniatâi fod unrhyw addysgiaeth yn werth yr enw os na fyddai wedi ei seilio ar grefydd, a diffynnai yn gryf arholiad yn yr Ysgrhythyr fel rhan angenrheidiol yn y cwrs am raddau. Cafodd ei hun yn y lleiafrif, ac wedi ymdrechu yn ofer i droi Senedd y Brifysgol i'w olygiad ei hun rhoddodd ei *Fellowship* i fyny.

Ac yna ar ol yr ystormydd daeth cyfnod o dawelwch a thangnefedd. "Pa le bynnag y mae gwirionedd yn tarddu o'r ddaear," ysgrifennai Dr. Lewis Edwards—teilwng frawd i Dr. Arnold—mewn erthygl fer ar Arnold yn NHRÆTHODYDD 1846, "y mae cyfiawnder yn edrych i lawr o'r nefoedd." Yr oedd y rhagfarnau yn ei erbyn yn marw ymaith, daeth ei amcanion i gael eu deall yn well, ac yr oedd ei ddylanwad yn Rugby ac ymhob man arall yn parhaus ymledu a dyfnhau. Yr oedd yntau, wedi teimlo yn ddwfn y sefyllfa yr oedd ei ysgrifeniadau wedi ei ddwyn iddi, yn awr, fe allai, yn foddlon i aros mwy ar y gwirioneddau a'r egwyddorion mawrion yn y rhai y cytunai ereill, a llai ar y materion is ymha rai y gwahaniaethai cynifer oddiwrtho. Cynhyddai y nifer yn yr ysgol yn gymaint fel yr oedd raid iddo wrthod ceisiadau, ac yn gyffredinol am y pedair blynedd olaf o'i oes yr oedd ei egwyddorion a'i ymarferiad yn cael eu canmol yn gymaint ag yr oeddent o'r blaen yn cael eu condemnio.

Yn 1841 sylweddolwyd ei obaith anwylaf trwy ei apwyntiad yn *Regius Professor of History* ym Mhrifysgol Rhydychen, apwyntiad a'i dygai unwaith eto i gymundeb agos a'i Brifysgol, ac a'i galluogai i alnewyddu ei fwynhad o'r wlad brydferth o amgylch Rhydychen, tra y sicrhâi iddo waith cydnaws a chynhaliath gysurus, ar ba un y gallai ymneillduo pan ddsuai ei waith yn Rugby yn ormod iddo. Rhoddodd y gyfres arweiniol o ddarlithiau yn gynnar yn 1842. Yr oedd y derbynriad a gafodd o'r fath fwyaf brwdfrydig. Yr oedd y nifer a ddeuent i'w wrando mor fawr fel y newidiwyd y ddarlithfa arferol am y theatr. Yr oedd awdurdodau uchaf y Brifysgol, a'r dynion ieuainc, ymysg pa rai yr oedd bellach lawer o hen ysgolorion Arnold, am y goreu yn ei anrhydeddu, tra'r oedd efe gyda theimlad amlwg yn amlygu ei werthfawrogiad o'r fraint o annerch ei wrandawyr fel un o Broffeswyr Rhydychen, gan gydnabod "nad oedd yr un fraint a werthfawrogiad yn fwy, yr un wobr neu anrhydedd cyhoeddus a fuasai yn fwy derbynol ganddo." Ac nid oedd ei bleser yn llai pan, wedi i waith y dydd fyned drosodd, y trôai allan gyda'i blant neu ei hen ysgolorion i archwilio hoff gyrchleoedd ei ieuencid, heb eu gweled ers ngain mlynedd, ond a gofid ganddo fel doe.

Yr oedd pedwaredd flwyddyn ar ddeg Arnold yn Rugby yn tynnu at ei theryn, ac yr ydoedd yntau yn edrych ymlaen fel arferol at ei wyliau yn Fox How. Yr ydoedd y rhuthr arferol o arholiadau yn cymeryd lle, diwrnod olaf y term, y *speechday*, ar ddydd Gwener, Mehefin 10fed, ac ymweliadau ei ysgolorion yn cael eu gwneyd ar eu ffordd o'r Brifysgol.

Ar y nos Sadwrn, cyn mynd i orffwys, ysgrifennodd yn ei ddyddlyfr: "Drennydd fydd fy nydd genedigaeth, os caf fyw i'w weled,—fy seithfed a deugain er pan ddaethum i'r byd. Y fath gyfran helaeth o'm bywyd ar y ddaear sydd eisoes wedi mynd heibio! Mor amlwg y mae fy ngwaith allanol yn ymgrynhoi ac yn lleddfu i lawr i orchwyllion tawelach hen ddyddiau. Mewn un ystyr, mor agos y gallaf yn awr ddweyd *vixi*,—yr wyf wedi byw. Ac yr wyf yn diolch i Dduw, cyn belled ag y mae uchelgais yn myned, y mae, yr wyf yn hyderu, wedi ei lawu farweiddio: nid oes gennyf un dymuniad amgen na chamu yn ol o'm lle presennol yn y byd, ac nid codi i un uwch. Eto y mae gweithiau a ddymunwn, gyda chaniatâd Duw, wneyd cyn i'r nôs ddyfod . . . Ond uwchlaw'r cwbl, boed i mi ofalu am fy ngwaith personol fy hun,—cadw fy hunan yn bur ac yn selog, a chrediniol,—yn ymdrechu gwneuthur ewyllys Duw, eto heb bryderu am ei bod yn cael ei gwneyd gennyf fi yn hytrach na chan ereill, os nad yw Duw yn cymeradwyo i mi ei gwneyd." Drannoeth deffrôdd yn fore gan deimlo yn bur wael, a thra yr oedd cennad wedi mynd i ymofyn y meddyg, darllonodd ei wraig iddo, ar ei ddymuniad neillduol, yr unfed Salm ar ddeg a deugain. Yn fuan wedyn daeth y meddyg, a'r hyn a allai medr dynol ei wneyd a wnaed. Ond ychydig cyn wyth o'r gloch bu farw,—yr enaid mawr cryf cariadus, y priod anwyl, y tad serchog, y cyfaill ffyddlawn, yr ysgolfeistr uniawn a chydwybodol, tyner a chyfiawn, yr athronydd clir, y duwinydd selog, yr hanesydd brwdfrydig,—cynllun perflaith o ysgolhaig, gŵr bonheddig, a christion; yr ydoedd wedi myned i roddi i'w anwyl Arglwydd gyfrif o'r hyn a wnaethai

er llwyddiant ei deyrnas ar y ddaear. Claddwyd ef yng Nghapel Rugby.

Am ganlyniadau ei waith yn Rugby teimlai Arnold bob amser eu bod yn ysgeifn. "Mi ddaethum i Rugby," meddai, "yn llawn cynlluniau am ddiwygiad ysgol; ond canfyddais yn fuan fod diwygio ysgol gyhoeddus yn beth llawer mwy anhawdd nag oeddwn erioed wedi ddychmygu." A thrachefn ysgrifennai: "Am waith dyn, boed ysgol boed blwyf, mi debygaf mae y teimlad dymunol i'w goledd ydyw, bob amser i ddisgwyl llwyddo, a byth i dybied eich bod wedi llwyddo." Ond ni a gymerwn ar y mater yma opiniwn dynion oedd yn fwy abl i farnu nag Arnold ei hun, ac ail-adroddwn a ddywedwyd yn nechreu y papur hwn, fod gwaith Arnold yn Rugby wedi bod yn ddylanwad bywiocâol er daioni a deimlwyd trwy holl gyfundrefn addysgaeth ysgolion cyhoeddus y deyrnas.

Dyma y deyrnged a dalodd ei fab, nid llai enwog, Matthew Arnold, i'w dad, mewn caniad ar Gapel Rugby:—

O strong soul, by what shore
 Tarriest thou now? For that force,
 Surely has not been left vain!
 Somewhere, surely, afar,
 In the sounding labour-house vast
 Of being, is practised that strength,
 Zealous, beneficent, firm!
 Yes, in some far-shining sphere,
 Conscious or not of the past,
 Still thou performest the word
 Of the Spirit in Whom thou dost live—
 Prompt, unwearied, as here!
 Still thou upraisest with zeal
 The humble good from the ground,
 Sternly represses, the bad!
 Still, like a trumpet, dost rouse
 Those who with half-open eyes
 Tread the borderland dim
 'Twixt vice and virtue; reviv'st,
 Succourest!—This was thy work,
 This was thy life upon earth.

And through thee I believe
 In the noble and great who are gone;
 Pure souls honour'd and blest
 By former ages, who else—
 Such, so soulless, so poor,
 Is the race of men whom I see—
 Seem'd but a dream of the heart,
 Seem'd but a cry of desire.
 Yes! I believe that there lived
 Others like thee in the past,
 Not like the men of the crowd
 Who all around me to-day
 Bluster or cringe, and make life
 Hideous, and arid, and vile;
 But souls temper'd with fire,
 Fervent, heroic, and good,
 Helpers and friends of mankind.

ANNA ROWLANDS.

DUW YN YR HEN DESTAMENT.

PAPUR DDARLLENWYD YNG NGHYFARFOD Y GWERNIDOGION A'R FREGETHWYR
YNGLYN A CHYFARFOD MISOL LIVERPOOL, MAWRTH 6, 1896.

GAN Y PARCH. E. O. DAVIES, B.Sc.

CHWI gydnabyddwch ar unwaith fod y sylwadau a wneir gennyf ar y mater yn rhwym o ddibynnu ar y safbwynt a gymeraf, neu mewn geiriau ereill, ar ragdybiau y papur. Felly, fy nyledswydd cyn myned ymbellach ydyw egluro i chwi y safbwynt yr wyf yn bwriadu ei gymeryd; egluro y rhagdybiau fydd yn cael eu cymeryd yn ganiataol. Bwriadaf ymdrin â'r mater yng ngoleuni Beirniadaeth Ddiweddar ar yr Hen Destament, hynny yw, bydd i mi gymeryd yn ganiataol fod casgliadau y feirniadaeth hon yn wir. Cymeraf y safbwynt yma am ddau reswm. Un ydyw, fy mod yn rhyw ddirgel gredu mai dyma y safbwynt yr oeddych yn bwriadu i mi ei gymeryd pan yn gofyn i mi ysgrifennu ar y pwnc hwn. Y llall ydyw y buasai yn amhosibl i mi oddiar unrhyw safbwynt arall ddweyd dim a fuasai mewn unrhyw fodd yn newydd i chwi. Cofiwch felly fy mod yn cymeryd yn ganiataol yn y papur fod casgliadau yr Uwch Feirniaid gyda golwg ar yr Hen Destament yn gywir; a fy ngwaith fydd ceisio dangos beth ydyw dysgeidiaeth yr Hen Destament am y Bôd o Dduw pan yr ydym yn ei ddarllen yng ngoleuni y casgliadau hyn.

Chwi ddeallwch nad wyf mewn unrhyw fodd yn dweyd fod casgliadau yr Uwch Feirniaid wedi eu gosod uwchlaw amheuaeth. Nid wyf yn dweyd hynny, ac nid wyf ychwaith yn dyweyd nad ydynt wedi eu gosod uwchlaw amheuaeth. Nid wyf yn dweyd dim y naill ffordd na'r llall mewn perthynas i gywirdeb y syniadau. Eto, dichon y caniatewch i mi ddweyd gair ynglŷn â hyn. Dygir un wrthddadl ymlaen yn erbyn casgliadau y Feirniadaeth Ddiweddar sydd yn ymddangos i mi yn hollol amddifad o rym. Dyma ydyw y gwrthwynebiad hwnnw, dywedir fod y Beirniaid yn gwahaniaethu yn eu plith eu hunain. Dywedir wrthym y gallwn fforddio i feddiannu ein henaid mewn tawelwch hyd nes y bydd y Beirniaid yn cytuno â'u gilydd. Fy ateb i i'r wrthddadl yna ydyw fod y Beirniaid yn cytuno â'u gilydd yn barod, ac felly nas gallwn fforddio i aros un foment yn hwy heb geisio ffurfio barn drosom ein hunain mewn perthynas i'w honiadau. Gwir fod gwahaniaeth rhwng y Beirniaid a'u gilydd, ond prin y mae y gwahaniaeth hwnnw yn werth son am dano pan yr ystyriom fel y maent yn cytuno yn hollol mewn perthynas i'r pethau pwysicaf ynglŷn â'r pynciau sydd dan ymdriniaeth ganddynt. Gallwn helaethu yn y cyfeiriad hwn i brofi cywirdeb fy ngosodiad, ond nid gwiw i mi wneyd hynny. Fy marn fodd bynnag yw, fod yr Uwch Feirniaid yn cyd-olygu yn drwyadl gyda golwg ar y casgliadau mwyaf hanfodol. Ond fel yr wyf wedi dweyd o'r blaen, ac fel yr wyf am ddweyd eto, er gwneyd fy meddwl yn hollol glir, nid fy

ngwaith i yma fydd ceisio profi cywirdeb na cheisio dangos anghywirdeb casgliadau y Beirniaid. Fy amcan fydd ceisio dangos i chwi beth ddywed yr Hen Destament wrthym am Dduw o'i ddarllen gan ragdybied cywirdeb y casgliadau hyn.

Nid wyf yn bwriadu gosod crynhodeb o gasgliadau yr Uwch Feirniaid ger eich bron. Yr ydym bellach wedi cael lliaws o gyfleusterau i ymgynabyddu â'r syniadau newyddion. Prin y mae neb o honom nad yw wedi bod yn darllen un a'i llyfr Robertson Smith ar "The Old Testament in the Jewish Church," neu lyfr Driver ar "Introduction to the Literature of the Old Testament." Ac ymhellach, y mae crynhodeb o'r casgliadau wedi ei osod o'n blaen fwy nag unwaith yn y cyfarfoddd hyn, ac hefyd yng Nghyfarfodydd Cymdeithas Gweinidogion Cymreig ein cylch. Felly bydd i mi gymeryd yn ganiataol eich bod yn gydnabyddus â chredo y Beirniaid Diweddar gyda golwg ar lyfrau yr Hen Destament. Mwy na hyn, bydd i mi gymeryd yn ganiataol fod gennych syniad gweddol gyflawn mewn perthynas i hanes Israel o'i ddarllen yng ngoleuni casgliadau yr Uwch Feirniaid. Gwir mai nid llawer sydd wedi ei ysgrifennu yn Saesneg ar y pwnc hwn hyd yn hyn; ond y mae llyfr bychan Wellhausen bellach yn lled adnabyddus, ac y mae Darlithian Hibbert Montefiore wedi eu cyhoeddi bellach er yn agos i dair blynedd. Cymeraf yn ganiataol felly nad oes angen i mi osod ger eich bron grynhodeb o hanes allanol y genedl fel yr ymddengys pan wedi ei ysgrifennu oddiar rag-dybiau y papur hwn. Credaf yn awr ynte ein bod yn barod i fyned ymlaen gyda'r mater sydd i fod yn fwyaf uniongyrchol o dan ein sylw, sef dysgeidiaeth yr Hen Destament am Dduw yng ngoleuni Beirniadaeth Ddiweddar.

Awgrymodd Mr. Ellis yn ei anerchiad yn ein cyfarfod diweddfaf y gellid ymdrin â'r pwnc sydd o dan ein sylw, sef Duw yn yr Hen Destament, mewn dwy ffordd. Gellid edrych arno o safle cynnydd y datguddiad o Dduw, a gellid hefyd edrych arno o safle cynnwys y datguddiad wedi iddo gyrraedd ei berffeithrwydd mwyaf. Dywedodd Mr. Ellis ymhellach y dichon fod yr Uwch Feirniaid yn arfer edrych ar y pwnc o safle dadblygiad y datguddiad, ac nid o safle ei gynnwys yn ei fan uchaf. Credaf fod barn Mr. Ellis yn y cysylltiad hwn yn hollol gywir. Hyd yn hyn y mae yr Uwch Feirniaid wedi arfer edrych ar Dduwinyddiaeth yr Hen Destament o safle ei gynnnydd, ac nid o safle ei gynnwys. Ond tybiaf fod yn berffaith naturiol iddynt wneyd hyn. Y peth sydd wedi eu taro fwyaf yn eu hymchwiliadau i darddiad y llyfrau ydyw y syniad o ddadblygiad, a chan hynny perffaith naturiol iddynt ydyw darllen hanes y genedl, ac hefyd darllen ei duwinyddiaeth yng ngoleuni yr un drychfeddwl. Ond cofiwn mai nid darllen dadblygiad i mewn i'r hanes ac i'r dduwinyddiaeth y mae yr Uwch Feirniaid, ond yn hytrach ei ddarganfod yn yr hanes ac yn y dduwinyddiaeth y maent. Naturiol, meddaf, ydyw i'r Uwch Feirniaid edrych ar dduwinyddiaeth yr Hen Destament o safle dadblygiad, oblegid hyn sydd yn eu gwahaniaethu yn fwyaf neillduol oddiwrth y rhai sydd yn derbyn y syniadau traddodiadol mewn perthynas i'r Hen Destament, ac arfer dynion yn gyffredin, yr wyf yn tybied, ydyw rhoddi mwy o bwys ar y gwahaniaeth rhyngddynt a dynion ereill nag ar y pethau sydd ganddynt yn gyffredin. Ond nid oes un rheswm o gwbl dros i'r

Uwch Feirniaid, pan y cânt hamdden, edrych ar y datguddiad dwyfol o'r cyfeiriad arall, sef o gyfeiriad ei gynnwys yn ei berffeithrwydd mwyaf; a chredaf pan y bydd iddynt wneyd hyn y ceir gweled mai ychydig iawn o wahaniaeth fydd rhwng cynnwys y datguddiad pan ysgrifennir ef o safle yr Uwch Feirniaid, a'i gynnwys fel y gosodir ef i lawr gan y rhai sydd yn derbyn y syniadau traddodiadol am gyfansoddiad llyfrau yr Hen Destament. Bydd i mi felly geisio edrych ar y mater sydd dan ein sylw o'r ddau gyfeiriad a nodwyd.

Gadewch i ni ynte, i ddechreu, geisio edrych ar ddsageidiaeth yr Hen Destament am Dduw o safle Dadblygiad y Datguddiad. Ac wrth gwrs, yr oedd yn bosibl i syniadau y genedl am Dduw ddadblygu mewn dau gyfeiriad; (1) mewn perthynas i *nifer* gwrthrychau ei haddoliad, ac yn (2) mewn perthynas i *natur* y gwrthrychau hynny. Edrychwn ar ddadblygiad syniadau Israel am Dduw yn y ddau gyfeiriad yna. Ac ymlaenaf sylwn ar ddadblygiad ei syniadau mewn perthynas i nifer y gwrthrychau yr oedd yn briodol iddi eu haddoli. Credir fod tri chynod i'w gweled yn hanes y genedl Iuddewig mewn perthynas i'r mater hwn. Yn y cyntaf o'r tri, dywedir fod Israel yn credu y gallai yn gyfreithlawn addoli mwy nag un duw; yn wir yr ydoedd yn hyn yn hollol yr un fath a'r cenhedloedd oedd yn byw o'i hamgylch. Wrth gwrs nid peth hawdd ydyw myned yn ol at ddechreuad unrhyw genedl. Ond tybir ein bod yn gwybod digon o hanes boreuol Israel i'n cyfreithloni i gredu fod cynnod wedi bod yn ei hanes pan yr oedd yn addoli mwy nag un duw. Un rheswm dros y gredu yna ydyw fod perthynasau agosaf yr Israeliad yn addoli mwy nag un duw. Yr oedd yr Edomiaid yn addoli amryw dduwiau; credir fod yr Amoniaid hefyd yn gwneyd yr un peth, er mai ychydig o dystiolaeth sydd ar y pen hwn; ac y mae sicrwydd fod gan y Moabiaid amryw wrthrychau addoliad. Sylfaenir rheswm arall ar y ffaith fod y gair Elohim yn y rhif lliosog. Ac y mae rheswm arall yn cael ei seilio ar y cyfeiriadau geir yn yr Hen Destament at ddelw-addoliaeth yn y cynnod patriarchaidd. Ceir un o'r cyfeiriadau hyn yn Josua xxiv. 2: "Tu hwnt i'r afon y trigodd eich tadau chwi gynt, sef Terah tad Abraham, a thad Nachor: a hwy a wasanaethasant dduwiau ddeithr." Cymharer gyda y geiriau hyn Genesis xxxi. 19, "Laban hefyd a aethai i gneifio ei ddefaid: a Rachel a ladratasai y delwau [ymyl y ddalen, Teraphim] oedd gan ei thad hi;" ac hefyd Genesis xxxv. 4, "A hwy a roddasant at Jacob yr holl dduwiau ddeithr y rhai oedd yn eu llaw hwynt, a'r clust-dlysau oedd yn eu clustiau: a Jacob a'u cuddiodd hwynt dan y dderwen oedd yn ymyl Sichem." Ceir dwy adnod ar y pwnc hefyd yn Ezeziel: "A phuteiniasant yn yr Aiff, yn eu hieuentid y puteiniasant" (xxiii. 3); hefyd xx. 7, "Yna y dywedais wrthynt, Bwriwch ymaith bob un ffeidd-dra ei lygaid, ac nac ymhaloged âg eilunod yr Aiff. Myfi yw yr Arglwydd eich Duw chwi." Dyma y gwahanol resymau, a thybir eu bod, gyda'u gilydd, yn dangos fod cynnod wedi bod yn hanes Israel pan y teimlai fod yn gyfreithlawn iddi addoli mwy nag un duw. Dyna yr oll yr wyf am ei ddweyd mewn perthynas i'r cynnod hwn. Wrth gwrs y mae lluo o gwestiynau yn codi yn naturiol i'n meddwl mewn perthynas i'r cynnod; ond nis gallaf aros i'w hateb, na'u gofyn. Y cynnod nesaf yn hanes y genedl ynglŷn â'r mater sydd yn awr o dan

ein sylw ydyw, yr un yn yr hwn y credai nad oedd yn gyfreithlawn iddi hi addoli mwy nag un duw, er nad ydoedd yn gwadu bodolaeth duwiau ereill y rhai y gallai cenhedloedd eraill yn eithaf cyfreithlawn eu haddoli. Credir fod yr Hen Destament ei hun yn profi bodolaeth y cyfnod hwn yn hanes y genedl yn dra eglur. Os yw yn gwneyd hynny gall ei wneyd mewn dwy ffordd, sef trwy ddangos fod y duwiau dieithr yn meddu awdurdod a gallu yn eu gwledydd eu hunain, a thrwy ddangos fod awdurdod a gallu Jehofah yn gyfyngedig i'w diriogaethau ei Hunan. Danghosir i ni fod yr Hen Destament yn gwneyd y naill a'r llall o'r pethau hyn. Cydnabydda Jephtha allu Cemos ymhlith yr Amoniaid: "Oni feddienni di yr hyn a roddo Cemos dy dduw i ti i'w feddiannu? Felly yr hyn oll a oresgyno yr Arglwydd ein Duw o'n blaen ni a feddiannwn ninnau" (Barnwyr xi. 24). Yn Numeri xxi. 29, gelwir y Moabiaid yn "bobl Cemos," yn hollol yn yr un modd ag y gelwir Israel yn bobl Jehofah. A chydnabyddir yn 2 Bren. iii. 27, fod yr Israeliaid wedi eu gorchfygu trwy allu Cemos yn ei wlad ei hun: "A phan welodd brenin Moab fod y rhyfelwyr yn drech nag ef, efe a gym-erth saith gant o wŷr gyd ag ef yn tynnu cleddyf, i ruthro ar frenin Edom: ond nis gallasant hwy. Yna efe a gymerodd ei fab cyntaf-anedig ef, yr hwn oedd i deyrnasu yn ei le ef, ac a'i hoffrymodd ef yn boethoffrwm ar y mur. A bu lliid mawr yn erbyn Israel; a hwy a aethant ymaith oddi wrtho ef, ac a ddychwelasant i'w gwlad eu hun." Ac o'r ochr arall: dywedir mai yr hyn sydd i'w feddwl wrth yr ymadrodd "etifeddiaeth Jehofah" ydyw gwlad Canaan; ystyriai Dafydd ei fod wrth gael ei anfon allan o'i wlad, yn cael ei orfodi i addoli duwiau dieithr (1 Sam. xxvi. 19); ac yn ol barn Ruth yr oedd byw yn yr un wlad a Naomi, a lletya yn yr un lle a hi, yn cynnwys hefyd addoli yr un Duw (Ruth i. 16). Dywedir hefyd fod syniad gweision brenin Syria am Dduw Israel yn profi yr un peth; credent fod gallu Jehofah yn gyfyngedig i'w diriogaeth ei Hun. "A gweision brenin Syria a ddywedasant wrtho ef, Duwiau y mynyddoedd yw eu duwiau hwynt, am hynny trech fuont na ni: ond ymladdwn a hwynt yn y gwastadedd, a ni a'u gorthrechwn hwynt" (1 Bren. xx. 23). A thybia Naaman y Syriad nad oedd yn bosibl iddo godi allor i Dduw Israel yn ei wlad ei hun heb iddo gymeryd adref gydag ef lwyth cwpl o fulod o ddaear Canaan (2 Bren. v. 17). Tybir ynte oddiworth y cyfeiriadau uchod fod yr Hen Destament yn dysgu fod cyfnod wedi bod yn hanes Israel pan y credid fod gallu Jehofah yn gyfyngedig i Ganaan, ac fod y duwiau dieithr yn meddu awdurdod yn eu gwlad eu hunain; ond eto Jehofah yn unig ydoedd Duw Israel, ac Israel yn unig ydoedd ei bobl Yntau. Dyna yr oll wyf am ei ddywedyd ynghylch y cyfnod hwn. Cyn symud ymlaen at y cyfnod nesaf, y mae un cwestiwn y dylwn ei ofyn, sef pa fodd yr arweiniwyd y genedl o'r cyfnod cyntaf y cyfeiriais ato i'r un sydd wedi bod yn awr o dan ein sylw? Tybir yn bur gyffredinol mai Moses ydoedd awdwr y cyfnewidiad. Ond gyda dweyd hyn y mae y cydsyniad yn darfod. Tybia rhai (er engraifft Tiele a Stade), nad oedd Israel yn gwybod dim am Jehofah cyn dyddiau Moses, a'i fod ef yn ddyledus, i raddau beth bynnag, am ei wybodaeth ynghylch Jehofah i'r Aifft neu ynte i Midian. Tybia ereill, a chyda mwy o reswm mi gredaf, fod Israel yn gwybod am Jehofah cyn dyddiau

Moses. Derbynnir y golygiad olaf gan Wellhausen, a'i farn ef ydyw mai duw ydoedd Jehofah i'r teulu i ba un y perthynai Moses, neu ynte duw llwyth Joseph; a gwaith mawr Moses ydoedd gwneyd y duw hwn yn Dduw, ac yn unig Dduw, i'r holl genedl.

Y cyfnod nesaf yn hanes y genedl ynglŷn â'r pwnc hwn ydoedd yr un pan y credai nad oedd ond un Duw yn bod. Nis gall fod amhenaeth nad yw yr Hen Destament yn berffaith glir gyda golwg ar fodolaeth y cyfnod hwn yn hanes Israel. Gellir dysgu y ffaith nad oes ond un Duw yn bod mewn dull nacöol, ac hefyd mewn dull cadarnhaol. Ac y mae yr Hen Destament wedi mabwysiadu y uaill a'r llall o'r dulliau yma. Gwada fodolaeth y duwiau dieithr trwy y termau ddefnyddir ganddo i'w disgrifio ac i ddisgrifio eu delwau. Yn Jer. ii. 13, gelwir hwy yn "bydewau, ie, pydewau wedi eu torri;" yn Jer. xvi. 19, 20, gelwir hwy yn "gelwydd, oferedd, pethau heb lês ynddynt, a duwiau heb fod yn dduwiau;" yn Es. lxvi. 3, gelwir hwy yn "ffieidd-dra;" yn Es. xlv. 9, yn "oferedd;" yn Es. ii. 8, sonir am yr "eilunod, gwaith eu dwylaw, yr hyn a wnaeth eu bysedd eu hun;" yn Deut. xxxii. 21, cawn y frawddeg "peth nid oedd Dduw, oferedd;" yn Es. xix. 1, cyfeirir at "eilunod yr Aifft," a dywedir gan rai mai ystyr y gair Hebraeg a gyfeithir yn ein Beibl ni "eilunod," ydyw "things of nought," "nonentities;" er rhaid cydnabod fod ereill yn ameu yr ystyr hwn. Ynglŷn â'r mater yma chwi gofwrch hefyd, mae'n ddilys gennyf, am wawdiaeth lem Esaiah yn xlv. 9—20. Ond heblaw defnyddio y termau hyn i ddangos nad oedd duwiau y cenedloedd yn ddim, ceir yr Hen Destament yn frith o adnodau sydd yn dweyd yn groew nad oes ond un Duw yn bod. "Gwelwch bellach mai myfi, myfi yw efe; ac nad oes Duw ond myfi; myfi sydd yn lladd, ac yn bywhau; myfi a archollaf, ac mi a feddyginiaethaf; ac ni bydd a achubo o'm llaw" (Deut. xxxii. 39). "Gwybydd gan hynny heddyw, ac ystyria yn dy galon, mai yr Arglwydd sydd Dduw yn y nefeodd oddi arnodd, ac ar y ddaear oddi tanodd; ac nid neb arall" (Deut. iv. 39). "Pwy a weithredodd ac a wnaeth hyn, gan alw y cenedlaethau o'r dechreuad? Myfi yr Arglwydd y cyntaf, myfi hefyd fydd gyd â'r diweddaf" (Es. xli. 4). "Fy nhystion i ydych chwi, medd yr Arglwydd, a'm gwas yr hwn a ddewisais; fel yr adnabyddoch, ac y credoeh fi, ac y dealloch mai myfi yw: o'm blaen nid oedd Duw wedi ei ffurfio, ac ni bydd ar fy ol. Myfi, myfi yw yr Arglwydd; ac nid oes geidwad ond myfi" (Es. xliiii. 10, 11). "Fel hyn y dywed yr Arglwydd, brenin Israel, a'i waredydd, Arglwydd y lluoedd; Myfi yw y cyntaf, diweddaf ydwyf fi hefyd; ac nid oes Duw ond myfi" (Es. xlv. 6). "Gwranddo arnaf fi, Jacob, ac Israel, yr hwn a elwais: myfi yw; myfi yw y cyntaf, a mi yw y diweddaf" (Es. xlvi. 12). A dyna ddigon. Eglur yw fod yr Hen Destament yn dysgu yn nacöol a chadarnhaol nad oes ond un Duw yn bod.

Cyn myned ymlaen at y mater nesaf, dylwn ofyn un cwestiwn, sef pa fodd y symudodd y genedl o'r ail gyfnod y cyfeiriais ato i'r cyfnod olaf? Pa fodd y daeth Israel, o gydnabod bodolaeth duwiau dieithr, tra ya credu mai Jehofah yn unig ddylai dderbyn ei haddoliad hi, i gredu mai Jehofah ydoedd yr unig Dduw mewn bod, ac mai dyledswydd pawb ydoedd ei addoli Ef? Tybir mai gwaith y proffwydi o'r wythfed

ganrif ymlaen ydoedd argyhoeddi y genedl mai un Duw sydd, a thybir iddynt hwy gael eu harwain i'r casgliad hwn yn bennaf trwy i gymeriad moesol Jehofah gael ei ddatguddio yn fwy amlwg iddynt. Yr wyf yn teimlo fod llawer iawn yn y gosodiad yna, mwy o lawer nag yr wyf yn alluog i'w egluro i chwi. Gadawaf y mater gyda dweyd hyn, pan ddaeth y genedl yn ymwybodol o gymeriad moesol ei Duw, yr oedd yn amhosibl iddi fod yn hir weilyn heb gredu mai Efe ydoedd yr unig wir a'r bywiol Dduw.

Wel, dyna fi wedi dilyn trwy dri o gyfnodau ddadblygiad syniadau y genedl mewn perthynas i *nifer* gwrthrychau ei haddoliad. Ond chwi gofiwch i mi ddweyd fod yn bosibl edrych ar ddadblygiad syniadau Israel am Dduw o gyfeiriad arall, sef o gyfeiriad *natur* y gwrthrychau a addolid ganddi. Dyna felly yr hyn sydd i fod dan ein sylw nesaf. Credaf yn sicr y gellir dangos fod dadblygiad wedi cymeryd lle yng nghredo yr Israeliaid yn y cyfeiriad hwn hefyd. Sylwn i ddechreu ar y dadblygiad yn syniadau Israel mewn perthynas i briodolledau *naturiol* Duw. Mewn amryw leoedd yn yr Hen Destament dysgir fod cysylltiad agos rhwng Jehofah a thân. Mewn tân y byddai yn gwneyd ei ymddanghosiad : ymddanghosodd i Moses mewn perth yn llosgi ond heb ei difa (Exodus iii. 2—4) ; ac ymddanghosodd angel yr Arglwydd i Manoah mewn fflam yn dyrchafu oddiar yr allor tua'r nefoedd (Barnwyr xiii. 20). Byddai Jehofah yn defnyddio tân hefyd yn offeryn cosbedigaeth : cosbwyd Sodom a Gomorrah trwy i'r Arglwydd wlawio arnynt dân a brwmstan o'r nefoedd (Gen. xix. 24) ; a dinystriwyd cenhadau Ahaziah gan dân wedi ei alw o'r nefoedd gan Elias (2 Bren. i. 10). Eto, dengys yr Hen Destament mai preswylfa Jehofah ar un adeg ydoedd Mynydd Sinai (gweler Ex. xix. 3, iii. 1—5, Barnwyr v. 5), a'i gartref wedi hynny ydoedd gwlad Canaan. Unwaith eto, yn Ex. xxiv. 10, cawn ddisgrifiad o ymddanghosiad Duw : “Yna yr aeth Moses i fyny, ac Aaron, Nadab ac Abihu, a deg a thringain o henuriaid Israel. A gwelsant Dduw Israel ; a than ei draed megis gwaith o faen saphir, ac fel corff y nefoedd o ddisgleirder. Ac ni roddes ei law ar bendefigion meibion Israel ; ond gwelsant Dduw, a bwytsant ac yfasant.” Ond nid dyma y syniadau uchaf mewn perthynas i briodolledau naturiol Jehofah yr ydym yn eu cael yn yr Hen Destament. Cododd Israel yn llawer uwch yn ei syniad am Jehofah na hyn. Yn Es. xl. 26 darllenwn : “Dyrchefwch eich llygaid i fyny, ac edrychwch pwy a greodd y rhai hyn, a ddwg eu llu hwynt allan mewn rhifedi : efe a'u geilw hwynt oll wrth eu henwau ; gan amllder ei rym ef, a'i gadarn allu, ni phalla un.” Hefyd yn xlii. 5 o'r un llyfr cawn y geiriau hyn : “Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, creawlydd y nefoedd a'i hestynydd ; lledydd y ddaear a'i chnwd ; rhoddydd anadl i'r bobl arni, ac ysbryd i'r rhai a rodiant ynddi.” Ac unwaith eto cawn gan yr un llaw y geiriau canlynol : “Fel hyn y dywedodd yr Arglwydd dy waredydd, a'r hwn a'th luniodd o'r groth, Myfi yw yr Arglwydd sydd yn gwneuthur pob peth, yn estyn y nefoedd fy hunan, yn lledu y ddaear o honof fy hun” (xlii. 24). Ac y mae Duw nid yn unig wedi creu ac yn cynnal y greadigaeth, ond Efe hefyd sydd yn gweithredu yn hanes y byd ; efe ddygodd yr Israeliaid o'r Aifft, ac hefyd y Philistiaid o Caphtor, a'r Syriaid o Cir (Amos ix. 7).

Credaf fod hynyna yn ddigon i ddangos y dadblygiad yn syniadau y geneidl mewn perthynas i briodoleddau naturiol Jehofah. Gadawer i mi gyfeirio yn awr at ddadblygiad ei syniadau mewn perthynas i'w briodoleddau *mossol*. Dywed un, "The holiness of Jehovah (at one time) meant nothing more than an awful inviolability." Seilir y gosodiad yna ar ddywediad o eiddo Manoaah yn Barnwyr xiii. 22: "Gan farw y byddwn feirw; canys gwelsom Dduw;" ar yr hanes yn 1 Sam. vi. 19 am yr hyn ddigwyddodd i wŷr Bethseemes, ac yn 2 Sam. vi. 6—8 am yr hyn ddigwyddodd i Uzzah, ac hefyd ar y geiriau yn Ex. xix. 21—24, "A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Dos i waered, gorchymyn i'r bobl; rhag iddynt ruthro at yr Arglwydd i hylldremu, a chwmpo llawer o honynt. Ac ymsanteiddied yr offeiriad hefyd, y rhai a neshânt at yr Arglwydd; rhag i'r Arglwydd ruthro arnynt. A dywedodd Moses gwas yr Arglwydd, Ni ddichon y bobl ddyfod i fyny i fynydd Sinai: oblegid ti a dystiolaethaist wrthym, gan ddywedyd, Gosod derfyn ynghylch y mynydd, a sancteiddia ef. A'r Arglwydd a ddywedodd wrtho, Dos, cerdda i waered; a thyrred i fyny, ac Aaron gyd â thi: ond na ruthred yr offeiriad a'r bobl, i ddyfod i fyny at yr Arglwydd; rhag iddo yntau ruthro arnynt hwy." Y mae wedi ei ddywedyd hefyd "That Jehovah's character (at one time) was imperfectly moralized." Seilir hyn ar amherffeithrwydd syniad yr Israeliaid am Jehofah. Yr oedd yn Dduw digllawn, ac ymddengys fod ei ddigllonedd yn cael ei ennyn gan bethau dibwys, dibechod. Nid yw Dafydd yn sicr pa un ai meibion dynion ai ynte Duw ddygodd y brenin Saul i'w erbyn (1 Sam. xxvi. 19); a thra y dywedir yn 2 Sam. xxiv. 1 mai o herwydd fod digllonedd yr Arglwydd wedi ennyn yn erbyn Israel y darfu iddo annog Dafydd i gyfrif Israel a Judah, dywedir yn 1 Chron. xxi. 1, mai "Satan a safodd i fyny yn erbyn Israel, ac a anogodd Dafydd i gyfrif Israel." Dywedir hefyd fod cysylltiad agos Jehofah a rhyfel, yn dangos amherffeithrwydd synied y geneidl am dano. Dywed Moses: "Yr Arglwydd sydd ryfelwr: yr Arglwydd yw ei enw" (Ex. xv. 3); yn Num. xxi. 14 ceir cyfeiriad at lyfr ymha un yr oedd rhyfeloedd yr Arglwydd wedi eu cofnodi; a hysbysir yn Barnwyr xiv. 19, fod ysbryd yr Arglwydd wedi dod ar Samson, a'i fod wedi myned i waered i Ascalon, ac wedi taraw o'r trigolion ddeg ar hugain, ac wedi cymeryd eu hysbail. Y mae creulondeb hefyd yn nodwedd yng nghymeriad Jehofah fel yr oedd Israel un adeg yn synied am dano. Y sail dros y gosodiad hwn ydyw yr hanes am Achan yn Josua vii., am Agag yn 1 Sam. xv., am Jephthah a'i ferch yn Barnwyr xi., am feibion Saul yn 2 Sam. xxi., am Moses yn crogi penaethiaid y bobl yn Numeri xxv., ac am Eliseus a'r plant yn 2 Bren. ii. Peth arall eto sydd yn dangos amherffeithrwydd syniad Israel am natur foesol Duw, ydyw yr hyn ddywedir gyda golwg ar y dull priodol i'w addoli. Ar un adeg nid ystyrriid delwau, a'r ephod, a'r teraphim, yn anghyfreithlawn, ac felly nid oeddylt yn cael eu gwahardd; ac heblaw hyn, gosodir breintiau crefydd allan mewn llawer man yn yr Hen Destament fel yn gynwysedig mewn pethau tymhorol a naturiol. Gwneir hyn hyd yn oed gan Amos: "Y dydd hwnnw y codaf babell Dafydd, yr hon a syrthiodd, ac a gauaf ei bylchau, ac a godaf ei hadwyau, ac a'i hadeiladaf fel yn y dyddiau gynt: fel y meddianno y rhai y gelwir fy enw arnynt, weddill

Edom, a'r holl genhedloedd, medd yr Arglwydd, yr hwn a wna hyn. Wele y dyddiau yn dyfod, medd yr Arglwydd, y goddiwes yr arddwr y medelwr, a sathrydd y grawnwin yr hauwr had; a'r mynyddoedd a ddefynnant felyswin, a'r holl fryniau a doddant. A dychwelaf gaeth iwed fy mhobl Israel; a hwy a adeiladant y dinasoedd anghyfannedd, ac a'u preswylant; a hwy a blannant winllannoedd, ac a yfant o'u gwin; gwnant hefyd erddi, a bwytânt eu ffrwyth hwynt. Ac mi a'u plannaf hwynt yn eu tir, ac ni ddiwreiddir hwynt mwyach o'u tir a roddais i iddynt, medd yr Arglwydd dy Dduw." Digon hyn i ddangos fod syniad Israel mewn perthynas i natur foesol Duw wedi bod yn un amherffaith. Ond nid ymfoddlonodd y genedl ar syniad amherffaith. Ymgododd i dir llawer iawn uwch na'r un sydd yn cael ei osod allan trwy y cyfeiriadau yr wyf newydd eu gosod ger eich bron. Dysgir ni fod Duw yn gyfiawn, yn ffyddlawn i'w gyfamod, ac i'w amcanion. "A mi a'th ddyweddiat â mi fy hun yn dragywydd; ie, dyweddiat di â mi fy hun mewn cyfiawnder, ac mewn barn, ac mewn tiriondeb, ac mewn trugaredd" (Hosea ii. 19). Nid yw Duw yn ddigllawn ond yn erbyn pechod, ac y *mae* yn ddigllawn wrth bechod ymhob ffurf arno,—gormes, godineb, anghyfiawnder, anonestrwydd, glythineb, a meddwod. (gweler Amos a Michah, a'r proffwydi ereill). Yr oedd addoliad Duw i fod yn un pur ac ysbydol. "A pha beth y deuf ger bron yr Arglwydd, ac yr ymgyrfaf ger bron yr uchel Dduw? A ddeuf fi ger ei fron ef â phoethoffrymau, ac â dyniewaid? A foddlonir yr Arglwydd â miloedd o feheryn, neu â myrddiwn o ffrydiau olew? A roddaf fi fy nghyntaf-anedig dros fy anwiredd, ffrwyth fy nghroth dros bechod fy enaid? Danghosodd efe i ti, ddynt, beth sydd dda: a pha beth a gais yr Arglwydd gennynt, ond gwneuthur barn, a hoffi trugaredd, a rhodio yn ostyngedig gyda'th Dduw" (Michah vi. 6—8. Cymharer hefyd, Amos v. 21—25, Hosea vi. 6, ac Esaiah i. 11—14). Dysgir yn amlwg iawn yn yr Hen Destament dadolaeth Duw a brawdolaeth dyn (darllener Jeremiah a'r rhan olaf o Esaiah). Dysgir fod Duw yn caru. "Cyfiawn yw yr Arglwydd yn ei holl ffyrdd, a daionus yn ei holl weithredoedd" (Pa. cxlv. 17). Ynglŷn â hyn buasai yn dda gennynt allu darllen y drydedd Salm wedi y cant ar ei hyd. Dysga yr Hen Destament hefyd fod iachawdwriaeth Duw yn addas ar gyfer pawb, a'i bod i gael ei chynnyg i'r holl fyd. "Wele fy ngwas. . . ni phalla efe, ac ni ddi-galonua, hyd oni osodo farn ar y ddaear; yr ynsoedd hefyd a ddi-gwylant am ei gyfraith ef" (Ea. xlii. 1—7). "Mi a'th roddaf yn oleuni i'r Cenhedloedd fel y byddych yn iachawdwriaeth i mi hyd eithaf y ddaear" (Ea. xlix. 1—9). Eto: "Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd; bydd eto y daw pobloedd, a phreswylwyr dinasoedd lawer; ac yr â preswylwyr y naill ddinas i'r llall, gan ddywedyd, Awn gan fyned i weddio ger bron yr Arglwydd, ac i geisio Arglwydd y lluoedd: minnau a âf hefyd. Iâ, pobloedd lawer a chenhedloedd cryfion a ddeuant i geisio Arglwydd y lluoedd yn Jerusalem, ac i weddio ger bron yr Arglwydd. Fel hyn y dywed Arglwydd y lluoedd: Yn y dyddiau hynny y bydd i d'ag o ddynion, o bob tafodiaith y cenhedloedd, ymaflyd, ymaflyd meddaf, yngodrau gŵr o Iuddew, gan ddywedyd, Awn gyd â chwi: canys clywsom fod Duw gyd â chwi" (Zech. viii. 20—23). Credaf fod hyn yn ddigon i ddangos fod cyn-

nydd wedi bod yn syniadau yr Israeliaid mewn perthynas i briodol-
eddau moesol Duw, yn gystal ag mewn perthynas i'w briodoleddau
naturiol.

Dyma ni yn awr, ynte, wedi edrych ar ddysgeidiaeth yr Hen Destam-
ment am Dduw oddiar un o'r safleoedd y dywedodd Mr. Ellis wrthym
yn y cyfarfod o'r blaen y gallem edrych arni, sef safle ddblygiad y
ddysgeidiaeth. Cyn myned ymlaen i edrych ar y pwnc oddiar y safle
arall, sef *cynnwys* y ddysgeidiaeth yn ei pherffeithrwydd mwyaf, y
mae gennyf dri neu bedwar o gwestiynau i'w gosod ger eich bron y
rhai sydd yn dwyn perthynas â'r wedd ar y mater yr ydym wedi
bod gyda hi hyd yma. Nis gallaf aros gyda'r cwestiynau cyhyd ag
y buaswn yn dymuno, ond eto credaf fod pob un o honynt mor
bwysig fel yr wyf yn teimlo yn ddyledawydd arnaf alw eich sylw
atynt.

Y cwestiwn cyntaf ydyw un a ofynwyd gan Mr. Owen, Anfield Road,
yn y cyfarfod diweddfaf. Dyna ydoedd: Os mai yn raddol y cyr-
haeddodd Israel syniadau cywir am Dduw, i ba raddau y gellir dweyd
ei bod yn adnabod ac yn addoli y gwir Dduw pan yr oedd ei syniadau
am dano yn amherffaith? Nis gallaf ddyweyd wrthy ch mor llawen
y teimlwn pan y gofynwyd y cwestiwn yna, o herwydd yr oeddwn
wedi bod yn meddwl am dano er yn agos i bedair blynedd. Y mae
yr amgylchiad yn fyw o flaen fy meddwl y foment yma pan y tarawyd
fi gan y cwestiwn gyntaf. Ond er fy mod wedi bod yn ceisio ateb y
gofyniad i mi fy hun lawer gwaith yn ystod y blynyddoedd diweddfaf,
prin yr wyf yn teimlo y gallaf fentro bod yn rhyw awdurdodol iawn
mewn cysylltiad â'r mater. Yr atebiad y tueddir fi, fodd bynnag, i'w
roddi i'r gofyniad ydyw hwn: Yr oedd Israel yn adnabod yr unig wir
a'r bywiol Dduw ac yn ei addoli, i'r graddau yr oedd ei gwybodaeth
am dano yn gywir, a'i haddoliad iddo yn bur ac ysbrydol,—i'r graddau
yna, meddfaf, ac i'r graddau yna yn unig. Ae yr wyf yn cael fy
nhueddu i greu fod hyn yn wir, nid yn unig mewn perthynas â'r gen-
edl Iuddewig, ond hefyd mewn perthynas â ninnau yn y dyddiau pres-
ennol. Nis gellir dyweyd ein bod ninnau yn cydnabod ac yn addoli y
Duw byw ond yn unig i'r graddau mae ein gwybodaeth am dano yn
unol â'r gwirionedd, a'r addoliad a dalwn iddo yn addoliad yr
ysbryd.

Y cwestiwn nesaf sydd gennyf i'w ofyn ydyw hwn: Pa gyfrif yr
ydym i'w roddi am grefyddau y paganiaid,—crefydd Edom, Amon, a
Moab, a chrefyddau cenhedloedd paganaidd ereill y byd? O ba le y
daeth y crefyddau hyn? Beth roddodd fod iddynt? Pa un ai y
diafol ai ynte Duw ydyw eu hawdwr? Dyna y cwestiwn. Bydd i mi
eich cyfeirio at ddau atebiad, yr unig rai gwerth eu hystyried, sydd
yn cael eu cynnyg i'r gofyniad yna. Ceir un atebiad gan y Bardd
Milton yn ei *Goll Gwynfa*. Ceir y llall gan y Bardd a'r Athronydd
Lessing, mewn amryw o'i weithiau, ond yn ei ffurf brydferthaf yn ei
ddrama, "Nathan y Doeth." Fe gofia darllenwyr *Coll Gwynfa* fod
Milton, ar ol disgrifio cwmp Satan a'i lu o'r nefoedd, ac ar ol
disgrifio Pennaeth y Cythreuliaid yn ehedeg o'r llyn o dân i'r traeth
gerllaw, yn gofyn pwy oedd y rhai a ufuddhasent i orchymyn eu
Pennaeth gan ei ddilyn:—

Say, Muse, their names then known, who first, who last
 Roused from their slumber on that fiery couch
 At their great Emp'ror's call, as next in worth,
 Came singly where he stood on the bare strand,
 While the promiscuous crowd stood yet aloof?
 The chief were those, who, from the pit of hell
 Roaming to seek their prey on earth, durst fix
 Their seats long after next to the seat of God,
 Their altars by His altar, gods adored
 Among the nations round, and durst abide
 Jehovah thund'ring out of Sion, throned
 Between the Cherubim; yea, often placed
 Within his sanctuary itself their shrines,
 Abominations; and with cursed things
 His holy rites and solemn feasts profaned,
 And with their darkness durst affront his light.

Gwelwch oddiwrth yr uchod fod Milton yn dal mai y penaethiaid ymhlith yr angylion syrthiedig ydoedd duwiau y paganiaid, ac fod paganiaeth ymhob ffurf arni felly i'w thadogi ar y diafol a'i lu. Ac y mae y bardd yn myned ymlaen i enwi ac i ddisgrifio y naill ar ol y llall o'r rhai a ddilynasant Satan i'r tir sych, a'r enwau roddir arnynt ydyw enwau y duwiau paganaidd, fel y ceir hwy yn yr Hen Destament ac mewn llyfrau ereill. Dyna oedd syniad Milton am Baganiaeth; ac y mae syniad pur debyg yn cael ei osod allan gan Mr. Gladstone yn ei waith ar "Ieuentid y Byd." Ond y mae syniad Lessing yn hollol wahanol. Creda ef fod peth daioni ymhob crefydd, ac fod pob daioni sydd yng ngwahanol grefyddau y byd wedi dyfod oddiwrth Dduw. Duw felly sydd yn gweithio yng nghrefydd y pagan, yn gystal ag yng nghrefyddau yr Iudew a'r Cristion. Dysgir hyn gan y bardd yn ei "Nathan y Doeth" drwy yr hanes am y Tair Modrwy. Dyma yr ystori:—Ymhell iawn yn ol yr oedd gŵr yn byw yn y Dwyrain a chanddo fodrwy werthfawr, yr hon oedd yn meddu y gallu o ennill i'r neb a'i gwisgai ffafir Duw a dyn. Pan ddaeth i farw, gadawodd y gŵr y fodrwy i'r mwyaf hoff ganddo o'i feibion, gan orchymyn iddo yntau wneyd yr un peth. Yr oedd yr un a wisgai y fodrwy i'w ystyried yn ben y teulu, pa un bynnag a oedd yr anrhydedd hwnnw yn disgyn iddo trwy enedigaeth ai peidio. Daeth y fodrwy o'r diwedd i feddiant un oedd yn methu gwybod pa un o'i dri mab oedd oreu ganddo. Ymddanghosai pob un o honynt y goreu yn ei dro, ac felly addawyd y fodrwy i'r tri. Pan ddaeth i farw nis gwyddai y tad beth i'w wneyd. Ond gorchmynnodd wneuthur dwy fodrwy arall yn hollol yr un fath mewn ymddanghosiad a'r wreiddiol, a phan ddygwyd y tair ger ei fron nis gallai wahaniaethu rhyngddynt. Rhoddodd fodrwy i bob un o'i feibion, bendithiodd hwy, a bu farw. Prin yr oedd y tad wedi marw pan y cododd ymryson ymhlith y plant gyda golwg ar bwy oedd i fod yn bennaf yn y teulu. Ond nid oedd modd penderfynu y mater, oblegid nid oedd yn bosibl gwybod pa un ydoedd y fodrwy wirioneddol a pharai yr efelychiadau. Apeliodd y tri mab at y barnwr, a honnai pob un mai efe oedd yn meddu y fodrwy iawn. Yna atebodd y barnwr: Arhoswch! Deallaf fod y fodrwy wirioneddol yn meddu y gallu i ennill i'r un a'i gwisgo ffafir dyn a Duw. Rhaid i hynny benderfynu y mater! Pwy y mae dau o honoch yn ei garu fwyaf? Yr ydych yn fud. Ai

tuag i mewn y mae modrwy pob un o honoch yn gweithredu ? Ai nid oes ganddynt ddyllanwad tuag allan ? A yw pob un o honoch yn caru ei hunan yn oreu ? Yna y mae pob un o honoch yn dwyllwr twylledig. Efelychiadau yw yr holl fodrwyau. Dyma fy nghyngor: gadewch y mater fel y mae. Y mae gan bob un o honoch fodrwy, wedi ei rhoddi iddo gan ei dad. Yna bydded i bob un gredu fod y fodrwy wirioneddol ganddo. Dichon nas gallai eich tad ddiodeff yn hwy ormes yr un fodrwy yn ei dŷ ; a sicr yw ei fod yn caru pob un o honoch, ac nad ydoedd yn barod i ddangos ffafr i'r naill ar draul y lleill. Wel, ynte, gwnewch eich goreu bob un i efelychu eich tad yn ei gariad. Cystedlwch â'ch gilydd mewn gwneyd yn amlwg rinwedd y garreg. Cyn-northwywch hi i ddangos ei gallu trwy addfwynder, gweithredoedd da, ac ymlyniad calon wrth Dduw. Ac os bydd i alluoedd y modrwyau amlygu eu hunain i blant eich plant, bydd i mi eich gwahodd ymhen mil o filoedd o flynyddau i ddod ger bron y frawdle hon, a bydd un doethach na mi yn eistedd arni, a chyhoeddir y ddedfryd.—Dyna yr hanes. Yr oedd y tair modrwy yn cynrychioli tair o grefyddau y byd, ac oddiwrth yr hyn a ddywedir am y modrwyau, gallwn farnu beth oedd syniad Lessing am y crefyddau. Credai fod pob crefydd o Dduw, ond eto yr oedd un o honynt yn well ac uwch na phob un arall. Yr wyf wedi cyfeirio at y mater hwn o herwydd fod Kuenen yn dal fod y golygiad olaf ynghylch crefyddau y paganiaid yn cael ei ddsygu hyd yn oed yn yr Hen Destament. Ei sail ydyw y geiriau yn Mal. i. 11 : “Canys o gyfodiad haul hyd ei fachludiad hefyd, mawr yw fy enw ymysg y Cenhedloedd : ac ymhob lle arogl-darth a offrymir i'm henw, ac offrrm pur : canys mawr yw fy enw ymhlith y cenhedloedd, medd Arglwydd y lluoedd.” Honna Kuenen mai am y presennol y mae y proffwyd yn llefaru, ac mai ystyr y geiriau ydyw fod pob crefydd o Dduw, a'i fod Ef yn derbyn gogoniant oddiwrth bob un o honynt. Ond beth bynnag yw ystyr y geiriau yn Malachi, nis gallaf ymatal heb ddweyd cyn gadael y cwestiwn hwn, fod gennyf fyw o gydymdeimlad â syniad Lessing gyda golwg ar y pwnc sydd yn awr o dan ein sylw, nag sydd gennyf ag eiddo Milton.

Y cwestiwn nesaf yr hoffwn alw eich sylw ato ydyw hwn : A ydyw y ffaith mai yn raddol y cyrhaeddodd Israel ei syniad uchaf am Jehofah, yn milwrio yn erbyn cywirdeb y syniad hwnw ? Fy atebiad yn fyr i'r gofyniad yw, Nac ydyw. Meddyliwyd unwaith os credid mai yn raddol y dygwyd y greadigaeth i fod, y byddai i hynny iselhaul ein syniad ni am Dduw, os nad ein gorfodi i roddi heibio y syniad yn gyfan-gwbl. Ond heddyw teimlir gan lawer fod eu syniad am Dduw fel Crewr yn uwch o herwydd eu bod yn credu mai yn raddol y cyflawnodd ei waith. Eto, meddyliwyd unwaith os credid mai yn raddol y daeth dyn yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng drwg a da, ac o'r hyn sydd i gael ei gynnwys o dan y naill a'r llall o honynt, y byddai hyn yn gwneyd i fwrdd yn hollol â gwirionedd y gwahaniaeth. Ond heddyw ceir dynion yn credu mewn dadblygiad mewn moeseg, ac yn credu yr un mor gryf fod y gwahaniaeth rhwng drwg a da yn un tragwyddol, ac fod “cyfraith yr Arglwydd yn berffaith, yn adferu yr enaid.” Wrth edrych ar yr hyn sydd wedi digwydd yn barod yn y ddau gyfeiriad yna, credaf na bydd i'r ffaith

mai yn raddol y cyrhaeddodd srael ei syniad am Dduw fod yn unrhyw rwystr ar ffordd derbyn y syniad hwnnw. Yn wir y mae ysbryd pob dyn yn tystio i wirionedd y syniad; a chan hynny nid yw o fawr bwys pa fodd, pa un ai yn raddol neu ynte mewn rhyw fodd arall, y daethpwyd yn ymwybodol o hono.

Y cwestiwn arall sydd gennyf i'w ofyn ydyw hwn: A ydyw y ffaith mai yn raddol y datguddiwyd Duw i Israel yn gwneyd yr Hen Oruchwyliaeth yn llai cymwys fel paratoad gogyfer a'r Newydd? Fel atebiad i'r gofyniad hwn nid oes gennyf ond dweyd eto yr hyn yr wyf wedi ei ddweyd fwy nag unwaith o'r blaen. Pan fydd ein syniadau yn hollol gywir gyda golwg ar yr Hen Oruchwyliaeth, ac hefyd gyda golwg ar y Newydd, fy nghred ddiysgog ydyw, y gwelwn fod cydgoriad perffaith rhynddynt â'u gilydd, ac fod y cyfaddaster mwyaf yn yr Hen fel paratoad gogyfer a'r Newydd. Nid oes gair a ddywedais yn effeithio yn y modd lleiaf ar wirionedd geiriau yr Apostol Paul: "Pan ddaeth cyflawnder yr amser, y danfonodd Duw ei Fab, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf; fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf, fel y derbyniem y mabwysiad" (Galat. iv. 4, 5).

Dyna y pedwar cwestiwn oeddynt yn ymgodi i fy meddwl oddiwrth ein hymdriniaeth â'r wedd gyntaf ar y mater sydd dan ein sylw, sef Dadblygiad y Datguddiad o'r Bod o Dduw yn yr Hen Destament. Yr oeddwn wedi casglu defnyddiau i fyned yr un mor fanwl trwy y mater yn yr ail wedd arno, sef Cynnwys y Datguddiad wedi iddo gyrraedd ei berffeithrwydd mwyaf. Ond gwelaf y rhaid i mi ddedhol a chrynhoi. Eto dymunaf ddweyd mai hon yw yr agwedd ar y pwnc sydd yn fwyaf pwysig i ni. Y peth mawr i ni fel pregethwyr ydyw, nid yn gymaint gwybod pa fodd y cyrhaeddodd Israel ei syniad am Dduw, eithr gwybod beth ydoedd cynnwys y syniad hwnnw yn ei fan goreu. Gadewch i mi ynte ddweyd ychydig eiriau eto mewn perthynas i'r wedd hon ar y pwnc.

Naturiol i ni ydyw cychwyn gyda'r *Enwau ar Dduw* yn yr Hen Destament. Dyna restr Mr. Ellis o honnynt, El, Eloah, Elohim, Adonai, El-elyon, El Shaddai, a Jehofah. Dyddorol iawn fuasai myned ar ol tarddiad yr enwau yna, er mwyn gweled beth yw y trysorau sydd wedi eu cuddio ynddynt; ond rhaid ymatal. Dywedaf ychydig eiriau pellach mewn perthynas i *Undod ac Ysbrydolrwydd Duw*. Cyfeiriais o'r blaen at amryw adnodau sydd yn dysgu mai un Duw sydd. Ni bydd i mi ychwanegu at y nifer ond un adnod yn unig, sef y *locus classicus* ar y mater, Deut. vi. 4: "Clyw, O Israel; yr Arglwydd ein Duw ni sydd un Arglwydd." Nid yw yr ymadrodd "Ysbryd yw Duw" i'w gael yn yr Hen Destament, eto dysgir gwirionedd yr ymadrodd yn amlwg yn y gwrthgyferbyniad a dynnir rhwng Duw a *chnawd*; er engraifft, darllenwn yn Is. xxxi. 3, "Yr Aiphitiaid hefyd ydynt ddynion, ac nid Duw; a'u meirch yn gnawd, ac nid yn ysbryd." Cyfeiria y gair "cnaud" yn yr Hen Destament at wendid y creadur (gweler Psalm lxxviii. 89, a Gen. vi. 3); felly awgryma y ffaith mai ysbryd yw Duw, ei fod uwchlaw pob gwendid, ei fod yn nerthol. Mewn dau le yn Numeri gelwir Duw yn "Dduw ysbrydion pob cnaud," ac mewn un lle yn Jeremiah gelwir ef yn "Dduw pob cnaud." Peth arall ddywedir wrthym yn yr Hen Destament am Dduw ydyw ei fod yn

dragwyddol. Fel Duw tragwyddol y mae o flaen ac ar ol amser, heb ddechreu na diwedd, o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb. "Cyn gwneuthur y mynyddoedd, a llunio o honot y ddaear, a'r byd; ti hefyd wyt Dduw o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb" (Psalm xc. 2). Fel Duw tragwyddol hefyd y mae uwchlaw amser. "Canys mil o flynyddoedd ydynt yn dy olwg di fel doe, wedi yr ôl heibio, ac fel gwyliadwriaeth nos" (Ps. xc. 4). Priodoledd arall yn Nuw ydyw ei *hollbressennoldeb.* Ynglŷn â dysgeidiaeth yr Hen Destament ar hyn chwi feddyliwch ar unwaith am eiriau y Salmydd: "I ba le yr âf oddiwrth dy Ysbryd? ac i ba le y fföaf o'th wydd? Os dringaf i'r nefoedd, yno yr wyt ti; os cyweiriaf fy ngwely yn uffern, wele di yno. Pe cymerwn adenydd y wawr, a phe trigwn yn eithafoedd y môr: yno hefyd y'm tywysai dy law, ac y'm daliai dy ddeheulaw. Pe dywedwn, Diau y tywyllwch a'm cuddiai; yna y byddai y nos yn oleuni o'm hamgylch. Ni thywylla y tywyllwch rhagot ti; ond y nos a oleua fel dydd; un ffunud yw tywyllwch a goleuni i ti. Canys ti a feddiennaist fy arennau; toaist fi yng nghroth fy mam" (cxxxix. 7—13). Ni raid dyfynnu rhagor, er y buasai yn hawdd iawn gwneyd. Dyaga yr Hen Destament hefyd fod Duw yn *hollwybodol.* "Arglwydd, chwiliaist, ac adnabuost fi. Ti a adwaenost fy eisteddiad a'm cyfodiad: dealli fy meddwl o bell. Amgylchyni fy llwybr a'm gorweddffa; a hysbys wyt yn fy holl ffyrdd. Canys nid oes air ar fy nhafod, ond wele, Arglwydd, ti a'i gwyddost oll. Amgylchynaist fi yn ol ac ymlaen, a gosodaist dy law arnaf. Dyma wybodaeth rŷ ryfedd i mi; uchel yw, ni fedraf oddiwrthi" (Ps. cxxxix. 1—6). Y mae Duw hefyd yn *hollalluog.* "Canys yr Arglwydd eich Duw chwi yw Duw y duwiau, ac Arglwydd yr arglwyddi, Duw mawr, cadarn, ac ofnadwy" (Deut. x. 17). "Myf a wnaethum y ddaear, ac a greais ddyn arni; myfi, iê, fy nwyllaw i a estynasant y nefoedd, ac a orchymynais eu holl luoedd" (Es. xlv. 12). Chwi gofiwch hefyd y geiriau mawreddog yn y ddeugainfed bennod o Esaiah: "Pwy a fesurodd y dyfroedd yu ei ddwrn, ac a fesurodd y nefoedd â'i rychwant, ac a gymhwysodd bridd y ddaear mewn mesur, ac a bwysodd y mynyddoedd mewn pwysau, a'r byrniau mewn clorianau" (ac ymlaen hyd ddiwedd y 26ain o'r adnodau).

Dyma fi wedi cyfeirio at ddysgeidiaeth yr Hen Destament mewn perthynas i undod Duw, ei ysbrydolrwydd, a'i briodoleddau naturiol. Gadewch i mi eto ddweyd ychydig gyda golwg ar gynnwys y datguddiad dwyfol yn ei herffeithrwydd mwyaf mewn perthynas i briodoleddau moesol y Jehofah. Yn un peth y mae Duw yn *Dduw sanctaidd.* Anhawdd iawn ydyw gwybod beth sydd i'w feddwl wrth sancteiddrwydd fel y mae yr Hen Destament yn defnyddio y gair. Y tebyg ydyw mai yr hyn sydd i'w feddwl pan y dywedir fod Duw yn sanctaidd, ydyw ei fod yn ddidoleddig oddiwrth bob gwaeledd, oddiwrth bob pechod, ac oddiwrth bob gwendid sydd i'w cael yn ei greaduriaid. Gwelir fel yna fod elfen foesol yn ystyr y gair. Pan glywodd Esaiah y Seraffiaid yn y weledigaeth yn llefain, "Sanct, sanct, sanct," argyhoeddwyd ef o bechadurusrwydd ei natur, a gwaeddodd, "Gwae fi: canys darfu am danaf; o herwydd gŵr halogedig ei wefusau ydwyf fi, ac ymysg pobl halogedig o wefusau yr ydwyf yn trigo." Ond pan roddwyd marworyn oddiar yr allor i gyffwrdd â'i enau, ymadawodd ei anwiredd, a glan-

hawyd ei bechod (vi). Yr ydym yn casglu felly fod sancteiddrwydd fel priodoledd yn Nuw yn cynnwys ei fod yn ddi-doleddig oddiwrth bechod. Un arall o briodoleddau Duw ydyw *ei ogoniant*. Dywed un : —“It is often said that God's glory is His disclosed Holiness, and His Holiness is His inner glory. But the glory of God is wider in its sphere of manifestation than His Holiness. The latter is confined to His Kingdom, while the former fills the Universe.” Ac ymddengys oddiwrth y cyfeiriadau at ogoniant Duw fod hyn yn wir. “Y nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw” (Pa. xix. 1). “Bendigedig hefyd fyddo ei enw gogoneddus ef yn dragywydd; a'r holl ddaear a lanwer o'i ogoniant” (Pa. lxxii. 19). Priodoledd foesol arall yn Nuw ydyw *ei gyfiawnder*, ac y mae cyfeiriadau yr Hen Destament at gyfiawnder Duw yn dra lliosog. Allan o nifer mawr oedd gennyf wrth law rhaid i mi foddloni ar alw eich sylw at un. Ni ddymunwn i chwi anghofio y geiriau yn Pa. ciii. 17: “Ond trugaredd yr Arglwydd sydd o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb, ar y rhai a'i hofnant ef; a'i gyfiawnder i blant eu plant.” Sylwir gan un mewn perthynas i'r geiriau yna: “The justice of God is therefore not opposed to his mercy and grace. The antithesis to grace is anger, wrath. The normal relation of Jehovah to his people is that of loving-kindness.” Ac arweinia hyn ni at y briodoledd olaf yn Nuw y bydd i mi gyfeirio ati, sef *ei ddaioni a'i drugaredd*. Anhawdd ydyw dethol y geiriau goreu i osod allan ddysgeidiaeth yr Hen Destament mewn perthynas i ddaioni Duw, oblegid y mae cynifer o honynt mor gymwys. “Graslawn a thru-garog yw yr Arglwydd; hwyrfrydig i ddig, a mawr ei drugaredd. Dationus yw yr Arglwydd i bawb: a'i drugaredd sydd ar ei holl weithred-oedd” (Pa. cxlv. 8, 9). “Llawn yw y ddaear o'rh drugaredd, O Arglwydd” (Pa. cxix. 64). “Tad yr amddifaid, a barnwr y gweddwon, yw Duw, yn ei breswylfa sanctaidd” (Pa. lxxviii. 5). “Fel y tosturia tad wrth ei blant, felly y tosturia yr Arglwydd wrth y rhai a'i hofnant ef” (Pa. ciii. 13). Chwi gofiwch hefyd fyrdwn yr unfed Salm ar bymtheg ar hugain wedi y cant, “O herwydd ei drugaredd sydd yn dragywydd.”

Chwi welwch fy mod wedi cwblhau fy addewid, ac wedi cyfeirio eich meddyliau at y ddwy wedd sydd ar ddysgeidiaeth yr Hen Destament am Dduw, sef y datguddiad o Dduw yn ei gynnnydd, ac hefyd yn ei gynnwys wedi iddo gyrraedd ei berffeithrwydd mwyaf. Cyn i mi eistedd i lawr y mae un gwestiwn eto yn aros y dylwn ei ofyn. A dyna ydyw, O ba le y daeth y ganiad hwn am Dduw? Pa fodd y galluogwyd Israel i'w gyrraedd? Chwi welwch ar unwaith fod y gofyniad yn codi yr holl gwestiwn o ysbrydoliaeth yr Hen Destament; ac wedi i mi fod yn barod morfaith ni ddisgwyliwch i mi fyned i mewn i'r mater. Un gair yn unig a ddywedaf. Credaf i ddynion sanctaidd Duw o dan yr Hen Oruchwyliaeth, gyrraedd eu syniadau uchel am Dduw trwy weithrediad eu hysbryd hwy eu hunain ar y greadigaeth, a hanes, oddiallan iddynt, ac hefyd trwy weithrediad Ysbryd Duw ei Hunan yn ac ar eu beneidiau. Ac fel y dywedais o'r blaen, credaf fod yn bosibl i ni dderbyn yr oll o gynnwys y Datguddiad Dwyfol yn ei berffeithrwydd mwyaf trwy fod ein calon a'n cydwybod a'n rheswm ni ein hunain yn tystio i'w wirionedd; ac y mae Ysbryd Duw yn cyd-dystiolaethu â'n hysbryd ni.

YR AIL DDARLLENIAD.

Es popeth yr ydym yn myned rhagom. Y mae lliaws mawr o'n cyd-wladwyr sydd wedi hen fyned i orffwys a ddwfn deimlent anweddeidd-dra ac anghrefyddolder y cysylltiad rhwng Eglwys Loegr yng Nghymru a'r Wladwriaeth; ac nid hawdd cyfarfod â nemawr hynafgwr o'r rhai sydd yn aros nad un o'r syniadau cyntaf y mae yn gofio i ymaflyd ynddo, pan ddechreuodd feddwl o gwbl, ydoedd yr afresymoldeb o fod Eglwys ag oedd bron yn gwbl tu allan i fywyd crefyddol y genedl, yn cael ei dal i fyny gan y Llywodraeth, ac ar draul y boblogaeth oll, fel Eglwys Sefydledig, tra nad oedd yr ymdrechion trwy ba rai y goleuid ac yr argyhoeddid y Cymry am y pethau mawrion yn cael edrych arnynt ond yn unig fel pethau i'w goddef. Ac wrth gofio am y creulondeb â pha un yr oedd yr Eglwys honno wedi bod am lawer o amser yn erlid eu tadau, a hynny yn unig oblegid eu hymroddiad i wasanaethu Crist, yr ydoedd yn ychwanegu yn ddirfawr at eu chwerwder i weled fod y "goddef" truenus hwnnw yn beth y di-gwylyd iddynt fod yn ddiolchgar am eu bod yn cael y fraint o'i fwynhau. Gwyddom fod rhai o'r tadau duwiol—oeddent yn ddiolchgar am drugareddau bychain!—yn teimlo fod mawr werth yn hynny; ond am y rhai oedd yn dyfod ar eu hôl, y rhai, heblaw bod wedi eu bendithio â'u haddysg werthfawr hwy, oeddent hefyd wedi agor eu llygaid ar y byd ac ar hanes,—ni fuasai waeth meddwl am atal cyfodiad gwawr y bore na cheisio troi draw yr ymofyniad a godai yn eu meddwl, Pa hawl sydd gan neb i *oddef* i ni addoli y Duw mawr yn y dull a gymeradwya ein cydwybod, ac y gwyddom ei fod yn gymeradwy ganddo Ef? Ac wedi gorfod myned am eu popeth "at y gyfraith ac at y dystiolaeth," yr ydoedd yr un mor naturiol iddynt ofyn, Paham y dylai dyrnoid o'r boblogaeth gael eu mawrhau gan y Wladwriaeth â gallu a rhagorffaint nad allai fod reswm o gwbl am danynt ond fel yn golygu gwasanaeth dyrchafedig i'r genedl oll? A chan fod eu profiad hwy eu hunain, ac—fel y deallent wrth ddarllen hanes—brofiad y byd a phrofiad yr oesoedd, yn eu dysgu mai y nerth trwy ba un y mae teyrnas Crist i fyned rhagddi ydyw cariad ei phlant, ac mai y gymwynas oreu a all llywodraethau gwladol wneyd â hi ydyw ei gadael yn llonydd—ac yn wir o'r ddau fod eu gŵg wedi profi iddi o lawer mwy gwerth na'u gwên!—yr ydoedd yr argyhoeddiad yn eu meddiannu mai goreu po cyntaf i'r Eglwys yng Nghymru gael ei dadgysylltu oddi-wrth y Wladwriaeth, a'i gadael i wneyd gwaith Crist ar yr un tir a'r cyfundebau crefyddol ereill. Am y nifer mawr o ddynion diwerth a llygredig a fyddent trwy hynny yn cael eu hysgwyd ymaith, ni fyddai yn sicr unrhyw golled ar eu hôl; ond am wir weision y Gwardwr, teimlent y gellid bod yn bur sicr y gofalai Efe am danynt, ac y gosodid hwy mewn sefyllfa i allu gwneuthur i'r byd ac er ei ogoniant Ef wasanaeth annhraethol fwy ei werth nag oedd yn bosibl iddynt fel gweinidogion Eglwys Sefydledig. "Wedi ei hysgaru yn yr Unol Dalaethau," meddai Dr. Pusey am ei Eglwys ei hun, "oddiwrth amddiffyniad y

Wladwriaeth, cymerodd wraidd gyntaf pan amddifadwyd hi o bob cynhaliaeth ddynol. Ers llawer o amser y mae wedi dyfod yn lliosocach bedair gwaith tra nad yw y boblogaeth ond wedi dyblu." A hanes cyftelyb a gawn am yr Eglwysi Dadsefydledig ymhob man.

Ond er bod yr argyhoeddiadau hyn wedi cymeryd yr afael gryfaf oedd yn bosibl yn ysbryd ein cenedl, eto araf iawn a fuom i feddwl ysgogi mewn ffordd o'u gosod mewn gweithrediad. Yr ydoedd ffyddlondeb i'r cyfreithiau gwladol mor fawr yn ein golwg fel yr edrychid arno yn ddyledswydd grefyddol. Ac am ymdrechu cael cyfnewidiad yn y deddfau, prin y gellid teimlo fod hynny yn gweddu i genedl fechan, ac yn enwedig i bobl a ddylent ei theimlo yn gymaint braint i gael "byw yn llonydd ac yn heddychol mewn pob duwioledeb ac onestrwydd." Yr oedd y proffwydi a'r rhai rhagorol a fuasant o'u blaen wedi dioddef mwy. Ac edrychent ar fod yn derfysgwyr, yn *agitators*, fel peth peryglus. Fel y dywedai Mr. Gladstone yn ei araith yn Abertawe yn 1887: "Y mae anghyfleusterau Cymru wedi codi yn y ffordd yma,—yr hyn na ddigwydda yn fynych mewn bywyd politicaidd,—nad ydyw Cymru wedi derbyn digon o sylw o herwydd ei bod wedi bod yn rhy amyneddgar ac yn rhy ddistaw." O'r diwedd, sut bynnag, fel y daethom i gael ein haddysgu yn well, ac i ddeall yn fwy cyflawn beth oedd natur y llywodraeth yr oeddem dani, a beth oedd ein hawliau fel deiliaid o honi, ac i weled fod cyfreithiau gorthrymus wedi cael eu dileu mewn canlyniad i waith y bobl mewn ffordd gyfansoddiadol yn galw am hynny,—fe ddaeth y Cymry hefyd i ddeall eu bod yn bobl, ac fod iddynt eu llais, fel y gweddill o'u cyd-ddeiliaid, yn ffurfiad cyfreithiau y deyrnas. Yr ydym yn dra dyledus i'r diweddar Ddr. William Rees am ei ysgrifau gwerthfawr yn y cyfeiriad yma yn yr *Amserau*, ac i'r diweddar Ddr. Lewis Edwards a'i lu o gydweithwyr galluog am yr erthyglau cryfion a goleu yn y TRAETHOD-YDD, y rhai a greasant ysbryd newydd yn arweinwyr y bobl. Diameu fod gwaith y Gwyddelod yn dadleu eu hawliau nes mynnu sylw y deyrnas, a pheri i bawb deimlo fod yn rhaid gwranddo ar eu cwynion, wedi rhoddi calonddid i'r Cymry na phrofasent o'r blaen, a pheri iddynt hwythau alw am y cyfiawnder oedd yn ddyledus iddynt. Mae'n wir i hynny beri dirfawr syndod i'r rhai a deimlent mai eu *hawol hwynt*, o genhedlaeth i genhedlaeth, oedd llywodraethu y werin, ac mai ei lle hithau oedd ymostwng yn wasaidd a chusanu y traed a ymostyngent i'w chicio. Ac y mae coffadwriaeth y merthyron hyd ein hardaloedd a ddioddefasant y fath gamdriniaethau, ac yn unig am honni yr hawl a estynnid iddynt gan gyfreithiau y deyrnas o roddi eu pleidleisiau yn ol eu barn a'u cydwybod, yn drysor ag y mae Cymru yn gosod arno fawr werth. Mae yr ysbryd gwych a ddangosasant wedi aros yn ynni yn ein cydwladwyr sydd fel pe byddai wedi eu creu o newydd. Ac y mae yn falch gennym feddwl,—er cryfed eu penderfyniad i fyynu eu hawliau,—eto, gyda chynnydd eu diwylliad, a'r afael fyw sydd gan eu haddysgiaeth grefyddol arnynt, nad ydym o gwbl yn eu cael yn mynd i lawr i'r aflywodraeth a'r troseddau a ffynnent yn gymaint ymysg ein cyd-ddeiliaid yn yr Iwerddon. Ond er yn dawel a heddychol, y mae ein penderfyniad wedi aros yn ddisigl, ac wedi gweithio hyd yma fel un o ddeddfau natur.

Ond mae y lle y mae y cwestiwn hwn erbyn hyn wedi ei gael yn Senedd y deyrnas wedi dyfod yn dra phwysig. Fe'i dygwyd ger bron y llynedd, ond gan faint y gorchwylion yr ymgyerasid â'u cyflawni, a nerth y gwrthwynebiad a ddanghosid i'r Llywodraeth wneyd unrhyw beth, bu raid gadael y mater lle yr ydoedd. Eleni, sut bynnag, yr oedd y Weinyddiaeth wedi datgan ei bwriad o'i ddwyn ymlaen fel ei Mesur cyntaf, a phenderfynu gwneyd a allai er ei gario. Ac y mae hyd yma wedi llawn gyflawni ei haddewid. Dygwyd y Mesur i mewn gan Mr. Asquith, Chwefror 16. Nid aeth yn gyflawn iawn i'r mater, gan ystyried, yn un peth, ei fod wedi dadleu yr holl achos wrth ddwyn ei gynhygiad ymlaen y llynedd; ac hefyd nad oedd eisieu ar y pryd ond dyfod â'r mater ger bron, ac mai adeg ei ail ddarlleniad y byddai yn addas delio â'i fanylion. Yr oedd y Mesur yr un ag a ddygasid i mewn yn 1894, yn unig golygai fod anghenion neillduol y plwyfydd y perthyna y degwm fydd yn dyfod o honynt wedi marw eu personiaid, yn cael ystyriaeth gyntaf y Cyngor Sirol. Am y syniad oedd wedi cael ei ddwyn i gryn sylw, yn enwedig gan Mr. D. A. Thomas, y dylai y cyllid gael ei rannu rhwng holl boblogaeth Cymru, ac nid ei adael at wasanaeth yr ardaloedd y perthynai iddynt, fe wnaeth Mr. Asquith fyr waith o hono trwy ddangos, yn ol y drefn honno, y byddai *hanner degwm Cymru oll* yn myned i Siroedd Morgannwg a Mynwy, y rhai o herwydd eu dirfawr gyfoeth mewn ffyrdd ereill, y byddai eu hangen am dano leiaf; tra y byddai y Siroedd amaethyddol heb dderbyn ond ychydig iawn o fudd oddiwrtho, er mai hwynt sydd mewn mwyaf o angen y manteision y bwriedir trwy y degymau eu hestyn i'r bobl. Cwynid fod araith Mr. Asquith yn rhyfer, ac aeth Mr. Hicks-Beach ac ereill i'r cwestiwn fel pe ar ail ddarlleniad, gydag areithiau nad allai fod amcan yn y byd iddynt ond ceisio siarad y mater i farwolaeth. Nid oedd yr un aelod dros Gymru a feiddiai agor ei enau o'i blaid, nac ond un—Mr. Griffith-Boscawen—a dim cysylltiad rhyngddo â Chymru, ac yr oedd ei siaradach yntau y fath fel y buasai yn fil mwy o anrhydedd i Gymru, ac yn llawer gwell i'r achos y ceisai ei helpu, pe buasai wedi ei gadw iddo ei hun. Siaradodd rhai o'n haelodau Cymreig yn rhagorol, ond teimlent oll ar y pryd mai "Taw pia hi," ac mai goreu po leiaf a ddywedid ynghanol y dygyfor o areithyddiaeth nad oedd iddo amcan yn y byd ond bwrw rhwystr yn ffordd y Llywodraeth. Yr oedd Arglwydd Penrhyn fel cadeirydd cyfarfod mawreddog o "Undebwyr" yn y Penrhyn Hall ym Mangor, yn edliw prinder y siarad o blaid y Mesur ar ei ddygiad o flaen y Ty fel prawf o wendid; ond fe w'yr pawb fod ei frodyr yn y Ty ac yn y wlad yn condemnio hynny fel "bradwriaeth o ddistawrwydd," *conspiracy of silence*. Y gamp, yn enwedig gyda chynifer o Gymry galluog yn y Ty, a phob un yn gwybod mor angherddol oedd dymuniad y mwyafrif anferth o'u cydwladwyr am weled pasio y fath Fesur yn ddeddf, oedd gallu ymatal a bod yn ddistaw. Sut bynnag, o'r diwedd fe'i caed trwy y darlleniad cyntaf, a theimlid fod gwaith da wedi ei wneyd.

Adeg yr ail ddarlleniad rhaid dweyd fod y ddaidl yn gref, a byw, a gorchfygol. Am y dadleuon yn erbyn y Mesur, nid oeddym yn cael ynddynt ond ychydig iawn o ddim a allai gyfarfod ag amgylchiad-

au yr achos fel y mae yn awr o flaen y wlad. Nid oedd son am y tadau duwiol yn rhoi y degwm o ddim gwerth, pan y mae'n amlwg mai i Eglwys arall, yr un Babaidd, yr ydoedd wedi ei roddi. Am daeru gyda Freeman mai yr un yw yr Eglwys fel Eglwys Brotestanaidd, & phan ydoedd yn Babaidd, nid all y Pabyddion eu hunain gydnabod hynny, gan eu bod hwy yn dal mai Eglwys sismaticaidd ydyw Eglwys Loegr, a'i bod wedi ei hysbeilio hi o'i heiddo; ac yn sicr os Eglwys Babaidd ydyw eto, y mae yn dal ei chwbl o dan broffes dwyllodrus, dan *false pretences*, ac am hynny fe ddylai gael ei gosod i ymladd ei brwydr ar ei hadgyfnerthion ei hun. Edliwid yn fawr mai am fod 31 o'r 34 o aelodau Cymreig yn galw am hyn yr oedd y Llywodraeth yn ildio iddynt fel ei phleidwyr. Tybed fod hynny mor afresymol, pan y mae geiriau Arglwydd Devonshire wrth bobl Ysgotland mor fyw yng nghof pawb: Os byddai mwyafrif clir o drigolion y wlad honno yn galw am Ddadsefydliad, fod yn rhaid iddynt ei gael. Ac yn sicr ni fu y fath fwyafrif yn galw am ddim yn holl hanes y deyrnas â'r mwyafrif o'r Cymry sydd yn galw am Ddadsefydliad Eglwys Loegr yn eu gwlad. Taerid nad ydyw yr Eglwys "estronol," am fod Cristionogaeth yng Nghymru o'r amserau boreuaf; ond y mae yn wybyddus i'r byd, fel y darostyngwyd Cymru gan estroniaid, fod ei Heglwys hefyd wedi ei darostwng gan goelgrefydd yr estroniaid, a'i gwneyd, o hynny allan, yn beth hanfodol wahanol i'r hyn ydoedd o'r blaen. A hyd yn oed yn awr, os anturia neb o'i phlant geisio dal ei afael ynddi fel Eglwys Ymreig, onid ydyw ei hurddasolion pennaf ar unwaith yn dyfod ymlaen ac yn cau ei enau trwy ddweyd mai y camgymeriad mwyaf ydyw meddwl y fath beth; nad ydyw yn ddim oll ond pedair esgobaeth yn Archegobaeth Canterbury. Ac am feddwl honni fod y Cymry yn ddim ond slafiaid i'r Saeson ardderchog, fe olygir fod hynny yn anwiredd i'w gosbi gan farnwyr. Cymerir hyd yn oed gŵyn y Cymry am y triciau dirmygedig a ddefnyddia olynwyr yr Apostolion a'u cynorthwywyr i geisio proselytio yr Ymneillduwyr, fel prawf o "ddeffrôad" yr Eglwys. "Rhaid iddi fod yn ymosodol ar bechod ac anghrediniaeth," meddai Hicks-Beach. Pe buasai felly, buasem oll yn gwaeddi o galon, Duw yn rhwydd iddi! Ond math arall, a thra gwahanol o ynni a welwn yn ei hymdrechion yn y ffordd yna; ac y mae ei gwaith yn barhaus yn esgeuluso "pechod ac anghrediniaeth" ein gwlad, ac yn "amgylchu môr a thir, i wneuthur un proselyt," yn ei gwneyd yng ngolwg pobl Cymru yn dra dirmygedig. Dywedid fod Ymneillduwyr Cymru, am eu bod wedi gadael yr Eglwys, yn taeru na ddylai yr Eglwys gael ei gwaddoliadau, ac nad all hynny fod yn codi o ddim ond cenfigen ac eiddigedd. Y mae Ymneillduwyr Cymru wedi gadael yr Eglwys am ganrifoedd i fwynhau y gwaddoliadau, ac ar eu pwys i drybaeddu mewn pob aflendid, gan adael i'r wlad suddo i'r fath ystad fel—a defnyddio geiriau y fath Eglwyswyr rhagorol â'r diweddar Arglwydd Penrhyn ac Arglwydd Aberdâr—oni bai am lafur yr Ymneillduwyr, y buasai Cymru heddyw yn wlad bagonaidd. A chan weled eu bod hwy, er eu tlodi, wedi gallu llanw eu gwlad ag Efengyl Crist, y maent bellach wedi hen ddyfod i weled, os ydyw Eglwys y cyfoethogion yn dda i rywbeth, y dylai hithau, fel y cyfundebau Ymneillduol, wneyd ei gwaith ar ei hadnoddau ei hun. Yr oedd Arglwydd Penrhyn yn

y cyfarfod y cyfeiriwyd ato. yn galw y Mesur yn un "er darostyngiad crefydd, for the degradation of religion; ac y mae mân wroniaid Diffyniad yr Eglwys yn barhaus yn ei alw yn "fesur ysbeiliad yr Eglwys," ac yn ein condemnio nes y maent wedi crygu fel "ysbeilwyr Duw." A oes rhyw *degradation* ar grefydd, neu rhyw ysbeilio Duw ag y gall neb byth feddwl am dano, a ddeil i'w gymharu am darawiad aumrant â gwaith y fath niferi o offeiriaid ein gwlad yn crafangu iddynt eu hunain eiddo nad oedd un rheswm oll am ei fodolaeth ond er cynnal dynion i ymladd rhyfeloedd Crist, ac ar ei bwys yn profi eu hunain—liaws o honynt—y dynion mwyaf llygredig yn yr holl wlad? Do, fe giliodd pobl Cymru o'r llannau, pan glywsant lais Duw yn llefaru wrthynt yn y prif-ffyrdd a'r caeau; ac y maent bellach wedi eu hen argyhoeddi mai y gymwynas oreu a'r Eglwys ei hun fyddai tynnu oddi-wrthi nawdd, a'i rhyddhau oddiwrth ymyriad y Wladwriaeth, a'i gadael i ymladd rhyfel yr Arglwydd yn yr un dull ag a brofodd mor fanteisiol i lafar ffyddlon a llwyddiant goreu yr Ymneillduwyr. Ni fu yn ormod gan un o'r boneddigion ddweyd yn y ddadl mai am fod yr Eglwys yng Nghymru yn Eglwys y mawrion yr oedd chwerwder a gelyniaeth yn ei herbyn. Y mawrion! Y mae mawrion Cymru â bron gymaint gegendor rhyngddynt a'i gwerin rinweddol a chref, a phe byddent yn byw mewn planed arall. Nid ydynt hwy yn gwybod dim am danom ond fel pobl sydd yn talu eu rhenti, ac fel rhai y mae gwŷr ag y gellid disgwyl oddiwrthynt bethau gwell, yn dweyd wrthynt anferth anwireddau yn ein cych; ac am genfigennu wrth y personiaid am eu bod yn cael ymheulo yng ngwenau y bobl hynny a gyfrifir mor fawr, gallwn sicrhau yr areithwyr oedd yn gallu mynd i ddyfnderoedd y fath *bathos* ar lawr y Ty, nad oes berygl hyd yn oed i'r un syniad yn eu cych ddyfod o gwbl ar draws ein meddwl. Ond os ydyw Eglwys Loegr yng Nghymru yn Eglwys y bobl fawr, tybed nad allant hwy ofalu am ei chynhaliaeth, fel y mae y werin a'r tlodion yn gwneyd gyda'u Heglwysy hwy? Dalient fod cydnabyddiaeth o grefydd yn hanfodol i Wladwriaeth, ac am hynny y dylai fod ganddi Eglwys Sefydledig. Dylem oll, bid sier, fod yn grefyddol; ond a ydyw hynny yn profi y dylai fod Eglwys sydd mewn gwlad bron y gallu crefyddol gwannaf a fedd, gael ei ohynnal mewn rhwyg ac ar draul yr holl boblogaeth fel Eglwys Sefydledig, pan mae y bobl yn rhwymedig am eu popeth mewn ystyr grefyddol i rai sydd ers oesoedd lawer, a chyda llafur difin a llwyddiant gwyich, yn cario eu gwaith ardderchog ymlaen y tu allan i'w therfynau? Heblaw hynny, yr oedd Mr. Bryce yn gallu dangos fod y gydnabyddiaeth a wneir o grefydd yn yr Unol Dalaethau, lle nad oes Eglwys Sefydledig, ie yn Llywodraeth y wlad, yn llawn mor wirioneddol, a dweyd y lleiaf, â dim y gallwn ni ymfrostio o hono yn y wlad hon. Chwedl yntau, "Mae gwir gydnabyddiaeth o Gristionogaeth yn gynwysedig, nid mewn dal uchafiaeth Eglwys Sefydledig trwy gyfraith, ond mewn cadw cyflawnder, dynoliaeth, a heddwch fel rheol buchedd, gartref ac oddi cartref." Honnid fod gwahaniaeth mawr rhwng achos Eglwys Iwerddon, a ddadsefydlwyd yn 1869, ac Eglwys Cymru. Dadleuid fod honno yn Eglwys y lleiafrif, ei bod yn achos o chwerwder a chynnen cymdeithasol, yr edrychid yn wrthwynebus arni gan liaws o'r boblogaeth, ac fod mwyafrif o'r Gwyddelod yn gwaeddi nad ei Dadsefydliad;

ond nad ydyw felly yng Nghymru. Aiê! Y mae yr Eglwys yng Nghymru yn sicr yn Eglwys lleiafrif bychan; mewn llawer o'n hardaloedd heb bron neb yn mynd yn agos iddi ond y person a'r clochydd. Y mae hefyd yn achos o chwerverd parhaus. Edrychir yn gornelog ar Ymneillduwyr am na faent yn dyfod iddi, ac mewn lliaws o fyrdod fe geisir gwasgu arnynt. Ond yw buchedd aflan y personiaid am oesoedd, eu herlid creulawn, a'r dirmyg parhaus y maent yn fwrw ar eu cyd-wladwyr, gyda'u honiadau ffol am ddirfawr uchafiaeth, wedi dwyn y Cymry i deimlo fod dirfawr bellter rhyngddynt â hwynt! Ac am y nifer, y mae, yn sicr, fywafrif llawer mwy yng Nghymru yn galw am Ddadsefydliad nag a fu erioed yn Iwerddon. Y nifer o aelodau Gwyddelig fotiodd dros ail ddarlleniad Mesur Dadsefydliad Eglwys Iwerddon oedd 63; y nifer fotiodd yn erbyn oedd 36; y mwyafrif felly oedd 27. Y nifer dros ail ddarlleniad y Mesur o Ddadsefydliad i Gymru oedd 31; yn erbyn, 3; yr oedd y mwyafrif felly yn 28. O gynrychiolwyr yr Iwerddon nid oedd ond dau am un yn galw am Ddadsefydliad; ond yng Nghymru fe elwid am hyny gan *ddog am un!* Fe ddaru i Arglwydd Salisbury a Syr Henry James a Mr. Goschen fotio dros Ddadsefydliad i'r Iwerddon; ac y mae yn ddirgrif braidd eu gwled yn awr yn ceisio cysoni eu gwaith yn gwneyd hynny, â'u gwaith yn gwrthwynebu Dadsefydliad i Gymru. Cymerodd Mr. Goschen yn neillduol drafferth fawr i wneyd hynny. Ni wneid felly yn achos Iwerddon, medd efe, wrth orchymyn, *at the dictation of, yr aelodau Gwyddelig.* Yr oedd penderfyniad a basiwyd yn Nublin cyn y Dadsefydliad yn galw am hynny fel peth nad allai heddwch a theimladau da hanfodi hebddo. Ac a ddadleuai rhywun fod heddwch cymdeithasol yng Nghymru yn dibynnu ar Ddadsefydliad? Teimlai y Llywodraeth y pryd hynny eu bod mewn argyfwng, mewn *crisis ofnadyw.* A chan fod y bleiddiaid ar eu sodlau, tafasant yr Eglwys, y peth gwerthfawrocaf a feddent, yn aberth i'w gwanc. Druan o hono! Sut y mae heb weled fod achos Cymru yn anesurol gryfach! Nid ydyw yr aelodau Cymreig yn *dictatio*, ond y maent yn dweyd eu bod wedi eu hanfon i'r Senedd, yn ymarferol gan yr holl genedl Gymreig, i alw am Ddadsefydliad Eglwys Loegr yn eu gwlad. Dywedai efe am etholiad a gawsid ar fater Iwerddon; nid etholiad, ond etholiadau, yn wir yr *holl* etholiadau am lawer o flynyddoedd, sydd wedi eu cael yng Nghymru ar fater y Dadsefydliad y mae yn galw am dano. Mae y penderfyniadau basiodd Cymru ar y mater yn ddi-rif. Ond eto, am fod Cymru trwy yr Efyngyl a ddysgwyd iddi y tu allan i byrth Eglwys y Wladwriaeth, wedi ei chodi i wareidd-dra a boneddigieiddrwydd Crist-ionogol sydd yn gwneyd yn amhosibl iddi ddiagyn at y terfysgoedd a'r troseddau a ffynnent yn yr Iwerddon, ac felly nad oes berygl iddi ond galw am ei hawliau teg mewn ffordd berffaith gyfreithlawn a chyfansoddiadol, y mae Mr. Goschen a'i gyfeillion urddasol yn teimlo fod yn weddus iddynt ei dirmygu a gwrthod ei chais! I fleiddiaid cyn-ddeiriog y mae ildio; nid i bobl rinweddol a goleuedig nad oes gan Farnwyr ei Mawrhydi ddim i'w wneyd wrth ymweled â'u hardaloedd ond mwynhau eu golygfeydd ardderchog a derbyn menyg gwynion, a phobl nad oes gan ein Grasuaf Frenhines mewn unrhyw gwr o'i Hymerodraeth neb sydd yn teimlo yn garedicaeth tuag ati, neu yn fwy

ffyddlon i'w chyfreithiau Rhaid fod dynion sydd yn gallu siarad dylni o'r fath yma wedi myned i ryw iselder mawr. Mae Mr. Goschen yn hoff o ddyfynnu Mr. Gladstone ac ereill, pan eto ymhell oddiwrth y goleuni sydd yn awr yn llewyrchu o'u hamgylch, gan ddangos mor wahanol y siaradent y pryd hynny i'r hyn a wnant yn awr. Gallant hwy ddweyd gydag Arglwydd Beaconsfield, *fusasai* yn *Radical* mor boeth, "Mae llawer o bethau wedi digwydd er hynny!" Ond gymaint yn well ydyw gweled yn wahanol wrth rodio i wyneb y goleuni, na gwneyd hynny trwy gerdded tua chaddug nôs. Felly y mae Mr. Goschen, druan, ac ereill o'r "Undebwyr" ardderchog yma a fuont yn gymaint Rhyddfrydwyr, ond sydd yn awr—"out-heroding Herod,"—wedi dyfod yn fwy Tortiaidd na'r Tortiaid eu hunain.

Disgwyliid gyda llawer o ddyddordeb beth a fyddai gan Mr. Balfour, fel Arweinydd y Gwrthwnebiad yn y Ty, i'w ddweyd wrth derfynu y ddadl; a diameu iddo wneyd araith a olygai ei gyfeillion yn un ragorol. Ond nid ydym ni yn ddigon craff i weled, heblaw ei bod yn ddoniol a choeglyd, pa fodd yr ydoedd yn profi na ddyliid pasio y Mesur. Nid elsi, medd efe, i ddadl y ffigyrau, a gwell oedd iddo beidio; ond amheuai a oedd y cyfartaledd o 3 i 31, y gwnelid cymaint o honno, yn debyg o brofi yn beth parhaus; a dywedai, oddiar wybodaeth ydoedd efe wedi allu gasglu, nad oedd yn ei dybied yn annhebyg y newidid y *fraction* i gryn fesur mewn ychydig fisoedd. Ni synnai neb fod "gwybodaeth" o'r fath yn cael ei rhoddi iddo mewn helaethrwydd. Dywedai Esgob Bangor yng Nghonfocasiwn mawr y Penrhyn Castle, nad oedd y datganiad a roisai Cymru trwy y fath fwyafrif ar y mater, ond "temporary accident," damwain y funud. Danghosai yr un gŵr ychydig iawn o amser yn ol ei graffder mewn ddarllen y dyfodol wrth ddweyd, "Nad oedd Dadsefydliad am lawer o amser yn debyg o ddyfod o fewn cylech gwleidyddiaeth ymarferol." Mae'n amlwg ei fod yn llawn mor garbwl mewn hanes, ag ydyw fel gweledydd y dyfodol. Bid siwr yn araf, fel y sylwasom, y bu Cymru yn dyfod i alw am ysgwyd hunllef y Sefydliad oddiarni, er iddi fod am oesoedd yn griddfan dan ei orthrwm; ond wedi deffro, nid oes dim o natur "damwain" o unrhyw fath yn y llais y mae wedi ei roddi arno yn yr etholiadau. Cymerwch y pymtheg mlynedd diweddaf, ysbaid sydd yn sier yn ddigon i ddangos pa un ai damwain y funud ynte dwfn argyhoeddiad ydyw y bleidlais a ddyry gwlad ar fater sydd yn barhaus yn cael y lle blaenaf yn ei hystyriaeth. Yn 1880 yr oedd yr Aelodau Seneddol a ddychwelwyd o Gymru fel pleidwyr Dadsefydliad yn 29, yn erbyn 4. Yn 1885, yr oeddynt yn 30 yn erbyn 4, ac yr oedd Mr. H. G. Allen yn un o'r 4 a fotiodd yn erbyn Mesur Mr. Dillwyn, ond ni anturiodd ar ol hynny i wynebu ei etholwyr. Yn 1886 yr oedd y Dadsefydlwyr yn 29 yn erbyn 5; ac yr oedd Mr. Cornwallis West yn un o'r rhai a ddychwelasid i fotio dros Ddadsefydliad, ac wedi gwneyd hynny droion, ond datganodd y pryd hwnnw ei fod yn erbyn Dadwaddoliad, ond yn yr etholiad nesaf fe'i curwyd gan Mr. Herbert Roberts gyda'r mwyafrif anferth o 2333. Yn 1892, fel y mae pawb yn gwybod, yr oedd y nifer o blaid y Mesur yn 31, a'r fyddin o wroniaid o Gymru a'i gwrthwynebai yn cyrraedd y nifer ardderchog o 31. Ac yr oedd mwyafrif holl bleidleisiau y Rhyddfrydwyr tua 60,000. Ond er hyn oll,

a'r Esgob Lloyd yn dyst, nid ydyw datganiad Cymru ar y mater hwn ond *temporary accident*! Beth fuasai *degum* y mwyafrif cyson yma ganddo, pe digwyddasai am dro fod ar yr ochr arall? Dyma y math o "wybodaeth" a roed i Mr. Balfour am y sierwydd y bydd yr etholiad nesaf yng Nghymru yn ddiamheuol yn erbyn Dadsefydliad.

Man never is, but always to be blest.

Myn Mr. Balfour fod y gynrychiolaeth bresennol yn Ysgotland a Chymru yn warthus o anghyfiawn i'r lleiafrif. A fynnai efe ddwyn trefn newydd i mewn, a rhoddi yr holl allu, yn enwedig pan ddigwyddo fod pethau yn troi yn ei erbyn ef, yn llaw y lleiafrif? Gollyngai y ddadl rifyddol o'i law fel yn annheilwng o sylw, er pan ddigwyddo ar ddamwain fod o'i ochr, ei bod yn gref ganddo fel colofnau y ddaear. Gofynnai oni ddylai fod achos cryf wedi ei wneyd allan cyn amddifadu corfforaeth o eiddo ydoedd wedi ei hir feddiannu. Diameu: ond a fu achos cryfach er creadigaeth y byd na'r un a osodir yn awr ger bron o Gymru, pan ofynnir am ddadsefydlu a dadwaddoli Eglwys sydd am ganrifoedd wedi bod yn diffwrtho y tir, ond yn brolio ei bod yn awr wedi deffro, pan y mae yr holl wlad, a thrwy ymdrechion pobl sydd wedi dioddef eithaf ei gelyniaeth a'i thraha, wedi ei llanw â gwybodaeth o Dduw? Barnai y buasai y bobl yn y Canol Oesau yn rhoddi eu heiddo yn *aur* at yr Eglwys, fel y gwnaethant y pryd hynny. Mae gennym oll hawl i gymeryd ei farn am ei gwerth. Y pryd hynny yr Eglwys oedd yr unig gorfforaeth oddiwrth ba un y gellid disgwyl iachawdriaeth y genedl. Yn awr nid ydyw ond un o nifer o gorfforaethau, ac yng Nghymru yn neillduol, un o'r rhai eiddilaf. A gwna Mr. Balfour lawer o'r ffaith fod yr Eglwys wedi mwynhau ei heiddo er y Diwygiad heb newid ei hathrawiaeth. Nid yw hynny yn llawer i'w ddweyd; gwyddom yn dda ei bod dros lawer iawn o'r amser yna yn rhy farw i falio dim am ei hathrawiaeth; ac wedi deffro i feddwl rhywbeth, onid ydyw yn amlwg i bawb nad ydyw yr erthyglau a'r ffurfwasanaeth ond pethau ag y teimla pob gŵr Eglwysig ei fod at ei ryddid i ddarllen i mewn iddynt beth bynnag a fynno ei galon. Nid oes i'r Eglwys amdiffynydd fel y *Times*; efe ydyw ei Goliath o Gath sydd yn sefyll ger bron y bydysawd i ymladd ei rhyfeloedd; ac eto fe gofia ein darllenwyr ei fod wedi y Congress yn Exeter, wrth gyfeirio at y gwahanol papurau, &c., a osodasid o'i flaen, yn dweyd y geiriau cryfion yma:—"Beth bynnag all fod y gwahaniaeth rhwng yr Eglwys a'r gwahanol Gyrrf Ymneillduol y tu allan iddi, ei fod yn amlwg oddiwrth y papurau, &c., fod y gagendor oedd rhwng y gwahanol bleidiau o fewn yr Eglwys ei hunan yn llydan, ac na ellid myned drosto." Dywedai Mr. Balfour fod gan Ymneillduwyr hawl i eiddo y maent wedi ddal am 25 mlynedd; ac a oeddynt am ysbeilio yr Eglwys o eiddo oedd wedi bod ganddi am 300 mlynedd? Nid ydym ni yn diolch am hawl i gadw eiddo a greasom ni ein hunain. Os na chaniateir hynny, nid ydyw Cymdeithas yn bosibl: "Trecha treisied, gwanna gwaadded." Ond nid oes i'r Eglwys eiddo o gwbl ond fel tâl am wasanaeth. Yr oedd Ficer Llanidloes dro yn ol, wrth ddangos ei fod ef yn ddi-berygl er gwrthwynebu ei uchafiaid fel pleidydd "Cynllun Bangor," yn dweyd yn un o'r papurau fod ei fywoliaeth ef yn *freehold*, yn eiddo rhydd-

ddaliadol. Dyma *fons et origo*, ffynnon a tharddiad yr holl ddrygan sydd trwy yr oesoedd wedi andwyo yr Eglwys; y maent yn edrych ar y meddiannu fel *freeholds*, fel treftadaeth wedi disgyn i'w rhan, sydd yn eu codi uwchlaw pob cyfrifoldeb, ac y maent at eu rhyddid i'w mwynhau fel y mynnant. Mewn gwirionedd, fel y danghosodd Mr. Frome Wilkinson, a llawer o Eglwyswyr parchus ereill yn bur glir, eiddo y genedl ydyw yr eiddo, ond ymhob achos wedi ei roddi i'r rha! sydd yn awr yn ei ddal, fel i ereill o'u blaen, *mewn ymddiried*, ac yn unig am eu bod, yn y modd mwyaf difrifol, yn ymgymeryd â'r cyfrifoldeb o "borthi praid Duw gan fwrw golwg arnynt," a "phregethu y gair, gan fod yn daer mewn amser, allan o amser." Gan y ceir eu bod yng Nghymru, yn neillduol, wedi bod am oesoedd lawer yn "ysbeilio Duw" trwy ddefnyddio yr eiddo hwnnw ar eu meluschwantau, a gadael i'r wlad orwedd yn "farw mewn camweddau a phechodau," ac fod ereill, ar draul eithaf eu dygasedd, wedi gwneyd y gwaith a ddylasant *hwy* fod wedi ei gyflawni, yn sicr y mae yn llawn bryd cymeryd eiddo y genedl o'u llaw, a'i ddefnyddio i amcanion cenedlaethol, a'u gadael hwythau, os ydyw eu "deffroad" yn dangos eu bod yn malio rhywbeth am eneidiau y bobl, brofi hynny trwy ymdafu i'r un ymdrechion â'r Ymneillduwyr. Dywedai ein bod am osod y "cadwyni euraidd" y mynnwn ryddhau yr Eglwys oddiwrthynt, yn ein pocedi ein hunain. Nac ydym; ond eu defnyddio i wneyd, yn nyrohasiad gwerin ein gwlad, ychydig o'r gwaith a ddylasai, ers cenedlaethau, fod wedi ei wneyd gan Eglwys y gwaddoliadau ac Eglwys y cyfoethogion. Dywed, tra yr addefa y cyrff Ymneillduol mwyaf na oheidw eu cynnydd i fyny â chynnydd y boblogaeth, fod Eglwys Loegr yn ein gwlad yn llwyddo gan lamu a neidio, *by leaps and bounds*. Felly! Ond rhaid i ni gael rhyw broffion o hynny anfesuro! gryfach na dim a gynhygiwyd eto. Yn sicr, yn ei olwg ef, feallai yr Eglwys a'r cyrff ereill gydweithio er y daioni cyffredin. Nid all yr Eglwys, fel y mae, gymeryd i mewn o gwbl y syniad o gydweithio âg Ymneillduwyr. Cydweithia yn galonnog â thafarnwyr; mae y ddwy adran ogoneddus o'r fyddin fawr yn ymladd dros "obaith eu helw." Ond nid ydyw yr Ymneillduwyr ganddynt ond pobl Corah, Dathan, ac Abiram; ac y mae Ymneillduwyr Cymru, ermwyn ceisio bod yn ffyddlon i Grist a gwneyd a allant drosto Ef, yn gorfod cario eu hymdrech ymlaen yn gwbl fel pe na bai yr Eglwys Sefydledig mewn bod. Cydnebydd Mr. Balfour yr "unhappy past" y mae perygl i'w adgofion ein camarwain; yn anffodus yr unig wahaniaeth a allwn ni weled rhwng yr "unhappy past" a'r presennol, sydd yn ei ystyr bwysig yn llawn mor "unhappy," ydyw fod y llewod y dychrynai Cristion Bunyan yn gymaint rhag eu rhuadau, wedi eu dal lle y maent wrth gadwynau. Fe sonir llawer y ruddiau hyn am elyniaeth Ymneillduwyr Cymru at yr Eglwya. Wrth ystyried ei hanes, a chofio y creulonderau a dderbyniasant oddiar ei llaw, a'r traha difesur y mae eto yn ddangos tuag atynt, ni fuasai mor ryfedd,—a chymeryd y natur ddynol fel y mae,—pe dyna fuasai y teimlad a goledant tuag ati. Ond er eu clod, gallwn sicrhau nad ydyw yr elyniaeth yna yn bod ond yn nychymyg yr Eglwyswyr. Am y lliaws o'r Cymry, mae yn debyg mai y peth gwaethaf a ellir ddweyd ydyw, Nad ydynt byth yn meddwl am dani,

ond fel Eglwys ag y mae ei sefyllfa fel Sefydliad Gwladol yn gam ac yn sarhad â'r genedl Gymreig; ac am ereill o honom, tra nad allwn edrych arni fel Eglwys a gedwir yn sefydledig gan y Wladwriaeth ac a gynhelir ar draul y boblogaeth oll ond fel dybryd anghyfiawnder, eto o edrych arni fel Eglwys sydd yn ymdrechu, pa mor amherffaith bynnag, i wneyd gwaith dros y Gwardwr, yr ydym â'n holl enaid yn dymuno ei llwyddiant. Dywedwn o galon, "Gras fyddo gyda phawb," yn Eglwys Loegr ac allan o honi, "sydd yn caru ein Harglwydd Iesu Grist mewn purdeb!"

Am y ddadl o ochr y Rhyddfrydwyr, yr ydoedd yn neillduol gref. Cymeroedd nifer mawr ran ynddi. Gallasai Arglwydd Penrhyn, a deimlai fod tawedogrwydd cynifer ar y darlleniad cyntaf yn gymaint prawf o wendid, weled adeg yr ail ddarlleniad, liaws, yn wir *fyddin* o wŷr arfog, yn codi ac yn ceisio ennill llygad y Llefarydd. Am yr Aelodau Rhyddfrydol Cymreig, yr oeddynt oll yn barod i ryfel, tra nad oedd cymaint ag un o'r "dauntless three," chwedl Macaulay, oedd wedi eu hanfon yno i ofalu am yr Eglwys, a feiddiai ddangos ei wyneb, na chymaint ag yngan gair. Dadleuwyd yr achos yn llwyr a gorchfygol o bob cyfeiriad, a diameu fod y drafodaeth a fu arno wedi gwneyd llawer iawn er argyhoeddi y deyrnas fod brwydr Cymru yn frwydr Dadsefydliad yn Ysgotland hefyd, ac yn Lloegr. Dechreuad y diwedd ydyw. Ac ni allem, yn arbenig, lai na theimlo yn falch o waith ein cydwladwyr yn yr ymgyrch yma. Tra yn dangos nerth teilwng o ddwfn deimlad o'u conedl yn yr achos, yr oedd eu hareithiau hefyd yn arddangos hunan-feddiant, a doethineb, a dawn areithyddol na allem lai na mawr lawenhau o'u plegid. Ychydig yn ol, nid oedd neb a "agorai ei enau dros y mud" i ddweyd cymaint a gair yn y Senedd am wlad y bryniau; ond bellach y mae ei hachos wedi myned yn llond pob man, a'i barn yn anocheladwy yn cael ei dwyn i fuddugoliaeth. Gwych oedd gennym weled fod un, sydd ei hunan yn Eglwyswr, yn cydnabod, er fod yr Eglwys yn gwneyd peth cynnydd yng Nghymru, nad ydyw yn gymaint ag a ddylai fod, a lle y mae cynnydd, mai yn y trefi y mae, lle mae yr Eglwys yn gweithio, yr un fath â'r Ymneillduwyr, yn ol y drefn wirfoddol; ond am y wlad, lle nad oedd dim ond rhoddion y tadau duwiol, mai aros yn ei hunfan yr ydoedd. Coffhâi un arall y broffwydoliaeth, pan welai y Cymry beth oedd y Mesur yn gynnwys, y byddent ar unwaith yn ymwrthod âg ef; ond ei fod ef a'i gyd-aelodau er pan ddygaisid y Mesur ger bron y llynedd, wedi cael cyfleustra i'w egluro i liaws tra mawr o'u cydwladwyr, a cheid mai po oreu y deallent ef, mwyaf oedd eu cymeradwyaeth iddo. Yr oedd y celwyddau a ddywedid am droi yr Eglwysydd yn *music halls*, &c., oll wedi eu dynoethi, ac yr oedd y teimlad dwfn a chryf yn aros, Os na fyddai i'r cwestiwn yma, oedd wedi bod yn llosgi yn ein gwlad am chwarter canrif, gael ei setlo yn ol dymuniad pobl Cymru, na allai hynny lai na bod yn ddybryd anghyfiawnder. Dywedai Eglwyswr arall ei fod ef yn amddiffyn Dadsefydliad am ei fod yn ystyried y byddai hynny y daioni mwyaf i'r Eglwys ei hunan yng Nghymru. Gwyddent, meddai ef, fod ei gwendid yn hyn, fod y gefnogaeth gryfaf a roddid iddi yn dyfod oddi allan iddi, ac nid oddi mewn; fod y gaer i'w chadw, os cedwid hi hefyd, nid gan filwyr brodorol, ond gan gynghreiriaid estronol. Yr

oedd y cri am gyfrif crefyddol y peth ynyftaf, oblegid y pwnc oedd, nid cyfartaledd Eglwyswyr ac Ymneillduwyr yng Nghymru, ond cyfartaledd yr Eglwyswyr a'r Ymneillduwyr oeddnt yn galw am Ddadsefydliad yng Nghymru. Dywedai, am bob un Eglwyswr Cymreig a alwai am Ddadsefydliad 25 mlynedd yn ol, fod yn awr 20. Yr oedd arian yn ymdywallt at wasanaeth y rhai a ofnont y cyfnewidiad yma, ond nid o Gymru, ond o Loegr; er hynny yr oedd teimlad Cymru yn ddwfn ac yn ddiamheuol, ac ofer fyddai disgwyl i ebychiadau oddi allan effeithio i'r graddau lleiaf er siglo ei dwfn argyhoeddiad Cydnabyddai y gellid oedi y peth trwy ymdrechion diethriaidd, na wyddent fwy am Gymru nag am Uganda; ond po fwyaf yr oedd ei setlo, caletaf yn y byd fyddai y telerau yn y pen draw. Siaradai gyda chyfiawn ddirmyg am y deisebau y gwneid y fath ymdrechion i gael gan fechgyn a genethod ac ereill na wyddent fwy am y mater nag am helyntion y planadau, i'w harwyddnodi, te y llenwid hwynt â chy-nifer o enwau rhai na wyddent ddim yn eu cylch. Am ddweyd na ddylent waeddi am Ddadsefydliad heb gael *census*, crystal, medd efe, fyddai gwahardd iddynt ddweyd ei bod yn oer heb iddynt fod wedi edrych ar y gwres-fesurydd. Onid oedd yn ddigon fod 31 allan o 34 o'n haelodau wedi eu hanfon i'r Senedd i alw am Ddadsefydliad, a hynny gyda mwyafrif a wnelai 2000 ar gyfer pob un? Ni chlywsid am y fath beth yn holl hanes Seneddau. Taerid y byddai Dadsefydliad yn ddynestr i grefydd; sut y gallai hynny fod, pan oedd Cymru, te heb gymeryd yr Eglwys o gwbl i'r cyfrif, yn llawn o addoldai ac o foddion gras? Dywedai y cwynai un o Farnwyr ei Mawrhydi iddo orfod teithio 65 o filldiroedd yng Nghymru i brofi un hen wraig, ac yn y diwedd i gael allan ei bod o'i chof. Am y cyfrif, y *census*, y gwaeddi mor groch am dano, dywedai un o'n haelodau, Sais parchus, iddo ychydig cyn hynny ymweled â charchar Gloucester, a dywedai y ceidwad wrtho fod yno 300 o garcharorion, ac oddieithr un, eu bod oll yn proffesu eu hunain yn Eglwyswyr! Wrth reeswm, fe fuasai enw pob un o'r tri chant yn werthfawr iawn ar y deisebau, a'u rhif yn werthfawrocach fyth ar bapurau y *census*. Yr oedd y Prifathraw Owen, yn y Free Trade Hall ym Manchester, yn tasfu ymaith gydag ysgorn oedd yn tyngu y tŷ i lawr yr ensyniad y gallai fod dim yn annheilwng yn y dull y llenwid y deisebau yng Nghymru,—yr oedd ganddo ef gymaint gwell meddwl o'i gydwladwyr! Yr oedd gorfoledd y Saeson anwybodus oedd yn llanw y neuadd eang wrth glywed ei eiriau dewr, fel y dywedai cyfaill parchus oedd yn bresennol, yn ddi-derfyn. Ond y fath esboniad gwych ar ei eiriau oedd ddarfod i Ficer Llangurig orfod llosgi ei ddeiseb am y cawsid allan, *cyn* ei hanfon i fynd, fod enwau 15 wedi eu rhoi i lawr ynddi, na wyddent hyd yn oed am ei bod; heb sôn am waith clarcod Ty Cyffredin yn gorfod bwrw allan 60 o'r deisebau a ddanfonasid i fynd am fod *gormod* o'r enwau yn yr un llaw-ysgrifen. Gwych oedd gennym weled, pan oedd rhyw Sais ar lawr y Ty yn ddigon ehud i ymfrostio fod cynifer o ddeisebau wedi eu hanfon yn erbyn y Mesur, ac wedi eu harwyddnodi gan gynyfer, ond heb gymaint ag un o'i blaid, fod yr aelodau Cymreig yn ddigon anystyriol i dderbyn y datganiad aruthrol yna gyda chwerthin calonnog. Er mwyn osgoi gwaradwydd a fyddai yn drychineb, hyderwn na phwysant am ymchwiliad i'r deisebau hyn! Gwnaeth un

arall o'u haelodau wasanaeth rhagorol trwy ddangos yr anferth dwyll sydd yn nadl Esgob Llanelwy am gyfrifon yr etholiadau. Cymerai yr Esgob yn ganiatâol fod pob un a fotiodd dros Undebwr, wedi fotio yn erbyn Dadsefydliad. Ond nid felly. Yr oedd yn ffaith dra arwyddocaol nad oedd yn anerchiadau y rhan fwyaf o'r ymgeiswyr Undebol yn 1892 ond dwfn ddistawrwydd ar gwestiwn yr Eglwys Gymreig, er yr addefai Arglwydd Salisbury ei hun mai ar y cwestiwn yna yng Nghymru y troai yr etholiad. Ac nid oedd cymaint ag un o'r ymgeiswyr Rhyddfrydol nad dyna y pwnc blaenaf yn ei anerchiad. Ac yn wir yr oedd *saiith* o'r ymgeiswyr Undebol yn proffesu eu hunain o blaid Dadsefydliad. Yr oedd yr holl bleidleisiau a roddwyd i'r rheiny yn 17,378, ac yr oedd yn berffaith gyflawn cymeryd y nifer yna allan o'r nifer o 86,000 y mynnai yr Esgob eu bod o'i ochr ef, a'u hychwanegu at nifer y pleidleisiau o blaid Dadsefydliad, yr hyn a godai y mwyafrif o 58,935, i 93,651. Heblaw hynny yr oedd yn agos i ddwsn o'r ymgeiswyr Undebol heb ddweyd dim ar y mater—yn eu plith Mr. Kenyon, oedd unwaith yn gawr Dadsefydliad,—a hynny am y rheswm da fod arnynt eisieu pleidleisiau y bobl, ac y gwyddent nad oeddynt i'w cael o gwbl os proffesent fod yn erbyn y peth mawr ag yr oedd Cymru wedi hen osod ei chalon arno. Sylwai un arall o'n haelodau ieuainc gobeithiol y dywedid y byddai yr Eglwys wedi ei dadsefydlu yn meddu manteision cymdeithasol uwch na'r eglwysi Ymneillduol. Troai yntau hynny yn ol ar y rhai oeddent mor ffol a'i ddwyn ymlaen, fel prawf mai gan yr Eglwys yr oedd y cyfoeth, ac am hynny y gallai yn hawdd fyw ar ei chyfoeth; ond dywedai nad oeddem ni am funud yn meddwl am wneyd i ffwrdd a'r gwahaniaethau cymdeithasol, ond yn unig cael pob Eglwys neu Gyfundeb yng Nghymru ar yr un tir yngolwg y gyfraith. Am weithgarwch yr Eglwys, ple bynnag y danghosid ef, llawenychent o'i blegid; ond nid oedd hynny yn brawf am darwriad amranta fod Ymneillduath yn diflannu. Yn 1775, nifer yr addoldai Ymneillduol oedd 171—yn 1816 yr oeddynt wedi cynnyddu i 993. Yr oedd Mr. Gladstone y pryd hynny yn chwech oed. Beth fu eu cynnydd yn ystod ei oes ef? Yn 1861 yr oedd eu nifer yn 2,927; ac yn 1892, yn 4,262. Y maent felly wedi dyfod dros bedair gwaith yn lluosocach yn ei oes ef; neu y mae dros 3000 wedi eu hychwanegu mewn 80 mlynedd. Dywedid fod llwyddiant mawr wedi bod ar yr Eglwys yn Nyffryn Rhondda. Yn 1866 yr oedd yno 4 eglwys ac 11 o gapelau. Yn 1870 yr oedd yno 7 eglwys a 21 o gapelau. Yn 1884 yr oedd 11 o eglwysydd a 70 o gapelau Cymreig a 28 o rai Seisnig. Yn 1892 yr oedd nifer yr eglwysydd wedi codi i 16, ond yr oedd nifer y capelau yn 117—75 Cymreig, a 41 Seisnig. Yr oedd hynny yn dangos yn bur amlwg fod Ymneillduath wedi dyfod i aros yng Nghymru. Yn 1859 rhifai cymunwyr y pedwar enwad 258,653; yn 1892 rhifent 381,795; cynnydd o 123,142, neu yn ol 47½ y cant. Fe ŵyr pawb nad ydyw "enwau ar bapur," chwedl y Deon Edwards, "yn rhoddi arian." Ond a chymeryd un o'r cyrff Ymneillduol yng Nghymru, yr oedd eu casgliadau o 1869 i 1880 yn £1,711,401; o 1881 i 1892, yr oeddynt yn £2,204,037—cynnydd o £92,636. A hynny er fod y Corff yma yn lluosocach yn yr ardal oedd amaethyddol, lle'r oedd y boblogaeth wedi lleihau gryn lawer. O 1869 i 1893 yr oedd y bobl yma eu hunain wedi

casglu at ddibenion crefyddol dros £4,000,000. Ac yr oedd y Cyfundebau ereill wedi gwneyd yn rhagorol. Gan alw sylw at ffaith fod Cymru Ymneillduol y wlad fwyaf ffyddlawu i'r cyfreithiau o fewn y byd, gofynnai a fynnent, trwy wrthod ei chais cyfansoddiadol a theg am symud oddiarni ddirfawr gamwri, beri i'r fath wlad fod yn gwbl ddiystyr o'r cyfreithiau? "Nid ydym," meddai, "yn derbyn yr Eglwys Sefydledig yng Nghymru fel Eglwys y genedl. Yr ydym yn protestio yn erbyn y Sefydliad. Yr ydym yn meddwl ei fod yn gam mewn egwyddor ac yn niweidiol i grefydd i roddi i un enwad nawdd y Wladwriaeth, neu i barhau Sefydliad unrhyw Eglwys, pa mor hynafol bynnag, nad ydyw yn meddu ymlyniad y bobl oll. Yr ydym yn edrych ymlaen gyda gobaith a hyder at amser pan fydd y gwreiddyn chwercwder yma wedi ei symud, a phan fydd yr Eglwys—wedi ei rhyddhau oddiwrth sorod rhagorfreintiau daearol a thymhorol, sydd yn ddarostyngol i Eglwysi ereill—yn ymuno â'r Eglwysi hynny er hyrwyddo daioni uchaf pobl Cymru."

Buasai yn dda gennym allu cyfeirio at lawer o'r areithiau rhagorol ereill a draddodwyd yn y ddadl hanesyddol ac ardderchog hon. Ond rhaid dweyd gair am yr araith fawr â pha un y darfu i Syr William Harcourt gloi i fynny y ddadl. Gwnaeth ddefnydd hapus o lythyr y Parch. Edmund Jones, M.A., o Fangor, yn y *Times*,—un o'r tri oedd yn gyfrifol am y "scheme" a gynygiasid, lle y dywedai: "Diwygiad sydd arnom eisieu. Mae yn gwbl anobeithiol amddiffyn sefyllfa bresennol pethau fel yn ddifrycheulyd, ac nid wyf yn petruso dweyd yn eich colofnau fod nifer mawr o'r Cymry, Eglwyswyr ac Ymneillduwyr, yn hiraethu am gael rhyw derfyniad rhesymol ar y cwestiwn blinderus hwn sydd wedi gwenwyno bywyd cymdeithasol, crefyddol, a gwleidyddol y genedl Gymreig am yn agos i hanner can mlynedd." Danghosai hynny yn amlwg fod yng Nghymru ddrwg ag yr oedd eisieu delio ag ef, a'r cwestiwn oedd pa fodd y gwneid hynny. Yr oedd Cymdeithas Diffyniad yr Eglwys eisieu anwybyddu y Diwygiad Protestanaidd, a gwneyd mai yr un oedd yr Eglwys trwy yr oll oesoedd. Ond yr oedd credu hynny iddo ef yn amhosibl, ac yr oedd y Wladwriaeth wedi ymyrryd yn ei hanes mewn ffordd a ddanghosai fod ei hawl yn ddiamheuol. Ond y cwestiwn ar y pryd oedd, A ydoedd Sefydliad a Gwaddoliad, dan yr amgylchiadau presennol, yn fanteisiol i gymdeithas fel yr oedd yng Nghymru? Mae y ddadl uchel fod Dadsefydliad yn "bechod cenedlaethol," &c., bellach yn myned yn anodd ei hamddiffyn. Delid mai daioni pennaf y Wladwriaeth oedd fod ganddi Eglwys Sefydledig, fod y Wladwriaeth am hynny yn fwy crefyddol. Ond a ydoedd felly? Pan aeth Ymneillduwyr i Loegr Newydd, a oedd Lloegr Newydd yn llai crefyddol nag oedd Lloegr dan Siarl yr Ail? Pan aeth Penn i Bensusylvania, a oedd Pennsylvania yn llai crefyddol am nad oedd iddi Eglwys Sefydledig? Fe fu i Ganada Sefydliad a Gwaddoliad, ond yr ydoedd wedi eu rhoi i fyny; a ddywedent fod Canada yn llai crefyddol na Lloegr? Neu unrhyw un o'r Talaethau? Barnai nad oedd yn ormod dweyd am yr hil Seisnig, fod yn sicr ddwy ran o dair o honi heb Eglwys Sefydledig. Ac a oedd y rhai hynny yn llai crefyddol na'r un y perthynem ni iddi? Yr oedd gan y rhai ar yr ochr arall i'r Ty ddwfn barch i Dy yr Arglwyddi, ac eto yr oedd

Ty yr Arglwyddi, a than arweiniad Arglwydd Salisbury, wedi dadsefydlu Eglwys Iwerddon. Condemnia Dadsefydliad fel pechod cenedlaethol, ac eto yr oedd Mr. Goschen wedi bod yn euog o bechod felly yn achos Iwerddon yn 1869, a'r noswaith honno wedi ei esbonio fel aberth i'r Iwerddon; yr ydoedd wedi fotio dros Ddadgysylltiad ei Heglwys er mwyn prynu heddwch. Yr ydoedd rheswm, ynta, dros wneyd y fath beth. Ai y wers a fynnai ddarllen i bobl Cymru oedd, y caent hwythau Dadsefydliad ond iddynt godi terfysg? Drachefn dyfynnai eiriau y diweddar Yagrifenydd Cartrefol, Mr. Matthews: "Ni siaradai efe am gysegrysbeiliad; yr oedd digon o achosion wedi bod yn ein hanes pan oedd y Senedd wedi ymyrryd ag eiddo yr Eglwys." Yr oedd hawl y Senedd i wneyd hynny, yn ol Mr. Matthews, yn ddiarnheuol. Dyfynnai un datganiad mawr ar bwnc y degwm o eiddo Arglwydd Coke, awdurdod dda ar hanes a chyfraith. "Pan anfonodd Gregori Fawr St. Awstin, tua'r flwyddyn 600, yn cael ei gynorthwyo gyda phregethwyr i bregethu'r Efyngyl, tystiolaethir gan gyfreithiau Edward y Cyffeswr, ymysg pethau ereill, y pregethai ac y gorchmynnai dalu degwm. Hyn a bregethodd St. Awstin, a hyn a ganiatawyd gan y brenhinoedd, y barwniaid, a'r bobl,"—disgrifiad rhagorol, meddai Syr William, o reddiad Gwladwriaeth. "Ond wedyn," ychwanegid, "trwy gynhyrfiad y diafol"—ai yn y tîrfeddianwyr?—"cadwasant ef, a gwrthodasant ei dalu." Os rhoddion preifat ydoedd, sut y daeth mor gyffredinol? Ofer hollol haeru y fath beth. Ac yr oedd y Wladwriaeth wedi ymyrryd â gwaddoliadau Eglwysig laweroedd o weithiau, a gallai wneyd felly eto. Ac anturiai efe i ddweyd na ddylai Eglwys Genedlaethol fod ymysg pobl fel pobl Cymru, oddieithr ei bod yn cynrychioli teimlad ac argyhoeddiad mwyafrif o'r boblogaeth. Lle'r oedd mwyafrif o blaid hynny, ni ddymunai efe ymyrryd â'u hawl. Ond nid oedd felly yng Nghymru. Ac ymotynnai, Sut y gwneid yn Lloegr pe buasai y teimlad yno yn debyg i'r hyn yw yng Nghymru? Dywedai y gwyddai eu gwrthwynebwyr na arhosai yr Eglwys am ddiwrnod. Yr oedd 460 o aelodau dros Loegr. Gyda 400 yn erbyn yr Eglwys, a 60 o'i phlaid, ai ni fyddai i'r ddadl rym? Dyfynnai Mr. Goschen eiriau Gladstone ugain mlynedd yn ol; yr oedd efe wedi gweled pethau mewn goleuni newydd ar ol hynny, a dylasai yntau fod wedi gweled y geiriau a lefarodd pan yn siarad o blaid Dadsefydliad a Dadwaddoliad yr Eglwys Gymreig yn 1881: "Mewn dau bwynt hanfodol y mae achos Eglwys Cymru yr un ag eiddo yr Iwerddon. Yn y lle cyntaf y mae yn Eglwys yr ychydig yn erbyn Eglwys y lliaws, ac yn yr ail le, y mae yn Eglwys y cyfoethogion yn erbyn Eglwys y tlodion mewn cymhariaeth." Yr oedd hynny yn fwy nag ildio i'r mwyafrif, fel yr awgrymai Mr. Goschen. Drachefn dywedai Mr. Gladstone: "Nid yw ymhell iawn oddiwrth y gwirionedd i ddweyd mai yr Ymneillduwyr ydyw pobl Cymru, yn ddiarnheuol corff pobl Cymru." Ac os gwir hynny, beth oedd i gyfiawnhau cadw yng Nghymru Eglwys Sefydledig? Nid ydoedd yn Eglwys a gynrychiolai deimlad ac argyhoeddiad mwyafrif pobl Cymru. Dyna yr unig amod a allai gyfiawnhau Sefydliad neu Waddoliad, a than yr holl amgylchiadau, yr oedd y Llywodraeth wedi ymgymeryd â'r cyfrifoldeb

o ofyn i Dy y Cyffredin benderfynu fod Sefydliad a Gwaddoliad yng Nghymru yn peidio a bod.

Quod erat demonstrandum. Dyna y ddadl wedi ei dwyn i derfyniad, ac anhawdd amgyffred sut y gallai neb ag yr oedd ei feddwl yn agored i argyhoeddiad, betruso am funud ar ba ochr y galwid arno i roddi ei bleidlais. A gwych ydyw meddwl, er cryfed y rhagfarnau yr oedd cynifer o'r aelodau wedi eu cadwyno ynddynt, ac er maint y pwysau a ddygasid i wasgu arnynt er eu cael i gadw pethau yn y drefn gysegr-edig y maent wedi bod ynnddi ers cymaint o amser, fod cynifer a 45 wedi fotio o blaid y Mesur! Wrth reswm nid ydyw hyn yn golygu ei fod allan o'r goedwig. Fe roddwyd eisoes rybuddion am welliantau aneirif bron y bwriedir eu dwyn ymlaen pan eir i'w ystyried mewn pwyllgor, ac y mae yn sicr na phesir ef ond er gwaethaf y gwrthwynebiad mwyaf cildyn a phenderfynol. Yng Nghynhadledd fawr y Penrhyn Castle, dywedai rhyw Mr. Mortimer, oedd yno yn cynrychioli Archeagob Canterbury, "Fe fydd i chwi yn yr esgobaethau Cymreig gael cymorth y nerthoedd hyfforddus yn Lloegr, a hwy a'ch cynorthwyant hyd y diferyn olaf o'u gwaed." Gobeithiai yr Archddiacon Thomas Williams yn yr un cynhulliad ysblenydd "na fyddai iddynt am foment ystyried unrhyw delerau, ond dal at undeb sanctaidd Eglwys a Gwladwriaeth ac na byddai iddynt ei werthu ond â'u bywydau." A galwai Esgob Bangor ar ei frodyr i "ymladd yn wrol, gan ddangos byddin unol a chref o filwyr dewr yn cael eu bywhau gan gynhyrfiad un ysbryd." A swn ymladd gwyllt a glywir trwy yr holl wersyll! Mae y gwroniaid pybyr am "ymladd yn wrol," yn ol cyngor tadol yr Esgob; am ymladd "nes colli y diferyn olaf o'u gwaed," fel y dywedai Mr. Mortimer; ie, "dal at undeb sanctaidd Eglwys a Gwladwriaeth, a pheidio a'i werthu ond â'u bywydau" fel y dywedai Archddiacon Meirionydd. Mae'n amlwg y bydd i ni felly gael tipyn o helynt; ond gallwn fforddio bod yn dawel, ac edrych ymlaen yn hyderus at adeg y bydd yr ystorm wedi tawelu, dadwrdd y geiriau mawrion wedi hen fyned heibio, a'r Eglwys yn ein gwlad yn cymeryd ei lle yn dawel fel Eglwys Iesu Grist, ac yn gwregysu ei lwynau mewn nerth na phrofodd erioed o'r blaen i wynebu ar y gwaith mawr a roddodd Efe iddi i'w gwblhau. Gallwn dweyd, gyda Mr. Gladstone ar fater arall: "Mae amser o'n hochr. Ni ellwch ymladd yn erbyn amser. Mae y nerthoedd cymdeithasol mawrion fel yr ymsymudant yn eu nerth a'u mawrhydi, heb eu hamharu gan wres ein hymladdau pleidiol, yn ymrestru ac yn ymgrynhoi o'n plaid."

DANIEL ROWLANDS.

NODIADAU LLENYDDOL.

Anti-State-Churchism: its Genesis and Justification. By WILLIAM OULTON. London: James Clarke and Co. 5s.

Welsh Disestablishment. Some Phases of the Numerical Argument. By OWEN OWEN, M.A., Oswestry. Wrexham: Hughes and Son. 4c.

Mae y ddau lyfr yma ar bwnc sydd yn awr yn tynnu llawer o sylw y deyrnas, ac y mae i Gymru yn neillduol ddyddordeb arbennig ynddo. Ymresymiad cryf a goleu ydyw llyfr Mr. Oulton ar y pwnc o Ddadsefydliad. Ymddengys i'w ddrychfeddwl godi o ymddiddan ddigwyddasai rhyngddo & chyfaill hoff sydd bellach wedi hen fyned "i'r wlad dawel," am un a wrthodai dalu treth, am ei bod yn groes i'w gydwybod. Pa le oedd i gydwybod mewn achos o'r fath? Nid oedd yn anhawdd gweld y gallai dynion nid yn anfynych ddadleu cydwybod pan fyddai yn anhawdd ymresymu & hwynt, ond eto pan allai hynny fod yn afresymol, ac y gallai arwain i ddrygau a fyddont yn niweidiol nid yn unig i'r dyn ei hun, ond hefyd i gymdeithas. Gwnaeth yr awdwr y owestiwn hwn yn efrydiaeth blynyddoedd, ac yn enwedig yn ei berthynas & chysylltiad orefydd a gwladwriaeth. Y tir y glaniwyd ef ynddo ydoedd hwn: Gyda materion gymdeithasol, ag y mae a fynnon't a threfn a diogelwch y boblogaeth, nad ellir dadleu cydwybod, ond fod llywodraeth gwlad i fynnu ufudd-dod i'w chyfreithiau; ond mewn achosion o grefydd, lle y mae a fynno dynion a gwasanaeth Duw, fod cydwybod yn oruchaf, ac nad oes gan lywodraethau gwladol un hawl i ymyryd, ac fod pob ymyriad o'r eiddynt,—pa un bynnag ai mewn ffordd o noddi, neu lywodraethu, neu orfodi,—o angenrheidrwydd o'r drwg, ac mai felly y mae hanes wedi eu profi o'r dechreuad. Am ei ddadl ar hyn y mae, ohwedi Milton, yn

Woven close, in matter, form, and style.

Ac anhawdd, le amhosibl, ydyw ei dymchwelyd. Gofynna y llyfr ei astudio, ond talai yn rhagorol am y drafferth.

Am lyfryn ein cydwladwr teillwng o Groesoswallt, dyna ydyw, "A apeliast di at Cesar? at Cesar y cai di fyned." Mae rhai o'r boneddigion sydd yn gofalu am Ddiffyniad yr Eglwys, dan ryw ysa ryfedd i fyned at ffygrau, ac yn ymddangos fel o dan lywodraeth y dyohymyg y gallant, trwy ffygrau, brofi y peth a fynnon't,—hyd yn oed fod y *tri* bach, sydd yn awr yn dal eu tarian yn Nhy y Cyfredin, yn llawer yohwaneg na'r *un ar ddeg ar hugain* sydd yno yn enw myrddiynau Cymru yn galw am Ddadsefydliad Eglwys Loegr yn eu gwlad. Os mynnai y darllenydd tirion weled y ddadl ryfedd hon yn cael ei gwneyd yn "draed mooh," fel y dywed y Monwyson, rhodded ei "rotan," ohwedi Goronwy, am lyfryn Mr. Owen.

Llawlyfrau Undeb Ysgolion Sabbothol y Methodistiaid Calfnaidd. Dan Arolygiaeth Pwyllgor y Gymanfa Gyffredinol. *I. ac II. Timotheus a Titus.* Gan y Parch. WILLIAM JAMES, B.A., Manchester. Cyhoeddedig gan y Gymanfa Gyffredinol.

Llyfr Josua, gyda Nodiadau at wasanaeth Deiliaid yr Ysgol Sabbothol. Gan y Parch. R. HUMPHREYS, Bontnewydd, Caernarfon: Welsh National Press Co. Rhan I. 8c.

Llawlyfr ar wersi Ysgolion Sabbothol y Methodistiaid Calfnaidd am y fwyddyn Ebrill 1895—Mawrth 1896, yn cynwys Hanesiaeth Ysgrhythrol, Josua i.—xiii. 14, gyda Map. Gan EDWARD JONES, Bangor. Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig. 2c.

Da iawn! Yr ydym o galon yn croesawu y llyfrau hyn fel cynorthwyon i'r Ysgolion Sabbothol sydd yn awr, trwy holl gyloch Methodistiaeth, yn dechreu ar y rhannau uchod o'r Gair fel meusydd eu llafur am y fwyddyn hon. Y mae Mr. James wedi gwneyd ei waith ar yr *Epistolau Bugeithol* mewn dull sydd yn

deilwng o bob clod. Aeth i mewn i'r holl lafur gyda gallu a doethineb a chydwy-bodolrwydd mawr; darllenodd lawer iawn, ac o'r pethau goreu a ygrifenydd ar y llythyrau hyn; y mae hefyd wedi meddwl y cwbl ei hunan, ac y mae y firwyth a geir o hynny yn addfed a gwerthfawr; y mae hefyd wedi gosod y cwbl o'n blaen, er yn gynnyrch dysgeidiaeth uchel, mewn Cymraeg nad ydyw yn bosibl ei chamgymeryd, ac y teimlir ei bod yn llawn o "arogl maes, yr hwn a fendithiodd yr Arglwydd." Yr oeddym yn disgwyl gwaith gwych o'i law ef ar yr Epistolau Bugeiliol, ond addefwn yn rhwydd, ac y mae yn falch gennym wneyd, ei fod wedi rhagori ar ein disgwiliadau; ac y mae i ni yn ddwfn foddhad i feddwl y bydd cynifer o'n cydwladwyr yn ystod y flwyddyn, ac yn enwedig cynifer o ddsbarthiadau o'n Ysgolion Sabothol, yn ennill cymaint mewn doethineb a daioni wrth astudio ei lyfr. Yr ydym yn clywed fod *deng mil o gopiau* o hono eisoes wedi eu gwerthu! Buasai yn dda gennym allu cyfeirio at amryw bethau ynddo a'n tarawent wrth ei ddarllen, ond nid allwn. Ac y mae hynny yn llai angenrheidiol am fod cynifer o'n darllenwyr bellach wedi myned yn ddwfn iddo.

Ac ni raid i Mr. Humphreys, yn sicr, wrth lythyrau canmoliaeth, pan y mae cynifer o'i gydwladwyr eisoes wedi manteisio cymaint ar ei lafur fel esboniwr. Deallwn y cwblheir y gwaith hwn o'i eiddo ar *Josua* mewn saith o rannau tair ceinlog yr un. Cynhwysa y rhan hon Arweiniad i mewn rhagorol, a nodiadau ar y bennod gyntaf a rhan o'r ail. Dylai holl athrawon y dosbarthiadau ieuengaf, yn neillduol, ei feistrolï, a diameu y myn llawer o'r ysgolorion wneyd yr un peth.

Y mae ein cyfaill Mr. Edward Jones hefyd wedi cyhawn ennill ei yspardynau mewn gwaith o'r fath ag y mae yma wedi ymgymeryd ag ef. Galwasom sylw yn ein Rhifyn diweddaf at lyfryn cyffelyb o eiddo Mr. Williams, Hirwsen. Y mae lle hefyd i waith Mr. Jones, a diameu y bydd yn dda gan llaw ymgynghori a'r dda.

Gweithiau Ceiriog. Dwy Gyfrol mewn llian. 5s. Wrexham: Hughes and Son.

Da iawn gennym weled *Gweithiau Ceiriog* mewn dull mor hardd ac am bris mor reasmol yn cael eu gosod yn y farchnad. Galwasom sylw dro yn ol atynt mewn rhwymiad cryfach, ac am bris oedd dipyn yn uwch. Diameu y bydd yn dda gan llaw wneyd y cyfrolau prydferth hyn yn eiddo iddynt. Gwasanaethent yn rhagorol hefyd fel anrhegion, ac fel gwobrwyon mewn Cyfarfodydd Cystadleuol, &c. Mae Ceiriog wedi gwneyd ei le yn ein llenyddiaeth, ac fe fydd y Cymry ymhob man, ac am oesoedd lawer, yn ei fwynhau. Gwsgyn, fel yr awgrymasom o'r blaen, na roisid cynhwysiad yr oll o'r gwaithiau sydd yn gwneyd i fyny y cyfrolau hyn.

Holwyddoreg Dirwest. Gan Dr. J. J. RIDGE, M.D., &c., Awdwr y "Temperance Primer," &c. Wedi ei gyfieithu at wasanaeth Byddin Gobaith neu y Band of Hope. Gan Dr. R. THOMAS JONES, Harlech. 1c.

GWAETH Dr. Jones waith da dro yn ol wrth gyfieithu llyfr bychan ond trachynhwysfawr Charles Wakeley, "Llawlyfr Dirwest i'r Ieuanic;" ac y mae ei waith yn cyfieithu yr Holwyddoreg hwn o eiddo Dr. Ridge yn gymwynas y dylid ei throï yn eia holl ardaloedd yn fendith i'n cenedl. Y mae eto drwch mawr o anwybodaeth yn ein plith am natur y diodydd meddwol, a llawer yn credu eu bod yn dda, ond peidio eu hyfed i ormodedd. Gellid dysgu ein plant a'n pobl ieuainc trwy y llyfryn hwn nad allant fod yn dda mewn unrhyw ffordd; a chan eu bod ymhob ffordd yn gwneyd cymaint o ddrwg, fe'u dygid i weled, drostynt eu hunain, mai y peth callaf a allant wneyd ydyw ymgadw oddiwrthynt y gwbl, a gwneyd eu goreu er eu hysgubo allan o'r tir.

TIME TESTED TEAS.

SUPERIOR CEYLON TEA

1/3 PER LB.

16lbs. by RAIL CARRIAGE PAID for 20s.

SUPERIOR
INDIAN
SOUCHONG

PER 1/7 LB.

PRIZE MEDAL
LIVERPOOL
EXHIBITION.

THOS. JONES & CO. LTD.
TIME-TESTED
Teas

AMSER ADDENGYS
TIME HAS PROVED
THAT
THOS. JONES & CO.
TEAS
ARE UNSURPASSED

THOS. JONES & CO. LTD.
INDIA CHINA
TEA

TESTED BY TIME
THOS. JONES & CO. LTD.
9, PARKER STREET
LIVERPOOL. TEA & COFFEE MERCHANTS.
BIRKENHEAD SOUTHPORT & BLACKBURN.

SUPERIOR
BLENDED
TEA

PER 2/- LB.

SPECIALLY
RE-
COMMENDED.

AGENTS WANTED. SAMPLES ON APPLICATION.

Thos. Jones & Co., Ltd.,

TEA IMPORTERS,

9, Parker Street, LIVERPOOL.


COCOA CADBURY

Hollol bur, wedi ei wneyd yn Lloegr.

Ni ddefnyddir Chemicals fel y gwneir yn Cocoas a elwir yn rhai tramor.

Mae enw CADBURY ar unrhyw sypyn o Cocoas
neu Chocolate yn ddigon o sierwydd am burdeb.





Y TRAETHODYDD.

GORFFENNAF, 1895.

CYNHWYSIAD.

Cyfundrefn Grefyddol China a Japan. Gan y Parch. D. LLOYD JONES, M.A.	241
Milton a'i Gynllun Addysg. Gan DAVID SAMUEL, M.A.	251
Offeiriadaeth a Chyfyngdod. Gan y Parch WILLIAM GLYNNE, B.A.	261
Profiad PRENTIS o Siopwe Ddeugain Mlynedd yn ol... ..	269
Traethodau Llenyddol Dr. Edwards Gan y Parch. JOHN PRICHARD	276
Rhesymoldeb Addoliad. Gan y Parch. J. J. ROBERTS	281
Charles o'r Bala fel Cymreigydd. Gan yr Athraw YOUNG EVANS, M.A.	290
Syr Lewis Morus	296
Y Ddau Ddadsefydlu. Gan y Parch. DANIEL ROWLANDS, M.A. ...	297
Canghellydd Prifysgol Cymru	314
Nodiadau Llenyddol	316

CYHOEDDIR Y RHIFYN NESAF MEDI 1, 1895.

PRIS SWLLT.

TREFFYNNON:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN P. M. EVANS & SON.

COLEG Y GOGLEDD, BANGOR

(UN O'R COLEGAU YN Y BRIFYSGOL GYMREIG).

PRFATHRAW: H. R. REICHEL, M.A., gydag Unarddeg o Brofesswyr, Tri o Ddarlithwyr, a Phedwar ar ddeg o Athrawon ereill.

Dechreuas y Tymor nesaf Hydref 1, 1895. Parotoir ar gyfer Arholiadau Prif Gymru ac eiddo Prifysgol Llundain, y Cwrs Meddygol ym Mhrifysgolion Edinburg a Glasgow, ac Arholiadau ereill. Rhwir addyg arbenig mewn Amaethyddiaeth *Electrical Engineering*. Mae yn y Coleg Adran Normalaidd.

Cynnygir dros 20 o Yagoloriaethau, yn amrywio mewn gwerth o £40 i £100 flwyddyn, i'r rhai fyddo'n ymaelodi yn y Coleg gyda dechreu y tymor nesaf. Rhwydd hanner yr Yagoloriaethau yn gyfyngedig i Gymry. Dechreuas yr arholiad am ddiwrnod Medi 17.

Ceir pob manylion gan

JOHN EDWARD LLOYD, M.A.

Ygrifennydd a Chofrestrydd.

AT HOLL

GYMRY Y DEYRNAS GYFUNOD

TELERAU ARBENIG

HYD GORPHENAF 31,

1895,

ESBONIAD JAMES HUGHES

AR Y

TESTAMENT NEWYDD

WEDI EI RWYMO YN HARDD A CHRYF MEWN GROEN LLO,
AM DDIM OND

UN BUNTI!

Y Pris isaf y gwerthwyd yr Esoniad erioed, se
gostyngiad o

BEDWAR SWLLT AR DDEG A CHWE CHEINIOL

Y GYFROL.

Y TRAETHODYDD.

CYFUNDREFN GREFYDDOL CHINA A JAPAN.

II.

BYWYD EI SYLFAENYDD.

Yr ydym wrth anturio i mewn i'r rhan hon o'r pwnc uchod, yn teimlo ein bod yn myned i mewn i diriogaeth sydd yn llawn o ddefnyddiau o bob math; gwir a gau, her a diweddar; feithiau hanesyddol diamheuol, a chwedlau disail; cynhyrchion disylwedd ymenyddiau cenedlaethau ar genedlaethau o edmygwyr person a chymeriad Gautama Bwdha. Yr ydym wedi darllen hanes ei fywyd gan wahanol awduron, a'r argraff y mae yn ei adael ar ein meddwl yw, ei fod yn ffurfio tryblith o ddigwyddiadau hanesyddol ar un llaw, a chwedlau ynfyd a hollol anghredadwy ar y llaw arall, fel y mae'n ymddangos yn orchwyl anobeithiol i geisio eu hysgaru oddiwrth eu gilydd. Yn yr olwg arnynt y mae ysbryd amheuaeth yn cymeryd meddiant o honom. Ni allwn lai na gofyn y cwestiwn, A fu y fath berson erioed mewn bodolaeth? Ai nid creadigaeth y meddwl dynol ydyw, mor wirioneddol âg Iau a Neifon, neu Wooden a Thor? Y mae amhevon am ei gymeriad hanesyddol wedi bod yn blino rhai o'r dynion galluocaf a fu yn treulio eu bywydau i astudio ei ddysgeidiaeth. "Gyda golwg ar y pwnc hwn," sef bywyd Gautama Bwdha, meddai Mr. Spence Hardy, "ni all y rhan fwyaf fod yn ddim ond trwyth o wrthuni digymysg, gyda chyn lleied o ddefnyddiau i gynhyrchu dyddordeb ag a gyflwynid i sylw mewn cyfres o freuddwydion didor yn codi o gwsg aflonydd; ond y mae'n *debyg fod agos i bob digwyddiad yn seiliedig ar ffaith*; a phe buasem yn feddiannol ar allu swyngyfareddol i'n cyfarwyddo i ddewis y gwir a gwrthod y gau, yna galesid ysgrifennu hanes i'r hon na byddai braidd yr un yn gyfartal ym mhwysigrwydd y wers a ddygai."

Er gwaethaf yr holl ddigwyddiadau anghredadwy sydd yn britho ei hanes, yr ydym yn credu yr arweinir unrhyw ddyd teg a diragfarn,—rhydd oddiwrth ofergoeldd ar un llaw, ac oddiwrth ysbryd gor-amheugar ar y llaw arall,—i'r casgliad ei fod yn berson hanesyddol gwirioneddol, ond fod ei ddilynwyr a'i ddisgyblion wedi ei gladdu bron o'r golwg yn ystod y 2400 o flynyddoedd diweddar dan haenau o chwedlau disail. Nid ydym yn gofyn i'r darlennydd dderbyn y syniad hwn heb roddi iddo rai rhesymau a ymddengys i ni yn gwbl anghyson â'r dybiaeth mai person hollol ddychmygol ydoedd.

Nid ymfurfio yn raddol yn nhreigliad oesoedd a wnaeth y prif ffeithiau yn hanes ei fywyd, ond y mae cofnodiad o honynt mewn llenyddiaeth o'r canrifoedd agosaf i'r oes ymha un y myn ei ddilynwy'r ei fod yn byw.

1. Y mae y Pitakiaid, neu y Casgliadau, fel y gelwir llyfrau canon-aidd Bwdhistaidd y Deheu, y rhai sydd yn awr ar gael yn Ceylon, yn ol Dr. Rhys Davids, "yn sylweddol yr un â llyfrau y Canon Deheuol fel y penderfynwyd arno yng Nghyngor Patna oddeutu'r flwyddyn 250 o.C. Gan na dderbynnid dim i mewn i'r ysgrhythrau awdurdodedig ond yr hyn a gredid y pryd hwnnw oedd yn hen iawn, gellir gosod y Pitakiaid oddeutu y bedwaredd ganrif cyn Crist, ac y mae rhannau o honno yn cyrraedd yn ol o bosibl yn agos, os nad yn hollol, i amser Gautama ei hunan." Dyma reswm cryf ar sail tystiolaeth un o'r awdurdodau uchaf.

2. Oddeutu can mlynedd wedi marwolaeth Bwdha, yr hyn a gymerodd le, fel y tybir, rhwng 543 a 412 cyn genedigaeth Crist, cymerodd rhwyg mawr le rhwng ei ddilynwy'r, yr hwn a achlysurwyd gan waith rhai ymysg ei ddisgyblion yn esgeuluso y ddisgyblaeth a sefydlaidd gan sylfaenydd eu crefydd. Yr oedd yr offeiriaid oedd wedi ymollwng i'r dull llac a phenrydd hwn o fyw, yn trigo yn Vaisali, tref ychydig i'r gogledd o Patna. Er mwyn penderfynu y pwnc pa un a oedd ymddygiadau y brodyr hyn yn gyson â rheolau Bwdhistaeth ai nad oeddynt, cynhullwyd Cyngor o dan lywyddiaeth person o'r enw Revata, ac yn y Cyngor hwn condemnwyd ymddygiadau penrydd offeiriaid Vaisali. Sylwer ar hyn, sef fod cynhaliad y Cyngor hwn yn ffaith hanesyddol nad oes dim mwy o amheuaeth yn ei chylch nag sydd am gynhaliad Cyngorau Nice neu Trent.

Yn yr ymranriad hwn y cawn yr achos a gynhyrchodd y ddau fath o lenyddiaeth a berthyn i'r grefydd Fwdhistaidd, sef llenyddiaeth y De a llenyddiaeth y Gogledd. Yn yr adeg foreuol hon, yr oedd y Bwdhistaidd oedd yn eistedd yn y Cyngor yn credu fod sylfaenydd eu crefydd hwy yn berson gwirioneddol. Pe ffrwyth dychymyg yn unig a fuasai, yr oedd y rhai hyn yn byw yn ddigon agos i'r oes ymha un y dywedir y treuliai Gautama Bwdha ei fywyd, fel y buasant o angenrheidrwydd yn gwybod mai ffug a thwyll oedd yr holl hanes am dano. Yn lle hynny, nid oedd gan neb o honynt amheuaeth nad ydoedd yn berson hanesyddol, wedi treulio bywyd gwirioneddol ar y ddaear. Nid oedd canrif o amser yn gyfnod digon maith i ddychymyg dyn i godi adeilad mawreddog o chwedlau disylwedd a disail. Rhaid i hanes chwedlonaid, fel mawnog fawr drwchus, gael canrifoedd lawer i sugno i mewn ei defnyddiau o awryglch cymdeithas, a'u gosod yn haen ar haen, nes gorffen ymfurfio ac ymgaledu; ond nid oedd y cyfnod rhwng amser Gautama ac adeg Cyngor Vaisali yn ddigon maith i grebwyll dynol roddi bod i'r greadigaeth ddychmygol.

3. Ysgrifennwyd hanes bywyd Gautama Bwdha gan berson o'r enw Asvaghosha, a hynny mor fore â chanol y ganrif gyntaf, o.C. 50. Ganwyd y gŵr hwn yng Nghanolbarth India, a dygwyd ef i fyny mewn teulu Brahminaid; ond troes ei gefn ar y grefydd ymha un y dygasid ef i fyny, a chofseidiodd Fwdhistaeth. Argyhoeddwyd ef yn drwyadl mai ffug a thwyll oedd Brahminiaeth, a'i bod yn gwbl anghymwys i

ddyrechafu dyn fel bod moesol ac ysbrydol ; a phrofodd gywirdeb ei droedigaeth trwy ymdafu â'i holl egni i'r gwaith o ledaenu athrawiaethau Bwdhistaeth. Yr oedd hwn yn ŵr o chwaeth a diwylliad meddyliol lled uchel, yn fardd ac yn gerddor, ac efe oedd Williams, Pantycelyn, y grefydd Fwdhistaidd yn India. Efe a gyfansoddodd emynau boreuaf ei grefydd fabwysiedig. Cymerwyd ef o Ganolbarth India i'r Gogledd gan Kanishka, penadur a lywodraethai ar Ogledd-barth India, a rhan helaeth o Ganolbarth Asia. Daeth y brenin hwn i'r orsedd oddeutu 70 o.c., ac oddiwrth hyn ceshgir fod Asvaghosha, bywgraffydd cyntaf Gautama Bwdha, yn blodeuo o ddechreu y ganrif gyntaf hyd yn agos i'r diwedd. Nis gall fod dim dadl na chasglodd y gŵr hwn ddefnyddiau ei lyfr o India, y wlad ymha un yr oedd Bwdha wedi treulio ei fywyd oddeutu pedair canrif cyn yr adeg yr ymgymerodd y gŵr hwn â'r gorchwyl o ysgrifennu hanes ei fywyd. Y mae'r ffaith fod bywgraffiad wedi ei ysgrifennu mewn cyfnod mor foreuol yn brawf lled gryf mai person gwirioneddol oedd ei wrthrych.

4. Dygwyd i mewn lyfr o hanes bywyd Gautama Bwdha i China mor foreu a 72 o.c., ac o'r cyfnod hwn ymlaen am 600 neu 700 o flynyddoedd, parhaodd mynachod ac offeiriad Bwdhistaidd i ddylifo yn rheolaidd i mewn i'r ymerodraeth eang a hynafol honno.

Y mae bodolaeth y cynhyrchion llenyddol hyn, a'r profion sicr a geir iddynt gael eu cyfansoddi mewn cyfnod mor fore ag o 1800 i 2800 o flynyddoedd yn ol, yn dra anghyson â'r dybiaeth mai person hollol ddychmygol ydoedd, creadigaeth crebwyll cenedlaethau o ddyinion, heb ddim mwy sylweddol yn perthyn iddo nag a berthynai i'r duwiau y disgrifir eu gorchestion yng ngweithiau Hesiod a Homer. Er gwaethaf yr ysbryd eithafol o anghrediniol a gorfeirniadol sydd yn trwytho awyrgylech cymdeithas yn ein dyddiau ni, rhaid i bob dyn teg addef y ffaith fod nifer mor helaeth o gynhyrchion llenyddol yn dwyn perthynas â'r grefydd hon mewn cyfnod mor foreuol, yn milwrio yn erbyn y dybiaeth mai person hollol ddychmygol oedd ei sylfaenydd. Yr oedd awduron y cynhyrchion hyn yn byw yn yr un wlad â gwrthrych eu hedmygedd, ac mewn ychydig genedlaethau i'r adeg yr oedd eu harwr yn treulio ei oes ryfedd ar y ddaear ; ac yr oeddynt oll yn credu mai person gwirioneddol ydoedd, yr hyn sydd yn hollol anghyson â'r dybiaeth nad yw ei holl hanes yn ddim ond cydgasgliad o chwedlau, neu gronfa o ddychmygion a fuasai yn gofyn canrifoedd lawer i ymgonni ac ymlenwi.

Wrth amlinellu ei hanes yr ydym yn gadael allan bron yr holl ddigwyddiadau goruwchnaturiol sydd fel llwch aur yn addurno bron bob digwyddiad yn ei fywyd yn ysgrifeniadau ei edmygwyr. Yr ydym wedi ceisio dethol y pethau sydd yn fwyaf *tebyg* i hanes credadwy allan o bentyrrau afuniaidd o gerrig a chalch, pridd a lludw, clai a sothach. Pe gosodem i lawr yr holl chwedlau anhygoel a adroddir am dano, chwyddai ein hysgrif yn gyfrol, a llenwid y darlennydd â dirmyg a diflaetod wrth geisio ymwthio yn llafurus ar draws y fath gyfandir o greigiau, o dywod, ac o laid. Cofier mai y prif linellau yn yr hanes yn unig a roddir, ac nad oes neb yn fyw a all eu rhannu yn deg rhwng y ddau fath o lenyddiaeth i ba rai y maent yn perthyn, sef hanes a flugchedleuaeth. Y mae hwn yn orchwyl nad yw y beirniaid mwyaf

dysgedig yn ieithoedd India a China—Dr. Rhys Davids, y Profesiwr Legge, Spence Hardy, Max Müller, y Parch. S. Beal, George Bâbeer—yn honni y gallant ei gyflawni.

EI ENEDIGAETH.

Y mae yn India Brydeinig ddinas fflodeuog ac enwog yn gorwedd ar lannau y Ganges o'r enw Benares. Y mae hon yn brif-ddinas darn helaeth o wlad o'r un enw, ac yr oedd poblogaeth y diriogaeth hon yn 1881 yn 8,179,307. Y mae'r ddinas hon yn parhau hyd heddyw yn un o'r dinasoedd pwysicaf yn India, oblegid cynhwysa yn ein dyddiau ni 207,570 o drigolion. Oddeutu 100 milltir i'r Gogledd Ddwyrain o'r ddinas, ar lan afon Rohini, safai dinas oddeutu dwy fil a hanner o flynyddoedd yn ol o'r enw Kapilavastu. Gall yr enw hwn fod yn un dieithr i rai o ddarlennwyr y TRÆTHODYDD, ond y mae mor adnabyddus i, a chysegredig yng ngolwg cannoedd o filiynan o'r hil ddynol ag ydyw Mecca a Medina i'r Mahometaniaid, neu Jerusalem a Bethlehem i ni y Cristionogion. Preswylid y wlad a amgylchyna y ddinas hon gynt gan lwyth o Aryiaid, y rhai a adnabyddid wrth yr enw y Sakyiaid. Enw pennaeth y ddinas hon oedd Suddhodana. Priododd y pennaeth hwn ddwy chwaer, merched i bennaeth ar lwyth arall o'r un gwelyth, yr hwn a drigai ar yr ochr arall i'r afon. Enw y llwyth hwn oedd llwyth y Kolyiaid. Ar ol eu hymuniad mewn priodas am lawer o flynyddoedd â Suddhodana, parhaodd y ddwy dywysoges yn ddiblant. Ond o'r diwedd, pan wedi cyrraedd ei 45 oed, danghosodd yr hynaf o honnynt o'r enw Maya, neu Mahamaya, ei bod yn debyg o gael cyflawniad o brif ddymuniadau ei chalon. Pan agoshaodd yr amser i'r plentyn gael ei eni, hysbysodd ei phriod ei bod yn awyddus i dalu ymweliad â'i rhieni, a chydysniodd yntau a'i chais. Cychwynodd ar ei thaith o Kapilavastu i Koli, cartref pennaeth y Kolyiaid. Gan nas gallai deithio yr holl fordd rhwng y ddwy ddinas yn ddidor, gorphwysodd mewn llwyn prydferth o goed Satin, ac yn y lle hwn y rhoes enedigaeth i'w mab cyntafanedig, Gautama Bwdha, neu Sakya Muni, yr hwn a ddaeth wedi hynny, yn ol cred ei ddilynwyr, yn brif Waredwr y Byd.

Y mae llyfrau y Bwdhistiaid yn rhoddi pwys mawr ar y digwyddiad hwn, ac yn honni eu bod yn gwybod i sierwydd yr holl fanylion yn ei gylch. Gwyddant yn gywir yr adeg y cymerodd ei genhedliad a'i enedigaeth le, ym mis Aesala (Gorffennaf ac Awst) y digwyddodd y cyntaf, ar y 14eg o'r mis; a'r diweddaf ar ddydd Mawrth, pan oedd y lleuad yn llawn ym mis Wesak (Mai). Ar yr un adeg, medd llyfrau cysegredig y Bwdhistiaid, y ganwyd Yasodhara, yr hon wedi hynny a ddaeth yn wraig iddo, a'r bonheddwr Channa, yr hwn a'i dilynodd fel cydymaith yn ei ffoedigaeth o dŷ ei dad; ei gyfaill a'i wasanaethwr Ananda; y bonheddwr Kaludayi, yr hwn a afonwyd i'w berswadio i ail-ymweled â thy ei dad: ie haera yr hen ysgrifau mai ar yr adeg hon y ganwyd hyd yn oed ei farch Kantaka! Wrth gwrs, nis gall fod dim gwirionedd hanesyddol yn y traddodiad gwrthun hwn. Dychwelodd Maya yn ol gyda'r baban cyntafanedig i balas ei gŵr yn ninas Kapilavastu, ac ymhen saith niwrnod bu farw. Wedi marwolaeth ei fam

disgynnodd gofal y plentyn yn naturiol i ddwyllaw ei fodryb, neu ei fam wen, gwraig arall y pennaeth Suddhodana.

Y mae'r holl ddogwyddiadau a gofnodir yn hanes ei fywyd yn nhymor ei faboed a'i ieuencid, y profion a roddes o'i annhraethol ragoriaeth ar ei holl gyfoedion mewn doethineb a nerth, mor anhygoel, ac yn dwyn delw eu flynhonnell ddychmygol i'r fath raddau fel nad ydynt yn werth eu hailadrodd.

Pan dyfodd i fyny yn ŵr ieuanc, mewn amser cyfaddas, ymbriododd â'i gyfnither, Yasodhara, yr hon a alwyd wedi hynny yn Rahula-mata, neu Mam-Rahala, sef mab cyntafanedig Gautama Bwdha. Yr oedd ei wraig yn ferch o waedoliaeth ac urddas uchel, ac felly yn gwbl gymwys o ran ei safle i fod yn gymar bywyd iddo. Yr oedd yn ferch i bennaeth o'r enw Supra-bwdha, brenin y Kohyaid. Nid oedd tad y foneddiges yn foddlon iddi ei gymeryd, am ei fod yn gweled oddiwrt h ei natur fyfyrgar a'i ddifrifwch, fod y tywysog ieuanc yn tueddu at fywyd mynachaid; ond yr oedd serch y dywysoges ieuanc wedi rhedeg arno, ac ni fynnai feddwl am neb arall ond efe yn gymar bywyd. Gan fod ei thad yn dangos gwrthwynebiad ystyfnig i'r briodas, penderfynodd tad y gŵr ieuanc, Suddhodana, fyned ei hunan i ddinas Koli, a dwyn y dywysoges ieuanc ymaith trwy drais. Hyn a wnaeth, a chymerodd y briodas le, a gwnaed y dywysoges yn brif frenhines Sidhartha, yr enw wrth ba un yr adnabyddid y tywysog ieuanc y pryd hwnnw. Yn y cyfwng hwn ar ei fywyd y mae hanes credadwy yn suddo o'r golwg, a diluw o chwedloniaeth ddyddorol a swynol yn rhedeg fel dwfr grisialaid, gan guddio holl ddogwyddiadau gwirioneddol ei fywyd yn gwbl o'r golwg. Pan y mae hanes yn fallu, y mae dychmyg yn dod ymlaen ac yn gorchuddio y noethder a'r tloidi trwy eu haddurno â blodau amryliw. Pa faint bynnag o weithred oedd arwraidd a berthynent i fywyd Gautama Bwdha, nis gall fod dim dadl nad yw edmygedd ei ddilynwyr wedi cynhyrfu eu crebwyll i'w chwyddo ac i ychwanegu ystorfa helaeth atynt. Cyflawnodd orchestion, medd ei hanes, yn y cyfnod hwn ar ei fywyd, a orchuddiodd ei feirniaid a'i wrthwynebwy'r â chywilydd a gwarth. Cwynai ei berthynasau ei fod yn ieuanc a gwannaidd ei iechyd, ac nad oedd yn gymwys i ferched boneddwy'r y wlad i ddod yn dywysogesau iddo; ond pan glywodd Gautama hyn, gwysiodd holl drigolion y wlad i ymgasglu ynghyd ar ddydd penodol, ac yn eu gwydd cyflawnodd orchestion mewn nerth anianyddol a medrusrwydd trwy saethu â bwa, nes eu hargyhoeddi oll ei fod yn gymwys i lenwi y safle urddasol i ba un y ganesid ef.

Hyd yr amser yma yr oedd wedi bod yn byw ynghanol ardderchogrwydd, yn cael ei gylchynu gan bob math o esmwythyd a moethau a allasai cyfoeth ac awdurdod brenhinol eu pwrcau. Ond yr oedd yr argyfwng mawr yn ei fywyd yn agoshau, yr hwn oedd i esgor ar ganlyniadau o annhraethol bwys i gannoedd o fillynau o'r hil ddynol.

YR HUNANYMWADIAD MAWR.

Ymddengys ei fod ynghanol ei holl fanteision, pan yn cael ei amgylchu gan urddas a godidowgrwydd brenhinol, yn ŵr ieuanc meddylgar a thyner-galon, ac yr oedd golygfeydd o drueni a galar, pa bryd

bynag y deuent o dan ei olygon, yn cynhyrfu ei gydymdeimlad ac yn llenwi ei enaid â phruddglwyfni. Dyfnheid ei drueni hefyd gan yr athrawiaeth a ddysgid gan y Brahminiaid am Draws-symudiad eneidiau. Os oedd yr athrawiaeth hon yn wir, gwelai Gautama nad oedd dim gobaith byth i eneidiau dynion ddianc allan o gadwynau caethiwed. Gwelai megis môr diderfyn o drueni, ar wyneb pa un yr oedd eneidiau dynol wedi eu tynghedu i gael eu gyrru gan wyntoedd ystormus am byth.

Yn awr cymerodd tri neu bedwar o ddigwyddiadau le yn ei fywyd, y rhai a'i harweiniasant i adael ei gartref, ac i lwyr ymgysegru i fywyd o hunanymwadiad.

1. Fel yr oedd y tywysog un diwrnod yn myned allan gyda'i wâs Channa i'w ardd, trwy borth dwyreiniol y ddinas, cyfarfyddodd â hen wr methedig yn crymu tua'r llawr gan henaint. Cerddai yr hen wr gan bwyo yn drwm ar ei ffon, a phob aelod yn ei gorff yn crynu, ei wythennau megis yn sefyll allan trwy y croen oedd am ei gorff teneu, ei ddannedd un ai wedi colli neu yn llac yn ei enau, a'i lais yn doredig a chrynedig. Effeithiodd yr olygfa yn fawr ar y tywysog, ac nis gallai gelu ei syndod a'i alar. "Pa beth yw hyn?" meddai wrth y gyriedydd. "Ai cyflwr yw hwn sydd yn perthyn i'r dyn hwn yn unig neu i'w deulu?"

"Nage, mewn modd yn y byd, fy arglwydd," meddai y gyriedydd. "Henaint yw hyn. Y mae caledwaith a dioddefaint wedi dinystrio nerth y dyn hwn, ac y mae yn awr yn wrthrych dirmyg i'w berthynasau, ac y mae wedi ei adael heb foddion cynhaliath, fel boncyff hen goeden mewn coedwig. Ac y mae hyn yn dod i ran pob dyn. Rhaid i'ch tad, rhaid i'ch mam, rhaid i bob creadur ddod i'r cyflwr hwn."

"O! drueni!" meddai y tywysog; "mor anwybodus a chyfeil-iornus yw dyn, yr hwn sydd yn falch o gyfnod ei ieuencid, ar yr hwn y mae yn penfeddwi, ac nad yw yn gweled yr hen ddyddiau sydd yn ei aros. Tro yn ol i'r ddinas. Pa beth sydd a wnelwyf fi â phleser, a minnau wedi fy nhyngedu i'r fath ddiwedd a hwn?"

2. Aeth y tywysog allan ar amgylchiad arall trwy borth deheuol y ddinas i'w ardd i fwynhau ei hunan, a'r tro hwn gwelodd ddyn a'i gorff wedi ei andwyo gan afiechyd, heb gysgod ac heb gwmni, yn ymladd am ei anadl, a'i gorff wedi ei ddirdynnu, a dychryn yn ymrithio yn ei wyneb. Gofynnodd yr un cwestiwn i'r gyriedydd drachefn, a derbyniodd atebiad cyffelyb. Sicrhâi y gyriedydd ef nad oedd hwn yn gyflwr yn perthyn i'r un dyn yn neillduol, ond fod pawb yn agored i syrthio iddo. Yr oedd y digwyddiadau hyn megis yn codi cwr y llen oddiar gyfandir tywyll nad oedd y tywysog hyd yn hyn ond prin yn gwybod am ei fodolaeth. Cynhyrfwyd ei natur i'w dyfnderoedd, oblegid teimlai mor wrthun ydoedd iddo ef ymroddi i geisio pleser mewn byd oedd yn llawn o olygfeydd o ddiodeffaint a thrueni fel y rhai hyn. Gorchmynnodd i'r gyriedydd droi pen y march a dychwelyd i'r ddinas.

3. Pan yr oedd yn myned allan o'r ddinas ar amgylchiad arall, digwyddodd gyfarfod â gorymdaith angladdol, yr hon oedd yn cludo tua'r gladdfa gorff marw, mewn cyflwr pell o ddadansoddiad a llygr-edigaeth. Gorweddai y corff yn noeth ar yr elor, a lluchiai y perthyn-

asau lwch ar eu pennau, a churent eu dwyfronnau, gan ymollwng i alar a wylofain. Effeithiodd yr olygfa hon yn fawr arno, a llannwyd ef â phruddglwyfni yn yr olwg ar dynged y ddynoliaeth. Nis gallai ymatal heb roddi datganiad i'w deimladau yn y geiriau canlynol:—“Druan o dymor ieuencid,” meddai, “yr hwn y mae henaint yn ei ddinystrio. Druan o iechyd, yr hwn y mae afiechyd yn ei oresgyn. Druan o fywyd, yr hwn sydd yn terfynu mewn marwolaeth. Gwyn fyd na bai henaint heb fod, nac afiechyd, na marwolaeth. Awn yn ol i'r ddinas, ac mi a geisiaf fyfyrto am ffordd o waredigaeth.”

4. Y pedwarydd digwyddiad a effeithiodd ar ei feddwl oedd yr un canlynol. Fel yr oedd yn myned allan o'r ddinas, cyfarfyddodd â chardotyn crefyddol (*mendicant*) yn cerdded ar y ffordd, a'r olwg dawel a thangnefeddus ar ei wynepryd yn awgrymu fod ysbryd disgybledig o'i fewn. Nid oedd am dano ond un wisg dlawd, ond'er hyn ymrodiai ymlaen yn urddasol, a chariai yn ei law lestr i gardota. Temtiodd yr olygfa hon y gyriedydd i'w hesbonio i'w Arglwydd yn y geiriau a ganlyn:—“Y mae y dyn hwn yn ymdeithio trwy fywyd, gyda thawelwch, am ei fod wedi ffarwelio â'i bleserau, ac wedi gorfodi ei hunan i drechu ei hunan; ac yn awr y mae yn byw yn rhydd oddiwrth nwyd, oddiwrth genfigen, ac oddiwrth chwant.” Tarawodd yr olygfa hon feddwl Gautama yn rymus, ac yn ei goleuni cafodd gipdrem ar yr unig ffordd i ddyn i gael gwaredigaeth oddiwrth drueni. “Hon,” meddai, “yw y ffordd o waredigaeth. Mi ffarwelias finnau â bywyd ac a'i bleserau.”

Y mae Mr. Spence Hardy, yr hwn a gasglodd ei ddefnyddiau o'r lenyddiaeth Fwdhistaidd, yr hon sydd ar gael yn Ceylon yn ieithoedd Sansteriet, Pali, a Singalese, yn disgrifio y digwyddiadau hyn yn llawer mwy llawn a manwl nag yr ydym ni wedi eu gosod i lawr yma; ond nis gallwn roddi sylwedd y cwbl a adroddir yn ei waith llafurfawr ef, am yr arweiniai hynny ni i orfeithder. Adrodda yr ymddiddanion a gymerodd le rhwng Gautama a'i dad Sudhodana, wedi ei ddychweliad yn ol bob tro i'r ddinas; a dywed i bedwar mis tyned hebio rhwng pob dau o'r digwyddiadau uchod, ac iddo ar derfyn y tymhorau hyn gyfarfod â digwyddiad goruwchnaturiol ardderchog. Nis gwyddom pa faint o'r hanes hwn sydd yn seiliedig ar ffeithiau, ond y mae argraff dychymyg i'w gweled yn eglur ar ran helaeth o hono, ac ni buasem yn rhoddi dim pwys arno o gwbl oni bai ei fod yn cael ei gredu gan gyfran mor helaeth o'r hil ddynol, ac felly yn cario dylanwad mawr ar eu cymeriadau a'u bucheddau.

Ni ddarfa i Gautama, pa fodd bynnag, gario allan ei benderfyniad ar unwaith, trwy dorri ei gysylltiad â bywyd o hawddfyd ac esmwythyd, ac ymroddi i fywyd o ddiffrifwch, o feddylgarwch, ac o hunanymwadiad. Ond cymerodd digwyddiad le yn fuan a'i cynhyrfodd i roddi ei benderfyniad mewn gweithrediad. Ryw gymaint o amser wedi ei bedwaredd weledigaeth, fel yr oedd yn myfyrto yn ei ardd, dygwyd iddo y newydd calon-lawenhaol fod ei wraig, Yasodhara, wedi rhoddi genedig-aeth i fab. Llanwodd hyn enaid ei dad, Sudhodhana, â hyfrydwch oblegid gobeithiai y byddai i'r digwyddiad hwn ddylanwadu ar ei fab i roddi i fyny am byth bob bwriad i ddilyn bywyd meudwyol. Anfonodd gennad ar unwaith i hysbysu y tywysog am y digwyddiad. Ond y

cwbl a ddywedodd pan glywodd y newydd ydoedd, "Dyma rwymyn newydd a chryf yr hwn y bydd yn rhaid i mi ei dorri." Pan ddychwelodd y gwas yn ol, holwyd ef gan y brenin pa atebiad a roddasai y tywysog iddo. Gwaeddodd, meddai y gwas, "Rahuea-jato." Ystyr yr hyn yw, fod rhyw wrthrych teilwng iddo ef i'w garu wedi ei eni, ac oddiwrth y digwyddiad hwn galwyd enw y bachgen yn "Rahula." Penderfynodd y tywysog na byddai iddo ar unwaith dorri ei gysylltiad â'i fywyd o esmwythyd, ac ymroddi i ddilyn bywyd mynachaid a meudwyaidd; ond y byddai iddo, yn gyntaf, fyned i weled y dywysoges a'i fab cyntafanedig. Yna cerddodd yn ddiifrifol a meddylgar allan o'r ardd i gyfeiriad y ddinas.

Yr oedd y fath ddigwyddiad â genedigaeth y tywysog ieuanc wedi llenwi holl drigolion y wlad â llawenydd, ac yr oedd yr amgylchiad yn cael ei ddathlu trwy bob math o arwyddion o deimladau da y dinasyddion. Dychwelodd yn ol i'r ddinas, gan gael ei arwain gan orymdaith o'i ddeiliaid, a phawb yn ei lon-gyfarch ar y digwyddiad dedwydd hwn yn ei fywyd; ond ymysg yr holl longyfarchiadau hyn, tynnodd un ei sylw yn arbennig, a bu yn foddion i awgrymu syniad ffrwythlawn a chynhyrchiol i'w feddwl. Pan oedd ar y ffordd yn rhywle rhwng yr ardd a'r palas, gwelwyd ef gan dywysoges ieuanc o'r enw Kisogatami, cyfnither iddo. Daeth hon i ffenestr ei thŷ pan oedd y tywysog yn ymdaith heibio, a chyfarhodd ef yn y geiriau a ganlyn: "Dedwydd yw tad, dedwydd yw mam, dedwydd yw gwraig y fath fab a phriod." Y mae'r geiriau hyn mor bwysig yng ngolwg dysgedigion y Bwdhistiaid fel y maent yn adnabyddus iddynt oll, am mai hwy fu yn achlysur i sylfaenydd eu crefydd i ddarganfod y gwirionedd sydd wrth wraidd eu cyfundrefn.

Nibbuta nuna Samata
 Nibbut nuna Sopita
 Nibbuta nuna Sanari
 Yassa yan idiao pati.

Ymddengys mai ystyr y geiriau yw y buasai ei fam, ei dad, neu ei wragedd yn ddedwydd, pe gallasent gael golwg ar Gautama fel yr oedd pan edrychai y dywysoges ieuanc hon arno. Darfu i un gair ei adgoffa yn rymus am ei fwriad i dorri ei gysylltiad â'r byd. Daeth *nibbuta*, a'r gair *nibbuti* i'w feddwl, ystyr yr hwn yw "rhydd." Ond rhydd oddiwrth ba beth? Rhydd oddiwrth rywmau pechod, ac oddiwrth yr angenrheidrwydd i deithio yn dragwydd o'r naill gorff i'r llall trwy gylch traws-ymfudiad. Cynhyrfodd hyn yr hen feddyliau oedd o'i fewn, a dygodd hwy i'r wyneb, a theimlodd yntau mor ddiolchgar i'r eneth ieuanc hon am wneyd y fath wasanaeth, er iddi hi ei gyflawni yn gwbl anfwriadol, fel y gwobrwyodd hi yn anrhydeddus am ei charedigrwydd. Cyflwynodd iddi arheg o wddf-dorch o berlau o werth mawr. "Bydded hon i ti," meddai, "fel cydnabyddiaeth am dy ddysgediaeth." Ar unwaith dechreuodd hithau dynnu casgliadau oddiwrth ei ymddygiad, cydnaws â'i chalon. "Y mae Siddartha ieuanc wedi syrthio mewn serch a mi," meddai, "ac wedi anfon i mi arheg." Codai gobeithion yn ei mynwes y byddai iddo ei gwneyd yn un o'i dywysogesau. Ond mawr oedd ei chamgymeriad. Teithiodd Gautama ymlaen heb gymeryd dim sylw pellach o honi.

Er gwaethaf yr holl anhawsterau, yr oedd ei benderfyniad i ffarwelio â'r byd yn ei holl esmwythyd a'i ardderchowgrwydd yn parhau i gryfhau, ac o'r diwedd, dygwyd golygfa ger ei fron a'i cynhyrfodd i waelodion ei enaid i gario allan ei benderfyniad. Yr oedd ei fwrriad i droi ei gefn ar y palas ac i ddilyn bywyd meudwyol, erbyn hyn wedi dod yn adnabyddus i'w dad, a chredai y brenin mai yr unig ffordd i'w rwystro oedd ei swyno, ei ddenu, a'i lithio â phob math o bleserau allasai cyfoeth daearol eu cynhyrchu. Felly penderfynodd gynnal gwleddoedd yn llawn o bob math o fothau a danteithion a allasai dychymyg dyn eu dyfeisio. Un noswaith, medd yr hanes chwedlonaidd, yr oedd gwledd yn y palas, a Gautama yn lledorwedd ar esmwythfainc, a lampau crogedig wedi eu llenwi âg olew persawrus yn goleuo yr ystafell, a'i dywysogesau yn ei amgylchynu. Yr oedd rhai yn dawnsio o'i flaen, ac ereill yn chwaraeu ar bibellau, telynau, symbalau, ac offerynnau wedi eu gwneyd o esgryn anifeiliaid ac adar; tra yr oedd ereill yn curo tabyrddau, ac yn myned trwy wahanol fathau o symudiadau diagybledig, ac yn ceisio mewn gwahanol ffyrdd dynnu ei sylw; ond nid oedd y tywysog yn syllu arnynt, ac yn raddol syrthiodd i gwsg. Wrth weled nad oedd eu hymdrechion ond hollol ofer, gosododd y chwaraeuwyr eu hofferynau dan eu pennau, a chwymasant hwythau i gwsg hefyd. Pan oedd yr holl chwaraeuwyr a'r gloddestwyr wedi ymdawelu, ac yn gorwedd blith draphlith ar draws eu gilydd, wedi eu gorchfygu gan ludded a gwin, a golwg dra annymunol arnynt, deffrôdd y tywysog o'i gwsg, a chododd oddiar ei esmwythfainc i edrych ar y chwaraeuwyr, y gloddestwyr, a'r dawnsuwr. Gwelai y lampau a'r wic heb ei dorri yn mygu, a'r olew yn rhedeg ar hyd-ddynt, gwelai y merched yn cysgu gan orwedd mewn ystumiau anwedus, eu dillad yn anhrefnus, rhai a'u geneuau yn agored, ereill yn rhincian eu dannedd, rhai yn llefain yn eu cwsg, ereill yn ysgwyd yn anesmwyth gan siarad yn floesg, ac ereill yn maeddu poer o'u geneuau. Y fath gyfnewidiad! Wele baradwys ddaearol mewn ychydig amser wedi ei throï yn wallgofdŷ. Yr oedd yr olygfa mor anghynnes a ffaidd nes llenwi enaid ein harwr â diflastod ac atgasedd. Penderfynodd yn y fan a'r lle gario ei fwrriad allan y noswaith honno.

Erbyn hyn yr oedd yr argyfwng mawr oedd i roddi cyfeiriad newydd i'w fywyd wrth y drws. Bellach y mae ar ffarwelio â brenhiniaeth ddaearol er mwyn cychwyn ar yrfa sydd i'w arwain yn raddol i gwrs o fywyd sydd i'w ddirchafu i'r enwogrwydd anfarwol o fod yn Sylfaenydd prif gau grefydd y byd. Gwelodd y ffrwyth atgas a dyfai ar bren mwyniant daearol a llanwyd ei enaid â ffeidd-dod, a penderfynodd ffarwelio â'r pren a'i ffrwyth. "Byth mwyach," meddai, "ni bydd i mi ymdreiglo ym mhleserau y cnawd; hwn yw y tro diweddaf. O hyn allan ni bydd i mi goleddu y fath feddwl mwy." Yna aeth ymlaen i borth y ddinas, a gofynodd pwy oedd ar y grisiau yn gwylied y porth; ac atebwyd ef mai ei wasanaethwr ffyddlawn Channa. Gorchmynnodd yntau i'w yriedydd ddwyn ei farch allan wedi ei ffrwyno a'i gyfrwyo yn barod. Tra yr oedd Channa yn gwneyd y darpariadau anghenrheidiol ar gyfer y daith mewn ufudd-dod i'w feistr, yr oedd gan Gautama un gorchwyl tra phoenus i'w natur dyner i'w gyflawni, sef ffarwelio â'i wraig ac â'i faban newydd-anedig. Yr oedd y dywysoges

yn huno ar orweddle gorchuddiedig gan flodeu, a'i llaw ar ben ei baban. Aeth ei phriod calon-dyner, ond meddylgar a phruddglwyfus, at drothwy y drwa, a sylodd arni yng ngoleuni eiddil lamp, a theimlai awydd yn ei galon, yn angerddoldeb ei serch, i goffeidio y baban yn ei fynwes, ond trwy un ymdrech arwraidd o hunan-ymataliad, llwyddodd i hunanymwadu, oblegid gwyddai yn dda y buasai coffeidio y baban yn deffro Yasodhara o'i chwsg, ac y buasai ei dolefau torcalonnus hi yn treiddio fel saethau i'w galon ac yn peri iddi doddi fel cwrwr o'i fewn. Yr oedd ei baban ar ei mynwes, a'i braich yn ei goffeidio. Safai am ennyd ar y trothwy, a'i law yn gafael ym mhost y drwa. Yna wedi ychydig funudau o ingoedd, o bryder a phoen, rhwygodd ei hunan megis i ffordd, cyflymodd i gyntedd allanol y palas, lle y safai ei farch, Kantaka, gosododd ei law ar ei war, a neidodd ar ei gefn, a charlamodd allan gyda'i wasanaethwr Channa trwy borth y ddinas, gan ffarwelio â'i ogoniant a'i gyfoeth, a'i wraig brydweddol a'i faban ieuanc, i wynebu bywyd o hunanymwadiad fel meudwy llwm a chrwydryn digartref. Dyma y weithred ryfedd o hunanymwadiad sydd wedi anfarwoli enw Gautama Bwdha ar lechres hanes, ac wedi swyno calonau cannoedd o filiynau o ddynion. Gelwir hwn ganddynt, "Sutra, yr Hunanymwadiad Mawr." Cymerodd y digwyddiad hwn le pan nad oedd ein harwr ond prin wedi cyrraedd y 29ain flwyddyn o'i oedran. Ni roddes bris ar goron, gorsedd, na theyrnwialen; ond diystyrrodd hwynt oll; Ie, gwnaeth aberth gwirfoddol o honynt er mwyn cyrraedd amcan pwysicach iddo ef ei hunan, ac i'w ddilynwyr.

Nid oes a wnelom ni a thynnu llinell rhwng y gwir a'r gau yn yr amlinelliad hwn o'i fywyd, digon yw dweyd fod ei ddiagyblion a'i edmygwyr yn credu mai hanes credadwy yw y cwbl. Pe caniatuem fod eu crediniaeth yn gywir, nis gallem beidio cydymdeimlo â hwy—yn eu hamddifadrwydd o wybodaeth am GRIST,—yn eu mawrygiad angherddol o sylfaenydd eu crefydd. Hunanymwadiad a hunan-aberthiad ar ran dyn er mwyn cyrraedd rhyw amcan goruchel er lleshad ereill, yw y peth mwyaf ardderchog yn holl haues yr hil ddynol. Dyma un o brif ffynhonnellau y swyn rhyfedd sydd gan Fwdhistaeth ar galonau miliynau o ddynion, ac nid ydym yn gwybod am yr un gau-grefydd yn deilwng i'w chystadlu â hi yn hyn. Ond y mae hithau, er ei rhagoriaeth, yn gorfod diflannu fel seren ym mhresenoldeb yr haul, pan yr edrychir arni yn ymyl y grefydd honno sydd yn seiliedig ar ymgnawdoliad Mab Duw, ei fywyd o ddinodedd a thlodi, a'i angeu poenus a gwaradwyddus ar y groes. Pan gofiwn anfeidrol ragoriaeth hunanymwadiad sylfaenydd Cristionogaeth, nis gallwn ryfeddu at y ffaith fod Bwdhistaeth yn gorfod cilio o'i blaen yn China a Japan.

D. LLOYD JONES.

MILTON A'I GYNLLUN ADDYSG.

O BOB galwedigaeth, eiddo'r Ysgolfeistr ydyw'r un sydd â mwyaf o galedwaith ynglŷn â hi, sydd yn fwyaf gormesol ac undônol yn ei dyledswyddau, ac yn gyffredin â lleiaf o dâl a gwobrwy yn perthyn iddi. O'r ochr arall, feallai mai dyma'r gwaith urddasolaf o bob gwaith. Dywed Channing, yn y modd mwyaf pwyllog ac ystyriol, Mai'r swydd o addysgu ydyw'r odidocaf ar wyneb y ddaear yn ei dŷb ef. Y mae yn llawer mwy pwysig na swydd y gwleidyddwr. Ni wna'r gwleidyddwr ond codi'r clawdd i ddiogelu ein tai a'n tiroedd, a'n meddiannau materol; ond am yr addysgydd, tyn hwn allan alluoedd a serchiadau y rhai yr ydym yn casglu ein heiddo a'n golud yr eu mwyn, ac sydd yn gwneyd ein hieuentid a'n plant yn wrthrychau ein parch a'n cariad. Fe â Channing hyd yn oed ymhellach na hyn. Myntumia fod mwy o allu yn ofynnol at waith yr addysgydd nag sydd yn eisieu ar wleidyddwr. Swyddogaeth yr olaf ydyw gwylid buddiannau allanol y bobl; eithr gwaith y cyntaf ydyw bywhau yr enaid. Ac nid "barddoniaeth" ydyw hyn,—rhyw "baseless fabric of a vision." Y mae mwy o wirionedd ynddo nag a ymddengys ar yr olwg gyntaf. Er gwaethaf pob caledi sydd yn perthyn i'r gwaith, y mae galwedigaeth yr athraw yn un wir urddasol, a gall pob ysgolfeistr gymeryd cysur a chalondid yn y ffaith, mai nid gwaith isel a gwasaid ydyw, ac nad oedd Milton, un o'r blaenaf ymhlith gwŷr lŷn y byd, ddim uwchlaw ymgymeryd â'r alwedigaeth hon. Gwir fod ei nai, yr hwn hefyd oedd ddiagybl iddo, yn ceisio esgusodi ei ewythr am gydio yn y gwaith; ond am y bardd ei hun—gŵr annhraethol ragorach na'i amddiffynnydd—ni thybiodd efe erioed ei fod yn iselhau ei hun wrth gymeryd ato ychydig lanciau i'w hyfforddu a'u haddysgu.

Yr oedd Milton tua 31 mlwydd oed pan ymgymerodd âg addysgu ei neisiant, John ac Edward Phillips; ac ymben rhyw dair blynedd, yn 1643, ehangodd ei gylch addysgol, a chymerodd ysgolheigion ereill at y ddau uchod. Cydiodd yn ei waith gyda'r ynni hwnnw oedd yn nodweddiadol o hono. Ymdafiodd i'w ddyledswyddau gyda brwdfrydedd. Yr oedd wrth ei orchwyl bron bob awr o'r dydd; a hyd yn oed ar y Saboth, ni chymerai seibiant, gan yr arferai ddarlithio ar y diwrnod hwnnw ar Dduwinyddiaeth a'r Testament Groeg. Yn anfodus, nid oes gennym na thraddodiad na hanes, trwy neb o'i ysgolheigion, am ddull y bardd o addysgu. Y mae hyn yn beth i synnu ato; oblegid yr oedd Edward Phillips, y nai, yn dra hoff o ymyrryd â phethau llenorol, er mai yn drwsgl y gwnai hynny, ac yr oedd yn synied yn uchel am dano ei hun fel ysgolhaig. Addolai ei ewythr a'i athraw, cafodd gyfleusterau ddigon i sylwi ar ddull y prif-fardd o gyfranu addysg, a gallesid meddwl na fuasai dim yn haws iddo na throsglwyddo ychydig o'r hanes i genedlaethau a ddeuai ar ol. Eithr nid oes dim ar gael, ond rhoddodd gŵr llawer galluocach nag Edward Phillips ei gynllun

ar glawr, a hwnnw oedd Milton ei hun, mewn llyfryn bychan a elwir yn "Draethawd ar Addysg" (*Tractate of Education*).

Sylwa un beirniad mai addysg, o bob celfyddyd ymarferol, ydyw'r un sydd fwyaf blinderus a thafferthus yn ei chynllun, sydd a'i chynhyrch yn fychan, tra mae'r treuliadau yn fawrion. Ac ymddengys fod hyn yn eithaf gwir. Yr ydym yn ymboeni ac yn traferthu, yn codi gyda'r haul ac yn myned yn hwyr i gysgu, ac yn llosgi'r olew ganol nos; nid oes diwedd ar ein llafur; ac eto nid yw'r ffrwyth wedi'r cwbl ond fel dim, neu nesaf peth i ddim. Fel y dywed Horace:

Parturiunt montes, nascetur ridiculus mus.

Rywsut, yn rhywle, ymddengys fo l llawer iawn o wastraff, a hynny yn ddianghenraid! Ni a'i profasom yn ein hanes ein hunain, a ni a'i gwelwn yn gweithio yn llawn mor ddiymwad yn hanes ereill. Ac o hyn y cyfod ein dymuniadau am ddiwygiad yn ein cynlluniau addysg—dybêadau am unioni a chywiros hyn sydd o'i le yn ein cynlluniau presennol, ac yn wir chwyldroi y rhai hynny yn gyfangwbl. Y mae'r pwnc yn llawn o swynion, gan fod buddiannau gwlad yn y fantol, a bod canlyniadau addysg ddiffygiol neu amherffaith yn ofnadwy. Gan faint y cyfaredd sydd yn y pwnc, y mae llu o ddiwygwyr wedi treio eu llaw arno o Locke, Cowley, Comenius, a Milton, i lawr hyd Herbert Spencer ac ereill yn ein dyddiau ni. Yr oedd gan y testyn hwn ddyddordeb neillduol yn amser Milton. Yr oedd yr Ysgolion Gramadegol a'r Prifysgolion y pryd hwnnw yn druenus o ddiffygiol fel sefydliadau addysg. Yn wir, tua chanrif ar ol amser Milton, rhydd Gray gymeriad isel iawn i Gaergrawnt; ac yr oedd Rhydychen lawn cyn waethed. Gwelai Milton hyn, a llosgai ei enaid ynddo wrth yr olwg resynus; ac ysgrifennodd ei Draethawd i geisio dwyn oddiamgylch chwyldroad ar yr hen gynllun.

John Amos Comenius (fu farw yn 1670) oedd prif *instaurator* addysg yn yr eilfed ganrif ar bymtheg. Yr oedd yn y pwnc hwn yn cyfateb, yn yr adeg honno, i'r hyn ydoedd Arglwydd Bacon yn ei oes yntau. Lledaenid golygiadau Comenius yn Lloegr gan un Samuel Hartlib, a'r hwn yr oedd Milton yn dra chydabyddus, ac ar gais Hartlib, fel yr ymddengys, yr ysgrifennodd ei draethawd.

Siomedig yw'r traethawd i'r neb a'i darlleno yn unig er mwyn cael awgrymiadau o nodwedd ymarferol. Feallai fod hyn yr un peth a dweyd, mai methiant yw cynllun Milton; oblegid, wedi'r cyfan, yn yr ymarferiad ac nid yn gymaint mewn damcaniaeth, y mae'r holl gynlluniau a gynhygir i'n sylw yn dwyllodrus a diffygiol; a dylai pob cynllun o addysg—yr hon sydd yn gelfyddyd nodedig o ymarferol,—os ydyw i fod yn werth dim, fod yn ymarferol, ac yn gyfryw ag y gellir ei gweithio allan. Dywed un addysgydd craff nas gellir ystyried traethawd Milton o unrhyw gynhorthwy tuag at ffurfio damcaniaeth addysg o'r iawn ryw; ond cyfaddefa ar yr un pryd, fod y llyfr yn gyfryw ag y mae'r bardd wedi gosod argraff ei *individuality* arno,—amcan urddasol, yr amcan dyrchafedig yr ymgeisiai ato ymhob peth a gynhygiai, dirmyg uchelfalch at yr hen lwybrau sathredig, ac ymddibyniad mawreddus ar ei nerth a'i adnoddau ei hun. Y mae Dr. Johnson, pan yn adolygu bywyd Milton, yn llym feirniadu cynllun addysg y bardd. Ed-

rycha'r beirniad ar y cynllun fel peth hollol freuddwydiol, a hynny, feallai, am nad oedd wedi deall ei duedd a'i amcan. Beirniad arall, cryn lawer yn fwy ffafriol na Johnson, a ddywed mai amcan Milton ydoedd, lid cyfrannu ychydig addysg i efrydwy'r tlodion a gwerinol, y rhai a defnid i wynebu stormydd y byd gan angen dygn a di-drugaredd, cyn bod eu meddyliau wedi eu hanner ddodrefnu; eithr yn hytrach, creu allan o blith ieuenticid, y rhai oedd ganddynt hamdden ddigon a chyfoeth lawer, ddynion a fyddent yn seneddwy'r diwylliedig, yn farnwyr doethion a dysgedig, ac yn gadfridogion dewrion a llwyddian-nus. Yn awr, os dyna oedd amcan y traethawd, os dymuniad Milton oedd addysgu'r cyfoethog ac esgeuluso'r tlawd a'r anghenus, amlwg yw ei fod wedi gadael un elfen bwysig allan o'r cyfrif. Am yr ysgolheigion, y rhai a gymerodd Milton ato ei hun i'w haddysgu, perthynent i ddosbeirith uchel mewn cymdeithas; plant boneddigion oeddych, fel y tystia ei fywgraffyddion. Hawdd iawn felly, fuasai i gymaint meddyliwr hyd yn oed â Milton ei hun, anghofio elfen bwysig y dylid ei chymeryd i mewn i'r cyfrif wrth ystyried pwnc addysg. Fel rheol gyffredin, tlodion yw *myfyrowyr*, wedi eu geni heb y llwy arian yn eu genau. Dylai'r addysg oreu ateb gofynion y rhai hyn; dylai gael ei chymhwyso at anghenion pob dosbarth o'r bobl, heb fod ganddi olwg ar yr uchel yn fwy na'r isel, ar y cyfoethog yn fwy na'r tlawd. Dylai fod yn llydan, yn gyflawn, yn gynhwysfawr, ac yn gyffredinol.

Ond pwy bynnag sydd yn iawn parthed gwir werth y cynllun,—pa un ai Johnson ar y naill law, neu'r beirniaid ffafriol ar y llaw arall,—rhaid i bawb gydnabod fod y nod yr amcanai Milton ato yn un gwir ardderchog. Yn nechreu ei lyfr dywed y bardd fod ysgrifennu ar bwnc addysg yn ei ddydd ef y testyn mwyaf gogoneddus y gellid meddwl am dano, a bod y genedl yn edwino oblegid diffyg addysg briodol. Dyma un o'i ergydion llym at yr addysg a gyfrennid yn yr oes honno yn Rhydychen a Chaergrawnt. Yr oedd y bardd cyn hyn wedi datgan ei anfoddlonrwydd llwyr wrth weled y cynhaufau llwm a fedid ar feusydd addysg y Brifysgol lle y bu ef ei hun yn efridydd. "Pan yr oedd hi (Caergrawnt) mewn gwell iechyd . . . nis edmygais hi erioed: llawer llai yn awr" (1642). Yn yr un modd yr ysgrifenna Gray, ganrif a chwarter ar ol hynny. Ac ymhen cyfnod cyffelyb ar ol amser Gray, gellid cymhwyso bron eiriau Milton at y Prifathrofeydd.

Yr oedd gan Milton ddau ddarnodiad o addysg, a cheir y ddau yn agos i ddechreu'r traethawd. Yn ol un, amcan addysg ydyw adgyweirio'r adfeilion a wnaed gan ein rhieni cyntaf, trwy adennill gymbodaeth briodol o Dduw, ac o'r wybodaeth honno ei garu ac ymdebygoli iddo, yr hyn a allwn agosaf trwy feddiannu o honom ein henaid mewn rhinwedd, yr hwn, wedi ei uno â'r gras nefol o ffydd, sy'n gwneyd y perffeithrwydd uchaf. Gelwir y darnodiad hwn gan rai beirniaid yn ddarnodiad "Milton y Duwinydd." Cawsai'r bardd hyn yn iaith gyffredin yr amseroedd yr oedd yn byw ynddynt, ac hefyd yn ei Biwritaniaeth, a'r duedd gref oedd ynddo bob amser at Dduwinyddiaeth. A thrwy gydol ei lyfr, ni a welwn fod Duwinyddiaeth yn rhedeg fel llinyn aur trwy ei holl *curriculum*, ac yn rhan bwysig o hono. Yn wir, y mae'r wybodaeth hon wedi ei gwau i mewn i'r syniad sydd gan y diwygiwr hwn am addysg wirioneddol. O berthynas

i'r darnodiad arall sydd gan Milton, addefir gan bawb ei fod y rhagoraf sydd hyd yma wedi ei roddi i'r byd. Argreffir ef fel *copper-plate* yn llyfrau yr ysgolion dyddiol, a chan mor ragorol ydyw, nid allan o le fydd i osod yma yn iaith odidog Milton ei hun:—"I call that a complete and generous education which fits a man to perform justly, skilfully, and magnanimously, all the offices, both private and public, of peace and war." Yma ni a welwn y "gwir Filton," yn gadael yr hen lwybrau sy'n goch dan ein traed, ac yn ymestyn at nód ardderchog. Y cwestiwn mawr ydyw, a gyrhaedda efe hwn? Amhosibl yw gwella'r darnodiad; ac yn wir, nid oes eisieu ei well; ond ofnaf nad yw ein cynlluniau a'n cyfundrefnau, a'n damcaniaethau, hyd yma o leiaf, wedi ein dysgu i gyrraedd yr *ideal* a ddarlunir yn y darnodiad hwn. Pa fodd i gyfaddasu gŵr ieuanc, pan fyddo rhwng deuddeg ac un ar hugain oed, a'i gynysgaeddu â'r defnyddiau iawn, a darparu'r offerynnau a'r celfi priodol, fel ag i'w alluogi rhagllaw i weithredu yn uniawn ac yn uchelfrydig yn holl ddyledawyddau bywyd,—hyn ydyw amcan Traethawd y bardd. Ni a geisiwn ddangos, i ryw raddau, pa fodd y tybiai efe yr oedd hyn i'w gyrraedd.

Myn gychwyn yn y dechreu. Y peth cyntaf i gyd, eb efe, ydyw cael tŷ helaeth a thir o'i amgylch fel man cymwys i fod yn ysgoldy, ac yn ddigon eang i letya tua 150 o efrydwyr. Y mae'r lle hwn i fod yn Ysgol ac yn Brifysgol, yn fath o Eton neu Harrow a Chaergrawnt wedi eu huno â'u gilydd. Yn ol ei syniad ef, ni fydd yn ofynnol i efrydwyr adael Ysgol, fel y byddys yn arfer dweyd, a mynd i'r Brifysgol. Os efrydwyr ydynt yn dilyn cwrs o'r hyn a eilw Milton yn "efrydiau cyffredinol," ni fydd raid iddynt symud o un sefydliad addysg i un arall. Math o ysgol brifathrofaol ydyw'r sefydliad hwn i fod, lle y geysd Milton ei ysgolheigion am rai blynyddoedd, o'r adeg y maent yn 10 neu 12 mlwydd oed, hyd at 20 neu 21. Os byddys yn eu paratoi ar gyfer galwedigaethau mewn Physigwriaeth neu'r Gyfraith, tybiai y gellid yn fanteisiol eu symmud i sefydliad arall, lle y gellid yn fwy trwyadl eu haddysgu yn y canghennau hynny o wybodaeth. Geysd Milton y coleg prifathrofaol hwn o dan arolygiaeth un prifathraw, yr hwn a ddylai o leiaf gyfeirio a rheoli, gyda doethineb, holl astudiaeth ei ysgolheigion. Dylid adeiladu ysgoldai o'r natur yma ymhob tref a dinas drwy'r wlad, fel ag i ledaenu addysg, hynawsedd a moesgarwch dros hyd a lled y tir. Er mwyn dangos pa mor drylwyr y bwriadai Milton i'w gyfundrefn fod, tynnodd sylw at bwnc a esgeulusid yn fawr yn y dyddiau hynny, ond sydd yn ein hoes ni yn cael gormod o le yng nghwrs yr ysgolion ac ym mryd yr ysgolheigion. Dadleuai yn gryf dros ymarferiadau corfforol. Ac at hyn dadleuai hefyd dros dalu sylw arbennig i fwydydd ac ymborth yr efrydwyr. Dylai gwaith pob diwrnod, ebai efe, gael ei ddwyn ymlaen yn ei berthynas â thri pheth—efrydiae'h yr ysgolheigion, eu hymarferiadau corfforol, a'u lluniaeth.

Am efrydiau, dylai'r ysgolheigion ddechreu gyda Gramadeg, gan feistroli y rheolau mwyaf pwysig ac angenrheidiol. Ac yn y fan yma, disgynna Milton at rai manylion sy'n dangos yn amlwg ei fod am weithio allan ei gyfundrefn yn ei manylwch eithaf. Tra mae'r efrydwyr yn dysgu rheolau elfennol gramadeg, dylid ffurfio eu hymadrodd a'u lleferydd i gynhanu ac acennu yn glir ac yn groew, a hynny mor agos

ag sydd yn bosibl i'r Eidaleg, ac yn arbennig yn y cydseiniaid: "oglegid," eb efe, "y Saeson, gan eu bod yn byw ymhell yn y Gogledd, nid agorant eu genau yn yr awyr cer yn ddigon llydan i addurno tafodiaith ddeheuol; eithr hwy a ymddanghosant i bob cenedl arall fel rhai yn llefaru yn dra chauedig a mewdol." Wedi dyfod o'r efrydwy'r yn hyddysg yn y rhai mwyaf defnyddiol o egwyddorion gramadeg, ac er mwyn eu hennill i garu rhinwedd a bod yn wir lafurus, dylid darllen iddynt ryw lyfr hawdd ei ddeall, megis Plutarch a'r Ymddiddanion Socrataidd yn y Groeg, a'r tri llyfr cyntaf o Cwinctilian yn y Lladin. Ac o'r llyfrau a gymeradwy'r gan Milton i sylw'r ysgolheigion yn y cyfnod hwn yn eu haddysg, y mae'r Groeg yn llawer cyfoethocach na'r Lladin. Yn y cysylltiad hwn cyfeiria at y dull Socrataidd o gyfrannu addysg, fel y cawn esiamplau o hono yn Plato, ac yn enwedig yn ei *Protagoras*. Yn y dull hwn dibynna llawer, fel mae'n wybyddus, ar allu a doethineb a barn yr athraw; ac y mae'r dull yn gyfryw ag a drŷ yn fantais i'r athraw yn gystal â'r disgybl. Rhaid i'r athraw, ebai'r cynllun, ddefnyddio pob cyfleustra i "dymheru" darlenniad y llyfrau hyn â'r fath ddarlithiau ac egluriadau ag a ddysga'r ysgolheigion i fod yn ufudd ac yn ewyllysgar, eu tanio gan awyddfryd am wybodaeth. peri iddynt edmygu rhinwedd, a'u cynhyrfu i fyw yn ddyinion dewrion ac yn wladgarwyr teilwng; dysgu iddynt ddirmygu popeth plentynnaidd ac anniwylliedig, ac ymhyfrydu mewn ymarferiadau gwrol ac uchelfrydig. Dylai'r athraw, trwy ddefnyddio pob hyawdledd a dyfais briodol, trwy anogaethau tyner ond effeithiol, drwytho calonnau ei ddisgyblion â brwdfrydedd didwyll a rhyddfrydig, fel ag i'w gwneyd yn ddyinion gonest a da.

Tra yr astudir awduron hawdd yn y Groeg a'r Lladin, dylid hefyd, yn ystod rhyw ran arall o'r dydd, hyfforddi yr ysgolheigion yn rheolau Rhifyddiaeth; ac yn fuan ar ol hyn, bydd yn bryd cychwyn gydag elfennau Euclid. Ar ol swperu hyd at amser gorffwys, cyfeirier meddwl yr efrydwy'r at ryw bwnc ysgafn a hawdd ei drin yn gysylltiedig â chrefydd. I rai o addysgwyr y dyddiau diweddfaf hyn, nid yw'n debygol y bydd i'r rhan yma o gyfundrefn Milton gymeradwyo ei hun. Yn ein cynlluniau diweddaraf, yr ymarferol sydd yn cael sylw arbennig, nid y duwinyddol. Y mae addysg y "diweddariaid" a'i hwyneb ar y byd hwn, ac nid at yr hwn a ddaw. Ond myn Milton ddiwyllio a choethi'r ochr grefyddol o gymeriad ei ysgolheigion, ac nid yw yn pallu un amser yn ei sêl i ddangos ei fod yn llawn cymaint o dduwinydd ag yw o ysgolhaig.

Y cam nesaf yw darllen y clasuron Lladin hynny sydd yn ymdrin â g Amaethyddiaeth. Dywed rhai beirniaid mai amcan y bardd yn yr adran hon o'i waith ydyw, nid dysgu amaethyddiaeth trwy ddarllen Varro a Cato, yn gymaint a dangos ei awyddfryd i gynhyrchu ym meddyliau ei ysgolheigion yn ystod eu harosiad yn yr ysgol, gariad at orchwylion gwledig, y rhai y gallant rhagllaw ragori arnynt a'u troi i ragorach dibenion wedi iddynt gyrraedd oedran addfotach. Ond mae'n eglur fod Milton yn amcanu i'r rhan hon o'i gynllun, fel pob rhan arall o hono, fod yn dra ymarferol. Dywed y byddai i hyn gynhyrchu yn ei efrydwy'r yn y dyfodol awyddfryd i wella pob tir gwael, i ddiwygio amaethyddiaeth eu gwlad, a meddyginiaethu y gwastraff a wneir

ar dir da. Yn y cyfwng hwn yn addysg yr efrydwyr, credai eu bod yn awr wedi ymbaratoi i ddysgu Daearyddiaeth, ac yn gwybod pa fodd i ddefnyddio y Glôb a Mapiau, ac ar yr un pryd yn gymwys i ymgymeryd ag Athroniaeth Naturiol. Yn awr hefyd, y dylent ymgymeryd ag astudio Anianeg, fel ei ceir yng ngweithiau hen athronwyr Groeg. A chan fod yr ysgolheigion eisoes wedi meistrolï rheolau Rhifyddiaeth, dyma yr adeg y gallent astudio lliaws o bynciau sydd yn dibynnu ar y wybodaeth honno—megis, Trionglaeth, Morwriaeth, Peirianyddiaeth, ynghyd â Chaeryddiaeth, ac Adeiladaeth. Nis gallwn lai na sefyll mewn syndod pan feddyliom am holl amrywiaeth ac ehangder y materion hynny a fynegir fel testynau efrydiaeth yn ysgol brifathrofaol Milton. Nid ydym eto, modd bynnag, wedi cyrraedd hanner y ffordd. Yn gydfynedol â'r hyn a ddanghosir uchod, a thra y mae'r ysgolheigion yn ymlwybro ymlaen mewn Athroniaeth Naturiol, dylent ymestyn oddiwrth hanes goruchion, a mw'nau, a llysiai, a chreaduriaid byw, mor hell ag i gyrraedd gwybodaeth o wahanol rannau y corff dynol, ac anifeilaidd. Yn y cyfnod hwn o'u hanes, dylai'r efrydwyr fod yn gyfarwydd mewn *Astronomy, Mineralogy, Botany, Zoology, a Physiology*. Oblegid y rhan yma o'r cwrs, enynnwyd digter Dr. Johnson yn enfawr, ac y mae'r beirniad llymdost hwnnw wedi ymosod ar y cynllunydd gyda'i holl nerth. Ac at ei nerth ei hun, ychwanega eiddo Socrates. Ymfalchiai Johnson bob amser mewn bod, yn anad dim, yn ddyn ymarferol; ac oblegid hynny, beia ar Milton am ei fod yn ei gyfundrefn yn gosod gormod o le i'r wybodaeth ynghylch Natur a phethau naturiol, a rhy ychydig o le i'r athrawiaeth ynghylch Moesau. Dadl fawr Johnson ydyw, mai nid gwybod am bethau anianyddol yw prif bwnc bywyd. Yn ei olwg ef, anghenraid cyntaf bywyd yw gwybodaeth grefyddol a moesol; yr ail yw, adnabyddiaeth o hanes dynolryw. Yr un syniad sydd gan Johnson ag oedd gan Pope, yr hwn a osodir allan yn y geiriau hynny :

The proper study of mankind is man.

"Y mae doethineb, cyfiawnder, callineb," ebai'r Geiriadurwr Seisnig, "yn rhinweddau ac yn rhagoriaethau ar bob adeg ac ymhob oes ac ymhob lle. Yr ydym yn foesolwyr bob amser; eithr nid ydym yn fesuryddion ond ar ddamwain. O ganlyniad, dylid darllen yr awduron hynny yn yr ysgolion sydd yn cyfleu mwyaf o arwireddau o berthynas i ddoethineb, ac egyddorion a gwirioneddau moesol, a defnydd ymddiddanion. Gwasanaethir i'r amcan hwn oreu gan feirdd, areithwyr a haneswyr." Dyma olygiad Johnson, a ni a allwn yn hawdd weled pa gwrs o efrydiaeth a gawsem ganddo, pe gwahoddasid ef i dynnu allan gynllun i'w fabwysiadu mewn ysgol neu athrofa. Pe gosodid Dr. Johnson yn brifathraw mewn ysgol, ni chaem yno na Meintoniaeth na'r Gwybodaethau Naturiol, nac Addysg Gelfyddol (*technical*). "Ac os yw Milton yn fy erbyn," ebai mewn buddugoliaeth, "y mae Socrates o fy mhlaid." Ac yna, gan gyfeirio at Milton a Hartlib ac ereill, ychwanega : "Y mae'r rhai newyddion hyn yn troi ein sylw oddiwrth fywyd at natur : eithr Socrates a'u dysgodd mai'r hyn sydd yn bwysig ydyw, sut i wneyd y da ac ysgoi y drwg."

Nid gormod yw dweyd, feallai, fod golygiadau Johnson o berthynas i Milton a Socrates, yn anghywir. Cefnogai'r naill fel y llall o'r gwyr hyn yr astudiaeth o Foeseq, a chyngorai'r naill fel y llall eu hefyrdwyr hefyd i astudio Anianeg. Barn Milton ydoedd y gellid yn fauteisiol gyfeirio myfyrdod pobl ieuainc at efrydu natur, ac y dylai hynny, gyda llawer o ddefnyddioldeb, ragflaenu astudiaeth o'r prif wyddorau, Moeseg a Gwleidyddiaeth.

Yn y cyfnod hwn yn y cwrs, gesyd Milton ei efrydwyr i ddyagu Physigwriaeth; ac ymddengys fod y bardd, fel ei ragflaenydd, Locke, yr hwn oedd addysgydd enwog, yn dra hoff o efrydu physigwriaeth. Ar ol hyn, cymhellai gwrs pellach yng ngweithiau beirdd Groeg a Rhufain, ac enwa gyfres fawr o honynt, y rhai y gellid eu darllen mewn byr amser, gan nad yw eu cynhyrchion yn helaeth iawn. Ymhlith yr awduron Groegaidd, enwa Hesiod a Theocritus; ac ymhlith y Rhufeinwyr, Lucretius a'r *Georgics* o waith Virgil. Ar ol treulio rhai blynyddoedd gyda'r maes llafur sydd eisoes wedi ei arddangos, y mae'r ysgolheigion mewn safle i ymgymeryd â Moeseg; a chynghora Milton hwynt i ddarllen gweithiau Plato, Xenophon, Cicero, a Phlutarch. Yn oriau'r hwyr, yn ystod y cyfnod hwn, dylai'r efrydwyr ymgynffino â gweithiau Dafydd a Solomon, yr Efengylwyr a'r awduron Apostolaidd.

Wedi ymberffeithio mewn *Ethics*, dylent ddechreu ar *Economics*, a hwy a fedrent hefyd yn yr amser hwn, trwy ychydig o astudio, "yn awr ac eilwaith," fel y dywed efe mor ysgafn, feistrolîr Eidaleg. Yn fuan ar ol hyn, dylent gychwyn gyda rhai o Gomedïau detholedig o'r Groeg a'r Lladin, a hefyd rhai o'r Tragedïau, megis, Trachiniae, Alcestis, &c. Ar ol hyn symudant at Wleidyddiaeth, fel y gallont, wedi tyfu i fyny, gymeryd rhan mewn pethau gwleidyddol, bod yn golofnau cedyrn yn y Wladwriaeth, ac nid yn gorsennau gwael, ansefydlog, hawdd eu hysgwyd gan bob awel. Yn amser Milton efrydid gwleidyddiaeth fel gwyddor, ac ymddengys fel pe bai hyn yn adfywio eto yn ein dyddiau ni. Yn y cyfnod hwn hefyd gosodai Milton ei fyfyrwyr i astudio'r gyfraith, o amser Lycurgus a Solon, a Justinian ymhell ar ol hynny, i lawr hyd y cyfnod Sacsonaidd, ac yna hyd yr oesoedd diweddaraf yn hanes ein gwlad. Cymhellai hwynt yn yr adeg hon i dreulio'r Sabothau a phob nos, i astudio, mewn modd meddylgar, y pynciau dyfnaf mewn Duwinyddiaeth, a darllen hanes yr Eglwys, hen a diweddar. Yr oeddynt yn awr i ddyagu'r Hebraeg, modd y gallent ddarllen y Beibl yn yr iaith wreiddiol; ac nid amhosibl, ebai'r cyllun-ydd, fyddai ychwanegu'r Galdaeg a'r Syriaeg. "Yna, ar ol meistrolîr gorchwylion hyn, y testynau canlynol a gyflwynant eu hunain i'n sylw,—llyfrau hanes, awdlau arwrol, y dramedydd Aticaidd ar destynau uchelwch a brenhinol, ynghyd a'r oll o'r areithiau gwleidyddol enwocaf, y rhai os dysgir hwynt ar y côf, ac nid eu darllen yn unig, ac yna eu hadrodd yn ddwys gyda'r acen a'r gweddusrwydd priodol (yr hyn y gellir ei ddyagu), a gynysgaedda yr efrydwyr âg ysbryd a nerth Demosthenes neu Cicero, Euripides neu Sophocles."

Yr ydym yn sefyll mewn syndod ger bron ehangder y cwrs athrofaol a gynhygir inni gan Milton. Y mae'n wir y rhydd i ni ddeng mlynedd i fynd dros y maes; ond er hynny, nis gallwn lai na theimlo anniddigrwydd ac anfoddlonrwydd gyda'r cyfan; ac y mae hefyd yn codi ynom

ryw cyniad nad yw'r cynllun ddiim yn gyfryw ag y mhell ei fabwysiadu ar raddfa gyffredinol. Yn wir, yr ydym yn iuan yn dactores amon a ellid ei fabwysiadu ar raddfa gryu lawer yn gyfngar. Eirycha fel cynhyrch meddwl athraw neu ddyngawdwr ddiweddi yn ein hanner ni. Nis gallasai neb fod y fath *encyclopaedia* ag y dynnais Milton i'w ddiagybiion fod yn ei athrofa ddychmygol. Y mae'n amlwg fod y bardd wedi syrthio i ddau gamgymeriad. Syrthiodd i un o honyat gan nad oedd ei brofiad personol fel ysgolfeistr yn un heinietâ iawn. Efe a welasai, mae'n ddilys ddiagon, fod yn ysgolion ac athrofeyddi y cyfnod y blodeuai efe, lawer iawn o lafur ond ychydig oedd y cyhanaf; treulient lawer o amser gyda'r addysgu, ond ychydig oedd y cynnyrch. Yn ol holl sir Bacon, ysgafn oedd y "frwyth." Er mwyn gwelhan hyn, ymdrechais i orlenwi meddyliau ei ysgolheigion â Lawer ac amrywiol fath o ddefnyddiau, yr hyn a alwai efe yn "addysg." Ond dylid cofio, fel y dywed un beirniad, mai nid "ingestion" ydyw "education;" a da y gwnaeth Johnson pan y sylwodd nas gellir hyfforddi neb yn gynt nag y gellir ei ddyagu. Yr ail gamgymeriad a wnaed gan Milton oedd tybied fod pob gwybodaeth i'w dyagu allan o glasuron Groog a Rhufain. Credwn yn ddiysgog yn y pwysigrwydd o ddal at astudio'r hen glasuron; eithr ofer fyddai dychmygu na dylid dyagu dim yn ein hysgolion a'n hathrofeydd ond hyn. Yr oedd Milton ei hun yn ddarllenwr mawr, ac adlewyrchir i raddau yn ei gynllun ei anniwall wanc at bob math o wybodaeth; ond mae'n amlwg nas gellir mabwysiadu ei gynllun yn sefydliadau addysgol ein dyddiau ni. Y ffordd oreu i weld a phrofi rhagorlodeb unrhyw gynllun ydyw trwy edrych arno yn gweithio mewn ymarferiad; ac yn hyn o beth, nis gallwn weled fod cynllun y bardd wedi bod o gwbl yn llwyddiant. Fe erys y Traethawd ar Addysg mae'n wir, oblegid ei hyawdledd a'i frwdfrydedd, yn un o brif glasuron y Saeson; ond dywedir wrthym na chynhyrchwyd yr un gŵr dysgedig nac ysgolhaig uchelwch gan y cynllun a gymrodwyr i'n sylw ynddo. Am Edward Phillips, nai y bardd a'i ddiagybl, nid oedd efe namyn ysgrifennydd arwynebol, ac ystyrir ef gan y beirniad, yn fath o gofadail barhaus o afwyddiant cynllun ei ewythr. Yng ngeiriau Johnson pan yn cloi i fyny'r ddadl yn erbyn trefniant addysg Milton: "Nid wyf yn gwybod ddarfod i neb nodedig am ei wybodaeth, godi o'r academi ryfeddol hon; yr un cynnyrch pur a digymag, mi gredaf, ydyw llyfryn bychan ar Hanes Llenyddiaeth Rhufain, wedi ei ysgrifennu yn Lladin, gan Phillips, nai y bardd; ac feallai na chlywodd neb o'm darllenwyr am y llyfryn hwn erioed."

Ond hyd yma nid yw Milton wedi dod â'i drefn addysg oll-gynhwysfawr i derfyniad. Pan y byddoch wedi esgyn ar hyd llethrau Parnassus yng nghwmni'r beirdd Aticaidd, ac wedi hynny yn ymlwybro'n hamddonol gyda Llywod-ddysg a Moes-ddysg yn llwyni Academus, yna daw Rhesymeg gan lithro i mewn â throed ysgafn, yn cael ei hebryngu gan ei chwaer Areitbeg, y rhai a gyflwynir i'n sylw gan Plato a Cicero, ac ereill o enwog broffeswyr yr hen ysgolion gynt. Ac yna, yn gydfynedol â'r rhain, daw gwybodaeth bellach o Farddoniaeth, ynghyd â'r rheolau neu y deddfau hynny sy'n rheoli'r gangen hon,—os, yn wir, y gellir defnyddio brawddeg fel yna mewn cysylltiad â barddoniaeth. Rhaid meistrioli'r deddfau hyn yn y *Poetica* o waith Aristotl, ac yng

ngweithiau Horas, a rhai o'r hen esboniadau Italaidd ar Tasso. Amcan yr holl astudiaeth hon ydyw dangos i ni y defnydd rhagorol, ac yn wir crefyddol, a ellir wneyd o Farddoniaeth mewn pethau dwyfol a dynol. Gan fod yr efrydydd bellach, yn ol geiriau'r bardd, "wedi ei gyflenwi â golwg gyffredinol i mewn i bethau, efe a fydd yn awr yn addas i ymddangos yn y Senedd neu yn y Cynghorau; anrhydedd ac astud wrandawiad a ddisgwyliant wrth ei wefusau. Yna hefyd ni a wellem wedd wahanol yn ein pulpudau, ac ystumiau gwahanol, a defnyddiau wedi eu gweithio yn wahanol i'r hyn yr eisteddwn danynt yn awr, yr hyn sydd yn rhoddi llawn cymaint o brawf ar ein hamynedd â dim arall a bregethir i'n clywedigaeth."

Dyma'r efrydiau y dylai ein pobl ieuainc, pendefigaidd a bonheddig, osod eu bryd arnynt, o'r 12eg oed hyd 21ain, "os nad ydynt i ymddiried mwy ar eu meirwon hynafiaid nag ar eu hunain byw." Yn y cwrs hwn rhaid i'r ysgolheigion fynd ymlaen yn gadarn ac yn ddiysgog. Cynnnydd yw eu harwyddair. Ond hwy a ddylent ar yr un pryd ail edrych dros y meusydd y maent wedi eu gadael ar ol. Yr oedd gan Milton, fel pob ysgolfeistr, grediniaeth gref yn yr hyn a elwir *Revision*, a chynghora'r efrydwyr i edrych yn ol ymhell i'w cwrs elfennol, er mwyn iddynt, fel y dywed, gadarnhau a chyd-gysylltu yn gryf, holl gorff eu gwybodaeth berffeithiedig, fel ag iddo fod yn debyg o ran cadernid i fyddin o lengoedd Rhufeinig.

Yma y terfyna'r cwrs addysg yn yr athrofa. Ymfrostiai Milton mai efe, o bob diwygiwr, a neshoedd agosaf at enwog ysgolion Pythagoras, Plato, Isocrates ac Aristotl. Nid wyf yn sicr nad yw yn gwanieithio iddo ei hun ddarfed iddo ffurfio ei gyfundrefn ar yr eiddynt hwy. Mewn un pwnc dywed ei fod yn rhagori ar y Groegiaid: y mae ei ysgol ef gymaint yn rhagorach na'r rhai hynny ag yr ydoedd Gwerinlywodraeth Plato yn well na'r eiddo Sparta. Addysgai Sparta ei hieuenctid, yn fwyaf arbennig, ar gyfer rhyfel; eithr Plato a'u haddysgai ar gyfer dyledswyddau dinasyddion. A hawliai Milton fod ganddo gynllun o ysgol a gyfunai y ddwy hynny.

Wedi ymdrin âg efrydiau'r ysgolheigion, a'r traethawd ymlaen i ymdrin â phynciau ddylai fod yn gydfynedol; a nodir allan lawer o fanylion o berthynas i Ymarferiadau Corfforol yr efrydwyr. Yn y *gymnasium* y peth cyntaf i'w gymeradwyo yw cleddyfaeth—*fencing*. Yn ol Milton, enynnai hyn yn yr efrydwyr ysbryd gwrol a di-ofn. A phân y tymherir yr ymarferiadau cleddyfol hyn â darlithiau a chynghorion ar wir ddewrder, dyagir yr ysgolheigion i fod yn wroniaid ac yn elynion i bob math o gam-ymddygiad a drwg-weithred. Ymgodymu hefyd—yr hon oedd yn hen arferiad ymlith y Saeson; carai Milton ei gweld yn ail-fywiocau. Yr oedd am ddefnyddio'r amser cyn ac ar ol bwyd, neu ar ol efrydu caled a hir ddarllen neu ymarfer y corff; yn yr adeg yna, tybiai fod rhywbeth yn angenrheidiol i adnerthu ac esmwythau a thawelu ysbryd yr efrydwyr; a hyn a wnai trwy Gerddoriaeth, un ai trwy glywed canu neu ynte trwy ddyagu canu. Ac yma yr ydym yn cael Milton yn codi ar un o'i ehediadau hyawdl, yr hyn y gorfodir ni mor aml i sylwi arno, pan yn ymdafu mewn brwdfrydedd i'w destyn. Yr oedd yn awyddus i'w efrydwyr gael digon o ymarferiad yn yr awyr agored. Ac yn y gwanwyn

yn arbennig felly—" Fe fyddai'n sarhad ar natur, pe nad elem allan i weled ei chyfoeth, ac i gyfranogi o'i lioniant gyda nef a daear." Nid oedd am iddynt aros gartref; ond cynghorai hwynt i deithio ymhob rhan o'r byd cyfaneddol, modd y gallent ennill profiad, yr hwn nas gellir ei gael ond trwy ymdeithio mewn gwledydd tramor. Wedi gadael yr Athrofa, ei gynghor oedd i'w efrydwyr ymweled â'r gwledydd hyn hyd nes y cyrhaeddont 23 neu 24 mlwydd oed; a hyn, cofiar, nid i ddyysgu unrhyw egwyddorion, oblegid efe a ystyriai y rhai hyn eisoes wedi eu meistroli, ond er mwyn helaethu eu profiad.

Gwneir rhai nodiadau pellach gan Milton yn niwedd ei lyfryn. Yn gyntaf, dengys nad yw ei gynllun yn ymdrin, fel y gwnai ereill a aethent o'r blaen, âg addysg plant o'r cryd i fyny; yn ail, dywed mai at y testyn yn gyffredinol y cyfeiria efe ein sylw, er fod rhai amgylchiadau neillduol y gellid cyffwrdd â hwynt ynglŷn âg addysg; yn drydydd, dywed fod ei gynllun yn gyfryw ag a rydd *oleuni a chyfeiriad* i'r sawl a ddewisio wneyd cynnyg arno; yn bedwerydd, mai nid pawb sy'n cyfrif ei hun yn Athraw sydd yn addas i wneyd y cynnyg, rhaid cael Ulyses ei hun i blygu bwa'r gwron; ac yn olaf, fod y cynllun yn llawer haws i'w weithio nag yr ymddengys yn y pellter.

Nid fy nghorchwyl ydyw canmol na dibrisio cynllun Milton. Ni feddyliais am ddim amgen na gosod ger bron olygiadau y gŵr enwog hwn ar addysg. Nis gall neb ameu nad ydyw'r cynllun yn un rhagorol, ond peth arall yw dweyd ei fod yn un ymarferol i gyfarfod anghenion yr oes hon.

Terfynaf fy ysgrif trwy ddyfynnu ychydig allan o anerchiad a draddodwyd beth amser yn ol, gan Mr. H. Courthope Bowen, M.A., Darlithydd ar Addysg yng Nghaergrawnt—gŵr o gryn awdurdod ar bob testyn perthynol i Addysg, a hawl ganddo i draethu ar y mater sydd wedi bod gennym dan sylw. Y mae rhai o'i olygiadau wedi eu corffori yng nghwrs yr ysgrif hon. Ebai Mr. Bowen: "Y mae syniadau Milton ar addysg yn rhai tra chynhwysfawr: y maent yn urddasoli ac yn ysbrydoli. Ni chyhoeddwyd erioed yr un llyfr yn fwy cymhelliol a meddwl-gynhyrchiol na'r Traethawd ar Addysg. Yr oedd diffyg profiad y bardd yn bychanu effeithiau ymarferol ei gynghorion; ac ni ddylid astudio'r llyfr er mwyn ceisio darganfod pa fodd i weithio allan y manylion i ymarferiad. Ond os bydd ynom ymdeimlad o'r angenrheidrwydd o gael saf-bwynt uchel a golygiad urddasol, tania Milton ni mewn modd nas gallasai neb arall; efe a leinw ein meddyliau â'r gobeithion puraf, ac a'n harwain i barchu fwy-fwy lafur a gwaith yr Athraw."

DAVID SAMUEL.

Aberystwyth.

OFFEIRIADAETH A CHYFRYNGDOD.

YN Heb. v. 1, ceir y nesaf peth i ddeffiniad o Offeiriad. Yno dywedir fod offeiriad yn un wedi ei gymeryd o blith dynion a'i osod dros ddyinion, nid ymhob peth ac ymhob cyaylltiad, eithr yn y pethau sydd tuag at Dduw ; ac nid yn y pethau hynny yn gwbl a hollol, eithr fel y maent yn galw am un i offrymu rhoddion ac aberthau dros bechodau. Dyma yr unig eiriau yn y Testament Newydd lle y gellir tybied fod yr awdwr yn bwriadu iddynt wasanaethu fel deffiniad o offeiriad ; ac ynddynt gwelir fod y lle amlycaf a'r arbenigrwydd mwyaf yn cael ei roddi ar y ffaith ai fod wedi ei osod tros ddyinion, h.y. i weithredu drostynt ger bron Duw. Mae'r syniad o gyfryngdod yn amlwg iawn yn nuwinyddiaeth ddiweddarach yr Ysgrhythran. Cafodd y lle pwysicaf yn nuwinyddiaeth a phrofiad yr Eglwys o'r amser boreuaf hyd y dydd hwn ; a dyma'r agwedd ymarferol anhepgorol yn nhrefn y cadw, yn enwedig ynglŷn â'r offeiriadaeth. Os felly, nis gall neb meddylgar beidio awyddu am ddeall y cysylltiad sydd rhwng y ddau syniad. Nid oes angen egluro y syniad o gyfryngdod ; eithr holwn beth yw perthynas offeiriadaeth âg ef, neu pa fodd y daeth offeiriad i olygu yn bennaf un yn gweithredu dros arall.

Nad oedd offeiriad ar y cyntaf yn golygu un yn gweithredu dros arall, ceisiwyd dangos mewn erthygl yn y TRÆTHODYDD am Fawrth y flwyddyn hon. Yno ceisiwyd olrhain ystyr y gair Hebraeg am offeiriad, a chaed fod y gosodiad hwn yn gywir, ac yn gyson â'r syniad am offeiriadaeth a geir yn Num. xvi. 1—11. Gwelwyd yr un pryd fod yn bosibl iddo ddod i feddu yr ystyr ychwanegol o gyfryngwr. Yno cyfeiriwyd at dri ystyr posibl,—sef, un gwybodus, un yn agoshau at, neu yn cyflawni gwasanaeth anrhydeddus i'w uwchafiaid. Ar ol darllen erthygl Laud yn y *Theologisch Tydschrift* (1868, tud. 171), fe'm tueddir erbyn hyn i roddi lle pwysicach i'r ystyr gyntaf nag i'r ddwy ereill. "Gwybodaeth sydd nerth," medd y ddihareb ; y gwybodus yw yr un sydd yn meddu nerth, yn enwedig mewn pethau ysbrydol, ac efe yw'r tebycaf i allu agoshau at ei uwch a chyflawni gwasanaeth anrhydeddus, pa un bynnag ai dros ei uwch ai dros ei ts ; drosto ei hun, dros fonedd a thros wrang. Gwna gynghorwr rhagorol i'r brenin, ac eiriolwr effeithiol dros y gwan. Gwasanaethod a ganlyn er dangos teithi y syniad :—

1. Rhagoriaeth, sef Gwybodaeth.
2. Gallu drosto ei hun, yn enwedig mewn pethau ysbrydol ; ac felly cymeradwy gan Dduw.
3. Gallu dros ereill, (a) dros neu gyda'r brenin ; (b) dros y gwan ger bron Duw.

Nid yw hanes y gair Hebraeg am offeiriad yn eithriad ; dengys hanes y gair Groeg a ddefnyddir am offeiriad yn y LXX. a'r Testament Newydd, weithrediad yr un egwyddor. *Hierous* yw y gair ; ffurfiwyd ef o'r ansoddair *hieros*. Yn ol barn y dysgedigion, mae i'r ansoddair

hwn ffurf hŷn, sef *isaros*, ystyr gyntaf yr hwn yw *heinyf*, *braf*, *cryf*.* Bron na thybiwn fod y gair Cymraeg *traidd* yn berthynas agos iddo. Os felly, dyma yw teithi y syniad:—

- (1.) Rhagoriaeth, sef cryfder, heinyf.
- (2.) Gallu drosto ei hun, yn enwedig i'w gymeradwyo ger bron y duwiau.

3. Gallu dros ereill, (a) dros y brenin, (b) dros y gwan ger bron y duwiau.

Yr unig wahaniaeth rhwng hanes y ddau air yw yr un sydd yn naturiol yn codi o nodweddion cenedlaethol gwahanol yr Hebreaid a'r Groegiaid. Gŵyr pawb ddarllenodd hanes y Groegiaid, y pris uchel a roddent ar gryfder a'r rhinweddau corfforol. Iddynt hwy, nid oedd neb yn fwy wrth fodd y duwiau na Hercules y cawr, Achilles, Agamemon, ac Odysseus, gwroniaid brwydr fawr Caerdroia. Eithr gyda'r Hebreaid, myfyrdod gwastad a syml, gwybodaeth o gyfrin bethau, proffwydi, oedd yn ennill eu hedmygedd mwyaf. Gwybodaeth gyfrin yr Hebreaid, cryfder y Groegiaid,—dyna y ddau syniad gwahanol o'r rhai y tarddodd eu henwau gwahanol am offeiriad. Er y gwahaniaeth hwn, yr un yw'r egwyddor hanesyddol sy'n llywodraethu dadblygiad y ddau syniad. Galleid ychwanegu engreiffiau o weithrediad yr un egwyddor yn hanes crefyddau ereill,—yn enwedig y crefyddau hynny sydd wedi dadblygu fwyaf gyda gwareddiad y byd; eithr rhaid ymatal rhag trethu amynedd y darlennydd, ac o herwydd anallu i ffurfio barn bersonol ynglŷn â llawer o honynt. Yn unig dywedwn fod y wyddor a elwir yn Grefydd Gymhariaethol yn cydnabod yr egwyddor hon. Ceir digon o engreiffiau o honi i gadarnhau y gosodiad hwn. Mae y gair am offeiriad o ran ei darddiad a'i hanes yn yr oll, neu o'r hyn lleiaf yn y mwyafrif o ieithoedd gwybyddus y byd, yn tystiolaethu mai rhagoriaeth un dyn ar y llall fu yr achos iddo gael ei osod yn gyfryngwr rhwng ei gyd-ddynion a'r duwiau. Ac y mae yn anhawdd gweled nad yw hyn yn wir am gyfryngdod ynglŷn â hanes yr offeiriadaeth Hebreig.

Gall y neb a fynno brofi drosto ei hun pa mor gyson yw yr egwyddor hon â hanes y natur ddynol ac â phrofiad personol. Ystyrier dysgeidiaeth y frawddeg "a friend in court," a chymharer hi â'r adnod yn llyfr Job: "Nid oes rhyngom ni ddyddiwr a all osod ei law arnom ein dau." Cofier dwy ffaith. (1) Nid yw pob dyn yn gyfartal ymhob peth; o'r hyn lleiaf, nid yw pob dyn yn ystyried ei fod felly. Ac mae yr un peth yn bod yn y cysylltiad crefyddol: ystyria y naill fod rhyw ragoriaeth yn perthyn i'r llall sydd yn ei wneyd yn fwy o ffairddyn y byd ysbrydol, ac am hynny yn fwy tebyg o lwyddo gyda'r duwiau. (2) Mor dyn yw y cwlwm cymdeithasol ymhlith dynion, mor ddwfn yn y natur ddynol yw y syniad o frawdoliaeth dyn, fel nad oes neb nad yw'n ystyried fod ganddo hawl i ofyn ac i ddisgwyl help oddiwrth ei gymydog galluocach. Gall fod gwahanol genhedloedd yn rhoddi ateb gwahanol i'r cwestiwn, Beth yw y rhagoriaeth hwnnw mewn dyn sydd fwyaf wrth fodd y duwiau; ac y mae gwahaniaeth nodweddion cenedlaethol yn rhoddi cyfrif i raddau am hynny. Eto, mae y ddwy

* *Curtius, Gr. Etym.*, tudal. 368; hefyd *Peile, Gr. and Lat. Etym.*, tudal. 302.

ffaith a nodwyd yn aros yr un, a phrofiad pob dyn yn eu cadarnhau. Ymwybyddiaeth o wendid ar un ochr, a syniad am ragoriaeth ar yr ochr arall, a'r ddau hyn wedi eu cyplysu â'r cwlwm cymdeithasol, a roddodd fod i'r syniad o gyfryngdod ynglŷn âg offeiriadaeth. Sylwer nad ydys eto wedi gofyn y cwestiwn pellach : Beth sydd yn cyfrif am yr ymwybyddiaeth o wendid, &c. ? Daw'r cwestiwn hwn ymhellach ymlaen.

Yn y fan hon ymwithia o'n blaen gysgod gwrthddadl fel ysbryd drwg, a llawer yw y rhai sy'n dychryn rhag mynd gam ymhellach. Mae yr hyn a ddywedwyd uchod yn awgrymu fod offeiriadaeth yng nghrefydd yr Hebraeid yn ddarostyngedig i'r un egwyddorion hanes ag yng nghrefyddau ereill y byd. Danghoswyd fod hyn yn wir (1) ynglŷn â tharddiad offeiriadaeth, ac (2) ynglŷn â'r cysylltiad rhyngddi â chyfryngdod. Mae'n aros eto y cwestiwn, I ba raddau y mae cynnydd yr offeiriadaeth swyddogol ymhlith yr Hebraeid yn ddarostyngedig i ddeddfau hanes ? Cyn y gellir mynd at y pwnc hwn rhaid esbonio y ddrychiolaeth ymaith. Mynych y clywir yr wrthddadl a ddygir yn gyffredin yn erbyn edrych ar gynnydd crefydd yr Hebraeid o dan lywodraeth egwyddorion hanes. Medd y gwrthwynebwr : "Mae y cwrs hwn yn darostwng crefydd y Beibl yn gyd-wastad â gau-grefyddau y byd ; eithr daeth y flaenaf yn uniongyrchol trwy ddatguddiad oddiwrth Dduw, ac am yr olaf nid ynt amgen na chread dychymyg dyn." A yw yr wrthddadl wedi ei gosod i lawr yn deg ? Tybiwn ei bod ; ac fe geir ynddi ar cyhuddiad a dau osodiad. Gwelir fod tegwch y naill yn dibynnu ar fod y ddau arall yn wir. Cymerer yn gyntaf y rhan olaf o'r wrthddadl, —beth am "gread dychymyg dyn" ? Tybiwn mai ystyr y rhan hon yw fod dychymyg dyn yn gwbl a hollol anghyfraith ; ac nis gellir gwadu nad oes llawer o'i weithrediadau, ar un olwg, yn gwbl groes i drefn, h.y. o ran eu cymeriad. Er hynny, o safie gwyddoniaeth, mae i'r dychymyg ei drefn. Onid Duw a'i creodd ? Ac wrth ei greu, oni roddes iddo ddeddfau, amodau a therfynau, fel y rhoddes ddeddf i'r môr ? Am hynny, onid yw gweithrediadau dychymyg dyn dan ddeddf a grewyd ac a weinyddir yn uniongyrchol gan Dduw ? Mae pob dyn a chenedl yn meddu rhyw fath o grefydd* ; a phob crefydd yn dadblygu ar yr un llinellau ; a'r crefyddau gynhyddodd fwyaf, yn meddu offeiriadaeth swyddogol, hanfod yr hon yw cyfryngdod† : beth sydd yn cyfrif am hyn ? Beth sydd yn esbonio yr unfuriaeth ? Onid deddf y dychymyg, y rhan greadigol o'r meddwl ? A phwy ag sydd yn credu yn wirioneddol yn llywodraeth foesol Duw ar yr holl fyd, a'r oll o ddyn, a wâd nad yw Duw yn gweinyddu'r ddeddf hon yr un mor wirioneddol ag y mae dychymyg dyn yn byw ac yn cynhyddu dani ? Eto, troer at y rhan flaenaf o'r wrthddadl ; wrth ddweyd "uniongyrchol" a "datguddiad," tybiwn fod y gwrthwynebwr yn golygu eithriadol neu wyrthiol ; oblegid y mae llywodraeth gyffredinol Duw ar y byd yn ddatguddiad parhaus o honno. Ni raid i neb wadu fod gwrth yn bosibl ; dengys hanes yr awduron diweddar sydd yn gwadu hyn pa mor anghyson dynt. Er hynny fe ddylid cofio fod gwrthiau yn ddarostyngedig

* Tylor, *Anthropology*, tud 842. † W. Robertson Smith, *The Prophets of Israel*, tud. 68, 66, 70.

i amodau moesol. Gwrthun yw tybio fod Duw yn gwastraffu ei allu gwrthiol. Yr oedd yr amodau hyn yn bod yn hanes gwrthiau Iesu Grist: fe'i lluddiwyd gan anghrediniaeth pobl Nazareth rhag cyflawni gweithredoedd rhyfedd yn eu plith; ni chyflawnodd yr un wyrth i foddio chwilfrydedd y bobl oeddent bob amser yn chwilio am arwydd. Os datguddiad "uniongyrchol," "gwrthiol," nid yw hynny yn anwybuddu deddfau hanes. Os oes amodau moesol i bob gwrth, nid yw datguddiad gwrthiol yn eithriad. Nid ydys yn gweled un gwrthwynebiad i'r egwyddor hon: nad yw Duw yn anwybyddu rhagoriaethau dynion. Neu mewn geiriau ereill, gan nad yw Duw dderbyniwr wyneb, y mae yn barod i ddatguddio ei Hun yr un mor uniongyrchol i bawb, ac y mae yn gwneuthur hynny yn ol y graddau y byddo pawb wedi eu paratoi i'w dderbyn. Os felly, pa wrthwynebiad sydd i ymdrin â chrefydd y Beibl yn ol egwyddorion hanes?

Troer ynte at y cyhuddiad yn yr wrthddadl, sef, "fod y cwrw hwn yn darostwng crefydd y Beibl yn gyd-wastad â gau-grefyddau y byd." Gofynnir, pa olygiad sydd yn rhoddi mwyaf o anrhydedd i Dduw, pa un ai ei fod yn gweithio gyda derbyn wyneb, ynte ei fod yn gweithio yn ol egwyddorion tragwyddol o osodiad cyngor sanctaidd ei ewyllys ei Hun? Atebed y gwrthwynebw'r. Cydnabydir y golygiad haesyddol yn y Beibl. Yn yr Hen Destament a'r Newydd anrhydeddir Melchisedec, yr offeiriad cenhedlig uwchlaw offeiriad yr Hebreaid; a choffeir gyda pharch am "amynedd" Job, nad yw yn debyg ei fod yn Hebrëwr. Priodola y proffwyd Amos symudiadau y Cenhedloedd i'r un Duw ag a ddygodd yr Israeliaid o'r Aifft (ix. 7); a dywed awdwr llyfr yr Actau, yn gystal â Phaul yn ei epistol at y Rhufeiniaid, na adawodd Duw ei Hun yn ddi-dyst ymhlith y Cenhedloedd,* eithr ei fod yn talu sylw mor fanwl iddynt hyd at bennu "yr amseroedd rhagosodedig, a therfynau eu preswylfod hwynt, &c." (Act. xiv. 17; xvii. 4—7; Rhuf. i. 18—21; ii. 12). Nid yw hyn oll ond agor allan y syniad o lywodraeth Duw ar y byd; yr hyn, o safle arall o edrych arno, sy'n golygu fod gweithrediadau Duw, neu hanes dyn, yn ddarostyngedig i egwyddorion. Os felly, a chan ein bod yn edrych ar offeiriadaeth yn hanes pob crefydd fel prawf nad yw Duw wedi gadael ei Hun yn ddi-dyst yn y byd, ni raid petruso ynghylch yr wrthddadl a nodwyd. "Drychiolaeth yw," ac fe fiŷ o flaen rheswm. Mae rheswm ac ysgrythyr o blaid y golygiad fod offeiriadaeth yr Hebreaid yn ddarostyngedig i'r un egwyddorion hanes ag offeiriadaethau ereill.

Cyn myned ymhellach, goddefer er mwyn hwylostod, yr adgrynhoad hwn o'r hyn y ceisiwyd ei ddangos hyd yma. 1. Nid yw y gair Hebraeg am offeiriad, arno ei hun, yn golygu un yn gweithredu dros arall, eithr un a chanddo allu a hawl i agoshau at Dduw drosto ei hun. 2. Fod ymwybyddiaeth un dyn o'i wendid wedi ei gyplysu â'r cwllwm cymdeithasol yn gystal â'r argyhoeddiad fod rhagoriaethau yn gwneyd dyn arall yn fwy wrth fodd Duw, wedi rhoddi bod i'r syniad o gyfryngdod. 3. Gan mai i agoshau at Dduw yr oedd yr angen mwyaf am gyfryngdod, mai naturiol oedd i'r offeiriad weithredu fel cyfryngwr dros arall. Ni chyffyrddwyd eto ond â tharddiad a chplysiad cyf-

* Cymh. Dorner, Glaubenslehre i. tud. 674—5.

ryngdod ag offeiriadaeth ; a'n hunig athraw hyd yn hyn fu ieitheg. Gan hynny mae'n aros y gwaith o brofi fod gwersi ieitheg, y rhai oll sy'n perthyn i'r cynfyd, yn cael eu cadarnhau gan hanes cynnydd yr offeiriadaeth mewn amser diweddarach ; a chan mai egluro y Beibl yw'n hamcan pennaf, cyfyngwn ein sylw i'r offeiriadaeth Hebraidd. Ein gwaith, felly, yw dangos fod yr egwyddor a nodwyd yn cael ei chydnabod ymhob cyfnod o hanes yr offeiriadaeth swyddogol,—sef yr egwyddor fod rhagoriaeth yr offeiriad a gwendid yr addolwyr yn rhoddi bod i gyfyngdod ; neu mewn un gair, fod offeiriad swyddogol yn cael eu dewis o herwydd rhyw ragoriaeth gwir neu dybiedig ynddynt hwy eu hunain.

Awgrymwyd eisoes fod rhyw gysylltiad rhwng cynnydd offeiriadaeth a chynnydd gwareiddiad ; a golyga hynny fod a wnelo amgylchiadau cymdeithasol ryw gymaint & ffurf yr offeiriadaeth yn y gwahanol gyfnodau. Cytunir fod tri chyfnod yn hanes cymdeithas,—sef y teulu, y llwyth, a'r genedl.* Ni raid i ni, ar hyn o bryd, ddangos fel y mae offeiriadaeth yr Hebraid, yn unol â hyn, yn meddu tri chyfnod o hanes. Crybwyllwn y ffaith er mwyn dangos fel y mae yr egwyddor dan sylw yn gweithredu ymhob cyfnod, a thrwy hyuny orffen ein tasg yn yr erthygl hon. Galwn y cyfnod cyntaf y cyfnod patriarchaidd, ac ymestynna hyd amser Moses ; yr ail, yr Hebraidd, hyd amser Ezeziel ; a'r trydydd, yr Iuddeuaidd, hyd ddymchweliad Jerusalem. Am y cyfnod cyntaf a'r trydydd, nid oes nemawr wahaniaeth barn ; eithr am yr ail, gellir gofyn heddyw pa bryd y bydd y diwedd ar ddadleu yn ei gylch, ac y ceir goleuni clir ac unfrydedd barn arno. Mewn geiriau cyffredinol, gellir dweyd fod dau ddosbarth o olygiadau am dano,—yr hen olygiad traddodiadol, a golygiad diweddarach beirniadaeth. Yn ol y cyntaf, sefydlwyd offeiriadaeth urdd Aaron yn gyflawn yn amser Moses, a pharhaodd felly yn ddigyfnewid trwy ystod hanes y genedl, ac eithrio cyfnod y barnwyr. Yn ol yr ail, yn raddol y daeth i fod. Bu amser pan yr oedd yn rhydd i unrhyw Hebrëwr offeiriadu ; bu barnwyr, brenhin-oedd, proffwydi, a Lefiaid yn gwneuthur hynny, yn ol fel y byddai angen yn galw, amgylchiadau yn caniatu, a'r bobl yn dewis ; ac yn ddiweddar, cyfyngwyd y swydd i un llinach o deulu Aaron.† Nid ydys yn awr yn datgan unrhyw farn ar hyn o bwnc ; nid oes angen hynny ar hyn o bryd er cyrraedd yr amcan mewn golwg. Digon fydd dangos, pa bryd bynnag y sonir yn y Beibl am gyfnewidiad yn yr offeiriadaeth, y cydnabyddir yn y fan a'r lle yr egwyddor a roddwyd i lawr.

I. Am y cyfnod patriarchaidd yn hanes yr offeiriadaeth, ychydig a wyddys, ac ychydig a ddywedir am dano yn y Beibl. Ni roddir unrhyw gyfrif am ei darddiad ; prin yn wir y cydnabyddir ei fod, oni buasai am yr amryw grybwyllion eu bod yn offrymu ar wahanol adegau ; ac mae'n nesaf peth i sicr nad ymwybyddiaeth o bechod a'u cymhellai i hyn yma. Ceir llawys o engreiffitiau o benteulu yn aberthu dros y teulu.‡ Yr oedd eu safle yn y teulu a theimlad y teulu o'u dibyniad arnynt ; yr hen air mor wir y pryd hynny ag yw yn awr—"Yr hen a w'yr a'r ieuanc a dybia ;"—a'r dwfn barch gyda'r hwn yr edrychai y

* Tylor, *Anthropology*, tud. 402, 426. † Cymh. Curtiss yn *Schaff—Hersog*, dan y gair. ‡ Noah (Gen. viii. 10) ; Abraham (Gen. xiii. 4) ; Isaac (xxvi. 21) ; Jacob xxxv. 1) ; Job (i. 5).

teulu i fyny at y pen yn gyfryw, fel nad oedd cinica rheoswm ychwanegol tuag at benodi yr offeiriad. A thrwy roddi lle mor israddol i'r teulu, a lle mor amlwg i'r pen, ni dybiwn fod y Beibl yn cydnabod mai y tad oedd yr amlycaf ei grefydd a'r hynaf ei brofiad. "Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Jacob,"—tri phentula—y dewisai Duw alw ei Hun wrth anfon ei genadwriaan i'r Israelaïd mewn amser diweddarach,—ffaiith sydd arni ei hun yn cyfeirio at yr egwyddor a nodwyd, ac yn cydnabod rhagoriaethan y patriarchiaid. Mor elfennol—os oedd o gwbl yn bod—oedd yr ymwybyddiaeth o bechod yn y cyfnod hwn, fel y gellir dweyd fod yr ymwybyddiaeth o wendid yn ei ystyr foesol yn rhwydd roddi lle i wendid yn ei ystyr naturiol. Er nad ydym yn cael tystiolaeth uniongyrchol i'r egwyddor dan sylw yn y cyfnod hwn, fel yn y nesaf, eto mae ystyried yr amgylchiadan yn eglur ddangos fel y mae yn ffitio i'r hanes yn well nag unrhyw dybiaeth unigol arall.

II. Am y cyfnod Hebrëaidd, fel y sylwyd eisoes, nis gellir dweyd fod ei hanes eto wedi ei ysgrifennu. Nid yw y ddaun ddosbarth o feddylwyr a grybwyllwyd ronyn yn nes i gytuno â'u gilydd parthed cynnydd yr offeiriadaeth yn y cyfnod hwn. Gwada un dosbarth na bu un cyfnewidiad, ac felly gynnydd ynddi; gwada'r llall fod un setydlad ymhlith dynion wedi neidio i fod ar darawiad amrant. Un peth nis gellir ei wadu: fod yn yr Hen Destament grybwyllion am gyfnewidiadan, o blith y rhai y gellir nodi tri chyfnewidiad mawr,* gan sylwi ynglŷn â phob un o'r tri fod rhyw ragoriaeth yn rheoswm am y cyfnewidiad, ac felly dros y penodiad. Yn y cyfnewidiad cyntaf, cyfyngir yr offeiriadaeth i'r Israelaïd fel cenedl; yn yr ail, i lwyth Lefi; ac yn y trydydd, i denlu Aaron.

I. Yn ol Exod. xix. 5—8, neillduwyd yr Israelaïd oddiwrth genhedloedd y byd i fod yn bobl briodol i Dduw, ac felly i'w wasanaethu fel offeiriad; eto dibynnai y neillduad ar gyflawni y cyfamod:—"Os gan wrandaw y gwrandewch ar fy llais, a chadw fy nghyfamod; chwi a fyddwch yn drysor priodol i mi." Cyflawner yr amod, a chyflawna Duw ei air; rhagorent ar genedloedd y byd, a dewisai hwy yn offeiriad. A oedd yr offeiriadaeth hon yn golygu eu bod i fod yn gyfryngwyr rhwng y byd a Duw? Gellir ateb yn y cadarnhaol yn yr un ystyr ag y golygir yr Eglwys yn awr yn sefyll rhwng Duw a dyn. † Ac os oedd Duw wrth eu dewis yn "frenhiniaeth o offeiriad" yn cydnabod hawl pob un o honynt i offeiriadu drosto ei Hun cyhyd ag y byddai yn cyflawni amodau y cyfamod, mae'n hawdd deall pa fodd yr oedd Manoah dduwiol (Barn. iii. 19) yn offrymu drosto ei hun a'i wraig, ar ol cael sicrwydd am addewid yr angel; a Gideon nerthol (Barn. vi. 19), pan mewn cyfyng-gynghor; a pha fodd, pan oedd y bobl mewn cyfyngder, y gofynwyd i Moses (Exod. xx. 19, 24), i Samuel (1 Sam. vii. 8—10), ac ereill i gyfryngu rhyngddynt â Duw. Nid yw y Beibl yn gadael un amheuaeth am dduwioldeb Manoah; mae gwroldeb gwyलाई Gideon a'i nerth mewn rhyfel yn nodweddion amlycaf ei gymeriad; ac y rhagorai Moses a Samuel ar y bobl a arweinient tu hwnt i bob cwestiwn. O bawb ag oedd yn fyw y pryd

* Cymb. Kittel, *History of the Hebrews*, i. tud. 106. † Oehler, *O. T. Theology*, i., tud. 260; Milligan, *Expositor*, 8^o, ix., tud. 200—221.

hwnnw, yr oeddynt hwy yn cyflawni amodau y cyfamod, ac felly yn meddu hawl i'w hofferiadaeth.

2. Eithr am genedl Israel fel cenedl, buan y danghosodd nas gallai ddod i fyny a gofynion y cyfamod, er brwdfryded ei hadduned (Exod. xix. 8; xxiv. 3, 7). "Buan y ciliasant o'r ffordd a orchymynais iddynt: gwnaesthant ló tawdd, ac addolasant ef, ac aberthasant iddo" (Exod. xxxii. 8). Trwy hynny, "pechodd y bobl hyn bechod mawr;" fforffetiasant eu hawl i'r offeriadaeth, o herwydd torri amodau y cyfamod. Canlyniad hyn yw cyfnewidiad yn yr offeriadaeth; oblegid "yn yr amser hwnnw y neillduodd yr Arglwydd lwyth Lefi . . . i sefyll ger bron yr Arglwydd" (Deut. x. 8; xxxiii. 9). Ond paham lwyth Lefi? Cynhygir dau ateb: yn ol un, fe'i neillduwyd "yn lle pob cyntafanedig o feibion Israel" (Num. iii. 45; viii. 5—19); yn ol y llall, fe'i neillduwyd o herwydd eu bod yn amlycach o ran eu sêl tuag at Dduw na'r llwythau ereill. Er y gosodir yr ateb olaf yn fynych yn erbyn y blaenaf, nid ymddengys fod unrhyw reswm dros hynny. Gwir fod yr ateb olaf yn llawer hŷn na'r blaenaf, er hynny y maent yn ddigon cyson. Nid yw y blaenaf yn rhoddi cyfrif am neillduad llwyth Lefi yn hytrach nag un o'r llwythau ereill "yn lle pob cyntafanedig o feibion Israel;" eithr dyna yw swm a sylwedd yr olaf. Am hynny gellir derbyn y ddau ateb fel yn cynnwys gwir, ac o bosibl gyda'u gilydd, yr holl wir. Ar hyn o bryd, yr olaf sydd bwysig yn ein golwg,—dewiswyd llwyth Lefi oblegid eu sêl dros y Duw byw. Cadarnheir y gosodiad hwn gan amryw ystyriaethau. (1) Hanes y llwyth ar amgylchiad y llo aur (Exod. xxxii. 25—29). (2) Barn awdwr Llyfr Deutoronomium (x. 8). (3) Gwrthryfel Corah (Num. xvi. 2, 3) yn erbyn y neillduad hwn, oblegid eu bod yn tybied fod "yr holl gynulleidfa yn sanctaidd bob un o honom," ac felly yn meddu yr un rhagoriaeth bawb a'u gilydd, a'r un hawl i'r offeriadaeth. (4) Y ffaith ddarfod i'r gwrthryfel hwn fod yn ofer, gan i hawl y Lefiaid brofi mor gryf, a'u gwasanaeth mor werthfawr yngolwg y cyhoedd fel yr oedd rhyw hanner eilunaddolwyr, megis Micah a'r Daniaid (Barn. xvii. 13; xviii. 19), yn falch o gael Lefiaid yn "dad ac offeriad" yn eu tai.

3. Nid hir o bosibl y cadwodd Lefi ei berffeithrwydd. Os oedd llawer yn gwerthu eu gwasanaeth i hanner paganiaid, fel y Lefiaid yn nhŷ Micah, yr oeddynt yn anghofio eu sêl gyntaf tuag at y Duw byw; a gallai nad oedd meibion Eli yn engreiffiau eithriadol o drachwant y Lefiaid. Daeth yr amser i wneyd gwahaniaeth rhwng Lefiaid a Lefiad (Ezec. xlv. 6—16). Dygasant dramoriaid i mewn i'r cysegr, a halogwyd ef; pellhasant oddiwrt h yr Arglwydd; crwydrasant ar ol delwau; ac fe'u darostyngwyd, o fod yn offeriaid, i fod yn "yn weinidogion mewn swydd yn mhyrth y tŷ." Eto nid pawb o honynt; yr oedd rhyw ragoriaeth rhwng Lefiaid a Lefiad. Canys "yr offeriaid y Lefiaid, meibion Sadoc, . . . hwynt hwy a neshant ataf fi . . . i offrymu i mi." Ac fel cyfrif am hyn, desgrifir hwy fel "rhai a gadwasant gadwraeth fy nghysegr, pan gyfeiliornodd meibion Israel oddiwrt hwy."* Trwy hyn dangosasant eu rhagoriaeth ar y gweddill, eu brodyr y Lefiaid; profasant eu hymlyniad wrth y cyfamod, a chyflawnodd Duw ei air; hwynt hwy ddewisodd Efe yn offeriaid.

* Cymh. Driver, *Introd. to O. T.*, tud. 182.

Yn y tri chyfnewidiad hyn a fu yn yr offeiriadaeth yn ystod y cyfnod hwn, mae yr egwyddor a nodwyd yn cael y lle amlycaf. Ymhob un o honynt cyfyngir y swydd, a phob tro neillduir y rhagoraf.

III. Ar ddechreu y cyfnod Iuddewig, a'r olaf yn hanes yr offeiriadaeth, rhoddir arbenigrwydd ar ragoriaeth yr offeiriad, ac felly sêl ar yr egwyddor a nodwyd. Dychwelodd bagad o Iuddewon y gaethglud o Babilon dan arweiniad Zorobabel a Josua, y naill yn gynrychiolydd y brenin ger bron y bobl, a'r llall yn gynrychiolydd y bobl ger bron Duw. Josua oedd yr offeiriad, ac mae'n ddiameu fod rhyw wyl o gysegriad wedi ei chynnal ynglŷn â'i osodiad yn y swydd honno ar el cyrraedd Jerusalem. Bid a fynno, ail-adroddir wrtho eiriau cyfamod yr offeiriadaeth (Zech. iii. 7); ac y mae yr egwyddor y ceisiwyd ei hegluro yn yr erthygl hon yn cael y lle mwyaf amlwg yn yr amodau hyn. Gallaisid dangos o'r Apocrypha fel yr oedd yr Iuddewon yn cydnabod yr egwyddor hon yn ystod y cyfnod hwn. Rhag trethu gofod ac amynedd, boddlonir ar un sylw: mae diwedd yr offeiriadaeth Iuddewig yn cadarnhau hyn. Cyflawnodd y genedl fesur anwiredd eu tadau (Mat. xxiii. 32) trwy groeshoelio Tywysog y bywyd, a hynny wrth gyngor Caiaphas "yr hwn oedd archoffeiriad y flwyddyn honno;" a "daeth digofaint Duw arnynt hyd yr eithaf" (1 Thea. ii. 16). Fforffetiodd teulu Aaron eu hawl, a bu pen ar eu hoffeiriadaeth yng nghyflawnder yr amser. Trwy hyn neillduwyd un arall i'r swydd, heb fod o dŷ a thylwyth Lefi,—sef "ein Harglwydd ni" (Heb. viii. 14), am yr Hwn y gellir dweyd yn ystyr yr hynafiaid: "Tecach ydwyt na meibion dynion; tywalltwyd gras ar dy wefusau, o herwydd hynny y'rh fendithiodd Duw yn dragywydd" (Psalm xlv. 2; cymh. Anselm. C. D. H. I. ii.).

Os yw ffrwyth yr ymchwiliad hwn yn dangos y gwir, gallwn yn ddibetrus gymeryd ein hargyhoeddi fod hanes yr offeiriadaeth ymysg yr Hebraid yn cyd-dystiolaethu â gwersi ieitheg parthed ei tharddiad, ei chynnydd, a'i chysylltiad â chyfryngdod. Credwn mai buddiol crynhoi yr holl wersi yma eto. (1) Pob dyn yn meddu yr un hawl i fod yn offeiriad drosto ei hun, ac yn y cyfnod hwn nid oedd y gair Hebraeg am offeiriad yn golygu cyfryngdod. (2) Un dyn yn dod i weled neu deimlo fod gwahaniaeth rhyngddo a'i gyd-ddyn, a hynny yn ffaf yr olaf; fod rhagoriaeth yr olaf yn ei wneyd yn fwy wrth fodd Duw nag ef. Yn yr ymdeimlad o ragoriaeth ei gyfaill, a'i wendid ei hun, ac ar bwys y cwlmw cymdeithasol rhwng dyn a dyn, erfynia arno i gyfryngu rhyngddo â Duw.

Os dyma ddysgediaeth hanes yr offeiriadaeth, gellir gofyn, Pa fodd y mae hyn yn cytuno â duwinyddiaeth, neu â'r ystyr a roddir yn gyffredin i'r gair offeiriad? Ofnwn fod yr erthygl hon eisoes yn mynd yn faith, eto goddefer yn unig nodi'r ateb. Mae dysgeidiaeth duwinyddion yn cytuno âg ystyr gyntaf y gair Hebraeg am offeiriad. Dysgir nad yw Duw dderbyniwr wyneb, ac felly fod pob dyn yn meddu yn hollol yr un hawliau a breintiau ger ei fron Ef, ac am hynny nid o hono nac ynddo Ef y mae y rheswm dros, na'r achos o'r gwahaniaeth sy'n bod rhwng dyn a dyn. O ba le, ynte, y daeth y gwahaniaeth? O ddyn, bid sicr. Yn wreiddiol, medd pob dyn yr un hawl i fod yn offeiriad; a chyhyd ag y byddo yn bur, gall weithredu fel y cyfryw, ac

agoshau drosto ei hun at Dduw,—dyma ddeddf dragwyddol y cyf-
amod. Fel mater o ffaith, daeth pechod i'r byd; fforffetiodd dyn ei
hawl i offeiriadu drosto ei hun. Nid yw yr ymdeimlad o wendid mewn
dyn ond tystiolaeth dufewnol i wirionedd allanol a deddf dragwyddol
y cyfamod rhwng Duw a dyn. Daeth dyn i deimlo fod rhyw wahan-
iaeth rhyngddo â'i gyd-ddyn, a hynny yn ffaf yr olaf; ac er y gallai
nad oedd y naill yn ystyried y llall yn berffaith, eto rhaid gwneyd y
goreu o'r gwaethaf. Mewn angen, naturiol ymofyn help y rhagoraf
a'r un sydd fwyaf wrth fodd Duw,—tystiolaeth ychwanegol i ddeddf
y cyfamod, ag y gellir ei rhoddi yn y ffurf hon: Gan y puraf y mae'r
hawl a'r gallu mwyaf i agoshau at Dduw. Nid yw yr ateb hwn ond
cadarnhau yr hyn a ddygir mewn duwinyddiaeth,—sef, mai trwy
bechod y daeth cyfryngdod i gysylltiad âg offeiriadaeth. Ymddengys
i rywrai, feallai, mai ofer fu ein llafur, gan nad ydym wedi dod o hyd i
ddim newydd. Os na chawsom hyd i ddim newydd, rhaid cydnabod
fod y ffordd hon o ddyagu hen wirionedd yn ddieithr i dduwinyddiaeth
Cymru; ac y mae yn werth sylwi fel y mae dysgeidiaeth hanes a
duwinyddiaeth yn cyd-dystiolaethu ar gwestiwn mor bwysig mewn
crefydd. Ychwaneg: Credwn mai ar hyd y llinell hon y deun i
ddeal a gwerthfawrogi y gwahaniaeth rhwng offeiriadaeth urdd Mel-
chisedec ac urdd Aaron; ac o ddeal hyn, o bosibl na cheir goleuni
newydd ar Athrawiaeth yr Iawn,—y cyfryw oleuni ag a'n galluoga i
symud ymaith rai gwrthddadleuon diweddar yn erbyn, yn gystal a
golygiadau amrwd ynglŷn â'r athrawiaeth hono. Nis gall neb
ddweyd yn wyneb hyn, mai ofer fu y llafur.

WILLIAM GLYNNE.

Manchester.

PROFIAD PRENTIS O SIOPWR DDEUGAIN MLYNEDD YN OL.

MAB i ffarmwr yn y rhanbarth ddeheuol o Sir Gaernarfon oeddwn, ac
yr oedd i mi ddau o frodyr, un ar y ffarm, a'r llall mewn swyddfa. Er
pan yn cofio dim, fy uchelgais oedd bod yn siopwr, a byddwn yn
wastad yn cadw "siop bach," ac yn lapio tywod mewn papur, ei bwyso
yn y clorian, a'i werthu fel pwys o siwgr, pan y telid am dano hefyd
gan y cwsmer tybiedig. Yn y siop ddychmygol hon, ceid pob math o
nwyddau, a chryn gyfnewid arian am danynt, yn geiniogau, sylltau a
phunnoedd. Y darnau duon a gynrychiolent y pres, a'r gwynion y
sylltau, pa rai mewn gwirionedd nad oeddent ddim amgen na nifer o
hen fotymau gwahanol ac amrywiol. Felly yr oeddwn yn cadw siop
cyn bod yn brentis.

Yr unig addysg a gefais oedd yr ysgol ddyddiol rad, heblaw yr ysgol Sul, ac ni thalwyd un geiniog goch erioed am fy ysgol o'r dechreu i'r diwedd, oddigerth ychydig bres am lyfrau, ac ychydig oedd hynny, a chwe cheiniog yn y flwyddyn am dân i ymdwymno wrtho yn y gauaf. Bum dan addysg o'r pryd y medrwn gerdded hyd yn ddeuddeng mlwydd a chwe mis oed, pan y prentisiwyd fi am bedair blynedd yn siopwr mewn siop mewn tref nid anenwog yng Ngogledd Cymru. Yr oedd y perchennog yn *draper* ac yn *grocer*, ac hefyd yn meddu *license* i werthu tybaco, ac felly cefais hyfforddiant yn y ddwy *line*, sef yn y gelfyddyd o werthu *cotton lining*, calico gwyn, gwlanen cartref, melfered, pinnau, nodwyddau dur, *reels*, *cotton balls*, a'r *West of England cloth*, yn gystal a thê a siwgr, sebon, lliw glas, coffi a chicori; ac hefyd cefais brofiad mewn dyfrhau a phwyso tybaco, a byddwn bob amser yn ei ddyfrhau cyn ei bwyo, ac felly ni cheid ef byth yn brin yn y clorian. Gwasanaethais dymor fy mhrentisiaeth—neu yn fwy priodol, fy mhenyd-wasanaeth—yn llawn, sef pedair blynedd, ac ni chefais ddim yn fy ffatr am *good behaviour*, fel y ceir weithiau mewn sefydliadau o'r fath, ond bu raid aros hyd derfyn eithaf y cytundeb. Y pryd hwnnw darfu fy meistr gyflwyno i mi yr *indenture*, a fy ngharitor wedi ei ysgrifennu ganddo arni, yn cynnwys cadarnhad fy mod wedi ei wasanaethu yn llawn, yn onest, a ffyddlon, gan roddi i mi y *reference* goreu fel un cymwys i gymeryd lle *assistant* o dan gyflog, yn y *drapery* neu y *grocery*, mewn unrhyw fasnachdy yn y deyrnas Gyfunol. Gofynnid y swm o ugain punt o fy mlaen fel cydnabyddiaeth am fanteision arbennig y masnachdy i gael gwybodaeth o'r *trade*, ac anghenraid oedd eu talu ar ddiwrnod y rhwymiad, yr hyn wnaeth fy nhad, er iddo rwgnach yn erbyn, gan ofni nas gallaswn aros yno i orffen yr amser, ac felly y collid yr arian a'r budd. Ond talu fu raid er pob protest. Rhwymai y cytundeb fy meistr i roddi i mi fwyd a diod a llety, a'm dysgu yng nghyfrinion y fasnach; ac addewid, os byddwn yn hogyn da, ac wedi gwasanaethu y tymor yn llawn, y cawn rodd o siwt o ddillad o'r brethyn goreu, yr hyn hefyd a gefais. Yr oeddwn innau hefyd yn amodi i fod yn ddiwyd, yn ufudd a gonest; ac yr oedd fy nhad i ofalu am bres poced i mi, ac i ddarparu dillad ac esgidiau yn ol fel y byddai y galw. Hefyd, heb un cytundeb, cafodd fy anwyl fam y pleser bob wythnos o olchi fy nillad, a rhoddi ychydig *starch* yn fy ngoler a'm crys, a'u hanfon i mi. Yr oedd rhwng y siop a fy hen gartref oddentu ugain milltir o ffordd, ac ar bob diwrnod marchnad, byddai cariwr a'i drol, yn mynd o'r gymdogaeth i'r dref, gyda'r hwn yr anfonid dillad glân i mi, ac hefyd y dillad budron yn ol, ac felly drwy gydol y blynyddoedd. Ar fore diwrnod y farchnad, mawr fyddai fy nisgwyliadau am ddyfodiad yr "hen gariwr" gyda'r bag; edrychwn drwy y ffenestr, a rhedwn i'r drws bob yn ail, gan edrych ar hyd yr heol yr arferai ddyfod. Ac odid na welwn ef yn y pellter yn honcian dwad, gan fod yr hên law yn digwydd bod yn gloff, a'r hyn a chwenychwn yn ei law. Ac yn fuan y mae y pecyn yn fy meddiant, am dwylaw yn brysur ac aiddgar yn ei agor, ac yn archwilio ei gynnwys, am y gwyddid fod ynddo ryw Beth llawer mwy cymwys i gylla hogyn ar ei gythlwg na dillad a *starch*. Ac yn fuan darganfyddid yno afalau pêr, gerllyg, ac eirin melusion, oll wedi tyfu yn yr hên ardd, gardd fy hen gartref, coedydd pa un

a adwaenwn yn dda, a gwyddwn am amrywiol flas y ffrwythau a dyfent arnynt. Nid oedd grawn-eybiau Eschol yn fwy peraidd yn yr anialwch, nag oedd firwythau yr hen berllan i mi, nid yn yr anialwch, ond yn hytrach yn Babilon. Ac yn ychwanegol at y moethau hyn, canfyddid yn y gwaelod haen o gacennau cyfoethog, wedi eu coginio a'u crasu yn bwrpasol i mi, pa rai am resymau arbennig a gaent y fraint yn wastad o gael eu profi gyntaf; yna deuai yr afalau ar *plums* yn *dessert* mwynhaol. Hefyd yn y bag, ceid pwt o lythyr i mi oddiwrth fy mam, wedi ei ysgrifennu ganddi a'i llaw ei hun. Ac O, y fath law-ysgrifen dlos oedd gan fy mam,—ni welais ei chyffelyb erioed! Yn y llythyr adroddai wrthyf holl helyntion a digwyddiadau y tŷ, y ffarm, y pentref a'r capel, yn fawr a bach, a gofalai am lenwi y tudalen olaf mewn cynghorion i mi i barhau i fod yn fachgen da, gonest, a geirwir, ac i gofio parhau i ddarllen y Beibl, ac i weddio hwy'r a bore am gael fy nghadw rhag y drwg, a dywedai ei bod hi yn parhau i weddio drosof, yr hyn a wyddwn yn dda. Ni chafodd yr un bachgen erioed fam well, mwy tyner a gofalus, ac heb golli ei hurddas a'i hawdurdod. Y mae'r adgofion am dani yn parhau yn anwyl hyd heddyw.

Yr oedd y perchennog, heblaw bod yn feistr, hefyd yn ewythr i mi, o frawd fy nhad, ac yr oedd ar y pryd yn *ŵr* gweddw, a gofelid am ei dŷ gan fenyw o forwyn, yr hon a enwid gan y rhai oddiallan yn *housekeeper*. . . . a phan mewn heddwech â'i meist'r, byddai ei hawdurdod yn y tŷ ac yn y siop yn eang, yr hyn hefyd a ddefnyddiai; ond pan y codai cweryl rhyngddynt, ac nid anaml fyddai hynny, collai yr awenau yn y fan, a byddai y *dear housekeeper* yn y *black books*, hyd yr adeg yr adferid y cymod.

Eglwyswr mawr, a Thori rhonc a dall, oedd fy meist'r, canys felly y cyfarchwn ef bob amser. Elai i fyny deirgwaith bob Saboth yn gyson i addoli i Eglwys y plwyf. Ac er na fyddai yn derbyn ei gymun, eto ymagwedda'i yn y gwasanaeth mor eglwysaidd a defosiynol â'r un o'r anwyl gariadus frodyr, gan borthi y gwasanaeth gyda sêl, fel y clywid ei lais yn uwch na neb, os nad eiddo y clochydd, yr hwn a eisteddai yn ei ymyl. Ac fel canlyniad, eglwyswyr yn bennaf, os nad yn gwbl, oedd cylch ei gymdeithas, a hwy yn bennaf oedd ei gwsmeriaid. Byddai personiaid gwlad a thref yn delio yn ei siop, yn heidio ato, a llawer o honynt yn cael ymborth a llety yn ei dŷ. Ar un adeg yr oedd person y plwyf—y ficer, gŵr da, ac yn cyflawni ei swydd gyda chydwybod ddirwystr—yn gyfaill mawr iddo, ac yn gwsmer yn ei siop, a pharhaodd y cyfeillgarwch tra bu y wraig yn fyw; ond wedyn, darfyddodd popeth yn raddol, ac yr oedd achos i hynny. Eglwyswyr oedd ei bobl, ac am eu helyntion y chwedleuai, er y byddai hefyd yn awyddus ac yn cael blas ar dipyn o *jangle* y capel, ac yr oedd digon o ddefnydd i beth felly ar y pryd yn un o gapeli pwysicaf y dref, ac yr oedd yntau yn digwydd bod mewn cyfle rhagorol i gael y newyddion diweddaraf.

Fel y dywedwyd eisoes, Tori oedd ef o ran ei olygiadau gwleidyddol, ac eto byddai yn derbyn bob bore Saboth trwy y post *Lloyd's Newspaper*, ac mewn rhai cylchoedd byddai yn mawr gymeradwyo syniadau y papur hwnnw, er mor wyllt y gallent fod, yn enwedig y pryd hwnnw. Ond Tori ydoedd mewn proffes, os nad *in principle*,—ynte *principal*, ys dywedai y diweddar Barch. Ed. Morgan am rywun, yr hyn o'i

gyfieithu ydyw egwyddor llygad y geiniog, ac y mae amryw o'r rhai egwyddorol hyn yn aros hyd heddyw. Yr ydwyf yn cofio leciwn Mr. Davies, y Borth, a Mr. Bulkely Hughes, y cyntaf yn Rhyddfrydwr, a'r ail y pryd hwnnw yn Dori—cafodd droedigaeth sydyn wedi hynny; ac yn cofio Mr. Robert Davies, brawd i'r ymgeisydd, yn dyfod i'r siop i ofyn am y bleidlais i'w frawd, yr hon a wrthodwyd trwy i'r meistr beidio gwneyd ei ymddanghosiad, a pheri i'r *boys* ofalu am ddweyd ei fod yn *engaged*, yr hyn a wnaed. Ond pan tdaeth Mr. Bulkely Hughes yn y oedd yno yn barod yn ei dderbyn, ac wedi ysgrwyd braich hyd at y bôn âg ef, y mae yn addaw iddo ei bleidlais, ac wrth ei rhoi yn dweyd y geiriau canlynol wrtho, "We want a good local member to look after our local interests, and you are the proper gentleman." Ac wedi cael yr addewid, rhoddai y fintai a safai ar yr heol *cheers* er datgan eu llawenydd. Cofus gennyf iddo unwaith gael gwahoddiad arbennig gan yr aelod anrhydeddus dros y Sir i wledd, yr hon a gynhelid mewn gwesty yn y dref, er dathlu ei ddychweliad i'r Senedd yn ddi-wrthwynebiad. Ac wele ef yn cychwyn yn bwysig i'r *banquet*, yn ei ddiwyg oreu, gan wisgo ysnoden o ruban glas ar ei frest, a chyda llaw, efe oedd wedi cael yr *orders*, ac wedi paratoi yr ysnodennau i'r holl wahoddedigion. Yr oedd y nos wedi cerdded ymhell pan ddychwelodd adref,—ni ddwedaf pa fodd; a phan ddaeth, canfyddid yn ddigon eglur ei fod braidd wedi bod yn rhy hael ar *champagne* yr aelod anrhydeddus, a chryn drafferth a gaed gydag ef. Y noson honno, am unwaith, y prentisiaid oedd y meistradoedd, a gwnaethant y goreu o'r cyfle, a diameu iddynt wneyd rhywbeth heblaw ei gario *upstairs*, a "thrwylawer *skill* y rhowd Wil yn ei wely."

Methodus o'r groth oedd fy mam, a byddai fy nhad yn arfer gwrando gyda'r Methodistiaid, er nad yn aelod, ac yr oeddwn innau a'm brodyr wedi ein dwyn i fyny yn y seiat. Byddwn i bob tro yn dweyd adnod yno, a honno yn un newydd spon, ac ar adegau byddwn yn adrodd pennod i'r pregethwr ar ddechreu yr odfa, a byddwn yn ddi-eithriad yn cael fy nghanmol, yr hyn fyddai yn boddhau fy *vanity* yn fawr, ac yn peri i mi fyned at hynny drachefn. Y cytundeb a'r meistr oedd, er yn anysgrifenedig, fod i mi ryddid i fyned i'r capel ar y Saboth, ac i'r seiat unwaith yn y pythefnos. Am ychydig fisoedd bum yn mwynhau y fraint, ond canfyddodd y *governor* fod fy absenoldeb o'r siop am awr yn min yr hwyr, er ond unwaith mewn dwy wythnos, dipyn yn anghyfleus iddo, a daeth i'r penderfyniad i'm rhwystro, yr hyn roddodd mewn gweithrediad, ac anfonodd at brif-fiaenor yr eglwys i'w hysbysu na byddai i mi fynychu y seiat mwyach, ond y byddai i mi o hynny allan fyned gydag ef i'r Eglwys, ac felly y byddwn yn fwy dan ei ofal. Derbyniodd y diacon yr hysbysiad yn y modd mwyaf grasusol, ac ni roddodd yr un atebiad i'r mynegiad, ac ni ddaeth o gwbl i ymofyn am enaid creadur bach, di-amddiffyn, oedd ar fin colli ei enedigaeth fraint. Yr oedd hyn ar y dechreu yn brofedigaeth lem i mi, er y daeth pethau o dipyn i beth yn arferiad ac yn gydnawa. Yr oedd fy mam yn teimlo yn ddwys, ond ni feiddiai gyfryngu, gan y gwyddai mai myfi, druan! a gawsai y gwaethaf o hynny. Felly am bedair blynedd, bum yn fynychydd ac yn addolwr cyson yn yr Eglwys Lân Gatholig, pan y

daethum yn hollol gyfarwydd â'i boll ddefodau a'i seremonïau, ac yn adnabyddus â llawer o wŷr eglwysig y cylch yn eu personau, ac yn eu gwahanol ddonïau, a'u hamrywiol rywogaethau lleisiau, ac nid oedd yr un o honynt yn anhynod.

Ar brydnawn y Saboth, byddwn yn dilyn yr Ysgol Sul, yr hon a gynhelid yn yr Ysgoldy Cenedlaethol, ond pan y byddwn yn dianc dros y dŵr am ychydig dro. Yr oedd fy athraw yn wŷr ieuanc athrawaidd a chyfrifol, a bu ei addysg o fudd i mi, ac yr oedd yn y dosbarth amryw fechgyn o deuluoedd parchus, a llawer o honynt yn fechgyn o'r wlad a ddigwyddent fod yn y dref yn yr ysgol, amryw o ba rai sydd wedi gadael y ddaear, a'r gweddill yn dal lleoedd pwysig mewn byd ac eglwys.

Fel rheol, byddai tri o fechgyn yn arfer gwasanaethu yn y siop, oll yn brentisiaid, neu ar dreial gan fwriadu bod felly. Gwelais ddwsinau yno ar fis y treial, ond yn difannu fel mwg cyn diwrnod y rhwymo; a gwelais hefyd ar fwy nag un adeg yr holl brentisiaid wedi dianc, gan fy ngadael fy hunan i gyflawni yr holl waith. Gallwn ddweyd mai myfi oedd yr unig *fixture*, yr unig un a ddaliodd y prawf, ac a welodd y diwedd. Ond bum innau lawer tro ar fin cymeryd y traed a dianc adref, fel y dihangai caethwas o gaethiwd; ond gwyddwn y byddai raid mynd yn ol i'r Aifft drachefn, ac y cawn ar fy nychwelid brofi min hanner dwsin o ffyn llath ar fy ngwar. Llawer ffonnod a dderbyniais ganddo erioed, ac y mae fy mhén a'm gwar yn dystion o hynny; ac wedi iddo ddechreu dyrnu, ni fyddai obaith iddo beidio nes i'r ffyst fynd yn ddarnau. Fe dorrodd lawer o'r ffyn hyn ar fy nghnawd, fel y byddai yn angenrheidiol cael bwndeli o honynt o Loegr yn *supply* at yr angen. Nid ydwyf yn dweyd na fyddwn, weithiau, yn haeddu ffonnod, ond nid cynifer, yr ydwyf yn ddigon sicr. Yr adeg honno yr oedd bywyd prentis o siopwr yn un caled a diraddiol, yn enwedigol felly yn fy hanes i, gan yr ystyrriid y siop yr oeddwn ynddi yr un fwyaf caeth ac annynol yn yr holl dref. Edrychid i lawr arnaf gan fechgyn uwchraddol y dref, a phan ar yr heol galwent ar fy ol, "Yr hen siopwr ansiapus," er mawr gythrudd i fy nhymer, a marweiddiad i fy malchder. Pan yn anfoddloni fy meistwr,—a byddai hynny yn fwy aml na dim arall,—nid yn unig cosbid fi trwy oruchwyliaeth y llathen, ond mewn modd arbenigol arall, sef trwy fy ngyrru trwy brif heolydd y dref gyda berfa olwyn, yn cynnwys sachaid trwm o siwgr, ac yno y byddwn yn chwys ac yn llafur yn olwyno y llwyth ymlaen, er syndod i bawb, cydymdeimlad rhai, a diystyrwch ereill; a'r fath fyddai fy nghywilydd, fel nad allwn edrych ar neb, na dweyd gair wrth neb, er cymaint o ofyniadau a roddid imi. Dywedai y meistwr mai diben y ddisgyblaeth lem hon oedd curbio fy ystyfnigrwydd, a darostwrg fy malchder. Beth bynnag am yr olaf, yr wyf yn sicr nad atebwyd y diben gyda'r cyntaf, canys mae y ddialedd heb orffen marw o'm mewn hyd heddyw.

Dyma oedd program cyffredin ein bywyd ni, ac yr oedd yn ddigynnewid o ddydd i ddydd. Elem i'r siop am wyth yn y bore, ac yn syth o'r gwely; ac wedi agor, cario y shutters i lawr y grisiau, ysugbo y siop, glanhau y ffenestri, a thynnu y llwch oddiar y counters, elem fesur un ac un at ein brewcwast, yr hyn fyddai llonaid powlen

bridd o goffi—gweddill a gwaddod y dydd blaenorol, talpiau fel bryniau o grystiau bara, ac nid yn *dechreu* myned yn frithlwyd, a'r ymenyn arnynt mor brin nes peidio bod yn weledig a'r llygad noeth, a byddai raid ei goncro cyn y galw, neu fe gollid y pryd, gan na byddai ail gynnyg i'w gael. Yn yr adeg deuai y cinio, ac er y ceid cig yn y crochan, eto ni fyddai bob amser o'r natur fwyaf peraidd, a llawer gwaith y bu yr alwad o'r siop y peth goreu yn y *bill of fare*. A cheid y swper yn ail gopi o'r boreufwyd. Diameu gennyf na fethwn pe dwedwn, er na bum erioed wrth iwrdd y naill na'r llall, fod llawer gwell ffâr yn y *Workhouse* ac yng Ngharchar y dref nag yn y sefydliad hwn. Byddid yn y siop—hen dwll clos a thywyll—o wyth y bore hyd ddeg o'r gloch y nos, a thros ben hynny ar nosweithiau feiriau a Sadyrnau, ie, hyd oriau mân y bore, heb fawr o fwyd trwy y dydd, ac yn teimlo yn rhy flin i allu gorffwys. Ac yn ystod yr oriau meithion hyn ni chaniateid i gael eistedd am foment, ac yr oedd diryw drom am bwyso ar y counter, yr hyn yn ol iaith y sefydliad a elwid yn *glerbio*. Nid oedd rhyddid i'r prentisiaid i gael mynd allan am dro na bore na hwyr, o'r naill ben i'r wythnos i'r llall; a'r unig awyr ffres a gaent oedd tipyn wrth fyned allan yn achlysurol ar neges, ac wrth fyned a dyfod o'r eglwys ar y Sul. Nid yn unig elid yn syth o'r gwely i'r siop, ond yn gyffelyb o'r siop i'r gwely, a phob un i fyned dan ei ddwyllaw, heb na lamp na chanwyll. Ni chefais lewyrch hyd yn oed canwyll frwynen yn fy ystafell-wely erioed, ac felly ni welsw'n byth y gwely byddwn yn neidio iddo, a llawer o ymbalfalu fu am y gynfas, ac am y ffordd i fyned iddi, ac allan o honi pan y byddai angen. Yr oedd gan fy hen feistr barch ymddangosiadol mawr i goffadwriaeth ei wraig, yr hon, fel y clywais, oedd fenyw hawddgar a phrydweddol, a danghosai hynny mewn ymweliadau mynych â'i beddrod, gan ei addurno â blodeu a rhôsinau, a mynych yr anfonid fi yno ar y Saboth er gweled a oedd popeth yn weddaidd a threfnus. Ar ol cinio y Saboth gwnai i un o honom—a myfi a gai y fraint amlaf—ddarllen iddo yn Gymraeg y 14 bennod o lyfr Job, pan y dysgai ni i bwysleisio, ac yr esboniai yr adnodau wrth fyned ymlaen. Yr oedd y bennod honno yn gysegredig ganddo, am mai hi ddarllenwyd gan y gweinidog yn y tŷ ar ddydd claddedigaeth ei briod.

Yn ystod y blynyddoedd hyn cymerwyd yr ysgrifennydd yn sâl, a bu yn sâl iawn. Lle caled oedd y lle hwn i fachgen iach, ond beth feddyliai y darlennydd am y fath fangre i fachgen sâl, ac yn sâl o'r frech wen? Pan darawyd fi gan yr afiechyd nid oedd neb yn y siop ond myfi, yr holl fechgyn wedi dianc, ac felly yr holl waith yn diagyn arnaf, megis agor y siop a'i chau, myned a'r shutters i lawr y grisiau, a'u cario i fyny y nos, ysgubo y lloriau a glanhau y ffenestri, heb son am wasanaethu ar y cwsmeriaid, neb i wneyd dim ond y fi, a minnau yn sâl, ac yn ddigon sâl i orwedd ar y llawr, yr hyn a wnawn pan gawn gyffe. Ac felly bum am rai dyddiau yn gwneyd yr holl waith, er yn rhy lesg i allu symud, fel y bu raid fy symud i'r gwely, pan y galwyd am y meddyg, yr hwn a'm cyhoeddodd fel un wedi cael ymosodiad trwm o'r frech wen. Ac yn y gwely y bum am rai dyddiau, a neb yn ymweled â mi ond y meddyg a'r forwyn, a hynny yn hynod anaml. Wedi i'r clefyd droi, er heb fy llwyr adael, ac olion o honno yn aros ar

fy nghnawd, dywedwyd wrthyf fod yn rhaid i mi fynd adref. Codais, a phaciwyd fi yn y "goach fawr," yn nhrymder y gauaf, i daith o ugain milltir o bellter, a phedair o honynt i gerdded, i gymeryd fy siawns i fyw neu farw. Ac adref y bum am ychydig amser, rhy ychydig i gryfhau, pan y galwyd arnaf i ddychwelyd i ail ddechre drachefn yn nhŷ y caethiwed. Rhyfedd fy mod yn fyw!

Ni fyddai y perchennog yn arfer mynd allan ond ychydig, oddigerth ym min yr hwyr, ac i'r Eglwys ar y Saboth. Yr oedd o dueddiadau neillduedig a mynachaid, a byddai yn syndod ei weled ar yr heol ganol dydd gwaith; ac ni chymerai ran ym materion cyhoeddus y dref, oddigerth eu beirniadu. Yr oedd yn hollol ffin ganddo fyned i blith pobl. Cof gennyf iddo unwaith roddi gwraig yn y Llys Sirol am ddyled, ac er mwyn osgoi y pennyd o ymddangos yn y llys anfonodd fi yn ei le. Pan ddaeth yr achos ymlaen ac y galwyd fi i'r box. gofynodd y barnwr i mi, Ai fi a werthodd y nwyddau i'r wraig? Pan atebais, Nage—yr hyn oedd wir—gorchmynnwyd fi yn ffyrnig i fynd i lawr ac ymofyn fy meist'r ar frys, neu y byddai i'r achos gael ei dafu allan. A bu raid iddo fynd i'r llys, er maint ei gâs o'r peth, ond bu raid i mi dalu y costau.

Prif drosedd y sefydliad oedd gadael i gwsmer fynd allan o'r siop heb ei *servio*, yr hyn a olyga methu gwerthu iddo, ac a elwid, yn ol tafodiaeth y fasnach, yn *swap*. Rhaid oedd gwerthu rywffodd, rywsut, er arfer dichell. a byddai y methiant yn sic'r o dynnu ar ben yr hwn fethai holl gynddaredd dieffig y meist'r. Llawer math o driciau a arferid at gwsmeriaid celyd a childynus—ac yr oedd rhai felly y dyddiau hynny yn dra llïosog—er eu cael, fel y dywedid, i'r *scratches*. Dyma un engraifft—hwyrach mai brethyn y byddai y cwsmer yn ymofyn am dano, a gosodid ger ei fron amrywiol bisiau a phrisiau, er cael dewis o honynt. Yna y mae yn syrthio ar un, ac yn cynnyg am dano lawer llai na'r pris gofynedig, ac hwyrach lai na'r *cost price*, a dywedai, os na chai ef am hynny yr elai i siop arall lle y cai un cyffelyb am y pris cynnygiedig. Ac ofer oedd dadleu a chanmol, gan na roddai yr un ddimai yn ychwaneg. Byddai y meist'r ar adegau felly gyda'r cwsmer yr ochr allan i'r *counter*, ac wedi i bopeth arall fethu, byddai yn garedig yn ei wahodd i edrych ar ryw nwydd arbenig yr ochr arall i'r siop, nes cael ei gefn at y brethynau. A thra yn gwrando am ragoriaethau a rhadlonrwydd y nwydd a ddanghosid iddo, byddai y prentis, drwy gyfarwyddyd, yn chwarae ei ran, ac yn lladradaid a phert yn newid lleoedd y pisiau trwy roddi un cyfartal i'r pris cynnygiedig, yn lle yr un y cynhygid arno. Ac wedi cwblhau y chwareu, arweinid y cwsmer yn ol at y brethyn a gadewid iddo ei gael am ei gynnyg, pan fyddai y perchennog a'r cwsmer yn ymddangos yn falch o'r fargen. Un tro yr oedd y prentis, fel arfer, yn dangos rubanau i wraig, gwraig o'r wlad, ac o ymddangosiad cyrifol, pan y canfyddodd hi yn celcio dau bisyn, gan eu rhoddi yn ddirgelaid yn ei basged. Aeth ar unwaith i fynegi hynny i'w feistr, pan y gofynodd iddo, A oedd efe yn sic'r; yr hyn â gadarnhâi. Yna aeth y perchennog a hi i ystafell gyfagos pan ddywedodd wrthi fod y prentis yn ei chyhuddo o ladrata dau bisyn o ruban, a'u bod yn ei basged, ac mai y peth goreu iddi oedd eu rhoi i fyny yn ddistaw, ac na chai neb wybod.

Ond gwadai y wraig yn benderfynol gan fygwth ei gosbi am dorri ei charitor. Daeth y meist'r at y prentis i ofyn a oedd efe yn siwr, pan y cadarnhaodd drachefn, a'r canlyniad fu galw ar y swyddog i mewn, yr hwn, wedi chwilio y faged a gafodd y rubanau, a chymerwyd hi i'r ddalfa, a bu yn y carchar am dri mis.

Cof gennyf am hen Gymro gwledig, yr hwn oedd yn un caled yn ei fargen, ac yn anhawdd ei ddal, yn treio prynnu brethyn at siwt o ddrillad, ac yn hytrach na'i golli, gadawodd y meist'r iddo ei gael yn ei bris, pan y dywedodd yn ddistaw wrth y prentis, "*Trim him in the trimmings, John*;" ond dywedodd y prynwr mewn modd sychlyd ac arwyddocaol, Nid oes arnaf eisieu *trimmings*, diolch i chwi. Nid wrth ei big bob amser y mae prynnu cyffyllog. Yr oedd yr hen Gymro yn meddu mwy o glust, ac o Saesneg nag y tybid. Yr ydwyf yn tynnu y llen dros y gweddill o'r hanes.

Dyna oedd cyflwr prentis o siopwr oddentu deugain mlynedd yn ol, yr hyn oedd yn *slavery* o'r fath waethaf. Onid oedd caethion duon Africa yn llawer gwell eu byd na chaethion gwynion siopau Cymru y pryd hwnnw? Ond y mae pethau er hynny wedi gwella yn ddirfawr, ac yn y masnachdai cyfrifol ymddygir at y prentis fel bod dynol ac nid fel anifail; a cheir ynddynt ymborth iachus, cau cynnar, *half-holidays*, *libraries*, a phob mantais er cysur a gwareiddiad. Diolch yn fawr i Syr John Lubbock, ac ereill, am eu gofal am y prentis o siopwr.

TRAETHODAU LLENYDDOL DR. EDWARDS.

ANERCHIAD I GYMDEITHAS CYMRU FYDD, BIRMINGHAM.

GAN Y PARCH. JOHN PRITCHARD.

NID wyf yn cofio i sierwydd yr ymddiddan a fu rhyngof â'r ysgrifenydd yma. Ond yr wyf yn meddwl mai yr hyn a addewais iddo, oedd gwneyd ychydig sylwadau ar Dr. Edwards. Ac yr oedd hynny yn llai ymhongar na'r testyn fel y mae. Buasai yn hawdd i hen ddisgybl ddweyd ychydig am Dr. Edwards heb honni dim. Ond y mae y testyn a roddwyd i mi yn fy ngosod i eistedd mewn barn ar ei waith. Fedra'i ddim gwneyd hynny heb ymesgusodi; ac nis gallaf ymesgusodi yn well nag yn ei eiriau ef ei hun. Wrth annerch y "*Seiat Fawr*" yn un o Gymanfaeodd Liverpool, dywedai Fod y Beibl fel Duw heb ddim pen draw iddo. "Mi fydda i yn meddwl fy mod yn gwled pen draw

Aristotl a Plato," meddai. A chan deimlo fod swm dipyn yn ymffrostgar yn ei eiriau, ychwanegodd, "fe all corrach weld pen cawr; fe all corgi wrth droed y mynydd weld ei gopa."

Buasai yn well gennyf heb y gair "Llenyddol" yn y testyn. Nid wyf yn gallu dygymod â'r gwahaniaeth a wneir yn y geiriau "Traethodau Duwinyddol" a "Thraethodau Llenyddol." Mi a wn am y sylwadau a wna y Doctor ei hun ar hyn; ac nid oes amheuaeth am y gwahaniaeth y bwriedir ei ddangos. Ond nid yw Duwinyddol a Llenyddol yn ei ddangos, oblegid y mae llyfrau Duwinyddol, os byddant yn deilwng, yn rhan bwysig o lenyddiaeth cenedl. Ac arwynebol, tlawd, a gwael, y rhaid fod lenyddiaeth cenedl heb Dduwinyddiaeth. Gobeithio pa fodd bynnag, nad yw y testyn yn awgrymu fod "Cymru Fydd" am gau Duwinyddiaeth allan. Pe credwn i hynny, ni chyfrifwn mo honoch yn deilwng o'ch galw yn Gymry o gwbl.

Y peth goreu fedra i wneyd mewn byr amser yw dweyd gair am *Y gwasanaeth a wnaeth Dr. Edwards i'w genedl trwy ei ysgrifeniadau*. Yr wyf yn disgwyl y gofelwch chwi am dynnu y doll angenrheidiol oddi wrth fy sylwadau os digwydd i farn cariad, a chariad go gryf, fod yn ddall. Ond mi a wn na theimlwch chwi ddim tuedd i doli wrth i mi ddweyd, fod cyfnod newydd wedi dechreu yn Llenyddiaeth Cymru gyda Dr. Edwards. Chwi a sylwch nad wyf yn ei wneyd ef yn grawdwr y cyfnod, ac nad wyf yn bychanu dim ar waith neb a fu o'i flaen, neu gydag ef, neu ar ei ol. Yn unig yr wyf yn dweyd fod cyfnod newydd wedi dechreu yn ei ddyddiau ef, a'i fod ef yn ddigon amlwg yn y dechreu hwnnw i gyfreithloni dweyd fod y cyfnod wedi dyfod gydag ef. Y mae enw Dr. Edwards a'r TRAETHODYDD yn dyfod i feddwl pawb o honom gyda'n gilydd. Cychwynodd y TRAETHODYDD yn 1845. O'r pryd hwnnw y mae y wasg Gymreig wedi ffrwythloni tu hwnt i ddim cymhariaeth â'i hanes blaenorol. Pe gellid casglu yr holl lyfrau Cymraeg a argraffwyd yn yr hanner canrif ddiweddar ar y ddé, a chasglu y cwbl a argraffwyd yn yr holl ganrifoedd blaenorol ar yr aswy, yr wyf yn tueddu i feddwl y byddai eisieu llawer mwy o estyll ar y ddé nag ar yr aswy. Ac y mae ffrwythlonder yr hanner canrif diweddar wedi dechreu gyda'r TRAETHODYDD. Ac nid mewn ffrwythlonder yn unig y mae rhagoriaeth y cyfnod hwn; y mae llawn cymaint, neu fwy, yn ansawdd y ffrwyth. I ddweyd yn fyr, yr oedd y gorchuddlenni ar ffenestri Llenyddiaeth Cymru trwy yr oesoedd; nid oedd ei llenorion mewn cymunedeb â'r byd mawr oddiallan ond i radd fechan iawn. Yn y TRAETHODYDD fe ddirwynwyd y gorchuddlenni i fyny o un i un; ac o hynny allan y mae goleuni a rhyddid ac ehangder newydd wedi dyfod i Lenyddiaeth ein gwlad. Cyn hynny, go brin y gellid dweyd fod gennyf lenyddiaeth i ymfrostio ynddi; erbyn hyn yr ydym yn sicr wedi dyfod yn nes at hynny.

Mae arnaf ofn eich tynnu yn fy mhen trwy wneyd dim tebyg i ddi-brisio hen Lenyddiaeth Cymru. Nid wyf yn lynafiaethydd; ac i'r lynafiaethydd yn unig y mae y doraeth fawr o hen Lenyddiaeth Cymru yn ddyddorol a gwerthfawr. Ond y mae Dr. Edwards wedi peri i mi wybod fod yng nghanol y doraeth honno drysorau amhrisiadwy, a'r rhai hynny yn olud parhaus, mewn barddoniaeth a rhyddiaeth. Un gwasanaeth mawr a wnaeth efe oedd codi y rhai huny o'r

pentwr. Mae yn amheus gennyf a fwasai neb yn awr yn gweled *Llyfr y Tri Aderyn* gan Morgan Llwyd o Wynedd yn werth ei argraffu o newydd, oni buasai i Dr. Edwards weled ei werth a'i godi i sylw. Ni fyddai llafur hynafiaethwyr y dyddiau hyn yn ofer pe gwnaent ddarganfyddiadau cyffelyb.

Yn y TRAETHODYDD, y mae yn hysbys, y cyhoeddwyd y nifer fwyaf o Draethodau Dr. Edwards gyntaf. Ac yn y prif gyfnodolion y mae llawer o weithiau prif awduron yr oesoedd diweddfaf ymhob gwlad wedi gwneyd eu hymddanghosiad cyntaf. Os bydd ambell un o honoch ag y mae ei amser yn brinnach na'i awyddfyd, yn chwennych y ffordd fferaf i gydnabyddiaeth & meddwl y byd, chwiliwch am y cyfnodolion goreu. Ond gan fod i'r TRAETHODYDD, fel yr holl gyfnodolion, amcanion amserol yn gystal a llenyddol, y mae gwerth mwyaf rhai o Draethodau Dr. Edwards yn y gwaith a wnaed trwyddynt ar y pryd. Nid afresymol fyddai eu rhannu yn Draethodau Amserol a Thraethodau Tragwyddol.

Y mae dau beth i'w ddweyd am y rhai amserol. Un ydyw *gwasanaeth Dr. Edwards trwyddynt i Wleidyddiaeth Cymru*. Mi allaf gymeryd yn ddealedig y gwyddoch chwi rywbeth am gyflwr Cymru yn yr ystyr yma hanner can mlynedd yn ol. Yn wleidyddol, yr oedd y Cymry y pryd hwnnw yn genedl o gaethion. Y mae y cerflunydd yn gweled delw brydferth loew yn y talp anolygus o farmor sydd ar lawr o'i flaen, ac yn ymroi i weithio ati. Fe welodd Dr. Edwards ddelw landeg lusiaidd Cymru Fydd, yn y *raw material* oedd o'i gwmpas ar lawr; ac yn ei ygrifeniadau fe weithiodd yn orchestol tuag ati. Nid wyf yn dweyd mai efe yn unig a'i gwelodd, nac mai efe a'i gwelodd gyntaf. Y mae un o leiaf i'w osod wrth ei ochr,—“yr Hen Ffarmwr” yn ei lythyrau doniol i'r *Amserau*. A chyda hwy eu dau yr oedd byddin o ddewrion. Nid anghofiwn ni mo Hugh Pugh, Mostyn; na John Lloyd, ddistaw ddiwyd, cyhoeddwr cyntaf yr *Amserau*; na Dr. Pritchard, Llangollen; na Roger Edwards, na Thomas Gee, na Michael Jones, na'r “Meddyliwr,” na Ieuan Gwylt, &c., &c. Ond William Rees, a Lewis Edwards oedd y ddau gadfridog, a hynny cyn i'r un o honynt ddyfod yn Ddoctor. Ac ni charwn i ddim clywed neb yn dweyd *gwasanaeth* pa un o'r ddau oedd fwyaf yn y cysylltiad hwn: y cyntaf yn deffro a goleuo y bobl gyffredin, a'r llall yn cario argyhoeddiad effeithiol i ysbrydoedd y rhai mwyaf moddylgar a dylanwadol. Ni buasai cwestiwn Dadgysylltiad lle y mae heddyw oni bai am Dr. Edwards a'r TRAETHODYDD. Fe ymladdodd efe ar hyn fel cawr. Yr oedd ei ysgrifau ar hyn fel ergydion cyflograu,—nid yn eu trwst ond yn eu heffeithiau. Prin y buasech chwi a'i gwelodd yn ei flynyddoedd olaf, yn meddwl y gallasai ymladd; yn wir ni bu golwg ymladdwr arno erioed. Ond darllenwch y driniaeth a roes efe i bersoniaid erlidgar Cymru yn ei adolygiad o ymweliad y Dirprwywyr & Chymru, a chewch ei weled a'i wrychyn i fyny.

Er fod y peth arall yn gynwysedig yn y cyntaf, priodol rhoddi arbenigrwydd iddo, *Ei wasanaeth trwyddynt i achos addysg yn Nghymru*. Yr oedd efe, os yw fy nghof yn gywir, yn un o'r rhai cyntaf os nad y cyntaf oll, o Ymneillduwyr Cymru i gael ei raddio yn un o Brifysgolion y deyrnas. Fe gafodd trwy hynny brofiad o werth addysg drwyaddl.

Fe'i codwyd hefyd trwy hynny i safle yng ngolwg ei gydwladwyr oedd yn rhoddi awdurdod yn ei eiriau, ac yn y TRAETHODYDD fe wnaeth iddo ei hun gyfrwng effeithiol i gyfrannu ei feddyliau a'i ysbryd iddynt. Fe wnaeth ysgrifeniadau Dr. Edwards fwy nag a wnaeth dim arall at godi addysg Cymru i'r hyn ydyw yn awr. Nid wyf yn anghofio ei fab ardderchog, a'i waith mawr ef yn Aberystwyth. Ond nid oes neb yn fwy parod na Dr. Charles Edwards i gydnabod ei fod yn ddyledus i'w dad am dano ei hun mewn mwy nag un ystyr. Mi wn y bydd efe yn gwbl foddlon—ac os bydd efe yn foddlon pwy a all gwyno—i mi alw ei dad naturiol ef yn dad y *diwygiad* mawr sydd wedi ac yn cymeryd lle yn addysgiaeth cenedl y Cymry.

Mi arferais y gair mawr "tragwyddol" am ereill o'r Traethodau. Yr oeddwn yn gwneyd hynny am fy mod yn credu na thyn amser ddim oddiw'rth eu gwerth, a'u bod ar linellau sydd yn rhedeg ymlaen i dragwyddoldeb.

Ac y mae dau beth i'w ddweyd ar y rhai hyn eto. *Y cyntaf yw, y deffrôad a'r cyfeiriad newydd a roes Dr. Edwards trwyddynt i feddwl Cymru.* Do fe ddeffrôdd feddwl y Cymry, ac fe agorodd iddynt holl ddorau llenyddiaeth oreu y byd. Yn arbennig, efe a arweiniodd feddwl y Cymry at athroniaeth; "ac wrth athroniaeth yr ydym yn meddwl athroniaeth feddylol a moesol, sef athroniaeth yng ngwir ystyr y gair." Fe gafwyd ysgrif ar "Athroniaeth y Meddwl" gan Henry Richard yn NHRAETHODYDD 1848. Cyn hynny nid wyf wedi gallu dyfod o hyd i un tudalen yn benodol ar y pwnc yn holl lenyddiaeth Cymru. Ac nid oedd H. Richard y pryd hwnnw yn w'r digon amlwg i sicrhau y sylw a haeddai. A oes yma rywun digon hen i gofio ymddanghosiad Traethodau Dr. Edwards ar Kant yn 1853? Anhawdd i chwi ddechmygu y cyffro a gymerodd le. Er fod y Cyfleithiad Diwygiedig yn myned â'r stori am yr angel yn disgyn i'r llyn ac yn cynhyrfu y dwf'r oddiarnom, y mae hi yn bictiwr o stad gyffrous meddwl pob dyn oedd yn meddwl ac yn darllen yng Nghymru ar y pryd. Chwi glywsoch pa beth a ddywedodd Henry Rees ar ol darllen y Traethodau hynny—

Gwawria, gwawria, hyfryd fore,
Ar ddiiderfyn fagddu fawr.

Ac yr oedd Mr. Rees yn dweyd teimlad Cymru bron yn gyfan ar y pryd. Erbyn hyn, y mae cynnwys y Traethodau hynny yn sylfaen syniadau holl feddylwyr cryfaf Cymru bron. Yn ei ysgrifau athronyddol y byddaf fi yn gweled nerth meddwl Dr. Edwards amlycaf. Y mae cyfoeth ei feddwl yn fwy amlwg yn rhai o'i ysgrifau ereill; yn enwedig y Khagdraeth i Gorff Duwinyddiaeth Dr. Lewis—traethawd y dywedodd golygydd presennol y TRAETHODYDD yn gywir am dano, fod ei osod lle y gwnaed fel pe dygasid adfeilion Karnac i fod yn *porch* i dŷ tō gwellt. Ond yn ei athroniaeth y datguddiai ei gryfder. Pe gofynnai rhywun i mi pa rai yw y mwyaf galluog o'i Draethodau, a phe byddai raid i mi ateb, mi ddywedwn, y ddau ar y ddaol rhwng Hamilton a Mill. Yn y rhai hynny y gwelir yr athrylith rymus sydd yn alluog i newid gwedd pethau mewn llinell neu ddwy. Y mae efe yn dynoethi man gwan y ddau gawr gyda'r rhwyddineb mwyaf. Darllenwch y ddau Draethawd hynny, chwi fyddwch dan dentasiwn i ddweyd,

Bravo'r Cymro. Ni ysgrifennwyd yn Lloegr yn sicr ddim mwy clir a meistrolgar a therfynol ar y ddadl honno. Fe godwyd i Gymru Glawdd Offa athronyddol yn ysgrifeniadau Dr. Edwards a'i ddiagybllion; ac fe'i cadwyd trwy hynny yn weddol bur oddiwrth ddysgeidiaeth synwyr-iaethol J. S. Mill. A dyna rywbeth na leihâ amser ddim ar ei werth.

Y peth arall ar hyn ydyw y *sefydlogrwydd a roddes Dr. Edwards trwy ei ysgrifeniadau i ffydd grefyddol Cymru.* Nid trwy ei Draethodau Duwinyddol yn unig, nag yn bennaf hwyrach, y gwnaeth hyn. Y mae ei holl ysgrifeniadau yn llawn o ffydd Gristionogol dawel a disigl. Pan y cofiwn ei fod yn ysgrifennu y cwbl o fewn yr hanner canrif hon, ni a ddeallwn ei fod yn ysgrifennu yng nghanol y cyfnod mwyaf anturiaethus a chwyldrôadol mewn meddylgarwch ar y pethau mwyaf ers llawer o ganrifoedd. Ond i bob golwg yr oedd efe yn byw yn rhywle uwchlaw y dymestl fawr, yn berffaith ddigyffro. "Na ofelwch am ddim; . . . a thangnefedd Duw yr hwn sydd uwchlaw pob deall a geidw eich calonnau a'ch meddyliau yng Nghrist Iesu." Nid uwchlaw y dymestl chwaith, fel ag i fod yn anwybodus am dani; nid oedd neb yn ei deall yn well. Ond nid oedd yn cyrraedd ei ysbryd ef. Nid oedd dim bhwman ynddo ef. Ac yr oedd ei gydwladwyr yn gweled hynny. A'r fath oedd eu ffydd ynddo fel yr oeddynt hwythau yn ennill sefydlogrwydd trwy yr olwg arno. Pan oeddwn yn eich oedran chwi, os byddai fy nghydwybod wedi myned yn gysglyd, a minnau wedi myned yn ddi-afael yn fy ngweddïau, fe fyddai cymdeithas Henry Rees yn o siwr o'm deffro. Ond os byddai rhyw gwestiynau celyd yn blino fy ysbryd, a chymylau o amheuan yn bygwth gorchuddio y ffurfafen, cymdeithas Dr. Edwards a ddeuai a glân a thangnefedd. Ac y mae yr un fendith yn aros i chwithau yn ei ysgrifeniadau.

Ond argyhoeddiad pawb a'i hadwaenai oedd fod Dr. Edwards yn fwy o lawer na'r cwbl a ysgrifennodd. Fe ddarllenir Esboniad Dr. Charles Edwards ar y Corinthiaid, ac mi a obeithiwn, un *tebyg* ar yr Hebraeid, am byth. Gresyn na buasai y tâd, fel y disgwylid, wedi ysgrifennu Esboniad teilwng o honno ei hun ar Efengyl Ioan a'r Rhufeiniaid; buasai hynny yn rhoi modd i ni siarad mor ddibetrus am y tad ag am y mab. Yr ydwyf yn hwyrfydig i gredu yr aiff cenedl y Cymry byth mor gyffredinol ddwl, fel na bydd llawer o'i meddylwyr goreu yn darllen Traethodau Dr. Edwards. Ond yr ydwyf yn sicr nad oes dim wedi dyfod o'r wasg Gymreig a dâl yn well i Gymry yr oes hon am eu darllen gyda dyfalwch.

RHESYMOLDEB ADDOLIAD.

I.

NATURIOI fuasai dechreu yr erthygl hon gydag ymchwiliad i ac eglurhad ar *natur* addoliad. Ond gan fod cryn lawer wedi cael ei ysgrifennu yn barod—gwel ysgrif arno yn y **TRAETHODYDD** am Ebrill, 1886—ar y mater; fod pobl grefyddol a goleuedig yn meddu gwybodaeth brofiadol ac athrawiaethol fwy neu lai helaeth am dano; ac y tefir yn anuniongyrchol ryw gymaint o oleuni arno yn y drafodaeth hon, ystyriaf fod hynny yn afreidiol. Gweddus, pa fodd bynnag, ydyw crybwyll fod addoliad, yn ei ystyr fwyaf mewnol a chuddiedig, yn cymeryd amrywiol agweddau; a gwna hynny, mewn rhan, oblegid fod bywyd ysbrydol y saint yn cymeryd, yn ol yr amgylchiadau y cânt eu hunain ynddynt, wahanol agweddau. Arweinir hwy, yn eu hamryfal helyntion, i gyfaddef eu pechodau eu hunain, ac i gydnabod bendithion Duw. Edifarhânt a gorfoleddant. Y maent yn credu ac yn crynu, yn ofni ac yn gobeithio. Diolchiant am hen drugareddau, ac erfyniant am drugareddau newyddion. Ffieiddiant eu hunain, a gogoneddant yr Arglwydd. A chynhwysir y gweithrediadau hyn i gyd mewn addoliad. Gwnant y cyfan, i raddau bychain iawn, feallai, bob dydd; ond gwnant rai o honynt i raddau helaethach ar rai adegau, a rhai ereill i raddau helaethach ar adegau ereill. Gweddiant fwy heddyw; moliannant fwy yfory. Ymlwybrant weithiau, mewn ofn pryderus, trwy gymoedd dyfnion, culion, llawnion o dywyllwch di sêr. Rhodiant brydiau ereill mewn ehangder heulog, trwy brydferthion a pherarogiau, yn ngolwg gwlad well a byd di nôs. Ac os yw profiadau saint y byd hwn yn amrywio cymaint a hyn, hawdd ydyw credu yr hyn a ddysgir i ni,—fod gwahaniaeth mawr rhyngddynt hwy a saint y byd tragwyddol. Caniateir mai ychydig mewn cymhariaeth o fawl sydd yn yr Eglwys filwriaethus; nid oes dim arall yn yr Eglwys orfoleddus. Y mae mwy o erfyn nag o ddiolch, a mwy o edifarhau nag o glodfori, yng ngwasanaeth y flaenaf. Y mae yr olaf wedi esgyn i sefyllfa mor ogoneddus, fel nad oes ynddi le i weddio,—i ddymuno am ddim o gwbl; ac nid ydyw mwyach yn feddiannol ar allu i edifarhau. Wrth golli ei phechod, collodd ei ffydd; a gweled, yn hytrach na chredu, y mae erbyn hyn. Troes ei gobaith yn fwynhad yn yr olwg ar Bren y Bywyd. Gwesgir y duwiolion yma i ymdeimlo yn barhaus â diffygion a phechodau: adgofion yn unig am y cyfryw bethau a feddant yn y Nef. A gwyddom y gall adgofion am lawer o hen gyfyngderau gynhyrchu rhyw fath o hyfrydwch yn y fuchedd bresennol; a naturiol ydyw casglu fod adgofion y cyfiawnion am helbulon daearol yn chwyddo iddynt wynfydedigrwydd paradwys Duw. Oblegid hynny, gan fod yr Eglwys weledig yn feunyddiol yng nghanol temtasiynau a pheryglon, ymbil yn bennaf o lawer y mae hi; gan fod yr Eglwys anweledig mewn dedwyddwch perffaith, y mae hi yn moliannu yn ddibaid.

Dylid, yr un pryd, ystyried, er mor liosog ydyw rhwystrau y ddaear, ac er mor fawrion ydyw manteision y Nef, y gallai addoliad y gyntaf fod yn debycach i addoliad y ddiweddaf nag ydyw. A byddai felly o angenrheidrwydd pe byddai cymeriadau y credinwyr yn debycach nag ydynt i gymeriadau y gwaredigion. Pe byddai ein fydd yn gryfach, byddai ein hofnau yn wannach. Pe derbynem ni fwy o ras, profem fwy o dangnefedd. Pe byddem yn llawnach o gariad a sancteiddrwydd, byddem yn llawnach o ddiolchgarwch a mawl. Prinder, ac nid helaethrwydd, o grefydd, sydd yn ein gwasgu i ofni yn hytrach na gobeithio, ac yn ein cadw yn barhaus mewn sefyllfa o ddymuniad yn hytrach nag o fwynhâd. Pechadurusrwydd sydd yn gwneyd y byd yn anialwch i ni, ac yn toi ein ffurfafen â chymylau. A dengys holl rediad y Beibl fod yr Arglwydd yn disgwyl i ddynion, yn ychanegol at weddio arno, ei glodfori yr y fuchedd hon. Ac ni fu pobl erioed mewn amgylchiadau mwy manteisiol ac o dan fwy o rwyman i wneuthur hynny nag ydym ni mewn gwlad ac oes fel hon. Yna, gan ei fod Ef yn galw am addoliad a gwasanaeth oddiwrthym, rhaid fod eu cyflwyno iddo yn ddyledswydd arnom; oblegid nis gall Ef ofyn am yr hyn nad yw yn meddu hawl iddo, nac am ddim y byddai yn ddiraddiad arnom ninnau ei roddi. Rhaid hefyd fod ei foliannu trwy y cynheddfau a roddodd i ni, a thrwy y cynorthwyon all gyfrannu i ni, yn ddichonadwy i ni. Ymdrechu egluro hyn fydd fy amcan yn y sylwadau canlynol.

Y mae geiriau fel addoli a moliannu yn tybied dwy blaid—Creawdwr a chreaduriaid, neu Waredwr a gwaredigion, ac yn tybied ynddynt hefyd fesur o adnabyddiaeth o, a chariad at eu gilydd. A ydyw dynolryw yn lled gyffredinol yn adnabod Duw ac yn caru ei Fab? Gwyddom fod perthynas rhyngddynt; ond nid ydyw honno yn sicrhau, ymhob amgylchiad, fod cymundeb rhyngddynt. Prin y gall meddwl anianol weled y rhesymoldeb o addoli yr Arglwydd; ac ychydig iawn o duedd sydd mewn calon lygredig at waith mor ysbrydol. Cawn ein bod ymhob oes yn cyd-genhedlu amheuan ac yn cyd-ofyn—weithiau yn fwy ac weithiau yn llai croch—gwestiynau anhydyn, yngwyneb pob cymhelliaid i wneuthur hynny. Gwnelent hynny gynt: Exod. v. 2, Job xxi. 15, Mal. iii. 14, &c. A gwnant hynny yn awr. Oddiar ba seiliau y gelwir ar ddynion i addoli y Jehofah? Paham y dylem ymgyflwyno yn yr hyn oll ag ydym, a allwn, ac a feddwn iddo? Pa fanteision y mae ei greaduriaid yn sicrhau iddynt eu hunain wrth wasanaethu eu Creawdwr? &c. Bu llawer o honynt yn ddigon rhyfygus i wadu ei hanfodiad yn hollol; a choledda miloedd yn bresennol y fath amheuaeth gyda golwg arno ag sydd yn gyfystyr â gwadiad o honno fel Bod byw a phersonnol, cyfiawn a thrugarog. Dichon mai addas fyddai mynegi yn y cysylltiad hwn nad ydyw y Beibl yn amcanu yn ffurfiol at brofi ei fodolaeth. Ei gyhoeddi, yn hytrach nag ymresymu yn ei gylch, fel y gwirionedd mwyaf ac, ar rai cyfrifon amlycaf, y mae, o Genesis hyd y Datguddiad. Pa beth arall fuasai yn ddoeth ac yn ddichonadwy? Y mae Natur a Rhagluniaeth yn ei ddatguddio yn foddhaol i bob meddwl agored i argyhoeddiad. Ac nis gallai unrhyw nifer ychwanegol o resymau Ysgrythyrol foddloni dynion eithriadol,—rhai ag y mae yn eu cyfansoddiad meddyliol a moesol ormod o rywbeth,

neu rŷ fach o rywbeth ; neu rai ynfyd, hunanol, ystyfnig ; neu rai sydd, oddiar awydd am hynodrwydd neu hoffder o bechod, wedi penderfynu ei wadu. Cyfarfyddwn â rhai felly, ond eithriadau ydynt, ac nis gallwn wrthynt. Gyda golwg ar ddyinion syml, meddiannol ar synhwyrâu ysbrydol, clywant hwy leferydd eu Creawdwr yn eu natur eu hunain, yn gystal ag yn y Beibl ; ac addolant wrth ei glywed. Gwelant Ef yn ymddisgleirio trwy wrthrychau y grëadigaeth ac yn marchog ar donnau rhagluniaeth, a moliannant wrth ei weled.

Ymddatguddiodd yn gynnar trwy yr enw JEHOFAH, yr hwn a gyfieithir (Ex. iii. 14) yn "Ydwyf yr hwn ydwyf." Golyga yr enw, gan nad beth arall a olyga, Un yn bod, yn bod mewn gwirionedd ; a Duw yn unig sydd yn bod yn yr ystyr uchaf. Ymddangos, mewn cymhariaeth iddo Ef, y mae pawb ereill. Byddai yn rhytyg i angel alw ei hun yn Ydwyf ; oblegid dyfod neu fyned y mae pob creadur. Cawn yn yr Arglwydd Fôd hanfodol ac annibynnol—un yn bod o honno ei Hun, ac yn bod o angenrheidrwydd. Nid yw yn ddyledus i neb na dim am dano ei Hun, nac yn ymorffwys ar neb na dim am ei barhad ei Hun. Y mae yn byw o hono ei Hun ac yn byw arno ei Hun. Yr oedd yn bod erioed, ac nis gall beidio bod yn oes oesoedd. Bodolai o flaen y greadigaeth, ac yr oedd yn ddigon iddo ei Hun yn unigedd tragwyddoldeb. A phe dychwelai y greadigaeth i ddiddymdra, nid effeithiai hynny o gwbl ar ei hanfodiad nac ar ei wynfydedigrwydd Ef. Dysgir ni hefyd mai Efe ydyw Creawdwr a Chynhaliwr pob byd a bôd. Efe ydyw sŷnhonnell pob bywyd, a noddfa pob creadur. Ac nid ydyw yn hawdd deall pa fodd y gall y rhai a amheuant ei fodolaeth ac a wadant ei lywodraeth, fod yn ddirifrol ; oblegid byddai eu tybiau, pe byddent yn wirioneddau, y gwirioneddau mwyaf arswydus a gyhoeddwyd yng nghlywedigaeth dynion erioed. Meddylier ein bod yn ei golli—yn colli ei gymdeithas a phob gwybodaeth am dano, mor dlodion a fyddem ! "Heb Dduw, heb ddim." Ynddo Ef yr ydym ni yn byw, yn symud, ac yn bod. Yr ydym yn hanfodi ynddo a thrwyddo yn fwy gwirioneddol nag yn a thrwy yr awyr a anadlwn. A phwy hoffai, pe gallai, fodoli hebdo ! Mor oer fyddai y presennol, ac mor dywyll fyddai y dyfodol ! Efe yw "gobaith holl gyrrau y ddaear." A phe cyrhaeddai rhyw ddyn sicrwydd yn ei feddwl ei hun mai dychymyg ofer ydyw Ef, ac mai breuddwyd gwag ydyw ei Ragluniaeth, oni phetrusai fynegi hynny i ereill ? Credaf y buaswn i yn cadw syniad mor ofnadwy ac mor ddistrywiol i holl ragolygon fy nghydgreaduriaid, o fewn fy enaid, nes y buasai yn ei roddi ar dân. Ac mi fuaswn cyn dechreu pregethu y fath athrawiaeth yn ymwisgo mewn sachllan, ac yn cyhoeddi fy nghenadwri bruddaidd trwy ei hubain allan mewn ocheneidiau a gruddfannau. Oblegid byddid wrth dynnu yr Anfeidrol oddiwrth swm bodolaeth, yn cynhyrchu gwagle aruthr. Mor ychydig a fyddai yn aros, ac mor druenus a fyddai cyflwr y gweddill ! Byddai creadigaeth heb Greawdwr mewn sefyllfa waeth na byd heb haul. Mor hyfryd ydyw meddwl fod rheswm ac Ysgrythyr yn cyd-ddysgu fod Duw yn bod ! A chredu ei fod Ef yn bod ac yn llywodraethu amgylchiadau nefoedd a daear, ydyw sail ein holl obeithion ; ac nis gallwn greu hynny heb weled a theimlo y rhesymoldeb o addoli y Llywodraethwr.

Dyma Wrthrych addoliad—"Duw tragwyddoldeb, yr Arglwydd, Creawdwr cyrrau y ddaear." Ac y mae yn wrthrych addoliad am fod holl seiliau addoliad yn cydgyfarfod ynddo. Y rheswm sylfaenol dros ei glodfori ydyw, yr hyn ydyw Efe ynddo ei Hun—mawrhydi anfeidrol ei natur, gogoniant anchwiliadwy ei hanfod. Ond y mae yn y golygiad hwn ymhell iawn oddiwrthym ni, ac yn ddiethr iawn i ni. "Ni welodd neb Dduw erioed," ac ni wel neb byth mo honno yn yr ystyr hon. Trîg mewn goleuni mor danbaid, fel nad ellir yn oes oesoedd agoshau ato. Yn ei gymeriad a thrwy ei briodoliaethau yn unig y gallwn ei adnabod; ac ymddatguddiant hwy i ni drwy ei weithredoedd a thrwy ei oruchwyliaethau, ac, yn arbennig, yn a thrwy y Beibl ac Iesu Grist. Gwelwn trwyddynt hwy fod ynddo fawredd a gallu anfeidrol, doethineb a golud diderfyn, cariad a sanct-eiddrwydd annherfynol. Cyfiawn a gweddus, o ganlyniad, ydyw i bawb ei fawrygu. Y mae yn gyfryw mewn ardderchogrwydd fel nad all y creaduriaid mwyaf a gorau ddiraddio eu hunain wrth ymgrymu ger ei fron. Cynhyrcha ym mhawb sydd yn ei adnabod oestyng-eiddrwydd a diolchgarwch. Llenwir hwy yn yr olwg ar ei ogoniant â syndod ac addoliad. Deffry pelydrau ei ddaioni ynddynt obaith a mawl. A ydyw dyn yn adnabod ei Greawdwr? A ydyw yn ddigon goluedig i weled ei hawliau arno, ac yn ddigon pur i deimlo ei rwymedigaethau iddo? A ydyw yn ddigon ysbrydol i dderbyn argraffiadau oddiwrth ei gymeriad? A ydyw yn feddiannol ar gynheddfau addas i ddal cymundeb âg Ef?

Nis gallwn ateb y gofyniadau hyn yn gwbl gadarnhaol nac yn hollol nacöol. Er fod pechadur yn hunanol a dirywiedig, yn ddaearol a llygredig, arddengys ddymuniadau am rywun a rhywbeth uwch a gwell nag ef ei hun. Llywodraethir ef gan ddwy egwyddor: o dan ddylanwad y naill, y mae yn ceisio Duw; o dan ddylanwad y llall, gwelir ef yn gwrthryfela yn ei erbyn. Mor bell ag y mae yn ddynol, y mae yn ubain am dano; mor bell ag y mae yn ddrygonus, y mae yn ffoi oddiwrtho. Yn debyg i ddafad ar gyfeiliorn, yn ymbellhau oddiwrth ei chynhefin wrth chwilio am dano, y mae yntau, ar y naill law, yn cilio oddiwrth yr Arglwydd, ac, ar y llall, yn ymofyn gydag ymroddiad am dano. Un o feithiau amlycaf hanes dyn ydyw, ei fod yn dlawd. Chwennych, ac nid mwynhau, y mae. Y mae ymhob man ac ymhob sefyllfa, y tu allan i Grist, yn amddifad o rywbeth nas gŵyr yn iawn pa beth, ac yn hiraethu am rywun nas gŵyr yn iawn ei enw. Ymestyn am wrthrych neu sylwedd sydd yn encilio rhagddo, yn hytrach na gorffwys, y mae yn feunyddiol. Ymlwybra gyda chalon anesmwyth a llygaid pryderus trwy ddimasoedd a chyfandiroedd, gan holi yn floesg rai yn yr un cyflwr ysig ag ef ei hun: "A welsoch chwi yr hwn sydd hoff gan fy enaid," ac ochain,— "O na wyddwn pa le y cawn ef!" Am Dduw y mae yn ymofyn. Ei amddifadrwydd o hono Ef ydyw ei newyn mawr. Gall anghenion a dymuniadau ereill newid a diflannu; dilyna hwn ef trwy bob cyfnewidiad ac i bob byd. Er iddo fel hyn adael ei Greawdwr, nid ydyw erioed wedi gallu byw yn dawel hebddo. Y mae yn ymbalfalu yn reddföol am dano ymhob man. Ië, gymaint ydyw ei eisieu o hono fel y mae, yn hytrach na bod heb yr un, yn troi yn greawdwr ei hun, ac yn galw duwiau afrifed i fod. Dysgir ni fod

yn haws gweled duw yn Athen na gweled dyn, ac fod ei phreswylwyr, er hynny, yn addoli ynghanol y cyfan dduwiau anadnabyddus iddynt. Naturiol, gan hynny, oedd i Paul eu darlunio fel pobl dra choel-grefyddol. Yr oeddynt hwy yn cynrychioli yn hyn feibion Adda i gyd. Mynnant fawrhau rhywun neu rywbeth. Nis gallwn fyw heb ryw fath o grefydd; a dichon fod rhyw fath o grefydd yn well na bod heb fath yn y byd. Onid ydyw hanes ysbrydol dynolryw yn profi rhesymoldeb addoliad? Gwesgir ni i feddwl mai ymwasgu at, ac ymgyflwyno i'r Arglwydd, ydyw y peth mwyaf rhesymol allant hwy wneuthur; oblegid trwy gymdeithasu âg Ef a chyfranogi o Honno y diwellir anghenion dyfnaf ac y boddlonir dymuniadau uchaf eu natur. Trwy hynny yn unig y gall eu hysbrydoedd gyrraedd gorffwystera a gwynfydedigrwydd.

Gallwn drafod y mater fel hyn: Gan fod y Crëawdwr yn Fôd Personol, a bod dyn yn berson, rhaid fod rhyngddynt rywfaint o gyd-nawsedd—rhywfaint o allu i ymwrando â, ac i ymdeimlo oddiwrth eu gilydd. Fel y mae haul a lleuad, er yn gwahaniaethu yn ddirfawr oddiwrth eu gilydd, yn gallu, trwy y gyfatebiaeth sy rhyngddynt, ymlawenychu yn eu gilydd, gall yr Arglwydd a phechadur ymgyfathrachu mewn Cyfryngwr. Cynhwysa personoliaeth hefyd amryw gynheddfau ac egwyddorion dyrchafedig. Un o honynt ydyw *rheswm*, yr hwn sydd yn allu ac yn duedd i olrhain a chysoni—i olrhain ffrydiau o ymddangosiadau amrywiol i ffynhonnell guddiedig, yn yr hon y mae y cyfan yn un. Ac er ei fod mewn sefyllfa ddirywiedig ymhob pechadur, gwelir ef yn chwilio yn barhaus am esboniad ar amgylchiadau dieithr, ac yn ceisio dilyn achosion ymlaen i effeithiau, ac effeithiau yn ol i achosion. Arweinia ddynolryw ymhob gwlad ac oes i ofyn, yn fwy neu lai hyglyw, Paham a Pha fodd, gyda golwg ar bethau, ac i grynhoi eu syniadau yn rhyw fath o gyfundraethau. Deffry hyd yn oed mewn paganiaid ryw fesur o chwilfrydedd, a phar iddynt ddamcanu yn eu ffordd eu hunain ynghylch bodolaeth a bywyd. Arddengys yr enaid fel hyn, ynghanol tywyllwch dudew, rywfaint o gariad at oleuni. Os ydyw yn ddall, dall ydyw a hoffai weled yr haul. Wrth i ddyn gynhyddu mewn gwareiddiad a diwylliad, daw ei ymchwiliadau yn fwy rheolaidd. Ymgryfhâ ei adenydd, ac y mae yn ehedeg ymhellach ac yn uwch. Ymfyfna gyda mwy o aidd am Achos Cyntaf pobpeth. Ymweithia hwnnw yn un o anghenrheidiau ei fywyd meddyliol; a daw chwilio am dano yn un o reddfau cryfaf ei ysbryd. Tybier ei fod yn ei gael, a bod yr Achos hwnnw yn profi ei Hun iddo yn Berson byw, cyfiawn a thrugarog, llawn o ddoethineb a nerth, anfeidrol mewn cariad, sanct-eiddrwydd a gogoniant; oni fyddai yn naturiol iddo ymgrymu ger ei fron, a chyflwyno iddo foliant ei galon? Onid y peth mwyaf rhesymol a hyfryd i enaid gweddol bur, fyddai addoli a gwasanaethu y cyfryw Fôd?

Gallwn ddarlunio rheswm fel gallu i adnabod, olrhain, a charu gwirionedd. Dengys yn ei ddyrswch mwyaf fesur o ymfyniad am dano ac o barch iddo. Gresynnwn wrth feddwl fod trigolion y wlad hon, oes neu ddwy yn ol, yn adrodd ac yn gwrando y chwedlau mwyaf disail a llygredig gyda syndod a boddhâd. Ond dylem gadw mewn cof eu bod yn gwneyd hynny o herwydd eu bod, i raddau mwy neu lai,

yn credu y cyfryw chwedlau, ac yn derbyn rhyw fath o gynhaliaeth feddyliol o honynt. Wedi ymddirywio a cholli y danteithion brenhinol, porent laswellt—rhywbeth yn hytrach na bod heb ddim, fel Nebuchodonosor. Gweddus ydyw ystyried mai nid er mwyn gallu pasio arholiadau ac ennill gwobrwyon y mae pobl yn darllen bob amser. Gwnant hynny yn aml, ac weithiau, yn ddi-arwybod iddynt eu hunain, er mwyn tawelu anesmwythder ac ateb gofyniadau dyfnaf eu hysbrydoedd. Paham y treulia ambell i ddyn ei oes i efrydu hen iaith sydd wedi marw ers canrifoedd? Am ei bod yn dal yn ei llaw drancedig rai gronynnau o wenith gwirionedd; am mai hi, erbyn hyn, ydyw yr unig beth sydd yn taflu goleuni ar nodweddion y genedl oedd yn ei siarad, ac ar brïodoliaethau y duwiau a addolai. Diau fod llawer o athronwyr y byd yn gyfeiliornwyr; ond camsyniad mawr a fyddai tybied eu bod yn caru cyfeiliornrad, ac mai am gelwydd yr ymchwiliant. Yn hytrach, yn eu holl olrheiniadau—wrth holi creigiau y ddaear, neu ddarllen sêr y nefoedd, neu ymwithio i lawr i ddyfnderoedd eu natur eu hunain—am wirionedd yr ymofynnant yn barhaus. Gwesgir ni fel hyn, ar bob llaw, i gredu fod yr awydd am wirionedd yn un o anghenion mawrion a hanfodol y ddynoliaeth. Ar gyfer hynny, cawn mai Duw y gwirionedd ydyw yr Arglwydd; fod y Gwaredwr yn wirionedd yn gystal ag yn ffordd ac yn fywyd; ac mai Ysbryd y gwirionedd ydyw yr Ysbryd Glân. Ymddengys felly fod rhywfaint o gydnawsedd rhyngddynt, a bod mesur o gymdeithas rhyngddynt yn beth dichonadwy. Gwelwn yn ymhyfrydiad y ddwyblaid mewn gwirionedd, lain o dir cyffredin ag y gall y ddwy, mewn iawn, gydgyfarfod arni i garu eu gilydd. Y mae dyn wedi cael ei lunio ar gyfer ei Greawdwr, fel y mae y blaned wedi cael ei chreu ar gyfer ei haul; ac y mae yn y cyfatebiaeth hwn ddefnydd cyd-ddealltwriaeth a chymundeb rhyngddynt. Onid allai yr ysbryd bach, daearol, wrth gael ei iachau trwy yr Efyngyl, ymgodi at yr Ysbryd mawr, tragwyddol, mor naturiol ag yr ymlifa yr afonig at y môr? Caniateir hefyd mai yn yr olaf yn unig y boddlonir y blaenaf. Y mae yn y greadigaeth lawer o wirionedd, ond nis gall ddiwallu enaid—am ddau reswm: nid oes ynddi ddigon o hono—yfaï dyn yn gynt, neu hwyrach ei flynhonnau hi yn sychion; ac nid ydyw hynny sydd ynddi o ansawdd ddigon ysbrydol. Mor hyfryd ydyw meddwl nad all, er ei fod weithiau yn ymdaith ymhell iawn, weled yn oes oes oedd derfyn ar Dduw. Er ei fod yn eryr mawreddog, caiff ynddo Ef ffurfafen ddigon eang a digon uchel i chwareu ynddi byth bythoedd.

Yn ychwanegol at reswm, y mae yn perthyn i natur foisol dyn allu arall—y *gydwylbod*. Swydd hwn ydyw gwahaniaethu rhwng drwg a da, a gwahardd y naill a chymell y llall. Y mae yn ymofyniad mwy neu lai dyfal am gyfiawnder, ac yn dystiolaeth fwy neu lai eglur yn yr enaid am a thros Dduw. Amlyga ei hun i ysbryd pechadurus trwy ymdeimlad mwy neu lai poenus o euogrwydd; a chynhyrcha mewn calon rinweddol brofiad o dawelwch gobeithiol. Afreidiol ydyw crybwyll fod y gynneddff hon, fel pob un arall, yn amrywio yn fawr mewn gwahanol bersonau; ac y mae, i raddau, yn ddirywiedig ymhawb ar y ddaear. Mewn rhai y mae yn rymus a dylanwadol; mewn ereill y mae yn farwaid a bloesg. Mewn dynion gweddol oleuedig a phur, y mae yn brofiad o rwymedigaeth a dyledswydd, ac yn ymdeimlad o awdurdod egwyddorion

moesol a thragwyddol. Mewn eneidiau tywyll a llygredig, ymddyrysa yn fynych; cyll i fesur helaeth ei hadnabyddiaeth o ddaioni a drygioni; a bu yn euog lawer gwaith, o dan y cyfryw amgylchiadau, o garcharu a lladd anwyliad ei Chreawdwr. Parhâ er hynny, yn ei holl ddirywiad, yn reddf o ffyddlondeb i bopeth a ymddengys iddi hi yn iawn. A doeth fyddai i bob dyn ystyried fod ganddo lawer o allu i niweidio ei gydwybod, a rhywfaint o allu i gadw ei thynherwch yn fyw. Y ffordd i wanychu ei harglwyddiaeth ydyw, dirmygu ei phryderon a gwrthsefyll ei hawgrymiadau. A pho fwyaf o hynny a wnawn, gwaethaf oll, a phellaf yn y byd oddiwrth yr Arglwydd, yr awn. Y modd i gryfhau ei dylanwad ydyw ei hanhydeddu,—parchu ei gwaharddiadau ac ufuddhau i'w gorchmynion. Yn ol mesur ein hymroddiad gyda hynny, arweinir ni yn barhaus i fwy o oleuni; ymddengys cyfiawnder i ni o hyd yn fwy hawddgar; ymddyfnhâ ein cydymdeimlad â rhinwedd ymhob ffurf; a chawn ein hunain yn neshau i bresenoldeb Tad ein hysbrydoedd. Gweithir ni fel hyn. wrth i ni ymostwng i alluoedd uchaf ein natur, i gyfeiriad yr Anweledig; deffroir i fesur ein dymuniadau dyfnaf, ymdraidd tragwyddoldeb yn achlysurol trwy ein heneidiau, a chymhellir ni i addoli Awdwr ein bod.

Trwy ein meddiant o reswm a chydwbybod, yn arbennig, yr ydym ni yn "hiliogaeth Duw." Derbyniasom ynddynt hwy rywfaint o'r hyn sydd yn anfeidrol ynddo Ef. Adlewyrchir ei briodoliaethau sanctaidd a gogoneddus i raddau bychain iawn, trwy ein cynheddfau hurt a dirywiedig ni. Y mae y gydwybod, er holl ddylanwad llygredigaeth, yn llefaru am dano; deil trwy yr oesoedd i lefain yn floesg yn niffaeth-wch y ddaear am ei bresenoldeb. Perthyna iddi hi, fel i Abiah mab Jeroboam, "beth daioni tuag at Arglwydd Dduw Israel." Gall, fel hwnnw, fod yn glaf mewn miloedd o bobl; ond nis gall, fel hwnnw, farw yn yr un o honynt byth. Ar ol i alluoedd ereill yr enaid droi yn eilunaddolwyr, parhâ hi, yn debyg i Daniel, i agoryd ei ffenestri, ac i edrych am dano i lawer cyfeiriad. Nis gall wrth fyned yn ddall a mud a byddar, beidio gruddfan oblegid drygioni, ac ubain am gyfiawnder. Y mae yn ei chwsg dyfnaf yn breuddwydio am Dduw. Cyfyd yn awr ac yn y man megis trwy ei hun, i chwilio yn nos dymbestlog y galon am y pyrth clôedig, a chais droi y bolltau yn eu holau er mwyn gollwng ei Hanwylyd i mewn. Caiff ei hun mewn miloedd o ddynion, mewn llawer gwlad ac oes, fel morfil ar y traeth, yn methu byw ac yn methu marw. Yn yr Arglwydd yn unig y mae môr digon éang a dwfn, a digon pur a phêr, ar ei chyfer. Dengys ystyriaethau fel hyn ein bod ni ein hunain—y natur ddynol ynddi ei hun—yn llawn o ryw ymfyniadau am ein Creawdwr. Ein pechadurusrwydd yn unig sydd yn peri i ni ymbellhau oddiwrtho. Onid ydyw y gydwybod, yn ei dallineb mwyaf, yn ymbalfalu am dano, ac yn annog, wrth gael rhyw olwg arno, ei chyd alluoedd i ymgrymu ger ei fron, ac i gyflwyno moliant a gwasan-aeth iddo? Wrth gael ei goleuo a'i phuro, daw o hyd yn fwy o gydnawsedd â phriodoliaethau, ac yn fwy o gydymdeimlad â gorchmynion y Jehofah. Wrth ymolchi yng ngwaed ac ymborthi ar gyfiawnder Crist, enilla nerth a dylanwad cynhyddol. Cymhella yr holl enaid i ymweithio i fwy o agosrwydd at, ac i deimlad dyfnach o rwymedigaeth i Dduw; daw yn gynrychiolydd fyddlawn iddo yn natur y credadyn;

a chynorthwya i wneyd ei addoliad y peth mwyaf greddfól a gwynfydedig iddo mewn bod.

Elwn yn rhy faith wrth fanylu fel hyn ar holl alluoedd ein natur. Meddyliar am *ewylllys*, *calm*, ac *ysbryd* dyn,—er eu bod, trwy ymlygru, wedi colli yr olwg ar eu gwir wrthrychau, parhant i deimlo eu hamddifadrydd o honynt, ac i anadlu dymuniadau wylofus am danynt. Daliant i ochain am ddaioni annherfynol, am brydferthwch annifannol, ac am sylweddau tragwyddol. Cenhedlant ddyhēadau diderfyn; ac wrth fethu cael gafael ar fendithion diderfyn, ceisiant ymborthi ar wrthrychau amserol—ar olud daearol, clod dynion, pleserau anianol. Ond nid ydynt wrth ymborthi arnynt hwy yn ymddigoni. Yn hytrach, ymddyfnhau ac ymehangu yn barhaus y mae tiodi a dymuniadau siomedig ein natur wrth gyfranogi o honynt hwy. Y mae dyn wrth gael, yn ymagor, gan fyned yn fwy o hyd, yn ol fel y bydd ei amgylchiadau yn gwellhau. Po uchaf yr esgyna ymwelydd ar dŵr neu fynydd, ehangaf oll fydd y golygfeydd a ymagorant ger ei fron; felly hefyd, po fwyaf o gyfoeth ac o anrhydedd daearol a dderbyniwn ni, dyfnaf oll, os na feddwn rywbeth arall, fydd ein hawydd am ychwaneg. Nis gall unrhyw fasnach nac etifeddiaeth foddloni enaid. A chlywsom am un gŵr, ar ol gorchfygu y byd, yn wylu am fydoedd ereill i'w darostwug. Eisieu dyn ddengys ei fawredd oreu. Gŵyr lawer; ond nid ydyw ei amgyffredion mor äang ag ydyw ei ddymuniadau. Nid ydyw ei feddwl gymaint ag ydyw ei galon. Gwna bethau yn yr oes hon a fuasant yn ymddangos fel gwyrthiau oes yn ol; ond nid ydyw yn gwneyd pethau digon mawrion i beri iddo ymdawelu ynddynt. Nis gall gweithredoedd y Creawdwr foddloni creadur rhesymol; y Creawdwr ei Hun yn unig a ddichon wneuthur hynny. A dymuniadau am dano Ef, wedi ymddyrysu i raddau mwy neu lai ymhob dyn, ydyw dymuniadau uchaf enaid. Anghenion am yr Anfeidrol—wedi ymwallgofi mewn miloedd o bobl—ydyw anghenion dyfnaf pechadur. Gellir ei gymharu i äog ieuanc, yr hwn, ar ol cael ei fôd a chwareu am ennyd mewn afonig yn y wlad, sydd cyn pen hir yn anesmwytho, ac yn myned i chwilio am rywle yn yr afon lle y mae hi yn ddyfnach ac yn lletach; ac yna, wedi ymddifyrru yno am ysbaid, sydd drachefn yn myned i edrych am rywle dyfnach a lletach ynddi, ac felly ymlaen o hyd. Gan ei fod yn cynhyddu, nis gall orffwys nes cyrraedd y môr. Yn gyffelyb gyda golwg ar ddyn,—y mae pob etifeddiaeth yn rhy fechan, a phob anrhydedd yn annigonol. Yfai yn gynt neu hwyrach bob afon a llyn i fyny. Yn yr Arglwydd yn unig y diwellir ac y boddlonir ef. Y mae ynddo Ef gyflawnder perffaith, ac y mae y cyflawnder hwnnw (Col. i. 19, ii. 9, &c.) yng Nghrist; a gwahoddir y pechaduriaid gwaethaf, trwy yr holl Feibl, at y cyflawnder tragwyddol.

Ymddengys fel hyn, gan nad beth neu faint a gollasom, na chollasom ein holl gynhygsaeth. Ymdrechais ddangos fod ynom eto rywfaint o allu i adnabod gwirionedd, cyflawnder, a daioni, ac awydd mwy neu lai grymus am danynt; mai trwy gyfranogi o honynt hwy yn unig y gallwn ni ddyfod yn sanctaidd a dedwydd; mai yn Nuw y ceir hwynt—ynddo Ef yn unig y ceir hwynt yn yr helaethrwydd ac yn y purdeb angenrheidiol; oblegid gwahanol agweddau ar ei natur ac ar ei gymeriad Ef ydynt. Gwelir felly mai trwy gael ein dyrchafu i adnabyddiaeth o, i gym-

undeb â, ac i fwynhad o hono Ef, y gallwn ni gyrraedd y sefyllfa oreu ac uchaf sydd yn ddichonadwy i ni. Ac y mae Iesu Grist yn ffordd i hyn i gyd. Parhawn hefyd yn y meddiant o dueddiadau addolgar—deillion a llygredig, amddifaid iawn o oleuni a chariad, mae yn wir, erbyn hyn; ond y maent yn bod. Yr oedd dyn ar y cyntaf, fel pob creadur—fel yr aderyn i ehedeg yn yr awyr, ac fel y pysgodyn i nofio yn y môr—wedi cael ei gyfaddasu trwy synhwyrâu ac aelodau i fyw ar y ddaear, a thrwy gynheddfau ac egwyddorion ei natur foesol i adwaen ac addoli ei Greawdwr. Ac os ydyw wedi ymddirywio, ac ymddirywio yn ddifawr, y mae yn ei galon yn bresennol, gan nad i ba ddyfnder y mae wedi disgyn, ofid yn mud-losgi oblegid yr hyn ydyw, a hiraeth yn ubain am yr hyn oedd ac a feddai. Y mae ynddo ymfyniadau bloesg am yr annherfynol, a dyheadau myngus am y Dwyfol. Rhaid, gan hynny, fod ynddo ryw ddichonoldeb ardderchog. Gan ei fod yn dlawd—yn newynog a sychedig am Dduw—er nad yw, feallai, yn ei adnabod, ac yn chwilio mewn gwahanol ffyrdd ymhob gwlad ac oes am dano; a bod Duw yn gyfoethog, yn barod i drugarhau wrtho, yn ei wahodd yn barhaus ato, ac yn defnyddio mil a mwy o foddion i geisio ei ddenu ato, a fyddai yn rhyfedd iddynt gyfarfod eu gilydd? Pe gwnelent, oni fyddai cymundeb rhyngddynt, mewn Cyfryngwr, y peth mwyaf naturiol a hyfryd mewn bod? Nis gallaf ddychmygu am ddim mwy rhesymol ac uniawn nag i ddyn, wrth dderbyn bendithion tymhorol ac ysbrydol oddiwrth yr Arglwydd, ddiolch iddo am danynt, ei foliannu yn y mwynhad o honynt, ac ymgyflwyno yn gyfan-gwbl mewn gwasanaeth iddo. Gwesgir fi i feddwl fod arno gymaint o angen am dano, fel y byddai bodolaeth hir, dragwyddol, hebdo, yn annioddefol, yn uffern iddo. Pe profai yr adyn rhyfedd feddyginiaeth yr Efengyl, deuai addoli ei Greawdwr y gwaith mwyaf greddfol a gwynfydedig, yn gystal a mwyaf rhesymol ac uniawn, y gall byth ymgymeryd âg ef. Mor hyfryd ydyw meddwl y gallant gyfarfod yn y byd hwn! Er mor bell oddiwrth eu gilydd ydynt—er mor fawr ac uchel ydyw Un, ac er mor fychan ac isel ydyw y llall, gallant agoshau at eu gilydd a chymdeithasu mewn iawn. Gall yr Anfeidrol ddal cymundeb âg abwydyn dirywiedig yng Nghrist. Gall “Duw ysbrydion pob euawd,” trwy ei Ysbryd ei Hun, a thrwy y cynheddfau a roddodd iddynt hwy, weithio ei ffordd at ysbrydoedd, ac i galonnau ei greaduriaid, gan ddatguddio ei Hunan iddynt, nes eu llanw â gwynfydedigrwydd tragwyddol. Oblegid y mae ei ddaioni gymaint ag ydyw ei fod; y mae ei gariad mor fawr ag ydyw ei nerth.

J. J. ROBERTS.

Porthmadog.

CHARLES O'R BALA FEL CYMREIGYDD.

II.

MEGIS ag y mae yn briodol arfer a defawd mewn brawdlysoedd a chynadleddau, i farnwyr a chynghorwyr byd, cyn dechreu o honynt ymgymeryd â'r drafodaeth fyddo wedi ei gosod o fewn trefniadau'r dydd, wneyd sylw cyhoeddus o unrhyw dro pwysig ar fyd neu eglwys a ddamweinio fod ar y pryd yng ngenau pawb, felly hefyd, er caffael o'r ysgrifennydd y fraint o gyflwyno, yn nhudalennau misolyn bywiog *Cymry Fydd*, deyrnged y tŷ isuanc o'i gydwladwyr i'r Cymreigydd enwog sydd newydd ei ethol i fod yn Brifathraw y Coleg y perthynai Thomas Charles iddo; eto, nid gweddus a fyddai i'r TRAETHODYDD—yn enwedig a nyini yn ymdrin yr awrhon â Chymreigiaeth un o'r godidocaf o'n dysgedigion ganrif yn ol—ollwng dros gŵf gyfeirio, gyda llongyfarchiad diffuant, at y safle urddasol y mae ysgolheigod a dyfal astudiaeth y Dr. John Rhys ymhob cangen o wybodaeth Gymreig a Cheltaidd wedi ei gymhwyso a'i ddyrchafu iddi, yn y fath fodd fel na buasai unrhyw benodiad arall i lywyddiaeth "Ysgoldy yr Iesu yn Rhydychain"—ys gelwid ei Athrofa gan Charles o'r Bala—wrth fodd calon cenedl y Cymry a mintai fawr isithegwyr Prydain ac Ewrop. I ymchwiliadau a darganfyddiadau yr Athraw Celtaidd yn Rhydychen, ac i'w ddylanwad ef ar y lliaws o Gymry sydd wedi dyfod i gysylltiad personol âg ef, neu wedi efrydu ei weithiau, y gellir priodoli, i raddau helaeth iawn, y gwahaniaeth safle a barn a gymerwn ac a goleddwn weithian, gyda golwg ar haniad a chyfansoddiad ein cenedl a'n hiaith; canys yn ddilys, cyd-darawiad hapus nas gallasai ddeilliaw ond oddiwrth gynhyriad anymwybodol ysbryd gwir farddonol, oedd ddarford iddo ef, fel prif oruchwyliwr trysorfeydd y "ddoethineb a fu gynt ymysg y Brutanniaid," ddethol fel arwyddair Prifysgol Cymru a symbyliad pob llafur a'r a fydd ynddi, y ddihareb gywrain gynganeddol honno sydd ar yr un pryd yn fynegai o egwyddor hanfodol ei ddysgeidiaeth ei hun, ac yn eglurhad o gyfrinach ei lwyddiant, "(Goreu Awen Gwirionedd."

Cawsom achlysur, yn ein hysgrif gyntaf, i ddatgan ein gofid am fater nas gallwn lai na gresynnu fwyfwy wrtho, po fanylaf yr astudiwn Eiriadur Thomas Charles ac yr edmygwyr ac y rhyfeddwn wrth fanylrwydd ei wybodaeth o amryw bynciau dyddorol mewn perthynas i Gymru a Chymraeg, sef oddef o honno ei hudo a'i gamarwain gan awelon dysgeidiaeth y Puwiaid ynghylch tadogaeth geiriau Cymraeg ac arwyddocâd y gwreiddiau, a chan bregeth yr Hebreigyddion am gyff hynafol y Gomeriaid, a chydberthynas y Gymraeg â'r Hebraeg. Perthyna i'r ddwy rywogaeth yma o ieitheg chwedlonol, ddyddordeb llenyddol a hanesiol nid bychan, pa faint bynnag y rhwystr achoswyd ganddynt i gynnydd dosbarthiant gwyddonol a ffeithiol o'n hiaith; canys yr un flunud ag y pery damcaniaethau yr Ysgolwyr a'r Alcamwyr i ddifyrru, er gwaethaf eu hoferedd, diddan odiaeth yw taflu cipdrem ar y cyfndraethau geirdarddiadol a ffynnent ganrif yn ol, pan gyfranogodd ysgolheigion Cymreig o'r awch am efrydiaethau ieithogol

a ymdaenodd dros Orllewinbarth Ewrop. Cofier fod a fynnai gwlad-garwch, i raddau helaeth iawn, â'r sêl yma yn ein gwlad ni, er hanfodi o honno heb wybodaeth; * o herwydd pan ddiystyrrid y Gymraeg gan Saeson crebaehlyd, anwybodus a thrahaus, fel iaith farbaraidd, ddi-elw, anghoeth a di-chwaeth, naturiol oedd i Gymry twymgalon dderbyn gyda diolchgarwch a brwdfrydedd osodiadau ac ymadroddion a honnont fod yn awdurdodol, fod gan yr iaith a ddibrisid ac a wawdid gan y Sais uchelffroen a gwatwarus, agos berthynas â thafodiaith sancteiddiolaf y ddaear; ei bod wedi ei chadw trwy yr oesoedd heb nemawr gyfnewid na threigliad arni, a bod yng ngwreiddiau ei geiriau hi, ragor neb iaith arall namyn yr Hebraeg ei hun, gyflawn a chysefin fynegiant o'r meddwl dynol yn ei burdeb. Heblaw symbyliad cenedl-garwch, yr oedd gan y ffurf ar ymchwiliad ieithegol a nodir, atyniad pwysig arall, sef ei bod yn rhoddi rhwydd bynt i'r dychymyg, ac felly yn dal sefyllfa ganolraddol rhwng y gwyddonau naturiol â'r gwyddonau meddyliol. Ni lyffetheirid damcaniaeth gan bwysau ac atalfeydd ffeithiau, gan mai cymharol fychan oedd cylch y wybodaeth angenrheidiol, a digon hawdd oedd gwyrddroi sillebiaeth, orgraff, a golygiad geiriau, os oeddynt yn y radd leiaf yn anhywaith i'r llenor; caws amcanai yr ieithegwr, yn fynych iawn, fel y philosophydd o Cyrene, wneyd pethau yn ddarostyngedig iddo ef, nid efe i bethau,—

Et mihi res non me rebus subiungere onor.

Paragraff chwerthinus yn llyfr enwog Dr. John Rhys, *Lectures on Welsh Philology*, yw yr hwn a neillduir ganddo i wrthladd y syniad uniongred ynghylch cysylltiad y Gymraeg â'r Hebraeg,† syniad sydd megis wedi ei glasureiddio gan awdurdod Charles Edwards a Theophilus Evans, heb son am Dr. Davies ac ysgrifenywyr ereill, megis Edward Davies, awdwr dysgedig y *Celtic Researches*, llyfr a gawn feirniadu rhag llaw: Yn *Hanes y Ffydd Ddiffuant*, ceir llechres hirfaith o "eiriau Hebraeg ac ambell un Chaldaeg a arferir yn ein hiaith ni." A rhag ofn nad digon y "cryn swrth" yma "o iaith y patrieirch a'r proffwydi sanctaidd yn y Gymraeg," rhoddir hefyd golofnau o "ymadroddion Hebraeg Cymreigaidd," llechres a eilw y Parch. William Edmunds (tud. 359 o argraffiad Spurrell, 1856), yn "gywreinerwydd diniwed," gan ychwanegu fod yr Awdwr "yn fawr ei eiddigedd dros gysylltu'r Gymraeg â'r Hebraeg." Dengys Charles Edwards, er engraifft, fod yr ymadrodd gwreiddiol a gyfieithir "Dy gyfiawnder a'th ddagrau" (Ecs. xxxii. 2) o'r un sain a swm i'r glust â'r geiriau Cymraeg, "Amledd chwi, defni chwi." Cyhoeddwyd y llyfr clodfawr hwn yn 1674, a deugain mlynedd ar ol hynny fe gadarnhawyd yr un

* Gwel Draethawd rhagarweiniol yr Athraw J. M. Jones i *Welsh Orthography* (sef Adroddiad y Pwyllgor Orgraffyddol) tud. 6:—"Yn ein gwlad ni y mae efryd-iaethau ieithyddol bob amser wedi bod yn boblogaidd, ac ysgolheigion Cymreig y rhan foreuol o'r ganrif hon a ddyfaldasent ac a "eirdarddasant" mor awchus a'u oymdogion."

† "Ni thellynga estrysod llenyddol [sef y rhai a ddychmygant fod y Gymraeg yn gysylltiedig â'r Hebraeg, neu wedi uniongyrchol darddu oddiwrti] ymresymu â hwynt, o leiaf oni ddarfo iddynt gymeryd eu pennau allan o'r tywod, ac ymgynefno â hanes y byd ieithegol oddiar gyhoeddiad Gramadeg Cymharol Bopp. Fel y mae pethau'n sefyll, ofer ymhob tebyg a fyddai dywedyd wrthynt nad oes i'r Gymraeg ddim a fynno â'r Hebraeg nac unrhyw iaith Semitaidd arall" (tud. 160).

syniadau gan Theophilus Evans, yr hwn a ddyry i ni ddrych cywraint o Gomer—pan gymysgwyd y famiaith, yr Hebraeg, yn nhwrrw tŵr Babel—yn siarad Cymraeg; a brawddeg allan o *Ddrych y Prif Oesoedd* (tud. 36 Spurr., 1884), a ddyfynnir yng Ngeiriadur Silvan Evans, pan souir am y syniad hynafol o'n haniad Gomeraidd: “Canys nid oes ond y dim lleiaf rhwng *Cymro* a *Gomero*, fel y gall dyn, ie, a hanner llygad, ganfod ar yr olwg gyntaf.” Dalier ar gof, wrth fyned heibio, mai ar sail tebygolrwydd geiriau a arferir yng Ngogledd yr Amerig a geiriau Cymreig (megis pengwyn, corroeso, &c.), y ceisia Theophilus Evans brofi, yn bennaf, wirionedd yr hyn a ddywedir gan Morgan Llwyd, “Cymry a ganfu America gyntaf.”

Dywed Mr. Charles Ashton, ar awdurdod y Canon Silvan Evans, ddarfod i'r Cymreigydd tra enwog Dr. Owen Pughe, dderbyn ei eiriadaeth hynod “yn bennaf oddiwrth Rowland Jones, o'r Broom Hall, Sir Gaernarfon,” gŵr ysgrifennodd lawer ynghylch “Iaith gyffredinol gairlunol” (*Universal Hieroglyphic Language*), a phynociau cyfrin fel “tarddiad, ansawdd, a chysylltiad y sanctaidd arwyddion, seiniau, geiriau a drychfeddyliau.”* Os felly, dyry enwau a theitlau gweithiau Mr. Jones eglurhâd ar wanc ddiwala ei ddisgyblion am wreiddiau cysefin, a thra fod i bob barn ei llafar, dilynodd hyd yn oed y Doctor a'i ddan gyd-lafurwr hygiod, Owen Myfyr a Iolo Morganwg, wahanol gyfundrefnau orgraffyddol.† Cyhoeddwyd Geiriadur Cymraeg a Saesneg Dr. Owen Pughe ddwy flynedd cyn dechreu cyhoeddi Geiriadur Charles, a dilyn ddarfod i ddysgeidiaeth y cyntaf ddwys ddylanwadu ar yr olaf, canys yn yr argraffiad cyntaf mae yr orgraff wedi ei rheoli yn ol dull Pughe, ac yn awl-siddiawl drwyddi, a thybia Mr. Ashton fod y cyfnewidiadau a wnaed ganddo yn yr argraffiad o'r Beibl a ddygwyd allan yn Rhydychen yn 1807, ac a ddiwygiwyd ganddo gogyfer âg argraffiad Llundain yn 1814, “yn unol a chyfundrefn orgraphyddol y Dr. Pughe. Achosodd ei orgraph beth dadl ac anghydwlediaid. Dadleuai y Parch. J. Roberts, Tremeirchion, yn gryf yn ei herbyn, ond cafodd gymeradwyaeth ranol Gwallter Mechain.”‡ Mewn perthynas â geiriadaeth, y mae ymroddiad Thomas Charles i'r ysgol Buwiaidd braidd yn anhygoel; canys gyda golwg ar *eglwys*, tra yr ymgeidw rhag dweyd mai *eg* a *lwys* yw dwy elfen y gair—i'r gwrthwyneb, dywed mai oddiwrth *ἔγρη* ac *ἐκκλησια* “y mae y gair *eglwys*, mewn amryw ieithoedd, yn gystal ag yn Gymraeg, yn tarddu”—eto, nis gall oddiwrth roddi y gwreiddiau (*eg-lwys*) i ddadansoddi'r gair. Ar yr ochr arall, ni a'i cawn weithiau yn dehongli heb yr hudoliaeth hon, megis pan y priodola *ceffyl* i *καβαλλης*, ac *astud* i *studiosus*,|| a diau pe buasai yn fwy anibyn-

* *Hanes Llenyddiaeth Gymreig*, tud. 419. † *Ibid*, 411. ‡ *Ibid*, 381.

|| Er mai y rhal hyn yw'r tarddiadau cyffredin, eto nid yw yr un o honynt yn hollol gywir, gan mai *καβαλλης* (Ll. *caballus*) ac *astutus* a ddylent fod (Silvan Evans). Yn yr hanesydd Plutarch (o.c. 80) y ceir y ffurf Roeg ar y gair *caballus*, yr hwn y tybia Lewis and Short mai gair Oeltaidd ydyw. Dyfynna Silvan Evans ymadrodd o eiddo'r Proff. Rhys, mai'r syniad am darddiad *astud* oddiwrth *study* a *steady* sydd yn gyfrifol am ystyr gyffredin y gair yn bresennol. Ar yr un pryd, priodola'r Canon *astudio* i *studio*. Gan gofio, hwyrach y dylaswn ddweyd, yn yr orthygl fisaenrol mai *occupo*, yn ol barn y Llydawr Lloth, a'r Athraw J. M. Jones—hefyd Geiriadur Silvan Evans—yw haniad *achub*. Fe'm hysbysasid gan Gymreigydd enwog mai *accipio* ydoedd, ond hwyrach mai cymysgedd o *accipio* ac *occupo* a esgordd ar *achub*, fel y deilliodd *achos* (yn ei ffurf a'i ystyrou) oddiwrth gydblethiad o *occasio*, *causa*, *casus* ac *accuso* (Gwel Evans, s.v. *Achos*).

nol, y dianghasai'r Geiriadur oddiwrth y gawod o frychau sydd wedi syrthio arno. Ond y rhyfeddod fwyaf yw, wedi'r cyfan, fod Mr. Charles wedi osgoi cymaint ag â wnaeth oddiwrth syniadau ieithgeol ei oes, ac yma fe ellir canfod goleufynnag o'i sobrwydd a'i chwaeth. Gwir ei fod yn gogwyddo at gredu mai'r Hebraeg am *dderwen* neu *llwyn derw* (sef *alun*) yw tarddiad y gair *llwyn*, ac mai "oddiwrth *llwyn*, y ffurfiwyd *llan*, yn arwyddaw lle cauedig," hefyd *glyn* a *glan*; eto, tuag at iawn werthfawrogi synwyr a chymedroldeb Thomas Charles, darlener *Celtic Researches* Edward Davies, llyfr ag y mae y nawdd a'r gefnogaeth anghyffredin a gafodd yn 1804 yn peri i ni wynfydu na bai cystal croesaw i weithiau llafurfawr ac ymchwilgar diwedd y ganrif. Er i Edward Davies sicrhau Sior III., yn ei Ragdraeth, mai "amcan prawf gonest a sobr a fu yn gyfarwyddwr ei ddrychfeddyliau," ni a gawn, yn ei "Draethawd ar yr Ieithoedd Celtaidd," athroniaeth y gwreiddiau a chyfriniaeth yr Hebraeg wedi eu gyrru i'r fath eithafion ag i beri anobaith y gellid ffurfio o gwbl gyfundrefn o ieitheg Gymreig. Hwyrach mai'r llyfr hwn a ddyry yr engraifft Gymreig fwyaf nodedig o'r bai hwnnw ar ddysgeidiaeth y cwypa Bacon am dano yn yr *Advancement of Learning*, sef dysgeidiaeth ffoldybus (*fantastic learning*). Ar yr ua pryd, cysur yw cofio na chafodd syniadau Pughe "fod ystyr athronyddol i lythyrenau a chyfuniadau neillduol o lythyrenau," arhosiad parhaol mewn geiriaduraeth Gymreig, canys yn Rhagymadrodd Gweirydd ab Rhys i'w argraffiad talfyredig o Eiriadur Pughe, beirnedir y gau athrawiaeth hon, a danghosir hefyd ei bod o gymaint a hynny yn llai esgusodol ag yr oedd Morris Kyffin oddiar oes Elizabeth, wedi ymosod ar y rhai nas gallent weled fod lliaws o eiriau Cymraeg wedi eu benthyccio oddiwrth y Lladin ac amryw ieithoedd ereill. Gwir fod Morris Kyffin yn rhedeg i'r eithafion cyferbyniol pan awgryma "nad yw'r iaith Gymraeg, yn herwydd [y geiriau Lladinaidd] ddim amgen onid hanner Lladin drwyddi*," ond prin y gellir beio ar fyrdra ei amynedd wrth ei wrthwynebwyr:—"Nid gwiw mo'r ymresymu â'r fath ynyfydion cynhwynol namyn eu gadael mewn anwiredd ac oferedd."† Rhyfedd mor anghyson yw Charles âg ef ei hun yn ei dybiaeth

* Rhaid bod ar ein gwyliadwriaeth ar yr un pryd, rhag priodoli gormod o eiriau Cymraeg i'r Lladin, gan y dichon tebygolrwydd arwynebol ein harwain ninnau ar gyteiliorn mewn cysylltiad â'r Lladin, fel y cyfrgollwyd yr hen eiriadaeth yn y ddyrystfa Hebreig. Ar y tudalen (Rhag. xiii.) lle dyfynna Robert John Pryse y paragraff o Morris Kyffin, ceir *credu* ymhlith rhestr o eiriau Lladin wedi eu Cymreig-eiddio. Eithr gair Cymraeg cysefin yw *credu* (ffurf hen yw *cretu*, Hen Wyddelaeag *Oreitern*, "fydd," tebyg i'r Sankrit *Graddhd*, "fyddlawn," Rhys. (*Lectures on Welsh Philology*, tud. 72). Yr un ffunud, dengys y Gwyddelig *tarbh* [Gaulaidd *tarvos*, Zendaidd *tharva*, Llad *torvus* (?)] nas gellir cysylltu *taru* a *taurus* (ibid. 98). Hwyrach y caniateir i ni wella gwall a lithrodd i mewn i'n hyagrif gyntaf ynghylch y gair *palmant*, yr hwn y dylesid ei osod ymhlith y geiriau o'r trydydd dosbarth, lle y dyry Charles wreiddiau mympwyol yn gyfochrog â'r Lladin gwreiddiol (*pavimentum*). Ein hesgusawd, er gwannedd, yw *Aliquando bonus dormitat Homerus*: "Homer dda a hepia weithiau;" o herwydd paham y cysyllta Thomas Charles y gair *colled* a'r Llad. *collarium*, gair ag y mae Silvan Evans yn fud yn ei gylch, a chan nas ceir ef yn Lewis and Short ond yn yr ystyr o gadwyn i'r gwddi, diau y dylesid ei roddi mewn cysylltiad â'r gair a'r erthygl Coler.

† Fel y gwelwom eisoes, mae llawer o smaldod yn britho tudalennau dysgedig Darlithiau'r Prof. Rhys, ond teg oedd iddo dalu'r hen chwech yn ol. Achosodd ei draethodau cyntaf ar Ieitheg Gymreig, a ysgrifennodd i'r *Faner* pan yn ysgolfeistr yn Rhos y bol, gryn gynnwrf a digofaint, ac fe'm hysbyswyd yn ddiweddar gan y Parch. D. Thorne Evans, y bu i John Rhys ieuanc, a'r hyddydg Ddr. Charles, Prif-

fod sillau geiriau Cymraeg y ganrif hon yn wreiddiau cysefin; canys dengys yn ei erthygl ar *Babel* gryn amgyffrodiad am dreiglhad, diryw-
iad a chyfnwidiad iaith o oes i oes. "Galodd yr Hebreod Abraham,"
meddal, "a fu byw ymhlith y Caldeaid, deithio ymhlith y Canaancaid
a'r Philistiaid, a thrigo yn yr Aifft, heb deimlo unrhyw anhawedra
mawr i gyfeillachu â hwynt; eithr pan ddaeth brodyr Joseph i brynu
ŷd yn yr Aifft, bu rhaid wrth gyfeithydd rhyngddynt." Syniad
niweidiol iawn i Gymreigiaeth wyddonol yw'r grede hon ddarfod i'r
Gymraeg osgoi a diane effaith treiglhad amser ar bob iaith arall, canys
dysgir pobl i goleddu'r ofergoel fod y Gymraeg yn allwedd ac agoriad
i ansirif o ieithoedd. "Na chredwch air o honi," medd y Proffeswr
Ithys, "hyddai'r gwrthwyneb yn agosach at y gwir."² Mae
dadfoiliad seiniau (*phonetic decay*) wedi cymeryd lle ar raddfa eang
anghyffredin yn yr ieithoedd Celtaidd, ac yn enwedig yn y Gymraeg.

(Iau ganu'n iach, bellach, i'r hir-drafod ar ddylanwad ei oes ar
syniadau Charles o'r Bala am darddiad, sylwedd, ac ansawdd yr iaith
Gymraeg trafod na fuasai cyn feithed pe na osodasai awdurdod y
Geiriadur werth ac urddas uchel arnynt, fel ag i'w gwneuthur bron yn
daliadau unougred, a thrwy hynny ychwanegu at drafferth y rhai a
fynnent ddarbwylllo efrydwy'r ieuainc,—awn ymlaen i gymeryd cipolwg
ar arddull a phriod-ddull ein hawdwr, a gwelwn fod y damcaniaethau
ieithogol sydd hyd yn hyn wedi peri i ni gymeryd a eilw'r pregethwyr
yn wedd nacael ar Charles fel Cymreigydd, ar y llaw arall, yn esboniad
ar y safle uchel y mae'r awdwr wedi ei mwynhau fel ysgrifennwr
Gymraeg; canys, ac yntau'n coleddu opiniynau eithafol am burdeb
geiriadaeth y Gymraeg, amcanodd, a llwyddodd hefyd i wneyd
ei ryddiaith yn esiampl o Gymraeg ddiledryw, bur, a phriodol.
Fel y dywed *Cymru* (cyf. ii., tud. 310), "Nid yw yn annehilwng
o olynnydd hen gyfeithwyr y Beibl Cymraeg. . . . Dengys
chwaeth goethedig yn ei ddewisiad o eiriau, ac y mae yn ddi-
drangwydd ac yn ddirodres yn ffurfiad ei frawddegau. . . . Dichon
fod ei hoffder o'r iaith yn gymhorth iddo er talu y sylw priodol i'w
chfansoddiad." Cyrhaedda priod-ddull Charles, i radd helaeth iawn, y
nod a esyd efe, yn ei erthygl ar *Iaith*, fel y perffeithrwydd y dylai iaith
gyrohu ato; a gresyn na bu dylanwad Charles yn gryfach fel athraw
arddull. Mae traddodiad ymhlith fy nheulu ddarfod i Thomas Charles,
tra ar daith trwy Sir Benfro, ddweyd wrth fy hen-dadcu, pan ofynnodd
efe iddo pa fodd yr oedd ei bregethau mor syml, a'i ysgrifeniadau mor
ddyfnion, bod gan y darlennydd hamdden i fyfyrro, eithr mai rhaid
oedd i'r gwrandawr ddeall yn drwyadl yr hyn a lefarid ar y pryd. Gan
nad beth am y stori hon, mae'n amlwg mai'r pethau pennaf yr ymgeisiai
Charles atynt oedd eglurdeb, symlwrwydd, a chrynhoder. Ieithwedd ym-
ddiddan destlus sydd yn y *Geiriadur* o ben bwy gilydd. Anfynych iawn y
cyfyd i danbeidrwydd a hwyl araith neu bregeth, ac ni ddiagyn byth i

athraw Trefeca, ddyfod benben â'u gilydd, er nad oedd y Doctor, fel Goliath gynt
ond prin yn barnu fod y llanc yn haeddu ei sylw. Ond digon hawdd gweled mai
naturiol oedd oredu y pryd hynny y byddai chwyldroad barn ynghylch perthynas y
Gymraeg â'r ieithoedd ereill—ar yr un tir a diwygiad Galileo a Chopernicus mewn
Seryddiaeth—yn elyniaethus i grefydd ein cenedl, ac yn enwedig felly pan fwrriid
anghoel ar osodiadau'r goreuon o'n dyagawdwy'r.

² *Welsh Phil.* tud. 89.

iaith sathredig ar y naill law, ac ni syrth i rwysgfawredd gwag ar y llaw arall. Nid oes angen profi nad *Geiriadur* yw'r cyfansoddiad goreu i ddynddangos ynddo ei allu ar ymadrodd ac ysgrifennu; canys y mae amser a gofod yn ei gwneyd yn gyfyng arno o bob tu. Heblaw hyn yma, ni edrychir chwaith ar *Éiriadur* fel ysgol o ryddiaith, canys pan fyddo yr erthyglau yn doreithiog o ffeithiau, ni thâl y darllenydd fawr sylw at y gelfyddyd a arferir i'w gosod allan, ac y mae cydgyssylltedd a chydlynriad y meddwl a'r ymadrodd yn cael ei dorri yn barhaus gan gyfeiriadau at erthyglau ereill, nodiadau cromfacyddol, a throed-nodion. Ond er hynny, y mae lliaws o erthyglau meithaf Thomas Charles, megis y rhai ar *Moses* a *Paul*, yn draethodau dillyn a chaboledig, Prinion yw geiriau Saesneg ar draws y llyfr, a braidd y ceir un yno heb fod mewn cromfachau i egluro gair Cymraeg anghynhefin a ddefnyddir, megis yn yr erthygl *Llygad*. Yn achlysurol, ni a gawn sylwadau ar yr ymadroddion a farna ef yn briodol eu defnyddio. Yn yr erthygl *Nod*, darllenwn, "Hyd yn nod a gam-ysgrifennir, yn aml, *hyd yn oed*; ond yn dra anaddas; megis, "*Hyd yn oed* meini tywyllwch a chysgawd angeu," Job xxviii. 3. "*Hyd yn oed* y wisg, &c.," Iudas 23.*

Fe'n harweinir yn ol, gan y mater olaf hwn a grybwyllwyd gennym, at bwnc dyddorol a phwysig yr ydym eisoes wedi cyfwrdd ág ef, sef perthynas Thomas Charles fel Cymreigydd â'r Beibl Cymraeg. Gwyddys yn lled gyffredin ddarfod iddo, pan yn paratoi yr argraffiad Cymraeg cyntaf dros y Feibl Gymdeithas, gymharu wyth argraffiad Cymraeg ac wyth o rai Saesneg. Yn ddiddadl, bu ei waith cyfochrog wrth y *Geiriadur* a'r Argraffiad hwn yn ei gymhwyso at bob un o'r ddau orchwyl, a chyfrifa am fanylder ei sylw ar wallau yn argraffiadau cyffredin ei oes. Ond nid oes ganddo air o feirniadaeth ar y gair hwnnw sydd, ys dywed Silvan Evans, wedi trafferthu golygwyr rhagor un gair arall yn yr Ysgrhythrau Cymreig, sef "yr Iddewon *anghredadwy*" (Act. xiv. 2), fel y cyfieithodd Morgan (1588), gan ddilyn Salesbury (1567), h.y., "a'r ni chredynt." Mae distawrwydd Thomas Charles o hynny yn fwy nodedig am ddarfod iddo ef beri troi *anghredadin* Parry (1620), yn *anghredadin* yn argraffiad 1814, a hynny hefyd yngwyneb y ffaith fod *anghredadwy*—y gair yr oedd awdurdod Dr. Morgan wedi ei wneyd yn safonol, ac oedd wedi ei fabwysiadu gan "yr awdwyr mwyaf difrifedig a hyddysg," Edward James, Charles Edwards, Edward Samuel, a Theophilus Evans—wedi ei ddychwelyd yn ol i Argraffiad 1799.† Gan nad oes a fynno'r *Geiriadur* â'r Apocryffa, nid

* Yohydig yn ol ysgrifennodd ty nghyfaill y Paroh. W. Jenkyn Jones, Quimper, llythyr i'r misolyn *Oymru*, yn ceisio oefnogi a chadarnhau yr ymadrodd *hyd yn nod* trwy gyfatebiaeth y Ffrancog *jusqu'au point*. Ond, ysywaeth, nis gallwn oddiwrth y fflur sydd ar gael a chadw mewn llawysgrifau oddiar pan oedd seiniad geiriau Cymraeg yn fanwl a chywir. Darlener, gan hynny, nodyn y Pwyllgor Orgraffyddol ar *hyd yn oed*: "y fflur y cyfarfyddir â hi bob amser yn hen lyfrau," o Lyfr yr Anor (1846) hyd at yr hen argraffiadau o'r Beibl. Erbyn heddyw, gwaetha'r modd, mae y rhan fwyaf o'n Beibla wedi dioddef y gwelliant tybiedig mympwyol ac anawdurdodol hwn." Hwyrach fod *hyd yn nod* yn un o'r ychydig olion sydd eto ar gael o ddiwygiadaeth Charles o'r Beibl Cymraeg. (Gwel Ashton, *Llennyddiaeth Gymreig*, tud. 381).

† *Dictionary of the Welsh Language*, (A—C, 1893), s.v. *Anghredadwy*. Gyda phob paroh i Gymreigyddion cyfoesol, rhyfeg a fyddai collfarnu *anghredadwy*, ac afreidiol, gan hynny, yw adferiad Dr. John Hughes o *anghredadin* (Esb. *Actau*), *anghredinol* Tegid (1828), ac awgrym Gwallter Mechain mai cymwys fyddai *anghred* (Gwaith G. M. ii., 546).

oes yma gyfeiriad at wall argraffyddol a barhaodd oddiar gyhoeddiad Beibl Parry, sef fod *cedryn* Dr. Morgan (*unigol cedr*) wedi ei wyrdroi yn *cedryn* yn yr adnod "Fel *cedryn* Libanus y derchafwyd fi, ac fel cupreswydden ym mynydoedd Hermon" (Eccles. xxiv. 13).^{*} Ond yn yr erthygl ar *Jacob* gelwir sylw at y cyfnewidiad a wnaethid yn Gen. xxxii. 32, yn yr holl Feiblau wedi argraffiad Dr. Morgan, oddigerth Beiblau 1727, 1769 [ac 1814], trwy adael allan enw *Jacob*. Felly ni a gawn, "cyffwrdd a chysswllt y forddwyd ar y gewyn a giliodd," yn lle "cyffwrdd a chysswllt morddwyd *Jacob* ar y gewyn a giliodd." Ysgatfydd mai sylwadau Thomas Charles dan y gair *Lladron* a barodd i Wallter Mechain roi cymaint o le i gyfieithiad camarweiniol Parry o Luc xxiii. 32, sef, "Ac arweiniwyd gydâg ef hefyd ddau ddrwg-weithredwyr ereill, i'w rhoi i'w marwolaeth,"—lle y mae trefn y geiriau, fel y sylwyd gan amryw, yn awgrymu nad oedd ein Bendigaid Arglwydd ei Hun amgen drwg-weithredwr. Morgan a gyfieithasai, "Ac fe a ddygwyd dau ereill, y rhai [oeddynt] ddrwg-weithredwyr i'w rhoi i'w marwolaeth gydâg Ef." Tegid a gywirodd ymadrodd Parry felly, yn argraffiad Gwasg Clarendon, Rhydychen (1826), "Ac arweiniwyd gydâg Ef hefyd, ddau eraill, drwg-weithredwyr, i'w rhoi i'w marwolaeth." Dywed James Hughes mai "felly y mynai T. Charles eu ddarllen" (Test. New. i., 299). Ond prin y gellir rhagori ar Morgan, gan ei fod yn berffaith gyson âg atalnodiad Testyn Groeg y Cyfieithiad Diwygiedig Saesneg: ἦγοντο δὲ καὶ ἑτεροὶ δύο, κακοῦργοι, σὺν αὐτῷ ἀναπεθῆναι (ac arweiniwyd hefyd ddau eraill, drwg-weithredwyr, i'w rhoi i farwolaeth gydâg Ef).

J. YOUNG EVANS.

SYR LEWIS MORUS.

Henffych i SYR LEWIS MORUS,
Y Marchog gwladgar pŕ ei gân :
Ni ellir mawredd fo 'n rhy glodus
Ar Fardd enwocaf Cymru Lân.

^{*} *Ibid* s. v. *Cedryn*.

Y DDAU DDADSEFYDLU.

YN ol y traethiad oraclaidd â pha un a ffafriwyd y byd y dydd o'r blaen gan Arglwydd Salisbury yn Bradford, yr ydym wedi dyfod i sefyllfa ryfedd. Y mae y gweithwyr wrth y myrddiynau heb ddim i'w wneyd, a'r rhai y mae a fynnant â'n tiroedd mewn dirfawr gyfyngder; ac eto ni all Llywodraeth y wlad hon gymeryd un sylw o'honynt, gan mor brysur y mae yn chwalo Ymerodraethau, yn dad-sefydlu Eglwysydd, ac yn dinstrio bywoliaethau deiliaid fyddlawn a gonest y mae ganddynt bob hawl i'w hystyriaeth a'u hamddiffyn! Nid rhyfedd fod llawer wrth ddarllen ei araeth yn rhwbio eu llygaid i gael boddlonrwydd ai yr hyn oedd o'u blaen oeddent yn weled, ac yn deffro eu meddwl i geisio gwneyd allan pa un ai ynghwsg ai yn effro yr oeddent, a pha un ai o fewn muriau Bedlam ai yn un o gyfarfodydd y *Primrose League*, fel y dywedid, yr oedd y fath eiriau dieithr wedi eu llefaru. Mae yn ddiameu fod llawer allan o waith, ac fod llawer o'r amaethwyr mewn amgylchiadau cyfyng; ond a allai y Llywodraeth wneyd llawer er gwella eu sefyllfa? Ac yn enwedig a amcanodd y Llywodraeth, pan yr oedd y pendefig hwnnw ei hun yn Ben arni, a phan oedd y dioddef yn llawn cymaint, os nad yn fwy, wneyd rhywbeth tuag at leddfu eu trueni? Ac a oes ganddo ef a'i gyfeillion, yn awr, olwg ar ryw ffordd o ymwared rhag y cyfyngder? Fe allesid meddwl fod cydymdeimlad ei Arglwyddiaeth yn ddwfn iawn â'r amaethwyr. Ac eto, onid yw efe a'i gyfeillion yn barhaus yn gwneyd eu goreu i wrthwynebu pob cynhygiad a ddygir ymlaen er gwella sefyllfa yr amaethwr, am y golygir fod hynny, ryw ffordd neu gilydd, yn cyfyngu ar yr hyn a ystyrir fel hawl ddwyfol y tîrfaddiannwr i fynnu ei hatling eithaf yn y rhent, beth bynnag allo fod y chwyldroad sydd wedi cymeryd lle yn y marchnadoedd? Os nad ydyw enillion llongau yr hyn a fu, rhaid i'r rhai sydd yn eu meddu sefyll yn eu colled; ond er fod prisiau pob nwyddau amaethyddel wedi gostwng yn ddirfawr, eto fe ddeil y Blaid Gyfansoddiadol Fawr na ddylai ei harglwyddi hi fod yn ol o'r un geiniog a delid iddynt ym mlynnyddoedd y llawnder mwyaf, a myn fod pob amcan i estyn ymwared i rai ag y mae eu hwynebau, yn ol iaith y proffwyd, yn cael eu "malu" gan orthwrwm, i'w wrthwynebu fel lladrad ac ysbeiliad. Mae gwasgfaeon ar wahanol alwedigaethau yn dyfod yn ffordd Rhagluniaeth Duw mewn ffordd nad allwn ni yn fynych mo'u hesbonio na'u goruwchlywodraethu; ac er pob ymdrech a wneir i leddfu y dioddefaint sydd felly yn cael ei achosi, eto y mae y trueni a brofir yn fawr, fel y mae hefyd, i fesur helaeth, yn anocheladwy. Ond y mae i'r blaid a fyddo allan o awdurdod ar y pryd, briodoli pob helbul a ddigwyddo i Lywodraeth y wlad, yn ddirfawr ffolineb. Teimlai Arglwydd Penrhyn, yng nghadair cyfarfod mawr Undebwyr Gogledd Cymru yn y Penrhyn Hall y 9fed o Fawrth, fod y Llywodraeth yn "deilwng o'r dirmyg mwyaf" am nad oedd ar unwaith yn gallu cael Jabez Balfour i sefyll

ei brawf. Ni fuasai waeth i'w Arglwyddiaeth ei dal yn gyfrifol yr un modd am y rhew caled oedd ar y pryd wedi ffynnu yn gymaint, a pheri cymaint o ddioddef. Mynnai Esgob Llanelwy yr un modd, mewn cyfarfod mawr a gynhaliwyd yn Llundain i ddangos cydymdeimlad â'r dioddefwyr yn Armenia, fynyed ar draws pob terfynau i roddi y bai am hynny hefyd ar y Llywodraeth, yr hon oedd wedi bod mor ryfygus a dwyn i mewn fesur nad oedd efe yn gymeradwyo; ond er fod y cyfarfod hwnnw yn bopeth ond politicaidd, a'i gyfeillion ef ei hun mewn nerth yn bresennol ynddo, a'r Duc o Westminster yn y gadair, fe fynnodd y bobl ddangos eu dwfn anghymeradwyaeth o'r fath ddybryd ffolineb a natur ddrwg, "*and he was holed down.*" Yr oeddynt yn anfoesgar, bid siwr, wrth oernadu i'w eisteddle wr mor urddasol; ond feallai fod yn dda iddo ef gael gwerau ymarferol o'r fath er dysgu pa fodd y dylai ymddwyn ar lwyfannau; ac nid oedd yn niwed i'r dorf fawr honno gael un engraifft o'r dull y mae efe yn barhaus yn cythruddo ei gydwladwyr, ac felly yn gwneyd mwy na neb arall tuag at brysuro y diwedd y mae efe ei hun yn ei ofni yn gymaint, ac yn ymladd mor egniol er ceisio ei gadw draw. A llawn mor ddireswm oedd gwaith Arglwydd Salisbury yn dal y Llywodraeth yn gyfrifol am gyfyngderau sydd yn dyfod yn ffordd Rhagluniaeth, ac nad ellir eu hosgoi.

A pheth allai fod yr amcanion gwylltion y cyfeirid atynt dan yr ymadroddion mawrion a ddefnyddiai ei Arglwyddiaeth, fel pethau oedd i'r fath raddau wedi meddiannu Llywodraeth bresennol ei Mawrhydi? Yn enw y proffwyd,—*ffigys*. Mae'r mynyddoedd mewn gwewyr, ond yn esgor ar lygoden! Mae y mesur o Lywodraeth Gartrefol a gynhygir i'r Iwerddon mor bell oddiwrth bob posibilrwydd o beri ysgariad rhwng y wlad honno a hon, fel, mewn gwirionedd, y mae gennym bob lle i ddisgwyl y gwnai yr undeb rhyngddynt yn llawer mwy agos, a byw, a chynnes nag y bu erioed. Am Ddadsefydliad yr Eglwys—yr Eglwys nad yw, na fu, ac na fydd byth yn Eglwys Cymru,—fe allsid meddwl y dylasai efe, sydd yn teimlo yn gymaint dros y rhai sydd yn dioddef, lawenhau yn y fath fesur o gyfiawnder i werin nad oes dan haul yr un sy'n fwy rhinweddol, a mesur a gynhygia ddefnyddio cyllid nad yw yn awr ond yn gwasanaethu dyrnaid o bobl, a'r rheiny yn rhai a allent yn hwylus wneyd hebdol, er ysgafnu beichiau y trethdalwyr, a helpu dyrchafiad yr holl boblogaeth. Am y Fasnach Feddwol, y cynhygir ym mesur y Llywodraeth adael i'r wlad gael gallu i gadw ychydig wastrodedd arni, y mae yn anamgyffredadwy sut y mae gwr sydd yn teimlo cymaint dros y tlodion a'r rhai sydd yn dioddef, heb allu gweled yn y mesur ardderchog hwnnw ddim oll ond amcan i ddinstyrio bywoliaethau deiliaid gonest a ffyddlon. Y mae ein gwario a ddiodydd meddwol bob blwyddyn yn *saith ugain miliwn o buniau*, neu yn £18 ar gyfer pob teulu o bump o'r holl boblogaeth. A all rhywun amgyffred faint o ymwared i'n gwlad fyddai cael y cyfoeth anferth yna, a werrir ar ein dinstyr, i gynorthwyo ein cynhaliaeth, a gweini ar ein cysuron? Mae y barnwyr yn barhaus, ac mewn dwfn ddirifwch, yn datgan fod naw o bob deg o'r troseddau a ddeuant ger eu bron, yn codi o arfer diodydd meddwol, a phe ceid ymwared o'r felltith hon, na fyddai ganddynt hwy nemor

ddim i'w wneyd, ac y gellid cau bron ein holl garcharau. A oes rhyw bris a ellid osod ar hynny ? Ac heblaw yr afiechyd, a'r gwallgofrwydd, a'r myrddiwn o anghysuron a achosir trwy ymyfed, y mae cyfrif y Dr. Norman Ker—cyfrif ag y mae pawb sydd wedi mynd iddo yn ei gydnabod yn feistrolgar, ac islaw yn hytrach nag uwchlaw'r nod—yn dangos fod lladdedigion ymyfed yn y deyrnas hon, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, yn *chwech ugain o filoedd* bob blwyddyn ! A pheth a gynhygir ? Dim byd, ond bod y bobl ag sydd, pan mae y tafarnau yn eu plith, yn rhy weiniaid i wrthsefyll eu hudoliaeth, yn cael gallu, trwy fwyafrif mor fawr a *duy ran o dair* i ddweyd nad oes dim tafarnau i fod yn eu hardaloedd ; neu os byddant yn dewis lleihau eu nifer, y gellir gwneyd hynny os bydd *myyafrif* y trethdalwyr yn galw am dano. Mae'n wir y parai y cyfnewidiad beth colled i bobl y fasnach, sydd yn gwneyd anferth elw ar ddirywiad a dinystr eu cydwladwyr ; ond beth am yr ennill, yr anesurol ennill, a hynny yn yr oll sydd werthfawr ym mwynhad y presennol ac yng ngobeithion y dyfodol, a barai i'r miliynau, ac i'r oesoedd ? Dywed Arglwydd Salisbury mai yr unig reswm fod y Llywodraeth bresennol yn dyfod a'r mesurau y cyfeiriwyd atynt ymlaen, ydyw am ei bod eisieu sicrhau *votes* y gwahanol bleidiau er ei chadw hi mewn awdurdod. Nid ydyw y boneddigion hyn, fe'n dysgir, yn malio dim am yr amcanion ag y mae pobl y deyrnas wedi eu gosod lle y maent er eu cario allau ; ond y *mae* arnynt eisieu aros lle y maent er mwyn yr elw a'r uchafiaeth ; ac am hynny hwy a roddant i bob adran o'u dilynwyr bopeth y dewisant gegu am dano, er cael mwynhau eu meinciau esmwyth ychydig yn hwy, a phocedu ychydig yn ychwaneg o gyfoeth y wlad. Yr ydym yn dirmygu eich athrod, fy Arglwydd, ac yn ei ystyried yn warth ar ein gwareiddiad—heb son am y pethau mwy ag yr ydych chiwi ambell dro yn anturio eu praegethu—fod gŵr o'ch sefyllfa chwi yn myned i lawr i'r fath fudreddi ! Ond fe wŷr pawb am Gyngrair y Bŵr a'r Bibl, ac fel y mae pobl y ddiod bron i gyd yn filwyr glewion dros gadw popeth fel y maent, a'r holl dafarnau yn glybiau i'r Toriaid ; ac felly naturiol ydyw iddynt hwythau deimlo y dylent wneyd eu rhan er eu ham-ddiffyn. Dywedai y diwoddar Arglwydd Randolph Churchill, oedd ei hunan yn Gsidwadwr, ond a gredai fod masnach y ddiod yn “ ddielfig a dinystriol,” fod y fasnach honno, ar yr adeg yr oedd efe yn llefaru, yn cadw dan ei harawyd ddwy ran o dair o Seneddwyr y deyrnas. Ond er cystal fyddai cadw yn ddiiddig y bleiddiaid hyn, sydd a'u newyn mor anniwall, y mae lluchio yn ddibris iddynt yr holl eiddo, yr holl ddaioni, a'r holl fywydau gwerthfawr yr ydym, fel y sylwyd, yn barhaus yn wneyd, yn *ormod* ; ac y mae yn bryd i ni gael sefyll a dweyd wrth y trychineb mawr, “ Hyd yma y deui, ac nid ymhellach.”

Onid heb aros yn hwy ar faldordd y pendefig, ym yn dda gennym eto alw sylw at yr ymdrech bwysig a wna ein Llywodraeth y dyddiau hyn er ceisio dadsefydlu y Ddau Sefydliad ag y mae eu hanghyfiawnder a'u gormes wedi peri cymaint trychineb,—yr Eglwys yng Nghymru, a'r Dafarn trwy yr holl deyrnas.

I.

Ni raid hysbysu neb o ddarllenwyr y TRAETHODYDD, pan defnydd-iwn y gair “ Eglwys ” yn y cysylltiad yma, ein bod yn anesurol bell

oddiwrth feddwl am y Gymdeithas Lân a wneir i fyny o'r rhai sydd mewn undeb â Christ, "yn cyfatal y Pen, o'r hwn y mae yr holl gorf, trwy y cymalau a'r cysylltiadau, yn derbyn lluniaeth, ac wedi ei gyd-gysylltu, yn cynhyddu gan gynnydd Duw." Am bawb, ymhob cymundeb, sydd yn dangos eu bod yn perthyn i honno, dywedwn, "Gwynfydedig wyt, O Israel; pwy sydd megis ti, O bobl gadwedig gan yr Arglwydd; tarian dy gynhorthwy yr hwn hefyd yw clddyf dy ardderchowgrwydd!" Ond fe wyr pawb fod y gair yma yn cael ei ddefnyddio o hyd am y Sefydliad a adwaenir fel Eglwys Loegr yn ein gwlad, sydd yn honni olyniad Apostolaidd; yn dal dwyfol awdurdod y ffurfiwodraeth Esgobyddol; yn credu uwchlaw popeth yn y Sacramentau; yn datgan mai hi yn unig sydd yn wir Eglwys i Grist, ac nad yw pawb y tu allan iddi ond sismaticiaid; wedi ei sefydlu gan y Wladwriaeth, ac fel y cyfryw yn cael ei chynnal, a hynny yn orfodol, ar draul y boblogaeth oll, er nad oes ond cyfran fechan iawn o'r boblogaeth yn cydnabod ei gwasanaeth, nac i'w gweled un amser o fewn ei magwrydd. Dyna y nodau, y pethau hanfodol, y rhai a bregethir yn barhaus, ac yr ymddengys eu bod yn gosod arnynt holl bwysau eu hymddiried. Am y pethau mawrion y mae y GAIR yn gosod arnynt y fath ddirfawr bwys, —undeb â Christ, preswyliaid yr Ysbryd, calon lân, a buchedd anctaidd, —nid ymddengys fod yn werth gan y bobl barchus hyn drafferthu nemawr yn eu cylch. Tra y mae y pethau ereill yn barhaus ganddynt yn cael eu "pregethu ar bennau'r bai," prin y ceir crybwylliad am y rhai hyn. Darfu i un Ymneillduwr parchus a adwaenom, pan oedd y Congress yn Rhyl, gymeryd tocyn am yr holl gyfarfodydd, a phenderfynu eu dilyn mor gyflawn ag y gallai; a thystiai na wnaeth ddim erioed yn fwy diragfarn; ei fod o galon, os gwelai eu bod yn amcann at wasanaethu yr Arglwydd, yn barod i ddymuno iddynt Dduw yn rhwydd. "Ond ymhell," ychwanegai, "cyn i'r wythnos ddyfod i ben, fe'm dygwyd i deimlo, os oeddwn am fod yn ffyddlawn i Grist, fod yn rhaid i mi fod yn erbyn Eglwys Loegr yng Nghymru; nid oedd yno ddim i'w gael, o'r dechreu i'r diwedd, ond yr Eglwys, a'r Eglwys, a'r Eglwys, a *pholitics*, a dadgysylltiad, a dilorni a dweyd anwireddau ar yr Ymneillduwyr, a thrin yn ddiffino bethau nad oedd a fynnent o gwbl â chrefydd o duwioldeb; yn wir, oni bai am bapur yr Archddiacon Howell ar Weddi, fe fuasai y cwbl wedi mynd heibio heb i mi deimlo fod a fynnai y cynulliadau o gwbl â phethau mawrion teyrnas Dduw." Ac yr ydym ni, yn bwyllog ac ystyriol, yn gorfod dyfod i'r casgliad, nad ydyw eu pethau mawrion yn fawrion o gwbl; yn wir nad ydynt yn ddim. *Gwyddom* fod dangos fod cadwyn yr Olyniad Apostolaidd yn "ddi-dor," yn amhosibl; a phe byddai yn bosibl, nad allai, yn eu hystyr hwy, fod o ddim gwerth. *Gwyddom* hefyd, fel y dangosom yn y TRAETHODYDD am Ionawr diweddfaf, fod haeru ei fod yn "hysbys i bawb yn dyfal ddarlain yr Ysgrythyr Lân a hen awdwyr, fod y tair gradd o Esgob, Offeiriad, a Diacon yn yr Eglwys er dyddiau yr Apostolion," yn groes i'r gwirionedd, ac y rhaid olrhain tarddiad y cyfryw raddau, yn eu hystyr hwy, i gyfnod llawer diweddarach, a chyfnod nad oes ynddo ond ychydig iawn, yn wir, a all hawlio ein gwarogaeth. *Gwyddom* hefyd,—tra yn edrych ar y Sacramentau, fel pethau a ordeiniodd Crist, gyda dwfn barch, ac yn diolch am danynt fel i ffydd

yn foddion effeithiol o ras,—eto nad ydyw yr honiadau a wneir fod Bedydd, o'i weinyddu gan un sydd wedi ei urddo gan Esgob, yn ail-enedigaeath, a Swper yr Arglwydd, yr un modd, yn offrymiad corff Crist mor wirioneddol â'r un a wnaed ar y groes, &c., &c.,—gwyddom nad ydyw hyn oll ond oferedd. Ac am yr hyn a honnir i'r cymundeb bychan hwn, ei fod yn Eglwys Crist yn y fath fodd fel ag i ddi-eglwysu pob cymundeb crefyddol arall, a gwneyd pawb y tuallan iddo, pa mor sanctaidd bynnag, yn sismaticiaid a hereticiaid,—honiadau a wneir yn ddiffoesgni, i.e. pan ddanghosir cymaint amddifadrwydd o'r "ffrwythau" wrth ba rai y myn Efe ei Hun fod ei ddisgyblion i gael eu hadnabod; tra y gwedir fod pobl ereill, sydd yn ymaflyd yn yr addewid, "Lle byddo dau neu dri wedi ymgynnull yn fy enw, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt," ac yn dwyn ffrwyth er ei ogoniant, yn bobl iddo o gwbl,—am honiadau a haeriadau o'r fath, nid oes gennym ond dweyd nad oes rith o sail iddynt yn y Gair, a'u bod hefyd yn ddi-reswm ac yn annuwiol. Eto dyma y pethau, wedi eu gosod ynghyd, a chwaneu atynt y drychfeddyliau unawrion o *sefydliad*, neu "gysylltiad sanctaidd Eglwys a Gwladwriaeth," ys dywedai yr Archddiacon Thomas Williams; ynghyda *gwaddoliad*, yr hyn a wna y fywoliaeth i'r Person yn "*freehold*," chwedi Ficer Llanidloes, ac a'i cyfyd i dir na raid iddo falio am neb,—dyma y pethau sydd, gyda'u gilydd, yn gwneyd i fyny eu syniad gogoneddus am Eglwys, ac yn peri iddynt yn eu holl gyfarfod-ydd politicaidd, ac yn eu holl odfeun—neu yn ol Cymraeg clasurol un o honynt, eu "gwasanaethau" politicaidd, ganu fel pobl yn gallu herio uffern a'r holl Ymneillduwyr,

The Church's one foundation
Is Jesus Christ her Lord, &c.

Gyda llawn cymaint o briodoldeb,—ac ystyried mor wag ydyw hyn oll o ysbryd crefydd,—y gallent roddi gollyngiad i'r agerdd sydd yn ymlanw yn gymaint o'u mewn ar y materion hyn, er mor farw gyda phopeth arall, yn yr emyn a fu, un adeg, mor uchel yn ffafir eu brodyr,—

We don't want to fight,
But by Jingo if we do, &c.

I'r graddau y gallont fod yn dal at "wreiddyn y mater," ac yn mawrhau eu perthynas ag "eglwys y Duw byw, colofn a sylfaen y gwirionedd," ac felly yn ymgodi i diriogaeth anfesurol uwch na'r pethau gweigion y maent yn awr yn barhaus yn brygawthan am danynt, teimlwn tuag atynt barch a dwfn gariad. Ond onid ydyw yr Archddiacon Howell, yn yr ystyr yma—o leiaf o'r rhai ag y clywir eu lleisiau,—bron yn *vox clamantis in deserto*, a'i frodyr, yn ysbryd y doethion a'r Epicuriaid a'r Stoiciaid gynt yn Athen, yn barod i ofyn, "Beth a fynnai y siaradwr hwn ei ddywedyd?" Yr ydym yn berffaith sicr mai nid y pethau y maent hwy yn osod yn y ffrynt, ydyw pethau mawrion yr Efyngyl. Y mae llawer o'n darllenwyr yn cofio iddynt ddarlenn yn ein Rhifyn diweddaf nad allai y Dr. Arnold edrych ar Newman a'i blaid ond fel eilunaddolwyr, "gan eu bod yn gosod Eglwys Crist, Sacramentau Crist, a Gweinidogion Crist yn lle Crist ei Hunan." Drachefn dywedai: "Y mae dadleu am yr angenrheidrwydd o Esgobyddiaeth yr un peth a dadleu am yr anghenrheidrwydd o

enwaediad ; y mae ac yr oedd y ddan yn gyfreithlawn ; ond dywedyd fod y naill neu y llall yn angenrheidiol sydd anghristionogol, ac yn rhwymu yr eglwys dan iau ordinhadau cnawdol ; ac y mae y rheswm pahan y dywedwyd nad oedd enwaediad yn rhwym ar Gristionogion, er ei orchymyn unwaith, yn llawer cryfach yn erbyn natur rwym Esgob-yddiaeth, yr hon ni orchymynwyd mewn un modd erioed." Ond os ydyw y bobl ddsagedig yma yn teimlo nad yw bywyd yn werth ei fyw heb iddynt gael ymroddi, gyda sêl merthayron, i bregethu "y pethau gweigion hyn"—fel yn ddiameu y buasai yr Apostol Paul yn eu galw,—nid oes ond gadael iddynt, gan obeithio y cânt, cyn hir, amgenach "deall," a defnyddio eto air yr un Apostol mawr, "yn nirgelwch Crist." Y mae tri pheth, fodd bynnag, yn berffaith glir. Yn gyntaf, y mae y peth mwyaf anobeithiol mewn bod iddynt feddwl am allu byth argyhoeddi y Cymry i gredu y filoregau y maent gyda'r fath ddyhewyd yn osod o'u blaen. Trwy ddysg y rhai ag y cydnabyddai y diweddar Arglwydd Penrhyn a'r diweddar Arglwydd Aberdâr eu bod wedi cadw y wlad rhag suddo—dan ddwyllaw Olynwyr yr Apostolion—i baganiaeth, y mae ein cenedl hoff wedi ei gwreiddio yn annhraethol rhy ddwfn yngngwirioneddau mawrion y Llyfr Sanctaidd i feddwl am ddyhwelyd "at yr egwyddorion lleag a thlodion" y mynnai y boneddigion hyn iddynt bwysu arnynt am eu hiachawdwr-iaeth. Yn ail, y mae yr un mor amlwg ei fod yn hollol anghyfiawn fod Eglwys, nad oes reswm am ei bod ond fel Eglwys Brotestanaidd, wedi llithro yn ei holl hanfodion i fod yn Eglwys Bahaidd, ac eto yn dal ei gafael fel o'r blaen yn holl fuddion ei sefydliad fel Eglwys Brotestanaidd. Yn drydydd, ac yn neillduol, y mae y peth mwyaf direswm dan haul fod Eglwys yn mwynhau manteision nad oes reswm a ellir roddi am danynt ond fel cydnabyddiaeth am wasanaeth i'r holl genedl, ac eto heb fod ond ychydig iawn o'r genedl, ac mewn rhai plwyfydd prin neb, yn derbyn y gwasanaeth hwnnw, a hynny, nid am fod y bobl yn baganiaid, ond am eu bod, a chan wybod beth y maent yn wneyd, yn gosod llawer mwy o werth ar fanteision ereill a fwyhant, ac ar draul eu cariad Cristionogol eu hunain, tra y mae y gagendor rhyngddynt a'r Eglwys y mae y Wladwriaeth wedi osod yn eu plith yn lledu fwyfwy.

Dyma y rheswm am y mesur mawr y mae Llywodraeth y wlad hon, o'r diwedd, wedi teimlo fod yn amhosibl ei gadw yn ol yn hwy, er rhoiddi terfyn ar gamwri mor waradwyddus trwy Ddadsefydlu a Dadwaddoli Eglwys Loegr yng Nghymru, yr hwn a eglurwyd mor gyflawn gonnym yn y Rhifyn diweddaf o'r TRAETHODYDD yn ein herthygl ar Yr Ail Ddarlleniad.

Nid oedd neb yn disgwyl na chodid dirfawr wrthwynebiad i'r mesur pan ei dygid o flaen Fwyllgor Ty y Cyffredin. Felly erioed. "A bu ar yr awser hwnnw drallod nid bychan ynghylch y ffordd honno. Canys rhyw un a'i enw Demetrius, gôf arian, yn gwneuthur temlau i Diana, oedd yn peri elw nid bychan i'r crefftwyr ; y rhai a alwodd efe ynghyd, a gweithwyr y cyfryw bethau hefyd, ac a ddywedodd, Ha wŷr, chwi a wyddoch mai oddiwrth yr elw hwn y mae ein golud ni ; chwi a welwch hefyd ac a glywch, nid yn unig yn Ephesus, eithr agos dros Asia oll, ddarfod i'r Paul yma berswadio a throi llawer o bobl ymaith,

wrth ddywedyd nad yw dduwiau y rhai a wneir â dwylaw. Ac nid yw yn unig yn enbyd i ni, ddyfod y rhan hon i ddirmyg, eithr hefyd cyfrif teml y dduwies Diana yn ddiddym, a bod hefyd ddistrywio ei mawrhydi hi, yr hon y mae Asia oll a'r byd yn ei haddoli. A phan glywsant, hwy a lanwyd o ddigofaint, ac a lefasant, gan ddywedyd, Mawr yw Diana yr Ephesiaid." Ac felly byth : o leiaf tra bydd y ddynoliaeth dlawd yn rhy ehud i allu gweled mewn amcanion mawrion, tragwyddol, ddim a all orbwyso y mymryn mantais dymhorol a fwynheir ar y pryd. Yr oedd y "gwelliantau" a osodasid ar y papur pan ddechreuodd y Pwyllgor ar ei waith, yn bedwar cant o nifer; a chodi y maent yn barhaus, yn ddiamedlawd, fel y chwyn. Dyma y ffordd sydd gan apostolion Diffyniad yr Eglwys yn y Ty i ddangos eu crefyddolder. Ond y mae yn dda gennym weled fod y Llywodraeth, er yn dra ymarhous, yn delio â hwynt â llaw gref, ac fod ei byddin bybyr yn dal ei ffordd gyda glewder sydd yn foddlonrwydd lled sicr y cerrir y mesur cyn diwedd y tymor trwy Dy y Cyffredin. Os dewisa yr Arglwyddi ei wrthod, wel,—yr Arglwyddi gaiff dalu y gost!

Am y doraeth o'r gwelliantau, nid ydynt yn ddim ond amcanion i lesteirio y Llywodraeth a rhwystro yr amcan. Ond y peth ar lun egwyddor, ag y gosodir arno fwyaf o bwys, ydyw y syniad fod yr eiddo yn eiddo yr Eglwys fel y cyfryw, ac fod son am ei dadwaddoli yn gymaint o ysbeiliad ag a fyddai cymeryd oddiar yr Ymneillduwyr unrhyw waddoliadau a allo fod yn eu meddiant hwy. Gwelsom fod un gŵr Eglwysig ym Môn, oedd wedi digwydd cael ei ethol ar Gyngor ei Blwyf, yn cymeryd mantais ar ei sefyllfa arhydeddus i roddi gwers i'w gydwladyr ar anfadrwydd eu hamcan mewn perthynas i'r Eglwys, trwy gynnyg, Fod yr Ymneillduwyr yn cael eu dadwaddoli! Diameu ei fod yn dychmygu ei fod yn gwneyd peth gwych dros ben, ac fod ei ddadl, na ellid cyfwrdd â gwaddoliadau yr Eglwys chwaith ond trwy ymosod arnynt mewn ffordd ysbeilgar, yn anatebadwy. Ond nid oedd perygl i'r un o'r Monwysion gael ei gamarwain am drawiad gan y fath ynfydrwydd. "Mae y cyrff hyn," meddai Mr. Gladstone am yr Ymneillduwyr, "o natur cymdeithasau preifat, tra y mae cyllid yr Eglwys yn eiddo cenedlaethol:" *the funds of the Church are national property*. Ac nid oedd dim un a wrandawai ar ffolineb y person y cyfeiriwn ato, nad oedd ei synwyr cyffredin yn dweyd wrtho yr un peth. Gwelsom hefyd fod Esgob Bangor yn datgan yn anffaeledig mewn un cyfarfod nad oedd cymaint ag un awdurdod uchel a ellid ddwyn ymlaen i brofi nad oedd yr eiddo oedd ym meddiant yr Eglwys yn perthyn yn briodol i'r Eglwys ei hunan. Druan o Esgob Bangor. Pe buasai y bechgyn oedd dan ei ofal yn y Friars neu yn Aberhonddu, mor garbwl yn eu hanes ag ydyw yr Athraw wedi ei drawsffurfio yn Esgob, mae arnom ofn y buasai yn ddrwg arnynt. Ychydig amser yn ol, yr oedd yn sicr na ddelai Dadsefydliad yr Eglwys yng Nghymru am lawer o flynyddoedd *within the range of practical politics*; ond yn y fan dyma fe wedi dyfod, ac yn llanw yr holl gyleh. Yng nghynhadledd fawr Castell y Penrhyn, dywedai nad oedd y datganiad a roisai y Cymry ar Ddadsefydliad yn yr etholiad diweddaif yn ddim ond *temporary accident*, damwain y funud; tra y mae'r Cymry wedi bod yn teimlo felly am oesoedd, ac am dros bum mlynedd ar hugain, a chyda mwyafrif cryfach

y naill dro ar ol y llall, wedi bod yn dangos hynny yn yr etholiadau. Yng Nghroesoswallt, nid oedd dim yn eisieu gan yr Esgob er cyflawni yn ogoneddus ddymuniaidau gweddi fawr Crist yn Ióan xvii., ond cael y Methodistiaid Calфинаidd i gymuno yn yr Eglwys, er iddynt gario y gwaith ymlaen yn y capeli fel cynt: ond mewn Bazaar yn Liverpool dywedai, "Rhowch amser i'r Eglwys, a bydd Ymneilldunaeth wedi ei hysgubo ymaith;" ac mewn Bazaar yng Nghaernarfon taffai i wyneb ei genedl oll anfaddeuol sarhád trwy ddweyd, "Oni bai am yr Eglwys, fod lle i ofni y byddai i blant y wlad dyfu i fyny heb un hyfforddiant crefyddol o gwbl;" a thrachefn wrth geisio profi yn y *Times* nad oedd sefyllfa yr Eglwys ym Môn *lawn* cyn waethed ag y dywedasai Mr. Lloyd George,—oblegid dyna holl faich ei ddadl,—arllwysai ei athrod ar ei gydwladwyr fel gwrâch, trwy sôn am y *most powerful instrument, the Chapel screw*,—peth y gwyr nad ydyw yn hanfodi; ac os na gwyr, y mae ei anwybodaeth, ac efe yn Esgob Cymreig, yn llawer mwy anfaddeuol nag eiddo ei ragflaenwyr Seisnig nad oeddent yn gwybod dim yn ein cylch, nac yn malio am danom ond llai na hynny. Ac yn awr fe fyn nad oes un awdurdod uchel a ddywed nad yw eiddo yr Eglwys yn perthyn yn briodol i'r Eglwys ei hun. Rhaid hyd yn oed iddo ef, debygid, gydnabod fod Mr. Gladstone, sydd yntau yn Eglwyswr, yn awdurdod uchel; o leiaf os ydyw efe yn awr mewn tymer rhy ddigllawn i wneyd hynny, fe fyn Ewrop, ac fe fyn yr oesoedd ei gydnabod yn awdurdod o'r fath uchaf; a dywedai efe yn y dyfyniad uchod "fod cyllid yr Eglwys yn eiddo cenedlaethol." Cydnabyddai Mr. W. H. Smith, Tori ac Eglwyswr, yr un peth. Felly y dywedai y diweddar Arglwydd Coleridge, Eglwyswr eto: "Mae yr Eglwys Sefydledig yn sefydliad politicaidd wedi ei greu ac yn cael ei amddiffyn yn benodol gan y gyfraith, ac yn gwbl ddbynnol ar y Senedd." Cyfeiriant weithiau at Selden, fel yn dangos "fod degymau wedi eu rhoddi gan beronau preifat, ac mewn llawer achos fod cofnodiad o'r rhoddiad ar gael." Ond cerid gwybod ymhlê y dywed Selden y fath beth? Yn rhagymadrodd ei waith mawr, "The History of Tithes," dywed, wrth son am danynt fel creadigaeth deddf gyhoeddus: "Mae'r hwn a sonia am Ddegymau heb gyfeiriad at y fath ddeddf bendant, yn gwneyd fel pwnc ei draethiad, yn hytrach yr hyn a fynnai ei fod, na dim mewn gwirionedd ag sydd o gwbl. Oblegid pa wladwriaeth sydd o fewn crêd lle y telir degymau, ond yn ol deddf ddynol hendant,—hynny yw, yn ddarostyngedig i ryw ddefodau, i ddeddfau, i bob trefniad gwladol? Pa arlliw allent gael i feddwl nad oeddent ond elusennau? Oblegid beth bynnag sydd wedi ei sefydlu yn gyfreithlawn trwy hawl wladol, sydd yn amlwg *debitum iustitiæ* [yn ddyledus i ddeddf], nid *charitatis* [i rodd wirfoddol]." Drachefn: "Nid yw hawl nawddogaeth a degymau yn perthyn, yn ol ein hen ddeddf, nac yn y dydd hwn, ond i'r llfys gwladol." Gwnant yn fawr o Freeman, ond dyma a ddywed yn ei "Disestablishment and Disendowment:" "Prin y gellir dweyd fod y degwm wedi ei roddi gan y Wladwriaeth. Yn hytrach sefyllfa yr achos ydyw, ddarfod i'r Eglwys bragethu talu degwm fel dyledswydd, ac i'r Wladwriaeth ddyfod yn raddol i wneyd y ddyledswydd yn orfodol trwy awdurdod deddf." Ac er fod diweddar Esgob Caer, Dr. Stubbs, yn ei "Constitutional History," yn dal nad oedd a fynnai y rhoddiad

yn Siarter Ethelwulph (o.c. 855), fel y tybid, â degymau, eto dywed : “ Yr oedd y ddyledswydd o roddi y ddegfed ran o eiddo at wasanaeth Duw yn rhan o ddeddf gyffredin Cristionogaeth, ac felly fe'i gwesgid gan yr offeirad ar ei blwyfion. Ond nid oedd yn bosibl nac yn ddymunol ei chario allan trwy gosbau ysbrydol. . . Mae y gydnabyddiaeth o rwmedigaeth gyfreithiol degymau yn dechreu o'r wythfed ganrif, ar y Cyfandir ac yn Lloegr. Yn o.c. 779, ordeiniodd Siarl Fawr fod i bob un dalu degwm, ac fod yr oll a geid yn cael ei raunu gan yr esgob ; ac yn o.c. 789, fe'i gwnaed yn orfodol gan y cynghorau Pabaidd yn Lloegr, y rhai gan fod brenhinoedd ac iarlod ynddynt ac yn eu cadarnhau, oeddent yn meddu awdurdod seneddau (*witenagamots*).” Hawdd fuasai ychwanegu nifer yr “awdurdodau uchel ;” ond wrth bob rheswm mae y rhain yn ddigon i ddangos mai “eiddo cenedlaethol,” chwedl Mr. Gladstone, ydyw “cyllid yr Eglwys.” A phe na fuasai gennym y fath gyfoeth o'r cyfryw dystiolaethau, a chan wŷr o'r awdurdod uchaf oll ; a phe, o'r ochr arall, y gallasai Eglwyswyr brofi —yr hyn fe wŷr pawb sydd yn amhosibl—mai rhoddion y tadau duwiol i'r Eglwys ydoedd y degymau ; eto y maent wedi eu rhoddi pan nad oedd yn y wlad ond un cymundeb crefyddol, yr hwn a ddisgwyliid i ofalu am les ysbrydol yr holl boblogaeth, ond a esgeulusodd ei waith i'r fath raddau fel y buasai y wlad, yn ol addefiad yr Eglwyswyr goreu eu hunain, wedi suddo i baganiaeth oni bai i'r Arglwydd drefnu ymwarded iddi trwy lafur ardderchog a hunan-aberthol yr Ymneillduwyr, y rhai, trwy ymdrechion gwirfoddol, erbyn hyn, sydd wedi darpar cyflawnder o foddion crefyddol ar gyfer pobl Cymru. Ac o dan y fath amgylchiadau, a oes rhyw reswm dros i'r Eglwys bara i fwynhau eiddo nad all fod iddi deitl iddo o gwbl ond fel Eglwys yr holl genedl, pan nad ydyw yn awr ond Eglwys ychydig nifer, a'r rheiny yn cael eu gwneyd i fyny o bobl gyfoethocaf yr holl wlad ? Y mae gofyn y fath gwestiwn, i bob dyn a all edrych ar y fath fater heb ei ddallu gan ragfarn a buddion personol, yn ddigon o ateb iddo. A'r un modd am sefydliad yr Eglwys gan y Wladwriaeth. Os dyma Grefydd Sefydledig y Wladwriaeth, ni ddylai yr un arall fod ; ac nid all fod yr un oud ar y tir o “oddefiad.” A pha hawl sydd gan unrhyw gorff o ddynion i *oddef* i'w cyd-ddynion addoli Duw fel y mynno eu cydwybod ? Y mae “rhesymeg amgylchiadau,” ymhob ffordd, wedi gwneyd y fath ddfirod ar y tipyn “goddef” dirmygus yma yn y deyrnas, fel na raid aros yn hir na fydd wedi darford am dano yn gwbl oll. Ac y mae amgylchiadau neillduol Cymru—sydd, trwy ei haddysg grefyddol Ymneillduol wedi ei gwneyd, fel y coffeir yng Nghofiant Dr. Cairns sydd newydd ei ghyhoeddi, y dywedai Mr. Gladstone un tro wrth y Dr., “y rhan fwyaf rhinweddol o'r ymerodraeth”—yn dangos y dylasai yr Eglwys yng Nghymru, ers llawer o flynyddoedd, fod wedi ei dadsefydlu a'i dadwaddoli. Y mae y clebar ffol ynghylch “eiddigedd,” a “sefyllfa gymdeithasol,” a “chysesgrybeiliad,” a “chyd-gyngrair â sosialiaid ac annuwiad,” a “gelyniaeth at grefydd,” &c., &c., yr hwn a luchir gyda'r fath dydhewyd i'n hwynebau, ac y gwŷr y byd nad oes iddo rith o sail, yn beth ag y gall Cymru Lân fforddio ei adael heb amrantiad o ystyriaeth. Mae y cyfan yn

Sal, salach nag islaw sylw.

Gallwn yn dawel adael iddo, gan wybod na wna ond ychwanegu at y north & pha un yr ymweithia y *momentum*, y rhubargrich, er cyrraedd y "dihon terfynedig." Yn unig gofdiwn fod dymon a y mae genym hawl - ar wahân oddiwrth eu dirfawr boniaduswydd hwy ea hunain, - i ddiwygwyl oddiwrthynt bethau cymaint gwell, yn ymestyn at bethau mor waradwyddus. Pan oedd y Prifathraw Owen, yn y Free Trade Hall, yn codi y fath daranau o gymeradwyaeth trwy gyfeirio at ddyfarniad cynrychiolwyr Cymdeithasfa y Methodistiaid yn achos Penmount, Pwllheli: Fod y rhai a ddewisent ymadael i furfio cangen-eglwys newydd yn y dref, i gael gwneyd hynny, ond fod yr eiddo i gyd i aron *gŵyl*'r eglwys yn Mhenmount, er dangos mor ddiroswm oedd gwaith Ymseilldwyf, wedi cilio o'r Eglwys o honynt eu hunain, yn cwyno fod yr eiddo yn aros yn ei meddiant, - a ydoedd yn bosibl ei fod *ef* - mab i fuanor yn eglwys Fethodistaidd y Bwlch, Llanengan, a'r hwn a broffesai o fuan y dorf fawr ei fod yn gwybod y *cael* am yr helynt - *heb wybod*, neu *mat afa yn unig* oedd heb wybod, fod y dyfarniad hefyd yn cynnwys, fod eglwys Penmount i dalu i'w brodyr y swm o £300, ar gyfrif yr hawl oedd ganddynt yn yr eiddo, ac fel help tuag at ddechreu eu bywyd newydd! Yr oedd hynny yn wybyddus i bawb ar y pryd; a thra yr edmygid doethineb y cenhadon - Henry Rees, David Jones, a John Phillips - am eu dyfarniad doeth, prin yr edmygid yn llai y paradrwydd & pha un y syrthiodd y cyfeillion ym Mhenmount i fewn a'r hyn a argymhellent, gan dalu ar unwaith y £300. Mae y dibristod am wirionedd y mae y boneddigion hyn wedi ei ddangos mewn llawer o bethau ereill yr un modd, yn alaethus. "Gwir Barchedig Dad yn Nuw" yn dweyd - ac *heb rith o sail* - nad yw y Methodistiaid Calfinaidd yn credu yn Nuwdod Crist; eu bod yn cau y tlodion allan o'u haddoldal am na allant gyfrannu; tra y mae holl golofnau eu hystadegau yn mynd i lawr, fod colofn dyled eu capelau yn mynd i fyny gan lamu a neidlo; ac am danynt hwy a'u brodyr o'r cyrrf Ymseilldual ereill, y gellid cael ganddynt draethiad ar foesoldeb unwaith yn yr wythnos, oddeithr ar adeg etholiad, a'r pryd hynny na phregethant ddim ond *politics*, &c., &c.: a'i frawd "Gwir Barchedig," &c., o Fangor, yn dweyd nad oes, y tu allan i'r Eglwys, ddim hyfforddiant crefyddol yn cael ei roddi i blant Cymru, a bod yr offeryn tra phwerus y *Chapel screw* yn barhaus ar waith, &c., &c. Mae *dweyd y gwir*, yn sicr, yn cael edrych arno gan bobl Cymru fel rhinwedd rhy elfennol i neb wneyd ymfrost o allu ei ymarfer; ond am y bobl hyn, y golygir eu bod yn foneddigion, ac yn diloctoriaid mewn duwinyddiaeth, ac yn gallu trosglwyddo i'r buchgyn a ordainiant ddawn yr Ysbryd Glân i fod yn weinidogion yr Efyngyl, a'r unig rai sydd yn meddu awdurdod i gyflawni y fath wanaeth, - y mae yn drychineb fod eu gelyniaeth at eu cydwladwyr Ymseilldual y fath fel nad allant siarad am danynt heb ddisgyn at anwreiddau a fuasent yn warthus yn y cymeriadau iselaf.

A phan gofwn am y pethau hyn, y mae y gwelliantau afrifed a ooddir ar bapurau Ty y Cyffredin er ceisio llesteirio mesur Mr. Asquith, yn ymddangos yn ddiniwed. Ar yr un pryd, gan fod y Tortaid eu hunain wedi mynnu llunio yr offeryn sydd mor deilwng o honynt, ac a adwaenir fel y clöadur, hyderwn na adewir i amaer diroswm gael ei ysbeilio heb i hwnnw gael dangos ychydig o'r campan

a all gyflawni mewn ffordd o amddiffyn iawnderau yr holl genedl. Gwir y codid rheswm o hynny yn Nhy yr Arglwyddi dros wrthod y mesur yno; ond fe w'yr pawb na fydd diffyg arnynt *hwy* am resymau dros wrthod y mesur hwn, fel pob mesurau da ereill, nes y bydd *raid* iddynt weithredu yn angen. Fel y dywedodd Mr. Chamberlain yn Ninbych yn 1885,—os goddefir “apeliu oddiwrth Philip yn feddw at Philip yn sobr!”—“Nid oes gennyf ddant yn erbyn Ty yr Arglwyddi: ond fel Ymneillduwr y mae gennyf gyfrif i'w setlo & hwynt, ac yr wyf yn addaw i chwi na anghofiaf y cyfrif. Yr wyf yn cyfranogi o'ch gobeithion a'ch dyheadau, ac yr wyf yn gwrthdystio yn erbyn y sarhad, y camwri, a'r anghyfiawnder a ddiodefasocho gyhyd oddiar ddwyllaw Cynhullfa freintiedig,”—*privileged Assembly!* Ac efe hefyd a chwane-godd y pryd hwnnw, y gair sydd yn ddiweddar wedi dyfod yn bur gynhefin, “Ond y mae y cwpan bron yn llawn!”

Crybwyllasom fwy nag unwaith am y gwasanaeth gwych a wnaeth y Dr. Percival, yn awr Esgob Henffordd, i ni yn yr achos hwn, trwy ei lythrau rhagorol yn y *Times*. Y mae fel awel o hyfryd iechyd,—wedi holl fwrllwch y rhagfarnau direswm a'r dybryd gamddarluniadau a gyfarfyddwn yn y ddadl hon,—i gael mwynhau yr hyn sydd gan y gŵr galluog a theilwng hwn i'w ddweyd. Diameu fod ei addysgiaeth yn y mater, i fesur mawr,—fel yr eiddo llawer iawn o'i frodyr erbyn hyn,—yn ddyledus i ysgrechfeydd ein Hesgobion, a rhesymau ardderchog apostolion *Church Defence*. Mewn un pwynt, nid ydyw eto yn gweled popeth “o bell ac yn eglur.” Ymddengys iddo ef mai y peth goreu fyddai rhannu eiddo yr Eglwys rhwng holl gyrff crefyddol Cymru. Y mae Cymru ei hun wedi deall y mater yn llawer gwell. Nid oes ar ein cyrff crefyddol y tu allan i'r Eglwys eisieu yr un geiniog o'r eiddo esgymun hwn, a chredant y gall yr Eglwys ei hun—wedi ei llawn ryddhau oddiwrth y cysylltiad anachaid, neu fel y mynnai John Bright ei alw, “godinebus,” a'r Wladwriaeth—wneyd hebdo yn anfesurwl well. Aed eiddo Cesar i Cesar; a gadewch i ni oll, & chalon bur, roddi yr eiddo Duw i Dduw. Nid ydym yn sicr, chwaith, nad ydyw, tra yn dal yn gryf y dylai Cymru yn y mater yma gael setlo ei hachos ei hun, o'r ddau, yn rhy hyderus am y modd y setlid ef ar ei rhan ei hun gan Loegr, o leiaf ymhen ychydig flynyddoedd. Sut bynnag, mae yn ddiameu y byddai efe mor foddlon i ymostwng i lais y mwyafrif mawr yno—aed fel yr elo—ag ydyw yn awr yn achos Cymru. Ond y mae geiriau yr Esgob Percival ar y mater hwn mor ragorol o dda, ac yn gosod ein hachos ger bron mor deg a chyfiawn, fel y mae yn ddiameu y teimla ein darllenwyr yn dda ganddynt eu cael o'u blaen yn y TRAETHODYDD. Fe'u llefarwyd mewn araeth a draddodwyd ganddo, Mai 14eg, yng Nghongfocasiwn Caergaint. Yr oedd yn beth newydd iawn ar y ddaear glywed geiriau o'r fath yn y llys goruchel hwnnw, a da gennym nad oes hanes fod neb o'r Tadau Gwir Barchedig wedi syrthio i lewyg wrth eu gwrando. Dyna y tro cyntaf iddo ef eistedd yno fel Esgob; ond teimlai fod rhaid iddo ar unwaith ddangos i'w frodyr pa olwg ydoedd efe yn gymeryd ar y mater hwn. Wrth reswm yr oedd yr Archesgob yn golygu fod mesur Mr. Asquith yn “gwneyd amddifadiad creulawn o weinyddiadau ysbrydol ar ran pobl nad allai y rhan fwyaf o honynt gael dim yn eu lle;” a theimlai efe a'i frodyr yn y

modd cryfaf fod troi y cyllid i amcanion at ba rai na fwriadwyd hwynt erioed, yn rhan o'r fath fwyaf aunheg o'r mesur," &c. Ac yr oedd amryw o'r Esgobion, fel arfer, yn dweyd yn ofnadwy yn ei erbyn. Ond dyma a geid gan Dr. Percival:—

Meddylai Esgob HENFFORDD fod y cwestiwn o sefydliad parhaus yr Eglwys Gymreig yn un ag y dylid, mewn tegwch, ei adael at ewyllys y Cymry eu hunain. Rhaid addef fod yr Eglwys yng Nghymru mewn lleiafrif. Yr oedd efe a'r rhai a feddyliant yr un modd, wedi cael eu harwain i ddeall ei bod mewn lleiafrif, a theimlent hefyd oddiwrth a ddeallasant fod sefydliad yr Eglwys yng Nghymru yn achos cryf ac anfeddygini-iaethol o gynnen boliticaidd ac ysgariad cymdeithasol. Nid oedd olwg am ddim tebyg i unrhyw gyfnewidiad sylweddol yn yr amgylchiadau hyn. Wrth edrych i'r dyfodol, ni allent gantod unrhyw arwyddion y deuai y sefyllfa yma ar bethau yn well, mewn unrhyw gynnod o amser ag y gallent ei gymeryd i'r cyfrif. Yr oedd mewn gwirionedd yn anhawdd iddynt ddyfod at unrhyw gasgliadau y gallid dibynnu arnynt yn y ffordd o ystadegau. Yr oedd nifer y plant yn Ysgolion Sabothol yr Ymneilldu-yn y ffordd o ystadegau. Yr oedd nifer y plant yn Ysgolion Ymneillduol nifer mawr iawn o blant yn tyfu i fyny dan addysg Ymneillduol, y rhai a fyddent bobl Ymneillduol yr oes nesaf. Fy olwg oedd gan Eglwys Loegr am droi y plant hynny yn Eglwyswyr? Yr oedd meddwl am wneyd y fath beth yn freuddwyd gwag. Hawliai cynrychiolwyr Cymru y dylai y cwestiwn yma gael ei benderfynu yn ol eu golygiadau hwy, ac, o'i ran ei, yr oedd efe yn rhwym o gydnabod cyflawnder eu cais. Teimlai fod gan Gymru hawl, i honni hynny o ystyriaeth. Sut bynnag yr edrychid ar y Cymry, fe geid oydgyfar-tyddiad o nodweddion a roddai i bobl Cymru well hawl i gael eu galw yn genedl Gymreig, ac i gael delio & hwy ar linellau Gymreig, nag oedd hawliau Ysgotlad ac Iwerddon, neu hyd yn oed Loegr. Yr oedd yn ambosibl osu llygaid ar y sefithiau hyn, neu ar anorohfngol nerth y cais a wnelid gan Cymru ei hun. Am nerth y cais hwnnw, dibynnai i ryw fesur ar y wedd yr edrychid arno; ond meddyliai efe fod pobl, mewn gwlad gyfansoddiadol, o'u lle, os na addefent eu bod yn rhwym o gydnabod cynrychiolwyr etholedig a anfonid i Dy y Cyffredin fel yn cynrychioli golygiadau y bobl. Os edrychent ar bwysau y farn fel ei cynrychiolwyr yn Nhy y Cyffredin gan y rhai a ddeuent o Gymru, yr oedd yn rhaid iddynt gytno ei bod y fath fel, gyda dylanwad cyffelyb o bob parth o'r Ymerodraeth, nad allai yr Eglwys sefyll am un senedd-dymor. Yn achos Iwerddon, boddlonent i gytno am Ddadsefydliad yr Eglwys, pan oedd rhywbeth fel 68 o aelodau Gwyddelig yn galw am dano, tra'r oedd 86 ar yr ochr arall—mwyafrif o ddau am un, yr hyn a dderbyniwyd gan y ddwy ochr i'r Ty. Yn achos Cymru, yr oedd 81 o gynrychiolwyr y Cymry yn galw am ddadsefydliad, a dim ond tri yn rhoddi eu llais yn ei erbyn. Felly yr oedd mwyafrif o fwy na deg am un yn sefyll dros gyflawnder eu cais. Dan yr amgylchiadau hyn, yr oedd efe, a'r rhai a feddyliant gydag ef, wedi cael eu gyrru i'r casgliad, pa un bynnag a oeddent yn ei hoffi a'i peidio, fod dal i fyny yr Eglwys yng Nghymru fel Eglwys Sefydledig, yn beth ag oedd yn myned yn nannedd pobl Cymru. Ni allai efe gysoni hynny â'i olygiadau am lywodraeth rffdd, a thybiali fod hwn yn un o'r materion ymha rai y dylai arweinwyr yr Eglwys, uwchlaw popeth, wrando ar lais y bobl yr oedd a fynnent yn uniongyrchol â'r peth. Ar gwestiwn dadwaddoliad, a chwilio am egwyddor gyfawn a theg i'w harwain, yr oedd yn rhaid iddynt gydnabod nad oedd y mesur oedd o flaen y Ty yn cynnyg cyffwrdd ond & gwaddoliadau boreuol. Os cymerent y gwaddoliadau o'r amser cyn pasio Deddf Unffurfaeth—y rhai a roisid am byth er budd yr holl bobl—nid oedd ganddynt sail,—mewn golwg ar y llais cenedlaethol oedd yn galw, yn amgylchiadau gwahanol yr amseroedd, am ail-drefniad ar bethau,—i wrthwynebu rhesymoldeb eu cais. . . . Fe hawlid yn awr y dylai y Cymry gael penderfynu achos Cymru, ac yr oedd y ddadl yno yn oario gyda hi y casgliad y dylai y Saeson yr un modd gael penderfynu am Loegr. . . .

"A bydded ein gelynyon yn farnwyr!" Mae achos Cymru yn y mater hwn mor gryf fel nad oes eisieu hyd yn oed i unrhyw Eglwyswr ond cymeryd yr oll o hono yn bwylllog i ystyriaeth, na wél ar unwaith na fyddai gwrthod ei chais, neu ei oedi yn hwy nag y bo raid, ond anghyflawnder a dybryd gam. A da gennym weled fod y nifer o Eglwyswyr sydd yn gwneyd hynny y dyddiau hyn, yn llên a lleyg, yn lltosogi—a defnyddio geiriau y mae y ddau Esgob mor hoff o honynt—*by leaps and bounds*. Drwg gennym fod llawer o'r offeiriad,

druain, yn teimlo y rhaid iddynt fod "yn guddiedig, rhag ofn yr Iuddewon." Mae'r bywoliaethau bron oll yn llaw yr Esgobion; ac fel y Pab, *Non possumus*, ydyw eu deddf hwy. Mae symud yn amhosibl! Dywedai Mr. Lloyd George y dydd o'r blaen am glerigwr yn ysgrifennu ato: "Mae y rhan fwyaf o'r offeiriaid, a bron yr oll o'r llygywyr yn awyddus am ddiwygiadau nad ellir eu cael byth tra y parhao y Sefydliad. Ni all neb o'r tu allan, sut bynnag, gael dirnadaeth am y pwysau a ddygir ar liaws yr offeiriaid oddiwrth eu huchafiaid Eglwysig, yn neillduol er pan y mae ein Heglwys wedi ei throï yn gorff Tortiaidd. Yr wyf yn gwybod mor anhawdd ydyw i offeiriad Cymreig, sydd o blaid diwygiad, siarad allan." Mae'n debyg mai peth tebyg oedd gan offeiriad parchus arall mewn golwg, yr hwn a ddywedai wrthym ninnau, pan soniem am Esgob Bangor a'i gyfeiriad at y *Chapel screw*: "Gwell iddynt fod yn ddistaw, rhag i mi, fel un, gael fy ngorfodi i ddweyd yr hyn a wn am ysgrifwr yr Eglwys, yr hon sydd, yr wyf yn eich sicrhau, yn beth pur wirioneddol." Ac ysgrifennai cyfaill a adwaenom, ac yn yr hwn y mae gennym bob ymddiried, yn y *Christian World* am Fawrth 7ed, y flwyddyn hon: "Y mae yn ffaith hynod fod tri o bob pedwar o'r offeiriaid Cymreig a gymerasant urddau yn ystod y deg neu bymtheng mlynedd diweddf, yn Genedlaetholwyr Cymreig cynnes, ac fel y cyfryw, y maent yn hiraethu am y dydd pan ryddheir yr Eglwys Gymreig oddiwrth hualau rheolaeth y Wladwriaeth. Fe'm sicrhawyd gan offeiriad parchus yn esgobaeth Bangor, bonheddwr sy'n meddu ymddiried mwyafri offeiriad y Gogledd, fod y funud hon gynifer â 96 o offeiriad yng Ngogledd Cymru ydynt yn hollol barod, yn agored neu yn ddirgel, i fotio dros Ddadgysylltiad. Un rheswm a roddir am y teimlad yma yw, ei fod yn ffaith hynod, am Ogledd Cymru, mai yr unig ffordd i sicrhau dyrchafiad yn yr Eglwys ydyw trwy gadw i lawr bob dyhëadau gyda golwg ar Genedlaetholdeb Gymreig, a thrwy ddelio âg Ymneillduwyr gydag anoddefgarwch. Yn ystod y deng mlynedd diweddf nid oes dim un Rhyddfrydwr professedig wedi cael dyrchafiad oddiar law yr Esgobion." Ac fe fentrodd Arglwydd Raglaw Sir Gaernarfon, yng nghynhadledd Castell y Penrhyn, ac wedyn yng nghyfarfod Diffyniad yr Eglwys yng Nghaernarfon, roddi datganiad lled glir i'r teimlad sydd yn fyynu mor gyffredinol ymysg llygywyr yr Eglwys, am yr angenrheidrwydd anhepgorol o gael diwygiadau yn ei dull o gario ei gwaith ymlaen. Wrth reswm, nid oedd yr Archddiacon Thomas Williams, mwy nag ereill o'i frodyr, yn gweled fod dim diwygiadau o'r fath yn bosibl. I'r rhai sydd wedi cyrraedd yr uchelfannau, neu sydd yn flaenllaw iawn yn yr ymgiprys am danynt, mae pethau fel y maent yn rhy berffaith i'w gwella; a bwriant eu dirmyg gyda dyhewyd a bâr i galonau yr Esgobion lawenyachu, ar bawb a feddylio yn amgen, ac ar yr holl Ymneillduwyr, ac yn enwedig ar y Methodistiaid. Ond am wŷr fel yr Archddiacon Howell a Mr. Venables Williams, ac yn awr Mr. Walter Evans o Gastell Caereinion, dynion sydd, gyda ffyddlondeb, wedi ymroddi i'w gwaith mawr; a'r un modd yr offeiriad ieuainc sydd yn llosgi gan awyddfryd i allu ymdafu i'r gwasanaeth yn y ffordd, hyd y gwelant hwy, sydd debycaf o fod yn fanteisiol i lafur llwyddiannus, —am y rhai hyn oll, y mae yr ŵg o'r Palasau yn eu cadw i lawr, a hualau y Sefydliad yn eu dal mewn caethiwed. Ond y mae y ddaear

yn troi, serch hynny, ac y mae Dadsefydliad—sydd bellach wedi bod ers cyf o amser yn yr awyr, ac wedi dwyn oddiamgylch, dros y byd, gynifer o chwyldroadau,—yn sicr o fynnu ei ffordd yn y wlad hon hefyd. Ac y mae genym achos diolch i'r boneddigion sydd wedi dyfod allan gyda'r fath sêl danllyd i wathwynebu hynny, am brysuro ei ddyfodiad. Dywedai Person Castell Caereinion yn un o'i lythyrâu grymus i'r *Manchester Guardian*, fod Esgob Llanelwy wedi gwneyd mwy at hynny yn y pum mlynedd yr ydoedd wedi bod yn yr esgobaeth nag a wneuthai Cymdeithas Rhyddhad Crefydd mewn deugain mlynedd. Ac wrth weled y canlyniadau bendithiol sydd ymhob man wedi ei ddilyn, ac fod cynifer o'r dynion goreu, fu yn ei ofni fel trychineb, ond wedi ei ddyfod, yn llawenychu ynddo fel peth a brofodd yn fendith o annhraethol werth, y mae yn llawen gennym weled y bydd yr hyn a fawr ofnir gan lawer, mewn canlyniad i basio y fath fesur ag sydd yn awr o flaen ein Senedd, yn profi cyn pen ychydig o flynyddoedd yn ddaioni ag y bydd Cymru oll, ie a'r byd, yn dwfn lawenhau o'i blegid, ac yn diolch am dano "â llawenydd ac â chân."

II.

Ac y mae dadsefydlu y Dafarn hefyd, trwy råd Duw, wedi dyfod, bellach, yr un modd, yn anocheladwy.

Yma eto, nid oes eisieu esbonio i ddarllenwyr y **TRAETHODYDD** y rhaid i ni wrth dai cyhoeddus, lle y gallo pobl oddi cartref gael yr hyn fo yn angen arnynt er eu cynhaliath a'u cysur, a lle y gallo pobl ein trefydd a'n hardaloedd gyfarfod i drin eu busnes, ac os dewisant, i gyd-gymdeithasu. Yr unig beth y protestiwn yn ei erbyn ydyw y gallu a rydd y Llywodraeth i bobl mewn tai o'r fath i werthu trwyth ag sydd yn syfrdanu dynion i awch mor angherddol iddi, ac mewn canlyniad yn peri iddynt, ymhob ffordd, gymaint o niwed fel y mae yn barhaus yn llanw ein gwlad â "galar a griddfan a gwae." Ac nid ydym yn gofyn i'r Llywodraeth atal y fasnach yn y diodydd peryglus hyn trwy ei hawdurdod ei hun; ond yn unig rhoddi gallu i'r bobl i benderfynu, a hynny trwy fwyafrif mor fawr â dwy ran o dair, pa un a ydyw y fasnach hon i gael ei chario ymlaen o fewn eu hardaloedd. Y mae llawer o dirfeddianwyr, erbyn hyn, pryd bynnag y daw lês tafarn i ben ar eu hetfeddiaethan, yn gofalu na chaiff fod yn dafarn mwy. Y mae Arglwydd Penrhyn, fel yr oedd ei deilwng dad o'i flaen, yn y ffordd yma wedi cau nifer mawr o ddiotai; ac y mae y bobl mor bell o gwyno am hynny, fel y maent yn diolch o galon am gael y maclau peryglus o'r ffordd. Ychydig flynyddoedd yn ol rhoddid clod yn Nhy y Cyffredin i'r Duc o Westminster am ei fod, allan o 48 o dafarnau oedd ganddo ar ei etifeddiaeth yn Llundain, wedi cau yn y ffordd yma 37 o honynt. Mae y Meistri Roberts wedi gofalu na chaiff fod yr un dafarn ar eu tir yn Toxteth, Liverpool; a'r un modd perchennogion y Snattesbury Park, yn Llundain; Saltaire, yn Swydd York; Bessbrook, yn Iwerddon, a llawer o fannau oreüll. A hyn oll heb air o ymgynghoriad â'r bobl oedd i breswyllo yn y manau hynny. O'r ochr arall, y mae yn wybyddus iawn fod yr

Ynadon yn barhaus yn rhoddi trwyddedau i gadw tafarnau yn ein hardaloedd, pa un bynnag a ydyw y bobl yn galw am danynt ai peidio, ie er i'r bobl, gyda mawr unfrydedd a difrifwch, fod yn protestio yn eu herbyn. Mae'n wir na fynnent, ar un cyfrif, fod tai felly yn agos i'w haneddau hwy eu hunain, yn berygl i'w plant neu yn fagl i'w gwasanaethyddion; ac eto y maent, yn ddibris, wedi bod yn eu gosod ynghanol y bobl, ac heb feddwl am drawiad amrant fod yn werth cymeryd i'r cyfrif eu barn neu eu teimlad hwy. Ond pan sonir am i'r bobl gael llais yn y mater hwn, sydd iddynt yn gymaint pwysicach na'r holl faterion ereill a ymddiriedir iddynt, fe daerir y byddai hynny yn orthrwm ar rywrai. Nid oes neb yn cwetiyno hawl tîrfeddiannwr i ddweyd na chaiff tafarn fod ar y rhan o ddaear Duw a ddigwyddo fod yn eiddo iddo, er y gallai hynny fod yn anghyfleustra i floedd. A'r un modd, nid oes neb yn ameu hawl yr ynadon i drwyddedau tafarnau, ie, mewn mannau y gallo fod y bobl yn galw am gael bod hebddynt. A fyddai yn ormod i'r bobl eu hunain, atolwg, gael llais mewn penderfynu mater o'r fath yma, sydd iddynt o'r fath annhraethol bwys, ac yn enwedig pan y maent mor fynych yn teimlo y fath awydd am amddiffyn rhag hudoliaethau sydd yn eu handwyo? Fe geisir eu perswadio, weithiau, yr amcenir gwneyd dirfawr gam â hwy,—eu rhwystro i gael ychydig o'r ddiod dda sydd mor ddymunol ganddynt. Ond y mae peth fel yma yn rhy ffol i'w osod o flaen ein pobl! Ni sonia neb ond am roddi gallu iddynt hwy eu hunain i benderfynu y mater. Os byddant am dafarnau, nid oes neb all eu hatal i'w cael. O'r ochr arall, os byddant, a hynny trwy fwyafrif mor fawr â dwy ran o dair, yn galw am gael bod hebddynt, mae yn deg iddynt *gael* bod hebddynt. Feallai fod dipyn yn galed i gant gael cyfyngu ar ddau gant, er na fyddai hynny ond fel dim o'i gymharu â gwaith un tîrfeddiannwr yn cyfyngu ar floedd, neu waith dau neu dri o ynadon yn gosod eu myn-pwy yn ddeddf ar wlad. Ond os ydyw y ddau gant yn dewis bod heb dafarnau, ni all fod yn galed ar y cant ymostwng i'w dyfarniad hwy, yn enwedig pan ddywed cydwybod pob un mai y ddau gant sydd yn eu lle, a phan, lle y teimlir fod y ddiod yn anhepgorol, na fydd diffyg cyfleusterau ereill i'w chael. Fe wnaed chwalfa wych ar y twyll-resymau â pha rai y mae pobl y Fasnach yn ceisio dallu y werin, trwy y *Manifesto* mawr a gyhoeddwyd yn Hydref, 1893, wedi ei arwydd-nodi gan yn agos i ddau gant o'r rhai a gydnabyddir, bron ymhob cangen o ddiwydrwydd, yn Arweinwyr Gweithwyr y Deyrnas, yr hwn, fel yr ydoedd yn dangos mor iach ydyw teimlad y bobl ar y mater yma, a wasanaethodd hefyd, mae'n ddiameu, er chwalu y goleuni yn fwy, a gwneyd y dymuniad am ymwared yn llawer cryfach. Ei ergyd ydoedd dangos fod y mesur a gynhygid ar y pryd gan y Llywodraeth, yn cymeryd yr achos hwn, ag oedd wedi bod o'r dechreu yn llaw y mawrion, y *classes*, ac yn ei osod yn llaw y werin, y *masses*, a'i fod felly y mesur perffeithiaf yng nghyfeiriad *rhyddid* y bobl ag oedd wedi ei gynnyg erioed; ac am hynny y dylai y gweithwyr, yn anad pawb, roddi iddo eu cefnogaeth, gan fod eu daioni hwy, yn neillduol, yn beth a sicrheid trwyddo.

Yr oedd Mr. Chamberlain, dro yn ol, wedi iddo gael hyd i eiriau rhai o aelodau presennol y Llywodraeth, pan eto mewn tywyllwch, yn con-

demnio rhai pethau ag y maent yn awr yn ymladd o'u plaid, yn gofidio eu bod yn gwneyd y fath aberth o'u *consistency*, eu cysondeb â hwy eu hunain. Efe, yn ddiau, yw y gŵr i son am gysondeb! Ychydig yn ol, condemnai y mawrion, fel rhai "nad oeddynt yn llafurio nac yn nyddu," eto yn gosod iau haiarn ar yddfau y bobl; yn awr y mae yn cael y fath fwynhad wrth ymheulo yng ngwenuau "boneddigion," fel y mae am i'w gallu barhau yn dragywydd. Fe gondemniai yr Eglwys yng Nghymru yn ddifedur; ac ym mhalas Arglwydd Raglaw Ceredigion, a thrachefn mewn llythyr a ddarllenwyd yng nghyfarfod y Toriaid yn Rhiwabon, anogai ni oll i ddyfod yn Undebwyr, gan y byddai felly obaith i ni am ddadgysylltiad yr Eglwys yn ein gwlad, yr hyn, medd efc, na ellid ei ddisgwyl yr un ffordd arall: ond yn awr, er iddo, fel aberth i'w *consistency*, roddi ei fôt dros yr ail-ddarlleniad, y mae yn cael nad all gymeradwyo yr "ysbryd" ymha un y geilw cynrychiolwyr Cymru am y peth; ac y mae wedi darganfod fod yr Eglwys wedi hanfodi am fil o flynyddoedd, a bod ei gwraidd, o angenrheidrwydd yn ddwfn yn serchiadau ei phobl! Ac am y fasnach ofnadwy mewn diodydd meddwol, nid oes neb wedi defnyddio ymadroddion cryfach; y mae wedi bod yn gor-Herodi Herod wrth ei chondemnio; ond yn awr y mae, yn nesaf at amaethyddiaeth, "y bwysicaf o'n holl alwedigaethau," ac wrth reswm rhaid delio yn barchus â hi! Am bobl sydd yn agor eu llygaid gyda chryfhâd y goleuni, y mae rhyw reswm dros fod eu syniadau yn newid, a gallwn fentro eu dilyn; ond am rai sydd yn eu cau, ac yn croesawu y nôs—wrth reswm ni all neb warafun iddynt hwy gael cysgu!—Ond ymala fyddai iddynt ddisgwyl cael eu cydnabod yn arweinwyr dynolryw.

Er 1864 y mae mesurau i'r amcan yma wedi bod yn cael eu dwyn o flaen ein Senedd. Am flynyddoedd nid oeddynt ond fel ymdrechion plant i atal llifeiriant. Nid oedd dim i'w wneyd ond ehwertthin am eu pen. Yn raddol, sut bynnag, yr oedd y goleuni yn llanw y wlad, a chyn hir fe ddeallid nad oedd pobl barchus i gael eu dychwelyd i'r Senedd ond fel rhai oedd yn barod i bleidleisio dros y *Permissive Bill*, neu fel y daethpwyd i'w alw, yn ol geiriad hapus a ddisgynnodd dros wefusau Mr. Gladstone, "Local Option," Dewisiad Lleol. Yr oedd y fyddin hon yn parhaus gryfhau, a'r deyrnas yn dyfod i feddwl y gallai, wedi'r cyfan, fod rhywbeth yn y peth. Yr oedd y Fasnach hefyd, oedd wedi bod cŷd yn chwerthin am ei ben, yn cael ei dwyn i deimlo ei nerth, ac i ddigio, ac i ymladd. Er hynny cliriach o hyd y llewyrchai y goleuni, a chryfach y naill ddydd ar ol y llall y deuai gafael yr argyhoeddiad nad oedd masnach a ffoeukai ar ddirywiad a dinystr y genedl, yn un ag y dylid ei goddef ar y ddaear. Ac yn neillduol na ddylai hynny fod pan fyddai y bobl eu hunain, er diogelwch iddynt eu hunain ac i'w plant, yn galw am ei symud ymaith. O'r diwedd cawsom yr hyfryd-wch o weled y Blaid Wleidyddol, sydd erioed ac ymhob ffordd yn ymladd rhyfeloedd Diwygiad, yn gosod yr achos hwn mewn lle amlwg ar ei baner. Ac yn 1893, dyma Lywodraeth ei Mawrhydi yn dyfod a mesur o Ddewisiad Lleol ymlaen ei hunan, gan ddangos yn bur amlwg nad chwareu yr ydoedd, ond ei bod yn argyhoeddedig fod ymyfed wedi dyfod yn ddrwg mor andwyol fel yr oedd rhaid ei roi i lawr; ac nad ydoedd yn gwled yr un ffordd a ymddanghosai mor debyg o ateb y diben at hynny â phasio mesur o Ddewisiad Lleol. Mae'n wir na

allwyd y pryd hynny, gan faint ac amledd y trafferthion oedd yn ffordd y Llywodraeth, fyned â'r achos yn ddim pellach : ond eleni dyma yr un peth wedi cael ei ddwyn ger bron eto, ac mewn ffordd gryfach fyth. Mae dalennau y Sibyl yn dyfod yn ddrutach fel y maent yn myned yn fwy prin. Cydnebydd Syr W. Harcourt fod y profiad arswydus a gafodd pan yn Ysgrifeanydd Cartrefol o'r drygau arswydus oedd yn cael eu dwyn oddiamgylch yn y deyrnas trwy y ddiod, wedi peri i'r argyhoeddiad gael ei losgi i'w esgyrn y rhaid ymdrechu ei roddi i lawr. Soniai wrth ddwyn y mesur yma i mewn am un dref yn y deyrnas ag y mae mewn un heol iddi 15 o dafarnau, er nad yw nifer ei holl dai ond 27 ! Ac y mae wedi cael llawn foddlonrwydd mai y ffordd oreu i geisio ymwared, ydyw gadael y mater i farn a chydwybod y bobl trwy Dlewisiad Lleol. Mae yr alwad am hynny, bellach, wedi dyfod yn rhyfeddol o gref. Ac y mae yn amlwg fod y drefn yma wedi gweithio yn rhagorol mewn gwledydd ereill. Am Gothenburg, y mae pethau yno yn llawer gwaeth nag ydynt yma, ac am hynny nid ydyw dychymyg Esgob Caer a Mr. Chamberlain o gwbl i'w gymeryd i'r cyfrif. Ond yn Sweden a Norway, fel yn ein Trefedigaethau, ac yn America, y mae Dewisiad Lleol yn gweithio yn rhagorol. Mae 23 o'r Unol Dalaethau yn awr dan Ddewisiad Lleol, a 7 dan Orfodaeth, sef wedi gwneyd eu Dewisiad Lleol trwy eu *Constitutional Amendment*, yn ddeddf dragwyddol. Dywedai y *New York Times*, papur gwrthwynebol i Waharddiad, am un o'r rhai hyn, Kansas, fod yno yn ei threfydd a'i dinasoedd floedd o fechgyn un ar bymtheg oed, na welsant erioed dŷ tafarn, ac na wyddant ond trwy hanes i beth mae yn debyg. Pasiwyd Dewisiad Lleol ym Maine yn 1851 gyda mwyafrif o *ddau am un* ; ond wedi cael 33 mlynedd o brawf ar hynny, fe'i gwnaed yn 1884, trwy y *constitutional amendment*, yn Waharddiad, a hynny trwy fwyafrif o *dri am un*. Ac yr oedd hyn yn cytuno â'r Dalaeth cystal fel y danghosai ei *Census Bulletin* fod ei chyfoeth yn 1890 yn fwy na'r hyn ydoedd yn 1880 o 24 miliwn o bunnau. A mwy o lawer, y mae ganddi, fel y Talaethau ereill, floedd lawer o bobl ieuainc yn codi, na welsant erioed dŷ tafarn, ac na wyddant, ond trwy hanes, pa fath anghenfil ydyw dyn meddw ! Pam na chaem ninnau, bellach, wedi deugain mlynedd o'r fath baratöad, allu i roddi prawf yn ein hardaloedd ar drefn sydd wedi gweithio mor dda ?

Dyna yr hyn a gynhygir roddi ym Mesur Syr W. Harcourt. Da gennym weled hefyd fod y mesur hwn, yn wahanol i un 1893, yn cynnwye egwyddor y mesur Cymreig—a ail-ddarllenwyd yn 1890 gyda mwyafrif o 7, ac yn 1893 gyda mwyafrif o 36—ac yn rhoddi gallu trwy fwyafrif, i leihau nifer y tafarnau, lle na bo y teimlad yn ddigon cryf i'w cau yn gwbl. Pan geir pleidlais felly, bydd y bedwaredd ran o dafarnau y cylch ar unwaith yn cael eu cau, ac ymhen tair blynedd fe ellir cau pedwaredd ran arall, &c. A'r cwbl, fel yn Sweden a Norway, a'r Trefedigaethau, a Thalaethau America, ac hefyd yn y deyrnas hon gyda chau ar y Saboth, &c., heb fod gair o son am *compensation*. Am y Mesur hwn y mae yn falch gennym feddwl ei fod wedi ei ddwyn ger bron, ac fod ein Llywodraeth a'i chefnogwyr yn Nhy y Cyffredin yn ymddangos mor benderfynol o fynnu ei gario. Am yr Arglwyddi, prin y disgwylia neb iddynt hwy ei dderbyn. Mae yn ddigon tebyg mai gwrthod hwn a wnant hefyd, fel y mesurau mawrion ereill. Bydd hynny yn chwyddo

"y cyfrif" y dywedai Mr. Chamberlain *ddeng mlynedd yn ol* oedd ganddo of "i'w setlo a hwynt;" ond cyfrif, yn sicr, *sydd yn awr gan bobl y deyrnas hon yn eu herbyn, ac y bydd "ei setlo" cyn hir yn anocheladwy.* Ni a hyderu y bydd Cymru, yn arbennig, yn flaenllaw i gymeryd ei rhan yn yr etholiad ag y mae yn debyg nad all fod ymhell, er dangos pa olwg y mae yn gymeryd ar waith y gwŷr ardderchog hyn yn sefyll ar ffordd pob daioni, ac yn edrych gyda'r fath ddibristod ar ddymuniadan y bobl. Hyd cyfeillion y ddau Sefydliad y buom yn son am danynt, wrth rewm, yn rhoddi eu holl ymadferth ar waith yn ochr yr Arglwyddi. Mae y Duc o Westminster, gyda'i gronfa o £25,000, am wneyd ei orau i gael pob aelod dros Gymru yn ffafriol i'r Eglwys; ac y mae Darllawyr, hwythau, gyda chronfa o £20,000, am ymladd hyd yr eithaf dros y Dafaru. "Our Trade is our politics!" Nid ydyw y naill blaid na'r llall yn malio ond am eu buddiannau eu hunain. Ond gan eu bod yn cyfarfod ar y tir cyffredin o wrthwynebu pob cyfnwidiad, y maent yn cyfuso eu northoedd yng Nghyngair mawr y Bir a'r Beibl, ac yn bendrofuod o wneyd a allant i ofalu am danynt eu hunain, doed a ddel o bawb a phopeth arall! A thra y maent hwy yn ymroddi gyda'r fath byhyrwech i ymladd brwydr eu *humanoidob*, a ydyw yn lawer i ninnau ymrygwyd o bob syrthni, ac anghofio pob pwyntian bychain o anghydwelidat a gwneyd a allom er dwyn i fuddugoliaeth frwydr fawr rhinwedd a chyflawnder!

Wedi gwed yr uchod mewn argraff, dyma bleidlais gip Meh. 21, a'i mwyafrif o 7, ac ymddiswyddiad y Llywodraeth wedi cymeryd lle! Beth eto! Sut bynag.

Form, form, rifemen form!
Ready, be ready to meet the storm:
Rifemen, rifemen, rifemen form!

DANIEL ROWLANDS.

CANGHELLYDD PRIFYSGOL CYMRU.

Wae ydyw Canghellydd Prifysgol Cymru!
Ki Cymruak Brenhinol Twysog CYMRU!
"The Prince of Wales comes home!" Mae'n dod adre!
Mae Twysog Cymru'n dod adre! 'N dod adre!

Cymru, fy ngwlad, ni fuost am ocean,
Cyda bywyd o'r Neff yn ymladdi dy frwydrau
Yn edrych drygioni ac eteb anwrthodweth,
Cyda wlad y cyffwrdd o' th brwyferth dirnogaeth.

Ma' th teidion anwyliad am lawer o amser
Yn wylwau dyhirad dan gam-drin ryngol,
Ma' u ddydd yn gwagrar y ddydd dda
Dwedid ni yn gairiad a trefn ddaioni.

Dy bobl a fethrid dan draed eu huchafiaid,
 Mewn Eglwys a Gwlad, fel pe 'n ddim ond slafiaid ;
 Tra hwythau 'n ymddyrchu at hawliau gwŷr rhyddion,
 Ac o wlad Doethineb dan fraint dinasyddion.

Yn awr 'r wyi yn rhydd : ac yn lle aflywodraeth,
 A therfysg a drygau, goleuni gwybodaeth
 A rhinwedd a chrefydd sydd yn llond dy ardaloedd,
 A throsot y taenir amddiffyn y Nefoedd.

A bellach, yn goron dy ddyfal ymdrechion,
 Ti gefaist i 'th addysg y fath wych fanteision
 Nad oes trwy y deyrnas i gyd eu rhagorach :
 Yr olaf o'r gwledydd y flaenaf fydd mwyach !

O chwi GRUFFYDD JONES, THOMAS CHARLES, a HUGH OWEN,
 A'n diwygwyr mewn daear a nef, byddwch lawen ;
 I'n cenedl fach fu 'n y gaddug cyn hired,
 Mae Teml Gwybodaeth i gyd yn agored !

Ac os rhai o'i meibion, mewn culni uchelfryd,
 A fynnant ymddidol, gan ddweyd nad oes bywyd
 Ond yn eu Shibolet hach hwy eu hunain,—
 Nid oes ond eu gadael i'w hoerni i ubain.

Ond Gymru, benbaladr, mor wych yw dy weled
 A bron lawn o hoen yn croesawu 'th ymward :
 Dy blant mewn llawenydd yn llanw 'th ysgolion ;
 Dy ienctid yn gwledda wrth fyrddau y doethion :

A'r cyfan yn dyfal bartoi at wasanaeth
 O werth a hyfrydwch yn eu cenhedlaeth,
 Er codi eu gwlad mewn nerth a thirioni,
 A chwyddo cyfanswm ei gwerthfawr ddaioni.

A'r oll, mi hyderaf, A GAIR DUW YN UCHAF,
 A'r IESU yn Frenin ei serchiadau dyfnaf :
 Yr einioes i gyd yn berarogl moliant,—
 Yn fendith i ddyn, ac i Dduw yn ogoniant.

Mawr ddiolch, UCHELDER, am noddod dy enw,
 Ac am bob rhyw fantais o'n plaid allo fwrw :
 A hefyd, llon-gyfarch, Dywysog mawr Cymru,
 Dy fod yn GANGHELLYDD I BRIFYSGOL CYMRU !

NODIADAU LLENYDDOL.

A Critical Account of the Philosophy of Lotze: The Doctrine of Thought.
By HENRY JONES, M.A., Professor of Moral Philosophy in the University
of Glasgow, Author of "Browning as a Philosophical and Religious
Teacher." Glasgow: Maclehose and Sons. 6d.

"WHAT is mind? No matter. What is matter? Never mind." Mae'r ymaldod yn cymeryd i mewn ddirgelwch sydd am oesoedd wedi profi yn un o'r taegau caletaf a ddaeth yn flordd meibion dynion. Ac y mae Lotze wedi bod yn gweithio yn ddyfal gyda hi, ac yngolwg llawer wedi gwneyd gwasanaeth gwerthfawr. Teimlai fod y pendyl, yn ei ymdaif o eithaf materolaeth, wedi cyrraedd eithaf mewn drychfeddyliaeth ag oedd yr un mor bell oddiwrth y gwirionedd. Golygal fod Hegel a'i ygol wedi unoli meddwl yn y fath fodd â sylweddoldeb, fel nad oedd byd mawr a byw ffeithiau yn ddim mwy ond cyfundrefn o syniadau arddansoddol. I ddyfod â pethau i'w lle, fe dybiai fod yn rhaid iddo fychanu meddwl. I hynny, ceisia d dangos nad ydyw yn egwyddor hanfod; nad ydyw yn gwneyd, ond yn arddangos sylweddoldeb, yn fwy neu yn llai cywir. Drachefn nad ydyw meddwl ond un ymysg amrywiol alluoedd o'r eiddom, o ba rai y mae a fynno teimlad ac ewyllys, canfyddiad a dychymyg, a'n cyraeddiadau, yn gystal a'r meddwl, yr hwn, yn ol Lotze, na wna ond amgyffred, barnu, ac ymresymu. Eto, nad ydyw meddwl yn gwneyd ei waith ond trwy help galluoedd ereill, ar ba rai y mae yn dibynnu. Eto, fod y byd a greir felly gan feddwl, yn ddrychfeddyliol bur, yn fyd o feddyliau ac nid yn fyd ffeithiau. Ac yn olaf, na chyd-nabyddid gwaith meddwl fel yn cynrychioli sylweddoldeb, pe meddwl byddai yr unig allu dealltwriaethol y gall dyn ei ymarfer. Mae hyn yn tafu popeth i ddyrswch. Yr ydym wedi ein gwneyd yn "rhyfedd ac ofnadwy," ac y mae cyfanrwydd pob gweithrediad o'r eiddom yn dibynnu ar Nosogrywydd o alluoedd sydd, yn eu cydgord, yn gwneyd unoliaeth bur. Ac ymhlê y gellir cael gafael ar yr unoliaeth hwnnw ond yn y gallu ardderchog sydd gan ddyn i feddwl? Nid oedd ddadl nad yw y sylweddoldeb oddiallan yn cyfateb i'r drychfeddyliau mewnol a dderbynair yn ei gylch; ond am yr oll sydd i ddyn ym myd natur a byd mawr gwirionedd, y maent iddo ef yn ddrychfeddyliau, ac fel y cyfryw y mae yn rhaid iddo ymwned a hwynt. A cheir fod y benbleth yr arweinir Lotze iddi wrth geisio di-orseddu meddwl, a'r anobaith o esbonio y dirgelwch ar bob tir arall, yn troi allan fel y prawf cryfaf o'i fawredd a'i unoliaeth. "Yn y byd nid oes dim yn fawr ond dyn; mewn dyn nid oes dim yn fawr ond meddwl." A dyma ydyw ergyd yr ymresymiad dwfn a galluog a geir gan ein cydwladrwr a'n cyfaill, y Profeswr Henry Jones, yn y gyfrol hwn. Ymdrina yma â golygiad Lotze ar feddwl; addaws mewn cyfrol arall ddelio â'i olygiadau ar yr ochr arall i'r dirgelwch sydd gan athroniaeth i'w esbonio, sylweddoldeb. Da gennym allu dweyd ei fod wedi gwneyd y gwaith yr ymgymherodd ag ef yn feistrolgar a boddhaol; neu fel y dywedai y *Times* am ei ddull o ddelio â'r materion athronyddol a ddalent dan ei sylw yn ei lyfr ar Browning, "â gafael gref a darwelediad olir." Ni allwn addaw y caiff y darlennydd y llyfr yn hawdd i'w ddarllen a'i fwynhau; ond os ewyllysis gymeryd poen i'w efryd, fe dâl yn rhagorol iddo.— Da gennym lon-gyfarch Henry Jones ar ei ddyrohaflad i gadair Athroniaeth ym Mhrifysgol Glasgow!

Handbooks for Bible Classes and Private Students. *The last of the Prophets, a Study of the Life, Teaching, and Character of John the Baptist.* By Rev. J. FEATHER. 2s.

From the Exile to the Advent. By Rev. WILLIAM FAIRWEATHER, M.A., Kirkcaldy. 2s.—Edinburgh: T. & T. Clark.

MAE y rhai hyn, fel llyfrau ereill y gyfres ragorol yma y cyfeiriasom atynt o dro i dro, yn dra gwerthfawr. Y maent ar faterion o fawr ddyddordeb, a materion nad ydyw yn hawdd taro ar ddim a roddai, mewn cylch oryno, wybodaeth foddhaol yn eu cylch; y maent hefyd wedi eu hyagrifennu gan wfr sydd wedi eu

astudio yn dda, ac yn gallu traethu arnynt gyda goleuni. Ychydig iawn, mewn cymhariaeth, sydd wedi ei ysgrifennu ar y Bedyddiwr. Ac eithrio gwaith Dr. Reynolds, "John the Baptist," byddai yn anodd cyfeirio at ddim gwerth ei enwi. Ac ystyried fod Ioan, fel y dywedai yr Iesu ei Hun, yn "fwy na phroffwyd," ac "ym mhlith plant gwragedd na chododd neb mwy nag Ioan Fedyddiwr," y mae yn rhyfedd fod iddo mor ychydig o le yn ein llenyddiaeth ac yn ein myfyrdodau. Mae dau reswm amlwg am hynny. yr ydoedd mor agos at yr Un Mawr yr ydoedd yn herald i fynegi ei ddyfodiad ac i'w gyflwyno i Israel, yr Hwn hefyd yr oedd ei Ddwyfol ogoniant y fath fel ág i dafu ei ragflaenydd i ddinododd; ac hefyd y mae y cofnodion a geir am dano mor ryfeddol o brin fel y teimlir nad hawdd ydyw gwneyd llawer o honynt. Ond y mae Mr. Feather wedi gwneyd *Study* o honynt, a hynny yn ol syniad Carlyle am yr hyn a ddylai bywgraffiad unrhyw ddyn fod,— "Sut yr oedd y byd a bywyd dyn, o'i safle neillduol ef, yn ymddangos i'w feddwl? Sut yr oedd amgylchiadau cydfynedol yn effeithio arno oddi allan; sut yr oedd efe yn effeithio ar y rhai hynny oddi mewn? Gyda pha ymdrech a llwyddiant y llywodraethai arnynt; gyda pha wrthwynebiad a dioddefaint y suddai oddi tanynt?" Y mae wedi cymeryd i mewn yn ofalus yr oll a ddywedir yn y Gair am Ioan, ac astudio y cyfan yng ngoleuni amgylchiadau a hanes yr amseroedd; a chyda'r syniad olir a furrfiodd felly am y Bedyddiwr a'i hanes, y mae wedi gallu gosod ei ystori ger bron yn gyflawn a boddhaol. Ychydig, debygem, a allent ddarllen y llyfr gyda mesur o astudrwydd, heb deimlo eu bod wedi ennill llawer; heb deimlo at Ioan edmygedd mwy dwfn a chariad uwch, fel un o'r cymeriadau puraf a mwyaf dyrchafedig a sangodd y ddaear. Wrth draethu am ei Fedydd, a chyfeirio at olchiadau o gyffelyb ystyr ymysg cenhedloedd, dyfynnir engraifft dra nodedig o *Handbook of Scriptural First Principles*, gan Dr. Gregory, lle, ar awdurdod Frederika Bremer, y dywedir am "lwyth o Indiaid ar y Mississippi, ar y dydd cyntaf o'r flwyddyn, yn ymgynnull ac yn ymsuddo i'r afon, ac yn codi i ddechreu bywyd newydd. Mae y seremoni hon yn cael ei galw *Bushkitan*. Ni chaniateir i un oweryl or-fyw y weithred hon. Pe bai i rywun, wedi hynny, geisio adgodi anghydfod blaenorol, fe'i hadgofid ar unwaith fod dwfwr y *Bushkitan* wedi diffodd y wreiohionen olaf o ddygasedd. Pe cyfeiriai neb at unrhyw weithred annheilwng o eiddo unrhyw aelod o'r llwyth a ddigwyddodd cyn i'r seremoni gymeryd lle, fe'i distewir ar unwaith gan yr adgofiad, 'Y mae wedi pasio y *Bushkitan*.' Cyfrifa pob un ei hunan 'yn farw yn wir i' holl gamgymeriadau ei fywyd blaenorol. Cyfoda o'r dwfwr i 'rodio mewn newydd-deb buchedd.'" Gofynna yr awdwr, "P'le y cawsant y drychfeddwl?" Ple hefyd!

Mae y llyfr arall yn traethu am y cyfwrng rhwng y ddaau Destament, o'r Caethgludiad hyd Ddyfodiad Crist, ac yn rhoddi ei hanes yn gyflawn a dyddorol. Mae ei raniadau yn cymeryd i mewn, 1. Y Caethgludiad a'r Dyohweliad, c.c. 588—538; 2. Y Cyfnod Persiaidd, c.c. 537—333; 3. Y Cyfnod Groegaidd, c.c. 333—167; 4. Y Cyfnod Maccabeaidd, neu Gyfnod Rhyddid, c.c. 167—135; 5. Y Cyfnod Armenaidd, c.c. 135—63; 6. Y Cyfnod Rhufeinig, c.c. 63—4. Wedi darllen yr hanes a geir yn yr Hen Destament am y bobl yr "ymddiriedwyd iddynt am ymadroddion Duw," fe deimlir fod y distawrwydd o dros bum cant o flynyddoedd rhwng hynny a'r hyn a geir yn y Testament Newydd, yn boenus, a chyfyd ymfyniadau yn naturiol yn y meddwl, Sut fu hi arnynt, a thryw ba helyntion y daethant i'r ystad y ceir hwynt ynddi adeg yr Adfent, neu Ddyfodiad y Gwaredwr. Fe geir yr holl hanes yn y gyfrol ddeustlus a hylaw yma. Y mae yn frwrth ymchwilid mawr. Rhydd i'r darlennydd syniad olir am helyntion terfysgld y dieithriol y canrifoedd hynny; teifi lawer o oleuni ar lawer o'r hanes a'r cyfeiriadau Ysgrhythol; a dengys mor ryfeddol yr oedd yr Hwn "sydd yn llywodraethu ym mrenhiniaeth dynion," trwy eu holl amcanion hwynt, yn dwyn oddiamgylch ei amcanion mawrion ei Hun, ac yn paratoi at ddyfodiad y "frenhiniaeth nad ydyw o'r byd hwn," ond sydd er hynny i beri chwyldroad yn ei hanes na feddylwyd erioed am ei gyffelyb, ac sydd yn y pen draw i wneyd gwyneb y ddaear fel gwyneb y nef.

Some Aspects of the Church in Wales during the Fifth and Sixth Centuries. By HUGH WILLIAMS, M.A., Professor of Church History at the Theological College, Bala. London: Chas. A. Clark. 1s.

YMDDENGYS fod Mr. Williams wedi ymgymeryd â thraddodi darlith ar y testyn uchod o flaen Cymdeithas y Cymrodorion yn Llundain, ac mai mater y ddarlith

honno, wedi ei weithio allan i ran o'r cylch llawnaeth a hawliai y *parac*, ydyw y pamffled rhagorol hwn. Nid darlith, ond cyfrol a haeddaai *gael*, yn *cauadig* oddiar law un ag sydd wedi rhoddi iddo efrydiseth mor drwyadl, ac yn *medda* cymaint o gymhwyster i ymwneyd ag ef. Nid ydyw a wyddom am y cyfnod dyddorol yma yn hanes crefydd yn ein gwlad, ond yohydig. Ond y mae Mr. Williams wedi myned i mewn yn ddyfal i'r holl hanes, gan efrynu ya dda yr awdurdodau gwreiddiol, a gosod yr ystori o'n blaen mewn ffordd a ddaai yn rhagor. I am ei hastudio. Feallai mai bron yr unig ddiffyg a deimlir yn y gwaith ydyw yr hyn sydd yn oodi oddiar ddirwasgiad ei fater i gylch sydd yn rhy gyfyng iddo. Fe deimla y darlennydd lawer tro y buasai yn wrych ganddo *gael* gwyb lawnaeth ar rai helyntion y cyfeirir atynt, a mwy o hamdden i gymdeithasu a rhai o'r hen dadau da a ddygir ger bron. Ac er gwerthfawroed i'r dygagedig y cyfeiriadau at a'r dyfyniadau o'r awdurdodau gwreiddiol a geir mor helaeth, nid ydym yn sicr nad gwell fuasai fod yr awdwr, *ar eu pwys*, yn ymollwng yn fwy rhydd i ddweyd ei ohwedl wrthym, gan roddi i ni felly well mantais i gymeryd i mewn yr holl amgylchiadau. Ond teilynga y llyfr ei ddarlenn yn he'aeth a'i efrynu ya dda. Nid ydyw yn ymollwng dan gyfaredd y gwahanol dybiau a goleddwyd am y modd y plannwyd Oristionogaeth yn ein gwlad, gan eu bod oll mor amser. Pa geir y cyfeiriadau cyntaf at "fydd Crist," y mae yr eglwysi wedi eu plannu. Fe fydd yn syn gan lawer weled nad ydyw yn cael dechreuad Cristionogion *Cymraeg* hyd y bumed ganrif. Yr oedd eglwysi Oristionogol yma yn fore iawn, ond y mae efe yn gorfod oedu nad eglwysi Brutanaid oeddynt, ond rhai Rhufeinig, a'r Cymry o'u hamgylch, fel yr oeddent am amser maith yn "preswyllo eu hunain," heb ond yohydig gyfathrach a'u gorohfygwyr, felly na ofalent am eu syniadau crefyddol, ond glynu wrth eu hen grefydd eu hunain. Dyfynnir o ysgolhaig Ffrengig Celtaidd "fod Prydain yn y bumed ganrif, fel yn y gyntaf, yn Geltaig." Am yr holl fywyd Eglwysaig y mae gennym ei hanes yn y wlad, fe geir mai Rhufeinig ydoedd. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif, ceir fod Maximus, pan yn honni gallu yma fel Ymerawdwr, wedi barnu yn ddoeth iddo gymeryd ei feddyddio, yr hyn a allai olygu fod y Cymry, erbyn hynny, rywffod, wedi dyfod i edrych ya garedig ar Oristionogaeth. Yn nechreu y bumed ganrif, oynheuwyd cryn wrogrwydd ynglyn a Mynachaeth, ac mewn amser cyrhaeddodd hynny y Cymry. O hynny ymlaen ceir Oristionogaeth yn fyfnu yn eu plith, ac arbyn dyfodiad Awstin wedi dyfod yn allu a ddanghosi fodolaeth Eglwys Gymreig. Ond o hynny allan, fel yr oedd y genedl yn orohfygedig, felly hefyd fe ddaeth yr Eglwys a osodid arni yn Eglwys estronol. Pan ysgrifennai Bede, tuag o.c. 731, edrych d ar "fydd a ohrefydd y Saeson" gan y Cymry gyda dirmyg. A rhywbeth tebyg a geir yng nghân Taliesin:—

Gwae ny oheidw ey deवाद
Rhae bleidie Rhufeiniaid
A'i ffon gwppa.

Ond am y drafodaeth cyfeiriwn y darlennydd tirion at y llyfr.

The Welsh Language Census of 1891, with Coloured Map of the 52 Registration Districts into which Wales is divided, and Remarks on the Future of the Welsh Language. By J. E. SOUTHALL. Newport, Mon.: John E. Southall.

GALWASOM sylw dro yn ol at "Wales and Her Language," gan Mr. Southall. Sais ydyw efe, wedi astudio ein hiaith, a dyfod ymhob ystyr yn Gymro rhagorol. Mae ei astudiaeth o *Census* neu Gyfrifiad 1891 wedi bod yn fanwl iawn, ac y mae y Map ieithyddol a luniodd o Gymru yn ei ol yn gywraint a medrus. Yr unig resyn yw fod y fath ddybryd esgeulustod wedi bod w.th wneyd y Cyfrifiad hwnnw. Nid oedd y owestiynau yn rhai teg, ac ni chafodd llawer iawn o'r Cymry dafennau priodol i'w llanw. Ond rhydd y llyfr syniad da am iaith pobl Cymru, a chymer olwg resymol ar ei dyfodol, ac ar a ddylem wneyd mewn perthynas iddi.

Ymsonau. Gan y Parch. J. J. ROBERTS (*Iolo Caernarfon*). Caernarfon: Swyddfa'r Wasg Genedlaethol Gymreig.

LLYFR y dylai fod iddo roesaw mawr gan hawb o'r Cymry sydd yn hoff o farddoniaeth bur a dyrohafedig. Ni raid dweyd wrth ei gydwladwyr fod Mr.

Roberts yn un o wir blant yr Awen. Y mae wedi bod yn ei myawes ers llawer o amser. Ac am a wyddom fe ellid dweyd am dano yntau,

He lisped in numbers, for the numbers came.

Ac yn sicr y mae wedi datguddio iddo lawer o'i chyfrinach. Cawsom yr hyfryd- wch o gyhoeddi cryn lawer o'i gynhyrchion yn y TRASTHODYDD, a phob amser fe deimlai ein darllenwyr ar eu calon ddweyd, "Melus, moes mwy." Ac yr oedd llawer o honom, wrth weled y ganmoliaeth uchel a roddid gan y beirniaid goreu i gyfansoddiadau o'i eiddo a fernid yn oreu mewn Eisteddfodau, &c., yn gorfod teimlo yn ofidus na oheid hwy wedi eu hargraffu, fel y gallem ninnau hefyd gael cyfleustra i'w mwynhau. Dyma gryn lawer o honynt o'n blaen yn y llyfr hwn, ac yr ydym wedi eu darllen gyda llawer iawn o hyfrydwoh. Mae yr enw ar y llyfr yn newydd, ac wedi ei fwriadu i ddangos natur arbennig llawer o'i gynnwys, "oblegid fod gronyn o ymson, neu hunanymddiddan, neu o ymgom rhyngof fi a fy awen, yn treiddio trwy y rhan twyaf o hono." Fe geir ynddynt gyfuniad tra hapus o feddylgarwch dwi a chryf, ac o awen ysbrydol a byw. Mae y syniadau yn lawrion a gwerthfawr, ac wedi eu gwiego gyda'r fath harddwch dymunol fel yr ydym yn hoffi aros yn eu owmni, ac yn cael ein tueddu i fynnu yohydig o "ymgom" a hwynt ein hunain.

A thing of beauty is a joy for ever.

Ac y mae y darnau hyn yn gyfoethog o bethau o'r fath. Am ein pobl leusaino dirion a garent godi uwchlaw ystrybiaeth llawer o'r pethau a gynhygir iddynt ar furf barddoniaeth, ac ymhyfrydu hyd rodfeydd uchel mynydd yr Awennau, gan ymwrandu a "dirgelion distaw" prydferthwch a chariad sydd yn awyr hyfryd y fro ysbrydol honno, ni allem wneyd yn well na'u cyngori i wneyd yr *Ymsonau* hyn yn estrydiaeth ddyfal a chariadus.—Sut ddrwg na chwaisid cynhwysiad o'r llyfr? Yn sicr ni fuasai hynny yn un diraddiad ar ei awenyddiaeth, ond buasai yn dipyn o gyfleustra i gael gafael ar y pethau da sydd yn ei wneyd i fyny.

Penillion Telym. Casglwyd gan W. JENKYN THOMAS, B.A. Caernarfon: Y Wasg Genedlaethol Gymreig. Cyfres I. 1s.

DIDDAN iawn ydyw darllen yr hen benillion a genid gan Gymry y dyddiau gynt gyda'r tannau, a diameu mai llawer mwy diddan ydoedd eu canu, a gwrando eu canu. Mae y Casgliad hwn yn cynnwys dros bedwar cant a hanner o honynt, a hawdd gennym feddwl y bydd llawer yn ei fwynhau, ac nid rhyfedd nad allai fod eto dipyn o ganu ar yr hen benillion. Mae yr olwg a geir trwyddynt ar fywyd y Cymry mwynion yn dangos mai nid delffiad hurt ac isel oeddynt, ond eu bod yn llawn asbri a siroideb, ac yn mwynhau cymdeithas ddiddan gyda'u gilydd mewn ffordd llawer uwch nag a feddyliai llawer o honom. Dyma un, nad oeddem wedi ei gyfarfod o'r blaen, ac y mae'n hawdd i ni feddwl fod cryn dipyn o "fynd" arno:—

Pan oeddwn i 'n caru y benfelen bino,
Yn Llanor y Llyn pan oeddwn i 'n llanc,
Ei gweled yn lân, a'i ohanfod yn siono,
Ond erbyn ei chael 'r oedd arni hi ohwino.

Beth bynnag oedd y "ohwino!" Dyfynnir o Fardd y Brenin yn y Rhagymad- rodd, lle y ceir "pennill" fel enw benywaidd: "Daliant ati i ganu heb gerddor- iaeth, ac ni cheir hwynt byth yn ailadrodd yr un bennill." Ac ysgrifenna Mr. Thomas ei hun yr un modd: "Cymer y bennill yr un lle bron," &c. Tybed y bu llawer o gwmniau o'n cydwladwyr yn "canu bob yn ail bennill?" Ac oni awnai yn dra dieithr glywed pregethwr yn dweyd mai y bennill gyntaf o'r emyn a genid, neu mai y drydedd a'r bedwaredd bennill? Mae y penawdaf Lladin a geir uwch ben rha'i o'r penillion yn dipyn o wastraff ar ddysegeidiaeth.

Syr Williams o Benamnon. Gan ELLIS O'R NANT.

FFUGCHWEDL sydd yn ddarlun rhagorol o fywyd Cymru yn y dyddiau gynt, ac y mae ei darllen yn orchwyl difyr ac addysgiadol. Y mae ar y naill law yn

ddynoethiad llym o ddull annheilwng ac annuwiol yr Esgobion Seisnig o ddelio & Chymru, y rhai a wnaethant gymaint i yrru crefydd yn gwbl o'n gwlad; ac ar y llaw arall, o'r gwendid yr ymollyngodd lliaws o'r Cymry goreu iddo dan drefn mor felltgedig, sef ymroddi i hudoliaeth y ddiad feddwol, ac felly eu dinystrio eu hunain yn gwbl oll. Mae ei gwers fawr yn dra amserol yn y dyddiau hyn, pan y mynnai llawer ein perswadio y dylai y Sefydliad Gwladol o grefydd, a brofodd mor andwyol i Gymru, ac a buasai—oni bai oodi o ymwared i ni o le arall—wedi ein glanio mewn paganiaeth, gael ei bachau, fel trwy hawl Ddiwyfol, ddyddiau y ddaear. Dichon fod y lliwiau a ddefnyddir ambell waith yn lled gryfion, a'r ymddiddanion a gofnodir yn lled arw; ond hawdd gweled fod yn y chwedl lawer o wirionedd hanesyddol, ac y mae ei Chymraeg yn gwneyd cyflawnder & llawer o hen eiriau a sydd wedi cyflawnhau eu hawl i fyw, ac y byddai yn golled i ni eu myned o'r golwg.

Hughes's School Series. *Llyfrau Ystraeon Hanes*. All Llyfr. I Safon III. Gan OWEN M. EDWARDS, M.A., Athraw Hanes. Wrexham: Hughes and Son. 7c.

LELYFR Cymraeg a Saesneg at wasanaeth ein Hyegolion Elfennol. Disgwyliwn y bydd llawer iawn o blant Cymru yn fawr ar eu mantais o gael cyfleustra teg trwy lyfrau o'r fath yma i *ddeall* beth y maent yn ddysgu, ac nid o'rannio eu tipyn meddwl i geiriau a brawddegau na wyddant yn y byd am eu harwyddocâd, ac mewn canlyniad gollu y cyfan. Mae y llyfr hwn yn dra chyfaddas i'r perwyl, fel y buasai pawb yn disgwyl oddiwrth ei awdwr. Ond beth, wys, a feddylia y plant sydd yn gwybod am Geiriog, am fod Mr. Edwards yn ceisio eu gwirioni trwy ddwyed fod y famaeth o Gymraes a gafwyd i'r Tywysog bach a anwyd yng Nghaernarfon, Rhagfyr 1282, yn canu,

Myfi sy 'n magu 'r baban,
Myfi sy 'n siglo 'r cryd, &c.

Oni theimlant y byddai yn hyfryd cael cyfle i wneyd trio ag yntau!

Byr-Gofiant y diweddar Thomas Lloyd Jones, Ysw., F.R.G.S., Talysarn.
Gan y Parch. W. WILLIAMS, Talysarn. Caernarfon: Gwenlyn Evans. 6c.

CYMERIAD prydfferth a thra hawddgar, ag yr oedd yn hynod chwith ei golli mor fuan. Y mae ystori ei fywyd a geir yma yn ddarllenadwy a llawn o addysg, a Phryddest Goffawriaethol y Parch. G. Teowyn Parry yn brydfferth ac awenyddol. Tybed na ellid gosod Darlithiau Mr. Jones, sydd yn rhoddi hanes ei Deithiau, &c., y rhai a wrandewid gyda'r fath foddhad gan gynifer o'i gydwladyr, mewn argraff? Mae ein llenyddiaeth yn brin o bethau o'r fath, ac y mae'n anodd meddwl na roddid croesaw calonnog i gyfrol o Ddarlithiau Mr. Lloyd Jones.

Marwnad er côf am y Parch. Owen Edwards, M.A., Melbourne, Australia.
Buddugol yng Nghyfarfod Llenyddol Llanuwchllyn, Ebrill 4ydd, 1895.
Gan LLEW TEGID. Bangor. 1c.

Yn oedd Mr. Owen Edwards yn Gymro anwyl a galluog ac addawol iawn, ac yr oedd lliaws mawr o'i gydwladyr yn disgwyl oddiwrtho dymor o wasanaeth tra gwerthfawr. Ond, "ei haul a fachiudodd tra yr oedd hi yn ddydd!"

Ah, Sir, the good die first,
And they whose hearts are dry as summer's dust
Burn to the socket.

Fe fyddai deall fod Llew Tegid wedi canu Marwnad i'r fath un fel ei gyfaill agos, yn ddiog o foddlonrwydd i unrhyw un y rhaid fod y gân yn dda. Ac felly y mae. Fel yr oedd yn digwydd, dyma yr unig un a anfonwyd i'r gystadleuaeth; ond ys dywedai y beirniad, Iolo Caernarfon: "Pe buasai dwsin wedi ymgeisio, gallasai 'Y Galon Friw a'i geilw'n Frawd' fod yn orau. Gwobrwyer ef ar bob cyfrif, a hyderaf yr argreffir ei gyfansoddiad." Y mae y gân yn dyner, a barddonol, a phrydfferth.

TIME TESTED TEAS.

SUPERIOR CEYLON TEA

1/3 PER LB.

16lbs. by RAIL CARRIAGE PAID for 20s.

SUPERIOR
INDIAN
SOUCHONG
PER 1/7 LB.
RIZÉ MEDAL
LIVERPOOL
EXHIBITION.

THOS. JONES & CO. LTD.
TIME-TESTED
Teas

AMSER ADDENGYS'
TIME HAS PROVED
THAT
THOS. JONES & CO.'S
TEAS
ARE UNSURPASSED

THOS. JONES & CO. LTD.
INDIA CHINA
TEAS

TESTED BY TIME
THOS. JONES & CO. LTD.
9, PARKER STREET
LIVERPOOL. TEA & COFFEE MERCHANTS.
BIRKENHEAD SOUTHPORT & BLACKBURN.

SUPERIOR
BLENDED
TEA
PER 2/- LB.
SPECIALLY
RE-
COMMENDED.

AGENTS WANTED. SAMPLES ON APPLICATION.

Thos. Jones & Co., Ltd.,

TEA IMPORTERS,

9, Parker Street, LIVERPOOL.

COCOA CADBURY

Hollol bur, wedi ei wneyd yn Lloegr.

Ni ddefnyddir Chemicals fel y gwneir yn Cocoas a elwir yn rhai tramor.

Mae enw CADBURY ar unrhyw sypyn o Cocoas
neu Chocolate yn ddigon o sicrwydd am burdeb.



SEBON

PEARS

JAN 3 1919

LLYFR L.

RHIFYN CCXVI.

Y TRAETHODYDD.

MEDI, 1895.

CYNHWYSIAD.

Yr Addysgiaeth Uwch a Bywyd Cenedlaethol Cymru. Gan y Proffeswr HENRY JONES, M.A.	821
Dr. John Cairns. Gan y Parch. WILLIAM EVANS, M.A.	885
Mae Gwynnach Dydd. Gan GLAN ALAW	845
China a Japan. Gan y Parch. H. IVOR JONES	846
Y Syched am Dduw. Gan y Parch. W. O. JONES, B.A.	360
Gweddi yr Arglwydd a'r Deg Gorchymyn. Gan y Parch. ROBERT WILLIAMS, M.A.	878
Llanwrtyd. Gan y Parch. JOHN MYFENYDD MORGAN	880
Y diweddar Barchedig Rees Jones, Felinheli. Gan y Parch. G. TEGWYN PARRY	381
Nodiadau Llennyddol... ..	892

CYHOEDDIR Y RHIFYN NESAF TACHWEDD 1, 1895.

PRIS SWLLT.

TREFFYNNON:

ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN P. M. EVANS & SON.

COLEG Y GOGLEDD, BANGOR

(UN O'R COLEGAU YN Y BRIFYSGOL GYMREIG).

PRIFATHRAW: H. R. REICHEL, M.A., gydag Unarddeg o Broff
wyr, Tri o Ddarlithwyr, a Phedwar ar ddeg o Athrawon ereill.

Dechreuas y Tymor nesaf Hydref 1, 1895. Parotoir ar gyfar Arholiadau Prifysgol Cymru ac eiddo Prifysgol Llundain, y Cwrs Meddygol ym Mhrifysgolion Edinaba a Glasgow, ac Arholiadau ereill. Rhwir addysg arbenig mewn Amaethyddiaeth *Electrical Engineering*. Mae yn y Coleg Adran Normalaidd.

Cynnygir dros 20 o Ysgoloriaethau, yn amrywio mewn gwerth o £40 i £10 flwyddyn, i'r rhai fyddo'n ymaelodi yn y Coleg gyda dechreu y tymor nesaf. By hanner yr Ysgoloriaethau yn gyfyngedig i Gymry. Dechreuas yr arholiad am dan Medi 17.

Ceir pob manylion gan

JOHN EDWARD LLOYD, M.A.,

Ysgrifennydd a Chofrestrydd.

AT HOLL

GYMRY Y DEYRNAS GYFUNOL

TELERAU ARBENIG

HYD GORPHENAF 31,
1895,

ESBONIAD JAMES HUGHES

AR Y

TESTAMENT NEWYDD

WEDI EI RWYMO YN HARDD A CHRYF MEWN OBOEN LLO,
AM DDIM OND

 **UN BUNTI!** 

Y Pris isaf y gwerthwyd yr Esoniad erioed, se
gostyngiad o

BEDWAR SWLLT AR DDEG A CHWE CHEINIOG

Y GYFROL.

Y TRAETHODYDD.

YR ADDYSGIAETH UWCH A BYWYD CENEDL- AETHOL CYMRU.

DARLITH AR DDIWEDD BLWYDDYN ATHROFAOL COLEG Y GOGLEDD,
MEHEFIN 27, 1895.

Gan HENRY JONES, M.A.,

Proffesor Athroniaeth Foesol ym Mhrifysgol Glasgow.

PE siaradwn, ac yn berffaijth ddiffuant, am yr anrhydedd a roed arnaf gan Senedd y Coleg hwn wrth ofyn i mi eich annerch heddyw, mi ddywedwn lai nag a weddai i'r amgylchiad a rhywbeth gwahanol i'r hyn a arwyddocâ. Oblegid yr wyf yn cael yn eu gwahoddiad, yr hyn a werthfawrogaf fwyaf, brawf newydd o gyfeillgarwch sy'n heneiddio heb golli ei allu caredig i foddhau, ond sydd o hyd yn darganfod rhyw ffordd annisgwyladwy o'i amlygu ei hun. I'r fath wahoddiad yr oedd ufuddhau yn anocheladwy. Fe'm gorchfygwyd, nid gan unrhyw genadwri yn pwysu am gael ei thraethu, ond gan y gallu tynherach sydd yn dwyn y crwydriad yn ol i'r hen aelwyd. Mae yn dda iawn gennyf sefyll unwaith eto ymysg fy nghydlafurwyr ac annerch fy hen gyfeillion a'm cydwladwyr, gwaed-berthynasau fy nghorff a'm hysbryd. Ac feallai y gallaf ddefnyddio rhyddid yr aelwyd mor bell â dweyd hyn am danaf fy hun, y bydd i mi byth ei gyfrif yn amgylchiad dedwydd mewn bywyd sydd wedi bod yn hynod o ffortunus, ddarfod i mi dreulio blynyddoedd cyntaf fy mywyd fel Proffeswr ymysg Proffeswyr y Coleg hwn.

Y mae, ymysg y gwŷr ieuainc sydd yn llafurio o blaid y daioni cyhoeddus yng Nghymru, ac yn raddol yn profi eu hawl i leoedd o ymddiried cyhoeddus, lawer o hen fyfyrwyr y Coleg hwn na chaent ei bod yn dasg hawdd datgan maint eu dyled iddo. Yma fe ffurfiwyd chwaeth feddyliol, a derbyniwyd egwyddorion a ddylanwadant arnynt tra byddant byw; ac yma, uwchlaw'r cwbl, hwy welsant yn cael ei fyw yn eu hathrawon y ffyddlondeb uchel hwnnw i wirionedd a wna iddynt fyned rhagdynt a llwyddo. Ond mewn rhai ffyrdd yr wyf fi yn fwy dyledus i'm cydlafurwyr na'u hefrydwyr, canys mi gefais well mantais i weled gweithiad y Coleg o'r ochr fewnol.

Nid oedd yn hynod, wrth osod sail Sefydliad Cenedlaethol, fod cwestiynau mawrion am drefn addysgiaeth yn codi i gael eu trafod.

ein gwneyd yn fwy byw ein teimlad o'n teilyngdod ein hunain. Mae personau a chenhedloedd yn gyffredin yn dyfod yn fawr heb yn wybod iddynt eu hunain, wedi ymgolli mewn rhyw waith da; a gelwir hwy yn fawr gan ereill yn hytrach na chanddynt eu hunain. Eto, y mae hanes addysgol Cymru am y deg neu y deuddeng mlynedd diweddaf, y fath ag sydd yn rhoddi i ni achos cyfiawn i deimlo peth balchder. Oblegid y mae cynllun nad oes prin ei gyffelyb o ran trefn ei ffurfiad a manylrwydd ei orffeniad, yn awr wedi ei gwblhau a'i goroni trwy sefydliad Prifysgol i Gymru. Ni ddymunwn anghofio y gweithwyr blaenorol a fuont feirw cyn gwawriad ein dydd hapus ni. Ac ni allwn anwybyddu y ffaith fod ein ffawd dda wedi bod mor amlwg a'n hymdrechion ni ein hunain. Yr hyn oedd ar Gymru eisieu y mae y gweddill o'r deyrnas wedi bod yn foddlon i'w ganiatau. Mewn ffordd sydd yn anghyffredin mewn helyntion dynol, mae y pen a allodd synied, wedi cael y llaw a allai weithredu; mae dyheadau cyfeillion dysg, gallu ymarferol y deddfwneuthurwr, ac ewyllys gyffredin y bobl wedi eu cyfuno mewn un ymdrech. Ond wedi gwneyd pob caniatâd rhesymol, chwi ellwch eto eich llongyfarch eich hunain eich bod wedi dechreu yn dda waith mawr, gosod i lawr yn ddwfn sylfeini llwyddiant cenedlaethol. A phan gofir nad all fod i les cyhoeddus mawr, yn y pen draw, yr un ffynhonnell ond uniondeb tuedd a bywyd mossol, y mae geunych achos gwell eto i lawenhau. Mi ganfyddwn i yng ngwaith y blynyddoedd hyn brawf neillduol o allu fy nghydwladwyr i gael eu hysgogi gan amcanion uchel. Ac nid dydd-treuddwydion yw amcanion felly; i'r gwrthwyneb, y mae ganddynt ffordd dra rhyfeddol o lunio helyntion dynion yn ol eu cynllun hwy eu hunain. Da y dywedir fod "ffydd yn symud mynyddoedd." Yn yr achos yma, o leiaf, y dynion hynny a ymddiriedant fwyaf, ac nid mewn un modd yr amheuwyr a'r beirniaid a'r taigion, sydd wedi dangos mwyaf o'r darwelediad, yr hwn sydd hefyd yn rhagwelediad o ddoethineb ymarferol. Ac eto, fe fuasai y rhai sydd yn cymeryd yr olwg oreu ar bethau, rhyw ddwsin o flynyddoedd yn ol, yn disgwyl llai nag sydd yn awr yn weithredol wedi cymeryd lle.

Fe'm temtir i ddangos hyn trwy gyfeirio at un neu ddwy o enghreifftiau. Yr wyf yn cofio yn dda, pan ddychwelais gyntaf o Scotland, yn Ionawr, 1883, fod Gogledd Cymru mewn ymrysonfa anrhydeddus, ond tra ofer; yr oedd tair ar ddeg o drefydd yn hawlio y Coleg oedd i gael ei sefydlu, tra nad oedd yr un ysgogiad ymarferol o gwbl yn cael ei gymeryd tuag at ei sefydlu. Nid oedd ond deuddeng mis o'r amser a nodasid gan y Llywodraeth heb fynd heibio, ac nid oedd neb wedi cyfrannu ceiniog. Ond yn Hydref, 1884, yr oedd yr anhawsterau a ymddanghosent yn amhosibl myned drostynt wedi eu gorchfygu, ac yr oedd Coleg Gogledd Cymru yn ffaith hanesyddol. Ac os ydoedd, mewn un ystyr, yn ffaith ddigon di-olwg, gyda'i chwe phroffeswr a rhyw ddeg ar hugain neu ddeugain o efrydwyr, yr oedd iddi er hynny ystyr y gallai canrifoedd fethu ei gael allan. Yr oedd dynion o bob pleidiau, ac heb fod o unrhyw blaid, cyfoethog a thlawd yr un modd, a llawer nad oedd ganddynt ond ychydig o'r ddysg uwch eu hunain, wedi cyfuno eu nerthoedd ar ei rhan. Ond y mae i mi yn foddhad neillduol i gofio, ymysg y rhai ag oedd yn hynod wasanaethgar ar y pryd, yn arwain y

bobl â'i gyngor, yn ysbrydoli yr arweinwyr â rhywbeth o'i anghard loldob ei hun, ac yn rhoddi esiampl o'i haclioni yn achos gwybodaeth, fod eich Llywydd, Mr. William Rathbone.

Afreidiol yw dweyd nad oedd, ar y pryd, ddim Ysgolion Casolraddol. Nid oedd dim Deddf Ganolraddol, ond yn unig Fesur, yr hwn na ellid hyd yn oed ei ddwyn i mewn i'r Senedd. Fe godwid ei ddarpariadau fel cyfrinach ddofn, oblegid yn eu plith yr oedd mwyafrwm o dreth o ddimai yn y bunt. Ac mor ychydig oedd adnabyddiaeth gwleidyddwr ymarferol y dydd hwnnw o'r Cymry fel yr ofnai y brddai i'r dreth ddinystrio y Mesur. Fe sibrydid, hefyd, y gallai y dreth golli pleidleisiau, ac yr ydoedd mae'n amlwg yn fwy diogel eistedd yn llonydd. Pe dywedwn i Mr. Rathbone unwaith eto gamu i'r adwy, gallwn yn awr ymddangos fel yn defnyddio cymhariaeth eithafol. Ond yr wyf yn cofio yn dda fel y danghosodd efe unwaith eto ei gariad at addysg a'i ymddiried yn y Cymry. Mewn cyfarfod politicaidd yn Llangefni fe osododd yn rhydd o flaen y bobl yr amod ar ba un yn unig y gellid sicrhau addysg well i'w plant. Drannoeth dychwelodd i'r Coleg yma o'r antur, yn llawen fel dyn wedi cael trysor mawr, ac yn cymell gweithrediad pellach. Yn neillduol trwy help cyfaill arall i Gymru,—ar fedd yr hwn y dymunwn roddi coronbleth arall fo'n werdd gan adgeffion am ei wasanaeth perffaith an-hunangar i wlad ei enedigaeth,—Mr. R. A. Jones, anfonodd rhanbarth ar ol rhanbarth, trwy fyrddau ysgol, cyfarfodydd cyhoeddus, a chynulliadau crefyddol eu galwad am y Mesur. Mewn ychydig wytnosau yr oedd yr amhosibl eto wedi ei gwblhau, a gwelodd y senedd-dymor nesaf Gymru yn cael caniatâd i ddarpar ar gyfer ei haddysgiaeth ei hun.

Yr wyf yn crybwyll hyn, nid yn unig i ddangos unwaith eto ein dyled i Mr. Rathbone, ond i awgrymu darnodiad arall o wladgarwr Cymreig. A gawn ni ei alw, nid y dyn sydd yn mynnu gwneyd dysgu Cymraeg yn rhwymedig ar yr holl blant mewn ysgolion Cymreig, neu a broffesa—nid i'w glod—ei fod yn cael ei gynhyrfu yn fwy gan ganiadau Ceiriog neu nofelau Daniel Owen na chan chwareuon Shakespeare, ond y dyn a wyr pan y mae hyd yn oed deimladau da yn dechreu swnio yn weigion, a'r hwn tra yn caru iaith a llenyddiaeth a hanes Cymru, a ymrŷdd yn hytrach at y buddion hynny o eiddo y Cymry ag ydynt barhaus, a'r rhai sydd yn meddu ynddynt ddigon o rinwedd i wneyd unrhyw bobl yn fawr.

Ni arhosaf ar y camrau diweddaraf a wnaed yn yr anturiaeth hon, ac ni adroddaf pa fodd, unwaith eto er cywilydd i'r ofnus a'r bydol-ddoethyn, y darfu i un str, ar ol str arall, osod arni ei hun yr oll o'r dreth addysg; neu pa fodd y chwanegwyd rhoddion gwirfoddol mewn swm digonol i godi a pharatoi cyfundrefn o ysgolion sy'n ddigonol, mi gredaf, i gyflawni anghenion Cymru o gŵr i gŵr. Y mae brwdfrydedd crefyddol, yn ein gwlad ni ac mewn gwledydd ereill, wedi gwneyd rhywbeth tebyg i hyn; ond nid wyf fi yn gwybod y ceir, o fewn cylch llai angherddol addysg boblogaidd, ddim a ddeil ei gymharu â'r orchest yma.

Ac yn awr chwi a ofynnwch pam yr wyf yn cyfeirio at y pethau hyn. Nid, yr wyf yn ateb, i ddyfnhau ein hymwybodolrwydd o'n rhagoriaethau ein hunain. Yr wyf yn ameu fod "Cymru Fydd" yn

cyflym ddirywio i fod yn llef wâg, ac fod y teimlad sydd yn ei le yn ardderchog, yn cael gwneyd gorchest o hono at ddibenion isel. Ni a wnelom, yn wir, well gwaith pe cadwem lai o dwrw. Ond yr wyf fi yn gweled yn y flwyddyn hon o gwblhâd y ddarpariaeth addysgol i Gymru trwy sefydliad Prifysgol, achlysur cymwys o rywbeth fel diolchgarwch cenedlaethol. Gallem yn briodol nodi yr amgylchiad fel y proffwyd gynt, a dweyd, "Hyd yma y cynorthwyodd yr Arglwydd nyhi." Yr wyf yn meddwl fy mod yn gweled hefyd fod gennych dasg o'ch blaen a brofa eich nerth yn galetach fyth, a'r hon a allech gyflawni yn well os tynnwch beth calondid oddiwrth y gorffennol. Dyna ydyw, Rhoddi i'r gyfundrefn, sydd yn awr yn allanol gyflawn, ddigon o ystyr a bywyd mewnol i yrru y genedl Gymreig yn ei blaen, a llwyddo mewn ffordd uwch ar fywyd.

I lygad sylwedydd difeddwl, fe ymddengys sefydliad Prifysgol yn beth diystyr, yn ddim ond dernyn dibwys o addurniad wedi ei ychwanegu at adeilwaith ag oedd eisoes yn gyflawn. Yr oedd y Colegau a'r ysgolion yna, fe ellid dweyd, ac yn gwneyd eu gwaith; yr oll ag oedd yn eisieu oedd gallu i roddi gradd, er boddhau gwag falchder y Cymry. Mae y Brifysgol newydd yn gadael pethau bron fel yr oeddent, oddi-eithr ein bod yn awr yn meddu yr hawl, o werth amheus, o wneyd graddologion gartref, a'u gwneyd yn helaethach.

Yn awr, ni ellir dweyd fod hyn oll o angenrheidrwydd allan o'i le; oblegid fe all y Brifysgol, fel pob cyfleusterau cenedlaethol ereill, gael ei gwneyd i arwyddocau mor ychydig ag a ddewiswn. Ond nid dyna fwrriad ei sylfaenwyr, ac nid dyna, fe obeithir, yw yr hyn y bydd i'r Cymry yn y pen draw foddloni arno. Oblegid fe all sefydlu Prifysgol i Gymru brofi o bwysigrwydd cenedlaethol parhaus. Fe ellid ei wneyd yn gyfartal i goroniad rhyddfreniad y bobl, eu gosod yn rhydd am y waith gyntaf i ymgeisio am wybodaeth yn eu ffordd eu hun, a sicrhau iddynt eu hunain pa alluoedd a rhagorfreintiau bynnag ag y mae y fath wybodaeth yn roddi. O hyn allan, fe all Cymru, os myn, greu ei chynlluniau uchel ei hun, a byw i'w sylweddoli; neu, i ddangos y peth yn fwy manwl, hi all, trwy efrydiaeth fyw a rhydd o'r meddwl neu yr ystyr sydd wedi eu suddo ym myd natur ac ym myd dyn, sydd yn gyfoethocach fyth, *ddarganfod* eu deddfau cyfansoddiadol, a'u troi i'w chynllun uchel ei hun o weithrediad.

I fyny hyd yr amser presennol nid ydyw y dynion a ddalient leodd uchel dysg yn y wlad, y rhai oeddent gyfrifol am wahanol adrannau llên a gwyddor, ac a ddalient yn eu llaw arweiniad meddwl Cymru, wedi bod yn gwbl rydd. Yr oeddent yn rhwym, i raddau mwy neu lai, o gyfaddasu eu dysgeidiaeth at ofnyion awdurdod estronol. Yn erbyn yr awdurdod honno nid oes gen i ddim i'w ddweyd. Ni allwn yn gyflawn anghofio ein dyled i Brifysgol Llundain, na chredu ei beirniaid presennol yn y fath fodd fel ag i feddwl ei bod yn meddu y nodwedd arbennig o gael ei gwneyd i fyny yn unig o ddiffygion. Y gwaith ag oedd gan y Brifysgol honno i'w wneyd, sef arholi, fe'i gwnaeth yn dda; ac yr ydoedd yn fwy ei thynged anocheladwy, na'i hai, ei bod yn gosod ei hefrydwyr a'r rhai a'u dysgent ar wely Procrustes, yr oedd raid torri neu estyn pawb i'w ffitio. Hebdi, heb ei gallu i stampio cyraeddiadau efrydwyr trwy roi graddau, prin

y gallasai Colegau Taleithiol Lloegr a Chymru ddyfod i fod, neu gynhyddu fel y gwnaethant. Gallwn yn iawn fod yn ddiolchgar am a fu, er na ddylasem fod yn foddlon i ganiatau iddo aros am byth.

Oblegid y mae amser yn dyfod yn hanes Coleg, fel yn hanes person unigol neu genedl, pan raid iddo, pa un bynnag ai er da ai er drwg, gymeryd i fynny gyfrifoldeb annibyniaeth, ac ymgymeryd â'r daag o benderfynu ei dynged ei hun, a chael allan ei le ei hunan yn y byd. Mae yr amser hwnnw, mae'n dda gennyf ddweyd, wedi dyfod i'r tri Choleg Cymreig. Ac y mae sefydliad Prifysgol Cymru, gyda'r rhyddid o fewn y Brifysgol a ganiatawyd yn ddoeth i bob Coleg, yn cyflenwi yr amod hwnnw ar ba un yn unig y gall y Colegau hyn gael allan eu lle ym mywyd y bobl, a boddhau eu hanghenion meddyliol uchaf.

Y mae pwysigrwydd y mater hwn yn gymaint, ac y mae mor hawdd methu ei weled, fel y temtir fi i aros arno.

Mi a'i cymeraf yn ganiataol nad oes raid dadleu hawliau y ddysgeidiaeth uwch. Yr ydych wedi deall eisoes fod Gwirionedd a Daioni yn efeilliaid ym myd ysbryd. Yn wir y mae y gair yn eu bysgaru yn ormodol; nid yw y gwahaniaeth rhyngddynt, yn y pen draw, gan mwyaf ond gwaith ein dealltwriaeth dansoddol, tra y maent hwy eu hunain mewn gwirionedd yn belydrau cyfunol o un llygedyn pur o oleuni. Y mae yn dwyll-resymeg, ac yn un o'r fath fwyaf peryglus, i ystyried gwybodaeth fel yn wrthwynebol, neu yn ddifater gyda golwg ar rinwedd; priodoli y naill i'r pen a'r llall i'r galon; neu olygu fel galluoedd cydymgeisiol yn nheyrnas dyn yr organau gwahanol hyn o un bywyd. Y mae, wrth reswm, yn anwadadwy fod llawer cymeriad moesol teg heb feddu ond ychydig wybodaeth; ac y mae rhai dynion sydd yn gwybod llawer o bethau nad ydynt na doeth na da. Ond y mae daioni y naill, wedi'r cwbl, yn tarddu o rywbeth y mae yn wybod, ac nid o'i anwybodaeth; ac y mae gwendid neu ddrygioni y llall yn dangos fod ganddo eto rywbeth i'w ddysgu sydd yn oreu ei wybod. Nid oes yma, mwy nag yn unlle arall, ymrson rhwng gwerth ddealltwriaethol a moesol.

Eto, ni ellir gwadu fod ffurfiau o ddysgeidiaeth ydynt yn ymddangos yn bur bell oddiwrth bob dibenion moesol, ac yr ydym weithiau yn clywed am "wybodaeth ddiles." Ond, mewn ffordd gyffelyb, y mae llawer ffurf ar fywyd ymarferol a allai ymddangos heb fod ond o ychydig o wasanaeth i'r da, a mathau o weithgarwch sydd yn ymddangos yn gwbl "segur." Ond mi fyynnwn i chwi gredu fod teyrnasodd Gwirionedd a Chyfiawnder yn cyrraedd ymhell, ac fod y gweithwyr ynddynt yn llawer, ac o lawer math. "Eiddo yr Arglwydd y ddaear a'i chyfiawnder," ebai yr hen fardd, gan ragflaenu mewn geiriad mwy ardderchog y dywediad diweddar, "Y Gwirioneddol yw y Rhesymol." Ac os yw y rhai hyn yn wir, y mae yn canlyn y gall yr ymwybodolrwydd o'r oll gael ei gario i'r weithred iselaf ac i'r ymofyniad pellaf. Nid oes, ynddo ei hun, ddim "cyffredin neu arian." Gallai y gweithiwr ymarferol er daioni y byd, ymarfer mewn cych isel yr ysbryd "sydd yn cadw y sêr yn eu lle," a chodi i'r urddas o wybod fod yn ei ewyllys ef ewyllys y cyfan. Ac ni omeddir yr ymwybyddiaeth yma i'r ymofynnydd gonest am wirionedd. Hyd yn oed yn y cilffyrdd, fe all gael cipolwg ar ei gwyneb, a siarad gydag awdurdod nad

yw yn gwbl yn eiddo ef, am ei fod hefyd yn eiddo arall. "Fel hyn y dywed yr Arglwydd" ydyw yr iaith yn yr hon y datgana y fath un yr argyhoeddiadau a enillodd trwy ei lafur ymroddgar.

Fel yma, o lawer safle, y mae y cyfatebiaeth rhwng gwirionedd a daioni, gwybodaeth a rhinwedd, yn awgrymu rhyw egwyddor fewnol o undeb y tu cefn iddynt. Yn wir, y mae yn bosibl nad ydyw gweithgarwch mewnol dyn yn ddim ond ei weithgarwch allanol wedi ei atal ar ganol ei daith. Oblegid y mae drychfeddyliau yn tueddu at ddyfod yn weithredoedd, ac y mae gwybodaeth yn addfedu i gyflawniad moesol, fel y mae y blagur yn cyfnewid i ffrwythl. Mae yr addewid, yn y naill fyd a'r llall, yn fynych yn cael ei thorri yn alaethus; mae y blodeuyn yn cael ei fallu, ac nid yw y ffrwyth byth yn dyfod. Er hynny, nid ydyw deddf naturiol eu perthynas, trwy hynny, yn cael ei hatal, ac y mae y bwriad yno hyd yn oed pan y mae yn ffaelu; *eto* y mae gwybodaeth yn tueddu at ddaioni, a dyna ei amod anhepgorol.

Y mae athrawiaeth wahanol weithiau yn cael ei dysgu. Yr wyf fi mor fynych wedi clywed pregethau yn erbyn gwybodaeth a'i honiadusrwydd fel, pe na fuaswn wedi deall yn amgen, y gallaswn gasglu mai gwybodaeth ydyw drwg cenedlaethol Cymru, ac fod ffynhonnau yr Awenau yn gwneyd mwy o ddrwg na holl gwrw Egerton. Rhybuddir ni yn erbyn balchder meddwl, fel pe na fuasai y feddyginiaeth barotaf rhag yr afiechyd hwnnw yn unig mewn gosod y meddwl ar waith. A pheth a feddylia y bobl ffol hyn pan soniant am beryglon rhydd ymfyniad—pabau digoronau gwlad rydd! A oes rhywbeth a beryglir trwy rydd ymfyniad ond cyfeiliornad, neu eu harddangosiadau arwynebol hwy eu hunain o wirionedd y byd? A phwy all wadu nad ydyw rhydd ymfyniad ei hunan yn weithrediad moesol pur a thra anhawdd, yn galw am lawer o bureiddiad yr ysbryd oddiwrth segurddod a hunanoldeb? Nid ydyw buddion ysbrydol dyn yn sier yn cael eu gwasanaethu yn y ffordd yma. Oblegid y fath dryblith o fyd a fyddai lle y mae gwirionedd a daioni mewn gelyniaeth ddiddiwedd, a'r ymfyn am wybodaeth yn arwain ymaith oddiwrth rinwedd? Ond nid ydyw y byd yma wedi ei ffurfio felly, er mor ddwfn ei wrth-ddyweddiadau ymdaugosiadol. Ymhob man y mae gwybodaeth yn gweini ar ddaioni, ac ni ddaeth diwygiad erioed ond trwy ddatguddiad. Mae llwybr cynnydd yn llwybr goleuni.

Os felly, fel ellir dweyd llawer a ellir ddweyd am ddibenion moesol dynolryw yr un modd am eu rhai meddyliol. Ac feallai mai y peth pwysicaf a ellir ddweyd am y naill neu y llall yw, y rhaid iddynt fod yn hunanosodedig. Mae y ddysgeidiaeth uwch, yn yr olwg yma o leiaf, fel y bywyd moesol uchaf: y mae yn bosibl yn unig i'r rhydd. I'r un yn dechren mewn moesau, mae rheol buchedd yn ddeddf allanol, gydag awdurdod allanol o wobrau a chosbau, sydd yn ei ysgogi trwy ei obeithion a'i ofnau. Ac y mae rhannau cyntaf caffaeliad meddyliol, yr un modd, gan mwyaf yn dderbyniadol. Ond i'r profedig yng ngwasanaeth daioni a gwirionedd, y mae y ddeddf allanol yn dyfod yn llais a dyhead mewnol, mae llyffetheiriau olaf yr ysbryd yn syrthio ymaith a'r dyn yn cael y byd yn gartref. Ei ddeddfau ydyw ei ddymuniadau yntau, ac y maent yn werthfawr yn ei olwg. "Mor gu gennyf dy gyfraith di; hi yw fy myfyrdod beunydd." "Rhodiaf

hefyd mewn ehangder, o herwydd dy orchymynion di a geisïaf" Ac nid wyf yn credu y rhaid i ni betruso cymhwyso y geiriau ysblennydd hyn at yr hwn sydd yn ymofyn am wirionedd. "Das denken ist auch Gottes Dienst." Y mae meddwl hefyd yn wasanaeth Duw!

Yn awr y mae'n amlwg na fyddai i neb a ddymunai ddaioni pobl Cymru, fabwysiadu er cyfarwyddyd eu hymarweddiad moesol gyalluniau mwyaf cymeradwy cenedl arall. Y mae gwerth moesol y mudiad diweddar a ddynodir trwy y geiriad "Cymru Fydd," yn gorwedd yn y gydnabyddiaeth a olyga y rhaid i'r da raid i ni geisio, beth bynnag arall ydyw, ei gymeradwyo ei hun i'n cydwybodan, ei fod ein dehongliad ni ein hunain o'n dyledswydd, a'n syniad ni ein hunain o amodau tragwyddol daioni dynolryw. Dyma y meddwl a yabrydolodd y rhai a ymladdodd gyntaf y frwydr dros amcanion Cymreig teilwng, ac a enillasant i'n hiaith a'n llenyddiaeth a'n hanghenion cymdeithasol y fath gydnabyddiaeth ag y maent wedi ennill. Ac ni ddylem adael i'r afreoleidd-derau a gyflawnwyd gan y rhai a ddilynent y nerthoedd gorohfygol dywyllu uniondeb cynhennid ein hachos. Y mae llenorion a gwladweinwyr wedi gwneyd yn dda wrth amcanu at ryddid Cymru o fewn yr ymerodraeth. Ni a ddaliem ein hawsoddau, boent gryffon boent weiniaid, ac a'u cyflwynem i wasanaeth y cyfan.

Ac i'r amcan yna, uwchlaw popeth, y mae Prifysgol Cymru wedi ei seilio. Ac ystyriaethau fel yma hefyd sydd yn ein cyfiawnhau wrth ystyried ei sefydliad fel gweithred o Ryddfreniad Cenedlaethol. Trwyddi y mae'r ysgolhaig wedi ei wneyd mor rydd â'r athraw crefyddol. Ac y mae *hynyna* yn fater cenedlaethol. Oblegid fe fydd i ryddid yr ysgolhaig o fewn eich Prifysgol eich hunain, ei gyfranu ei hun i ereill. Fe benderfyna y Brifysgol y dysgu a fydd yn y Colegau; fe fydd i'r Colegau yn eu tro sefydlu cyfeiriad gweithgarwch meddyliol yr ysgolion trwy yr holl wlad; ac y mae y gallu sydd yn cyfeirio y gweithgarwch yna a chando y bobl eu hunain yn ei law. "Mae gennyf fy llaw ar galon Lloegr," meddai pennaeth enwog Coleg mawr. Nid wyf yn anghofio fod nerthoedd ereill, heblaw ei dysg, sydd â llaw ganddynt mewn ffurfio nodwedd a thynged cenedl,—ei hanturiaeth fasnachol, ei medr yn y celfyddydau ymarferol, ei thymor gymdeithasol, ei hamcanion llenyddol a moesol, a'i dyheadau crefyddol. Ond nid yw y rhai hyn mewn cydymgais â'r blaenaf. I'r gwrthwyneb, y maent yn derbyn o seddau y ddysgeidiaeth uwch ysgogiad newydd, ac fe'u gyrrir i gylchredeg trwy gorff y genedl fel gwaed wedi ei adnewyddu. Mi fynwn i chwi edrych ar y sefydliadau hyn fel calon a chanolbwynt y bywyd cenedlaethol, a pharchu athrawon eich hieuencid fel gwarcheidwaid ymddiried cysogredig a gwneuthurwyr y genedl. Ac ni wnewch hyn yn effeithiol os na rowch, yn y lle cyntaf oll, effaith gwirioneddol i'ch Prifysgol trwy osod eich ysgolheigion a'ch meddylwyr yn rhydd i geisio y gwirionedd drostynt eu hunain, a'i ddysgu i ereill, ymha un bynnag o'r mil o ffyrdd y mae eu hyebyrd yn eu tueddu. O hyn allan, ni ddylent gyfyngu eu gweithgarwch at ofynion awdurdod estronol, neu fod yn hawcwyr i arholwyr ac arholledigion. Ni fyddant yn fân-werthwyr marchnad, ond yn rhyddion i ymgodi i'r urddas o fod eu hunain yn ymchwilwyr a darganfyddwyr, fel y gallu Cymru hefyd gyfrannu at y cwmni hnw o feddylwyr y rhai ydynt yn

arwain meddwl y byd ymlaen, gan oresgyn teyrnas y tywyllwch, ac ehangu cylch goleuni. Fe fyddai mewn rhyw ffordd yn well i Loegr benderfynu beth a fywtawn ac a yfwn, a brynnwn ac a werthwn, ac a wnawn. ac â pha beth yr ymddilladwn, gan gornelu a chyfyngu ein bywyd allanol, nag iddi barhau i lyffetheirio ein meddwl, a phenderfynu beth a geisiwn ddysgu.

Ac nid yn unig yn ffordd ymfyniad y mae i sefydliad y Brifysgol y fath bosibilrwydd o ddaioni cyhoeddus. Trwy ei gwneyd yn beth gwirioneddol, yn ddatganydd pur o'ch amcanion meddyliol uchaf, chwi ychwanegwch yn ddifedur at allu addysgol eich Proffeswyr. Hwy allent o hyn allan roddi yn ddi-atal i'w hefrydwyr, nid yn unig yr hyn y gallai ereill alw am dano, ond eu meddyliau addfetaf eu hunain, a'u hargyhoeddiadau mwyaf mewnol. A gallai yr efrydwyr eu hunain, yn lle derbyn yn unig opiniynau wedi eu llunio ymlaen llaw, gael gafael ar rywbeth o rydd ysbryd eu hathrawon, a dyfod, i ryw fesur, yn gydweithwyr yn eu hymchwiliad. Ni fu hyd yma rwystr mwy yn ffordd y Colegau Cymreig na'r orfodaeth a fu ar eu Proffeswyr i addysgu yn ddi-berthynas â llinell eu hymchwiliad eu hunain. Ond mae y Brifysgol yn rhoddi iddynt yr hyn a ymddanghosai i mi pan ddechreuais fy ngwaith yn Scotland uwchlau pob pris: y mae yn rhoddi iddynt yr hawl, yn eu galwedigaeth uchel, i beidio traferthu am ddim ond y gwirionedd a ymddiriedwyd i'w gofal, ac i beidio gofalu ond am lwyddiant eu hefrydwyr. I'r gwir athraw nid oes lyffetheiriau mor anniodd-efol â'r rhai y mae yn awr yn cael ei ryddhau oddiwrthynt, na'r un ffordd ar fywyd yn fwy dymunol na chael rhoddi yn ei ddosbarthystafell estiampl o'r beiddgarwch parchedig sydd yn codi o'r argyhoeddiad fod y greadigaeth gyfoethog yma mewn trefn i gael ei hadnabod, ac fod meddwl dyn wedi ei wneyd mewn trefn i'w hadnabod.

Yr wyf yn ofni, sut bynnag, fod rhai o honoch erbyn hyn yn barod i fy nghyhuddo o orbrofi yr hyn sydd amlwg. Yn sicr, fe ellid dweyd, y mae'n amlwg fod sefydlu Prifysgol i bobl yn rhyddhad eu dysgeidiaeth, ac fod Prifysgol wedi colli ei hystyr a'i heffaith os nad yw yn ysbrydoli ac yn arwain gweithgarwch meddyliol y bobl. Y mae yn eglur, yr wyf yn addef. Ond yr ydych yn fynych wedi sylwi nad ydyw dyledswyddau sydd yn amlwg bob amser yn cael eu cyflawni. Ac os digwydda y dyledswyddau hynny olygu rhyw aberth personol, mae yn rhyfedd fel y bydd rhesymau yn llïosogi dros eu gadael yn llonydd, neu eu hoedi hyd ryw amser mwy cyfaddas, neu ddyfeisio rhyw ymgytuniad llai anhyfryd. Ac felly y mae yn yr achos hwn. Feallai y goddefwch i mi egluro y mater yma, yn gymaint â'i fod o bwysigrwydd ymarferol uniongyrchol, o safle yr Efridydd ac o safle y Colegau.

Mae yn amlwg fod eu haddysgiaeth Golegol, i'r mwyafrif o Eirydwyr, yn cyfeirio at eu galwedigaethau ymarferol yn gystal ag at wybodaeth, ac y rhaid i'r Colegau eu hunain fod yn effeithiol i'r ddau amcan yma. Mae yn amlwg hefyd mai prif amcan anrhydedd Colegol a graddau Prifysgol ydyw rhoddi sicrhad cyhoeddus o allu meddyliol. Mae yr efridydd yn gwneyd yn iawn wrth eu ceisio, oblegid y maent yn arwyddluniau o'i hawl i ymddiried cyhoeddus. Mae ei lwyddiant mewn bywyd ar ol hynny yn dibynnu i raddau mawr, feallai i raddau *gormodol*, ar ei allu i'w sicrhau. Ond rhaid i raddau y Brifysgol Gym-

reig, fel popeth arall, fyned trwy gyfnod o brawf. Ni fydd y rhai sydd i roddi eu swyddau i'r dynion cymhwysaf, ar unwaith yn gwybod pa werth cymhariaethol i'w osod arnynt. Nid ydwyf, o'm rhan i, yn meddwl fod yr anhawster yma mewn gwirionedd yn ddiffrifol, neu y parhâ yn hir. Er hynny y mae yr anhawster yna; fe fydd graddologion cyntaf y Brifysgol Gymreig, a hynny ynghychwyniad eu bywyd o waith, wedi eu gosod dan beth anfantais.

O safle y Colegau mae yr anhawster ar unwaith yn fwy difrifol, ac yn llai tebyg o ddefro cydymdeimlad. Yn wir, ni ddywed yn drwm ond yn unig cyn belled ag y gallai fod y sefydliadau hyn wedi ildio i amodau cyfyngol yr amser aeth heibio, ac wedi darostwng y ddysgaiddiaeth uwch ac anghofio ei gwir ddiben mor bell fel ag i'w dangos eu hunain fel yn bodoli er mwyn helpio efrydwyr at raddau Llundain, gan fesur eu llywyddiant wrth y safon yma, a chyfeirio eu haddysg yn gwbl rydd at yr amcan yna. Yr oedd y sefyllfa yn y gorffennol, fel y gwn yn dda oddiwrth fy mhrosiad yn y Coleg hwn, yn cynnwys elfennau gwrthwynebol. Nid oedd y galwadau ymarferol a wneid gan yr efrydwyr am raddau, galwadau a gefnogid yn rhy barod gan y rhan fwyaf anwybodus o'r boblogaeth, bob amser yn gydfynedol â hawliau gwir ysgolheigdd a diwylliad rhydd. Yr oedd yn anhawdd, prin yr oedd yn iawn, anwybyddu yn gwbl neillduolion arbennig yr arholwr oddi-allan; ond fe fuasai yn gamgymeriad dynnach i oddef i ysbryd bargeiniol y farchnadfa i ostwng pris y ddysgaiddiaeth uwch. Mae yn llawen gennyf ddweyd na oddefwyd i'r llwgr canrol hwn fwyta ymaith north y Coleg. Mae eich Profeswyr bob amser wedi ymdrechgu cadw o'ch blaen wir amcan, ymdrech yr ysgolor, ac mewn canlyniad, nid yw y drefn newydd ar bethau yn dwyn dyledswyddau newyddion, nac yn gwneyd yn angenrheidiol gyfnewidiad hanfodol mewn trefniadaeth; ni wna ond yn unig ganiatau i chwi ddilyn yn fwy rhydd y cynllun uchel oedd gennych o'r blaen. Pe buasai fel arall, fe fuasai y Coleg yn yr argyfwng yma dan orfod i greu iddo ei hun ddoosbarth arall o efrydwyr. Canys nid oes ond ychydig amheuaeth na fydd i lawer o'r efrydwyr hynny a olygent y Colegau Cymreig yn unig neu yn bennaf fel cyn-northwyon effeithiol i raddio yn Llundain, yn awr yn syrthio ymaith, ac yn fwy neillduol, yr efrydwyr Seisnig a edrychant ymlaen at leoedd mewn ysgolion yn eu gwlad eu hunain. Canys fe orfodir y dynion hyn i ystyried gwerth marchnadol y radd Gymreig amhrofedig. Pa bwys a fydd i'w meddu yn Devon, neu Essex, neu Northumberland! Yr wyf yn credu y gall y Profeswyr yn y Colegau Cymreig, am amser, edrych am ddoosbarth-ystafelloedd llai llawnion, ac y rhaid i'r rhai sydd yn gyfrifol am danynt mewn ystyr ariannol fod yn barod i edrych am beth lleihâd yn eu derbyniadau.

Ni fynnwn wneyd gormod o'r anhawster. Fe fydd yr ysgolion newyddion cyn bo hir yn tywallt i'ch dosbarthiadau gynhyrchion pur eich gwlad eich hunain, i gael eu perffeithio i effeithiolrwydd uwch. Ac fe fydd i'r ffaith eich bod, trwy gyfyngu hanner eich ysgoloriaethau a'ch cedion i efrydwyr Cymreig, tra yn agor yr *oll* iddynt, wedi apelio yn fwy uniongyrchol at Gymru yn y gorffennol, a llanw eich Coleg i'r fath raddau âg efrydwyr Cymreig, yn awr gyfarfod â'i gwobr a hir oedwyd. Eto y mae yr anhawster yn aros. Fel y gallesid yn

rhesymol disgwyl, ni allai y cynllun o addysgiaeth Gymreig gael ei gyflawu gario allan mewn cyfundrefn berffaith, ond ar y draul o gau allan yr hyn sydd estronol i'w gwir fywyd. Ac fe fydd i'r oll ydynt yn gofalu am y ddysgeidiaeth uwch, i ryw raddau gael eu *profi* gan y drefn newydd ar bethau. Fe welir pa mor bell y gallant anghofio yr enillion nês a chulach a ddygai y cysylltiad â Phrifysgol Llundain, i'r Colegau ac i'r efrydwy'r, er mwyn cyrraedd daioni llai amlwg a phellach y Brifysgol ei hun, ac eiddo y boblogaeth y mae ei llwyddiant mewn ffordd mor fywiol yn y chwareu.

Yn awr, ni allaf gredu y bydd i'r un o'r Colegau yn ddibetrus fradychu y Brifysgol a dysgeidiaeth uwch yng Nghymru trwy yn agored gyfeirio eu haddysg at raddau un arall. Byddai i gwrs o'r fath wneyd ffolineb o'ch caffaeliad diweddaraf, ac mewn rhai ystyriaethau, eich un goreu. Ond yr wyf yn ofni, a charwn ragflaenu ysbryd o oediad. Mae yn bosibl i'r ddyledswydd o ryddhau y ddysgeidiaeth uwch gael ei gohirio, o dan y ddadl fod y presenol yn "gyfnod o drawsfyndiad." Mae'n anhawdd neidio i'r dwfr, ac y mae dynoliaeth noeth yn dueddol i sefyll yn rhynnu ar y lân. Mewn gair, mae arnaf ofn rhag i ffaith amlwg gael ei thywyllu gan yr hunan-dwyll i ba un y mae gwendid bob amser yn agored,—y ffaith fod amgylchiadau newyddion wedi dwyn gyda hwynt *ddevisiad pendant rhwng pethau sydd yn gwbl wahanol*. Fe fydd i'r Colegau Cymreig barhau i ganiatau i'w haddysg gael ei chyfeirio gan awdurdod estronol, neu hwy fyddant o hyn allan yn rhydd. Gallai Prifysgol Cymru, fel pob Prifysgolion ereill ymhob gwlad, fod yn brif awdurdod mewn materion addysgol, neu hi allai gael ei gwneyd yn sefydliad alafaidd fo yn dilyn yn ol traed un arall.

Ond, fe ellid gofyn, ai ni allai y Colegau Cymreig, o leiaf am amser, yn ystod "cyfnod y trawsfyndiad," wasanaethu dau arglwydd? Ai ni allant baratoi yr efrydwy'r at raddau y ddwy Brifysgol? Yn sicr, fe ellid dadleu, ni all Prifysgolion wahaniaethu yn y fath fodd fel ag i wneyd gwir wybodaeth a gyfrennir dan reolaeth un, yn ddi-ddenydd at arholiadau un arall. Yn yr amgylchiad hwn, nid ydyw y dewis rhwng Duw a mamon, er i un cwrs fod yn fwy cyfaddas i gadw i fyny y cyfenwad o efrydwy'r. Nid oes gan bob un o'r gwahanol Brifysgolion ei math neillduol ei hun o ddysgeidiaeth. Os dysga efrydwydd mewn Coleg Cymreig fod dau a dau yn bedwar, neu nad all llinellau union gyfarfod fwy nag unwaith, fe gâi fod y wybodaeth yna, gyda rhai o'r casgliadau sydd yn dilyn oddiwrth hynny, yn ddefnyddiol mewn unrhyw le. Ar y tir isaf, mae llwybrau rhai a fyddent raddoli, o fewn yr ieithoedd clasurol, y gwyddorau naturiol, ac athroniaeth, yn rhedeg yn gyfochrog, ac fe fydd y gwirionedd a enillir mewn unrhyw le yn ddefnyddiol ymhob man.

Mae hyn yn anwadadwy: y mae gwirionedd yn ei natur yn gyffredinol. Ond nid ydyw y ddadl yn sefyll ond pan gyfyngir hi at rannau elfennol gwybodaeth, a hyd yn oed felly fe ellir ei ddybryd gam-gymhwyso. Os ydyw'n dangos yr holl wirionedd am y mater sydd mewn cwestiwn, mae yn amlwg nad oedd yr angen am Brifysgol Gymreig ond ffugiol. O'r safle yma, nid oedd arnom eisieu ond ychwaneg o brofi ar yr un cyraeddiadau, a gallu i roddi graddau heb ymyrryd â'r addysgu. Ond nid felly yr ydoedd. I'r gwrthwyneb, gan

gydnabod fod cenhodloedd yn gwahanuacth i'r ffordd hon, er bod deddfau moddwl ac egwyddorion barchus i'r holl bobl : gan wleol eu bod yn dirfawr wahaniaethau mwy na dim i'r holl a mwy, ac yn eu cymhwysterau, fel y mae pob un yn amlwg yn gwtionedd ac yn dilyn y da yn ei ffordd ei hun.—Ni a ddyddioedd gwel Prifysgol i ni ein hunain, yn arbennig am y rheswm yma, eu bod yn ystyried hynny y moddion goren i ryddiaeth eu gwahanuacth eiddo ein hunain, a'u galluogi i lanw unrhyw le neu swydd swydd i'r awd i ni ymnyg pobl y byd. Mae'n debyg y treigla efrydwyr mae'r yr un ffordd yn Edinburgh neu Rydychen, Glasgow neu Gaergraw, Beria neu Yala. Ond a wlad rhywun fod y sefydliadau hyn yn gwahanuacth mewn pob math o sffordd neillduol, neu eu bod o herwyd y gwahanuacthau hyn, yn fwy galluog i gymhysso eu hefrydwyr at ddyddioeddau diinasiaeth yn y gwahanol wledydd? A pha un o'r cenhodloedd hyn a wnelai ei Phrifysgolion yn is-wahanuacthgar i rai gwlad arall, neu a oddofai i unrhyw ystyriaethau gyda golwg ar raddau tramor effoithio ar gyfeiriad ei hymdrech addysgol? I'r rhai sydd wedi sylweddoli gwir ystyr Prifysgol—y rhaid iddi allewyrchu cymariad, arddangos ysbryd mewnol, corffori amcanion meddyliol, cyfarwyddo ac ystyriedol antur pobl yn ymarferol ac mewn egwyddor,—fe ymddengys darostwng ei dysgoidiaeth uwch dan broffion estronol er cadw i fyny y cyflwyniad o efrydwyr, yn gwbl annheilwng.

Yn wir, y mae yr holl syniad am ddefnyddio Colegau Prifysgol er paratol efrydwyr at ddau fath o raddau, i.e. "o fewn adeg o draws-uwddiad," yn ddirwg o'r gwraidd. Mewn gwirionedd, nid ydyw yn ymarferol oddioithr fod y pethau sy'n ofynnol am raddau Cymreig o bwysa wedi eu gwneyd yr un fath â'r rhai sy'n ofynnol mewn Prifysgol arall. Ni all yr un Coleg arwain ei efrydwyr mewn dwy ffordd ar unwaith. Gallai ganiatau i efrydydd neillduol ymgais am anrhydedd addysgol heblaw a all ei Brifysgol ei hun roddi. Mae hynny yn gwbl yn fater iddo of ei hun. Ond gwneyd yr addysgu yn ein Colegau yn is-wahanuacthgar i unrhyw amcan o'r fath fyddai gwneyd ein Prifysgol yn ofor. A byddai gwneyd hynny ar gychwyn ei gyrfa yn frwydychu cenedlaetholdeb. Yr wyf yn dal fod llwyddiant meddyliol Cymru yn dibynnu mewn ffordd fywiol ar ein bod yn darganfod yn awr wir aughonion a chymhwysterau y bobl, ac na fyddo ein syniad am wir fuddion dysgoidiaeth gyhoeddus yn yr adeg hon yn cael eu cynhyrchu âg unrhyw ystyriaethau ereill o gwbl. Mae arnom eisieu i'r llifysgol fod yn gymwys i'r bobl fel y mae yr enaid yn gymwys i'r corff. Yn wir hi a fetha yn ei phrif amcan os na fydd, fel ei feddwl gwell, yn bywhau ac yn llywodraethu holl gorff y boblogaeth. Dymunem lanw ein Colegau âg efrydwyr, a llawen fyddai gennym eu gwleol wedi eu haddurno â phob math o anrhydedd Athrofaol. Ond ni allwn fforddio gwerthu ein rhyddid meddyliol er mwyn yr amcanion hyn, na darostwng ein sefydliadau cenedlaethol i unrhyw ddibenion o'r fath. Yn wir, yr ydyw yn dymuno rhywbeth gwell na graddau i'n hefrydwyr eu hunain, a gosodwn o'u blaen nod uwch. Ni a dymunem iddynt amcanu, nid at allu mwy i adgynhyrchu yn rhydd olygiadau a ofynnir, ond at ddiwylliad mwy, a nerth meddyliol, at gariad dyfnach at wirionedd, ac at deimladrwydd fo yn ymateb yn well i'w sibrydion.

Ac ni ellir byth cael y pethau hyn mewn sefydliad sydd yn bod mewn trefn i baratoi ei efrydwyr at raddau. Rhaid i wybodaeth, fel rhinwedd, gael ei charu, nid am y rhoddion a ddwg, ond er ei mwyn ei hun yn unig; ac nid ar unrhyw delerau ereill oll y gellir ei hennill. A pha beth sydd i'w ddweyd am Broffeswyr, ie "ar adeg trawsnewidiad," a gondemnir yn eu dosbarth-ystafelloedd i gadw o flaen eu llygaid y pethau y gelwir am danynt gan wahanol arholwyr? Yn sicr, nid ydyw gwir athraw mewn Prifysgol yn unig yn wneuthurwr graddologion. Y mae, i'r gwrthwyneb, yn ddyd sydd yn gyfrifol i'r genedl am faes o ddysgeidiaeth. Ac y mae y Brifysgol ei hun, os y'n werth yr enw, yn gynhulliad o ddynion ag y mae eu galwedigaeth i arwain y genedl ar ei ffordd feddyliol, ac estyn ymhellach ymhob cyfeiriad derfynau gwir wybodaeth. Mae y profion am raddau yn *dilyn wedyn*, a gellir eu gwneyd mor gelyd ag y mynnom. Ond nid ydynt yn fwy o galon y mater, yn fwy o ddiben ac amcan, nag ydyw y nodau ar y nwydd, y *trade-marks*, y rhai a adawant werth y peth a wnaethpwyd yr un ag ydoedd o'r blaen.

Yr wyf yn casglu ynte, cyhyd ag y goddefa unrhyw Goleg yng Nghymru iddo ei hun gymeryd y gwasanaeth is a ddisgrifiastom, cyhyd a hynny y niweidia ei efrydwyr a'i broffeswyr, ac y gwertha y daioni cyhoeddus er mân ennillion. Gallai fod yn anhawdd troi ymaith ymgeiswyr am raddau Llundain; ac i'r efrydwyr hynny a dderbyniwyd i'r Colegau Cymreig ar y deall clir eu bod i'w cynorthwyo i'w cyrraedd, y mae y Colegau dan rwymau i barhau mewn rhan yr hen drefn ar bethau. Ond ni ellwch dderbyn efrydwyr newyddion ar y telerau hyn heb ohirio ymhellach ddydd eich rhyddhad. Ac fe fydd i mi, fel un, wedi gwybod trwy brofiad beth ydyw bod yn rhydd, roesawu gyda llawenydd y dydd pan y gall fy nghydlafurwyr yma, a fy nghyfeillion yng Ngholegau ereill Cymru, ymroddi yn ddilyffethair i ddysgu y gwirionedd fel y mae yn ymddangos iddynt, heb ganddynt ddim arall oll o flaen eu meddyliau ond buddion dysgeidiaeth a llwyddiant meddyliol gwlad fy ngenedigaeth. Ar yr amser presenol y mae eu sefyllfa yn anhawdd, a gofynnant gydymdeimlad a chynorthwyo pobl deallus. Chwi eilwch ganfod, fel pererinion John Bunyan, fod y ffordd uniawn hefyd yn "arw a charegog." Gallech ganfod fod ffordd arholiadau cyfochrog yn wastad ac yn hyfryd i'r traed, ac y gallai ddwyn efrydwyr newyddion heb golli yr hên. Yn yr achos yma, hefyd, "y mae llwybr yn gorwedd wrth y ffordd yr ochr arall i'r gwrych," ac nid wyf yn ameu na themtir chwi i waeddi, fel Cristion, "Y mae yn ol fy nymuniad. Dyma y ffordd hawddaf; tyrd, Obeithiol hynaws, gâd i ni fynd drosodd." Ond yr wyf yn hyderu y cofiwch fod y llwybr, er ei fod yn ymddangos ar y dechre fel yn rhedeg ochr yn ochr â'r ffordd iawn, yn arwain i ddaeargelloedd Castell Amheuaeth.

Ac yn awr ni allaf ond cyffwrdd âg un mater arall, gan hyderu y bydd i'w bwysigrwydd gyfiawnhau y prawf pellach ar eich amynedd. Mi ddymunwn ychwanegu at yr hyn a ddywedodd y Prifathraw Rhys, rhyw air a allo gynorthwyo i ehangu eich syniad am y Bywyd Cenedlaethol y soniasom am dano, a'r hwn, ni a obeithiwn, a gura gyda gallu newydd yn sefydliadau y ddysgeidiaeth uwch o'r eiddoch.

Yr wyf yn credu nad oes angen ar fy rhan i mi ddatgymiad o'n cydymdeimlad â'r hyn a ddywedwyd ac a wnaed mewn amseroedd diwoddar er sicrhau i'r Cymry yr hawl, ymhob ffordd, i fod yn hwy ca hunain. Yn fy marn i, mae yr ymgais i ddirlethu groddfaen cybahennid, i ddatwreiddio iaith, i anwybyddu llenyddiaeth a hanes, neu gyfyngu dybiauadlau unrhyw bobl pwy bynnag, yn gamgymeriad difrifol, nid yn unig i'r bobl hynny, ond i ddynolryw. Pa gyfaill i natur na olygaf y byd yn dlotach o ddifodiad unrhyw un o'i ffurfiau ar fywyd, neu na ddrychaf gyda gofid ar ddistafiad y *violet*, llygad y dydd, neu y rhoesa gwylt! Dymunwn yn hytrach eu cadw. Pam ynte y dylai unrhyw genodi gael ei diffodd, a chan golli ei neillduolion arbennig ei hun, gael ei suddo yn y pentwr dynol cyffredin? Y mae yn bosibl y gall gwirionedd a daioni, a phrydferwch hefyd, gymeryd amrywiaeth di ben draw o ffurfiau teg, ac fod arnynt eisieu holl genhedloedd y ddaear i ddatguddio eu galluoedd. Mae cynnydd dabblygiad dyn yn gweithredu, nid er un math neu unrhywdeb cyffredinol, ond er gwahaniaethau o fewn yr undod, y rhai byth a ddeuant yn fwy arwyddocaol. Mae perffoithrwydd y dyfodol i fod, nid yn un dôn, pa mor felus bynnag, ond yn gyngphanodd lawn-leisiol llawer o donau. Ni allwn wneyd i ffordd âg amodau cenedl, bach na mawr, heb ysbeilio y byd o ryw ran o'i ystyr a'i worth. Ac yr ydym yn gwneyd yn iawn wrth amddiffyn a cheisio dal i fyny y meddiannau cenedlaethol hynny sydd yn ein gwneyd yr hyn ydym, mewn rhyw ffyrdd yn bobl ar wahân.

Ond yr ydym o'n lle os na ddefnyddiwn ond y ffordd nacōl yn unig o bwysleisio yr amodau hyn, ac ystyried yr hyn sydd yn ein hysgara oddiwrth ereill, gan anghosio yr elfennau dyfnach hynny sydd yn uno ein hamcanion gyda'u dibenion hwy. Nid ydym yn unig yn frodorion Cymru, ond yn ddineswyr Gwladwriaeth fawr, yr hon, fel y dywedir wrthym, sydd yn Anglo-Celtic yn hytrach nag yn Anglo-Saxon, ac, am hynny, mewn gwirionedd yn eiddo i ni ein hunain. Mae dyn weithiau yn cael ei orfodi i weled math o an-ymdiried ar ran ein cymdogion Seisnig, rhag i ffyddlondeb i'n dibenion neillduol, olygu anffyddlondeb i'r Ymerodraeth. Ond ein hateb ydyw: Pam y byddwn ni yn anffyddlon i Ymerodraeth at wneuthuriad pa un yr ydym ni ein hunain wedi cyfrannu? Oni fuom gyfrannog o'i thynged yn y goffennol, ac onid ydym yn etifeddion ei thynged ddyfodol? Nid oes i'n ffyddlondeb iddi unrhyw deilyngdod neillduol, ac ni ddylai beri un syudod, oblegid nid ydyw ond ein ffyddlondeb i ni ein hunain. Y mae yn eiddom ni mor wir ag y mae yn eiddo Lloegr, er ein bod yn bobl lai. Y mae Cymru wedi bod yn rhannog yn yr anturiaeth fawr o sylfaonu yr Ymerodraeth; y mae iddi ran wedi bod yn ei llywodraethiad, y mae wedi cynorthwyo i boblogi ei threfedigaethau, ac wedi gwaedu ar ei meusydd rhyfel. Yr ydym wedi ein hadeiladu ein hunain i'w chyfansoddiad mewnol, ac y mae ei bywyd mwy hefyd yn eiddom. Yr ydym, gan hynny yn cymeryd golwg rŷ gyfyng ar y gwaith sydd gan y Brifysgol fel eglurydd uchaf y bywyd hwnnw i'w wneyd, os ydym yn gofalu yn bennaf, neu hyd yn oed ymlaenaf, am yr hyn sydd ar ei ben ei hun yn ein cymeriad. Mae y Brifysgol, nid yn unig i ddal a meithrin ein hiaith a'n llenyddiaeth, neu i ymwneyd âg agweddion cyfyngach ein hanes, ond i dafu goleu newydd ar ddyledswyddau a chyflusterau

ein bywyd ehangach. Nid ydym yn awyddus am fod yn ynysig ac ar wahân, a byddem yn anffyddlon i ni ein hunain pe dyna fyddai ein tynged. Mae arnom eisieu i'n hysgolheigion ac athrawon ein hieuenctid glywed swm tonnau y môr llatach, a deall llanw a llifiadau yr eigion agored. Oblegid nid mordaith fer y dymunai carwr ei wlad i'r Cymry gymeryd yn y dyfodol. Ni a fynnem iddynt groesi cyffiniau culion eu bywyd llai, cyfranogi gyda dealltwriaeth newydd yn anturiaethau meddyliol y cenhedloedd mwy, a dyfod adref yn llwythog o drysorau dysgeidiaeth.

Ac nid yw ond o ychydig bwys dan ba gapteniaid yr hwyliant, pa un a ydynt wedi eu geni yng Nghymru ac yn siarad ei hiaith ai peidio. Y peth cyntaf, a bron yr unig beth sydd eisieu ydyw bod eich arweinwyr eu hunain wedi mordwyo y moroedd pell. Nid oes arnom eisieu dechreuwr mewn dysgeidiaeth ymysg athrawon ein hieuenctid, ond dynion sydd yn meddu gallu i ennill iddynt eu hunain le ym mlaen-gad meddylwyr y byd. Wedi unwaith eu sicrhau chwi wnewch yn dda eu cadw ar ba draul bynnag, a chan wneyd eu siarter mor rydd a gwynt y nefoedd. Mae eich Prifysgol yn eich galluogi, o'r diwedd, i wneyd hyn, ac yr wyf yn hyderu na fydd i'r cyfleustra mawr a gynhygia gael ei gollu na'i fradychu.

DR. JOHN CAIRNS.

The Life and Letters of John Cairns, D.D., LL.D. BY ALEXANDER R. MACGIVEN, D.D. London: Hodder and Stoughton.

UN o'r ffigyrau amlycaf yn y Cyngor Henaduriaethol a gynhaliwyd yn Belfast yn 1984 ydoedd y Prifathraw Cairns, neu fel yr adnabyddid ef oreu, Dr. Cairns, o Berwick ar y Tweed. Hwnnw ydoedd yr unig gyfleustra a gawsom ni i'w weled. Gadawodd arnom argraff nas gellir ei dileu. Yn un peth, darllenodd adroddiad maith a gofalus y pwyllgor a benodasid yn y Cyngor blaenorol yn Philadelphia i ymchwilio i unfrydedd golygiadau duwinyddol Henaduriaethwyr y Byd, i'r hwn bwyllgor yr oedd efe wedi cael ei enwi yn gynhullydd a chadeirydd. Hefyd pan y galwyd gweinidog Presbyteriaid o St. Petersburg i annerch y Cyngor, gofynwyd i Dr. Cairns weithredu fel cyfieithydd. Yr oedd yr olwg arno yn sefyll yn syth yn ymyl y gweinidog mewn gwirionedd yn urddasol a phatriarchaidd. Eithr ni bu angen am ei wasanaeth ond am ychydig; er syndod a llonder i'r gynulleidfa, torrodd yr Ellmyn Rwssiaidd allan i siarad mewn

Sacsneg da, ac adgofwyd ni am wyrth y Pentecost; ond ni symudodd Dr. Cairns o'i le nes y gorffennodd y siaradwr ei anerchiad. Yr oeddym yn gwrandao ar y tramorwr gyda bodddhad, eithr ar y gŵr talgryf yn ei ymyl yr oedd ein llygaid yn edrych yn sefydlog, ac nis gallem heidio teimlo fod mawredd anghyffredin yn perthyn iddo. Yr oedd Dr. Schaff, Dr. A. A. Hodge, y Proffeswr Calderwood, Dr. David Brown, ac ereill yn bresenol yn y Cyngor, eithr ni wnaeth yr un o honynt y fath argraff arnom ni â Dr. Cairns. Buom hefyd mor ffodus â digwydd bod yn yr un cerbyd ag ef yn y trên a'n cymerai i weled y Giant's Causeway, ac nis gallwn byth anghofio ei symledd a'i naturioldeb a'i ostyngeddwrwydd; enillwyd ni i'w hoffi yn gystal ag i'w edmygu. Ac yn awr dyma ni wedi darllen hanes ei fywyd mewn cyfrol drwchus o yn agos i wyth cant o dudalennau. Yn y gwaith llafurfawr hwn yr ydym yn cael ein hunain unwaith eto megis ym mhresenoldeb y gŵr mawr, a hynny yn ei gyflawn faint-ioli. Mae y llun ar ddechre y gyfrol yn rhagorol iawn; ond yr hanes sydd yn dangos yn eglur beth ydoedd a beth a wnaeth, a'r llythyrau a ategant waith y bywgraffydd, ac y maent hefyd yn datguddio cryfder a chuddiad ei nerth.

Ganwyd ef yn Awst, 1818, a bu farw ym mis Mawrth, 1892. Magwyd ef mewn amgylchiadau gostyngedig, a dysgodd yn gynnar i fod yn gynhefin â chaledi. Bugeilio defaid ydoedd gwaith ei dad. Yr oeddynt yn deulu lliosog, ac am hynny yr oedd yn rhaid wrth gynhildeb mawr. Pan ddaeth Dr. Cairns i amgylchiadau gwell, yr oedd yn hawdd ac yn naturiol iddo fyw yn syml ac annhreulfawr; ac mewn canlyniad yr oedd yn abl i estyn cynhorthwy haelionus lle bynnag y gwelai angen. Ni fu ei gyflog erioed yn fawr iawn. Yr oedd ei gyfoeth yn gynwysedig, nid yn amllder y pethau oedd ganddo, ond fel y dywedodd rhywun am dano ei hun, yn anamllder ei anghenion. Ond os oedd ei rieni yn bobl dlodion, meddent ddynoliaeth ragorol, a chymeriad crefyddol cryf. Daeth yn amlwg yn fuan fod eu mab John yn etifeddu rhagoriaethau ei dad a'i fam. Yr oedd yn ddysgwr di-ail yn ysgol ei blwyf. Oddiyno aeth i Brifysgol Edinburgh, lle y dringodd i'r lleoedd uchaf yn y gwahanol ddoesbarthiadau, ac yr enillodd wobrau lawer. Yr oedd yn *facile princeps* mewn athroniaeth ac yn y clasuron. Syr William Hamilton ydoedd un o'i Athrawon, yr hwn oedd wedi sefydlu pedwar dosbarth o anrhydedd mewn Athroniaeth ynglŷn â'r arholiad am y gradd o Athraw yn y Celfyddydau; ac yn ei flwyddyn safai Cairns yn unig yn y dosbarth cyntaf, ac nid oedd neb yn agosach ato na'r pedwerydd dosbarth. Yr oedd ganddo feddwl cawraidd, ac ymroddai yntau gyda holl anterth ei egni i astudio a meistrolï pob pwnc a ddeuai dan ei sylw. Ei fwriad cyntaf ydoedd bod yn athraw ysgol; ond yr oedd ei feddwl wedi myned dan gyfnewidiad, a phenderfynodd gyflwyno ei hunan i'r weinidogaeth. Yr oedd yn ofynnol gan hynny iddo fyned i'r Athrofa Dduwinyddol berthynol i'w enwad, sef un o'r canghennau a ymunasant yn 1847 i ffurfio yr Eglwys Henaduriaethol Unedig. Danghosodd yno yr un galluoedd naturiol ac ymroddiad anghyffredin ag a wnaethai yn y Brifysgol. Dim ond am saith wythnos yn y flwyddyn yr oedd eisteddiad yr Athrofa i barhau, ac yr oedd yr athrawon yn weinidogion ar eglwysi. Un o'r athrawon ydoedd

Dr. Balmer, o Berwick, yr hwn a fu farw yn agos i'r amser ag yr oedd John Cairns yn barod i'w ordeinio. Amlygodd Balmer i'r eglwys yn Berwick ei ddymuniad ar i Cairns gael ei alw i fod yn olynydd iddo. Yr oedd John Cairns wedi ennill y fath enw iddo ei hun fel efrydydd, ac yn ychwanegol at ei safle yn y Brifysgol ac yn yr Athrofa Dduwinyddol, wedi bod am beth amser yn Germani, ac wedi meistrolï yr Eilmynaeg a llawer o lenyddiaeth Germani, fel yr oedd llygad yr holl Eglwys arno, a phob eglwys wag yn ymholi ac yn ymgeisio am ei wasanaeth. Eithr ni phetrusodd efe dderbyn yr alwad o Berwick, ac yno yr ymsefydlodd fel gweinidog yn y flwyddyn 1845; ac yno hefyd yr arhosodd, er pob ymgais i'w ddenu ymaith i eglwysi yn Glasgow ac Edinburgh, ac i gymeryd cadeiriau yn y Colegau, hyd y flwyddyn 1876. Yr oedd eisoes yn un o Athrawon y Sefydliad Duwinyddol perthynol i'w enwad ar yr hen gynllun. Ond daeth yn awr yn anghurheidiol i estyn tymor yr eisteddiad o saith wythnos i bum mis, ac am hynny hefyd yn ofynnol i'r athrawon roddi i fyny eu cysylltiadau bugeiliol. Bellach, gwelodd Dr. Cairns fod yn ddyledswydd arno ganu yn iach i Berwick, a symud i Edinburgh. Ar farwolaeth Dr. Harper, gwnaed ef yn Brifathraw, yr hon swydd uchel a phwysig a lanwyd yn ddisglair ganddo bron hyd ddiwedd ei oes.

Ar ol rhoddi y braslun uchod o'i hanes, yr ydym yn awr yn dymuno edrych yn agosoch ac yn fanylach arno fel gweinidog yr eglwys yn Berwick ar y Tweed, gyda'r amcan i hynny fod yn symbyliad adnewyddol i fugeiliaid eglwysi i gwahanol enwadau crefyddol yng Nghymru. Ac y mae yn yr hanes wersi gwerthfawr, nid yn unig i'r bugeiliaid, ond hefyd i bobl eu gofal. I'r amcan sydd gennym mewn golwg, yr ydym yn cyfyngu ein hunain bron yn hollol i'r llythyrau lliosog a gwerthfawr a geir yn y gyfrol sydd yn awr o'n blaen. Yr oedd dydd ei neillduad yn adeg ddifrifol a chynhyrfus iddo, yn gymaint felly fel ag i'w wneyd yn anymwybodol o'r manylion. Ei weddi ydoedd ar iddo gael ei gadw dan ddylanwad y difrifwch a'r cynhyrfiad, ynghyd a'r gwirionedd a gyflwynwyd ar y pryd i'w feddwl. I'r perwyl yna yr ysgrifennai ar y 7fed o Awst, 1845, at un o'i frodyr. Y diwrnod dilynol y mae yn ysgrifennu at gyfaill o weinidog, yn dangos ei fod yn siriol ac yn barod at waith. Y mae yn penderfynu gweithio ar gynllun. Dyfynna ymadrodd o eiddo Syr William Hamilton, Fod y diben yn amodi y moddion; ac y mae yntau, ar ol dyfod i adwaen pobl ei ofal yn dda, yn gobeithio am allu gwybod dan yr arweiniad Dwyfol y moddion mwyaf effeithiol i'w gwasanaethu. Y mae yn trefnu i ddechreu gyda chyfres o bregethau ar Bechod, "yr hyn yw dechreu yn y dechreuad." Yn ol y drefn yn Scotland, traddodai ddarlith yn y bore, a phregeth brydnawn y Saboth; gan roddi dau ddiwrnod i baratoi y naill a'r llall, a'u traddodi i'r côf ddydd Sadwrn. Dywed wrth ei gyfaill: "Chwi a lawenhewch yn llafur y weinidogaeth. Gwnaethpwyd y byd at waith, ac y mae yn sefyll wrth waith; ac nid oes gyffelyb i'r gwaith o ddadwreiddio drygioni allan o'r ddaear." Ei syniad am fywyd ydoedd gwaith. Ymhen mis y mae yn ysgrifennu at gyfaill arall i ddweyd ei fod yn wir a dwfn ddedwydd yn ei waith, ac yn meddu profiad mwy byw ac amgyffrediad mwy grymus o sylweddau y grefydd Gristiongol. Fe welir felly ei fod yn cychwyn allan ar ei

waith mawr yn dra addawol. Yn fuan daeth ceisiadau ato am gynhorthwy gyda llenyddiaeth gyfnodol, ond y mae yn gwrthod yn bendant, ac yn ymroddi yn llwyr i'w fugeiliaeth yn ystod blynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth. Cafodd y boddlonrwydd o weled fod ei lafur yn dderbyniol, ond ei bryder mawr ydoedd ar fod ei wasanaeth yn ddefnyddiol. Erbyn dechre 1846, yr ydoedd wedi dyfod i gydnabyddiaeth a'i gynnulleidfa, er y dywedid gan hen foneddiges deilwng nad oedd yn eu hadnabod yn drwyadl, oblegid eu bod oll yn dda pan fyddai y gweinidog yn galw. Yn ychwanegol at y ddau wasanaeth cyhoeddus ar y Saboth, yr oedd yn cyfarfod â dau ddosbarth o bobl ieuainc nos Sul, ac yn cael hyfrydwch mawr yn y gwaith o'u haddysgu, gan gredu mai yn y flordd hon y gallai fod yn fwyaf defnyddiol. Yr oedd paratoi ei bregethau yn dyfod yn rhwyddach iddo, a gallai oedi dechreu hyd ddydd Mercher, a disgwyliai y deuai yn bosibl iddo allu dechreu paratoi erbyn y Saboth ddydd Iau, neu hyd yn oed ddydd Sadwrn, neu fel y dywedodd Gwyddel unwaith, "Yfory." Eithr nid oedd hynny i leihau dim ar ei waith. Canys gyda chyflawni ei ddyledswyddau gweinidogaethol, yr ydoedd yn amcan ganddo amaethu ei feddwl yn, ac nid ar *wahan oddiwrth* ei waith, ac ymdrechai hefyd i ddal ymlaen i helaethu cylch ei wybodaeth o bob math. I ddangos mor graffus yr ydoedd yn darllen ei wrandawyr, y mae yn sylwi mewn un llythyr nad oedd rhan o'r gynnulleidfa yn ei ddeall, ac y mae yn ystyried yr angen am fwy o sylmrydd. Yr oedd ei boblogrwydd ar gynydd, ond yr oedd efe yn llawn ofnau gyda golwg ar y llwyddiant mewnol neu ysbrydol. Mor gynnar a mis Mawrth, 1846, codwyd ei gyflog i £200 y flwyddyn. Yr oedd yn hynod iach a dedwydd, a'i holl galon yn ei waith, yn ymhoifi mewn bod ynddo beunydd, ac ni fynnai fyned oddicartref ar y Saboth ond yn dra anfynych. Ar ol y gyfres ar Bechod, traddododd ddarlithiau bore Saboth ar Ddatguddiad, ac yna ar Efengyl Luc; ac yr oedd yn ysgrifennu y cwbl yn ofalus, ac yn argyhoeddedig o'r fantais o ysgrifennu yn fanwl. Modd bynnag, dechreuodd yn gynnar roddi anerchiadau yn y cyfarfodydd gweddi nos Fercher heb eu hysgrifennu ymlaen llaw. Fis Ebrill, 1846, y mae yn ysgrifennu at frawd yn y weinidogaeth: "Nid oes waith fel hwn dan yr haul; ac os erioed yr amheusais fy ngalwad iddo, mae yr amser hwnnw ymhell wedi myned hebio." Yr oedd ganddo feddwl mawr hefyd am ei faes llafur; nid yn unig yr oedd yn gyfaddas iddo, ond yr oedd yn ei wella. Yr ydoedd yn briodas wirioneddol rhyngddo ef â phobl ei ofal. Gwnaed yr amgais cyntaf i'w hysgaru yn 1846. Eithr fel yr hysbyswyd eisoes, parhaodd y cysylltiad dedwydd a firwythlawn am ddeng mlynedd ar hugain.

Nid oedd John Cairns ond 28ain oed pan dderbyniodd y gwahoddiad cyntaf i fyned i Edinburgh. Yr oedd galwad o'r fath yn beth ag y galleid yn naturiol ei ddisgwyl. Ac ni fuasai yn annaturiol iddo yntau fod yn ddigon uchelgeisiol i ddymuno a derbyn y cyfryw wahoddiad i brif ddinas ei wlad. Ac y mae yn sicr ei fod yn meddu pob cymhwyster i'r lle uchaf o gyfrifoldeb. Ond nid oedd efe mewn brys i ddringo i uchelfannau y weinidogaeth. Yr ydoedd yn naturiol yn wr o hunan-feddiant mawr—yn hunan-gynwysedig (*self-contained*). Ac yn yr ateb a roddodd yn gwrthod yr alwad gyntaf a ddaeth ato i

symud o Berwick, yr ydym yn cael ei olygiadau clir a chryfion ar ei ddyledswydd bresennol ac hefyd ar ei ddyfodol. "Un o ragoriaethau fy ngofalaeth bresennol ydyw y fantais y mae yn ei rhoddi i gyfuno y cyflawniad o ddyledswyddau bugeiliol a hunan-ddiwylliant mewn llenyddiaeth a duwinyddiaeth, oblegid nis gall dim osod i lawr sylfaen weinidogaethol barhaol sylweddol a defnyddiol ond efrydiaeth boenus ac eang. Nid wyf ond yn dechreu dyfod allan o ddyledswyddau a gofalon fy mlwyddyn gyntaf, fel ag i gael ychydig amser at hen a hoff efrydiau ag ydynt yn ddirfawr fanteisiol i amaethiad meddyliol, a thuag at sicrhau defnyddioldeb parhaol." Yr ydym yn argymell y geiriau hyn yn arbennig i sylw ein gweinidogion ieuainc y rhai ydynt newydd ymadael â'r Athrofeydd. Llongyfarchwyd ef yn galounog gan un o'i gyfeillion ar ei waith yn penderfynu glynu wrth ei lyfrau a'i fugeiliaeth yn nhawelwch Berwick, yn hytrach na symud i golli amser ym mhwyllgorau cymdeithasau, a chyfarfodydd cyhoeddus diddiwedd Edinburgh. Y mae yntau yn ymdafu yn adnewyddol a chyda phob cydwybodolrwydd i'w waith a'i efrydiau. Eithr er ei fod yn hynod ddedwydd yn ei lafur dibaid, a bod pobl ei ofal yn mawr werthfawrogi ei wasanaeth, eto, mewn llythyr a ysgrifennodd yn agos i ddiwedd 1846, y mae Cairns yn cyfeirio mewn ysbyrd gwir ostyngedig at ei waith, ac yn amlygu ei siomedigaeth oblegid yr hyn a ystyriai efe yn brinder ffrwyth. "Y mae yn aml yn dralodus arnaf, ar ol pregethu yn ddirifol am wythnosau yn olynol yn gymhwysiadol at yr annychweledig, wrth weled dim effaith yn y golwg ar eu meddyliau. Nid wyf yn gwybod am un engrafft o droedigaeth uniongyrchol er cychwyniad fy llafur." Oni ddywedodd y Prifathraw D. Charles Davies beth cyffelyb am dano ei hun ? Yn wir yr oedd llawer o bethau tebyg ym Mr. Davies a Dr. Cairns. Mewn un llythyr dyma esiampl arall: "Yr wyf yn meddwl fod bywhad amlwg yn y rhai da. Y mae llawer o ddyddordeb ar du y bobl ieuainc yn fy nosbarthiadau Sabothol. A phob cymundeb y mae ychwanegiadau at nifer yr aelodau, am y rhai ar ol ymfyniad gofalus, yr wyf yn gobeithio pethau da." A dyma frawddeg arall gwerth ei dyfynnu ac i'w chofio, ag sydd yn llefaru drosti ei hun: "Yr wyf yn dibynnu ar gynnorthwy yr Ysbryd Glân, ac yn ei ddeisyfu yn barhaus, ond rhaid nad oes digon o wiesogrwydd a symledd dibyniad." Yn nechre 1847 y mae yn ysgrifennu: 'Y mae fy ngwaith yn ei holl rannau yn ddyddorol a chydawns.' Y mae yn gweled arwyddion cynhyddol o fywyd crefydd yn ei gynulleidfa, ac yn anweddig mewn haelioni a charedigrwydd i'r tlodion. Rhoddai bwys mawr ar hyn, ac ymhoffai yn nysgeidiaeth dameg y Samaritan da. Mae yn eglur hefyd ei fod ar y telerau goreu a'i swyddogion eglwysig, a dywed eu bod yn deilwng o anrhydedd dauddyblyg. O'r diwedd y mae yn dechreu ysgrifennu rhywbeth heblaw pregethau, eithr nid yw ond adolygiad byr ar *Primeval Man* gan y Dr. John Harris.

Ym mis Chwefror, 1847, ysgrifennodd llythyr pwysig at ei frawd, David, yr hwn oedd hyd yma mewn gwasanaeth amaethyddol, ond am yr hwn y coleddai ei frawd y syniad fod ynddo gymhwyster i gylch uwch. Yr oedd Dr. Cairns wedi cael codiad pellach yn ei gyflog, a themlodd ei fod ar dir y gallai gynorthwyo ei frawd David. Ei olygiad cyntaf ydoedd ar iddo fod yn athraw ysgol, ac os tuedd id ef

i fyned i'r weinidogaeth, yr oedd efe yn barod i estyn y cynhorthwy angenrheidiol. Nid oedd ond dau wrthwynebiad i'r cynllun; un oedd oedran Mr. David Cairns; ond a golygu y byddai yn penderfynu myned i'r weinidogaeth, byddai yn barod erbyn ei fod yn ddeg ar hugain oed, yr hyn hefyd a wnaeth: ac yr ydym yn cofio yn dda ei weled gyda'i frawd enwocach yn Belfast ar yr achlysur ag yr ydym eisoes wedi cyfeirio ato. "Y gwrthwynebiad arall yw—dibyniad. Ond nid yw ar ddiethr-ddyn; ac y mae pob un wrth gychwyn yn dibynnu ar ryw berthynas; ac os llwydda y cynllun, dan fendith Duw, gellir gael cyfle i glirio'r ddyled trwy ad-daliad, neu, yr hyn fydd yn llawer gwell, 'dos a gwna dithau yr un modd.'" Ei brif efrydiaeth yr adeg hon ydoedd hanes yr Efyngylau, yr hyn a fu yn foddion i'w gadarnhau yn nilysrwydd eu gwirionedd, ac i beri iddo ddirmygu pob beirniadaeth anffyddol. Ni fu neb erioed yn fwy ffyddlon i wirionedd Cristionogaeth na Dr. Cairns; ac ni chafodd crefydd y Testament Newydd amddiffynydd mwy grymus nag ydoedd efe. Ac yr oedd hyn yn codi, nid yn unig oddiar ei wybodaeth eang a gallu ei amgyffredion, ond hefyd ac yn bennaf o ddyfnder ei argyhoeddiadau a'i grefydd bersonol. "Gobeithio fod i mi ran yn eich gweddiâu am lwyddiant ar fy ngweinidogaeth. Nid oes dim yn *dweyd* ond gweddi." Ac yr oedd yn weddiwr mawr ei hunan, yn ymarfer i ledu ei achos ger bron gorsedd gras, yn bwrw ei faich ar yr Arglwydd, yn ymdrechu gyda Duw, ac yn ymhoffi mewn unigrwydd i rodio yn ddirwystyr gyda'i Dad Nefol. Yn wir y mae yn iechyd calon i weled y fath feddwl cawraidd mor ysbrydol, a'r fath ysgolhaig mor syml a gwir grefyddol. Yr ydym yn gweled hyn hefyd yn a ddywed gyda golwg ar ei efrydiau yn y cynnod hwn ar ei fywyd. "Yr wyf yn fwy awchus nag y bum erioed am lyfrau bywgraffyddol a theithiol, yn neillduol rhai yn egluro daearyddiaeth, moesau, a Christionogaeth. Yr wyf yn cael chwaeth newydd o'r fath ynof; ac yr wyf yn eu darllen gyda mwy o awch nag erioed y darllenais ffugchwedlau. Yr wyf hefyd yn cael mwy o flas ar rannau hanesyddol a barddonol y Beibl, a mwy o allu i'w corffori gyda sylwedd fy meddwl." Mor hapus a phrydferth y mae y galon hawddgar a da yn cyfuno â deall mawr a gwybod-aeth eang!

Mae llythrau Cairns yn cyfeirio yn aml at y symudiadau eglwysig yn Scotland. Yr oedd yr Eglwys Rydd yn dwymn yn ei chariad cyntaf, ac yn llawn ynni ac egni yn trefnu ei thŷ. A bellach mae eglwysi y "Secession" a'r "Relief" wedi ymfurfio yn un cyfundeb. Ond ail bethau iddo ef ydoedd y symudiadau a'r cynhyrifiadau cyhoeddus hyn, er nad oedd mewn un modd yn ddiystyr o'u pwysigrwydd. Ei bwnc mawr, ef ydoedd ei waith cartrefol. "Yr wyf yn fwy a mwy argyhoeddedig fod cyflawniad llonydd a distaw o'r ychydig waith yn ein lle ein hunain—y llwybr gostyngedig a chartrefol o wneuthur dynion drwg yn dda, a dynion da yn well—ymhell uwchlaw mynegiad trystfawr a dangosiadol o honiadau eglwysig, a dyma'r unig feddyginiaeth i'r ysbryd sydd yn edrych ar drefniadau eglwysig fel cynllun difai i syllu arno, ac nid fel scaffaldiau yn unig i'w troedio yn adeiladaeth Eglwys Dduw." Ar un achlysur, o leiaf, y mae yn defnyddio y ddawn arbennig oedd ganddo i ysgrifennu llythyr er cyrraedd amcan mawr ei fywyd,

gwneyd y drwg yn dda a'r da yn well. Mae yn ymddangos fod gŵr digrefydd, ond yn meddu ar alluoedd naturiol, ac feallai o safle gymdeithasol dda, ag y byddai yn ymddiddan ag ef yn aml, pa un ai yn perthyn i'w gynulleidfa ai paidio nid yw yn hysbys. Un hwyr ar ol cyfarfod ag ef a dychwelyd i'w dŷ, y mae Dr. Cairns yn ysgrifennu epistol ato. Dyma ychydig linellau o hono :—"Yr wyf yn anturio dweyd fod Tad y Goleuni wedi gweled yn dda datguddio i mi ddirgelwch mawr dedwyddwch, ac agor i fynd i mi ffordd o ddihangfa allan o anhawsterau moesol dirfawr y sefyllfa bresennol hon, yr hon y mae llawer yn ei cheisio ac heb ei chael. Pa fodd i gael rhywbeth i orbwyso y teimlad o annheilyngdod yng ngoleuni y Tragwyddol—pa fodd i feddu elfennau y cymeriad ag y gall Efe edrych arno gyda boddlonrwydd—pa fodd i gymeryd gafael mewn gwrthrych o ddyddordeb parhaol, anghyfnawidiol ac anfaterol, ac a fydd yr un i ni trwy holl gyfnewidiadau y byd, a oroesa y presenol, ac a gydrêd gyda'r dyfodol diddiwedd—y cwestiynau ag sydd yn dilyn ac yn poeni pawb sydd yn meddwl ac â chydwybod ynddynt, ac unrhyw amgyffrediad ganddynt am bethau ysbrydol ac anweledig—y mae yr Hollalluog Dad wedi fy ngwneyd i yn wir ddedydd trwy eu dadrys a'u penderfynu i mi am byth. Yr wyf wedi cael yr ateb ym mywyd a marwolaeth y Bod mawr, rhyfeddol, digymar a thragwyddol fendigedig hwnnw, yr Hwn yw y Cyfryngwr rhwng Duw a dynion." Ar un o'r tudalennau nesaf yn y gyfrol o'n blaen, y mae llythyr arall o'r un nodwedd at neb llai na Syr William Hamilton, yn yr hwn y mae yr ysgolor blaenorol mewn ymadroddion nerthol a gwir weddus yn amlygu ei ddymuniad ar fod i'w hen athraw feddu a meithrin yr un ffydd, a'r tangnefedd ag sydd yn deillio o honi. Y mae ateb yr Athronydd enwog yn brydferth iawn :—"Yr wyf yn wir rwymedig i chwi am garedigrwydd eich llythyr, ac hyderwyf na phrofaf yn annheilwng o'r dyddoreb a deimlwch ynnof. Nid oes neb ag wyf yn adwaen syniadau yr hwn ar faterion o'r fath yr wyf yn edmygu ac yn barchu yn uwch ; oblegid nid oes neb, yr wyf yn sicr, yn fwy difrifol dros y gwirionedd, na neb yn ei ddilyn gyda mwy o annibyniaeth, ac ar yr un pryd gyda phob ymddiried yng nghymorth addawedig Duw. Rhodder y cymorth addawedig hwn i minnau !" Ychydig eto yn nes ymlaen, y mae epistol arall at yr un gŵr ag yr ysgrifenasai o'r blaen i'w argymhell at grefydd ysbrydol. Yr oedd yn gwybod y gwirionedd. Ond y mae gwahaniaeth rhwng ffydd a gwybodaeth. Un peth ydyw dirnadaeth dealltwriaethol am bethau crefydd ; ond peth arall, a hollol wahanol, yw cyffyrddiad yr enaid â'r Gwaredwr. Beth pe byddai i'n bugeiliaid gymeryd at ysgrifennu llythyrâu weithiau ? Yn nesaf at Epistolau y Testament Newydd, nis gellir cael gwell cynllun nag a geir yng nghofiant Dr. Cairns.

Yn haf 1849, talodd ymweliad â rhai lleoedd yn Lloegr, ac arhosodd dros Saboth yn rhanbarth y Llynnoedd. Cafodd gyfle i gael ymddiddan â'r bardd Wordsworth, ac y mae wedi cronicleo adroddiad manwl o'r ymddiddan, yr hwn sydd yn ychwanegiad nid bychan at werth y bywgraffiad. Mae'r ymddiddan yn ddarlun da o Cairns a Wordsworth.

Y mae gan Syr George Bruce adgofion am flynyddoedd cyntaf gweindogaeth Cairns yn Berwick. Dywed am dano ei fod yn hynod synhwyrol yn ei holl ymddygiad, a'i fod yn drwyadl hunanymwadol. Ei

holl ymdrech ydoedd i ogoneddu Duw, ac ennill dynion i dderbyn Crist. Nid oedd ei lais a'i draddodiad ar y cyntaf yn fanteisiol iddo. Ond yr oedd ei ddirifoldeb, ynghyd a'i gymwysterau meddyliol a'i ymroddiad i bregethu yn effeithiol, yn ei wneyd yn feistr y gynulleidfa. Yr oedd yn hynod lwyddiannus hefyd gyda'i egluriadau, yr oeddynt mor agos a chyfaddas. I ddangos fod gan bob dyn ei ddylanwad ar ereill, hyd yn oed y gwanaf. "Byddai yr un peth," dywedai, "i ddyn ddisgwyl cerdded yn yr heulwen a pheidio tafiu cysgod, â byw yn y byd heb gynhyrchu dylanwad." I ddangos yr afresymoldeb o beidio derbyn y Beibl oblegid yr anhawsterau sydd ynddo: "Byddai yn fôr tlawd pe gallem ni fyned trwyddo, byddai yn ffurfafen druenus pe gallem ni rifo yr holl sêr." Y mae Dr. Macewen, yn awr o Clapham, Llundain, yn rhoddi ychydig o adgofion am yr un tymor, ac un adgof yn neillduol ag sydd yn dangos y lle mawr a feddai ym meddyliau ei wrandawyr. Un Saboth pan yn dechreu cwrs o ddarlithiau ar *Esaiah*, traethodd ar farddoniaeth Hebreig, a soniodd lawer am y *parallelisms*. Drannoeth gofynnai hen wraig ddiniwed beth oedd y *parallelograms* ag y llefarai Mr. Cairns yn eu cylch, ac ychwanegai fcd yn rhaid fod pethau yn iawn gan mai Mr. Cairns oedd yn eu dweyd. Ymhlith y llyfrau a ddarllenai ar y pryd yr ydoedd gweithiau Baxter, yr hwn a fawr edmygai.

Ni fynnai i neb aros yn hir pan fyddai yn ysgrifennu ei bregethan. Ond pan gaffai hamdden, yr oedd yn ymgomiwr heb ei fath. Nos Sul yn neillduol byddai felly, ond ni chaffai hynny ei rwystro i gadw dyledswydd yn ei lety, ac ymdafiai yn galonnog ac egniol i'r gwasanaeth. Yna wedi dychwelyd gyda'i gyfaill i'w ystafell ei hun, ymagorai drachefn, ac os gofynnid cwestiwn athronyddol iddo, byddai'r ymddiddan yn troi yn ymgom ryfedd—y siaradwr yn codi gwrthddadleuon ac yn eu hateb; yn enwi anhawsterau ac yn eu dadrys: a braint ydoedd gwrando hyd nes y gorffennai.

Yn y flwyddyn 1850 adeiladodd yr eglwys yn Berwick dŷ i'w gweinidog. Ac y mae yntau yn dal ymlaen yn ddibaid yn yr hyn y mae yn ei alw yn llafur undônog (*laborious monotony*). "Dedwydd yw y gŵr neu y wraig sydd yn hoffi llafur undônog. Y mae y peth hawddaf i'w gael yn y byd, a'r mwyaf gwasanaethgar i'n dydd a'n eshedlaeth" "Y mae boddhad tawel yng nghariad cyfeillion ac yng nghyflawniad distaw dyledswyddau bugeiliol." Yr oedd wedi ysgrifennu adolygiad ar waith Julius Müller ar Bechod, ag oedd wedi ennill aylw mawr a chymeradwyaeth gyffredinol. Darfu i hyd yn oed Syr William Hamilton ysgrifennu ato i'w lon-gyfarch. Nis gallai hyn lai na rhoddi boddlonrwydd iddo, ac y mae yntau yn cydnabod hynny, ac ymhellach ei fod yn teimlo rhwymau cydwybod i leuyddiaeth. Ond ei hoffusaf waith ydoedd porthi a bugeilio y praid a roddasid dan ei ofal gan Ben Mawr yr Eglwys. Y mae'r ysgolhaig a'r llenor yn ymgolli yn y gweinidog Cristionogol; a hynny hefyd oblegid fod y pregethwr a'r bugail, i raddau mawr, yn ymgolli yn y Cristion a'r dyn gwir grefyddol. Mewn llythyr a ysgrifennodd ddydd Nadolig 1851, yr ydym yn cael yr ymadroddion hyn: "Nid wyf yn gwybod pa mor aml, er fy mhen blwydd diweddf, yr wyf wedi bod yn meddwl, 'Yn fuan chwi a fyddwch wedi byw yn hŵy yn y byd

na Christ ei Hun; ac i ba ddiben? Yr ymryddhad yr wyf yn ei gael oddiwrth y cyfryw sefyllfa meddwl ydyw cydnabod y gwirionedd yn syml a'm holl enaid; gofyn yn daer am faddeuant a gras, a bod yn foddolawn i fyw, cyhyd ag y gwel Efe yn dda, ar draul aberthu pob ymfodddhad a'r teimlad blinderus o amherffeithrwydd, gan ymdrechu yr un pryd, trwy ei gymhorth Ef, i ddyfod yn well ac i leihau y pellter mawr sydd rhyngof ag Ef. Nid wyf yn ymwybodol o ddymuno byw i'r un diben arall. Yr wyf yn canfod mor eglur ag unrhyw wireb feintonol, ac yn ei deimlo mor bell ag y gellir ei ddioddef, y tloidi a'r iselder annhraethadwy o fyw ar'dir ts na cheisio trwy ddiagyblaeth ac ymdrech i fod yn debyg i Fab Duw, a gwneuthur ereill yn debyg iddo Ef. Mae y boen a'r cystudd o fod mor annhebyg iddo Ef, ac o weled cynifer yn yr un cyflwr, yn beth nid i'w wella, ond i'w oddef. Fel y dywed Lacordaire, 'Picell Epaminondas ymhob gwir galon ydyw, a phan y tynnir hi allan, marwolaeth a ganlyn.' Nid yw ond peth iawn wedi'r cwbl, fod oferedd y creadur—ein hunain yn bennaf—yn cael ei ddwyn allan yn gryf i'r amlwg mewn gwrthgyferbyniad i ragoriaeth a chyflawnder Duw; ac am hynny y mae y moddau meddwl a'r profiadau mwyaf Ecclesiastaid—yn wir yr holl fywyd Cristionogol ar ei ochr nacäol—yn wirioneddol emyn o foliant i Dduw: yr hwn sydd ganddo glustiau i wrando, gwrandawed." Danfonodd Cairns ei lythyr cyntaf o'i dŷ newydd at ei fam, epistol yn llawn o naws crefydd ac o gariad mab. Mae yn ymddangos iddo dderbyn llawer o roddion yr adeg yma oddiwrth aelodau ei gynulleidfa, ac yr oedd yn llawn diolchgarwch, ond yn bennaf am y ddawn a gafodd yn ei chwaer, yr hon a ddaeth ato i gadw ei dŷ. Un o'i ohebwy'r lliosog ydoedd Mrs. Balmer, gweddw barchus ei ragflaenydd. Un diwrnod, pan yn ysgrifennu ati hi, dywed: "Yr wyf heddyw wedi bod yn ymweled â phymtheg o deuluoedd, ac wedi rhedeg trwy y gyfrol gyntaf o Gofiant Dr. Chalmers." Dro arall y mae yn ysgrifennu at hen gyfaill: "Yr wyf heddyw wedi cerdded deng milldir ac ymweled â chynifer o deuluoedd, gan gyflawni gwasanaeth defosiynol ymhob tŷ, a rhoddi pregeth mewn ysgoldy pentrefol." Yr oedd rhan fawr o'i gynulleidfa yn wasgaredig yn y wlad, y ddau tu i'r afon Tweed. Un diwrnod rhybuddiwyd ef gan hen wraig dduwiol oedd newydd golli ei phriod, ac aelod o'i eglwys, yn erbyn balchder; y mae yn ysgrifennu hynny gyda diolchgarwch. Yr un hen wraig a'i cynghorai pan yn meddwl priodi i ofalu dewis gwraig dduwiol, ac y mae yn cyfeirio at hynny gan amlygu mai gwell "*leave well alone*," ac fel y mae yn hysbys nid aeth Dr. Cairns i'r ystad briodasol. Nid yw yn ymddangos y gwyddai ddim am y teimlad o unigrwydd, hyd yn oed ar ol i gyfaill dalu ymweliad ag ef. Yr oedd ei lyfrau a'i efrydiau yn ffynonellau o ddedwyddwch parhaus iddo. Eithr er mor glymedig ydoedd wrth ei lyfrgell, gofalai gyda chysondeb am y cleifion, ac ymwelai yn rheolaidd â theuluoedd y gynulleidfa. Ysgrifennai fel hyn, Mehefin 2, 1853: "Yr wythnos hon nid wyf wedi gwneyd nemawr yn y ffordd o efrynu, wedi bod dri diwrnod yn olynol yn y wlad, yn ymweled, yn edrych am y cleifion ac yn bedyddio. Ond yr hyn a gollais mewn darllen lyfrau, yr wyf wedi ei ennill wrth ddarllen natur;" ac yna disgrifia olygfeydd glannau y Tweed. Yn ei lythyr

at Mrs. Balmer, Awst 18, 1853, mae yn adrodd hanes yr achos yn Berwick fel hyn: "Mae ein cynulleidfa yn sicr yn fiodenog—yr oll ond y cyrddau gweddi, y rhai nid ydynt yn gwella, ac y maent yn peri gofid i mi ac ereill yn fawr. Ond i'r diffyg hwn mewn gweddi yr unig feddyginiaeth yw gweddi, ac yr wyf yn gobeithio na fydd hynny yn ol." Talodd ymweliad â Germani y flwyddyn hon. Ar ol dychwelyd penderfynai fyrhau ei ddarlithiau bore Saboth ac hefyd i dalfyrri y rhannau defosiynol o'r gwasanaeth cyhoeddus; a theimlai yn angenrheidiol iddo gymeryd ei holl waith yn fwy ysgafn. Yr oedd wedi bod yn gosod yn rhy galed ar ei natur, a rhaid talu sylw i iechyd. Bu am dro yn Cambridge yn 1854, a chafodd hyfridwch mawr yno, yn y Colegau ac yng nghymdeithas y lle. Ond ysgrifennai fod yn well ganddo fod yn Ficer Golden Square, Berwick, nag yn Gymrawd un o Golegau Cambridge. Nid oedd efo yn dilyn esiampl y sawl a ddywedant fod grawnwin yn surion, ond gwirionedd ei galon ydoedd. Yn y flwyddyn hon y terfynodd David Cairns ei dymor prawf, ac yr oedd yn awr yn barod i dderbyn galwad i gymeryd gofal eglwys. Y mae Dr. Cairns yn ysgrifennu at ei frawd William gyda golwg ar hynny. "Bydd yn gymaint o foddhad i chwi ag ydyw i minnau fod David wedi gorffen, ac wedi dechreu ar waith ei fywyd. Nid oes waith arall mor uchel a gogoneddus. Gweddïwn drosto ar iddo gael maes, nid tawel a hawdd, ond un lle, trwy galedwaith ac arfau ysbrydol, y gall wneuthur argraff ar deyrnas y tywyllwch. Nid oes dim i'w gael yn y weinidogaeth nag allan o honi heb ei werth; ac ymdrech galed a hunanymwadol yw'r ffigyr iselaf am yr hwn y gellir cael unrhyw beth ag sydd yn deilwng o ddy-muniad Cristionogol." Yng ngwanwyn 1855, yr oedd cystudd lawer yn y gynulleidfa, ac y mae yn dyweyd na weithiodd erioed mor galed. "Yn achos y cleifion, nis gall neb ond llawenhau i wneyd rhywbeth." Bu am rai misoedd ar y Cyfandir yn haf y flwyddyn hon. Ond erbyn yr Hydref, y mae unwaith eto ynghanol ei bobl ac yn ddwfn a llafurus yn ei waith. Mewn llythyr at Mrs. Balmer yn nechre 1856, mae yn rhoddi hanes ei ddo-barthiadau i'r bobl ieuainc. Yr oedd ar y pryd ynghanol yr Epistol at y Rhufeiniaid. Ac amlyga ei obaith fod yr ymarferiadau hyn yn cynhyrchu rhywbeth mwy na gwelliant meddyliol; "ond y mae hynny yn llaw yr Ysbryd Glân, nid oes genym ni ond defnyddio y moddion gosodedig." Ac fel yma yr ydym yn cael y gŵr mawr yn fyddlon a llafurus yn holl gyloch ei fugeiliaeth hyd derfyn ei gysylltiad â'r eglwys yn Berwick, a'i symudiad i fod yn Athraw Duwinyddol yn Edinburg.

Fel y cerddai y blynyddoedd ymlaen yr oedd yn dyfod yn fwyfwy i'r amlyg fel ysgrifennwr galluog, ac yn arbennig fel meddyliwr cadaru, ac fel un yn meddu gwybodaeth eang ac addfed. Byddai yn bleserus dilyn ei hanes mewn cysylltiad â llenyddiaeth a symudiadau cyhoeddus bydol ac eglwysig, ac yn enwedig yn ei berthynas â goreugwyr yr amseroedd. Y mae digon o ddefnyddiau yn y gyfrol ac yn ei lythyrau at erthygl arall i'w ddangos yn y cyfeiriad hwnnw. Ond ein hamcan ydoedd cyfleu braslun o'i hanes fel gweinidog i Grist, ac fel bugail praid Duw. Yr ydym yn hyderu y bydd yr hyn a ysgrifenyd yn foddion i beri i bob gweinidog a ddarlleno yr ysgrif hon fawrhau ei swydd a'i

waith yn fwy nag erioed, ac i fod yn fwy ymroddedig i lafur fel ag i fod yn bregethwr a bugail yn anad dim arall. Mae angen ysbrydol ein gwlad yn galw am hyn yn llawn cymaint ag mewn unrhyw adeg flaenorol. Yn hyn y mae Cymru fu, Cymru sydd, a Chymru fydd yn un.

WILLIAM EVANS.

MAE GWYNNACH DYDD,

MAE gwynnach dydd na 'r gwynnaf un
 Ehedodd dros ein pen,
 Yn lledu 'i edyn draw o'n blaen
 Ar fron goleuach nen ;
 Tynherach ei edrychiad yw,
 A chryfach ei ddylanwad byw—
 Mae 'n ddydd o haf o loewaf lun.

Dydd heb un cwmwl gylch ei ben,
 Na storm niweidia 'i ddrych,
 A'i olygfeydd tu hwnt yn bell
 I bob disgrifiad gwych :
 Mae newydd liwiau yn ei wedd
 Yn byth lewyrchu newydd hedd
 I'n calon, rwyma wrth ei nen.

Dydd a'i ganiadaeth felus iawn
 Yn rhyfedd yn ei rhin,
 I ymlid o'r drallodus fron
 Bob cur a gofid blin ;
 Dydd drawagyweiria salmau oes,
 Dydd ddeil y goron uwch y groes
 I greu o'n mewn ysbrydiaeth lawn.

Wynfäol ddydd, mor agos yw,
 Mor hyfryd i'w fwynhau,
 A gwyllo ton ei fiwsig per
 Drwy 'r awyr yn neshau :
 Mae 'i gyffyrddiadau ysgafn ef
 Fel cyffyrddiadau engyl nef,
 Yn orlawn o drydaniaeth fyw.

Er hyn nid llygad wél ei wawr,
 A'i gân, nid clust a'i clyw ;

Agosach, pellach, ts ac uwch
 Na 'u gweithrediadau yw :
 Nid edrych drwy un ddwyrain ddôr,
 Ni wêna 'n wyneb tir na môr—
 Mae uwchlaw deddfau daear lawr.

Yn nos y byd goleua hwn
 I'r unig gwan ei lun,
 Pobloga anial pell ei hynt
 A'i frodyr ef ei hun ;
 Gwna 'n uniawn oleu lwybrau maith—
 Fe dÿn i'w ymyl ben ei daith,
 Ac ysgafnhâ ei drymaf bwn.

Nid natur a'i cynhyrcha ef,
 Nid breuddwyd gorwag yw,
 Ac nid ym myd dychymyg chwaith
 Agora 'i fynwes fyw :
 Disgleiria trwy gymundeb hfr
 A'r dyrchafedig, hardd, a gwir,—
 A myfyr ffydd yw porth ei nef.

GLAN ALAW.

JAPAN A'I BRODORION.

GWNEIR ymerodraeth Japan i fyny o ynysoedd, pa rai oll a rifant tua 3,800, rhai o honynt yn fychain ryfeddol, dim ond ychydig gannoedd o droedfeddi o hyd a lled. Pedair ynys o faintioli gweddol geir ymyag yr oll o'r nifer mawr uchod. Cyrhaedda yr ynysoedd hyn o ledred 21° i 50° 40', Gogledd, ac o hydred 124° i 156° 38', Dwyrain. Golyga hyn fod rhannau Gogleddol Japan ychydig yn fwy i'r De na Phen Tir Lloegr. A chymeryd i fyny yr holl arwynebedd, tir a môr, droa ba un y cyrhaedda Ymerodraeth Japan, mesura tua 16,000,000 o filltiroedd ysgwâr. Mesura y tir, tua 147,655 o filltiroedd ysgwâr. Y llinell ar hyd y glannau a ymestyna am tua 40,000 o filltiroedd. Mewn un man, nid oes ond un culfor bychan rhwng y wlad hon a Corëa; mewn pwynt arall o'r wlad, nid oes ond tua phum milltir o fôr ar ei drawa, rhwng Japan a pherchenogaeth Rwsia. Rhai o ynysoedd Japan ydynt mor agos i'w gilydd, fel y tystia Mrs. Murray Mitchell fod yr agerlong ymha un y teithiai wedi mordwyo rhwng dwy fel y gallasai bron gyfwrdd y tir a'i llaw oddiar y naill ochr a'r llall o'i llestr. Gwlad fynyddig yw Japan; dyma yr ynysoedd mwyaf myn-

yddig yn y byd. Ar rai adegau, cynhyrfir y lle gan ddaeargrynffâu mawrion. Ceir yma liaws o losg-fynyddau; ac y mae nifer y rhai ydynt erbyn hyn wedi llosgi allan bron yn afrifed. Coron y wlad, a ystyrir felly gan y brodorion eu hunain ac a fawr edmygir gan deithwyr yw cyn-losg-fynydd Fuji-Ian, yr hwn a ymddyrrha i'r wybrennau i uchder o 13,080 (14,000 yn ol ereill) o droedfeddi uwchlaw arwyneb y môr. Ffurf y mynydd yma sydd bigfain, fel cyrnan f'd. Ceir llun y mynydd hwn ar agos bopeth ddaw o Japan. Ymfalchiant fel cenedl ynddo, a dywedir fod ganddynt achos teilwng i wneyd. Gorchuddir coryn Fuji-Ian gan eira oesol. Mynyddoedd y wlad, fel rheol, a orchuddir hyd eu copâu gan goedydd dymunol. Ceir yn Japan goedwigoedd eang; gorchuddir ganddynt gymaint bedair gwaith o dir ag a lafurir. Nid oes yn y wlad lynnoedd mawrion; yr aberoedd ydynt bron yn ddirif; yr afonydd ydynt fyrion, ac heb fod yn nofiadwy i longau o faintioli gweddol.

Nodweddir yr hinsawdd gan gryn amrywiaeth. Dywedir mai o ryw gw'r o China y cychwynai un am Japan, gan lanio ar ochr y tir yn wynebu tua'r wlad fawr honno. Dywedai teithydd am hinsawdd Japan, ei fod yn *bracing*, yn iach a dymunol dros ben. Dyweder mai o California, y mae un yn cychwyn am Japan, gan lanio ar yr ochr yn wynebu tua'r cyfeiriad hwnnw, tystiolaeth y teithydd am yr hinsawdd fyddai mai gwlyb, niwlog, a braidd annymunol ydyw. Ceir yno hafau gwahanol, rhai yn sych iawn, ereill yn wlyb anarferol. Mae rhai gauafau yn oerion anferth, ereill yn dymherus iawn. Cynhesir y glannau Dwyr-einiol gan fôr-gainc gynhes o'r Môr Tawellog; tra mae y rhannau Gogledd-orllewin o'r wlad yn oer iawn yn ystod llawer o fisoedd y flwyddyn gan wyntoedd o'r Gogledd-Orllewin yn trafaelu atynt dros Gyfandiroedd Asia. Am yr hafau yn gyffredin, gellir dweyd eu bod yn boethion, llaith, a chymylog; y gauafau yn oer, disglær, a sych. Y gwanywn a'r hydref ydynt lawer yn fyrrach nag yn Lloegr, gyda'r wybren yn gliriach, a'r haul yn tywynu gyda mwy o danbeidrwydd. Dywedir fod Ewropäid a'u plant yn ffynnu yn rhagorol yn Japan.

Golygfeydd y wlad, ydynt yn fynych yn dra mawreddog. Fel rheol y mae yn wlad brydferth; mewn amryw fannau yn hynod o swynol fe ddywedir. Ceir llysieuaeth yno mewn cyflawnder, ac yn dra amrywiol mewn llawer o leoedd. Ceir yno gannoedd o wahanol fathau o'r un planhigion. Adar, o'r eryr i lawr, ydynt i'w cael yno mewn amrywiaeth rhyfedd; prinder er hynny sydd yno o rai yn meddu lleisiau pêr, ac o rai yn perchen plu ysblennydd. Ceffylau Japan, ydynt greaduriaid truenus, ac nid yw y fuch mewn bri yno. Y creaduriaid, fychain a mawrion, sydd â gallu ganddynt i bigo a cholynnu ydynt i'w cael yno mewn cyflawnder diderfyn.

Llafurwaith Japan sydd yn gynnwysedig mewn codi rice, ffâ, té cotwm, carth, coed mulberry, coed camphor, coed barnais. Gweithir yno sidan ar raddfa eang, nwyddau cotwm, llestri pridd (*porcelain*) o'r fath oreu, cyllyll, a barnais. Y barnais a elwir *laquer* sydd mewn defnydd mawr yn Japan, a daw yn fwy felly yn ein gwlad ni, a manau ereill.

Erbyn hyn cerrir ymlaen gan wahanol wledydd drafnidiaeth eang, o ac i Japan. Ynglŷn â'r allforiau oddiyno yn bennaf ceir sidan, té,

haiarn, camphor, copr, a swm mawr o waith addurniadol. Trafnidir i'r wlad mewn gwlan, cotwm, haiarn wedi ac heb ei drin, ynghyd a rhai pethau ereill. Yn ystod y flwyddyn 1892 dygwyd i'r deyrnas hon o Japan werth £54,116 o sidan heb ei weithio, a £40,140 o'r un nwydd wedi ei weithio. O lestri pridd, werth £33,049; myglys, £25,101; cyffyrâu, £26,720; copr, £152,109; rice, £135,292. O'r deyrnas hon i Japan anfonwyd gwerth £1,659,453 o edafedd a defnyddiau cotwm. Gwlanenni, werth £366,535; haiarn wedi ac heb ei drin, £214,524; peiriannau, £172,212; cyffyrâu, £71,396

RHAI O NODWEDDION CENEDLAETHOL A CYMDEITHASOL
Y JAPANEAID.

Yn ol cyfrifiad wnaed yn Japan, Rhagfyr 31ain, 1891, rhifai y boblogaeth 40,718,677; sef o wrywiaid, 20,563,416; benywod, 20,155,261; ceir yno felly 408,155 yn ychwaneg o ddynion nag o ferched. Preswylia y boblogaeth uchod gan mwyaf ar dair o'i phrif ynysoedd. Ceir yn yr ymerodraeth chwech o ddinasoedd, yn y rhai y preswylia dros 100,000 o bobl; Tokýs yn arwain gyda phoblogaeth o 1,161,800. Oddigerth tua 12,000 o bobl adwaenir wrth yr enw Ainös, ac oddeutu 5,000 neu ychydig yn rhagor o Ewropäid, Americanaid, a Chinäid, y mae trigolion Japan yn unrhywiaeth.

Yr Ainös ydynt gyn-frodorion Ynys Yezo, un o'r prif ynysoedd. O'u cyferbynu â'r Japanäid, y mae y bobl hyn yn anwariaid. Mewn ystyr gyffredinol, gellir dweyd am yr Ainös mai pobl ddwl, hurt, ond eto addfwyn a charedig dros ben ydynt, a'u bod yn nodedig o ymoe-tyngol. O ran eu gwedd, tebygant yn fawr i'r Yspañiaid, neu bobl Deheubarth Itali. Ynglŷn â llawer o'u harferion, dygant fwy o debyg-rywydd i Europäid nag i Asiaid. O ran cyfansoddiad a ffurf y corff, y maent yn bobl llawer cadarnach na'r Japanäid. Eu gwallt sydd ddu iawn, ac yn hynod drwchus. Tueddant at fod yn flewog, ond tystia Miss Bird fod gormodiaith wedi ei ddefnyddio wrth sôn am hyn ynglŷn â hwy, er y dywed iddi weled un o honynt, a chael ei chy-northwyo yn garedig ganddo i groesi afon, yr hwn oedd yn orchudd-edig gan flew, pa rai ar yr ysgwyddau oeddynt yn drwchus, ac yn ymdonni fel eiddo ei *retriever*. Gwisgai y dyn yma farf laes; ei walt a orweddai yn godynnau dros ei ysgwyddau; ymddanghosai fel gwir anwar; ond gwneid i fyny am hyn gan ei wyneb tirion, ei wên a'i lygaid siriol. Edrychir i lawr gan y Japanäid ar y bobl hyn, ac am danynt dywedant, "Cwn yw yr Ainös ac nid dynion."

Nodweddir y bobl hyn gan weithgarwch a diwydrwydd mawr; llawer o honynt yn hynod lanwaith, ereill yn hollol i'r gwrthwyneb. Y maent yn hynod hoff o'u plant, pa rai, o'u mebyd, ddygir i fyny i fod yn ufudd ac o ryw wasanaeth i'w rhieni. Eu harferion cym-deithasol ydynt syml iawn. Nid yw y merched byth yn priodi hyd 17eg mlwydd oed, na'r meibion hyd 21ain. Y mae yn hanfodol fod gan y neb a briodo wraig, dŷ yn barod i'w chymeryd iddo. Nid yw amlwreiciaeth yn beth cyffredin yn eu mysg, meddant ar reolau pendant parthed ysgariaeth. Gofelir am y rhieni yn eu methiant a'u henaint gan y plant; hyd y diwedd danghosir iddynt barch a thelir iddynt ufudd-dod. Tuag at eu gilydd y mae yr Ainös yn foesar a charedig

iawn. Gofidus meddwl mai eu syniad am y dedwyddwch pennaf yw, bod yn anifeilaidd feddw; sancteiddir ganddynt yr arferiad wrthun trwy ddweyd, mai yfed er parch ac addoliad i'r duwiau y byddant. Y merched yn gystal â'r dynion ydynt agored i'r drwg-arfer yma. Gweithiant eu diodydd meddwol allan o wreiddiau coedydd arbennig, ac allan o rice; ond y diodydd meddwol ddygir iddynt o Japan yw eu hoff wlybyroedd. Ynglŷn â'r meddwi yma, ceir yn eu plith rai eithriadau anrhydeddus, dynion ydynt wedi canfod y dinystr a'r aflwydd a berthyn i'r arferiad. Ni fedd yr Ainöisiaid fesuriad ar amser, felly ni wŷr neb o honynt rifedi blynyddoedd eu heinioes. Llywodraethir hwy gan y Japanëaid; ond ni ymyrrir ond ychydig â'u trefniadau teuluol a llwythol. Trigant gyda'u gilydd yn Undebau pentrefol, gyda phennaeth ymhob pentref, yr hwn sydd ben-arglwydd y lle.

Am eu crefydd, ni fedd y bobl hyn offeiriad, aberthau, nac addoliad; er hynny, priodolant i Natur ryw gysegredigrwydd diystyr a gwag. Priodolir hyn i goedydd, afonydd, creigiau, a mynyddoedd. Ymsyniant fod gallu er da neu ddrwg yn perthyn i'r môr, y tan, yr haul, y llenad, a'r goedwig. Ni feddant syniad clir am sefyllfa ddyfodol, a llawn cystal ganddynt beidio son am y mater. Tybiant y gall ysbrydoedd y meirw drigo mewn bleiddiaid a nadroedd. Y maent yn dra ofergoelus.

Y Japanëaid o ran eu hymddanghosiad ydynt felyn eu crwyn, gyda llygaid duon, hir-lethrog; eu gwallt sydd syth. Yn ol y syniad Ewropëaidd am brydferthwch, nid yw y bobl hyn, ond yn eithriadol iawn, yn brydweddol. Pobl fychain o gorffolaeth ydynt, y dynion fel rheol, heb fod dros 5 troedfedd a 4 modfedd mewn taldra, y merched yn gyffredin dan 5 troedfedd. Gwisga y naill a'r llall yn hynod debyg i'w gilydd, fel mai gydag anhawster y gwybyddir yn union pa un ai mab ai merch fydd yn cyfarfod un ar yr heol. Triniad y gwallt sydd un o'r pethau pwysicaf yngolwg merched Japan. Dywed yr awdures a enwyd, iddi weled mewn un masnachdŷ yno, gynifer â 117 o wahanol fathau o *ornamental hair pins*. Nid yw y meibion na'r merched, fel rheol, yn gwisgo unrhyw orchudd am y pen. Y gwragedd priod a'r merched dyweddiog a ddüant y dannedd, ac a eilliant yr aeliau.

Gan mai yn y teulu y gosodir i lawr ymhob gwlad seiliau cymdeithas a llywodraeth, priodol a hynod ddyddorol yw sylwi ar nodweddion teuluol gwahanol genhedloedd. Pwysig cofio nas gellir byth ddisgwyl cymdeithas wych, ddyrchafedig, a llywodraeth drefnus ufudd, a theyrngarol ei deiliaid, heb fod seiliau y cyfryw wedi eu gosod i lawr ar y cyntaf ymhob teulu unigol. Cytundeb gwladol yn unig yw priodas yno, heb fod y syniad o grefydd yn dod i mewn i'r mater o gwbl. Ni ddychmygir ganddynt am bresenoldeb offeiriad, nac un swyddog crefyddol arall, fel anghenraid ynglŷn â'r briodas. Cedwir cofrestrriad manwl o'r cytundeb priodasol rhwng gŵr a gwraig. Yn Japan collir y wraig yn y fam. Golyga hyn ar y wyneb, mai truenus yw sefyllfa y wraig ddiblant. Yno y mae y tad yn wasanaethydd i'w blentyn, a'r fam yn gaethes i'w phlant. Canfyddir hyn i bwrpas yngoleuni yr hyn gofnodwyd yn barod. I raddau pell iawn y mae y wraig at drugaredd teulu ei gŵr. Fel rheol, y mae gan y gwragedd yn

eu cartrefi i gadw at ac i weithredu yn ol rheolau pendant wedi eu tynnu allan ar eu cyfer.

Pan allan yn y gerddi, dyweder, neu fannau cyhoeddus ereill, anfynych, os un amser yn wir, y ceir y merched yn cyd-gurdedd i'r dynion, ond yn fagad wrthynt eu hunain. Prin byth y gwelir tad, mam, a'u plant yn gryno gyda'u gilydd, ond ar wahân. Y mae y rhiaint yn orhōff o'u plant; nid ymddanghosant byth yn ddedwydd ac yn gorfod bod yn hir ar wahân oddiwrthynt. Yn y teulu-oedd, bechgyn ffafir bennaf, ond ni chamdrinir y genethod. Y plant ydynt hynod hydrin ac ufudd, yn wastad at alwad y rhieni, ac o'u mebyd wedi eu dyegu i gynorthwyo ac i fod o ryw wasanaeth yn y teulu. Tystia Miss Bird iddi dro ar ol tro, wlyied y plant yn chwaraeu: ni chlywodd gymaint ag unwaith air cas, brwnt, yn cael ei ddwyed gan y naill blant yn wrth y llall; ni welodd ychwaith olwg sarrug, anfoddog ar wneub un plentyn yno. Ufudd-dod uniongyrchol o du y plentyn i'w rieni sydd arferiad canrifoedd yn Japan. Yno ni chlywir y rhieni byth yn dwrddio, bygwth, a dychrynu eu plant i ufudd-dod. Pe le y saif rhieni a phlant Cymru o'u cyferbynu yn y pethau hyn a'r eiddo Japan?

O ran safleoedd cymdeithasol, ceir yno fel mewn gwledydd ereill amrywiaeth; rhai yn gyfoethog iawn, ereill yn ddi-dion ryfeddol, a'r gagendor rhwng y ddau ddo-barth yna yn cael ei lanw i fyny gan amrywiol safleoedd gwahanol. Am lanweithdra, ceir rhai manau a thai yn hynod o lân, lleoedd ereill yn aflan o fudr. Am rai o'r dinasoedd a'r pentrefi, y maent mor lanwaith fel y codir i fyny yn ofalus oddiar yr heolydd bob gwelltyn neu dderbyn o bapur. Dywed Miss Bird iddi gerdded rhai heolydd oeddynt mor lân fel na feiddiam gerdded drostynt gydag esgidiau budron, mwy nag y meddyliai am wneyd hynny ar y *drawingroom carpet* harddaf. Wrth gwra, ceir yn Japan y gwrthgyferbyniol eithafol. Yn fynych, y tai yn afiach o halogedig, iechydiaeth yn dra amherffaith, ac yn fynych gorlenwir y tai.

Ymborth cyffredin yn y wlad yw rice, ac yfir yno lawer o dde—ni chyffyrddir gan y Japanëaid ag un math o ymborth y mae yn rhaid wrth laeth neu ymenyn yn eu paratôad. Y maent yn dra hoff o felusion.

I lawer o honynt sydd yn gaeth iawn i'r arferiad dinystriol o *ymyfed* a meddwi. Prif bechodau y brodorion ydynt gelwydd ac anlladrwydd. Mewn llaws o'r prif drefi, y tai goreu nid ydynt angen na nythleoedd aflendid; trwy hyn, peryglir nerth y genedl; canys yn sicr ymhob gwlad, "ffordd i uffern yw ei thŷ hi, yn disgyn i ystafelloedd angen."

Daw eu twyll a'u hoced i'r amlwg yn y dull y cariant ymlaen eu masnach. Twyllir y cyhoedd trwy honni fod y nwydd a'r nwydd o'r gwneuthuriaid yma neu arall, tra na byddant felly o gwbl. Yn y masnachdai gofynnant grogbris am y nwyddau; er engraffit, gofynnant bedwar swllt, pryd na ddiagwyllir derbyn mwy na chwe cheiniog. Wedi yr arhosir mewn lle, ac y gofynnir am y bil, ni cheir ef *cyz* iddynt yn gyntaf ymofyn â gwas neu forwyn y sawl sydd i dalu pa swm dros ben yr hyn sydd iawn sydd i'w ofyn, yna rhennir y crogbris rhyngddynt.

Am gyfleusterau taithio ceir yn Japan erbyn hyn amrai reilffyrdd. Yn y trefi a'r cylchynoedd, trafeulir mewn cerbydau yageifn, dymunol

dros ben, yn cael eu tynnu gan ddynion—un, dau, tri, neu bedwar, fel y byddo y galwad. Ceir trwy y wlad oll filoedd lawer o'r cyfryw gerbydau. Enillir cyflog da gan y dynion sydd yn eu tynnu, pa rai yn y cyffredin a drafeuliant tua deugain milltir y dydd. Nid yw y rhedegwyr hyn yn byw yn hir—tua phum mlynedd ar gyfartaledd.

Nid yw bádwy'r Japan yn arfer tyngu a rhegu. Swyddogion y toll-dŷ ydynt ddynion tra boneddigaidd. Dywed Miss Bird na welodd gardotwyr yn y wlad, ac ni syrthiodd ei llygaid ar "faes y dyn diog." Yn feibion a merched, gwryfyon a llanciau a phlant, gwelodd hwy yn weithgar a diwyd. Eu moesgarwch sydd ddiarhebol. Tystia y foneddiges uchod iddi drafaelw wrthi ei hunan, heb ond ei gwas, Japanëad tua 18 ml. oed, gyda hi, ar bob adeg, tua 1200 o filltiroedd, heb i gymaint ag un, yn un man, ymddwyn mewn un modd yn anfoesgar tuag ati.

Hunan-laddiadau ydynt ddigwyddiadau digon cyffredin yn y wlad; siomiant bychan sydd yn ddigon er peri iddynt gyflawni yr anfadwaith hwn. Fel cenedl ni feddant fawr olwg ar anfarwoldeb; yn wir, cas-hânt y syniad. Un o'u diarhebion—ac o'r cyfryw ymddengys fod ganddynt lu o rai rhagorol—yw, "Os ydych yn cashâu dyn, gadewch iddo fyw." Heblaw claddu eu meirw, y mae hefyd yn arferiad ganddynt i losgi y cyrff.

Yr un iaith siaredir trwy yr oll o Japan; wrth gwrs gwahaniaetha ychydig mewn manau, er hynny un iaith. Fel llawer o'r ieithoedd Dwyreiniol, ceir yn y Japanëeg llaws o eiriau gyda'r un swm bron yn perthyn iddynt, fel mai hawdd iawn i dramorwr, er wedi dysgu yr iaith yn wych, yw gwneyd camgymeriad digrifol weithiau. Yn y *Missionary Review of the World* yn ddiweddar cofnodid engreiffiau o hyn gymerasai le yn Japan dro yn ol. Cenhadwr yn daer yn cymell ei wrandawyr i ddyfod at y "ffynnon fywiol," a ddywedai, "Dewch at y *llygoden* fywiol." Un arall a ddywedai mewn modd dwys i'w gynnulleidfa, os nad edifarhaent mai i uffern yr aent oll; ond dyna mewn gwirionedd ddywedai, "Oni edifarhewch chwi a anfonir oll i'r llythyrdy." Ynganir y gair "ffynnon" yn y naill achos, bron yr un fath â "llygoden;" ac yn y llall, y mae "uffern" a "llythyrdy" bron yr un.

Mae sefydliadau addysgol y wlad erbyn hyn, yn ardderchog o ran eu dygiad ymlaen. Ceir ynddynt gasgliad o ragoriaethau eiddo ysgolion y byd Gorllewinol. Fel yn ein gwlad ni, felly yno, y mae addysg plant yn orfodol. Trwy Japan oll, ceir 25,374 o ysgolion elfennol, gydag addysgwyr yn rhifo 69,608 yn gofalu am 3,153,813 o blant dan addysg. O'r ysgolion elfennol uchod, hyd nes y cyrhaeddir y prifysgolion, o ba rai y mae tair, ceir o wahanol raddau o sefydliadau addysgol y nifer o 1912, gyda 8213 o addysgwyr, a 129,198 o ysgolheigion. Yn y tair prifysgol ceir 248 o addysgwyr, ynghyd â 1385 ynddynt yn derbyn addysg. Yn y Prifysgolion, hyfforddir yn y Gyfraith, gwyddoniaeth, physigwriaeth, llenyddiaeth, a pheirianwaith. Cynhelir yr ysgolion hyn gan y Llywodraeth; yr ysgolion ereill a gynhelir mewn rhan gan y Llywodraeth, ac mewn rhan trwy drethiad lleol. Cymerwyd y cyfrifiadau yma Rhagfyr 31ain, 1891, y cyfrifiad diweddaf a ddaeth i law yn y wlad hon.

Ar derfyn yr un flwyddyn, yr oedd yn Japan 20 o lyfrgelloedd cyhoeddus, yn cynnwys 181,942 o gyfrolau. Yng nghorff yr un flwyddyn eto, cyhoeddwyd 22,568 o lyfrau gwahanol, a 716 o gyfnodolion misol, wythnosol, a dyddiol. O'r cyfryw argraffwyd 199,168,371 o gopiau. Wedi eu cyfieithu i'r iaith o lyfrau Seisnig, gellir enwi gweithiau Mill, Huxley, Darwin, Herbert Spencer, a Thaith y Pererin Bunyan. Gall y Japanëaid brynu Beibl cyfan am dri swllt, a'r Testament Newydd am swllt.

YR YMERODRAETH A'I THREFNIADAU.

Am foreuddydd hanes Japan, nid yw yn glir, gan y cylchynir ef gan dywyllwch chwedloniaeth. Fel y rhelyw o'r cyfryw, cychwynir gyda'r duwiau, i ran y rhai y disgynodd y gwaith o lywodraethu gwahanol rannau o'r byd. Ca "duwies yr haul" le amlwg yn chwedloniaeth Japan; yr enw cyffredin gan y Chinëaid ar y wlad ydyw "Gwlad cyfodiad haul." Wyr i "dduwies yr haul" ydoedd ymerawdwr cyntaf Japan, yn ol traddodiad, disgynnydd o ba un, meddir, yw yr ymerawdwr presennol. Y rheolwr cyntaf ar y wlad, yn ol hanesiaeth grodadwy, ydoedd Simmu Tennō, yr hwn a flodeuai tua'r flwyddyn 660 C.C., felly tua'r adeg pan y teyrnasai Manasseh ar Judah. Er y pryd hynny y mae cynifer a 123 o ddisgynyddion y dyn hwn wedi llywodraethu yn Japan.

Tua'r amser yr oedd Gwilym y Gorchfygwr yn buddugoliaethu ar y Normaniaid yn ein gwlad ni, torrodd gwrthryfel allan yn Japan; anfonodd y Mikado—dyna deitl yr ymerawdwr—allan nifer o bendefigion y wlad i ostegu a darostwng y gwrthryfelwyr. Yn hyn buont lwyddiannus, a thrwy hynny dringasant i awdurdod a dylanwad mawr yn y tir, yn gymaint felly fel mai hwy oeddynt mewn gwirionedd yn llywodraethu y wlad. Parhaodd pethau felly yn hanes eu disgynyddion am hir amserau. Yn y cyfamser y mae y Mikados yn byw mewn neillduaeth; ni welid hwy un amser gan y deiliaid, ac ni feddylid am danynt ond yn unig fel disgynyddion o'r duwiau nefol; ymsynnid am danynt gyda pharch ac addoliad. Yn ystod yr adegau hyn sonid am y Mikado wrth yr enw, "YR YMERAWDWR YSBRYDOL," a'r gallu llywodraethol, y bendefigaeth, wrth y teitl, "YR YMERAWDWR TYMHOROL." Ers cryn amser bellach gwnaed ymaith a'r Ail Allu; yr Ymerawdwr yn unig a lywodraetha, a hynny fel y tybid, yn ol hawlfraint ddwyfol. Yn flaenorol i Chwefror 1leg, 1889, yr oedd llywodraethiad y wlad yn gyfangwbl yn ei law; yr adeg a nodwyd, tynnwyd allan fath o gyfansoddiad llywodraethol. Yn ol hwn, yr Ymerawdwr yw pen y llywodraeth; parhâ y gallu gweithredol yn ei law, yn unig ymgynghora âg aelodau y Cyngor, y rhai a apwyntir ganddo ef ei hun. Medda hefyd ar Gyfrin-gyngor, gwaith pa un yw cymeryd i ystyriaeth faterion gwleidyddol a gyflwynir i'w sylw gan yr Ymerawdwr. Medda y teyrn hwn hawl annibynnol i gyhoeddi rhyfel a sefydlu heddwch, gan derfynu pob cytundeb ynglŷn a'r cyfryw. Bodola yn Japan Dŷ yr Arglwyddi a Thŷ y Cynrychiolwyr. Rhifa aelodau y Tŷ uchaf tua 300, a gellir dweyd fod y nifer hoesaf o'r cyfryw o ddewisiad yr Ymerawdwr ei hun. Gweinydda nifer o honynt am eu hoes, ereill am saith mlynedd. Tua 300 o aelodau

eistedda yn y Tŷ isaf. Gall yr Ymerawdwr dorri i fyny y Tŷ yma pan y mynno. Parhad eithaf y Tŷ hwn yw pedair blynedd. Dewisir y cynrychiolwyr trwy bleidlais yr etholwyr, pa un a weinyddir trwy y balot. Cymwysterau meddu yr etholfraint ydynt, bod dyn dros 25ain mlwydd oed, ac wedi preswyllo yn arhosol a gweithredol am ddim llai na deuddeng mis naill ai yn y "Fu" neu yn y "Ken;" o'r cyntaf yn y llywodraeth y mae tri, o'r olaf dri a deugain. Rhaniadau yw y rhai hyn, debygem, cyffelyb i'r bwrdeisdrefi a'r rhanbarthau etholiadol gyda ni. Hefyd, rhaid fod pob etholwr yn talu o dreth uniongyrchol i'r llywodraeth swm heb fod yn is na 15 *yen* y flwyddyn. Golyga hyn swm cyfartal i tua £3 o'n harian ni.

Am bersonau i'w dewis yn Gynrychiolwyr, rhaid iddynt fod uwchlaw 30ain mlwydd oed; ni raid iddynt o angenrheidrwydd fod yn cyfaneddu yn weithredol yn un o'r rhaniadau a nodwyd, ond rhaid iddynt fod yn dreth-dalwyr. Ni ellir dewis neb yn Gynrychiolydd fyddo yn llanw rhai o'r swyddau canlynol,—swyddogion tŷ yr Ymerawdwr, barnwyr, casglwyr trethoedd, swyddogion y fyddin, y llynges, a'r heddlu; offeiriad a gweinidogion crefyddol. Telir i'r Cynrychiolwyr am eu gwasanaeth, ac ni oddefir i neb o honynt wrthod y cyfryw dâl. Llywyddion y ddau Dŷ a dderbyniant yn flynyddol swm cyfartal i £800 o'n harian ni; yr Is-lywyddion, £400; y Cynrychiolwyr, £120, ynghyd â'u costau teithio. Mwynhâ y Japanëaid y cyfleusterau sydd ynglŷn â meddu llywodraethiad leol; mae y darpariadau ynglŷn â hyn yn hynod o dŷg.

Er penderfynnu mewn materion cyfreithiol, a gweinyddu ynglŷn â throseddau, ceir yno ddarpariadau cyffelyb i'r eiddo y gwledydd Gorllewinol. Apwyntir nifer o'r prif farnwyr gan yr Ymerawdwr, ereill a apwyntir ganddo yn unol â chymeradwyaeth y swyddog a adwaenir yno wrth y teitl "gweinidog cyfiawnder;" y gweddill a apwyntir yn ol ewyllys y cyfryw weinidog. Yn ol y cyfrifon diweddaraf, ar gynnydd y mae troseddau yn Japan. Yn y flwyddyn 1887, galwyd 84,120 i ateb ger bron yr awdurdodau; yn 1891, gwysiwyd cynifer a 157,671 i sefyll eu prawf. Ar deryn 1891, safai nifer y carcharorion a'r rhai mewn sefydliadau diwygiadol, yn 68,642 o ddynion; merched, 4611.

Am y tlodion, rhoddir heibio yn flynyddol at eu cynhaliath 1,200,000 *yen*; 300,000 gan y Llywodraeth, 900,000 gan y llywodraethau lleol. Golyga hyn tua £240,000 o'n harian ni. Cynorthwyr y tlawd, yr amddifad a'r methedig, mewn dulliau ereill hefyd. Ceir tloty yn Tokio, ac yr oedd yn aros ynddo ar 1891, 511, o'i gyferbynu a 108 yn niwedd 1884. Yn ol y cyfrifon diweddaraf y mae rheidusrwydd ar gynnydd yn Japan.

Dengys Cyllideb y flwyddyn yn terfynu ym mis Mawrth, 1894, fod derbynadau y Llywodraeth am y flwyddyn honno yn 84,235,591 *yen* (£16,847,118); treuliau, 81,848,105 (£16,369,621). Ar deryn Mawrth 1892, safai dyled wladol Japan yn ol £53,851,017 o'n harian ni. O'r swm yna, y mae £897,724, yn ddyledus i wledydd tramor, am ba rai y talent yn ol £7 y cant o lŷg.

Dros y fyddin a'r llynges, medda yr Ymerawdwr awdurdod oruchel. Yn ol y gyfraith bresenol, rhaid i bob mab uwchlaw 20 mlwydd oed,

wasanaethu saith mlynedd yn y fyddin, tair blynedd mewn *active service*, y gweddill yn y *reserve*; wedi hynny gwasanaethir am bum mlynedd ereill mewn cangen arall o'r fyddin. Mewn adgau o ryfel, os cyfyd angen am hynny, y mae pob mab uwchlaw 17eg mlwydd oed, i fyny hyd 40ain mlwydd, yn agored i gael ei alw i wasanaeth milwrol. Medda Japan ar ddwy ar hugain o longau rhyfel godidog, pump o ba rai sydd *armour plated ships*. Teithia rhai o'r llongau hyn droo 22 *knots* yr awr. Nid yw y telegraph a'r telephôn o gwbl yn bethau dieithr yn y wlad.

CREFYDDAU JAPAN.

Crefydd hynaf Japan yw Hindwiaeth, ac yn nesaf at hynny Bwdhiaeth. Hindwiaeth sydd ffurf isel ar natur-addoliaeth; ac yn cael ei gwneyd i fyny bron yn gyfangwbl o'r chwedlonol. Ystyr yr enw Hindwiaeth, mae'n debyg, yw "ffordd y duwiau." Dysgir gan y grefydd yma y bodolai y bydysawd mewn ffurf arbennig yn flaenorol i'r duwiau. Poblogwyd y gwahanol fydoedd ar y cyntaf gan y duwiau, ac fel y gwelsom, dysgir mai disgynyddion rhai o'r duwiau hyn ydynt Ymerawdwr: Japan. Yr Ymerawdwr, ar y pryd, yw canolbwynt y grefydd yma, a chynrychiolydd y duwiau at y deiliaid. Fe â cyfran o'r arian a dderbynir gan yr Ymerawdwr yn flynyddol at gynhaliaeth y grefydd yma. Hanfod Hindwiaeth felly, yw parch hyd at addoliad o'r hynafiaid duwiedig hyn. Ffaith hynod ynglŷn â'r grefydd yma yw, fod ei themlau yn hollol syml a di-addurn, heb feddu ynddynt na delw na llun dim i'w addoli; dim arwydd-luniau o gwbl. Cyfrifir rhai creaduriaid yn gysegredig i'r duwiau. Ar derfyn 1891, yr oedd trwy y wlad, 193,153 o demlau; 14,700 o swyddogion; a 1386 o efrydwyr perthynol i'r grefydd hon. Ymranna Hindwiaeth i ddeg o wahanol sectau. Nid yw yr hen grefydd ar hyn o bryd yn emuill tir.

Yn y chweched ganrif, y dygwyd Bwdhiaeth gyntaf i Japan o Corea; felly y mae wedi cael 1200 o flynyddau i wreiddio yno; ac y mae wedi ymffyd yn dŷn yn y brodorion; yn wir, dyma grefydd y Japanëaid, ac nid Hindwiaeth yn gymaint. Yn wahanol i'r hen grefydd frodorol, perthyna i Bwdhiaeth rwyg a mawredd allanol anghyffredin. Brithir y wlad â'i themlau gorwych. Mewn llu o bethau ynglŷn â'i defodau a gwisgoedd yr offeiriad, &c., tebyga Bwdhiaeth yn fawr i Eglwys Groeg a'r Eglwys Babaidd. Flynyddau yn ol, dywedai offeiriad Pabaidd: "Lladratäodd y diafol rannau o'n crefydd ni, gan eu cyfnewid i fod yn Bwdhiaeth, fel na byddai i'r bobl hyn goffeidio Cristionogaeth." Yr oedd Japanëad dysgedig, wedi cofieidio Cristionogaeth, dro yn ol ar ymweliad â Llundain; yng nghwmni cyfaill aeth un bore Saboth i eglwys Babyddol yn y brif-ddinas, ac wrth adael y lle dywedai wrth ei gydymaith: "Ychydig iawn o wahaniaeth sydd rhwng y peth a welsom y bore yma â Bwdhiaeth; oni ddysga y Testament Newydd, mai Ysbryd yw Duw, a bod yn rhaid ei addoli mewn ysbryd a gwirionedd?"

Yn Japan ymranna y grefydd yma i ddeuddeg o wahanol sectau, gan ba rai y coleddir cynifer a deugain o wahanol gredöau. Un ddsoran a gynrychiolir ynglŷn â Bwdhiaeth, yr hyn yw Protestaniaeth mewn Cristionogaeth ym mherthynas i Babyddiaeth.

Trwy Japan ceir yn perthyn i Bwdhiaeth 71,857 o demlau, 52,511 o offeiriad, ynghyd a 10,382 o efrydwyr. Caniateir rhyddid crefyddol trwy yr oll o Ymerodraeth Japan.

CRISTIONOGAETH YN JAPAN.

Hyd y mae'n wybyddus, Francis Xavier oedd y cyntaf i fyned â Christionogaeth i'r wlad yma ; yr oedd hynny yn y flwyddyn 1549. Ni raid nodi mai Pabydd a Jesuit oedd y dyn hynod yma, a adwaenir hefyd wrth yr enw "Apostol India." Prin y teilynga y fath deitl, er ei fod yn ddyn gwir ymdrechgar, ac wedi bod yn offerynol i blannu Cristionogaeth mewn amrai o'r Gwledydd Dwyreiniol. Ni ddysgodd erioed i ddim effeithiolrwydd iaith yr un o'r gwledydd hynny, ond cyflawnai ei Genhadaeth trwy gyfieithydd, yr hyn oedd iddo o ddirfawr anfantais.

Yr hanes am y modd y tueddwyd Xavier i droi ei wyneb tua Japan, sydd dra dyddorol. Cyflawnodd Japanëad ieuanc ryw drosedd, ar hynny ffôld i un o'r mynachlogydd Bwdhaidd am noddod a thawelwch i'w gydwybod ; ond nis gallai fod yn esmwyth. Mynegodd ei ofid i nifer o forwyr o Portugal a ddigwyddent fod yn y wlad ar y pryd. Perswadiwyd ef ganddynt i fyned drosodd gyda hwy i India. "Y mae yno," meddent, "ddyn sanctaidd"—gan olygu Xavier—"fydd yn abl i'th cynorthwyo." Felly fu, troes y dyn ieuanc i fod yn Gristion, a thrwy y dyn hwnnw y tueddwyd y Cenhadon i dalu ymweliad â Japan.

Bu llwyddiant mawr ar lafur y Cenhadon Jesuitaidd anfonwyd yno o bryd i bryd, fel erbyn y flwyddyn 1614, yr oedd trwy Japan, meddir, gynifer a *miliun* o Gristionogion professedig. Ymhen amser aeth i'r wlad Offeiriad Pabaidd, gwahanol eu hysbryd i'r rhai cyntaf, yn cynrychioli gwahanol bleidiau yn yr Eglwys Babaidd ; aethant i ymrafaelio â'u gilydd, ac mewn canlyniad aethant yn ddirmygiedig yngolwg y Japanëaid. Heblaw hynny, fel y gwnaeth, ac y gwna y Jesuitaidd trwy holl gydol eu hanes, dechreuasant ymyrryd a therfysgu ynglyn â materion y llywodraeth. Dechreuwyd edrych arnynt gyda drwg-dybiaeth, ac yn wir nid heb achos y bu hyn, gan yr amherchid gan y Pabyddion hyn bob trefn a phob arferion a theimlad cenedlaethol o eiddo y Japanëaid. Yr Offeiriad Bwdhaidd hefyd, yn teimlo yn dra eiddig at y Cristionogion, a wnaent eu gwaethaf i ganlynwyr yr Iesu. O'r diwedd, cafwyd o hyd i bapurau oeddent yn eglur brofi cyd-fradwriaeth o eiddo y Jesuitaidd i ddadymchwel y Llywodraeth. Ar hyn, wele gyfnod o erledigaeth yn cychwyn ar y Cristionogion. Gorchmynwyd pob tramorwr i ymadael ar unwaith o'r wlad. Rhoddwyd amrai o'r Offeiriad Pabaidd i farwolaeth. Cychwynwyd yr erledigaeth yn y flwyddyn 1614, a pharhaodd dros gyfnod o ugain mlynedd. Ar ddiwedd yr ugeinfed flwyddyn, bu lladdfa fawr. Ym mâu Nagasaki y mae craig uchel, a adwaenir gan dramorwyr wrth yr enw Pappenberg ; ar uchaf y graig yma gosodwyd i fyny Groes ; yna cymerwyd y Cristionogion yno, ac un o ddau beth oedd ganddynt i'w ddewis, naill ai poeri at y groes, fel arwydd o'u dirmyg at Grist a'i ganlynwyr o hynny allan ; neu ynte gymeryd eu bwrw bendramwnwgl dros y graig serth a dauheddog i'r môr islaw. Yn hytrach na dirmygu Crist a

gwadu ei grefydd, cymerodd y Japanëaid Cristionogol hyn—yn wjr, gwragedd, a phlant, i'r nifer o 30,000,—eu bwrw felly droes y graig i'r gwaelodion. Arteithid llawer o honynt yn y modd mwyaf llymdod: hlogwyd llawer, a chroesoeliwyd ereill; felly nid yn amhrifodol y gelwir y fan yn "Golgotha y Merthyrion." Penod ardderchog yn haes "Merthyrion Iesu" yw hon. Bydded gwaed y dewrion hyn yn hedya Cristionogaeth burach yn nyfodol Japan!

Fel hyn gosododd yr awdurdodau yn y wlad dan sylw eu hwynebau yn bendant yn erbyn Cristionogaeth. Ar hyd a lled y wlad, gosodwyd i fyny rybudd, a ddarllenai yn debyg i hyn:—"Tra y parhao yr haul i gynhesu y ddasear, na fydded un Cristion yn ddigon haerllug i ddyfod i Japan; a gwybydded pawb, os dibrisia brenin Ysopaen ei hunan, neu Dduw y Cristionogion, neu Dduw mawr popeth,—os meiddia un o honynt ddiystyru neu amharchu y rhybudd hwn, y talant am hynny a'u pennau." Yr enw wrth ba un yr adwaenid Cristionogaeth yno ydoedd "Athrawiaeth ddiffaeth yr Iesu." Crybwyllid enw brenin Ysopaen yn y rhybudd am mai Ysopaen a Phortugaliaid, gan mwyaf oedd y cenhadon Cristionogol fuasant yno. Bu y rhybudd uchod i fyny yn Japan am yn agos i 250 o flynyddoedd.

Fel hyn yn raddol, ciliodd Cristionogaeth o Japan. Fel y cofir, bu erledigaeth enbyd ar Gristionogion cyntaf Madagascar; bu orfod i'r cenhadon cyntaf gilio o'r lle; merthyrwyd llu mawr o'r broderion; ond methwyd dadwreiddio Cristionogaeth oddiyno, fel y gwnaed yn Japan. Pa fodd y mae cyfrif am y gwahaniaeth? Fel yma: Ni roddai y Jesuitiaid Feiblaun yn nwyllaw y Japanëaid, tra y rhoddid Gair Duw i'r Malagasiaid yn eu hiaith; rhai copïau o ba un a gadwyd er gwaethaf yr erlidwyr, a phan, ymhen blynyddau, y dychwelodd y cenhadon i'r wlad, er syndod,—pe syndod hefyd,—cafwyd yno nifer mwy o Gristionogion nag oedd yno pan gyntaf y gadawyd y lle.

O'r adeg y cyfeiriwyd ati ymlaen, am gyfnod hir, yr oedd Japan yn ymarferol gauedig i dramorwyr. Yn wir, edrychid ar bawb estronol gyda'r drwgdybiaeth dyfnaf. Ar raddfa fechan iawn y cerrid ymlaen drafndiaeth a'r Chineaid; yr un modd hefyd, ond i raddau llai, a Holland. Yn rhyfedd, tra yr ymlidiwyd pob Ysopaen a Phortugaliaid o'r lle, caniatawyd i ychydig Ddutchmen aros yno. Cyfyngid y cyfryw i Ynys fechan o'r enw Destima, yr hon ni fesurai ond 200 llath o hyd wrth tuag 80 o led. Amgylchynid y lle gan wal uchel, gyda phigau heiyron llymion ar ei phen; nid oeddent amgen na charcharorion. Gwyliid hwy yn fanwl gan filwyr a cheidwaid, a gorfodid hwy i dalu i'r dynion hyn am eu gwylid. Unwaith neu ddwy yn y flwyddyn y caniateid iddynt adael y lle, ac ar yr adegau hynny gwyliid hwy yn fanwl, a rhaid oedd iddynt fod yn ol ar yr Ynys cyn nos. Yr oedd Llaw-weithfa ganddynt ar yr Ynys. Gofynnid i bob gweithiwr hysbysu ei hunan i swyddog penodol ar ddiwedd pob diwrnod. Unwaith yn y flwyddyn y caniateid iddynt dderbyn gair o Holland, pryd y caniateid i long o'u gwlad ddod yno. Gwneid hyn yn fwy er mwyn llwyth y llong nag o garedigrwydd at y Dutchmen. Gomeddid iddynt gario ymlaen addoliad Cristionogol ar eu hynys fechan. Cysylltid Destima a'r Ynys fwy, gyda phont, yn llawr pa un yr oedd croes haiarn wedi ei gosod, fel nad oedd modd i'r Dutchmen groesi y

bont, heb, ar yr un pryd, fathru y groes dan eu traed. Amcan hyn, wrth gwrs, oedd dirmygu Crist a'i Groes. Ar Ynys Destima, ceir yn awr Addoldy Cenhadol, perthynol, mi gredaf, i Eglwys Sefydledig Lloegr.

Parhaodd pethau yn y wedd yna yn Japan am tua 230 o flynyddau. Yn y flwyddyn 1853, wele fintai o ryfel-longau Unol Dalaethau America, dan lywyddiaeth Commodore Perry, yn hwylio tua Japan, gan weithio eu ffordd i ddyfroedd Yeddo Bay, a hawlio gweled un o brif swyddogion y wlad, i ba un y cyflwynwyd llythyr cyfeiriedig i'r Ymerawdwr oddiwrth Lywodraeth yr Unol Dalaethau; a hefyd gadawyd cenadwri, y gelwid am atebiad ymhen y flwyddyn. Yn y llythyr hwnnw gelwid sylw yr Ymerawdwr at y ffaith fod ei wlad ers amser maith yn gomedd trafndiaeth â gwledydd ereill oddigerth ychydig â China, a llai â Holland; ond gan fod cwrs y byd yn newid, mai manteisiol fuasai newid arferion a llunio cyfreithiau doeth i gyfateb i'r amserau. Ymhen y deuddeng mis, wele fintai o longau Americanaidd unwaith eto yn nofio dyfroedd Japan, gan hawlio atebiad i'r llythyr a adawsid felly. Yn y cyfamser buasai yno ymgynghori mawr parthed y mater; rhai dros, a llu mawr yn erbyn agor y wlad i dramorwyr; ond ni fynnai America ond un atebiad, sef fod Japan yn cael ei hagog i drafndiaeth i ac o America. Yn y man ymofynna Lloegr am yr un peth; erbyn hyn y mae nifer o'r porthladdoedd yn agored i longau tramor. Yn ymarferol ni ddaeth hyn i rym hyd 1859.

Yn fuan wedyn, dechreuodd Cenhadon Cristionogol wynebu tua Japan, —y Pabyddion oeddynt y rhai cyntaf i fyned yno; y maent hwy yno ers dros 80 mlynedd, tra mai tua 21 o flynyddoedd sydd er pan laniodd y Cenhadon Protestanaidd cyntaf yno. O'r America yr aeth y rhai olaf yno, a'r hanes ynglŷn â'u mynediad sydd dra dyddorol a tharawiadol. Cafodd Japanëad ieuanc o'r enw Nishima, o hyd i lyfr wedi ei ysgrifennu yn y Chinaëg, yn traethu ar Ddaearyddiaeth. Cenhadwr Americanaidd ydoedd awdwr y llyfryn hwnnw. Cychwynai y traethiad gyda'r Ymadroddion Beiblaidd, "Yn y dechreuad y crëodd Duw y nefoedd a'r ddaear." Tarawyd y gŵr ieuanc â syndod; dechreuaf ofyn iddo ei hun, Pwy, ac ymha le yr oedd y Duw yma yn trigo? Nid yw yn Japan; dichon mai yn America y preswylia. Penderfynodd yr âi i America, i'r wlad o'r hon y daethai y dyn a ysgrifennai am y Duw a wnaeth nefoedd a daear. Y gosb y pryd hynny ar Japanëad a adawai ei wlad heb ganiatâd yr Awdurdodau, ydoedd marwolaeth. Nis gallai y gŵr ieuanc fynegi i'r swyddogion am ei neges yn myned i America, oblegid nid oedd eu dygasedd at Gristionogaeth eto wedi ei gweithio allan. Pa beth a wna Nishima? Yn ffodus tarawodd ar long yn hwylio am China; ymunodd â hi, gan benderfynu, unwaith y cyrhaeddai yno, weithio ei ffordd ymlaen i America. Yn hyn fe lwyddodd, a cheir ef wedi cyrraedd Boston. Yno dechreuaf deimlo ei fod yn unig a cholledig mewn gwlad ddiethr, ac meddai un diwrnod wrth gaptan y llong yr hwyliasai drosodd ynddi: "Daethum yr holl ffordd i Boston i chwilio am y Duw a wnaeth y nefoedd a'r ddaear; ac nid oes yma neb i ddweyd am dano." Yr oedd perchennog y llong yn ŵr crefyddol iawn; mynegodd y llywydd wrtho am y bachgen Japanëaidd; yntau yn garedig a'i hymgeleddodd, gan ei

anfon i'r ysgol, lle y gallai ddysgu am Dduw, Crist, ac Iachawdriacth. Wedi deng mlynedd o addysg a theithio yn America ac Ewrop y mae Nishima yn cyrraedd yn ol i Japan, i fynegi i'w gydgymodi am y pethau mawrion deimlasai ac a welsai.

Caulyniad hyn fu i'r Americanaid anfon Cenhaden i'r wlad. Yn 1858 yr aeth y Cenhadwr cyntaf o Brydain i Japan.

Yn ol y cyfrifiad diweddfaf i law yn y wlad hon a'r America (Midi, 1864), safai yr ystadegaeth ynglŷn â Cristionogion Japan fel y cael: Pabyddlon, 46,000; Eglwys Groeg, 21,000; Protestaniaid, 37,398. Cynrychiolir yno tua deg ar hugain o Gymdeithasau Cenhadol, y mwyaftrif o'r cyfryw yn perthyn i America. O'r wlad hon anfonir allan yno Cenhadon gan Gymdeithas Cenhadol yr Eglwys Sefydledig, a chas Hreahyteriald Ysgotland. Cyfrifir fod yn America, ar hyd glannau y Môr Tawellog yn bennaf, tua 5000 o Japanëaid. Gofelir am daunynt gan bobl dda y wlad honno. Yn Ynysoedd Hawcia, ceir tua 25,000 o frudolion Japan. Telir sylw manwl yno i'w haddysg yng nghrefydd Crist.

Ynglŷn â Chrïstionogaeth, fel mewn cyfeiriadau ereill, danghosir gan y Japanëaid ysbryd annibynnol ryfeddol. Daw yr elfen yma yn eu cymeriad i'r golwg ymhob cylch; ynglŷn â symudiadau cymdeithaol canfyddir hyn; felly hefyd ynglŷn â'u hyfforddiant mewn gwahanol alweilogaethau. Teimlant yn ddiolchgar iawn am gyfarwyddyd y tramorwr yn y grefft yma a'r alwedigaeth arall; ond mor fuan ag y meistrrolant y cyfryw, nid hir y byddant heb roddi ar ddeall i'r addysgydd y gallant bellach wneyd yn burion heb ei wasanaeth. Arwyddair mawr y genedl hon ydyw, "Japan i'r Japanëaid." Yr un modd yn grefyddol; teimlant yn dra diolchgar am gymorth y cenhadwr, ond yn unfon y deallant ychydig ar y Grefydd Newydd, y maent yn awyddus yn y fan i ddangos iddo y gallant yn hawdd bellach ei hepgor. Ysgrifennai cenhadwr yn ddiweddar am hyn, a dywedai am eu cynulliadau cyhoeddus poblogaidd, na ofynnir i'r cenhadwr, er ei fod yn feistr bron perffaith ar yr iaith, i gymeryd un ran yn y gweithrediadau; feallai y golwir arno ar y terfyn i gyhoeddi y fendith ymadawol. Teimlir ganddynt wrthwynebrwydd pendant i dderbyn cynhorthwy ariannol oddiwrth Gymdeithasau Cenhadol yn y wlad hon a'r America; ac y mae y syniad o gael eu llywodraethu gan Fwrdd Cenhadol estronol, yn gas-beth yn eu golwg.

Ni dderbyniant Greddo'r Apostolion yn ei grynswth. Yn adroddiad Cymdeithas Cenhadol Eglwys Loegr am 1893—4, cyfeirir i'w nag unwaith at yr ymgais sydd ymhlith eu haelodau hwy yno i ddiwygio y "Llyfr Gweddî Cyffredin." Nid ymysg yr Eglwysi Protestanaidd yn unig y ceir yr ysbryd yna yn gweithio yno, ond yn gystal yn yr Eglwysi Pabyddol a Groegaidd. Yn fynych bydd hyn yma yn cael ei drafod mewn modd meistrrolgar, fe ddywedir, ym mhreif erthyglau cylchgronau a newyddiaduron Japan.

Ysgrifenna Cenhadwr oddiyno yn mynegi am eu hymddygiad gweddus yn y gwasanaeth crefyddol. Nid oes drwst na chyffro i'w glywed na'i weled yn un rhan o'r addoldy. Pan gyfyd y pregethwr ar ei draed i'w cyfarch, gostyngir ychydig ar y pen mewn dull moesgar, a'r un modd pan ddibenna ei anerchiad, yr hyn a olyga, Diolch i chwi. Pan fydd y

gwasanaeth ar ben, nid oes neb yn rhuthro allan ar fawr frys, ond pawb yn eistedd yn dawel am ychydig eiliadau, gan ostwng y pen, a gorchuddio y llygaid â'r llaw. Mor weddus, onidê?

Y prif rwystrau ar ffordd llwyddiant Cristionogaeth yn Japan ydyw bywyd amhûr llawer o'r tramoriaid a ymsefydlant yno, a'r llyfrau cyfieithiedig o'r Saesneg a'r Germanaeg, yma rai y datgenir syniadau anffyddol ac amheus ynghylch y Beibl a Christionogaeth. Llyfrau a achosant niwed mawr yno, fe ddywedir, ydynt weithiau Mill, Herbert Spencer, a Huxley. Rhai o'r athrawon yn y Colegau—dynion o Loegr, Ysgotland, America, a Germani—a ymosodant mewn modd cyhoeddus ar Gristionogaeth o flaen yr efydwyr. Peth arall, y mae Bwdhiaeth yno yn amcanu at efelychu Cristionogaeth yn ei holl sefydliadau. Er engraifft, yn ddiweddar y maent wedi cychwyn yno Gyng-rair Dirwestol, a dywedir fod yr aelodau yn barod yn rhifo 16,000. Y mae ganddynt hefyd "Gymdeithas Bwdhaidd y Dynion Ieuainc," yn gweithio ar yr un cynllun a'r "Y. M. C. Association." Dechreuir ganddynt hefyd anfon offeiriaid allan fel cenhadon i ofalu am y Japanëaid ydynt wedi gadael eu gwlad ac ymfydlu mewn lleoedd estronol.

Er hynny, cydnabyddir gwerth Cristionogaeth gan lawer o Japanëaid meddylgar a dysgedig, nad ydynt o gwbl yn profesu bod wedi ei chofleidio. Ynglŷn âg ymadawiad dau Genhadwr Americanaidd yn ddiweddar, fel y canlyn y traethai Golygydd un o'r newyddiaduron dyddiol pwysicaf yn y wlad: "Dyma y genadwri sydd gennym i'w chyflwyno i bobl America. Bellach y mae Cenhadon Cristionogol wedi gweithio yma am yn agos i genhedlaeth. Ceir yma gannoedd o ddynion a merched, ydynt wedi dwyn gyda hwy yn flynyddol, tua hanner miliwn o ddoleri, i'r amcan o sefydlu yma ysgolion ac eglwysi Cristionogol. Beth y maent wedi allu gyflawni? Yn wir, pan ystyriwn nad ydynt ond wedi llwyddo i ennill ond ychydig ddegau o filoedd o ganlynwyr, nis gallwn llai na theimlo yn ofidus drostynt, a dweyd mai ofer fu eu gwaith. Eto, edrycher dros Japan,—y mae ein 40,000,000 o drigolion heddyw yn meddu safon moesol uwch nag a fuasai yma erioed o'r blaen; ein syniadau am deyrngarwch ac ufudd-dod ydynt yn uwch nag erioed. Pan ymofynnwn am yr achos o hyn—y cynnydd moesol rhyfedd yma, nis gallwn ei gael mewn dim, ond yng nghrefydd yr Iesu; hon sydd yn cyfrif am y cyfan." Gwarogaeth uchel i Gristionogaeth!

Ofna llawer mai cymeryd gafael yng ngwareiddiad a rhinweddau allanol crefydd Crist wna Japan, a dim ond hynny; perchenogi blodeu y pren, gan wrthod ei fywyd. Hyderwn yn wir, nad felly y bydd. Buan y delo y dydd pan y byddo Japan, a phob gwlad arall dan y nef, YN REDDO I'N HARGLWYDD NI A'I GRIST EF.

Porthmadog.

H. IVOR JONES.

Y SYCHED AM DDUW.

Y Syched am Dduw. Darlith Davies (The Davies Lecture) yr hon a draddiodd yn Nghymmanfa Gyffredinol y Methodistiaid Calfnaidd yn Mhonnygraidd, Mehefin 12fed, 1894. Gan y Parch. GRIFFITH ELLIS, M.A., Bootle. Caernarfon: cyhoeddwyd yn Llyfrfa y Cyfundeb. 3s. 6c

Gyda bodddhad diffuant yr ydym yn galw sylw darllenwyr y TRAEHTONydd at ymddangosiad y gyfrol gyntaf o "Ddarlithiau Davies." Ar wahân i deilyngdod y gyfrol ei hunan, y mae achlysur ei hysgrifenedd yn werth gwneyd sylw o honno. Yng Nghymmanfa Gyffredinol y Methodistiaid Calfnaidd, yr hon a gynhaliwyd yn Bootle, Mehefin, 1893, gwnaed yn hysbys fod bonheddwr o'r lle hwnnw, sef Mr. Thomas Davies, wedi penderfynu trosglwyddo i ddwyllaw ymddiriedolwyr a benodid gan y Gymanfa y swm tywysogaidd o £2000, i'r pwrpas o sefydlu a gwaddoli Darlith Flynnyddol ynglŷn â'r Cyfundeb. Yn ol y Trust *Deus* rhaid i'r Darlithydd bob amser fod yn weinidog ordeiniedig gŵlar Methodistiaid Calfnaidd, a rhaid i'r Ddarlith gael ei thraddodi bob blwyddyn yn y lle, ac yn ystod y dyddiau, y cynhelir eisteddiadan y Gymanfa Gyffredinol. Yn ffordus hefyd, gwneir yn ofynol gan delerau y gwaddoliad, i gyhoeddi pob un o'r darlithiau mewn cyfrol bylaw, o fewn y deuddeg mis cyntaf ar ol ei thraddodi. Sicheir trwy y ddarpariaeth hon berffeithiach darlithiau, ac hefyd ehangach gwrandawriad. Penderfynir ymbellach, gan weithred yr ymddiriedaeth, mai Crefydd yn un o'i hagweddau, neu ynte rhyw bwnc yn dwy perthynas uniogyrchol & Chrefydd, sydd bob amser i fod yn destan yr ymdeiniaeth. Gwelir oddiwrth y sylwadau uchod fod y Gwaddolwr wedi gwneyd ei ran yn arderchog. Wrth gyflwyno ei rodd, cafodd haelfrydedd ei galon arweiniad diogel gan ysbryd barn a doethineb. Y mae wedi llwyddo i gyrraedd ei ddymuniad, sef sicrhau coffadwr-iaeth deilwng i'w ddiweddar Dad, ac wedi gwneyd hynny mewn modd fydd byth yn fanteisiol i fuddianau uchaf ei genedl.

Erbyn hyn y mae dwy o'r darlithiau wedi eu traddodi; a dian fod y Parchedig Dr. Cynddylan Jones bellach yn dechreu darparu ar gyfer y drydedd. I ran y Parchedig Griffith Ellis, M.A., y syrthiodd yr anrhydedd o draddodi y gyntaf o honnynt, ac y mae honno weithian wedi ei chyhoeddi, gydag ychwanegiadau pwysig, yn y gyfrol ddeustlus sydd a'i henw uwch ben yr ysgrif hon. Y darlithydd nesaf ydoedd y Prifathraw T. Charles Edwards, D.D., ac y mae ei ddarlith yntan wedi dechreu ymddangos yn rhannau yn yr *Expositor*. Daw allan yn gyfrol rhywbryd cyn diwedd y flwyddyn, ac ni a obeithiwn y gwelir yn fuan argraffiad o honi yn y Gyfraeg. Yr ydym yn crybwyll y ddwy ddarlith uchod yn y fan hon am eu bod yn ysgubau blaenffwrth o'r cynhanaf y disgwyliwn gymaint oddiwrtho. Mor arderchog ydyw gallu cyfoeth ond ei iawn ddefnyddio! Pwy a ddichon ddirnad bech fydd dylanwad "Darlith Davies" ar lenyddiaeth ac ar grefydd Cymru Fydd? Dychmygwn weled rhestr hirfaith o ddarlithwyr yn codi ar eu traed—rhestr yn ymestyn dros ugeiniau a thros gannoedd o fly-

yddoedd—rhestr o wŷr nerthol mewn profiad a dysg, a'r rhai hynny oll ar eu llawn egni yn egluro ac yn amddiffyn gwirioneddau y Ffydd. Bydd y sefydliad bellach yn amddiffynfa gadarn i oreu ein cenedl; bydd ein meddylwyr mwyaf effro yn wylwyr ar y tŵr, a naturiol ydyw disgwyl y derbyniwn oddiwrthynt arweiniad medrus a diogel.

Ac ni bu erioed fwy o angen arweiniad nag yn awr. Yr ydym a'n gwynebaw ar gyfnod, fel y dywed Mr. Ellis, pryd y gelwir arnom i dalu sylw i'r sylfeini ar ba rai "y gorphwys ein holl gredöau; ar ba rai yn wir y gorphwys holl adeiladaeth grefyddol Cymru." Ni foddlonir mwyach ar ddysgeidiaeth y tadau, nac yn wir ar awdurdod y Beibl; myn ysbrydiaeth yr oes daflu y cyfan i'r ffwrnes, i'w toddi o newydd gan feirniadaeth a gwyddor. Amser ydyw o ddwfn anesmwythder ac o anghrediniaeth meddwl; amser o ysgwyd ac o brofi y daliadau mwyaf cysegredig. Yn Lloegr, ac mewn ereill o wledydd Ewrop, y mae y llifeiriant hwn o dueddiadau amheul yn chwyydo yn gyflym, os nad yn wir ar ei lawn rwysg, ers blynyddoedd lawer. Fel diluw anwrthwynebol, y mae yn goresgyn y llwyfan a'r wasg, yr athrofeydd a'r pulpudau. Ac nid hir y dihangfa Cymru rhagddo. Trwy ledaeniad addysg, tefir ein drysau yn agored o led y pen i ddysgeidiaeth cenhedloedd ereill. O hyn ymlaen, byddwn mewn cydymdeimlad agosach â'r byd o'r tu allan; a theimlwn yn gynt ac yn ddyfnach oddiwrth ei gynhyrifiadau. Ac nid achos i ofidio yn unig o'i herwydd ydyw hynny. Yn y gwrthwyneb, disgwylwn lawer o fanteision oddiwrtho. Ond hyn a ddywedwn, yn yr ysgytiad sydd o'n blaen, bydd mwy o angen nag erioed am arweinwyr yn ddynion o allu doethineb. Os ydyw ein gwlad "eto unwaith" i gael ei chynhyrfu fel ag i "symud ymaith y pethau a ysgydwir megis pethau wedi eu gwneuthur," gobeithiwn hefyd y tywysir ni trwy y cyfan i adnabod yn gliriach ac i lynu yn ffyddlonach wrth "y pethau nid ysgydwir."

Ystyriaethau o'r natur uchod sydd yn ein cymell i eidduno cymaint oddiwrth sefydliad y Ddarlith hon. Y mae yn ddarpariaeth o'r iawn ryw tuag at ddwyn y meddylwyr addfetaf i draethu eu llên ar gwestynau pwysicaf y dydd. Llawnhawn hefyd wrth weled y gyfres wedi ei chychwyn ar linellau mor ragorol yn y "Syched am Dduw." Cawn yn gymwys yr hyn oedd eisiau yn y gyntaf o'r darlithiau, sef math o ragarweiniad, yn bwrw golwg dros gyrrau y wlad sydd i'w rhannu ac i'w cherdded yn fanylach gan y darlithwyr i ddyfod. Ar ol meistrolï y gyfrol hon, bydd y darlennydd Cymreig ar well tir i gymeryd i fyny gwestynau mwy penodol, ac i'w dilyn i fwy o fanylder. Nid ydym yn sicr na theimlir fod teitl y llyfr ychydig yn gamarweiniol. Y mae yr ymadrodd "Syched am Dduw," ar unwaith yn awgrymu geiriau y Salmydd, "Sychedig yw fy enaid am Dduw, am y Duw byw." Ac i bob Cymro, y mae y frawddeg yn drwythedig gan ddwys deimladau o addoliad a defosiwn. Nid ydym yn meddwl dweyd fod y gyfrol hon yn amddifad o'r cyfryw deimladau. Pell oddiwrth hynny. Ond yn sicr nid dyna yw ei nodwedd amlycaf. Ei hamcan yn hytrach ydyw gwneud ymchwiliad pwyllog ac athronyddol i werth deallol yr argyhoeddiadau sylfaenol mewn crefydd. Apelia yn fwy at y deall nag at y galon; amcana at gyfiawnhau crediniaeth yn Nuw ar dir rheswm, ac yn annibynnol ar deimladau a dymuniadau yr enaid. Yr enw a roddid

yn yr iaith Saesneg ar faes yr ymdriniaeth fyddai *Theism*. Nid oes eisieu dweyd nad yw yr awdwr yn ceisio gosod i fyny "fath o grefydd natur yn lle crefydd datguddiad;" ond y gorchwyl yr ymgymherodd a'i gyflawni, fel y dywed ar ddiwedd y ddarlith, ydoedd "casglu fod fydd yn Nuw yn gwbl resymol ar sail y dystiolaeth oddiwrth natur a rhagluniaeth, ac oddiwrth y dystiolaeth yn ein natur ein hunain." Cyn myned ymhellach, ceisiwn roddi i'r darlennydd amlinelliad o gwrs yr ymresymiad.

Ar drothwy y drafodaeth cawn yr ymofyniad, Pa beth yw crefydd i Ac nid gwaith hawdd ydyw rhoddi darnodiad boddhaol o'r peth hwnnw y cytunir yn gyffredin i'w alw wrth yr enw hwn. Pan y cofiwa llosoced ydyw crefyddau y byd, ac mor gymysglyd ac amrywiol ydyw eu nodweddion, nis gallwn lai na chydnabod mai gorchwyl dyrs ydyw eu cydgasglu o dan un deffiniad. Yn wir dadleua rhai meddylwyr galluog fod y gwaith yn amhosibl. Dywedant fod yr amrywiaeth yn gyfryw fel mai ofer yw pob ymchwil am unoliaeth. Ond nid dyna y golygiad a gymeradwyir gan ein hawdwr. Barna ef fod yn perthyn i bob crefydd, os yn werth yr enw, ryw un hanfod; fod rhyw elfen neu egwyddor o unrhywiaeth yn rhedeg trwy yr oll. I ddechreu, y mae pob crefydd, debygid, yn cynnwys crediniaeth ym modolaeth Duw. Gellid tybied fod y gosodiad hwn, beth bynnag, yn berffaith ddiogel; ac eto wrth fwrw golwg dros yr amrywiol grefyddau, cyfarfyddir â rhai anhawsterau. Ar un llaw, rhaid gochel y syniad fod crefydd ya tybied crediniaeth ym modolaeth un Duw, oblegid y mae nifer mawr o honynt yn seiliedig ar aml-dduwiaeth. Ar y llaw arall, dadleuir fod rhai crefyddau yn cau allan bob syniad am Dduw. Gelwir Bwdhiaeth, er engraffit, yn grefydd atheistaidd; a chynhygiwyd rhywbeth ar lun crefydd, er yn amddifad o Fôd Dwyfol, gan ysgrifenywyr o fath Comte, Strauss, ac awdwr *Ecce Homo*. Diameu gennym y bydd y darlennydd yn barod iawn i gyuno â Mr. Ellis yn ei sylwadau ar y rhai hyn. Ei ddyfarniad ef ydyw,—Heb Dduw, heb grefydd. Gan nad beth a broffesir, trais ar ystyr geiriau ydyw rhoddi yr enw hwn ar gyfundrefnau di-dduw. Drachefn, elfen arall a gydnabyddir, fel rheol, yn hanfodol i grefydd, ydyw rhyw gymaint o ddylanwad, deilliedig o'r grediniaeth yn Nuw, ar fywyd moesol y credadyn. Gwir fod y dylanwad yn arwynebol ac eiddil yn fynych, ond i raddau mwy neu lai gwelir delw y grefydd ar yr ymarweddiad. Yng ngoleuni yr ystyriaethau uchod, y mae Mr. Ellis yn ffurfio ei ddarnodiad o grefydd, ac yn ei eirio yn y frawddeg a ganlyn: "Ymwybyddiaeth yn ysbryd dyn o berthynas rhyngddo a Duw, yn dylanwadu ar ei oll fywyd."

Bellach y mae yr awdwr yn symud rhagddo i gymeryd i ystyriaeth yr amrywiol olygiadau o berthynas i darddiad a chynnydd crefydd. O barth i'w tharddiad, y mae yr ymchwiliad yn ymrannu o dan ddau gwestiwn. Yn gyntaf, "A oes rhyw ffurf gyntefig ar grefydd y gellir olrhain iddi ei holl ffurfiau diweddarach?" Yn ail, "Ymha le yn natur dyn y mae ei heisteddle—ai yn y deall, neu yn y teimlad, neu ynte yn yr ewyllys?" Gan ein bod yn bwriadu dychwelyd at yr atebiad i'r cwestiwn cyntaf mewn rhannau diweddarach, awn heibio iddo yma gyda dweyd fod Mr. Ellis, ar ol beirniadu yn drwm amcan-dybiau

rhai o'r ymddadblygwyr, yn dyfod i'r casgliad mai llygriadau o ryw-beth gwell ydyw yr oll o'r ffurfiau iselaf ar grefydd. "Ar y cyfan," meddai, "cyfeiria y ffeithiau at fodolaeth crefydd gyntefig, yn cynnwys y gred mewn un Duw, ac aberth; ond ymhob man heblaw yn mysg yr Hebraeid, collwyd yn raddol y grefydd gyntefig a'r datguddiad cyntefig" (tud. 32). Gyda golwg ar yr ail gwestiwn, drachefn, nid oes brinder damcaniadau. Dysgai Schleiermacher fod nôd angen crefydd yn hanfodi mewn teimlad, nid mewn gwybodaeth ac nid mewn ymddygiad. Enaid crefyddolder iddo ef ydoedd yr ymdeimlad o ddibyniad. Yn y deall, yn ol ereill, megis Hegel a Fichte, yr ydym i chwilio am ei tharddle; tra y dadleuai Kant mai yn yr ewyllys y mae i'w ganfod. Yr ydym yn cydweled yn hollol â Mr. Ellis pan yn dweyd fod syniadau o'r natur uchod yn codi o Eneideg neu *Psychology* gamarweiniol. Tybiant fod yr enaid yn barthadwy ac yn wahanadwy i dair rhan—deall, teimlad, ac ewyllys. Ond un ydyw ysbryd, beth bynnag ydyw ei ddulliau o weithredu neu ddioddef, ac y mae a fynno crefydd â'r oll o honno yn ddiwahaniaeth. Daw yr adran ar gynydd neu ddadblygiad crefydd o dan ein sylw eto, pan yn dychwelyd at y cwestiwn a ohiriwyd gennym yn barod.

Yn y deffiniad a roddwyd o grefydd, cymerwyd yn ganiatâol ddau wirionedd, sef bodolaeth Duw a bodolaeth ysbryd mewn dyn. Profi gwirionedd y gosodiad cyntaf o'r ddau, ydyw amcan pennaf y gyfrol hon. Ond cyn ymgymeryd â'r gorchwyl hwnnw, rhoddir braslinelliad amherffaith o'r prif ddadleuon dros yr olaf. Gwedir y ddau, fel eu gilydd, gan Faterolwyr; myntumiant hwy fod mater yn ddigonol i gyfrif am y ffeithiau a briodolir gan ereill i fyd y meddwl a'r ysbryd. Oydabyddir yn wir gan athrawon mwyaf cyfrifol Materolaeth mai gwaith amhosibl ydyw esbonio pa fodd y cynhyrchir meddyliau a theimladau allan o gryniadau gronynnau o fater. Hon ydyw un ddadl o blaid bodolaeth ysbryd. Annichonadwy ydyw i neb ddyfalu pa fodd y gall mater droi yn feddyliau; llawer iawn mwy rhesymol ydyw credu eu bod yn tarddu o ryw ffynhonnell arall. Ymddengys hyn yn sicrach fyth pan feddyliwn mor wahanol ydyw nodweddion mater a meddwl. Perthynant i ddau fyd gwahanol, a llywodraethir hwynt gan ddeddfau gwahanol. Y mae i bob gronyn o fater ei hyd a'i led, ei fesur a'i bwysau; ond pwy all lathennu meddwl neu gloriannu teimlad? Gwirionedd arall llawn o arwyddocâd ydyw ymwybyddiaeth y meddwl o hono ei hunan fel gweithredydd, ac fel bôd personol a pharhaol. Nid meddyliau a theimladau ydyw y cyfan; yr ydym hefyd yn ymwybodol o ryw hunaniaeth odditanynt, yn achos o honynt, ac yn eu cyfuno mewn un profiadaeth. Gofynnai gyfrol, lawer meithach na'r hon sydd o'n blaen, i wneyd dim tebyg i gyfiawnder â'r profion y gellid eu gwasgu dros fodolaeth enaid; ac nis gallasai Mr. Ellis ar y goreu ond prin gyffwrdd âg ymylon y cwestiwn.

Ond heb ymdroi ychwaneg, deawn yn awr at galon y ddarlith, sef y prawf o'r posibilrwydd i ddyn "gyrhaedd sicrwydd am fodolaeth a phriodolaethau Duw." Wrth brawf yma golygir boddlonrwydd i reswm, yn annibynnol ar deimladau neu ddyheadau yr enaid. Doeth gan hynny yr ymataliodd yr awdwr rhag adeiladu yn ormodol ar y syched am Dduw, neu ar ddymunoldeb y grediuniaeth yn ei fodolaeth, pa mor

ddwfn ac eang bynnag yw yr ymdeimlad o honynt. I'r mwyafrif o ddyinion, digon tebyg nad oes dim yn cario mwy o allu ar gyhoedliadol na thystiolaeth debyg i'r hon a ddyfynnir o eiddo y Proff. Romanes. Teimlai y gŵr cywir a galluog hwnnw, wrth gefnu ar ei hen greddo, fod haul ei fywyd megis yn machludo, ac nad oedd dim i'w ddisgwyl mwyach ond magddu o dywyllwch. Ond er teimlo felly, gwrthodai ef, neu yn hytrach, methai ddal ei afael yn ei grefydd. Rhaid oedd iddo wrando ar ei reswm, gan nad faint y siomedigaeth i'w deimladau. Ac nid y credo mwyaf dymunol, bob amsar, yw y mwyaf rhesymol; yn y gwrthwyneb, nid anfynych y gelwir ar y meddyliwr gonest i dderbyn gwirionedd ar draul aberthu ei hoff ddymuniaidau. A chan mai dangos rhesymoldeb crefydd ydyw amcan y ddarlith, nid priodol fuasai sylfaenu llawer ar ddyheadau yr enaid.

Ond a ydyw gwybodaeth am Dduw yn bosibl? Os rhaid ateb y cwestiwn hwn yn nacïol, fel y gwneir gan ddosbarth lliosog o athronwyr, oferredd ydyw son am sicrwydd neu am brofion o fodolaeth Duw. Y mae ein llwybr yn gauedig o ddechreu y daith. Anghenraid gan hynny, ydoedd gwynebu yr haeriadau a wneir gan y *Positivists* a'r *Agnostics*. Ac i'r perwyl hwn, cymerir cipdrem gan Mr. Ellis ar ddaliadau nifer o'r arweinwyr yn y ddwy ysgol. Gwneir hynny yn wir yn helaethach nag y gallesid disgwyl, ac ystyried gyfynged ei dderfynau. Braidd na farnem, a choffio dibenion y ddarlith, fod ar y mwyaf o ofod wedi ei roddi i rai o honynt, yn enwedig i hanes bywyd Comte ac i'w gynlluniau gwylltton o adeni cymdeithas. Dichon y bydd yr hysbysrwydd a roddir, er hynny, o lawr dyddordeb i'r darlennydd, ond y mae yn ymadawiad i fesur oddiwrth linellau yr ymresymiad. Haeddai Comte sylw arbennig, oblegid efe ydyw y gŵr a adwaenir fel tad Cadarnhŷolaeth (a defnyddio gair Mr. Ellis am *Positivism*); cyfundrefn sydd yn llawn o swyn i ddosbarth o feddylwyr. Yr egwyddor sylfaenol ynddi ydyw y golygiad mai y gwyddorau ydynt yr unig efrydiau sydd yn werth eu dilyn. Di-orseddur Uchanianaeth a Duwinyddiaeth, ac alltudir hwynt i fysg dychmygion ac ofergoelion. O fewn cylch ymddangosiadau anianyddol, meddir, y mae gwybodaeth yn unig yn gyraeddadwy. Nid oes dim yn ddirnadwy, na dim yn wirionedd i ddyu, ond yr hyn y gellir ei brofi trwy sylwadaeth y synhwyr. Y mae perthynas agos rhwng y *positivist* a'r *agnostic*; ond y mae yr olaf yn boddloni ar ddatgan ei anallu i wybod, tra mae y cyntaf yn gwadu bodolaeth y cyfan a ystyrir yn ysbrydol neu yn oruwchnaturiol. Cytuna y ddau i reoli y cwestiynau a berthynant i grefydd, ac i athroniaeth yn ei hystyr uchaf, fel pethau hollol anffuddiol i ymboeni yn eu cylch. Cŷ y darlennydd Cymreig, wrth ddilyn camrau ein hawdwr, gipolwg frysiog ar yr anialwch o anghysonderau ac o wrthddywediadau sydd yn nodweddu eu dysgeidiaeth. Daw o dan ei sylw yn olynol syniadau Comte, George Henry Lewis, a John Stuart Mill, a thrachefn eiddo Kant a Hume, Hamilton a Mansel, Spencer a Huxley. Ond pen ar yr holl ymchwiliad ydyw, fod meddwl dyn, o fewn terfynau neillduol, gan nad beth a ddywedir i'r gwrthwyneb, yn alluog, ac o dan angenrheidrwydd i ymestyn am wybodaeth o berthynas i fodolaeth a chymeriad yr Hwn a'i gwnaeth. Yr ydym bellach gan hynny ar dir i gymeryd i fyny y Prawfion o fodolaeth Duw.

Rhoddir llai o bwys ar "y Prawfion" yn y dyddiau hyn nag a arferid wneyd oesau yn ol. Cydnabyddir, erbyn hyn, yn weddol gyffredinol, hyd yn oed gan amddiffynwyr crefydd, mai bychan mewn cymhariaeth ydyw y dylanwad sydd ganddynt er argyhoeddi yr anghredadyn. Y mae ein ffydd yn Nuw yn gynnrych rhywbeth tra gwahanol i gasgliadau rheswm,—rhywbeth nas gellir ei drefnu na'i ddweyd o dan reolau rhesymeg. Nid llawer o'r duwinyddion mwyaf uniongred fuasai yn barod i gydsynio â geiriau Ulrici, nac yn wir â geiriau Dr. Flint (gwel Nodiad 37, tud. 267), pan yn dadleu fod y grediniaeth yn Nuw yn rhwym o orffwys ar y prawfion hyn. Y mae Mr. Ellis yn fwy gochelgar yn ei ymadroddion; ond nis gallwn lai na theimlo fod amryw o'i sylwadau yntau yn tueddu at orbrisio eu gwerth. Teimlwn hynny, nid yn gymaint oddiwrth unrhyw frawddeg neu baragraff arbennig, ond oddiwrth holl rediad yr ymresymiad. Addefa ei hunan ei fod yn "ceisio nofio yn erbyn y llif" (tud. 89). Rhaid i ni addef ein bod yn hyn, o leiaf, mewn mwy o gydymdeimlad â gogwydd yr oes. Yr ydym yn ddigon parod i ymwrthod â rhai o'r prawfion fel yn hollol ddiwerth, oddieithr yn unig mewn ystyr hanesyddol, ac yn wir fel twyll-resymegau. Ac yr ydym o'r farn y gellir yn hawdd wneyd mwy o niwed i grefydd nag o les wrth eu hargymell fel seiliau digonol crediniaeth yn Nuw. Gwell fuasai gennym weled Mr. Ellis yn rhoddi mwy o bwyslais ar yr hyn a ddywedir ganddo mewn brawddeg ar ddiwedd ei ddarlith: "Wedi'r cwbl, nid y gorchwyl o brofi cywirdeb rhesymegol nifer o osodiadau a chyfresymidiadau yn unig ydyw yr ymdrech i ymddyrchafu at y sicrwydd am fodolaeth Duw, a'r wybodaeth am ei briodoliaethau" (tud. 180). Nid yw yr awdwr yn barod i ollwng ei afael hyd yn ced o'r prawf, fel y'i gelwir, oddiwrth gydsyniad cyffredinol y ddynoliaeth, heb ddweyd gair o amddiffyniad iddo. Ond ai nid y ffaith ydyw, fel y dywed Dr. Davidson, fod y gwirionedd fel rheol yn dechreu yn y lleiafrif o un, ac mai sefyllfa nid anfynych ydyw *Athanasius contra mundum*, Athanasius yn erbyn y byd. Gallsed defnyddio y ddadl hon gyda llawn cymaint o rym, ychydig oesau yn ol, o blaid y grediniaeth mai yr haul oedd yn troi o amgylch y ddaear, ac nid y ddaear o amgylch yr haul. Ond i wneyd tegwch â'r awdwr, nid yw yntau "yn ystyried fod cydsyniad y ddynoliaeth mewn un modd *ynddo ei hun* yn brawf o fodolaeth Duw" (tud. 91).

Dilynir yr arferiad gyffredin o rannu y prawfion yn dri dosbarth. Yn gyntaf, y prawf oddiwrth y syniad am Dduw. Cnewyllyn hwn ydyw fod y syniad am Fod Dwyfol yn y meddwl yn cynnwys, ynddo ei hunan, sicrwydd o fodolaeth y Bod hwnnw. Dygir ef ymlaen mewn gwahanol ffurfiau, neu, yn fwy cywir, ceir nifer o brawfion hollol wahanol wedi eu crynhoi o dan yr un penawd. Fel y dywed yr awdwr, "Gelwir hwy weithiau yn ymresymidiadau *a priori*," ond mwy priodol fyddai ystyried rhai o honynt yn *a posteriori*. Er engrafft, ymresymiad oddiwrth effaith at achos ydyw yr un a ddyfynnir o weithiau Descartes (tud. 94—95), ac felly yn wir yr edrychaf Descartes ei hunan arno. Y mae yr un peth yn wir am eiddo y Proff. Green a Dr. Orr (gwel Nodiad 41). Ychydig o berthynas wirioneddol sydd rhwng y rhai hyn â'r prawf gwreiddiol, fel y daeth allan o ddwyllaw Awstin neu Anselm. Eu hymresymiad hwy, ac felly Descartes mewn

mannau ereill, ydoedd fod y syniad am Dduw yn syniad am Fod oll-berffaith; ond os yn berffaith, rhaid ei fod yn dragwyddol hunan-hanfodol, h.y. rhaid fod iddo hanfodiad gwirioneddol yn annibynnol ar feddwl dyn. Tra gwahanol, drachefn, ydyw prawf Dr. Samuel Clarke; ond nis gallwn, o fewn y gofod a ganiateir i ni, olrhain ymbellach hanes y dosbarth hwn o brawfion.

Fel yr addefa Mr. Ellis, "ychydig o dduwinyddion sydd i'w cael erbyn hyn a welant eu ffordd i dderbyn y prawf hwn mewn unrhyw ffurf arno" (tud. 97). Yr unig ysgol o feddylwyr, o ddim bri, sydd yn parhau i lynu wrtho ydyw y rhai hynny sydd yn credu yn athroniaeth Hegel. Iddynt hwy y mae yr ymresymiad hwn yn hollol i'r pwrpas, oblegid yn y gyfundrefn gyfriniol honno proffesir esbonio ymaith y gagendor ymddangosiadol sydd yn bod rhwng syniadau y meddwl a'r gwrthrychau cyfatebol. Ond i bawb ereill, y mae lled y byd o wahaniaeth rhwng y syniad am wrthrych a'r gwrthrych ei hunan; ac nid yw bodolaeth y cyntaf yn un prawf o fodolaeth yr olaf. A defnyddio engrafft arferedig, nid yw y syniad am fynydd o aur yn un prawf fod y mynydd hwnnw yn bodoli yn weithredol. Yr un modd am y syniad am Dduw; nis gellir mewn un modd ymresymu oddiwrtho at fodolaeth weithredol. Ond er gwybod fod y llif yn ei erbyn, y mae Mr. Ellis yn parhau i greu fod rhywbeth ynddo. Nid yw yn ceisio esbonio beth yw y rhywbeth hwnnw. Yr unig ddadl a ddefnyddir ganddo, a defnyddir honno fwy nag unwaith, ydyw y ffaith fod cynifer o feddylwyr blaenaf yr oesau wedi bod yn pwysu arno. "Anhawdd ydyw meddwl," meddai, "am brawf yn rhoddi un math o foddlonrwydd i feddyliau galluog yr ysgolwyr heb ei fod yn cynnwys rhyw gnewylln o wirionedd" (tud. 96). Nis gallwn ystyried yr ymresymiad yn deilwng o'r awdwr; ac nid oes neb a wya yn well nag efe mai gwaith hawdd fuasai enwi rhestr o feddylwyr, yn ogyhyd o ran rhifedi ac yn ogyfuwch o ran awdurdod, ar yr ochr arall i'r cwestiwn. Heblaw hynny, pan gofiwn beth oedd credo athronyddol yr ysgolwyr, nid yw yn gymaint syndod iddynt gyfeiliorni yn y cyfeiriad hwn. Yr cedd yr hyn a elwir mewn athroniaeth yn *Realism* y pryd hwnnw heb neb yn ei ameu; credai pawb fod i bob meddyl-ddrych neu syniad yn y meddwl ryw fodolaeth wrthrychol o'r tu allan i'r meddwl. A chan fod hynny yn wirionedd am bob syniad, nid oedd ryfedd iddynt ddadleu ei fod yn wirionedd hefyd am y syniad am Dduw. Wrth adael y mater, dylem ychwanegu nas gallwn ystyried fod y dyfyniad o T. H. Green a Dr. Orr mewn un modd yn ffurf ar y prawf Anselmaidd (tud. 100, 101). Ymresymiad ydyw hwnnw oddiwrth gyfansoddiad y byd yn ol at yr Achosydd, ac ymddengys i ni yn hollol deg a safadwy.

Symudwn yn awr at yr ail brawf, sef y prawf oddiwrth fodolaeth y byd. Yn yr adran hon yr ydym yn cydsynio yn galonog, bron yn gwbl, â'r hyn a ddysgir gan yr awdwr. Yr unig eithriad ydyw yr hyn o grybwyllwyd yn barod, sef fod mwy na digon, i'n tyb ni, o bwys yn cael ei roddi ar gadernid y prawf. Ar yr un pryd, o'r oll o'r prawfion, yr ydym yn credu mai hwn yw y diogelaf, ac y gellir yn deg gasglu oddiwrtho, o leiaf debygolrwydd cryf tros fodolaeth Duw. Nid oes gennym ddim i'w ychwanegu at yr hyn a ddywedir yn y ddarlith, a chan hynny

ymfoddlonwn ar annog y darlennydd i efrydu yr adran drosto ei hunan. Rhoddir ynddi grynhodeb, rhagorol o gryno a chyflawn, o wahanol agweddau y prawf, ac o'r prif wrthddadleuon yn ei erbyn. Dengys yr awdwr gydnabyddiaeth eang a'r syniadau gwyddonol diweddaraf am ffurfiad y byd ac am gyfansoddiad natur; ac y mae yr awdurdodau uchaf wrth ei law yn barod i ddwyn eu tystiolaeth.

Am y dosbarth olaf o'r prawfion, rhaid i ni ymdroi ychydig yn hwy. Hwn, fel y dywedir, ydyw y mwyaf poblogaidd o'r oll, ac i lawer hwn ydyw y mwyaf argyhoeddiadol. I roddi syniad am ei natur, nis gallwn wneyd yn well na dyfynnu brawddeg o'r ddarlith:—"Yr ymresymiad sydd yn awr o dan ein sylw ydyw fod y drefn berffaith a welir ymhob cyfeiriad, a'r cyfaddasiad nodedig sydd yn rhedeg trwy natur oll, yn ein harwain yn anocheladwy i'r casgliad eu bod yn ffrwyth bwriad" (tud. 124). Ac os yn ffrwyth bwriad, yna hefyd yn waith bôd deallol. Neu, gellir ei roddi mewn cyfresymiad fel y canlyn: "Y mae trefn ymhob man yn profi meddwl; yn ngweithredoedd natur fe welir trefn; am hynny y mae gweithredoedd natur yn profi meddwl" (tud. 126). Gwelir ar unwaith nad yw yr uchod ond ffurf gyffredinol ymha un y gellid gosod myrdd a mwy o ymresymiau. Beth bynnag sydd yn dangos trefn neu gyfaddasiad mewn natur, bywyd, neu feddwl, gellid ymresymu oddiwrtho at fwriad yr Hwn a'i gwnaeth. Gwelir hefyd fod y prawf hwn yn myned gam ymhellach na'r ddau flaenorol. Profi bodolaeth Duw yn unig a geisir ei wneyd oddiwrth y syniad am Dduw, a dyma yn briodol y cyfan y gellir ei ddisgwyl oddiwrth yr ail brawf. Ond yma yr ydym yn ymresymu at fod yn meddu deall ac ewyllys,—nid bodolaeth yn unig ond bodolaeth bersonol

Yn ei ymdriniaeth arno, dengys yr awdwr, fel arfer, ei gydnabyddiaeth drylwyr â holl agweddau y cwestiwn. Gŵyr yn dda fod ymddadablygiaeth yn profesu tafu goleuni newydd ar y pwnc, ac nid yw yn arswyddo rhag sefyll yn ei wyneb. Ond nid yw ei atebion i rai o'r gwrthddadleuon yn hollol foddhaol. Er engraifft, pan yn ymwneyd â gwrthddadl Kant, "Mai nid at Greawdwr yr arweinir ni gan y prawf oddiwrth fwriad, eithr at beiriannydd neu adeiladydd" (tud. 133), y mae mewn gwirionedd yn osgoi prif bwynt y ddadl, ac yn cymeryd i fyny ystyriaeth arall lai hanfodol. Nid ydym yn gweled fod yn bosibl gwadu yr hyn a ddywedir gan Kant. Nid oes yn yr arwyddion o drefn a chyfaddasiad, fel y cyfryw, un dystiolaeth o berthynas i ddechreuad mater. Danghosant waith adeiladydd, ond nid gwaith Creawdwr. I brofi creadigaeth, rhaid syrthio yn ol ar yr ail brawf. Mewn un man ymddengys Mr. Ellis fel yn cydnabod hynny (tud. 135). Drachefn dadleua Kant mai terfynol ydyw y ddoethineb a'r daioni a welir yn y creadigaeth, ac nas gellir oblegid hynny ymresymu oddiwrthynt at ddoethineb a daioni anfeidrol. Ac ond cadw o fewn rheolau rhesymeg, ymddengys yr wrthddadl hon hefyd yn ansigladwy. Defnyddir yr un wrthddadl gan rai yn erbyn yr ail brawf. Terfynol, meddir, ydyw y creadigaeth, ac oblegid hynny nis gellir ymresymu at Achos Annherfynol. Ond y mae atebiad Mr. Ellis yn ddigonol yn y cysylltiad hwn. "I ddwyn allan o ddim hyd yn oed yr hyn sydd derfynol—i *grau* o gwbl, rhaid cael gallu sydd yn annherfynol" (tud. 104). Ond nis gellir cymhwyso yr atebiad hwn at yr arwyddion o

drefn a chyfaddasiad, oblegid o fewn terfynau, cydnebydd pawb, fod y rhai hyn yn bosibl i fod meidrol. Hwyrach y gellir dweyd, os nad ydynt yn *profi*, eu bod ar raddfa digon eang i *asogyntu* Bod Annherfynol. Nid oes gennym ddim yn erbyn hynny; ond wrth gymeryd y tir hwn yr ydym yn cydnabod fod y prawf, o safie resymegol, yn annigonol. Wedi derbyn cywiriadau Kant, fodd bynnag, y mae graddau o werth yn aros yn y prawf oddiwrth fwriad. Gallwn eto ymresymu at Adeiladydd, os nad at Greawdwr, a gallwn brofi fod ei ddoethineb a'i ddaioni yn anfesurol i ni, os nad yn anfeidrol. Ond gelwir arnom yn awr i wynebu anhawsterau a natur fwy difrifol. Fel y dywedwyd yn barod, y mae gan ymddadblygwyr rywbeth i'w ddweyd ar y pwnc; ac os cywir y dehongliad a roddir ganddynt, rhaid edrych o hyn allan ar y prawf oddiwrth fwriad, nid yn unig fel yn annigonol, ond fel yn gyfeiliornus o'i ddechreu i'w ddiwedd. Nid ydym eto yn barod i dderbyn eu tystiolaeth, ac fel y dywed Mr. Ellis y maent yn rhanedig yn eu mysg eu hunain. Ond rhaid i ni addef fod llawer iawn o rym yn yr hyn a ddywedir ganddynt, ac nid ydym hyd yma wedi gweled neb yn gallu eu cyfarfod yn hollol foddhaol. Goddefer i ni aros am funud gyda'r anhawster. Dechreuwn gyda'r gofyniad, Ai nid ymresymiad yn seiliedig ar gyfatebiaeth ydyw y prawf hwn? Nage, ydyw yr atebiad a roddir gan Dr. Flint a chan Mr. Ellis (tud. 127). Ond ychydig, ni gredwn, fydd yn barod i'w dilyn yn hyn. Pa sail sydd gennym dros gredu fod trefn neu gyfaddasiad yn y greadigaeth yn brawf o ddoethineb yr Hwn a'i gwnaeth? Ai nid y ffaith fod profiad yn dysgu mai ffrwyth doethineb ydyw trefn neu gyfaddasiad yng ngweithredoedd dyn? Anhawdd ydyw dirnad pa sail arall sydd yn bosibl "Nid oes gennym un gronyn llai o reswm," medd Mr. Ellis, "dros ymresymu fod llygad yn dangos dealltwriaeth a bwriad, nag sydd gennym dros ymresymu fod yr oriawr yn gwneyd hyn" (tud. 127). Yr ydym yn gwadu y gosodiad. Y mae yr olaf yn ffaith y gellir ei phrofi trwy brofiad a sylwadaeth, ond nid felly y gyntaf. Gallwn fyned i weithdy yr oriadurwr ac edrych arno yn gweithio; ond ni welsom erioed llygad yn cael ei wneuthur. Addefwn fod y llygad yn dangos cyfaddasiad yn gystal â'r oriawr: ond y cwestiwn i'w ateb ydyw, A yw cyfaddasiad, yn y ddau achos fel eu gilydd, yn brawf o ddealltwriaeth yn yr Achosydd? A oes gennym sicrwydd mai ffrwyth dealltwriaeth, yn cynllunio ac yn bwriadu, ydyw trefn neu gyfaddasiad pa le bynnag y ceir hwynt? Y mae hynny yn wirionedd diamheol yn ei berthynas â gweithredoedd dyn, ond a ydyw yn dal i'w gymhwysu at weithredoedd natur? Yr unig sail sydd gennym dros ateb yn gadarnhäol ydyw y gyfatebiaeth sydd rhyngddynt.

Yn awr yn erbyn y gyfatebiaeth hon y dadleuir gan rai o'r ymddadblygwyr. Dywedant hwy fod dull dyn o gynhyrchu trefn neu gyfaddasiad mor gwbl wahanol i'r hyn gymer le mewn dadblygiad naturiol, fel nas gellir ymresymu dim oddiwrth y naill at y llall. Gwyddom fod cyfaddasiad yr oriawr yn gynnyrch uniongyrchol dealltwriaeth ei gwneuthurwr, ac nid dim yn yr oriawr ei hunan nac yn ei hamgylchoedd. Ond wrth edrych, dyweder, ar y planhigyn yn tyfu, ymddengys y cyfaddasiad yn cael ei weithio allan gan natur y planhigyn ei hun, a chan y gwrthrychau sydd o'i amgylch. Ac "os y gellir dangos," a

defnyddio cyfieithiad Mr. Ellis o eiriau Huxley, "fod holl gynnydd y planhigyn yn ddyledus i ddylanwadau ydynt i'w cael mewn rhan yn yr organ ei hun, ac mewn rhan yn ei chylchyniadau (*environments*), yna deuir i'r casgliad anocheladwy nad oes yn yr holl gwrswethrediad (*process*) le i ddealltwriaeth na bwriad o gwbl" (tud. 141). Yr unig ateb sydd yn bosibl i'r ymresymiad uchod ydyw yr hyn a awgrymir gan Mr. Ellis, sef fod y gallu sydd gan fater i ymddadablygu yn rhywbeth a roddwyd iddo gan y Creawdwr, ac nid yn perthyn iddo o angenrheidrwydd; fod gronynnau mater, o'r dechreuad, wedi eu cynysgaeddu, gan rhyw Fôd deallol, a'r priodoleddau angenrheidiol tuag at ymddadablygu i'r ffurfiau y gwelir ef ynddynt yn awr. Ond erbyn hyn, fel y gwelir, y mae y prawf oddiwrth fwriad wedi ei wthio yn ol at ddechreuad mater, ac nid oes gennym ond syrthio drachefn ar y prawf oddiwrth fodolaeth y byd. Dyma a wneir gan Mr. Ellis, er nad yw yn ymddangos yn sylweddoli hynny (tud. 141—143). Dadl ydyw bellach rhwng Materolaeth a Theistiaeth, a'r cwestiwn i'w benderfynu ydyw, o ba le y daeth mater a'i briodoleddau?

Y mae y sylwadau uchod yn gymhwysiadwy hefyd at yr hyn a elwir y prawf moesol. Amcana hwnnw brofi bodolaeth a phriodoleddau moesol Duw oddiwrth natur foesol dyn, ac oddiwrth arwyddion o lywodraeth foesol ar y byd. Mewn gwirionedd nid yw ond cangen o'r prawf oddiwrth fwriad, ac y mae pob dadl yn erbyn yr olaf, yn meddu grym hefyd yn ei erbyn yntau. Heblaw hynny y mae yr amrywiaeth barn o berthynas i darddiad a dadblygiad y gydwybod, heb son dim am yr anhawsterau mawrion ynglŷn â phechod a dioddefaint, yn ychwanegu at ei ansicrwydd. Gwedir yn bendant gan rai o'r Gwyddonwyr blaenaf y gellir gwybod dim am gymeriad moesol y Creawdwr oddiwrth y drefn sydd i'w gweled ar y byd yn awr. Ar y llaw arall edrychir, gan ereill, ar y prawf hwn fel y cryfaf o'r cwbl. Hwn yn unig a gydnabyddir gan Kant o unrhyw werth gwirioneddol. Ychydig o le a roddir iddo yn y ddarlith hon, ac i'w weithio allan yn gyflawn, gofynnai gyfrol dda iddo ei hunan.

Cangen arall o'r prawf oddiwrth fwriad y rhoddir ychydig o sylw iddo, ydyw yr ymresymiad oddiwrth y prydferth a'r arddunol. Mewn amryw o'r gweithiau diwedderaf ar *Theism*, rhoddir lle neillduol amlwg i'r rhan hon o'r prawf, a hynny am y tybir fod hwn yn ddiogel o gyrraedd y gwrthddadleuon a godir gan ymddadablygwyr. Rhoddir mynegiant i dybiaeth sydd ar gynnydd yn y frawddeg ganlynol o eiddo Mr. Ellis:—"Cydnabydder fod yn bosibl i ddetholiad naturiol roddi cyfrif boddhaol am gyfaddasiad yn ei ystyr fwyaf cyffredin,—y cyfaddasiad mewn organau a'r cyffelyb; nid ydyw yn bosibl gydag unrhyw degwch wneuthur yr un haeriad gyda golwg ar y prydferth ar aruchel" (tud. 149). Paham y dywedir fod hwn yn eithriad i'r rheol? Paham nas gall "detholiad naturiol" roddi cyfrif digonol am dano? Nid ydyw yr awdwr wedi gwneuthur yr atebiad yn hollol eglur. Os nad ydym yn camgymeryd, mae y pwynt i'w ganfod yn y gwahaniaeth rhwng prydferthwch a defnyddioldeb. Yr hyn a wneir gan "ddetholiad naturiol" ydyw cadw ac amddiffyn yr hyn sydd ddefnyddiol; nid yw yn diogelu dim ar brydferthwch os nad yw y prydferthwch hwnnw yn fanteisiol i barhad neu lwyddiant ei fedd-

iannydd. Ond nid ydyw prydferthwch, fel y cyfryw, yn sicrhau defnyddioldeb. Os ydyw ein hesboniad yn gywir, ymddengys dyfyniadau Mr. Ellis o sylwadau Canon Mozley a'r Parchedig John Owen, Tynllwyn (tud. 151), nid yn unig yn amhwrpasol, ond yn hollol wrthwynebol i rediad yr ymresymiad. Baich y rhai hynny ydyw profi unoliaeth hollol prydferthwch a defnyddioldeb. Gallwn grybwyll yn y fan yma befyd fod yr awdwr (tud. 153) yn cydnabod fod y prawf oddiwrth fwriad yn seiliedig ar gyfatebiaeth, ar ol yn flaenorol ymresymu yn erbyn y syniad.

Orybwyllir un prawf ychwanegol, a gwneir ychydig sylwadau arno, sef yr hwn sydd yn gorffwys ar y syniad cyngreddfol am Dduw. Ond y mae ein herthygl eisoes wedi torri dros bob terfynau, a rhaid i ni adael y gweddill a thynnu tua'r terfyn. Wrth wneyd hynny gallwn grybwyll fod yr awdwr ar ddiwedd ei ddarlith yn cyffwrdd â rhai o'r anhawsterau a deimlir ynglŷn â phriodoli personoliaeth i Dduw; ac o dan y penawd hwnnw rhoddir crynhodeb clir a chynhwysfawr o hanes ac o syniadau y Deistiaid a'r Pantheistiaid. Ac yn ddiweddfaf oll, ceir ychydig sylwadau ar le a gwaith Datguddiad.

Cof gan y darlennydd i ni droi o'r neilldu rai adrannau gyda'r bwriad o'u hystyried yn ddiweddarach. Rhag gormod meithder, rhaid i ni wneyd hynny mewn ychydig iawn o frawddegau. Y pwnc gennym yn awr ydyw safle yr awdwr mewn perthynas i'r ddamcaniaeth o Ddad-blygiad. Daw i'r golwg yn bennaf, ond nid yn unig, yn yr adrannau y cyfeiriwyd atynt; ac yr ydym yn awr ar well tir i gymeryd golwg gyffredinol dros yr oll. A chaaglu oddiwrth rai o'r brawddegau a ddefnyddir (er eng. tud. 21—22) y mae Mr. Ellis mewn cyflwr o amheuaeth o barth i wirionedd y ddamcaniaeth, ond er hynny yn berffaith barod i dderbyn y cyfan y gellir ei brofi. Cymer yn ganiataol ymhellach, trwy gorff y llyfr, y posibilrwydd, yn y dyfodol, o brofi yr oll o honi; ac ar y tir hwnnw y profesa wrthsefyll yr amrywiol ddadleuon a gyfodir. Gellid disgwyl oddiwrtho, gan hynny, os nad gydymdeimlad â'r ddamcaniaeth, o leiaf i gadw yn amhleidiol. Ond ar ol egluro ei safle, er ein syndod, dechreu ar unwaith ymosod ar rai o egwyddorion cyntaf dadblygiad. Treulir bron yr oll o'i adran ar darddiad crefydd (tud. 21—33) i'r amcan o brofi fod ei dechreuad i'w geisio, nid yn ei ffurfiau iselaf, ond yn y ffurf uchaf arni. I'w olwg ef, y mae ymdrechion y gwŷr hynny sydd yn ceisio olrhain crefydd yn ol i *Fetishism*, neu *Animism*, yn hollol wrthun, ac annheilwng o sylw. "Nid ymddengys y fath syniadau," meddai, "er eu gosod allan gan wŷr galluog a dysgedig, yn ddim amgen na chellwair â chwestiwn mawr a phwysig. . . . Maddeuir i ni yn ddiau os ystyriwn fod eu gosod allan gydag eglurder yn ddigon o atebiad iddynt" (tud. 28). Yma ymddengys yr awdwr yn elyn anghymodlawn i ddadblygiad, o leiaf yn ei berthynas â dyn. Atolwg pa ddadblygiad sydd yn bosibl, os nad ydym i ddechreu gyda'r israddol, ac i ddyrchafu at y perffeithiach? Oddiwrth ei sylwadau ar Herbert Spencer (tud. 22), gellir casglu, yn wir, fod Mr. Ellis yn barnu yn bosibl cysoni y syniad o ddadblygiad gyda'r ffaith o ddirywiad cyffredinol y ddynoliaeth. Digon gwir yr addefir gan Spencer ac ereill fod sefyllfa bresenol rhai llwythau anwaraidd yn is nag ydoedd mewn amserau boreuach.

Nid ydyw dadblygiad yn gwadu y posibilrwydd o ddirywiad mewn rhai achosion, ac am rai cyfnodau. Ond yn sicr, os oes ystyr o gwbl i'r damcaniaeth, rhaid credu fod y ddynoliaeth, a'i chymeryd gyda'i gilydd, wedi ymgodi yn raddol o gyflwr o anwareiddiwrch, trwy sefyll-faoedd uwch, ac uwch drachefn, hyd nes o'r diwedd gyrraodd y safle y mae ynddi yn awr. Ac os ydym i gredu hynny am y ddynoliaeth, nis gellir, gyda dim cysondeb, wneyd eithriad o'i dyrchafiad crefyddol. Y mae pob ymddadblygwr, gan hynny, yn rhwym o edrych am darddiad crefydd i rai o'i ffurfiau mwyaf amherffaith. Drachefn ymddengys i ni fod rhai o'r brawddegau a ddefnyddir i osod allan y berthynas rhwng dadblygiad a datguddiad, yn hollol gamarweiniol. Am ddatguddiad boreuol, dywedir ei fod yn "berffaith anghyson & damcaniaeth ymddadblygiad" (tud. 29), a cheir lliaws o ymadroddion ereill i'r un perwyl. Os golygir wrth "ddatguddiad boreuol" fod syniadau clir wedi eu rhoddi am Unddwiaeth ac am y ffurfiau uchaf o grefydd, a hynny ar ddechreuad cyntaf y ddynoliaeth, addefwn yn rhwydd fod y cyfryw greddo yn hollol anghyson & phob syniad o ddadblygiad. Neu os y meddwl ydyw fod rhai ymddadblygwyr yn gwadu datguddiad, nid oes geonny ddim i'w ddweyd mewn atebiad. Ond yn sicr nid ydyw damcaniaeth dadblygiad ynddi ei hun yn cau allan ddatguddiad. Y cyfan a ddywed ar y mater ydyw, y rhaid fod goleuni datguddiad ar y dechreu yn dywyll ac aneglur, ac iddo wedi hynny gynhyddu i fwyfwy o amlygrwydd. Ac mewn adran ddiweddarach, dysgir yr athrawiaeth hon gan Mr. Ellis ei hunan (tud. 41, 42), ac nis gallwn ameu ychwaith nad dyna yw dysgeidiaeth y Beibl. Mewn amddiffyniad i'r syniadau uchod nis gallwn wneyd yn well nag annog y darllenydd i ddarllen Nodiad 28 (tud. 247—253). Yno gwelir dyfyniadau o weithiau dynion fel Réville, Dr. Flint, Dr. Fairbairn, a Dr. Samuel Harris, ac y maent oll yn ategu ein sylwadau yn erbyn Mr. Ellis.

Cyn rhoddi y pin i orffwys, gallwn alw sylw at rai brychau o natur wahanol sydd yn y ddarlith. Ar tud. 13 dywed mai "y peth sydd eisieu mewn deffiniad [o grefydd] yn ol syniad Dr. Caird ydyw yr hyn y gellir edrych arno fel egwyddor crefydd yn ei holl ffurfiau, ac nid yr hyn y ceir gafael arno fel yr elfen gyffredin mewn gwahanol grefyddau." Ac ychwanegir, "Dichon nad yw y gwahaniaeth a wneir ganddo yn hollol glir. Gall un awdwr roddi yr enw egwyddor i'r hyn a elwid gan awdwr arall yn elfen gyffredin," ac yna cyfeirir y darllenydd at ddyfyniad sydd i'w gael yn Nodiad 7 yn yr Atodiad. Nid yw y brawddegau uchod yn gwneyd tegwch â'r hyn a ddysgir gan Caird. Ei ddadl ef ydyw fod yn amhosibl deffinio crefydd oddiwrth unrhyw egwyddor nac oddiwrth unrhyw elfen sydd yn gyffredin i'r holl grefyddau. Barna y rhaid chwilio am ddeffiniad, nid mewn dim yn y crefyddau eu hunain, ond mewn rhyw egwyddor o ddatblygiad sydd yn perthyn i'r ddynoliaeth yn ei chyfanrwydd. I osod allan feddwl Caird, gwell dyfyniad, na'r hwn a geir yn yr Atodiad ydyw y canlynol:—"For the present enough has been said to show that in the definition of religion we have not to seek for something which is *common* to all religions, but rather for that which *underlies* them all as their principle. In other words, what we are looking for

is that motive power, working in the human mind, and essentially bound up with its structure, which manifests itself even in the sorcery and ghost-seeing of savages, which causes the gradual transition from such superstitions to better forms of worship, and which fully reveals its character only in the highest types of the religious life of Christianity (*The Evolution of Religion*, vol. i. p. 51). Drachefn, prin y gellir cyfiawnhau y dywediad, "mai moesoldeb yn unig ydyw crefydd" yn ol syniad Kant (tud. 15). Gwelir amhriodoldeb y gosodiad wrth ei gymharu â'r hyn a ddywedir gan Max Müller yn Nodiad 15 (tud. 221). Ac yn ddi-os Max Müller sydd agosaf i'r gwirionedd. Unwaith eto yn y Nodiad cyntaf (tud. 203) dywedir, "Gwahaniaetha Max Müller rhwng *The Science of Religion* a *The Philosophy of Religion*. Geilw y naill *Comparative Theology*, a'r llall *Theoretic Theology*." Yr oeddym yn ameu y dywediad ar y funud gyntaf, ac yr oeddym yn methu gweled fod y dyfyniad sydd yn dilyn yn ei gyfiawnhau. Troisom i waith Max Müller a gwelom ar unwaith fod y dywediad yn anghywir. Dyma yr hyn a ddywed mewn tu dalen arall o'r un gwaith:—"The science of religion is divided into two parts; the former, which has to deal with the historical forms of religion, is called Comparative Theology; the latter, which has to explain the conditions under which religion, whether in its highest or its lowest form, is possible, is called Theoretic Theology."

Nodwn eto ddwy neu dair o frawddegau sydd o ran gramadeg naill ai yn gymysglyd neu yn anghywir. Ar tud. 4, ceir rhestr o gwestiynau ac yna y frawddeg ganlynol, "Ac i'r holl gwestiynau hyn y mae ateb rhai o yagrifenwyr galluocaf yr oes yn hollol nacöol," gan olygu atebion o natur fateryddol. Ond un o'r cwestiynau a atebir felly ydyw hwn, "A ydyw yr hyn yr ydym wedi arfer ei alw wrth yr enwau 'meddwl,' 'enaid,' 'ysbryd,' yn unig yn ffurf neillduol ar fater?" Eglar yw mai yr atebiad nacöol ydyw yr un unionged i hwn, ac felly y mae yn eithriad i'r gweddill o'r cwestiynau, a dylid newid ei ffurf. Drachefn ar tud. 134, ceir y frawddeg ganlynol:—"Os nad oes anghyfaddasder yn y defnyddiau i'r amcanion y gosodir hwynt; ymha le, meddir, y daw gallu neu ddoethineb yr Archadeiladydd i'r golwg? Ac ar y llaw arall, os ydynt yn gyfaddas, gofynir, drachefn, o'r cyfeiriad hwnnw, yr un cwestiwn." Pa wahaniaeth eydd rhwng "os nad oes anghyfaddasder yn y defnyddiau" ac "os ydynt yn gyfaddas?" I wneyd unrhyw ystyr, dylai y rhan olaf fod "os ydynt yn anghyfaddas;" ac er gwneyd y cywiriad hwn y mae graddau o dywyllwch yn aros yn yr ymadrodd olaf, "o'r cyfeiriad hwnnw;" pa gyfeiriad? Y frawddeg olaf y cyfeiriwn ati ydyw yr un sydd i'w gweled ar tud. 141. "A ydyw y dybiaeth, [sef fod ymddadbygiad yn ffaith] ai nid ydyw, yn osau allan fwriad? Etyb Huxley ac ereill y gofyniad hwn yn nacöol, heb unrhyw betrusder." Nid nacöol, ond cadarnhaol, ydyw atebiad Huxley i'r cwestiwn uchod. Hawdd fyddai nodi eto lu o fan wallau argraffyddol; ond awn heibio iddynt oll, gyda dweyd y gobethiwn yn fuan weled ailargraffiad yn ymddangos, a hwnnw yn lân oddiwrth y brychau hyn.

Yr ydym yn awr wedi gorffen ein gwaith; ac ar ol cymaint o bigo beiau, ofnwn ein bod wedi rhoddi syniad anghywir iawn i'r darlennydd am wir deilyngdod y gyfrol. Goddefer i ni gan hynny, wrth derfynu,

ddweyd yn ddifloesgni fod y ddarlith hon yn gaffaeliad amhrisiadwy i lenyddiaeth grefyddol Cymru. Pwy bynnag ai darlloeno yn ofalus, gwneir ef yn well meddyliwr, ac ni gredwn hefyd, yn well crefyddwr. Y mae yn ymdrin â'r cwestiynau sydd yn gorwedd wrth wreiddiau pob credo crefyddol, ac yn gwneyd hyany mewn ysbryd gonest a theg. Gwisgir y cyfan mewn Cymraeg clir a dirodres. Ein dymuniad ydyw ar iddi gael cylchrediad eang a chyflym ymysg aelodau darllengar yr Ysgolion Sabothol, a thrwy hynny, brofi yn foddion i ddyfnhau ac i ehangu eu hargyhoeddiadau crefyddol.

W. O. JONES.

GWEDDI YR ARGLWYDD A'R DEG GORCHYMYN.

Y MAE Gweddi yr Arglwydd yn grynnodeb o egwyddorion y Testament Newydd, fel y mae y Deg Gorchymyn yn grynnodeb o egwyddorion yr Hen Destament. A chan fod perthynas agos rhwng yr Hen Destament a'r Testament Newydd, gellir yn naturiol gaaglu fod perthynas rhwng y Deg Gorchymyn a Gweddi yr Arglwydd. Y mae yn hynod awgrymiadol hefyd mai yn y Bregoth ar y Mynydd, lle yr esbonia yr Arglwydd y Deg Gorchymyn, y ceir Gweddi yr Arglwydd. Ac wrth gymharu y y naill a'r llall, yr ydym wedi dod i'r caagliad fod yr Arglwydd Iesu yn y Pader yn cymeryd y gorchymynion o un i un, gan eu troi yn weddi. Y Gyfraith yn ddymuniad neu yn egwyddor oddimewn ydyw Gweddi yr Arglwydd. Ond rheol buchedd wedi ei gosod ar ddydd, ac o'r tu allan iddo, ydyw y Deg Gorchymyn. Y gyfraith wedi ei chyfaddasu i neillduolrwydd yr hen oruchwyliaeth sydd yn y Deg Gorchymyn, tra mai y gyfraith, wedi ei chyfaddesu i nodweddion mewnol ac ysbrydol yr Oruchwyliaeth Newydd a geir yng Ngweddi yr Arglwydd.

Er gweled y gyfatebiaeth ni raid ond sylwi fod y rhan gyntaf o Weddi yr Arglwydd, fel y rhan gyntaf o'r Deng Air, yn ymwneyd yn arbennig â phethau Duw. "Dy Enw," "Dy Deyrnas," "Dy Ewyllys." Ond y mae yr ail ran yn y naill a'r llall yn ymwneyd yn arbennig â phethau dyn: "Ein bara beunyddiol," "Ein dyledion," "Ein dyled-wyr."

Ond y mae y cyfatebiaeth yn fanylach na hyn. Credwn y gallwn brofi fod Iesu Grist yn cymeryd y gorchymynion o un i un, ac yn rhoddi ystyr wirioneddol ac ysbrydol pob un o honynt yng Ngweddi yr Arglwydd.

Pwnc y gorchymyn cyntaf ydyw y Bod o Dduw. "Na fydded i ti dduwian ereill ger fy mron i." A dyma hefyd y man y mae Gweddi yr Arglwydd yn dechreu, "Ein Tad." Mae hawliau Duw ar y genedl

Iddewig yn syflaenedig ar ei ymddygiad tuag atynt. "Myfi, yr Arglwydd dy Dduw, yr hwn â'th ddug di allan o wlad yr Aifft." Ei gymwynasau iddynt oedd sail ei hawliau ar y genedl. Ond y mae "Ein Tad" yn gosod hawliau Duw ar ddyn ar dir llawer cadarnach. Y datguddiad llawnaf o Dduw sydd yn bosibl ydyw Duw fel "Ein Tad." Ac y mae "Ein Tad" yn meddu llawer mwy o rym er peri i ddyn ddewis yr Arglwydd yn Dduw na'r cymhelliad sydd yn y gorchymyn. Gwan ydyw gorchymyn ar y goreu, heb ryw gymhelliad arall i gynhyrchu ufudd-dod; ond y mae cariad sydd gryf fel angen yn oblygedig yn "Ein Tad." Y mae y ddeddf foesol a gweddi yr Arglwydd yn dechreu gyda Gwrthrych Addoliad. Ond y mae y goleuni geir arno yng Ngweddi yr Arglwydd yn llawer mwy llachar, a'r cymelliad i'w addoli yn llawer uwch.

Deuwn yn nesaf at yr ail orchymyn er gweled pa ffurf sydd ar hwn yng Ngweddi yr Arglwydd. "Na wna i ti ddelw gerfiedig." Ar ei gyfer yng Ngweddi yr Arglwydd ceir, "Yr hwn wyt yn y nefoedd." Yr haen isaf o feddwl yn y naill a'r llall ydyw ysbrydolrwydd Duw. Amcan yr ail orchymyn yw gofyn addoliad ysbrydol, am mai Ysbryd yw Duw. Ac yr oedd dull ymddanghosiad yr Arglwydd ar Sinai wedi ei drefnu yn y fath fodd ag i argraffu hyn ar feddyliau y genedl. "A nesasoch, a safasoch dan y mynydd; a'r mynydd oedd yn llosgi gan dân hyd entrych awyr, yn dywyllwch, a chwmmwl, a thywyllwch dudew. A'r Arglwydd a lefarodd o ganol y tân, a chwi a glywsocch lais y geiriau, ond nid oeddych yn gweled llun *dim* ond llais. Ac efe a fynegodd i chwi ei gyfamod a orchymynodd efe i chwi i'w wneuthur, sef y dengair, ac a'u hysgrifenodd ar ddwy lech faen."* Dywedir fod Duw yn llefaru o ganol y tân. A dywedir hefyd fod y tân yn llosgi hyd entrych awyr, neu yn llythrennol hyd galon y nefoedd. Yr oedd llefaru o ganol y tân yn golygu Duw eiddigus. "Oblegid yr Arglwydd dy Dduw sydd dân ysol, Duw eiddigus." "Gwyliwch gan hynny yn ddyfal ar eich eneidiau (oblegid ni welsoch ddim llun yn y dydd y llefarodd Duw wrthych yn Horeb o ganol y tân), rhag ymlygru o honoch a gwneuthur i chwi ddelw gerfiedig." †

Sail eu rhwymedigaeth fel cenedl i ufuddhau i'r gorchymyn cyntaf oedd y waredigaeth o'r Aifft. Sail eu rhwymedigaeth i ufuddhau i'r ail oedd ffurf ymddanghosiad y Jehofa ar Sinai. Am mai o galon y nefoedd y llefarai Duw y Dengair, yr oedd cymeryd dim crëedig i'w osod allan yn gamesboniad ar ysbrydolrwydd ei natur. "Ti a ddiagyn-aist ar fynydd Sinai, ac a ymddiddenaist â hwynt o'r nefoedd." Am mai Duw y nefoedd oedd eu Duw, dyna paham y gwarafunir iddynt geisio gwneyd delw o honno. Y mae ysbrydolrwydd ei natur yn gwneyd hynny yn amhosibl.

Mae yr ymadrodd, "Yr hwn wyt yn y nefoedd," yn cynnwys yr un gwirionedd. Mewn ffurf arall ceir ef yn yr adnod honno, "Ysbryd yw Duw, a rhaid i'r rhai a'i haddolant ef addoli mewn ysbryd." Mae y Dengair a Gweddi yr Arglwydd, trwy yr ymadroddion hyn, yn myned dan wraidd olldduwiaeth. Mae y weddi a'r gyfraith yn dysgu, er chwilio y greadigaeth drwyddi draw, nas gellir cael dim ynddi a rydd

* Deut. iv. 11—18. † Deut. iv. 15, 16.

syniad priodol am natur Duw. O ran ei natur, y mae Duw uwchlaw ac ar wahân i bob peth crëedig.

Dygir Cyfiawnder a Thrugaredd Duw hefyd fel rhesymau dros yr ail orchymyn. Nis gellir gwneyd delw o honno am ei fod yn Dduw sydd "yn ymweled âg anwiredd," ac "yn gwneuthur trugaredd." Nis gellir trwy lun dim yn y nef uchod, nac yn y ddaear isod, nac yn y dwfr tan y ddaear, gael syniad priodol am Hwn.

Yr un modd y mae yr ystyriaeth, mai yn y nefoedd y mae ei Dad, yn dwyn cyfiawnder a daioni Duw yn arbennig i sylw y Cristion. "Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad, yr hwn sydd YN Y NEFOEDD. Byddwch chwi gan hynny yn berffaith, fel y mae eich Tad, yr hwn sydd YN Y NEFOEDD, yn berffaith. Oblegid os maddenwch i ddynion eu camweddau, eich TAD NEFOL a faddeu hefyd i chwithau. Edrychwch ar adar y nefoedd, oblegid nid ydynt yn hau, nac yn medi, nac yn cywain i ysguboriau, ac y mae eich TAD NEFOL yn eu porthi hwy. Onid ydych chwi yn rhagori llawer arnynt hwy."

Dywed Gwyddonwyr yr oes hon mai maes cyflafan ydyw y byd, ac mai trechaf treisied gwannaf gwaedded ydyw deddf amlycaf ei lywodraethiad. Mae yn amlwg felly fod yn rhaid edrych o'r tuallan i'r byd hwn am ddim all roi syniad i ni am Dduw cyfiawn a thrugarog. Dyma yr hyn a wneir, pa fodd bynnag, yn yr ail orchymyn, ac yn yr ymadrodd, "Yr hwn wyt yn y nefoedd."

Yn y Dengair cawn ysbrydolrwydd addoliad yn cael ei orchymyn, am mai ysbryd yw Duw. Yng Ngweddi yr Arglwydd y mae natur ysbrydol Duw yn cael ei gosod allan er meithrin ysbrydolrwydd addoliad.

Deawn yn awr at y trydydd gorchymyn: "Na chymer enw yr Arglwydd dy Dduw yn ofer." Y mae cyfatebiaeth y gorchymyn hwn i'r deisyfiad "Sancteiddier Dy Enw" yn amlwg ar unwaith. Gofal am yr Enw mawr sydd yn y gorchymyn a'r deisyfiad. Peidio gwneyd cam â'r Enw ydyw pwnc y naill a'r llall. Yn y gorchymyn ceir ef mewn gwedd nacäol, ond yn y weddi mewn gwedd gadarnhaol. Yn y gyfraith y mae Duw yn gorchymyn i ddyn beidio halogi ei enw; ond yn y weddi, y mae dyn yn gofyn i Dduw sancteiddio ei enw.

Gellid ysgrifennu yn helaeth ar berthynas sancteiddio y Saboth â'r deisyfiad "Deled dy Deyrnas." Ni wnawn ond nodi ychydig o'r pethau amlycaf.

Y mae parch i'r Saboth a llwyddiant y deyrnas, bob amser yn cydfyned â'u gilydd. Lle nad yw y Saboth yn cael ei sancteiddio, nid yw y deyrnas nad yw o'r byd hwn mewn llawer o fri. Amcan sefydliad y Saboth yw galw sylw dynion at hawliau y deyrnas. Sefydlwyd ef ar y cyntaf am fod Duw wedi gorffwyso arno oddiwrth ei holl waith, ac y dylai dyn fod yn debyg iddo. Y mae dyn i orffwyso arno am fod Duw wedi gorffwyso arno. Y mae pob Saboth felly yn galw sylw dyn at Dduw, a'i rwymedigaeth yntau i ymdebygu iddo. A dyma ystyr eithaf, "Deled y Deyrnas."

Saboth tragwyddol ydyw y Nef, a nod eithaf y deyrnas ydyw y Saboth hwnnw. Y mae cadw Saboth eto yn ol i bobl Dduw. A gwaith y deyrnas ar y ddaear yw cyfaddasu dynion i allu cadw y

Saboth hwnnw fel y dylid. Gwaith y Saboth ydyw gwaith arbennig y deyrnas. Pan fydd y byd oll wedi dod i allu iawn sancteiddio y Saboth, dyna y pryd y bydd y deisyfiad, "Deled dy deyrnas," wedi ei gyflawni a'i sylweddoli. Wrth gymeryd y gorchymyn fel y ceir ef yn Deuteronomium, y mae perthynas y Saboth a'r deyrnas yn amlwg iawn. "A chofia mai gwas a fuost ti yngwlad yr Aifft, a'th ddwyn allan â llaw gadarn ac â braich estynedig; am hynny y gorchymynodd yr Arglwydd dy Dduw i ti gadw dydd y Saboth."^{*} Yn y waredigaeth o'r Aifft y dechreuodd y Ddwyflywodraeth a roddodd fôd i'r gair, a'i syniad am deyrnas Dduw. Un o gamrau breision teyrnas Dduw oedd y waredigaeth o'r Aifft; yma y dechreuwyd cyflawni yr addewidion i'r tadau. Ond ni lwyr gyflawnir hwynt nes byddo y deyrnas yn cael ei rhoi i fyny i Dduw a'r Tad, fel y byddo Duw oll yn oll. Yr oedd y syniad newydd yn ffafr dyfodiad y deyrnas, a gychwynwyd yn y waredigaeth o'r Aifft, yn rheswm newydd dros gadw y Saboth. Y mae pob cam ymlaen gyda'r deyrnas, yn gam ymlaen i gadw'r Saboth. Gwedd uwch o orffwyso, neu o gadw y Saboth, ydyw gwahanol symudiadau cynhyddol y deyrnas. Yn ol awdwr yr Epistol at yr Hebraeid, y mae buddugoliaethau Josua, buddugoliaethau Dafydd, buddugoliaethau Crist, a buddugoliaethau'r Cristion, er hyrwyddo y deyrnas, yn cael eu coronni â gorphwysfa well, ac â hawl a gallu i fwynhau a sancteiddio y Saboth mewn gwedd uwch a rhagorach nag o'r blaen. Er y gallesid ymhelaethu llawer yn y cyfeiriad hwn, credwn fod hyn yn ddigon i ddangos y berthynas agos sydd rhwng y gorchymyn i gadw a sancteiddio y dydd Saboth, a'r deisyfiad "Deled dy Deyrnas."

Deuwn yn nesaf at y pumed gorchymyn, "Anrhydedda dy dad a'th fam," a'r deisyfiad "Gwneler dy ewyllys."

Nid yw ewyllys Duw yn dod i'r golwg yn fwy eglur ynglŷn â dim nag yn ei ddewisiad o'n rhieni. Nid oedd gennym ni na rhan na chyfran yn y dewisiad. Ond wrth anrhydeddu ein rhieni, byddwn yn cydnabod fod ewyllys Duw tuag atom yn ddoeth, daionus, a chyfiawn, wrth eu rhoddi i ni. Mae y dewisiad a wnaeth o'n rhieni yn fwy pell-gyrhaeddol yn ei effeithiau arnom nag odid ddim arall. Dyma sydd yn penderfynu ein cenedl, ein hiaith, ein breintiau, ein hawliau, ein safle mewn cymdeithas, ein cyfansoddiad, ein galluoedd meddyliol, ac i raddau helaeth ein crefydd. Yr oedd hyn yn dod i'r golwg yn amlwg iawn yn hanes y genedl. Yr oedd hawl pob Israeliad i'w randir yngwlad Canaan, yn sylfaenedig ar ei berthynas â'r tadau. Gan mai ei berthynas â'i rieni a roddodd iddo hawl i'r wlad, beth yn fwy naturiol na bod ei barhad ynddi yn dibynnu ar ei barch iddynt. "Anrhydedda dy dad a'th fam, fel yr estyner dy ddyddiau ar y ddaear, 'sef gwlad Canaan,' y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei rhoddi i ti." Gan fod cymaint yn dibynnu ar y dewisiad a wnaeth Duw o'n rhieni, os gallwn, trwy eu hanrhydeddu hwynt, ymostwng i'w ewyllys Ef yn hyn, ni ddylai fod yn waith anhawdd ymostwng i'w ewyllys ymhob peth arall. Os gallwn ymostwng i'w ewyllys yn y mwyaf, dylai fod yn beth cymharol hawdd i ni allu gwneyd hynny yn y lleiaf.

Ond trwy ymostwng i ewyllys a cheryddon tadau ein cnawd, yr ydym yn dysgu ymostwng i ewyllys ein Tad nefol. Teulu Duw sydd yn y

^{*}Deut. v 15

nefoedd; mae y preswylwyr oll yn feibion ac yn ferched iddo Ef. Danghosant hynny trwy eu hufudd-dod iddo. A dyna y pryd y bydd ewyllys yr Arglwydd yn cael ei gwneyd ar y ddaear megis yn y nef, pan ddaw dynion i anrhydeddu Duw fel eu Tad. Yr oedd Iesu Grist yn y nef pan ar y ddaear, o ran ei deimlad a'i brofiadau, am ei fod tra yma yn gwneyd ewyllys ei Dad. Trwy wneuthur ewyllys ei Dad yr oedd yn dwyn y nefoedd i lawr i'r ddaear. Wrth ddal y Ddeddf a'r Weddi ar gyfer eu gilydd, gwelir mai ufudd-dod mabaidd ydyw yr hyn y gwedditir am allu i'w roi yn "Gwneler dy ewyllys." Ac ufudd-dod y Mab i ewyllys ei Dad, ydoedd y moddion ordeiniedig i ddwyn y nefoedd i'r ddaear, ac i godi y ddaear i safon y nef. "Gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd." Dyma lwybr estyniad dyddiau. "Efe a estyn ei ddyddiau, ac ewyllys yr Arglwydd a lwydda yn ei law." Ac os am estyn ein dyddiau, yn y Ganaan well, rhaid i ni anrhydeddu ein Tad nefol trwy ddweyd "Gwneler dy ewyllys."

Ar yr olwg gyntaf y mae "Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol," a "Na ladd," yn ymddangos yn lled annhebyg ac amherthynasol. Ond ni raid sefyll yn hir uwch eu pen na welir yr edeu euraidd sydd yn rhedeg trwyddynt, ac yn eu cysylltu. Diogelu neu noddi bywyd ydyw amcan amlwg y gorchymyn a'r deisyfiad.

Yn y Gyfraith y mae wedi ei osod mewn gwedd nacaol, na ddylem gymeryd ymaith fywyd ein cyd-ddyn. Yn y Weddi gosodir allan, mewn gwedd gadarnhaol, ein rhwymedigaeth i gynorthwyo ein hunain, a'n gilydd i gael moddion angenrheidiol cynhaliueth bywyd. Ein bara bounyddiol, h.y. ein bara angenrheidiol. Golyga y gynhaliueth ag y mae yn amhosibl cadw bywyd hebddi. Felly yr un ydyw neges fawr y gorchymyn a'r deisyfiad. Ac wrth ddweyd EIN bara beunyddiol, yr ydym yn dangos ein bod yn gofalu am fywyd rhywun heblaw ein bywyd ein hunain. Yn y Gorchymyn gwelwn hedyn anhepgor pob Gwareiddiad. Ond yng Ngweddi yr Arglwydd y mae wedi tyfu i fod yn bren Dyngarwch, ynghangau yr hwn y nytha adar caredigrwydd a chymwynasagarwch.

Cadw bywyd ydyw amcan eithaf y Gorchymyn "Na ladd," a'r Deisyfiad "Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol."

Er nad yw y berthynas rhwng "Na wna odineb" a "Maddeu i ni ein dyledion," lawn mor amlwg â rhai o'r gorchymynion ereill, ni raid myfyrio yn hir uwch eu pen na welir fod yr un gwirionedd mawr yn y naill a'r llall. "Pechodau" ydyw y gair arferir yn y fan hon gan Luc. A phan gofir mai un o'r geiriau mwyaf arferol yn yr Hen Destament am bechod ydyw puteindra—gan olygu nid yn unig, nac yn bennaf, y pechod o aflendid, ond pechod fel y mae yn anffyddlondeb i Dduw—nid yw yn anhawdd gweled y berthynas. Yr oedd Duw, o'r dechreu, wedi dyweddio dyn iddo ei Hun ar amodau neillduol. Ond gellir dweyd am ddynion yn gyffredinol, "A'r rhai hyn, fel Adda, a dorasant y cyfamod." Torri priodas ydyw y pechod sydd yn rhoi y syniad goreu am bechod dyn yn ei berthynas â Duw. Heblaw bod yn Greawdwr. yr oedd Duw hefyd wedi dod i gytundeb priodasol â dyn. Yr oedd dyn i fod yn eiddo priodol i Dduw, mewn ystyr wahanol i bob creadur arall. Gwnaeth amod â dyn, yr hyn ni wnaeth âg un angel. Ond torrodd dyn y cyfamod, a ffurfiodd gyfeillach a chyfathrach anghyfreithlawn â'r

Diafol. Rywyd oedd modrwy y briodas gyntaf, a marwolaeth ydyw modrwy yr ail. Dwyn dyn yn ol i'r berthynas briodol & Duw ydyw amcan y Cyfamod Gras ymhob goruwchwyliacth. Amcan yr hen oruchwyliaeth oedd dwyn y genedl i gysylltiad priodasol & Daw. A dyma nod eithaf gweinidogaeth yr efengyl. "Y dydd hwnaw, medd yr Arglwydd, y'm gelwi Isai (fy ngŵr), ac ni'm gelwi mwy Baali (fy Arglwydd)." Tra yn gorfod cydnabod fy hawl arnat trwy fy ngalw yn Baali, ereill oedd dy gariadau; ynddynt hwy yr oedditi wedi ymserchu. Ond trwy fy ngalw Isai, neu fy ngŵr, bydd hynny yn ddangos fy mod wedi ennill dy gariad yn ol, yr hyn nas gallaswn ei fynnu trwy gyfraith." A phan yn cyfeirio at oruchwyliaeth yr Efengyl, dywed, "A mi a'th ddyweddiat & mi fy hun yn dragwydd, ie, ddyweddiat di & mi fy hun mewn oytiauwnder, ac mewn barn, ac mewn tiriondeb, ac mewn tragarwidau, a dyweddiat di & mi fy hun mewn ffyddlondeb, a thi a adnabyddi yr Arglwydd." Enw hoff yr Iesu arno ei Hun ydyw priodfah. A'r briodasferch, gwraig yr Oen, ydyw yr Eglwys. Y mae y ffigiwr hwn, heblaw bod yn un barddonol a thlwa, yn un c'r ymadroddion llawnaf o dduwinyddiaeth o holl eiriau y Beibl. Pan ddelai Paul at ddyfuderoedd mawr trefn yr Efengyl dyma ei hoff ffigiwr. "Am hynny y gŵd dyn ei dad a'i fam, ac y glŷn wrth ei wraig, a hwy a fyddant ill dau yn un enawd. Y dirgelwch hwn sydd fawr, eithr am Grist, ac am yr eglwys yr wyf fi yn dwedyd." "Canys eiddigus wyf trwmch ac eiddigedd duwiol: canys mi a'ch dyweddiats chwi i un gŵr, f'eh rhoddi chwi megis morwyn bur i Grist." "Canys dy briod yw yr hwn a'th wnaeth." "Canys fel gwraig wrthodedig a chystuddiedig o ysbryd y'th alwodd yr Arglwydd." Gan mai syniad cyffredin am bechod ymysg yr Iddewon oedd tŵr-priodas, y mae perthynas "Maddeu i ni ein pechodau," a "Na wna odineb," yn amlwg ar unwaith. Ac y mae dal y deisyfiad ar gyfer y gorchymyn, yn help i gael goleuni arno. Nid oes dim anhawddach gan ddyn ei faddeu, nag anffyddlondeb i'r cyfamod priodasol. Tra y mae yr Efengyl yn galw ar ddyn i faddeu pechodau ereill ddengwaith a thrigain seithwaith, nid yw Iesu Grist yn gofyn i ddyn faddeu y pechod hwn. Ond y mae yn cydnabod gwrethdarawiad y ratur ddynol yn ei erbyn, ac yn caniatáu ysgariad oblegid hwn, ac oblegid hwn yn unig. Bydd dweyd Maddeu i ni ein pechodau, a choſio mai pechodau o natur troseddiad y seithfed gorchymyn ydyw ein holl bechodau fel y maent yn erbyn Duw, yn help i ni weled mor anhawdd ydoedd i Daw faddeu i bechodur heb lawn, ac er gweled hefyd fod yr hyn sydd amhosibl gyda dynion yn bosibl gyda Duw. A bydd coſio hyn yn help i ni weled paham y defnyddir y gair dyled, yr hwn ni gredwn, oedd y gair a ddefnyddiodd Iesu Grist am bechod yn gyffredinol. Yr oedd dyn yn y dwyrain yn prynu ei wraig, fel y gwelir oddiwrth esiampl Jacob. Ac yr oedd y wraig a elai yn eiddo gŵr arall heb ollyngdod, yn lladrata eiddo ei gŵr, ac yn ei wario ar arall. Felly, heblaw y drwg moesol, yr oedd yn nyled ei gŵr mewn ystyr ariannol; am fod ei mynediad ymaith yn golled ariannol iddo, a chyn ei chymeryd yn ol yr oedd gan y gŵr hawl gyfreithlawn o ad-daliad ariannol. Ceir engraffit o hyn pan ddychwelwyd Sarah i Abraham gan Abimelech. Y mae "maddeu i ni ein dyledion," felly yn adain, "dyled priodas," oedd mor nodweddiadol o arfer y dwyrain.

Ac y mae yn awgrym hefyd o'r angen am Iawn, oblegid y mae yn amhosibl dileu dyled ond trwy ei thalu. Wrth gwrs, fe all un arall dalu trosom ; a dyma wnaed gan Iesu Grist. A phob tro y dywedwn "Maddeu i ni ein dyledion," fe ddylai hyn arwain ein meddyliau at y gŵr,

A dalodd yno swm ein dyled
A gwerthfawr waed ei galon friw.

A phan gofir mai Priodfab wedi ei siomi a'i gamdrin a wnaeth hyn, er mwyn dwyn yn ol o'i chrwydriadau yr un a ymddygodd felly tuag ato, y mae arian bathol Iawn Grist i'w clywed yn tincian yn soniarus, pa bryd bynnag y daw calon pechadur i gyffyrddiad â "Maddeu i ni ein dyledion." Wedi ychydig ystyriaeth, gwelir nad oes un ran o'r weddi yn asio yn well â'r rhan gyferbyniol o'r Deg Gorchymyn na "Maddeu i ni ein dyledion," a "Na wna odineb."

Mae "Na ladrata," a "Canys yr ydym ni yn maddeu i bawb sydd yn ein dyled," yn dangos ein rhwymedigaeth i barchu iawnderau ereill. Yn ol y gorchymyn, dylem fod yn ofalus i beidio cymeryd oddiar neb yr hyn sydd yn perthyn yn gyfreithlawn iddo ; y dylai pawb ereill gael eu hiawnderau : dyma genadwri y gorchymyn, "Na ladrata." Ond yn y frawddeg "Yr ydym yn maddeu i bawb sydd yn ein dyled," ceir yr un peth mewn gwedd arall. Yn ol hon, ni ddylem ddal yn rhy dŷn dros ein hiawnderau ein hunain. Ac yn gyffredin y mae parodrwydd i adael heibio, heb eu mynnu, y pethau a ystyriwn yn perthyn yn gyfiawn i ni, yn anhepgorol angenrheidiol rhag ein cael yn euog o ladrata yr hyn sydd yn perthyn yn gyfreithlawn i ereill. Y mae y ffordd y mae wedi ei osod yng Ngweddi yr Argwydd yn llawer mwy cydweddol ag ehangder ac ysbrydolrwydd goruchwyliaeth yr Efengyl. Os byddwn mewn ysbryd maddeu i ddynion, yr hyn a ystyriwn sydd yn perthyn yn gyfreithlawn i ni, yn sicr, nid oes eisieu dweyd wrthym "Na ladrata."

Deuwn yn nesaf at "Na ddwg gam-dystiolaeth yn erbyn dy gymydog." Y rhan sydd yn y Weddi yn cyfateb i hwn ydyw, "Nac arwain ni i brofedigaeth." Ni raid ond cofio mai ystyr profedigaeth yn y lle hwn yw tentasiwn, na welwn ar unwaith eu perthynas. Dygwyd y demtasiwn gyntaf o flaen dyn trwy ddwyn cam-dystiolaeth. Dywedodd Satan gelwydd ar Dduw, mewn trefn i hudo dyn i bechod. Ac y mae pob tentasiwn yn cynnwys elfen o gam-dystiolaeth am Dduw, am ddyfodol dyn, ac am wir ganlyniadau pechod. Yr oedd yr elfennau hyn yn y demtasiwn gyntaf, ac y maent mewn rhyw ffurf neu gilydd ymhob tentasiwn eto. Yn awr, os ydym yn gweddio o'r galon am beidio cael ein niweidio gan gam-dystiolaeth, trwy syrthio yn ysglyfaeth i demtasiwn, y mae rheol euraidd Cristionogaeth yn peri na bydd i ninnau, trwy ddwyn cam-dystiolaeth, hudo y neb y byddwn yn ei dweyd wrtho oddiwrth y gwirionedd, a'i osod mewn enbydrwydd i wneyd cam â'r un y byddwn yn dwyn cam-dystiolaeth yn ei erbyn, fel yr hudodd Satan Adda i wneyd cam â Duw.

"Eithr gwared ni rhag drwg," neu, fel y mŷn y beirnisaid ei darllen, "rhag yr un drwg." Ac ond troi at y gorchymyn olaf, cawn weled yr hyn a roddodd fod i'r Un Drwg. Chwennyech yr hyn nad oedd

Mae 'th ddyfroedd iach, mae 'th goed a'th fryniau ban,
 Mae 'th flodeu blýdd, mae sain dy gorneint byw—
 I gyd yn cyd-ddiddanu bron y claf,
 Gan daenu gwisg sirioldeb ar ei wedd.

LANWRTYD fwyn, anedde hedd wyt ti,
 Lle i anghofio gofid byd a'i gri ;
 I dafu beichiau trallod prudd i ffwrdd,
 Ac i ymgolli yngwyddfod swyn a chân.
 Hynawsedd, natur dda, a hedd dilyth
 Deyrnasant trwy 'th gyffiniau glwys o'r bron.
 Mae 'r dyfroedd clir fel yn atynnu pawb
 I gylch cyd-ymdeimladrwydd dwfn a phur ;
 Yn cydnawseiddio 'r oll, pob rhyw ac oed,
 O fewn i rwymyn aur brawdoliaeth dderch.
 Tymherau drwg, cynhennau o bob rhyw,
 A phob afiechyd geir ymhlith y bobl,—
 Nid oes un feddyginiaeth i'r rhai hyn
 Fel swn pistylloedd clir LLANWRTYD fach.

“ Yn hwy na hir ” parhaed lluoedd gwlad
 I gyrcu yno, er adfywiad nerth ;
 A'i chlodydd fyddo 'n uwch, o flwydd i flwydd,
 Tra 'r Afon loew 'n llifo tua 'r môr.

JOHN MYVENYDD MORGAN.

Y DIWEDDAR BARCH. REES JONES, FELINHELLI.

GWR nodedig oedd y Parchedig Rees Jones: “ y dyn mawr hwnnw,” fel y dywedai un o oreugwyr ein cenedl, pan glywodd am ei farwol-aeth. Dywedaiad priodol iawn am dano oedd hwn, oblegid yr oedd yn fawr ymhob ystyr.

Hwyrach nad annyddorol fyddai brasluniad byr o'i nodweddion, yn gorfforol a meddyliol. Meddai gorff cadarn a thrwchus; yr oedd ychydig yn dalach na'r cyffredin o ddynion, ac yr oedd yn amlwg oddi-wrth ffurf ei gorff, ei fod yn gryf iawn pan yn ei fan goreu. Yr oedd ganddo ben lled fawr, a'i wallt yn dechreu britho, a'i ffurf heb fod o'r dull cyffredin. Yr oedd yn fath neillduol o ran ei ffurf, a'i ermigau wedi eu hystorio yn dda, ac yn sefyll yn amlwg. Llawer gwaith y buom yn syllu gydag edmygedd ar ei ben. Nid oedd y talcen yn uchel iawn; ond yr oedd yn llydan a llawn, a'i ffurf yn hirgrwn. Yr oedd yr aeliau yn lled drymion, a thyfai arnynt ychydig o flew yr un lliw

â'r gwallt. Oddi tanynt llechai llygaid bychain, bywiog, treiddgar a chwareus, ac yn wastad fel pe byddent ar eu gwyliadwriaeth; a theimlid fod ei galon fawr garedig yn chwareu ynddynt mewn sirioldeb. Yno yr arferem edrych i wybod ymha dymer y byddai o ran ei feddwl; oblegid yr oedd dwy agweddiad yn perthyn iddo yntau, fel y rhelyw o'r ddynoliaeth. Os byddai y llygaid yn chwareus, a'r amrantau yn eu hanner guddio, byddai popeth yn dda; ond os byddai crychni yn y talcen, a'r aeliau yn trymhan, a'r llygaid oddi tanynt yn tremio yn sefydlog, yr oedd yn amlwg fod rhywbeth allan o'i le. Ei agweddiad naturiol oedd y cyntaf a nodwyd, ac yr oedd ei wên dyner yn fywyd lle bynnag y byddai. Yr oedd ganddo wyneb crwn, llawn, a naturiol; y trwyn yn tueddu at fod yn bantiog, gyda ffroenau yn tueddu at fod yn llydain. Y genau yn lled fawr, a'r gwefusau braidd yn dewion, a'r ên yn tueddu at fod yn llydan. Yr oedd y gruddiau yn drwchus, ac ychydig o gernflew o'r un lliw â'r gwallt yn tyfu o dan ei gernau. Y gwddf yn fyr, a thrwchus, ac yn cymeryd ei le yn naturiol ar ei ysgwyddau llydain a chyhyrog; a'i gorff trwyddo yn cyfateb iddynt o ran cyfartaledd. Symudai yn arafaidd a syth, ond eto yn hoew. Yr oedd ei safiad mor gadarn âg un o gedrwydd Libanus, a phan symudai yr oedd yn mesur ei gamrau, a gallai ddal taith lled hirfaith heb i hynny effeithio i wanychu nemawr ar ei natur gadarngreif. Yr oedd ei ddynoliaeth trwyddi yn iraidd a llawn, ac er ei fod yn drwchus, nid oedd hynny yn peri fod unrhyw fusgrellni ynddi. Cerddai gydag urddas, a byddai yr olwg arno yn ddynol yn ei holl symudiadau.

Yr oedd yn preswyllo yn y babell gadarn yma *ysbryd mawr*, ac yr oedd ei symudiadau yntau yn dwyn yr un nodweddion â'r babell y preswyliai ynddi. A pha ryfedd? Onid efe oedd yn achos o'r symudiadau? Yr oedd pob ysgogiad o eiddo y corff yn derbyn ei rym o honno ef. Urddas a mawredd yr ysbryd oedd ynddo, oedd yn gosod urddas a mawredd ar y corff a'i symudiadau. Y nodweddion amlycaf a berthynai i'r ysbryd hwn oedd *ehangder*, *cyflawnder*, a *nerth*. Yr oedd yn naturiol eang o ran ei alluoedd. Meddai ei feddwl gylch anghyffredin i droi ynddo. Yr oedd hyn ar unwaith yn rhoddi iddo safle uchel yn y dosbarth cyntaf o feddylwyr ei wlad a'i genedl; oblegid nŏd angen mawredd meddyliol yw ehangder, ac yn arbennig pan y byddo gan y cyfryw gyflawnder o adnoddau, i gyflenwi yr ehangder hwnnw, a nerth digonol i gario allan yr oll i amcanion teilwng. Yr oedd y tair elfen yma yn amlwg iawn ynddo ef, yr hyn oedd yn ei gyfaddasu i fod yn arweinydd diogel mewn byd ac eglwys. Adnoddau cynhennid ei feddwl oedd y rhai hyn, ac yr oeddynt yn rhoddi ei le yn naturiol iddo yug ngwahanol gylchoedd cymdeithas. Nid oedd ei dueddiad naturiol at gyhoeddusrwydd; yr oedd yn rhy fawr i hynny; dynion bychain, cyfyng a bâs sydd felly, y rhai sydd yn treulio eu holl fywyd i wyllo cornelau, er mwyn gosod eu hunain bob amser yn y golwg; ond yr oedd hynny yn ddirmygus yn ei olwg ef, ac nis gallai ei oddef. Yr oedd yr ehangder a berthynai i'w feddwl, yn peri ei fod yn awyddus am i bawb gael mantais i ddod ymlaen. Yr oedd yn nodedig yn hyn; ond pan fyddai ambell un, fel ceiliog dandy, gan ledi ei esgyll, a sawyr hunanoldeb yn ei gân, yr oedd yn annioddefol iddo; nis gallai oddef peth felly, ac odid fawr nad honno fyddai cân olaf y bychan hwnnw.

Elfen arall neillduol a berthynai i'w feddwl oedd *penderfyniad*. Arafaidd a phwylllog oedd ei symudiadau gyda phopeth; ond yr oedd yn symud er hynny. "Nid da, lle gellir gwell" oedd ei arwydd-air. Yr oedd yn symud ymlaen wrth farn bwylllog ac addfed. Ni fynnai wneyd hynny heb gymeryd golwg fanwl ar yr holl anhawsterau a'r manteision a berthynai i'r mater a ddygid ger bron. Mynnai edrych arno o bob cyfeiriad; yna ffurfiai ei farn, ac nid oedd yn bosibl ei symud oddiwrthi ond trwy resymau cryfach na'r rhai a feddai ef ei hun. Safai yn dŷn wrth ei resymau hyd nes y gwelai fod ei wrthwynebydd yn gallu dangos rhesymau cryfach; ac weithiau, daliai ei afael nes y penderfynid trwy fwyafrif y cyfarfod; ac er hynny, glynai wrth ei farn pan na byddai y rhesymau a ddygid yn ddigon cryfion. Ond er hyn nis gwelsom ef erioed yn digio ac yn monni, ac yn gwrthod gweithredu gyda mwyafrif ei frodyr. Yr oedd ef yn rhy fawr i hynny. Yr oedd ei benderfyniad yn gryf dros yr hyn a farnai oedd yn iawn, ac er i'w frodyr gredu yn wahanol iddo, eto yr oedd eu parch yn ddiderfyn bron iddo, am ei fod bob amser yn eu hargyhoeddi ei fod o ddifrif. Dadleuodd lawer yn erbyn y "Cyhoeddiadau pell": blwyddyn yn unig oedd ef yn ei ganiatau, ac ni fynnai addaw dim y tu allan i gylch blwyddyn; er iddo gael ei orchfygu aml dro ar y mater hwn, dywedai yn y diwedd, "Chwi gewch chwi weled eto mai myfi sydd yn fy lle." Dywedai hyn gyda gwen ar ei wyneb, ac mewn tymer dda.

Y mae y gwaith mawr a gyflawnodd yn dangos mawredd ei feddwl. Yr oedd cylch ei orchwylion bydol yn eang, pwysig, ac amrywiol iawn, ac ni fynnai mewn modd yn y byd eu hesgeuluso yn y gradd lleiaf. Yr oedd y gorchwylion hyn, yn ddiau, yn parlysu rhyw gymaint ar ddadblygiad adnoddau ei feddwl. Yr oedd yn amcanu gwneyd y goreu o'r ddau fyd, a gorchest fawr yw hynny, heb i'r naill neu y llall ormesu ar eu gilydd; ond yr oedd ei alluoedd ef yn gyfryw o ran nodwedd a maint, fel y safai yn uchel yn y ddau ystyr; ond beth pe y cawsai ei feddwl grymus y fantais o fyned ymlaen yng ngyfeiriadau y byd meddyliol? Pwy a all ddweyd y graddau uchel fuasai yn ei gyrraedd? Ymddisgleiriodd fel seren lachar ac amlwg iawn yn ffurfafen yr eglwys fel yr oedd; ond beth fuasai ei ddisgleirdeb yn y byd meddyliol, pe cawsai ei gyfyngu i'r byd hwnnw yn unig? Yr oedd ei feddwl yn gyflym ei welediad, a threiddgar iawn; ond yr oedd yn ochelgar i weithredu hyd nes iddo amgylchu y pwnc, a'i chwilio i'w ddyfnderoedd. Yr oedd ei syrwyry cyffredin cryf yn ychwanegiad pwysig at rym ac effeithiolrwydd gweithrediad ei alluoedd meddyliol. Anfynych y gwelwyd neb cryfach nag ef yn hyn, ac un rheswm yn ddiau am ei lwyddiant mewn byd ac eglwys, oedd yr ystorfa lawn a feddai o synwyr cyffredin. I hyn, i fesur helaeth, yr oedd yn ddyledus am y farn addfed a feddai ar bob pwnc neu achos a ddygid ger bron. Synnid ni gan yr afael a feddai ei feddwl i gymeryd i mewn wahanol agweddau pob mater a ddygid dan ei sylw; i ymsynied a chrynhoi materion dyrys i gylch cyfyng, clir, fel y gallasai rhai o amgyffredion llai feddu syniad am danynt. Yr oedd un arall o'i frodyr—y diweddar Barch. John Owen, Ty'n llwyn—yn debyg iawn iddo yn hyn. Yr oeddynt yn debyg, ac eto yn annhebyg. Yr oedd Mr. Owen yn fwy o

athronydd nag ef. Yr oedd yn gynhennid felly; dyma oedd nodwedd ei feddwl. Yr oedd yn anwrthwynebol fel ymresymwr. Treiddiai i wraidd y mater, ac yna, deuai i fyny o gam i gam, fel dyn yn dringo grisiau, a phob gris wedi ei sefydlu yn anwrthwynebol yn ol deddfas manylaf ymresymiad; a phan y gorffennai ei waith, yr oedd mor gadarn ac ansymudol â'r Wyddfa. Yr oedd yn feddiannol ar y fath allu i ddeffnio y gwir oddiwrt h y gau, a hynny mewn pethau bychain, a chyda'r fath oleuni fel yr oedd yn gallu cario ei wrandawyr gydag ef heb yn wybod iddynt eu hunain. Ond yr oedd Mr. Jones yn wahanol; ni byddai ef yn ymresymu yn ystyr arferol y gair, ac eto yr oedd yn gwneyd hynny, ond fod y cwbl yn fewnl. Y gallu i synied y pwnc yn ei wahanol agweddau, i dirnad y gwahaniaeth sydd rhwng y pethau y mae gwahaniaeth rhyngddynt, a hynny yn ei feddwl; rhyw synwyr moesol oedd yn gallu treiddio trwy holl anhawsterau y mater nes cael gafael ar yr hyn oedd iawn, oedd ei allu mawr ef. A phan dorrai allan i siarad ar y mater, rhyw ddau neu dri o osodiadau cyffredinol fyddai ganddo, a'r rhai hynny yn taflu goleuni ar y mater yn ei wahanol agweddau, ac felly yn cario argyhoeddiad llawn i feddyliau pawb ei fod wedi cael gafael ar y gwir. Gwelsom hyn yn cael ei ddangos yn hanes y ddau amryw weithiau mewn Cyfarfodydd Misoel gyda materion dyrys; y ddau yn unfryd unfarn yn eu dyfarniad, ond yn wahanol iawn yn eu ddull i gyrraedd y dyfarniad hwnnw. Yr oedd yr un peth i'w ganfod pan y digwyddai i'r ddau groesi cleddyfau ar unrhyw fater, er mai anaml iawn y digwyddai hynny; ond pan gymerai le, yr oedd eu nodweddion gwahaniaethol yn dyfod i'r golwg, y tebygrwydd a'r anhebygrwydd rhyngddynt. Yr oedd ymresymiad y naill yn gadwyn nodedig o eiriau cryfion, a'r rhai hynny wedi eu dethol yn ofalus a'u gosod yn y drefn oreu i gyfleu y meddyliau yn eglur, fel ag i rodidi yr argraff oreu ar eu meddwl, tra yr oedd y llall yn dwyn yr holl waith ymlaen yn anweledig ym myd y meddwl, yna yn cyflwyno *canlyniad* yr ymchwiliad hwnnw mewn geiriau eglur a diamwys: y ddau yn ymresymu,—y naill fel Paul, a'r llall yn fwy tebyg i Ioan, yn hoffi dwyn ei waith ymlaen ym myd ei feddwl, ac felly yn anweledig. Edrychid i fyny ato gan bawb, yn y gwahanol gylchoedd yr oedd yn troi ynddynt, oblegid y gallu arbennig i ffurfio barn addfed, glir, oedd yn perthyn i'w feddwl. Yr oedd yr un gallu yn fanteisiol iddo yn y byd meddyliol. Cymerai i fyny syniad, *germ* popeth i'w feddwl, yna, gwelai ef yn destyn ei fyfyrddod pan yn dilyn ei orchwylion. Ychydig o hamdden oedd ganddo i ddarllen, am fod gofalon ei fasnach yn gofyn am ei sylw parhaus; ac yr oedd mor gydwybodol fel na fynnai esgeuluso ei ddyledawyddau; ond pan yr ymgymera i darllen, yr oedd yn gwneyd hynny i bwrpas. Nid darllen i ddifyrru ei hun, darllen er mwyn adloniant, y byddai; ond darllen i gyfoethogi ei feddwl â defnyddiau i fyfyrion arnynt, tra yn dilyn gorchwylion ereill. Ac y mae yn deilwng i gofthau am dano, mai yr adegau mwyaf prysur arno gyda gorchwylion y byd hwn oedd ei adegau mwyaf ffurwythlawn mewn ystyr feddyliol. Y Beibl, yn bennaf, oedd testyn ei fyfyrddodau. Yr oedd yn gartrefol ar bob mater Ysgrythyrol. Yr oedd wedi ymgyfoethogi yn y gwirioneddau Dwyfol, a gallai wneyd defnydd hapus o honynt y pryd y mynnai ac yn ol yr amgylchiadau. Darllennai lawer ar yr hen Britan-

iaid—Dr. Owen, Howe, a Charnock. Yr oedd delw yr awdwyr hyn ar ei feddwl, a siaradai yn uchel am danynt. Ond y Beibl oedd ei brif lyfr, o phan fyddai mewn tymer dda iawn, yr oedd ei ddyfyniadau o hono yn nodedig, megis “afalau aur mewn gwaith arian cerfiedig.” Gwelsom gyfarfodydd yn cael eu trydanu gan ei ddull hapus yn gwneyd hyn.

Gan mai Gweinidog yng Nghyfundeb y Methodistiaid Oalfinaidd, fel y mae yn hysbys, oedd Mr. Jones, ceir y crybwyllion canlynol am dano yn *Nyddiadur* y Cyfundeb :—

Tachwedd 18fed, 1885, yn Nghyfarfod Misol Gatehouse, ger Bangor, tra yn y weithred o roi cyfarochiad doeth ar fater oedd dan sylw, bu farw y Paroh. Rees Jones, Porth Dinorwig. Wedi gorffen brawddeg, a thra y tybid ei fod yn chwilio yn ei feddwl am y frawddeg nesaf, gogwyddodd ei ben yn raddol, disgynnodd yn esmwyth i freichiau Llywydd ac Ysgrifennydd y Cyfarfod Misol, ac yn ebrwydd ehedodd ei ysbryd i fyd yr ysbrydoedd, o ganol ei frodyr a'i waith crefyddol. Yr oedd Capel y Gatehouse y bore hwnnw yn fangre wylofain a galar mewn gwirionedd. Er ei fod wedi cyrraedd oedran uchel, ymddanghosai yn llawer iawn oryfaoh na degau o'i frodyr ieuengaoh. Cafodd ei ordeinio yn y flwyddyn 1844, a bu yn pregethu yn lled agos i 50 mlynedd. Yn Abermaw y dechreuodd ar waith y Weinidogaeth. Symudodd i'r Felinheli yn y flwyddyn 1847. Yr oedd yn ŵr o feddwl grymus, yn un o'r Ysgrhythyrwyr cyflawnaf, ac yn Ddiweinydd o'r fath ddiogelaf. Yr oedd ei ofal am achos yr Arglwydd Iesu Grist yn fawr. Er nad oedd yn fugal, yn ystyr y blynyddoedd hyn o'r gair, eto cyflawnai y gwaith gydag ymroddiad oydwybodol. Dygai fasnach bwysig ymlaen fel llong-adeiladydd; ond ni chafodd hynny ddwyn ei fryd oddiar bethau teyrnas nefoedd. Er nad oedd ei draddodiad o'i bregethau yn cael ei nodweddau gan rwyddineb mawr, eto yn lled fynych, ac yn fwy mynych yn ystod y deng mlynedd diweddfaf, byddai ei weinidogaeth mewn mawr iawn. Yr oedd ef yn un o'r colofrau yn ei Gyfarfod Misol. Ymgynghorid ág ef ymhob achos dyrys. Cynrychiolodd ei Gyfarfod Misol am lawer o flynyddoedd ar Gyfeisteddfod Athrofa y Bala, a Chyfeisteddfod y Ganhadaeth Dramor, ac yn y Cymantfaoedd. Ac nid yn y Cyfarfod Misol y perthynai iddo yn unig yr oedd ei allu a'i werth yn cael eu cydnabod; yr oedd felly yn y Cymantfaoedd. Penodwyd ef i draddodi y Cyngor ar yr Ordeiniad yn y flwyddyn 1870, a hir y cofir gan amryw am y Cyngor hwnnw. Yn 1874 etholwyd ef yn Llywydd Cymdeithasfa y Gogledd, ac yn 1882 etholwyd ef yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol. Welw Arton erbyn hyn wedi colli yr olaf o'r oewri fu ynddi. Cofir am y cyfnod pryd yr oedd y Parohn. J. Jones, Talysarn; M. Hughes, Felinheli; J. Phillips, Bangor; D. Jones, Treborth; J. Owen, Ty'n-llwyn; B. Ellis, Yagoldy; Rees Jones, &c., gyda'u gilydd yn y Cyfarfod Misol. Erbyn heddyw welw yntau wedi myned!

Dyna y cofnodion a geir yn y *Dyddiadur*, ond y mae ychydig bethau yn ddiffygiol ynddynt ag y buasai yn dda gennym eu gwybod—megis, pa le y ganwyd ef, a pha bryd? Pwy oedd ei rieni? A pha bryd y dechreuodd bregethu? Gallwn grybwyll iddo gael ei eni yn Abermaw, ac mai yno y dechreuodd bregethu. Yr oedd ei fam, Mrs. Gwen Jones, yn un hynod o ran gallu meddyliol, ac yr oedd ei hymroddiad i grefydd yn ddihareb ymysg ei chyd-nabod. Diau i'r bachgen hwn dderbyn llawer ganddi, oblegid nis gallai bywyd fel yr eiddo hi lai na dylanwadu yn arhosol a bendithiol ar feddwl ei bachgen. Cafodd ddygiad i fyny crefyddol o'i febyd, a dywedwyd wrthym fod un yn dweyd ei fod yn cofio yn dda am dano yn sefyll yn sêd fawr hen Gapel y Bermo, am y tro cyntaf, i esbonio y bennod, ac i wneyd ychydig sylwadau arni. Cymerodd hyn le tua'r flwyddyn 1835. Bu yn y Weinidogaeth am tua 50 mlynedd, a chredwn na weithiodd yr un gweinidog perthynol i'r Cyfundeb ei ddiwrnod yn fwy gonest na'r gwas hwn i Grist.

Llanwodd ei fywyd & gwaith. Yr oedd achos crefydd yn Arfon yn ei olwg fel pe buasai yn achos iddo ei hun. Dilynai y Cyfarfodydd Misol gyda chysondeb, a phob amser disgwylid wrtho i gymeryd rhar yn ei drefniadau. A hir y bu cwyno am dano.

O'r rhestr o enwogion a enwyd uchod a fu yn cydweithio âg ef, y tri diweddfaf sydd yn fwyaf ffres ar ein cof—John Owen, Robert Ellis, a Rees Jones. A gellid enwi ereill o'r un stamp, megis, William Herbert, David Morris, Ieuan Gwyllt, Robert Roberts, Carnoldi, William Hughes, Talysarn, Hugh Roberts, Bangor, ac ereill. Y tri uchod oedd yr arweinwyr pan ddaethum i yn aelod o'r Cyfarfod Misol, ac â hwy y cefais fwyaf o gymdeithas, yr hyn a ystyriwn yn un o'r breintiau mwyaf a ddisgynnodd i'm rhan. Yr oedd i'r tri eu neillduolion. Yr oedd y cyntaf a nodwyd, yn ddyn anghyffredin iawn. Efe oedd John Foster Cymru. Yr oedd yn feddyliwr mawr, gwreiddiol, ac annibynnol, a meddai ddigon o wroldeb i gario allan ei benderfyniadau. Goeodai ei lygad bob amser ar ei nôd, ac ni fynnai er neb droi yn ol oddiwrtho. Os oedd diffyg ynddo hefyd, cadw ei lygad ar y nôd hwnnw yn unig, heb edrych ar dde nac aswy, oedd y diffyg hwnnw. Yr oedd yn feddyliwr trwyadl, ac felly yr oedd yn nesaf peth i amhosibl dwyn rhesymau fuasai yn ddigonol i beri iddo newid ei feddwl. Yr oedd yn ōr arghyhoeddiadau dyfnion. Credai, ac am hynny llefarai, ac nid oedd ball am resymau dros yr hyn a gredai oedd yn wirionedd. Dyn yn meddu asgwrn oefn cryf ydoedd, a gwnaeth ddaioni annhraethol yn ei oes. Yr oedd yn arwr mewn diwylliant cymdeithasol, moesol, a ohrofyddol.

Am yr ail, gellir dweyd ei fod yntau hefyd yn meddu neillduolion. Nid oedd yn efelychu neb; ond daeth allan yn unol â'i anianawd ei hun, yn hoenus, pert, a swta; eto yn dlws a naturiol yn y cyfan, ac yn yr ystyr hwn yr oedd yn gymeriad gwreiddiol. Nid mawredd meddyliol oedd yn ei wneyd yn gymeriad gwreiddiol; ond ei bertrwydd dihafal. Plentyn natur ydoedd, a thyfodd hyd y diwedd gan gadw ei neillduolion. Yr oedd yn sydyn a byrbwyll ar adegau, ac ambell waith llefarai yn arw; eisteddai i lawr yn swta, cyfodai drachefn yr un mor sydyn, gan alw ei eiriau yn ol. Yr oedd ei barch yn fawr gan yr holl frawdoliaeth. Yr oedd ganddo gymeriad crwn, cyfan, a phur, yr hyn oedd yn sylfaen a nerth ei ddefnyddioldeb. Yn yr ymarferol yr oedd cuddiad ei gryfder. Gweithiodd yntau ei ran yn dda, a theimlid bwlech mawr ar ol ei gollu.

Am y trydydd, gwrthrych y nodiadau hyn, yr oedd ef yn cyfuno cryn lawer o ragoriaethau y ddau arall ynddo ei hun. Yr oedd y cyntaf yn bwyllog iawn; ond yr oedd y pwyll hwnnw mor sefydlog fel nad oedd yn bosibl bron ei droi. Yr oedd yr ail, drachefn, yn fyrbwyll, ac felly yn gymharol hawdd dylanwadu arno; ond yr oedd y trydydd yn bwyllog, ac arafaid, a phenderfynol; ac os ceid rhesymau digonol, yr oedd yn barod i ildio a gwên ar ei wyneb. Yr oedd yn ddigon mawr i gymeryd ei godwm, heb ddangos ei fod yn teimlo dim. Y mwyaf o'r tri, a chymeryd popeth i ystyriaeth oedd yr olaf, ac ar y tir hwn yn ddiâu, yr ystyridd ef yn arweinydd y Cyfundeb yn Arfon. Yr oedd y ddau arall fel pe yn disgwyl iddo ef gymeryd y blaen, pan fyddai rhyw achos o bwys ger bron. Gwelsom ef rai troion yn bur hwyrffrydig i

wneyd hynny. Nid oedd yn honni dim; ond cael ei wthio ymlaen y byddai, a phan gyfodai, gwnai waith nad oedd eisieu ei ail wneyd.

Yr oedd yn gymeriad ardderchog ymhob ystyr—yn dyner fel baban, ac yn hollol ddiblygion. Ni wnai gam â neb, ac nis gallai oddef i neb arall wneyd cam â neb. Gwelsom ef, rai gweithiau, yn llym iawn; ond ni welid yr arwedd hon arno ond pan fyddai rhywbeth wedi cymeryd lle fyddai yn peryglu moesoldeb a chrefydd. Yr oedd yn anhawdd dylanwadu arno ond gan y gwirionedd. Meddai galon fawr, garedig, ac yr oedd yn hawdd anadlu yn ei gwmi. Yr oedd yn llawn o *humour*; ond yr oedd yn ofalus na adawai iddo redeg allan ond mewn cylchoedd cyfrinachol. Yr oedd yn un y gellid ymddiried ynddo, a'i gymdeithas yn adeiladol. Tynnai ddyn ieuanc allan i ddweyd ei feddwl heb yn wybod iddo ei hun. Yr oedd yn garedig iawn i ddynion ieuanc, yn enwedig os deallai eu bod yn ddirifrol yn eu hamcanion, ac yn penderfynu dyfod ymlaen. Cofus gennym glywed iddo unwaith fyned i Brynteg, Bethesda, ar fore Saboth mewn camgymeriad, ac yr oedd braidd yn ddiweddar arno yn cyrraedd yno. Daeth i mewn pan yr oedd y gŵr ieuanc oedd i fod yn rheolaidd yn y daith yn gweddio. Yr oedd ei ddyfodiad mor ddistaw fel na chlywedd y gŵr ieuanc ddim oddiwtho. Eisteddodd o dan y pulpud, ac felly yr oedd o'r golwg i'r pregethwr, ac ni wyddai ddim am ei ddyfodiad hyd nes yr oedd y gwasanaeth drosodd. Pan oedd y gynulleiddfa yn canu yr emyn ddiweddol, symudodd yntau yn arafaidd i'r golwg, ac yr oedd ei ymddangosiad i'r gŵr ieuanc fel ymddangosiad angel Duw. Nid ofn slafaidd oedd yn peri hyn, ond parch calon iddo; oblegid ni fynasai er dim geisio pregethu, a'r fath bregethwr yn eistedd i wrando arno. Ond yr oedd ef wedi cael y fath foddhad yn yr odfa fel y cafodd y gŵr ieuanc hwnnw le uchel yn ei feddwl hyd ei fedd. Y mae y gŵr ieuanc hwnnw yn fyw heddyw, a diau ei fod yn cofio yn dda y derbynriad siriol a gwynebaged a gafodd ganddo. Dywedai Mr. Hugh Jones—y diweddar, bellach, raid i ni ddweyd am dano yntau—yr hwn a fu yn flaenor gweithgar yn y lle, iddo ddweyd wrtho, gyda gwên serchog ar ei wyneb rhadlon: "Ni fydd y Cyfundeb Methodistaidd farw yn y wlad hon tra y bydd ganddo bregethwyr fel y gŵr ieuanc hwn yn esgyn i'w bulpudau." Nid yw hon ond un engraffft allan o lawer i ddangos ei garedigrwydd i ddynion ieuanc. Ni roddai dim fwy o foddhad i'w feddwl na chlywed fod dynion ieuanc y Cyfarfod Misol yn llwyddo fel pregethwyr. Yr oedd ei ofal am y myfyrwyr yn y Bala yr un mor aiddgar, a mynnych y clywsom ef yn annog yr eglwysi i wneyd casgliad da tuag at eu cynorthwyo yno i fyned ymlaen. Chwareuai gwên ar ei wyneb wrth roddi adroddiad, fel aelod o Gyfeistedd fod yr Athrofa, os digwyddai fod bechgyn Arfon yn sefyll yn uchel yn yr Arholiad. Mewn gair, edrychem ato fel plant at eu tad, ac yr oeddym bob amser yn ei gael fel y cyfryw.

Am ei fod yn naturiol yn ŵr o synwyr cryf, a'i galon yn uniawn ger bron Duw, yr oedd yn "ŵr o gyngor" bob amser, ac fel y cyfryw, byddai ei frodyr yn apelio ato, yn arbennig ar achlysuron neillduol. Yr oedd ei safle yn yr ystyr hon yn gyfryw, fel yr oedd ei farn yn cael ei gwerthfawrogi yn llysoedd uchaf y Cyfundeb. Ac er ei fod yn

cymeryd y dyddordeb mwyaf yn y llysoedd uchaf, nid oedd hynny yn peri iddo anghofio gwaith ei Gyfarfod Misol ei hun. Yr oedd felly hefyd yn ei eglwys ei hun, er nad oedd mewn cysylltiad bugeiliol â hi. Ond Cyfarfod Misol Arfon oedd y fan orau i gael golwg arno yn ei alluoedd fel arweinydd. Yma yr oedd ei gartref, ac yma y ceid golwg gyflawn arno. Bu yn llanw y cylchoedd pwysicaf yn y Cyfundeb, fel y dengys y crybwyllion a ddyfynnwyd; ond nid am ei fod yn awyddus am y swyddau, ond am ei fod yn cael ei osod ynddynt; ac weithiau yr oedd hynny yn cael ei wneyd o'i anfodd, am y credai y dylsai ereill ymroddi yn fwy i'r gwaith; ond wedi iddo ymgymeryd â swydd, yr oedd ei holl adnoddau yn cael eu dwyn allan i'w chyflawni. Nid oedd yn arbed trael na thrafferth i wneyd y gwaith. Yr oedd ganddo allu arbennig i ostegu cwerylon ac anghydfod. Yr oedd ei barch mor fawr yn yr eglwysi fel yr oedd yr ysbrydion hyn yn ffoi o'i bresenoldeb. Meddai wrthwynebiad pendant i fân bwyllgorau, am nad oeddynt i fesur mawr yn ddim amgen, yn ei farn ef, na "bwytywyr amser." Credai ef mewn gosod pob mater ger bron, a'i drafod yn gyhoeddus mewn cyfarfod o'r frawdoliaeth. Cofus gennym ein bod yn lletya yn ei dŷ, ac wrth ymddiddan am y naill beth a'r llall, daethom ar draws rhyw drefniant newydd oedd wedi dyfod i fod yn y Cyfarfod Misol—"trefniant y pwyllgorau" y galwai ef; ac wedi myned drostynt, gan eu henwi o un i un, dywedai mewn dull hynod *sarcastic*, fel y medrai weithiau, "Y mae eisio un pwyllgor eto." "Onid oes digon eisoes," meddem ninau, "os digon ydyw llawer." "Na," meddai yntau, "y mae eisio *un* eto," gan roddi pwyslais effeithiol ar y gair "un." "Beth fydd gwaith hwnnw?" meddem ninnau. "O," meddai, gyda winc chwareus yn ei lygad, "gwaith hwnnw fydd edrych ar ol yr holl bwyllgorau ereill!" Yna chwaredai yn galonnog. Ond, er nad oedd ei farn bersonol yn ffafriol i drefniant y pwyllgorau, eto yr oedd eang-frydedd ei feddwl y fath fel y cydweithredai yn galonnog gyda'i frodyr i ddwyn y gwaith ymlaen yn ei holl rannau.

Am ei fod yn ŵr o ysbryd ehangfryd, yr oedd yn naturiol iddo fod yn Rhyddfrydwr o ran ei egwyddorion, ac felly yr ydoedd ymhob ystyr. Ni bu neb ffyddlonach i'w Ryddfrydiaeth nag ef; er fod hynny yn peryglu llwyddiant ei amgylchiadau. Safodd yn wrol dros yr hyn a gredai oedd yn iawn, ac nid oedd dim a barai iddo gilio yn ol. Taniai ei ysbryd mawr wrth feddwl am i iawnderau dyn, fel dyn, gael eu gosod o dan draed. Yr oedd yn cyffroi drwyddo wrth feddwl am y posibilrwydd i hynny gymeryd lle; a dyrchafodd ei lais fel udgorn yn erbyn pob gorthrwm. Nid yn unig yr oedd yn annog pawb i sefyll yn gadarn dros eu hegwyddorion, ond yr oedd efe yn gweithredu felly ei hunan, er i hynny beri colled iddo. Yr oedd yn Rhyddfrydwr hyd y carn, ac nis gallai feddwl am ildio ei dir, beth bynnag fyddai y canlyniadau. Gwnaeth waith mawr yn y cyfeiriad hwn. Yr oedd yn arweinydd yn hyn, fel pob peth arall, a diau fod yr achos Rhyddfrydig yn ei Sir yn ddyledus i'w ynni brwdfrydig, mewn undeb âg ereill oedd yn feddiannol ar yr un ysbryd ag ef, am yr hyn ydyw yn awr. Yr oedd hefyd yn bleidiwr eiddgar i addysg rydd, a gwnaeth ei ran i ddwyn hyn i fuddugoliaeth. Cafodd pob symudiad oedd â thuedd ynddo at ddyrchafiad y ddynoliaeth, ac yn arbennig, y gweithiwr, bob

cefnogaeth ganddo. Yr oedd yn bleidiwr gwresog i'r fugeiliaeth o'r dechreu hyd ei fedd.

Am ei fod yn fyfyrwr manwl, cyson, a dwfn ar y Beibl, yr oedd yn dduwinydd mawr, ac fel y cyfryw yn un diogel i'w ddilyn. Nis gallasai astudiaeth o Lyfr Duw, gyda meddwl duwiolfrydig fel yr eiddo ef, lai na thyfu yn gryf ac iraidd o dan ei ddylanwad. Duwinydd o'r hen ysgol ydoedd. Yr oedd cylch ei ddarlleniad felly; ac yr oedd yr ymborth yn iachus a maethlon. Yr oedd wedi llanw ei feddwl & ffeithiau mawrion y Datguddiad Dwyfol. Yr oedd wedi darllen y Beibl yn ol trefn amseryddol, yr hyn oedd yn fantais at bennig iddo er cael gweled gwirioneddau Dwyfol yn cael eu geni i'r byd. Yr oedd myfyrdod ar y gwirioneddau hyn, wedi llanw ei feddwl & thoraeth o ddefnyddiau at y gwaith o bregethu yr Efengyl. Nid yn fynych y byddai ei bregethau o nodwedd bynciol, er ei fod yn ddiâu wedi darllen llawer yn y cyfeiriad hwn pan ydoedd yn ddyn ieuanc, oblegid dyna nodwedd gweinidogaeth y dyddiau hynny. Yn hytrach, yr oedd ei bregethau ef yn cael eu gwneyd i fyny o syniadau duwinyddol dyfnion ac aruchel, ffrwyth ei fyfyrdod; a'r rhai hynny yn cael eu gweithio allan yn ymarferol a chymwysiadol. Ni fyddai yn ysgrifennu ei bregethau o gwbl. Un yn unig a gyhoeddwyd ganddo, yr hon sydd i'w gweled, os ydym yn cofio yn iawn, yn *Lampau y Deml*. Pwnc y bregeth hon yw, "Arfaeth a bwriadau Duw yn cael eu gweithio allan yng Ngoruchwyliaethau Rhagluniaeth a Gras."

Yr oedd tueddffryd ei feddwl i fesur mawr yn y cyfeiriad hwn, ac yma y cartrefai o ran ei fyfyrdodau; ac yr oedd hyn yn ei alluogi i siarad ar wirioneddau hanfodol crefydd yn ardderchog, a hynny ar fyr rybudd. Ni feddai y duedd leiaf at yr hyn a elwir yn *conception* i'r bregeth. Y mae yn debyg mai un rheswm am hynny oedd, nad oedd yn ysgrifennu ei bregethau; ond hwyrach fod rheswm dyfnach na hwn yn bod, y rheswm oedd yn cyfodi o gyfansoddiad ei feddwl mawr. Un cyfandir o feddyliau disglair oedd ei bregeth, a'r rhai hynny yn cael eu cymhwyso yn ymarferol at feddyliau ei wrandawyr wrth fyned ymlaen. Nid oedd yn credu mewn cadw yr addysgiadau hyd ddiwedd y bregeth, fel y mae arfer rhai; ond yr oedd ef yn gwneyd y gwaith hwnnw pan yn traethu ar y gwirioneddau. Yn sylwadau arweinïol y bregeth hon, y mae yn agor y ffordd yn glir i'w destun mewn sylwadau craff a beirniadol. Dilyn egwyddorion y mae. Gellir dweyd am dano fel y dywedodd Eryron Gwyllt Walia am John Elias "ei fod yn palmantu y ffordd i'w destun & goleuni."

Ceir yn y bregeth hon ryw dri o bwyntiau cyffredinol. Gellir eu galw yn *land-marks*. Ac y maent yn rhoddi syniad i ni am y safle oddiar ba un y mae y pregethwr yn edrych ar ei bwnc. Wele ei eiriau:—

"Feallai mai un o'r profion cryfaf o fod y GREADIGAETH wedi ei gwneyd gan un anfeidrol ddoeth, ydyw ei threfn, a gwasanaethgarwch y naill ran i'r llall. Rhuf. xi. 33—34."

Y mae wedi crynhoi ei sylwadau ar y pwnc hwn i gylch bychan; ond y mae ei holl sylwadau yn emau tryloewon, a'r rhai hynny wedi eu prydferthu gan ymadroddion yegrythyrol. Yr oedd ei gydnabyddiaith â'r Beibl yn peri ei fod yn siarad adnodau heb yn wybod iddo ei hunan.

Yr ail bwynt yw : "Os edrychwn eto ar Oruwchwyliathan RHAG-LUNIAETH DUW, neu Lywodraeth yr Arglwydd ar y byd, yr ydym yn cyfarfod a 'dyfnder' mawr!"

O dan y penawd hwn eto y mae yn gwneyd sylwadau rhagorol, ac y mae yn egluro y gwirionedd gydag engrafft hanesyddol am fynediad teulu Jacob i'r Aifft a'u dyfodiad allan.

Y pwynt olaf yw : "Rhyw drefniant, neu gynllun mawr anfeidrol o eiddo y Duw mawr ydyw IACHAWDWRIAETH YR EGLWYS YN YR ARGLWYDD IESU GRIST."

Pregeth ardderchog yw hon, yn arbennig yn y sylwadau a wneir ar y pwnc olaf. Y mae ei darllen yn roddi syniad gwell am nodwedd a chyfoeth meddwl y pregethwr na dim a allwn ni ei ysgrifennu am dano. Ceir ynddi gyfuniad o'r tair elfen oedd yn nodweddu ei feddwl,—ehangder, cyflawnder, a'r gallu.

Yr oedd yn nodedig o hapus bob amser yn ei *illustrations* o'r Hen Destament i egluro a chymhwyso ei bwnc Rhoddai ei athrylith graf newydd-deb ar yr hanesion ysgrythyrol; teimlid hwynt fel yn newydd gan mor hapus a naturiol fyddai yr adroddiad o honynt, a'r rhai hynny drachefn yn rhoddi newydd-deb ac eglurdeb i'r pwnc fyddai ganddo o dan sylw. Yr oedd bob amser yn gyflawn o ran materion a syniadau; ond yr oedd weithiau yn hynod afrwydd a hwyrdrwm yn ei draddodiad, fel pe buasai heb feistrolï ei bwnc, heb allu ei ddwyn o dan ei reolaeth. Byddai yr adegau hyn yn feichus iddo ei hun, ac felly i'w wrandawyr. Yr oedd yn pregethu pregethau newyddion yn barhaus, a'r rhai hynny fel rheol, fyddai yn boenus iddo, am nad oeddynt wedi ymdoddi i fold ei feddwl yn ddigon llwyr. Ond bryd arall, byddai yn hollol wahanol; popeth yn ei le, ac yntau fel eryr craff, adeiniog, yn hofran yn hoenus mewn awyr ddigymylau, a llifeiriant o feddyliau yn lifo dros ei wefusau, gyda detholiad da o adnodau Llyfr y Salmau, neu rannau o broffwydoliaethau Esaiiah, fel awelon haf. Yr ydym yn cofio yn dda, am un o'r odfeuon hynny mewn Cyfarfod Misael yn y gymdogaeth hon. Yr oedd y bregeth mor lawn o feddyliau gogoneddus. "Dylanwad sancteiddiol yr Efengyl" oedd y pwnc. Dau ben oedd i'w bregeth—y dechreu a'r diwedd. Un cyfandir mawr ydoedd; ond O, mor gyfoethog o dlynsni oedd y golygfeydd oedd yn ymagor yn barhaus o flaen ein meddyliau; fel yr oedd pawb wedi eu llyncu i fyny yn gwbl ganddynt; a rhyw si dyner fel yr awel gyda'r nos yn yr haf yn ysgwyd y dail, yn treiddio trwy y gynulleidfa fawr, a phawb megis yn atal eu hanadl, oddieithr, pan yr oedd ochensidiau y diolch, a'r amennau yn dianc o galonnau oedd bron a byrstio gan ormod llawenydd. Yr oedd holl natur y pregethwr yn cael ei chynhyrfu ar adegau y noswith honno, a phwy all ddisgrifio y canlyniadau? Yr ydym yn tynnu y *curtain* i lawr gyda dweyd, O mor hyfryd ydoedd! Yr oedd llawer o debygrwydd ynddo i John Jones, Talysarn, o ran ansoddau ei feddwl. "Y tebyg sydd yn tynnu ei debyg," medd hen wireb; a diau mai hyn oedd y rheswm fod y ddau wedi cymdeithasu llawer â'u gilydd, ac y mae dylanwad gan gymdeithasiad i ddwyn meddyliau o'r un ansawdd yn fwy tebyg o hyd, yn ol graddau y cymdeithasiad. Yr oedd yr un elfennau yn perthyn i feddwl y naill a'r llall. Yr oedd elfennau yn y naill nad oeddynt yn y llall, o'r hyn lleiaf, na ddaethant i'r golwg. Yr

oedd Rees Jones yn sefyll yn llawer uwch fel trefnydd ac arweinydd yng nghyfarfodydd cyhoeddus y Cyfundeb na John Jones; ond hwyrach, fod yr un peth yn yr olaf, pa buasai angen am hynny. Yr oedd David Jones mor gyflawn yn hyn fel nad oedd angen i John Jones ofalu dim am drefniadau. Pa fodd bynnag, yn y pulpud yr oedd "yr hen Dalsarn" yn ei ogoniant. Yno, fel y dywedai Eben Fardd am un arall o'i frodyr,

Seraph o'r nef yn siarad
Oedd ei lun yn ngwydd y wlad.

Ond yr oedd Rees Jones yn fawr fel trefnydd, ac arweinydd, yn gystal ag fel pregethwr. A diau y buasai yn llawer uwch fel pregethwr, oni bai fod anghenraid arno i dreulio llawer o'i amser a'i adnoddau meddyliol mewn cyfeiriadau eraill. Addefwn fod graddau uwch o athrylith yn John Jones; oblegid yr oedd ef yn sefyll yn y rhestr flaenaf fel pregethwr—os nad y blaenaf yng Nghymru; ond yr oedd athrylith Rees Jones yr un o ran ei natur â'r eiddo yntau, er nad oedd bob amser yr un o ran ei disgleirdeb. Cafwyd rhai amlygiadau arbennig yn ei hanes—amlygiadau oedd yn gyfartal o ran disgleirdeb; ond ychydig oeddynt o'u cymharu â'r "hen Dalsarn."

Yr amlygiad mwyaf arbennig yn hanes Rees Jones oedd yr un yng Nghymdeithasfa Dolgellau, pan yn traddodi "Y Cyngor" i nifer o bregethwyr ar eu neillduad i holl waith y weinidogaeth. Hir gofir gan laweroedd am yr adeg honno. Yr oedd y Cyngor hwnnw yn nodedig ymhob ystyr. Yr oedd y mater a'i raniadau yn arddanghosiad o feddwl cryf, craff, a duwiolfrydig, a'i sylwadau yn rhagorol. Yr oedd ysbryd y pregethwr wedi ei lyncu i fyny gan ei bwnc, a'r *illustrations* yn odidog, a'r traddodiad o'r dechreu i'r diwedd yn llawn o ysbryd yr Efengyl; pob gair a brawddeg yn cymeryd eu lle yn naturiol; ac yn goron ar y cwbl, yr oedd "y peth byw" Dwyfol hwnnw yn cario dylanwad arno ef ei hun, y brodyr ieuainc a'r gynulleidfa, uwchlaw ei ddisgrifio. Ni fyddai byth yn ei oreu ond pan y cynhyrfid ef; a bu yr amgylchiad hwn yn foddion i wneyd hynny, ac y mae y canlyniad yn hysbys i bawb oedd yn bresenol yn y Gymanfa honno. Y pryd hwnnw, yr oedd adenydd ei athrylith mor gryffon fel yr esgynnodd i diriogaeth uchel hyawdledd llifeiriol ei hen gyfaill mynwesol o Dalsarn; a mawr oedd y siarad gan bawb—yn arbennig ei frodyr yn y weinidogaeth, ar ol hynny, "na byddai John Jones, Talysarn, ddim marw tra y byddai Rees Jones, Felinheli, yn fyw."

Ond, y mae yntau erbyn hyn wedi tewi, tewi yma am byth; na, os yw ef ei hun wedi ein gadael i fwynhau ei wobwr am ei lafur cyson, gonest, ac ymroddedig, y mae gennym ei fywyd a'i eiriau yn parhau o hyd yn y wlad, ac arhosant felly hyd y farn. Y mae yn ofid i bawb o honom nad oes dim o gynnyrch ei feddwl galluog wedi ei adael ar ol, i gyfoethogi llenyddiaeth ei genedl, ond yr hyn sydd yn aros yng nghof ei gydoeswyr. Ychydig iawn a ysgrifennodd i'r waag, ac ychydig a ysgrifennodd o gwbl. Dyma hanes dynion mwyaf Cymru, oddieithr ychydig eithriadau, ac yr ydym yn cwyno oblegid hyn; felly am dano yntau; ond er hyn, y mae rhywbeth yn aros, a rhywbeth ardderchog hefyd; y peth dwyfol hwnnw—dylanwad dirgel dwfn ei fywyd pur a'i

eiriau difrifol ; y mae hwn yn cyniwair o hyd, ac nid oes terfyn iddo. Y mae efe " wedi marw yn llefaru eto."

Wrth derfynu ein hysgrif, goddefer i ni ddwayd am dano, ei fod yn ddyd anghyffredin, a gwnaeth waith anghyffredin yn ei oes i'w gyfundeb ac i'w genedl yn gyffredinol. Yr oedd yn amddiffynnydd dewr, a didroi yn ol i egwyddorion rhyddfrydig, addysg rydd, a diwylliant cymdeithasol, moesol, a chrefyddol ei genedl ar hyd ei oes ; a bydd ei goffadwriaeth yn fendigedig.

G. TECWYN PARRY.

NODIADAU LLENYDDOL.

The Cambridge Bible for Schools and Colleges. The Book of Psalms, with Introduction and Notes. By A. F. KIRKPATRICK, D D., Fellow of Trinity College, Cambridge; Regius Professor of Hebrew. Books II. and III. Psalms xiii.—lxxxix. 8s. 6c.

MAE gwerth mawr yn y gyfrol hon eto, yr ail ar y Salmau, a ysgrifennwyd gan Dr. Kirkpatrick, Golygydd Cyffredinol yr Eboniadau ar yr Hen Destament a geir yng Nghyffres y *Cambridge Bible for Schools and Colleges*, at ba un bellach yr ydym droion wedi galw sylw ein darllenwyr. Fe dery ambell un o honynt yn chwth tod yr adran yma yn cael ei dynodi fel yn cynnwys " Books II. and III." Ceir eglurhad ar hynny yn y ffaith fod y Salmau yn cael eu rhannu yn Bum Llyfr. Yn y Midrash, hen esboniad Iddewig, feallai heb fod yn hyn yn ei ffurf bresenol na'r ddegfed ganrif o Oed Crist, dywedir:—" Rhoddodd Moses i'r Israellaid bum llyfr y Gyfraith, ac i gyfateb i'r rhai hyn rhoddodd Dafydd iddynt y Salmau yn cynnwys pum llyfr." Y mae awdurdodau llawer hyn hefyd yn cydnabod yr un rhaniad ; yr ydoedd yn bod cyn cyfleithiad y LXX., yr hwn sydd yn ei gynnwys, a chyfeirir ato gan y rhan fwyaf o'r tadau. Yn y Cyf. Diwygiedig Saesneg, fe'u nodir " Book I." " Book II.," &c. Cynhwysa y llyfr cyntaf Salmau i.—xli. ; yr ail, xlii.—lxii. ; y trydydd, lxiii.—lxviii. ; y pedwerydd, xc.—cvi. ; a'r pumed cwil—ol. Dynodir yr adrannau hyn gan benawdau neillduol yn y Midrash, a therfynir pob un gyda mawlwrs. Felly xli. 18, " Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Israel, o dragwyddoldeb a hyd dragwyddoldeb. Amen, ac Amen " Felly lxxii. 18, 19, " Bendigedig fyddo yr Arglwydd Dduw, Duw Israel, yr hwn yn unig sydd yn gwneuthur rhyfeddodau. Bendigedig hefyd fyddo ei enw gogoneddus ef yn dragwydd ; a'r holl ddaear a lanwer o'i'ogoniant. Amen, ac Amen." Felly lxxxix. 52, " Bendigedig fyddo yr Arglwydd yn dragwydd. Amen, ac Amen." Ac felly cwi. 48, " Bendigedig fyddo Arglwydd Dduw Israel ariodd ac yn dragwydd : a dywedod yr holl bobl, Amen. Molwch yr Arglwydd." Ni cheir yr un fawlwrs neillduol ar ddiwedd ol., ond y mae honno oll fel mawlgan yn derfyn i'r holl lyfr. Nid yw y mawlwrs hyn yn rhannau o'r Salmau lle y ceir hwynt, ac nid yw yn wybyddus gan bwy y gwnaed hwynt, ond y maent wedi cael derbyniad cyffredinol. Ceir yma yn y Rhagarweiniad ddyfalu cywraim am y rhesymau a barasant y rhaniadau hyn. A'r un modd ceir hefyd farn addfed a ohlir ar amryw gwestiynau dyddorol ereill a godant mewn cysylltiad â'r Salmau : megis eu teitlau, eu hawduriaeth, eu hamser, ffurf barddoniaeth Hebreig, y gobaith Messianidd, a duwinyddiaeth y Salmau. Am eu hawduriaeth, cymer yr awdwr dir cymhedrol a diogel. Am wahaniaethau mewn iaith ac arddull, ceir eu bod yn rhy w-inaid i ddal y pwys a roddir mewn beirniadaeth ddiweddar arnynt. Mae y gweddillion o farddoniaeth Hebreig o adegau neillduol sydd ar gael, yn rhy brinon i'w cymeryd yn safonau barn ; mae y nodau Massoretaidd wedi cuddio hen wahaniaethau dan gynhaniaeth unfurf amseroedd diweddarach ; a rhaid cymeryd

I'r cyfrif ddynwarediad o hen gynlluniau mewn amseroedd diweddarach. Ond tra yr oeddid gynt yn myned yn rhy bell wrth briodoli y Salmau oll i Dafydd, y mae gwrthweithiad amseroedd diweddar yn sicr yn myned yn rhy bell wrth eu priodoli oll, neu y rhan fwyaf o honynt, i gyfnod ar ol y Caethgludiad. Buasai yn rhyfedd pe na fuasai rhai o "ganiadau Seion" ar gael i'w canu i'r rhai a ofynnent am danynt ym Mabilon, ac y mae yn anesboniadwy sut y gallai yr eglwys Iddewig eu priodoli i Dafydd os nad efe oedd bardd crefyddol enwocaf y genedl, a sylfaenydd ei Salmyddiaeth. Y mae fod Salm xviii. i'w chael yn llyfr Samuel fel iddo Dafydd, yn taffu goleuni mawr ar y pwnc. Os efe a wnaeth honno, oni fuasai yn rhyfedd iddo beidio gwneyd llawer yn ychwaneg? Ac y mae delw y dwfn dduwioldeb, a'r tawel ymddiried, a'r diolohgarwoch a'r hyder, yn gystal â'r awenyddiaeth ddyrchafedig sydd yn nodweddu y ganiad ogoneddus hon, yn amlwg yn nodweddu llawer o'r lleill. Mae y Testament Newydd hefyd yn fynych yn cyfeirio atynt, ac ni phetrusa eu priodoli i Dafydd. Mae'n wir fod dynion da eraill wedi gwneyd eu rhan er ohwanegu at eu nifer, ac y mae yn dra dyddorol olrhain cymaint ag a ellir o hanes pob Salm ar ei phen ei hun; ond y mae y dyddordeb dynol sydd ynddynt oll, sydd yn apello at brofiad yr oesoedd, yn eu gwneyd yn gynysgaeth i ddynolryw sydd yn eu codi uwchlaw'r byd, ac yn eu cyfaddasu at ddyfodol gwell. Anhawdd fyddai cyfeirio at ddim a roddai o fewn cylch cryno y fath werthfawr help i astudio y Salmau ag a geir yn y gwaith hwn. Fe'i cwblheir mewn un gyfrol yn ychwanegol.

Esboniad Elfennol ac Eglurhaol ar yr Epistol at yr Ephesiaid, yn nghyda Rhagdraeth, Attodiad, a Holwadu. Gan y Parch. L. ROBERTS, D D., Pentre, Pontypridd. Wrexham: Hughes & Son.

Yn nechreu y flwyddyn 1891 cawsom yr hyfrydwch o alw sylw ein darllenwyr at Esboniad y Dr Robert ar yr Epistol at y Rhufeiniaid. Mae yn wir dda gennym ddeall i'r gwaith hwnnw gael "derbynriad helaeth gan y cyhoedd," yn gystal ag ennill "cymeradwyaeth ddigymysg y Wasg." Bu hynny yn galonddi i'r awdwr fyned ymlaen i efrdyd yn gyffelyb yr Epistol at yr Ephesiaid, ac ysgrifennu ar yr un llinellau yr Esboniad ar yr Epistol hwnnw sydd yn awr o'n blaen. Fel yn y llyfr arall, mae y gair "elfennol" yn enw y gwaith, yn golygu, nid *elementary*, fel y deallir y gair yn gyffredin, ond *analytic*, neu ddoctrannol. Yn hytrach na chymeryd yr ymadroddion ddaw o'i flaen ar eu pen eu hun, a cheisio cael allan eu hystyr felly ar wahân, ymdrecho i gael allan eu lle a'u cysylltiad neillduol yn ymresymiad neu feddwl yr Apostol, ac yn y ffordd honno i roddi eu gwir eglurhad. Ei amcan yn barhaus ydyw cael allan feddwl yr Apostol yn ol yr holl fantais a gaffo i'w gyrraedd, ac fel gwir esboniwr rhoddi hwnnw i lawr yn onest a chllir, heb deimlo dan unrhyw rwyman i'w gysoni âg unrhyw ragolygiadau y gallai ei fod wedi ei ddysgu ynddynt. Dywed ei fod "wedi darllen yn ofalus dros ugain o awduron wrth ddarparu y gwaith, ac amryw o honynt yn mhilith esbonwyr galluocaf yr Epistol." Mae ei lafur, mae yn amlwg, wedi bod iddo yn llafur cariad, a diameu iddo dalu yn dda iddo ef ei hun yn ei efrydiaeth o waith a alwai Coleridge "the divinest composition of man," fel yn ddiameu y gwna i bob un a astudia yr Epistol dan ei gyfarwyddyd. Ni allwn yma gyfeirio at y lliaws o bethau yn y gwaith o roddodd i ni lawer o foddhad; ond fel engraffit o'i bethau da, cymerer a ganlyn o'i Attodiad ar Fabolaeth Crist. Wedi crybwyll y golygiad fod yr ymadrodd Mab Duw yn cael ei ddefnyddio am dano yn sefyllfa ei ddarostyngiad, dywed:—"Ymraha teitlau y Gwaredwr, megis, Duw, Arglywydd, y Gair, Mab Duw, Mab y dyn, Crist, a Iesu, yn ddau ddoesbarth. Perthyna y naill ddoesbarth iddo yn ei sefyllfa raghanfodol, a'r llall iddo yn ei sefyllfa ddarostyngedig yn nglŷn â threfn iachawdwriaeth; a bu yn destyn dadl trwy yr oesau, ai i'r sefyllfa olaf y perthyna yr ymadrodd Mab Duw? Atebodd rhai yn ddibetrus y gofyniad yn gadarnhaol; ond ymddengys i ni fod y geiriau *danfonodd* a *rhoddodd*, a ddefnyddir am dano, yn broffion diamheuol fod Crist yn Fab Duw yn ei sefyllfa raghanfodol. Wrth ddarllen am Abraham yn anfon Eleazar ar neges drosto, ac yn rhoddi Isaac yn aberth, ni feddylia neb mai yr adegau hynny y daeth y naill yn was, a'r llall yn fab iddo, ond eu bod felly yn flaenorol i hynny; a gellid meddwl fod y geiriau, 'danfonodd Duw ei Fab,' a 'rhoddodd ei uniganedig Fab,' yn golygu fod Crist yn Fab Duw cyn i'r amgylchiadau a nodwyd gymeryd lle. Ond y mae Ioan, yr hwn a ysgrifennai ar ddwyfoldeb Crist yn gyferbyniol i syniad.

au Gnosticiaid, yn defnyddio term mwy penodol na Mab Duw am dano, sef *uniganedig* (*μονογενής*). Buasai perygl i'r Gnosticiaid, oddiwrth y term *Gair* (*Λόγος*), i dybiad mai un ydoedd o'r lliaws cyfryngau (*aeons*) a gredent eu bod yn datguddio Duw, oni buasai i Ioan ddefnyddio y term uchod, yr hwn a rydd arbenig-rwydd i Grist yn mhllth bodau ereill. Nis gall *anedig* fod yn cyfeirio at ei enedigaeath, nai adgyfodiad, nac at ei waith yn ymgymeryd & swydd, onide nis galleid cysylltu y gair *unig* âg ef; ac y mae yn amhosibl i'r gair *unedig* fod yn dynodi ei arbenigrwydd yn mysg bodau creuedig, onide nis galleid defnyddio y gair *anedig* yn nglyn âg ef. Rhaid fod y term cyfansawdd, *unig-anedig*, yn gosod allan berthynas rhwng y Tad a'r Mab gyffelyb i'r hon sydd rhwng tad a mab naturiol, ac felly unrhywiaeth natur. Er fod yr unig-anedig, fel rheol, yn wrth-rych hoffder neillduol y tad, nid oedd hawl gan Grotius, Wetstein, a Bloomfield, i ddal fod y term *unig-anedig* yn gyfystyr ag *amrylyd* (*ἀναμυλτός*); oblegid nid yw yr engreiphtiau a gynygiant o'r LXX. yn defnyddio y naill yn lle y llall, yn gywir. Ymddengys i ni y dylid cymeryd y term unig-anedig yn golygu unrhywiaeth natur y Mab a'r Tad; a thrwy hynny ei dragwyddol fabolaeth, yn gymaint ag fod ei ddwyfoliaeth yn dragwyddol. . . Y mae rhyw bethau yn nglyn â'r athrawiaeth o dragwyddol fabolaeth Crist, ag sydd o angenrheidrwydd uwchlaw ein dirnad-aeth; ond nid yw hynny yn rheswm dros ei gwrthod, gan ei bod wedi ei datguddio i ni yn yr Ysgrhythrau. Galleid disgwyl i'r datguddiad dwyfol gynwys gwirioneddau uwchlaw amgyffrediad dyn, tra yn y fuchedd hon, os daw i'w deall rywbrdy."

Beibl yr Ysgol Su!. *Llyfr Josua, yn cynwys Sylwadau Eglurhaol, ynghyd Chwestiynau at Wasanaeth Athrawon yr Ysgol Sabbothol ac Eraill.* Gan y Parch. GEORGE JONES, Llaneurgain. Dolgellau: E. W. Evans. 2a.

Y MAE Mr. Jones, fel llawer o'i frodyr, o'r dechreu, wedi cymeryd dyddordeb mawr yn yr Arholiad Ysgrhythrol a gynhelir mewn cysylltiad âg Ysgolion Sabbothol y Oorff crefyddol y perthyna iddo, ac wedi arfer ysgrifennu nodiadau ar y Gwersi er ymbaratoi at hyfforddi dosbarthiadau ar gyfer yr arholiadau. Wedi deall mai Llyfr Josua oedd i fod yn faes llafur y dosbarthiadau ieuengaf y flwyddyn hon, ymroddodd ar unwaith i'w astudio, gan ysgrifennu fel yr elai ymlaen, a chymerodd ei lafur y welir arno yn y llyfr hwn. Pan ddigwyddodd y llyfr ddyfod i'n llaw nid oeddem wedi olywed dim yn ei gylch, ac am nad oeddem yn digwydd gwybod nemawr am yr awdwr, ni ddisgwyliam lawer oddi-wrtho; ond wedi dechreu ei ddarllen deffrowyd ein dyddordeb, a bu raid i ni ddarllen llawer mwy nag a fwriadem, ac nid allem lai na theimlo mawr foddhad wrth weled fod y fath lyfr wedi ei gyhoeddi. Y mae yn waith tra gwerthfawr. Mae yr awdwr wedi darllen yn dda ar ei fater, ac wedi meddwl ei bethau i addfedrwydd dymunol; y mae hefyd wedi ysgrifennu yn oleu a dealladwy. Hyderwn fod llawer, yn neillduol o athrawon ac athrawesau ein dosbarthiadau ieuengaf, yn gwneyd defnydd da o honno. Fel engrafft o'i onestrwydd yn wynebu anhawterau a ddaw yn ei ffordd, yn lle eu hosgoi, cymerer y sylw a ganlyn ar safiad yr haul a'r lleuad (x. 13):—

Mae anffyddwyr a gelynon y Beibl wedi gwneyd defnydd helaeth o'r geiriau hyn, a diwedd yr adnod flaenorol, fel prawf fod y Beibl yn ddsu yr hyn sydd yn groes i wirionedd. Mae Josua yn galw ar yr haul i aros, oddiar y dybiaeth fod yr haul yn troi o amgylch y ddaear, tra, mewn gwirionedd, mai y ddaear sydd yn troi o amgylch yr haul. Ond dylid cofio nad yw y Beibl yn profesu o gwbl ddsu seryddiaeth. Nid hyny yw ei amcan. Mae yr ysgrifenydd sanctaidd yn cofnodi'r ffaith, fel yr ymddangosai iddo ef, ac fel y deallid hi gan yr oes yr oedd yu byw ynddi. Y syniad ar y pryd, ac am ganrifoedd ar ol hyny, i lawr hyd amser Copernicus ydoedd, mai yr haul, ac nid y ddaear sydd yn symud. Pe llefarasai Josua wrth y ddaear am aros, ni buasai neb yn ei ddeall, a'r tebygolrwydd yw, na wyddai yn amgen ei hun. Ond os nad ydoedd ef yn ddigon o wyddonwr i ddeall treu a symudiadau yr haul a'r planedau, yr oedd Duw yn deall neges ei weddi, ac y mae yn raslawn yn ei hateb. Wedi'r cwbl, nid oes dim yn fwy aumhriodol mewn galw yr haul i aros a'r lleuad i sefyll, nag sydd yn ein dull ni yn bersonol [bresennol] yn siarad am yr haul a'r lleuad yn oodi ac yn machludo. Mae amrywiol farnau o berthynas i wir ystyr y geiriau hyn. Myn rhai fod pwys mawr i'w roddi ar y ffaith mai dyfyniad barddonol yw y geiriau, ac nad ydynt, mewn gwirionedd, yn golygu ond yn unig fod yr

Arglwydd wedi nerthu meibion Israel i gwblhau eu gwaith o fewn terfynau'r goleuni naturiol. Erall a dybiant fod y dydd yn ymddangosiadol wedi ei estyn dros ei derfynau arferol, ond fod hynny wedi ei ddwyn oddiangyloch, nid trwy ymyriad & symudiadau'r haul a'r lleuadau yn eu cylchdro, ond trwy ryw gyfryngiad gwyrrthiol o eiddo'r Arglwydd yn peri fod goleuni adlewyrchiadol yr haul yn aros ar y ddaear ar ol ei fachludiad, a bod hefyd ddarlun o wyneb yr haul yn aros mewn owmwl uwch ben Gibeon. Yn ol y golygiad hwn, mae'r hanes yn wirionedd yn unig mewn ymddangosiad. Prin, ni a dybiwn, y bydd neb o'n darllenwyr yn barod i dderbyn y naill na'r llall o'r golygiadau a nodwyd. Y gol-giad cyffwrdd, a'r unig olygiad yn ol ein barn ni sydd yn cynnwys gwir ystyr yr hanes, yw fod yr haul wedi aros; neu fel y buasai yr hanesydd sanotaidd yn ysgrifenu hanes y ffaith yn ngwyneb dargau-fyddiadau a wnaed wedi hwy yn y gyfundrefn heulog—ddarfod i'r ddaear beidid troi ar ei phegwn am ddiwrnod cyfan, fel yr oedd yr haul mewn canlyniad yn ymddangos fel wedi sefyll. Dywed rhai philosophyddion y buasai hynny yn arwain i ganlyniadau pwysig trwy i wahanol ranau'r greadigaeth ddyfod i wrthdarawiad â'u gilydd. Beth, a oes dim yn anhosiol i'r Arglwydd? Ai ouid efe a wnaeth y owbl? Ai onid yw yn meddu llywodraeth berffaith ar bob rhan o'r greadigaeth? Dywed y diweddar Esgob Watson o Landâf ("An Apology for the Bible," page 47), fod peiriant y greadigaeth yn hollol yn llaw Duw, y gall efe atal unrhyw ran neu yr oll gyda llai o drafferth nag y gall neb o honom ni atal oriauwr (*watch*) yn ei gwaith. Mae yn amlwg mai gwyrrthiau o'r un natur ydoedd y tywyllwch am dri diwrnod yn yr Aifft, yr haul yn myned ddeg o raddau yn ei ol yn arwydd i Hezeiah o adferiad, y seren yn arwain y doethion o'r dwyrain i Bethlehem, a'r tywyllwch ynglyn â chroesoeliad Orist; ac i fod yn gyson, os ydym am wadu un, dylid gwadu yr oll. Yn unol â'r golygiad hwn ar nodwedd wyrthiol yr hanes, tybir y rhaid fod y dydd yn wyth awr ar hugain. "Dyma," fel y sylwa Fuller, "oedd y diwrnod hwyaf a welodd nac a wel y wiad hono byth, pan esgorodd amser ar efeilliaid—dau ddiwrnod yn olynol heb nos i gyfryngu rhyngddynt."

Yr Yspryd Glân yn yr Eglwys. Pregeth Dalaethol Gogledd Cymru, 1895.
A draddodwyd yn Ngholwyn Bay, Fforeu Iau, Mai 9fed; ac a gyhoeddwyd yn unol â phenderfyniad y Cyfarfod Talaethol a gynnebid yno ar y pryd.
 Gan WILLIAM HUGH EVANS.

DARLLENASOM y bregeth ragorol hon gyda hyfrydwoh. Da y trefna ein brodyr y Wesleyaid fod pregeth arbennig o'r fath yma, ar un o bynciau mawrion y Ffydd, yn cael ei thraddodi yn eu Cyfarfod Talaethol, ac mewn canlyniad yn cael ei chyhoeddi er budd cyffredinol. Mae mater hon yn deilwng ac yn amserol. Y testun ydyw Eph. ii. 22, "Yn yr hwn y'ch cydaddeiladwyd ohwithau yn breswylfod i Dduw trwy yr Yspryd." Oddiw'rth Gyf. Diwyg, y gair blaenorol, "Yn yr hwn y mae pob gwahanol adeilad, wedi ei chymwys gydgysylltu, yn cynnyddu yn deml sanotaidd," y mae yn cael fod pob Eglwys neillduol yn rhan o'r un Gyffredinol; ac nid yn unig hynny, ond fod Eglwysi Enwadol ein dyddiau ni yn dyfod o fewn yr un dosbarth, ac mai gormod fyddai i neb geisio sicrhau nad oes dim ond gwahanol wledydd, neu wahanol ddinasoedd, neu wahanol genhedloedd yn ddigonol raswn dros fodolaeth gwahanol Eglwysi Duw. "Gan fod meddwl dyn fel y mae, a'i amgylchiadau yn y byd y pethau dydent; a chan y rhoddwyd y Beibl i ni fel y mae, yn llyfr o egwyddorion, cynwysedig mewn dadganiadau, mewn hanesion am amgylchiadau naturiol a goruwchnaturiol; mewn damegion, mewn epistolau; mewn anogaeth a chyngor, mewn profiad a gweddi, mewn araeth a phregeth a chân, ac nid mewn erthyglau wedi eu cyfansoddi yn fanwl-gwyfreithiol; pwy sydd yn myned i brofi fod yn rhaid i bawb edrych ar bob owestiwn dduwinyddol yn union o'r un safle, ac yn hollol yr un fath; neu weithred yn mhob peth wrth yr un fuff o reolau? Pwy sydd yn myned i brofi fod Eglwysi Enwadol yn anghyfreithlon, yn afresymol, yn antifateisiol? Nid wyf yn dadleu dros amlhau enwadau, nid wyf yn cynyg cyflawnhau nac amoddiffyn oulni, rhagfarn, a drwgdeimlad enwadol. Ond, yn mha le bynag y mae *saint*, a *fyddlon frodyr yn Nghrist Iesu*, mewn cymundeb â'u gilydd, fel y rhai yr ysgrifennai Paul yr Epistol hwn atynt, mae yno Eglwys i Grist." Pan gofr fod y bregeth yn cael ei thraddodi yn addoldy enwad arall, fe deimlir fod y sibioloeth uchod yn swnio yn well fyth. A chymaint yn nes i ysbryd yr Efsangyl ydyw hyn na'r oulni a ymfroestia yn gymaint mewn Unfurfaeth, Unfurfaeth nad ydyw ond cylch allanol, tra yn cynnwys o'i fewn, nid yn unig y fath llaws o wahanol olygiadau, ond hefyd y fath anghydfyddiaethau anghymodlon, ac yn

dangos, a defnyddio brawddeg fawr y *Times* ar ol Congress Exeter, "Pa mor fawr bynnag ydyw y gwahaniaeth rhwng Eglwys Loegr a'r gwahanol gyfundebau Ymneillduol y tu allan iddi, nad ydyw ond fel dim o'i gymharu a'r gagendor nad ellir myned drosto sydd rhwng y gwahanol bleidiau o fewn yr Eglwys ei hunan."

Straeon y Pentan. Gan DANIEL OWEN, Awdwr "Rhys Lewis," "Enoc Huws," &c., &c. Wrexham: Hughes & Son. 1s.

Drwg iawn gennym, a drwg gan llaws mawr o oreugwyr ei genedl ddeall fod Mr. Daniel Owen wedi bod am gryn amser dan gystudd lled drwm. Hyderwn yn fawr y bydd yn fuan yn cael ei lawm adfer. Y mae efe, trwy ei ysgrifeniadau, wedi rhoddi i'w genedl lawer o fwynhad diddan, tra hefyd yn gweini iddynt addysg werthfawr mewn doethineb a daioni. Ni ysgrifennodd air a dueddai yn y radd leiaf i lygru neb; a diameu fod llawer, a deimlassant fod dyddordeb ei ohwedlau yn eu gwneyd yn garoharion, wedi profi hefyd fod y casineb a enynnid yn eu mynws at ei gymeriadau drwg, ac o'r oohr arall, yr edmygedd a'r cariad a'u meddiannai yng nghymdeithas ei bobl dda a thirion, yn gadael arnynt argraff o ddaioni ag oedd, yn ddjarwybod iddynt, yn eu gwneyd yn fwy pur ac yn fwy hawddgar. Ni fyddai raid i filoedd ond cael y llyfr hwn i'w llaw, na theimlent fod yr rhaid iddynt fyned trwyddo, ac wedi gwneyd hynny ni fyddai fawr o amheuaeth na fyddent yn "llawenyohu am y diddanweh." Mae y *Straeon* yn cael eu dweyd wrtho gan ei "Ewyrth Edward." hynafgwyr teilwng ag y ceir ei lun ar y clawr yn eistedd yn dawel ar y setl wrth dân braf, ac yn dal piball hir yn ei law, tra yn traethu ei ohwedl wrth ei nai, yr hwn sydd a'i ddwy law dan ei ên ac yn glust i gyd yn gwrandao arno, a chath wrth ei draed bron mor fyw ei sylw ag yntau. Deallwn fod y rhan fwyaf o'r pethau y cyfeirir atynt yn feithlau sydd yn wirioneddol wedi cymeryd lle yng nghymydogeath y Wyddgrug, er fod celfyddyd eu dodiad wrth eu gilydd yn batent arbennig i Mr. Daniel Owen. Yr oedd ysgrifennydd mewn newyddiadur Seisnig y dydd o'r blaen yn canmol ohwedl "William y Bugail" fel un o'r *best conceived stories* y gellid meddwl am dani. Ond olywsom yr awdwr teilwng ei hun yn siorhau nad oedd dim dyfeisio ar ei chyfyl, ond fod yr amgylchiad tra dieithriol y sonia am dano wedi cymeryd lle yn llythrennol fel y dywedir. Nid ydyw ond un o'r myrddiwn o bethau sydd, er maint ein hymffrost, yn dangos fod cylch ein hanwybod yn llawer ehangach na chyloch ein gwybod.

There are more things in heaven and earth, Horatio
Than are dreamt of in your philosophy.

Ni wiw ceisio cyfeirio at y *Straeon* hyn bob yn un, ac anhawdd cyfeirio at rai o honynt pan y maent oll mor ddyddorol. Yr ydym wedi eu darllen oll, a hyderwn y bydd llawer o'r Cymry mwynion yn gwneyd & hwy eu hunain y car-edigrwydd o fynnu cyfranogi o'r un mwynhad ag a gawsom ninnau wrth fyned drostynt. Adferiad buan a hir oes i Mr Daniel Owen!

Elfenau Athroniaeth Foesol. Gan y Parch. JOHN JONES, Tuebrook, Liverpool. 1s.

Os

Priodol efryd dynolryw yw dyn,

fel y ceir ers llawer bliwyddyn yn y TRAEHODYDD fod un o feobgyn yr Ysgol Frytanaidd wedi cyfieithu llinell enwog Pope, ac os

O'r nef y daeth i lawr, ADNEBYDD DY HUN,

y mae y byd o ystyr a dirgelwech sydd yn gorwedd yn ein natur fossol, yn sior, yn deilwng o'n hystyriaeth a'n hastudiaeth fwyaf dyfal. Ac wrth feddwl brinned y cynorthwyon sydd eto yn y Gymraeg at efrydu y gangen bwysig hon o wybodaeth, ni allwn lai na llawenhau o weled y llyfr hwn yn dyfod i'n llaw. Wedi ei ddarllen, er ein bod o'r blaen yn meddwl yn uchel am allu a meddylgarwech ei awdwr, y mae ein llawenydd yn fwy fyth o fod ein cydwladwyr yn cael cynorthwy mor werthfawr i efrydu cangen o wybodaeth o'r fath bwys ac o'r

fath ddwfn ddyddordeb. Cymerir mai amon athroniaeth foesol ydyw "cael allan reolau cyffredinol ymddygiad doeth a rhinweddol mor belled ag y gellir darganfod y rheolau hyn yn ngoleuni natur, . . . trwy ymohwiliad i egwyddorion y cyfansoddiad dynol, a'r amgylchiadau yn mha rai y gosodwyd dyn." Ond fel y gallesid disgwyl, fe geir fod y ddysg a enillir felly, nid yn unig mewn perffaith gynghanedd â'r hon sydd wedi dyfod i lawr atom oddiwrth Awdurdod Uwch, ond hefyd yn dangos yn fwy eglur y dirfawr werth a gogoniant sydd yng ngeiriau yr Hwn a'n gwnaeth ar ei ddalw, ac a w'yr mor dda "beth sydd mewn dyn" Mae yr awdwr wedi astudio yn dda y gwahanol gyfundrefnau sydd wedi eu cynnyg i esbonio y cwestiynau mawrion sydd yn codi ynglŷn â Moeseg, ac y mae hefyd yn ofalus i'w gosod ger bron yn oleu ac yn berffaith deg. Ond wedi gwneyd hynny y mae yn cael, ac mewn dull sydd yn dra thebyg o gario gydag ef argyhoeddiad ei ddarllenlydd ystyriol, fod y gwirionedd yn gorwedd mewn rhyw haen ddyfnach o feddwl, sydd yn cymeryd i mewn, nid yn unig y manteision arwynebol y mae llawer mor barod i aberthu popeth er eu mwyn, ond hefyd egwyddorion tragwyddol ag y teimlir fod popeth yn pwysu arnynt. Fel yma yr esbonia yr anhawster ynglŷn â'r Gydwybod, a bâr i lawer gadag ei bodolaeth: "Ond y mae y ffaith f'nd dynion yn mhob man yn cydnabod *rhyw* ddyledswyddau yn profi fod ganddynt synwyr moesol drwy yr hwn y maent, er yn anmherffaith, yn cydnabod ansoddu moesol gweithredoedd. Pe bae un o herwydd gwendid ei lygaid, yn analluog i weled ond ychydig iawn, os gallai weled o gwbl, byddai hynny yn brawf digonol fod ganddo lygaid i weled. Ffolineb a fyddai ceisio profi oddiwrth wendid ei lygaid ei fod yn amddifad o'r gallu i weled. Mae gwahaniaeth mawr rhwng cydnabod anmherffeithrwydd y gydwbybod a gwadu ei bodolaeth." Draohfn: "Ond nid ydys yn golygu fod y gydwbybod ei hun, yn annibynol ar alluoedd ereill y meiddwl, yn gallu gwneyd y gwaith a roddwyd iddi. Cyn y gall weithredu, rhaid iddi dderbyn goleuni oddiwrth y deall a'r rheswm. Gall y ddau osoddiad, sef mai y gydwbybod sydd yn barnu amodau moesol gweithredoedd, ond nas gall wneud hyn heb dderbyn goleuni oddiwrth alluoedd ereill, ymddangos i rai yn anghyson; eto nid oes un gradd o anghysondeb gwirioneddol rhyngddynt. Pan y chwilia barnwr mewn llys gwladol i gyhuddiad yn erbyn un, rhaid iddo gael yr holl ffeithiau, yr hanes yn fanwl am yr amgylchiadau gan y tystion, pa mor gyfarwydd bynag a fyddo ef yn y gyfraith. Nid ydyw ei wybodaeth ef yn y gyfraith yn ei gynysgaethu â'r amgylchiadau. Wedi eu cael, cyhoedda gyda'r awdurdod a berthyn i'w swydd fod ymddygiad y cyhuddedig un ai yn unol â'r gyfraith, neu yn groes iddi. Ganddo ef y mae yr hawl i ddweyd pa un a yw yr hyn a wnaeth y caroharor yn drosedd ai peidio; ond rhaid iddo gael rhai o'r defnyddiau i ffurfio ei farn gan ereill. Gosoda y galluoedd deallol yr amgylchiadau o flaen y gydwbybod, a dyna'r oll a allant ei wneyd. 'Wedi i'r holl amgylchiadau a pherthynasau ddyfod yn wybyddus,' medd Hume, 'nid oes lle i'r deall weithredu yn mhellach. Nid os ganddo mwyac, ddim i'w wneud'"

Welsh Nationality. By C. E. BREESE. Carnarvon: Welsh National Press (Limited). 6c.

YMDDENGYS fod y llyfr hwn wedi ei fwriadu i roi syniad i'n cydwladwyr am y gwaith oedd ganddynt i'w wneyd yn baratoawl i etholiad ag y golygid nad allai fod ymbell; ond fe ddaeth yr etholiad pan nad oedd neb yn ei ddisgwyl, a ohyn fod yn bosibl i'r ystyriaethau a osodir yma ger bron allu bod o nemawr, os dim gwasaenaeth ar ei gyfer. Y mae y llyfr, er hynny, yn cario gydag ef neges bwysig, a da fyddai i Gymru oll ei gosod at ei ohalon. Nid oes yr un wers ag y mae y TRAEHTHODYDD o'r dechreuad wedi ei dysgu yn fwy dyfal nag y dylai y Cymry tiriion ymysgwyd oddiwrth y gwasaidd-dra ag yr oedd eu hamgylchiadau anfodrus wedi eu darostwng iddo, ac ymgodi, yn y goleuni oedd yn llewyrchu arnynt, i honni ac ymarfer eu hawliau cyfiawn fel deiliaid o Lywodraeth Prydain. Mae cyfnewdiad mawr yn yr ystyr yma eisoes wedi cymeryd lle. Ni raid mynd yn ol yn agos mor bell a'r "amser gynt pan oedd Bess yn teyrnasu," i weled

Faint y cyfnewid yn awr sydd yng Nghymru.

Yn lle bod ychydig o w'yr mawr yn trefnu gyda'u gilydd sut yr oedd pethau i fod, ac yn rhoddi gair i'w dilynwyr i ddangos pa fodd y disgwylid iddynt weithredu mewn trefn i gario allan ddymuniaidau "eu gwell," y mae corff mawr o werin

ein gwlad, erbyn hyn, yn darllen y papurau ac yn cymeryd dyddordeb llawn mor ddeallus mewn helyntion cyhoeddus â'r rhai sydd uwchlaw iddynt, os nad llawer mwy felly, ac yn ddiagon gwrol i weithredu yn ol eu harghyhoeddiadau. Y mae "y ddinasfraind hon" wedi costio yn ddrud i lawer o'n tadau. Ac fe ddylai merthyrion rhyddid, fel merthyrion y gwirionedd, fod yn barchedig ac anwyl yn ein golwg. Ond er fod ffurfiau amlycaf gormes a thra-arglyddiaeth wedi cael eu gyrru ymaith, eto y mae yn aros lawer gwedd gyfrwys ar yr ymgais i ddal i fyny yr hen uohafiaeth; ac ni welwyd hynny erioed, feallai, yn fwy amlwg nag yn yr etholiad sydd newydd fynd heibio. Y mae amser yr ortodaeth wedi pasio. Mae y goleuni yn rhy danbaid yn awr i ddial yn amlwg ar y rhai a bleidleisiaut yn groes i'r tîrffediannwr. Ond fe geir llawer o le i osod dichellion ar waith, ac i ddweyd celwyddau, ac i ddwyn pob hudoliaeth a dylanwad er cael gan rai ehad a gweiniaid "wrando ar lais y rhiniwr." A gwaeth fyth, fe agorir y tafarnau led y pen, a denir y gweligion iddynt i yfed yn ddfesur; ac er fod hynny yn eu handwyo ar gyfer y dyfodol, ac yn profi iddynt hwy a'u tauluoedd yn ddurfawr felltith, eto fe ystyrir diogel eu pleidleisiau, ie *felly*, yn ddiagon i gyfiawnhau y cwbl; ac ni fydd yn ormod gan bendefigion anrhydeddus ac urddasolion parchedig a thra pharchedig briodoli y buddugoliaethau a ennilliant yn y fath fodd i oruwolhwodraeth Ddwyfol, a diolch i Dduw am danynt! Y mae y filwriaeth y dadleuwn ni drosti yn dra gwahanol. Apelia at ddeall a barn a chydwybod y Cymro hynaws, ac ymdrecha i gael ganddo gymeryd ei le a gwneyd ei ran yn rhyfel rhinwedd a chyfiawnder. Y mae yn achos o ddwyn lawenydd i feddwl fod cynifer o'n cydwladwyr, erbyn hyn, wedi cyrraedd y fath radd dda yn eu haddysgiaeth fel nad oes eisieu cymaint a'u hadgofio pa fodd y dylent wneyd ar ddydd yr etholiad, ac y deallur nad yw ond cwbl ofar meddwl am eu cyrraedd trwy unrhyw hudoliaeth na themtasiwn i wneuthur yn groes i'w hegwyddorion. Ond y mae eisieu dysgu y gweddill. A dyma yr amcan da er mwyn pa un yr ysgrifenydd y llyfr hwn. Y mae Mr. Breese yn cymeryd golwg uchel ar ein hachos a'n hawliau, a theimla y dylem oll sefyll yn gryf o'u plaid. Wrth reswm, ni all odder y rhagfarn ffol a waedda ym mychander ei eiddigedd am Gymru, ymhob peth, i'r Cymry. Condemnid y fath ysbryd gan bawb o honom pe cymecid i fyny gri o'r fath gan y Saeson. Ond tra yn cymeryd ein lle yn deilwng yn ein perthynas â'n cyd-ddeiliaid, y mae efe yn cael fod yr achosion ag y gallwn yn gyfiawn eu hawlio ar ein rhan ein hunain y fath fel na ddylem betruso eu dadleu, ac na allai lai na bod yn ormes i'r Wladwriaeth eu gomeidd. Y mae yn ddoeth iawn yn y pwys a ddyry ar fod ymdrech ddyfal yn cael ei gwneyd i ddygu hyn i'r Cymry eu hunain. Mae yr hamdden a gawn yn y tro ar fyd ag sydd yn awr wedi ein cyfarfod, yn gyfleustra ag y gellid, o'i ddefnyddio i'r fath amcan, ei droi i ddiben rhagorol o dda. Mae eisieu cadw ymlaen addysgiaeth y Saeson gyda golwg ar ein hawliau, ond yn arbennig y mae eisieu gwneyd yn sicr o'n cydwladwyr Syniad Mr. Breese am y ffordd oreu i wneyd hynny ydyw gweithio ar linellau Cyngrair Cenedlaethol Cymru Fydd. Dengys fod Cyngrair y De a Chyngrair y Gogledd wedi marw, ond fod hwn i fyw. Yr ydym yn dwfn lawenhau yn y dyddordeb byw y mae y symudiad yma wedi peri i ffaws o'n cydwladwyr deimlo yn nyrohaflad eu gwlad, a dymunwn iddo bob rhwydddeb. Ond yr ydym yn ofni fod y cynllun yn rhy fawr, ac yn amcanu at ormod. Os profodd yr amcan o gael cynrychioliad o'r ddwy dalaeth ar wahan yn eu Cynghreiriau, yn anweithiadwy, a ydyw yn debyg y gellid diagwyl cael cynrychioliad teg o Ryddfrydiaeth Cymru oll mewn un Cyngrair Cyffredinol, ac felly wneyd hwnnw yn allu a ddywedo ar yr holl Dywysogaeth? Da os gellir cyrraedd hynny. Ond yn neillduol y mae yn bwysig fod ein gwlad yn cael ei hegwyddori yn briodol yn yr achosion mawrion sydd mor hanfodol i'n dyrchafiad, ac nad allwn, tra yn anffyddlon iddynt, lanw y lle a roddwyd i ni yn y byd.

Anturiaethau Cymro yn Affrica. Gan WILLIAM GRIFFITH, M. Inst., M.E., (gynt o Porthdinorwig). All Lyfr, 1s. Caernarfon: Swyddfa'r *Genedl*.

GALWASOM sylw dro yn ol at y Llyfr cyntaf o'r Anturiaethau hyn, ac yr ydym yn awr wedi darllen gyda chryn lawer o hyfrydwch yr All Lyfr hwn, ac yn ei gyfiwyno yn galonnog i sylw ein darllenwyr. Wrth ei ddarllen caent y peth nesaf at y profiad a enillodd yr awdwr ei hunan yn ei anturiaethau, ac felly fe chwanesid oryn lawer at eu gwybodaethu o'r byd ac o ddynolryw. Hwyllyd ynnant

beth at y byw caled y gorfu i'n cydwladwr ei oddef, ac eto ni allant lai na theimlo dyddordeb neillduol yn y ffaith fod hynny yn dygmod crystal ag ef fel yr oedd yn ei ganol mewn mwynhad o iechyd o'r fath oreu. Mae'n debyg y gwelant hefyd fod gwerth yn y cydfantoliad ar bethau a wnelai yr Affricaniaid yn hapus mewn amgylchiadau a fuaent yn bur anghydnaws i Gymro. "Wrth fy ochr," meddai yr awdwr, "eisteddai un o'm harweinwyr—Cirambo. Digwyddais edrych arno, a gwelwn amryw o'r creaduriaid atgas hyn yn araf ymlwybro hyd ei gorpws budr. Mewn eiliad yr oeddwn ar fy nhraed, wedi gollwng fy nghwpanaid tã o'm llaw, ac yn tafu ansoddeirian ac enwan ato mewn Cymraeg, Saesneg, a Mattaloka, gan fygwth ei ddibennu. Methai yntau yn lân a gwybod beth oedd wedi oodi fy natur, pryd y dywedais, 'Y creadur budr, weli di mo'r ymlusgiaid aflan yna ar dy gorpws?' 'Be, mistar,' ebe yntau mewn syndod, 'y pethau bach yma?' 'Debyg iawn,' ebe finau. 'Oes arnoch chwi ofn rhain, mistar?' 'Ofn nhw, oes.' 'Wel, wel,' ebe yntau, 'mae y bobl wynion yn rhai rhyfedd, ofn creaduriaid bach fel hyn,' a dodai hwy yn hamddenol ar gleidr ei law. 'Mistar yn mynd allan i hela llew, ac ofn lleuen. Ho! ho! ha!' ebai, dan ystwytho wrth chwerthin am y fath snyiad, a ohydunai y lleill yn yr hwy! dan waeddi, 'Ho ha ha! ho! ho! ho! Hela llew ac ofn lleuen.' Bu y stori yn cael ei hadrodd yn mhob pentref y daethom drwyddo, a mawr oedd yr hwy! a'r siarad yughyloch y peth, ac er i Cirambo fod gyda mi am fisoedd wedyn, fum i ddim yn alluog i'w ddarbwylllo pam yr oeddwn mewn cymaint arswyd o bethau mor fyohain." Ni a ofynwn yn aml i'n gilydd, Oes dim newydd, neu Oes dim rhyfedd? Mae y llyfr hwn yn gyforiog o bethau newydd a rhyfedd, a gosodir hwynt o'n blaen mewn dull mor gartrefol a rhwydd fel y mae eu darllen yn ddifyr yn gystal ag yn addysgiadol. Cawn gyfeiriad yn y Beibl at y locustiaid. Dyma a ddywed Mr. Griffith: "Mae y locustiaid . . . yn ddychryn ac yn ddinystyr i'r rhan hono o'r wlad lle byddant. Maent yn magu yn y tywod poeth,—yr wyau rhyw dro yn flaenorol wedi eu dodwy yno, ac wedi magu yn bryf mewn cyflawn faint, ond yn amddifad o esgyll. Cyfodant o'r ddaer ar ol cawod o wlaw, gwedi i'r gwellt ieuanc dyfu, yna cychwynant ar eu taith. Byddant fel rheol yn teithio gyda'r gwynt, a chan fod hwn yn ohwythu yr un ffordd am fisoedd gyda'u gilydd, mae yn hawdd gwybod pa ffordd a gymerant. Ant ymlaen dan neidio fel sioncyn y gwair, yn syth yn eu blaen er pob rhwystr, pa un ai afon, ai bryn, ai coed,—daiant hwy ar yr un linell, a rhyfedd gymaint o dir y maent yn myned drosto mewn diwrnod, gan fwyta pob gwelltyn a deilen yn eu ffordd. Bydd y fintai yn filltir neu ddwy o led. Gwelais hi unwaith yn bedair milltir; a cheisiwch chwithau amgyffred byddin o'r fath yn ymsymud ar hyd y ddaear yn bedair milltir o led ac yn llawer mwy o hyd, a'r fath alanastra a difrod a wnant wrth symud. Pan yn y stad yma bydd y brodorion yn cyneuo tân o'u blaen, ac yn aml iawn bydd y fintai mor fawr fel y bydd y rhan flaenaf yn neidio i'r tân ac yn ei ddiffodd, fel y bydd y rhan olaf o'r fyddin yn fyw, ac yn gallu myned dros gyrph eu cyfoedion yn mlaen."—"Fy llu mawr i!"—Bu yntau, fel y Bedyddiwr, yn "bwyta locustiaid a mel gwyllt," a da gennym ddeall oddiwrth y profiad a gafodd efe ar hynny, nad oedd bywyd y meudwy yn niffaethwch Judea yn agos mor galed ag y mae llawer o hononi wedi arfer meddwl. Ond rhaid i ni gyfeirio y darlennydd at y gyfrol am ei lllaws o ryfeddodau a phethau dyddorol. Da iawn oedd gennym weled y cyfeiriad a wna yr awdwr at y Cenedlaethau yn y wlad:—"Yr wyf, mae yn debyg, wedi cael mantais fwy nag oddi nemawr un i weled gwaith Cenhadau yng ngwahanol ranau Affrica, ac wedi cymeryd dyddordeb yn yr achos, lle bynag y byddwn yn myned, a gallaf ddywedyd mai mwya'f wyf wedi weled, mwya'f yn y byd yw fy edmygedd o'r llafur a'r gweithgarwch a'r daioni arhaethol y mae cenhadau y gwahanol Gymdeithasau wedi ei wneuthur i'r wlad fawr ac anferth hon; ac eto nid yw y filfed ran o'r trigolion wedi cymaint & ohlywed fod Duw yn bod."

Dalennau Adgof am William Rowlands, M.D., Ebeneser, Arfon. Gan ei Hen Gyfeillion JOHN EVANS, M.A.; W. LLOYD O. WILLIAMS, M.B., Llanberis; THOMAS ROBERTS, Jerusalem; ac O. G. OWEN (*Alafon*), Ysgoldy. Caernarfon: Cwmni'r Wasg Genedlaethol Gymreig.

Bydd darllen y "dalennau" hyn i lawer yn bur ac yn bêr fwynhad. Yr oedd Dr. Rowlands yn wr ieuanc tra theilwng, ac yn hynod o hawdd i'w barohu a'i garu. Mae a ddywedir am dano yma, gan nifer o'i hen gyfeillion, yn dda ac i'r

pwmpas. Edrychai pawb gafodd yr hyfrydwch o'i adwaen arno ef fel un ag yr oedd ei fywyd yn fendith i'w wlad, a hawdd oedd i bawb ddymuno iddo "hir ddyddiau i weled daioni." Ond fe ddarfu i Un a'i carai yn anfesurwl fwy, weled yn dda ddweyd wrtho, "Y cyfaill, eistedd yn uwch i fyny." Ac ni ddylas warafun iddo ei ddryhoafad. Am Bryddest Goffawriaethol Alafon, y mae yn dda odiaeth. Darllenasom hi gyda hyfrydwch mawr. Y mae mor naturiol ag anadlu, yn fyw o feddyliau cain, ac yn llawn o deimladau cynnes. Dyma air da am dano yn y Brifysgol yn Edinburgh :

Duw yn unig Gŵyr yn iawn
 (Gwyddom ninnau beth !) mor laww
 O ddinystriol demtasiynau
 Yw y ddinas deg ei gwenau
 I ddyw ieuanc yma ddél,—
 Faint o wahodd lithiol wél,
 Faint o ryddid, sawl cyfenstra gaiff i rwydd ymlygru 'n gél.
 Pa sawl bachgen pur ei frou,
 Pa sawl *Cymro* tyner, llon,
 Yn lle dringo, ddysga lithro 'n gyfym yn y ddinas hon !
 Nid un felly ydyw William : er yn llawn o nwyfus dân,
 Ceidw 'i fuohedd, ceidw 'i feddwl, fel ei wedd a'i wiag yn lân.
 Mae yn siriol, mae yn llawen, ac yn fynych yn chwareus,
 Ond o lwybrau pechod oilia, ac o dir boddhad amheus.
 Yn ei gylohoedd, adnabyddus ydyw fel dyn ieuanc pur,—
 Cymdeithasgar, rhydd, naturiol, ond di-lygredd fel y dur.
 Er efrydiaeth, er cwmniaeth, er y darllen helaeth iawn,
 Myn o bleser gwneyd daioni yn y fywiog ddinas laww.
 Pell oddiw'rth y "sych-dduwioldeb"—pellach ni fu neb erioedd,
 Gŵyr beth ydyw crefyddolder : hyn yn nwf'n ei euaid roed.

Dyma ddarlun o honno yn *Assistant* yn Amlwch :

Llawer truan gwael a thlawd
 Ynddo ef gadd lond yr enwau, cymwynaswr, cyfaill, brawd.
 Gwel olygfa—welodd engyl fwy nag unwaith tua 'r fan :
 Bwthyn dinod lle na thry
 Odid un o'r prysur llu,—
 Yn y gongl ar ei selwyd gweddw unig, dlawd a gwan,—
 Yno 'r meddyg ieuanc tyner dros ei feistr wedi troi—
 Dros y Meistr hwnnw hefyd bwr i gariad ymdeffroi,—
 Yn cymeryd llyfr y llyfrau—llyfr y wedd 'n aunad ueb,
 Ac yn darllen salm neu bennod gan ddiferion gras yn wleib ;
 Yna 'n plygu ar y llaw—
 Ar yr oer ddi-orchudd lawr
 I ddeisyfu ac i dynnu rhadau 'r nef i'r wael ei gwawr.
 Pa fath un yw hoff olygfa yr arlunydd?—yntau 'r bardd?
 Uwch golygfa bwth y wedd dwéd y Nefoedd, "*Hyn sy'n hardd!*"

Am adgofion ei gyfeillach, dywedir

I fyd llenyddiaeth aem yn fynych iawn,
 Cyfarwydd ef yn hwn—ac wrth ei fodd.
 Prin gellid son am nemor Gŵr o ddawn
 Na wyddai lawer am ei rym a'i rôdd ;
 Neu lyfr o werth, na wyddai am ei faeth
 A'i arddull. O farddoniaeth dda ei wlad
 Oedd hynod hoff—a'i hoffaf oedd "y gaeth ;"
 I'w gŵf cai hon roesawol gauistad.
 A gwyddai 'n dda ddirgelwch cynganeddu :
 Gwnai englyn pert, a chywydd gwerth ei feddu.

Mae 'r oŵf am ambell egwyl yn ei gwmi
 Fel breuddwyd am baradwys wedi ei cholli !—
 Adegau pan y byddai cysegredig
 Ddirgeloedd ei bur fron yn agoredig,—
 Pan byddai twrf y byd a'i oerni ymhell,
 Heb ogyloch ond awelon mwyth, saucteiddiol gwladfa well !


TIME TESTED TEAS.

SUPERIOR CEYLON TEA

1/3 PER LB.

16lbs. by RAIL CARRIAGE PAID for 20s.

SUPERIOR
INDIAN
SOUCHONG
PER 1/7 LB.
PRIZE MEDAL
LIVERPOOL
EXHIBITION.



SUPERIOR
BLENDED
TEA
PER 2/- LB.
SPECIALLY
RE-
COMMENDED.

AGENTS WANTED. SAMPLES ON APPLICATION.

Thos. Jones & Co., Ltd.,

TEA IMPORTERS,

9, Parker Street, LIVERPOOL.

COCOA CADBURY

Hollol bur, wedi ei wneyd yn Lloegr.

Ni ddefnyddir Chemicals fel y gwneir yn Cocoas a elwir yn rhai tramor.

Mae enw CADBURY ar unrhyw sypyn o Cocoas
neu Chocolate yn ddigon o sicr wydd am burdeb.



JAN 3 1919

LLYFR L.

RHIFYN CCXVII.

Y TRAETHODYDD.

TACHWEDD, 1895

CYNHWYSIAD.

Dr. R. W. Dale. Gan y Parch. JOHN PRICHARD	401
Cyfundrefn Grefyddol China a Japan. Gan y Parch. D. LLOYD JONES, M.A.	412
Bedd a Barn : Beddargraff ym Mynwent Bwlchgwyn	421
"Y Faanach," ac Iawn i Dafarnwyr. Gan ELEAZAR ROBERTS	422
John Penry. Gan y Parch. JOHN DAVIES... ..	489
Y Dymchweliad. Gan y Parch. DANIEL ROWLANDS, M.A.	451
Nodiadau Llenyddol... ..	478

CYHOEDDIR Y RHIFYN NESAF IONAWR 1, 1896.

PRIS SWLLT.

TREFFYNNON:
ARGRAFFWYD A CHYHOEDDWDYD GAN P. M. EVANS & SON.

COLEG Y GOGLEDD, BANGOR

(UN O'R COLEGAU YN Y BRIFYSGOL GYMREIG).

PRFATHRAW: H. R. REICHEL, M.A., gydag Unarddeg o Broffeswyr, Tri o Ddarlithwyr, a Phedwar ar ddeg o Athrawon ereill. Dechreua y Tymor nesaf Hydref 1, 1895. Parotoir ar gyfer Arholiadau Prifysgol Cymru ac eiddo Prifysgol Llundain y Cwrs Meddygol ym Mhrifysgolion Edinburg a Glasgow, ac Arholiadau ereill. Rhoir addysg arbenig mewn Amaethyddiaeth a *Electrical Engineering*. Mae yn y Coleg Adran Normalaidd.

Cynnygir dros 20 o Ysgoloriaethau, yn amrywio mewn gwerth o £40 i £10 flwyddyn, i'r rhai fyddo'n ymaelodi yn y Coleg gyda dechreu y tymor nesaf. Bydd hanner yr Ysgoloriaethau yn gyfyngedig i Gymry. Dechreua yr arholiad am ddeg Medi 17.

Ceir pob manylion gan

JOHN EDWARD LLOYD, M.A.,
Ysgrifannydd a Chofrestrydd.

Cyhoeddir yn Brydlaun, Pris mewn Llian, 6c.; Pocedlyfr, 1s. 6c.

Y DYDDIADUR METHODISTAIDD

CYMREIG A SEISONIG, AM 1896.

☞ Pob Archebion i'w hanfon i P. M. EVANS AND SON, Holywell.

AT HOLL

GYMRY Y DEYRNAS GYFUNOL

TELERAU ARBENIG

HYD RHAGFYR 31,

1895,

ESBONIAD JAMES HUGHES

AR Y

TESTAMENT NEWYDD,

WEDI EI RWYMO YN HARDD A CHRYF MEWN CROEN LLO,
AM DDIM OND

~~UN BUNTI!~~

Y Pris isaf y gwerthwyd yr Esboniad erioed, sef
gostyngiad o

BEDWAR SWLLT AR DDEG A CHWE CHEINIOG
Y GYFROL.

P. M. EVANS AND SON, CYHOEDDWR, TREFFYNNON.

Y TRAETHODYDD.

DR. R. W. DALE.

AR ddymuniad y Golygydd yr wyf yn gwneyd ychydig nodiadau ar y gŵr da hwn, fel teyrnged y TRAETHODYDD i'w deilyngod a'i wasanaeth. Priodol yn gyntaf rhoddi amlinelliad o'i hanes ar gôf a chadw yma. Dygwyd ef i'r byd hwn Rhagfyr 1, 1829. Cymerwyd ef i'r byd arall Mawrth 13, y flwyddyn hon. Felly ni bu ei dymor ar y ddaear yn faith iawn—llai na chwe' blwydd a thrigain;—ond rhoddodd efe fesur da dwysedig o fywyd a gwaith amhristiadwy yn y blynyddoedd hynny. Ganwyd ef yn Llundain. Nid llawer o'r gwir fawrion a'r goreuon a gychwynasant eu gyrfa yn y brifddinas—dim tebyg i gyfartaled, yn ol rhif y trigolion, a manteision digymar y lle. Myned i Lundain y maent, fel rheol. Ond yno y treuliodd Dr. Dale ei febyd a'i ieuencid; ac ni chafodd efe na neb arall achos i ofidio am hynny; fe fu y pryd hwnnw yn ddigon agos at fyrddiwn tentasiynau pobl ieuainc yn y dinasoedd mawrion i sierhau ynddo gydymdeimlad dwfn â hwy bob amser, ac i roddi doethineb iddo hefyd i gyrraedd eu calonnau a'u cyfarwyddo. Gyda rhieni duwiol, dan weinidogaeth dawel Dr. Campbell, yn y Tabernacle, Moorfields, yr ymagorodd ei feddwl a'i ysbryd yn y cyfnod creadigol o'r deg i'r deunaw oed. Y mae gennym ei dystioiaeth ef ei hun yn ei Gofiant i J. Angel James, ei fod wedi ei ddwyn yr adeg honno i bryder ac ymdrech mawr am ei gadwedigaeth; dywed iddo ddarllen "Yr Ymofynnydd Pryderus" yn fynych ar ei liniau; a derbyniodd y fath argyhoeddiad a'r fath brofiad o ras Duw ag a barodd iddo roddi ei hun i'r Arglwydd, a chyfrif ei hun o hynny allan byth yn eiddo iddo Ef. Gwnaeth ei gofio yn yr eglwys a'i magodd fel llanc ieuanc o ddoniau naturiol anarferol o ddisglair, ac y mae ei hanes dilynol yn profi ei fod wedi treulio y blynyddoedd hynny mewn llafur dyfal am wybodaeth. Pan yn ddeunaw oed, gadawodd ei ddinas enedigol, byth i ddychwelyd i gartrefu yno. Symudodd i Goleg Spring Hill, Birmingham, un o'r colegau uchaf eu bri oedd gan yr Annibynwyr. Yno y pryd hwnnw yr oedd Henry Rogers yn Athraw, a daeth Dale ar unwaith yn hoff-ddisgybl i Rogers. Cafwyd prawf o'i ymroddiad a'i allu yn ei efrydiau am y chwe blynedd y bu yno, yn ei lwyddiant mawr dan arholiadau Prifysgol Llundain. Enillodd y wobwr am wybodaeth o destun Hebraeg yr Hen Destament a Groeg y Testament Newydd; a chymerodd y gradd o Athraw yn y Celfyddydau, gyda'r Fedal Aur mewn Gwyddoniaeth Feddyliol a Moesol. Yn y cyfamser mwynhaodd y fantais fawr o eistedd am flynyddoedd dan

weinidogaesh y Parch. J. Angel James, pan oedd y gŵr rhagorol hwnnw, heb golli ei rymuster fel pregethwr, yn addfedu i ogoniant

DECHREU EI WEINIDOGAETH A'I LWYDDIANT CYFLYM.

Yr oedd ei ddyfodiad i'r Coleg, debygid, yn penderfynu y cyfeiriad y mynnai efe ei roddi i'w fywyd; ac nid wyf yn cael un awgrym i'w feddwl wamalu am foment oddiwrth y Pulpud. Disgynnodd llygaid Mr. James ar Dale fel gŵr ieuanc cymwys i fod yn gynorthwywr iddo. Bu yn gynorthwywr am ychydig fisoedd, wedi hynny yn gyd weinidog hyd farwolaeth Mr. James; ac wedi hynny yn weinidog yr eglwys hyd ei farwolaeth ei hun. Y Patriarch James, yn ymarferol, trwy ei ddylanwad personol oedd yn ei alw; canys er pob edmygedd o'i alluoedd a'i gymeriad, yr oedd llawer o'r aelodau mwyaf dylanwadol yn ei ofni, a bu galw ar yr hynafgwr i sefyll rhyngddo ac aml wrthdystiad yn erbyn yr athrawiaeth a bregethai. Buasai yn anhawdd cael dar weinidog mwy annhebyg i'w gilydd ar amryw gyfrifon. Ymddanghosai y gobaith yn wan i ddau o'u bath allu cyd-dyn yn esmwyth dan yr un iau. Ond er pob gwahaniaeth yr oedd y ddau yn un mewn difrifwch, mewn crefyddolder dwys, mewn duwioldeb, mewn ffydd yng Nghrist, ac mewn sêl am gael pechaduriaid at Grist. Hynny, yn ddiamedu, a orfu. Ond yr oedd yn glod i ben a chalon Angel James ei fod yn cyfarwyddo yr eglwys i alw y fath un yn gynorthwywr iddo; a chlod mawr i Dale oedd ei fod wedi ennill ymddiried y fath ŵr ag Angel James, ac wedi ufuddhau i'r alwad. Beth bynnag a ddywedir am y blynyddoedd y bu efe megis dan aden y Patriarch, ni feddylia neb am ddweyd mai prentis o bregethwr ydoedd y pryd hwnnw. Daeth i'r golwg ar unwaith mewn nerth a disgleirdeb mawr; cododd mewn ychydig fisoedd i gyhoeddusrwydd a dylanwad cyfuwch a'i noddwr, yr hwn oedd wedi bod ar yr orsedd yn y cylch am hanner can mlynedd, yr hwn hefyd, mi gredaf, oedd yn ddigon sanctaidd i lawenychu am fod i en yr Eglwys yn darpar ar gyfer ei ymadawiad ef. Yn yr un flwyddyn ag y dechreuodd Dale fel cynorthwywr, 1853, ymsefydlodd Dr. Parker yn Banbury, lle o fewn deugain milltir i Birmingham; "ac yno," meddai Parker, "deallais yn fuan mai gŵr mawr yr Annibynwyr yn y dosbarth hwnnw oedd 'Dale o Birmingham.'" Diau fod rhyw reswm dros ei fod yn meddwl am Dale, ac nid am James ar y pryd, heblaw fod plant dynion yn fwy parod i edmygu yr haul yn ei godiad nag yn ei fachludiad. Un rheswm am ei fod wedi dyfod i gyfrifoldeb mor fawr mor ieuanc oedd yr anrhydedd uchel a gyrhaeddodd yn ei gwrs athrofäol. Ond er mor werthfawr yw dysgeidiaeth uchel, nid yw gyrfa athrofäol ddisglair ei hun yn sicrhau llwyddiant. Y prif reswm oedd addfediad cynnar y dyn ei hunan, gyda'i stôr fawr o ynni a chyflawnder ei adnoddau. Pan ymddengys gwir ysgolhaig, gwir feddylwr, a gwir bregethwr, nid oes eisieu un rheswm am y warogaeth a delir iddo, ond ei fod. Y mae dynion cyffredin, i.e., a phregethwyr cyffredin, yn weddol gyflym i adnabod y dynion a enir i arwain a llywodraethu. Dylid hwyrach ychwanegu un ystyriaeth arall, er fod hynny yn codi o ragoriaeth y dyn, sef ei fod gyda gwlediad proffwyd, wedi penderfynu yn ei gychwyniad ar gyfeiriad a nod ei weinidogaeth,

a'i fod yn hynny yn torri tir newydd. Nid drifftio i safle gweinidog yr efengyl gyda llif amgylchiadau ffafriol i hynny a wnaeth. Beiddiodd ystyried drosto ei hun beth oedd moddwl swydd a gwaith gweinidog i Grist; ac ymaflodd yn y swydd a'i lygaid yn llawn agored, gydag *idea* llawer ehangach am ei gwaith a'i rhwymedigaethau nag oedd gan nemawr neb o'i frodyr. Wedi coledd yr *idea* honno, ymroes ar unwaith yn gyfan-gwbl ac a'i holl rym i'w gwneyd yn faith yn ei weinidogaeth ei hun.

EI SYNIAD AM SWYDD A GWAITH GWEINIDOG.

Daeth Dr. Dale yn adnabyddus i'r wlad yn gyntaf mewn cysylltiad â chwestiynau hanner-politicaidd, cwestiynau yn dwyn perthynas â moesoldeb cymdeithasol rhwng cer.hedloedd yn gystal a phersonau,—rhyddid crefyddol, addysg wladwriaethol, a holl ganghennau gwleidyddiaeth dda. Hynododd ei hun yn fuan, gartref ac oddicartref, trwy ei weithgarwch gyda chwestiynau o'r fath. Hwyrach y gwnawn gam âg ef pe dywedwn ei fod yn cyfrif hynny yn rhan o waith ei swydd fel gweinidog yr Efengyl. Nid o'r swydd y golygai fod ei rwymedigaeth i waith felly yn codi, ond o'i berthynas hersonol â Christ, ynghyd â'i broffes o Grist. Ar yr un pryd ystyriai fod y swydd yn ei ddwyn dan rwymau ychwanegol i'w osod ei hun yr esampl o weithgarwch bywyd Cristionogol er lleshâd llaweroedd ymhob cyfeiriad ag oedd yn bosibl iddo, a'i bod yn ddyledswydd arno gysegru y dylanwad yr oedd ei ddoniau a'i swydd yn eu rhoddi iddo i wasanaethu holl fuddiannau dynoliaeth. Yn hyn yr oedd yn torri tir newydd. Ymddengys i mi yn dra thebyg fod rhyw gymaint o ôl George Dawson arno yn y peth hwn. Tra y bu yn y Coleg bu yn myned i wrando Dawson unwaith bob Saboth am ddwy flynedd. Yr oedd hyn yn profi fod yn Dawson ryw bethau a edmygai. A chenadwri arbennig gweinidogaeth Dawson oedd Crefydd yn ei gwaith ym mywyd y ddaear, ymhob cylch, bach a mawr. Ac nid pregethu hynny yn unig yr oedd; ymdafai gyda hunan-ddibristod i bob ymdrech i weithio hynny allan. Er gwaethaf diffygion pwysig gweinidogaeth y gŵr hynod hwnnw, gallwn yn hawdd gredu fod yr ysbryd hwn ynddo yn heintus i ŵr ieuanc o fath Dale. A chredai Dale fod yn bosibl uno pethau goreu Dawson â phethau goreu Angel James; ac ymroddodd i wneyd hynny, a llwyddodd. Ond yr oedd ei bod yn ddyledswydd arno ei wneyd. Ni fynnai y bobl oreu gredu y posibilrwydd i un gweinidog ymollwng i gymeryd y blaen mewn berw etholiadol a chyffrôadau cyffelyb, heb i gymeriad ysbrydol ei weinidogaeth ddiodef o'r plegid. Ond yr argyhoeddiad a lywodraethai Dr. Dale oedd fod y pellter rhwng y pulpud a bywyd y bobl mewn masnach, yn y celfau a'r gwyddorau, ac yn amrywiol ganghennau addysg a gwleidyddiaeth y fath, fel na allai un Cristion goleuedig ei gyfiawnhau; fod y pellter hwnnw, yn wir, yn dra niweidiol i'r eglwys yn gystal ag i'r byd. Fe ymladdodd lawer â'r syniad cyffredin a gyfleid yn yr ymadrodd "saintly character." Dyblai

y pwyslais ar y gwirionedd fod pob credadyn yng Nghrist yn sant. Cydnabyddai fod llawer o dduwiolion o naturiaeth feudwyaidd neu hanner-meudwyaidd, heb ormod o *animal spirits* ynddynt, nac o gnawd o'u cwmpas; dynion llariaidd, tawel, esmwyth; felly yn eu holl symudiadau, felly yn eu lleisiau, ac felly yn eu chwerthiniad, os digwyddai iddynt byth godi uwchlaw gwên; dynion o anian yn cilio oddiwrth bob cyffro. Ac nid oedd mewn un modd yn dibrisio gwasanaeth gwerthfawr y swyn a berthyn i naturiaeth felly wedi ei phrydferthu âg iachawdwriaeth. Ond ymgroesai yn erbyn y syniad fod y cyfryw rai yn meddu hawl neillduol i gael eu cydnabod yn gymeriadau *saintly* yng ngoleuni Cristionogaeth. Rhodder iddo ef yn hytrach ddyn iach, llawn bywyd, heinyf, siriol, llawen, ond yn credu yn ddiysgog yng Nghrist, yn caru yr Arglwydd Iesu Grist, ac yn y cariad hwnnw yn awyddus i weithredoedd da,—yn ewyllysio goddef caledi fel milwr da i Iesu Grist. I olwg Dr. Dale, yr oedd y dyn yna yn sefyll yn uwch, yn foesol ac ysbrydol, na'r rhai tyner ac anwyl sydd wrth naturiaeth yn osgoi pwys y dydd a'r gwres, ac yn fynegiad llawer mwy cyflawn o'r drychfeddwl Cristionogol o *saintliness*. "Credais am hynny y lleferais," oedd ei brofiad ef yn hyn. Adnabyddwyd ef fel un o'r gwleidyddwyr mwysaf eu dylanwad yn y deyrnas. Yn wir, er nad oedd yn Seneddwr, byddai yn llythrennol gywir ei alw yn *Statesman*. Nid hawdd fyddai mesur gwerth y gwasanaeth a gyflawnodd yn hyn. Fe safodd am flynyddoedd yn dŵr o gadernid i wleidyddiaeth Prydain yn ei phethau goreu. Meddai ddylanwad mawr ar arweinwyr ein gwleidyddiaeth. Yr oedd yn llanw lle cydwibod i aml un o honynt. Dywedai Mr. Chamberlain yn un o'i areithiau adeg yr etholiad, nad oedd "Dadgysylltiad" ond cwestiwn o *sentiment*; ni feiddiasai ddweyd hynny pe buasai Dr. Dale yn fyw. Er fod Dale yn ddigon rhyddfrydig i amddiffyn hawl Bradlaugh i eistedd yn y Senedd, fe gyfrannodd lawer at grefyddolder gwaith y Senedd. Dywedais er, lle dylaswn ddweyd hwyrach *am* ei fod yn ddigon rhyddfrydig. Fy nhemtasiwn yw helaethu ar ei gwrs gwleidyddol, ond rhaid ymatal. Fe greodd gweithgarwch a dylanwad mawr gweinidog Carr's Lane, mewn gwleidyddiaeth, gyfnod newydd yn y weinidogaeth yn Lloegr yn y cyfeiriad hwn. Yr wyf yn priodoli y cyfnewidiad iddo ef, er cydnabod rhyw gymaint o ddylanwad Dawson arno; oblegid *free lance* oedd Dawson ymhob ystyr. Yr oedd Dale yn un o'r *generals*; ac yr oedd symudiad *general* yn sicrhau byddin i'w ganlyn. Erbyn hyn y mae tuedd y pendyl yn Lloegr at yr eithaf arall, a gwleidyddiaeth yn bygwth gorlifo y pulpud a phobman o'i gwmpas. Y perygl yn awr yw i weinidogion fyned yn fwy o wleidyddwyr nag o ddim arall. Credaf fod Dr. Dale yn gweled y perygl hwn, a bod hynny yn un rheswm, heblaw ei lesgedd corfforol, am ei fod yn ei flynyddoedd olaf yn fwy neillduedig. Pan oedd Dr. Barrett ar ymweliad âg ef, amlygodd yn wresog ei werthfawrogiad o'i anerchiadau amserol ar "Fydoliad y pulpud" a "Bydoliad yr eglwys." Os gall ambell weinidog gyflawni gwasanaeth tebyg mewn gwleidyddiaeth, a chadw hefyd yr angerddoldeb ysbrydol oedd yn nodweddu Dr. Dale, Duw yn rhydd iddo.

Da wladwr duwiol ydoedd,
A gŵr i Dduw o'r gwraidd oedd.

NODWEDDION EI FEDDWL A'I YSBRYD.

"O'r holl ddyinion y cefais y fraint o'u hadnabod, efe, a'i gymeryd ymhob peth, oedd y mwyaf ei fesurau. Adnabum ddyinion mwy dysgedig, dynion mwy treiddlym mewn dealltwriaeth athronyddol ac athrawiaethol, dynion mwy cyflym i ddringo i leoedd uchel y byd; ond dim un dyn o naturiaeth mor eang, o enaid mor ddyrchafedig." Dyna eiriau Dr. Fairbairn am dano; ac nid oedd neb mwy cymwys i farnu a llefaru felly am dano. Dylid darllen llawer rhwng y llinellau yn y geiriau mesuredig hyn. Rhaid fod hwnnw yn ŵr tra dysgedig y bu wiw gan Dr. Fairbairn ddweyd iddo adnabod rhai mwy dysgedig nag ef. Gyda'i holl ragoriaethau cynhennid, ni ddaethai i'r hyn y daeth, oni bai ei fod yn ŵr o ddysgeidiaeth uchel, amhosibl ei wrando na'i ddarllen heb deimlo presenoldeb un o ddysgeidiaeth eang a thrwy-
 adl. Er mor gymeradwy ei fater, ni buasai Deon Alford yn ysgrifennu erthygl i'r *Contemporary* ar gyfrol o'i Bregethau oni buasai fod y Deon yn gweled ynddo ei gyfartal fel ysgolhaig. Ac yr oedd galluoedd Dale y fath fel pe buasai wedi ymgymeryd â bod yn *specialist*, a dilyn ei efrydiau mewn cadair athrofaol am ugain neu ddeg ar hugain o flynyddoedd, na chawsid achos i'w osod yn ail i neb yn ei ddyageidiaeth. Gellir hefyd ddweyd yr un peth am ei allu athronyddol a *speculative*. Ceir ei ysgrifeniadau wedi eu britho gan gyfeiriadau at amrywiol weddau athroniaeth yn ei oes a'r oesoedd. Ac y mae yr hyn a ddywed arnynt, nid yn ymadroddion petrusgar sylwedydd anadfed, ond yn lleferydd un oedd hollol gartrefol gyda hwy, ac yn eistedd mewn barn arnynt. Glynai wrth athroniaeth Kant, mi feddyliwn, ond yr oedd ei reddf Gristionogol yn ei gario ymhellach na Kant yn y sicrwydd a gâi trwy y "Practical Reason" am Dduw. Ni allasai dim rwystro un a enillodd y Fedal Aur mewn *Mental and Moral Science* ym Mhrifysgol Llundain pan yn dair ar hugain oed, i gyrraedd y safle uchaf yn y cyfiriad hwnnw, pe rhoddasai ei fywyd i hynny. Ymddengys i mi hefyd fod ei ddarlith ar "Berthynas Crist a'r Hil Ddynol," yn ei lyfr ar yr Iawn, yn esiampl o rymuster *speculative* o'r radd flaenaf, ac yn gyfraniad gwreiddiol at dduwinyddiaeth y pwnc.

Wrth chwilio am air i ddynodi ei feddwl, yr un sydd yn ymgynnyg i mi gyntaf yw *massive*; gair Dr. G. Parry am Dr. Fairbairn, wedi ei wrando yn y Bala; a gair sydd mor briodol am Dr. Parry ag un o honynt. A wna "symfawr" ddweyd y peth yn Gymraeg? Nid oedd Dr. Dale yn delio mewn meddyliau bychain, mân; braidd na ddywedwn ei fod yn analluog i hynny. Nid yw hynyna yn golygu mai traethu am bethau yn y cyfanswm yn unig ŷr oedd, a'i fod yn ddiystyr o'r manylion; pell iawn ydoedd oddiwrth hynny. Yr oedd ei "righteousness" yn ofalus am bob gwybedyn. Pa mor fychan bynnag y gallai cenadwri ei bregeth fod i feddwl cyffredin, fe'i ceid, wedi dyfod trwy ei feddwl ef, yn cymeryd ei lle mewn cyfundrefn symfawr o wirionedd a roddai iddi bwysigrwydd diderfyn. Ond nid wyf yn gallu boddloni ar nodweddu ei feddwl fel yna. Fe all meddwl trwm, araf, a swrth fod yn *massive*. Fe ellid dweyd am dalp anferth o graig wedi sythio, ei fod yn *massive*. Fe fyddai rhywboth hanner y ffordd rhwng afon fawr ar dipyn o ddisgyniad tir, a rhaiadr y Niagra, yn gywirach drych

o feddwl Dr. Dale yn ei nerth mawr a'i ysgogiad. Peth arall sydd yn nodwedd amlwg ar ei feddwl yw, ei fod wedi ei ddisgyblu yn drwyadl yn yr hyn a elwir "y dull gwyddonol." Y ffeithiau i ddechreu; y dosbarthiad arnynt wedi hynny; ac yna y casgliadau cyffredinol. Rhaid bwrw ymaith bob rhagdybiau, a myned ar hyd llinellau anhyblyg rhesymeg, oddiwrth yr hyn a wyddom i chwilio am bob gwybodaeth arall. Yr oedd ei feddwl yn naturiol yn rhesymegol, a gwna i fwy o gyfrif o wasanaeth rhesymeg weithiau, nag a fyddai yn fodurhaol i bawb o honom. Tybid gan rai nad oedd un grefydd a ddaliai brawf y "scientific method," ac ymfrostient felly. Ac yr oedd gweled dauinydd Cristionogol yn glynu wrth y "method" hwnnw, ac yn dadlau yn eiddgar drosto, a'r gŵr hwnnw yn ysgolhaig o ddiwylliad uchel ac yn dywysog o feddyliwr, ac am ben y cwbl. yn amlwg yn un o'r dynion mwyaf annibynnol a gonest, yn rhoddi hyder i lawer a deimlent fod eu ffydd yn y Goruwchnaturiol yn dechreu siglo. Yr oedd efe yn hyn yn gyffelyb ei safle i Dr. Chalmers, genhedlaeth yn gynt. A thylbiaf y gellir canfod tebygrwydd yn arddull y ddau mewn un peth, o leiaf, sef yn eu gallu i aros gydag un drychfeddwl, a throï a throï hwnnw, edrych arno yn awr o un safle a thrachefn oddiar safle arall, nes y teimlid ei fod wedi ei gwbl feddiannu. Yr oedd Chalmers, yn ol a glywaf, yn llefarwr llawer mwy gwresog na Dale, er mai darllen eu pregethau y byddai y ddau. O'r ochr arall, y mae llawer mwy o wres ysbrydol ym mhregethau argraffedig Dale na'r eiddo Chalmers. Y mae urddas a rhyddid, llwyredd a thryloewder arddull Dr. Dale yn gwneyd ei ysgrifeniadau gyda'r rhai mwyaf hyfryd i'w darllen.

"The largest man," meddai Dr. Fairbairn; ac yr wyf yn tueddu i feddwl fod y drafodaeth ynghylch symudiad Coleg Spring Hill i Rydychen wedi helpu cryn dipyn ar Fairbairn at yr ymadrodd hwn am Dale. Goddefer i mi ymdroi munud gyda hyn; fe fuasai yn bleser i Dr. Dale feddwl fod ei goffadwriaeth yn helpu unrhyw achos da. Birmingham oedd pia Spring Hill, y Coleg, a'r Gwaddol, a'r cwbl. Yr oedd anhawsterau cyfreithiol ar ffordd y symudiad; ond yr oedd un anhawster anhaws cael drosto yn ymlyniad y cyfeillion yn Birmingham wrth yr hen sefydliad. Bu Dr. Dale yn hwyrfrydig i goledd y meddwl am symud. Yn wir, yr oedd efe mor eiddigus a neb dros fuddiannau a breintiau Birmingham; ac yr oedd efe ei hun wedi ei rwymo a rheffynau tyner a chysegredig wrth Spring Hill. Ond llwyddwyd i'w argyhoeddi mai ffordd y daioni mwyaf i'r nifer fwyaf, oedd symud. Wedi hynny, yr oedd llwyddiant y symudiad yn sicr. Fe allasai yn hawdd rwystro y symudiad; buasai yn amhosibl symud hebdo; ac yr oedd ildio i'r syfudiad yn aberth i'w deimladau; ond profodd ei hun yn ddigon *large* i wneyd yr aberth. Ac y mae lle i dipyn o *largeness* cyffelyb yng Nghymru eto. Hwyrach nad ydym wedi tyfu i ddigon o faintioli i sefyll yn Aberystwyth ac ymafiyd yng Ngholeg y Bala âg un llaw, ac â'r llall yn Ngholeg Trefecca, a'u dwyn ynghyd a'u priodi yno. Ond tybed na ddown ni mewn llai na phum mlynedd! Gobeithio hynny; rhag y gorfydd ein rhoddi i lawr mewn hanesiaeth fel cenhedlaeth o rai *small*.

Gwyddom nad yw Dr. Fairbairn yn yr ymadrodd a nodwyd yn dychafu cymeriad Dr. Dale ar draul ei ragoriaethau ereill. Tystio y

mae efe fod Dr. Dale ym mawredd ei gymeriad yn rhagori ar bawb a adnabu efe. Ac y mae honyna yn dystiolaeth gŵr a gafodd lawer o flynyddoedd o gyfeillgarwch mynwesol âg ef, a gŵr hefyd a gafodd gydnabyddiaeth debyg gyda llu yn yr un oes, y rhai y mae eu henwau yn barchedig a chysegredig. Nid oëid pellter yn benthyca swyn i'r olwg ar Dr. Dale; fel arall yn hollol. Hawdd iawn, yn enwedig i Gymro, wedi ei wrando yn y cylchoedd mwyaf cyhoeddus, a fuasai ei gamgymeryd am ddyn caled, oer; dyn, gyda'i holl ragoriaethau, tra amddifad o eneiniad a naws grefyddol. Ychydig o deimladau ei galon a ddatguddiai yn gyhoeddus. Myn Dr. Simon fod ei areithiau politicaidd wedi amharu ei lais at bregethu. Pan y bu Mr. Moody yn Birmingham, gweithiodd Dr. Dale gydag ef â'i holl egni. Ond pan siaradai yn y cyfarfodydd, teimlwn fod yr awyr yn newid,—yn dyfod yn burach hwyrach, ond yn sicr yn oerach, Tueddu yr wyf i gredu fod arno ormod o ofn *sentimentality* i roddi lle i *emotion* priodol yn ei waith. Pa fodd bynnag, camgymeriad mawr a fyddai ei farnu yn brin o deimlad crefyddol. Dyn o naturiaeth ddwys, angherddol ydoedd; a thrwy ras Duw fe wnaed y naturiaeth honno yn angherddol grefyddol. Ar yr un pryd, nid o'i fodd y caniatâi i'r angerdd hwnnw ddyfod i'r golwg mewn dim ond gwaith,—mewn ufudd-dod di-arbed i ewyllys ei Arglwydd. Ni wiw i mi honni cyfeillgarwch agos âg ef; ond yng nghyfarfodydd neillduol Gweinidogion Ymneillduol Efynglaidd y ddinas, daethum yn ddigon agos ato i ffurfiô syniad pur wahanol am dano i'r hyn oeddwn yn ei gael yn ei anerchiadau cyhoeddus. A hyd yn oed yn y cyfeillachau hynny, yr oedd ei nerth moesol a'i ymgysgriad i wirionedd yn fwy yn y ffyrnt na'i deimladau crefyddol. Ond yn yr agosrwydd hwnnw gwelwn, i'e gwelwn tu hwnt i amheuaeth, fod o fewn, o dan y cwbl, ffynnon gref ddofn o fywyd ysbrydol; ac mai honno oedd o hyd yn byrlymu i fyny, ac yn grasoli pob peth a wnelai. Argyhoeddodd fi fod "The Living Christ" yn byw ynddo ef. Yr oedd efe yn ddyn mor dduwiol â Mr. Rees, ac y mae hynny yn ddweyd go fawr i mi; ac nid i mi yn unig chwaith; dywedodd ei frawd, Dr. William Rees, ar ol odfa nefolaidd yn Sasiwn y Bala, "Mae Harry yn dduwiolach na neb o honom o lawer." Yr wyf yn ail-ddweyd fod Dr. Dale mor ddwfn dduwiol â Mr. Rees. Ond yr oedd gwahaniaeth teimladwy iawn rhwng crefydd y ddau; ac o'r ddau byddwn yn teimlo mai Dale oedd y tebycaf i'r Apostol Paul. Fel yr Apostol yr oedd rhyw *matter-of-factness* dymunol yn ei brofiad ysbrydol. Ychydig o le a roddai i hunanyholiad. Yr oedd efe wedi rhoddi ei hun i Grist, a Christ wedi cymeryd meddiant o hono. Yr oedd efe yng Nghrist, a Christ ynddo yntau. Nid mater o obaith oedd hyn ganddo, ond o ffaith. Cyfrifai hyn yn beth wedi ei benderfynu. Bum yn eiddigeddu wrtho gan mor sefydlog oedd ei lawenydd yn yr Ysbryd Glân; ac yr oeddwn yn sicr ei fod yn wirioneddol. Tybed, nad yw yr olwg a gawsom arno yn fachgen ieuanc ar ei liniau, gyda'r "Ymfynydd Pryderus," yn myned yn o bell i esbonio hyn ?

EI DDUWINYDDIAETH.

Yr ydym yn cael ei dduwinyddiaeth yn ei hysbryd yn drwyadl Efynglaidd. Cafodd ei ran ar y ddaear mewn oes o derfysg meddyliol

diglyffelyb; ac yr oedd efe yn naturiol yn ŵr agored iawn i ddylanwad terfysg o'r fath. Anesmwythodd gryn lawer arno, a pharodd iddo gryn byrder fel gweinidog Cristionogol. Credai efe y byddai raid i'n duwinyddiaeth, fel popeth, fyned i'r tawddlestr, a chael ei hadffurfio. Wrth ysgrifennu ychydig i'r TRAETHODYDD am dano ddeuddeug mlynedd yn ol, anturiais ddweyd nad oeddwn yn credu fod yr auesmwythder mor gyffredinol, ac yn sicr nad ydoedd mor ddwfn ag y mynnai efe ei fod. Yr oedd efe ei hun yn esampl mor dëg ag a ellid gael o'r hyn y pryderai yn ei gylch. Os rhoddes efe ei dduwinyddiaeth yn y tawddlestr, hi a ddaeth allan yn ei gyfrol ddiweddar ar "Christian Doctrine" yn rhyfeddol o debyg i'r hên athrawiaeth. Nid oes dim hanfodol wedi ei gollu o dduwinyddiaeth Efengylaidd Angel James, na dim wedi ei ddwyn i mewn sydd yn amharu ei phrydferthwch. Ni cholodd ddim o'i hysbrydolrwydd mewn oes oedd wedi ynfydu ar anianaeth; a than ddylanwadau goreu yr oes fe'i dyfnhawyd, fe'i cryfhawyd, ac fe'i dyrchafwyd mewn moesoldeb. Ceir y ddwy nodwedd yna yn amlwg yn nuwinyddiaeth Dr. Dale: iachawdwriaeth i ddynion a'i ffynhonnell yn uniongyrchol ysbrydol, yn ddwyfol; a'r foesoldeb fwyaf dyrchafedig fel cynnyrch dwyfol rês yn canlyn. Yr oedd rhai yn barod i ddweyd wrtho fod ei ffydd yn y goruwchnaturiol yn anghyson & ffyddlondeb i'r *scientific method*. Ond gan gymeryd geiriau Crist yn fleithiau, a geiriau ei Apostolion yr eglurhad mwyaf rhesymol arnynt, a phrofiad Cristionogion yn gefn iddo, yr oedd efe yn ddigon abl i'w cyfarfod. Ond cyson neu beidio, nid oedd Dr. Dale yn cilio oddiwrth gyfrinaeth y Testament Newydd, y gwirionedd am bresenoldeb a gweithrediad dirgeledig yr Ysbryd anfeidrol yn iachawdwriaeth dynion ac ymhob peth. Y teimlad o hyn yw hanfod ysbrydolrwydd mewn dyn, ac mewn duwinyddiaeth. Y mae lleferydd Dale yn ddiffoesgni ar y gwirionedd mawr, fod y bywyd tragwyddol sydd i bechadur trwy ffydd yng Nghrist yn gyfraniad dirgeledig o fywyd Person y Duw-ddyn i gredadyn; felly ar y dechreu, ac felly yn dragwyddol. Creodd ei olygiadau ar y Sacramentau gryn gyffro yng nghylehoedd yr Undeb Cynulleidfaol rhyw ddeng mlynedd yn ol. Cyhoeddwyd hwy yn y "Manual of Congregational Principles," yr hwn a baratowyd ganddo ar gais cyfeisteddfod yr Undeb. Math o Gyffes Ffydd gynulleidfaol ydyw. Nid oedd ei frodyr yn dygymod â'i olygiadau, a bu cryn ddadleu ar y pwnc. Y canlyniad yw fod rhai os nad yr oll o'r penodau ar y Sacramentau wedi eu gadael allan o'r argraffiadau dilynol o'r "Manual." Yr argraffiad cyntaf sydd yn awr o fy mlaen; a bydd yn dda gan lawer weled y dyfyniad canlynol:—

II. *Yn Swper yr Arglwydd y mae Crist yn cyfrannu i'r Eglwys pa beth bynnag a arwyddoedir yn y Bara a'r Gwin.* Y Sacrament sydd fynegiad terfynol a chyflawn o'r gwirionedd yr oedd ein Harglwydd yn wastad yn ei ddal allan yn ei weinidogaeth—ei fod Ef wedi dyfod i roddi i ddynion fywyd tragwyddol, a bod y bywyd hwnnw ynddo Ef ei Hun. Yn un o'i bregethau mwyaf cofiadwy fe eglurodd ymlaen llaw ddrychfeddwl a diben Swper yr Arglwydd. Dywedodd "Oni fwytewch gnawd Mab y Dyn, ac onid yfych ei waed Ef, nid oes gennych fywyd ynoch" (Ioan vi. 53, 54). Nid oes un rheswm i dybied fod yn y geiriau hyn gyfeiriad at y gwasanaeth arwyddol, . . . ond y maent yn cyhoeddi y gwirioneddau mawrion a gorfforir yn y Sacrament, a gallant ein helpu i gadael ei ystyr.

Credai Dr. Dale fod y Duw-ddyn yn wirioneddol bresennol yn y Sacrament, a'i fod yn gwirioneddol gyfrannu o'i fywyd i'r credinwyr. Ar yr un pryd ni chyfrifai y presenoldeb hwnnw a'r cyfraniad yn fendith neillduol i'r Sacrament, na bod yn y Sacrament un math neillduol o gymundeb â Christ. Yn niwedd ei bregeth ar yr Yspryd Glân, yn y *Christian Doctrine*, pryd nad oes un cyfeiriad at y Sacrament yn wahaniaethol oddiwrth ordinhadau ereill yr Efengyl, ceir y geiriau hyn :—

Trwy y traethiad hwn yr oedd yn rhaid i mi siarad am fywyd ein Harglwydd—ei fywyd dynol gogoneddedig—fel pe yn sylwedd anianol y gellid ei gyfrannu i'r rhai sydd mewn undeb âg Ef. Ond nid yw bywyd yn sylwedd; ac nid yw y fath drosglwyddiad yn bosibl. Dylid siarad am fywyd yn nhermau bywyd. Ond y mae gwendid iaith ddynol, a therfynau y meddwl yn ein gorfodi i arfer geiriau sydd yn amhriodol i'r dirgelwch. Y mae bywyd Crist yn dyfod yn eiddom ni; y ffaith a wyddom; y dull sydd yn anchwiliadwy.

Ond yr oeddwn yn cyfeirio at hyn fel esiampl o ysbrydolrwydd duwinyddiaeth Dr. Dale; ac y mae y dyfyniadau byrion a wnaed yn rhoddi mewn-olygiad lled gywir i'r hyn sydd yn rhedeg trwy ei holl ddysgeidiaeth. Gysyllter â hyn, fod yr ysbrydolrwydd grymus hwn ganddo yn wreiddyn moesoldeb pur, mewn ysbryd ac ymddygiad, a bydd gennym syniad lled gywir am ei dduwinyddiaeth.

Ni raid dweyd mai duwinydd Arminaidd oedd efe, a bod ei wrthwynebrwydd i Galfiniaeth bron yn lliidiog. Cwestiwn dyddorol ydyw, Pa fodd y lithrodd gŵr fel Dr. Dale i'r tir hwn? Yn y ffydd Galfiniaidd y magwyd ef. Calfiniad oedd Henry Rogers ei athraw. Calfiniad oedd Angel James. Ac fe gafodd ar ei gychwyniad ymgydnabyddu â Chalfiniaeth wedi ei llyfnhau ryw gymaint, yn unol â dysgeidiaeth gŵr arall a ragflaenodd y ddau ym mhulpudd Carr's Lane—Dr. Edward Williams. Ac y mae yn dra sicr nad oedd un symudiad cyffredinol oddiwrth Galfiniaeth, hyd yn oed ymhlith yr Annibynwyr, y pryd hwnnw. Pa fodd y bu y cyfnewidiad, yn enwedig yn achos gŵr mor ysbrydol â Dr. Dale? Tybed nad oes rhyw gymaint o oleuni ar hyn yn y geiriau canlynol a geir mewn ysgrif o'i waith ef ar George Dawson yn y *Nineteenth Century* am Awst, 1877 :—

Genhedlaeth yn ol, yr oedd Locke a'i ddilynwyr dan gwmwl; nod o gulni a hen ffasiwn o feddwl oedd siarad yn barchus am danynt. Kant, a Fichte, a Schelling, a Hegel oedd y rhai a dybid yn meddu hawl i ystyriaeth fel ffurfwyr athroniaeth y dyfodol. Swynai ac ysbrydolai Mr. Emerson, Mr. Francis Newman, Mr. Theodore Parker, a Mr. T. Carlyle . . . y dosbarth ieuengaf a gwresocaf o feddylwyr. Yr oedd rhai o honom eto dan hâd barddoniaeth Wordsworth a dysgeidiaeth Coleridge. Yr egwyddor sylfaenol i ni oedd rhyddid moesol dyn.

Yr wyf yn dal ar eiriau olaf y dyfyniad,—rhyddid moesol dyn yn egwyddor sylfaenol. Ni a welwn y dylanwadau oedd yn gweithio arno; ond yn yr egwyddor sylfaenol y mae yr ateb i'r cwestiwn. “Yr egwyddor sylfaenol i ni oedd rhyddid moesol dyn.” Nid oes dim anhawster i ddirnâd dylanwad yr egwyddor bwysig hon ar ŵr ieuanc o naturiaeth gynnes a gweithgar Dale. Nid oes dim anhawster chwaith i ddirnâd y modd y tyfai yr egwyddor honno ynddo yng nghymdeithas yr awdwyr galluog a nodir ganddo, amryw o honynt â holl nerth eu hathrylith yn gysgredig i'r un egwyddor honno; ie, y tyfai ynddo hyd

at gau allan yr egwyddor gyferbyniol ddyfnach a lletach—rhyddid a Hollalluowgrwydd Duw. Nid dyma y lle i drin y pwnc. Ceisio cyfrif yr ydym am lithriad Dr. Dale yn hyn. Ac ymddengys i mi mai y cyfrif yw hyn: gordyfiad a gorbwysiad yr un egwyddor o ryddid moesol dyn ar wahân yn ei feddwl, trwy y dylanwadau a nodwyd ganddo, a hwyrach George Dawson yn helpu. Fe gludodd gormes yr un syniad o Undeb yr Eglwys John Henry Newman i Rufain. Fe gludodd gormes yr un syniad o ryddid moesol dyn Robert William Dale i diriogaeth Arminiaeth. Ond y mae yr ysbrydolrwydd sydd yn treiddio trwy ei dduwinyddiaeth yn gwneyd mwy na gwrthweithio pob niwed sydd yn ei Arminiaeth, os nad hefyd yn myned yn o bell i'w gwrthbrofi.

Bum yn chwilio am ei feddwl ar y pwnc y mae llawer o Galfiniaid ac Arminiaid erbyn hyn yn cytuno ynddo,—Parhad mewn gras. Y mae pwysigrwydd y pwnc yma yn ei berthynas â Galwad yr Efengyl yn cael ei deimlo yn gyffredinol. A oes iachawdwrriaeth dragwyddol, sicr, i'r rhai a wnant dderbyniad o Grist fel Gwaredwr? Buasai yn llawen gennyf pe cawswn ddatganiad tebyg ar hyn gan Dr. Dale i'r hyn a gaed gan Martensen, yr hwn oedd yntau yn Armin ar bob pwnc arall. Ond yn nifyg hynny, yr wyf yn tybied i mi gael digon i weled y modd y tueddai ei ysbryd ar hyn. Dadleuai mai un o brif wendidau "Yr Ymofynydd Pryderus" oedd ei fod yn gwneyd cyfiawnhad a maddeuant yr un peth. Dywed fod yn rhaid i'r wir athrawiaeth am y Cyfiawnhad adael y fendith fawr a pharhaol honno heb effeithio arni gan y gwendidau a'r pechodau, y rhai a alwant am gyffes a maddeuant dyddiol. Llawnychai am fod Dorner yn ei *History of Protestant Theology* yn cefnogi y golygiad hwn. Eto, ar ol ymosodiad o'i afiechyd, ddwy flynedd cyn ei ymadawiad, dywedai wrth Dr. Barrett am drymder y bu yn dioddef oddiwrtho yn ei waeledd; dywedai fod y meddwl am Grist fel Gwaredwr pechaduriaid yn ymddangos yn ddirym i'w ddiddanu. "Ond," meddai, "mi gofais mai Efe oedd fy Arglwydd a'm Meistr, yn gystal a'm Gwaredwr; a chefais nerth a goleuni. Yr oedd arnaf eisieu rhywbeth cryfach, caletach i bwysio arno, ac mi a'i cefais yn y meddwl mai ei eiddo Ef oeddwn; yr oeddwn yn perthyn Iddo Ef; a dyna ddigon; mi a'i gwyddwn; ni adawai Efe fy ngholli."

Pan ymadawodd Dr. Dale â'r fuchedd hon, yr oedd ei ddinas, a'r wlad, a'r gwledydd yn wir,—byd ac eglwys a phob cangen o'r eglwys, —yn ymgyrnu yn barchus a galarus iddo; a'r rhai oedd yn ofni yr Arglwydd a alwasant bob un ar ei gymydog i ogoneddu Duw ynddo ef.

JOHN PRICHARD.

Birmingham.

NODIAD YCHWANEGOL.

Wedi i mi anfon yr ysgrif uchod i'r Golygydd, cyhoeddwyd pregeth nodedig o eiddo Dr. Dale yn y *British Weekly* am Awst y 15fed, yr hon na wnawn ddim cam â hi wrth ei galw yn Amddiffyniad Gorchestol i Galfiniaeth, er ei fod ef ei hun yn parhau i wrthod yr hyn sydd nodweddiadol o'r gyfundrefn athrawiaethol honno. Traddodwyd y bregeth yn Carr's Lane, Mawrth yr 20fed, 1892,—dair blynedd cyn ei

farwolaeth. Ni buasai yn cymeryd ei lle yn naturiol yn yr unig gyfrol o gyhoeddodd efe ar ol hynny. Ond y hi, o holl ysgrifau anghyhoedd-edig y Doctor, a gyrhaeddodd y wasg gyntaf wedi ei ymadawiad, a hynny trwy gytundeb gyda theulu yr ymadawedig. Anhawdd peidio gofyn, Pa fodd y bu hyn i'r bregeth hon, sydd yn amlwg yn eithriad i'w bregethau arferol? Anweddaidd fyddai i ni geisio ymwithio i gyfrinach y teulu; ond nid yw yn amhosibl fod hyn yn gyflawniad o ddymuniad y Doctor ei hun; ac os felly, y mae yr hyn a wnaed yn dra awgrymiadol. Pa fodd bynnag y bu, ni allesid gwneyd dim a fuasai yn adlewyrchu mwy o anrhydedd ar yr awdwr na chyhoeddiad y bregeth hon. Y mae hi yn ei rhagoriaethau llenyddol, i fyny o leiaf â'r goren a gafwyd ganddo yn ei fywyd. Ac y mae pregeth yn yr hon y mae y pregethwr yn rhoddi holl nerth ei feddwl a'i ysbryd yn amddiffyn i Galfiniaeth, ac i ddysgu ei gydwladyr i werthfawrogi a sierhau gwirioneddau pwysicaf Calfiniaeth, tra yr oedd efe ei hun yn wrthwynebydd cryf i neillduolion y gyfundrefn honno, yn esamp! o fawrfrydigrwydd Cristionogol na welir ond yn anfynych ei bath.

Hanes a gwasanaeth cyffredinol Calfiniaeth sydd yn cymeryd i fyny hanner blaenaf y bregeth. Nid oedd modd i mi ddarllen y bregeth heb feddwl am anerchiad y Parch. Thomas Roberts, Bethesda, wrth adael cadair y Gymdeithasfa, yr hwn sydd yn myned dros yr un tir; nid yw yr Anerchiad yn dioddef dim oddiwrth gymhariaeth â'r bregeth, ac y mae hynny yn ddweyd go fawr. Ond un peth oedd i Galfin wneyd hyn, peth arall oedd i Armin cryf ei wneyd. Ceir trem ar yr hyn a ddysgir yn y rhan hanesyddol mewn dau ddywediad, "Calfiniaeth a achubodd Ewrop;" ac i ddyfod yn nes adref, "Pe buasai yr Iwerddon yn Galfinaidd, ni buasai gennym yr un cwestiwn Gwyddelig i'n poeni."

Yn 1880, dywedai Dr. Dale, "Yr oedd pobl yn arfer credu mewn Calfiniaeth. . . Ond y mae Calfiniaeth wedi marw, ac y mae pethau meirw yn fuan yn dyfod yn anhawddgar, erchyll, a ffaidd. . . Yr ydym wedi dyfod i ystyried Calfiniaeth yn hollol anghredadwy." Dyna yn bennaf yr ymadroddion a barodd i mi ddweyd ei fod bron yn *lidiog* yn ei wrthwynebiad i Galfiniaeth; hwyrach fod y gair yn rhy gryf hyd yn oed am dano y pryd hwnnw. Ond sylwer ar ei leferydd pan yn terfynu y rhan hanesyddol o'r bregeth ddiweddaf a gawsom. "Meddyliais ei fod yn werth myned dros yr hanesiaeth yna er mwyn eich adgoffa fod Calfiniaeth wedi llanw lle rhy fawr yn hanesiaeth grefyddol y tair canrif ddiweddaf, wedi gwneuthur gwasanaeth rhy fawr i fywyd crefyddol cenhedloedd cryfion, wedi creu ymlyniad rhy ddwfn yng nghalonau llu mawr o wŷr galluog, dyfnion a dysgedig, i gael ymddwyn tuag ati gydag ysgorn a dirmyg. Hi all fod yn anghredadwy i chwi ac i minnau, ond dylem ymdrechu gwybod pa rai ydynt yr elfennau hynny a'i gwnaeth hi yn gredo saint aneirif." Prin y gall neb ameu fod y bregeth hon yn profi fod cyfnewidiad wedi cymeryd lle yn *nheimlad* Dr. Dale tuag at Galfiniaeth yn ei flynyddoedd olaf. Nid oes yma son am Galfiniaeth wedi marw, nac un awgrym o awydd am ei marw; nid oedd wiw gan y pregethwr rybuddio ei wrandawyr rhag unrhyw berygl iddynt oddiwrth Galfiniaeth; yn hytrach, rhydd ei holl nerth i'w hargyhoeddi o'r angen am sierhau y gwirion-

eddu mawrion a wnaethant Galfiniaeth yn gredu "saint aneirif." Diau fod ei gydnabyddiaeth yn y blynyddoedd diweddfaf â Methodistiaeth Galfiniaidd Cymru, ac yn enwedig â Dr. Charles Edwards a Dr. Owen Thomas,—“a tremendous old man,” meddai Dale am dano ef, wedi bod yn llawer i ddwyn y cyfnewidiad hwn o amgylch. Argyhoeddwyd ef ynddynt hwy nad oedd Calfiniaeth wedi marw, a'i bod eto yn gallu creu saint ardderchog.

Bychan fyddai dweyd fod lleferydd y Doctor ar yr elfennau Calfiniaidd y mynnai eu sicrhau yn ddigon clir a chryf i droi ymaith bob dirmyg oddiwrth Galfiniaeth; y maent o'r fath ansawdd fel na all neb, hyd yn oed gwrthwynebwyr neillduolion Calfiniaeth, eu darllen heb ddyheu am ychwaneg o Dduw ac o ddyfnder yn ei grefydd. Yr oedd yr argyhoeddiad yn dyfod i mi wrth eu darllen, y rhaid fod elfen Galfiniaidd gref yng nghalon pob dyn duwiol iawn; ac y daw hi o hyd yn fwy i'w brofiad fel y cynhydda mewn ysbrydolrwydd.

J. P.

CYFUNDREFN GREFYDDOL CHINA A JAPAN.

III.

YN ein hysgrif ddiweddfaf, ceisiasom ddatgan ein barn am werth hanesyddol y defnyddiau sydd yn cyfansoddi bywgraffiad Gautama, ac felly nid ydyw yn angenrheidiol eu dadansoddi a'u cloriannu yn yr ysgrif hon.

Nid ydyw y dynion mwyaf dysgedig sydd wedi ei wneyd yn brif bwnc eu bywyd i astudio yr ieithoedd ymha rai y mae llyfrau cysegr-edig y Bwdhistiaid wedi eu cyfansoddi, yn profesu eu bod yn alluog i dynnu y llinell dertyn rhwng y gwir a'r gau yn hanes bywyd sylfaenydd y grefydd fyd-enwog hon; a chan nad oes unfrydedd yn eu mysg hwy, beiddgarwch o'r mwyaf a fyddai ynom ni geisio cyflawni y fath orchwyl. Felly ceisiwn fyned ymlaen i ddisgrifio y prif liuellau yn ei hanes.

YR HUNANYMWADIAD MAWR.

Troes y tywysog ieuanc Gautama Bwdha ei gefn ar balas ei dad, ac ar ei wraig, Yasodhara, a ffarweliodd â'r brifddinas Kapilavastu ar noswaith pan oedd y lloer yn llawn ym mis Aesala. Yn eu disgrifiad o'r daith hon y mae llyfrau cysegredig y Bwdhistiaid yn llawn o ddigwyddiadau goruwchnaturiol mor fawreddog a dieithr fel na wnai adroddiad o honynt ddim ond cynhyrchu gwên wawdus ar wyneb y darlennydd. Marchogodd ymlaen ar ei daith trwy'r nos, a bore

drannoeth cyrhaeddodd lannau yr afon Anoma, y tu draw i derfynau teyrnas y Koliyaidd. Wedi cyrhaedd y lle hwn, ymddiosgodd o'i fantell frenhinol, ac o'r gadwen o berlau oedd am ei wddf, a throsglwyddodd hwy i'w ffyddlawn was, Channa, gan orchymyn iddo ddychwelyd yn ol ar ei farch, Kautaka, i'r ddinas, i hysbysu ei dad am ei ymadawiad. Pan wrthdystiodd Channa yn erbyn y gorchymyn, ac y datganodd ei benderfyniad i ddilyn ei feistr, atebwyd ef gan y tywysog, "Pa fodd y gall fy nhad a'm perthynasau wybod pa beth sydd wedi dod o honof, onid âi di yn ol i'w hysbysu?" Gorfodwyd y gwas, er yn alarus hyd ddaagrau, i ddychwelyd yn ol. Eilliodd yntau ymaith y cydynau hirion o wallt a'i hynodai fel milwr, a newidiodd ei ddillad â rhyw grwydryn tlawd, a chyfeiriodd ei gamrau tua dinas Rajagriha, prifddinas teyrnas Magadha, i dreulio bywyd fel mynach a chardotyn. Aeth i mewn i'r ddinas trwy y porth dwyreiniol, ac ar unwaith ymwelodd â'r tai i erfyn am ymborth gyda'i lestr cardota.

Yr oedd y ddinas hon yn sefyll yn nyffryn y Ganges, ar safle hyfryd, ac amgylchynid hi gan bump o fryniau, ac y mae'r brynau hyn wedi eu rhidyllio gan ogofeydd, ac yn un o'r ogofeydd hyn yr oedd mynachod Hindŵaidd yn cartrefu. Yr oeddynt wedi dewis y lleoedd hyn am y gallent fwynhau distawrwydd a thawelwch ynddynt, yr hyn a olygid mor fanteisiol i fywyd defosiynol a myfyrgar. Yma gallent fyw ar luniaeth syml, heb eu gwanhau gan ymborth ddanteithiol a moethus; ac yr oedd y ddinas yn ymyl, o ba un y gallent gael y cyfryw ymborth yn holloll ddi-drafferth. Wedi cardota ei ymborth, ymneillduodd Gautama, medd yr hanes, i'w fwyta dan gysgod pren yn agos i graig a elwid Pandhawa, yn agos i'r ddinas. Pan oedd yn dychwelyd oddiwrth y graig hon, digwyddodd syrthio i gwmni dau gardotyn crefyddol Hindŵaidd, o'r enwau Allara a Uddaka. Oddiwrth y rhai hyn dysgodd bopeth y mae y gyfundrefn Hindŵaidd yn ei gynnwys am foesoldeb a chrefydd. Wedi astudio prif bynciau y grefydd hynafol hon, a deall pa foddion a argymellir ganddi i ddyn eu defnyddio i gael gwaredigaeth oddiwrth drueni, teimlai anesmwythder ac anfoddlonrwydd meddwl.

Nid oedd darpariaethau crefydd henafol India yn ymddangos iddo ef yn gymiws i adfer tangnefedd a dedwyddwch i enaid anniddig a thralloeddig dyn, ac am y pethau hyn yr oedd ei holl natur ef yn dyheu. Dyma y trysorau gwerthfawr yr oedd wedi troi ei gefn ar dŷ ei dad, ac wedi ymwerthu i fywyd o dlodi a hunanymwadiad er mwyn gwneyd ymchwiliad trwyadl am danynt. Eto, ni fynnai golli pob hyder yng nghyfundrefn yr Hindŵaidd, heb yn gyntaf wneyd prawf ymarferol arni. Penderfynodd gymeryd y physigwriaeth, a gwyllo pa effeithiau a gynhyrchai ar ei gyfansoddiad moesol. Ymneillduodd i goedwig Uruvela, er mwyn ymroddi i fyfyrdodau a phenydiau, a thrwy yr ymarferiadau hyn, os oedd yn ddichonadwy, gyrraedd canfyddiad meddyliol i ddirgelion y byd ysbrydol, a mwynhau cyflwr meddwl llawn o foddlonrwydd a thangnefedd. Yn y goedwig hon y bu, meddai ei fywgraffwyr, gyda phump o gyfeillion, yn "cosbi ei gorff, gan ei ddwyn yn gaeth" trwy noethni a newyn, ac yn llwyr ymroddi i fywyd o fyfyrdod ar y pynciau hynny mewn crefydd a moesoldeb sydd yn dyrysu dynion ymhob gwlad trwy holl oesoedd y byd. Y cwllwm oedd ganddo i'w ddatod, y dyrys-

Ni wyddai am yr un. Ni chlywsai erioed am fodolaeth athroniaeth Confucius, oblegid prin yr oedd wedi ei geni; ac am grefydd yr Hebreaid, nid oedd yr un adlais oddiwtrhi erioed wedi cyrraedd ei glustiau. Pa beth oedd ganddo i'w wneyd? Ceisio furio cyfundrefn newydd o'i eiddo ei hunan.

Adrodda ei fywgraffwyr yma hanes cyfres o ddigwyddiadau goruwchnaturiol, yn ei fywyd ac yn eu mysg ei ymdrech galed â'r Ysbryd Drwg, Maha Meru; ond rhaid i ni ymgadw at y llinellau mwyaf tebyg i hanes gredadwy. Wedi iddo ddod trwy y prawf llym a ddisgrifiwyd yn barod, a ffarwelio â chyfundrefn grefyddol yr Hindwiaid, aeth oddiamgylch o le i le gyda'i lestr cardota, ac yn raddol adenillodd ei brydferthwch a'i nerth.

Oddentu yr adeg hon yr oedd yn trigo yn agos i goedwig Uruvela, foneddwr o'r enw Seiane, mewn pentref o'r un enw a'i berchennog, ac yr oedd gau hwn ferch o'r enw Sijata. Un diwrnod yn fuan wedi i Gautama ffarwelio â Hindwiaeth, ac wedi i'w gymdeithion ddychwelyd i ddinas Benares, aeth i rodio a myfyrio, ac wrth grwydro oddiamgylch cyrhaeddodd lannau yr afon Nairangara, ac yn y fan hon cyfarfyddodd â Sijata. Tosturiodd y ferch hon wrtho, a rhoddes foreufwyd iddo. Derbyniodd yntau ef yn ddiolchgar, ac eisteddodd o dan gysgod pren i'w fwyta. Yma drachefn y mae llenyddiaeth y De yn gwahaniaethu oddiwtrh lenyddiaeth y Gogledd yn ei hadroddiad o'r digwyddiadau; ond ni a ymdrechwn ddilyn y fwyaf naturiol a syml. Dan y pren hwn y parhaodd i eistedd trwy y dydd, gan ddwys fyfyrio ar y dyrws bwnc oedd yn llethu ei feddwl. Ymrithiai holl swynion bywyd ger ei fron. Gwelai â llygaid ei feddwl ei gartref brenhinol, ynghyd â'i foethau, ei ardderchowgrwydd, a'i bomp. Gwyddai, pe dychwelai yn ol, y croesawid ef â llongyfarchiadau byddarol gan yr holl drigolion, ac y cofleidid ef gyda chalonnau gwresog gan ei wraig a'i dad. Yn y lle hwn, bu am gryn ameer, mewn ing meddwl, a'i enaid yn cael ei ddiryngnu gan groes deimladau. Yr oedd yr unig gyfundrefn grefyddol y gwyddai ef am dani wedi troi allan yn fethiant hollol, a pha beth oedd yn fwy naturiol iddo na dychwelyd yn ol i'w gartref, ac ymgladdu mewn mwynderau daearol, a thrwy hynny ymlid ymaith anniddigrwydd, galar, a thrueni ei enaid? Ond yr oedd wedi cael prawf ar y pethau hyn, a gwyddai nad oedd dim cymhwyster ynddynt i lenwi enaid dyn â boddlonrwydd a thangnefedd. Gallasai ddweyd oddiar brofiad, fel brenin Hebreaid oedd yn byw bum canrif o'i flaen: "Am hynny cas gennyf fy einioes; canys blin gennyf y gorchwyl a wneir dan haul; canys gwagedd a gorthrymder ysbryd yw y cwbl. Gwagedd o wagedd, medd y pregethwr; gwagedd o wagedd; gwagedd yw y cwbl."

Meddai ddigon o wroldeb moesol i ddal dan bwysau y demtasiwn, a digon o benderfyniad meddwl i barhau i roddi holl gynheddfau ei enaid ar waith i geisio cael allan pa rai oeddent yr achosion gwirioneddol o alar a thrueni dyn, a thrwy ba foddion y gellid eu symud ymaith.

DARGANFYDDIAD TREFN IACHAWDWRIAETH.

O'r diwedd, wedi ymdrechfa faith a chaled, yn yr hon yr oedd ei alluoedd moesol a'i gynheddfau meddyliol bron wedi ymdorri gan

fawredd y pwysau llethol oedd arnynt, enillodd fuddugoliaeth. Chwalodd y cymylau a'r niwl, diflannodd cysgodau y nos, a thywynnodd haul y gwirionedd yn ei holl danbeidrwydd ar ei feddwl. Llwyddodd o'r diwedd i ddatod y cwlwm, ac i ddad-ddyrysu y pwnc oedd wedi herio craffder a medrusrwydd dynion doethaf y byd. Yn y darganfyddiad hwn y gwelir y syniad sydd yn cyfansoddi hanfod a chanolbwynt Bwdhistaeth. "Trwy un ymdrech oruchel, gorfododd ei ddeall i ddilyn un gadwen reolaidd o feddyliau, ac yn y dull hwn, fel yr ymdanghosai iddo ef, yr oedd wedi cael gafael sicr ar yr esboniad o ddirgelwch mawr galar, ac wedi darganfod ar unwaith yr achosion o hono a'r feddyginiaeth ar eu cyfer." O'r diwedd suddodd yr argyhoeddiad i'w enaid, mai yr unig ffordd i gyrraedd boddlonrwydd meddwl a thangnefedd enaid oedd trwy ddylanwad disgyblaeth fewnol ar y galon, a thrwy gariad at ereill. Yr oedd iachawdwriaeth oddiwrth alar a thrueni i'w chael "trwy hunan-reoleiddiad a chariad, heb ddim o'r defodau a'r seremonïau, heb ddim o'r dylanwadau offeiriadol, na'r duwiau ymha rai y mae dynion mor hoff o ymddiried."

Fe wel y darlennydd ar unwaith yn y darganfyddiad hwn gnewylln yr holl gyfundrefn. Dyna yw Bwdhistaeth—cyfundrefn wedi ei dwyn i fodolaeth gan feddwl dynol, amcan pa un yw galluogi dynion i ymysgwyd oddiwrth anniddigrwydd a galar yn y fuchedd hon, a chyrraedd cyflwr o berffaith dawelwch a thangnefedd, a hynny trwy gyflawni dyledswyddau moesol yn unig, ac heb wneyd un math o gydnabyddiaeth o fodolaeth unrhyw elfen ysbrydol mewn dyn, nac o fodolaeth Duw. Yr oedd y gyfundrefn fel y dysgid hi yn wreiddiol gan ei sylfaenydd, yn gyfuniad rhyfedd o faterolaeth ac atheistiaeth ar un llaw, ac o foesoledb uchel ar y llaw arall. Yn y dadblygiadau sydd wedi cymeryd lle arni yn y 2,400 o flynddoedd diweddfaf, y mae wedi ymlygru llawer, a chwedlau gwrthnn, firwyth tueddfryd ofergoelus a dychymyg bywiog y Bwdhistaïd, wedi treiddio trwy ei holl gyfansoddiad; ond y prif linellau a welir yn y gyfundrefn ar ei chychwyniad oedd y pwysigrwydd a roddai ar yr elfen foesol, a'r dibristod amlwg o ddefodaeth a duwinyddiaeth. Nid oedd y pethau diweddfaf hyn yn deilwng i'w cymeryd i ystyriaeth tuag at gael gwaredigaeth oddiwrth alar a thrueni, a chyrraedd cyflwr o dawelwch a thangnefedd.

Gan fod y pwnc hwn yn un lled ddieithr i lawer, a chan fod dwy ffynhonnell o ba rai yr ydym yn rhwym o dynnu ein holl wybodaeth am dano,—sef llyfrau cysegredig y De a llenyddiaeth Fwdhistaidd y Gogledd, a chan fod y rhai hyn yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd yn yr hanes a roddir ganddynt am sefydliad eu crefydd, ni a roddwn ddyfyniadau o weithiau dynion y gellir ymddiried i'w barn am natur y trysor a ddarganfyddodd Gautama. Fel hyn y mae yr hanes fel ei rhoddir yn llenyddiaeth y De yn y tair iaith, Sanscrit, Pali, a Singalese :—

Pan oedd yr haul wedi machludo, enillodd y tywysog fuddugoliaeth ar Mara [yr Ysbryd Drwg]. Ar y ddegfed awr, efe a dderbyniodd ddoethineb trwy ba un y daeth i wybod yn hollol gywir amgylchiadau yr holl fodau a fu mewn bodolaeth erioed yn y bydoedd diderfyn a dirff. Ar yr ugeinfed awr, efe a dderbyniodd lygaid dwyfol, gyda pha rai y gwelodd bopeth o fewn ehangder y sakwaliaid diderfyn, mor glir a phe busant yn ymyl. Ar y ddegfed awr draohelfn, efe a dderbyniodd wybodaeth sydd yn dadlennu achosion o fynyeh adgynhyrchiad

bodolaeth. . . Wedi hyn derbyniodd Bodhisat mewn trefn, freintiau y pedwar llwybr a'u ffrwyth. Yna ar doriad gwawr y dydd dilynol, dilewyd pob olion o ddrwg ddymuniaid allan o hono.

Y mae yr holl hanes wedi ei addurno yn llynyddiaeth y De â'r fath ddigwyddiadau mawreddog a goruchnaturiol fel nad yw yn fwy tebyg i Fwdhistiaeth Gautama nag yw Pabyddiaeth i Gristionogaeth y ganrif gyntaf. (Gwel Spence Hardy's *Manual*, pen. vii.).

Wele gwnewyllyn yr hanes a rodder yn llynyddiaeth y Gogledd :—

Existeddai Gautama i lawr i fwyta o dan gysgod pren mawr, yr hwn oedd i gael ei adnabod o hynny allan fel y pren Bo, neu bren doethineb. Yno yr arhosodd trwy oriau meithion y dydd, gan ymresymu ynddo ei hunan pa beth nesaf i'w wneyd. . . Fel hyn y bu mewn ingoedd amheuaeth o'r bore glas hyd fachludiad yr haul. Ond fel yr oedd y dydd yn terfynu, yr oedd yr ochr grefyddol i'w natur wedi ennill y fuddugoliaeth; yr oedd ei amheuon wedi diflannu; yr oedd wedi dod yn Bwdha, hynny yw, yn oleuedig; yr oedd wedi cael gafael dên, fel yr ymddangosai iddo ef, mewn esboniad ar ddirgelwch mawr galar, ac wedi darganfod ar unwaith ei achosion a'r feddyginiaeth ar ei gyfer. Yr oedd yn ymddangos wedi cyrraedd porthladd tangedfedd, ac *mewn awdurdod ar galon dilynol o amaethiad meunol ac o gariad at ereill*, yr oedd o'r diwedd wedi cael gorffwys ar sicrwydd nas gellid ei ysgogi byth. . . Digon yw dweyd fod holl ddyseidiaeth Gautama yn dadlennu ei hunan i gyfundrefn o hunan-amaethiad meddyliol a moesol, a bod gofalon difudd, a gobeithion ofer bywyd cyffredin, yn cael eu hystyried yn anghydnaws â'r graddau uchaf o'r hunan-amaethiad hwn, ac y byddai i'r pethau hyn ddod yn ddiflas i'r rhai oedd wedi ei gyrraedd hyd yn oed i raddau llai.—DR. RHYS DAVIDS.

Nid oedd Gautama ei hunan yn proffesu ei fod o dan ddylanwad ysbrydoliaeth pan yn gwneyd y darganfyddiad hwn, ond edrychai arno fel ffrwyth naturiol ei ymdrechadau meddyliol ef ei hunan. Y gwirionedd yw, yr oedd defodaeth wedi ei chario i'r fath eithafon yn y grefydd Hindwaidd, a'r fath bwys yn cael ei roddi ar honiadau yr offeiriaid, a'r dylanwadau cyfriniol a swyngyfareddol a hawliant iddynt eu hunain, fel nad oedd yn ddichonadwy i'r wlad orwedd yn dawel heb i wrthryfel neu wrthweithiad gymeryd lle. Y cwbl oedd yn angenrheidiol oedd, cael dyn fel Gautama Bwdha yn ddigon meddylgar, an-hunangar a gwrol i roddi cychwyniad i'r ysgogiad. Pan mae ofergeoedd wedi rhuthro fel diluw dros wlad, a defodaeth wedi cynhyddu yn aruthrol, nes llethu ysbrydoedd dynion a myned yn faich ar genedl,—pan mae defodau wedi ennill y fath sylw a phwysigrwydd nes cymeryd lle uffudd-dod moesol a'i guddio o'r golwg, a pheri i ddynion ei ddibrisio os nad ei ddirmygu, fel yr oedd yn Palestina yn nyddiau Crist, ac fel y mae yn y parthau mwyaf Pabyddol o Ewrop yn awr,—dyna adeg i arwr godi i gyffroi natur foesol ei gyd-ddynion i'w dyfnderoedd, a dymchwelyd y gyfundrefn annaturiol a gorthrymus o dan ba un y mae yn gorwedd yn ddiymadferth a marw. Dyma oedd cyflwr India pan y sylfaenodd Gautama Bwdha y gyfundrefn Fwdhistiaid.

CYFLWR GREFYDDOL INDIA.

Yn yr amser y symudodd y gyfundrefn hon i enwogrwydd, Hindwaeth oedd prif grefydd India. Yr oedd hon yn gyfundrefn grefyddol dra hynafol hyd yn oed yn y cyfnod boreuol hwnnw, ac yr oedd ganddi lenyddiaeth oedd bron yn cydymgeisio âg Ysgrhythyrau yr Hebreaid. Y prif bynciau yng ngyfies ffydd yr Hindwaidd—y pethau a ystyrir yn hanfodol i'w credu—oeddynt y rhai canlynol:—1. Effeithiolrwydd

gweithredoedd, penydiau a hunan-gosbedigaethau. 2. Duwiau personol, ysbrydion ac is-dduwiau, y rhai a darddasant o'r Anfeidrol Fod, ac sydd i ymgolli ynddo drachefn fel dafnau o ddwfr yn y môr. 3. Tragwyddol hanfodiad yr enaid fel rhan o Dduw, heb ddechreu na diwedd. 4. Tragwyddol hanfodiad y sylwedd, o ba un y mae'r greadigaeth wedi tarddu. 5. Trawsymfudiad eneidiau trwy gadwen ddiderfyn o gyrff. 6. Pwysigrwydd *caste*. 7. Pantheistiaeth neu fodolaeth wirioneddol Duw amheronol, a bodolaeth ymddangosiadol popeth arall, yn unig fel arddangosiadau o hono Ef. O dan bren neillduol (*Bo*), fel y dywedwyd, gwnaeth Gautama ei ddarganfyddiad mawr, ac edrychir ar y pren hwn gan filiynau o Fwdhistaidd gyda pharch ac edmygedd addoliadol, a dywedir fod cangen o hono yn tyfu yn awr yn Ceylon. Os yw hyn yn wir, hwn yw y pren hynaf y gwyydys am dano ar y ddaear. Adnabyddir ef gan y Bwdhistaidd fel Pren Doethineb, am mai o dano ef y cyrhaeddodd Gautama wybodaeth drwyadl am amgylchiadau holl fodau y creâd, a'r achosion o adgynhyrchiad bodolaeth pob peth. Yma y cyrhaeddodd yr anrhydedd o fod yn arweinydd mewn crefydd a moesoldeb i'r holl hil ddynol. Yma y daeth yn gymwys i wisgo yr enw urddasol o Bwdha, y "Goleuedig."

Y mae llenyddiaeth Fwdhistaidd Ceylon yn rhoddi hanes tra manwl am y digwyddiad pwysig hwn, ac yn ei addurno â gwisg farddonol a mawreddog. Ar y cyntaf, wedi gwneyd y darganfyddiad hwn; cloffai Gautama rhwng dau feddwl, a methai benderfynu pa peth a wnai; ond o'r diwedd gwnaeth ei feddwl i fyny, y byddai iddo gyhoeddi cynllun ei iachawdwriaeth i'r byd. Yr oedd ei hen ddysgawdwyr, Alara ac Udraka, erbyn hyn wedi marw. Cychwynodd Guatemala ar ei ffordd tua Benares, lle yr oedd ei hen ddisgyblion, Kondanya a'r pedwar mynach ereill yn trigo. Yna y mae yn egluro iddynt wirioneddau sylfaenol ei grefydd, y rhai a gynhwysir yn awr yn y llyfr a elwir "Sutra Sylfaeniad Teyrnas Cyfiawnder." Y mae Kondyna yn cofleidio ei grefydd, ac wedi amryw ymddiddanion âg ef y mae y pedwar ereill yn dilyn ei esiampl.

Dyma, yn fyr, gipdrem ar y ffnhonell o ba un y tarddodd y fwyaf llwyddiannus o holl gau-grefyddau y byd. Y mae y Bwdhistaidd yn credu fod yr holl ddigwyddiadau uchod yn ffeithiau hanesyddol gwirioneddol, ac y maent yn profesu credu fod yr holl hanes wedi ei fritho gan wyrthiau; ond wrth gwrs nid yw y pethau hyn yn ddim ond cynnyrch dychymyg bywiog cenedlaethau o edmygwyr sylfaenydd eu crefydd.

BYWYD GAUTAMA FEL DYSGAWDWR.

Dywed ei fywgraffwyr iddo fyw am 45 o flynyddoedd ar ol yr argyfwng mawr uchod. Treuliodd beth amser yng nghoedwig Migada, ac yma yr oedd 60 o ddisgyblion wedi ymgasglu o'i amgylch, oddeutu pum mis wedi ei ddyrchafiad i'r safle uchel o fod yn sylfaenydd i'r grefydd Fwdhistaidd. Oddiyma yr aufonodd ei ddisgyblion allan i ddsygu a phregethu athrawiaethau ei grefydd.

Yn ystod y 45 hyn o flynyddoedd, teithiodd filoedd o filltiroedd, ac ymwelodd âg ugeiniau o leoedd, gan ddsygu i bawb y cynllun a

ddarganfyddasai i waredu y byd oddiwrth alar a thrueni. Yn ystod y dydd, ar y tymor sych a chynnes o'r flwyddyn, arferai deithio oddiamgylch, gan ddysgu a phregethu, ac anfonai ei ddisgyblion i wahanol gyfeiriadau ar yr un gorchwyl; ond yn ystod y pedwar mis gwlawog, o Mehefin i Hydref, arferai aros yn sefydlog o dan dŵ gyda'i ddisgyblion, a thrwy y tymor hwn ymroddai i'w dysgu yn athrawiaethau ei grefydd. Dianghenraid yw i ni ei ddilyn yn fanwl o le i le, a chofnodi digwyddiadau ei fywyd; ond gallwn grybwyll ychydig o'r ffeithiau pwysicaf, o amser ei droedigaeth hyd ddydd ei farwolaeth.

Tra yr oedd Gautama yn trigo yng nghoedwig Uruvela, daeth i gymdeithas tri brawd o'r enwau Kasyapa, y rhai oeddynt dan-addolwyr. Bu ei ymddiddanion â hwy yn foddion i beri i un o honynt goffeidio y grefydd newydd, a dilynwyd ei esiampl gan ei frodyr a'u disgyblion.

O Uruvela aeth ef a'i ddisgyblion newyddion i Gaya, ac oddiyno cerddodd yr athraw a'i ddisgyblion i Ragagriha, prifddinas Magadha, teyrnas a safai y pryd hwnnw yn nyffryn y Ganges. Ymestynnai am 100 milltir i'r De o'r afon enwog hon; ac am 100 milltir i'r Dwyrain o'r afon Soma. Yr oedd Kasyapa yn dra adnabyddus yn y dref hon, a daeth y brenin allan i'w gyfarfod. Yma traddododd Gautama bregeth, ac mewn canlyniad i'r bregeth hon cofseidiodd y brenin Bimbasara y gyfundrefn newydd. Bu troedigaeth y ddau berson pwysig hyn yn foddion i balmantu y ffordd o'i flaen, ac i chwalu rhagfarnau y trigolion. Pan oedd Gautama yn aros yn y llwyn ar fin y dref, yr oedd y trigolion yn cyrchu yn dyrfaoedd i ymweld âg ef, a phan ddaeth i mewn i'r dref amgylchynwyd ef ganddynt, a rhoddwyd derbyniad brwdfrydig iddo. Yn y lle hwn rhoddes y brenin lwyn o goed iddo i ymgartrefu ynddo, ac yma y treuliodd lawer o'r tymhorau gwlawog o'r flwyddyn, ac y traddododd lawer o'i bregethau. Arhosodd yn y dref y tro hwn am ddau fis, ac ymunodd dau o feudwyaid â'r Gymdeithas, o'r enwau Sauputia a Mogallana, y rhai a ddaethant wedi hynny yn dra enwog ymysg arweinwyr y Bwdhistiaid.

Yn fuan ffurfiodd gymdeithas o gardotwyr crefyddol (*mendicants*), ac anogodd, bawb i ymuno â hi, a chymhellai hwynt i goffeidio gwryfodod, nid mewn ieuenticid a hen ddyddiau fel ymysg y Brahminiaid, ond trwy eu holl fywyd.

Ymwelodd â'i ddinas enedigol, a chafodd gan ei berthynasau agosaf droi eu cefnau ar Hindwiaeth a choffeidio Bwdhistiaeth. Trwy rym ei esiampl a dylanwad ei ddysgeidiaeth, cafodd gan ei dad, Suddhodana, ei wraig Yasodhara, ei fab Rahula, ei hanner brawd Nanda, oll i gredu yn ei gynllun fel yr unig un cymwys i waredu dynion oddiwrth anniddigrwydd a thrueni.

Mae y llyfrau Bwdhistiaidd yn disgrifio y digwyddiadau yma gyda'r fath fanylwch, ac yn adrodd yr ymddiddanion a arweiniodd i argyhoeddiad y personau hyn mor gyflawn fel y mae yn annichonadwy i ni eu derbyn ond fel addurniadau â pha rai y gwisgwyd y ffeithiau noethion hyn gan ddychymyg bywiog rhyw Fwdhistiaid mwy hoff o farddoniaeth a fflugchwedlaeth nag o hanes credadwy. Byddem yn euog o hygoledd plentynaid pe credem fod yr holl ddisgrifiadau

swynol hyn wedi nofio i lawr atom ni trwy gyfnewidiadau ac ystormydd 2,400 o flynyddoedd.

O Kapilavastu dychwelodd yn ol i Rajagriha, a thra ar y daith hon gorffwysodd am amser mewn lle o'r enw Anupiya, ar lán yr afon Anoma, mewn llwyn o goed. Tra yn y lle hwn derbyniodd ychwanegiadau pwysig at nifer ei ddilynwyr oddiwrt h ei genedl ei hun, ac o fysg ei berthynasau, y Kolvyaid. Un o'r rhai hyn oedd Ananda, ei gefnder, yr hwn a barhaodd fel cyfaill mynweol a disgybl ffyddlawm gydag ef hyd ddydd ei farwolaeth. Yr oedd un arall o honynt, Dewadatta, yn gefnder iddo, ond troes hwn allan yn wrthwynebwr iddo, ac yn gydymgeisydd ág ef am uchafiaeth. Daeth y trydydd, Upali, yn un o brif arweinwyr y Gymdeithas Fwdhistiaidd; ac am y pedwerydd, Anuruddha, profodd hwn ei hun yn ŵr tra galluog mewn athroniaeth feddyliol. Trwy yr holl ychwanegiadau hyn, yr oedd Bwdhistiaeth wedi cael symbyliad mawr ymlaen, a hynny yng ngwlad enedigol ei sylfaenydd, ac o fewn yr 80ain mlynedd cyntaf ar ol ei chychwyniad. Dywedir fod enwau 33 o'r lleoedd yr ymwelodd Gautama â hwynt i lawr yn ei wahanol fywgraffiadau.

Ceir yn y Pitakeaid hanes manwl am y tri mis diweddf o'i fywyd, a dadleua dynion o'r awdurdod uchaf fel ieithyddwyr, y gellir olrhain y cynhyrchion llenyddol hyn yn ol i Gyngor Patna, yr hwn a gynhaliwyd yn 250 o.c., neu o gant i gant a hanner o flynyddoedd wedi marwolaeth Gautama.

O'r diwedd, wedi einioes faith a llafurus, teimlai fod ei natur yn llesghau, a sylweddolai y gwirionedd fod ei yrfa ddaearol yn tynnu tua'i therfyn. Ar y 44ain tymor gwlawog wedi ei droedigaeth, aeth i Shavaste, ac oddiyno dychwelodd i ogof yn ochr un o'r mynyddoedd uchaf sydd yn rhedeg ar hyd ochr dyffryn Rajagriha. O'r lle hwn aeth dros y Ganges, yn agos i'r fan y mae safle dinas bresennol Patna. Teithiodd ymlaen nes dod i Ambapali, ac arhosodd yn y lle hwn am ychydig amser, ac yna ymadawodd á'r lle, a theithiodd i le arall o'r enw Belu-gamaka, ac yn y lle hwn y treuliodd y 45ain tymor gwlawog. Yr oedd fel hyn yn teithio o le i le yn wastadol, gan wasgaru ei athrawiaethau ymysg ei gydwladwyr; ond erbyn hyn yr oedd ei fywyd di-hunaugar a llafurus yn tynnu tua'i derfyn. Yn y lle diweddf a enwyd, ymosodwyd arno gan afiechyd llym a phoenus, yr hwn a ddygodd y dysgawdwr i sylweddoli y faith fod terfyn ei yrfa yn agoshau; ond ni fynnai beidio llafurio nes i'w nerth llyr ballu. Wedi i'r tymor gwlawog fyned heibio, anturiodd fyned am un daith drachefn trwy bentrefi Wesali, gan gasglu ei ddisgyblion yngyd a'u hannog i lynu wrth ei athrawiaethau. Yn y lle hwn dywedir iddo draddodi anerchiad i'w ddisgyblion yn y rhagolwg ar ei ymadawiad oddiwrt hyn. O'r lle hwn teithiodd ymlaen hyd nes y cyrhaeddodd Pava, lle y llei'fwyd ef gan ôf aur, ac oddiyno yn y pryd-nawn aeth i Kusinagara, tref yn gorwedd 120 o filltiroedd i'r Gogledd-Ddwyrain i Benares, ac oddeutu 80 i'r Dwyrain i Kapilavastu. Llwyddodd trwy fawr ymdrech i gyrraedd llwyn o goed o'r tu allan i'r dref, lle y gorffwysodd. Yma cymerodd amryw ymddiddanion rhyngddo á'i was ffyddlawm Ananda le, y rhai sydd wedi eu cofnodi yn fanwl a gofalus yn y Pitakiaid; ond nid yw yr ysgrhythrau Bwdhistiaidd yn

cytuno gyda golwg ar y geiriau diweddfaf a ddiferasant dros ei wefusau. Y maent oll yn tystio fod athronydd Brahminaid o'r enw Sabhadra o Kusingaro, wedi ymweled âg ef, a'i fod wedi ei argyhoeddi trwy ymddiddan, ac mewn canlyniad wedi cofleidio ei grefydd. Y brawddegau diweddfaf a briodolir iddo yw y rhai canlynol: wrth weled ei was, Ananda, yn ymollwng i wylo, cyfarchodd ef yn y geiriau yma: "O Ananda, na thralloder di, ac na wyla. Oni ddywedais i wrthyt fod yn rhaid i ni ymadael â phob peth sydd yn anwyl a dymunol gennym? Nis gall yr un bod, pa fodd bynnag y ganwyd, neu y lluniwyd ef, or-oesi y dadansoddiad sydd yn perthyn yn hanfodol i'n natur ni; nid oes y fath gyflwr mewn bodolaeth. Am lawer iawn o amser yr wyt wedi bod yn agos iawn ataf fi mewn caredigrwydd, trwy feddylgarwch gair a gweithred. Yr wyt wedi gwneyd yn dda bob amser; dyfalbarhâ, a thi a ddeui yn hollol rydd oddiwrth syched am fywyd, oddiwrth y gadwen hon o anwybodaeth." Wedi hyn cyfarchodd ei holl ddisgyblion oedd o'i amgylch: "Anwyliaid, yr hyn sydd yn achosi bywyd sydd hefyd yn achosi darfodedigaeth a marwolaeth. Nac anghofiwch byth mo hyn, ond llanwer eich meddyliau â'r gwirionedd hwn. Myfi a'ch gelwais chwi i'w wneuthur yn wybyddus i chwi. Fy nisgyblion, yr ydwyf yn awr am argraffu ar eich meddyliau fod yn rhaid i rannau a galluoedd dyn gael eu dadansoddi. Gweithiwch allan eich iachawdwriaeth eich hunain gyda diwydrwydd."

Dyma y geiriau diweddfaf a ddiferodd dros ei wefusau, ac wedi dweyd y rhai hyn, suddodd i gyflwr o anymwybyddiaeth, ac ehedodd ei ysbryd i'r byd mawr yr oedd ef wedi bod mor afwyddiannus yn ei ymbalfaliadau am dano.

D. LLOYD JONES.

BEDD A BARN.

BEDDARGRAFF YM MYNWENT BWLCHGWYN.

BUAN y rhed y bywyd,
Ceir bedd i wacâu 'r byd;
Gyda gair, wedi gorwedd,
Ceir barn i wacâu 'r bedd.

Y "FASNACH," AC IAWN I DAFARNWYR.

IE, Y Fasnach—"The Trade;" dyma'r modd y disgrifir y fasnach mewn diodydd meddwol Nid oes eisieu un ansoddair i'w dynodi. Yr oedd yn rhaid galw y fasnach mewn caethweision yn *gaeth-fasnach* er mwyn ei dynodi; ond y mae y fath arbenigrwydd ynglŷn â'r fasnach feddwol; y mae mor wahanol yn ei natur i bob masnach arall; y mae yn achosi cynifer o ddrygau, heb un math o ddaioni i'w oed ar yr ochr arall, fel nad ydym yn tybied mai amhriodol hyd yn oed i ddirwestwyr ydyw siarad am dani fel y fasnach. Mae y tafarnwyr yn foddllawn iawn ar y gair noeth, heb ansoddair; dim ond y fannod o'i flaen; a thybiant, mae'n debyg, fod y fasnach yn cael ei pharchu mewn modd arbennig trwy hynny. Ac yr ydym ninnau sydd heb feddu rhyw lawer o serch ati yn foddllawn hefyd i'r term "y fasnach," ond nid fel arwydd o barch, ond yn hollol i'r gwrthwyneb. Dyma fasnach sydd yn sefyll ar ei phen ei hun; nad oes un fasnach ar y ddaear yn y dyddiau hyn yn deilwng o'i chymharu â hi o ran ei natur, ac o ran y drygau sydd ynglŷn â hi. Yn wir y mae yn amheus gennym a oedd y *gaethfasnach* ei hun mor niweidiol a drygionus a'r fasnach hon yn ei chanlyniadau. Pan ddeffroir y wlad o ddifrif i sylweddoli ei drygedd, byddwn yn synnu ein bod wedi ei goddef cyhyd.

Yr ydym yn edrych yn ol, yn awr, gyda syndod fod dynion da a duwiol yn gallu bod mor ddistaw tra yr oedd y fath anfadwaith yn cael ei gario ymlaen â'r fasnach mewn caethion. Ië, eu bod, nid yn unig yn gallu bod yn dawel a digyffro, ond llawer o honynt yn ei hamddiffyn. Nid oes neb a amheua am foment fod y Parch. John Newton, awdwr cynifer o lyfrau a phregethau rhagorol, a chyfansoddydd y rhan fwyaf o'r *Olney Hymns*, megis

How sweet the name of Jesus sounds
In a believer's ears, &c.,

nid oes neb, meddwn, a amheua fod y gŵr hwnnw yn ddynd duwiol. Cafodd grefydd ymhell cyn bod yn weinidog efengylaidd yn Eglwys Loegr. Yr oedd yn gapten ar longau ag oedd yn cludo caethion o Africa. Tra yr oedd y caethion yn cael eu trin fel anifeiliaid direswm ar y llong, yr oedd Newton yn dduwiolfrydig iawn yn dal cymundeb â Duw! "I never knew," meddai, "sweeter or more frequent hours of divine communion than in my two last voyages to Guinea, when I was almost secluded from society on shipboard, or when on shore among the natives." A hyn pan oedd y caethion duon yn dioddef holl boenydiau y fordaith ym mherfeddion y llong! Yr ydym ni yn synnu, yn awr, fod dyn mor dduwiolfrydig heb deimlo ei fod yn cynorthwyo mewn masnach oedd mor ofnadwy o ddrwg, ac yn barod i dybied nad oedd ei grefydd ond rhagrith: ond ei dystiolaeth ef ei hun ydyw,—“During the time I was engaged in the slave trade, I never had the least scruple as to its lawfulness,” er ei fod, meddai, “some-

times shocked with an employment that was perpetually conversant with chains, bolts, and shackles"!

Fel yr ydym ni yn awr yn synnu fod neb ag oedd yn proffesu dal cymundeb â Duw yn gallu cario ymlaen fasnach mor annydol a chreulon, credwn y daw yr adeg cyn hir iawn y bydd pawb yn synnu fod Prydain wareiddiedig a chrefyddol, o ran proffes, wedi gallu goddef o'i mewn fasnach sydd yn achosi y fath drueni o bob math ag sydd yn anwahanol gysylltiedig â'r fasnach feddwol.

Gofynnwn i'r darllynydd ddod gyda ni, ar ryw nos Sadwrn dyweder, trwy un o brif heolydd un o'n trefi mawrion—Liverpool er engraifft. Cymerwn Scotland Road. Y mae tafarndy ar goulg pob heol ymron sydd yn troi o'r traf heol, ac yn amlach na hynny. Gadewch i ni gil-agor drws un o'r tai hyn, oblegid dyna'r unig ffordd y gallwn ni weled beth sydd yn myned ymlaen oddimewn. Mae'r ffenestri yn uchel, ac wedi eu cau yn y fath ffodd fel nas gellir gweled beth sydd yn cael ei wneyd y tu fewn. Y mae y lle yn llawn o feibion a merched tlodaidd yr olwg arnynt. Eu gwisgoedd yn garpiog ac yn fudr, eu gwynebau yn hagr a blythog, eu llygaid yn gochion a thrymaidd, a phob un ymron yn dangos arwyddion amlwg o'r llymeitiwr cyson neu o'r meddwyn penderfynol. Mae yna liaws o honynt, a phob un a'i wydriad o'r hyn a alwai Robert Hall yn "hell fire and damnation" yn ei law. Edrych ar y ddynes yna a phlentyn bach ar ei breichiau. Y mae yn ei ddal yn y fath fodd fel y mae y bychan yn rhwym o fod mewn poenau. Y mae yn ei godi ac yn rhoi diferyn o'r gwydriad sydd o'i blaen iddo, ac y mae yntau yn ei sipian, ac ymhen ychydig yn pendympian ac yn cysgu. Toc, dacw'r fam yn siarad â dynes arall yn ei hymyl, y maent yn dechreu anghytuno ac yn torri allan i ffraeo. Y maent yn barod i ymladd, ac y mae y fam yn taro'r plentyn o dan ei braich chwith, fel pe na byddai ond telpyn marw, er mwyn gallu rhoi dyrnod i'r wraig sydd o'i blaen. Mae rhai o'r dynion yn casglu o'u cwmpas, ac yn eu cyffroi i ymladd, ond y mae y dyn cryf sydd y tu ol i'r masnachfwrdd yn neidio drosto, ac yn tawelu yr ystorm, feallai trwy droi un neu arall o'r cynhyrfwyr allan. Mae'r ymyfed fel hyn yn mynd ymlaen hyd un ar ddeg y nos, ac yna y mae yn amser cau. Troir pawb allan, ac y mae yr heolydd yn cael eu llenwi â meibion a merched sydd yn barod i bob math o derfysg rhysedd ac afreoleidd-dra. Dyna'r amser y mae yr heddgaidwaid yn cael mwyaf o waith i gludo rhai i'r carchar, neu i dawelu terfysgoedd heb hynny, os gallant. Dyma'r pryd y mae y meddygon yn yr ysptyai a'r meddygdai brysufaf yn trwsio clwyfau; dyma'r adeg y gwelir yn y tai truenus, a gamenwir yn gartrefi y creaduriaid anffodus hyn, ymrafaelion, ymladdau, a thrueni o bob math. Dyma'r modd y mae "y fasnach" yn cael ei chario ymlaen mewn un tafarndai hyn. Ac y mae cannoedd lawer o'r cyfryw dai ymhob tref fawr trwy y deyrnas. Mae y tai hyn yn eiddo darllawyr cyfoethog, feallai; dynion sydd yn troi yng nghylchoedd uchaf cymdeithas, dynion na chymerent y byd am adael i'w gwragedd neu eu merched fyned yn agos iddynt, er eu bod yn dwyn y fath elw iddynt hwy; dynion sydd yn cyfrannu yn helaeth, ond odid, at bob sefydliad da ac elusengar, dynion sydd yn cael eu parchu gan eu cyddlynion, rhai o honynt yn cael eu dyrchafu yn Aelodau Seneddol, ac

yn edrych ymlaen at gael eu dyrchafu i Dŷ yr Arglwyddi. Y mae tua 180,000 o dafarn dai yn ein teyrnas—un ar gyfer pob 200 o'r boblog-aeth, neu a chyfrif pump ar gyfer pob teulu y mae un dafarn ar gyfer pob deugain o deuluoedd. Nid wyf mor ffol a haeru fod pob un o'r tafarn dai hyn cyn waethed â'r un y bum yn ei egwan ddisgrifio. Na, yr wyf yn gwybod fod o'honynt dai yn cael eu cadw mor drefnus a heddychol ag y caniatâ'r ddiodydd a werthir ynddynt. Ond fe wya pawb fod y mwyafrif mawr o'honynt yn nythleoedd trueni, troseddau, a thloddi, a'u bod, ar y cyfan, yn gwenwyno ac yn llygru cymdeithas trwyddi.

Gwir a ddywed Dr. Kate Mitchel yn ei lyfryn bychan rhagorol ar y *Drink Question*, "Pe goleuid meibion a merched y wlad hon yn gyffredinol mewn perthynas i effeithiau y sylwedd a elwir yn alcohol ar y corff dynol, ar hiliogaeth, ar gyfoeth y deyrnas, ar ei llwyddiant cyffredinol, ni orffwysent un diwrnod, hyd nes yr ymlidid y peth mellidgedig i ddinistr a cholledigaeth lwyr."

Gadewch i ni dafu brasolwg ar y niwed y mae "y fasnach" yn ei wneyd i ni fel teyrnas, a chyfyngwn ein hunain yn gyfangwbl ymron i'r drwg y mae yn ei wneyd i'n llwyddiant a'n buddiant tymhorol.

1. Cofiw'n yn y lle cyntaf ein bod yn gwario ar y fasnach gant a deugain o filiynau o bunnau mewn blwyddyn. Mae y swm hwn yn cael ei wario yn uniongyrchol am y diodydd meddwol. Gwyddom yn dda nad ydyw ysgrifennu neu ddarllen, cant a deugain o filiynau o bunnau, yn cyfleu ond syniad egwan am faintioli anferth y cyfryw swm; ac nis gallwn ninnau yn awr fforddio rhoddi egluriadau trwy esiamplau er mwyn cyfleu y syniad i'r meddwl. Gallwn ddweyd yn unig ei fod yn gyfartal i tua deunaw punt ar gyfer pob teulu; ei fod yn gymaint ag ardreth pob tŷ a ffarm trwy yr holl Deyrnas Gyfunol!

A chofier nad yw y swm a nodwyd—cant a deugain o filiynau o bunnau—ond y swm a delir yn uniongyrchol am ddiodydd. Y mae y diweddar Mr. Hoyle wedi dangos fod y fasnach yn costio i'r wlad lawn cymaint a hynny drachefn mewn modd anuniongyrchol; hynny ydyw, fod yr holl gostau sydd yn myned i wrthweithio y drygau a achosir gan y ddiodydd y telir 140 o filiynau o bunnau am dani—yn dod i tua 140 o filiynau yn ychwanegol. Gwna hynny y swm enfawr o 280 o filiynau bob blwyddyn. Y mae hynny yn un ran o bedair o holl enillion y deyrnas, neu yr un peth â phe gosodid treth o 5 swllt ar bob punt y mae pawb yn ei ennill. Yr ydym wedi nodi y ffeithiau hyn yn eu noethder syml; ond caredm i'r darlennydd sefyll uwch eu pen gyda difrifwch a phwyll. Y maent "yn siarad cyfrolau."

2. Yn awr meddyliar am yr effaith y mae hyn yn ei gael ar lwyddiant, neu yn hytrach ar aflwyddiant masnach ein teyrnas. Rhaid i ni addef ein bod yn rhyfeddu mor lleied o sylw y mae y cwestiwn hwn, yn y wedd yma, yn ei gael gan seneddwyr a gwladweinwyr ein gwlad. Mae Mr. Hoyle yn arbennig wedi bod yn galw sylw at hyn yn ei lyfrau, yn ei draethodau, o flaen cynghorau trafnidol ein teyrnas, ac yn ei lythyrau i'r *Times* flwyddyn ar ol blwyddyn; ac y mae y *Times* mewn erthyglau golygyddol wedi galw sylw at bwysigrwydd y cwestiwn mewn rhyw ddull oeraidd dro ar ol tro; ac nid ydyw y *Times*, na'r Cynghorau Trafnidol wedi meiddio ceisio dangos fod ffeithiau Mr.

Hoyle yn anghywir mewn un modd. Yr hyn gan hynny sydd yn ein synnu ydyw fod y wlad rywfodd heb deimlo y peth i bwrpas. Y mae fel yn ymwybodol, os yw pethau fel y dywedir, y bydd yn rhaid ymosod o ddifrif ar "y fasnach;" ac y mae yn rhy lwfr neu yn rhy hoff o'r ddiod i ymgymeryd a'r fath orchwyl. Ond y gwir yw, fel y dywedodd y diweddar Brif Weinidog, rhaid i'r wlad ddinystrio y fasnach hon neu fe ddinystria y fasnach y wlad. Gadewch i ni wasgu hyn adref trwy ei ddweyd unwaith eto:—*Y mae "y fasnach" yn costio pum swllt o bob punt y mae y wlad yn ei ennill.* Mae chwarter ein hen-million yn cael ei wastraffu. Ié, a gwaeth na'i wastraffu, oblegid byddai yn fendith i'r wlad pe byddai yr arian a werir ar y diodydd meddwol yn cael eu tafu i eigion y môr yn hytrach na'u gwario fel y gwneir. Nid rhyfedd i Carlyle ddweyd fod poblogaeth y wlad hon yn hyn a hyn o filiynau, *mostly fools!* Yr ydym yn son am gwestiwn mawr yr *unemployed*. Gynifer o ddynion sydd yn barod i weithio ac yn methu cael gwaith! Golygfa dorcalonus ydyw eu gweled yn y farchnad, yn druenus a rhylllyd yn aml, yn disgwyl am gael eu llogi. Pwy nad yw yn teimlo gyda Burns:—

See yonder poor oe'r laboured wight,
So abject mean and vile,
Who begs a brother of the earth
To give him leave to toil;
And see his lordly fellow-worm
The poor petition spurn
Unmindful, though a weeping wife
And helpless offspring mourn.

Ac y mae'r llinellau nesaf mor ragorol fel nas gallaf beidio eu dyfyuu

If I'm designed yon lordling's slave,
By Nature's law designed,
Why was an independent wish
E'er planted in my mind,
If not why am I subject to
His cruelty or scorn?
Or why has man the will and power
To make his fellow mourn?

Ydyw, y mae gweled dyn o feddwl annibynnol yn gorfod gofyn i'w gyd-frawd o'r ddaear am ganiatad i lafurio, yn olygfa sydd ddigon i beri i galon dyn waedu, ac nid yw yn rhyfedd, o ganlyniad, fod cynifer o weithwyr yn troi yn *Socialists*.

Ond y syndod yw mor lleied eidd yn sylweddoli y ffaith mai yr arian yr ydys yn ei wario ar y diodydd meddwol sydd wrth wraidd y drwg. Mae gormod o duedd i feddwl mai yr oferddyn, yr hwn sydd yn gwario ei arian ar ddiod, yw yr unig un sydd yn dioddef o'r herwydd, a'i deulu wrth gwrs. Ac yn wir y mae llawer gweithiwr sobr yn tybied, feallai, fod mwy o waith iddo ef mewn canlyniad i feddwod ei gydweithwyr. Ond y mae y cyfryw un yn anghofo fod gwario arian yn ofer yn difetha cyfalaf (*capital*) y deyrnas. Y cri ydyw fod eistieu mwy o gwsmeriaid i brynu ein nwyddau. Gwyddom fod digon o nwyddau yn y wlad, ond y mae eistieu agor gwledydd tramor, meddir, er mwyn cael marchnadoedd newydd. Gwelsom yn

ddiweddar fod ein Hysgrifennydd newydd dros y Trefedigaethau, y llygadog Chamberlain, yn edrych tuag Africa a mannau ereill er mwyn chwilio am gwsmeriaid newydd i brynu ein nwyddau. Rhwydd hynt iddo, ond iddo wneyd hynny heb wneyd niwed mewn ffordd arall. Ond beth am y cwsmeriaid dirif sydd gennym wrth ein drysau ein hunain, nad oes ond ychydig yn meddwl am danynt? Y maent mor anghenus ag ydyw noethion gwledydd anwaraidd. Onid oes yma gannoedd o filoedd a mwy o ddynion yn ein hymyl ag arnynt eisieu bwyd, dillad, dodrefn, a phob math o nwyddau; ac onid oes digon o'r cyfryw bethau yn y siopau ac yn yr ystordai ar eu cyfer? A phe na byddai, onid oes digon o ddynion da allan o waith yn barod i'w gwneyd er eu cyflenwi? Pam na phryna'r creaduriaid anghenus hyn y cyfryw nwyddau? Pam na roddant waith i'r dilledydd, y crydd, yr adeiladydd, y dodrefnydd, a chrefftwyr ereill? Ie, pam! Nid oes un pam a ddeil gymhariaeth am funud â'r pam yma, sef fod y bobl yn gwastrafu eu henillion ar y diodydd meddwol. Gadewch i ni gyfieithu geiriau Mr. Baily mewn anerchiad o'i eiddo yn Nhŷ y Cynrychiolwyr yn Pennsylvania ychydig o amser yn ol:—"Trowch yr holl arian a werrir ar ddiod i rigolau masnach deg—i brynu hetiau a chotiau i'r dynion, a boneti a gwisgoedd i'r merched, a dillad ac esgidiau newydd i'r plant, carpedau ar y llawr, a'r mil a mwy o bethau sydd yn gwneyd i fyny gysur teulu a chartref, a cheid gweled mor fuan y byddai silfoedd y masnachydd yn cael eu gwacâu; fel y teflid drysau yr ystordai yn agored; ac fel y byddai cerbydau y rheilffyrdd yn cael eu rhedeg er gwasgaru y nwyddau i bob congol o'r wlad. Byddai olwynion masnach yn cael eu gosod i droi ymhob man. Gosodid pob gwŷdd ar waith i gyfarfod â'r gofyn am nwyddau, a chlywid pob eington yn seinio cân diwidrwydd."

Pam, mewn dirif, na wél y bobl hyn, a pham na chynhyrid y wlad yn y cyfeiriad hwn? Wel, rhaid dal i guro ar y pwynt nes bydd y peth yn mynd i bennau pobl ein gwlad. "The English are not a logical people," medd Dr. Kate Mitchel, ac y mae hynny yn hawdd i'w ganfod. Canfyddwyd hynny yn yr Etholiad diweddar, ac y mae weithiau mor anhawdd rhoi meddylddrych newydd ymhen John Bull ag ydyw rhoi ysmaldod ymhen Ysgotyn; oblegid nid oes modd gwneyd hynny, ebe Sidney Smith, heb *surgical operation*, h.y. heb i'r llawfeddyg agor ei benglog.

3. Meddylier, drachefn, am y drygau cymdeithasol y mae y fasnach yn ei gwneyd i ni fel teyrnas. Nis gallwn ond cyfeirio atynt yn fyr, ond y mae eu henwi,—ond sefyll uwch ben y fleithiau yn ystyriol,—yn ddigon i gyffroi pob gwir wladgarwr i benderfynu gwneyd rhywbeth tuag at wrthweithio masnach sydd yn achosi cymaint o ddrwg. Y drwg mwyaf, mae'n wir, y mae y fasnach yn ei achosi ydyw ei bod yu gwneyd cannoedd o filoedd o feddwon; ac y mae pob dyn meddw, tra yn y cyflwr hwnnw, yn wallgofddyn; *temporary insanity* ydyw meddwod, ac oni buasai ein bod wedi cynefino â'r drwg hwn, buasai dweyd ei fod yn achosi cannoedd o filoedd o wallgofiaid amserol yn ddigon i beri i bawb benderfynu diddymu masnach ag y mae yn bosibl gosod y fath gwŷyn yn ei herbryn. Mae rhai o ddarllenwyr y TRAEETH-ODYDD yn ddiaid wedi talu ymweliad, rywbryd yn eu hoes, â gwall-

gofdŷ, neu *lunatic ward* mewn tloty. Mae yr olygfa yn wir druenus. Mae disgrifio y cyfryw yn fwy nag y gallwn ni ei wneyd. Ac eto y mae yn ffaith y gellid, yn ein trefydd mawrion, gasglu at eu gilydd, unrhyw noson—ac ar nos Sadwrn yn arbennig—gynifer o'r cyfryw wallgofiaid, a wnaed felly am amser gan y fasnach feddwol, na fyddai y neuadd fwyaf yn y dref yn ddigon i'w cynnal; o'r hurtyn dwl, diymadferth, hyd at y gwallgofddyn peryglus i bawb ddyfod yn agos ato. A oes eisieu mwy na nodi y ffaith yma er mwyn condemnio "y fasnach?" Pa buasai rhywbeth arall yn effeithio ar ddyinion yn y modd hwn, yn enwedig pe buasai yr effeithiau hyn i'w canfod ar ein cyd-ddynion heb fod neb yn gwybod yr achos, buasai yr holl wlad yn cyffroi; ni fuasai y Senedd yn gallu meddwl am ddim arall ymron, a buasai holl eglwysi Cred ar eu gliniau yn galw ar i Dduw symud y farn drom oddiar ein gwlad. Ond dyma olygfa—miloedd lawer o wallgofiaid i'w cael yn ein mysg bob wythnos, a phob dydd o'r wythnos—ac yr ydym yn gwybod yr achos yn eithaf da, ac eto rywfodd y mae y Senedd yn ddiglyfro; mae y wlad yn gymharol dawel, ac y mae eglwysi Cred yn hanner cysgu uwch ben yr olygfa. Nid oes ond ychydig o "ben-boethiaid," o *fuddists* dirwestol, yn codi ychydig o stwr!

Gadewch i ni osod y mater mewn gwedd arall. Y cyhuddgwyn yr ydym yn ei ddwyn yn erbyn y "fasnach" ydyw ei bod yn achosi—ac yr ydym yn gwybod ein bod yn gosod y mater ar y tir iselaf—ei bod, meddwn, yn achosi y rhan fwyaf o lawer o dlodi, o droseddau, o anniweirdeb agored, o farwolaethau, o wallgofrwydd, ac o ddrwgau ereill ein gwlad. Dyma'r *indictment* yr ydym yn ei ddwyn yn erbyn y fasnach! Ond ai nid yw yn wir? A oes rhyw un a faidd ei wadu? "Yr wyf wedi gwneyd y pwnc o dlodi y wlad yn destyn fy efrydiaeth," ebe Mr. Mott o flaen Dirprwywyr Cyfraith y Tlodion, "ac yr wyf yn argyhoeddedig fod naw o bob deg o'r tlodion yn effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol y diodydd meddwol." Naw o bob deg, ebe Mr. Mott; ond bydd dweyd yr hanner yn ddigon i'n pwrpas ni. Mae rhai yn ceisio dadleu nad ydyw y ddiod yn achosi cymaint o dlodi ag y tybir: mai y tai sâl a'r ychydig gysuron a fedd y dosbarth gweithiol sydd yn peri yr ymyfed, ac nid yr ymyfed yn peri y tai gwaelion, &c. Yr ydym yn rhwydd addef fod y naill yn effeithio ar y llall,—yr yfed yn peri yr anghysuron, a'r anghysuron drachefn yn peri mwy o yfed. Ond y mae cysylltiad y ddiod â thlodi wedi ei brofi yn anwrthwynebol. Tystiolaeth dwyfol wirionedd ydyw: "Y meddw a'r glwth a ddaw i dylodi."

Ond "ychydig mewn cymhariaeth o'r dosbarth gweithiol," meddir, "sydd yn meddwi." Dyna fel y dywed Mrs. Barnett yn ei *Practical Socialism*, ac y mae Mr. Charles Booth yn dweyd yr un peth. Y mae Alexander McDougall drachefn yn dod i gasgliad tra gwahanol. Ond pe cymerem y cyfrif iselaf, a dweyd nad oes cymaint ag a dybid o dlodi yn y wlad yn tarddu o feddwod y tlodion eu hunain, y mae yr ystyriaeth arall a nodasom o'r blaen yn aros mewn grym. Mae yr arian a werrir ar ddiod yn andwyo masnach y wlad, yn peri nad oes dim cymaint o alw am nwyddau, ac felly nad oes dim cymaint o weithwyr yn angenrheidiol; ac y mae y cyfryw weithwyr, gan hynny, yn cael eu tafu allan o waith, ac mewn canlyniad yn syrthio i dlodi.

dylid dyblu y nifer a'i wneyd yn 120,000 ; ac y mae Dr. Richardson ar ol ymchwiliad manwl yn gwneyd y rhif yn 200,000 yn y flwyddyn. Dau gan' mil o ddynion yn cael eu lladd gan y fasnach bob blwyddyn !

Gallm ddwyn tystiolaethau yr un mor bendant i profi fod y rhan fwyaf o lawer o wallgofrwydd y deyrnas yn cael ei achosi gan y fasnach feddwol. Ac fe ellid enwi drygau lawer ereill y rhai y dylid eu priodoli i'r un achos.

Yn awr, beth a ddywedwn wrth y pethau hyn ? Dyma fasnach sydd yn myned o dan wraidd llwyddiant pob masnach arall, pob rhinwedd, cysur, iechyd, a daioni yn ein mysg. Y mae yn rhwym, os caniatawn iddi fyned ymlaen yn hir fel hyn, o'n dinystrio fel cenedl.

"A nation's downfall," medd un awdwr, "has always been preceded by a period of licentiousness in drink, manners, and morals." Yr ydym yn gofyn, gyda'r difrifwch mwyaf. A ydym am ganiatau i'r fasnach hon andwyo ein gwlad ? Oni ddylem wneyd a allom yn ei herbyn ? Onid ydyw ein hanfodiad fel teyrnas lwyddiannus yn gofyn hyn oddiar ein llaw ?

Onid yr wyf yn tybied y bydd rhyw rai yn barod i ofyn, "A ydych yn honni fod gennyh hawl i *ddiddymu* y fasnach ?" Ydym yn ddiau, os gallwn brofi fod ein llwyddiant a'n buddiant fel teyrnas yn galw am hynny. Hawl ! oes ; pam nad oes ? Yr ydym eisoes yn rheoleiddio, yn cwtogi, ac yn ymyrryd â'r fasnach mewn amrywiol ffyrdd, a hynny yn hollol ar y tir ei fod yn beryglus i gymdeithas i beidio gwneyd hynny. Onis gallwn, ar yr un egwyddor yn hollol, os bydd lles a diogelwch cymdeithas yn galw am hynny, lwr *ddiddymu* y fasnach ? Mae y gallu i reoleiddio, yn cynnwys y gallu i *ddiddymu*. Fe all cymdeithas basio unrhyw ddeddf er ei diogelwch ei hun. Yr ydym o blaid y rhyddid llwyr a bob aelod o gymdeithas. Credwn fod gan bob dyn berffaith hawl i wneyd y peth fyd a fynno ; ond cofier fod hynny ar yr amod na byddo yn ymyrryd â hawl ei gyd-ddyn i wneyd yr un peth. Dyma'r rhwymau sydd ar ei ryddid. Os bydd gweithred yn terfynu yn y dyn ei hun, heb effeithio mewn un modd ar ereill, nid oes gan neb hawl i'w rwystro i gyflawni y weithred honno. Ond pa weithredoedd sydd yn terfynu ar y dyn ei hun, ac heb achosi un niwed i ereill ? Ychydig iawn yn wir. Mae cyfraith y tir yn rhwystro i ddyn ladd ei hun. Gallws meddwl fod y weithred hon yn terfynu ar y dyn ei hunan. Ond y mae ein cyfraith ni yn barnu yn wahanol, a chosbir y dyn am geisio gwneyd hynny. Mae John Stuart Mill yn barnu na ddyllid cosbi dyn am feddwod noeth, a hynny ar y tir fod y weithred yn terfynu ar y dyn ei hunan, ond dywed y dylid cosbi y milwr neu'r heddwad am fod yn feddw yng ngyflawniad eu dyledswydd, am fod eu meddwod yn effeithio ar ereill. Ac eto y mae yn yr ymadrodd nesaf yn gosod i lawr egwyddor sydd yn profi y dylid hefyd gosbi *pob* dyn am feddwod : "Mewn gair," meddai, "lle bynuag y byddo niwed pendant, neu *fod perygl i niwed gael ei gyflawni*, i berson unigol, neu i'r lliaws, y mae yr achos yn cael ei symud o diriogaeth rhyddid, ac yn cael ei osod yn nhiriogaeth moesoldeb neu gyfraith." Fe welir fod y geiriau mewn llythrennau Italaidd ar unwaith yn dangos fod meddwod syml, gan ei fod yn peryglu cysur ereill, yn drosedd cosbadwy, ac y mae cyfraith ein gwlad yn cydnabod hynny.

Mae ein cyfreithiau yn frith o engreifftiau cyffelyb. Prin y gallwn gymeryd cam mewn unrhyw gyfeiriad yn y wlad rydd hon, nad yw y gyfraith yn ein rheoleiddio ac yn ymyrryd â ni, a hynny am fod lles y lliaws yn galw am hynny. Pam na chaf gadw bariad o bylor yn fy llofft, neu gadw moch yn wrth gefn fy nhŷ yn y dref? Pam hefyd, ond am fod hynny yn peryglu diogelwch neu gysur fy nghymydog. Yr ydym yn aelodau o gymdeithas, a rhaid i ni ofalu am hawliau ereill o'n cwrpaa.

Yn awr, am y fasnach feddwol, yr ydym wedi dangos fod ei drwg yn erbyn cymdeithas yn enfawr ac aruthrol, ac nid oes un amheuaeth nad oes gan gymdeithas hawl i'w hatal os bydd ei lles yn galw am hynny.

Y mae y cwestiwn yn codi yn y fan hon, os oes gan gymdeithas hawl i atal a chyfyngu ar y fasnach feddwol, yn llaw pwy y dylai yr awdurdod i wneyd hynny fod.

Nid oes un amheuaeth nad yw yr hawl yn wreiddiol yn perthyn i'r bobl yn gyffredinol; ond y mae yn bresenol wedi ei ymddiried i ddwyllaw yr ynadon. Gallant hwy nid yn unig gosbi am gario y fasnach ymlaen yn groes i'r gyfraith, ond gallant hefyd gadw'r hawl i werthu yn hollol o law y tafarnwyr os byddant yn credu nad oes angen am dafarn mewn cymdogaeth. Mae y cwestiwn hwn wedi ei benderfynu yn ddius gan ein llysoedd uchaf, ac yn arbennig yn achos byth gofiadwy *Sharp v. Wakefield* ryw saith mlynedd yn ol. Dyma oedd dyfarniad y llysoedd barn uchaf bob amser cyn hynny, ond yr oedd rhyw syniad anelwig ym meddyliau rhai o'n Seneddwyr, ac y mae yn amheus ai nid oedd syniad cyffelyb ym meddyliau ein hynadon a'u clarcod, fod gan dafarnwr hawl i gael adnewyddiad o'i drwydded bob blwyddyn, tra na fyddai wedi cyflawni unrhyw drosedd i fforffedu yr hawl. Yn wir, yr oedd hyn yn cael ei ddweyd gan swyddogion cyfrifol y Goron yn y Senedd, pan yn cyffwrdd â'r cwestiwn o dan y weinyddiaeth Doriaidd cyn yr un bresenol. Dadleuent mai anhag oedd atal trwydded oddiwrth dafarnwyr, yn unig ar y tir nad oedd dim angen am y cyfryw dafarn mwy, heb dalu iddo swm penodol fel iawn am ei golled. Pan oedd John Morley yn annerch ei etholwyr yn 1885, ac yn cydnabod yr hawl oedd gan y bobl i ganiatau neu atal trwyddedau fel y byddent yn dewis, dywedai:—"Yr ydych wedi caniatáu i liaws mawr o bobl roddi eu harian a llafur eu bywyd yn y fasnach, ac nis gellwch bellach eu troi allan i'r heol heb wneyd rhyw fath o iawn iddynt." Ond gwrandewch ar yr un John Morley yn areithio yn 1891, ar ol i'r achos *Sharp v. Wakefield* gael ei benderfynu. "Rhaid i mi addef yn onest," meddai, "nad oeddwn i yn adegau dechreuol y ddad hon, yn gwybod mor gryf, mewn ystyr gyfreithiol, oedd achos y rhai a ddadleuant yn erbyn rhoi iawn i dafarnwyr. Nid wyf am gelu hyn," &c. Ac yn arbennig sylwer ar eiriau Mr. Ritchie, Llywydd y Bwrdd Masnach presennol. Pan oedd yn Llywydd y Bwrdd Llywodraeth Leol yng Ngweinyddiaeth ddiweddar Arglwydd Salisbury, dywedai:—"Nid wyf am gelu oddiwrth y Ty ein bod o'r farn, pan wnaed y cynnygion gan y Llywodraeth yn 1888, fod gan dafarnwyr fwy o hawl gyfreithiol yu eu trwyddedau nag y mae yn ymddangos fod; ac yr wyf yn cydnabod, mor bell ag y mae a wnelo y rhan honno o'n hachos, nad oeddem wedi ein hysbysu yn ddigon cyflawn am yr hyn sydd bellach wedi ei benderfynu ydyw y gyfraith ar y pwnc."

Dyna'r cwestiwn bellach wedi ei benderfynu. Mae gan yr ynadon berffaith hawl i atal trwyddedau, os byddant yn barnu fod lles y lliaws yn galw am hynny.

Ond rhyfedd mor hwyrfyrdig ydynt i arfer eu gallu yn y cyfeiriad hwn. Nid oes, mae'n debyg, yr un o honynt, ie y mwyaf dwl yn eu mys, nad yw yn barod i addef fod gormod o dafarnau o ddim rheswm yn y wlad, ac mai da fyddai lleihau eu nifer; ond pan ddaw achos pob un ar ei ben ei hun i'w benderfynnu, y mae yn gofyn gwroldeb i atal trwydded un nad oes dim neillduol yn ei herbyn ond fod lles y lliaws yn gofyn am hynny. Mae cymeryd moddion bywoliaeth dyn oddiarno yn beth agos, ac yn cael ei deimlo yn beth pwysig; ond y mae lles y bobl yn beth pell, amhenodol, a chyffredinol, ac y mae y nifer fwyaf o ynadon yn rhai nad ydynt, feallai, yn rhy barod i gymeryd golwg eang a phell ar bethau. Y canlyniad yw, y maent yn rhybuddio ac yn cynghori yr ymgeisydd am adnewyddiad ei drwydded, ac yn bygwth beth a wneir y flwyddyn ddyfodol os —, a chaniateir iddo ei drwydded. Fel hyn fe welir fod gweithrediadau yr ynadon, a defnyddio geiriau John Morley, wedi bod bob amser yn "ofnus, yn betrusgar, yn anwadal, yn ansicr, ac yn dra anfoddfaol." Heblaw hynny, y mae gan y Chwarter Sesiwn hawl i ddadwneyd yr hyn a wna'r ynadon, ac y maent yn gwneyd hynny yn rhy fynych; ac y mae hynny yn peri i'r yndon laesu dwylaw pan ddaw yr adeg iddynt weithredu fel y dylent.

Beth gan hynny sydd i'w wneyd? Mae y fasnach feddwol fel y gwyddys yn andwyo y wlad. Os nad ellir ei llwyr ddiddymu, rhaid ei chwtogi i fesur effeithiol, ac nid oes neb a all wneyd hynny i ddim pwrpas ond y bobl eu hunain. Yr ydym wedi ein cau i hyn. Yr ydym am dri chan mlynedd wedi bod yn ceisio trwsio, atal, rheoleiddio, a gwella y fasnach; ond y mae pob ymyriad & hi wedi bod yn aneffeithiol. Y gwir yw, rhaid symud yng nghyfeiriad diddymiad llwyr arni, ac nid oes modd gwneyd hynny yr effeithiol heb i'r bobl gymeryd y mater i'w llaw eu hunain. Ond sut yr eir o gwmpas y gorchwyl? Un peth ydyw dadleu egwyddorion noeth, peth arall ydyw gwneyd cynhygion ymarferol a weithiant yn llwyddiannus. Nid oes un amheuaeth nad ydyw y cwestiwn ymarferol yn un anhawdd iawn, ac yr ydym yn teimlo hynny wrth fyned i ysgrifennu dim arno.

Yn ffodus, wedi i mi ysgrifennu hyd yma, daeth dau gyfaill i mewn, sef Huw Tomos a Gwilym Edwards. Darllenais yr hyn a ysgrifenaswn iddynt, oblegid y mae gennyf ymddiried mawr yn eu barn, a dechreuasant ymosod arnaf, ac wedi hynny ar eu gilydd, ac aeth yn ddadl frwd rhyngddynt. Yn awr yr wyf yn meddwl nas gallaf derfynu yr erthygl hon yn well na thrwy roddi adroddiad o'r hyn a ddywedwyd ganddynt. Dyma fel y bu yr ymddiddan, neu yn hytrach y ddadl.

Huw Nid yw ond oferedd i neb geisio ail godi cwestiwn y *Direct Veto*, oblegid yr wyf yn gwelod mai at hynny y mae fy nghyfaill yn anelu, am flynyddau lawer bellach, os byth. Mae y wlad wedi datgan ei barn yn ddiifoesgni ar y cwestiwn. Pe buasem ni, y Rhyddfrydwyr, wedi gadael y cwestiwn hwn allan o'n rhaglen, credu yr ydwyf na fuasem yn y cyflwr yr ydym yn awr. Yr wyf yn synnu at Harcourt yn dal mor dyn at bwnc y gallasai wybod fuasai yn dymchwelyd y blaid. Fe fu yn

ffafriol i adael yr hawl yn uwylaw y bobl, pe tybient y pleidleisid ymhob man o blaid, ac nid yn erbyn tafarnau.

G. Dichon hynny, a gwyddai y tafarnwyr yn dda mai mwy tebyg ydoedd mai cwtogi y fasnach yn fawr fuasai y bobl yn ei wneyd pe cawsent yr hawl i'w dwylaw. Nid oedd ganddynt fawr o ymddiried yn eu cwsmeriaid eu hunain.

H. Wel, yr oedd hynny yn ddigon naturiol. Y mae teimlad go gryf o chwareu teg ymysg y bobl wedi y cyfan, a theimlid, gan mai ysbeilio y tafarnwr o'i fasnach yn y pen draw oedd yr amcan, mai peidio tros-glywddo yr hawl i ddwylaw y bobl oedd oreu, ar y cyfan, ar hyn o bryd. Gwyddoch fy mod i yn Rhyddfrydwr—cymhedrol rwy'n addef—ond yr wyf yn methu yn lân a dygymod â chymeryd bywoliaeth o law hyd yn oed tafarnwr heb wneyd iawn neu ad-daliad iddo am hynny. Fel Rhyddfrydwr yr oeddwn, wrth gwrs, yn barnu y dylai y bobl gael yr hawl i benderfynu i'w dwylaw eu hunain, ond gan fy mod yn ofni mai camddefnyddio yr hawl honno a wnaent, gwell oedd gennyf gadw pethau fel yr oeddych ar hyn o bryd.

G. Rhyddfrydwr braf yn wir, yn dangos y fath anymddiried yn y bobl. Ymddygiad Toriaidd hollol ydyw ymddygiad felly. Ond gad-ewch i mi ddatgan fy marn yn ddiſloesgni, fy mod yn cwbl grëdu nad oes gan y tafarnwyr y rhithyn lleiaf o hawl i ddisgwyl dim iawn hyd yn oed pe diddymid y fasnach y funud y byddai pen blwyddyn eu trwydded i fynd. Caniatawyd eu trwyddedau iddynt am flwyddyn yn unig, a hynny ar y dybiaeth, pa un a oedd sail i hynny ai peidio, fod angen y tafarnau hynny ar y bobl. Iê cofier hyn. Nid rhoddi moddion bywoliaeth i'r tafarnwyr oedd yr amcan gwreiddiol, ond cyflenwi anghenion tybiedig y bobl. Yn awr os bydd y bobl yn dyfarnu mewn rhyw barth o'r wlad nad oes angen am y cyfryw dai, ie eu bod yn niwed, yn flinder, yn *nuisance*, onid oes ganddynt hawl i benderfynu nad oes dim tafarnŷ i fod mwyach yn y parth hwnnw heb dalu iawn i'r tafarnwyr? Lles y lliaws ddylai fod yn flaenaf peth.

H. Gwir, ond yn fy myw nis gallaf lai na chredu fod llawer o bwys yng ngeiriau Chamberlain yn ei araeth yn Grosvenor House amser yn ol, pan ddywedai: "Nid oes gennym un math o gydymdeimlad â'r rhai hynny sydd yn awyddus i gario allan yr hyn sydd yn fantais i'r lliaws, ar draul gwneyd anghyfiawnder personol: sef y rhai sydd yn hollol foddllawn i fod yn rhinweddol dros ben, tra byddo ar gost pobl ereill."

G. Anghyfiawnder personol! Bod yn rhinweddol ar gost pobl ereill! Y fath ffwlbri gwirion! Ond nid wyf yn synnu at ddim a ddywed Chamberlain. Y mae gennyf barch i ddyn a newidia ei farn, ond iddo ddweyd hynny yn onest. Ond y mae Chamberlain wedi troi fel chwirligwgan, ac eto gwada ei fod wedi troi o gwbl. Y mae gennyf yn fy mhoced bamphled sydd yn cynnwys dyfyniad o araeth a draddododd yn 1881. Dyma ei eirieu y pryd hwnnw: "Nid wyf yn gallu gweld fod gan y tafarnwyr hawl i ofyn am iawn o herwydd talfyrnu neu gwtogi hawliau na ddylesid eu caniatáu iddynt erioed. Yn ein deddfwriaeth y mae engreiffiau diderfyn lle y mae hawliau wedi troi allan yn groes i foesoldeb a llesiant y lliaws, a'r rhai hynny wedi eu cwtogi a'u lleihau, ac nid wyf yn gwybod am un amgylchiad lle y mae

erbyn y *Direct Veto* unwaith, siaradodd a phleidleisiodd yn ei erbyn, a gresyn na fuasai yn dal at hynny hyd y diwedd, yn lle dryllio y blaid Ryddfrydol fel y gwnaeth.

Gwilym. Nid wyf yn credu mai y cwestiwn hwn yn unig, nac yn bennaf, a barodd i'r fath dôn o Doriaeth ddod dros y wlad, os ydyw yn dôn hefyd. Yr oedd rhaglen y Rhyddfrydwyr yn cyffwrdd â chynifer o bethau, ac yn dwyn i mewn gynifer o ddiwygiadau pwysig, fel yr oedd John Bull, druan, yn methu cymeryd i mewn gymaint ar unwaith, a phenderfynodd beidio gwneyd dim am dipyn. Nid oedd dim cwestiwn mawr yn cyffwrdd â'i logell yn peri iddo symud, ac felly gwell oedd ganddo eistedd yn ei gadair freichiau, tafu ffenest dros ei ben, a chymeryd cyntun hamddenol. Pa fodd bynnag, dyna farn Stead yn y *Review of Reviews*, ac y mae yn bosibl fod hyd yn oed y gŵr hwnnw yn iawn am unwaith. Am Syr William Harcourt, mae pawb yn gwybod pam y darfu iddo ef newid ei farn ar gwestiwn y fasnach. Y mae efe ei hun wedi dweyd mai y tymor y bu yn Ysgrifennydd Cartrefol yr agorwyd ei lygad ar y niwed a wneid gan y fasnach mewn diod, ac y teimlodd fod yn rhaid gwneyd rhywbeth i atal y llifeiriad ofnadwy sydd yn bygwth dinystrio y wlad. Credodd fod yn rhaid i'r bobl gael hawl i benderfynu cwestiwn y fasnach drostynt eu hunan, ac fe wyddys nad oes dim sydd decach. Yr wyf fi yn gymaint o ddad-gysylltwr â neb, ond y mae yn amheus gennyf, ai ni fuasai yn well oedi hyd yn oed y cwestiwn hwnnw na chwestiwn mawr y fasnach feddwol. Nid wyf yn synnu dim at Syr W. Harcourt yn dal mor dŷn wrtho. Os ydyw Stead yn iawn, fod ar John Bull eisieu cymeryd cyntun, y mae yn amheus iawn gennyf a gaiff efe lonydd i hynny. Bydd cwestiynau rhaglen Newcastle fel haid o wybed yn ei boeni, ac nid y lleiaf yn eu mysg fydd cwestiwn "y fasnach." Rhaid gwneyd rhywbeth mewn cysylltiad â hi.

H. Mae fy nghyfaill yma wedi bod yn dadleu mai yng nghyfeiriad diddymiad y fasnach y mae yn rhaid symud. Mae y wlad yn yr etholiad diweddaf, meddaf eto, wedi datgan yn bendant na fyn hi mo hynny.

G. Pe gellid profi mai y cwestiwn hwnnw yw yr un a benderfynwyd yn yr etholiad diweddaf—yr hyn nad wyf yn ei addef ond mewn rhan—byddwn yn barod i gydnabod mai yn erbyn diddymiad y fasnach mewn rhan neu yn hollol, yr oedd y penderfyniad hwnnw. Yr oedd y blaid Ryddfrydol yn cwyno fod y Toriaid wedi cuddio y gwir gwestiwn oedd o flaen y wlad, a hynny yn fwriadol. Ac y mae yn ddiagram fod hynny yn wir. Mae gwahaniaeth dirfawr rhwng y cwestiwn, a ddylid cau tafarnau, a'r cwestiwn o rod-di hawl i'r trethdalwyr ddweyd ieu neu nage, ar y mater hwnnw. Ceisiai y Toriaid ddallu meddyliau y bobl trwy haeru fod y Weinyddiaeth ddiweddar am gau y tafarnau tra nad oeddent ond am adael i'r trethdalwyr benderfynu a oedd hynny i gael ei wneyd ai peidio.

H. Ar yr un pryd y mae yn rhaid addef mai yr amcan yn y pen draw oedd myned mor bell ag y gellid yng nghyfeiriad diddymiad y fasnach. Y grediniaeth oedd, ond i'r bobl gael hawl i benderfynu y cwestiwn o ganiatau trwyddedau yn lle yr ynadon, y cwtogid y fasnach i fesur helaeth iawn. Nid yw yn debyg y buasai y dirwestwyr mor

ffafriol i adael yr hawl yn uwylaw y bobl, pe tybient y pleidleisid ymhob man o blaid, ac nid yn erbyn tafarnau.

G. Dichon hynny, a gwyddai y tafarnwyr yn dda mai mwy tebyg ydoedd mai cwtogi y fasnach yn fawr fuasai y bobl yn ei wneyd pe cawsent yr hawl i'w dwylaw. Nid oedd ganddynt fawr o ymddiried yn eu cwsmeriaid eu hunain.

H. Wel, yr oedd hynny yn ddigon naturiol. Y mae teimlad go gryf o chwareu teg ymysg y bobl wedi y cyfan, a theimlid, gan mai ysbeilio y tafarnwr o'i fasnach yn y pen draw oedd yr amcan, mai peidio trosglwyddo yr hawl i ddwyllaw y bobl oedd oreu, ar y cyfan, ar hyn o bryd. Gwyddoch fy mod i yn Rhyddfrydwr—cymhedrol rwy'n addef—ond yr wyf yn methu yn lân a dygymod â chymeryd bywoliaeth o law hyd yn oed tafarnwr heb wneyd iawn neu ad-daliad iddo am hynny. Fel Rhyddfrydwr yr oeddwn, wrth gwrs, yn barnu y dylai y bobl gael yr hawl i benderfynu i'w dwylaw eu hunain, ond gan fy mod yn ofni mai camddefnyddio yr hawl honno a wnaent, gwell oedd gennyf gadw pethau fel yr oeddynt ar hyn o bryd.

G. Rhyddfrydwr braf yn wir, yn dangos y fath anymddiried yn y bobl. Ymddygiad Toriaidd hollol ydyw ymddygiad felly. Ond gadewch i mi ddatgan fy marn yn ddisfoesgni, fy mod yn cwbl gredau nad oes gan y tafarnwyr y rhithyn lleiaf o hawl i ddisgwyl dim iawn hyd yn oed pe diddymid y fasnach y funud y byddai pen blwyddyn eu trwydded i fyny. Caniatayd eu trwyddedau iddynt am flwyddyn yn unig, a hynny ar y dybiaeth, pa un a oedd sail i hynny ai peidio, fod angen y tafarnau hynny ar y bobl. Ie cofier hyn. Nid rhoddi moddion bywoliaeth i'r tafarnwyr oedd yr amcan gwreiddiol, ond cyflenwi anghenion tybiedig y bobl. Yn awr os bydd y bobl yn dyfarnu mewn rhyw barth o'r wlad nad oes angen am y cyfryw dai, ie eu bod yn niwed, yn flinder, yn *nuisance*, onid oes ganddynt hawl i benderfynu nad oes dim tafarndŷ i fod mwyach yn y parth hwnnw heb dalu iawn i'r tafarnwyr? Lles y lliaws ddylai fod yn flaenaf peth.

H. Gwir, ond yn fy myw nis gallaf lai na chredu fod llawer o bwys yng ngeiriau Chamberlain yn ei araeth yn Grosvenor House amser yn ol, pan ddywedai: "Nid oes gennym un math o gydymdeimlad â'r rhai hynny sydd yn awyddus i gario allan yr hyn sydd yn fantais i'r lliaws, ar draul gwneyd anghyfiawnder personol: sef y rhai sydd yn hollol foddolawn i fod yn rhinweddol dros ben, tra byddo ar gost pobl ereill."

G. Anghyfiawnder personol! Bod yn rhinweddol ar gost pobl ereill! Y fath ffwlbrî gwirion! Ond nid wyf yn synnu at ddim a ddywed Chamberlain. Y mae gennyf barch i ddyn a newidia ei farn, ond iddo ddweyd hynny yn onest. Ond y mae Chamberlain wedi troi fel chwirligwgan, ac eto gwada ei fod wedi troi o gwbl. Y mae gennyf yn fy mhoced bamphled sydd yn cynnwys dyfyniad o araeth a draddododd yn 1881. Dyma ei eirieu y pryd hwnnw: "Nid wyf yn gallu gwled fod gan y tafarnwyr hawl i ofyn am iawn o herwydd talfyrru neu gwtogi hawliau na ddylesid eu caniatâu iddynt erioed. Yn ein deddfwriaeth y mae engreiffitiau diderfyn lle y mae hawliau wedi troi allan yn groes i foesoldeb a llesiant y lliaws, a'r rhai hynny wedi eu cwtogi a'u lleihau, ac nid wyf yn gwybod am un amgylchiad lle y mae

iawn wedi cael ei wneyd i'r rhai a drinid felly." Ond y mae Chamberlain yn ddigon hyf i honni yn awr—gwnaeth felly yn yr araeth yn Grosvenor House,—y dylid gwneyd iawn to *every interest concerned*, hynny yw, mae'n debyg i bawb fydd wedi derbyn colled. Dyma honiad gorwyllt. Y fath lu a ddeuai ymlaen i honni iawn, pe felly y byddai. Diddymer y tafarnau, ac wrth gwrs byddai raid talu tua *das gan miltion* a mwy i'r tafarnwyr i ddechreu; ac yna i'w gweision; yna deuai y darllawyr ymlaen, a'u gweision hwythau; deuai y *paramb-oker* i mewn, a'r rhai sydd yn dibynnu ar y fasnach honno. Gan y gallai y byddai aml i garchar yn myned yn ddianghenraid, deuai swyddogion y carchar ymlaen, a hwyrach swyddogion yr ynadlys a'r heddgeidwaid; mewn gair, byddai yn anhawdd iawn gwybod ple i derfynnu, os telid iawn to *every interest*, sef i bawb a dderbynai golled.

Gadewch i mi ofyn i ddechreu, a ydych chiwi, Huw, am honni fod gan y tafarnwyr hawl *gyfreithiol* i gael iawn, o herwydd colli eu trwyddedau?

H. Na, nid wyf am fyned mor bell â hynny. Mae yn debyg fod yn rhaid addef bellach nad oes gan y tafarnwyr hawl yn eu trwydded ond hyd derfyn y fwyddyn. Y mae'n debyg nas gallai brofi ei hawl mewn unrhyw lŷs cyfreithiol i gael iawn, pe gwrthodid caniatâu trwydded iddo am y fwyddyn neu'r blynyddoedd dyfodol.

G. Wel, os felly, onid ydych ar unwaith yn rhoi i fyny'r ddadl? Am eu hawliau cyfreithiol yr ydym yn siarad.

H. Iê, ond y mae eisieu edrych yn bellach na llythyren noeth y gyfraith. Mae llawer o bethau ag y mae gan ddyn ddisgwyliad rhesymol y gwneid hwynt iddo, ac y teimlai ei fod wedi cael cam pe nas gwneid hwynt, ac eto nas gallai, feallai, eu codi mewn llys cyfraith. Gwir fod y drwydded yn darfod ar derfyn ei blwyddyn, ond fel y dywed Chamberlain, mae'r drwydded, er popeth, yn werth rhywbeth yn y farchnad. Gellir ei phrynu a'i gwerthu fel eiddo arall. Os bydd tŷ â thrwydded yn perthyn iddo, y mae yn werth mwy na thŷ heb drwydded, ac felly y mae i ryw fesur ar yr un tir ag eiddo arall.

G. Dim oll. Pam y mae tŷ â thrwydded yn perthyn iddo yn werth mwy na thŷ heb un? Onid ydyw yn bosibl y bydd y drwydded yn cael ei chymeryd ymaith ar ddiwedd ei blwyddyn?

H. Gwir, ond y mae yr ynadon wedi arfer adnewyddu trwyddedau; mae'r bobl gan hynny yn dibynnu ar yr arferiad, ac y mae hynny yn rhoi gwerth ar y tŷ trwyddedol. Er engrafft, meddylier am ddyn yn gweled hysbysiad fod tŷ trwyddedol ar werth, y mae yn prynu y tŷ, ac yn rhoi pris mwy o lawer am dano na phe na buasai trwydded yn perthyn iddo; y mae yn meddwl gwneyd bywoliaeth gysurus trwy gadw tŷ tafarn. Yn awr, onid annhegwech mawr ydyw gwrthod adnewyddu'r drwydded, a cholledu'r dyn hwnnw heb wneyd unrhyw iawn iddo?

G. *Caveat emptor!* Dylasai y prynwr edrych o'i gwmpas yn well. Mae pob un sydd yn ymwneyd â thafarndai yn gwybod ers blynyddau bellach mor ansicr ydyw yr adnewyddir trwydded. Mae yn fater o anturiaeth fasnachol—o *speculation*; ac os ydyw wedi gwneyd bargaen golledus, pa hawl sydd ganddo i ddisgwyl y gwneir y golled i fyny

iddo gan y wlad? Mae y peth yn ynfydrwydd hollol. Rhaid i chwi gofio dau neu dri o bethau sydd o bwys hanfodol i'r cwestiwn hwn. Yr wyf yn dra awyddus i'w gwasgu adref, oblegid nid wyf heb ofni y bydd i'r Llywodraeth bresennol, trwy ryw ystrwg neu gilydd, osod y tafarnwyr ar dir gwell nag y maent yn awr. Gwnaethant ymgais felly ddwywaith pan mewn awdurdod o'r blaen, ac y mae o bwys fod pob Rhyddfrydwr a dirwestwr yn eu gwylid yn fanwl. Rhaid esbonio, egluro, ac argyhoeddi y wlad ar y pwnc, fel na fo modd cario un cynhygiad yng nghyfeiriad rhoddi iawn i dafarnwyr. Mae y mater yn un o bwys annhraethol i ni fel teyrnas. Yn awr caniatäer i mi wasgu adref yr ystyriaethau canlynol:—

1. Mae y fasnach mewn diodydd meddwol yn cael ei chynabod yn un beryglus. Nid oes neb call yn y dyddiau hyn a ddadleuai am ei thafu yn agored. Gwnaed prawf ar hynny rai blynyddau yn ol yn Liverpool, ac yr oedd y canlyniadau yn arswydus, ac yr ydys yn dioddef o herwydd hynny hyd y dydd hwn. Tybir er hynny fod rhai pobl yn galw am y ddiod i ddibenion llesol, ac am hynny caniatäer i rai personau, o dan amgylchiadau neillduol, gael trwydded i'w gwerthu. Mae hynny yn rhagorfraint i'r cyfryw. Caniatäer y fraint honno i un am flwyddyn yn unig. Nid yw yn talu dim am y rhagorfraint. Mae yn talu treth i'r *excise*, mae'n wir, ond dim am y drwydded i'r ynadon, oddigerth *fee* i'r swyddog. Mae yr ynadon, fel ceidwaid heddwech y wlad, yn dweyd yn eu hiaith wrth yr ymgeisydd am drwydded: "Mae y ddiod yr ydych yn ei gwerthu yn un beryglus i heddwech a chysur cymdeithas; ond y mae rhai ei heisieu er hynny, ac y mae yn rhaid felly iddynt ei chael, mae'n debyg. Yn awr y mae gennym ymddiried yn och chwi y gwnewch werthu y ddiod beryglus hon, hyd y gellwch, yn unig i'r rhai hynny y mae yn iawn ei gwerthu iddynt; na wnewch ei gwerthu i bersonau nac ar adegau gwaharddedig. O herwydd hyn cewch yr holl elw o'r gwerthiant eich hunan. Yr ydym yn ymddiried yn och. Ewch ymaith am flwyddyn er mwyn i ni weled sut yr ymddygwch." A ydyw tafarnwyr y wlad wedi profi eu hunain yn deilwng o'r fath ymddiried? Wrth gwrs yr ydym yn siarad am danynt yn gyffredinol. Onid ydynt yn gwneyd miloedd ar filoedd o feddwon bob blwyddyn, ac yn llenwi ein carcharau, ein tlotai a'n hysbytai? Er mor anhawdd ydyw dwyn troseddwy'r penodol i gyfrif, y maent yn y crynswth o honynt wedi bradychu yr ymddiried a roddwyd ynddynt, ac wedi fforffedu eu braint.

2. Mae'r drwydded yma yn rhoi hawl i'r tafarnwr gario ei fasnach ymlaen heb fod gan neb, o'i ben ei hun, hawl i agor tafarndŷ yn ei ymyl, ac o ganlyniad y mae y drwydded yn dwyn elw ariannol i'w pherchen bob blwyddyn yr estynir hi iddo. Son am iawn i un felly! Onid ydyw yn cael iawn bob blwyddyn?

H. Iê, ond cofier am yr arian mawr ag y mae y tafarnwr yn roi allan ar ei dŷ ymhob ystyr.

G. Onid ydyw pob siopwr yn gwneyd yr un peth, er y dichon y bydd un arall yn agor siop yn ei ymyl, ac yn mynd â'r rhan fwyaf o'i gwsmeriaid; yr hyn y mae trwydded y tafarnwr yn ei ddiogelu rhag-ddo? Cododd dyn yn Liverpool dŷ mawr costus, gwerth £8000, a cheisiodd drwydded. Gwrthwynebwyd y cais ar bob llaw, ond cania-

täwyd iddo drwydded. Pan ydoedd yn gadael llys yr ynadon cynhygiodd darllawydd cyfoethog iddo £20,000 am ei dŷ trwyddedol! Dyna'r dyn wedi cael £12,000 ar unwaith fel yn rhodd gan yr ynadon. Y mae'r tŷ yn gwneyd arian mawr bob blwyddyn. Pe cauid y tŷ hwnnw ymhau y flwyddyn, a freuddwydiai un dyn yn ei synwyr am roi iawn i'r perchen? Mae ei iawn ef wedi ei gael eisoes ar draul trueni llaweroedd o gwmpas y lle. Ar y llaw arall, pe byddai y tafarnwr heb wneyd elw oddiwrth ei drwydded, ni fyddai peidio adnewyddu ei drwydded yn un golled iddo, ac felly nis gallai honni hawl i ddim iawn.

3. Mae ein cyfaill yma wedi dweyd fod yr hawl i ymyrryd â'r fasnach yn cynnwys yr hawl i'w diddymu; ac y mae yr egwyddor yn un gywir. Wel, y mae y Llywodraeth bob amser wedi arfer ei hawl i reoleiddio y fasnach, ond erioed ni soniodd am roddi iawn am unrhyw golled iddi. Yn 1495 diddymwyd llawer o dafarndai trwy rym cyfraith heb ddim iawn. Felly yn 1552. O 1757 hyd 1759, gwa-harddwyd distyllio "from grain meal and flour," fel y gellid eu cael yn ymborth. Cwynai y ffarmwyr a'r distyllwyr, a gofynent am iawn; ond ni feddyliodd neb am gydsynio â'u cais. Gwnaed yn gyffelyb yn yr Iwerddon yn 1809—10 ac yn 1813—14, a chyda'r un canlyniadau. Yn 1830, pan roddwyd caniatâd i agor tai i werthu cwrw heb drwydded, cwynai y tafarnwyr yn enbyd, a galwent am iawn, gan eu bod wedi ymddiried na fuasai y Senedd yn ymyrryd felly yn niweidiol â'u masnach. Ond ni feddyliodd neb am ganiatau eu cais. Gellid myned dros liaws o engreiffiau mwy diweddar. Yr ydys wedi cwtogi oriau gwerthu; yr ydys wedi cael cau y tafarndai ar y Saboth yn Ysgotland, Iwerddon, a Chymru. Ac os oes hawl i gymeryd un awr o'r 24, y mae hawl i gymeryd yr holl 24 o oriau, neu os gellir cymeryd y Sul ymaith, heb fod neb yn meiddio son am iawn, gellir yn sicr gymeryd y dyddiau ereill o'r wythnos, os bydd lles y lliaws yn galw am hynny, a'r cyfan yn ddiau heb un iawn yn y byd i'r tafarnwr. Cofier hefyd fod yr ynadon bob blwyddyn yn atal trwyddedau, lle bynnag y maent yn ddigon gwrol i hynny, ac nid oes unrhyw dafarnwr yn ddigon haerlwg i ofyn am iawn. A phe gwnelai, fe chwarddid am ei ben.

4. Cofier hefyd os eir i son am gyfiawnder, yn annibynnol ar hawliau cyfreithiol, y gallai ddod yn galed iawn ar y tafarnwr. Os codir tafarn mewn cymdogaeth, y mae y tai o gwmpas yn mynd yn llai eu gwerth. Pwy sydd i roi iawn i berchenogion y tai hynny? Cofier mai siarad yr ydwyf, nid am hawliau cyfreithiol, ond am chwareu teg rhwng dyn a dyn. Credaf felly fod y ddadl hon yn un gref iawn. Os ydyw'r bobl wedi cael eu colledu yn ddirfawr gan y tafarnwr, *efe ddylai roi iawn*, ac nid gofyn am iawn iddo ei hun. Ac y mae yr egwyddor hon yn cael ei chydabod yn America. Yn ol rhai cyfreithiau dros y Werydd mae gan weddw ac ereill fyddont wedi derbyn colled o herwydd rhoddi diod i'w perthynasau, hawl i ofyn iawn hyd bum mil o ddoleri gan y tafarnwr, diod yr hwn fyddo wedi peri'r golled. Beth pe byddai cyfreithiau felly mewn grym yma? Ac os chwareu teg a chyfiawnder noeth sydd i fod ar yr orsedd, fe droid y byrddau i bwrrpas ar y tafarnwyr. Y gwir yw, yn fyr, fod pob engraift a ddygir ymlaen

i ddadlen hawl y tafarnwr i iawn am beidio adnewyddu ei drwydded, yn ddiffygiol. Sonir am yr arian a dalwyd i'r caethfeistr pan ryddhawyd y caethion; am yr arian a dalwyd pan ddiddymwyd cyfraith pryniad swyddi yn y fyddin, a llaws o engreifftiau cyffelyb; ond yr oedd yr amgylchiadau hynny yn rhai hollol wahanol. Mi a'ch cynghorwn, Huw, i ddarllen Traethawd Edward Pearson ar *Parliamentary Precedents in regard to Compensation*, cyhoeddedig gan Simpson, Marshall & Co. Credaf, ond i chwi ei ddarllen yn fanwl, y byddwch yn barod i ddweyd am y tafarnwyr, "No case;" neu yng ngeiriau A. J. Nicholls, Ysw., LL.B., Barrister-at-Law, wrth derfynu ei draethawd ar y pwnc:—"The public voice protests against men who made large fortunes out of the working man's wages being compensated for inability to feed any longer upon the bread of hungry children, and 'the voice of the people' is, in this instance, 'the voice of God.' Give the publicans strict justice. They are entitled to this, but they must get no indulgence. Say not they have a vested right in the degradation of the poor and in the manufacture of criminals and paupers. Think over the words, 'Let justice be done': let the Gin Palace fall to the ground."

H. Dywedwch chwi a fynnoch, mi fydd yn anhawdd iawn perswadio y wlad i gau tafarnau trwy rym cyfraith heb iawn. Chwi welsoch, mae'n debyg, *A Chart of Compensation* a gyhoeddwyd gan Esgob Caer, lle y mae yn rhoi resymau dros ac yn erbyn iawn i dafarnwyr.

G. Do, ac y mae yn rhaid i mi addef fod y mater yn cael ei osod yn deg iawn gan yr Esgob. Mae dadleuon "y fasnach" o blaid iawn yn cael eu rhoi yn eu llawn nerth; ac y mae dadleuon y wlad yn erbyn, yn cael eu dwyn ymlaen yr un mor deg, ac y mae yn rhaid i ti addef, Huw, fod yr olaf yn gryfach na'r blaenaf o ddim rheswm.

H. Yr wyf finnau yn cydnabod yn onest fy mod yn teimlo hynny wrth eu darllen, ond yr ydych yn gwybod fod yr esgob yn symio y ddwy ochr i fyny yn y geiriau canlynol:—"It seems plain from the above considerations, and from the more or less converging schemes of compensation contained in the various Bills now before the country, that while licenses might perhaps on strictly legal grounds be withdrawn without compensation, and while the immeasurably superior rights and claims of the nation as against the trade must be vindicated, the national conscience is unprepared to sanction withdrawal except on equitable terms."

G. Mae cariad yr esgob at ei gynllun ei hun, yr hwn sydd mor adnabyddus, yn peri ei fod yn symio i fyny braiddd yn groes i'r *evidence* sydd o'i flaen. Tra yn addef fod, feallai, yn iawn atal trwyddedau heb iawn ar dir cyfraith, a bod "hawliau y genedl yn erbyn y fasnach i'w hatal heb iawn yn annhraethol gryf," y mae er hynny yn son am gydwybod y genedl yn anfoddlawn i atal trwyddedau ond ar "delerau teg!" Fel y mae efe ei hun, o ran hynny, yn awgrymu, yr hyu a olygir wrth Gydwybod y Genedl ydyw diffyg gwroldeb i atal trwyddedau oddiwrth bersonau neillduol. Dyna'r pam, yn wir, y mae o bwys fod y wlad yn cael ei goleuo ar y cwestiwn hwn. Po fwyaf o amser a gymerir i ystyried, lleiaf yn y byd y gwelir fydd hawl y tafarnwr i iawn. Bum i fy hun unwaith yn meddwl mai annhegwch fuasai cau y

tafarnau heb iawn. Ond yr oedd hynny cyn i mi edrych i mewn i'r cwestiwn. Fel y crybwyllwyd, yr oedd John Morley a Mr. Ritchie yn meddwl unwaith fod gan "y fasnach" achos go dda dros gael iawn. Ond fe'u goleuwyd trwy ymchwiliad pellach, ac nid oes eisieu ond goleuni ac ymchwiliad na fydd cyfaill tynheraf y fasnach yn gweled nad oes ganddynt un ddadl a dim sylwedd ynddi o'u plaid. Y gwir am dani ydyw hyn. Os nad oes gan y tafarnwyr un math o hawl gyfreithiol—o *legal right*—i gael iawn am atal eu trwyddedau, mae eu hachos yn syrthio i'r llawr. Ac y mae yr Esgob mewn effaith yn addef nad oes ganddynt. Pam y mae, gan hynny, yn son am "delerau teg," a bod "cydwybod y genedl yn erbyn atal trwyddedau" ond ar y cyfryw delerau? Os oes cydwybod gan y genedl ar y cwestiwn o gwbl, y mae yn codi oddiar ryw dybiaeth sydd yn meddwl y "genedl" *fad* gan y tafarnwyr fath o hawl gyfreithiol yn eu trwyddedau. Y foment y gwelont yn glir nad oes ganddynt y cyfryw hawl, ac nid yu unig hynny fod pob hawl foesol y maent yn ei honi ar dir chwerau teg yr un mor ddisaill, yr wyf yn siwr y bydd "cydwybod y genedl" yn troi fel eiddo John Morley a Mr. Ritchie. Eisieu goleuo "cydwybod y genedl" sydd, a dyna'r pam, meddaf eto, y mae o bwys annhraethol i godi y cwestiwn yn fwy i'r gwynt.

H. Os oes gormod o dafarn dai, beth am y cynllun o leihau eu nifer, a gorfodi y gweddill i dalu iawn i'r rhai yr atelir eu trwyddedau oddiwrthyt?

G. Nis gallaf fyned i mewn i'r cwestiwn hwn ar hyn o bryd. Cynghorwn chwi i ddarllen traethawd gwobrwyol fy nghyfaill, y Parch. J. Eiddon Jones, a'r sylwadau arno yn yr *Alliance News* amser yn ol. Mae y cwestiwn yn ymarferol yn un anhawdd, ond y mae o bwys annhraethol i ddangos nad oes gan y tafarnwyr un rhithyn o hawl i iawn; ac os apeliant at y wlad am iawn, rhaid iddynt wneyd hynny ar sail tosturi yn unig. Ac y mae yn rhaid i mi addef, os wyf am wneyd trugaredd â rhywun, fy mod yn dueddol i chwilio am wthrychau mewn cyfeiriad cwbl wahanol.

H. Onid math o iawn oedd y cynhygiad os byddai y bobl yn galw am gau y tafarn dai, i oedi gwneyd hynny am dair blynedd?

G. Iâ, yr wyf yn addef. Rhywbeth nad oedd gau y tafarnwyr hawl iddo, ond rhywbeth ag oedd yn ei wneyd yn haws i basio'r mesur; graslonrwydd ydoedd, ac nid cyfiawnder. Yr oedd hawl y caethfeistriaid gynt yn un tra gwahanol i hawl honedig y tafarnwyr yn eu trwyddedau, ac eto yr oedd teimlad cryf yn mynwesau y diddymwyr yn erbyn talu dim iddynt. Ond cydsyniodd Buxton ac ereill i gynhygiad Stanley yn hytrach na cholli y mesur o gwbl. Mi wnawn innau lawer er mwyn cael diddymu y fasnach ofnadwy hon; iê byddwn fodd-lawn i dalu yn o ddrud am hynny, pe byddai raid: ond *rhaid* fyddai, cofier.

H. Nid wyf am barhau y ddadl yn hwy, Gwilym, ond pe byddai i ti siarad am wythnos, yr wyf fi yn dal mai peth annheg iawn ydyw rhwystro i mi gael fy hanner peint i swper am fod rhywrai yn myned i'r tafarn dai ac yn meddwi.

G. Nid wyf finnau am barhau y ddadl yn hwy, nac am geisio dangos i ti nad oes neb am dy rwystro i gael dy hanner peint, tra y gelli

wneyd hynny heb beri y fath niwed ofnadwy i gymdeithas. Gad i mi ddyweyd hyn wrthyt Huw, cyn ymadael. Y mae cyfrifoldeb ofnadwy yn gorffwys arnat wrth benderfynnu mynnu cael dy hanner peint, cyfrifoldeb, y mae arnaf ofn, nad wyt ti erioed wedi sylweddoli ei faint.

H. Sut ?

G. Fel hyn. Mae y tafarndai yn gwneyd niwed annhraethol i gymdeithas. Pe cauid hwynt, darfyddai y rhan fwyaf o dlodi, troseddau, a drygau ereill cymdeithas, ac achubid o gant i ddau gant o filoedd o fywydau bob blwyddyn. Pe bai pob dyn parchus a chyfrifol fel tydi, Huw, yn rhoi heibio dy hanner peint, fe gawd y tafarndai ar unwaith.

H. Sut, yn enw pob rheswm, sut ?

G. Wel, er dy fwyn di y maent yn cael eu trwyddedu. Nid oes un ynad digon haerllug i feiddio trwyddedu er mwyn diwallu y meddwon. Dywed di, a dyweded pawb fel tydi, nad oes arnoch eu heisieu, a dyna'r fasnach wedi myned a'i phen iddi yn bur fuan.

H. Ddarfu mi erioed edrych ar y peth yn y wedd yna. Pe bawn i yn siwr mai fel yna y mae, ni phrofw'n i ddafn byth.

ELEAZAR ROBERTS.

Hoylake.

JOHN PENRY, Y MERTHYR CYMREIG.

1559—1593.

IV.

DILYNASOM hanes Penry hyd at ei ddyddiau olaf

Yr oedd yn ddechreu gwanwyn, a'r dydd yn estyn, fel yr oedd yn gallu ysgrifennu yn fwy rhwydd yn ei garchar tywyll, lle prin y caniateid iddo bapur ac inc at hynny. Ni feddyliai am ei achos ei hun, ond crwydrai ei feddwl yn aml at ei wraig a'i blant bach yr oedd yn eu gadael ar ol, ei berthynasau a'i gydwladwyr hoff yng Nghymru, a'r eglwys dlawd a gorthrymedig yn Llundain. Tybiai ar y pryd fod ei gyfeillion anwyl, Barrow a Greenwood, eisoes wedi eu dienyddio, a chredai nad oedd yntau, yn ol pob tebyg, i fyw ond ychydig ddyddiau. Felly ysgrifennodd lythyr at y frawdoliaeth, er eu cysuro yn wyneb eu profedigaethau blinion. Mae hwn yn llawn teimlad toddedig, fel y mae yr epistolau hynny a ysgrifennodd Paul o'r carchar ymysg ei rai yntau. Rhoddwn yma ddarnau o hono :—

At y gymulleidfa drallodus, ond ffyddlon i Grist, yn Llundain, a'r holl aelodau, pa un bynnag ai rhwym ai rhydd, annerch.

Dymunwn yn fawr, pe yn unol âg ewyllys Duw, gael byw eto gyda ohwi, i'ch cynorthwyo i gynnal yr iau drom a phoenus y rhaid i ohwi, yn ol pob tebyg, ei dioddef, naill ai yma neu mewn gwlad estronol.

Fy mrodyr anwyl, gan fod a'ltudiaeth ac ysbeiliad yn debyg o'oh goddi-weddyd oll, ymbaratowch gogyfer a'r fath dynged fin, a llawenhewch am eich cyfrif yn deilwng, er mwyn aochos Crist, i ddioddaf a myned trwy yr holl ofidiau hyn. Ac erfyniaf arnoch, yn ymysgaroedd Iesu Crist, na byddo i neb o hon-och yn y cyfryw aochos edrych ar ol ei gyflwr ei hun, ond ar gyflwr cyffredinol eglwys Dduw, fel y dalier honno ynghyd ac yn gyfan, pa le bynnag y gwelo Duw yn dda eich danfon. O mawr fydd y fendith a ddwg y gofal hwn. Ond os a pob un i ofalu am ei dŷ, ac i edrych ar ol ei dylwyth ei hun, gan esgeuluso Seion dralloodus, gesyd yr Arglwydd ei wyneb yn eich herbyn, a chwâl chwi o'r naill gŵr i'r nefoedd i'r oŵr arall; ac ni chwech orffwysfa i wadnau eich traed, na bendith ar ddim yr ymgymerwch ag ef. . . .

Ac yma yr wyf yn taer erfyn arnoch, nid er mwyn pethau allanol, fel y rhaid i mi ateb eto ger bron Duw, gymeryd fy ngweddw ddiymgeledd, a'm tŵr o blaen byohain, amddiffaid a disworr, gyda chwi i alltudiaeth, lle bynnag y byddoch yn myned; ac nid wyf yn ameu na chwech y bydd i'r addewidion bendigedig a wnaeth Duw i mi a'r eiddof, eu canlyn hwy, ie a'r holl eglwys er eu mwyn hwy. A hyn yw addewid Duw i'r hâd duwiol, gan na bydd fawr eisieu i chwi ofyn iddynt beth a fwyânt, neu beth a wisgant; ac ymhen yohydig amser yr wyf yn dra sior y byddant yn gynhorthwy i'r eglwys, ac nid yn faich arni. Yn unig yr wyf yn erfyn arnoch beidio eu gadael ar eich hol yn y wlad hon, lle y cânt eu gorfodi i ddychweilyd yn ol i'r Aifft. A'm Duw i a roddo i chwi ddychweiliad llawen i'oh gwlad yn dâl am hynny. Nid wyf yn ameu na fydd rhai o honoch yn ofalus i gyflawni ewyllys eich brawd ymadawedig yn y peth hwn; a dihon y bydd efe byw eto i ddangos yr un caredigrwydd i'r eiddoch chwithau Ni ddywedaf yohwaneg.

Byddwch fwy, caredig, a thyner-galon y naill at y llall; llafuriwch ymhob dull i gynhyddu mewn cariad, ac i ddangos gweithredoedd cariad at eich gilydd, trwy ymweled, diddanu, a gweinyddu i angen eich gilydd; ie, er cywilydd i'r paganiaid sydd o'n hamgylch (fel y dywed yr Arglwydd). Byddwch wylidiwrus i weddiau; yn arbennig oofwch y brodyr hynny sydd mewn enbydigrwydd neillduol. Gofiwch yn benodol am y ddau frawd Mr. Studley a Robert Bowl, i'r rhai y mae yr Arglwydd yn awr wedi rhoddi nerth i sefyll yn lle poethaf y frwydr.

Yr wyf yn ofni ein bod i fesur wedi esgeuluso gofyn i Dduw arbed bywydau dau oedd mor nodedig yn oleuadau ei eglwys, y rhai sydd yn awr yn gorffwys gydag Ef, a'i fod wedi eu cymeryd ymaith am amryw rasymau doeth iddo Ef, ac y byddem ninnau hefyd yn fwy gofalus i weddio arno yn y fath amgylch-iadau. Gweddiwch drostynt, fy mrodyr, a thros ein brawd Mr. Francis Johnson, a thros of finnau,—gan y gorfodir fi, mae yn debyg, i derynu fy nyddiau yr un amser & hwynt neu o'u blaen—ar i Dduw ein harbed ni i'w eglwys, os yw da yn ei olwg, neu roddi i ni ffyddlondeb mawr. Byddwch ymhob modd yn gysur i chwaer a gwraig y marw, sef fy anwyl Mrs. Barrow a Mrs. Greenwood, y rhai yr wyf yn eu hannerch yn y modd mwyaf calonnog, ac yn mawr ddymunio iddynt fod yn ddedwydd yn yr Arglwydd, yr Hwn, trwy ei fendithion o'r uchelder, a wna i fyny iddynt hwy am y golled o frawd a phriod mŵr rhag-rol.

Yr wyf yn taer ddymunio arnoch ysgrifennu; ie, anfon, os gellwch, i gysuro y frawdoliaeth yn Siroedd y Gorllewin a'r Gogledd, fel na byddo iddynt ymollwng yn y cystuddiau hyn, ac y caffoch chwi eu cyngor hwy, a hwythau yr eiddoch chwithau ynghylch beth sydd oreu i'w wneyd yn yr amseroedd cythryblus hyn; ac os byddwch yn tybio y bydd o ryw gysur, oymorth, a chyfarwyddyd iddynt, anfonwch gopi o'r llythyr hwn, a ohyhoeddiad fy ffydd a'm teyrngarwch; gan ddymunio arnynt, o flaen pwy bynnag y gelwir hwynt, na byddo iddynt ddweyd dim i gondemnio eu hunain; ie, dymunwn i chwi fod gyda'oh gilydd, os bydd modd, pa le bynnag yr alltudir chwi; ac i'r diben hwn, trefnwch ymlaen llaw i ba le i fyned: ie anfonwch rywrai oymwys i baratoi i chwi orffwysta; a byddwch oll yn sior y bydd Efe, yr Hwn sydd yn Dduw i chwi yn Lloegr, yn Dduw i chwi mewn unrwy wlad dan yr holl nefoedd:—canyis ei eiddo Ef yw y ddaear a'i chyflawnder; a gwyn eu byd y rhai a ysbeilir o ran o honi er mwyn ei aochos Ef.

Yn ddiweddfaf fy mrodyr, bendithied y Duw tragwyddol chwi a'r eiddoch, fel y caffwyf eich cyfarfod oll er fy nghysur yng ngwynfydedig deyrnas nefoedd. Fel

hyn, wedi gwneyd fy nyledswydd atoch ohwi, o'm calon a chyda dagrau—gan y gall mai dyma yr olaf yn y bywyd hwn—yr wyf yn eich anneroh oll yn yr Arglwydd, yn wŷr & gwragedd. Ie, y rhai ni enwais, mor galonnog a'r rhai a enwais (canys nid wyf yn gwybod eich enwau oll). A ohoffwch sefyll yn ddi-ysgog a ffyddlon yn Iesu Grist, fel y derbyniasoon Ef, i fywyd tragwyddol; a bydded iddo eich cadarnhau a'ch gwreiddio hyd y diwedd, er ei ogoniant ei Hun. Amen.

Y pedwerydd ar hugain o'r pedwerydd mis, Ebrill, 1593.

Eich brawd serchog yn amynedd a chystudd yr Eifengyl,

JOHN PENRY.

Tyst dros Grist yn y byd hwn, a chyfranogydd o'r gogoniant a ddatguddir.

Cyflawnwyd dymuniad taer Penry yn y llythyr uchod gyda golwg ar iddynt ymfudo i wlad arall. Rhyddhawyd Francis Johnson, bugail yr eglwys, o'r carchar, ar yr ymrwymiad fod iddo fyned i alltud-iaeth wirfoddol am ei oes. Aeth i Holland, a dilynwyd ef yno gan amryw o'r frawdoliaeth yn Llundain ac yn y Gogledd. O hyn y tarddodd ymfudiaeth y "Tadau Pererinol" yn y *May Flower* yn y flwyddyn 1620, i Plymouth, Lloegr Newydd, a thrwy hynny i sefydlu gweriniaeth Unol Dalaethau yr America. Nid yn amhriodol y gellid cymhwyso geiriau y Salmwydd at hyn, "Mudaist winwydden o'r Aifft, a phlennaist hi," &c (lxxx. 8—11).

Gellir credu yn hawdd fod swyddogion y Goron yn cyfarfod âg anhawsterau mawrion i allu, ar unrhyw seiliau teg, sicrhau dyfarniad ar achos Penry fel yn euog o fradwriaeth. Mae yn amlwg oddiwrth y modd anghyhoedd y rhoddwyd Barrow a Greenwood o'r diwedd i farwolaeth, ar y Æed o Fai, fod yr esgobion erbyn hyn yn dechreu "ofni y bobl," er nad oeddynt yn foddolawn i roddi heibio eu bwriadau gwaellyd. Fel cymhelliad i ddyfalbarhad gyda hyn, addawodd yr Archesgob roddi ei ddylanwad o blaid Bancroft, pan ddeuai yr esgobaeth nesaf yn wâg. Er mor ddymunol oedd y disgwyliad am y fath ddyrchafiad, eto yr oedd yn angenrheidiol cymeryd gofal mawr wrth fyned ymlaen, gan fod arwyddion terfysg yn codi ymysg y bobl, yn enwedig yn Southwark. Chwanegwyd yn fawr hefyd at benbleth yr esgobion trwy ymddangosiad amddiffyniad cryf gan Penry, wedi ei dynnu allan mewn termau cyfreithiol, dyddiedig Mai 16eg, yn yr hwn y profir yn eglur nad oedd mewn perygl am y llyfrau a gyhoeddaisid ganddo, oddiwrth y ddeddf (Eli. 23), yn erbyn geiriau bradwrua. Ar ol derbyn yr amddiffyniad galluog hwn, nid yw yn rhyfedd ddarfod i'r Arglwydd Brif Farnwr Popham, yn y *Queen's Bench*, roddi y cyhuddiad blaenorol o'r neilldu. Mabwysiadwyd cwrs gwahanol, cafwyd ymysg papurau anghyhoeddedig Penry, fraslun o ddeiseb a baratoisai, pan yn Scotland, Ebrill 30ain, 1592. Bwriadau Penry gyflwyno yr anerchiad hwn yn bersonol i'r Frenhines ei hun, ar ei ddychweliad i Loegr. Nid oedd yn cynnwys ond nodiadau brysiog ac anorphenedig, ac nid oedd wedi ei ddangos i neb. Rhaid cydnabod fod ynddo rai darnau lled lymion, er nad ydynt yn cynnwys dim ond gwirionedd. Mae yn dra sicr, pe cawsai hamdden i edrych drosto ac i'w baratoi yn briodol cyn ei gyflwyno, y buasai yn newid cryn lawer arno. Dyma ychydig ddyffyniadau o hono:—

Y mae dyddiau diweddfaf eich teyrnasiad yn cael eu troi yn erbyn Iesu Grist a'i Efengyl, yn bytrach nag o'u plaid. Y mae gennyf achos mawr i achwyn, fy Arglwyddes; Ie, y mae gan yr Arglwydd a'i eglwys achos i achwyn, ar eich llywodraeth; canys nis goddefir i ni, eich deiliaid, heddyw, o dan eich llywodraeth, wasanaethu Duw yn ol ei Air; eithr gwerthir ni yn gaethion, nid yn unig i'n blysiu i wneuthur fel y mynnon, ond yn unig i ni ymgadw o fewn terfynau y cyfreithiau gwladol, ond hefyd i fod yn gaethweision i'r "Dyng Pechod" a'i ordinhadau. . . . Rhaid i chwi restru eich hun ymlith y penaduriaid sydd wedi cael eu llithio i wrthwynebu yr Efengyl; o herwydd, hyd oni wneloch hyn, fy Arglwyddes, nid ydyoh yn gweled eich hun, ac nid yw y rhai a ddywedant fel arall wrthych ond rhagrithwyr a gwenieithwyr. Trwy yr Efengyl yr ydyoh chwi yn sefyll, ac wedi sefyll. Nid ymddengys ei bod hi yn rhwymedig i chwi am ddim. Y mae gweithrediadau eich llywodraeth yn dangos, pe gallasech lywodraethu heb yr Efengyl, fod yn amheus a gawsai yr Efengyl ei sefydlu neu beidio; oblegid yn awr, pan ydyoh chwi wedi eich sefydlu ar eich gosod, ni oddefwch iddi fyned ymbellach nag y byddo eich teyrnwialen yn gosod i lawr dertynau iddi.

Ar yr 21ain o Fai, 1593, cymerodd ei ail brawf le yn Westminster, o flaen yr Arglwydd Brif Farnwr Popham, a'i gydfarnwyr, ac wedi rhith o brawf, a erys byth yn warth ar lysoedd Prydain, cafwyd ef yn euog wrth gwrs, a throsglwyddwyd ef i garchar y *Queen's Bench* yn Southwark.

Y dydd canlynol ysgrifennodd Penry lythyr at Arglwydd Burleigh, gyda'i "Wrthdystiad" yn amgauedig. Mae y papurau hyn ar gael, wedi eu hysgrifennu mewn llaw eglur a phrydfferth, yn enwedig felly yr olaf o honynt.

Dyma ei "Wrthdystiad" yn erbyn y ddeddfryd anghyfiawn a roddwyd arno. Ystyriaf hwn mor bwysig fel yr wyf yn ei roddi yn gyflawn, er ei fod yn faith:—

JOHN PENRY,—*Ei wrthdystiad cyn ei farwolaeth, a anfonwyd i'r Arglwydd Drysorydd.*

Er y buasai yn hollol resymol disgwyl i'm hysgrifeniadau cyhoeddus, pwyllog ac ystyriol, rwy mo i fyny a selio yr arohall a fernir fel yn cael ei rhoddi gan fy nodiadau mwyaf dirgelaid, byrbwyll, ac annhrefnus, eto nid wyf yn erfyn cymaint & hynny o degwch yn yr achos, yn yr hwn yr amheuir fy fyddlondeb a'm hufudd-dod i'm grasusaf Benadur. Hyn yn unig a ddymunaf, ar fod i'r hyn a fyddo yn fwyaf unol & gwir yng nghydwytod ei rhagorol Fawrhydi, a'r holl w'r anrhydeddus ac urddasol (i ddwylaw pa rai y taer ddeisyfai i'm hysgrif hon ddyfod), gael ei benderfynu mewn perthynas i'm hachos; ac felly fy mod yn cael fy rhyddhau neu fy nghondemnio yn euog o'r hyn a osodir yn fy erbyn. Am y gosb am hyn, ni wrthodaf ei dioddef, os bydd i'w Huchelder farnu yn briodol y pryd hynny ei gweinyddu arnaf; pa un bynnag fyddo ai dirwy anbaeddiannol fy niniweidrwydd, ai barn gyflawn fy euogrwydd. Gadawaf hynny i'r Arglwydd, ac i'w grasusol Fawrhydi, yr hon a osododd Efe arnaf, i'w benderfynu. Fy niniweidrwydd yn unig a ddymunaf trwy hyn ei amlygu, heb unrhyw amcan pellach; fel pa un bynnag ai byw ai marw a wnelwyf, y byddo i'm huchondeb tuag at fy Mhenadur oroesi.

Pa beth bynnag yn fy ysgrifeniadau anghyhoedd hyn a gymerwyd (y rhai gan mwyaf ydynt nodiadau dirgelaid a chymysglyd o'm heiddo fy hun), sydd yn cyffwrdd & i'w gwir ragorol Fawrhydi, yr wyf yn siornau eu bod wedi eu gosod i lawr gennyf, fel yn cael eu rhoddi, yn wir, yn ei herbyn gan ereill, y rhai y bwriadwn eu hystyried ymbellach (os o gvbl), er mwyn olirio ei Mawrhydi, pan y deuai cyfleustra; neu fel materion traethodyn byr, yr hwn a twriadwn & fy llaw fy hun (os byth y caniatâi yr Arglwydd fodd a chyfleustra i hynny), ei gyflwyno i'w Huchelder, er gosod allan fy fydd a'm hymlyniad tuag at Dduw a thug at ei Mawrhydi: yn yr hwn y bwriadwn, megis mewn hysbysiad cyfrinachol, er tawelu fy nghydwytod, gyflwyno i'w hystyriaeth, Ai nid oedd llawer o bethau,

heb ei gwybodaeth, yn cael eu gwneyd o dan ei llywodraeth, er rhwystr i ryddid yr Efrogyl, am yr hyn y beid hi ymysg cenhedloedd estronol; ac o bosibl, a fyddai yn cael eu gosod yn ei herbyn eto gan y rhai a ddeuai ar ol.

Y mae fy ysgrifeniadau hyn, nid yn unig yn dra amherffaith, ond hefyd mor ddirgelaid, fel nad oedd un creadur dan y nef yn hysbys o honynt ond myfi fy hun, nes y'n awr yr atafaelwyd hwynt; ac felly, bai mawr y rhai y daethant i'w llaw, ac nid unrhyw gamwri o'm heiddo i fydd, os gwneir hwy yn fwy cyhoeddus nag y maent. Fel fy eiddo i nis gallaf eu cydnabod, er mil o fydoedd; canys felly byddwn yn pechu mewn modd dyohrynlyd yn erbyn yr Arglwydd, ac yn erbyn fy nghydwbod fy hun, trwy ddwyn camdystiolaeth yn fy erbyn fy hun. Ni ddychmygais erioed y byddai i neb wneyd unrhyw ddefnydd o honynt; yn enwedig yn fy erbyn fy hun, gan bwy bynnag y cymerwyd meddiant o honynt; pe amgen, gellid yn hawdd meddwl na buaswn byth yn eu cadw, gan mor lleied o wasanaeth ydynt i mi, fel y barna pawb hwynt.

Yn awr, er mwyn gwneyd yn eglur fy fyddlondeb tuag at ei Mawrhydi, a'r diben oedd gennyf wrth fyned i gyflwyno fy hun i'w dwylaw, ceir gweled hynny yn fy mhapurau hyn, pa mor daer a pha mor fynych yr erfyniwn ar yr Arglwydd (yn enwedig tua'r diwedd pan ar adael Sootland), i roddi ffatr i mi yn ei golwg, ac i dueddu ei chalon at fy neiseb; yr hon yn unig ydoedd—Ar ryngu bodd iddi synied am danaf fel y gwawn i o'm calon am dani hi, a chaniatau i mi ddefnyddio fy nhalent fechan yng Nghymru, ymysg fy nghydwladwyr tlodion, er eu galw i wybodaeth o Grist. Gwn fod eu hanwybodaeth, yswaeth, yn dra galarus.

Dengys fy ysgrifeniadau hyn hefyd i'r gair a ddaeth i Sootland, fod ei Mawrhydi wedi gadael y fuchedd hon, pan y'i clywais, beri i mi ymostwng ger bron yr Arglwydd mewn ymryd a gweddi, gan ddymuno hyd yn oed gyda llawer o ddiagram, ar fod iddo brofi yn anwiredd, fel y bu iddo, diolch i'w Fawredd. Yr hyn a ddengys y fath ddyrnod, yn fy nghydwbod i, fwasai symudiad ei Mawrhydi allan o'r byd i holl eglwys Dduw y dydd hwn; yn arbennig i'w theyrnas, anwyf wiad fy ngenedigaeith. Pa mor drwm oedd y newydd i mi yn neillduol, fe dden-gys y papurau hyn i fesur; gŵyr fy nghydwbod, ac fe ddatguddia yr Arglwydd Dduw hynny, yr wyf yn sior, er fy hollol ddiueugi, yn y dydd mawr hwnnw. Gwnaed hyn ers amser maith, pan oedd achlysur i mi osod i lawr yr holl bethau, y mae yn debygol y cyhuddir fi yn bwysig o honynt. Nid oedd yr un creadur yn hysbys o'r gwaith hwn o'm heiddo hyd nes yn awr y cymerwyd fy ysgrifeniadau i fyny; ac nid oeddwn yn bwriadu byth eu datguddio. Yn awr, pan y mae fy sylwadau dirgel, cymysglyd, ac anwyliadwrus, yn cael eu dwyn yn fy erbyn, fe hyd yn oed er tywallt fy ngwaed, yr wyf yn ostyngedig yn crefu ar fod fy mhapurau hyn hefyd yn cael edrych i mewn iddynt a'u dwyn i'r goleu fel y lleill; ar sail y rhai y mae fy ngrwthwynebwy'r yn meddwl fy nghyhuddo o anffyddlondeb tuag at fy nheyrn, yr hyn, yr wyf yn diolch i Dduw, nis gall na dyn nac angel fod yn abl i'w wneyd. Gwnaed hyn yn Ionawr neu Chwefror ddeuddeug mis yn ol, 1592. Gellir cael hynny allan yn hawdd oddiwrth y papurau hyn o'm heiddo, sydd yn cynnwys drych, neu nodiadau dyddiol o'm pechodau i'w hun a'm llygreddigaethau, ac o'm deisyfiadau neillduol at yr Arglwydd. Pethau o'r fath natur ddirgelaid, fel yr wyf yn gwybod yn dda y bydd yr holl fyd yn ei ystyried yn waradwyddus eu bod yn cael eu gosod yn fy erbyn; eto yr wyf yn diolch i Dduw, nid wyf yn gwrthod cymeryd fy marnu wrthynt.

Am y pethau arbennig sydd yn dal oysylltiad â'i Mawrhydi yn fy mhapurau hyn, ceisais achlysur nid bychan, yn ystod yr amser y bum ac yr arhosais yn Sootland, i gymeryd sylw o honynt i'r amon a nodais o'r blaen. Ac yn siar y mae y rhan fwyaf o honynt wedi eu rhoddi yn y geiriau yn gywir, neu eiriau cyffelyb, fel y'u gosodid o'm blaen, ie, gan y rhai hynny ag y barnwn am danynt eu bod yn dymuno yn dda i'w Mawrhydi a'i llywodraeth. Canys y boneddigion, gweinidogion a phobl Sootland, y rhai nad ydynt yn hysbys o gyflwr y wlad hon, a dybiant, o herwydd y Breladiaeth a gynhelir yma,—iau pa un a deimlasent hwy'n rhy drom,—o fewn yr yohydig flynyddoedd hyn, ar gyfrif y lliaws gweinidogion mudion a oddeffr ac a wneir yn feunyddiol yn y wlad hon, ac o herwydd eu bod yn clywed fod pregethwyr yn cael eu hatal, eu distewi, eu caroharu, eu difeddiannu, &c., y maent wedi tybied, meddaf, ac wedi dweyd wrthyf, mai yohydig os dim gwirionedd a oddeffr i gael ei ddysgu yn Lloegr; fod yr hyn a ddygir yn cael ei fesur wrth hyd teyrnwialen ei Mawr-

hydi, &c.; fod y wladwriaeth yn dra dyledus iddi, yn wir, ond yr efengyl ychydig, &c.

I'r hyn yr atebais, fod yr efengyl, yn fy nghydwylod, mor ddyledus i'w Mawrhydi ag ydoedd i holl dywysogion Ewrop ymaghyd. Atebent, fod y tywysogion felly yn rhagrithio; canys nid oes neb o honynt, ag sydd yn cymeryd arnynt amddiffyn yr efengyl, yn goddef i'w gweinidogion a'i phroffeswyr, o dan eu llywodraeth, gael eu distewi a'u carcharu o achos cydwylod, ac o herwydd amddiffyn y gwirionedd ag y mae yr holl *Eglwysi Dwygiedig* yn ei gofeidlo. I'r hyn bob amser yr atebais yn llawen, yr wyf ya diolch i Dduw, ar an ei Mawrhydi; felly gosodais i lawr yn fy ysgrifeniadau hyn, yn ddi-drefn, sylwedd yr ymddiddanion, fel y gallwn, ar adeg fwy hamddenol, eu hystyried, a gwneyd rhyw ddefnydd o honynt, er tawelu fy nghydwylod, megis y dywedais.

Ynglŷn â hyn hefyd oetais gyfleustra arbennig, mewn ymgynghoriad cyfrinachol gyda gweinidogion y wlad honno, pryd yr hysbysais hwynt yn wahanol am gyflwr pethau yma, i'r hyn a sierheid iddynt yn gyffredin gan eu marsiandwyr, neu ereill a deithient yno; o'r cyfryw yr oedd rhai wedi eu gwahodd gan fonhoddwr duwiol o'r wlad honno, ac a ddywedasant wrtho mai nid heb reawm amlwg—gan ei fod wedi ymddiddan mor fynych gyda mi—iddo ef, pan yn ystafell eang y fath fonhoddwr, lle yr oedd darlun ei Mawrhydi wedi cael ei osod islaw darluniau ereill o frenhinoedd a thywysogion, ei gymeryd a'i osod uwchlaw iddynt hwy, oblegid barnent nad oedd hi yn llai teilwng, os oedd yr hyn a ddywedasant am ei Huohelder yn wir. Atebodd y bonhoddwr fod yn llawen ganddo glywed hynny gennyf fi, yr hwn, fel y barnai, na ddywedwn ddim amgen na gwirionedd, yr hyn a gredai ef yn wastad am dani, sef fod efengyl Crist mor ddydedus i Frenhines Lloegr ag ydoedd i'r holl Dywysogion yr ochr yma i'r Alpau. Yr hyn a feiddiai ei ddweyd yn fwy hyf ar sail fy nhystricolaeth i.

Y rhai hyn, a'r cyfryw, meddaf, a fu yr aohllysuron o ba bethau bynnag yn fy ysgrifeniadau anghyhoedd a ymddangosant fel yn myned fwyaf yn fy erbyn. A gallwn enwi Saeson, y rhai, os llefarant yn ddiuoedd, y rhaid iddynt dystiolaethu na chlywsant ddim llai yn cael ei ddweyd yn wrthwynebol gan ereill, na dim llai yn cael ei ateb gennyf fi, na'r hyn a osodais i lawr, yn ol fel yr oedd amser a lle yn caniatáu. Is, pan y dygid fel prawf, fy achos fy hun, neu achos ereill—y rhai, yn profesu yr efengyl, a feniid fel yn cael eu trin yn galed dan lywodraeth ei Mawrhydi—atebais, *Ut Parentum, sic Principis ac Patriæ, severitatem, patiendæ ac ferendæ, leniendam esse*.—Y dylai disgyblaeth ein penadur, neu ein gwlad, fel eiddo ein rhieni, gael ei ysgafnhau gennym trwy ddiodeffgarwch ac ymostyngiad. Yr hwn ddywediad, ac hefyd rhai ereill, o eiddo Marc Tullius at Lentulus, a geir, fel yr wyf yn cofio, wedi eu dodi i lawr yn fy ysgrifeniadau hynny i'r amcan penodol hwn. Trwy hyn gall ymddangos fod rhyw gysondeb yn yr hyn wyf yn ei ysgrifennu yn awr; er fod fy nodiadau hynny yn dra ohymysgled, y cyfryw fel nas gall neb, ac eithrio fy hun, gaegtu unrhyw bwrpas allan o honynt. Nid edrychais ar y rhan fwyaf o'm hyagrifeniadau hyn ers 14 neu 15 mis; trwy hyn, ac ystyried y modd y maent wedi eu gosod i lawr, gallwn innau hefyd fod wedi anghoïo yr amcan oedd gennyf yn eu cofnodi.

Eto ni ddymunaf gael fy ystyried, fel yr wyf, diolch i Dduw, sef yn ddeiliad teyrngarol i fy Mhenadur, os na ddangosaf fod unrhyw ymadrodd a gynhwysir ynddynt yn dwyn perthynas â'i Mawrhydi, fel wedi oodi oddiwrth amgylchiadau blaenorol, ac wedi cael eu rhoddi i lawr i'r dibenion a nodais, sef naill ai er mwyn hysbysu, neu er mwyn amddiffyn ymbellaeth ei Mawrhydi, fel y rhoddai yr Arglwydd gyfleustra i mi.

Mae fy amcan diweddaf hwn yn cael ei brofi hefyd mewn traethawd, yr hwn a gyhoeddais ers yn agos yn awr i saith mlynedd yn ol; yn yr hwn wrth ysgrifennu at y Senedd, y dangosaf fod y Pabyddion, naill ai Bristow ai Saunders, os nad ydyw fy nghof yn pallu i mi, wedi rhoddi allan nad oedd ei Mawrhydi yn gofalu am yr efengyl yn ddim pellaach nag fel yr oedd yn gwasanaethu er ei chadarnhau hi. Ac o herwydd hyn, dymunaf i'r Senedd wrthsefyll yr athrod, trwy ddarparu i bobl Cymru gael eu haddysgu yn well; gan ddweyd ar fy rhan fy hun, pa beth bynnag a wna i Senedd, fy mod i yn gwrth-ddywedyd y cyfryw [gybuddiad], cyn uchod ag y gall papur ac ino wneyd hynny, fel yn anfyddlondeb ac yn enllib tuag at fy Mhenadur.

Dyma fy ngeiriâu; ac, megis yr atebaf ger bron yr Arglwydd fy Nuw, nid oedd gennyf ond y meddwl dyledus hwn wrth osod i lawr pa beth bynnag a ddehonglir mor erchyll yn awr yn fy ysgrifeniadau hynny. Yn fyr, gwaa y teimlad ffyddlonaf a pharhousaf, yr hwn a goleddir bob amser gennyf tuag at ei Mawrhydi, yn fy ysgrifeniadau cyhoeddus, pa bryd bynnag y cyfeiriaf ati hi neu ei llywodraeth,—owrs oyson fy mywyd y ffordd hon, ynghyd a thystiolaeth pawb sydd yn gydnabyddus â mi, neu fy ysgrifeniadau, yn enwedig y rhai hynny o'm cydwladwyr a'm hadwaenent yn Scotland, fy rhyddhau yn wyneb pa beth bynnag fyddo yn cyffwrdd â'm teyrngarwch tuag at fy Mhenadur.

Ac yr wyf yma, yn yr ysgrif olaf hon, fel y mae yn debyg am ddim a wn, a ddaw oddiwrthef, yn tystio ger bron yr holl fyd, pe na buaswn yn talu sylw i ofn na Duw na dyn, nac ychwaith i dystiolaeth cydwybod dda, eto y dylasai ac y buasai y gofal oedd gennyf yn wastad na chái Cymru, gwlad fy ngenedigiaeth, ddwyn y gwarthnod, o'm haehos i, o 'od wedi esgor ar neb a ddiarhydeddai, neu a ymddygai yn aanheilwng at Benadur ag sydd wedi ynddwyn bob amser mor garedig tuag atom, fy nghadw rhag pob ymgais anffyddlawn yn erbyn ei uchelder. Na, yr wyf yn dioloh i Dduw, fod gennyf bob rhesymau ag ydynt yn ac wedi fy nghymell bob amser i bob ffyddlondeb at fy Mhenadur; ond nid erioed ddim a'm tueddodd i gymaint â meddwl orwydredig dirgel at fwrriad an-nyrngarol tuag at ei Mawrhydi.

Yn ddiweddaf, yn fy ysgrifeniadau hyn a gymerwyd, y rhai yn awr a osodir yn fy erbyn, sydd yn cynnwys ynddynt, nid yn unig gofnod neillduol o'm llygredig-aeithau beunyddiol,—am ac yn erbyn y rhai y crefwn drugaredd a nerth gan yr Arglwydd,—ond hefyd o'm holl bechodau arbennig, o'r rhai y gallai fy nghydwobod fy nghyhuddo dros ystod fy holl fywyd, hyd yn oed at y dydd y daethum allan o Scotland,—gwneir yn eglur pa un a oedd fy enaid yn hysbys erioed o unrhyw drosedd wedi ei gyflawni gennyf yn erbyn ei Mawrhydi ai peidio; ond yn unig hwn—o herwydd pa ur. y o Wynaf—set nad oeddwn mor ofalus dros weddio am ei hamddiffyniad a'i llwyddiant ag y dymunwn ac yr ymdreohwn wneyd. Ac eto, diolohaf i'r Arglwydd, nad wyf yn cofio fod diwrnod wedi myned dros fy mhen, er pan o dan ei llywodraeth y daethum gyntaf i wybodaeth o'r gwirionedd, yn yr hwn ni ohyflwynais ei hetifeddiaeth i'w FAWREDD.

Yr wyf yn fy mhapurau mwyaf dirgel yn trafod hyn yn ddiwyll, megis yn ei wyddfod Ef, yr hwn y gwn sydd yn ddatguddiwr y dirgeioedd, o ar law yr Hwn y crefwn am iachâd i'm cydwybod aroholledig. O herwydd paham, yr oedd yn bwysig i mi beidio twyll-ohwareu gydag Ef; er y gallaswn wneyd hynny gyda dyn. Buasai ymddywng felly yn sior o yohwanegu at faich annioddefol fy enaid blin-edig; ond iachâu fy aroholl nis gallasai. Ac o ganlyniad gallaf yn gywir ddwyed, pe buaswn erioed wedi bod yn euog o'r fath drosedd, y buasai wedi cael ei roddi i lawr yno, pryd y tywalltwn hyd yn oed ddirgelion fy nghalon o flaen gorsedd trugaredd yr Hwn sydd yn byw yn oes oesoedd.

Wel, gallaf gael fy nghyhuddo, fy marnu, fy nghondemnio, a diweddu dyddiau blin fy mhererindod fel drwg-weithredwr, ie, fel bradwr yn erbyn fy Mhenadur naturiol; ond yr wyf yn dioloh i fy Nuw, ni bydd na nefoedd na daear yn abl i fy mhrofi yn euog o hynny. A bydd fy nyfarniad, pa bryd bynnag y daw am yr achos hwn, yn fwy gwaradwyddus nag ydoedd perohenogion y Goron yn y Cheap, o dan y brenin Richard III.,—llywodraeth yr hwn nid wyf mewn un modd yn ei ohymharu i deyrnasiad heddychol ei Mawrhydi. Canys talwyd drwg i'r dyn na wnaeth ddim niwed: ac yr wyf fi yn debyg o dderbyn drwg am dda. Er fy mod yn sior pe byddai i'w Mawrhydi—yr hyn yn oet yngedig a thae'r ddymunaf ac a ddeisyf—ddeall uniondeb fy achos i ryw raddau, na chái yn blewyn o fy mhen gollu. A chan fod fy nhrosedd tybiedig yn unig yn erbyn ei Mawrhydi, yr wyf yn cyfiwyno fy hun yn hollol i'w dwylaw, ac i'w phenderfyniad,—wedi i'w Huchelder ystyried fy achos, fel yr wyf wedi ei osod i lawr,—heb unrhyw brawf pellach. Os dedfryda fi i farw, neu i'r llafur wasanaeth mwyaf annioddefol eillir ei ddyfeisio, dros holl ystod fy mywyd byr a thertynedig, dioddefaf y goeb oddiwrthi hi heb amlygu dim anewillygarwch, hyd y gallaf.

Ac yr wyf yn dioloh i Dduw, pa bryd bynnag y daw diwedd fy nyddiau—*gan nad wyf yn disgwyl byro hyd ddiwedd yr wythnos hon*—yr enilla fy niniweidrydd gymaint a hynny i mi, ag y bydd i mi farw yn ddeiliad ffyddlon i'r Frenhines Elisabeth, hyd yn oed yng nghydwobod fy ngelynyon, os byddant ymysg yr edrychwyr; a thrwy fy marwolaeth argyhoeddaf hwynt, ger bron yr holl fyd, fy

Ac os bydd i fy marwolaeth fod yn foddion i ddwyn rhyw dawelwch i eglwys Dduw, ac i lywodraeth fy Mhenadur a'i t'eyrnas, yn yr hon y'm ganed, llawen wyf fod gennyf fywyd i'w roddi i'r gwasanaeth hwn. Nis gwn i ba beth gwell y gellid ei ddefnyddio, pe'r arbedid ef. Ac am hynny, yn yr achos hwn, nid wyf yn dymuno ei arbed. Fel hyn yr wyf wedi byw tuag at yr Arglwydd a thuag at fy Mhenadur; ac fel hyn, trwy gymorth ei rās, yr wyf yn meddwl marw. Llauer o ddoliaid cyffelyb a ddymunwn i fy Nhywysog; ond ni ddymunwn y cyfryw wob'r i neb o honynt.

Fy unig gais, a hynny yn y modd difrifolaf y gallaf ei roddi, gan y gwyr anrhydeddus ac urddasol i ddwyllaw pa rai y daw fy nhystiolaeth olaf hon, ydyw, ar i'w Mawrhydi gael ei gwneyd yn hysbys o hyn cyn fy marwolaeth, os felly y bydd, neu o leiaf ar ol fy ymadawiad.

Wedi ei arwyddo gyda'r galon a'r llaw honno na ddyfeisiodd ac nad ysgrifennodd ddim erioed er rhoddi anghlod neu waradwydd i fy Mhenadur, y Frenhines Elisabeth; yr wyf yn tystio hyn yn fy marwolaeth, gan fy mod yn gobeithio y caf fywyd ar ol hwn.

Gennyf fi,

JOHN PENRY.

Dyma eiriau olaf Penry, am ddim a wyddom. Gallaf sicrhau fod edrych dros y papurau hyn o'i eiddo, yn yr Amgueddfa Brydeinig, wedi eu hysgrifennu ganddo â'i law ei hun dri chan' mlynedd yn ol, yn cynrchu teimladau rhyfedd ynof. Ceir oddiwrth nodiadau gwreiddiol, sydd yn Swyddfa Papurau y Llywodraeth, nad oedd yr argraff a wnaeth ei wrth-dystiad ar feddwl ei farnwyr yn hynod o ffafriol. "Nid yw Penry," medd cynghorwyr cyfreithiol y Goron, "yn ddeiliad teyrngarol, fel y mae yn cymeryd arno, ond terfysgwr bradwrus i lywodraeth heddychol ei Mawrhydi, fel yr ymddengys mewn amryw ffyrdd." Ymysg ereill:—"Trwy ei waith yn ymneilldus, yn sismaticaidd oddiwrth gymdeithas Eglwys Loegr, ac yn ymuno gyda chynnulliadau sismaticaidd Barrow a Greenwood." Ac hefyd,—“Trwy ei waith yn cyfiawnhau Barrow a Greenwood, y rhai, wrth ddiodeff yn haeddiannol am eu hysgrifeniadau a'u pregethau, a osodir allan ganddo ef, er hynny, fel merthyron sanctaidd.”

Ar y 25ain o Fai, cyhoeddwyd dedfryd marwolaeth arno; ond oedwyd ei chario allan am rai dyddiau, fel y tybiodd rhai y gallai fod ei fywyd i gael ei arbed; ond nid felly yr oedd. Nid oedd, fel yr ymddengys, ond dyfais i gadw y bobl rhag gwybod pa bryd y cerrid y ddedfryd allan, gan yr ofnid terfysg oddiwrthynt.

Ar y 29ain o Fai, daeth yr Archesgob, gyda Syr John Pickering, yr Arglwydd Geidwad, a Syr John Popham, yr Arglwydd Brif Farnwr, i ystafell y Cyngor i arwyddo y warrant. Ac er gwarth arhosol iddo, Whitgift oedd y cyntaf i'w harwyddo, ac wedi hynny Pickering a Popham. Anfonwyd hi yn union i'r Sirydd, yr hwn a frysiodd yr un diwrnod i godi y crogbren wrth St. Thomas-a-Watering, lle yn swydd Surrey, wrth yr ail garreg filltir ar ffordd Kent, yn ymyl nant a gysegrwyd i St. Thomas a Becket. Pan oedd Penry yn bwyta ei ginio, daeth swyddogion y Sirydd i'w orchymyn i ymbaratoi, gan fod yn rhaid iddo farw y prydawn hwnnw am bedwar o'r gloch. Yr oedd yr awr honno o'r dydd yn un anarferol, ac am hynny yn annisgwylidwy. Am bump o'r gloch, arweiniwyd ef o'r carchar yn High-Street, Borough, i'r dienyddle. Nid oedd yno ond ychydig bobl wedi ymgasglu wrth ganfod y dynion yn codi y crogbren. Dymunai Penry gael rhyddid i siarad, ond gwaharddodd y Sirydd hynny iddo. Ni chaniatawyd iddo

llwyddi gan wneid y bodd na dangos ei deyrngarwch tuaz at ei Ffraincwr na'i Ffrwydwr Niu. Ffa hys cymerwyd ei fywyd oddiarno, pan nac roddi i'w hyswylu ond yr un moid a'i Waredwr; ac nid roddi i'w hyswylu ei gorch ef; ond cyfyd Duw ef i fyny i'w hyswylu ei gorch ef.

Yn 1647 Thomas Phillips fod ei brawf yn warth ar enw cyfiawn-der Nesing at ei modd y gwelid Halam, ac ereill o'i flaen. Nis gwelid at ei gorch ym 1647 ac ym 1648 a fynnant egsusodi, os nad ydychydai y gwelid at ym 1648 y cathari a'r merthyru fu ar y Puritan-iaid yr adeg yna. Ar y 1648 gwelid cyfreithloni creulonderau y gwelid ym 1648. Cyfododd Duw, o diriondeb ei drugaredd, i'w hyswylu ei gorch ef a'i gwelid fel yr oedd Penry wedi hyswylu ei gorch ef fod y gwelid ers llawer canrif dan gorchod Duw ac eiddoedd ar y meiriant mawr fu ar y cnydan yn y gwelid ym 1648 ac eiddoedd a'i gwelid hynny trwy i'r catel agos i'w hyswylu ei gorch ef fel barn Duw o herwydd pechodau y gwelid i'w hyswylu ei gorch ef yr anser yn noshau i Dduw drugar-iaid ym 1648 ac eiddoedd. Cyfododd Duw yn rhydd y gwasanaeth mawr a'wneid y gwelid ym 1648 o wyl Eglwysig; ond yn sier i'r Tadaid Ymreiddol ac Tadaid Methodistiaid, yr ymddiriedodd yr Adeg ym 1648 y gwelid o eifengleiddio Cymru. Ac er symud y gwelid ym 1648 i'w hyswylu ei gorch ef ym 1648, ac yn llywyddo. "Ereill a'i gwelid a'i gwelid a'i gwelid i'w hyswylu ei gorch ef."

Ym 1648 fod y gwelid ym 1648 yn ameu a fedrai Penry Gynraeg y gwelid ym 1648. "Nid ysgrifennodd, er holl ddiwyd-ryddi ei gwelid ym 1648 ym 1648; ac nid ymddengys fod y gwelid ym 1648 i'w hyswylu ei gorch ef i'w hyswylu ei gorch ef. Wel, y gwelid ym 1648 y gwelid ym 1648 i'w hyswylu ei gorch ef. Yn ei draethodyn gwelid ym 1648. "The Equity of an Humble Supplication," &c., wrth y gwelid ym 1648 y gwelid ym 1648 ac eifengleiddio ei gydwladyr, mae yn gwelid ym 1648 y gwelid ym 1648 yn Gymraeg, gyda'u hystyr wedi hyswylu y gwelid ym 1648. "Fyddid i mamme i ddu: the mothers' blessing to man." "Ni wneid gorchoddu am y tad y gwelid ym 1648 i'w hyswylu ei gorch ef. I care not for the father, that cruel man, but the score is a good fellow." Pan y byddai yr offeiriad yn darllen y gwelid ym 1648 o'r Hen Testament yn Saesneg—nid oedd wedi ei gwelid y gwelid ym 1648 yn Gymraeg, dywedent, "û mañ yr offaird ar y gwelid: the priest is at mass." "Beth a wodhon ni pûn eñ bod hyswylu ei gorch ef i'w hyswylu ei gorch ef?—What know we whether they say true or no?" Dyda ddiwyd i brod ei fod ef wedi ysgrifennu mwy nag un brod ym 1648. Tybed fod y gwelid da hyn wedi darllen ei draethodyn erioed! Pwy debydd a gyfeithodd y Proffwydi Bach oedd ganddo i'r Gymraeg, os nad efe ei hun! Ac ymha iaith, onid y Gymraeg, y gwelid ym 1648 yr Eifengyl "ar hyd mynyddoedd diffryth Cymru!"

Gofynnir pam na buasai yn aros yng Nghymru i geisio gwneyd rhyw wasanaeth i'w wlad, ac nid myned i fyw i Loegr? I hyn atebaf, ei fod yn ddiwyd i'w hyswylu ei gorch ef i'w hyswylu ei gorch ef a'r Llywodraeth ymgymeryd a'r gwelid mawr a phwysig o eifengleiddio Cymru; ond cafodd ei gar-charu am y traethodyn cyntaf a ysgrifennodd, a phasiwyd cyfraith yn

gwahardd iddo bregethu. Dyma oedd amcan pennaf ei fywyd, pe cawsai ryddid; a dyma oedd ei gais olaf yn y ddeiseb a fwriadai ei chyflwyno i'r Frenhines, pan y daeth yn ol o Scotland.

Ceisir gennym gredu mai ei enllib a'i gabledd ar yr awdurdodau a'i dygodd i'r crogbren. Ond y mae ei hanes a'i gymeriad erbyn hyn yn rhy hysbys i ni allu meddwl dim yn isel am dano. Pa hawl sydd gan neb i briodoli awduriaeth *Traethodau Martin Marprelate* iddo, pan y tystiai efe ei hun yn y modd mwyaf difrifol nad ysgrifennodd yr un o honynt? Ac ni allwyd profi hynny yn ei erbyn, fel yr addefa Maskell, yr hwn a wnaeth ymchwiliad manwl i'r mater hwn. Gwn ei fod yn defnyddio geiriau llymion am yr esgobion a'r offeiriad; ond nid am y rhai da. Ac onid oedd achos am y lleill, yn wyneb cyflwr isel Cymru? Credaf mai eiddigedd dros ogoniant Duw, ac awyddfryd am achub ei gydwladwyr oedd yn ei gymell i hyn. Drwg iawn gennyf weled neb o wŷr Eglwysig ein gwlad yn ymostwng, er mwyn ceisio amddiffyn yr Eglwys Sefydledig, i anurddo ei gymeriad glân, a gwaradwyddo ei goffadwriaeth, yr hwn sydd fendigedig.

Gofidus hefyd gennyf weled y culni enwadol sydd yn dyfod i'r golwg ymysg rhai o'r Ymneillduwyr. Ceisia rhai ddweyd mai Bedyddiwr oedd. Rhaid nad yw y rhai hyn wedi darllen ei draethodau, yn y rhai y mae yn ymosod yn lled lym arnynt fel *Anabaptists* a *Katubaptists*. Ac nid wyf yn gweled fod gan y rhai a ddywedant mai Annibynnwr, Cynnulleidfäolwr, a gweinidog Cynnulleidfäol ydoedd, ryw lawer gwell sail i hynny. Cawn mai â'r Presbyteriaid y bu ei gysylltiad yn bennaf, er nad oes arnom eisieu gwneyd allan mai un o honynt hwythau ydoedd, pe gadewid ef yn llonydd fel Puritan ac Ymneillduwr. Pan yr aeth gyntaf i'r Brifysgol yng Nghaergrawnt, trwy y Presbyteriaid—Cartwright a'i blaid—y dychwelwyd ef oddiwrth Babyddiaeth. John Udall, y Presbyteriad, oedd ei gyd-efrydydd a'i gyfaill mwyaf mynweol. Nid ydym yn ceisio celu trwy hyn nad oedd Barrow a Greenwood yn gyfeillion anwyl iddo. Wedi iddo symud i Rydychen, teimlai y Presbyteriaid y dyddordeb mwyaf ynddo. Pan roddwyd allan warrant i'w ddal fel teyrnfradwr, i ba le y fïodd am nodded, ond i Scotland? Cafodd dderbyniad croesawus yno gan y Presbyteriaid. Bu yn efrydydd duwinyddol yno, ac yn pregethu gyda hwynt. Tra yn aros yno, cyfieithiodd lyfr Beza a Fains i'r Saesneg, a threfn eglwysig Presbyteriaid, fel y gallesid disgwyl, a ddysgir yn hwnnw. Pwy ond y bonheddwr haelfrydig Job Throgmorton, y Presbyteriad, fu yn ei gynorthwyo ag arian amryw weithiau. Gwir iddo ar ei ddychweliad o Scotland, o herwydd fod ei gyfeillion Presbyteriaid wedi eu carcharu, ymuno â'r gynnulleidfa o Ymneillduwyr—*Separatists*,—ar yr hon yr oedd Francis Johnson yn fugal; ond nid Annibynnwr oedd Johnson, fel yr addefa Dr. John Waddington, ac nid trefn felly a roddwyd i'r eglwys a ffurfiwyd yno. Gomeddodd Penry gymeryd un swydd ynddi. Ac wedi hynny y newidiwyd ei ffurf eglwysig gan Henry Jacob. Nid wyf yn gweled fod Penry wedi newid dim o ran ei farn am drefn eglwysig rhagor pan ydoedd yn Scotland. Dywed yn ei "gyffes" ei fod yn *cashaw ail fedyddiaeth, Penrhyddiaeth Browniaeth, &c.*, yr enw a roddid ar yr Annibynnwr y pryd hynny. Ond ni ddywed ei fod yn ffeiddo Presbyteriaeth.

Y DYMCHWELIAD.

AETH y frwydr drosodd, ac y mae y Blaid Undebol Fawr wedi ennill ar hyd yr holl linell. Fel y gorfoleddai y *Standard*, mae y Radicaliaid "wedi eu taraw, glun a morddwyd, o Dan i Beerseba." Tra nad ydyw Aelodau Rhyddfrydol yr Etholiad ond 177, y Cenedlaetholwyr Gwyddelig ond 70, na'r Parneliaid—a thybied y gellid cyfrif ar y giwed ddibris honno—ond 12, ac felly yn gwneyd cyfanrif o 259,—y y mae y Ceidwadwyr yn 339, a'r Rhyddfrydwyr Undebol yn 72, ac felly yn gwneyd cyfanrif o 411. Wedi tynnu o hynny y cyfanrif arall, 259, y mae yn aros dan faner y gorchfygwyr y mwyafrif ardderchog o 152. Nid rhyfedd eu bod yn llanw y byd â'u gorïan a'u hymffrost, ac fod eu gwrthwynebwyr, fel y gellid meddwl, yn gorfod bod yn ddiolchgar am ryw gilfachau, pa mor ddinod bynnag, lle y gallont sangu eu hannheilwng draed. Fe fydd y wlad bellach, yn ol dwfn ddyhëadau y Duc o Devonshire ac Arglwydd Salisbury, yn cael "llonydd," ac nid "am ddeugain mlynedd," fel ar ol gwrhydri Othniel, ond am oes y byd. Ni chlywir mwy ddim o'r clebar am Home Rule, a Dadsefydliad i Gymru, a Dewisiad Lleol, a Mesur Tir, ynghyda'r lliaws o fympwyon chwidr ereill y bu y Rhyddfrydwyr dros gyhyd o amser a chyda'r fath grochlef fawr yn gwaeddi am danynt. Mae y diluw wedi dyfod a gorchuddio y cyfan, ac ni fydd yn aros bellach ond teyrnasiad y dyfroedd tawel, a bythol dangnefedd. Mae y mwyafrif llethol o 152 wedi setlo y cyfan, ac nid oes i'r holl deyrnas bellach ddim i feddwl am dano ond gorffwys a bod yn ddiolchgar. "Calm and peace," bellach, chwedl Mr. Balfour, sydd i lanw pob man.

Fel yna y gellid caglu oddiwrth ymfrost a gorfoledd y gorchfygwyr!

Ond rywffordd, y mae y ddaear yn troi wedi'r cyfan, ac nid ydym oll, eto, wedi darfod am danom. Yr oedd Bonaparte wedi gorchfygu Wellington lawer gwaith, meddai efe, *pe buasai yn deall hynny*. Ond nid oedd Wellington yn deall, ac yn y diwedd fe fu raid i'w wrthwynebydd ddeall fod yn rhaid iddo, yn garcharor gorchfygedig, farw mewn alltudiaeth. Mae y Blaid Ryddfrydol hefyd, yr hon yr ydym yn rhwymedig iddi am ein holl ragorfreintiau gwladwriaethol, yn llafurio dan ddylni na chaniatâ iddi, ar unrhyw adeg, ddeall ei bod wedi ei gorchfygu, ac nad ydyw mwyach i feddwl am gario ymlaen ryfel gysegredig rhyddid ac iawnder. Gosodai Americanaid doniol ganiad yng ngenau un o faeslywyddion y wlad honno, yr hwn, fel y tybid, oedd wedi ei lwyr orchfygu: ond yn y gân cyhoeddai yn galonnog mai dyna y pryd yr ydoedd yn dechreu ar ei fuddugoliaeth. A chyffelyb, hyd y gallwn ni ddeall, ydyw ysbryd Rhyddfrydiaeth y deyrnas hon yn awr. Mae wedi bod mewn sefyllfa gyffelyb i'r un bresennol lawer gwaith cyn hyn, ond bob tro y mae wedi cyfodi, ac mewn nerth a'i galluogai i ymladd ei brwydrau ac ennill buddugoliaethau ag y mae yr oesoedd yn llawenychu o'u plegid. "Yr ydym wedi cael profiad ar ddyddiau drwg," meddai Syr William Harcourt,

wrth hifieldiaid i beir bla Gwillewin Mynwy am ei ethol gyda'u mwyafrif gyfnewid o 3,000. "ac wedi eu gor-fyw, fel y darfu i ni or-fyw rhai arferwr yr hanes. Gall plaid cynnydd a diwygiad gael ei thafu yn a'u am amser, ond ni all gael ei gorchfygu. Yn y pen draw gorchfyga ei newyddwriaethon ni fel y maent bob amser wedi gorchfygu."

Er lawr gallant hanes yr oruchafiaeth a enillwyd y tro hwn, nid yw yn anghywil gwneid rhesymau da sydd yn dangos, er dan amgylchiadau hefyd amodol, o'r holl ydyw mewn un modd yn perthyn i ni anobeithio. Yn y mae yn ffaith i'r arwyddeddol nad ydyw mwyafrif y pleidleisiau yn yr eiddoedd hwy ond rhwy 100,000, er fod mwyafrif yr Aelodau Seneddol a ddyrchwelyd yn 1821; tra yr oedd mwyafrif y pleidleisiau yn 1892 yn 200,000, er nad roddi y mwyafrif a ddyrchwelyd i'r Senedd ond 40. Y mae hys. newt ystyriaethau ereill, yn llawn o addysg ag y gweddai i Rhyddfrydwyr y deyrnas ei gosod at eu calon; ond y mae yn dangos yn ffaith am yfod fod nerth ein Rhyddfrydiaeth y fath fel nad yw ond oher meibw am ei galfw i lawr. Mae Lloegr, y "predominant partner," ac am rhesymau nad yw yn anghawdd eu deall, wedi dyfod allan o'r ymrodd hon gyda'r Haelodau Ceidwadol yn bedwar am un o'r rhai Rhyddfrydol. Odi am y "Celtic fringes," fel y rhyngai bodd i Argywdd Saisoury a'u rhannau ereill y Deyrnas Gyfunol, er i fesur helaeth yn arodd i'r un gwrthweithiad, y maent wedi dal eu tir yn Lawer gwel. Y mae Aelodau Undebol Cymru yn awr yn 9 yn lle yn 3; ond eto y mae ei rhai Rhyddfrydol dros dri am un o'r lleill, er fod y rheiny yn cynnwys un sydd yn Rhyddfrydwr am bopeth ond Home Rule. Mae Gogwedd Cymru wedi cadw y Toriaid oll allan ond dan, tra y mae y De, gan gynnwys Mynwy, yn anffodus yn cael ei chyrvodiad yn awr gan saith o honynt. Gwelwn fod un o'n Haelodau Rhyddfrydol wedi ei ddyrchwelyd gyda thros *bum mil* o fwyafrit; dau gyda mwyafrif o dros *hau mil*; pump gyda mwyafrif o dros *hau mil*; a saith gyda mwyafrif o dros *mil*. Nid ydoedd mwyafrif yr holl Geidwadwyr a ddyrchwelyd yn etholiadau Cymru ond rhyw *hau mil*; ond yr oedd mwyafrif y pleidleisiau Rhyddfrydol yng Nghymru dros *hau mil*. A phan gofwn am y llawr mawr a demtwyd, y nall ffordd neu y Lall, i fotio y tro hwn gyda'r Toriaid, rhaid i ni gasglu fod nerth Rhyddfrydiaeth Cymru, fel yn wir eiddo y deyrnas oll, lawer yn fwy nag a all y Ffyrnau ei ddangos. Ac fel y mae ein hachos yn gryf yn Mosowgrwydd ein hetholwyr ac yn nyfnder a nerth eu hargynhoeddiadau, feily hefyd y mae yn falch gennym feddwl ei fod yn nerddol gryf yn nerth a difrifoldeb ein cynrychiolwyr. Mae'n wir fod rhai gwyr teiwng allan a ddyissent fod i mewn, ac a fyddant, ni a hyderwn, cyn bo hir; ond y mae i mewn nifer da o wfr cedyrn nerthol ag y gallwn yn ddiogel adael ein hachos yn eu llaw, gan deimio yn hyderus y gwnant berffaith gyfiawnder ag ef. Y mae llawer o honynt wedi bod am gryn amser yn lled ddistaw yn y Ty, am y credent mai feily y gallent roddi y cynhorthwy goreu i'r Llywodraeth oedd mewn gallu er ceisio cario allan yr amcanion rhagorol yr oedd wedi gosod ei bryd arnynt. Yn wir yr oedd eu gwrthwynebwyr, wrth frygawthen eu gwrthddadieuon a'u mân freiniadaethau ar y mesurau a ddygid ger bron, yn cyhuddio y Blaid Ryddfrydol o fradwriaeth distawrwydd—"the conspiracy of silence"! Ond bellach gallant

hwythau ddweyd, fel y dywedai Mr. Gladstone pan, wedi ei wrthod gan Rydychen, y safai o flaen etholwyr South West Lancashire, "I stand before you unmuzzled." Ac wedi datod eu safurwym, diameu y gwnant eu rhan mewn dadleu y buddion y cawsant eu dychwelyd er eu sicrhau, ac felly yn y pen draw ddwyn eu barn i fuddugoliaeth. Ni all fod eu gwasanaeth yn gwbl o'r un natur ag ydoedd o 1892 hyd yn awr : ond

They also serve who only stand and wait.

Ac nid rhyfedd fyddai gweled y gwasanaeth hwnnw, ac yn gynt nag y disgwyliem, yn profi o lawer mwy gwerth nag ar hyn o bryd y tueddidd neb o honom i ddisgwyl.

Ac nid ydyw yn anhawdd cyfrif am y gorchfygiad. O 1886 hyd 1892, tra yr oedd y Toriaid yn yr uchafiaeth, ac yn ol eu harfer, yn cyfyngu eu hunain gymaint ag a allent at yr amcan sydd mor gydnaws â'u natur o *wneyd dim*, yr oedd Rhyddfrydwyr y deyrnas yn cael eu dwyn i deimlo yn fwyfwy y dirfawr angen oedd am fesurau mawrion ag yr oedd yn amlwg fod y wlad yn uchel alw am daunynt, a than ddirfawr anghyfleustra o fethu eu cael. Wedi llawer o bwylllog gydymgyngoriad, fe gytunwyd ar y materion a osodwyd i lawr yn y *Newcastle Programme* fel pethau ag yr oedd yn rhaid eu cael; ac ymrwymai y blaid, pan ddeuai i allu, i geisio eu cario allan. Yn anffodus nid oedd y mwyafrif a roddwyd i Mr. Gladstone yn 1892 ond 40; er hynny, fe deimlid fod yn rhaid wynebu ar y gwaith mawr y cytunasid arno yn Newcastle. Fe fuasai y fath amcan yn dra anhawdd gyda mwyafrif o gant a hanner; ond gyda dim ond deugain o fwyafrif, a chyda'r gwrthwynebiad mwyaf penderfynol a childyn a brofwyd yn holl hanes sneddau, yr oedd yr anhawster yn fwyfyth. Er hynny, dygwyd i mewn fesurau o Lywodraeth Gartrefol i'r Iwerddon, o Ddadsefydliad a Dadwaddoliad i Gymru, o Ddewisiad Lleol yn llywodraethiad Masnach y Ddiol, &c., gyda gwroldeb a phenderfyniad mawr, a gwnaed pob ymdrech er eu cario trwodd. Yr oedd Mr. Bright ers llawer o flynyddoedd wedi dweyd fod yn amhosibl gyrru tair o Omnibuses gyda'u gilydd trwy Temple Bar; ond yr oedd cyfeillion pob un o'r achosion y cytunasid i'w gosod ar Brogram Newcastle, yn galw am eu cael ymlaen, ac fe ildiodd y Llywodraeth iddynt. Ar ol ymdrech ddigyffelyb, fe gaed Home Rule trwy Dy y Cyffredin, wedi ei ddadleu am dros bedwar ugain o ddyddiau; ond mewn ychydig oriau fe'i bwriwyd allan o Dy yr Arglwyddi. Ar hynny codai y teimlad yn gryf yn erbyn y Ty hwnnw, a phenderfynid ceisio pasio yr holl fesurau oedd mewn golwg trwy Dy y Cyffredin, a'u gyrru i'r Arglwyddi er rhoddi cyfleustra i'r bodau goruchel hynny i "lanw eu cwpan," yn ol y gair a ddefnyddiwyd flynyddoedd yn ol gan eu hanwyl gariadus frawd, Mr. Joseph Chamberlain; a phenderfynid hefyd, yn y pen draw, osod eu hachos hwythau yn glir a therfynol o flaen y wlad. Ond yn y cyfamser daeth Mr. Gladstone i deimlo, ar ol tymor o dros drigain mlynedd o wasanaeth cyhoeddus ag oedd yn ddigyffelyb mewn egni ac effeithiolrwydd, fod ei natur yn les-gáu, ac fod yn rhaid iddo roddi i fyny yr arweiniad fel Prif Weinidog, a hyd yn oed beidio gweithredu mwyach fel Aelod Seneddol. Yr oedd hynny yn anhawster

tra mawr i'r blaidd oedd am gymaint o amser wedi bod dan ei arweiniad, ac yn enwedig pan ydoedd y gorchwylion yr ymgymerasai â hwynt mor fawrion, a'r rhwystrau a fwridd yn ei ffordd mor anhawdd myned drostynt. Yr oedd lle Gweinidogion y Goron yn neillduol o galed; ond addefir eu bod, dan amgylchiadau oedd mor hynod o anhawdd, wedi gweithredu gyda doethineb a medr ydoedd yn deilwng o bob clod. Ac i wneyd eu hanhawster yn fwy fyth, yr oedd eu cyfeillion yn bwrw rhwystrau yn eu ffordd ar faterion dibwys, ac mor esgeulus o'r rhan-iadau yn y Ty fel ag yn fynych i beryglu eu bodolaeth. Yr oedd y Parneliad, er fod y Llywodraeth wedi aberthu popeth er mwyn yr Iwerddon, yn myned trwy ystranciau dirmygedig iawn, a hynny er molestu eu cyfeillion goreu. Ac wedi dwyn i mewn y mesur ardderchog er Dadsefydlu a Dadwaddoli yr Eglwys yng Nghymru, yr oedd rhai o'n cydwladwyr ninnau yn dra dibris mewn gosod rhwystrau yn eu ffordd. Am y syniad yr oedd Mr. D. A. Thomas wedi gymeryd i'w ben, y dylai y degwm gael ei rannu yn ol y boblogaeth, ac felly roddi hanner degwm Cymru oll i Siroedd Morgannwg a Mynyw, y rhai yr oedd chwanaegiad dirfawr eu cyfoeth mewn ffyrdd ereill yn llawer mwy na chynnydd eu poblogaeth, — yr ydoedd mor ddireswm fel nad oedd ganddo neb a safai gydag ef i alw am danò; eto ni fynnai golli yr un cyfle i'w ddwyn ger bron y Ty, gan rygnu ei ddadleu mewn ffordd a barai i bawb alaru arno. Yr oedd ein cyfaill dewr Mr. Lloyd George hefyd yn tybied ei fod wedi canfod rhyw erchyll fradwriaeth yng nghynnyg Mr. Asquith gyda golwg ar ymddiried eiddo yr Eglwys i Dri Dirprwywr, y rhai oeddent yn unig i weled ei fod ymhob achos yn cael ei defnyddio yn ol darpariadau yr Act; a thysbai ei fod yn rhwym o'i wrthwynebu hyd anghyfeir, a mynnu yn ei le Gyngor Cenedlaethol Cymreig, wedi ei ethol gan yr holl Gynghorau Sirol, yr hwn y disgwyliodd iddo, mewn amser, ddadblygu i fod yn Llywodraeth Gartrefol i Gymru. Ni allem ni weled fod dim gallu yn cael ei ymddiried i'r Tri ond o nodwedd weinyddiadol, a'i derfynau wedi eu nodi yn y fath ffordd fel na allent wneyd dim, mewn na barn na rhagfarn, a fyddai mewn un modd yn fradychiad ar yr ymddiried a osodais yn eu llaw. Ni allem weled chwaith sut y gallasai Cyngor Cenedlaethol ddelio â'r llfaws o gwestiynau a gyfodent oddieithr trwy ymddiried y gwaith i ryw nifer bychan, yr hyn, yn y pen draw, a fyddai yn debyg i'r hyn a gynhygid gan Mr. Asquith, ond heb ei fantais o fod yn rhydd oddiwrth dueddiadau a ellid olygu fel yn gogwyddo at bleidgarwch. Yr oedd yn dda gan y Toriaid bleidio cyr. yng Mr. Lloyd George, nid am eu bod mewn un modd yn credu ynddo, ond am eu bod trwy hynny yn cael rhyw gyfle i wrthwynebu y Llywodraeth, — Llywodraeth ydoedd wedi anturio ei bywyd yn yr ymdrech i gyfarfod â dymuniad mawr pobl Cymru. Pe buasai rhywbeth yng nghynnyg Mr. George, fe allesid cael cyfle arall llawer gwell i'w ddwyn ymlaen. Ni ddisgwyliodd ar y pryd ond pasio y Mesur trwy Dy y Cyffredin, a gwyddid na fyddai iddo, fel bron bob mesurau da ereill, ond cael ei wrthod gan yr Arglwyddi. Ond buasai ei basio *felly* yn llawer o help tuag at ymladd ei frwydr yn y dyfodol, ac ni fuasai yn anhawdd i unrhyw ddyn weled — yn amgylchiadau y Llywodraeth ar y pryd — mai canlyniad anocheladwy y fath ymdrech i gario fel gwelliant beth nad ydoedd ar y goreu ond

hynod o amheus, fyddai gwanhau ei nerth i gario ei rhyfel ymlaen, ac felly brysuro y diwedd. Er mor gwbl ddireswm yngolwg y Cymry ydyw parhau fel Eglwys y Genedl, sect nad ydyw yn cynnwys ond un adran, a honno mewn lliaws o'n hardaloedd y leiaf o'r holl boblogaeth, rhaid i ni gofio nad oedd gan liaws mawr o'r Aelodau Rhyddfrydol Seisnig ond ildio i osod Dadgysylltiad ar faner eu Rhyddfrydiaeth am eu bod yn deall fod y Cymry bron fel un gŵr yn galw am dano. Ond wrth weled dau Aelod Cymreig yn ymladd gyda'r fath gildynrwydd direswm dros bethau ynglŷn â'r Mesur a ddygasid ymlaen yn eu ffair, na allent hwy lai nag edrych arnynt fel mympwyon, nid oedd ryfedd eu bod yn colli pob ysbryd i feddwl sefyll o'n plaid, yn hiraethu am heddwch ar unrhyw delerau, ac yn dyfod yn gwbl ddiotal am fod yn bresennol yn y rhaniadau. Am y tric a chwareuwyd ynglŷn â'r *cartridges*, fe wŷr pawb fod hwnuw yn dra dirmygedig. Fe ddanghosodd Syr H. Campbell Bannerman yn eglur fod y cyflenwad o *corâite* oedd mewn ystôr yn ddigon at wasanaeth y fyddin hyd yn oed pe buasai gelynyion wedi glanio yn y wlad, ac y buasai yn hawdd ychwanegu faint a fynnid at y cyflenwad mewn ychydig iawn o amser, heblaw nad oedd y profiad a gawsid eto ar y newyddbeth hwn mewn un modd yn sicrwydd y cadwai yn hir. Ond trwy y cynllwyn a ddarparaisid, fe roddodd y gwelliant i'r Gwrthwynebiad eu mwyafrif o *sauth*, ac ni fynnai y Llywodraeth geisio cario ei gwaith ymlaen yn hwy, wedi y sarhâd a daflesid mor ddi-achos ar un o'i Gweinidogion mwyaf teilwng. Ac yn ychwanegol at y gwrthwynebiad parhaus a ddanghosid gan ei gelynyion, mae yn hawdd meddwl y rhaid ei fod iddi yn gryn ymward i'w chael ei hun yn rhydd oddiwrth y cythrudd annioddefol a osodid yn feunyddiol yn ei ffordd, a hynny gan rai a gymerent eu lle fel ei chyfeillion, ac er mwyn pa rai yr ydoedd wedi aberthu pob peth. Ac yna, y diwedd! Chwedl Campbell Bannerman,—ac yn hyn nid oedd ond yn dweyd yr un peth ag a ddywedasai ein cydwladwr teilwng, Mr. Bryn Roberts, A.S., lawer o amser o'i flaen,—fe ddarfu i'r Llywodraeth ddwyn ymlaen ormod o fesurau o bwysigrwydd mawr, ac fe wnaeth ormod o ymdrech i'w cario allan i gyd ar unwaith.

Ac wrth fyned allan i'r wlad, nid oedd ond naturiol i'w Gwrthwynebwr wneyd a allent o'r cyfan trwy ddangos y buasai yr amcanion yr oeddid wedi ceisio eu cario yn andwyol i bawb. Yr oeddent, fel yr haerid, wedi ceisio ysgaru y Ymerodraeth, ac nid yn unig roddi gallu i'r Gwyddelod i'w llywodraethu eu hunain fel y mynnent, ond hefyd i deyrnasu ar yr holl wlad, ac felly i gael eu llawn ewyllys ar y rhai y coledant tuag atynt oesol ac anniffoddadwy gasineb. Yr oeddent wedi ceisio ysbeilio Duw trwy ddadsefydlu a dadwaddoli yr Eglwys yng Nghymru, ac nid oedd hynny ond dechreu ar waith cyffelyb am y deyrnas oll, yr hyn, heblaw bod yn dra thebyg o ddwyn ar bawb o honom farn o'r Nef, nad allai lai na thafu miloedd ar filoedd o'r gweinidogion duwiolaf i ddyfnder angen, amddifadu y tlodion o bob addysg a chysur crefyddol, a thafu yr holl deyrnas i gaddug paganiaeth. Yr oeddent wedi tafu y rhwystrau mwyaf ar ffordd cynhaliad yr Ysgolion Gwirfoddol, lle, meddid, y rhoddid i blant, ac yn rhad, yr unig addysg a allasai fod o ddim gwerth iddynt. Yr oeddent wedi ceisio dinystrio bywoliaeth y rhai sydd yn dilyn un o'r galweddig-

aethau pwysicaf yn yr holl deyrnas, ac heb gynnyg estyn iddynt gymaint â cheiniog o ad-daliad am yr eiddo mawr a ddygid felly oddiarnynt; a hynny hefyd ar draul ysbeilio y bobl o'r ddiod werthfawr sydd mor anhepgorol iddynt er iechyd a chysur,—diod nad oedd yn hawdd gweled pa fodd yr oedd yn bosibl iddynt fyw hebddi. Yr oeddent wedi ymyrraeth yn anghyfiawn ac ysbeilgar âg eiddo y cyfoethogion, ac felly wneyd yn amhosibl iddynt wario yr arian a arferent wario er cynhaliath a chysur yr holl filoedd a ymddibynnent arnynt; ac nid yn unig hynny, ond hefyd wedi eu gorfodi i wasgu yn fwy ar y ffarmwyr, y rhai oeddent eisoes, o herwydd cydymgais tramor a gostyngiad prisiau, yn y caledi mwyaf. Ac yr oeddent hefyd ymhob ffordd wedi rhoddi y fath gefnogaeth i'r naill ddosbarth ddadllefau ei hawliau yn erbyn dosbarth arall, fel yr oedd pobl a allent anturio mewn gwaith a masnach yn gweled mai eu hunig ddiogelwch oedd bod yn llonydd, yr hyn oedd wedi arwain i'r dirfawr iselder y cwynid o'i herwydd yn ein masnach, wedi peri fod y fath filoedd o'n cyd-ddeiliaid heb ddim i'w wneyd, a chynifer mewn canlyniad wedi eu darostwng i'r fath ddwfn dlodi. Nid oedd y Rhyddfrydwr, meddid, er eu holl broffes a'u hymffrost, wedi gwneyd daioni i neb, ac yr oeddent wedi gwneyd niwed i bawb! Dyma y pethau a bregethid ar bennau y tai, a'r unig ymwarded rhag yr holl drueni oedd fotio dros ymgeiswyr Toriaidd ac Undebol.

Er sicrhau hynny, yr oedd y bobl ragorol hynny wedi cael cyflawnder o hamdden i wneyd y trefniadau goreu yn yr ardaloedd, ac wedi gwneyd popeth a ellid trwy ganfasio, &c., &c., er cael o'u plaid bob fôt ag oedd yn ddichonadwy. Ac nid oedd brinder am arian. Yr oedd pwrw mawr y Duc o Westminster, gyda'i £25,000, er dychwelyd Aelodau a fyddent ffafriol i'r Eglwys o bob etholaeth yng Nghymru, yn cael ei ysgwyd gyda rhwysg o'n blaen, ac yn dangos mor ddiiddym oeddym oll i feddwl gwrthsefyll gallu mor aruthrol. Ac yr oedd Masnach y Ddiod, gyda'i baner fawr, "Our trade is our politics"—Ni faliwn ond am ein Masnach,—yn dal pwrw oedd yn drymach fyth. Yr oedd cronfa eu *National Trade Defence*, er sicrhau Senedd a'i cymerai fel ei gofal pennaf i fynnu chware teg i Fasnach y Ddiod, deued a ddelai o'r miliynau a andwyd ac a ddemnid trwyddi, yn £100,000. Yr oedd ei diod yn rhedeg yn afonydd, a gosodai ar waith "bob dichell anghyfiawnder" er dirywio a darostwng y bobl i roddi eu llais o blaid ei harglwyddiaeth hi.* Rhaid i Syr G. Osborne Morgan gael hamdden i

* I weled yohydig o'r pethau gwarthus yr ymostyngwyd iddynt, cymerer a ganlyn o'r seithfed o'r erthyglau a gyhoeddodd y *Westminster Gazette* ar hyn:—

Y mae amryw ohebwy yn anfon atom am bethau, y rhai, o'r nad yn ddrwg yn ystyr gyfreithiol y gair, ydynt yn sicr yn feius. Fe ddwedir o lawer o etholaethau fod cwrw wedi rhedeg yn ystad yr etholiadau am geiniog y chwart. Ond y mae rhywbeth sydd yn llawer gwaeth na chwrrw rhad neu "ddrachtiau hirion," yn bennaf ar adeg etholiad. Yn wir, y mae gwerth y rhain i'r baed Dorfaidd, fel y sylwodd ymgeisydd Toriaidd wrthym y dydd o'r blaen, weithiau yn cael ei ddangos yn fwy nag yw. "Yn fy etholaeth i" meddai, "fe gadd y peth ei or-wneyd yn gethin; fe wnaed amryw ddyinion mor feddwon fel yr oedd yn amhosibl eu cael i fotio drosol wedi'r cwbl!" Ond yr hyn sy'n ddiu yn dweyd adeg etholiad ydyw cwrw hir o roddi dirgelaid ymlaen llaw. Cwyna amryw ymgeiswyr am "gyngherddau ysmocio mewn tafaru yn cael eu rhoddi gau Dorfaid;" tra y gellw ereill eiu sylw at gyngheiriau lleol o Gymdeithasau Ceidwadol. "Y maent yn gynwysedig o glybiau a gyferfydd bob pythafnos mewn tafarnau. Mae y cyfarfodydd hyn yn gyffredin yn ddirgelaid, gyda thrwydderiau. Weithiau y mae cyfarfod cyhoeddus, lle y gwahoddir rhai oddiallan ac yr areithir.

ofyn ei gwestiwn mawr am gyfreithlondeb y fath drefniadau. Na sonier am y *Tammany Hall*, y gwelodd ein cefndryd yn New York fod yn rhaid cael ymwared o'i gorthrwm, os ydyw pobl, fel yma, ac yn unig am fod ganddynt byrsau mawrion, i wneyd yn ddim y gallu ag y mae cyfansoddiad y deyrnas yn roddi i'r bobl i lywodraethu eu hachosion. Mae y drychfeddwl o Etholiad yn golygu, fel ei hanfod a'i fywyd, fod y bobl yn cael rhoddi eu llais eu hunain ar y mater a fo o'u blaen, heb fod neb, o herwydd ei allu neu bwysau ei bwrs, yn cael eu prynu na'u gorfodi. Yr ydym wedi clywed gan y bobl hyn ddirfawr gondemnio ar yr arian a ddeuai oddiwrth Wyddelod America i gynorthwyo eu brodyr yn yr hen wlad i ymladd eu rhyfel. Ni amcanid trwy yr arian hynny at wasgu na denu y Gwyddelod i wneyd ewyllys pobl ereill; ond yn unig i'w helpio, ar gyfrif eu tlodi, i gyrraedd amcan ag yr oedd oesoedd o ddiodef wedi ei wneyd yn gysegredig gan y genedl oll. Ond am arian mawr yr Eglwys a'r Dafarn, nid ydym yn clywed yn eu swm ond ymfrost torsyth y cryf yn dweyd y myn ef ei ffordd am fod ganddo ddigon o arian, doed a ddel o bawb a phopeth arall. Ac yn y filwriaeth ryfedd yma, fe geid yr archesgobion, a'r eesgobion, a'r personiaid, gyda'r darllawyr a'r tafarnwyr, a llu mawr eu cwsmeriaid sychedig, a'r holl dalent a'r dylanwad ag yr oedd mor hawdd iddynt, gyda'u dirfawr gyfoeth, eu prynu, wedi cydymgynghreirio yn rhyfel yr etholiad yn erbyn pob iawnder a rhinwedd. Ac yn sicr nid ydym yn eiddigeddu wrthynt am y gorfoledd a'u lleinw wedi ennill y fath fuddngoliaeth!

Ond y mae rhai cwestiynau sydd o bwys a mawr ddyddordeb, yn codi oddiwrth y sefyllfa, ag y gweddai i ni oll eu gosod at ein calon, i e gelwir arnom i'w cadw yn barhaus o flaen meddwl ein cydwladwyr.

Ac yn gyntaf, A oes unrhyw obaith i ni byth allu codi o dan y dymchweliad ag y mae y mwyafrif anferth yma o 152 wedi ei osod yn gymaint pwysau arnom? Tybiwn y gallwn anturio ateb y cwestiwn yma yn gadarnhaol. Yn wir pe buasai ein sefyllfa lawer yn fwy anobeithiol, y mae i ni, yn iawnder ein hachos a nerth yr egwyddorion yr ymladdwn o'u plaid, rym a ddylai brofi i ni yn galondid anorchfygol. Os ydyw ein hachos yn un y gallwn gredu ynddo fel achos uniondeb, ac am hynny yn achos DUW, gallwn fod yn dawel yn ein hyder y rhaid iddo orchfygu. "Cadarn yw gwirionedd, a threchaf." Am y *majorities* yn yr etholiadau, y maent ymhell o fod yn bethau sicr; ac i fesur helaeth, y maent wrth ewyllys y mympwy neu yr egni a ddigwyddo fod ar y pryd yn oruchaf. Yn 1832, wedi pasio y Reform Bill, yr oedd y wlad yn gosod cymaint o werth ar wasanaeth y blaid Ryddfrydol oedd wedi estyn iddi y fath ragorfaint, fel yr oedd y Rhyddfrydwyr a ddechwelwyd i'r Senedd mewn mwyafrif o 279. Ymhen tsair blynedd, yn 1835, yr ydoedd wedi mynd i lawr i 108. Ni pharhaodd y Senedd honno ond dwy flynedd, ac yn yr etholiad nesaf, yn 1837, nid oedd y mwyafrif Rhyddfrydol ond 40. Yn 1841, trowyd hwnnw yn fwyafrif

Y maent yn gynulliedau cymdeithasol, lle y mae owrw a smocio i'w cael. Y mae seolodau mygedol, sydd yn tanyagrifio at y cyllid." Dywed un arall o'u gobebwyr: "Y mae darllawiaeth a'r tafarnau wedi gwario symiau anferth o arian er amddiffyn eu buddiannau eu hunain; ac fe ymddeugys y gellir gwneyd hyn, er gwaethaf y *Corrupt Practices Act*. oblegid nid gwario arian ar gymdeithasau politicaidd ydyw, ond er amddiffyn eu masuach."

Ceidwadol o 90, ac er amddiffyn Deddfau'r Yd, a'r Senedd honno a'u diddymodd. Yn 1868 caed mwyafrif Rhyddfrydol o 128. Ond yn 1874 daeth y Toriaid i mewn gyda mwyafrif. Yn 1880 yr oedd pleidwyr Mr. Gladstone yn fwy o 108 nag eiddo Arglwydd Beaconsfield, heblaw fod yr Home Rulers Gwyddelig yn 60. Nid oedd nerth Mr. Gladstone yn 1885 lawn gymaint, er bod y *Nationalists* Gwyddelig wedi codi nifer ei bleidwyr i 418, mwy o saith nag ydyw nerth Arglwydd Salisbury yn awr. Wedi gweled fod yr Iwerddon yn yr etholiad hwnnw mewn dull mor benderfynol yn galw am Lywodraeth Gartrefol, fe ddygodd Mr. Gladstone ymlaen ei fesur mawr o Home Rule, yn yr lwn y trefnai iddynt gael gallu i drin eu hachosion eu hunain yn eu gwlad eu hunain, ond fel o'r blaen yn gwbl ddarostyngedig i uchafiaeth y Senedd, ac heb ymyrryd mewn un modd ag undod yr Ymerodraeth. Yna fe godwyd y cri mawr a hollol ddirieswm fod hynny yn golygu Yagariad, a'r enw a fynnid roddi ar y rhai a'i pleidient oedd Ysgarwyr, *Separatists*, er na feddyliai neb o honynt am ddim o'r fath beth, ac yn wir fod yr hyn a gynhygid ganddynt yn llawer tebycach o sicrhau, yn yr ystyr uchaf, undod yr Ymerodraeth, nag a fyddai parhau y gorthrwm trwy ba un yr oedd ar hyd yr oesoedd wedi ceisio llywodraethu y Gwyddelod. Sut bynnag fe "gymerodd" y cri, ac yn 1886 dychwelwyd mwyafrif yn erbyn Mr. Gladstone o 116, a daeth y Toriaid a'r Rhyddfrydwyr Undebol i allu hyd 1892. Y flwyddyn honno aeth eu mwyafrif o 116 yn lleiafrif o 40. Ac wedi tair blynedd o lywodraeth Ryddfrydol na fu ei disgleiriach yn hanes y deyrnas, dyma y pendyl eto wedi cymeryd ei dafliaid, a'r Toriaid mewn gallu gyda mwyafrif o 152. Ond o gymeryd y pleidleisiau i'r cyfrif, nid ydyw y trychineb mor fawr ag y meddylid. Yr oedd mwyafrif pleidleisiau y Rhyddfrydwyr yn etholiad 1892 yn 16,104; a'r un yr ochr arall yn yr etholiad diweddar yn 84,446: ac nid ydyw hynny, wedi'r cyfan, ond trosglwyddiad $1\frac{1}{2}$ y cant o bleidleisiau o'r naill ochr i'r ochr arall. Mae cyfartaledd yr Aelodau Undebol i'r rhai Rhyddfrydol lawer yn fwy nag yw eiddo y pleidleisiau. Cyfanrif y bleidlais Undebol oedd 1,703,014, ac yr oedd yr Aelodau a dychwelwyd yn 268; ond yr oedd y bleidlais Ryddfrydol yn 1,618,568. dim ond llai o 84,446: ac eto nid oedd nifer yr Aelodau ond 160, yr hyn a adawai i'r Undebwyr fwyafrif ar gyfer yr 84,446 ychwanegol o bleidleisiau, o 105 o Aelodau. Am Gymru yr oedd y pleidleisiau Rhyddfrydol eleni yn 145,894, dim ond llai o 26 nag yn 1892; ond yr oedd y rhai Undebol yn 110,150, ac felly yn fwy o 23,267. Mae y Rhyddfrydwyr felly wedi dal eu tir yn llawer gwell nag y meddylid pan glywn yr ymfrost a wneir o'r "total rout and practical annihilation of the Liberal party at the polls." Ac er y dymchweliad a'r diddymiad i gyd, y mae hanes, ynghyda'r ffydd a goledant yn yr amcanion yr ymdrechant o'u plaid, yn peri iddynt deimlo fod y rhyfel eto ymhell o fod wedi myned heibio, ac fod addewid dyfodol teg yn galw arnynt i ymgryfhau.

Y mae hefyd yn fater teilwng o ystyriaeth, Ai methiant digymysg a fu y Llywodraeth ddiweddar? Fe gymerwyd dirfawr drafferth i gael gan y bobl gredu felly am dani. Dywedid ei bod wedi dyfod i allu gyda dirfawr rwysg ar lanw o addewidion teg, ond na wnaeth ddim ond creu pob math o anesmwythder, a thafu y deyrnas oll i dlodi a

helbul. Fe ddaliwyd i daeru felly gyda'r fath benderfyniad a thros gymaint o amser fel yr oedd llawer yn cymeryd yn ganiatâol y rhaid mai felly yr ydoedd, ac yn penderfynu treio yr ochr arall. Gwelsom rai Rhyddfrydwyr yn ymuno yn y cri, ac yn cyhoeddi Arglwyddi Roseberry yn fethiant fel Prif Weinidog. Ac eto fe ymdafodd y pendefig hwnnw, enaid a chalon, i'r ymdrech oedd o'i flaen, ac fe ymosododd gyda gwroldeb mwy nag a ddanghosodd neb arall, ar y gallu yn y Tŷ y perthynai iddo, sydd trwy yr oesoedd yn sefyll ar ffordd pob diwygiad a daioni. Os camgymerodd efe a'i Lywodraeth, mae'n ddiu iddynt wneyd hynny trwy amcanu at gario gormod o fesurau mawrion gyda'u gilydd, a hynny gyda gallu oedd yn llawer rhy wan; ond yr oeddent yn cael eu gyrru i hynny gan yr holl blaid Ryddfrydol,—pob adran o ba un a grochlefa'i am y mesur ag yr oedd hi wedi gosod ei bryd arno, ac na fynnai ei gomedd. Am a wnaed gan y Llywodraeth ddiweddar, yr oedd Mr. Chamberlain yn gorfod addef: "Nid wyf yn meddwl y gellwch yn ystod yr ugain mlynedd diweddarfael gael yr un Senedd ymha un y gwnaed mwy o waith, ac ystyried pwysigrwydd y mesurau a basiwyd. Y mae yn fater o ffaith." Ac am y pethau a wnaeth, pe ond yn unig ar y tir o gyfiawnder hanesyddol, y maent yn deilwng o gael eu cymeryd i'r cyfrif a'u hystyried. Fe basiodd trwy Dy y Cyffredin fesur er rhoddi cyfiawnder a heddwch i'r Iwerddon, yn lle gorthrwm a gorfodaeth y "llywodraeth gref" ag y myn y Toriaid ei chadw arni yn barhaus. Fe roddodd allu o lywodraeth gartrefol yn y Plwyfydd a'r Dosbarthiadau, fel ag oedd wedi ei osod yn y Siroedd, yr hyn a estynodd y rhagorfraint o hunanlywodraeth i fwy na hanner poblogaeth y deyrnas. Pasiodd trwy Dy y Cyffredin fesur gyda golwg ar Gyfrifoldeb Meistriaid i ddiogelu gweithwyr rhag pob peryglon ag y gellid eu hosgoi. Gwnaeth Toriaid y Ty Uchaf y mesur hwnnw yn gwbl ddiwerth trwy chwaneu ato y rhyddid i ddewis gweithredu yn ei ol neu beidio; ond fe wnaeth y Llywodraeth ei rhan yn yr achos yma er sicrhau diogelwch y gweithiwr. Pasiodd Act i reoleiddio Oriau Llafur rhai yn gweithio ar y Rheilffyrdd. Yn lle bod dynion yn gorfod dal ati hi am o 14 i 17 o oriau yn y dydd, a hynny er nychdod iddynt eu hunain a pherygl i bawb a fyddent yn teithio ar y rheilffyrdd, fe drefnwyd y rhaid cwtogi eu hamser, yr hyn sydd wedi profi yn ddirfawr ymwarded i fyrddiynau, ac wedi rhoddi gwaith i 10,000 yn ychwaneg o bobl ar y rheilffyrdd, ac felly esmwythau yn helaeth iawn gyfyngder yr *unemployed*, y bobl oedd heb ddim i'w wneyd. Pasiodd Act er darpar Addysgiaeth i Blant Deillion a Byddarion. Yr oedd y trueiniaid hynny yn cael eu gadael yn rhyfeddol o ddi-amddiffyn, ac mewn dygn drueni; ac nid oedd ein sefydliadau dyngarol ar gyfer rhai o'r fath yn gallu cyrraedd ond ychydig iawn o'r lliaws mawr oedd yn y fath sefyllfa; ond bellach dyma y Llywodraeth yn gofalu am y rhai hyn, fel am blant ereill, ac felly yn gwneyd eu heinioes, yn lle bod yn faich ac yn drueni, yn gysur a dedwyddwch. Pasiodd Act i Helaethu Gweithrediad ein Banciau Cynhilo, trwy alluogi pobl i roddi ychwaneg o arian yn y lleoedd cyfneus hyny nag a allent o'r blaen. Mae yr arian a osodir yn awr yn y Banciau hyn, ac yn bennaf gan y dosbarth gweithiol, yn ddeng miliwn o bunnau yn y flwyddyn; ac y mae y Llywodraeth felly yn cadw o gynhilion ein

ac yn unig oddiar y gostyngiad ymhris yr haidl, &c.; a thra y pcedent hwy o hynny £1,500,000, yr oedd y wlad yn cael £500,000. Am yr holl drefniadau hyn a wnaeth y Llywodraeth wrth basio y *Budget*, yr oedd y Duciaid a'r Arglwyddi, fel eu cariadus frodyr y Darllawyr, yn udo yn arswydus, ac yn bygwth pethau ofnadwy. Pe buasid yn codi trethoedd ar fara ac angenrheidiau bywyd, ni feddyliasai y bobl ardderchog hynny am gwyno o gwbl; ond am eu bod hwy yn gorfod talu ychydig, o'u gorddigionedd, er cyfarfod â threuliau y Wladwriaeth—treuliau ag oeddent gymaint yn drymach ar gyfrif eu hanferth eiddo hwynt,—yr oedd eu cwynion yn alaethus a bygythiol iawn. Ond pwy yn ei bwyll, a chan ystyried yr holl amgylchiadau, na theimlai ein bod oll dan ddirfawr rwymau i Syr William Harcourt am ei Gyllideb ardderchog? Yr un modd pasiwyd mesur er peri i Blwyfydd Cyfoethog Llundain dalu mwy o drath er cynorthwyo y rhai tlotach; eto i beri i Feistriaid hysbysu am Ddamweiniau a ddigwyddont yn eu gweithiau, er cael ymchwiliad i'w hachosion; eto er amddiffyn i Gyfran-ddalwyr mewn Cymdeithasau deiladu; eto i amddiffyn Rhai yn Gweithio mewn Chwarydd; trefnwyd hefyd er cael Ysgoldai yn fwy iachus, ac er gosod gweithwyr yn Arolygwyr cynorthwyol mewn *Factories*. Ychwanegwyd £30,000 y flwyddyn at gyflogau y rhai a weithient yng ngweithfaoedd a llongorsafoedd y Llywodraeth, a chyfyngwyd eu diwrnod o waith i wyth awr. Terfynodd Arglwydd Kosebery Sefyll Allan y Glowyr, a gosodwyd Gweithwyr ar Feinciau Ynadol yn y bwrdeisdrefi. Ac ni ddylem ni yng Nghymru, yn sicr, anghofio ddarfod i'r Llywodraeth ddiweddar, gan ystyried y cyfyngder y mae cynifer o amaethwyr ein gwlad wedi ei brofi, benodi Dirprwyaeth Dir am Gymru, yr hon a roddodd gyfleustra teg i bawb ag yr oedd ganddynt rywbeth i'w ddweyd, i ddweyd yr oll a ddymunent ar y mater pwysig hwn. Mae yn dda gennym ddeall fod llawer iawn o wirionedd ag y buasai yn drychineb iddo gael ei anghofio, wedi ei ddiogelu trwy y tystiolaethau a roddwyd o flaen y ddirprwyaeth hon; a diegwyliwn gyda mawr awydd am yr Adroddiad y deallir fod y Dirprwywyr yn awr yn ei baratoi, awgrymiadau yr hwn, mewn amser—ac yn sicr *wedi* i'r Weinyddiaeth sydd yn awr mewn gallu gyflawni ei rhedfa—fyddant yn bur debyg o gael eu corffori mewn deddfwriaeth a fydd o ddirfawr wasanaeth i'n gwlad. Ond er hyn oll, fe haerir nad oedd y Llywodraeth ddiweddar wedi gwneyd dim daioni i'r bobl! Dyfynna Gohebydd yn y *Westminster Gazette* o fywgraffiad Traill i Arglwydd Salisbury, yn yr hwn, mewn cyfeiriad at y dymchweliad fu ar ei Weinyddiaeth yn 1880, pan ddychwelwyd Mr. Gladstone i allu gyda mwyafrif cyffelyb i'r eiddo ef yn awr, y dywed: "Yr oedd i'r arddanghosiad anferth yma o anniolchgarwch cenedlaethol esboniad oedd yn erchyll o syml, ac nid oedd ond canlyniad naturiol ac anocheladwy fod tynged y wlad yn bwylllog wedi cael ei rhoddi i fyny i ddwylaw anwybodaeth a mympwy." Ysgrifennid felly ar wahân i gynnwrf etholiad, a chan wr ag oedd yn profesu arddangos barn a hybwyllodd haueydd. Ac os felly yn 1880, pan yr oedd yn gofyn chwydd-wydr i weled y cymwynasau a wnaisid i'r wlad gan Salisbury a Beaconsfield, fe ellid meddwl fod geiriau o'r fath yn weddus yn sicr am etholiad 1895, pan, mewn dim ond rhyw ddau senedd-dymor cyflawn, y carwyd, fel y crybwyll-

am ymlyd i hysbysu ac y mae yr holl deyras o'u pasio, yn gymaint ar ei rannill.

Ac os oes y mesur hwn wedi o gymaint gwerth, beth a ddywed-wr am y Mesur o'r ennill a ddygwyd ymlaen, ond y methwyd cael ham-dion i'w pasio. Is trwy Dy y Cysfodion? Y blaenaf o'r rhai hynny oesit y mesur mawr er Ddadsfyddia a Dadwaddoli Eglwys Loegr yng Nghymru. Am gynhawmian a thagwch y mesur hwn, ni all fod unrhyw ddiawl. Ar y 177, fe fodi yr un o ryladdodan Hanes fod pobl oleued-ig, yr urwedi y deudarebit ganrif ar bymtheg, yn ymladd mor eguiol drwy barhaa i'r Eglwys y Wladwrineth, ac ar drawl yr holl genedl, sect fach sydd wedi dan bechu ymaith bob cydymdeimlad ar ran y bobl, y rhai hysbysu—er eu cwm—sydd wedi darpar iddynt eu hunain, ac yn gwbl y mae am yw chaserau hi, gyflawnder o foddion crefyddol, ac mewn canlyniad wedi eu profi eu hunain y deiliaid ffyddlonaf a mwyafr rhinweddol sydd yn perthyn i goren Prydain. “Ydi,” meddai gwladwr meddygar o Ffa wrthym y dydd o'r blaen, “y mae yn warth fod pobl fel yna yr cael aron fel y maeu rhw, pan mae creill, ac am ddim, wedi gwneud y gwaith y mae rhw wedi bod yn derbyn cyflog mawr am gan-ribeodi am i egeu, iso fo.” A dyna yr arghyhoeddiad sydd am oesoedd wedi bod wrth wrabl calon y genedl Gymraeg, ac na fyddai waeth i'r Dae o Westminster a'r pendeffynon Seinnig sydd yn cydweithio ag ef. foddwi am gosi ffordd i deialysifacau y Wyddfa, na meddwi am gasio ei lechu. Ond heb son am deimlad Cymru ar y mater, gallwn gyfeirio at wladweinydd enwog, y Gwir Anrhyddoldd Joseph Chamberlain, Ye-grifenydd y Trefedigaethau yn y Llywodraeth bresennol. Yr oedd efe, ar ol deail sefyllfa pethau yng Nghymru, wedi rhoddi Dadgysylltiad i Gymru ar ei “unauthorised programme” yn 1885, a chan deimlo tân ei arghyhoeddiad yn Llosgi o fewn ei esgryn, fe rybuddiai pobl Cymru o faen etholiad 1892, fod pob Ymneillduwr a fotiaid dros y Rhyddfrydwyr yn fotio dros oediad amhenodol Dadsefydliad i Gymru,—efe a'r Undeb-wyr oedd y bobl i estyn iddynt y cyflawnder hwnnw! Dyna faich ei araeth ym mhalaes Arglwydd Raglaw Ceredigion, a chenadwri fawr yr epistol o'i eiddo a ddarllenwyd yng nghyfarfod yr Undebwyr dan lywydd-iaeth Syr Watcyn yn Rhiwabon. A phwy nad yw yn cofio ei araeth fawr yn Nimbych, yn 1886, pan oedd Cymru oll yn barod i orfoleddu ynddo fel ei harwr? “Nid oes gennyf,” meddai, “ddim malais yn erbyn Ty yr Arglwyddi, ond fel Ymneillduwr y mae gennyf gyfrif i'w setlo a hwynt, ac yr wyf yn addaw i chwi nad anghofiaf y cyfrif. Yr wyf yn gyfrannog o'ch gobeithion a'ch dyheadau, ac yr wyf yn ddi-gllawn wrth y sarhad, y niweidiau, a'r anghyflawnder oddiwrth ba rai y dioddefasoch gyhyd oddiar law cynhulliad breintiedig. Ond y mae y cwpan bron yn llawn. Y mae gyrfa camwri mawr ei rwyg, yn dyfod i ben. Yr ydym wedi bod yn rhy hir yn genedl a farhogid gan Arglwyddi.” Ac yn ei lythyr at Mr. John Morgan, o Aberystwyth, y fwyddyn hon, dywedai: “Mae'n rhaid i Ddadsfydliad yng Nghymru ddyfod, a'r unig gwestiwn ydyw pa un a fydd gydag ymwneyd teg a'r Eglwys o ran ei chyllid. Fe ellid sicrhau hyn yn awr; a phe byddai Eglwyswyr yn ddoeth, hwy a bwysent ar i'w harweinwyr ymroddi at y wedd yma ar y mater.” Fe w'r pawb fod yr achos yr un heddyw, os nad yn waeth, am ei fod o ddydd i ddydd yn dyfod yn fwy anniodd-

efol; ac a all fod yn bosibl i'r gŵr mawr anghofio ei holl eiriau cryfion? Sut bynnag, fe wnaeth y Llywodraeth ddiweddar gais teg at estyn i Gymru y mesur yma o gyfiawnder ag y mae, ers cenedlaethau, yn ddwfn ddyheu am dano. A'r un modd, fe ddygodd i mewn fesur mawr er estyn diogelwch i'r bobl, neu yn hytrach er rhoddi gallu iddynt os dewisant, i'w diogelu eu hunain rhag anrhaith y Fasnach mewn Diodydd Meddwol. Nid oes arnom awydd defnyddio geiriau mawrion i ddangos yr angen sydd am ymwared o'r fath rhag y drwg hwn. Pa mor gymhedrol bynnag y geiriau a ddefnyddia y rhai sydd ar hyd eu hoes yn ceisio "gwarded y rhai a lusgir i angeu" ganddo, fe gondemnir eu "penboethni." Ond y mae i ni yn fawr foddhad gweled dynion galluog a diwylliedig, na feddyliai neb am dybied eu bod yn perthyn i fyddin y titotaliaid, yn traethu eu llên, wedi iddynt ddim ond talu *ychydig* sylw i'r mater pwysig yma. Mae geiriau Gladstone a Randolph Churchill yn adnabyddus i bawb. Felly hefyd yr eiddo ein barnwyr, sydd o hyd yn gweled yn yr achosion ddaw o'u blaen yr hafog y mae ymyfed yn beri. Cyfeiria i Dr. Norman Kerr y dydd o'r blaen at yr ymchwiliad a wnelasai flynyddoedd yn ol i'r diben o roddi bythol daw ar yr hyn a olygai fel clebar y dirwestwyr, pan ddywedent fod 60,000 o bobl yn marw yn y deyrnas yma bob blwyddyn trwy yfed y diodydd meddwol. Dywedai: "Ychydig flynyddoedd yn ol mi drefnais ymchwiliad er dynoethi geudeb y gosodiad fod trigain mil o feddwon yn marw bob blwyddyn yn y Deyrnas Gyfunol. Nid oeddwn wedi dilyn yr ymchwiliad yn hir cyn ei fod wedi ei wneyd yn amlwg i mi, nad oedd ond ychydig iawn o ormodiaith yn y dywedriad, ac yn y *Social Science Congress*, fe'm gorfodwyd i gyd-nabod bod o leiaf *chwech ugain mil* bob blwyddyn yn colli eu bywydau trwy yfed diodydd alcoholaidd." Ond, yn neillduol, y Gwir Anrhydeddus Joseph Chamberlain sydd wedi llefaru yn groew ar y mater yma, ac y mae ei eiriau, yn sicr, yn eiriau gwirionedd a sobrwydd. Ar un adeg dywedai fod yr anrhaith a wneid gan anghymedroldeb y fath fel "pe tawai efe, y llefai y cerrig." "Mae y wlad a farchogir gan offeiriad," meddai, "i dosturio wrthi; ond y mae y genedl a farchogir gan dafarnwyr i'w dirmygu." Yr oedd y fasnach "yn fell-dith y wlad, yn warth y gwareiddiad yr ymfrostiwn ynddo, ac yn anobaith ein diwygywr cymdeithasol." Os oedd yn anobeithiol cael y Toriaid yn ddigon gwladgarol i estyn ymwared rhag y drwg hwn, daliai "ei fod o leiaf yn debyg y byddai i'r Rhyddfrydwyr deimlo yn ddigllawn wrth yr elyniaeth hunanol a ddanghosid gan y fasnach, ac wedi blino ar y darostyngiad a deimlid mewn ymgeision ofer am gymod, y cyhoeddai ryfel at y gyllell yn erbyn yr ormes chwyddedig hon," *this swollen tyranny!* O flaen pwyllgor yr Arglwyddi ar Anghymedroldeb dywedai: "Pe, i ryw amcan, y byddai yn angenrheidiol yforu, mi allwn ymgymeryd â chael ystadegau Birmingham yn ddeg gwaeth nag dynt. Dim ond un tro ar y sgrw a ddygai i mewn ddeng waith y nifer." Drachefn: "Mewn tair awr ar nos Sadwrn, fe welwyd 14,165 o bobl yn dyfod allan o 35 o leoedd y gwerthid diod, ac o'r nifer yna yr oedd 838 yn feddw. A chymeryd yr un cyfartaledd am dafarnau ereill y dref, fe fyddai cyfanrif meddwon Birmingham y noswaith honno yn 40,000, tra nad oedd cyfrifon

yr heddgaidwaid yn rhoddi ond 29.”—29 allan o 40,000! A chyd gollwg ar fod yn foddllawn ar bethau fel yr oeddent, dyma a ddywedai: “Tra y mae yn fwy nag amheus a ydyw yr ataliedd a osodwyd ar dafarnwyr wedi dyrchafu eu masnach mewn parch-usrwydd, neu wedi tueddu yn y radd leiaf i atal y defnydd anghy- hedrol o ddiodydd meddwol, y mae yn sicr nad yw y cosban a roddir am feddwod ond dirym yn wneb y demtasiwa i ormododdd a oedir yn y fath helaethrwydd o flaen y bobl.” Drachefn: “Yr wyf bob amser yn rhoddi y pwys ar gwerth mwyaf ar wasanaeth y dynion galluog ac ymroddgar ydynt wedi eu rhoddi eu hunain i achos Dirwest.” Ac wrth y “Chwe Chant” ym Birmingham, dywedai: “Y mae egwyddor y *Permissive Bill* bob amser wedi ymddangos i mi yn un dda; a gallaf ddweyd yn awr, er na ddarfus i fy ethel- wyr ofyn i mi am unrhyw ymrwymiad adeg fy etholiad, a'm bod yn berffaith rydd i wneyd fel y mynnwyf, mai fy mawriad ydyw fotio dros ail ddarlleniad y *Permissive Bill*; ac mi wnaif felly am fy mod yn cwbl gymeradwyo yr egwyddor o Ddewisiad Lleol a gynhwys.” Ac yn 1885 dywedodd ei fod wedi fotio gyda Syr Wilfrid Lawson ar y *Permissive Bill*, ac ar bob mesur o ddoddfwriaeth Ddirwestol. A thair neu bedair o weithiau fe fotiodd dros Ddewisiad Lleol, ac yr ydoedd yn aelod o Weinyddiaeth ag oedd wedi ymrwymo dros ei phen i gefnogi mesur a roddai allu i'r bobl, os dewisent, i wneyd ymaith yn llwyr a bodolaeth Masnach y Ddiod yn os hardaloedd. Mae'n wir ei fod ef yn cymeryd golwg wahanol ar bethau yn awr: a chwedl yr ymaliwr Americanaidd,—

A merciful providence has made men bolder
O' purpose that they may their principles swallow.

Mae rhegluniath druganog wedi gwneyd dynion
Yn wag, o bwrpas i lyncu 'n hogwyddoriau.

Oed y mae yr achos yr un yn awr ag ydoedd pan oedd efo yn pwrpas ar eu gwydd yr ymroddion cryfal er dangos ei ddyg- mai: ac o "apelo oddiwrtb Phylip yn foddw at Phylip yn sobr," mae'n sicr na allai feiddwi am well ymwared nag y teulnai mor aggheddiedd o'i werth pan yn fotio gyda Syr Wilfrid Lawson, a phan yn cymeryd ei le mewn Gweinnyddiaeth oedd wedi ymrwymo i ddwyn ymledu a cheinio pamu mesur o Ddewisiad Lleol. Oed y mae'n ymroddgar ymroddgar yr hys o'i allu a'i oestyn i bob y dechra yr ymwared mawr hys rhag melltith sydd yn ei hantwra. Yr oedd ei hamoniaeth gyda golwg ar Ddoddfwriaeth ymroddgar yr awr a chyd, ac yr oedd penodiad y Ddirwestol ac hys yn melltith gyda golwg ar Gymra, yn addewid ar yr awr y mawr ymwared. Ac mi ddygim anghofo fod yn ei hys wedi pamu y mawr ymwared achod, a'n hantwra i fyny i hys ymroddgar.—ac wrth hys i gan eu gwrthod!—osod achos hys a hys y dechra a hys i'r bobl a oeddent am hys y gallu hys i'r hys ymroddion hys, nad oeddent hys y Chamberlain. "nac yn hys nac yn hys," ac heb hys y dechra hys: wneyd yn achod wneyd cymrychiolwyr y hys a hys y bob hys hys ac hys!

Ond fe ddaeth y diwedd pan nad oedd neb yn meddwl am dano. "Yr annisgwyladwy sydd bob amser yn digwydd." A phan ddaeth, fe ddaliwyd o flaen y deyrnas gyflawnder mawr o addewidion teg. Wrth glywed am y gweniaith ffol, y triciau isel, a'r celwyddau dirif gyda pha rai yr oedd boneddigion y blaid Undebol yn ymladd eu brwydr, yr oedd yn anhawdd peidio meddwl am ystori mewn Hen Lyfr sydd yn adnabyddus i ni oll. "Ac Absalom a gyfodai yn fore, ac a safai gerllaw ffordd y porth: ac Absalom a alwai ato bob gŵr yr oedd iddo fater i ddyfod at y brenin am farn, ac a ddywedai, O ba ddinas yr wyt ti? Yntau a ddywedai, O un o lwythau Israel y mae dy was. Ac Absalom a ddywedai wrtho ef, Wele, y mae dy faterion yn dda, ac yn uniawn; ond nid oes neb dan y brenin a wrandawo arnat ti. Dywedai Absalom hefyd, O na'm gosodid i yn farnwr yn y wlad, fel y delai ataf fi bob gŵr a fyddai ganddo hawl neu gynghaws! Myfi a wnawn gyflawnder iddo. A phan nesai neb i ymgrymu iddo ef, efe a estynai ei law, ac a ymafai ynddo ef, ac a'i cusanai. Ac fel hyn y gwnai Absalom i holl Israel y rhai a ddeuent am farn at y brenin. Felly Absalom a ldratäodd galon holl wŷr Israel" (2 Sam. xv. 2—6). Ac fe fu "gwŷr Israel" yn ddigon ehud i roddi i'r bobl hyn,—fel y rhai oedd i'w gwared rhag pob drwg, a'u dwyn ar unwaith i ganol pob digonoldeb ac i'r llwyddiant mwyaf ysbennydd,—eu mwyafrif ardderchog o 152. Yr anhawster oedd cael allan, nid beth a wnaent, ond beth ni wnaent. Addawent yn ddi-betrus liaws mawr o bethau, nid yn unig nad allant eu gwneyd, ond na feddyliant am drawiad amrant am eu gwneyd, ac y buasai yn chwth ganddynt yn wir i neb ddychmygu, wedi i'r etholiad fyned heibio, nad ysmalio yr oeddent. Ond cawsant gan liaws o'r bobl wrando arnynt; llawer heb *feddwol dim*, ond yn drachtio yn ddi-fesur y ddiod feddwol a ddylifai tuag atynt fel ymchwydd yr Iorddonen; ereill heb feddwl ond i ychydig iawn o bwrpas, ond, druain, yn

Disgwyl pethau gwych i ddyfod.

Mae gwaith i fod i bawb, a llwyddiant ar bob galwedigaeth; caiff y gweithwyr fodd i brynu eu tai, a phension yn eu hen ddyddiau; fe symudir y *death duties* y dywedid nad allent lai nag andwyo y pentrefydd, a cheir *protection* ar bob nwyddau amaethyddol er gwneyd y ffarmwyr yn dywysogion, ond heb godi dim ar brisiau ymborth ac angenrheidiau y tlodion; ceir *bimetallism* er mwyn y rhai sydd yn delio â'r gwledydd lle y mae arian, yr hwn sydd yn cyfnewid yn ei werth, ac nid aur, yn gwneyd yr taliadau; diddymir trethoedd y cotwm; ceir *light railways* i'n hardaloedd, heb gostio dim i neb; caiff yr Eglwys ei diogelu yn oes oesoedd, ac ni faidd neb mwy ymyrryd mewn un modd â hawliau cysegredig Masnach y Ddïod, &c., &c. Nid ydyw Arglwydd Salisbury wedi addaw dim, na phrin yngan gair, oddieithr mewn ffordd o raslawn ganiatâu y gallai y peth a'r peth "fod yn deilwng o ystyr-iaeth," neu fod y peth arall "yn un ag y dylid meddwl o ddifrif yn ei gylch," ac felly ymlaen. Dim mwy. Ond y mae corff ei ddilynwyr, a rhai o'i gadfridogion pennaf, wedi llanw y deyrnas â'u haddewidion,—neu a defnyddio geiriau Mr. Balfour ar ol yr etholiad, â'u "rash state-

top at y gyriedydd, fel pe yn teimlo fod ganddo rywbeth o bwys neillduol i'w ddweyd wrtho; ond yr oedd *cabby*—yr hwn a ddygai wynepryd ac a gariar ar ei lygad dē wydryn Mr. Chamberlain—yn dal yr awenau yn gwbl ddi-daro, ac yn fawreddog yn codi ei chwip, a chan edrych i lawr at y ffenestr, dywedai yn hyderus, "Never mind, gentlemen, I know the way." Gwir! Y mae efe yn gwybod y ffordd; ond y mae ymhell o fod yn sicr mai dyna y ffordd y mynnai ei deithwyr ei thrafael! Nid da y cydweithia elfennau anghydryw. Fe wagherddid yng nghyfraith Moses i "arddu âg ŷch ac âg asyn ynghyd." Ac yr oedd Arglwydd Beaconsfield wedi deall oddiwrth ei brofiad ei hun, yn gystal ag oddiwrth hanes, nad ydyw y wlad hon yn cymeryd at *coalitions*, neu geisiadau at gydymuniad nerthoedd nad oes ond ychydig rhyngddynt sydd gyffredin.

Am arwyddocâd y sefyllfa fel y mae, fe'i gosodwyd ger bron yn grynno ac yn gyflawn gan Gymro teilwng ag y mae gennym ni ers llawer blwyddyn barch a chariad mawr tuag ato,—yr hynafgwr meddylgar a hynaws, y Parch. Evan Jones, Bryn Hafren. Wedi clywed darllen o'r papurau gryn lawer o ffigyrau etholiadau y drydedd wythnos yng Ngorffennaf, dywedai: "Wel, wel, dyw anwiredd yr Amoriaid ddim wedi ei gyflawni, nac Israel eto ddim wedi llawn ddysgu gwersi'r anialwch." Am yr "Amoriaid," y mae eu hanes am a fu, yn gystal a'r ysbyrd a ddanghosant yn awr, yn dangos yn lled eglur beth a ellir ddisgwyl oddiwrthynt. Chwedl Mr. Chamberlain ddeng mlynedd yn ol, "Ni newidia y llewparad ei frychni." Ond y mae yn dra phwysig fod "Israel" yn gwneyd defnydd priodol o'r hamdden a gâ yn bresennol er ceisio "llawn ddysgu gwersi yr anialwch." Yr ydoedd wedi myned i bwysu llawer gormod ar y llwyddiant ydoedd wedi fwynhau, ac wedi ymollwng i ddifaterwch esgeulus, gan dybied y gallai chwareu yn ddi-ddeddf gyda'i mympwyon, yn lle ymarfogi dan ddisgyblaeth a chyda gwroldeb teilwng o'i chenhadaeth i ymladd ei rhyfeloedd. Yn awr, sut bynnag, ni a obeithiwn y gofala am astudio y gwersi a roddwyd iddi i'w meistrolï yn yr anialwch. A beth allai y gwersi hynny fod?

Ni a enwn bedwar peth ag sydd, debygem, wedi eu gosod yn neillduol yn ein siars.

1. Nid ydym mewn un modd i gollï ein hym-ddiried yn yr un o'r achosion mawrion ag yr oeddem wedi eu cymeryd i fyny, ac wedi bod yn ymladd o'u plaid. Nid mympwyon hunanoldeb ydynt, er sicrhau pethau gwerthfawr i ni, ar draul gwneyd cam â'n cymdogion, neu mewn dibristod annheilwng o'u hawliau. Ni raid i ni fyned ymhell i weled pethau felly. Mae pobl "y fasnach" yn ddigywilydd yn codi eu baner gan ddweyd, "Our trade is our politics." Mynnent hwy lanw y Senedd â dynion a ymladdent hyd yr anadl olaf o blaid eu masnach hwy,—masnach sydd "ddieffig a dinystriol," sydd yn llanw y deyrnas yn barhaus "â galan, griddfan, a gwae." Drachefn, oddiar dir cyffelyb yr ymlleddir brwydr yr Eglwys yng Nghymru. Mae bywoliaeth dosbarth o ddynion mewn perygl, a theimlir y rhaid gofalu, yn annad unpeth, am danynt hwy. Nid yw o un diben dangos eu bod am oesoedd wedi esgeuluso y gwaith y trefnodd y Wladwriaeth eu bywoliaeth iddynt yn unig am ei wneyd; neu fod Cymru wedi ei llanw â gwybodaeth

grefyddol, nid o herwydd, ond er gwaethaf eu hymdrechion hwynt: ac oni buasai am lafur pobl ereill, y buasai ein gwlad, yn ol addefiadau Eglwyswyr parchus fel y diweddar Arglwydd Penrhyn ac Arglwydd Aberdar yn "wlad baganaidd;" ac nid ydyw chwraith ond ofer dangos fod Eglwysi dadsefydledig ymhob man yn gwneyd yn llawer gwell na phan yn hualau eu caethiwed, ac fod hyd yn oed y gynhaliaeth a roddir i weinidogion crefydd gan gariad Cristionogol y bobl, yn gystal a'u cyfraniadau gwirfoddol at holl amcanion teyrnas Dduw, yn llawer hel-aethach ac yn llawer mwy bendithiol na dim a ellid byth ei wasgu oddi-arnynt trwy gyfraith a gorfodaeth. Y mae uchafiaeth a gobaith elw y sect fach mewn perygl, ac ymleddir dros hynny fel pwnc o gyfiawnder tragwyddol. Yn debyg hefyd efo llawer o bethau ereill. Ond gallwn deimlo yn hyderus fod yr achosion ag y mae Rhyddfrydiaeth yn ymladd drostynt yn achosion dynoliaeth, ac am hynny yn achosion Duw. Mae barn llawer o honynt, bellach, wedi ei hen gario i fudd-ugoliaeth, ac er i Doriaid ryfela yn eu herbryn oll *hyd yr eithaf*, nid oes neb o honynt yn awr na chydabyddant eu dirfawr werth; ie, nid yw yn ormod ganddynt honni iddynt hwy eu hunain yr anrhydedd o fod wedi eu dwyn oddiamgylch! A phethau cwbl o'r un natur ydyw yr amcanion mawrion ag y mae Rhyddfrydiaeth y dyddiau hyn wedi ymdrechu mor egniol o'u plaid. Beth allai fod yn fwy rheymol na bod Iwerddon—gwlad sydd am oesoedd lawer wedi bod dan ddirfawr orthrw m oddiar law Lloegr, ac eto y mae ei llywodraethu yn costio iddi anferth drafferth a dirfawr draul—yn cael gallu i drin ei hachosion cartrefol ei hun, pan y mae yn foddlon i ddal y cyfryw allu mewn perffaith ddarostyngiad i uchafiaeth y Senedd, a chan gymeryd ei rhan o bob cyfrifoldeb fel un o wledydd yr Ymerodraeth? Yr un modd, y mae dal i fyny fel Eglwys Sefydledig yng Nghymru, ac ar draul yr holl boblogaeth, sect nad yw mewn lliaws o'n hardaloedd ond y gallu lleiaf yn nyrchafiad ac addysgiaeth grefyddol y genedl, yn afresymoldeb ac anghyfiawnder ag y mae lliaws o'r Eglwyswyr goreu a mwyaf galluog, erbyn hyn, wedi dyfod i ddwfn gywilyddio o'i blegid. Am Fasnach y Ddiod, sydd yn llanw y wlad a phob trueni ac yn lladd ei miliynau, y mae rhoddi gallu i'r bobl eu hunain, y rhai y proffesir ei chario ymlaen er eu mwyn, i ddweyd pa un a ydynt am ei chael yn eu hardaloedd ai peidio, yn beth mor gyfiawn a theg, fel y mae bron yn anamgyffredadwy sut y mae neb yn gallu dadleu yn ei erbyn. Am y Dirwasgiad Amaethyddol, fe ddelir mai y trefeddiannwyr yn unig sydd i *beidio teimlo dim* oddiwirtho, er i'w tenantiaid gael eu llethu dan ei bwys; a myntumir yr un modd y dylai pawb, pa mor weiniaid bynag y gallont fod, roddi eu hys-gwyddau dan feichiau y treuliau cyhoeddus, ond y boneddigion ag y mae anturiaeth pobl ereill ar eu meddiannau wedi eu gwneyd yn anfesurrol fwy eu gwerth, a heb i hynny gostio yr un geiniog iddynt hwy. Ac yn debyg gyda phethau ereill. Mae y Tortiaid, gyda'r cwbl, fel pe yn credu mai er eu mwyn hwy y crewyd y byd, ac y dylai marwolion ereill ei theimlo yn ddirfawr fraint gael gwasanaethu arnynt. Ond y mae Rhyddfrydiaeth yn ein dwyn oll i deimlo mai brodyr ydym, ac mai ewyllys ein TAD ydyw i ni garu ein cymydog fel ni ein hunain, ac fod cyfiawnder yn hawlfraint i'r tlotaf o fewn y

tir yn gystal ag i'r Brenin ar ei orseddfainc. Nid rhyfedd—fel y mae eithafion yn cydgyfarfod—fod traha gormes, ar y naill law, yn cynhyrchu peth ffolineb yn rhyseidd cydraddoldeb ar y llaw arall. Ond gall ein boneddigion a'n mawrion, sydd yn arsyfdo yn gymaint rhag unrhyw gyfeiriad at hawliau y werin, gysgu yn dawel; nid oes neb yn meddwl am eu hysbeilio o ddim a feddant, na chyfyngu mewn un modd ar eu hawliau cyfiawn; yn unig ni a fynnem ganddynt ddyysgu o'r diwedd fod gan ereill hefyd eu hawliau, ac fod y rheiny iddynt yn llawn mor gysegredig ag y gall yr eiddynt hwy fod iddynt hwythau. Mae *cwbl* y gweithiwr yn gymaint iddo ag ydyw *cwbl* y miliynwr iddo yntau. Mae y *masses* yn greaduriaid Duw mor wirioneddol â'r *classes*, ac y mae cyfiawnder am daenu ei tharian drostynt oll fel eu gilydd. Mae *c* megis y bu o'r dechreuad, ac y mae yn awr, fe fydd hefyd hyd y diwedd yn ofal pennaf Rhyddfrydiaeth fod y gwan fel y cryf yn cael perffaith chwareu teg fel aelod o'r Wladwriaeth. A chan mai pethau a dueddant at hynny—dim mwy a dim llai—ydyw y pethau sydd y dyddiau hyn wedi eu gosod ar ein baner, ni allwn fforddio eu tynnu i lawr. Mae ein genedigaeth-fraint yn anfesurrol rŷ werthfawr i ni feddwl ymadael â hi am unrhyw seigiau na diodydd meddwol ag y mynnai ein mawrion ein denu â hwynt.

2. Y mae gennym hefyd i ddyysgu nad oes dim a ddylai beri unrhyw ddychryn i ni yn y gwahanol esboniadau a gynhygir ar y dymchweliad a fu arnom yn yr etholiad. Ceisir rhoi ar ddeall fod y mwyafrif mawr yn dangos nad yw Home Rule i'r Iwerddon byth i feddwl am dano mwy; fod condemnïad terfynol wedi ei gyhoeddi ar yr amcan "cysegr-ysbeiliol" o ddadsefydlu a dadwaddoli Eglwys y cyfoethogion yn Nghymru; am yr alwedigaeth barchus o gyflenwi y bobl â'r ddiod sydd yn eu difetha, yr alwedigaeth sydd "yn nesaf at amaethyddiaeth," ebai Mr. Chamberlain, yn y goleuni newydd y mae wedi ei gael, "y bwysicaf yn y deyrnas,"—fod Prydain Fawr fel un gwŷr wedi datgan ei phenderfyniad y rhaid i honno gael heddwch i gario ei gwaith dinystriol ymlaen, ac y rhaid i bob crf am Ddewisiad Lleol, neu osod unrhyw gyfyngiad arni, ddistewi am oes y byd; a'r un modd, fod pob amcan i hatru—to harass—"y buddiannau," neu hawliau cysegredig hunanoldeb yn eu holl ffurfiau, bellach i gael ei osod yn gwbl o'r neilldu. "I hope," ys dywedai Mr. Balfour wrth lon-gyfarch y Llefarydd ar ei etholiad, "that we shall have a period of calm and peace." Calm and peace! Nid oedd Jehu yn ŵr i'w edmygu, ond yr oedd ganddo ateb gwych i Joram, pan oedd yntau, fel ei wŷr meirch o'i flaen, yn amlygu yr un dymuniad â Mr. Balfour ac yn gofyn am "heddwch;" yr ateb oedd y gofyniad mawr, "Pa heddwch tra fyddo puteindra Jezebel dy fam di, a'i hudoliaeth mor fawr." Mae heddwch yn fendith werthfawr, ond y mae yn llawer rhy ddrud ar y draul o aberthu cyfiawnder a llochi llygredigaethau. Ond ar wahân i hyn oll, nid ydym ni yn gweled dim o'r terfynolrwydd a bregethir gan lawer gyda chymaint dyhewyd, yn y tro a gymerodd yr etholiadau. Yn anfodus, yr oedd y Llywodraeth flaenorol wedi gosod gormod o fesurau arwraidd ar ei rhaglen, pan yr oedd ei mwyafrif yn bopeth ond arwraidd. Yr oedd yn golled fawr hefyd fod Mr. Gladstone wedi distewi, yr hwn yr oedd ei allu i alw y nerthoedd allan yn ddigyffelyb; diameu hefyd pe buasai Cardinal Manning wedi ei

partner," fel y dywedai Mr. Asquith, " ddioddef yn bur drwm oddiwrth ffit o *hysterics*," ac y mae wedi cyflawni ffolineb ag y mae lle i ofni y caiff rai blynyddoedd i ofidio o'i blegid.

3. Ond ni fydd hynny yn gymaint colled os dysgwn y drydedd wers, sef Ymroddi yn ddiwyd ac egniol i ymbaratoi am ymdrech lawer mwy goleuedig a llawer mwy effeithiol er ceisio cyrraedd yr amcanion mawrion ag yr ydym yn yr etholiad diweddaf wedi bod mor ddifater yn eu cylch. Eisoes, y mae y lliaws addewidion teg a wneid gyda'r fath ddirfawr rwyddineb, yn cael eu prysur anghofio. "Rash statements" oeddynt, ac nid oes neb yn gyfrifol am danynt. "Oni ddaru i ti addo, os baswn i yn dy godi di o'r gerwyn gwrw yr oeddit wedi syrthio iddo, y cawn i di, i wneyd fel y mynnwn â thi," ebai'r gath wrth y llygoden, yr hon oedd wedi cymeryd mantais ar ei gwaredigaeth i ddianc i'w thwll; "gwir," meddai hithau, "ond fe wna dyn mewn diod addo unrhyw beth : " *a man in drink will promise anything!* Buasai y boneddigion parchus, yn wir, yn addaw llawer mwy. Ond os bydd neb yn ddigon diniwed i ddisgwyl iddynt gyflawni yr addewidion a wnaethant, fe genfydd naill ai, ei fod yn amhosibl cael ganddynt eu galw i gôf, neu eu bod yn synnu ddarford i neb fod mor ehud a disgwyl iddynt gyflawni pethau ag y gallasi pawb wybod fod y fath beth yn amhosibl. Fe ddysgir y bobl, sut bynnag, ni a hyderwn, i gymeryd addewidion o'r fath yn y dyfodol am eu gwerth. Yr ydym hefyd yn gobeithio y bydd i'r ddisgyblaeth y rhaid mynd trwyddi y blynyddoedd hyn, ein dwyn i osod llawer mwy o bris ar y pethau mawrion ag y gwnaeth y blaid Rhyddfrydol y fath ymdrech i'w sicrhau, ac y buasai eu cael yn gymaint daioni i'r holl deyrnas, ond na fydd ond gobaith gwan am hynny oddiwrth y rhai sydd yn awr mewn awdurdod. Ac y mae, ymhellach, o bwys tra mawr ein bod yn ein gosod ein hunain yn y ffordd oreu yn nhrefn gweithio, ac felly yn barod at unrhyw ymdrech y gelwir ni ati, ac nid gadael popeth i drugaredd damwain, fel, lawer yn rhy gyffredinol, y bu yn yr etholiad diweddaf. Ac y mae hyn mewn modd neillduol yn golygu y rhaid i ni fod yn *un*. Mae yn dra gefidus gweled y sefyllfa y mae y Gwyddelod ynddi yn bresennol. Yr oeddent am dymor maith wedi bod yn galw am fesur mawr o gyfiawnder, ac yr oedd Rhyddfrydwyr y deyrnas wedi cytuno i geisio ei estyn iddynt. Er mwyn hynny, fe ddarfu iddynt ymdrechu gydag egni digyfelyb o'u plaid, a gwneyd aberth o bopeth er eu mwyn. Ond yn awr y maent yn ddigon ffol i ymrafaelio a chweryla â'u gilydd, a hynny am bethau nad all fod ynddynt unrhyw bwys. Mae yn anhawster i rai y tu allan iddynt amgyffred am beth y gallai eu bod yn ymryson, a pheth a allai fod yn werth iddynt feddwl am dano am drawiad amrant mewn cymhariaeth i'r achos mawr sydd yn galw am eu bod oll yn *un*. Y mae hyn oll wrth reswm yn rhoddi dadl gref yng ngenau eu gwrthwynebwyr yn erbyn caniatâu dim iddynt, ac y mae yn gwanhau bron yn anobeithiol ddwyllaw y rhai fuont yn ymladd mor egniol o'u piad. Os ydyw yn ormod ganddynt adael heibio eu cweyrylon bychain er mwyn ceisio sicrhau y daioni cenedlaethol, pa fodd y gallant ddisgwyl i Ryddfrydwyr y deyrnas barhau i adael o'r neilldu eu holl achosion eu hunain er mwyn ymladd eu rhyfel? Yr oedd gwaith Mr. William Redmond â'i gyfeillion yn telegraphio eu

Mr. Chamberlain, fel Gweinidog y Trefedigaethau, agor marchnadoedd i'n trafndiaeth mewn gwledydd sydd yn awr, i fesur helaeth, os nad yn gwbl, yn gauedig rhagom. Mewn pob amcanion o'r fath, mae yn berffaith sicr y caiff y Llywodraeth y Gwrthwynebiad mor flaenllaw â hithau, oblegid ni fydd, mewn gwirionedd, ond yn cario allan yr amcanion ag y mae bob amser wedi hanfodi er eu mwyn. Ond y mae pob *myned yn ol* at orthrwm ac anghyfiawnder, i'w wrthwynebu hyd yr eithaf. Nid ydym heb weled mewn amryw gyfeiriadau fesur o ymbaratöad at wrhydri o'r fath yma. Y mae hynny, doed a ddel, i'w wrthwynebu yn y modd mwyaf penderfynol. Ac nid yn unig hynny, ond y mae y mesurau Rhyddfrydol mawrion ag y mae sefyllfa y wlad yn galw mor uchel am eu pasio, yn barhaus i gael eu dwyn ymlaen a'u dadleu, er perffeithio addysgiaeth y deyrnas ynddynt, ac felly baratoi y ffordd, wedi dyfod dyddiau gwell, i'w gosod ar ein deddflyfrau, ac felly estyn eu bendith i'r holl boblogaeth.

DANIEL ROWLANDS.

NODIADAU LLENYDDOL.

Y Tadau Methodistiaidd: eu Llafur a'u Llwyddiant gyda Gwaith yr Efyngyl yn Nghymru, Trefydd Lloegr, America, ac Awstralia. Inghyda nifer mawr o Ddarluniau o Bersonau a Lleoedd Nodedig. Gan y Parch. JOHN MORGAN JONES, Caerdydd, a WILLIAM MORGAN, U.H., Pant, Dowlais. Cyfrol I. Cyhoeddedig gan yr Awdwyr. 10s.

CYFEBIASOM at y gwaith hwn ar ymddanghosiad y Rhan gyntaf o honno, ac y mae yn awr yn wir hyfrydwoh gennym gael cyflwyno i sylw ein darllenwyr y Gyfrol gyntaf, yr hon sydd yn un hardd a hylaw, ac o ran ei chynnwys yn gyfoethog o ddyddordeb a bendith. Mae y darluniau yn dda iawn, a chan fod llawer o'r personau a'r lleoedd a ddynodant i filoedd yn dra chysegredig, fe fydd yn hyfryd cael y fath gynorthwyon i ymgynabyddu yn fwy cyflawn â hwynt. Am yr hanes a geir yn y gwaith, y mae yn fwy manwl a chyflawn na dim ag oedd yn ein meddiant o'r blaen, ac yn darllen mor rwydd a naturiol fel na feddylir ond am y *pethau* y gelwir ein sylw atynt. Mae popeth a ysgrifenasid o'r blaen ar y materion a ddygir ger bron wedi eu llawn feistrolï; ac yn enwedig y mae ysgrifeniadau Howell Harris, yng Ngholeg Trefecca,—y rha! gan eu llios-owgrwydd ac anhawster eu llawysgrif nad oedd neb o'r blaen wedi gwneyd ond ychydig ymdrech i ymgynabyddu â hwynt,—wedi eu darllen oll a chyda gofal mawr ar gyfer y gwaith hwn, ac y mae eu hanfod wedi ei gorffori ynddo. Fe gywirir ynddo liaws o amryfuseddau ag yr oedd y Parchn. Thomas Charles, John Hughes, Dr. Thomas Rees, Tyerman, Morgan o Syston, &c., wedi syrthio iddynt, a'r owbl mewn ffordd a bâr i'r darlennydd deimlo boddlonrwydd fod y ffeithiau, o'r diwedd, yn cael eu gosod o'i flaen fel yr oeddent. Am werth a dyddordeb y

...wrth eu dangos. Darllenasm y
 ...mawr iawn o'n cydwydwy
 ...ac fel y rhoddi iddynt eu hunain
 ...adeiladaeth. "Eto cofiaf
 ...Pentecost, nid oes yn holl
 ...un y mae y gwaith hwn yn
 ...ag i gyfeirio at y lliaws o
 ...ond da gennym ddeall y cawn
 ...y gwaith wedi ei hygrifennu gan gyfaill
 ...y Tadaw. Fe deimlir yn neillduol
 ...am Harris a Rowland, dau wr ag y
 ...fawr. Fe wnaeth y sant o
 ...ar ochr i wirionedd mawr, un
 ...y achlysur i darfu ei ddefnyddiol-
 ...y mae yr eglwys a geir yma ar ei gymeriad
 ...fedr i drefnu yn gystal a
 ...eriodd. Ac ystyried ei
 ...nadd oedd ganddo yn ei
 ...y mudiadau a'r ymffurfiau yn ei feddwl ei ei hwn
 ...at arweiniad y golofn, y mae yn rhyfedd i'r
 ...iddo am eu pethau goreu
 ...Cawn yma hefyd oleu newydd ar
 ...berthynas i ymadawiad
 ...Unwaith yn y *Quarterly*
 ...am dani ond gan berson Eglwys, i
 ...ddylanwad digyfelyb ar y
 ...Yn awr fe'n dysgir mai yn yr Eglwys
 ...y ddiolch am ein bod, ac mai
 ...gael ei droi allan. "Yn" yr Eglwys.
 ...Eglwys. Fel am y Ficer
 ...o'n cymwynaswyr mawrion
 ...Tadaw Methodistiaidd
 ...Daniel Rowland allan,
 ...yr ydym yma yn cael Howell
 ...yr. "Y mae Mr Row-
 ...Drachefn wedi cyfarfod Rowland
 ...ynglych rhyw faterion
 ...Y mae Mr Rowland wedi cael ei droi allan, ac nid yw yn
 ...Termau ei bod yn galed arno, ei fod ef y cy-
 ...Mr. Harries, Exn; ac efallai fod hyn yn
 ...Cristals arnynt am berswadio y bobl, yn (1)
 ...mae bron o gwawd ydyw hwnnw, ac y gallai
 ...am adael yr Eglwys ar gyfrif hyn,
 ...yngyfedd neu ymdangos felly, ac yn lliid at yr esgob oblegid
 ...starad yn chwero am waith yr esgob, rhag i
 ...am waith
 ...y fath fodd am Eglwys ag ydoedd bodair gwaith
 ...hynny yn unig oblegid ei fyddlondeb i
 ...y rhoddi dyrchafadau i ddynion oedd yn trybheddu
 ...Eglwys ag oedd wedi gwneyd yr oll a allai, ac yn y ffordd
 ...oedd yn bositl i llesieirio y gwaith y tystiai ei gydwybod
 ...y mae y gwaith hwn yn un o ryfeddodau Hanes, ac yn
 ...y fath fodd daioni a chymaint cariad. Ond yr oedd y
 ...y mae yr oll sydd wedi digwydd o hynny hyd yn awr
 ...y ffordd o hysgrifennu mor anobeithiol a dwn yn ol yr oesoedd o flaen y
 ...y ffordd treuddwyd mor anobeithiol, ymrodded ein cyfeillion
 ...gan ymbaratoi i gyfarfod y cyfnewidiad
 ...y Nhorïaeth y Saeson, yn sicr yn anocheladwy.

Cymerodd y pethau y cyfeiriasom atynt le ar ol adferiad Harris, wedi y tair blynedd ar ddeg poenus y buasai mewn neillduedd oddiwrth ei frodyr; ac yn ystod yr amser hwnaw yr oedd llawer o bethau wedi cymeryd lle, ac nid oedd yn bosibl iddo ef allu troi yn ol y cwr; oeddent wedi gymeryd. Yr oedd Rowland a Williams, a'r brodyr hynaf, wedi ei dderbyn yn ol gyda dirfawr gariad, ac yn awyddus am iddo gymeryd ei le fel o'r blaen fel arolygwr cyffredinol. Ond prin y gallai llawer gyd-ddwyn âf ef, ac yn enwedig fynd allan o'u ffordd er syrthio i mewn â'i deimlad gyda golwg ar Eglwys, teimlad ag oedd yn ymddangos mor afresymol mewn gw'r a gredai ei hunan fod ysgariad y Corff oddiwrth yr Eglwys yn beth na ellid ei osgoi. "Pan y dechreuasai y clerigwyr a'r aegobion erlid y Methodistiaid a nacau y cymundeb iddynt," fel y darlennwn yma, "dywedai Harris mai glynu wrth y bobl a wnelai efe, a dysgwyliai eu gweled yn cael eu bwrw allan, fel prawf y bwriadai yr Arglwydd iddynt fyned yn gyfundeb ar wahân. Yn awr y mae yn beuderfynol o lynu wrth yr Eglwys, hyd yn oed pe gorfyddai iddo gefnu ar ei hen gyfeillion. Pan y gwel yr eglwysydd yn cael eu cau yn erbyn Rowland, ei otal mawr yw na byddo neb yn dweyd gair chwerver am yr aegob; a pharha i freuddwydio am benodiad aegobion efengylaidd, y rhai a osodent y clerigwyr Methodistiaidd yn eu holau, ac a ordeinient y penaf o'r pregethwyr lleygol. Yr oedd y Methodistiaid, a'r tu arall, yn ystod cyfnod neillduaeath Harris, wedi ymddyethrio yn ddirfawr oddiwrth yr Eglwys yn eu teimlad; yr oedd blynyddoedd lawer o erlid, a difrio, a bygwth, wedi gwneyd eu ffith; ac yn awr yr oedd eu hyspryd yn chwerver ynddynt am fod Daniel Rowland, yr hwn a ystyridd yn dywysog Duw yn eu plith, wedi cael ei fwrw allan o'r eglwysydd. Mewn canlyniad, nid aet i gymuno i eglwys y plwyf; a thr cyfranogent o'r elfenau yn y gwahanol gapelau a benodais i hyny. . . Yr unig llyn a gysylltai y Methodistiaid â'r Eglwys y pryd hwn oedd, mai gan glerigwyr y derbyniad y rhan fwyaf o honynt y cymun, ac nad oeddynt wedi ymsymud yn gyffredinol i ordeinio yn eu mysg eu hunain."

Wrth ystyried yr holl amgylchiadau, yr unig ryfeddod ydyw na fuasai y weithred fawr sydd wedi gosod y fath arbenigrwydd ar y flwyddyn 1811 wedi cymeryd lle lawer o flynyddoedd yn gynt.

Hanes Cymru, i Ysgolion, Cyfarfodydd Llenyddol, a Theuluocedd. Rhan I. Hyd farwolaeath I'ruffydd Ab Llewelyn yn 1068. Gan OWEN M. EDWARDS, M.A., Rhydychen. Caernarfon: Swyddfa'r Cymru. 1s. 6c.

CYFROL ddestlus a hylaw, ac i'w mawr groesawu. Mae yn dra anfodus fod cynifer o'n pobl ieuaino yn oedi ac yn awr yn cael eu hyfforddi mor drwyadl yn hanes a helyntion cenhedloedd ereill, ond heb wybod ond nesaf i ddim am eu cenedl eu hux, er fod iddi hithau,—ac ar wahân oddiwrth eu cysylltiad perthynasol â hi,—hanes sydd o'r dyddordeb mwyaf. Mae y llyfrau sydd yn adrodd ei chwedl yn brinion a chostus; ac erbyn hyn, yn neillduol, y maent dan yr anfantais o fod wedi eu hysgrifennu pan nad oedd Hanes yn cael ei ddeall fel y mae yn awr, ac mewn canlyniad nad ydyw yn hawdd i'r rhai a'u hefyrdant wahanlaethu ffiaith oddiwrth ffug, na ohael unrhyw ddirnadaeth am werth hanesyddol y ffugiau swynol sydd wedi ein cyrraedd o'r hen amseroedd. Mae y rhan fwyaf o'r gwaith hwn wedi ymddangos o bryd i bryd fel penodau yn *Cymru*, ond y mae yn dra gwerthfawr ei gael fel yma yn llyfr rhadlawr ar wahân, ac fe ellid disgwyl y bydd cyfrolau ereill yn dilyn. Y mae Mr. Edwards wedi rhoddi ymdrech blynyddoedd i feistrolï y pethau yr ysgrifenna yn eu cylch, ac y mae yn eu gosod ger bron gyda medr yegolheigaidd, a naws a naturiolrwydd gwir athraw. Da gennym ddeall y bydd y gwaith—yr un Cymraeg cyntaf i gael y fath anrhydedd,—yn cael ei astudio ar gyfer Arholiadau Lleol Rhydychen, a diameu y bydd hefyd yn cael ei gymeryd i fyny yn ein Cyfarfodydd Llenyddol, &c. Y mae, o angenheidrwydd, yn gryno, a diau y teimla am un ei fod lawer yn rhy gryno; ond y mae yn Arweiniad o'r fath oreu i'n Hanes, a diau y bydd llawer yn cymeryd mantais ar y gweithiau safonol y cyfeiria atynt yn y "Nodynau," er gwneyd ymchwilïadau pellach, ac felly gyrraedd meddiant llawnach o'r holl faes. Mae yn hyfyrd gennym weled ysbryd iachus o genediggarwch yn awr yn fyfnu ymysg pobl ieuaino Cymru. Y maent yn ymgodi lawer goruwch y slafydd-dra o freuddwydio fod eu gwaed a'u hanes Cymreig yn bethau i gywilyddio o'u plegid, ac mai eu gwynfyd penaf fyddai cael eu llyncu i fyny mor fuan ac y bo modd ym

môr y Saeson. Ac y mae hyn yn eu codi yn anafurol uwch, ie yng ngolwg y Saeson eu hunain, yn enwedig pan y gwelant eu bod yn prysur ddyfod yn gystadleuwyd peryglus â hwynt yn yr oll sydd yn gosod mawredd ar ddyonion mewn gwybodaeth a rhinwedd, ac felly yn eu cymhwysao i'r cylchoedd uchaf mewn gwasanaeth ac anrhydedd. Da gennym weled fod dylanwad Mr. Owen Edwards yn yr ystyr yma yn fendith ac yn nerth. Pob llwyddiant iddo!

Mae yn ddyddorol gweled y driniaeth a dderbynia y Gymraeg wen oddiar law dau o feibion mor fyddiawn iddi â'r rhai a ysgrifenasant y llyfrau hyn. Fel y sylwasom y mae Mr. Morgan Jones,—cansys yr ydym yn cymeryd mai efe sydd yn ysgrifennu yn y llyfr cyntaf, fel mai yr Ûstus tirion sy'n photographio,—y mae yn ysgrifennu yn naturiol a thra darllenadwy. Ond y mae ganddo rai geiriau wedi eu gosod mewn ffrif sydd yn ddiieithr i ni, ac yr ydym ymhell o feddwl eu bod yn glasurol. Nodwn byddyn, gwrthyni, dihyrod, cilfyn (oolomen Noah), a cheir rhai ereill cyffelyb sydd yn feffau anhheilwng o urddas y gwaith. Mae ganddo yntau ei "deyrngar," gair sydd y dyddiau hyn yn cael ei fyn-yohu *ad nauseam* fel yn cael ei olygu yn ddirfawr welliant ar yr hen air gwych, *fyddlon*. Felly "yn ogystal," yr hwn yn sicrnid yw yn agos cystal â'r hen *yn gystal*. Cawn ganddo hefyd y fath gystrawiaeth â na thracht, i'r tafarn, chwech malyne 'd, a gyda, yn Castellnedd. Am ei orgraff, dilyna y drefn gwbl ddiraswm y *Pughe* yn ei lawr ddoethineb wedi ein cael yn ddiogon o ffyliaid i'w dilyn, i'r gadw at freuddwyd y "tarddiadau," a bod yn gwbl ddibris o'r ddeddf fisa sylfaenol, fel y myn arfer, *Ut usus volet*. Y mae Mr. Edwards yn adnabwyd r fel un o'r rhai sydd wedi mentro ameu doethineb yr hydra a gymerodd "i doethawr" Pughe ar Gymraeg ein clasuron a'n cyfieithiad Cymraeg ardderchog o'r Ysgrifthyrau, a dychwelyd at yr hen drefn oedd yn fyfnu mewn dyddiau gwell. Yr unig gyfnewidiad y mae Rhys a'r ysgolheigion Cymraeg wedi wneyd ar orgraff y Beibl, dyweder, ydyw gwneyd i fwrdd â dybliadau afreidiol y cydseiniad cryfion,—acow, etio, cymmod, appwyntio, &c.,—a'u cadw ar ol yr acoen fer gauad gyda'r n a'r r; defnyddio y ffrif di (yn lle dy) pan y mae ar dafod y ganedd (disgybl, disgwyl, diddannu, &c.); ac ysgrifennu h pan seinir hi, gan ei gadael allan o bob man arall. Rhydd Mr. Morgan Jones h yn tynged, ond ni rydd hi yn cenedloedd: gwneuthur yr hyn na ddylai, a gadael heb ei wneuthur yr hyn a ddylai ei wneuthur! Cawn yn y llythyr Cymraeg o eiddo Howell Harris sydd wedi ei photographio yn y *Tadau Methodistiaidd* y fath eiriau a "llonni ein calonnau." Ond ymgroesai Mr. Jones ei hunan rhag y fath "wrthyni!" Mae arddull Mr. Edwards yn rhagorol iawn, ond carem ei weled yntau yn fwy cyson âg ef ei hun, ac ag egwyddor fawr y gyfundrefn y profesa ei fod wedi ei mabwysiadu. Mae ysgrifennu Aber Ystwyth yn rhodres, pan y mae ar dafod pawb yn un gair; felly, yn ddi-ddadi. Ni allwn ddygymod â pheidio dyblu yr n yn anuwiol, &c., oblegid y mae y negyddiad yn rhoi pwys ar y sill: *annuwiol* ydyw, nid *anuwiol*. Beth yw yr h dda yn oenhedlaethau, cyrhaeddasant, ymherawdwr, cymhorth, arhosasant, cynghrair; tra y gadewir hi allan yn cynorthwy, a chynyddu, ac anreithio? Weithiau cawn ym mysg, ym mhob; ac weithiau ymysg, ymhob, &c Cawn Pryden a Phrydain, Rhydychen ac ychain. Cawn cydmaru; os felly, dylai fod yn cydparu. Y mae yntau wedi ei gymeryd gan glefyd yr "ogystal," er y dywed "y doethawr" mai "partly co-equal" yw hynny, ac felly nad ydyw yn agos cystal, er y golygir ei fod yn llawn cystal. Ni wyddom, wrth reswm, i ba raddau y mae llancioau'r waag yn gyfrifol am y pethau y cyfeiriasom atynt a'u cyffelyb, oblegid y mae y gweilch hynny, gŵyr dyn, yn bur anodd eu cadw dan wastrodedd. Ond da fyddai gennym weled yr hen iaith odidog yn cael ei hysgrifennu a'i seinio yn deilwng o honi ei hun; ac er mwyn hynny goreu po gyntaf i ni oll wneyd i fwrdd â'r "dybliadau tarddiadol," neu y pethau a ddychmygir felly, a'i hysgrifennu fel y mae Cymry deallus yr oesoedd yn ei siarad ac yn ei darllen.

TIME TESTED TEAS.

SUPERIOR CEYLON TEA

1/3 PER LB.

16lbs. by RAIL CARRIAGE PAID for 20s.

**SUPERIOR
INDIAN
SOUCHONG**
PER 1/7 LB.
**PRIZE MEDAL
LIVERPOOL
EXHIBITION.**

THOS JONES & CO LTD
TIME-TESTED
Teas

AMSER ADDENGYS
TIME HAS PROVED THAT THOS. JONES & CO'S TEAS ARE UNSURPASSED

THOS. JONES & CO LTD
INDIA-CHINA
TEAS

TESTED BY TIME
THOS. JONES & Co. Ltd.
9, PARKER STREET
LIVERPOOL. TEA & COFFEE MERCHANTS.
BIRKENHEAD SOUTHPORT & BLACKBURN.

**SUPERIOR
BLENDED
TEA**
PER 2/- LB.
**SPECIALLY
RE-
COMMENDED.**

AGENTS WANTED. SAMPLES ON APPLICATION.

Thos. Jones & Co., Ltd.,
TEA IMPORTERS,
9, Parker Street, LIVERPOOL.


COCOA CADBURY


Hollol bur, wedi ei wneyd yn Lloegr.

Ni ddefnyddir Chemicals fel y gwneir yn Coçoas a elwir yn rhai trwm

Mae enw CADBURY ar unrhyw sypyn o Coçoas
neu Chocolate yn ddigon o sicrwydd am burdeb.









**This book should be returned to
the Library on or before the last date
stamped below.**

**A fine of five cents a day is incurred
by retaining it beyond the specified
time.**

Please return promptly.